UNIVERSITY OF TORONTO
3 1761 01483621 7

*ENTERED AT STATIONERS' HALL.*

(The right of Translation reserved.)

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

# RHAGYMADRODD.

Gydâ hyfrydwch mawr yr ydwyf yn cyflwyno y gyfrol gyntaf o Bregethau fy anwyl gyfaill, y diweddar Barchedig EDWARD MORGAN, i sylw fy nghydwladwyr, yn hollol hyderus mai gyda'r un teimlad y bydd yn cael ei derbyn ganddynt hwythau. Y mae pawb sydd yn cofio Mr. Morgan yn cofio hefyd am ei ragoriaethau neillduol ac arbenig fel pregethwr. Yr oedd ei ddoniau gweinidogaethol o raddau uchel anghyffredin. "Ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd" ydoedd, "yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen," ac yn eu dangos i'r tyrfaoedd yn y fath oleuni nes y byddent yn synu at eu gogoniant. Yr oedd ganddo allu anarferol i ddylanwadu ar deimladau ei wrandawyr; a'r dylanwad hwnw, bob amser, o nodwedd hollol bur a theg. Heblaw y byddai ei bregethau yn ddieithriad yn gyflawn o'r efengyl, ac yn llwythog o feddyliau cryfion, gwreiddiol, a phrydferth, ar ei hystyr a'i chynwysiad,—yr oedd y fath gyfoeth o amrywiaeth, a phriodoldeb, a thlysni yn ei gymhariaethau, y fath fywyd, ac yni, a

gwres yn ei deimlad, y fath eglurder, a choethder, a nerth yn ei iaith, y fath hylithrwydd esmwyth, diball, a diataliad yn ei draddodiad, y fath dreiddgarwch, a phereidd-dra, a thynerwch yn ei lais, ac, yn enwedig y fath eneiniad nefol yn gyffredin ar ei ysbryd ef ei hunan, fel y byddai y gwrandawyr, gan amlaf, yn cael eu swyno yn gwbl ganddo, a lliaws, y mae lle i obeithio, yn derbyn lleshad tragywyddol trwyddo. Buasai yn resyn dirfawr i'r fath bregethau a'r eiddo ef fyned ar ddifancoll. Gwelir yn awr nad oes perygl o hyny. Ac y mae yn ddiameu y bydd yn dda iawn gan laweroedd gael yn eu cyraedd, wedi eu hysgrifenu yn fanwl a chyflawn gan yr awdwr ei hunan, y pregethau y cawsant y fath hyfrydwch a budd wrth eu gwrando fel ag i'w galluogi i ail fwynhau, i ryw raddau, yr hyn a deimlid ganddynt pan yn eu clywed o enau y pregethwr byw. Y mae yr holl ragoriaethau a hynodent y pregethau fel ag y traddodid hwynt, can belled ag y gellid eu dodi ar bapyr, i'w cael yn y pregethau argraffedig, ac y mae athrylith a dawn neillduol Mr. Morgan i'w canfod yn gwreichioni yn mhob tudalen o honynt. Ac anfynych iawn y cyfarfyddir â chyfrol mor gyflawn o feddylgarwch cywrain, hyawdledd nerthol, gwreiddiolder drychfeddwl, ac ardderchawgrwydd cymhariaethau, a'r un sydd yn awr yn llaw y darllenydd. Y mae y pregethau wedi eu hargraffu braidd yn hollol fel y gadawyd hwynt gan yr awdwr ei hunan, oddieithr y cywiriadau angenrheidiol tuag at eu parotoi i'r wasg. Weithiau mi a gymerais fy rhyddid i gyflenwi, oddiar fy adgof o'r bregeth yn cael ei thraddodi, ambell gyfeiriad a adewid ganddo

ef yn ei ysgrif yn anorphenol. Ond yn dra anfynych y bu dim angenrheidrwydd am hyny, gan fod yr awdwr yn parotoi mor fanwl a gofalus. Myfi hefyd sydd gyfrifol am y geiriad neillduol a ddefnyddir uwchben pob pregeth, er dynodi y mater arbenig a ddygir ger ein bron ynddi. Y mae y gwaith o ran plygiad, llythyren, argraffwaith, &c., yn mhob modd, mi a dybiwn, yn gyfryw ag y buasai Mr. Morgan ei hunan yn ddymuno, ac, mewn gwirionedd, yn anrhydedd i'r Cyhoeddwr. Ychydig iawn o lyfrau sydd yn ein hiaith a allant, o ran ymddangosiad allanol, ymgystadlu âg ef. Gan obeithio y bydd darlleniad y pregethau yn fendithiol i filoedd yn ein gwlad, a hyny am oesoedd lawer, yr wyf yn dymuno ei gyflwyno yn y modd mwyaf calonog i sylw fy nghydwladwyr.

OWEN THOMAS.

46, Catherine Street, Liverpool,
*Medi 7fed*, 1876.

Teg i mi fy hunan yw hysbysu, mai orgraff y swyddfa yn yr hon yr argreffid y gwaith ydyw yr un, a ddilynir yn y llyfr, ac nid yn hollol yr un a ddewisasid genyf fi fy hunan.

# CYNWYSIAD.


PREGETH I.

MAB AC ETIFEDD.

GALATIAID iv. 7: "Os Mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist." . . 7

PREGETH II.

MAN I NI I GOFIO DUW, AC I DDUW EIN COFIO NINAU.

EXODUS xx. 24: "Ymhob man lle rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac y'th fendithiaf." . . . . . . . . . . . . . 18

PREGETH III.

YR YSBRYD A'R EGLWYS YN GALW.

DATGUDDIAD xx. 17: "Y mae'r Ysbryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." . . . . . . . . . . . . . . . . . . 30

PREGETH IV.

EDIFEIRWCH PECHADUR YN LLAWENYDD I'R ANGYLION.

LUC xv. 10: "Felly, meddaf i chwi, y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo." . . . . . . . . 42

PREGETH V.

ALLAN O GRIST AC YN NGHRIST.

1 CORINTHIAID i. 30: "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth." . . . 54

[illegible] VI.

[illegible]

ESAU lv. 7: "Efe a arbed yn helaeth." . . . . . . . . . . . . 66

## PREGETH VII.

### JACOB A'R FENDITH.

HOSEA xii. 3—6 : "Yn y groth y daliodd efe sawdl ei frawd, ac yn ei nerth y cafodd allu gyda Duw. Iё, cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd : wylodd ac ymbiliodd âg ef : cafodd ef yn Bethel, ac yno yr ymddiddanodd â ni : sef Arglwydd Dduw y lluoedd : yr Arglwydd yw ei goffadwriaeth. Tro dithau at dy Dduw ; cadw drugaredd a barn, a disgwyl wrth dy Dduw bob amser." . . . 77

## PREGETH VIII.

### IACHAWDWRIAETH YN OL GRAS A THRWY FFYDD.

RHUFEINIAID iv. 16 : "Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras ; fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl hâd." . . . . . . . . . 87

## PREGETH IX.

### TEYRNAS DDISIGL.

HEBREAID xii. 28 : "Oherwydd paham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras ; trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn." . . . . 97

## PREGETH X.

### BEDYDD DIODDEFIADAU.

LUC xii. 50 : "Eithr y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef ; ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener !" . . . . . . . . . . . . 110

## PREGETH XI.

### GRAS YR EFENGYL YN GYMHELLIAD I'W DERBYN.

2 CORINTHIAID vi. 1 : "A ninau, gan gydweithio, ydym yn atolwg i chwi na dderbynioch ras Duw yn ofer." . . . . . . . . . . . 121

## PREGETH XII.

### DUW MEWN ABERTH.

EXODUS xxiv. 11 : "Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel ; ond gwelsant Dduw, a bwytasant ac yfasant." . . . . . . . . 133

## PREGETH XIII.

### IACHAWDWRIAETH A FYDD BYTH.

ESAIAH lii. 6 : "Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod : canys y nefoedd a ddarfyddant fel mŵg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw ; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfamod ni ddderfydd." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 144

### PREGETH XIV.

DIDDYMU ANGAU.

2 TIMOTHEUS i. 10: "Yr hwn a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl." . . . . . . . . . 167

### PREGETH XV.

CADARN I IACHAU.

ESAIAH lxiii. 1: "Wyf gadarn i iachau." . . . . . . . . . . . . 191

### PREGETH XVI.

YR HYN A AMLYGWYD YN FANTAIS I WYBOD YR HYN NID AMLYGWYD.

1 IOAN iii. 2: "Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 212

### PREGETH XVII.

MANTEISION A CHYFRIFOLDEB.

MATTHEW xii. 41: "Gwŷr Ninife a gyfodant yn y farn gyda'r genedlaeth hon, ac a'i condemniant hi: am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonas: ac wele fwy na Jonas yma." . . . . . . . . 232

### PREGETH XVIII.

O NERTH I NERTH.

SALM lxxxiv. 7: "Ant o nerth i nerth; ymddengys pob un gerbron Duw yn Sïon." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 253

### PREGETH XIX.

DIWEDD AMSER.

DATGUDDIAD x. 6: "Ac a dyngodd i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yr hwn a greodd y nef a'r pethau sydd ynddi, a'r ddaear a'r pethau sydd ynddi, a'r môr a'r pethau sydd ynddo, na byddai amser mwyach." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 276

### PREGETH XX.

GOGONIANT DUW YN CAEL EI WELED YN SION.

SALM cii. 16: "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon y gwelir ef yn ei ogoniant." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 286

PREGETH XXI.

NERTH DUW YN HEDDWCH.

ESAIAH xxvii. 5: "Neu ymfled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi, ac efe a wna heddwch â mi." . . . . . . . . . . . . . 298

PREGETH XXII.

BYW DAN NERTHOEDD Y BYD A DDAW.

HEB. vi. 6: "Ac a brofasant.... .nerthoedd y byd a ddaw." . . . . . 317

PREGETH XXIII.

MODDION CYMWYS YN ANEFFEITHOL.

JEREMIAH viii. 22: "Onid oes driagl yn Gilead? onid oes yno physygwr? paham na wellâ iechyd merch fy mhobl?" . . . . . . . . . 338

PREGETH XXIV.

BRENIN SION YN DESTYN GORFOLEDD.

SALM cxlix. 2: "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin." . . . . . 359

PREGETH XXV.

TLODI YR ARGLWYDD IESU.

MATTHEW viii. 20: "Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod; ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 380

PREGETH XXVI.

ADDOLIAD TEULUAIDD YN FENDITH I'R TY.

2 SAMUEL vi. 20: "Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ." . . 401

PREGETH XXVII.

PWYSFAWRAWGRWYDD CREFYDD I'R IEUANC.

1 CHRONICL xxviii. 9: "A thithau Solomon fy Mab, adnebydd Dduw dy dad, a gwasanaetha Ef â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar: canys yr Arglwydd sydd yn chwilio yr holl galonau, ac yn deall pob dychymyg meddyliau. O cheisi Ef, ti a'i cai; ond os gwrthodi Ef, Efe a'th fwrw di ymaith yn dragywydd." . . . . 419

PREGETH XXVIII.

CYDWYBOD.

1 SAMUEL xxiv. 5: "Ac wedi hyn calon Dafydd a'i tarawodd ef, oherwydd iddodori cwrr mantell Saul." . . . . . . . . . . . . . 44

PREGETH XXIX.

MAB DYN YN FARNWR.

IOAN v. 27: "Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd oherwydd ei fod yn Fab dyn." . . . . . . . . . . . . . . . 456

PREGETH XXX.

DUW, CARIAD YW.

1 IOAN iv. 16 : "Duw, cariad yw." . . . . . . . . . . . . . . 473

PREGETH XXXI.

YR HYN YW DUW I'W BOBL.

SALM lxxxiv. 11 : "Canys haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw : yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant : ni atal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith." . . . . . . . . . . . 490

PREGETH XXXII.

DIM I DDYN OND CREDU.

MARC v. 36 : "Nac ofna ; cred yn unig." . . . . . . . . . . . 506

PREGETH XXXIII.

DISGWYLIADAU DUW AC YMDDYGIADAU DYN.

MATTHEW xxi. 37, 38 : "Yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd atynt ei fab ei hun, gan ddywedyd, Hwy a barchant fy mab i. A phan welodd y llafurwyr y mab, hwy a ddywedasant yn eu plith eu hunain, Hwn yw'r etifedd ; deuwch, lladdwn ef, a daliwn ei tifeddiaeth ef." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 526

PREGETH XXXIV.

DIYSTYRU DYDD Y PETHAU BYCHAIN.

ZECHARIAH iv. 10 : "Canys pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain." . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 542

PREGETH XXXIII.

YR EFENGYL UWCHLAW CYWILYDD.

RHUFEINIAID i. 16 : "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist : oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu ; i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr." . . . . . 555

# PREGETH I.

## MAB AC ETIFEDD.

GALATIAID iv. 7: "Os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist."

NID oes dim yn fwy eglur mewn creadigaeth a rhagluniaeth na dibyniad y naill beth ar y llall; y peth hwn yn achos, a'r peth yna yn effaith. Yr effaith drachefn yn troi yn achos o rywbeth arall, fel ag y mae yr oll yn ymddangos fel un gyfres fawr o achosion ac effeithiau, cysylltiedig â'u gilydd, a dibynol ar eu gilydd, fel dolenau mewn cadwen. Eto, nid ydyw y cysylltiad a'r dibyniad hwn mewn un modd yn rhyddhau dyn o'i gyfrifoldeb, nac yn ysbeilio Duw o'i lywodraeth fanwl ac uniongyrchol ar bob peth.

Rhagdybir hyn yn y Bibl, a chynwysir ynddo esiamplau lliosog o hono. Dangosir fod sefyllfaoedd neillduol yn anwahanol gysylltiedig â dosbarth neillduol o bethau; megis bod yn y cnawd, neu fod yn yr Ysbryd,—dwy sefyllfa: â'r gyntaf y mae yn gysylltiedig syniad y cnawd, anmhosibilrwydd rhyngu ei fodd Ef, a marwolaeth,—dyna bethau y sefyllfa; â'r ail y mae yn gysylltiedig fywyd a thangnefedd. Neu, y cysylltiad â'r Adda cyntaf:—y mae cyfres o bethau ofnadwy ynglŷn â'r sefyllfa yna, pethau sydd yn anocheladwy yn terfynu mewn marwolaeth. Neu, y cysylltiad â'r ail Adda:—y mae ynglŷn â'r sefyllfa yna fod yn etifedd, yn etifedd i Dduw, yn gyd-etifedd â Christ. Ac os y bydd pob un drosto ei hun yn rhoddi cyfrif i Dduw, ac y bernir pob un yn ol ei weithredoedd, eto bydd y gweithredoedd hyny yn cael eu barnu mewn cysylltiad â sefyllfa y neb oedd yn eu cyflawni hwynt: os yn y cnawd y

bydd hwnw, ni allant ryngu bodd Duw; oblegid, i gael y ffrwyth yn dda, rhaid cael y pren yn dda yn gyntaf. Ac er nad ydyw bod yn yr Ysbryd yn atal i bechod fod yn bechod (y mae pechod yn fawr ddrwg yn y sant perffeithiaf, fel yn y pechadur mwyaf), eto y mae y gwahaniaeth mwyaf rhwng bod peth yn cael ei gyflawni oherwydd gwendid egwyddorion da, rhagor oherwydd amddifadrwydd llwyr o honynt. Gall y Cristion, oherwydd hyn, ddywedyd am bob pechod,—"Nid myfi,...........ond y drwg sydd yn bresenol gyd a mi." Y mae y Cristion yn Nghrist; ac un o'r pethau sydd yn anwahanol gysylltiedig â'r sefyllfa yna ydyw,—"y maddeuir anwiredd y rhai a drigant ynddi."

Yn awr, i ddyfod i gysylltiad â dosbarth neillduol o bethau, y mae yn rhaid dyfod i sefyllfa benodol: y mae y pethau a'r sefyllfa yn anwahanol gysylltiedig â'u gilydd. Nis gellir osgoi y naill tra yn y llall. Oherwydd hyn, y mae y Bibl yn aros cymaint gydâ'r sefyllfa, i roddi argraff ar y meddwl mai hyn ydyw y peth mawr y dylem ni bryderu yn ei gylch. Plentyn, gelyn; —gwas, mab;—dyna sefyllfaoedd gwahanol. Nid yr hyn sydd yn fy nghyfarfod sydd yn bwysig i mi, ond beth ydwyf, h.y. beth ydyw fy sefyllfa. Os gelyn ydyw fy sefyllfa, yna nid ydyw hawddfyd yn arwydd i mi er daioni. Os plentyn ydyw fy sefyllfa, nid ydyw blinderau yn argoel i mi o farn Duw. Os gwas ydyw fy sefyllfa, nid ydyw fy rhoddi ar farch dros ychydig yn werth sylwi arno. Os tywysog ydyw fy sefyllfa, nid ydyw fy rhoddi i gerdded yn y llaid dros ychydig yn werth sylw ychwaith.

Dyna sydd gan yr apostol yn y testyn:—sefyllfa a'i phethau, perthynas a'i breintiau: "Os mab, etifedd hefyd." Ni a alwn eich sylw atynt yn y drefn yna am ychydig.

I. Y berthynas: "*mab.*" II. Ei rhagorfreintiau: "*etifedd i Dduw.*"

I. Y berthynas: "*mab.*" Y mae y gair *mab* yma yn cynwys mwy na pherthynas naturiol creadur a Chreawdwr. Fe elwir Adda oherwydd y berthynas yna yn "fab Duw," a dynion yn gyffredin yn "hiliogaeth Duw." Fel y cyfryw y maent yn dwyn delw Duw; fel y mae mab yn dwyn delw tad, sef ei ddelw naturiol, er, ar ol y cwymp, nad y foesol a'r ysbrydol. Ond y mae yr hyn a gysylltir â'r berthynas yn y testyn, sef ei phethau,

yn dangos ar unwaith mai nid hwnyna ydyw ystyr yr enw "mab" yma. Y mae i'r enw hefyd ystyr ddyfnach yn y testyn nag sydd iddo yn y lleoedd y dywedir fod Israel fel cenedl yn feibion. "Eiddo y rhai," medd yr apostol, "yw y mabwysiad." Nid ydoedd y berthynas yna yn ddim ond un allanol, amserol; ac felly nid oedd y pethau cysylltiedig â hi ond allanol ac amserol, fel y berthynas ei hunan. Yn y testyn, fe ddefnyddir y gair "mab" i ddangos y berthynas ddirgeledig, ysbrydol a gwirioneddol, y dygir pechadur iddi yn nhrefn yr efengyl, yr hon berthynas sydd yn wahanol yn ei natur i bob perthynas arall sydd rhwng yr anfeidrol a neb o'i greaduriaid. Y mae'r angel yn fab Duw, fel y dengys yr ysgrythyr hono:—"Pan gyd-ganodd sêr y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw." Ond y mae yn rhaid fod rhyw wahaniaeth yn natur perthynas angel â Duw a pherthynas "mab" y testyn; oblegid fe beidiodd nifer mawr o angylion a bod yn feibion, ac fe beidiodd Duw a bod yn Dad iddynt hwythau. Yr oedd hono yn berthynas y gellid ei newid, oblegid fe'i torwyd hi; ond nid felly un y testyn: y mae hon, nid yn unig yn un na newidir, ond yn un nad ellir ei newid.

Cyferbynir hi yn y Testament Newydd â thair sefyllfa arall, sef gelyn, estron, a gwas. Cyn i'r Galatiaid paganaidd gael eu dwyn i'r berthynas hon, yr ydym, yn yr adnod ar ol y testyn, yn cael eu bod yn gwasanaethu y rhai wrth naturiaeth nid oeddent dduwiau: y maent yna yn *elynion*. "Weithian," medd yr apostol wrth yr Ephesiaid, "nid ydych chwi mwyach yn ddieithriaid a dyfodiaid, ond yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw." Y sefyllfa y cyfeiria yr apostol ati yna yw *estron*. "Felly," medd yr apostol, 'nid wyt ti mwy yn wâs, ond yn fab:' dyna y drydedd. Y mae graddolrwydd i'w weled yn y tair sefyllfa. Y mae y gyntaf, gelyn, yn hollol wrthwyneb i sefyllfa y testyn. Y mae yr ail, sef estron, yn dangos sefyllfa o ddieithrwch a phellder. Y mae y drydedd, sef gwas, yn dangos math o berthynas rhwng pleidiau, ond ei bod hi yn un bell. Y mae bod yn estron yn well na bod yn elyn; y mae bod yn was yn well na bod yn estron; ond y mae y "mab" yma yn rhywbeth gwell na'r oll: mab, ac nid gelyn; mab, ac nid estron; mab, ac nid gwas. Dyma'r berthynas.

Perthynas seiliedig ar ras ydyw. Y mae y ddau air, *gelyn* ac *estron*, y rhai a fuant unwaith yn ddarluniad o wrthddrychau y berthynas hon, yn dangos fod yn rhaid mai un seiliedig ar ras ydyw; felly y mae yn un sydd yn rhoddi i'w pherchen, yn wyneb deddf, hawl mewn pethau nad oeddent yn perthyn iddo fel arall. "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad,.......er mawl gogoniant ei ras ef:" oddiyna y cychwynodd hi. Ond os perthynas seiliedig ar ras ydyw, sef ar "foddlonrwydd ei ewyllys ef," pa le, meddir, y mae ei sicrwydd hi? Oblegid y mae yn debyg i Eleazer o Damascus fod yn fabwysiedig gan Abraham, ac i Ismael fod yn fabwysiedig gan Sarah; ond aeth Eleazer yn was yn ei ol, ac Ismael yn 'fab y gaethes' drachefn, yn lle bod yn fab y wraig rydd. Ond am hon, er mai perthynas o ras ydyw, nid oes dim ansicrwydd yn perthyn iddi, am mai perthynas ydyw sydd yn dyfod i ni yn rhinwedd undeb â Christ, gan ein bod yn gyd-etifeddion âg Ef, yr hyn sydd yn dilyn y berthynas. Y mae yn rhaid fod rhyw gyffelybrwydd yn y berthynas ei hun i'r eiddo Ef: ïe, oni ddywedir ei fod wedi ei wneuthur ymhob peth yn gyffelyb i'w frodyr, yn ei gysylltiadau â phethau y byd hwn? Y mae ei frodyr hefyd wedi eu gwneuthur, yn eu perthynas â Duw, ymhob peth yn gyffelyb iddo yntau, hyd y goddef natur feidrol fod yn debyg i un anfeidrol. Beth ydyw ei berthynas Ef â Duw. Y mae yn uniganedig Fab Duw; felly nid all neb ddyfod i'w le Ef byth. Isaac a ddaeth i lanw lle Eleazer ac Ismael, yr hyn a fu yn achlysur iddynt hwy gael eu bwrw allan; ond y mae perthynas yr uniganedig â'r Tad yn gyfryw ag y mae anmhosibilrwydd yn natur pethau i neb ddyfod i'w le Ef. Yn ei berthynas â'i frodyr, "cyntafanedig" ydyw "ymhlith brodyr lawer." Y mae hon hefyd yn berthynas na ellir ei newid byth. Cysylltwch y ddwy â'u gilydd, ac fe welir sicrwydd perthynas y testyn. Yn ei berthynas â Duw, uniganedig Fab ydyw; yn ei berthynas â'i frodyr, cyntafanedig ydyw. Y mae sicrwydd parhad perthynas y brodyr yn gorphwys, ar fod yr Hwn sydd yn gyntafanedig, yn ei berthynas â hwynt, yn uniganedig yn ei berthynas â Duw. Felly y mae eu perthynas hwy â Duw, hyd y gall y meidrol fod yn gyffelyb i'r anfeidrol, yn gyffelyb i berthynas yr uniganedig â'r Tad. Yr oedd yn bosibl cymeryd

lle Ismael, gan mai ar foddlonrwydd ewyllys yr oedd y berthynas yn ymddibynu: gallasai yr un peth ag a roddodd fod iddi ei difodi; ac felly y bu. Ond nid un felly oedd perthynas Isaac: yr oedd hono o'r fath natur fel nad allesid ei difodi. Mab, unig fab Isaac,—a phe buasai yn bosibl uno rhai âg Isaac mor agos, fel ag i wneuthur Isaac, oedd yn uniganedig yn ei berthynas â'i dad Abraham, yn gyntafanedig yn ei berthynas â hwynt; yna, buasai mor anhawdd difodi eu perthynas hwynt âg Abraham, ag oedd difodi perthynas Isaac ei hun. Y mae hyn yn cael ei wneuthur yn nhrefn yr efengyl; fel, er mai perthynas seiliedig ar foddlonrwydd ewyllys ydyw, y mae hi mor sicr a pherthynas tragwyddol Fab Duw â'r Tad. Dyna hi yn sicr o ran dim a all ddyfod oddiallan i'w thori. Y mae hi mor sicr oddimewn hefyd, oblegid y mae pawb sydd ynddi wedi derbyn ysbryd mabwysiad: felly nid mab yn ngolwg cyfraith yn unig ydyw, ond mab mewn gwirionedd. Am eu bod yn feibion yn yr ystyr gyntaf, sef trwy fabwysiad, yr anfonodd Duw "Ysbryd ei Fab" i'w calonau. Nid ysbryd meibion: gallasent gael hwnw, a bod fel angylion: ond "Ysbryd ei *Fab*," Ysbryd yr uniganedig, y cyntafanedig. Onid ydyw hyn yn rhoddi math o debygolrwydd yn y berthynas? Y mae yr un peth yn cael ei ddarlunio mewn lle arall, yn dywallt cariad Duw yn y galon. Amlygiad o'r ysbryd hwn ydyw "llefain Abba, Dad." Yr oedd y mabwysiad yn rhoddi hawl i wneyd hyny,—gallu i fod yn feibion i Dduw; ond derbyniad ysbryd mabwysiad sydd yn rhoddi y teimlad, y mae Abba, Dad, yn amlygiad o hono. Er bod Ismael yn fabwysiedig gan Sarah, eto, fe ddangosodd, yn ei waith yn gwawdio Isaac, nad oedd ynddo ysbryd mabwysiad; am hyny fe dorwyd y berthynas. Ond nis gall dim ansicrwydd byth godi i berthynas y testyn o'r cyfeiriad yna. Y mae pob mab yn "llefain Abba, Dad." Dyma berthynas pechadur â Duw yn nhrefn yr efengyl; ac wrth edrych arni, nid rhyfedd ydoedd i'r apostol ddywedyd:—"Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw." Y mae dau beth mewn cysylltiad â'n galw ni yn feibion, yn amlygu mawredd y cariad. Ymhlith yr hen genhedloedd, nid oedd neb yn mabwysiadu estroniaid ond y rhai a fyddent heb blant o'u heiddo eu hun. Fe waherddid gwneyd hyny gan gyfraith

ymysg y Rhufeiniaid; ond y mae yn debyg nad oedd llawer o achos rhoddi y gyfraith hono mewn gweithrediad, am na theimlid odid un amser demtasiwn i'w throseddu hi. Nid ydoedd yn beth hynod gweled Abraham wedi, neu yn bwriadu mabwysiadu Eleazer i fod yn etifedd iddo, pan ydoedd yn ddiblant, ond buasai yn beth rhyfedd ei weled yn gwneuthur hyny wedi geni ei fab Isaac: eto hynyna a wnaed â ni. Nid am nad oedd ganddo Fab y mabwysiadwyd ni gan Dduw; na, yr oedd iddo Fab, a hwnw yn uniganedig Fab. Nid am nad ydoedd yn caru y Mab hwnw y mabwysiadwyd ni; na, yr oedd yn hyfrydwch iddo beunydd, yn anwyl Fab, yn briod Fab: eto, wele y cariad tragwyddol yn rhedeg ar y ddynoliaeth. Gwelwch pa fath gariad! Dyma beth newydd na chlybuwyd am ei fath o'r blaen, ac ni chlywir am ei debyg byth mwy.

Eilwaith, ein galw ni yn *feibion*, gwelwch eto pa *fath* gariad! Ni a allasem gael ein cadw, sef cael dianc rhag y digofaint sydd ar ddyfod, heb ein dwyn i'r berthynas o feibion. Yr wyf yn meddwl fod sail yn y Bibl i wneyd sylw fel hyn,—sef, y gallasem ni gael ein cadw fel y cafodd y Gibeoniaid eu harbed rhag dinystr gan Josua, heb eu dyrchafu i fwynhau breintiau Israel; neu fel yr arbedwyd Adoniah a Simei gan Solomon, ond heb eu hadfer i'w holl freintiau blaenorol. Fe allesid cadw Moses gan ferch Pharaoh rhag dinystr plant yr Hebrëesau, heb ei ddyrchafu i lys ei thad; felly gallasai dyn gael ei gadw rhag dinystr heb ei wneuthur yn fab. Onid hyn a awgrymir yn narluniadau y Bibl o fawredd gras yr efengyl? Bywyd, a bywyd helaethach; iachawdwriaeth, ac iachawdwriaeth gymaint; gras, a rhagorol olud o hono. Y mae un o'r Puritaniaid yn dywedyd, fod ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist, yn rhyw beth mwy na'n hethol ni ynddo i fod yn sanctaidd. Y mae cyfiawnhau yn rhywbeth mwy na maddeu; ond y mae mabwysiadu yn rhywbeth mwy na chyfiawnhau. Fe elwir sylw at fawredd cariad Duw at ddyn, pan y dywed yr apostol Paul fod Duw yn canmol ei gariad tuag atom; ond y mae yr apostol Ioan yn galw sylw, nid at ei fawredd, ond at ei natur:—gwelwch *pa fath* gariad, cariad na welwyd ei debyg yn cael ei amlygu at neb creadur; ond y mae ei fawredd yn dyfod i'r golwg yn ei natur. Nid cariad yn gwneyd digon i'n cadw ni, ond cariad na

allasai wneyd dim mwy, gan iddo ein gwneyd yn feibion. Nid cariad a'i freichiau yn ddigon hir i'n codi ni o'r pydew erchyll; buasai hyny yn ein cadw ni, ond cariad,—wedi ein codi i'r lan, a ymaflodd ynom wedi hyny, ac a'n dyrchafodd hyd eithaf hyd y breichiau tragywyddol. Meibion i Dduw,—hon ydyw y sefyllfa y mae y testyn yn son am dani.

II. Gadewch i ni edrych ar ychydig o freintiau y sefyllfa neu y berthynas hon: "Os mab, *etifedd* hefyd i Dduw trwy Grist."

Y mae yma ddwy neu dair megis ar wyneb y testyn: 1. Rhyddid. 2. Sicrwydd. 3. Digonoldeb.

1. Braint gyntaf y mab ydyw rhyddid. Y mae yr apostol yn y benod hon yn cyferbynu sefyllfa y gwas a sefyllfa yr etifedd â'u gilydd; y gwas yn gaeth, yr etifedd yn rhydd. Sefyllfa y gwas ydoedd sefyllfa eglwys yr Hen Destament. Bachgen—dim rhagor rhwng hwnw a gwas. Yr oedd hi yn gaeth dan wyddorion y byd. Ysbryd caethiwed oedd ei hysbryd hi. Ond yn awr wedi derbyn Ysbryd mabwysiad; nid gwas mwy, ond mab,—etifedd. Y mae caethiwed wedi ei symud, a rhyddid wedi dyfod i'w le. Rhyddid yn gyntaf yn ei berthynas â Duw, ac, yn ganlyniad o hyny, yn ei berthynas â phob peth arall. Wedi i berffaith gariad plentyn fwrw allan o'r fynwes ofn gwas, y mae yno ryddid yn wir. Nid oedd yr atalfeydd oedd o dan yr Hen Destament i gadw dynion yn y pellder, ond amlygiad o bellder perthynas, a phellder teimlad yr eglwys y pryd hyny: cerubiaid i gadw rhag myned at bren y bywyd, llèn i atal rhag myned i'r cysegr sancteiddiolaf, terfyn o amgylch y mynydd rhag i neb hylldremu. Dyna siampl o honynt; ond yn awr, nid oes yr un o'r atalfeydd yna ar ffordd rhyddid y mab, yr etifedd.

Y mae rhywbeth annrhaethadwy o werthfawr mewn rhyddid o bob natur. Rhyddid gwladol,—teimlad dyfnaf calon dyn, mewn llawer amgylchiad, ydyw cariad at hwn: nid oes yr un aberth yn ormod i'w wneuthur er ei fwyn. Y mae yn well gan filoedd farw na bod hebddo. Dyna ydyw hwnw, dyn yn cael ei *rights*, ei hawliau, ei iawnderau,—yn cael cyfiawnder ymhob peth. Ond y mae rhywbeth annrhaethol uwch na hynyna mewn rhyddid mab. Y mae rhyddid y deiliaid o fewn i derfynau deddf; ond y mae hwn uwchlaw deddf. Pethau yn perthyn i'r

gweision ydyw deddfau, nid i'r etifedd. Y mae y gwas yn cael ei rwymo ganddynt, ond y mae yr etifedd yn wr rhydd erddynt oll. Ysbrydion gwasanaethgar ydyw yr angylion er eu holl ogoniant. Y mae llawer lle na chaiff angel ddim myned iddo. Ni chawsant erioed eistedd ar y ddeheulaw; ond y mae y ddeheulaw, a phob man arall, yn rhydd i'r mab.

Y mae rhywbeth mewn rhyddid etifedd sydd yn rhoddi meddiant iddo ar bob peth. Yn lle talu teyrnged, ei chael hi y mae ef. Fe dâl gorthrymder deyrnged o ddioddefgarwch iddo. Fe dâl cystudd deyrnged o amynedd. Y mae pob peth yn ei dderbyn fel etifedd. Pan oedd Tywysog Cymru, ychydig flynyddoedd yn ol, yn teithio yn y Dwyrain, ac yn America, yr ydoedd yn wr rhydd i fyned i bob man, ac i fwynhau pob peth. Y lleoedd yn y Dwyrain oedd yn arfer bod yn gauedig i ddieithriaid, yr oeddent oll yn agor eu pyrth led y pen iddo ef. Ond y ffaith ei fod ef yn etifedd coron Prydain oedd y rheswm am hyny. Felly yma, y mae gan etifedd y testyn ryddid; ac onid priodol y galwodd yr apostol ef yn rhyddid gogoniant plant Duw. Ni fedrwn ni ddim sylweddoli, ond yn dra anmherffaith, beth ydyw hyn,—Beth ydyw cael creadigaeth heb yr un porth ar un o'i hystafelloedd. Pob pren yn mharadwys heb yr un cerub i'w gadw; y *Shechinah*, a holl ddirgeledigaethau y sancteiddiolaf heb yr un llèn i'n hatal i fyned atynt. Rhyddid gogoneddus!

2. Y rhagorfraint nesaf ydyw sicrwydd—*etifedd.* Nid oes sicrwydd perffaith yn perthyn i ddim ar y ddaear; ond y peth agosaf at hyny ydyw etifeddiaeth. Fe all y marsiandwyr mawrion fyned yn dlodion, am fod masnach yn anwadal; ond am y dyn sydd yn byw ar ei etifeddiaeth, y mae sicrwydd na welir mo hwnw felly. Y mae hi yn disgyn o oes i oes, heb fod yn agored i anwadalwch a chyfnewidiadau masnach. Ac onid ydyw ein masnachwyr a'n marsiandwyr sydd yn llwyddo i gasglu cyfoeth yn amcanu prynu ystâd—etifeddiaeth—âg ef, er mwyn trwy hyny sicrhau ei barhad yn y teulu? Os mab, etifedd. Dyna sicrwydd meddiant. Darfu i Abraham roddi rhoddion i feibion Ceturah; ond Isaac oedd yr etifedd, ac iddo ef y rhoddodd efe yr hyn oll oedd ganddo, sef yr etifeddiaeth. Yr ydym yn colli golwg yn y fan ar feibion Ceturah: digon

tebyg iddynt, er y rhoddion, syrthio i ddinodedd, ac feallai i dlodi; ond nid felly Isaac, yr etifedd. Yr ydym yn cael ei hanes ef yn parhau i fyw yn fras ar ei ystâd. Pa un ai ar roddion ai ar eich etifeddiaeth yr ydych chwi yn byw? Os ar roddion, pa faint bynag sy genych o honynt, y mae yn fwy na thebyg y gwelir chwi yn dlawd; ond os ar etifeddiaeth, beth bynag a'ch cyferfydd, ni chyfarfyddwch chwi â thlodi byth. Y mae yr Arglwydd, fel Abraham, yn rhoddi rhoddion i bawb, ond i'r etifedd y mae yn rhoddi cymaint ag a fedd. Y mae hyn yn ein harwain at y

3ydd sylw, Digonoldeb,—*etifedd i Dduw*. Beth ydyw maint ystâd yr etifedd? Ni ofynai neb gwestiwn fel yna, os byddai yn gwybod am ystâd y Tad, oblegid hono ydyw hi. Os gofynwch chwi i mi, beth yw maint etifeddiaeth "mab" y testyn? yr ateb goreu a fedraf fi ei roddi i'r cwestiwn ydyw, mai etifedd i Dduw ydyw. Maint ystâd y Tad ydyw mesurau ystâd yr etifedd. Pe gofynech chwi, Beth yw etifeddiaeth Duw? yr ateb fyddai, Efe ei Hun. Y mae ei weithredoedd yn rhyfedd; ond nid ydynt ond amlygiadau o fewn terfynau o bethau sydd ynddo Ef ei Hun yn ddiderfyn. Y mae Duw yn anfeidrol fwy na'i weithredoedd. Y mae llawer o ryfeddodau yn natur dyn; ond nid digon iddo fyw arno ei hun am ddiwrnod. Ond y mae Duw wedi byw arno ei Hun am dragwyddoldeb: er bod ei ddeall yn aneirif, yr oedd digon o ryfeddodau yn ei hanfod i lenwi y deall aneirif, digon o ddaioni yn ei natur i foddloni yr ewyllys ac i lenwi y galon ddwyfol. Gelwir Ef y Bendigedig, nid am fod eraill yn ei fendigo; yn yr ystyr yma y mae goruwch bendith a moliant pawb; ond am ei fod yn fendigedig ynddo ei Hun. Y mae yn annibynol ar bob peth. Wele etifeddiaeth "etifedd" y testyn! nid yn unig y mae yn werthfawr yn awr, ond y mae yn etifeddiaeth y byddis yn gwneuthur darganfyddiadau ynddi tros byth. Yr oedd llawer etifeddiaeth ar y ddaear yn werthfawr gan' mlynedd yn ol; ond erbyn heddyw y maent yn fil mwy gwerthfawr nag oeddent y pryd hyny, oherwydd darganfod trysorau ynddynt nad oedd neb yn tybio eu bod yno gan' mlynedd yn ol. Yn etifeddiaeth etifedd y testyn y gwneir darganfyddiadau. Y mae cryn nifer wedi eu gwneyd eisoes. Yr Arglwydd ydoedd yr enw i'r Cynddiluwiaid; ond erbyn

dyddiau Abraham y mae yn Dduw Hollalluog, neu Holl-ddigonol: erbyn dyddiau Moses y mae yn Jehofah, ceidwad cyfamod, maddeuant, &c.; yn nyddiau y Salmydd, yr ydoedd yn Dduw byw; erbyn amser y Testament Newydd, yr ydoedd yn Dduw y cariad, ac yn Dad yn y nefoedd. Trysorau yr etifeddiaeth yn dyfod i'r golwg ydoedd hyn; ac fe wneir darganfyddiadau ynddi tros byth. Gall y gair acw daflu goleu ar ei maint hi:—"Cyd-etifedd â Christ." Y mae rhai yn tybio mai sicrwydd y meddiant sydd yn cael ei ddangos yma; y Mab naturiol a'r mab mabwysiedig yn cyd-etifeddu; felly nis gallai y naill werthu yr etifeddiaeth heb gydsyniad y llall. Y mae hynyna yn wirionedd, ond nid hynyna ydyw yr ystyr yma, Cyd-etifeddu â Christ ydyw etifeddu fel Crist; nid o ran graddau, ond o ran natur. "Y gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy." "Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi." "Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd;" nid y llawenydd y mae dy Arglwydd yn ei roddi iti, ond y llawenydd a roddwyd iddo Ef ei Hun yn wobr am ddioddef y groes. "Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo eistedd gyda mi ar fy ngorseddfainc." Cyd-etifeddu â Christ eto, i wybod pa fodd y mae Efe yn etifeddu. Darllenwch y benod gyntaf o'r epistol at yr Hebreaid, a chwi a welwch fod gwahaniaeth nad ellir traethu ei faint rhyngddo a'r creaduriaid mwyaf urddasol—"eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-leoedd,"—"enw mwy rhagorol" ganddo nag un angel: Duw yn Dad iddo; yntau yn Fab: holl angylion Duw yn ei addoli;—"yn etifedd pob peth." Dyna gip-olwg ar y gogoniant a roddwyd iddo ef. "Y gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy." Y mae undeb mor berffaith rhwng y Tad a'r Mab, fel y mae y cymundeb yn berffaith; beth bynag ydyw y Tad iddo ei Hun, y mae yn hyny hefyd i'r Mab: "fel y byddont hwythau un ynom ni"—"cyfranogion o'r ddwyfol anian."

"Os mab, etifedd i Dduw trwy Grist." Nid ydoedd yn rhyfedd i Luther alw y gwirionedd gwerthfawr hwn yn obenydd o fân-blu i Gristion roddi ei ben yn dawel arno, heb i ofn na phryder gyraedd ei fynwes o unrhyw gyfeiriad. Onid oes rhywbeth yn y berthynas yn ddigon i beri i bawb ei

dymuno hi. Gwir, meddwch, ond ni waeth i mi heb ddymuno perthynas o'r natur yna. Nid oes fodd i mi ddyfod i mewn iddi. Mi a glywais am un hen frawd yn pregethu yn flasus am y cyfamod yn ei gadernid, fel modrwy gron, a dau fachgen yn ymddiddan â'u gilydd wrth fyned o'r odfa,—" Onid oedd ——— yn pregethu yn rhagorol? Onid oedd o yn dweyd yn ogoneddus am y cyfamod, fel modrwy gron?" "Oedd," meddai y llall, "ac yn hapus iawn i'r rhai sydd o'i fewn: ond rywfodd, ni buaswn i yn fy myw yn gallu gweled un bwlch i mi i fyned trwyddo i mewn iddo." Ond nid felly y mae hi yma. Y mae yma fwlch i fyned i mewn; a dyma fo, *trwy Grist.* Cysyllta dy hun â Christ, ti a lithri i mewn ar unwaith i'r berthynas. "Cynifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw;" a diben yr efengyl ydyw ceisio eich perswadio i dderbyn Crist. Derbyn Ef—dyna di yn fab; "ac os mab, etifedd hefyd i Dduw." Hyny a fyddo ein rhan ni oll. Amen.*

[* Adysgrifenwyd y bregeth hon gan yr Awdwr, Ion. 27, 1871.]

## PREGETH II.

### MAN I NI I GOFIO DUW, AC I DDUW EIN COFIO NINAU.

Exodus xx. 24: "Ymhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac y'th fendithiaf."

LLEFARWYD y testyn gan Dduw wrth Moses ar Sinai, yn fuan ar ol rhoddiad y ddeddf. Yn y rhan gyntaf o'r ddeddf, gosodir allan berthynas dyn â Duw, a'r dyledswyddau sydd yn codi o'r berthynas hono. Gwaherddir iddo dduwiau eraill heblaw yr Arglwydd; a gwaherddir iddo hefyd wneuthur delw o'r gwir Dduw: a gellir edrych ar y testyn fel cyfarwyddyd iddo gyda golwg ar wasanaeth Duw; Duw yn rhoddi coffadwriaeth o'i enw, ac yn y fan hono yn dyfod i'w fendithio.

Y mae cyfeiriad cyntaf ac uniongyrchol y testyn at yr allor, y tabernacl, a'r deml, pa rai yn arbenigol oeddent y lleoedd lle yr oedd yn rhaid addoli: ynddynt yr oedd coffadwriaeth enw Duw, ac iddynt yr oedd Efe yn dyfod i fendithio. Dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd, sef addoli yn gyhoeddus, neu yn gynulleidfaol, yn nyddiau Seth; a thrwy ysbaid maith y ddwy fil a mwy o flynyddoedd, o hyny hyd roddiad y ddeddf, y mae yn ddiau fod duwiolion yn arfer gwneuthur hyny, a'i wneuthur hefyd yn ol a thrwy gyfarwyddyd dwyfol. Ond gallwn gasglu, nad oedd gweledigaeth eglur ar y mater, a'i fod yn debycach i oddefiad nag i orchymyn; hyny yw, fod addoli yn gyhoeddus yn debycach i wneyd prawf i edrych a atebai y peth y diben, nag i ymarfer â pheth oedd wedi ei fwriadu i ddiben penodol, ac oedd yn sicr, o'i iawn arfer, o ateb y diben hwnw. Pan ddaeth Noah o'r arch, fe aberthodd ac a offrymodd boeth-offrymau;

hyny yw, dybygid, fe wnaeth y peth fel *experiment:* ac y mae yr hanes dilynol yn dangos i'r anturiaeth droi allan yn llwyddianus; oblegid fe aroglodd yr Arglwydd arogl esmwyth ei foddlonrwydd ar y gwasanaeth, ac fe fendithiodd Noah a'i feibion mewn canlyniad iddo. Ond yn awr, wrth Sinai, yr oedd cyfnewidiad mawr ar gymeryd lle; yr ansicrwydd oedd ynglyn â'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei symud ymaith, a'r hyn oedd o'r blaen yn fath o *experiment* yn dyfod yn drefn. Nid dynion yn galw ar enw yr Arglwydd fel un yn preswylio yn y nefoedd,—fel un, feallai, a wrandawai ar eu llef; ond Efe ei Hun yn rhoddi coffadwriaeth o'i enw ar y ddaear, ac, wrth wneuthur hyny, yn rhoddi ei air y gwrandawai Efe arnynt. Mewn cymhariaeth i'r hyn oedd yn bod o'r blaen, yr oedd yn briodol galw hyn yn breswylio gydâ dyn ar y ddaear, fel y gwneir gan Solomon ar gysegriad y deml. Hyn oedd tŷ yr Arglwydd dan yr hen oruchwyliaeth,—lle i Dduw breswylio gydâ dyn ar y ddaear; ac y mae addewid yr Arglwydd Iesu yn profi nad ydyw newid goruchwyliaeth wedi newid dim ar garictor y tŷ; canys lle bynag, medd Efe, y "mae dau neu dri wedi ymgynull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Felly, er i'n testyn gael ei lefaru o dan yr hen oruchwyliaeth, mewn cysylltiad â'r tabernacl a'r deml, y mae addewid yr Arglwydd Iesu yn dangos y gellir, gydâ phob priodoldeb, ei gymhwyso at bob man y mae addoli ynddo. Y mae y fan hono yn lle coffadwriaeth enw Duw, ac yn lle y gellir ei ddisgwyl Ef iddo i fendithio. Nid y tŷ hwn, neu unrhyw dŷ arall, fel adeilad noeth a olygir felly; ond y tŷ mewn cysylltiad â'r gwasanaeth penodol, ac â'r gyfundrefn o foddion gras a ddygir ymlaen ynddo: yn y cysylltiad hwnw y mae yn dŷ i Dduw,—yn fan coffadwriaeth ei enw. Nid oedd y tabernacl yn ddim ar wahan oddiwrth y gwasanaeth pwysig oedd yn cael ei ddwyn ymlaen ynddo; ond mewn undeb â hwnw, yr oedd yn lle gogoneddus ac ofnadwy, yn lle preswylfa a gogoniant Duw. Felly nid yw yr adeilad hon, yr ydym ni yn awr ynddi, yn ddim ynddi ei hun; ond yn ei chysylltiad â chyfundrefn o foddion gras, a threfn iachawdwriaeth, y mae yn briodol cymhwyso ati yr enw goruchel o dŷ yr Arglwydd; y fan y mae coffadwriaeth enw Duw ynddo, a'r fan y mae Efe wedi addaw

dyfod i fendithio. Yn y testyn, y mae y tŷ yn cael ei ddangos mewn dau olygiad:—

I. Fel lle i ni gofio Duw:—"ymhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw."

II. Fel lle i Dduw ein cofio ni: "y deuaf atat, ac y'th fendithiaf."

I. Y mae yn lle i ni gofio Duw: "coffadwriaeth o'm henw." Wrth enw y deallir amlygiad gweledig o natur a chymeriad y gwrthddrych a enwir. Yr oedd yr enwau a roddodd Adda ar y creaduriaid yn Eden yn amlygiad o natur y creaduriaid hyny. Y mae pechod wedi dyrysu hyn fel pobpeth arall, fel nad ydyw enw ar y ddaear, ond yn rhy anaml, yn amlygiad cywir o natur neu gymeriad y gwrthddrych a enwir. Ond yn y byd ysbrydol y mae y ddeddf mewn grym eto: yno eto, fel y mae enw pob un, felly y mae yntau. Gan hyny, wrth enw yr Arglwydd y golygir, yr amlygiadau hyny sydd yn dangos pa fath un ydyw Ef ei Hun. Wrth 'goffadwriaeth o'i enw,' yr ydym i ddeall mai fel hyn, hyny yw, yn gyson â'r amlygiadau hyn, y mŷn gael ei adwaen. Exod. iii. 14, 15. "Dyma fy enw byth, a dyma fy nghoffadwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth." Y mae Moses, pan yn cael ei anfon ganddo at Israel, yn gofyn iddo, "Beth yw dy enw di?" Yr ateb ydyw, "Ydwyf yr Hwn ydwyf." "Ydwyf,—dyma fy enw byth:" a pha amlygiad newydd bynag a all ddyfod i'r golwg, ni bydd ond amlygiad newydd o'r hen enw; oblegid, "dyma fy nghoffadwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth." Y mae yr enw yn cynwys y dadguddiad y mae Duw trwy ei weithredoedd wedi ei wneuthur o hono ei Hun; a'r coffadwriaeth yn cynwys yr argraff a wna y dadguddiad hwnw ar y byd o genhedlaeth i genhedlaeth.

Y mae y tŷ, fel cartref enw Duw, yn cynwys fod ynddo amlygiad o fod Duw yn bod, ac hefyd o ba fath un ydyw. Elfen gyntaf addoli ydyw credu fod Duw yn bod. "Y mae yn rhaid i'r rhai sydd yn dyfod ato, gredu ei fod;" ac y mae yn y tŷ fantais arbenig i hyny, am fod yr "enw" neu yr amlygiad o Dduw sydd yma yn gyfryw na ellir mo'i wadu. Y mae iddo lawer yn pregethu ei fod; y mae y nefoedd yn dadgan ei ogoniant, a'r ffurfafen yn mynegi ei hun yn waith ei ddwylaw Ef. Y mae wedi ysgrifenu ei enw ar y nefoedd, ac y mae hefyd

yn ardderchog ar yr holl ddaear; ond y mae llawer yn nghanol y pethau hyn yn haeru nad ydyw yn bod. Nid ydyw cerfiad llythyrenau yr enw mor ddwfn yna, fel nad all llygad deall llygredig fethu ei ddarllen; ond am y tŷ, mae yr enw mor eglur yma, fel nad ellir dyfod iddo, a gwadu ei fod Ef yn bod. Rhaid i'r neb a fynai ei wadu, gilio o'r tŷ. Y mae YDWYF wedi ei ysgrifenu yno yn rhy eglur i neb ei wadu. Proffesa rhai nad ydynt yn dangos dim parch i'r tŷ, na byth yn dyfod iddo, eu bod yn credu fod Duw yn bod: ond pan y chwilir i'w enw, pan yr holir hwynt ynghylch eu Duw, fe welir mai nid credu yn y Duw byw y maent, ond mewn *idea*, mewn dychymyg o'u heiddo eu hun, mewn rhyw un sydd yn rhy fawr i'w addoli; sydd â'i anfeidroldeb yn gyfryw fel ag i'w osod yn rhy bell i'w garu a'i barchu. Neu ynte, credu y maent mewn rhyw fod sydd yn ei weithredoedd, fel enaid mewn corff; fel ag y mae eu duw hwynt, naill ai yn cael ei golli yn y pellder oddiwrthynt, neu yn cael ei golli yn ei waith: ond ni waeth pa un o'r ddau, oblegid y mae y naill syniad fel y llall yn eu gwneuthur mewn gwirionedd, "heb Dduw yn y byd." Y mae Deistiaeth yn arwain yn anocheladwy i Atheistiaeth. Nid oes neb mewn gwirionedd yn credu fod Duw yn bod, ond y rhai sydd yn darllen ei enw yn y tŷ. Yma yr wyf yn cofio ei fod yn bod: yn Fod Hollalluog; Hollbresenol; Hollwybodol; yn ddoeth o galon; ac yn meddu hefyd ar y priodoliaethau moesol hyny a sicrhant drefn a daioni eithaf ei greadigaeth fawr. Y mae anfeidroldeb yn perthyn iddo ymhob peth. Y mae yr anfeidroldeb hwn, er ei fod mewn un ystyr yn ei osod yn annrhaethol bell, mewn ystyr arall yn ei osod yn annrhaethol agos. Am ei fod yn anfeidrol y mae yn preswylio tragwyddoldeb: am ei fod yn anfeidrol, nid ydyw nepell oddiwrth yr un o honom. Yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod, ynddo ar y ddaear. Y mae yn ei weithredoedd, ac eto y mae ar wahan oddiwrthynt,—yn Dduw personol, ac yn Dduw byw: ac nid ychydig ydyw gwerth y tŷ, pe nad atebai yr un diben ond peri i ni deimlo fod Duw yn bod.

*Fy enw*: y mae hyn yn cyfeirio yn benaf at ba fath un ydyw y Duw mawr. Ni chafodd ddigon o le i ysgrifenu ei enw yn un man ond yn y tŷ. Nid oedd dim arall yn ddigon mawr i gynwys ond llythyren neu ddwy o hono. Yr oedd yr enw yn

hwy na'r ddaear, yn lletach na'r môr, yn rhy fawr i wyneb y nefoedd ei gynwys. Nid oedd neb yn gweled ond llythyren neu ddwy o hono ar unwaith, dim ond rhanau ei ffyrdd; a'r canlyniad oedd, fod y doethion yn methu ei wneyd allan; a methu y buasent byth, am nad oedd y llythyrenau oll ddim yno. Ond yn y tŷ, y mae yr enw yn gyflawn, fel y dywedodd y bardd:—

> "Pa ddawn sydd yn y Duwdod mawr,
> Nad yw 'n ysgrifen yma i lawr?"

*Fy enw*: y mae hyn nid yn unig yn dangos perffeithrwydd y dadguddiad o Dduw sydd yn ei dŷ, ond yn cyfeirio at natur y dadguddiad hwnw,—at amlygiadau penodol. Yr oedd dau enw yn perthyn i Dduw dan yr Hen Destament: un yn enw cyffredinol, a'r llall yn enw neillduol, sef *Elohim* a *Jehofah*. Elohim oedd Duw y greadigaeth; Duw 'r gallu, y mawredd, a'r anfeidroldeb. Jehofah oedd y Duw hwn fel yr Ydwyf mawr yn dwyn o amgylch ac yn gweithio allan iachawdwriaeth ei bobl. Pan yn ymddiddan â Moses, fe ddywed wrtho, "Myfi yw Jehofah." Exod. v. iii. Nid ydym i feddwl nad oedd yr enw fel enw yn adnabyddus i'r Patriarchiaid, oblegid y mae yn ddiau ei fod; ond y meddwl ydyw, na bu dim dadblygiad neu ddadleniad ar yr enw; ni ddaeth i'r amlwg yn y cymeriad o Jehofah. O dan yr enw Duw Hollalluog yr ymddangosodd i Abraham, Isaac, a Jacob: gallu a amlygwyd yn ei wahanol oruchwyliaethau tuag atynt hwy. Ond yn awr, medd Efe:—"Myfi yw Jehofah;" yr Annibynol, yr Holl-ddigonol, yr Anghyfnewidiol, y Tragywyddol; ac fel y cyfryw, Cywirwr cyfamod, Cyflawnwr addewidion: a chan mai Jehofah ydwyf, rhaid i Israel ddyfod o'r caethiwed. Gan i mi wneyd cyfamod âg Abraham, rhaid naill ai newid fy enw i neu y mae yn rhaid i Israel newid eu lle. Am ei fod yn Jehofah y gwnaeth Efe gyfamod: "Myfi, wele, mi," medd Efe, pan yn ei adnewyddu, "a wnaf fy nghyfamod â thi;" fel pe dywedasai, Paid sôn am dy annheilyngdod na dim arall, oblegid yn yr anfeidrol gyflawnder sydd ynof fi fy Hun, y mae yr holl reswm am dano: am fy mod yn Ydwyf y mae yn cael ei wneuthur. Nid oes genyt ti ddim i'w roddi; nid oes arnaf inau eisiau dim: Ydwyf yr Hwn Ydwyf. Wedi gwneuthur cyfamod, am ei fod yn Jehofah, y

mae yn ei gofio. Yr un perffeithrwydd anfeidrol ag oedd yn ei gymell i'w wneuthur, sydd yn ei gymell i'w gadw.

Y mae ei enw fel Duw Hollalluog yn dangos y gall lywodraethu pob peth, a'u troi yn wasanaethgar i'w bobl; ond y mae yr enw Jehofah yn dangos fod ynddo Ef ei Hun ddigon iddynt ar wahan oddiwrth bob peth. Y mae'r cyntaf yn dangos y gall Ef beri i'r haul sefyll i'w gwasanaethu; i'r dyfroedd groesi eu deddfau er eu mwyn; i'r tân, a'r cenllysg, a'r gwynt ystormus wneuthur ei air Ef iddynt. Y mae hyn yn beth mawr; ond y mae yn yr enw Jehofah fwy: y mae ynddo beth fel hyn:—Ni raid iddynt fyned at yr haul i ymofyn goleuni, neu i'r meusydd i chwilio am ymborth, neu i'r afonydd a'r ffynonau i chwilio am ddwfr; y mae Jehofah yn ystordy o bob peth ei Hun. Fel Duw Hollalluog, gallasai droi pob peth oedd mewn bod o'u plaid; ond pe digwyddai fod rhy fach i gyflenwi ein hanghenion mewn bod, nid ydyw hyny o ddim pwys: y mae Efe yn YDWYF YR HWN YDWYF ei Hun; am hyny gall alw y pethau nid ydynt fel pe byddent. Hwn ydyw yr enw y mae coffadwriaeth o hono yn y tŷ.

*Coffadwriaeth o'r enw*: nid yr enw yn unig sydd 'yma, ond hefyd coffadwriaeth o'r enw, *memorial.* Y mae llawer peth yn cael ei wneuthur er coffadwriaeth ymysg dynion; ond yn ol y maent oll yn edrych,—nid ymlaen. Cofio rhywbeth a fu yn unig y maent, heb ddim sail yn y peth i ddisgwyl peth cyffelyb ar ei ol. Codwyd llawer coffadwriaeth i Wellington ar ol brwydr Waterloo, ond nid oedd y coffadwriaethau hyny yn ddim cysur i'r wlad erbyn i ryfel y Crimea a'r India ddyfod, oblegid yr oedd Wellington wedi marw: ond am goffadwriaeth y tŷ, coffadwriaeth fyw ydyw; Perchen yr enw yn gwneuthur rhywbeth yn barhaus i brofi gwirionedd yr enw. Y peth hwnw ydyw y coffadwriaeth: fel pe dywedasai yr Anfeidrol, Hon yw y llanerch ar yr hon y dywedaf eto, "Myfi yw Jehofah." A dweyd trwy wneyd y mae Duw: *bydoedd* oedd *bydded* Duw yn y greadigaeth: gweithredoedd ydyw coffadwriaeth ei enw yn y tŷ. "Megis y mae dy enw," medd y Salmydd, "felly y mae dy fawl hyd eithafoedd y tir:" y mae dy weithredoedd yn cyfateb i'r enw, ac yn llanw yr holl dir â dy fawl. "Megis y clywsom, felly y gwelsom yn ninas Arglwydd y lluoedd, yn ninas ein

Duw ni." Ni a glywsom yr enw cyn cychwyn oddi cartref: ni a welsom bethau yn y ddinas, a barant i ni ei gofio yn dragywydd,—'Coffadwriaeth o'i enw.'

Y mae Duw yn bresenol yn barhaus yn y greadigaeth: nid ydyw cynal, ar ryw ystyr, ond parhad o'r weithred o greu. Ond y mae yn dra hawdd anghofio hyn: y mae sefydlogrwydd a pharhad pobpeth y greadigaeth yn dyfod i feddwl llygredig dyn yn demtasiwn i anghofio Duw presenol. Yr un haul sydd yn bod yn barhaus yn y ffurfafen: yr un bydoedd sydd yn y nefoedd o hyd; oherwydd hyny y mae yn haws i ni deimlo a dywedyd, "Fe fu Duw yma," na theimlo, "y mae Duw yma yn awr." Ond pe buasem yn ei weled yn lluchio haul newydd yn awr ac eilwaith i'r ffurfafen, yn llanw rhyw gŵr o'r ëangder â chyfundrefn newydd o fydoedd yn awr ac yn y man, buasai yn rhy anhawdd peidio teimlo a dywedyd, "Y *mae* Duw yn wir yn y lle hwn,"—nid fe fu yma. Peth fel hyn ydyw coffadwriaeth yr enw sydd yn y tŷ: nid cofio Duw a fu, ond cofio Duw sydd yn parhau i gyhoeddi ei enw a'i weithredoedd yn Ydwyf. "Ti a ddrylliaist ben lefiathan; rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch." Gwaredigaeth y Môr Coch a olygir wrth ddryllio pen y lefiathan. Wrth ei roddi yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch, y golygir—nid y byddent byw wrth gofio gwaredigaeth y môr, ond y caent fyw am ddeugain mlynedd ar waredigaethau cyffelyb i hono. Yr oedd yno rywbeth yn peri iddynt gofio bob dydd mai Duw y Môr Coch oedd Duw yr anialwch hefyd. Fel y clywsant ar lan y môr, felly y gwelsant am ddeugain mlynedd, yr enw a'r coffadwriaeth.

Y mae yn wir fod Duw yn gwneuthur llawer o bethau nad ydyw ei enw ddim yn eglur eglur arnynt, er na wnaeth Ef ddim nad ellir, ond ei ystyried, canfod mai ei waith Ef ydyw; ond am bethau y tŷ, y mae yr enw arnynt mor eglur fel y gall y neb a redo ei ddarllen. Yr oedd rhai o wyrthiau yr Aipht yn gyfryw ag yr oedd yn bosibl eu priodoli i ryw un heblaw i Dduw. Gwnaeth y swynwyr bethau cyffelyb: ond yr oedd yno un y bu raid i anghrediniaeth ei hun ardystio fod bys Duw ynddi. Y mae yn bosibl, oblegid y mae llawer yn gwneyd hyny, priodoli pethau natur i ddamwain,—i ddeddfau,—i nerthoedd,—i rywbeth heblaw i Dduw personol,—i Dduw byw.

Y mae yr enw arnynt oll; ond arnynt yn y fath fodd fel na wêl neb ond yr ystyriol ef: ond am bethau y tŷ, y mae wedi ei *stampio* mor ddwfn arnynt fel nas gellir ei guddio. Y mae dynion gydâ'i weithredoedd ereill yn rhy fynych yn ei ysbeilio o'r clod oddiwrthynt, fel y gwnai y swynwyr gydâ'r gwyrthiau: gwnant fydoedd o gyd-gyfarfyddiad damweiniau, a llanwant y bydoedd hyny â chysuron trwy ddeddfau natur heb Dduw: ond yn y tŷ bydd yn rhaid cyfaddef, "Y mae Duw yn y lle hwn," am fod yr enw yn tanbeidio ar bob peth sydd yno. Beth a welwn ni yno? Y blaid gryfaf yn deisyf ar y wanaf i ddyfod i gymod; y neb a ysbeiliwyd o'i hawliau cyfreithlawn yn myned i'r draul i geisio iawn ei Hun; y Deddf-roddwr yn llunio trefn i faddeu i'w elyn! Gwaith pwy ydyw y pethau hyn? Y mae yr olwg gyntaf arnynt yn peri i ni deimlo mai nid gwaith dyn ydynt. Pwy biau y pethau hyn? Y mae yr argraff, y *stamp*, yn dangos mai eiddo Duw ydynt.

*Yr enw a'r coffadwriaeth.* Jehofah ydyw yr enw: yr esboniad goreu i ni arno ydyw edrych arno, os goddefwch iaith felly, yn ei waith. Pa fath un yw Jehofah? Wel, os gwaith sydd i ateb, dyna y fath un ydyw,—un a fedr wneuthur Amoriad yn dywysog Duw;—un a fedr wneuthur cyfaill o eilunaddolwr Ur y Caldeaid; un a fedr drosglwyddo ei eiddo mawr, ac Ef ei Hun hefyd, iddo mewn cyfamod. Pa fath un yw Jehofah? Os gwaith sydd i ateb, un ydyw a fedr wneyd cenedl o *slafiaid* yn feibion ac yn ferched iddo ei Hun,—dryllio eu cadwynau, plygu pob peth i'w gwasanaethu; a phe digwyddai na byddai digon mewn bod i hyny, gall "alw y pethau nid ydynt, fel pe byddent." Dyma yr enw: coffadwriaeth o hwn sydd yn y tŷ. Pethau fel y rhai hyn a wneir gan Berchen yr enw yn y tŷ hyd ddiwedd amser: gwneyd gelynion yn gyfeillion, estroniaid yn blant, trosglwyddo ei gyfoeth mawr mewn cyfamod i dlodion, agor moroedd o rwystrau, boddi byddinoedd o elynion, peri i'r nefoedd wneyd i fyny am holl ddiffygion y ddaear. Dyma fydd fy nghoffadwriaeth o genhedlaeth i genhedlaeth. Maddeuwr oedd ei enw yn amser Moses: dyma ydyw ei goffadwriaeth eto. Un yn myned heibio i anwiredd, oedd ei enw yn yr hen oesoedd: dyma ydyw ei goffadwriaeth eto. Tŵr cadarn i'r sawl a ymddiriedant ynddo oedd ei enw yn nyddiau

ein tadau: dyma ydyw ei goffadwriaeth eto. Y mae yn y tŷ le i ni gofio Duw.

II. Y mae y tŷ hefyd yn lle i Dduw ein cofio ninau. Dau ddiben yn fwyaf cyffredin sydd i roddiad enw ar unrhyw beth, sef, naill ai i'r gwneuthurwr gael clod oddiwrth y peth hwnw; neu ynte i gymell y neb a wêl yr enw at y gwneuthurwr i geisio peth cyffelyb. Ond bwriedir i'r enw yn fynych ateb y ddau ddiben hyn. Rhydd y crefftwr medrus ei enw ar ei gywreinwaith i gael clod oddiwrth ei waith, ac hefyd i gymell ereill i ddyfod ato i geisio pethau cyffelyb. Y mae yr Arglwydd wedi rhoddi ei enw yn y tŷ i'r ddau ddiben, sef, i fod yn gôf-golofn o'i gymeriad byth, yn amlygiad tragywyddol o'i ogoniant uchaf, ac hefyd i gymell ereill i ddyfod ato i geisio ganddo wneuthur pethau cyffelyb: yn ngeiriau y Salmydd, "i *fynegi* enw yr Arglwydd." Dyna un diben i roddiad yr enw: "i'w fynegi." Ac hefyd, "fel y gosodai yr oes a ddêl, sef y plant a enid, eu gobaith ar Dduw." Dyna ddiben arall. Yn awr, y mae dyfod i'r tŷ i gofio Duw yn y cymeriad hwn,—i'w gofio fel Jehofah, yn sicrhau y daw yntau yno i'n cofio ninau, sef i wirio yr enw i ni hefyd: "y deuaf atat, ac y'th fendithiaf;" y deuaf atat yn y cymeriad yna,—yn yr enw hwn. Pan y mae Duw yn cyhoeddi ei enw yn unrhyw le, y mae hyny bob amser yn cynwys ei fod yn dyfod i'r golwg yn y cymeriad hwnw. Os dywed ei fod yn Dduw Hollalluog, gellir, yn y canlyniad, ddisgwyl amlygiadau neillduol o allu. Os cyhoedda Efe ei Hun yn Arglwydd y lluoedd, gellir, yn y canlyniad, ddisgwyl gweled pob llu yn plygu iddo. Os cyhoedda Efe ei Hun yn Jehofah yn ei dŷ, gellir disgwyl gweled yno holl gyfoeth yr enw yn dyfod i'r golwg. Y mae yr enw hwn oll yn fendithion: "y deuaf atat, ac y'th fendithiaf."

1. Daw atom yn ei dŷ i'r fan lle yr ydym,—y wedd fyddo arnom: Jehofah ydyw. Y mae hyn yn dangos cyfaddasder y bendithion i ni yn ein sefyllfa ymhob gwedd arni. Nid oes yma neb yn rhy annheilwng i'w derbyn. Jehofah sydd yn bendithio. Nid oes yma yr un trueni nad ellir ei symud: Jehofah sydd yn bendithio. Nid oes yma yr un angen nad ellir ei ddigoni: Jehofah sydd yn bendithio. Y mae angen dyn yn fawr hefyd. Y mae angen y ddaear am ddwfr, mewn

ystyr naturiol, mor fawr, fel y gellid ameu weithiau a ydyw yn bosibl ei ddiwallu. Rhaid iddi gael afonydd a nentydd i redeg rhwng ei mynyddoedd, a thrwy ei dyffrynoedd, onidê fe ä ei dyffrynoedd ffrwythlawn hi yn ddiffeithfäoedd, ac fe drenga holl anifeiliaid y maes. Rhaid i'w ffurfafen hi gael ei thöi â chymylau,—i'r rhai hyny ddiferu gwlith a gwlaw ar borfeydd yr anialwch, fel ag i "beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd, a llysiau at wasanaeth dyn:" yn ychwanegol at hyn, y mae yn perthyn i'r ddaear filoedd lawer o greaduriaid, elfen bywyd pa rai ydyw dwfr: ond er maint ac er amrywiaeth yr angen, y mae mewn un môr ddigon i'w cyflenwi oll: digon i döi ei ffurfafen â chymylau, digon i beri i afonydd ymddolenu trwy ei dyffrynoedd, digon i ddiodi holl anifeiliaid y maes, digon i dòri syched asynod gwylltion yr anialwch, digon i wneuthur trigfa y dreigiau a'u gorweddfa yn gyfle corsenau a brwyn; ac ar ol gwneuthur yr holl bethau a enwyd, y mae ynddo ddigon wedi hyny i'r aneirif greaduriaid sydd o'i fewn yn chwareu ynddo. Nid yw angen y ddaear am ddwfr ond cysgod gwanaidd o dy angen ysbrydol di yn ei amrywiaeth ac yn ei faint: i ddangos ei amrywiaeth, fe'i darlunir yn dlodi, yn ddallineb, yn gaethiwed, yn newyn, yn noethni: i ddangos ei faint, fe'i darlunir ef yn bob trueni wedi cydgyfarfod, sef yn farwolaeth. Ond y mae bendithion y tŷ yn ei gyfarfod ymhob gwedd arno; oblegid Jehofah sydd yn bendithio; ac yn ngeiriau y bardd:

> "Môr sydd ynot o fendithion,
> Heb waelodion iddo 'n bod!"

Os oes eisiau claddu dy feiau di, fe wna y môr hyny: os oes eisiau mwydo dy ddaear di â chawodau, y mae defnydd gwlaw hefyd yn y môr: os oes eisiau tòri syched dy ddymuniadau di, y mae yn yr afonydd sydd yn rhedeg o'r môr ddigon i hyny, ïe, pe byddai eu syched hwynt fel syched y Behemoth. Ni thyni di afon ei hyfrydwch Ef oll i'th safn yn dragywydd. "Môr sydd ynddo o fendithion." Y mae y bendithion yn eich *ffitio* chwi, yn gymwys, yn gyfaddas i chwi.

2. Ni a welwn eu gwerth: "y deuaf atat." Y mae yn dyfod â hwynt ei Hunan: yr oeddent yn rhy werthfawr i'w hanfon gydâ neb. Anfon y rhai tymhorol y mae: caiff yr haul ddyfod

â'r goleuni i ni; y ddaear ddyfod â bara i ni; fel gydag Elias, caiff rhyw gigfran gario y bara a'r cig, cynhaliaeth y corff: ond am fendithion y tŷ, nid yw yn anfon y rhai hyn;—bara y bywyd, daw â hwnw ei Hunan. "Hwn a ddyry Mab y dyn i chwi."—Rhaid iddo gael maddeu dy bechodau di ei Hun. Rhaid iddo gael rhoddi gras ei Hun. Yr ydoedd wedi anfon llawer rhodd werthfawr i Jacob gydâ'i dad Isaac; ond yr oedd ganddo un rodd rŷ werthfawr i'w hanfon gydâ neb,—daeth â hono ei Hun. Fe'i cyfarfu yn Bethel i roddi ei Hun yn Dduw iddo. Peth go ffodus i Jacob oedd dyfod y noson hono ar ddamwain i le a drodd allan i fod yn dŷ Dduw. Bu felly i filoedd ar ei ol ef." "Mi a'th gyfarfyddaf yno."

Ond yn awr cyn terfynu, mi a ddymunwn i chwi sylwi ar ryw ddau beth:—

1. Gan fod yma dŷ i Dduw, ni ddylai neb o honoch fod heb ei fendithio. Fe fu y bendithion unwaith yn brinion ar y ddaear. Yr oedd y wlad o ba un yr oeddent yn dyfod yn bell, a'r ffordd iddi yn lled ddieithr. Yr oedd yr aur a'r arian yn lled brinion yn Jerusalem cyn dyddiau Solomon, ac nid dieithr hyny, oblegid yr oedd Ophir a Tarsis, eu gwlad hwynt, yn bell oddiyno, a'r cymundeb â'r lleoedd hyny yn beth anaml ac anghyffredin. Ond fe ffurfiodd Solomon, trwy ei longau, gysylltiad rhwng Jerusalem â gwledydd yr aur, a'r canlyniad a fu i'r arian ddyfod mor aml yn Jerusalem a'r ceryg. Yr oedd bendithion iachawdwriaeth unwaith yn bell iawn o'r ddaear, oblegid gwlad y felldith oedd hon; ond, erbyn heddyw, nid felly y maent; a'r rheswm am hyny ydyw, i ryw un â'i enw yn Rhyfeddol, gychwyn i fordaith gryn lawer mwy peryglus na'r un o Esion-Gaber i Tarsis. Hynod oedd y Gwr hefyd, iddo fentro i'r fath anturiaeth; ond er y peryglon a'r ystormydd, fe ddaeth yma yn ddiogel, yn llwythog o fendithion. Yn awr y maent yn eich ymyl. Y mae maddeuant yn eich ymyl. Sut y gwyddoch chwi? Onid ydych yn nhŷ y Maddeuwr? Y mae bywyd tragwyddol, nid yn y nefoedd, ond yn un o fendithion y tŷ ar y ddaear. Os äi di i'r byd arall hebddynt, bydd pawb yn barod i ofyn, Pa fodd y daethost *ti* yma hebddynt?

2. Cofiwch mai yn ei dŷ y mae yn bendithio. "Ymhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac

y'th fendithiaf." Bendithio mewn trefn, yn ol cynllun a *phlan* y mae Efe. A dyma un ran arbenig yn y drefn a sefydlwyd ganddo. Peidiwch a disgwyl iddo fyned ar draws ei ordeiniadau ei hunan i'ch achub chwi, a disgwyl iachawdwriaeth gan esgeuluso ei moddion.

Chwi sydd yn byw yn yr un wlad â'r tŷ, gwyliwch syrthio yn fŷr o'i fendithion. Os hyny fydd, da fuasai i chwi pe nas ganesid chwi: llithro i'r pydew diwaelod,—myned dan felldith dragywyddol, o amgylchoedd bryn y fendith! Yr Arglwydd o'i ras a'ch gwaredo rhag hyny. Amen.

[Medi 26, 1864.]

## PREGETH III.

### YR YSBRYD A'R EGLWYS YN GALW.

DATGUDDIAD xx. 17.—"Y mae'r Ysbryd a'r briodas-ferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad."

Y MAE y testyn ymhlith geiriau olaf y Datguddiad dwyfol. Fe lefarodd yr Arglwydd lawer gwaith a llawer modd yn ysbaid y pedair mil o flynyddoedd oedd rhwng rhoddiad yr addewid gyntaf a seliad i fyny lyfr y Datguddiad. Ond er bod cryn amrywiaeth yn y dull y lleferid, nid oedd dim gwahaniaeth yn nghynwys y genadwri, ond yn unig y gwahaniaeth sy rhwng goleuni llai ac un mwy, datguddiad llai a datguddiad mwy eglur. Seren ddydd oedd yr addewid gyntaf: dilynwyd hono gan y wawr, ac yna daeth yr haul i'r golwg, goleuni yr hwn a ddygodd fywyd ac anllygredigaeth i eglurder. Yn awr y mae y datguddiad dwyfol wedi ei orphen: y mae y nefoedd wedi distewi fel nad oes yr un gair i'w ddisgwyl oddiyno mwy; a swm y cwbl a glybuwyd, yn ei berthynas ymarferol â dyn, ydyw y testyn:—"*Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred.*"

Yr ydym yn cael y bardd Coleridge unwaith yn nghanol golygfeydd mawreddog ac arddunol mynyddoedd yr Alps, yn tybio ei fod yn clywed yr oll yn adsain y gair DUW: yr oedd argraff Duwdod mor eglur ar y clogwyni ysgythrog, ar yr eira oesol, ar y meusydd o rew, ac ar holl wylltineb yr olygfa, fel yr oedd yr enw yn troi yn sain i glust y bardd, a phobpeth yn

seinio ac yn adseinio, fel swn dyfroedd lawer, y gair Duw! Duw! Duw! Peth cyffelyb i hynyna ydyw y testyn. Y mae Ioan, cyn rhoddi y pin ysgrifenu o'i law, pan ar orphen y llyfr, yn ymwrandaw â lleisiau y datguddiad dwyfol trwy bedair mil o flynyddoedd, ac yn eu clywed oll yn ymdoddi i'w gilydd, ac yn ymdori uwchben byd andwyol a cholledig, yn iaith y testyn, *Tyred*, *tyred*, *deued*, *cymered*.

Galwadau Duw fel Duw iachawdwriaeth ar y byd i ddychwelyd ato, ydyw y testyn hwn. Y mae rhai esbonwyr yn tybio mai gwahoddiad i'r Arglwydd Iesu ydyw i ddyfod i gyflawni prophwydoliaeth y llyfr hwn. Fe allai dechreu yr adnod oddef yr esboniad yna; ond nis gellir cymhwyso ei diwedd hi, "yr hwn sydd yn ewyllysio cymered o ddwfr y bywyd yn rhad," ond at bechadur sychedig a thruenus; am hyny y mae yn dra thebygol, os nad yn sicr, mai at yr un un y cyfeiria gwahoddiadau dechreu yr adnod. Felly, pa fodd bynag, y cawn ni edrych arni, fel galwadau neu wahoddiadau yr efengyl ar fyd colledig: "Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred."

Y ddau beth a ddaw o dan ein sylw oddiwrth y testyn ydynt,
I. Y ffurf sydd yma ar yr alwad: "yr Ysbryd,—y briodasferch,—yr hwn sydd yn clywed, yn dywedyd Tyred," &c.

II. Ei chyffredinolrwydd a'i heangder: "yr hwn sydd yn ewyllysio, a'r hwn sydd a syched arno."

I. Y ffurf sydd yma ar yr alwad. Yn hyn ni a welwn ei didwylledd a'i difrifwch: "yr Ysbryd yn dywedyd, Tyred." "Yr Ysbryd," sef yr Ysbryd Glân; ond nid yr Ysbryd fel ysbryd prophwydoliaeth; sonir am dano felly yn y Llyfr hwn; ond y meddwl yma ydyw, yr Ysbryd fel awdwr y datguddiad dwyfol, trwy ba un y llefarodd y dynion sanctaidd. Nid ydyw yn golygu yma ychwaith, yr Ysbryd fel y mae yn ymryson â meddwl dyn, ac yn ei gymell i ddychwelyd. Y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," yn y wedd yna: ond gan mai peth allanol, ar wahan oddiwrth y dyn, ydyw "Tyred" y briodasferch, y mae yn fwy cyson i ni ddeall "Tyred" yr Ysbryd felly hefyd; sef, yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," yn y datguddiad dwyfol.

"Y briodasferch,"—sef yr eglwys. Y mae yr alwad yn dyfod mewn dwy ffurf wahanol, sef trwy yr Ysbryd, yn y Llyfr, a

thrwy y briodasferch, yr eglwys. Y mae yr un gwahaniaeth rhyngddynt ag ydoedd rhwng arch Noah a phregeth Noah. Yn y naill yr oedd Noah yn hysbysu mewn geiriau, ac yn y llall yn dangos mewn gweithred. Galwad ar yr hen fyd i ddychwelyd ydoedd y naill a'r llall; ond yr oedd ychydig wahaniaeth yn y ffurf oedd ar yr alwad trwy yr arch, i'r ffurf oedd ar yr un alwad trwy y bregeth: felly y mae yr un gwahaniaeth rhwng "Tyred" yr Ysbryd a "Thyred" yr eglwys.

1. "Tyred" yr Ysbryd, sef galwad yr efengyl fel y cyflwynir hi i sylw gan yr Ysbryd yn y datguddiad dwyfol. Y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," yma mewn amryw ffyrdd.

(1.) Y mae yn dywedyd, Tyred, trwy y darluniadau a rydd yn y Llyfr o gyflawnder a chyfoeth trefn Duw. Fe fenthycir i ddangos y cyfoeth hwn bob peth sydd yn ddymunol ac yn hawddgar i bob math ar ddyn,—o'r athronydd sydd wedi coethi a diwyllio ei feddwl i'r perffeithrwydd mwyaf y mae yn alluog o hono, i lawr at y rhai na wyddant am fwynhad uwch na mwynhad y synwyrau a'r teimladau corfforol. I'r naill y mae 'r Ysbryd yn dangos y drefn yn ddoethineb Duw, yn ddoethineb mewn dirgelwch, yn fawr amryw ddoethineb, yn ddirgelwch duwioldeb, gan gynyg eu harwain ymlaen i'r un dosbarth a'r angylion, i gyd-astudio ac i gyd-edrych â hwynt ar y pethau rhyfedd sydd yn gynwysedig ynddi. I'r llall y mae yr Ysbryd yn dangos y drefn yn fara, yn ddwfr, yn fwrdd wedi ei hulio gan ddoethineb ac arno bob danteithion, pasgedigion breision, gwin a llaeth, ïe, gloew-win puredig. I'r hwn a fynai feddianu, y mae yr Ysbryd yn ei dangos hi yn drysor, yn anchwiliadwy olud o gyfoeth, yn etifeddiaeth yn y goleuni. I'r neb a fynai anrhydedd, dengys yr Ysbryd hi yn deyrnas, yn goron, yn deyrnwialen, ac yn orseddfainc. I ddyn, fel creadur euog fe'i dengys hi yn faddeuant, i symud ymaith y gosb; yn gyfiawnhad bywyd, i adferyd i'r holl freintiau a gollwyd. I ddyn, fel creadur halogedig, yn ngafael afiechyd moesol, fe'i dengys hi yn falm i'w glwyfau, ac yn cynyg â'i dwfr glân a'i hisop ei buro oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd; fel nas gellir cael yr un olwg ar ddyn, nad ydyw yr Ysbryd, trwy y darluniad a rydd o gyflawnder cyfoeth y drefn yn y Bibl, yn galw arno, yn y cymeriad hwnw, "Tyred."

Ond y mae un olwg neu wedd neillduol ar ddyn ar gyfer yr hon y mae "Tyred" yr Ysbryd yn y Bibl yn annhraethadwy werthfawr, sef fel y mae yn greadur â pharhad tragywyddol iddo. Y mae ymwybyddiaeth yn y fynwes ddynol nad terfyn i ni ydyw angau fel i'r anifail, ond fod rhyw beth ar ol hyny. Ond y mae y 'stâd hono mor ddieithr fel nas gwyddom ddim am dani; eto y mae'r ymwybyddiaeth sydd yn y fynwes o'n bod i hanfodi mewn ystâd felly, yn ein gwneyd yn ofnadwy i ni ein hunain, ac yn peri fod y meddwl yn hofian mewn dychryn ar gyffiniau y tywyllwch sydd rhwng y sefyllfa bresenol a'r ddyfodol. Fe fynai ei alluoedd sydd yn dyhëu am le i ymagor, a'i ddymuniadau sydd yn sychedu am rywbeth i'w llenwi, gael, y tu hwnt i'r llinell derfyn, ryw beth llawer amgenach na dim a gaed y tu yma iddi; tra y mae ei ofnau yn sibrwd wrtho y gall mai fel arall y mae y mater yn bod: ond y mae'r Ysbryd yn y Llyfr yn symud y gorchudd oddiar y dyfodol, ac yn dwyn i'r olwg sefyllfa a lle, y mae holl natur dyn yn teimlo, ond eu cyraedd, y bydd hi wedi cyraedd digonolrwydd, fel na bydd yn bosibl dymuno mwy. Ac wrth ei dangos hi, "y mae'r Ysbryd yn dywedyd, "Tyred;" ac o bob "Tyred" o'i eiddo, nid oes yr un yn fwy gwerthfawr i'r meddwl na'r "Tyred" sydd yn dyfod o ororau y byd anweledig.

Fe ddangosodd y diafol i'r Arglwydd Iesu oddiar gopa y mynydd uchel hwnw holl deyrnasoedd y byd, a'u gogoniant, gan eu cynyg oll yn wobr iddo am ei addoli; felly y mae'r Ysbryd yn y Llyfr, fel oddiar gopa mynydd uchel, yn dangos moroedd, ynysoedd, a chyfandiroedd trefn Duw, gan ddywedyd, wrth ddangos pob golygfa, "Tyred." Fe addawodd yr Arglwydd wlad Canaan, neu, yn hytrach, fe adnewyddodd yr addewid lawer gwaith i Abraham yn Sichem, ymhen ychydig ar ol iddo ddyfod i'r wlad, pryd y dywedodd wrtho, "I'th had di y rhoddaf y tir hwn:" yn Bethel, yn ngolwg gwastadedd Sodom, y dywed wrtho drachefn:—"Cyfod dy lygaid, ac edrych o'r lle yr wyt ynddo, tua'r gogledd, a'r dehau, a'r dwyrain, a'r gorllewin: canys yr holl dir a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th had byth." Pan yn Mamre, fe ddywed wrtho, "I'th had di y rhoddais y wlad hon, o afon yr Aipht hyd yr afon fawr, afon Euphrates." Yn Beerseba, fe ddywed wrtho drachefn, "Mi a

roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di, wlad dy ymdaith." Yr oedd yr addewid yn cael ei hadnewyddu mewn gwahanol fanau, y mae yn debyg, i gyfarfod â gwahanol amgylchiadau Abraham, ac feallai, i gyfarfod â golygfeydd newyddion yr amrywiol leoedd yr oedd yn ymdaith ynddynt, fel lle bynag y disgynai llygad Abraham, pa un ai ar y mynydd da hwnw Libanus, ai ar wastadedd yr Iorddonen, ar Beerseba yn y dehau, neu ar wastadedd Moreh yn y gogledd, yr oedd yr Arglwydd yn ei gyfarfod ymhob man, ac yn dywedyd, "I ti y rhoddaf hi." Yn gyffelyb i hynyna y mae yr Ysbryd yn datguddio trefn Duw. Y mae 'r olygfa yn gwahaniaethu, fel yr oedd yn Sichem a Mamre, gwastadedd yr Iorddonen a Beerseba, i Abraham, eto yr un ydyw gwahoddiad yr Ysbryd ymhob man,—"Tyred." Yn nghyfraith Moses, yr wyf yn cael y drefn wedi ei phaentio yn gynifer o ddarluniau tarawiadol. Yn ysgrifeniadau y prophwydi yr wyf yn ei chael yn ymddangos fel dinas neu wlad yn y pellder ar y gorwel draw, y niwliach a'r tarthoedd yn ei chuddio hi ymron o olwg. Yn yr efengylau a'r epistolau yr wyf yn ei chanfod hi wedi ei dwyn i oleuni. Ond lle bynag yr edrychaf, yr wyf yn gweled "Tyred," mewn llythyrenau mawrion, eglur, ar bob darluniad. "Y mae yr Ysbryd yn dywedyd, Tyred."

(2.) Y mae'r Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," trwy ddangos anmhosibilrwydd dianc ond yn y ffordd hon. Os nad elai Hobab gydâg Israel gynt, yr oedd ganddo le arall i fyned; ond am Israel ar làn y Môr Coch, os nad agorai yr Arglwydd ffordd o ymwared iddynt, nid oedd gobaith am danynt, oblegid yr oedd Pihahiroth, Baalsephon, a Pharaoh yn cau y llwybrau ereill, ac wrth wneyd hyny yn eu cau hwythau i fyny i ddinystr, neu i iachawdwriaeth yr Arglwydd. Felly y mae'r Ysbryd, trwy bob darluniad a rydd o gymeriad Duw, ac o berthynas dyn âg Ef, yn cau dyn ymhob cyfeiriad ond un,—o dan farn Duw. Y mae priodoliaethau ofnadwy y natur ddwyfol yn cael eu dangos ganddo yn eu holl ofnadwyaeth. Nid ydyw cymeriad y Tad ddim yn cael ei ddangos yn fwy hawddgar, nag ydyw cymeriad y Brenin o ofnadwy. Fe ddengys fod y Barnwr mor gyfiawn ag ydyw y Tad o drugarog: felly y mae dianc trwy geisio gosod ein cyfiawnder ein hunain yn beth anmhosibl,

oblegid y mae gorsedd y Barnwr mor wèn, fel yr ä ein gwisgoedd goreu ni yn fratiau budron yn llewyrch tanbaid ei disgleirdeb hi. Y mae dianc trwy guddio a chelu yn beth yr un mor anmhosibl; oblegid fe ddengys yr Ysbryd mai "Duw gwybodaeth" ydyw, a bod "ei lygaid yn cyniwair trwy yr holl ddaear," fel "na lecha neb mewn dirgel leoedd" rhagddo. Y mae dianc trwy ffoi yn anmhosibl hefyd; oblegid i ba le y gellir ffoi, mewn amser neu dragywyddoldeb, oddi ger bron y Duw sydd yn llenwi nefoedd ac uffern y naill, a dwyrain a gorllewin y llall? Ac y mae rhyw un wedi ei roddi gan yr Ysbryd yn rhybudd ar bob un o'r ffyrdd yna, i ddangos anmhosibilrwydd dianc ar hyd-ddi. Os am ymladd yr ydych, na wnewch hyny, medd yr Ysbryd trwy Pharaoh: "pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?" Os am ffoi yr ydych, ni lwyddwch chwi ddim felly, medd yr Ysbryd trwy Jonah. Os am guddio eich pechodau yr ydych, ofer fydd hyny, medd yr Ysbryd trwy Achan. Os am geisio gosod eich cyfiawnder eich hun yr ydych, ni lwyddwch chwi ddim felly, medd yr Ysbryd trwy Paul. Os am wneyd iawn yr ydych, "gwerthfawr," medd yr Ysbryd, "yw pryniad yr enaid, a hyny a baid byth."

Y mae pob lle *nad* oes diogelwch ynddo, fel y lle y *mae*, wedi ei nodi yn eglur gan yr Ysbryd. Yr un fath a *chart* y morwr: fe geir yn hwnw y graig wedi ei nodi allan, y porthladd wedi ei farcio, y lleoedd diogel a'r lleoedd peryglus wedi eu dangos; ond lled anmherffaith yw y perffeithiaf o honynt: oblegid fe geir llai o ddwfr yn y porthladd, weithiau, nag yr oedd y *chart* yn ei addaw fel y mae y llong yn methu myned i mewn; fe darewir wrth graig, bryd arall, nad oedd hi ddim i lawr ar y *chart;* ac y mae y llong yn myned yn ddrylliau; neu fe ddeuir o hyd, ambell dro, i borthladd nad oedd y *chart* yn son dim am dano. Ond y mae *chart* yr Ysbryd yn un perffaith: y mae y creigiau, y peryglon, y cilfachau, a'r oll, wedi eu rhoddi i lawr ynddo, fel mai ofer ydyw ceisio cael allan yr un *passage* os na bydd i lawr ar y *chart.* Y mae rhai o'r daearyddwyr yn tybio fod *North-West passage* i'r Dwyrain yn bod, sef drwy ororau y pegwn Gogleddol; a phe gellid dyfod o hyd i hwnw y byrheid llawer ar y ffordd i'r gwledydd dwyr-

einiol, gwledydd y cyfoeth a'r moethau; ond y mae Syr John Franklin, a llawer un arall a fu yn chwilio am dano, wedi colli eu bywydau yn y cais: yn lle cyraedd y Dwyrain gynes, gyfoethog, cawsant eu rhewi i farwolaeth yn ngororau y pegwn. Nid oedd yr hen *charts* ddim yn dweyd fod yno un *passage*, ac fe gostiodd yn ddrud i Syr John ac eraill beidio eu credu hwynt. Y mae ein Hathronwyr ninau,—Mill, Carlyle, ac eraill, —yn ceisio darganfod *passage* newydd i ddedwyddwch, ffordd fèrach i gyfandir hapusrwydd ac anfarwoldeb, na myned heibio i Bethlehem, a *roundio Cape* Calfaria; ond y mae *chart* yr Ysbryd yn dywedyd nad oes yr un; "Nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ymhlith dynion, drwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig." Y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," trwy gau i fyny bob ffordd ond ffordd yr efengyl.

3. Y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred," trwy ddangos cyfaddasder ffordd trefn Duw i bob pechadur. Y mae hi mor gyfaddas ag ydyw ymborth i'r newynog, gwisg i'r noeth, iechyd i'r claf, cyfoeth i'r tlawd, a bywyd i'r marw. Nid cyfaddasder cyffredinol i'r ddynoliaeth fel natur a olygir; gallasai hyny berthyn i'r drefn ddwyfol, ac eto fod ynddi rywbeth yn ddiffygiol i lawer dyn unigol, fel y gall hinsawdd a chynyrchion gwlad fod yn dda i'r cyffredin o ddynion, ac eto fod yno rai nad ydyw y naill na'r llall ddim yn cyd-ddwyn â hwynt: ond y mae yn yr efengyl rywbeth sydd mor berffaith gyfaddas i bob dyn yn bersonol, a phe na buasai hi ddim yn perthyn i neb arall ond iddo ef. Felly yr oedd hi gyda'r Arglwydd Iesu: nid yr un rhinwedd oedd yn myned allan o hono i bawb; un yn cael ei olwg, un arall ei glyw, un arall ei lanhau; yr oedd pob un a ddeuai ato yn cael rywbeth oedd yn cyfateb mor berffaith i'w angen ef a phe na buasai dim ynddo i neb arall, ac yr oedd pob un yn cael ganddo hefyd rhywbeth heblaw digoni yr angen oedd yn y teimlad ar y pryd; gwellâu y parlys oedd cais y claf hwnw, fe gafodd hyny, a maddeu ei bechodau hefyd, peth nad oedd yn ei geisio. Felly y mae yn yr efengyl, y peth arbenig yr wyt ti yn teimlo ychydig angen am dano, ac y mae ynddi hefyd bethau ar gyfer anghenion dyfnion dy natur nad wyt yn awr ddim yn ymwybodol o honynt. "Tyred," medd yr Ysbryd, i geisio y cyntaf, ac wrth dderbyn y cyntaf, ti a gei

yr ail hefyd. Yr oedd Dafydd yn gwahodd Barzilai i fwynhau llawnder ei balas yn Jerusalem, ond nid oedd cyfaddasder yn y llawnder hwnw i'r angen yr oedd Barzilai yn ei deimlo. Pe buasai gan Dafydd fodd i adferyd bywiogrwydd, yni, a hoywder ieuenctyd, i hen ŵr pedwar ugain oed, yna buasai y pethau eraill, yr oedd Dafydd yn eu haddaw, yn dyfod yn werthfawr. Y mae yr efengyl yn ei chyfoeth yn cyfarfod pob dyn yn anghenion ei deimlad, ac y mae ganddi ystôr wrth gefn at yr holl anghenion eraill a ddaw i'r teimlad, fel y cyflawnir y rhai sydd yn y teimlad yn awr. Y mae yr Ysbryd, trwy ddangos y cyfaddasder neillduol hwn, yn dywedyd wrth bob dyn unigol, "Tyred."

Pan gymhellir rhai i ymfudo i wledydd tramor, rhyw ddosbarthiadau neillduol yn gyffredin a gymhellir: i ambell le fe ddywedir nad gwiw i neb fyned ond amaethwyr; i leoedd eraill ni chymhellir neb ond mwnwyr: bryd arall fe ddywedir am rai lleoedd, nad doeth i neb fyned os na fydd ychydig gyfoeth yn ei law. Ond galwad yr Ysbryd ar fyd truenus ydyw, "Tyred." Ar bwy y mae yn galw? Wel, cymer gysur, y mae yn dy alw di, pwy bynag wyt. Ac os mynit ti sicrwydd am hyn, edrych drwy y Llyfr ar y rhai a ddaethant eisoes, ond odid na weli di dy ddelw dy hun yn rhai o honynt. Dyna un, Manasseh ydyw ei enw: fe gafodd bob mantais grefyddol,—ei dad yn dduwiol, crefydd yn uchel yn y wlad ar y pryd; ond ni bu yr oll ond yn help iddo ef dyfu yn gawr mewn drygau. Os wyt ti yn debyg i hwnyna, wrthyt ti y mae yr Ysbryd yn dywedyd "Tyred." Dyna dyrfa draw, Corinthiaid y gelwir hwynt, yr oeddent wedi eu trybaeddu ymhob pydew budr a feddai y diafol: os oes delw y rhai yna arnat ti, wrthyt ti y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred." Dyna un a erlidiodd lawer ar ddisgyblion yr Iesu, a chwythodd gelanedd a bygythion yn eu herbyn, Saul y gelwir ef: os oes llinellau yn dy gymeriad di yn debyg i hwnyna, wrthyt ti y mae yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred." Ië, dyna rai a drochasant eu dwylaw yn ngwaed y Bendigedig, Iuddewon Jerusalem y gelwir hwynt: os oes rhywbeth yn dy hanes di yn debyg i'r rhai yna, a thi a wyddost fod, oblegid tydi a fu yn ei ail groeshoelio, er hyny, wrthyt ti y mae yr ysbryd yn dywedyd, "Tyred.,' "Y mae yr Ysbryd...........yn dywedyd, Tyred.

2. Y mae y briodasferch, sef yr eglwys, yn dywedyd, "Tyred." (1.) Y mae hi yn dywedyd, "Tyred," trwy ei bod yn gorfforiad mewn gweithred o'r hyn y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd yn y Bibl mewn gair. Gellir cymhwyso ati hi yn hyn ddarluniad yr apostol o ffydd, a dywedyd mai hi sydd yn rhoddi hanfodiad, bodolaeth weledig, i'r pethau; fel y maent yn dyfod, trwy yr eglwys,—nid yn eiriau, ond yn bethau; nid yn ddarluniau ond yn sylweddau. Y mae pob "tyred" o eiddo yr Ysbryd yn y Llyfr, yn troi felly yn "dyred" mewn gweithred yn yr eglwys; fel yr oedd y breichledau a'r tlysau, â pha rai yr addurnodd gwas Abraham Rebecca, yn troi ei ddarluniad mewn geiriau am gyfoeth ei feistr yn bethau sylweddol i'w canfod a'u teimlo. "Y mae hwn yn derbyn pechaduriaid," medd y Llyfr; hyny yw, medd yr Ysbryd, "Tyred." "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid;" hyny yw, medd y briodasferch, "Tyred." "Trugarog fyddaf wrth eu hangyfiawnderau, a'u pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach," medd y Llyfr; hyny yw, medd yr Ysbryd, "Tyred." "Mi a gefais drugaredd, fel y dangosai Iesu Grist ynof fi yn gyntaf bob hir-oddef, er esiampl i'r rhai a gredant rhagllaw ynddo ef, i fywyd tragywyddol;" hyny yw, medd y briodasferch, "Tyred." Math o hysbysiad *(advertisement)* yw y Bibl o drefn Duw, o eiddo yr Ysbryd. Prawf ymarferol o wirionedd yr hysbysiad yw yr eglwys. Trwy fod felly y mae hi fel y trostan oedd yn cario ffrwythau Canaan yn yr anialwch er profi gwirionedd geiriau yr ysbïwyr am y wlad; neu fel cerbydau Joseph i ddwyn ei dad i Gosen, i brofi gwirionedd y dystiolaeth ei fod yn fyw; neu fel y ddau lygad da oedd gan y dyn a anesid yn ddall, yn profi i bawb wirionedd ei eiriau mai prophwyd oedd Iesu o Nazareth. Ac y mae bod yr eglwys yn y wedd hon, yn dwyn yr anweledig bethau yn weledig, yn gwneyd pawb yn ddiesgus. Y mae i chwi gael byw yn nghymydogaeth eglwys, yr un peth ag ydoedd i'r Cynddiluwiaid gael byw yn nghymydogaeth yr arch. Y mae yr hyn ydyw yr eglwys yn dywedyd, "Tyred."

(2.) Y mae y briodasferch yn dywedyd, "Tyred," nid yn unig trwy yr hyn ydyw, ond hefyd trwy ei hesiampl. "Myned yr ydym ni," medd yr eglwys yn ei hesiampl; ac y mae y

"myned" yna yn troi yn "Dyred" yn nghlustiau y byd. Nid ydym yn gwybod i'r Israeliaid, pan yn gadael yr Aipht, wahodd neb o'r bobl gymysg i fyned gydâ hwynt, ond yr oedd y ffaith fod y genedl yn myned ynddi ei hun yn gwahodd,—yn dywedyd, "Tyred." Un o ddibenion mawrion sefydlu eglwys ar y ddaear ydyw iddi trwy ei hesiampl ddywedyd, "Tyred," wrth y byd. Ac y mae rhyw ochr ddeniadol a chalonogol iawn yn "Nhyred" y briodasferch, yn y wedd hon, sydd yn gorchfygu llawer temtasiwn, ac yn lladd llawer o ofnau y fynwes. Buasai aml Israeliaid gynt, yn enwedig yn nghýrau eithaf y wlad, heb fyned i fyny i Jerusalem i'r gwyliau arbenig, oni buasai fod mintai yn myned: buasai pellder, dieithrwch, a pheryglon y ffordd yn eu digaloni; ond gan fod mintai yn myned, ond odid na fyddai yno ryw Hobab oedd yn adwaen y ffordd yn dda, ac a fyddai felly yn lle llygaid iddynt;—rhyw Ddafydd i ganu y deddfau yn nhŷ y pererindod, fel ag i beri iddynt anghofio meithder y daith; rhyw Samson i ladd pob bwystfil a allai ymosod arnynt. Yr oedd y fintai yn lladd holl ofnau a digalondid y fynwes, ac yn dywedyd wrth y gwanaf, "Tyred." Pe na buasai neb yn myned oddiyma i'r nefoedd, dylasit ti fyned; ond y mae fod yma fintai yn myned yn dy wneuthur di yn fwy diesgus am beidio; oblegid y mae yn y fintai bob math: pwy bynag wyt, y mae ynddi rywun tebyg i ti. Ynddi "y mae Benjamin fychan a'u llywydd, tywysogion Judah a'u cynulleidfa; tywysogion Zabulon, a thywysogion Naphtali." Judah y mawr, Benjamin fychan, Zabulon a Naphtali, pobl anghoeth Galilea y Cenhedloedd; felly, pa un bynag a fynit ai coethder Judah, ai symledd gwladaidd Zabulon a Naphtali, y mae i'w gael yn y fintai. Y mae y briodasferch, trwy ei hesiampl, yn dywedyd, "Tyred, wrth bob math.

3. "Yr hwn sydd yn clywed, dyweded, "Tyred." Yr eglwys, mewn dull ymosodol ar y byd, ydyw hyn, yn dywedyd, "Tyred," trwy y weinidogaeth gyhoeddus, yr hon sydd yn llef yn llefain trwy yr oesoedd ar y byd, "Tyred." "Yr hwn sydd yn clywed:" y mae y gwir weinidog wedi clywed mor effeithiol ei hun, fel nas gall ymatal. Y mae angenrhaid wedi ei osod arno, fel Paul. "A ni yn gwybod ofn yr Arglwydd, ydym yn perswadio dynion."

Ond gellir cymeryd y gair, "yr hwn sydd yn clywed," yn ei eangder mwyaf, fel ag i gynwys pob Cristion. Y mae pob un, fel Phylip, wedi cael y Messiah ei hun, i chwilio am ryw Nathanael, i ddywedyd wrth hwnw, "Tyred."

II. Cyffredinolrwydd ac eangder yr alwad: "Yr hwn sydd a syched arno, deued," &c. Paham yr amheua neb ddigonolrwydd ac eangder y ddarpariaeth yn wyneb gwirionedd fel hwn? Y mae bod gan bawb awdurdod i wahodd ati yn penderfynu y pwnc gyda golwg ar ei heangder. Pe un fechan fuasai, buasid yn gofalu peidio anfon llawer allan i wahodd, a rhoddi cyfarwyddiadau lled fanwl i'r rhai a anfonid. Ond yn lle hyny, y mae "Tyred" yn dyfod o bob cyfeiriad, ac oddiwrth bawb. Rhywbeth yn gyffelyb i olygfa a welodd Ioan yn y nefoedd,—tyrfa fawr yn dywedyd â llef uchel, "Alelwia: iachawdwriaeth, a gogoniant, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni;" "ac eilwaith y dywedasant, Alelwia:" gydâ hyny, y mae y pedwar henuriad ar hugain yn cymeryd i fyny yr anthem," ac yn dywedyd, "Amen; Alelwia." Yna y mae tyrfa fawr arall, fel yn clywed yr adsain, ac yn cymeryd i fyny yr anthem, ac yn dywedyd, "Alelwia." Yr oedd pawb a glywai yr anthem yn uno ynddi, nes oedd Alelwia yn dilyn Alelwia,—Alelwia yn adsain Alelwia o bob cyfeiriad trwy y nefoedd fawr i gyd. Lled debyg ydyw y testyn. Y mae yma "Tyred" yn dilyn "Tyred." Yr Ysbryd yn dywedyd, "Tyred;" y briodasferch yn cipio i fyny y gair, ac yn dywedyd, "Tyred;" rhywun arall yn clywed, ac y mae hwnw yn dywedyd, "Tyred;" rhywun yn clywed hwnw, a hwnw eilwaith yn dywedyd, "Tyred;" nes y mae "Tyred," fel anthem Alelwia y nefoedd, yn seinio ac yn adseinio o bob cyfeiriad. O fiwsig bendigedig uwch ben byd truenus! Y mae yn bryd i ni ofyn, Pa ddylanwad y mae yn ei gael arnoch? Onid ydych yn ateb yn ol, "Wele ni yn dyfod?"—"Nac ydym," medd rhai o honoch, "oblegid nid ydym yn sicr mai ni sydd yn cael ein galw." Os hynyna sydd yn eich cadw draw, nid yw yn anhawdd penderfynu y pwnc yna. Ai nid oes arnoch ychydig syched am fendithion yr efengyl? "O, oes; mi garwn gael ei maddeuant hi; y mae arnaf hiraeth am ei thangnefedd hi." Yr wyt ti wedi dy nodi yn y testyn: "Yr hwn sydd a syched arno, deued."—"Ni

fedraf fi ddim dweyd," medd un arall, "fod arnaf lawer o syched am danynt, ond mi ewyllysiwn inau, lawer diwrnod, fod yn eu meddu." Yr wyt tithau i lawr: "Yr hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad."

Paham y gwnawn ni ymddyrysu wrth geisio darllen llyfr y dirgeledigaethau sydd yn perthyn i Dduw, yn lle darllen llyfr ein mynwesau ein hunain? Nid oedd y wraig o Ganaan ddim yn ymrwystro gydâ llyfr Duw, hyd yn nôd wedi clywed ei ddarllen; ond y mae fel yn dywedyd wrth yr Athraw, Nid yw o bwys genyf at bwy yr ydwyf wedi dy anfon: y mae cythraul yn fy merch i, yr wyt tithau yn medru eu bwrw hwynt allan, cymorth fi! "Cymerwch o ddwfr y bywyd yn *rhad:*" nid heb arian yn unig, ond heb werth; heb deilyngdod, personol, teuluol, eglwysig, neu genedlaethol. Os deui at y gŵr ni ofyn Efe ddim i ti, Pwy wyt ti? na phwy yw dy deulu? y cwestiynau sydd yn dychrynu llawer un; y cwestiynau a ddyrysodd frodyr Joseph, ac a ddalient y wraig o Samaria. A ddarfu i chwi sylwi ar yr hyn a ddywedodd yr Athraw wrthi hi? 'Pe buasit ti yn gofyn i mi, mi a roddaswn i ti ddwfr bywiol,' heb ofyn cwestiynau i ti. Os deui di ato yn awr, ni ofyna efe ddim i ti, pa sawl blwyddyn yr wyt ti wedi ei wrthod, neu paham y darfu i ti ei ail groeshoelio: na, yn *rhad!* Yr wyf yn diweddu fel y dechreuais gyda'r testyn: "Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, Tyred. A'r hwn sydd a syched arno, deued: a'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad." Amen.

[Mawrth 7, a Mai 22, 1868.]

## PREGETH IV.

### EDIFEIRWCH PECHADUR YN LLAWENYDD I'R ANGYLION.

LUC XV. 10: "Felly, meddaf i chwi, y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo."

PE buasem yn cyfarfod â theithiwr wedi dyfod o wlad bell hollol anadnabyddus i ni, ond yr hon er hyny oedd yn wlad ag yr oedd awydd mawr ynom am wybod rhywbeth yn ei chylch, buasem yn disgwyl iddo yn y fàn foddloni ein chwilfrydedd, trwy roddi i ni adroddiad cyflawn yn ei chylch, yn cynwys darluniad o'i golygfeydd, o arferion ei thrigolion, o'u syniadau am wahanol bethau, fel y gallasem wybod ymha bethau yr oedd y wlad yn debyg i'n gwlad ni, ac ymha bethau yr oedd hi yn annhebyg: ond pe buasai y teithiwr hwnw, yn lle boddloni ein cywreingarwch trwy ateb ein cwestiynau, bron yn gwbl ddistaw ynghylch y wlad y daethai o honi, heb wneuthur ond ychydig gyfeiriadau un amser ati, a'r ychydig hyny yn awgrymiadau i gyffroi ein chwilfrydedd yn hytrach nag i'w digoni, buasai raid i ni gasglu fod ganddo ryw ddiben penodol i'w gyraedd trwy ei ddistawrwydd, naill ai gydâ golwg arno ef ei hun, neu ynte gydâ golwg arnom ni, onidê ni buasai yn cuddio pan yr oedd mor hawdd iddo ddatguddio. Daeth Iesu Grist i'r ddaear o fyd cwbl anadnabyddus i ni, byd sydd yn cael ei orchuddio gan dywyllwch fel y fagddu, ond er hyny, y mae swyn o'r fath gryfaf yn y tywyllwch i ni, fel yr ydym yn teimlo awydd cryf i wybod beth sydd y tuhwnt iddo. Mynem, pe byddai bosibl,

ei ymlid ef oll i ffordd. Gallasai Iesu Grist âg ychydig eiriau wneuthur hyny, a dwyn golygfeydd y byd dieithr hwnw yn fywiog ger bron trigolion hwn; ond yn lle gwneuthur hyny, y mae bron yn gwbl ddistaw yn ei gylch, oddieithr ei fod yn gwneyd awgrym, yn awr ac yn y mân, megis yn agor bwlch yn y cwmwl du am eiliad, fel y gwna y fellten yn nghwmwl y daran, er mwyn i ni gael trem, a dyna yr oll, ar y goleuni sydd y tu hwnt i'r tywyllwch. Diau fod diben pwysig i'w ateb drwy hyn, er na ddylem ni ddim bod yn rhy benderfynol beth oedd y diben hwnw; ond gallwn fod yn benderfynol o hyn, fod y tywyllwch yn well i ni na'r goleuni. Pe buasai y datguddiad yn fwy eglur nag ydyw, anfantais i ni a fuasai hyny. Gwyddom i blant Israel deithio ymlaen ymhell tua Chanaan, cyn iddynt anfon ysbïwyr i gael gwybodaeth fanwl am y wlad, ac er i'r ffeithiau a gafodd yr ysbïwyr hyny gael eu camosod a'u camliwio ganddynt, diau mai ffeithiau oeddent; a ffeithiau yr oedd anhawsderau ar ffordd eu cysoni â'u gilydd, ac am hyny yr oeddent yn troi yn dramgwydd i'r genedl. Annrhaethol well iddynt a fuasai rhodio ymlaen yn y tywyllwch, gan foddloni ar addewid Duw, ac ar ychydig awgrymiadau oedd yn draddodiad yn eu plith am y wlad, na chael y wybodaeth fanwl a gawsant gan yr ysbïwyr. Felly, pe buasai Iesu Grist yn datguddio yn fanwl i ni y byd arall a'i helyntion, buasai llawer o bethau yn y datguddiad yn annrhaethol anhaws i ni eu cysoni â'u gilydd, na'r hyn a ddywedodd yr ysbïwyr am Ganaan, sef bod ynddi gewri, ac er hyny ei bod yn wlad yn difa ei thrigolion; a sicr ydyw y buasai y pethau hyny yn troi yn dramgwyddiadau. Y mae y cuddio mor werthfawr i ni ag ydyw y datguddio; ac y mae genym gymaint o achos diolch am fod ein Duw ni yn trigo yn y tywyllwch, ag sydd genym am ei fod yn trigo yn y goleuni.

Ond er mai cuddio yw y rheol, eto y mae ychydig eithriadau iddi; y mae yma ychydig o ddatguddio; y mae yma ychydig o awgrymiadau wedi eu rhoddi i ni, y rhai yn ddiau ydynt wedi eu bwriadu i fod yn fantais i ni wybod rhyw bethau trwyddynt am y byd arall; ac un o honynt yw y testyn: "Felly, meddaf i chwi, y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo." Y mae yn hawdd i ni

gyfeiliorni am ddibenion yr awgrymiadau hyn; ond y mae hyn yn wirionedd cyffredinol am danynt oll, sef, eu bod oll yn tueddu i ddangos pwysigrwydd y byd hwn a'i helyntion. Y mae llawer o bethau ynddo, ac mewn cysylltiad âg ef, â thuedd ynddynt i beri i ni deimlo fel arall yn ei gylch. Os edrychwn arno yn ei berthynas â bydoedd eraill y ffurfafen, y mae yn fyd bychan iawn. Y mae ein perthynas ymddangosiadol ninau âg ef yn ei wneuthur yn llai eto; oblegid beth yw ein hoes ni ynddo ond megis tarth? Ac onid oes cymaint o bethau yn yr oes hòno yn ymddangos mor wâg, fel yr ydym yn barod i ddywedyd gyda'r Pregethwr, "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl." Ond pan yr egyr y cwmwl am darawiad amrant, i ni weled Lazarus yn mynwes Abraham, a gweled y goludog yn uffern, yr ydym yn teimlo nad bychan ydyw ein byd ni, ac mai nid ofer a dibwys ydyw yr hyn a wneir ynddo: neu fel yn y testyn, i ni weled angylion Duw yn llawenhau wrth weled un pechadur yn edifarhau, yr ydym yn teimlo fod helyntion un dyn, pa mor ddinôd a dibwys bynag y dichon iddynt ymddangos i'n golwg ni, a phwysigrwydd a mawredd yn perthyn iddynt, y tuhwnt i'n gallu ni yn ein sefyllfa bresenol i'w hamgyffred.

Yn y goleuni hwn y caf alw eich sylw at y testyn. Y gwirionedd a gyflwynir ger ein bron ydyw, Pwysigrwydd dychweliad pechadur, yn dyfod i'r golwg yn y sylw y mae yn ei gael gan angylion Duw, ac yn yr effaith y mae yn ei gael arnynt. "Felly, meddaf i chwi," sef, fel y mae y wraig a'i chyfeillesau yn llawenychu am y dryll arian, "felly, y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo."

I. Pwysigrwydd dychweliad pechadur. Ac y mae hyn yn dyfod ger ein bron yn y testyn mewn pedwar o bethau:—

1. Rhaid bod dychweliad pechadur yn bwysig, *gan ei fod yn tŷnu sylw angylion o gwbl.* Y maent hwy, o'u cymharu â ni, yn ddoeth o galon, ac yn gedyrn o nerth; wedi eu creu â'u galluoedd mawrion mewn ystâd o berffeithrwydd neu addfedrwydd; ac yn ychwanegol at hyny, y maent wedi cael eu dysgu gan brofiad miloedd o flynyddoedd, mewn byd y mae pob peth ynddo yn ymddangos fel y mae. Y maent yn dal cymundeb digyfrwng â gwirionedd yn ei ffynhonell: y maent yn ei gael

heb adlewyrchiad,—yn uniongyrchol o'r Haul ei hun, heb i'r un o gysgodion y nos dywyllu arno. Yn ychwanegol at nerth eu galluoedd fel creaduriaid, a manteision eu sefyllfa, y maent hefyd, fel y dengys y Bibl, yn gydnabyddus â llawer iawn o bethau mawrion. Cael eu hunain y mae dynion yn nghanol rhyfeddodau Duw, heb wybod nemawr am danynt;—ceisio chwilio, a hyny yn ofer yn aml, beth ydynt? sut y dygwyd hwynt i fod? beth ydyw eu perthynas hwynt â'u gilydd? Ond cafodd angylion y fantais o weled llawer o'r pethau mawrion yn cael eu gwneyd. Yr oeddent hwy yn edrych ar y byd hwn yn cael ei greu; a diau ydyw nad oedd hyny ond esiampl o'r hyn oedd wedi digwydd yn eu hanes yn fynych. Ac y mae yr enwau sydd arnynt, megis "tywysogaethau ac awdurdodau," yn dangos eu bod mewn sefyllfaoedd o bwys ac ymddiried, yn cario ymlaen lywodraeth rhyw ranau o'r ymherodraeth ddwyfol. Oherwydd y pethau hyn, nid dieithr a fuasai eu clywed yn dywedyd, pe buasai rhywun yn ceisio tynu eu sylw at y ddaear, fel y rhai hyny yn amser adeiladu y deml:—"Gwaith mawr yr ydym ni yn ei wneuthur, fel nas gallwn dalu sylw i le mor fychan a'r ddaear." Ac yr oedd rhywbeth yn holl ymwneyd angylion â dynion, trwy yr oesoedd, yn ymddangos fel pe hyn a fuasai eu teimlad. Y mae cryn lawer a fynont â'r byd hwn; ond hynod mor ddigymdeithas â dynion y maent wedi bod er y dechreuad; mor anaml y maent yn dyfod yma yn weledig; mor fyr fydd eu harosiad pan ddeuant; cân lleied a hysbysir ganddynt! Ac eto, fe ddengys y testyn, er mawredd eu natur, uchder eu sefyllfa, ac urddasolrwydd eu swydd, fod dychweliad pechadur yn beth mor bwysig fel y mae yn tynu sylw angylion y nef.

2. Ni a welwn eto fod dychweliad pechadur yn bwysig, gan fod iachawdwriaeth *un enaid* yn gwneyd hyn: "llawenydd am un pechadur." Y mae lliosogrwydd yn fynych yn gwneyd i fyny am fychandra a diddymdra unigolion. Nis gellir edrych ar y môr mawr llydan, heb i'r meddwl gael ei lenwi â syndod,—heb i'r enaid gael ei eangu gan yr olygfa; mi fyddaf fi yn ei weled o bob dydd, ac ni byddaf byth yn blino edrych arno: ond y mae wedi ei wneyd i fyny o ddiferynau bychain iawn, ac ni theimlir dim wrth edrych arnynt ar wahan, o'r hyn a

deimlir wrth edrych arnynt wedi cyd-gyfarfod i wneuthur môr mawr. Y mae y mynydd tragywyddol, sydd a'i grib yn cartrefu ymysg y cymylau, yn llanw y meddwl â theimlad o aruchel-edd, ac i raddau yn ei ddyrchafu uwchlaw pethau bychain y ddaear; ond er ei faint, y mae wedi ei wneyd i fyny o ronynau bychain iawn, ac ni byddai yr un gradd o'r teimlad sydd yn y fynwes wrth edrych ar y mynydd, ynddi wrth edrych ar y gron-ynau hyny ar wahan. Felly am dyrfa o ddynion; y mae rhyw fawredd yn perthyn i dyrfa fawr; er y gall mai bychan a di-nôd ydyw pob un sydd yn ei gwneyd i fyny. Y mae y Salm-ydd yn cymharu tyrfa i dwrf tònau y môr; ac y mae y dyn sydd heb deimlo parchedigaeth i dyrfa, yn un â diffyg mawr yn ei ben neu yn ei galon, os nad yn y ddau. Yn unol â'r syniadau hyn, gallasai nifer mawr y rhai cadwedig dynu sylw angylion, heb i'r peth ymddangos yn hynod, er bod pob un unigol o honynt yn ddibwys. Ac y mae y Bibl yn galw sylw yn fynych at nifer y rhai cadwedig: "tyrfa nad all neb ei rhifo" a welodd Ioan: "y llawer" yn rhan oedd yr addewid i'r Gwaredwr. Cyflawniad o hòno a welodd Esay pan oedd y cenhedloedd yn rhodio at oleuni yr eglwys, mor aml eu nifer, fel eu cymherir hwynt i gwmwl yn cuddio wyneb y ffurfafen. Ond yn y testyn, un pechadur sydd yn tynu sylw, nid yr holl dyrfa o waredig-ion,—nid cenedl,—nid cenhedlaeth. Yr oedd holl garedigion rhyddid yn y wlad hon yn llawenhau wrth glywed yn ddi-weddar fod pedair miliwn o gaethion wedi eu rhyddhau yn yr America. Yr oeddent wedi clywed am unigolion yn myned yn rhydd lawer gwaith o'r blaen, heb deimlo llawer o lawenydd: ond yn awr yr oedd lliosogrwydd y nifer yn cynyrchu llawenydd mawr yn eu mynwesau. Ond y mae llawenydd yn ngwydd angylion Duw am un. Nid oedd byddin y Syriaid ddim yn ymladd â bach nac â mawr, ond âg un yn unig; ond erbyn deall y rheswm am y peth, nid rhyfedd hyny,—brenin oedd yr un hwnw; ac yr oedd ei gysylltiadau a'i sefyllfa yn ei wneyd yn bwysig, fel ag yr oedd ei orchfygu ef, er nad oedd ond un, yn orchfygu yr holl fyddin wrthwynebol. Ond nid brenin sydd yn y testyn; nid un yn dàl perthynas mòr bwysig â chreadig-aeth Duw, fel y byddai ei gael ef yn sicrhau tyrfa i'w ddilyn: na; un pechadur ydyw. Gall mai Zachëus, y publican

dirmygus a fydd; neu Manasseh, yr hwn yr oedd cenedl gyfan yn llawenychu wrth weled anghenfil o'i fath mewn cadwynau; neu Mair Magdalen, yr hon oedd yn warth i'r rhyw y perthynai iddo, ac y tybiai pawb y buasai y byd yn llawer gwell hebddi. Bydded felly: "y mae llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo." Y mae yn rhaid fod bod yn gadwedig yn beth annhraethol fwy pwysig nag yr ydym ni yn ei dybio, onidê ni buasai dychweliad *un* yn tynu sylw angylion.

3. Mae pwysigrwydd cadwedigaeth yn dyfod i'r golwg, gan fod y gwaith *yn ei gychwyn* yn achosi llawenydd i angylion: "am un pechadur *a edifarhäo*." Fe ddywedir i ni, pan fu farw Lazarus, i angylion ddwyn ei enaid ef i fynwes Abraham: ac esiampl oedd hyny, y mae yn ddiamheuol, o'r hyn sydd yn cymeryd lle gydâ'r holl gyfiawnion; a phe buasem ni yn darllen fod llawenydd yn ngŵydd angylion Duw ar adeg o'r fath yna, nid mor ddieithr a fuasai y peth: ond nid hwnw yw llawenydd y testyn; nid golwg arno wedi cyraedd adref sydd yn ei gynyrchu, ond golwg arno yn cychwyn. *Edifarhau;*—nid ei weled yn Nghanaan sydd yn eu gwneyd hwy yn llawen, ond ei weled rhwng Pihahiroth a Baal-Sephon. Nid canfod y publican yn ŵr cyfiawn yn ei dŷ sydd yn eu gwneyd yn llawen, ond ei ganfod yn bechadur yn curo'i ddwyfron yn y deml. Nid gweled Josua yn ei ddillad gwychion sydd yn eu gwneyd yn llawen, ond ei weled yn teimlo yn anhapus yn y rhai budron. Nid gweled y mab afradlon â'r wisg oreu am dano, a danteithion goreu tŷ ei dad ger ei fron, sydd yn achosi llawenydd y testyn; ond ei weled yn methu maddeu iddo 'i hun, yn ei garpiau yn y wled bell, am adael ty ei dad. Pechadur yn edifarhau,—yn gadael yr Aipht ysbrydol: nid wyf yn sicr y gellir ei alw yn hyny, ond yn flino arni. Os nad ydyw yn cychwyn o Babilon, y mae'n wylo ar làn ei hafonydd hi. Edifarhau,—nid oes cyfnewidiad mawr oddiallan: hyny sydd, tipyn o gyfnewidiad yn y meddwl ydyw eto, nid yw yn beth mawr;—nid ydyw yn heddwch: na, teimlad euog yn y gydwybod,—nid tangnefedd uwchlaw pob deall yn y galon. Feallai y gellir rywbryd ei alw yn heddwch â Duw, yn obaith da trwy ras, yn ddelw Duw. Ond heddyw, nid ydyw ond enaid fel colomen Noah, yn methu canfod yr un brigyn ar wyneb y ddaear, na'r un arch ar wyneb

y dyfroedd, i gael dim gorphwysdra. Pechadur yn edifarhau,—y clefyd yn dechreu troi: bydd y dyn ar ei glaf-wely am amser maith eto; ond y mae y clefyd wedi troi. Pe gwelem ni bethau yn eu goleuni priodol, ni a deimlem fod bod yn gadwedig, cael gafael ar fywyd tragywyddol, yn beth pwysig, gan fod gweled osgo at ei gael yn llanw mynwes angylion â llawenydd. Er's ychydig flynyddau yn ol, fe chwythwyd llong gan ystorm, i fyny yn lled bell i'r traeth,—mor bell fel nad oedd braidd obaith yn mynwes neb y gwelid hi yn nofio byth wed'yn, oherwydd, yr oedd hi, nid yn unig yn bell oddiwrth y môr, ond wedi suddo hefyd yn isel yn y tywod: ond erbyn amser gorllanw *(spring tide)* uwch na chyffredin, fe dorwyd ffosydd dyfnion o gwmpas y llong, i'r llanw mawr gael ei hamgylchu hi. Ac, O! gydâ'r fath bryder yr oedd pawb o honom yn edrych arni,—yn craffu ar y llanw yn codi yn uwch uwch o hyd; ond yr oedd y llong yn parhau yn sefydlog fel craig; ond wedi hir ddisgwyl, o'r diwedd dyna y dyrfa yn rhoddi bloedd nes rhwygo'r awyr.—Beth sydd wedi digwydd? a ydyw y llong wedi myned i'r môr? Nac ydyw. A ydyw hi wedi nofio? Nac ydyw. Beth oedd y floedd yna, ynte? Dim, ond am ei bod hi yn dechreu ysgwyd,—yn dechreu siglo tipyn. Pechadur yn edifarhau,—Beth yw hyny? Y llong oedd wedi ei chladdu yn ddwfn yn hen draeth pechod yn dechreu siglo; llanw mawr cariad Duw wedi rhedeg o'i chwmpas hi yn sianel Iawn y groes, nes y mae hi yn dechreu ysgwyd. Y mae angylion yn crechwenu wrth ei gweled hi yn ysgwyd. "Llawenydd yn ngŵydd angylion Duw am un pechadur a edifarhäo."

4. Y mae pwysigrwydd cadwedigaeth i'w ganfod, wrth fod edifeirwch un pechadur yn destyn llawenydd i *holl* angylion Duw. Y mae hyn ar unwaith yn rhoddi cadwedigaeth pob pechadur yn gyd-stâd â phethau mawrion yr ymherodraeth ddwyfol; oblegid nid ydyw'r holl angylion yn cymeryd rhan ond yn y pethau mawrion. Os bydd cyfundraeth o fydoedd i gael eu creu, y maent oll yno yn cyd-ganu ac yn cyd-orfoleddu y pryd hyny. Os bydd tanllyd gyfraith i gael ei chyhoeddi, y maent ar Sinai yn ugain mil a mwy i roddi mawredd ar yr amgylchiad. Os bydd Duw yn ymddangos yn y cnawd, y mae y gorchymyn yn myned allan, "Ac addoled holl angylion Duw

Ef;" ac mewn ufudd-dod i'r gorchymyn, y maent yn Bethlehem yn lliaws o lu nefol yn molianu Duw, gan ddywedyd:—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Os bydd Buddugoliaethwr Calfaria yn myned adref, y maent yn gerbydau Duw heb rifedi, yn gwneyd i fyny y gosgorddlu sydd yn myned gydâg Ef i mewn trwy y drysau tragywyddol i'r ddinas. Os bydd byd i gael ei farnu, y mae y Barnwr yn dyfod, a'r holl angylion sanctaidd gydâg Ef. Ond am lawer o bethau eraill, oeddent yn ymddangos i ni yn fawrion, rhyw un neu ddau o'r angylion fydd yn cyflawni y pethau hyny. Un angel dinystriol a fu yn taraw yr Aipht yn ei chyntafanedig. Un angel a darawodd bedwar ugain a phump o filoedd yn ngwersyll y Syriaid. Dau angel a fuant yn dinystrio dinasoedd y gwastadedd. Ond y mae cadwedigaeth un pechadur mor bwysig fel y mae yn llawenydd yn ngŵydd holl angylion Duw, pan y mae hyn yn cymeryd lle. Y mae hyn yn dangos fod cadw pechadur yn perthyn i'r un dosbarth o bethau a chreu bydoedd, a rhoddi deddf iddynt,—ag ymddangosiad Duw yn y cnawd,—a dychweliad y Buddugoliaethwr adref, ac a barnu y byd. Y mae bod yn gadwedig o bwys mwy nag yr ydych chwi yn ei dybio: rhaid naill ai bod angylion neu chwi yn camsynied; naill ai y mae eu pryder hwynt, neu y mae eich difaterwch chwi yn afresymol. A pha un sydd fwyaf tebyg o fod felly, bernwch chwi! Yr angel sydd yn barnu yn iawn. O na chaech chwi weled y mater yn yr un goleuni â'r angel, nes dyfod i lefain, "Beth sydd raid i ni wneuthur fel y byddom gadwedig."

Wedi edrych fel hyn ar y goleuni y mae llawenydd angylion yn ei roddi ar bwys eich cadwedigaeth chwi a minau, ni a edrychwn, i ddyfnhau yr un argraff,—

II. Ar rai o elfenau neu achosion y llawenydd. Yr wyf yn meddwl y gellir eu cael hwynt heb ystumio nemawr neu ddim ar y gwirionedd yn y ddameg y llefarwyd y testyn mewn cysylltiad â hi, sef Dameg y Dryll Arian. Dryll arian ydoedd,—dryll arian wedi ei adferyd yn ol i'w le ydoedd,—dryll arian y cymerwyd trafferth fawr i gael gafael arno. Felly yr oedd ei werth ynddo ei hun,—ei weled yn ei le priodol,—a gweled na bu yr holl drafferth ddim yn ofer, yn achos llawenydd y wraig

a'i chyfeillesau: Paham y mae angylion yn llawen?

1. Y mae gwerth yr hyn sydd yn cael ei gadw yn un achos o'r llawenydd: enaid, dryll arian. 2. Elfen arall o hono ydyw gweled creadigaeth Duw yn dyfod i'w lle, i drefn: y dryll yn dyfod o'r llwch. 3. Elfen arall ydyw, gweled trefn Duw wedi ateb ei diben: yr ysgubo a'r ceisio yn ddyfal heb fod yn ofer.

1. Y mae gwerth yr hyn sydd yn cael ei gadw yn achos o'u llawenydd: dryll arian. Gall nad oedd y dryll ddim yn cynwys swm mawr o arian; er hyny, yr oedd y fetel o ba un y gwnaed ef, a'r argraff oedd arno, yn peri ei fod yn werthfawr yn ngolwg pawb, ac yn agor drws iddo i bob man. Yr oedd llawer o bethau yn mhabell lwydaidd y wraig y buasai yn ofer disgwyl iddynt gael eu derbyn i mewn i balas y brenin; a phe derbyniasid hwynt, anharddwch fuasent i'r palas: ond am y dryll arian, ni buasai y palas ei hun ddim yn cael ei ddi-anrhydeddu gan bresenoldeb hwn. Y mae yr enaid sydd i'w gadw neu i'w golli, yn werthfawrocach nag aur, na chŷn o aur Ophir. Ond mor aml y gellir dweyd am dano yn ei berthynas â ni, mai gwerth ydyw yn nwylaw ffyliaid, sef yn meddiant rhai sydd heb ddirnadaeth am ei werth. Buasai dynion cyffredin yn edrych ar y perlau drudfawr, y *Koh-i-noor* a'r cwbl, sydd yn y Tŵr yn Llundain, heb feddwl nemawr o honynt, er eu bod yn werth canoedd o filoedd o arian: ïe, gallasai pethau bychain, gwael, nad ydynt ond teganau plant o'u cymharu â'r perlau, gael eu prisio yn uwch ganddynt hwy, na'r perlau; ond ffyliaid a wnaent hyny; diffyg cydnabyddiaeth â phethau gwerthfawr a fyddai yr achos o hyny. Y mae angylion yn gydnabyddus â phethau gwerthfawr: medrant hwy brisio y perlau. Gwyddant hwy rywbeth am werth enaid, sef y gwerth y mae nerth galluoedd, a meithder parhad yn ei roddi arno. Nid ydym ni yn deall ei werth yn llawn yn yr un o'r ystyriaethau yna. Nid ydym yn ymwybodol o'r gallu arswydlawn sydd yn ein meddiant. Fe welwyd cyn hyn blentyn hynod yn marw yn chwech oed: yr oedd ei alluoedd yn gryfion iawn, ei ddeall yn fywiog, ei farn yn addfed, pob peth o'i gwmpas yn awgrymu fod mawredd anghyffredin yn perthynu iddo; ond nid oedd ef ei hun yn ymwybodol o hyny: ond yr oedd ganddo frawd, un ar hugain oed, yn gwybod y

pethau hyn oll. Gofynai hwnw yn fynych am dano, Beth a fydd y bachgen hwn? Yr oedd efe yn ei farnu, nid yn gymaint wrth ddim a wnaeth, ond wrth yr hyn a wnai, os câi fyw, wedi i'w alluoedd mawrion gael eu perffethio. Felly ninau, nid nid ydym yn ymwybodol o'r gallu sydd ynom; ond y mae ein brodyr hynaf ni, yr angylion, yn gwybod beth ydyw. Gwyddant hwy, oddiwrth eu hymwybodolrwydd eu hunain, ac oddiwrth eu sylw ar eraill, beth ydyw gallu enaid. Gwyddant hwy beth ydyw enaid wedi ei gadw: gwyddant hwy trwy sylw beth ydyw enaid wedi ei golli. *Enaid wedi ei golli!* Pwy nad oedd yn teimlo gresyndod wrth ddarllen am y Dr. Prichard a gafodd ei grogi yn ddiweddar yn Glasgow?—dyn ag ydoedd wedi cael yr addysg oreu, ac wedi arfer symud yn rhai o gylchoedd parchedicaf cymdeithas. Ac yr oedd y teimlad hwn yn llanw ein mynwes mewn dull mwy arbenig eto, wrth ddarllen am Constance Kent, y foneddiges ieuanc, un ar hugain oed, yr hon oedd wedi ei dwyn i fyny yn foethus, ei haddysg wedi bod o'r fath oreu, ei rhagolygon, can belled ag y gallasai sefyllfa yn y byd eu gwneyd felly, o'r fath fwyaf dymunol; eto, am ei phechod ysgeler, yn cael ei halltudio am byth oddiwrth yr holl bethau hyn, a gagendor fawr yn cael ei sicrhau rhyngddi a'r byd ymhob ystyr ag yr oedd yn werth bod ynddo: ni bydd ei gymdeithas byth mwy yn ddim iddi hi; ni bydd ei ddarganfyddiadau na'i helyntion, eled ymlaen neu eled yn ol, yn ddim iddi hi; y mae pob cysylltiad rhyngddi a'i pherthynasau wedi ei dòri,—cyfeillesau neu gyfeillion nid oes iddi hi mwy,—nid oes ganddi ddim i'w obeithio, dim i'w gadw, dim i'w ofni,—y mae hi wedi marw;—oblegid beth yw bywyd, wedi colli y pethau yna, ond marwolaeth? Drych rhy wan o lawer ydyw hwn i ddangos fel y mae angylion yn edrych ar enaid wedi ei golli;—holl hanfodiad y creadur wedi bod yn ofer; fel y gellir ysgrifenu uwch ben pob un o'i alluoedd, *colledig.* Llygad cryf y deall hwnw, wedi ei agor i'w lawn faint, yn myned i wlad na bydd dim goleuni ynddi byth. *Colledig;*—calon oedd wedi ei llunio o bwrpas i garu, yn myned i fyd na bydd yno yr un gwrthddrych o'i fewn i'w garu yn dragywydd. *Colledig!* cydwybod oedd wedi ei gwneuthur yn gartref tangnefedd, i ymweithio yn heddwch fel yr afon trwy

yr holl enaid, yn myned yn gartref y pryf a fydd yn ymwingo yn drueni ynddi byth. *Colledig!* nid rhyfedd fod angylion sydd yn gwybod y pethau hyn yn llawenychu wrth weled yr arwydd lleiaf fod pechadur yn debyg o osgoi y fath drueni; ac fe ŵyr angel hefyd beth ydyw enaid wedi ei gadw. Fe ŵyr ef y fath beth mor hyfryd ydyw i lygad mawr y deall gael edrych ar Haul y Cyfiawnder;—mor felus ydyw i'r galon gael rhedeg drosodd mewn cariad na siomir mo hono byth yn ei wrthddrych. Fe ŵyr angylion y fath le difyr sydd yn nghymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig; fe wyddant hwy beth ydyw y bywyd o hedd y mae edrych ar yr Oen yn nghanol yr orseddfainc yn ei roddi i'r fynwes. Am eu bod, bechadur, yn gwybod ychydig am werth dy enaid, y maent yn sylwi mor bryderus arnat ti yn moddion gras.

2. Elfen arall yn eu llawenydd ydyw gweled creadigaeth Duw yn ail ddyfod i drefn. Y dryll yn dyfod o'r llwch; *chaos*, tryblith y codwm yn cilio yn raddol i roddi lle i greadigaeth newydd, yn yr hon y bydd cyfiawnder yn cartrefu. Y maent yn llawen am eu bod yn gweled yr addewid yn dechreu cael ei chyflawni o "grynhoi ynghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, ynddo Ef." A dim ond eu cael ynddo Ef, bydd yr oll yn un gyfundrefn berffaith, a fydd yn gymaint o glod i ddoethineb Duw ag a fydd hi i'w ddaioni a'i ras.

3. Yr elfen olaf o'r llawenydd ydyw gweled trefn Duw yn ateb ei diben: goleuo y ganwyll, ysgubo y tŷ, a cheisio yn ddyfal, wedi llwyddo i gael gafael yn y dryll a gollasid. Pan y mae'r anturiaeth i wneuthur unrhyw beth wedi bod yn fawr, y mae y llawenydd o weled yr anturiaeth yn ateb ei diben yn fawr hefyd. O holl anturiaethau ymherodraeth Duw, y ddyfais i gadw oedd y fwyaf; y fwyaf, os ystyrir y doethineb oedd yn angenrheidiol i'w chynllunio; y gallu oedd yn angenrheidiol i orchfygu y rhwystrau oedd ar y ffordd; y cyfoeth oedd raid ei gael i'w chario hi allan. Yr oedd yma gwestiwn dyrys i ddoethineb i'w ateb, sef, pa fodd y gellir cysylltu gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ewyllys da i ddynion â'u gilydd? Fe ganfu doethineb y ffordd, ond cael Person digon mawr i lanw y gwagle â'i haeddiant ei Hun. A phan oedd hi wrth chwilio

am dano yn gofyn, "Pwy a anfonaf?" wele rywun yn ei hymyl yn ateb, "Wele fi, anfon fi." Ac am fod ei fraich yn gref, fe gysylltodd y ddau; a phan oedd Efe yn dibenu y gorchwyl, i roddi prawf i bawb ei fod wedi gwneyd hyny, fe lefodd, "Gorphenwyd." Fe lanwodd y gair fynwes angylion â llawenydd; ac y mae pobpeth sydd yn eu hadgofio o hyny yn eu gwneyd yn llawen eto. Pechadur yn edifarhau, beth yw hyny? Prawf fod "Gorphenwyd" Calfaria wedi cysylltu gogoniant Duw ac ewyllys da i ddynion â'u gilydd. Er mor ddymunol fuasai cysylltu Ewrop ac America â'u gilydd, y mae medr ein dynion celfydd ni, a chyfoeth ein marsiandwyr ni, wedi methu: fe dorodd y rhaff tua chanol y môr. Pe buasent wedi eu cysylltu, buasai Ewrop ac America yn gwybod hyny bob dydd, am y buasai rhywbeth yn pasio trwy y rhaff, o'r naill gyfandir i'r llall.* Mil-fil o weithiau anhaws na hynyna oedd cysylltu gogoniant Duw, ac ewyllys da i ddynion â'u gilydd; ond fe wnaed hyny mewn Iawn: a phob tro y mae pechadur yn edifarhau, yr ydym yn cael prawf newydd fod y cysylltiad yn parhau. Y mae yna rywbeth yn pasio trwy y rhaff.

1. Os ydyw angylion yn pryderu cymaint ynghylch colli neu gadw dy enaid di, pa synwyr sydd mewn i ti dy hun fod yn ddifater? Ac os yn ol y byddi di, fe fydd pryder angylion ynghylch hyny yn un elfen fydd yn dy gondemnio di y dydd diweddaf.

2. Pa un ai testyn llawenydd i angylion, ai ynte i gythreuliaid, a roddi di ar ddiwedd yr odfa hon?

3. Y mae bod cadwedigaeth yn dechreu mewn peth mor fychan ag edifarhau, yn dy wneyd yn ddiesgus byth os yn ol y byddi.

[Awst 4, 1865.]

* Fe gyfansoddwyd y bregeth, y mae yn amlwg oddiwrth y sylw hwn, cyn ail osodiad y pellebyr, ar ol toriad y rhaff y tro cyntaf, ar draws y Werydd. Erbyn hyn, ac er's blynyddoedd bellach, fel y mae'n hysbys, y mae'r orchest wedi ei chwblhau.

# PREGETH V.

## ALLAN O GRIST AC YN NGHRIST.

I. Corinthiaid i. 30: "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth."

NID oes dim yn rhoddi y fath olwg isel ar ddyn ag a rydd yr efengyl; ac nid oes dim yn dyrchafu dyn mor wirioneddol uchel a'r efengyl. Pan y ceisia ofn guddio ei noethder ysbrydol â rhyw ddail diwerth fel y gwnai ein rhieni cyntaf yn Eden gynt, y mae'r efengyl yn dyfod ymlaen ac yn eu tynu oll i ffordd, gan ei ddangos yn holl erchylldra ei drueni. Nid yn unig y mae hi yn dangos pechod yn ei liw ei hun, "pechod yn bechod," "yn dra phechadurus;" —ond y mae hefyd yn dangos nad ydyw y pethau a ystyrir yn rhinweddau, ond blodau yn tyfu ar domen, neu wyrddlesni yn gorchuddio cŷff marw, neu wyn-galchiad ar fedd llawn o esgyrn a llygredigaeth: erbyn eu barnu wrth safon iawn, nid rhinwedd, nid da ydynt, "nid oes ynof fi ddim da yn trigo."

Yn nechreu y llythyr at y Rhufeiniaid, ni a gawn ddarluniad o'r byd yn ei ystâd druenus, yn gorwedd mewn drygioni: nid yn ddrwg,—gallasai fod felly, a gweddillion daioni ynddo,— ond yn ddrygioni: pob elfen o ddaioni wedi cilio, y tywyllwch yn dywyllwch eithaf, am fod pob pelydryn o oleuni wedi ymadael. Yn nechreu yr epistol at y Corinthiaid, ni a gawn gyfeiriad at yr hyn oedd yn cael ei wneuthur i geisio diwygio y byd, trwy yr hyn a elwir yma yn ddoethineb; ond nid oes dim

diwygio ar farwolaeth. Addurnwch fedd y faint a fynoch, ni newidia addurniadau ddim ar ei garacter. Nid ydyw cuddio llygredigaeth yn ei ddifodi. Nid oes dim gwellhau ar y byd; y mae yn rhaid ei ail wneyd, ei greu o'r newydd. A welsoch chwi yr adeilad yna? Ei ben wedi syrthio iddo, a phob darn o hono sydd heb gael ei wneyd yn gwbl gydwastad â'r llawr yn hollol adfeiliedig; y muriau yn agenau, ac fel yn crynu ar eu sylfeini; gallant syrthio unrhyw foment: ofer ydyw sôn am adgyweirio yr adeilad yna; os gwneir dim iddo, rhaid ei ail wneyd o'i sylfaen i fyny. Dyna y natur ddynol: yr oedd y ddoethineb, y mae yr apostol yn sôn am dani, yn ceisio adgyweirio ychydig arni; ond yr oedd hi yn methu gwneyd dim hyd yn nod i'r darnau goreu o'r adeilad; yn methu dyrchafu y doethion eu hunain, heb sôn am ddosbarthiadau isaf cymdeithas. Ond y mae'r efengyl yn dechreu gyda'r gwehilion, ac yn eu hail wneyd: nid gwellhau ychydig arnynt, ond eu creu o'r newydd, ac felly "yn gwaradwyddo y doethion." Yr oeddent hwy yn methu perarogli y byd, i gadw'r farwolaeth rhag llygru; ond mae yr efengyl yn gwneyd peth annhraethol fwy, sef ei fywhau. Y mae hi yn ei ail wneyd o'r gwaelod i fyny; yn puro dosbarthiadau isaf cymdeithas; ac yn ymweithio i fyny, hes meddianu brenhinoedd a phendefigion y ddaear.

Yr oedd bod yr efengyl yn gwneyd hyn yn peri "na orfoleddai un cnawd ger ei fron Ef: Yr oedd trefn Duw, trwy ei bod yn gwneyd hyn i ysgubion y byd, "yn gwaradwyddo y doethion." Yr oedd swynwyr yr Aipht gynt yn medru gwneyd pethau tebyg i weithredoedd Moses, ac felly yn tynu ychydig yn ymddangosiadol oddiwrth fawredd a rhagoriaeth y rhai hyny; ond y mae doethion y byd hwn wedi methu gwneyd dim tebyg i'r hyn y mae'r efengyl yn ei wneyd, er cael defnyddiau mwy manteisiol i weithio arnynt nag a gafodd hi, "fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron Ef." Ac nid yn unig y mae y drefn o ran ei chynlluniad, a'i chyfaddasder i gyraedd ei hamcan, yn gyfryw ag i guddio gorfoledd oddiwrth ddynion, ond y mae yn null ei chymhwysiad hefyd, i gyraedd yr amcan hwnw, yn gwneyd yr un peth, "fel na orfoleddai yr un cnawd ger ei fron Ef." "Eithr yr ydych chwi,"—chwychwi sydd wedi profi dylanwad trefn Duw,—"o hono Ef," y Tad; "yn Nghrist

Iesu, "yn y Mab; "o hono Ef,"—o'i ras a'i ewyllys da Ef, fel yr achos cymhelliadol i sylwi arnoch, "o hono Ef," trwy ei drefn Ef, fel y ffordd y dygwyd chwi i'r sefyllfa yr ydych ynddi; "o hono Ef," trwy ei Ysbryd, y gweithiwr mawr a gariodd allan y meddwl o ras yn ol y drefn. "O hono Ef," fel yr oedd brodyr Joseph yn Gosen o Joseph: Joseph feddyliodd am eu cael hwynt yno; Joseph gynlluniodd y ffordd i'w cael hwynt yno; Joseph a ddarparodd yr hyn oedd yn angenrheidiol i gario y cynllun i weithrediad: Yr oeddent hwy yn Gosen o hono ef: felly yr ydych chwithau, "o hono Ef yn Nghrist Iesu." "Ynddo:"—ynddo mewn ystyr gyfreithiol, trwy undeb cyfamodol; ynddo hefyd yn wirioneddol trwy undeb bywiol. "Yn Nghrist," trwy undeb cyfreithiol neu gyfamodol, fel yr oedd y natur ddynol yn Adda. Yr oedd yr undeb hwnw yn peri fod cyfraith yn edrych ar bawb sydd ynddo fel un person; un Adda mawr ydyw yr holl ddynoliaeth yn llygad cyfraith; "aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb," yn yr undeb hwnw. Felly, un Crist ydyw'r Eglwys yn llygad cyfraith: y mae hi yn gymeradwy yn yr Anwylyd, am fod yr Anwylyd ei Hun yn gymeradwy: ei gymeradwyaeth Ef ydyw ei chymeradwyaeth hi. "Yr Hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw:" a wnaethpwyd;—y mae hyn yn cynwys yr apwyntiad a'r cyfaddasiad a fu ar y Person mawr i'r gwaith: y neillduad tragywyddol arno yn Waredwr, a'r holl amgylchiadau yr aeth trwyddynt, a'r cwbl a ddioddefwyd ganddo, er ei gymhwyso fel y cyfryw.

Wedi myned dros y testyn fel hyn, ni a drown yn awr i edrych ar dair golygfa a allwn ganfod ynddo. I. Dyn allan o Grist. II. Crist yn cael ei wneyd ar gyfer dyn. III. Dyn yn Nghrist. Wrth edrych ar yr olygfa gyntaf, ein hiaith a fydd, "Wel, dyma drueni." Wrth edrych ar yr ail, nis gallwn lai na dywedyd, "Wel, dyma gyfoeth." Ac wrth edrych ar y drydedd, ein teimlad a fydd, "Wel, dyma ddedwyddwch." Dymunwn gael eich sylw am ychydig at y tair golygfa: y trueni, y cyfoeth, a'r dedwyddwch.

I. Dyn allan o Grist. Y mae y sefyllfa hon yn cael ei rhagdybio yn y testyn; ac ni a allwn, oddiwrth ddarpariaeth trefn Duw ar gyfer dyn, gasglu pa beth ydyw sefyllfa dyn allan o

Grist; oblegid y mae pob darluniad sydd yma o gyfoeth y drefn, yn ddarluniad hefyd o fawredd y trueni. Os ydyw Crist yn ddoethineb, y mae dyn yn ffolineb: os ydyw Crist yn gyfiawnder, y mae dyn yn euog: os ydyw Crist yn sancteidd-rwydd, y mae dyn yn halogedig: os ydyw Crist yn brynedig-aeth, y mae dyn yn gaethwas. Y mae ymhob un o'r pethau hyn ar wahan haen o drueni, ond erbyn eu casglu at eu gilydd, y maent yn drueni ar drueni,—plygiau o drueni ar drueni. Nis gall dyn ystyriol ddim myned heibio i wallgofdŷ, heb i deimlad pruddaidd ei feddianu; y mae yr un teimlad yn ddyfnach eto yn ei fynwes wrth fyned heibio i garchar, y byddo un condemn-iedig yn un o'i gelloedd; y mae teimlad cyffelyb yn y fynwes wrth fyned heibio i ysbytŷ y rhai anfeddyginiaethol; ac y mae yn neillduol felly, wrth edrych ar gadwen y caethwas: ond y mae yn rhaid cael y cwbl o'r rhai yna at eu gilydd,—y gwall-gofdŷ, y carchar, yr ysbytŷ, a chadwen y caethwas,—i ddangos cyflwr dyn allan o Grist. Y mae yn ffol,—dyna fe yn ddeiliad gwallgofdŷ: y mae yn anghyfiawn,—dyna fe yn nghell y condemniedig: y mae yn ansanctaidd,—dyna fe yn ysbytŷ y rhai anfeddyginaethol: y mae yn gaethwas,—dyna'r cadwynau am dano. Ni waeth o ba gyfeiriad yr edrychir ar y natur ddynol, trueni a welir o bob man: newidiwch y safle yn barhaus, cewch olwg newydd arni; ond ni bydd hono ond gwedd newydd ar drueni. Os edrychir ar y natur yn ei pherthynas â'r gwrth-ddrychau sydd o'i hamgylch, fe welir ei bod hi wedi dyrysu, oblegid y mae hi yn dywedyd am y da mai drwg ydyw, ac am y drwg mai da ydyw. Os edrychir arni yn ei pherthynas â deddf, fe welir ei bod hi yn euog, a bod dedfryd condemniad arni. Os edrychir arni yn mherthynas ei gwahanol alluoedd hi â'u gilydd, fe welir fod clefyd marwolaeth wedi ymaflyd ynddi. Os edrychir arni yn ei pherthynas â chreaduriaid eraill, fe welir ei bod yn was gweision, yn gaeth i bawb. A dyna ydyw uffern y byd a ddaw,—gwallgofdŷ yr ymherodraeth ddwyfol; dienyddle y rhai condemniedig; ysbytŷ yr *incurables*, y rhai anfeddyginiaethol; a thŷ caethiwed y '*slafiaid.* A chofiwn mai nid darluniad o'r natur yn ei chyfanswm ydyw hyn: buasai yn wirionedd tra galarus, pe buasai o'r teulu rai yn ffol, eraill yn anghyfiawn, eraill yn ansanctaidd, ac eraill yn gaethion; ond y

mae'r mater yn annhraethol waeth na hynyna;—darluniad ydyw hwn o bob dyn yn bersonol. Y mae yr holl haenau hyn o drueni, yn perthyn i bob un sydd yma yn awr allan o Grist; ac nid yw dy fod di heb deimlo y trueni, yn ddim ond prawf o wirionedd y nôd cyntaf yn y darluniad, sef dy fod yn wallgof. Ni a adäwn olygfa gyntaf y testyn, heb aros dim yn hwy i sylwi arni; ond, wrth ei gadael, gwyliwn rhag ei hanghofio: ac ni a dröwn

II. I edrych ar Grist Iesu yn cael ei wneuthur ar gyfer dyn: "Yr Hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw." Wedi edrych ar drueni dyn, ar nifer a maint ei anghenion, y mae cwestiwn y disgyblion, a chwestiwn y tywysog hwnw yn Israel, yn ymgynyg i'r meddwl:—O ba le y ceir digon i'r fath dyrfa o anghenion? A phe gwnelid ffenestri yn y nefoedd, a ellid digoni cynifer a hyn? Pe casglesid holl gyfoeth y nefoedd a'r ddaear at eu gilydd, holl adnoddau yr ymherodraeth ddwyfol i'r un man: doethineb angylion, cyfiawnder cerubiaid, sancteiddrwydd seraphiaid, buasai trueni y ddynoliaeth yn ei lyncu mewn amrantiad o'r golwg, fel y llyncai cors leidiog y cwbl a deflid iddi. Os oedd ymwared i ddyfod, yr oedd yn rhaid edrych am dano y tu allan i derfynau yr ymherodraeth ddwyfol. Gyda pharch y dywedwyf, nid yn unig nid oedd dim digon o gyfoeth yn ymherodraeth Duw ar gyfer y trueni, ond nis gallasai yr anfeidrol ddim *creu* digon ar ei gyfer. Fe wnaeth y "Bydded" hollalluog bethau mawrion a rhyfedd; fe lanwodd yr eangderau â bydoedd, a diau ydyw y gallasai wneyd myrdd myrddiynau o rai cyffelyb iddynt; fe boblogodd y rhai hyny â chreaduriaid ardderchog iawn; ond am a wn i, gallasai yr Arglwydd greu creaduriaid annrhaethol ddoethach a chyfoethocach ymhob ystyr o'r gair, na dim o'r rhai a grewyd eto: ond yr oedd y "Bydded" yna, er mor alluog ymhob man, yn ddinerth uwchben trueni y natur ddynol. I wneuthur rhywbeth i hwn, y mae yn rhaid edrych i le arall, os ydoedd lle arall i'w gael; ac fe wnaed hyny,—"Duw a edrychodd iddo ei Hun." Gan na wnai cyfoeth creadigol mo'r tro, fe drodd at gyfoeth y natur ddwyfol ei hun, cyfoeth y Duwdod, ac fe gyfaddasodd hwnw i redeg i lenwi gwagle ein colledigaeth ni. "Yr Hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw." Nid gwneyd y

cyfoeth a feddylir. Yr oedd hwnw yn bod yn y natur ddwyfol erioed: yr ydoedd yn rhy fawr i'w wneyd: nid ei greu a gafodd. Trosglwyddo y cyfoeth trwy apwyntiad, ac mewn canlyniad i'r apwyntiad, gan ei gyfaddasu i ni ydyw "gwnaethpwyd" y testyn. Yr ydoedd yr apwyntiad yn ffurfio perthynas rhyngddo â ni, ac y mae y berthynas yn dyfod â chyfoeth y person mawr yn eiddo i ni. Ond y mae un gwneyd eto yn angenrheidiol, cyn y bydd mewn gwirionedd yn gyfoeth i ni, sef ei gyfaddasu. Y mae y *bariau* aur mawrion sydd yn y *Bank of England*, yn Llundain, mewn ystyr yn gyfoeth i'r deyrnas; ond cyfoeth ydyw nad ellir ei ddefnyddio heb yn gyntaf ei gyfaddasu, trwy ei fathu yn wahanol ddarnau; fe gylchreda felly ymhlith y deiliaid. Yr oedd y Person mawr Hwn yn gyfoethog eisoes: "yr Hwn ac Efe yn gyfoethog." A phan eneiniwyd Ef yn Grist i ni, fe drosglwyddwyd ei gyfoeth Ef yn gyfoeth i ni trwy apwyntiad; ond yr oedd yn rhaid iddo ddyfod yn dlawd i gyfaddasu y cyfoeth yna at ein gwasanaeth ni; a dyna oedd y groes, lle i fathu aur y natur ddwyfol i'w gyfaddasu yn gyfoeth i ni,—y *mint* lle y trowyd y *bariau* mawrion o aur y Duwdod yn gyfoeth i bechadur. Yr oedd doethineb gwreiddiol ei natur, yn dyfod yn ddoethineb i ni trwy y pethau a ddioddefai: ei gyfiawnder gwreiddiol yn cael ei gyfaddasu i ni trwy angau y groes: ei sancteiddrwydd gwreiddiol yn dyfod yn sancteiddrwydd i ni trwy farw; a'i allu a'i gyfoeth yn dyfod yn brynedigaeth i ni trwy ddioddef, "a wnaethpwyd i ni." Yr ydoedd Moses yn dlws i Dduw pan yn faban; dysgwyd ef yn holl ddoethineb yr Aipht: yr oedd ynddo ysbryd rhagorol; yr oedd ganddo dalentau heb eu hail; ac yr ydoedd perthynas hefyd rhyngddo a'r bobl; ond, er hyn oll, yr oedd yn rhaid iddo fod am ddeugain mlynedd yn Midian i gyfaddasu y rhagoriaethau oedd ynddo i fod yn iachawdwriaeth i'w frodyr. Felly Joseph: nid yn yr Aipht y cafodd yntau ei ragoriaethau; yr oeddent ynddo cyn dyfod yno; ond dioddefiadau a digwyddiadau yr Aipht, a droisant y rhagoriaethau hyny yn bris Gosen i'w frodyr. Felly, fe berffeithiwyd Tywysog ein Hiachawdwriaeth ni trwy ddioddefiadau; fe drodd y dioddefiadau ei holl ragoriaethau yn bris ac yn ddefnydd ein bywyd ni. Dyma ei ddoethineb Ef yn lle ein ffolineb ni: ei

gyfiawnder Ef yn cuddio ein heuogrwydd ni; ei sancteiddrwydd Ef yn lle ein haflendid ni; a'i brynedigaeth Ef yn lle ein caethiwed ni. Bellach fe ddaw yr afradlon gwallgof ato ei hun, am fod un wedi ei wneyd yn ddoethineb i ni; bellach, gellir agor carchar y condemniedig, a dywedyd wrthynt, "Ymddangoswch," am fod un wedi ei wneyd yn gyfiawnder i ni; bellach, gellir myned at wely y claf a dybid oedd yn anfeddyginiaethol, a dywedyd, "Cyfod, a rhodia," am fod un wedi ei wneuthur yn sancteiddrwydd i ni; bellach, gellir myned i ganol y caethion, a dryllio eu holl gadwynau, gan ddywedyd wrthynt am iddynt rodio mewn rhydd-deb, am fod un wedi ei wneuthur yn brynedigaeth i ni.

"*I ni*." Pa un ai cael eu cyfrif i ni y mae y pethau hyn, ai ynte cael eu cyfranu i ni? Y mae ystyr ymha un y maent yn cael eu cyfrif i ni: yn ein perthynas â Duw, ynddo Ef yn unig y byddwn ni yn gymeradwy byth; ni wêl y Tad mo honom ond yn y Mab. Nid beth ydym ni, ond beth ydyw Ef ydyw y cwestiwn yn llygad deddf. Edrychir arnom gan y ddeddf yn ddoeth, am ei fod Ef felly;—yn gyfiawn am ei fod Ef felly;—yn sanctaidd, am ei fod Ef felly;—yn rhyddion, am ei fod Ef felly. Yn yr ystyr hon yr ydym wedi ein cyflawni ynddo Ef,—wedi ein perffeithio ynddo Ef; ac, fel y cyfryw, yr ydym yn eistedd gydag Ef yn y nefolion leoedd. Ond y mae ystyr arall ymha un y gellir dywedyd fod y pethau hyn yn cael eu cyfranu i ni; "O'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras." Y mae ei ddoethineb Ef yn ein gwneyd ninau yn ddoeth i iachawdwriaeth;—ei gyfiawnder Ef yn peri fod cyfiawnder y ddeddf yn cael ei gyflawni ynom ni;—ei sancteiddrwydd Ef yn peri ein bod ninau yn cael ein glanhau oddiwrth bob pechod;—a'i ryddid Ef yn ein gwneuthur ninau yn rhyddion yn wir. "Efe a gymer o'r eiddof fi, ac a'i mynega i chwi." Y mae Crist trosom ni yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth. Y mae Crist ynom ni yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth. Fel y mae trosom ni, efe ydyw cynrychiolydd ei bobl, yn yr Hwn y maent yn cael eu cymeradwyo. Fel y mae yn Grist ynom ni, Efe ydyw y cynllun, y cynddelw, y *model*, yn ol yr Hwn y maent yn cael eu llunio "i fod yr un ffurf â delw ei Fab Ef." Felly, fe

fydd pobpeth y mae Duw yn ei weled ynddo Ef, i'w weled ymhen ychydig, gan holl greadigaeth Duw, ynddynt hwythau hefyd. Bydd y dyrfa gadwedig yn cymeryd eu henwau oddiwrth eu rhagoriaethau; ond erbyn sylwi ar yr enwau, nid ydynt ond adsain o enwau y testyn. Doethineb ydyw Crist yn ngolwg Duw: doethion ydyw ei bobl yn ngolwg creadigaeth Duw. Cyfiawnder ydyw Crist yn ngolwg Duw: cyfiawnion ydyw ei bobl yn ngolwg creadigaeth Duw. Sanct ydyw Crist yn ngolwg Duw: saint ydyw ei bobl yn ngolwg creadigaeth Duw. Prynedigaeth ydyw Crist yn ngolwg Duw: gwŷr rhyddion ydyw ei bobl yn ngolwg creadigaeth Duw.

Y mae yn ymddangos fod yn nhrefn y geiriau, arddangosiad o'r drefn ymha un y mae y saint yn cyfranogi o'r pethau hyn. Doethineb yn gyntaf, sef goleuo llygad y meddwl i weled y trueni; cyfiawnder wedi hyny, sef rhedeg i gysgod craig fawr ei gyfiawnder Ef i ddianc rhagddo. Sancteiddrwydd wedi hyny, sef y natur yn cael ei phuro oddiwrth bob halogrwydd; yna prynedigaeth, sef gwaredigaeth lwyr oddiwrth holl ganlyniadau y trueni. Fel yn y greadigaeth gyntaf, goleuo i ddechreu; yna trefnu y tryblith, cael y dwfr a'r tir ar wahan; yna harddu wyneb y ddaear â phob math o brydferthwch; ac yn ddiweddaf oll, cael Sabbath tawel i orphwys. Y mae y drefn yn dechreu gyda thywyllwch caddug y galon; ac y mae hi yn diweddu yn nghanol goleuni y nefoedd. Doethineb;—prynedigaeth; dyna y ddau eithaf;—yr Aipht a Chanaan: ond y mae y cwbl sydd rhwng y ddau yn y drefn. Cadwen gref ydyw hi, yn ddolen mewn dolen; ac os wyt ti yn siwr fod Crist yn ddoethineb i ti heddyw, mor sicr a hyny, bydd yn brynedigaeth i ti ryw ddydd a ddaw.

III. Edrychwn yn olaf ar y drydedd olygfa:—dyn yn Nghrist. Yn y gyntaf, ni a welsom drueni; yn yr ail, ni a welsom gyfoeth; ac yn awr ni a edrychwn ar y trueni a'r cyfoeth yn ngafael eu gilydd, sef dyn yn Nghrist. Dau sylw a wnawn ni arno:—

1. Y mae dyn mewn *bôd* yn Nghrist. Fe dybir fod cyfeiriad yn yr ymadrodd, "*yr ydych chwi*," at y "*nid ydynt*" blaenorol,—"pethau nid ydynt." Y mae pechod wedi taflu dyn, ymhob ystyr yr oedd yn werth bod yn ddyn, allan o fod. Iawn

y darlunir y sefyllfa yn un golledig. Y mae pob un o'r darluniadau o honi a rag-dybir yn y testyn, yn cynwys y meddwl hwn. Onid ydyw preswylydd y gwallgofdŷ wedi ei golli i'w deulu? Iddynt hwy y mae fel pe na byddai yn bod. Onid yw y carcharor sydd yn nghell y condemniedig wedi ei golli i'w wlad? Ni ddisgwylir na theyrnged na threth, na chymwynas oddiar ei law ef iddi byth. Onid yw yr hwn sydd yn ngafael clefyd marwol wedi ei golli i holl ddibenion bywyd? Rhaid i'r byd fyned ymlaen yn ei bobpeth hebddo ef. Y dydd yr ymaflodd y clefyd ynddo, fe'i collwyd ef i'w holl amcanion. Yn gyffelyb i hyn y mae dyn wedi ei golli:—wedi ei golli o blith teulu Duw;—wedi ei golli o blith deiliaid yr ymherodraeth ddwyfol; wedi ei golli i holl ddibenion bywyd rhesymol ac ysbrydol. Nid ydyw teulu Duw ddim yn yngan ei enw ef un amser; nid ydyw ei le ef ddim yn wâg yno, fel lle Dafydd gynt wrth fwrdd Saul; nid ydyw ysgrifenydd y ddinas, pan yn galw enwau y dinasyddion, byth yn galw enw dyn. Pan y bydd eisiau rhywun i gyflawni gorchwylion goruchel perthynol i'r llywodraeth, nid oes neb yn meddwl am i ddyn eu cyflawni hwynt. Paham? Nid ydyw mewn bod. Y mae wedi ei golli ymhob ystyr y mae yn werth bod yn ddyn. Ond yn Nghrist, dyma fe mewn bôd eto. "A fu golledig, ac a gafwyd." Y mae wedi ei greu o'r newydd yn Nghrist. Trowch bellach, lle y mynoch, dewch o hyd i ddyn. Ewch i mewn i deulu Duw, cewch glywed enw dyn yn Nghrist yno, fel aelod lled bwysig o'r teulu. Ewch i ddinas y Brenin mawr, cewch weled enw "dyn yn Nghrist" ar restr y dinasyddion. Darllenwch yn llyfr coffadwriaethau hanesion amseroedd yr ymherodraeth ddwyfol, i weled pwy sydd wedi gwneyd rhyw waith teilwng o fod ar gof a chadw, cewch weled fod "dyn yn Nghrist" wedi hysbysu i'r tywysogaethau a'r awdurdodau fawr amryw ddoethineb Duw. Yr oedd rhywbeth rhyfedd yn Iesu Grist: pa beth bynag a gysylltid âg Ef, yr oedd yn neidio allan i fod yn y fan. Cysyllter Bethlehem âg Ef, ac er ei bod hi yn lleiaf ymysg miloedd Judah, hi fydd mewn bod o'r dydd hwnw allan. Cysyllter Nazareth â Christ, ac er na wyddai y byd ddim am dani o'r blaen, ni bydd heb wybod mwy. Cysyllter Golgotha, Lle'r Benglog, âg Ef, a bydd ei enw wedi ei ysgrifenu yn fwy parhaus

na phe buasai wedi ei gerfio â phin o haiarn ac â phlwm yn y graig. Ac os cei dithau, fy nghyfaill, dy gysylltu â Christ, er dy fod yn awr yn un o'r pethau nid ydynt, ti gei *fod*, ti gei *fod byth*, ynddo Ef.

2. "*Dyn yn Nghrist*" *eto*,—nid yn unig y mae yn bod, ond y mae y bod hwnw yn un urddasol, cyfoethog, a gogoneddus. Byddwn yn arfer dywedyd fod pechod dyn yn tynu sylw ato, ac felly y mae y peth yn bod; ond ei wneyd yn hynod y mae hyny, ac nid yn enwog. Y mae cryn wahaniaeth rhwng y ddau beth. "Y neb a gam-drŷ ei ffyrdd," medd y gwr doeth, "a fydd hynod." "Ni bydd had yr annuwiol enwog byth," medd y prophwyd. Ond y mae y "dyn yn Nghrist" yn enwog, —"yn enwog yn holl dir dy warth." Nid ydyw yr hynodrwydd sydd ynglŷn â phechod ddim yn parhau ond dros ychydig. Y mae sylw y deyrnas yn cael ei dynu dros amser bŷr at y dyn sydd wedi lladd ei gyd-ddyn; ond wedi i'r llofrudd gael ei ddienyddio, y mae ei enw yn pydru, yn colli o fod; felly fe dŷn y dyn annuwiol sylw mawr am ddiwrnod ei brawf, ond gydâg iddo fyned i'r dienyddle, bydd ei enw yn pydru, ac yn myned dros gof am byth yn llywodraeth Duw. Ond nid un hynod ydyw y dyn yn Nghrist, ond un enwog, un urddasol. Yr oedd dyn yn Eden yn greadur hardd, ond nid ydoedd ei urddas yn ddim at ddyn yn Nghrist. Nid ydoedd holl ragoriaethau dyn yn Eden ond rhagoriaethau y glaswelltyn a'i flodeuyn,—prin yr oeddent yn werth ymffrostio ynddynt, gan fod y meddiant arnynt mor ansicr. Yr oeddent fel had yn tyfu ar y graig: er cychwyn yn obeithiol, nid oedd yno ddigon o ddaear i fforddio maeth i wrthweithio gwres y demtasiwn, am hyny fe wywodd y cwbl pan ddaeth y gwres. Ond am ddyn yn Nghrist, y mae ei ragoriaethau, ei rasusau ef, yn planu eu gwreiddiau mewn daear ddyfnach na'i ddaear deneu ef ei hun. Y maent yn sugno eu maeth, eu cynhaliaeth, o frasder y Duwdod; ac am hyny gormod camp i ddim poeth-wynt a fedd y diafol wywo y rhai hyn byth. Ac er y gwywa y glaswelltyn, ac y syrth ei flodeuyn, y mae y rhai hyn yn aros yn dragywydd.

"*Dyn yn Nghrist.*"—Gellir edrych ar y testyn fel *inventory*, fel cofres, o'i gyfoeth: ac wrth edrych trosti, dyna fydd ein teimlad,—"Wel, y mae gan hwn bob peth." Yr oedd gan

drigolion Tyrus lawer math o gyfoeth; ond yr oedd yn rhaid iddynt gael eu hymborth o wlad arall. Yr oedd gan Solomon amrywiaeth mawr o gyfoeth; ond yr oedd yn rhaid iddo yru i Ophir i geisio aur. Yr oedd trigolion Läis yn byw mewn gwlad dda odiaeth, ond nid oedd ganddynt ddim amddiffyn ynddi. Ond am y dyn *yn Nghrist*, y mae ganddo gysur; cysur yr Aiphtiaid oedd byw ar ystordai Joseph, cysur yr Israeliaid oedd byw ar fanna y nefoedd. Diogelwch: diogelwch yr euog wrth gyrn yr allor, diogelwch y llofrudd yn y ddinas noddfa, diogelwch Noah yn yr arch. A gogoniant: gogoniant mwy na'r eiddo Dafydd pan ddaeth yn ddaw i Saul,—mwy na'r eiddo Joseph pan yn ail gerbyd Pharaoh,—mwy na'r eiddo Mordecai pan yn cael march, gwisg, a choron y brenin. Ac i goroni y cwbl, fe bery y cyfoeth. Fe fu Solomon yn ddoethaf ar y ddaear; ond fe ddaeth cwmwl dros ei ddoethineb, cyn diwedd ei oes. Fe fu Joab yn gymeradwy gyda'r brenin, ond fe gollodd ei gyfiawnder cyn marw. Fe fu Sedeciah yn eistedd ar orsedd, ond fe ddiweddodd ei oes er hyny yn garcharor caeth. Ond am y "dyn yn Nghrist," bydd *freshness*, irder a newydd-deb ieuenctid ar ei gyfoeth ef byth.

Yn yr adnod o flaen y testyn, fe waherddir i un cnawd orfoleddu. Ac nid heb reswm y gwneir hyny, oblegid ymha beth y gorfoleddai cnawd? Os nad gweddus ydyw i ffol orfoleddu yn ei wallgofdŷ, neu gondemniedig yn ei gell, neu gaethwas yn ei gadwynau, nid gweddus ydyw i gnawd, sef dyn heb Grist, orfoleddu. Ond yn yr adnod ar ol y testyn, fe ganiateir, ïe, fe orchymynir ymffrostio yn yr Arglwydd: dyn yn Nghrist ydyw hwnyna. Os nad wyt ti yn Nghrist fy nghyfaill, nid ydyw gorfoledd ddim yn beth gweddus i ti. Pa bethau bynag sydd genyt,—os oes yna ragorion,—y maent oll yn ymddibynu ar amgylchiadau cyfnewidiol iawn: nid yn unig rhai a *allant* newid, ond rhai a fyddant yn sicr o newid. Oni buasai yn beth ffol iawn i un o'r Israeliaid yn yr anialwch ymffrostio ei fod wedi llwyddo un bore i gasglu dau cymaint o fanna a'i gymydogion? ni buasai ei fanna yn werth dim iddo erbyn tranoeth; peth am ddiwrnod yn unig ydoedd. Felly am gyfoeth, sefyllfaoedd urddasol, a phethau cyffelyb, yr ymffrostia llawer ynddynt, nid ydynt ond pethau diwrnod: fe ddeffry eu

perchen hwynt dranoeth y ddaear, i weled fod ei fanna wedi myned yn ddiwerth,—ei fawredd wedi cilio. Y mae yn mhrophwydoliaeth Esay, ddarluniad o urddasolion y ddaear yn disgyn i *Hades* i'r byd anweledig; ac yn deffro yno, i ganfod fod eu mawredd hwynt i gyd wedi cilio, wedi darfod am byth. Y maent yno fel cynifer o hen foneddigion wedi colli eu hetifeddiaethau: ond am y "dyn yn Nghrist," gorfoledded hwn. O ddyn dedwydd! dyn dedwydd! dyn dedwydd! dyn dedwydd byth!

Cyn terfynu, y mae genyf un cwestiwn i'w ofyn mewn perthynas iddo:—A adwaenoch chwi ddyn yn Nghrist? Yr oedd Paul yn adwaen un felly. Yr ydoedd llawer o bethau o gwmpas y dyn hwnw, nad ydoedd yn siwr yn eu cylch; ond yr oedd yn sicr o un peth am dano, sef ei fod yn "ddyn yn Nghrist." Os wyt ti yn ameu a wyt ti yn adwaen dyn felly, yn dy berson dy hun, cred yn Mab Duw, ti a fyddi yn Nghrist o'r foment hono allan.

[Gorphened Ebrill 12, 1867.]

## PREGETH VI.

### ARBED YN HELAETH.

ESAY lv. 7.: "Efe a arbed yn helaeth."

Y MAE llawer o'r Bibl yn cael ei gymeryd i fyny mewn ceisio argyhoeddi dyn, naill ai o gyfiawnder Duw, neu ynte o'i drugaredd;—profi ei fod yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd, a bod ei drugaredd ar ei holl weithredoedd. Y mae hyny o hanes y natur ddynol a gofnodir yn y Llyfr, yn dwyn tystiolaeth i'r pethau hyn: barnau y Llyfr yn dwyn tystiolaeth i'w gyfiawnder, a'r gyfres hir o waredigaethau a groniclir ynddo, yn dwyn tystiolaeth i'w drugaredd. Y mae yn haws argyhoeddi dyn o gyfiawnder Duw nag o'i drugaredd: oblegid y mae rhywbeth yn y fynwes ddynol sydd yn disgwyl i Dduw fod yn gyfiawn; ond, yn annibynol ar ddatguddiad dwyfol, nid oedd yma ddim yn disgwyl iddo fod yn drugarog. Yr oedd gwaith Adda yn ymguddio yn yr ardd yn dystiolaeth ein natur ni mai cyfiawn yw Duw, ac yn addefiad yr un natur nad oedd ynddi ddim ag oedd yn disgwyl am drugaredd oddiwrtho. Yr oedd cydwybod yn tystio ei fod wedi digio, ond cyn iddo Ef ei Hun amlygu hyny, nid oedd yma yr un awgrym fod trugaredd hefyd yn eiddo iddo.

Diben mawr y Bibl yw argyhoeddi y byd o hyn. Y mae yma oleuni ar gyfiawnder Duw na cheir mo hono yn unman arall; ond esboniad eglurach ydyw hyny ar beth oedd yn adnabyddus o'r blaen; ond am drugaredd, datguddiad ydyw o'r

hyn na welodd llygad, na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn i feddwl am dano. Ac y mae hi o dan rai o'i gwahanol ffurfiau a'i hamrywiol enwau yn dyfod gerbron yn barhaus;—yn dosturi, yn ras, yn gariad, yn drugaredd; ac y mae penod y testyn yn llwythog o'i ffurfiau addfed hi. Y mae yr olwg arnynt yn deg, fel ffrwythau prenau paradwys. Fel y mae eu hamrywiaeth a'u cyflawnder yn dwyn i'n cof y pren sydd o ddau tu yr afon yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, a phob mis yn ei roddi; felly y mae yma gyflawnder o ffrwythau, ac y maent bob amser yn newydd.

Y mae eu cyflawnder yn dyfod i'r golwg yn nghyffredinolrwydd y gwahoddiad i'w mwynhau. "Oh deuwch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid oes arian ganddo." Y mae eu gwerth i'w ganfod yn y darluniad a geir o honynt: "gwin a llaeth," brasder a daioni. Eu cyfaddasder i'n sefyllfa, fel i'n hangen, yn rhadlonrwydd y cynygiad o honynt, "heb arian ac heb werth." Ac yn niogelwch y meddiant arnynt, pan unwaith y ceir ef: "ac mi a wnaf gyfamod tragywyddol â chwi." Felly, er mai trugareddau ydynt, y maent yn "sicr drugareddau Dafydd." Y mae enw Dafydd wedi arwain y prophwyd i edrych ar y llwybr yr oedd y drugaredd fawr hon wedi dyfod o fewn cyraedd gafael i'r cenhedloedd, sef trwy i'r Messiah gael ei roddi yn flaenor i'r bobloedd. Yna y mae anogaeth yn cael ei rhoddi i'r cenhedloedd i geisio yr Arglwydd, tra y galler ei gael ef, ac i alw arno tra fyddo yn agos. Ac yn y testyn, fe fanylir ar fawredd y drugaredd, rhag bod rhyw un yn ofni fod neillduolrwydd yn ei amgylchiad ef, oedd yn ei gau allan oddiwrthi: "gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd;" a'r cymhelliad iddo wneuthur hyny ydyw y testyn: "Efe a arbed yn helaeth."

Ymadrodd eang, penagored, heb derfynau iddo ydyw y testyn. Y mae yn y Bibl weithiau fath o fesuriad ar drugaredd Duw, fel pan ddywedir ei bod hi goruwch y nefoedd, ac o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb; ond erbyn sylwi, nid mesurau mo honynt, oblegid y maent oll yn rhedeg i anfeidroldeb. Ond yn y testyn, y mae trugaredd heb un mesur arni: "Efe a arbed yn helaeth." Eto y mae yn rhaid i ni wneyd

rhyw fesuriad arni, cyn y gall y meddwl gael gafael yn y syniad sydd yn y testyn. Y mae trugaredd yma fel rhyw gyfandir mawr, heb ei fesur, na'i ddosranu. Y mae ei fawredd felly yn ein hatal i ymsynio am ei fawredd; ond wedi i ni gael mesur darn o hono, y mae y meddwl yn cael mantais i ymgolli mewn syndod uwch ben y gweddill. Y mae yn anhawdd i ni, sydd yn byw mewn ynys fechan fel Prydain, ffurfio syniad cywir am faintioli America; ond wedi i ni glywed fod un o'i thaleithiau yn fwy na'n hynys ni oll, y mae y meddwl trwy hyny yn ymagor i gael cipolwg ar y gweddill. Rhaid i ninau gymeryd dull cyffelyb i'n cynorthwyo gyda'r testyn: ceisio mesur darn o'r cyfandir i'w gymharu â rhywbeth adnabyddus i ni, er mwyn i hyny ein harwain i golli ein hunain mewn syndod uwch ben y gweddill; "Efe a arbed yn helaeth."

Y mae dwy fantais mewn cysylltiad â'r testyn i ni fesur yr ymadrodd, "Arbed yn helaeth." Gellir ei fesur wrth y drygionus sydd yn cael ei arbed, neu ynte wrth yr Arbedwr: hyny yw, cysylltu y gair "helaeth" â'r naill, neu â'r llall. Y mae adnod y testyn yn awgrymu ei fod i'w fesur wrth y drygionus: "Gadawed y drygionus ei ffordd; a'r gŵr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd." Ai nid ydyw yn beryglus iddo ddychwelyd, ac yntau â chymaint o feiau yn perthyn iddo, yn ddrygionus, ac yn ŵr anwiredd? Nac ydyw: y mae ein Duw ni yn "arbed yn helaeth." Y mae ei drugaredd yn fwy helaeth na drwg haeddiant y drygionus: "Efe a arbed yn helaeth." Y mae'r adnod ar ol y testyn fel yn awgrymu fod yr arbed helaeth i'w fesur nid wrth haeddiant y drygionus, ond wrth ragoriaethau yr Arbedwr: "Canys nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi; ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd," Nid oes dim cymhariaeth rhwng fy arbediad i a dim sydd yn perthyn i chwi: uwch yw fy meddyliau i, uwch yw fy ffyrdd i, nid o gymaint ag ydyw y nefoedd yn uwch na'r ddaear, ond o gymaint ag yr ydwyf fi yn fwy na chwi: yr wyf yn arbed fel fy Hun,—"yn arbed yn helaeth."

I. Ni a gymerwn y troseddwr yn fantais i gael cipolwg ar helaethrwydd yr arbed. "Efe a arbed yn helaeth."

1. Y mae y gwahoddiad hwn yn dangos ei fod ef yn barotach i arbed nag ydyw y drygionus i ddychwelyd. Nid oes eisiau

prawf pellach o hyn nag mai oddiwrtho Ef y daeth y cais cyntaf am heddwch. Y troseddwr fydd yn arfer erfyn am arbediad, ac nid yr hwn y troseddwyd yn ei erbyn yn deisyf am cael cyfle i arbed. Pan fydd hi felly, y mae y prawf cryfaf o barodrwydd i arbed. Pe buasai Absalom yn clywed Dafydd yn gorchymyn i Joab fod yn dyner wrth y llanc, afraid fuasai iddo chwilio am yr un prawf arall fod arbed, ac arbed yn helaeth, yn nghalon ei dad.

Prawf o barodrwydd Duw i arbed ydyw yr arddangosiad a wneir ganddo o fawredd ei drugaredd. Nid yw yr Arglwydd yn dangos pethau er mwyn eu dangos, ond i amcan neillduol: ac y mae yn anmhosibl peidio darllen, "Efe a arbed yn helaeth," ar yr arddangosiad sydd yn y Bibl o'i drugaredd. Ffordd dynion i atal gwrthryfel ydyw gwneuthur arddangosiad o nerth, er mwyn i hyny dystio yn effeithiol, os troseddir, y cospir; ond ffordd Duw ydyw arddangos trugaredd, fel y byddo i hyny wneuthur argraff ddofn ar feddwl y drygionus;—er troseddu,—"Efe a arbed yn helaeth." "Ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio'r byd: pe hyny fuasai ei amcan, daethai yma âg ofnadwyaeth Hollalluogrwydd o'i amgylch, a thân ysol sancteiddrwydd yn difa y ffordd y cerddai. "Ond fel yr achubid y byd" y daeth: am hyny, fe ddaeth yma mor llawn o drugaredd, fel os na ddaw neb i'w cheisio hi, fe gerdda oddiamgylch i chwilio am le i'w chyfranu. Ië, gellir dywedyd am drugaredd, ei bod hi fel môr yn amgylchu ynys fechan amser: o hono mae pob cwmwl sydd yn gwlawio brasder ar yr ynys yn codi; iddo yr ydym yn ddyledus am y tarth a'r gwlith sydd yn cadw pobpeth yn wyrddlas o fewn yr ynys; ac arno y mae llong rhagluniaeth ac iachawdwriaeth yn nofio heddyw.

2. Y mae'r ymadrodd yn cynwys fod ganddo fwy o drugaredd nag sydd gan yr anwir o feiau. Cyfieithiad llythyrenol y testyn ydyw:—"Efe a liosoga i arbed;" *multiply to pardon*; "amlhâ arbed;" yn ol y darlleniad ar ymyl y ddalen yn Gymraeg a Saesneg. Y mae y beiau yn lliosogi, y swm yn myned yn fwy-fwy o hyd; ac fe allasai yr anwir ddwyn hyny yn rheswm tros beidio dychwelyd; a dywedyd, pe buaswn yn dychwelyd er's deng mlynedd yn ol, buasai gobaith am danaf; ond, erbyn hyn, y mae fy meiau wedi lliosogi cymaint rhagor oeddent y

pryd hyny, fel nad oes dim gobaith i mi. Na, medd y testyn, nid yw hynyna ddim yn rheswm dros beidio dychwelyd; oblegid, os ydyw y beiau yn lliosogi, y mae Duw yn medru lliosogi i faddeu. Rhoddwch feiau pob dydd at eu gilydd am oes led faith, bydd y swm yn ddigon i'n gwneyd i anobeithio, oni bai fod yr Arglwydd yn medru gwneyd swm ar ei gyfer,—lliosogi i faddeu. Yr oedd gan Absalom swm mawr o bechodau, a 'gallasai Dafydd wneyd cryn swm ar gyfer swm Absalom, trwy roddi holl drugaredd calon tad, a hawlfraint brenin, i beidio cosbi, at eu gilydd: ond yr oedd un peth ar ffordd swm Dafydd i fyned yn ddigon mawr, sef cyfraith y wlad; am hyny yr oedd beiau Absalom yn fwy lliosog nag arbediad Dafydd. Ond gall ein Duw ni roddi holl dynerwch calon Tad, a hawlfraint Brenin i beidio cosbi, a hono wedi ei phwrcasu â swm mor fawr ag iawn y groes, at eu gilydd: ac fe wna y ddau swm anfeidrol liosocach na'r beiau amlaf. "Efe a liosoga i arbed."

Gall fod yma gyfeiriad, nid yn unig at nifer y beiau, ond at amrywiaeth eu natur, a graddau eu hysgelerder. Fe faddeua dynion ryw fath o bechodau; ond am fath arall nid oes maddeuant iddynt: ac os cyflawnir y rhai y maent yn eu maddeu, drachefn a thrachefn, fe dderfydd y maddeuant i'r rhai hyny. "Gwared fi oddiwrth waed," meddai Dafydd: "mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu," meddai Cain. Dyna ddau bechod o'r fath fwyaf ysgeler; ond y mae yn lliosogrwydd pardynau Duw, bardwn ar gyfer y ddau. Ac er bod y pechadur yn ŵr anwiredd, yn syrthio ganwaith i'r un bai; ïe, un darn difwlch o bechod ydyw ei oes; eto, dyma ddarn o drugaredd yn fwy nag ef: y mae yn cuddio yr anwiredd fel yr oedd y cauad aur yn cuddio y llechau yn yr arch. "Efe a arbed yn helaeth."

3. Y mae'r ymadrodd hefyd yn dangos mai nid gadael i'r drygionus ddianc yn brin y mae Duw, ond "arbed yn helaeth." Y mae ambell ddiangfa, braidd na byddai yn well gan un ddioddef y gosb na'i derbyn, am ei bod hi mor brin, fel er dianc, y mae y dyn yn byw yn nghyffiniau y gosb wedi hyny. Cafodd y rhai a ddirmygasant Ddafydd ddianc, ond diangfa brin oedd hi: er dianc, nid oedd ond cam rhyngddynt â'r dinystr; ac fe roddodd Simei y cam yna wedi dianc unwaith.

Ond arbediad helaeth ydyw arbediad Duw: bywyd, a bywyd yn helaethach. Y mae rhyddhau y person oddiwrth rwymau i gosp, a'i godi i gymundeb agos â'r brenin, yn ddau beth tra gwahanol; gall y cyntaf fod heb yr ail: ond y mae y ddau yn niangfa Duw. Yr oedd gwaredu o gaethiwed y priddfeini yn beth mawr; ond yr oedd cymeryd i wlad yn llifeirio o laeth a mêl yn beth mwy. Y mae graddau yn nghosbedigaethau y ddaear, ac fe ystyrir fod dianc y fwyaf i gael un lai yn arbed; —dianc rhag y crogi, i gael alltudio yn ei le. Ond nid diangfa felly yw diangfa y drygionus: nid yn unig ni wna Duw mo'i ddienyddio, ni alltudia mo hono ychwaith. "Arbed yn helaeth."

Y mae Ezra yr offeiriad, wedi cael ei hun a'i frodyr yn hen wlad eu tadau, yn dywedyd mewn syndod, wrth edrych ar helaethrwydd y waredigaeth, fod yr Arglwydd wedi rhoddi iddynt "ddiangfa fel hyn." Wel, pa fath un ydyw? Cael dyfod, y mae'n debyg, i baradwys o le, i wlad lawn o bob cysuron? O na, dim o'r fath beth. Gwlad anrheithiedig—heb deml, heb brifddinas, heb nac âr na medi wedi bod ynddi er's blynyddoedd: drain a mieri wedi gorchuddio ei daear, ei phalasau yn adfeiliedig, y cathod a'r dylluanod yn ateb eu gilydd yn eu hystafelloedd hwynt; gelynion cyfrwys yn eu hamgylchu, fel nad oedd iddynt heddwch na dydd na nos. Nid braint fawr, debygid, oedd cael dyfod i wlad fel yna; ond galwai Ezra hyny, mewn syndod a diolchgarwch, yn "ddiangfa fel hyn." Os oedd y ddiangfa yna yn un helaeth, beth fydd diangfa pechadur yn nhrefn Duw? Beth fydd cael dywedyd ar balmant y nefoedd, "Diangfa fel hyn!" Pa fath un ydyw? I ateb y cwestiwn, edrychwch o'ch cwmpas,—dyna orsedd yn ymyl, yr enfys o'i hamgylch yn brawf na ddaw yr un ystorm o honi byth; coron gogoniant ar dy ben, palmwydd buddugoliaeth yn dy law, a'th galon mor lawn o lawenydd, fel y bydd hwnw yn bwrlymu allan yn fawl diddiwedd; ac i goroni yr oll, tragywyddoldeb yn argraffedig ar y cwbl.

"*Diangfa fel hyn!*" Nid oedd yr afradlawn yn meiddio gobeithio am nemawr iawn gan ei Dad, ac yn ofni na chai ef ddim: cael ei wneuthur fel gwas cyflog oedd eithaf ei obaith; ond yn lle bwrdd gweision, gwledd plentyn a gafodd; yn lle gwisg gwas, cafodd yr oreu oedd gan ei Dad; ac yn lle myned

i mewn yn lladradaidd i ystafell y gweision cyflog, cymerwyd ef i'r oreu oedd yn y tŷ, a mynwyd cynghanedd a dawnsio i'w groesawu ef yno. Yr oedd honyna yn gryn ddiangfa o wlad y moch a'r cibau; ond nid ydyw ond drych i bechadur i weled helaethrwydd arbediad ein Duw ni: "Efe a arbed yn helaeth."

II. Gallwn edrych am esboniad ar y testyn, "Efe a arbed yn helaeth," at yr Arbedwr.

1. Efe a arbed yn fwy helaeth nag y gwna Efe ddim arall. Wrth fesur y mae yn ymddadleu; wrth linyn y mae yn gweinyddu cyfiawnder, a barn wrth bwys. Pan yn cospi, nid nid yw yn rhoddi ar ddyn fwy nag a haeddai. Y mae yn wir fod cryn helaethrwydd yn perthyn i rai o'r barnau; eto y mae terfyn i'r helaethaf o honynt. Yr oedd dinystr dinasoedd y gwastadedd yn gyffredinol iawn, ond diangodd tri. Cymerodd y diluw fyd crwn cyfan ymaith, ond diangodd wyth. Yr ydoedd y barnau a ddisgynasant ar eiddo a phlant Job yn llymdost a chyffredinol iawn; eto, yr oedd rhyw un yn dywedyd, ar ol pob un o honynt, "Myfi fy hun a ddiengais." Y mae terfyn i'r farn; ac weithiau y mae yr Arglwydd fel yn edifarhau ar ganol y gwaith, fel yn achos Ahab: ond am yr arbediad, y mae hwn heb derfyn. Nid arbed Ninifeh oll, ond wyth enaid: na, yn ddieithriad. Ac nid oes cymaint ag un esiampl ar gael o'i fod yn edifarhau ar ganol y gwaith: yn hytrach, y mae yn ei wneyd dan ganu. Rhanodd Dafydd wlad Moab â thri llinyn; dau i ladd, ac un i gadw yn fyw. Yr oedd y lladd yn llawer mwy helaeth na'r arbed: ond wrth linyn yr oedd y ddau yn cael eu gwneyd. Ond yma y lladd sydd wrth linyn, a'r arbed heb fesur arno; ïe, y mae mor helaeth, hyd nes y mae y greadigaeth sanctaidd yn syllu mewn syndod arno. Fe ganodd ser y bore, ac fe orfoleddodd meibion Duw yn yr olwg ar ryfeddodau Duw y Creawdwr; ond y maent wedi cynefino â'r rhai yna, ac yn synu yr awr hon uwchben rhyfeddodau Duw yr Achubwr: ar yr hyn bethau y maent yn chwenychu edrych byth. Y mae yn hyn gymhelliad o'r fath gryfaf i'r drygionus chwilio am ei fywyd; oblegid, pa orchestwaith bynag a wnaeth Duw mewn ffordd o farn i ddangos ei fawredd, fe all wneyd peth mwy mewn ffordd o achub. Y mae Efe yn arbed yn helaethach nag y gwna Efe ddim arall.

2. Y mae helaethrwydd yr arbediad yn ymddangos yn ei fod wedi trefnu pob peth arall yn fantais i arbed. Y mae pob llywodraeth uniawn yn trefnu pobpeth hyd y gall yn fanteisiol i atal trosedd, ond nid i arbed troseddwr: buasai hyny yn gymhelliad i droseddu: ond y mae Duw wedi gwneuthur pobpeth yn fanteisiol i arbed. Ac wrth edrych ar gymaint a wnaeth i hyny, rhaid penderfynu ei fod am arbed yn helaeth, oblegid ni byddai yr un arbed arall yn cyfiawnhau mawredd y darpariadau. Yr oedd yn rhy anhawdd edrych ar Israel yn Nghanaan heb dderbyn argraff fod Duw yn meddwl arbed yn helaeth y rhai a drigent yno: eu cyfleu ar wahan oddiwrth bawb i'w cadw rhag dylanwad esiamplau drwg; trefnu aberth ar gyfer pob bai, i droi oddiwrthynt y gosb ddyladwy am dano; a phan yn cosbi, yn nghanol barn yn cofio trugaredd. "Duw oeddit yn eu harbed, ïe, pan ddïelit am eu dychymygion." Cysgod oedd hyn o'r holl drefn i arbed pechadur. Gall ei bod mor anhawdd gweled hyny yn y drefn yn y dechreu yn fynych, ag ydoedd gweled beth oedd diben gwerthiad Joseph; ond fel y treiglodd blynyddoedd ymlaen, fe ddaeth yn bur eglur mai cadw yn fyw bobl lawer oedd mewn golwg. Ac oni bai i gadw yn fyw bobl lawer gymeryd lle, gallesid dweyd fod y drafferth yn rhy fawr,—y boen yn fwy na'r budd. Nid yw yr Arglwydd ddim yn arfer cymeryd trafferth fawr i gyraedd diben bychan ac isel. Os bydd y ddarpariaeth yn fawr, y mae y diben yn sicr o fod yn oruchel. Yn ngoleuni hyn, edrychwch ar yr hyn a wnaeth i gael arbed, a chwi a deimlwch wirionedd darluniad y testyn o hono,—arbed yn helaeth. I edrych ar y ddarpariaeth, rhaid dechreu yn nhragywyddoldeb, i weled Trindod yn eistedd mewn cyngor uwchben y gwaith. Yr ail Berson tragywyddol yn ymrwymo cymeryd ei wneuthur yn gnawd, i droi y cyngor hedd yn weithred o drugaredd. Yr Ysbryd tragywyddol yn ymrwymo mewn cyfamod i ddwyn o amgylch ddibenion gogoneddus y cyngor hwnw. Edrychwch drwy chwe' mil o flynyddoedd, ni a welwn bob peth yn cario allan gynlluniau y cyngor. Pedair mil o flynyddoedd yn cydbwyntio at, ac yn cael eu gorpheniad yn nghyflawnder yr amser yn Bethlehem: o hyny hyd yn awr, y mae pob peth yn cydweithio i gyraedd yr un diben. Ond pan y dêl hi yn gyflawnder amser unwaith ac eilwaith, yr ydym ni yn gweled hyny; ond y mae

pob adeg o'r fath yn hanes y byd yn dangos mai cadw yn fyw bobl lawer oedd diben pob peth a fu yn cydweithio i'w dwyn hi o amgylch. Y mae yn rhaid i arbed helaeth gymeryd lle, cyn y bydd yn deilwng o ddarpariaeth mor fawr.

Pan nad oedd ond ambell un i gael ei achub yn moreu y byd, ambell waith y byddai y Duw mawr yn ymddangos, megis i Abraham, Isaac, a Jacob, heb aros nemawr gydâ hwynt: ond pan yr oedd am achub cenedl, fe ddaeth i drigo gydâ dyn ar y ddaear, fe ledodd ei dabernacl yma, i fyw yn ei ymyl: ond yn Methlehem Judah, wele Ef wedi dyfod yn Dduw yn y cnawd. Ai tybed y gall rhyw angel ofyn, "I ba beth y bu y golled hon," oddiwrth weled fod y gwaith yn rhy fawr i'r diben oedd i gael ei ateb ganddo? Na; fe arbed yn ddigon helaeth i gyfiawnhau ei waith yn ymddangos yn y cnawd, yn dioddef, ac yn marw. Y drygionus, yr anwir, a all fod yma yn awr yn ofni dyfod ymlaen i ofyn ei fywyd,—teimlad Cain, feallai, yn y fynwes, "mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu,"—clyw, nid beth sydd yn deilwng i ti yw y pwnc dan sylw yn yr achos, ond beth sydd yn deilwng i Dduw wedi ymddangos yn y cnawd; beth sydd yn deilwng i ddwyfol waed y groes. Nid pa fath arbediad yr wyt ti yn ei haeddu ydyw'r cwestiwn, ond pa fath arbediad sydd yn deilwng o'r draul a gymerwyd i'w dwyn o amgylch. Os bydd yr arbediad yn deilwng o'r drafferth, —ac fe fydd,—nid rhaid i ti ameu nad ydyw yn ddigon helaeth i ti. "Efe a arbed yn helaeth."

3. Arbed yn helaeth, yn olaf, ydyw arbed yn deilwng iddo Ef ei Hun. Y mae y gwahaniaeth hwn rhwng trugaredd a chyfiawnder: nid ydyw cyfiawnder yn ymddibynu am ei hyd a'i led ar y person a fydd yn ei weinyddu. Dyn cyfiawn yw dyn cyfiawn, beth bynag fyddo ei dlodi neu ei gyfoeth, ei nerth neu ei wendid: nid oes dim sydd yn perthyn i'r dyn yn rhoddi at, neu yn tynu dim oddiwrtho; ond y mae trugaredd yn cymeryd ei mesurau oddiwrth faint y neb sydd yn ei meddu hi. Y mae i gyfiawnder ei derfynau yn ei natur ei hun, ac nid ydyw newid lle yn newid dim ar y rhai hyny: cyfiawnder yw cyfiawnder yn y nefoedd fel ar y ddaear; yn Nuw fel mewn creadur: ond nid oes terfynau i drugaredd; maint y neb sydd yn ei meddu hi sydd i fesur ei maint hi. Nid ydyw cyfiawn-

der brenin ddim i fod yn fwy nag eiddo y gwaelaf o'r deiliaid. Y mae yn wir y byddai diffyg cyfiawnder mewn brenin yn ymddangos yn fwy gwrthun nag mewn un o'r deiliaid, am fod ei sefyllfa oruchel yn fantais i hyny; ond am y peth ei hun, nid ydyw i fod yn fwy. Ond y mae trugaredd brenin i fod yn fwy nag eiddo y deiliad o gymaint ag y mae y brenin ei hun yn fwy. Beth yw maint trugaredd Duw? Yr un faint a Duw ei Hun. Pan y ceir allan derfyn i'r naill, fe geir allan derfyn i'r llall; ac onid bron yn yr un geiriau y darlunir hwynt yn y Bibl? Y mae Efe ei Hun "o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb," felly y mae ei drugaredd. "Y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, nid allant ei gynwys Ef;" felly y mae ei "drugaredd goruwch y nefoedd." Paham na buasai rhyw air yn cael ei roddi i ddangos helaethrwydd yr arbediad? Gellir ateb y cwestiwn yna trwy ofyn un arall:—Paham na fedr rhywun fesur anfeidroldeb? Hyd nes y gellir gwneuthur hyny, rhaid boddloni ar y darluniad.—Y mae yn arbed fel Efe ei Hun; a thybia rhai mai hwn ydyw meddwl yr adnodau sydd yn dilyn y testyn: "fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi." Nid yw eich trugaredd chwi ddim mwy na chwi eich hun: nid yw fy nhrugaredd inau ddim llai na mi fy Hun; ac y mae yr un faint o wahaniaeth rhyngddi â'ch un chwi, ag sydd rhyngwyf fi a chwithau. Pan glywodd un o'r Paganiaid oedd wedi dechreu adwaen ein Duw ni yr adnod ryfedd hono:—"Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." "Ai nid ydych yn rhyfeddu?" meddai rhywun wrtho: "Nac ydwyf fi," oedd yr ateb, "*it is just like him*:" y mae yn actio fel Ef ei Hun.

Y mae yn y fan hon ddrws ëang i bechadur: Duw yn trugarhau yn deilwng iddo ei Hun. A dyna yr hyn sydd yn deilwng i un ydyw yr hyn sydd yn gyson â'i garacter: yr hyn sydd yn deilwng i dad yw tynerwch; yr hyn sydd deilwng i frenin ydyw cyfiawnder; yr hyn sydd deilwng i gyfoethog ydyw haelioni. Caracter ein Duw ni yw hyn:—"Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd;" "ei drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd." "Duw, cariad yw." Arbed helaeth ydyw,

arbed teilwng o'r caracter yna. Fe roddodd Solomon i frenhines Seba ei holl ddymuniad; ac y mae yn sicr nad dymuniadau bychain oedd y rhai hyny. Nid gofyn fel cardotyn a wnaeth brenhines, ond fel brenhines. Fe roddodd Solomon fel brenin, ac am ei fod ef yn fwy na'r hon oedd yn gofyn, yr oedd yn gallu fforddio rhoddi holl ddymuniad brenhines Seba, a brenhinol haelioni Solomon tros ben hyny. Yr oedd yn rhoddi nid yn deilwng i'r neb oedd yn gofyn, ond yn deilwng iddo ei hun. Gall enaid dyn, yr ysbryd i fyw byth sydd o'n mewn, ofyn llawer: wrth edrych ar eangder ei alluoedd, a maint ei angen, braidd na ddywedem ni weithiau mewn amheuaeth, "Pe gwnelid ffenestri yn y nefoedd, a ddigonid y rhai hyn? pe hysbyddid holl drysorau y brenin tragywyddol, a gai y rhai hyn hyd i'r gair digon?" Ond gwyn fyd na roddai rhywun brawf ymarferol ar y mater, fel y rhoddodd brenhines Seba ar Solomon; buan y ceid gweled y cewch chwi eich holl ddymuniad, a rhywbeth heblaw hyny,—y brenhinol haelioni dros ben: Duw yn arbed yn deilwng o hono ei hun; "yr Hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno neu yn eu meddwl." Byddai cael llenwi y dymuno a'r meddwl yn ddigon i hysbyddu holl drysordai y greadigaeth i gyd; ond y mae y tra rhagorol y tu allan i derfynau y rhai yna; ac y mae dichon Duw yn llenwi y terfynau cyntaf, ac yn gwneuthur y rhywbeth tra rhagorol y tu allan iddynt. "Efe a arbed yn helaeth."

A oes yma rhyw bechadur mawr yn gwrandaw? A ydyw y drygionus yma? A ydyw y gŵr anwiredd yma? Os ydyw,—clyw! y mae genyf air i'w ddywedyd wrthyt:—Mi a wn am noddfa i ti. Nid yn y nefoedd; nid yn uffern; nid yn y tywyllwch; nid yn eithafoedd y môr. "I ba le ynte y caf fi fyned?" Wel, at ein Duw ni. "Y mae fy nghydwybod," meddi dithau, "a'r diafol, yn dywedyd wrthyf, mai yn erbyn hwnw yr wyf wedi troseddu." Digon gwir; ond hwnw ydyw y Duw a fedr arbed. "Efe a arbed yn helaeth."

[Adysgrifenwyd, Gor. 1, 1865.]

## PREGETH VII.

### JACOB A'R FENDITH.

HOSEA xii. 3—6: "Yn y groth y daliodd efe sawdl ei frawd, ac yn ei nerth y cafodd allu gydâ Duw. Ië, cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd: wylodd ac ymbiliodd âg ef: cafodd ef yn Bethel, ac yno yr ymddiddanodd â ni: sef Arglwydd Dduw y lluoedd: yr Arglwydd yw ei goffadwriaeth. Tro dithau at dy Dduw; cadw drugaredd a barn, a disgwyl wrth dy Dduw bob amser."

YMAE yn eglur wrth waith ysgrifenwyr y Testament Newydd yn cyfeirio mor fynych at hanes duwiolion yr Hen Destament, fod Ysbryd Duw wedi bwriadu iddynt fod yn esiamplau i'r eglwys o rywbeth mewn crefydd, hyd ddiwedd amser. Y mae y nifer lliosog a nodir yn dangos crefydd mewn gwahanol ffurfiau, ac felly yn profi pa faint bynag a all fod amrywiaeth y ddynoliaeth, fod crefydd yn cyfaddasu ei hun at bob math ar ddyn. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng caracter naturiol yr amrywiol esiamplau a nodir; ond y mae eu calonau oll yn cael eu sancteiddio gan ofn Duw. Ynglŷn â hyn, yr ydym ynddynt yn cael gweled crefydd yn buddugoliaethu ar ddrwg ymhob ffurf. Pa un bynag ai yn y ffurf o dwyll, fel yn Jacob; neu chwantau, fel yn Dafydd; neu uchelgais hunanol, fel yn Saul o Tarsis; y mae hi yn y diwedd yn ei orchfygu. Y mae yr haul yn peri i bob peth deimlo ei ddylanwad, y graig fel y blodeuyn; y mae yn paentio y naill, ac yn cynhesu y llall: nid ymgudd dim oddiwrth ei wres ef: felly crefydd, nid ymgudd yr un math o ddrwg oddiwrth ei dylanwad hi.

Galw ein sylw ati y mae y testyn yn ei pherthynas â Jacob. Yr oedd Jacob yn garacter pur anmherffaith; yn fwy felly na'r cyffredin a enwir yn y Bibl. Nid ydym yn cael ei fod yn euog o bechodau rhyfygus, megys syrthio yn ysglyfaeth i ryw chwant fel Noah neu Dafydd; neu i ddirywiad mawr fuasai yn wadiad ar ei berthynas â Jehofah, ac yn ei arwain i addoli eilunod. Ond yr oedd diffyg mwy pwysig na hynyna yn ei garacter, sef diffyg cywirdeb, diffyg didwylledd, yr hyn beth a fu yn achos o holl brofedigaethau ei fywyd. Yr oedd y caracter naturiol, dybygid, yn fanteisiol i'r gwall moesol hwn i wreiddio ynddo. Fe ddywedir ei fod yn "ŵr dysyml," hyny yw, tawel, llonydd, o'i gymharu âg Esau wyllt; ond nid yw hyny yn golygu ei fod yn ŵr unplyg, yn garacter tryloew: yn hytrach gŵr cyfrwys ydoedd; ac yr oedd y cyfrwysdra hwnw yn dirywio yn fynych i ddichell; ac yr oedd yn rhy dueddol, yn y rhan fwyaf o'i oes, i geisio cyraedd ei amcanion trwy ddichell, yn hytrach na cheisio eu cyraedd mewn ffordd uniawn, agored, ac anrhydeddus.

Yr ydoedd wedi ei nodi allan yn nhrefniad yr Anfeidrol, fel y gangen o'r teulu, yn a thrwy yr hon, yr oedd bendith Abraham i ddisgyn; ac y mae efe ei hun yn amlygu awydd cryf am gael cyfranogi o honi. Yn ol trefn natur, i ran Esau yr oedd y fendith i ddisgyn; ond yr oedd yr hyn a wnaeth Jacob yn y groth, yn rhyw arwydd neu arddangosiad o'r hyn a wnai ar hyd ei oes, sef disodli ei frawd. Fe brofodd Esau ei hun trwy werthu yr enedigaeth-fraint, yn annheilwng o'r fendith; ond nid oedd hyny yn cyfiawnhau dim ar y dull a gymerodd Jacob i gael meddiant o honi. Ac nid ydoedd ei fod wedi ei ethol yn ol arfaeth Duw i hyn, fel y cawn ni yn y llythyr at y Rhufeiniaid, yn tynu dim oddiwrth ddrwg y moddion a fabwysiadwyd ganddo i gyraedd yr amcan. Fe dynwyd y drwg hwn yn llwyr o hono pan y newidiwyd ei enw, fel nad oes genym ddim o'i olion yn dyfod i'r golwg yn ei hanes wedi hyny. "Gŵr dysyml," yn llawn ystyr y gair, a fu ar ol hyny hyd ei fedd.

Nid ydyw yn hawdd penderfynu pa un ai dwyn Jacob ymlaen y mae y prophwyd yn y testyn, fel esiampl i gondemnio Israel;—y tad, sef Jacob yn orawyddus am y fendith; y plant,

sef Israel, yn ei dibrisio, trwy fod yn anffyddlawn i gyfamod eu Duw; ai ynte ei ddwyn ymlaen y mae i ddangos mai rhai trofäus ac anhyblyg i ewyllys Duw oeddent o'u cychwyn;—mai un felly oedd y tad, ac mai rhai felly ydyw y plant. Yr wyf braidd yn tueddu i feddwl mai yr olwg olaf hon sydd fwyaf cyson â'r cyd-destyn. "Ephraim," medd yr Arglwydd trwy y prophwyd, "a'm hamgylchynodd â chelwydd, a thŷ Israel â thwyll. Ephraim sydd yn ymborthi ar wynt, ac yn dilyn gwynt y dwyrain: ar hyd y dydd yr amlhäodd gelwydd a dinystr; amod a wnaethant â'r Assyriaid; ac olew a ddygwyd i'r Aipht. Ac y mae gan yr Arglwydd gŵyn ar Judah; ac efe a ymwel â Jacob yn ol ei ffyrdd; yn ol ei weithredoedd y tâl iddo'r pwyth." Hos. xi. 12; xii. 1, 2. Yr hyn a roddir yn eu herbyn ydyw twyll, celwydd, rhagrith; proffesu eu bod yn bobl i Jehofah, ond trwy gymeryd y llo aur i'w addoli, yn dangos y mynent eu ffordd eu hunain i dalu gwarogaeth iddo;—proffesu eu bod yn ymddiried ynddo, ac eto, yn gwneuthur cyngrair â'r Assyriaid, ac â'r Aiphtiaid, i'w cael hwynt yn noddwyr iddynt: yn ei "amgylchynu," yn y wedd hon â thwyll. Y mae yr Arglwydd, oherwydd hyn, yn dweyd fod ganddo gŵyn yn eu herbyn: efe a ymwêl â Jacob yn ol ei ffyrdd. Y mae yn galw yr hiliogaeth yn Jacob, ac yn myned oddiwrth y plant at y tad, i gael canfod ynddo yr un peth, sef un yn cymeryd ei ffordd ei hun i geisio cyraedd bendithion cyfamod Duw, ac hefyd i ddangos trwyddo y ffordd i hyny. Yn yr ystyr yma y defnyddiwn ni y testyn. Ni a gawn edrych ar Jacob mewn dwy wedd:—

I. Fel esiampl o un yn ceisio cyraedd bendithion cyfamòd Duw trwy ei ddyfeisiau ei hun.

II. Fel un wedi cael gafael ynddynt yn nhrefn Duw.

I. Fel esiampl o un yn ceisio cyrhaedd bendithion cyfamod Duw trwy ei ddyfeisiau ei hun. Y mae y testyn yn cyfeirio at yr awydd oedd yn Jacob am gael meddiant ar y bendithion hyn. Ynddo ef yr oedd, nid y plentyn, fel y dywedir, ond y baban, yn dad i'r dyn. "Yn y groth y daliodd efe sawdl ei frawd." Wedi gweled hyn, nid oedd eisiau gofyn, Beth fydd y bachgen hwn? Yr oedd y weithred yna yn bortrëad o'r caracter. Diau fod Jacob yn gwybod, er yn ieuanc, ei fod ef

wedi ei nodi allan gan Dduw i dderbyn bendith cyfamod Abraham. Yr oedd hyny yn gynwysedig yn yr hyn a hysbyswyd i'w fam cyn ei eni, sef y byddai i'r hynaf wasanaethu yr ieuengaf; ac y mae yn sicr na chadwodd Rebecca mo'r wybodaeth hon oddiwrth ei hanwyl blentyn Jacob. Nid ydoedd ei syniad am ystyr ysbrydol y fendith, ond tra anmherffaith, os oedd ganddo ryw syniad am hyny o gwbl; ond yr oedd yn bur fyw i'r manteision allanol neu ddaearol a berthynent iddo. Ac yr oedd yn orawyddus am y rhai hyn, sut bynag yr oedd ei deimlad am gynwys ysbrydol y fendith. Y mae hyny heb eithriad i'w ganfod ynddo, hyd y cyfnod pwysig yn ei hanes, pan y newidiwyd ei enw,—sef defnyddio cynllun o'i eiddo ei hun i gael gafael rhwydd ar freintiau y cyfamod; fel un yn methu credu y byddai i'r Duw a wnaeth y cyfamod, ac a'i nododd ef allan fel yr un oedd i dderbyn ei fendithion, gael allan lwybr i hyny, er pob rhwystr allanol a allai fod ar y ffordd. Mor wahanol oedd ei ymddygiad i eiddo y patriarch Abraham: fe aberthodd ef ei fab, gan adael i'r neb a wnaeth y cyfamod chwilio am lwybr i'w gyflawni. Ond yr oedd y rhwystr lleiaf ar y ffordd, yn peri i Jacob gynllunio rhyw lwybr bach, cyfrwys, o'i eiddo ei hun. Yr oedd yn naturiol tybio fod hawliau yr enedigaeth-fraint i fod yn eiddo yr hwn oedd i gael bendithion y cyfamod; ond, yn lle gadael i'r Arglwydd ddwyn y rhai hyny yn gyfreithlawn i'w feddiant, y mae Jacob yn cymeryd mantais annheg ar ei frawd Esau, ac yn cael gan hwnw werthu yr enedigaeth-fraint iddo; a phan ddeallodd ef a'i fam fod Isaac yn myned i fendithio Esau, yr hyn beth, yn ol eu tyb hwy, ac yn hyn yr oeddent yn gywir, oedd yn trosglwyddo bendithion y cyfamod iddo, wele Jacob mewn undeb â'i fam, yn ymostwng i gyflawni un o'r gweithredoedd mwyaf twyllodrus a gyflawnwyd erioed i ddwyn y fendith; ac yntau, ar yr un pryd, y mae yn sicr, yn gwybod mai efe oedd dewisedig y nefoedd. Ond yr oedd fel yn credu fod cynllun Duw yn sicr o ddyrysu, os na ddeuai ei dwyll ef i atal hyny. Y mae yr Arglwydd yn ymddangos iddo amryw weithiau; a diben pob ymddangosiad ydoedd i roddi prawf, yr hwn a ddylasai fod yn sicrwydd i Jacob, o amddiffyniad ymhob perygl, ac o gyflawniad holl addewidion y cyfamod iddo. "Ni'th adawaf," medd yr Ar-

glwydd wrtho, pan yr ymddangosodd iddo y waith gyntaf, "hyd oni wnelwyf yr hyn a leferais wrthyt." Ond er hyn y mae efe yn disgyn at ei gynlluniau cyfrwys ei hun i gyraedd ei amcanion gydâ Laban. Pan y mae yn meddwl am ddychwelyd i Ganaan, y mae yr Arglwydd yn ymddangos iddo, ac yn dywedyd wrtho, "Dychwel, a mi a fyddaf gydâ thi." Ond rhaid i Jacob gael dyfod â'i gynllun cyfrwys ei hun i hyny. Y mae yn myned ymaith yn lladradaidd, pan y mae Laban yn cneifio ei ddefaid, fel pe buasai arno ofn y buasai Laban, pe yn gwybod am ei fwriad, trwy gryfder yn ei atal, ac felly yn dyrysu cynllun Duw. Wedi dyfod i gyffiniau y wlad, pan yn agosâu at diriogaeth Esau, ac yn ddiau yn dechreu ofni hen fygythion ei frawd, wele angylion Duw yn ei gyfarfod, ac y maent yn cael eu galw yn wersyll Duw, yr hyn sydd yn cyfeirio atynt fel byddin i amddiffyn, i roddi sicrwydd i Jacob y byddai i Dduw ei amddiffyn ef rhag ei frawd; ond yr oedd yn rhaid iddo ef gael cynllunio gydâ hyn eto, sef anfon yr holl anrhegion iddo, gan ddisgwyl cryn lawer oddiwrth ddylanwad y rhai hyny. Ac wedi iddo gael ei adael ei hunan, ac i'r gŵr rhyfedd hwnw ymdrechu âg ef, y mae yr un peth yn dyfod i'r golwg ynddo yno hefyd. Ni wyddom ni ddim pa bryd y daeth Jacob i ddeall pwy oedd y Gŵr oedd yn ymdrechu âg ef: y mae yn debyg iddo ddeall cyn iddo gyffwrdd â chyswllt ei forddwyd; a'i fod yn penderfynu mỳnu y fendìth, megis trwy gryfder, yn ol ei arfer. Ond dyma wers fawr ei fywyd yn cael ei rhoddi iddo. Dyna'r glun wedi myned yn ddinerth: ffarwel bellach am gael y fendith trwy gryfder. Rhaid cymeryd rhyw gynllun arall, a dyma fo:—"wylodd ac ymbiliodd â'r angel." Dyna Jacob yn rhoddi ei gynlluniau ei hun i fyny am byth wed'yn, ac yn syrthio i mewn â'r cynllun dwyfol gydâ phob peth, gan adael i'r Duw oedd wedi addaw, gyflawni addewidion ei gyfamod, heb gymorth ei ddichellion a'i gyfrwysdra ef.

Y ddau beth beius yn Jacob sydd yn dyfod i'r golwg yn y pethau hyn oedd, ymddiried i'w ddeall ei hun i gynllunio, ac ymddiried i'w fedr ei hun i roddi y cynlluniau mewn gweithrediad. Amcanu rhodio yr ydoedd wrth olwg, ac nid wrth ffydd. Eisiau cael gwybod mwy nag yr oedd Duw wedi ei ddatguddio. Yr oedd y cai efe etifeddu y fendith wedi ei ddatguddio; ond yr

oedd y cynllun i ddwyn hyny o amgylch yn guddiedig; a cheisio gwneuthur hwnw iddo ei hun oedd yn arwain Jacob i holl brofedigaethau ei fywyd. Y mae trefn Duw yn gyffelyb eto. Y mae y peth mawr wedi ei ddatguddio yn eglur i ni, fel i Jacob, sef na chollir pwy bynag a gredo,—mai cadwedig fydd pob un a alwo ar enw yr Arglwydd,—fod y Cadarn y gosodwyd cymorth trueiniaid arno yn abl i gadw yr hyn a roddir ato erbyn y dydd hwnw. Ond y mae yma lawer iawn o bethau yn guddiedig, megis, Beth ydyw bwriadau Duw? pwy ydyw y llawer y mae iawn y groes yn bridwerth drostynt? pa sicrwydd sydd genym, pe cychwynem ni, gan fod cymaint yn troi yn anffyddlawn, nad ceisio gosod pen arnom ein hunain a wnaem ninau, i ddychwelyd i'r Aipht? Y mae y pethau cuddiedig hyn, a'u cyffelyb, yn troi yn dramgwydd i lawer: am hyny, y maent yn cynllunio pa fodd y mae y fendith i ddyfod, gan ei disgwyl hi, ar hyd y blynyddoedd, yn ol y cynllun a dynir ganddynt hwy eu hunain. Ond wrth wneuthur hyn, y maent yn gollwng dros gof mai trwy anialwch y mae myned i Ganaan eto; ac nad oes dim ffyrdd mewn anialwch, neu o'r hyn lleiaf, eu bod yn gyfryw nad oes neb yn eu hadwaen ond Duw. Rhaid eu cerdded heb eu hadwaen, neu ni chyrhaeddir Canaan byth: rhaid myned drwy y cuddiedig, i gael gafael ar y datguddiedig;—drwy y nos, i gael hyd i'r dydd sydd yr ochr draw. Y mae tywyllwch Duw yn well na'n goleuni ni. Ni wna hwnw i ni, mwy nag i Jacob, ond ein harwain ar gyfeiliorn.

2. Bai arall Jacob oedd,—ymddiried i'w fedr ei hun i wneyd y gwaith. Yr oedd gan Jacob hyder diderfyn ynddo ei hun, yn yr ystyr hwn, hyd noson fawr Peniel. Y mae yma rai yn debyg iddo yn hyn hefyd. Nid ydych hyd yma yn gweled eich cynlluniau, mwy na rhai Jacob, yn ateb y diben. Nid ydych wedi etifeddu y fendith; ac eto nid ydych yn bwriadu marw hebddi, am eich bod yn ymddiried yn eich medr eich hun i wneyd y gwaith mawr, mewn byr amser yn niwedd y daith. Ond yr ydych yn camgymeryd am eich nerth, fel am eich doethineb: fe'ch argyhoeddir chwi, fel yr argyhoeddwyd Jacob, na ddaw eich cryfder ddim â chwi i feddiant o'r fendith.

II. Edrychwn ar Jacob fel esiampl o un wedi cael meddiant

ar fendithion cyfamod Duw, yn nhrefn Duw. Y mae amryw bethau yn Jacob yn esiampl o'r modd y mae pechadur yn cael bendithion trefn Duw. Ni a edrychwn ar un o honynt.

1. Y mae yn un wedi darfod â phob peth o'i eiddo ei hun: "wylodd, ac ymbiliodd âg ef." Peth olaf y plentyn ydyw wylo. Y mae pob dyfais o'i eiddo i gyraedd ei amcan wedi methu cyn hyny. Nid oedd un fel Jacob ddim yn ymollwng i wylo tra y gallodd ef wneuthur unrhyw beth arall. Gwelsom ei fod yn un cyfoethog mewn dyfeisiau, ond yn awr y maent wedi darfod oll: y peth mawr yr oedd ganddo y fath hyder ynddo wedi ei adael; ac y mae yn suddo fel Pedr yn y môr, o ran dim a all efe ei wneyd ei hun i ochel hyny. Nid oes yr un Ahitophel yn dyfod at Fab Duw. Trefn i rai wedi treulio cymaint oll ag a feddant ydyw trefn yr efengyl; eu holl gynghorion wedi eu troi yn ffolineb; eu holl nerth wedi troi yn wendid: rhai wedi aberthu eu rheswm doeth, fel yr aberthodd Abraham Isaac; rhai yn taflu ffrwyth eu dyfais a'u medr am flynyddoedd fel bratiau budron o'r golwg, fel y taflodd Paul ei gyfiawnderau. Nis gall neb roddi ei droed ar ffon gyntaf yr ysgol sydd i ddringo i'r nefoedd, ond rhai heb ddim ganddynt; dim doethineb, dim nerth, dim arian, dim gwerth, dim haeddiant, dim teilyngdod. Hi a fydd i'r rhai hyny; feallai mai ynfydion ydynt: pe byddent felly, cyrhaeddant ffon uchaf yr ysgol. Cafwyd cryn drafferth i gael gan Jacob daflu y cwbl i ffordd; ond fe ddaeth yn dywysog gydâ Duw y noson y gwnaeth efe hyny.

2. Peth arall a welwn ni yn Jacob oedd teimlad dwfn o'i angen am y fendith. Gall mai agosrwydd y perygl oddiwrth Esau oedd wedi bod yn achlysur i ddwyn Jacob i ymdeimlo â'i sefyllfa, ond achlysur yn unig a fu hyny. Y mae Esau yn myned o'r golwg yn llwyr, fel nad oes air o sôn am dano; ac y mae holl fywyd trofäus a thwyllodrus Jacob yn cael ei drefnu o flaen ei wyneb, nes y mae yn canfod fod Duw yn dyfod yn ei erbyn fel gelyn; ac y mae cael heddwch Duw yn llyncu pob peth arall iddo ei hun. Y mae ei waith yn wylo ac yn ymbil, yn brawf o ddyfnder ei deimlad o'r angen am y fendith. Yr oedd gwagder yn ei fynwes, tlodi yn ei ysbryd, na fuasai holl gyfoeth Laban yn llenwi dim arno, nac, yn wir, cyfoeth y greadigaeth

i gyd. Nid oedd ond trysorau yr anfeidrol ei hunan yn ddigon mawr i'w llenwi. Yn y fendith yn unig yr oedd ei obaith. Yr oedd Jacob wedi bod ar hyd ei oes, yn awyddus am bethau allanol, daearol, cyfamod Duw; ond wedi iddo ymdeimlo âg angenion ysbrydol ei natur, y mae y pethau yna yn myned o'r golwg. Yr oedd defaid ac anifeiliaid yn ysgafnach na gwegi yn ei olwg. Y fendith, sef ffafr y Gŵr oedd yn ymdrechu âg ef, oedd wedi llyncu pob peth iddi ei hun. Gallasai fyw heb yr anifeiliaid, ond nid heb y fendith. "Wylodd, ac ymbiliodd âg ef."

3. Peth arall a welir ynddo ydoedd penderfyniad di-ildio i ddal ati nes cael y fendith. "Ni'th ollyngaf, oni 'm bendithi." Yr oedd ei nerth wedi pallu, ond yr oedd ei benderfyniad yn parhau. Glynai fel y cranc wrth y graig. "Ni'th ollyngaf." Y mae hyn yn nodweddu pawb a gawsant y fendith, o Jacob hyd Elias, o Elias hyd y wraig o Ganaan. "Treiswyr sydd yn ei chipio hi." Y mae pawb, yn ngwlad efengyl, yn ceisio y fendith weithiau; ond, fel y rhagrithiwr yn llyfr Job, ni weddïant ar Dduw bob amser. Y maent yn diffygio, ac am hyny yn syrthio yn fŷr o honi; fel y mwnwr yn digaloni cyn taraw ar y wythïen.

Yr ydym yn gweled Jacob a'i holl ddoethineb wedi pallu; ei obaith wedi colli ymhob cyfeiriad, ond o gyfamod Duw; ei enaid yn glynu wrth Dduw yn ei drefn. Beth a fu y canlyniad? "Gorchfygodd!" Dyma weledigaeth: sylwch arni. Mae yn fwy rhyfedd na'r un a welodd Moses yn Horeb. Nid oedd yno ond un o ddeddfau natur wedi colli ei grym;—tân yn methu llosgi y berth; ond ar Peniel, wele Hollalluogrwydd ei Hun yn cael ei orchfygu: yr Hwn yr oedd gormod o dywyllwch dirgelwch o'i amgylch i roddi enw arno yn cael ei orchfygu; Arglwydd y lluoedd yn cael ei orchfygu. Yr oedd Jacob yn synu ei hun at y peth, a da y gallasai: "Gwelais Dduw," meddai, "wyneb yn wyneb, a diangodd fy einioes."

I roddi prawf sicr o wirionedd yr hyn a ddigwyddodd yn Peniel, fe ddywed y testyn:—"cafodd ef yn Bethel." Yr oedd hyn ymhen blynyddoedd ar ol Peniel. Yno fe ail-gadarnhawyd yr enw newydd, ac fe ail roddwyd addewidion y cyfamod iddo. "Ac yno yr ymddiddanodd â ni." Yr oedd Duw trwy yr hyn a wnaeth yn Peniel a Bethel yn ymddiddan â ni. Nid ni

Hosea fydd genym yma, ond ni y Cymry. Beth y mae yn ei ddywedyd drwy Jacob? "Tro dithau at dy Dduw:" oblegid y mae yn dywedyd,—

1. Y mae yn bosibl ei orchfygu. Y mae hyn yn beth rhyfedd; pryfyn y llwch, abwydyn y ddaear, yn gorchfygu gydâ Duw. Beth sydd mor ddiamddiffyn a dyn? Pwy sy mor wan ag ef? Gall yr haul ei daraw y dydd,—y lleuad y nos,—pob elfen fyned yn drech nag ef. Gellir dywedyd wrtho, "Os pechi, pa niwed a wnai di iddo ef?" Ni elli di effeithio dim ar y cymylau, heb sôn am ddim pellach: ond wele yr Hwn sydd yn eistedd ar amgylchoedd y ddaear, yr Hwn sydd yn gwneuthur y cymylau yn gerbyd iddo, ac yn marchog ar adenydd y gwynt, yn cymeryd ei orchfygu gan ddyn: dagrau dyn yn agor calon Duw; ymbiliau dyn yn dadgloi holl ystordai y Jehofah! Fe wnaeth cyffyrddiad Duw glun Jacob yn rhy wan i ymladd byth wed'yn: gyda pharch y dywedwyf, fe wnaeth dagrau Jacob fraich Duw yn rhy wan i'w daraw ef yn dragywydd!

Y mae yn bosibl ei orchfygu; a dim ond gwneyd hyn, ni raid pryderu am orchfygu gydâ neb na dim arall. Beth fydd Esau a'i bedwar cant o wŷr,—trigolion Sichem,—a'r hen Ganaaneaid a'r Aiphtiaid? Wedi gorchfygu gydâ Duw, Tywysog fydd Jacob bellach.

Y mae yn gysur i ni gofio beth sydd yn gorchfygu, *dagrau.* Nid doniau, ond dagrau. Dadleuon gwendid ydyw dagrau; ac y maent yn ddadleuon o fewn cyraedd pawb.

2. Peth arall y mae yn ei ddywedyd wrthym drwy Jacob ydyw, Nad oes dim wedi digwydd yn ein hanes a all ein-rhwystro i gael y fendith yn nhrefn Duw. Yr oedd Jacob wedi pechu llawer, ac wedi cyflawni rhai pechodau ysgeler iawn; ond erddynt oll, fe orchfygodd. Hanes digon du yw dy hanes dithau; ond nid oes dim wedi digwyddo fel na elli di lwyddo. Nid oes yna yr un pechod mor fawr nad oes yn y fendith fodd i'w faddeu: nid oes yna yr un ystaen yn dy natur mor ddwfn, nad oes yn y fendith fodd i'w godi. Os oedd trugaredd mor alluog yn nyddiau Jacob, pan nad oedd yr un rheswm drosti, beth ydyw hi wedi cael rheswm cryf Calfaria wrth ei chefn?

3. Y mae yn dywedyd wrthym hefyd, nad oes dim yn y dyfodol

a all ein rhwystro ni i orchfygu a chael y fendith. Beth bynag sydd ymlaen, y mae yn y Neb sydd yn bendithio ddigon ar eu cyfer; oblegid "Arglwydd Dduw y lluoedd, yr Arglwydd yw ei goffadwriaeth," ydyw. Dyma ddigon, os oes digon mewn bod. Nid oedd ryfedd i Jacob ddweyd bore dranoeth ar ol gorchfygu :—"Y mae genyf fi bob peth."

Dilynwch esiampl Jacob mewn ymdrechu am y fendith. Peidiwch boddloni heb gael rhywbeth ger bron gorsedd gras a newidia eich enw. Fe gafodd Jacob lawer gan Dduw cyn dyfod i Peniel, ond yno y cafodd ef ddigon i newid ei enw. Y mae llawer pechadur, ac y mae yma rai o honynt, wedi cael enw newydd byth, wrth ymbil gydâ Duw.

[Dydd Mercher, Chwefror 16eg, 1870.]

## PREGETH VIII.

### IACHAWDWRIAETH YN OL GRAS A THRWY FFYDD.

RHUFEINIAID iv. 16: "Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras; fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had."

NI a gawn yn nghân yr angylion, uwchben meusydd Bethlehem, fod genedigaeth Ceidwad yn amlygiad o'r gogoniant mwyaf yn Nuw, ac hefyd o'r ewyllys da mwyaf tuag at ddynion. Felly hefyd, gellir dywedyd fod cadwedigaeth trwyddo, yr hyn a elwir yn y testyn yn gadw trwy ras, yn rhoddi y gogoniant mwyaf i Dduw, ar yr un pryd ag y mae yn amlygiad o'r ewyllys da helaethaf tuag at ddynion. "O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras:" dyna y Duw anfeidrol yn cael y gogoniant. "O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras, fel y byddai yr addewid yn sicr:" dyna yr ewyllys da helaethaf yn cael ei amlygu tuag at ddynion. Nid oedd ond dwy ffordd i gadw yn bosibl; sef, naill ai trwy haeddiant dyn, neu trwy ras Duw;—trwy ddeddf, neu trwy ffafr,—dyn yn teilyngu, neu Dduw yn rhoddi. Y mae yr apostol, yn nechreu y llythyr hwn, yn dangos nas gallai cadwedigaeth ddyfod yn y ffordd gyntaf, sef trwy deilyngdod, a'i bod yn dyfod trwy yr ail, sef trwy ras. Dengys nas gallai ddyfod trwy haeddiant, oblegid yr oedd pawb wedi pechu; cenhedloedd ac Iuddewon wedi defnyddio pob mantais a gawsant i wasanaethu Duw,—a thrwy hyny i deilyngu ei ffafr pe buasai y peth yn bosibl,—i bechu yn ei erbyn. Hyny o wirionedd am Dduw ag oedd yn cael

ei ddatguddio yn y greadigaeth, atelid ef gan y paganiaid mewn anghyfiawnder; "oblegid a hwy yn adnabod Duw, nis gogoneddasant ef megis Duw," neu yn meddu manteision i hyny. Gwir nad oedd ganddynt ddeddf ysgrifenedig; ond yr oedd eu natur hwynt yn ddeddf iddi ei hun: eto yn profi fod gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig ar eu calon trwy ei thori, ac nid trwy ei chadw. Ac am yr Iuddew, oedd wedi cael breintiau mwy,—cael deddf ysgrifenedig, ac ynddi amlygiad cyflawn, eglur, o'r hyn a gais yr Arglwydd, nid oedd hono yn gwasanaethu i ddim ond i ddangos ei drueni. Yr oedd hi, fel goleuni yr haul, yn dangos llygredigaeth; ac, fel ei wrês, yn ei gynhyrfu. "Nid adnabuaswn i drachwant, oni bai ddywedyd o'r ddeddf, na thrachwanta:" dyna ddangos pechod. "Y ddeddf a ddaeth i mewn fel yr amlhäi y camwedd:" dyna ei gynhyrfu. Nis gall deddf i rai fel hyn wneuthur dim ond "peri digofaint." Pe buasai rhyw weithredoedd yn teilyngu bywyd, gweithredoedd deddf a fuasai y rhai hyny; oblegid nid yw gweithred creadur yn teilyngu dim, oni wêl yr Arglwydd yn dda gysylltu rhyw ddaioni fel gwobr am ei chyflawni. Fe wnaed hyny yn y ddeddf: "Gwna hyn," meddai, "a byw fyddi." Eto gwasanaethu i ddangos pechod, ac nid i gyfiawnhau, yr oedd y ddeddf: "am hyny trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir yr un cnawd yn ei olwg ef." "Athraw at Grist" oedd y ddeddf; ac fel y cyfryw, yr oedd hi yn cyd-gau y rhai oedd dani i fyny i ffydd yr efengyl. Ac am y rhai a gyfiawnhawyd o dan yr Hen Destament, nid trwy weithredoedd y ddeddf y bu hyny. Y mae yr apostol yn enwi dau o'r enwogion, sef Abraham a Dafydd; a phe buasai rhyw rai wedi eu cyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, diau mai hwy a fuasent y rhai hyny. Ond "beth a ddywed yr ysgrythyr? Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Ac "y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd." A'r casgliad, oddiwrth yr holl ymresymiad, ydyw y testyn;—"am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras," &c.

Y mae y gwirionedd hwn yn cael ei ddangos yn eglur yn y testyn, Fod cadwedigaeth trwy ffydd yn gadwedigaeth yn ol gras; a chadwedigaeth yn ol gras yn gadwedigaeth sicr. "O

ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras,"—"fel y byddai yr addewid yn sicr." Ond yn

I. Gan ei bod hi o ras, am hyny o ffydd y mae; neu gan mai o ffydd y mae, rhaid ei bod yn ol gras. Os cyfiawnhad trwy ffydd ydyw, rhaid ei fod yn gyfiawnhad trwy ras; neu os cyfiawnhad trwy ras ydyw, rhaid ei fod yn gyfiawnhad trwy ffydd. Y mae gras yn arwain at ffydd, a ffydd yn arwain at ras. Y mae ffrwythau y pren o'r un natur ag ef ei hun; ac y mae natur y pren yn sicrwydd am natur y ffrwyth. Os ffydd ydyw y ffrwyth, y mae yn sicr mai gras ydyw y pren; ac os gras ydyw y pren, y mae yn rhaid yn hyn mai ffydd fydd y ffrwyth. Y mae y drefn felly yn dechreu ac yn diweddu mewn gras. Gras ydyw sylfaen a chonglfaen yr adeilad. Y mae hi yn pwyso ar ras fel ar sylfaen. Y mae pob peth sydd ynddi yn ol gras fel y conglfaen: y mae pob maen yn yr adeilad i fod yn ol hwn: "fel y byddai yn ol gras."

Edrychwch ar y pleidiau,—Duw a dyn, yn eu perthynas â'u gilydd. Os cedwir, rhaid mai yn ol gras y bydd hyny; oblegid o du Dduw, ni a welwn, 1. Nad oedd arno ddim o'n hofn ni. 2. Nad oedd arno ddim o'n heisiau ni. 3. Ni buasai yn ddim tlotach wedi ein colli ni.

1. Nid oedd arno ddim o'n hofn ni. Yr oedd ar Dafydd ofn meibion Serfiah, ac am hyny ni chymerai arno weled eu camymddygiadau. Gofynai yn bryderus i'r wraig o Tecoa,—"A ydyw llaw Joab gyda thi?" cyn y meiddiai gario allan yr hyn a ofynai hi, ac a ddymunai ei galon yntau. Ond os edrychwn ni ar y nefoedd, gydag Elihu, ddim ond unwaith, a sylwi ar y cymylau y rhai sydd uwch na ni, ni a welwn, "os pechwn ni, na wnawn ni ddim niwed iddo ef; os aml fydd ein hanwireddau, nad ydym yn gwneuthur dim iddo ef.' Y mae ei orseddfainc wedi ei darparu yn y nefoedd, ac am hyny y mae hi yn ddigon pell tu hwnt i gyraedd ein braich fèr ni, fel nad oes arno ddim o'n hofn.

2. Nid oedd arno ddim o'n heisiau ni. Nid oedd ar Darïus ddim ofn Daniel, oblegid caethwas oedd Daniel, a Darïus yn ymherawdwr galluog; ac fel y cyfryw yr oedd ei fraich yn ddigon cref i lethu y caethwas i ddinystr; ond nis gallasai fforddio gwneuthur hyny,—yr oedd arno ei eisiau. Yr oedd

Daniel yn llanw lle pwysig, a'r ysbryd rhagorol oedd ynddo yn ei wneuthur yn un heb ei fath ymysg holl ddeiliaid Darïus: ond nid oedd ar y Duw anfeidrol ddim o'n heisiau ni; ni buasai yr un o olwynion peiriant mawr ei ymherodraeth yn sefyll am darawiad amrant, pe buasem ni yn cael ein difodi. Felly,

3. Ni buasai y Brenin tragywyddol ddim tlotach wedi ein colli ni. Un o ddadleuon Esther ger bron Ahasferus dros ei harbediad ei hun a'i chenedl oedd, y byddai eu dinystrio yn gryn golled i'r brenin, am fod y deyrnged a dalai cymaint o bobl yn swm mawr. Ond ni byddai cyllid y Brenin tragywyddol yr un ffyrling yn llai er ein dinystrio ni, gan nad oedd ein cenedl yn arfer talu yr un dreth iddo. Os amlyga Duw ei Hun yn Dduw iachawdwriaeth i'r fath yma, y mae yn rhaid mai gras yn unig a'i cymhella Ef i hyny.

Edrychwn ar y drefn eto yn ei pherthynas â dyn, ac ni a welwn yr un peth; oblegid, 1. Nid oes dim teilyngdod ynddo. 2. Nid oes dim hawddgarwch ynddo. 3. Nid oes dim gwerth ynddo.

1. Nid oes dim teilyngdod ynddo. Fe ddywedir weithiau fod dyn yn fwy teilwng o gael gwneuthur hyn iddo na'r angel syrthiedig, am mai ei lithio gan yr angel a gafodd. Gwir yw mai ein temtio a gawsom, a buasai hyny yn rhoddi teilyngdod ynom rhagor yr angel, pe buasem yn dangos, trwy edifarhau mewn llwch a lludw, ein bod yn gofidio am i ni wrandaw ar lais y temtiwr; ond yn lle hyny, y mae ein holl ymddygiad ni wedi syrthio yn profi nad ydyw yn ddrwg genym am a fu. Ac y mae dyn yn rhy aml yn profi ei hun yn debyg i'r angel syrthiedig, trwy droi yn demtiwr fel yntau: a phe buasai gan ddyn fynedfa, fel a fu gan yr angel, at natur sanctaidd, y mae yn dra thebyg y buasai yntau wedi andwyo rhyw fyd dedwydd, fel yr andwyodd y diafol hwn. Diffyg cyfleustra, ac nid diffyg tuedd, ydyw yr achos nad ydyw dyn yn debyg i'r angel syrthiedig, yn mawredd y drwg y mae yn ei gyflawni. Y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni; yn rhodio yn ol tywysog llywodraeth yr awyr: gan eu bod yn gorwedd, nid oes yna ddim ymdrech am ddianc o'r ystad; gan eu bod yn rhodio, y maent wrth eu bodd ynddi. Am hyny nid oes dim teilyngdod ynddo.

2. Nid oes dim hawddgarwch ynddo. Fe fu ein natur ni yn hardd,—yn hawddgar unwaith; ond delw Duw oedd yr hawddgarwch hwnw. Nis gall dim ond sancteiddrwydd fod yn hawddgar i Dduw. Prydferthwch sancteiddrwydd ydyw prydferthwch y Jehofah ei Hun; ac, iddo Ef, nid oes prydferthwch ond prydferthwch sancteiddrwydd. Sonir weithiau genym am fawredd creadur fel rhywbeth sydd yn rhoddi hawddgarwch iddo: yn hytrach fel arall y mae; po mwyaf y byddo creadur, os heb sancteiddrwydd, pellaf oll ydyw oddiwrth fod yn hawddgar. Y mae y diafol yn greadur mawr, ond nid oes dim hawddgarwch ynddo, ïe, y mae yn mhellach oddiwrth fod felly na dyn, o gymaint ag y mae yn fwy creadur na dyn.

3. O ganlyniad, nid oes dim gwerth mewn dyn. Ymha beth y gwnai yr Anfeidrol gyfrif o un fel hwn? Gan nad ydoedd yn adlewyrchu ei ddelw, gwell fuasai hebddo; oblegid yr ydoedd fel blotyn du ar wyneb ei greadigaeth deg. Y mae yn wir fod dyn yn awr wedi dyfod yn werthfawr; yn gyfryw ag y bydd yn addurn i'r nefoedd byth; ïe, dynion ydynt dlysau, pethau gwerthfawrocaf *cabinet* y Duwdod. Ond trefn Duw sydd wedi eu gwneyd felly. Gwelsom cyn hyn ddodrefnyn tra phrydferth a gwerthfawr yn addurno palas boneddwr; ac erbyn holi beth oedd ei ddefnydd, feallai mai pren a gloddiwyd o hen fawnog anghysbell yn nghanol y mynyddoedd a fyddai hwnw; ac na buasai neb yn tybio, wrth edrych arno, ei fod yn werth dim ond i'w losgi: ond erbyn heddyw ni chymerai y gwr boneddig ddim canoedd o bunau am y dodrefnyn. Ond, *skill* yr *artist*, medr y gwneuthurwr a'i gwnaeth yn werthfawr; nid gwerth y defnydd oedd ynddo. Felly dyn, fe fydd yntau ymhen ychydig yn rhy werthfawr i'w adael yn unman tu allan i'r nefoedd; ond trefn Duw fydd wedi ei wneuthur felly.

Wel, os cedwir un fel hwn, rhaid mai o ras y bydd hyny: felly y mae y peth yn bod, medd y testyn; ac iddo fod felly, "o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras."

1. Gan mai o ffydd y mae, y mae y drefn yn dwyn yr un ddelw trwyddi; Duw i'w ganfod yn amlwg ynddi o'i chychwyn i'w pherffeithiad, "fel y byddai yn ol gras." Y mae yr un ddelw ar bob dernyn o arian bathol; nid y maint sydd yn profi

i bwy y maent yn perthyn, ond y ddelw: os delw Cesar fydd ar y ffyrling, y mae hono mor wirioneddol eiddo iddo a'r *sovereign.* Felly y mae y ddelw sydd ar bob rhan o drefn cadw, yn profi ei bod hi oll "yn ol gras." Y mae y meddwl cyntaf am y drefn wedi cael bodolaeth yn mynwes Duw; y cynllun o honi wedi ei lunio gan ddoethineb Duw; y gwaith wedi ei gario ymlaen ar draul Duw; ac y mae yn cael ei gymhwyso at ei wrthddrychau, a Duw mor amlwg yn hyny ag ydoedd yn nghynlluniad y drefn. Duw a feddyliodd am achub: ni chafodd Efe mor meddwl gan neb, nac oddiwrth ddim; fe gododd rywsut yn ei fynwes Ef ei hun: dyna hi yn cychwyn mewn gras. Duw a ddygodd holl draul y drefn; iddo ei Hun yr edrychodd am Oen y poeth-offrwm: dyna y drefn wedi ei chario allan yn weithredol yn ras. Un cam sydd eto, sef cael y pechadur a'r drefn i afael eu gilydd; ac os ceir hwnw o ras, bydd yr un caracter iddi oll. Wel, "o ffydd y mae" yn y fan hon, gan hyny dyna hi "yn ol gras" eto; gras yn ddechreu, gras yn ganol, gras yn ddiwedd.

Y meddwl sydd gan yr apostol yma ydyw, nad oes dim mewn ffydd sydd yn teilyngu bywyd; oblegid y mae yn dàl ffydd a gweithredoedd ar gyfer eu gilydd. Y mae gweithredoedd, pe gellid eu cyflawni, yn teilyngu; ond am ffydd nid oes ynddi hi ddim sydd yn teilyngu cyfiawnhad. Cymerer unrhyw olwg arni: mŷn rhai mai yn y deall y mae ei heisteddle, ac felly mai cydsyniad ydyw â gwirioneddau a gyflwynir i'w sylw: tra y mŷn eraill fod ymddiried yn ei natur hi, ac felly bod ei heisteddle hi yn yr ewyllys; ond nid ydyw y naill olwg na'r llall ddim yn cynwys fod teilyngdod ynddi. Y mae hi trwy apwyntiad Duw yn gyfrwng cyfiawnhad, ond nid yn ei deilyngu, nac mewn un modd yn ddefnydd o hono; oblegid, pe byddai credu yn weithred, y mae hi yn weithred nad ydyw dynion byth yn arfer cysylltu teilyngdod â hi. Y mae peidio credu, pan y mae prawf yn cael ei roddi o wirionedd tystiolaeth, yn fai,—yn bechod dirfawr. Y mae yr hwn sydd heb gredu tystiolaeth Duw am ei Fab, yn gwneuthur Duw yn gelwyddog. Dyna bechod nas gellir traethu maint ei ysgelerder. Ond nid ydyw yn dilyn oddiwrth hynyna, fod credu yn rhinwedd i deilyngu gwobr oddiar law Duw. Nid oes neb yn

arfer teimlo fod credu yn teilyngu, yn ei gysylltiad â dynion; ac nid ydyw cysylltu y weithred (pe byddai yn weithred) â Duw, yn newid dim ar ei natur hi. "O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras." Beth ydyw ffydd? Y ddaear sêch yn llefain ar y nefoedd. Os gwelir hi yn tarddu ac yn tyfu, eto bydd y clod am hyny i'w briodoli, nid i'r eginyn oedd ynddi hi ei hun, ond i wlaw y nefoedd a ddisgynodd arni.—Beth ydyw ffydd? Y tlawd yn cyfaddef wrth y cyfoethog, nad oes ganddo ddim. Os gwelir ei dŷ ef yn llawn mewn canlyniad, bydd raid diolch am hyny, nid i'r cyfaddef, ond i galon dyner a llaw hael y cyfoethog.—Beth ydyw ffydd? Y cardotyn yn estyn ei law i dderbyn anchwiliadwy olud. Os gwelir ef wedi ei ddyrchafu i gyfoeth ac anrhydedd, bydd hyny i'w briodoli, nid i estyniad y llaw, ond i'r cyfoeth a dderbyniodd ef ynddi.—Beth ydyw ffydd? Jacob yn esgyn i gerbydau Joseph, i gael ei gludo i'r Aipht. Os gwelir ef yn mwynhau brasder Gosen, bydd yn rhaid diolch am hyny, nid i'w waith ef yn esgyn i'r cerbyd, ond i fynwes haelfrydig Joseph.—Beth yw ffydd? Pedr pan yn suddo i'r eigion, yn llefain, "Cadw fi, canys darfu am danaf!" Os gwelir ef wedi dianc rhag boddi, bydd yr enw am hyny i'w briodoli, nid i lefain Pedr, ond i fraich hollalluog yr Iesu a ymaflodd ynddo. "O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras."

2. Drachefn, y mae cysylltu cyfiawnhad â ffydd yn arddangosiad neillduol ei fod yn ol gras,—oblegid y mae yn cael ei gysylltu â pheth hawdd, ac â pheth am ei fod felly, sydd a thuedd uniongyrchol ynddo i ddwyn dyn yn ymwybodol o ddyfnder ei drueni, wrth deimlo na fedr ef ddim gwneuthur y peth hawdd hwn. Nid â rhywbeth yn y nefoedd,—yn y dyfnder,—neu y tu hwnt i'r môr, y mae bywyd wedi ei gysylltu, fel nad all neb ddywedyd, Pwy a esgyn? pwy a ddisgyn? neu pwy a dramwya? ond â pheth sydd yn nghyraedd pawb; peth y mae y natur ddynol—fel natur—ymhob man, ac o dan bob math o amgylchiadau, yn ei wneuthur, sef credu tystiolaeth: "tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn." Y mae hynyna yn un o nodweddion ein natur ni. Hynyna y mae yr efengyl yn ei geisio, derbyn tystiolaeth, a hono yn un â phob sicrwydd yn perthyn iddi, oblegid tystiolaeth Duw ydyw. "Y mae tyst-

iolaeth Duw," medd yr apostol, "yn fwy,"—yn fwy sicr,—yn fwy haeddol o bob derbyniad, na thystiolaeth holl ddynion y byd. Derbyn hono ydyw derbyn bywyd; oblegid yr hwn sydd yn credu ni ddemnir, "eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd." Ac er na ddygir neb byth i gredu ond gan ragorol fawredd nerth Duw, un o'r pethau angenrheidiol i hyny ydyw dwyn pechadur i deimlo fod ei drueni yn fawr arno, pan na fedr wneuthur i Dduw yr hyn y mae yn ei wneuthur i bawb arall. Mae deall natur ei anallu ei hunan yn ddarpariaeth ar ddyn i ymaflyd yn nerth Duw. Nid anallu y dyn a syrthiodd ymysg lladron ar y ffordd i Jericho i'w ymgeleddu ei hun ydyw, ond anallu Absalom i garu Dafydd, oedd yn frenin ac yn dad iddo. Pe dywedasai y prophwyd beth mawr wrthym, gallasem berswadio ein hunain mai mawredd y peth oedd yn ein hatal i gydsynio â'r telerau, ac felly golli golwg ar y gwir achos, sef gelyniaeth ein calon; ond fe ddywedodd beth mor hawdd, fel nas gallwn, ond ystyried, lai na theimlo nad oes dim i'n hatal i gydsynio ag ef ond ein drwg. "Ni fynwch ddyfod ataf fi;" a phan y daw y teimlad yna i'r fynwes, y mae y pechadur ar drothwy teyrnas Dduw: ac y mae cysylltu bywyd â'r peth tebycaf fel moddion naturiol i gynyrchu y teimlad, yn amlygiad o ras y drefn. "O ffydd y mae," yn yr ystyr yma hefyd, "fel y byddai yn ol gras."

II. Y mae cadw o ras trwy ffydd yn gadwedigaeth sicr;—"fel y byddai yr addewid yn sicr i'r holl had." Wrth yr addewid yr ydym i ddeall holl gynwys trefn Duw, ac yn enwedigol, nôd eithaf y drefn, sef y nefoedd, o'r hon yr oedd y Ganaan ddaearol, cyfeiriad at ba un sydd yn yr ymadrodd, yn gysgod. Trwy gredu y daeth yr addewid i Abraham, sef trwy ffydd, ac o ras; ac fel y cafwyd y cysgod trwy gredu, felly hefyd y mae y sylwedd i'w gael,—yr addewid, diwedd ein ffydd, iachawdwriaeth ein heneidiau.

1. Y mae cadw trwy ffydd yn gadw sicr, am fod ffydd yn ffurfio undeb, ac felly berthynas, rhwng pechadur â Mab Duw. Y mae yr addewid, gan hyny, yn rhwym o fod yn sicr iddo. Y mae perthynas yn ddigyfnewid: felly y mae y cyfoeth sydd yn dyfod yn rhinwedd perthynas yn un y gellir ymddibynu arno, tra y mae yr un a ddisgwylir fel gwobr gwaith yn ansicr o

angenrheidrwydd; oblegid gall rhywbeth ddyfod i ddifwyno neu ddinystrio y gwaith cyn ei orphen, a thrwy hyny, syrthio yn fŷr o'i wobr. Yr oedd Jeroboam a Rehoboam mewn cysylltiad â Solomon, yn byw gydag ef yn y brenhindŷ; ond gwas oedd un; mab oedd y llall. Yr oedd y wobr i'r cyntaf yn gysylltiedig â gwaith; ond trwy golli ei gymeradwyaeth gyda'i feistr Solomon, fe gollodd Jeroboam y wobr; ond yr oedd y wobr yn dyfod i'r ail yn rhinwedd perthynas: felly fe gafodd Rehoboam yr urddas a'r cyfoeth am ei fod yn fab. Y mae y gwas yn derbyn am ei fod yn gweithio: y mae y mab yn derbyn am ei fod yn perthyn i berchenog y cyfoeth. "Dyro i mi y rhan a ddigwydd o'r dâ," meddai y bachgen afradlon wrth ei dad; nid "y rhan a enillais i," hyny a fuasai iaith gwas, "ond yr hyn sydd yn dyfod i'm rhan yn rhinwedd perthynas." Y mae ffydd yn ffurfio perthynas rhwng pechadur â Mab Duw, am hyny y mae yr addewid yn sicr: chwi a gewch y rhan sydd yn digwydd o'r dâ.

2. Y mae cadw trwy ffydd yn Nghrist yn gadw sicr, oblegid y mae efe wedi derbyn yr addewid. "I Abraham," medd yr Apostol, "y gwnaethpwyd yr addewid, ac i'w had," sef i Grist. Y mae rhai yn deall y geiriau yma, nid am Iesu Grist fel Cyfryngwr, ond Crist a'i eglwys, sef y corff hwnw y mae y saint yn aelodau o hono, a Christ yn ben ac yn gyflawnder iddo. Ond beth bynag am y syniad yna, iddo Ef y gwnaed hi, a thrwyddo ef y mae hi yn dyfod yn eiddo i bechadur. "Fel y delai bendith Abraham ar y Cenhedloedd trwy Crist Iesu." Y mae sicrwydd mawr yn y fan hon: nid addewid ydyw hi bellach i Grist,—y mae Efe wedi ei derbyn hi. Hi a fu yn hir yn addewid iddo Ef; addewid y digelwyddog Dduw, yr hon a addawyd iddo Ef cyn seiliad y byd, addewid bywyd tragywyddol. Yr oedd hono yn addewid eang, yn addewid fawr iawn. Yr oedd hi yn cynwys nefoedd ddiddiwedd, a phob peth oedd yn eisiau ar bechadur i'w ddwyn ef yno. Yr oedd ynddi edifeirwch, yr oedd ynddi faddeuant, yr oedd ynddi gyfiawnhad bywyd, yr oedd ynddi buro y natur; ond â swm mawr, mor fawr a'i werthfawr waed, fe gafodd Ef gyflawniad o honi, fel, erbyn hyn, y mae cyfoeth cyngor a bwriadau Duw, sef cynwys yr addewid, yn feddiant gan y dyn Crist Iesu; a'r foment yr unir pechadur

âg Ef, fe fydd hyny a fedd y Pen yn feddiant gan bob aelod o'r corff hefyd: "yr addewid yn sicr." Yr oedd Joseph wedi derbyn holl fawredd a chyfoeth yr Aipht gan Pharaoh yn wobr gwaith; ond yr oedd ei frodyr yn derbyn y pethau hyn yn rhinwedd perthynas. Yr oedd bod Joseph wedi eu derbyn yn sicrwydd am eu parhad iddynt hwy tra y byddai efe byw; ac oni buasai lluddias gan farwolaeth i Joseph barhau, buasai Gosen a'i llawnder yn parhau iddynt hwythau. Ond y mae Iesu Grist yn byw bob amser; am hyny fe ddichon yn gwbl iachau. Y mae yr addewid yn sicr tra y bydd Efe byw.

3. Y mae cadw trwy ffydd yn sicr, am fod y diogelwch neu y sicrwydd yn dibynu yn gwbl ar un arall. Nid all dim ynom ni ddyfod ag ansicrwydd i'r drefn. Nid oes a fyno nifer ein beiau nac ysgelerder ein beiau ni ddim â'r mater, mwy nag sydd a fyno ein rhinweddau. Nid yw annheilyngdod na theilyngdod ddim yn dyfod i'r cwestiwn. Y mae yr enwaediad yn cael eu cyfiawnhau trwy ffydd, a'r dienwaediad wrth ffydd: nid yw y drefn yn sylwi dim ar y tipyn gwahaniaeth a all fod rhyngddynt hwy. Y mae yr addewid yn sicr i'r ddau trwy ffydd. Os oes digon yn yr addewid, y mae hi yn sicr. Cwestiwn arall ydyw ei digonolrwydd hi; ond erbyn heddyw, nid yw hwnw yn gwestiwn, oblegid y mae y Rhagflaenor wedi myned i'r nefoedd, ac y mae yn awr yn eistedd ar ddeheulaw Duw;—prawf bythol o ddigonolrwydd yr addewid.

Beth a debygech chwi am drefn Duw i gadw pechadur,—trefn o ras, trefn trwy ffydd, ac er hyny yn sicr? Y mae pethau na cheir mo honynt gydâ'u gilydd ymysg dynion yn cydgyfarfod ynddi hi. Yn gyffredin, os bydd rhywbeth yn rhad, nid oes llawer o werth ynddo; neu os bydd yn werthfawr, nid ydyw yn rhad. Y mae rhai o'r llongau yn cario drosodd i'r America yn lled rad, ond yn gyffredin, byddant yn hen, heb fod yn gryfion, ac felly heb fod yn *safe* neu yn sicr iawn; ond am y rhai diogel, newydd, cryfion, cyflym, nid ydyw y rhai yna ddim yn rhad. Ond y mae trefn Duw yn rhad ac yn sicr hefyd: o ras, trwy ffydd, yn sicr. Gras,—dyna drefn Duw yn ei holl gyfoeth: sicr ydyw hi yn meddiant pechadur, a ffydd sydd yn ffurfio y cysylltiad rhyngddynt. Cred: a dyna holl gyflawnder trefn Duw yn eiddo sicr i ti.

[Hydref 24, 1865.]

## PREGETH IX.

### TEYRNAS DDISIGL.

HEBREAID xii. 28: "Oherwydd paham, gan ein bod ni yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras; trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gydâ gwylder a pharchedig ofn."

CASGLIAD ymarferol ydyw y testyn oddiwrth ymresymiad yr apostol trwy gorff y llythyr. Gellir cynwys y gwirionedd sydd ynddo yn y geiriau hyn:—Bod sefydlogrwydd crefydd Crist yn rheswm dros ffyddlondeb iddi ac ymlyniad wrthi. Y mae crefydd Iesu Grist yn canmol ei hun wrth ddyn ymhob golwg arno, pa un bynag a wnawn ai edrych ar ei gyflwr, ar ei alluoedd, ar ei ddymuniadau, neu ar ei ddisgwyliadau a'i ofnau. Yn llyfr Job, fe ddarlunir rhyw rai mor dlawd, fel yn nghanol angerddoldeb yr ystorm, o eisiau diddosrwydd gwell, "y cofleidant graig;" mwy na hynyna ydyw tlodi cyflwr dyn; ond y mae yr efengyl yn ei gyfarfod yn ei holl eangder, ac y mae ei darpariaeth gyfoethog yn gyfled ag ef. Ac nid gwneuthur i fyny angen ei gyflwr yn unig y mae, ond digoni hefyd â'i gwrthddrychau holl alluoedd ei feddwl, tawelu ei ofnau, a llenwi ei ddymuniadau; ac nid gwneuthur hyny am y presenol yn unig, ond am y dyfodol hefyd; fel nas gall ofni dim na bydd hi yn amddiffyn rhagddo, na dymuno dim nad oes ganddi hi fodd i'w ddwyn i'w feddiant: am hyny gellir dadleu ei hawliau i sylw a derbyniad oddiar bob ystyriaeth.

Yn y llythyr hwn, fe gymhellir yr Hebreaid i ffyddlondeb iddi, yn benaf oddiar yr ystyriaeth o'i rhagoriaeth hi ar yr hen oruchwyliaeth: dangosid nad oedd hono ond rhagymadrodd neu arweiniad i mewn i hon. Cysgodau oedd ei phob peth hi o sylweddau hon. Yn y *paragraph* y darllenwyd y testyn o hono, y mae Sinai a Sion yn cael edrych arnynt fel yn cynrychioli y ddwy oruchwyliaeth; y naill yn fynydd teimladwy, yn gartref y tân, y cwmwl, a'r dymestl; y llall yn fangre dawel, ymha un y preswyliai y "myrddiwn o angylion," "cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig," "ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd," "Duw, Barnwr pawb," ac "Iesu, Cyfryngwr y testament newydd,"—fel mewn dinas dawel. Ar sefydliad goruchwyliaeth Sinai, fe grynodd y ddaear yn llythyrenol, yr hyn oedd yn arddangosiad o'r hyn oedd yn cymeryd lle mewn ystyr ysbrydol: fe ysgydwyd ac fe gynhyrfwyd ei galluoedd cryfaf hi, pan oedd yr Arglwydd yn sefydlu cenedl Israel i fod yn eglwys iddo ei hun. Ond nid oedd y cynhyrfiadau yna ond bychain o'u cymharu â'r rhai oeddent i gymeryd lle ar sefydliad goruchwyliaeth yr efengyl: i hyn yr oedd yn rhaid "cynhyrfu nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd." Ni fu dim o hyn mewn ystyr lythyrenol, fel gydâ'r oruchwyliaeth gyntaf; ond yn ysbrydol, fe fu cynhyrfiadau a chwyldröadau mor fawrion, a phe buasai y nefoedd a'r ddaear mewn ystyr lythyrenol yn cael eu hysgwyd. Yr oedd y byd yn cael ei aflonyddu; nid corwynt yn chwythu yr adeilad i lawr, ond y ddaear yn siglo o dan ei seiliau nes ei chwalu. Ac yn mhellach eto, nid y ddaear yn unig yn ysgwyd, ond y nefoedd hefyd yn ysgwyd, fel nad gwaith heb ymaflyd yn ngholofnau y nefoedd, mwy nag yn nghreigiau a mynyddoedd y ddaear ydoedd: yr oedd pobpeth yn siglo; ond yr oedd hyn oll yn cymeryd lle i ddwyn i mewn deyrnas ddisigl, sef teyrnas Mab Duw, y deyrnas a welodd Daniel, y llywodraeth dragywyddol nad ä ymaith, a'r frenhiniaeth na adewir i bobl eraill.

Y mater cynwysedig yn y testyn ydyw, Fod sefydlogrwydd y deyrnas hon yn gymhelliad i ddiwydrwydd a ffyddlondeb gydâ hi. Wrth y deyrnas hon yr ydym i ddeall yn gyffredin yr oruchwyliaeth a ddygwyd i mewn gan y Messiah. Yr oedd cenedl Israel yn deyrnas i Dduw yn ystyr lythyrenol y gair:

Duw oedd ei Brenin, ei Deddf-roddwr; nid oedd yr un a elwid yn frenin ganddynt hwy yn ddim ond rhaglaw o dan frenin y nefoedd. Ond er eu bod hwy yn deyrnas i Dduw, eto disgwylient am deyrnas fwy rhagorol: am hyny, pan gyhoeddodd Ioan Fedyddiwr fod teyrnas nefoedd wedi agoshau, nid oedd yn angenrheidiol iddo ef, nac i'r Arglwydd Iesu ychwaith, egluro y geiriau iddynt. Y mae yn wir nad oeddent yn gywir yn eu syniad am natur y deyrnas, eto yr oedd yr *idea*, y meddylddrych o deyrnas yn beth adnabyddus iddynt.

Nid wyf yn meddwl aros nemawr gydag ystyr y gair *teyrnas* yn y testyn. Y mae ystyr ëang iddo. Y mae yn cynwys y meddwl o lywodraeth Duw ar yr ysbryd; ynghyd âg effeithiau dedwydd y llywodraeth hono. "Teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae." Dyna'r llywodraeth ar yr ysbryd. "Nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod; ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân." Dyna ei heffeithiau dymunol hi. Yn ychwanegol at hyn, fe olyga yr ymadrodd hefyd, y datguddiad eglur o'i gwrthddrychau mawrion sydd yn yr efengyl; mewn gair, ystâd berffeithiedig yr eglwys, yr hon ystâd sydd yn cynwys y mewnol a'r allanol; neu yr hyn sydd yn gynwysedig mewn bod y deyrnas wedi ei pherffeithio o'n mewn ni, ac mewn bod y deyrnas wedi ei pherffeithio y tu allan i ni; y nefoedd ynom ni, a ninau yn y nefoedd. Yn yr ystyr ëang hwn y deallwn ni y gair *teyrnas* yn y testyn:—"Gan ein bod yn derbyn teyrnas ddisigl," &c.

I. Ni a edrychwn ar y darluniad sydd yma o'r deyrnas,—"disigl."

II. Y cymhelliad sydd yn codi o hyny i ffyddlondeb gydâ hi, ac ymlyniad wrthi:—"Bydded genym ras."

I. Y darluniad:—"teyrnas ddisigl," sef anghyfnewidiol a pharhaus. Y mae hi felly mewn ystyr gymhariaethol: y mae hi felly mewn ystyr wirioneddol.

1. "Disigl," mewn ystyr gymhariaethol. Yn yr adnodau o flaen y testyn, ni a gawn y deyrnas yn cael ei chyferbynu â'r nefoedd a'r ddaear; y rhai hyny yn ysgwyd, a'r deyrnas yn ddisigl. Gellir cymeryd y nefoedd a'r ddaear yn llythyrenol, fel yn arddangos y greadigaeth weledig yn ei pherthynas â theyrnas Mab Duw. "Pethau wedi eu gwneuthur" ydynt,

medd yr apostol; ac felly pethau i'w symud ydyw eu pob peth hwynt, "fel yr aroso y pethau nid ysgydwir," sef y "deyrnas." Yr olwg iawn ar bob peth creadigaeth a rhagluniaeth ydyw edrych arnynt yn eu perthynas â theyrnas Duw: tra yn gwasanaethu y deyrnas, y maent yn ateb diben eu gwneuthuriad: wedi iddynt beidio bod o wasanaeth i'r deyrnas, y maent yn cael eu symud, "megis pethau wedi eu gwneuthur." Y mae'r ymadrodd hwn yn cynwys y meddylddrych o bethau amserol, israddol, dros ychydig;—tra y mae y deyrnas yn ddisigl, ac yn dragywyddol. Nid awn yn awr i olrhain y gwirionedd gogoneddus am berthynas teyrnas Mab Duw â'r holl greadigaeth, fel y darlunir ef yn y Bibl, nac i geisio dangos fod y deyrnas yn sefyll yn yr un berthynas â'r greadigaeth ag y mae ei Phen hi yn sefyll ynddi. Y mae pob peth wedi ei wneuthur, nid yn unig trwyddo Ef, ond erddo Ef:—felly y mae pob peth wedi ei wneuthur erddi hithau. Ond gwaith rhy anhawdd i ni, o'r pantle isel yr ydym yn sefyll arno, ydyw canfod cysylltiad pob peth â'r deyrnas: yn wir, nis gallwn ni ddim gweled am flynyddoedd lawer pa fodd y dylanwada un amgylchiad, megis y rhyfel diweddar a fu yn Ewrop rhwng Prwsia ac Awstria, ar deyrnas Mab Duw, pa faint llai y gallwn ni ddeall perthynas fawr gyffredinol holl bethau y ddaear â'r deyrnas. Am hyny, dylai ein bychandra a'n hanwybodaeth ein gwneyd yn bur ochelgar, rhag bod yn rhy sicr am effeithiau union-gyrchol goruchwyliaethau neillduol o eiddo Duw ar y byd: ond am y gwirionedd mawr cyffredinol, nis gallwn fod yn rhy benderfynol, sef, Bod perthynas rhyngddynt oll â'r deyrnas.

Y fath olygfa ogoneddus y mae y gwirionedd hwn yn ei hagor o flaen y meddwl: pob peth y ddaear yn cydgyfarfod mewn un pwynt, sef yn nheyrnas Mab Duw, fel y mae yr afonydd yn cydgyfarfod yn y môr. Hi yw y sylwedd o ba un y mae pobpeth arall yn gysgod: ei henwau hi ydyw yr holl enwau sydd genym ar bethau gwerthfawr y ddaear; eu benthyg gan y sylwedd a gafodd y cysgod. Nid benthyca oddiar y greadigaeth a wnaeth iachawdwriaeth, ond rhoddi benthyg iddi, fel y rhoddodd y cysegr nefol fenthyg enwau ei bethau i gysegr bydol Moses. Nid yr haul sydd yn y ffurfafen ydyw yr Haul gwirioneddol: Haul y Cyfiawnder

ydyw hwnw. Cysgod o hwnw yw ein haul ni, ac am ei fod yn gysgod cafodd ei enw. Nid y gwir fara ydyw yr hwn a elwir genym ni yn fara: bara y bywyd ydyw hwnw. Benthyg yr yr enw a gafodd ein bara ni. Nid y wir winwydden ydyw yr hon yr ydym ni yn ei galw yn winwydden: cysgod o bethau y deyrnas ydyw y cwbl; yr hon, wedi i'r pethau eu hunain ddyfod i gael eu dadblygu yn llawn, bydd y pethau hyn wedi ateb eu diben, a gellir eu symud ymaith.—"Pethau wedi eu gwneuthur."

Yn hanes y byd fel ei cynwysir yn yr hen Destament, ni a welwn gyflawniad llythyrenol o eiriau y prophwyd Ezeciel (xxi. 27.) "Dymchwelaf, dymchwelaf, dymchwelaf hi; ac ni bydd mwyach, hyd oni ddelo yr hwn y mae yn gyfiawn iddo; ac iddo ef y rhoddaf hi." Y maent yn cael eu cyflawni yr un mor llythyrenol yn awr, ond ein bod ni mewn sefyllfa anfanteisiol i weled hyny. Pan y mae adeilad fawr, megys palas brenin neu dywysog yn myned i gael ei chodi, gwneir darpariadau blaenorol, cyfatebol i fawredd yr adeilad; fe godir tai a bythod *(sheds)* o gwmpas y lle cyn dechreu yr adeilad. Ar yr olwg gyntaf ar y rhai hyny, gellid tybied eu bod i barhau; ond pethau er mwyn yr adeilad ydynt oll: pan y bydd y palas wedi ei orphen, fe dẏnir y tai a'r *sheds* i lawr. "Pethau wedi eu gweuthur;" felly yma, y mae y testyn yn ein cymell i edrych ar bob peth fel *sheds*, fel tai allan *(out-buildings)*, at wasanaeth adeiladwaith mawr; ac y mae yn ein harwain i edrych ar amser, pe byddai yn amser hefyd, pan y bydd yr holl bethau sydd wedi eu gwneuthur yn cael eu symud. Deallir wrthy "*pethau*" y greadigaeth weledig, a goruchwyliaethau rhagluniaeth; y nefoedd a'r ddaear wedi cilio, a lle ni chaid iddynt; pob teyrnas wedi diflanu, holl olion ymherodraethau cadarnaf y byd wedi eu dileu, fel na bydd dim wedi ei adael i ddangos iddynt fod yma erioed. Ond wedi i'r pethau a symudir, a ysgydwir, fyned o'r golwg, y mae yma rywbeth yn bod wed'yn —"teyrnas ddisigl."

2. Y mae hi yn ddisigl o'i chymharu â goruchwyliaeth Moses. Mẏn rhai esbonwyr mai hyn ydyw ystyr y testyn. Nid wyf yn tybio eu bod yn gywir wrth gyfyngu y testyn at yr ystyr hwn yn unig; ond y mae yn ddiau fod hyn yn gynwysedig ynddo. Yr oedd grym mawr i'r ystyriaeth hon i'r

Hebreaid, am eu bod hwy yn ymwybodol o'r mawredd a roddwyd arnynt fel cenedl, trwy gael eu gwneuthur yn deyrnas i Dduw. Nid ychydig ydoedd rhagoriaethau yr Iuddew am ei fod yn un o blant y deyrnas. Yr oedd hyn wedi ei wneyd ar lawer adeg yn wrthddrych sylw a chenfigen y byd, fel y gellid gofyn am y genedl, "Pa genedl mor fawr" a hwynt? Yr oeddent yn eu gwareiddiad, eu gwybodaeth, eu moesau, a'u dedwyddwch gwladol, heb eu hail ar y ddaear. I'r deyrnas yr oeddent yn ddyledus am hyn oll; fel y mae yr Aipht yn ddyledus am ei ffrwythlondeb i'w hafon: colli hono a fuasai colli ei ffrwythlondeb; felly, colli pabell neu gysegr Duw, a fuasai colli pob peth iddynt hwythau. Yr oedd y deyrnas wedi gosod mawredd arnynt; ond mawredd sigledig, mawredd yn cael ei ysgwyd ydoedd. Yr ydoedd yn ymddibynu i fesur ar garacter y rhai a fyddent yn llenwi swyddau y deyrnas: os byddai y rhai hyny yn digwyddo bod yn ddynion da, fel Moses, Dafydd, Jehoiada, &c., yr oedd heddwch y wlad ar y pryd fel afon; ond yr oedd ansefydlogrwydd ynddi ar y goreu, oblegid fe wyddai pawb y lluddid i'r rhai yna gan farwolaeth barhau; a pha beth fyddai caracter yr offeiriad a ddeuai ar ol Jehoiada, —y brenin a ddeuai ar ol Dafydd? os byddai eu caracter yn wahanol, fe atelid heddwch a llwyddiant y wlad. Os meibion Eli fydd yr offeiriaid, fe ddaw y Philistiaid i'r wlad, er bod pabell Duw yn Siloh. Os Rehoboam fydd y brenin, fe rwygir y frenhiniaeth er pob peth a wnaeth Dafydd a Solomon. Yr oedd yn angenrheidiol, nid yn unig cael cyfansoddiad *(constitution)* da, cyfreithiau cyfiawn, ond yr oedd yn rhaid cael brenin ac offeiriad da i'w gweinyddu hwynt, onidè fe siglai pob peth. O ddiffyg hyn, fe welwyd y genedl, er ei bod yn deyrnas Dduw, yn wasgaredig ar hyd gwledydd Assyria, yn gaethion yn Babilon,—heb deml,—heb offeiriad,—heb aberth.

Ond, medd yr apostol, nid teyrnas fel yna yr ydym ni yn ei derbyn; ond un ddisigl. Y mae y *constitution* yn gyfryw ag y gellir dywedyd am y neb sydd yn byw odditano, "Pa genedl mor fawr" a hwynt? Ac y mae y gweinyddiad yn gyfryw na raid pryderu yn ei gylch. Ni raid i ni ddim holi beth fydd caracter y neb a fydd yn offeiriad y flwyddyn nesaf, na gofyn beth a wna y gŵr a ddaw ar ol y brenin presenol, oblegid y mae

Gweinyddwr holl swyddau y deyrnas yn gyfryw na luddir iddo gan farwolaeth barhau. Y mae ei phob peth hi yn ddisigl. Yr oedd yr hen deyrnas wrth siglo yn colli rhai o'i rhagorion yn fynych: fe fu ganddi arch a thrugareddfa, ond fe'i hysgydwyd hi fel y collodd hi y rhai hyny: fe fu gwialen Aaron, a'r crochan aur a'r manna, ganddi, yn brofion gweledig o'r gofal dwyfol drosti; ond wrth ysgwyd, hi gollodd y rhai hyny: fe fu y "Shechinah," sef yr arwydd o'r presenoldeb dwyfol, ganddi, ond collodd hwnw hefyd: mewn gair, yn y diwedd hi gollodd y cwbl, nes y chwalwyd hi o fod yn deyrnas Dduw. Ond yr ydym ni yn derbyn teyrnas na chollir yr un o'i phethau hi byth. Disigl;—ni welir mo honi heb drugareddfa, ni welir mo honi hi heb y Shechinah; a hwn fydd enw y ddinas, "Yr Arglwydd sydd yno." Y mae ei Hoffeiriad hi o urdd Melchisedec, ac nid o urdd Aaron;—ei Brenin hi yr olaf o linach Dafydd, am ei fod i eistedd ar ei orseddfa yn dragywydd: "teyrnas ddisigl."

2. Y mae yn ddisigl hefyd mewn ystyr wirioneddol. Gallasai fod yn ddisigl o'i chymharu â phethau sigledig, ac heb fod yn ddisigl yn ystyr eangaf y gair; fel y dywedir am y ddaear, "hi a saif byth," hyny yw, hi a saif byth o'i chymharu â'r pethau sydd ar ei hwyneb hi, pa rai sydd yn newid yn barhaus; ond yn ystyr briodol y gair, ni saif hi ddim byth. Y mae hi yn heneiddio fel dilledyn, ac yn prysuro at ei diwedd. Yn wir, ystyr gymhariaethol fel hyn sydd ymron i bob peth y gwyddom ni am danynt. Yr hyn sydd yn gyfoeth mawr mewn un oes, tlodi cymhariaethol ydyw mewn oes arall. Yr hyn sydd yn wybodaeth eang mewn un wlad, anwybodaeth cymhariaethol ydyw mewn gwlad arall. Y mae oracl y pentref gwledig yn fynych yn ddyn digon disylw yn y ddinas. Mewn gwlad o wastadeddau mawrion, fe gyfrifir pob bryn bach yn fynydd, am nad oes yno yr un mynydd gwirioneddol. Gall un fod yn fwy na phawb mewn un man, ond erbyn symud i fan arall, gall gael ei hun yn llai na'r lleiaf. Ond y mae y deyrnas yn ddisigl, nid yn unig o'i chymharu â phethau sigledig, ond yn ddisigl wirioneddol; oblegid,—

1. Y mae ei phethau yn gyfryw nad all unrhyw gyfnewidiad dynu dim oddiwrth eu mawredd hwynt. Nid ydyw haul ein

byd ni ddim yn haul i bawb. Y mae haul, o bosibl, iddo ef ei hun. Y mae perthynas y ddaear âg ef yn ei wneuthur yn haul i ni, ond pe symudem ni iddo ef ei hun i fyw, ni ddöem i berthynas â pheth mwy nag ef: fe newidiai hyny ein syniad ni am ei fawredd ef; ond y mae pethau y deyrnas yn gyfryw nad all unrhyw gyfnewidiad newid dim arnynt: byddant yn fawrion byth. Am gyfoeth y ddaear, y prinder o hono yn gyffredin sydd yn ei wneyd yn gyfoeth. Pe ceid mwy o gyflawnder o aur ac arian, fe leihäi hyny eu gwerth hwynt. Nid oedd dim bri ar arian yn nyddiau Solomon, oherwydd ei amldra; ond nid prinder sydd yn gosod gwerth ar bethau "teyrnas" y testyn. Bydd ei chyfoeth hi yn gyfoeth byth, am fod anchwiliadwy olud o hono. Y mae pob un sydd yn derbyn y deyrnas yn frenin ac yn offeiriad; ond ni bydd fod gorsedd a meitr gan dy gymydog yn lleihau dim ar werth dy orsedd a'th feitr di: yn hytrach y mae cydraddoldeb yn codi y gwerth i bob un.

Hefyd y mae treigliad oesoedd yn dwyn o amgylch gyfnewidiadau yn syniad y byd am werth pethau. Pe ymddangosai Pharaoh, Senacherib, a Nebuchodonosor, yn awr yn eu gwisgoedd brenhinol, ac yn yr holl rwysgfawredd a'u hamgylchynai yn llysoedd yr Aipht, Ninifeh, a Babilon, ond odid nad cynyrchu gwên ar ein hwyneb a wnai eu diwyg barbaraidd, ac nid ein llenwi â syndod: y mae amser wedi newid cymaint ar syniadau y byd am y pethau hyn. Ond am holl bethau y deyrnas, beth bynag a all ddigwyddo, yn nhreigliad oesoedd amser, a thragywyddoldeb hefyd, ni ddigwydda dim a bâr i neb wenu wrth edrych arnynt. Bydd y gỳnau gwynion, cyfiawnder y saint, yn y ffasiwn byth; bydd coron y bywyd o'r un gwerth yn ngolwg pawb ymhen miliynau o oesoedd ag ydyw hi heddyw. "Disigl."

2. Y maent yn ddisigl am nad all unrhyw gynefindra â hwynt dỳnu dim oddiwrth eu gwerth yn ein teimlad ni. Y mae terfynau i fwynhad o bethau goreu y ddaear: eler tros y terfynau hyny, fe gyll y pethau eu gwerth yn ein teimlad ni; ac yn wir, er cadw o fewn y terfynau, y mae cysondeb y meddiant arnynt yn pylu y meddwl i deimlo eu gwerth hwynt. Yn yr ymdrech am danynt, neu yn yr amddifadrwydd o honynt, wedi bod unwaith yn eu meddianu, y mae y rhan fwyaf o'r hyn a

elwir yn fwynhad o honynt yn gynwysedig. Ond odid nad ydyw y brenin yn cael mwy o fwynhad o'r goron cyn ei gwisgo hi erioed, neu wedi ei cholli hi, nag a gafodd pan oedd hi ar ei ben ef. Ond am bethau y deyrnas, y mae yn anmhosibl cynefino â hwynt. Y mae tri gair am danynt yn epistol Pedr sydd yn dangos hyn:—anllygredig, dihalogedig, a diddiflanedig. Anllygredig,—dim elfenau drafodedigaeth ynddynt hwy eu hunain: dihalogedig,—y maent yn gyfryw nad all dim y tu allan iddynt eu hunain effeithio arnynt; fe halogwyd pethau y baradwys gyntaf, er mor ragorol oeddent: diddiflanedig,—bythol wyrdd ydyw hyny, bob amser yr un fath: nid oes dim cynefino yn bosibl yma. Dyma ychydig o garacter y deyrnas. Onid priodol y gelwir hi yn "deyrnas ddisigl?" A dylai y cip-olwg hwn ar ei natur hi ein parotoi i wrandaw ar anogaeth y testyn, sef,—

II. Y cymhelliad sydd yn codi o sefydlogrwydd y deyrnas i ffyddlondeb gyda hi, ac ymlyniad wrthi:—"Bydded genym ras." Hyny yw, fel y tybia rhai, bydded genym ysbryd diolchgar, ac amlygwn yr ysbryd diolchgar hwnw mewn gwasanaethu Duw wrth ei fodd, sef ei addoli a'i gydnabod fel Duw iachawdwriaeth yn ei Fab, gan wylied rhag i unrhyw demtasiwn ein llithio i anffyddlondeb i'r efengyl, oblegid byddai hyny yn ymadaw oddiwrth Dduw byw. Y mae'r apostol Paul yn fynych yn dwyn ymlaen y cymhelliad hwn i ffyddlondeb: "Yr wyf yn atolwg i chwi, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw; yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth chwi;" sef, er yr amlygiad o ddaioni heb ei gyffelyb sydd yn y drefn i gyfiawnhau yn rhad trwy ei ras Ef, ac i adnewyddu eich natur i sancteiddrwydd, fel ag i'ch gwneyd yn gymwys i ogoniant Duw, "er" y pethau hyn, "rhoddwch eich cyrff yn aberth byw," &c. "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef." Wel, am hyny, trugarhewch chwithau wrth y tlodion. Ac un o'r cymhellion cryfaf i ffyddlondeb i unrhyw un ydyw ysbryd diolchgar iddo: un o'r pethau a fydd yn cylymu y nefoedd byth yn dŷn mewn rhwymau ufudd-dod wrth orsedd Duw ydyw ysbryd diolchgar. Nid rhyfedd oedd i

Mair Magdalen olchi traed yr Arglwydd Iesu â'i dagrau, wedi iddo fwrw saith o gythreuliaid allan o honi. "Y mae gydâ Thi faddeuant fel y'th addoler." A phe byddem ni yn byw yn fwy yn ngolwg y "deyrnas ddisigl," byddai genym fwy o ysbryd gwasanaethu; ac y mae anffyddlondeb ynom ni mor afresymol ag ydyw o wrthun, a ninau "yn derbyn teyrnas ddisigl." Buasai derbyn rhywbeth "disigl" yn beth mawr i rai nad oes ond pethau sigledig erioed eto wedi bod yn eu meddiant. Y mae rhyw wall ymhlith pob etifeddiaeth a gawsom ni—iechyd, cyfeillion, cyfoeth, bywyd. Fe fu ambell un sydd yma yn tybio unwaith fod ganddo iechyd, ond daeth rhywun ymlaen i chwilio i'r *titl*, a cholli y treial a wnaeth. Ni a fuom yn tybio fod cyfeillion a pherthynasau yn eiddo i ni; ond y mae angau yn awr ac eilwaith yn dyfod ac yn chwilio i'n hawl ni, ac efe sydd yn enill y treial bob tro. Y mae genym fywyd hyd yma, ac yr ydym yn ceisio perswadio ein hunain mai ni a'i piau; ond fe ddaw y gelyn diweddaf cyn hir i brofi ein hawl i hwn hefyd; ac yn ol yr arfer, colli y treial a wnawn ni y tro hwnw hefyd. Y mae diffyg, y mae *flaw* yn y *titl* i'r cwbl. Yr oedd yn naturiol disgwyl y buasai clywed am bethau disigl yn cynyrchu digon o ysbryd diolchgar i beri i ni wasanaethu y Rhoddwr yn ffyddlawn, ac yn enwedigol felly gan fod y pethau hyny yn "deyrnas ddisigl."

Ond y mae yn debyg mai gwir ystyr yr ymadrodd, "Bydded genym ras," ydyw, ymdrechwn am y gras hwnw a'n galluoga ni i wneyd y defnydd iawn o'r fantais sydd yn ein meddiant i ddyfal barhau yn ffydd yr efengyl, a thrwy hyny sicrhau meddiant o'r "deyrnas ddisigl." Y mae yn y meddwl o'i bod hi yn "ddisigl" ddau gymhelliad cryf i hyn:—

1. Ymdrechwn i wneyd defnydd o'r fantais, oblegid nid oes berygl i ni gael ein siomi yn ein hymdrech i gael meddiant ar bethau y deyrnas. Y mae pethau y ddaear yn gyfryw ag y mae damwain yn perthyn iddynt oll. Nid yw y rhedfa yn eiddo y cyflym, na'r rhyfel yn eiddo y cedyrn, na chyfoeth yn eiddo y pwyllog, &c., hyny yw, nid yw yr ymdrech ddim yn sicr o gael ei goroni â llwyddiant. Ond yma y mae sicrwydd o hyny; ac nid oes dim tebyg i hyder diysgog yn sicrwydd cyrhaeddiad amcan, am roddi nerth yn yr ysbryd i ymdrechu

i'w gyraedd; ïe, y mae hyd yn nôd *posibilrwydd* cyrhaeddiad unrhyw amcan, a dybir yn werthfawr, yn ddigon o gymhelliad gan fwy na haner trigolion y byd heddyw i ymdrechu i'w gyraedd. A ydyw y dyn ieuanc yna, sydd yn gadael ei gartref i fyned i gloddfëydd aur Awstralia, yn sicr y llwydda i gael y cyfoeth y mae ei galon wedi ei gosod arno? O, nac ydyw: fe ŵyr fod llawer un wedi aflwyddo; ond y mae fod llwyddiant o fewn i derfynau posibilrwydd, yn gymhelliad digon cryf i'w godi i'r holl ymdrech mawr y mae yn ei wneyd i geisio ei gyraedd. Os ydyw y posibilrwydd i gael y peth yn rhoddi cymaint o nerth yn ysbryd dyn, pa faint mwy y mae y sicrwydd o'i gael yn ei roddi? Ac, yn wir, y mae ansicrwydd mawr yn lladd ysbryd ymdrech. Y mae amseroedd o gynhyrfiadau ac o ryfeloedd gwladol yn ddieithriad yn amseroedd o ddirywiad gwladol; ac os parhant yn hir, o dlodi gwladol hefyd, oblegid nid oes dim calon neu hyder mewn neb i ymdrechu i gasglu cyfoeth, am y gall ansefydlogrwydd pethau beri i'w llafur oll fod yn ofer, pan yn ymyl cael ei goroni â llwyddiant. Ond y mae cred ddiysgog yn sicrwydd cyrhaeddiad y peth, fel rheol, yn arwain i lwyddiant. Ond y mae y gred hon mewn llawer mynwes, gydâ golwg ar bethau y ddaear, heb ddim sail iddi, ac am hyny, nid ydyw yr ymdrech yn cael ei goroni â llwyddiant. Ond, fy mrodyr, 'byddwn ni sicr, a diymod, a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a ni yn gwybod na bydd ein llafur ni ddim yn ofer:' ni ddaw yr un chwyldröad ar y deyrnas pan y byddwn yn ymyl llwyddo i gael gafael ar ei chyfoeth hi, fel ag i'n siomi yn ein disgwyliadau. Wedi holl drafferth Jehosaphat yn *ffitio* allan ei longau i fyned i Tarsus, fe'u dryll-iwyd yn yr ystorm yn Esion-Gaber, a thrwy hyny siomwyd Jehosaphat yn ei ddisgwyliadau am y cyfoeth: ond ti elli di anturio cyfeirio llong fechan gweddi tua phorthladd y drydedd nef: ni ddaw dim gwynt y Dwyrain i ddryllio hono, fel ag i siomi dy ddisgwyliadau. Ti elli anturio rhedeg yr yrfa: ni ddaw yr un Ahimaas i fyned heibio i ti ar y gwastadedd, ac felly dy siomi di am y goron: "teyrnas ddisigl."

2. Gan fod y deyrnas yn ddisigl, ni siomir mo honom wedi i ni gael meddiant ar y pethau. Y fath gymhelliad i ymdrech ydyw hyn! Yr oedd y Pregethwr yn teimlo diflasdod yn y

meddwl wedi iddo ymdrechu i wneuthur gwaith mawr yn Jerusalem, fod yn rhaid iddo ei adael i'r neb a fyddai ar ei ol; "A phwy a ŵyr," meddai, "ai doeth ai annoeth fydd efe? eto efe a fydd feistr ar fy holl lafur i." Ond am bethau y deyrnas, ni theimla neb a gaiff feddiant arnynt y diflasdod hwn byth, am y byddant yn feddiant iddynt yn oes oesoedd. "Teyrnas ddisigl," am hyny ni adewir mo honi i bobl eraill. "Os doeth fyddi, doeth fyddi i ti dy hun." Os tŷri di ei golud hi yn garneddau, tydi dy hun a gaiff eu casglu. Ti elli fentro cerfio dy enw â phin o haiarn ac âg ewin o adamant ar ei phob peth hi y foment y deuant i dy feddiant. Gwaith digon ofer yn aml ydyw ysgrifenu enw ar etifeddiaethau a theyrnasoedd y byd hwn. Pa sawl enw a fu ar aml un o honynt er's mil o flynyddoedd; a pha sawl enw a fydd arnynt eto cyn i'r udgorn diweddaf seinio? Nid ydyw fod eich enw chwi ar un o honynt heddyw, brawf yn y byd mai eich enw chwi fydd arni gan' mlynedd i yn awr. "Eu meddwl yw," medd y Salmydd, "y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain." Ond y gwirionedd ydyw, "Dyn mewn anrhydedd, nid erys." "Gadawant eu golud i eraill." Bydd eu tiroedd ar enw pobl eraill yn fuan iawn. Ond am bethau y deyrnas, ni adewir mo'r rhai hyn i bobl eraill.

Cyn terfynu, goddefwch i mi ofyn, A oes genych rywbeth na bydd raid i chwi ei adael i bobl eraill?—rhywbeth na bydd raid i chwi ddim gwneyd ewyllys arno? Nid oedd gan Paul fawr o bethau y byd hwn, pan yr oedd amser ei ymddatodiad wedi nesäu. Yr ydym yn ei gael yn anfon at Timothëus i ddyfod â'r gochl iddo o Tröas, ynghyd â'r llyfrau, yn enwedig y memrwn. Nis gwn yn iawn i ba beth yr anfonai am danynt, gan ei fod yn myned i farw, os nad i gael gwneyd ei ewyllys ar yr hen fantell a'r llyfrau, sef eu rhoddi i ryw gyfeillion a fyddent gydag ef pan y deuai yr awr: ond yr oedd ganddo bethau nad oedd yr un ewyllys i gael ei wneyd arnynt, "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi," &c. Yr oedd ganddo "deyrnas ddisigl."

Dyma gynulleidfa o honom y gellir dywedyd am danom mai "pobl y golled fawr" ydym; oblegid yr ydym wedi cael un

"golled fawr," ni a gollasom baradwys, a cholled fawr oedd hono. Ond nid oedd hi fawr o beth at y golled sydd yn bosibl i ni, sef colli "teyrnas;" oblegid os enilli di y deyrnas, ti wnei golled paradwys i fyny, a thipyn gyda hyny; ond os colli di y deyrnas, dyna dlodi na bydd gobaith ei lenwi byth! Wel, bydded genym ras i wneyd defnydd o'r fantais i gael y "deyrnas." Amen.

[Gorphenaf 17, 1867.]

## PREGETH X.

### BEDYDD DIODDEFIADAU.

LUC XII. 50.—"Eithr y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef; ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener!"

Y MAE yr Arglwydd Iesu yn y benod hon yn dangos natur ei deyrnas, i'r myrddiwn pobl oeddent wedi ymgynull i wrandaw arno. Yn gyntaf oll, dengys iddynt ei bod hi i gael ei seilio mewn gwirionedd oddifewn; ac, fel canlyniad naturiol hyny, i'w hamlygu ei hun oddiallan, mewn ymryson â'r byd. Gan nad ydoedd na rhagrith na thwyll yn perthynu iddi, nis gallai lai, mewn byd oedd yn llawn o dwyll a rhagrith, na bod fel Ismael, a'i llaw yn erbyn pawb. Yr oedd yn rhaid i'w deiliaid hi ymwadu â hwynt eu hunain, am fod yn anmhosibl perthyn i deyrnas o'r fath heb ddioddef llawer;—teyrnas ag ydoedd yn ei natur a'i dibenion mor hollol groes i'r byd. Ond er bod dioddef yn perthyn iddi, dygir ymlaen yma gymhellion digon cryfion i ddioddef y pethau chwerwaf. Pe yr elai y gwrthwynebwyr i'r eithafion pellaf, nis gallant ond lladd y corff; ac y mae yn well dioddef hyny na digio y Duw a all ladd corff ac enaid. "Hwnw a ofnwch;" ac ond gwneuthur hyn, nid oes perygl i neb fy ngwadu i ger bron dynion.

Pan oedd yr Athraw mawr yn traethu y pethau hyn, y mae rhyw un o'r dyrfa yn dywedyd wrtho:—"Athraw, dywed wrth wrth fy mrawd am ranu â myfi yr etifeddiaeth." Adn. 13. Wedi rhoddi sèn i'r dyn am geisio y fath beth, y mae yn

cymeryd achlysur oddiwrth ei gais, i ddangos gwir natur y berthynas sydd rhwng dyn a phethau y byd hwn. Yn gyntaf, dengys nad ydynt yn bethau anhebgorol angenrheidiol iddo; oblegid nid yw bywyd neb yn ymddibynu ar amlder y pethau sydd ganddo. Ac wedi i ddyn drafferthu llawer gydâ hwynt, dengys trwy ddameg y gŵr goludog y cnydiodd ei dir yn dda, y gall mewn un noson gael ei ysgar oddiwrthynt oll. "Y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt," &c. Ac, heblaw hyny, y mae yn dangos nad ydyw y drafferth a'r pryder mwyaf yn eu cylch mewn un modd yn sicrhau y meddiant ansicr hwn arnynt: "Pwy o honoch, gan gymeryd gofal, a ddichon ychwanegu un cyfudd at ei faintioli?" Ond am bethau teyrnas Dduw, y rhai hyn ydynt bethau gwirioneddol dyn, y mae trafferth a phryder yn eu cylch yn sicrhau y meddiant o honynt. Am hyny, medd efe, "ceisiwch deyrnas Dduw; a'r pethau hyn oll a roddir i chwi yn ychwaneg." (adn. 25, 31.) Ac am bethau y byd, yr ymddygiad priodol at y rhai hyn, ydyw ymddwyn tuag atynt gan gofio mai goruchwylwyr ydym ar eiddo gŵr arall; gan ofalu bod yn oruchwylwyr ffyddlawn a doeth, oblegid fe ddaw y Perchen, heb fod yn hir, i'n galw i gyfrif; ac os ni ellir rhoddi cyfrif llawen, fe gurir y gwas hwnw â llawer ffònod.

Nid ydyw yn hawdd canfod cysylltiad y testyn â'r cyd-destyn yn yr adnodau o'i flaen. Mewn atebiad i gwestiwn Pedr, y mae Iesu Grist yn rhoddi eglurhad pellach ar y pwys o fod yn oruchwylwyr ffyddlawn; ac feallai mai cymhelliad i hyny, yn cael ei dynu oddiwrth ffyddlondeb y Rhagflaenor, ydyw y testyn: fel pe dywedasai, Nid wyf yn gofyn i chwi wneyd dim nad wyf yn ei wneyd fy hun; os ydyw yn rhaid i chwi ddioddef i fod yn ffyddlawn trosof, na ryfeddwch; y mae dioddef yn anwahanol gysylltiedig â natur fy nheyrnas. "Mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear; a pheth a fynaf os cyneuwyd ef eisoes?" (adn. 49.) "Ydych chwi yn tybied mai heddwch y daethum i i'w roddi ar y ddaear? nag ê, meddaf i chwi; ond yn hytrach ymrafael." (adn. 51.) Ac yr wyf fi fy Hun yn dioddef: "y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef; ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener!"

Ond fe dybia rhai mai dychwelyd y mae yr Arglwydd Iesu, yn y testyn a'r adnod o'i flaen, at y mater oedd o dan ei sylw

cyn i'r dyn geisio ganddo ddywedyd wrth ei frawd am ranu âg ef yr etifeddiaeth:—dioddef drosto oedd hwnw. Peidiwch camsynio am natur fy nheyrnas; mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear;—*tân*, sef bywyd uwch, annhraethol uwch, na'r un oedd yma, yn ei natur, yn ei ddibenion,—egwyddorion a fyddant fel tân, yn difa yn raddol bob peth croes iddynt eu hunain, ac felly yn puro y byd. Ond bydd goruchwyliaeth danllyd o'r fath, pan ddêl i gyffyrddiad â'r byd, o angenrheidrwydd yn cynyrchu y gwrthwynebiad mwyaf, fel ag y bydd tai, ac ardaloedd, a theyrnasoedd yn ymranu: tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri; y tad yn erbyn y mab, a'r ferch yn erbyn y fam. "A pheth a fynaf os cyneuwyd ef eisoes?" Neu, mi a fynwn, pe byddai modd, iddo fod wedi cael ei gyneu eisoes. Er mai Tywysog tangnefedd ydwyf, mi a fynwn,—y mae awydd angerddol yn fy mynwes, weled y cynwrf hwn ar y ddaear. Ond y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef, &c., cyn y gall hyny fod.

Y mae yma ddau deimlad yn d'od i'r golwg, sef awydd ac ofn; a chynyrch y ddau ydyw cyfyngder; "mor gyfyng yw arnaf, hyd oni orphener." Yr awydd am weled canlyniadau y dioddef, yn peri iddo frysio ymlaen tuag ato; a'r olwg ar fawredd y dioddef, yn peri iddo gilio oddiwrtho; a rhwng y ddau, fe ddywed, "Mor gyfyng yw arnaf!" Teimlad cyffelyb ydoedd i eiddo'r apostol Paul yn yr achos o hono: "y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu;" chwant bod gydâ Christ, o un tu, a chwant am fyw yn y cnawd o'r tu arall; y ddau chwant yn tỳnu mewn dau gyfeiriad gwrthwyneb, nes peri cyfyngder; felly yma. Ond ni a edrychwn yn awr ar y cyfyngder fel yn cael ei achosi yn benaf gan ei ddioddefiadau.

Y mae mawredd dioddefiadau yr Arglwydd Iesu i'w weled yn ei fod yn sôn am danynt o gwbl. Anfynych y mae dyn gwir fawr yn sôn nemawr am ei ddioddefiadau ei hun; ond os bydd gwir fawredd yn perthyn iddo, y mae yn dosturiol iawn wrth ddioddefiadau pobl eraill. Y mae yn sicr o fod yn barod i agor ei enau dros holl blant dinystr, a llaw hefyd, hyd y gall, i'w cynorthwyo. Ond heb sôn am ddynion, y mae y dosbarth uchaf o greaduriaid yn y greadigaeth afresymol, megis y llew, yn ymneillduo i farw mewn unigrwydd, fel i gelu ei ofid oddiwrth lygaid pawb. Yr oedd y ffaith noeth o fod Iesu

Grist, un oedd â'r fath fawredd yn perthyn iddo, yn sôn fel hyn am ei ddioddefiadau, yn brawf fod ofnadwyaeth nad ellir ei draethu yn perthyn iddynt. Yr oedd Iesu Grist wedi gwneyd llawer o bethau mawrion eisoes; megis dibrisio ei Hun, cymeryd arno agwedd gwas, diosg gwisg frenhinol gogoniant oddiamdano; ond nid ydyw yn crybwyll gair am y pethau yna. Yr oedd cryn wahaniaeth rhwng preseb Bethlehem, tlodi Nazareth, a'r wlad yr oedd efe wedi arfer byw ynddi. Yr oedd cryn wahaniaeth rhwng dirmyg dynion, ac addoliad angylion y nef; ond nid ydyw yn sôn gair am hyn. Nid nad oedd Ef yn teimlo y gwahaniaeth oedd rhwng ffurf Duw ac agwedd gwas; ond yr oedd yn cadw y teimlad i'w fynwes ei Hun. Ond yr oedd rhywbeth mor arswydus yn ei ddioddefiadau, fel yr oedd yn cael ei wasgu, gan y rhagolwg arnynt, i gwyno gan gyfyngder enaid; a phe buasai modd iddo beidio, diau ydyw na buasai na chŵyn nac ochenaid wedi diferu dros ei wefusau; oblegid, er ei fod yn gwbl blygedig i ewyllys ei Dad, yr oedd y pethau hyn yn rhoddi achlysur i dybio nad ydoedd felly. Rhaid, gan hyny, fod ei ofid y tuhwnt i ofid pawb; gan fod y fath un, fel y dywed y Salmydd, yn "rhuo gan aflonyddwch calon."

Drachefn: yr oedd bod ei ddioddefiadau yn tŷnu ei sylw fel hyn yn bell cyn eu dyfodiad, yn dangos eu mawredd. Yn yr ardd, yr oeddent *wedi* dechreu; yno yr oedd wedi myned i gŵr y cwmwl tywyll, yn yr hwn yr ydoedd i gyfarfod â Duw digllawn: ar y groes, yr oedd mewn unigrwydd, wedi ei adael gan bawb, fel nad ydoedd mor ryfedd ei fod yn yr ardd yn chwysu y gwaed, ac ar y groes yn llefain,—"Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Ond yn awr, yr oedd y ffurfafen yn glir uwch ei ben; y cwmwl megis heb godi o'r môr; yr anialwch unig ymhell oddiwrtho: eto yr oedd y pethau mor ofnadwy yn y pellder, fel y maent yn ei ddwyn i gyfyngder rhy fawr i'w ddarlunio. "Mor gyfyng yw arnaf!" "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef!" Ond ni a edrychwn eto ar y dioddefiadau yn ngoleuni darluniad y testyn o honynt: "Bedydd i'm bedyddio âg ef."

I. Y mae y darluniad hwn o honynt, yn cynwys ei fod wedi ymgyflwyno,—ymgysegru, yn yr oll ag ydoedd, i ddioddef. Geilw ei ddioddefiadau wrth yr enw "bedydd" fwy nag un-

waith. "A ellwch chwi yfed o'r cwpan yr ydwyf fi ar yfed o hono, a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi?" Y mae bedyddio i unrhyw beth neu berson yn arwyddo ymgyflwyniad neu ymgysegriad llwyr i'r peth neu y person hwnw. Bedydd edifeirwch oedd un Ioan, yn arwydd allanol fod y bedyddiedig yn ymroddi i hyny. Bedyddiwyd yr Israeliaid i Moses yn y cwmwl ac yn y môr, sef i fod yn gwbl a llwyr dan ei awdurdod a'i arweiniad. "Oni wyddoch chwi am gynifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef?" "Canys cynifer o honoch ag a fedyddiwyd yn Nghrist, a wisgasoch Grist:" hyny yw, fe'n bedyddiwyd i Grist cyfan,—i'w fywyd a'i farwolaeth. Am hyny yr ydym i feirw gydâg Ef, ac i fyw gydâg Ef,—i'w wisgo Ef: yr ymgyflwyniad iddo i fod yn un llwyr. Felly y mae galw y dioddefiadau yn *fedydd* yn dangos llwyrdeb ymgyflwyniad Mab Duw i ddioddef.

Y mae dau fesur ar fawredd dioddefiadau, sef, gallu y neb a fyddo yn eu gweinyddu hwynt, a gallu yr hwn a fyddo odditanynt. "Nac ofnwch y rhai sydd yn lladd y corff, ac wedi hyny heb ganddynt ddim mwy i'w wneuthur," (Adn. 4.) Bydd eu holl allu hwynt ar ben, cyn cyffwrdd y rhan bwysig o honoch. Dyna'r dioddef yn cael rhoddi terfyn iddo gan allu y neb oedd yn gweinyddu y dioddefiadau. Bryd arall y mae gallu y dioddefydd yn penderfynu mesur y dioddef. Yn hyn y mae yr Anfeidrol bob amser yn gorfod ymddadleu wrth fesur, ïe, hyd yn nôd yn uffern. Pe na wnelai Efe hyny, fe ddifodid y dioddefydd gan y dioddefiadau. Rhoddwch bryfyn i ddioddef cymaint ag a all, ni bydd y dioddefiadau ond bychain, am nad ydyw gallu pryfyn ond bychan. Rhoddwch anifail i ddioddef hyd eithaf ei allu, bydd y dioddefiadau yn llawer mwy na'r eiddo y pryfyn, am fod gallu y creadur yn fwy. Rhoddwch ddyn i ddioddef, bydd y dioddefiadau yn anghymharol fwy: rhoddwch angel, byddant yn fwy eto; fel y mae y natur yn codi, y mae y gallu i fwynhau, ac o ganlyniad, i ddioddef, yn mwyhau. Ond ni welwyd yr un dyn erioed ar y ddaear yn dioddef hyd eithaf ei allu. Mae y dioddefiadau mwyaf yn eu perthynas â natur dyn yma, fel y môr yn ei berthynas â'r ddaear. Y mae y môr yn gorchuddio rhanau helaeth o'r ddaear; ond y mae yma lawer o dir sych er hyny; felly y mae

rhanau helaeth o natur dyn ar y ddaear nad all y dioddefiadau mwyaf ddim eu cyraedd hwynt. Ond yr oedd Iesu Grist wedi ei fedyddio i ddioddef; felly nid oedd dim yn perthyn iddo nad oedd wedi ei gysegru i ddioddef. Pe na buasai ond creadur yn unig, buasai rhywbeth arswydus yn y meddwl i un o'i alluoedd ëang, mawrion Ef, ddioddef hyd eithaf y galluoedd hyny. Y mae gallu Satan i ddioddef yn fawr; ond yr oedd gallu Iesu Grist, yn ei ddynoliaeth, yn ddiameu yn llawer mwy. Yr oedd Efe yn gyntaf-anedig pob creadur; ond yr oedd Efe yn fwy na chreadur, yn "ddyn â'r Duwdod ynddo 'n trigo;" ac, er nad ydoedd y natur ddwyfol ddim yn dioddef, eto, yr oedd ei hundeb hi â'r ddynol yn rhoddi cymhwysder, ni ddywedaf anfeidrol, ond y fath na fedr iaith mo'i ddarlunio, i'r ddynol i ddioddef. Yr oedd y dioddefiadau yn ddioddefiadau y person, am hyny y mae y gwaed yn ddwyfol waed. Bedyddiwyd Ef fel Person dwyfol i ddioddef, ac am ei fod felly fe fu farw. Efe yn unig oedd yn ddigon mawr i hyny. Gellir dywedyd gydag arbenigrwydd, "*Crist yw yr Hwn a fu farw.*" Y mae holl blant dynion yn ceisio, ond y mae y gorchwyl yn rhy fawr iddynt ddyfod drwyddo. Y mae y dyrfa annedwydd sydd yn uffern wrth y gwaith, ond methu dyfod drwyddo y maent hwythau: pe llwyddent, byddent yn rhyddion o'r awr hono allan. Fe ymroddodd Mab Duw at y gwaith; ac er ei fod yn orchestwaith heb ei ail, yr oedd Efe yn ddigon mawr i dyfod i ben âg ef. "Crist yw yr Hwn a fu farw." Beth yw hyny? Dàl y digofaint i gyd,—derbyn holl gyflog pechod ar unwaith. Fe'i hoffrymodd ei Hun. Beth ydyw hyny? Pe ceisiwn ddarlunio, ni fedrwn ddweyd dim haner mor ddarluniadol ag ydyw yr ychydig eiriau hyn:—"Efe a'i hoffrymodd ei Hun." Nid ydyw yr hyn ydym ni yn ei weled, megis rhoddi ei gefn i'r curwyr, ei gernau i'r rhai a dynent y blew, ei wyneb i waradwydd a phoeredd, ei draed a'i ddwylaw i hoelion, ei ystlys i'r waywffon, ei ben i'r goron ddrain, ei glustiau i wrandaw dirmyg a gwaradwydd; nid yw y pethau hyn ond arwyddion yn y dyn oddiallan am yr hyn oedd o'r golwg yn y dyn oddimewn: iaith y Bibl ydyw iddo 'dywallt ei enaid i farwolaeth.' Y mae rhywbeth heblaw bywyd y corff yn y fan yna,—rhywbeth oedd yn llon'd yr ymadrodd, "Efe a'i hoffrym

odd ei Hun." Yr oedd yma ymgysegriad llwyr i ddioddef: "y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef."

II. Y mae y gair "bedydd," nid yn unig yn dangos llwyrdeb ei ymgysegriad Ef i ddioddef, ond hefyd mawredd yr hyn a ddioddefodd. Bedyddiwyd Ef i ddioddef, a bedyddiwyd Ef â dioddefiadau. "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef." Y mae yr ystyr yma i'r gair "bedydd:"—"bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân;"—"chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân cyn nemawr o ddyddiau;—"Efe a dywalltodd," medd Pedr, "y peth yma," sef yr Ysbryd Glân: cyflawnder ydyw y meddwl yn y fan yna.—Bedyddio i ddioddef, i ddangos ei fod wedi ei gysegru hyd eithaf ei alluoedd i hyny: bedyddio â dioddefiadau yn dangos cyflawnder y dioddefiadau a ddaeth i'w ran. "Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth sŵn dy bistylloedd di: dy holl dònau a'th lifeiriaint a aethant drosof fi." Y cysgod sydd yn llefaru yna, am yr hyn a gyflawnwyd yn llythyrenol ar y gwrth-gysgod. Oddiwrth y diluw y cymerwyd y gymhariaeth: ffenestri y nefoedd yn cael eu hagor, y dyfroedd yn disgyn yn bistylloedd,—y naill bistyll yn galw ar bistyll arall, hyd nes y mae pistyll yn disgyn trwy bob un o ffenestri y nefoedd; yna y naill ddyfnder ar y ddaear yn galw ar ddyfnder arall,—yn cyfarch eu gilydd gan ddywedyd, Y mae y nefoedd yn gwneyd ei goreu, gadewch i ninau wneyd ein goreu hefyd: ymrwygwch, ffynhonau y dyfnder mawr, i'ch holl gynwys ymdywallt allan yn ddiluw. Ac ymhen ychydig, wele holl lifeiriant y naill, a holl donau y llall, wedi cydgyfarfod; nes y mae mynydd uchaf y ddaear wedi ei gladdu o dan bymtheg cufydd a mwy o ddŵr, a diluw yn ymrolio o begwn i begwn. Dyna 'r cysgod; ond os mynwch chwi weled y gwrth-gysgod, edrychwch i Galfaria: arno Ef y bu y pistylloedd yn gwahawdd eu gilydd i ymdywallt;—y naill ddyfnder yn gwahawdd y llall i fwrw allan eu holl gynwys arno. Ni agorwyd yr un o ffenestri y nefoedd erioed cyn hyny. Hyny o ddigofaint a ddisgynodd ar y ddaear, *leakio*, ymwthio trwy y ffenestri a wnaeth. Nid yn unig ni rwygwyd dim o ffynhonau y dyfnder mawr o'r blaen, ond ni chodwyd yr un o'r llif-ddorau (*flood-gates*) o'r blaen, ond megis am fynyd: yr oedd dorau trugaredd yn cau i fyny fôr digofaint yn y fan. Ond yn awr, wele lifeiriant y nefoedd, a

thònau y ddaear yn cydgyfarfod,—y tònau yn ymchwyddo y naill yn uwch na'r llall, nes y mae y dioddefydd dwyfol wedi ei orchuddio: "Daethum," (medd ef), "i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrwd a lifodd trosof."

Y mae rhywbeth arswydlawn yn yr olygfa: cyfaddasder anfeidrol i ddioddef ar y naill law, a digofaint anfeidrol i'w ddioddef ar y llaw arall. Golygfa ddychrynllyd ydyw gweled dau allu mawr ar y ddaear yn ymryson â'u gilydd; dwy deyrnas, neu ddwy ymherodraeth fawr, yn rhyfela: mwy arswydlawn na hyny a fyddai yr olwg ar ddwy o ddeddfau natur yn ymryson â'u gilydd; ond mwy na hyny fyddai gweled creaduriaid mawrion y byd ysbrydol wedi myned i ymryson: y mae mawredd ymherodraethau yn perthyn i bob un o honynt; y maent yn dywysogaethau, yn awdurdodau, yn feddianau. Y mae Milton, wrth ddarlunio y rhyfel fu rhyngddynt, yn eu dangos yn tỳnu mynyddoedd o'r gwraidd i'w lluchio at eu gilydd. Ond y mae y golygfëydd yna oll yn diflanu yn ymyl yr hon a welwn ni ar Galfaria. Ni ddylem feddwl fod ymryson rhwng y Tad a'r Mab. Yr oedd ymryson angeuol rhwng y Mab a gallu y tywyllwch: ond bu yn ufudd i'w Dad hyd angau: ond hyn, yr oedd mỳnu anfeidrol o bob tu; yr oedd y Tad yn mỳnu dryllio hyd eithaf ei allu, a'r Mab yn mỳnu dioddef hyd eithaf ei allu yntau.

Gofynwyd cwestiwn am oesoedd heb gael ateb iddo:—"Pwy a edwyn nerth dy soriant?" Nid yr hen fyd: fe gladdwyd hwnw o'r golwg gan ddyferyn o hono. Nid Sodoma a Gomorah, Admah a Seboim: fe laddwyd y rhai hyny gan angerdd y tân, heb sôn am fyned i'r ffwrn. Nid Pharaoh: fe ddyryswyd hwnw a'i fyddin gan un drem. Nid y colledigion: y mae minion y môr yn uffern iddynt hwy, heb sôn am y dyfnderoedd. Ond yn y gair "Gorphenwyd," dyma ateb iddo. *Gorphenwyd!* Beth yw hyny? Un wedi suddo nes cael gwaelod y pydew; un wedi dàl i yfed nes gwaghau phiol y felldith;—un wedi adwaen "nerth y soriant" trwy ei ddioddef. Fe'i bedyddiwyd Ef â dioddefiadau. Y mae galw y dioddefiadau yn "*fedydd*."

III. Yn dangos hefyd fod y dioddefiadau yn ol trefn. Yr oedd pob bedydd wedi ei sefydlu i ddibenion penodol, ac o

drefniad rhywun heblaw y bedyddiedig. Felly yr oedd hwn wedi ei roddi trwy derfynedig gyngor. Gweithio allan gynllun yr oedd ag y bu doethineb Duw yn ei drefnu. "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef." Y mae y bedydd yn y cynllun. Felly yr oedd yn rhaid i Grist ddioddef y pethau hyn: rhaid trefn,—rhaid apwyntiad, oedd hyn. Gan hyny, y mae y darluniad hwn o'i ddioddefiadau yn dangos:—

IV. Fod y dioddefiadau yn drosglwyddiad arno i ystâd newydd, ac i berthynasau newyddion. Peth rhwng dwy ystâd ydyw bedydd;—peth yn trosglwyddo ydyw o sefyllfa îs i un uwch. Fel yr oedd y diluw, i'r hwn y cyffelybir bedydd gan Pedr, yn trosglwyddo Noah o'r hen fyd i'r byd newydd; felly yr oedd bedydd y dioddefiadau, yn trosglwyddo Mab Duw o un sefyllfa i un arall. Gall fod cyfeiriad at hyny yn yr ymadrodd,—"Hyd oni orphener." Nid gorphen y dioddefiadau yn unig nac yn benaf a feddylir; ond gorphen, sef cyraedd eu diben hwynt, ac felly cyraedd ystâd y byddai ynddi o hyny allan. Yr oedd gorpheniad y gwaith yn dâl perthynas â phawb y gwyddom ni am danynt, trwy nefoedd, daear, ac uffern. Ond at effeithiau hyny, arno Ef ei hun yn ei gysylltiad â'r byd, y cyfeirir yma. Gwir ydyw fod gorpheniad y gwaith yn ei ddyrchafu goruwch pob tywysogaeth ac awdurdod, ïe, goruwch yr holl nefoedd; ond nid awydd am y 'stâd yna fel ystâd oedd yn ei fynwes, ond awydd am fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch a maddeuant; ac yr oedd yn rhaid iddo gyraedd yr ystâd hòno cyn y byddai felly. Cymerodd ei fedyddio gan Ioan i gychwyn y gwaith: cymerodd ei fedyddio gan ei Dad i'w orphen. Efe a berffeithiwyd yn Dywysog iachawdwriaeth trwy ddioddefiadau. Rhoddodd heibio garacter y saer yn medydd Ioan; ac wele Ef yn dyfod i fyny o'r Iorddonen yn Brophwyd ac yn Ddysgawdwr. Rhoddodd heibio y caracter o fod yn Greawdwr yn medydd y dioddefiadau, i gael gwobr y caracter o Geidwad pechadur. Yn nechreu llyfr y Datguddiad y mae yn galw rhyw enw sydd arno yn enw newydd, "fy enw newydd i;" ac yn niwedd y llyfr yr ydym yn cael beth oedd hwnw,—"Brenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi.' Yr oedd yn hyny o'r blaen fel Creawdwr, ond yn awr y mae felly fel Ceidwad; ac y mae yr hen enw yn cael ei

lyncu i fyny yn yr enw newydd. Yr oedd yn Dduw byw erioed, ond wedi ei fedyd lio â dioddefiadau, y mae tiriogaeth angau ysbrydol yn clywed ei leferydd; fel y gall yn awr, nid yn unig anadlu ar bridd marw nes ei wneyd yn enaid byw, ond ar enaid marw nes ei wneyd yn ysbryd i fyw byth mewn gogoniant.

Yn awr, awydd angerddol am gyraedd yr ystâd hon oedd yn ei fynwes. Yn yr adnod o flaen y testyn, fe eilw yr hyn a wnai ynddi yn "fwrw tân ar y ddaear,"—bywyd ysbrydol, bywyd nefoedd. Yr oedd y natur ddynol wedi myned yn gnawd, sef yn gwbl lygredig; ond pe bawn i wedi gorphen fy ngwaith, mi a fwriwn dân ar y ddaear a fywiocäi y cnawd nes ei wneyd yn ysbryd;—a godai y ddaear o fod yn fynwent i fod yn baradwys;—a ymlidiai dawch angau o honi, ac a'i llanwai â gwrês bywyd o ben bwygilydd. Anadl oedd y bywyd cyntaf: fe gollwyd hwnw: tân fydd y nesaf,—bywyd treiddiol, pur, nerthol,—bywyd a fydd gymaint yn uwch na'r cyntaf, ag ydyw angau yn îs na'r cyntaf.

"*Hyd oni orphener*," oedd iaith y Person mawr pan lefarwyd y testyn; ond erbyn hyn y mae y gair *Gorphenwyd* wedi ei seinio, ac y mae 'r adsain wedi treiddio trwy holl ymherodraeth Duw. Fel y mae y creigiau a'r mynyddoedd yn adsain twrf y daran i'w gilydd, felly y mae holl ranau yr ymherodraeth ddwyfol yn adsain twrf *Corphenwyd* y groes. Mynyddoedd cyfiawnder a gipiodd y sain gyntaf; adseiniwyd ef ganddynt hwy i ddyfnderoedd y barnedigaethau: seiniodd y gair fel sŵn dyfroedd lawer trwy y nefoedd. Am a wn i, na bu yn cael ei adsain gan batriarchiaid, offeiriaid, a phrophwydi, i'w gilydd, am ddeng niwrnod a deugain. Gorphenwyd, meddai Abraham wrth Moses; Gorphenwyd, meddai Moses wrth Dafydd; Gorphenwyd, meddai Dafydd wrth Esay; Gorphenwyd, meddai Esay wrth Malachi. Ond ymhen y deng niwrnod a deugain, wele "Gorphenwyd" y nefoedd yn seinio fel gwynt nerthol yn rhuthro ar y ddaear; ac o hyny hyd yn awr, y mae rhai o fynyddoedd yr hen ddaear yn cipio i fyny y gair; y mae creigiau a gelltydd Cymru yn ei adsain er's oesoedd; a'i sŵn sydd yn ein cymell i ddyfod i leoedd fel hyn, i ddisgwyl gweled y tân yn cael ei fwrw ar y ddaear.

Golwg ddigon pruddaidd ydyw gweled calon haelfrydig, a llaw a llogell wâg;—tosturi yn llenwi y fynwes, heb ddim gallu yn y fraich i'w weini. Fe fu Mab Duw felly. Dyna oedd ei ystâd pan yn llefaru y testyn. Wrth edrych ar y byd oedd yn gorwedd mewn drygioni, yr oedd ei galon fawr yn cael ei chynhyrfu gan dosturi tuag ato; ond nid oedd llwybr cyfreithlawn i'r tosturi hwnw redeg allan yn drugaredd i'w ymgeleddu. Ond yn awr, y mae wedi ei berffeithio: nid oedd eisiau calon gynhesach nag oedd ganddo;—nid oedd eisiau braich gryfach nag oedd ganddo: ond yr oedd eisiau ei gael Ef ei hun i ystâd newydd, i'w alluogi i'w defnyddio o blaid pechadur; ac y mae yn dda genyf ddywedyd, y mae Efe wedi ei chyraedd er's talm: fe all fwrw y tân pryd y mỳno bellach. Mỳned yr awr hon!

[Adysgrifenwyd, Tach. 4ydd, 1864.]

## PREGETH XI.

### GRAS YR EFENGYL YN GYMHELLIAD I'W DERBYN.

2 CORINTHIAID vi. 1.—"A ninau, gan gydweithio, ydym yn atolwg i chwi na dderbynioch ras Duw yn ofer."

NID oes mewn un ran o'r Bibl ddesgrifiadau mwy cyflawn o athrawiaeth fawr yr efengyl nag a geir yn epistolau Paul; ac nid oes mewn un ran ychwaith apeliadau mwy difrifol rhag ei derbyn hi yn ofer nag a geir ynddynt hwy. Yr oedd y gogoniant a lewyrchai ar feddwl yr apostol wrth syllu ar athrawiaeth yr efengyl, yn cynyrchu awydd angerddol yn ei feddwl am i'r fath drefn ogoneddus gael ei derbyn gan y byd. Ac ni a'i cawn yn dadleu hawliau yr efengyl i gael ei derbyn lawn mor aml oddiwrth ei gogoniant hi ei hun, ag y gwna oddiwrth angen ein cyflwr truenus ni am dani. Wedi colli ei hun mewn syndod uwchben gogoniant trefn yr efengyl yn yr wythfed benod o'r epistol at y Rhufeiniaid, yn y nawfed benod y mae yn amlygu awydd mor gryf am i'r fath drefn gyfoethog gael ei derbyn, fel y dymunai fod yn anathema ei hun, er mwyn i'w frodyr fod yn gadwedig. Wedi edrych yn y benod gyntaf o'r Hebreaid ar fawredd a gogoniant person yr Arglwydd Iesu, y mae yn troi at yr Hebreaid i ddywedyd wrthynt fod yn rhaid dal yn well ar y pethau, onidê, pa fodd y diengid, a hithau yn iachawdwriaeth gymaint. Yma hefyd, wedi darlunio cyfoeth gras Duw, y mae yn atolwg ar y Corinthiaid, na dderbyniont y gras hwnw yn ofer.

Y mae yn anhawdd gwybod pa un ydyw y mwyaf rhyfedd,

ai bod trefn o gwbl i gadw yn bod, ai ynte fod neb heb fod yn gadwedig yn y drefn hono. Yr oedd y cyntaf yn ymddangos mor annhebyg ag ydoedd i Ethiop newid ei groen, a llewpard ei frychni, neu i esgyrn sychion fyw eilwaith. Buasai yr annhebygolrwydd yna yn cael ei deimlo gan bawb yn anmhosibilrwydd i'r peth gymeryd lle; ac eto, er syndod i'r holl greadigaeth, y mae yr hyn oedd yn anmhosibl gyda dynion wedi ei brofi yn bosibl gydâ Duw. Yr oedd y doethineb dwyfol yn ddigon "mawr ac amryw" i'w gweled hi, i'w pharotoi hi, ac i'w chwilio hi allan; a graslonrwydd dwyfol yn ddigon cyfoethog i droi cynllun doethineb yn ffaith,—i wneyd yr arfaeth dragywyddol yn iachawdwriaeth barod. Y mae yr ail beth, ar ryw ystyr, mor ryfedd a'r cyntaf,—wedi cael y fath drefn, pa fodd y mae neb heb ei derbyn? Buasai cael trefn gyfiawn ac anrhydeddus i ollwng un condemniedig yn rhydd, yn ymddangos yn beth anmhosibl i unrhyw lywodraeth; a phe cawsid un felly, nid ychydig a fuasai yn rhyfeddu uwch ei phen. Ond peth mor ryfedd a'r drefn ei hun a fuasai gweled y rhai condemniedig yn gwrthod gras y drefn. Y mae y testyn syndod dyblyg hwn i'w gael yn nhrefn Duw, ac ymddygiad dyn tuag ati. Y mae angylion yn rhyfeddu y drefn,—yn chwenychu edrych arni. Y mae Mab Duw ei hun yn rhyfeddu fod neb heb ei derbyn hi. "Ac efe a ryfeddodd wrth eu hanghrediniaeth."

Anogaeth i dderbyn trefn yr efengyl ydyw y testyn, yn codi, nid yn gymaint oddiwrth y trueni anocheladwy sydd yn dilyn ei gwrthod hi, ag oddiwrth ogoniant yr efengyl ei hun fel amlygiad o ras Duw. Gelwir hi yma wrth yr enw gras Duw. Y ddau beth a ddaw o dan ein sylw fydd:—

I. Nodi rhai o'r pethau y mae gras Duw yn yr efengyl yn dyfod i'r golwg ynddynt.

II. Edrych ar y modd y mae yn beryglus i ni dderbyn y gras hwn yn ofer.

I. Nodi rhai o'r pethau y mae gras Duw yn yr efengyl yn dyfod i'r golwg ynddynt. Y mae'r efengyl yn ras i gyd, o'i sylfaen i'w phen conglfaen; fel y mae wedi gwreiddio neu ffynhonellu yn Nuw, ac hefyd fel y mae yn dal perthynas â ni. Yn Nuw, hunan-gynhyrfiol gariad ydyw; i ni, cymwynas heb ei

hail i'r truenus, a'r truenus hwnw yn annheilwng ydyw; fel mai gras ydyw hi ymhob cysylltiad. Ond yr oedd llygad yr apostol, y mae yn ddiameu, yn y testyn, ar y pethau penodol sydd yn amlygiad o ras, oeddent newydd fod dan ei sylw yn yr adnodau blaenorol. Y mae yma bedwar o honynt.

1. "Duw yn deisyf" arnom ddyfod i gymod. 2. Y Duw hwnw wedi gwneyd peth mawr i gael ffordd cymod, sef gwneyd "yr hwn nid adnabu bechod, yn bechod drosom ni." 3. Y Duw hwnw yn cynyg peth mawr i ni, sef, ein gwneyd ni "yn gyfiawnder Duw ynddo ef." 4. Wedi gosod hyn oll yn y wedd fwyaf manteisiol i gael argraff arnom: "a ninau, gan gydweithio." Y mae gras fel awyrgylch o ogoniant yn amgylchu pob un o'r pethau hyn, ac y maent oll gydâ'u gilydd yn ffurfio awyrgylch ogoneddus o amgylch yr efengyl, sydd yn ei gwneuthur hi yn efengyl gras Duw. Gadewch i ni edrych arnynt eto:—

1. "Duw yn deisyf" arnom i ddyfod i gymod. Duw yn llefaru: wele fawredd! Pan y mae Duw yn llefaru, yr ydys yn disgwyl i'r amgylchiad fod yn deilwng o'r mawredd: naill ai fe fydd bydoedd yn y gwagle, neu fe fydd Sinai yn crynu, neu "Libanus a Sirion yn llamu fel llwdn unicorn," i ddangos mawredd yr Hwn sydd yn llefaru. "Duw yn deisyf" arnom ni! Y mae y mawredd yn troi yn ras: Y mae y gwrthddrychau yma mor ddistadl i Dduw lefaru wrthynt. Yr oeddem yn ddigon mawr i'n damnio; ond yr oeddem yn rhy fychain i neb feddwl am ein hachub ond Duw. Er nad oedd Simei ond ci marw, yr oedd yn ddigon mawr i Abisai, un o dywysogion y fyddin, dori ei ben ef; ond yr oedd yn rhy ddistadl i neb feddwl am ei gadw yn fyw ond y Brenin. Nid ydyw pwy fydd y gwrthddrychau i effeithio dim ar gyfiawnder: Y mae ei anrhydedd ef yn gofyn am i'r cleddyf ddisgyn ar y bychan fel ar y mawr; ond y mae y gwrthddrych i effeithio ar ras. Fe all hwnw fod mor ddistadl fel y teimlai mai colled ydyw ei amlygu tuag ato; neu, gall fod mor annheilwng, fel y byddai ei amlygu yn brawf o wendid yn hytrach nag o ddim arall. Teimlai Abisai felly yn achos Simei: yr oedd y troseddwr wedi cydnabod ei fai, ond, "ai oherwydd hyn," meddai Abisai, "ni roddir Simei i farwolaeth?" Felly ninau, er mor fychain, yr oedd anrhydedd cyfiawnder

dwyfol yn gofyn am i'r cleddyf ddisgyn arnom; ond yr oedd ein distadledd a'n hannheilyngdod yn gyfryw, debygid, fel ag i'n cau allan o sylw daioni Duw byth: ond eto lleferydd Duw yw yr efengyl. Yr oedd i frenin fod yn drugarog at elynion yn beth dieithr ar y ddaear yn amser Benhadad; ond yr oedd un felly yn Israel: eto trugaredd i'w chael trwy erfyn am dani ydoedd. Beth pe buasai brenin Israel, yr hwn oedd newydd brofi fod ganddo ddigon o allu i ddinystrio Syria, yn dyfod ei hun i erfyn ar y Syriaid am dderbyn trugaredd, buasai hyny yn beth dieithr yn wir. Duw yn deisyf arnoch, "cymoder chwi â Duw." Dyma ras! Yr oedd y canwriad yn teimlo ei hun yn rhy annheilwng i Iesu o Nazareth ei hun ddyfod o dan ei gronglwyd ef: yr oedd yn fwy nag yr oedd ef yn ei haeddu o sylw iddo ddweyd y gair yn y fan lle yr oedd. Llawn mor briodol y gallasai y natur ddynol ddywedyd, pan y mae Duw yn dyfod i erfyn, "Gormod! gormod! o ba le y mae hyn i mi, fel y delai yr Anfeidrol ei hun i gynyg y cymod!"

2. Y Duw hwn wedi gwneyd peth mor fawr a gwneyd "yr hwn nid adnabu bechod, yn bechod drosom ni," i gael ffordd gyfreithlawn i gynyg cymod. Dyma esboniad, pe byddai yn esboniadwy hefyd, ar faint y gras. Hawl-fraint na chostiodd hi ddim iddynt ydyw gallu i weinyddu gras i lawer: priodol ydyw dweyd wrthynt, "Derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad." Ond nid felly Duw: er ei fod yn rhoddi yn rhad, fe gostiodd iddo Ef wneuthur yr Hwn nid adnabu bechod yn bechod, i gael gwneyd hyny. Ni chostiodd hi ddim i dad yr afradlawn i amlygu gras ei fynwes ond rhoddi gorchymyn ynghylch y gwisgoedd a'r wledd, ac ymresymu â'r mab hynaf i'w ddiddigio. Nid wyf yn dweyd nad oedd cariad y tad yn fawr; ond rhaid i ni ei fesur yn ngoleuni yr hyn a wnaeth: myned i'r *wardrobe* i chwilio am y wisg oreu; i blith yr anifeiliaid i chwilio am y llo pasgedig; symud digofaint y mab hynaf trwy siarad âg ef. Y mae gras Duw i'w brisio yn ngoleuni y rhwystrau a symudodd i gael ymddangos. Yr oedd ystôr ddiderfyn o hono yn Nuw, digon i orchuddio y cwbl, yn gyffelyb fel y gwnai y dyfroedd â'r ddaear yn more amser; ond fe gauwyd y dyfroedd i mewn â throsolion ac â dorau: felly yr oedd trosolion a dorau cyfiawnder yn cau gras, ac yn dywedyd

wrtho, "Hyd yma y deui, ac nid yn mhellach;" hyd yma, sef llwytho y diniwed â daioni, coroni y cyfiawn â mawredd, gwasgaru rhoddion heb rif i'r diniwed; ond yr oedd dyn truenus yn mhellach na'r terfyn yna; eithr ni oddefai y bàrau a'r trosolion i ymchwydd tònau gras ei gyraedd, ond trwy wneuthur yr Hwn nid adnabu bechod yn bechod drosom ni. Fe symudwyd trosolion a dorau cyfiawnder, fe all ymchwydd y tònau bellach gynyddu nes myned yn ddiluw dros bob man. Nid oes dim bellach i ddywedyd, "Hyd yma y deui." Yr oedd hyn yn amlygiad o ras nad ellir cael ei gyffelyb byth. Gadewch i ni edrych ar y weledigaeth. Pe buasai yn cymeryd un o'r troseddwyr i'w gosbi, ac yn gadael i'r gweddill ddianc, buasai hyny yn ras mawr: fel y gwnaeth Joab âg Abel-beth-maachah; fe arbedodd y ddinas wedi cael pen Seba dros y mur. Y mae yr hyn a wnaeth gras yn beth nad oes dim mesurau i'w gael arno: gwneyd Hwn yn bechod,—yr oedd yn beth mwy na rhoddi yr holl greadigaeth yn ein lle ni. Beth fuasai rhoddi yr haul yn lle y ddaear fechan? Chwaneger eto fydoedd y gyfundrefn heulog at hyny; chwaneger hefyd bob byd a phob creadur a wnaeth Duw; y mae "Hwn" y testyn yn anfeidrol fwy gwerthfawr na hwynt oll, oblegid: "yr hwn nid adnabu bechod" ydyw. Yr wyf yn meddwl fod ystyr ddyfnach i'r ymadrodd "nid adnabu bechod," na bod heb ei gyflawni. Yr oedd angel heb adnabod pechod yn yr ystyr yna. Tybed nad ydyw yn golygu un nas gallasai adnabod pechod? Yr oedd mor anmhosibl iddo bechu ag ydoedd i'r Duwdod bechu; oblegid Duw wedi ymddangos yn y cnawd ydoedd. Os nad all y dyn newydd bechu am ei eni ef o Dduw, a thrwy hyny gyfranogi o'r ddwyfol anian, y mae yn rhaid nad all "Hwn" y testyn, gwir a thragywyddol Dduw ddim pechu. Hyn ydyw eithafion ystyr "nid adnabu bechod." Yn hyn y mae mawredd y gras yn dyfod i'r golwg: "Hwn" yn cael ei wneuthur "yn bechod,"—pech-aberth, fel y mỳn rhai ddeall y gair. Yr oedd yn aberth am ei fod yn ol trefn y cyfamod yn ein lle ni; ond y mae rhywbeth mwy mewn cael ei wneuthur yn bechod na hyny. Nid ydyw dioddef yn lle un arall ddim ond peth arwynebol, megis yn y corff: nid ydyw yn cyraedd dyfnderoedd y natur; y mae yr enaid yn rhy bell i'r cleddyf yna ei gyraedd: ond er mai

dioddef yn ein lle yr oedd yr Hwn nid adnabu bechod, trwy gael ei wneuthur yn bechod, beth bynag oedd hyny, fe'i gwnaed yn gyfryw ag oedd yn gallu tywallt ei enaid i farwolaeth; ei enaid yn gallu tristâu hyd angau; ei natur fawr i'w dyfnderoedd yn dioddef. Nid mawredd y person yn gosod gwerth ar ei dioddefiadau, ond person anfeidrol wedi ei wneuthur yr hyn a elwir yma yn "bechod" er mwyn i holl fawredd y Person droi yn gymhwysder i ddioddef, i'r dioddefiadau fod yn iawn drosom ni. Dyma ras! Yr oedd Dafydd yn teimlo fod dwfr pydew Bethlehem yn werth gwaed, am i'w gedyrn beryglu eu bywyd wrth ei gyrchu, er na chollodd yr un o honynt ddiferyn o waed: os oedd dwfr pydew Bethlehem mor werthfawr, beth ddylai fod gwerth efengyl y bu raid gwneyd yr Hwn "nid adnabu bechod yn bechod," i'w chael hi. Dyma blŷg eto yn y gras:—

3. Y Duw hwnw yn cynyg peth mor fawr a'n gwneuthur ni "yn *gyfiawnder* Duw ynddo Ef." Nid ein cyfrif yn unig, ond ein gwneyd ni felly. Y mae cyfrif y Barnwr yn ei berthynas â dyn yn cynwys peth fel hyn: er mai trwy gyfrifiad o bechod Adda yr aethom ni yn bechaduriaid yn wyneb cyfraith, yr oeddem drwy hyny hefyd yn myned yn bechaduriaid mewn gweithred; felly trwy gyfrifiad o'i gyfiawnder Ef y gwneir ni yn gyfiawnder Duw yn wyneb cyfraith. Y mae yr un peth yn sicrhau hefyd y gwneir ni yn gyfiawnder Duw ynom ein hunain. Nid yw hyn ddim yn cynwys y byddwn ni yn teilyngu bywyd tragywyddol: na, dawn Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist. Nid all creadur ddim teilyngu. Ond y mae mawredd y gras yn dyfod i'r golwg yn ei fod yn teyrnasu trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol. Ni wn i a gyfeiliornwn i wrth ddywedyd fod yma gymaint o ras, nes y mae yn myned o'r golwg mewn cyfiawnder. Y mae rhai trugarog ac elusengar ar y ddaear, a digon o ras ynddynt i weinyddu ymwared i'r truenus, ond nid digon i guddio y gras hwnw: codant ysbytai i'r cleifion, elusendai i'r hen a'r methedig, a sefydliadau daionus i fod yn swcwr i'r amddifaid a'r weddw; ond y mae rhyw arwyddion ar bawb sydd yn derbyn y ffafrau hyn i ddangos mai elusen ydynt iddynt. Mae y tŷ, neu y wisg yn bradychu y peth. Nid yw y gras yn myned yn

gyfiawnder, yn y rhai sydd yn ei dderbyn, nes myned o'r golwg ei hun, fel nad ellir gwybod nad ar eu heiddo eu hun y maent yn byw. Y mae yn dda iawn cael y sefydliadau hyn; ond yr ydys yn teimlo fod derbyn eu cymwynasau yn radd o ddarostyngiad ar ddyn. Ond y mae'r efengyl yn gwneyd pechadur yn gyfiawnder Duw. Nid rhoddi hawl iddo fel dyn tlawd i gael byw mewn elusendy yn y byd a ddaw y mae; O na,—nid oes dim elusendai yn y nefoedd. Byw yn ei dŷ ei hun y mae pob un o holl drigolion y trigfanau tragywyddol. Y mae coron ar bob pen yno; ond "coron cyfiawnder" ydyw hi iddynt oll. Y maent yn gyfiawnder Duw, neu yn ddwyfol gyfiawn. Y mae hyn yn eu codi i'r fath ystâd nad all hen bendefigaeth y nefoedd byth edrych i lawr arnynt. Y mae hen bendefigion y ddaear yma, sydd â'r teitl yn y teulu er's canoedd o flynyddoedd, yn dueddol i edrych i lawr ar y *Peers* newyddion sydd yn cael eu gwneyd yn y dyddiau hyn. Ond gan fod y saint yn ddwyfol gyfiawn, dyma urdd uwch o bendefigion na'r un yn y nefoedd! Nid anghofia y saint byth mai gras a'u cadwodd hwynt. Fe fydd hyny yn yr anthem yn dragywydd—"Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun;" ond ni bydd dim o'u hamgylch i beri i neb arall gofio hyny. Dyma ras mawr: nid digon mawr yn unig i roddi y nefoedd, ond digon mawr i'w rhoddi hi fel cyfiawnder.—Y plyg olaf yn y gras a nodwn ydyw,—

4. Hyn oll yn cael ei roddi yn y wedd debycaf o effeithio arnom ni: "A ninau, gan gydweithio." Cydweithio â Duw: Duw trwom ni. Y mae cyfoeth o ras yn dyfod i'r golwg yn hyn. Y mae Duw yn anfon at y byd trwy rai a fedrant lefaru oddiar brofiad, ac y mae felly yn esiampl i'r byd o'r hyn y maent yn ei gynyg iddo. "A'n cymododd ni âg ef ei hun," medd yr apostol, "ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymod." "Yr hwn oeddwn o'r blaen yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus; eithr mi a gefais drugaredd," a'm gosod yn y weinidogaeth. Yr oedd yn engraifft, yn *specimen*, o'r hyn a fedrai y drefn ei wneyd. Fe wnaeth gras â Paul, ac y mae yr un peth yn cael ei wneyd â phob gwir weinidog, fel y bu raid i'n cenhadon ni wneyd yn Cassia. Nid allent gael y plant i'r ysgol er pob perswadio; ond fe ddaliwyd un neu ddau o honynt, ac fe'u

gwisgwyd mewn gwisgoedd gwerthfawr yn ngolwg y Cassiaid, ac fe'u gollyngwyd i blith eu cymdeithion: yna yr oedd y plant yn ddigon gwell pregethwyr na'r cenhadon; wedi cael esiampl o'r hyn a gaent, fe lanwyd yr ysgol. Dyna wnaeth gras â Paul: ei ddal ef, a thynu y bratiau budron oddiam dano, a'i wisgo â'r wisg oreu, er mwyn iddo gael bod yn esiampl o'r hyn yr oedd yn ei gymell. Y mae y dwyfol yn fwy dylanwadol arnom ni trwy y dynol nag fel arall. Am hyny y mae gras wedi rhoddi y trysor hwn mewn llestri pridd. Paham na buasai yr angel yn cael pregethu? Am fod dyn yn well pregethwr i ddyn na'r angel. Fe anfonir angel i hysbysu i Cornelius i ba le i anfon am bregethwr; ond ni chaiff ê ddim pregethu ei hun, am fod Pedr yn well pregethwr nag ef: ac yr oedd yr Arglwydd yn penderfynu y cai Cornelius glywed yr efengyl yn y dull tebycaf o gael dylanwad arno. "O blith dy frodyr," meddai Moses wrth Israel gynt, "y gosodi arnat frenin; ni elli roddi arnat ŵr dieithr yr hwn nid yw frawd i ti;" ac un achos o hyn oedd, er mwyn iddo gael dylanwad arnynt. Am yr un rheswm y mae gweinidogion y gair ymhob oes, fel rheol, yn cael eu codi o ganolradd ac iselradd cymdeithas, o gorff y bobl, gan mai iddynt hwy y maent i efengylu. Y mae rhai felly yn debycach o gael dylanwad arnynt. Yr oedd yr offeiriaid gynt yn llwyth neillduedig, yn fath o bendefigaeth, i weini rhwng dynion a Duw; ond pan y byddai rhai yn cael eu hanfon oddiwrth Dduw at ddynion, sef y prophwydi, mynych iawn y byddent hwy yn cael eu cymeryd o gorff y bobl. Yr oedd hyny yn fantais iddynt gael mwy o ddylanwad arnynt. Y mae gras yr efengyl yn dyfod i'r golwg mewn peth tebyg eto: nid y dieithr sydd yn cael ei anfon, ond brodyr i chwi yn llawn ystyr y gair. Dyma blyg ar ol plyg o ras: cymaint o hono, fel y mae yn beth rhyfedd fod yn rhaid atolwg ar neb rhag ei dderbyn yn ofer. Ond gan fod hyny yn bosibl, nid ydyw yn rhyfedd fod y neb sydd yn gweled mawredd gras yn atolwg rhag iddo gael ei dderbyn yn ofer. Ni a edrychwn—

II. Pwy sydd yn gwneyd hyny? Ni a gawn yn hanes yr Arglwydd Iesu ddrych i'w gweled. Yno ni a welwn fod tri dosbarth yn gwneyd hyn. (1.) Y rhai sydd yn codi yn erbyn y gras. (2.) Y rhai sydd yn ddiofal ac yn ddifater yn ei gylch.

(3.) Y rhai sydd yn peidio talu sylw uniongyrchol iddo. Ni a gawn esiampl o'r rhai cyntaf, sef codi yn erbyn y gras, yn y rhai oedd yn dywedyd, "Ni fynwn ni hwn i deyrnasu arnom;" "hwn yw yr etifedd, deuwch, lladdwn ef." Ni a gawn esiampl o'r ail, sef y difater, yn y rhai a wahoddwyd i'r swper mawr. Ni a gawn esiampl o'r trydydd, sef peidio talu sylw yn y fan, yn hwnw oedd yn aros i gael claddu ei dad cyn dilyn yr Arglwydd Iesu. Yr oedd y tri dosbarth yn derbyn gras Duw yn ofer.

1. Codi yn erbyn y gras. Y mae holl anffyddwyr ac amheuwyr ein gwlad yn y dosbarth hwn. Ni fynant mo hwn i deyrnasu arnynt; ac yn y ddameg arall, y mae y rheswm am hyny: y maent am ei ladd, er mwyn i'r etifeddiaeth fod yn eiddo iddynt hwy eu hunain. Lladd yr efengyl yn ei character a lladrata ei heiddo priodol hi i'w philosophi a'u cyfundraethau hwy eu hunain, a dinystrio y gweddill. Dwyn ymaith yr Arglwydd o'r efengyl am na fynant mo hono yn Achubwr; ac ni bydd yna yr un Achubwr wedi i'r Arglwydd gael ei ddwyn ymaith,—dim ond dyn. Dwyn ymaith yr aberth, nid oes yna ddim ond marwolaeth merthyr wedi hyny: ni bydd yna yr un Iawn. Lladrata y dwyfol oll o'r efengyl, ydyw lladrata yr efengyl ei hun. "Y mae yma esiampl y dyn Crist Iesu wedi'n," meddwch chwi; gwir, ond beth a wna esiampl i fyd marw? Rhaid cael rhywbeth i roddi bywyd ynddo yn gyntaf, yna fe fydd yr esiampl o ryw werth iddo wedi'n. Y mae miloedd yn ein teyrnas yn derbyn gras Duw yn ofer yn yr ystyr hwn: yn ysbeilio y cysegr o'i ddodrefn: ond beth yw cysegr da heb drugareddfa a Shechinah?—yn cymeryd yr afal aur ymaith, beth yw y gwaith arian wedi'n?

2. Y rhai sydd ddifater yn ei chylch. Nid oedd y bobl hyny yn beio dim ar y swper; ond yr oedd rhywbeth mwy gwerthfawr nag ef yn eu golwg yn eu gwneyd yn gwbl ddifater yn ei gylch. Nid oeddent yn dweyd nad oedd daioni calon y Brenin, a'i gyfoeth hefyd, yn cael eu hamlygu yn y swper; ond yr oedd eu sylw hwynt yn cael ei gymeryd i fyny mor lwyr gan bethau eraill, fel yr oedd y swper yn ofer iddynt hwy. Y mae gan y diafol ddau ddosbarth o bethau i ddinystrio â hwynt, sef y cyfreithlawn a'r gwaharddedig, ac y mae y cyfreithlawn yn

fwy effeithiol i ddinystrio, yn ngwlad efengyl, nag ydyw y gwaharddedig. Y mae y gydwybod yn aflonyddu yn herwydd y dosbarth olaf o bethau; ond y mae hi yn ddistaw yn herwydd y cyntaf. Yn nyddiau Jeremiah a'r prophwydi, cyn y caethgludiad, yr oedd eilunod yn llenwi y wlad, a Jehofah a'i wasanaeth yn cael eu hesgeuluso: ond ar ol y dychweliad o Babilon, nid oedd yr un eilun yn y wlad, er hyny yr oedd Jehofah a'i wasanaeth yn cael eu hesgeuluso. Y bobl yn rhy brysur gydâg adeiladu eu tai, planu gwinllanoedd, cael y wlad i drefn, i dalu sylw iddo Ef a'i wasanaeth. Yr oedd y diafol, trwy y pethau cyfreithlawn hyn, yn cyraedd yr un amcan a thrwy yr eilunod,—y pethau gwaharddedig. Felly eto, y pethau cyfreithlawn sydd yn peri fod degau o filoedd yn ein gwlad ni yn derbyn gras Duw yn ofer: eu meddyliau yn cael eu cymeryd i fyny mor llwyr gan bethau cyfreithlawn ynddynt eu hunain, nes myned yn gwbl ddifater ynghylch yr efengyl.

3. Y rhai sydd yn peidio talu sylw uniongyrchol iddi. Nid yw y dosbarth hwn yn ddifater fel y llall: yn hytrach penderfynant dderbyn yr efengyl, ond nid yn awr;—rhaid iddynt yn gyntaf gladdu eu tad. Y maent yn gweled graddau o'i gogoniant hi, yn teimlo graddau o'i hangen hi; ond disgwyl y maent am amser cyfaddas. Am hyny, eu hiaith heno ydyw, "Dos ymaith ar hyn o amser." Nid yw cymod yr efengyl ddim yn yr amser dyfodol, ond yn y presenol. Nid peth yn cael ei gynyg i'ch sylw, i chwi gael gwneuthur i fyny eich meddwl yn ei gylch erbyn rhyw amser a ddaw ydyw: na, nid oes amser a ddaw yn perthyn iddo. Y mae eich ymddygiad chwi ato yr awr hon yn cael ei ysgrifenu fel eich penderfyniad chwi yn llyfr Duw. Ni all neb ddywedyd yn y farn ei fod heb dderbyn yr efengyl, am i angau ei dori i lawr cyn iddo gael gwneyd i fyny ei feddwl: na, y mae eich ymddygiad chwi heno yn benderfyniad yn nghyfrif Duw. Beth a fydd, pa un ai ei derbyn hi, ai ei gwrthod? Y mae yr adnod ar ol y testyn yn profi mai yn awr yw yr amser i benderfynu: "Wele yn awr yr amser cymeradwy; wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth." Daeth Simei at Dafydd yn yr iawn adeg; mewn amser boddlongar, Dafydd mewn tymer maddeu. Mae yn "amser boddlongar" gyda Duw yn awr. Y mae arnaf ofn cymhwyso

gormod ar iaith y ddaear at yr Anfeidrol, onid ê mi fuaswn yn dweyd ei fod mewn tymer i faddeu, mewn hwyl i faddeu; ïe, ni a gawn air yn y Bibl sydd yn cynwys hyn :—*Parod i faddeu.* Pan aberthodd Noah, ar ol dyfod o'r arch, fe ddywedir i'r Arglwydd arogli arogl esmwyth ar yr aberth, a dywedyd, "Ni chwanegaf felldithio y ddaear mwy er mwyn dyn:" ac fe wnaeth gyfamod manteisiol iawn â Noah, ac â'n daear ni, o dan ddylanwad arogl esmwyth yr aberth. Y mae aberth Crist wedi arogli mor beraidd yn y nefoedd, nes y mae wedi gwneyd heddyw yn ddydd iachawdwriaeth yma. Fe wna y Duw mawr gyfamod â thi a drŷ yn fantais dragywyddol i ti, o dan ddylanwad arogl peraidd yr aberth.

Y mae yn ddigon eglur fod derbyn y gras yn ofer yn bwysig, pe na buasai genym ddim i brofi hyny ond nifer a chymeriad y rhai sydd yn atolwg ar y byd beidio gwneyd hyn. Byddwch yn credu yn mhwysigrwydd rhai pethau oddiwrth sylw ar garacter y rhai sydd yn ei bleidio. Yr oedd miloedd yn ein teyrnas yn credu fod rhyddid i'r caethion yn beth pwysig, nid am eu bod yn gwybod nemawr am gaethiwed eu hunain, ond oherwydd eu bod yn canfod nifer o ddynion goreu y wlad yn llafurio â'u holl egni i ddwyn hyny o amgylch. Rhaid fod derbyn gras Duw yn ofer yn beth pwysig, oblegid edrychwch ar y rhai sydd wedi bod trwy yr oesoedd yn erfyn ar y byd i beidio gwneyd hyn: yn eu plith y mae Paul, Pedr, Ioan, a'u calonau yn llosgi gan zel, a'u tafodau wedi eu gwneyd yn hyawdl gan gariad, yn erfyn, yn perswadio. Y mae eu holynwyr, yn ystyr deilwng y gair yna, yn fyrdd, a myrdd o fyrddiynau. Mawr yw mintai y rhai a'i pregethant Ef. A phe buasai eisiau mwy o brawf o bwysigrwydd y peth, buaswn yn eich cyfeirio at y creaduriaid disglaer a gogoneddus draw, sydd yn sylwi mor bryderus ar y derbyniad a gaiff y genadwri; ac y mae llawenydd yn eu gŵydd hwynt bob tro y bydd yr "erfyn" yn ateb y diben. Neu mi a fuaswn yn dadleu pwysigrwydd y peth oddiwrth yr ystyriaeth mai yn ofer yr ä pob peth i chwi, os derbynir gras yn ofer. Yr ydym ni wedi myned yn ofer eisoes, fel llestr pridd yn myned yn ddrylliau wedi holl drafferth y crochenydd;—fel peiriant cywrain, yn dyrysu cyn dechreu gweithio;—fel creaduriaid ofnadwy a

rhyfedd, yn marw cyn dechreu byw. Yr ydym ni yn ofer; ond y mae gras wedi cael allan lwybr i adferyd o'r oferedd yna: holl ddibenion ein gwneuthuriad yn cael eu hateb, fel na fydd dim *specimens* gwell yn llywodraeth yr Anfeidrol o gywreinwaith dwyfol yn ateb ei ddiben na ni: bydd gras wedi ein llenwi mor gywrain, fel y mynegom ni y moliant byth. Ond os derbyniwn ras yn ofer, dyna ni ein hunain yn ofer am dragywyddoldeb, a phob peth arall yn ofer i ni. "Am hyny, yr wyf yn atolwg i chwi, na dderbynioch ras Duw yn ofer."

[Nos Wener, Tachwedd 26ain, 1868.]

## PREGETH XII.

### DUW MEWN ABERTH.

EXODUS xxiv. 11.—"Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel; ond gwelsant Dduw, a bwytasant ac yfasant."

RHAI o enwau y Testament Newydd ar eglwys yr Hen Destament ydynt, "bechgyn," "caethion," ac "etifeddion o dan oedran." Dengys yr enwau hyn mai rhai o dan addysg ac awdurdod oeddent; a'u llywodraethwr a'u hathraw ydoedd y ddeddf. "Ni pherffeithiodd y gyfraith ddim," hyny yw, nid oedd yn ddiben eithaf neu olaf; yn hytrach moddion ydoedd i gyraedd hwnw. Testyn mawr addysg y ddeddf ydoedd Duw yn ei natur, a'r berthynas oedd rhwng Israel âg Ef. Yr oedd tri pheth penodol yn cael ei ddysgu iddynt, pan yn dyfod o'r Aipht:—1. Mai un tyner oedd Duw. 2. Mai un ofnadwy ydoedd. 3. Mai un trugarog a daionus ydoedd, er ei fod yn un ofnadwy. Y mae yn ddigon tebygol fod eu caethiwed blin hwynt wedi peri iddynt feddwl yn galed am Dduw eu tadau. Nis gwyddom i ba raddau yr oeddent wedi eu llygru gan eilun-addoliaeth yr Aipht; ond y mae yn sicr nad oedd eu dirywiad wedi dileu oddiar eu meddwl y traddodiad am Dduw eu tadau, oblegid fe orchymynir i Moses yn ei gyfarchiad cyntaf iddynt, ddywedyd mai Duw eu tadau oedd wedi ei anfon ef atynt. Ac y mae yn eglur yn ngoruchwyliaethau yr Arglwydd tuag atynt, mai ei amcan cyntaf oedd cynyrchu yn eu mynwesau feddyliau caredig am Dduw. Fe ddywed wrthynt mai tosturi atynt a barodd iddo ddisgyn i'w

gwaredu, a'i fod yn myned i'w harwain i wlad yn llifeirio o laeth a mêl. Yn nghychwyn eu taith, tosturi heb eithriad oedd yn cael ei amlygu tuag atynt, a hyny yn wyneb cyndynrwydd mawr. Pan duchanasant yn Marah, oherwydd y dwfr, nid digofaint a ddaeth i'r golwg, ond tynerwch, yn dangos pren i'w bereiddio. Pan duchanasant eilwaith, wedi i'r bara ddarfod, nid eu taraw mewn cyfiawnder a wnaed, ond gwlawio arnynt mewn trugaredd fara o'r nefoedd. Tuchanasant yn Rephidim drachefn o eisiau dwfr, ac fe dröwyd y gallestr yn llyn dyfroedd iddynt. Yr oedd yr amrywiol bethau hyn yn ddigon i'w hargyhoeddi mai un da a daionus oedd yr Arglwydd; ond nid ydoedd y daioni hwn ddim wedi eu tywys i edifeirwch: am hyny y mae yr Arglwydd wrth Sinai yn rhoddi gwers newydd iddynt, yr ail, sef dysgu iddynt fod y Duw da hwn, yn Dduw sanctaidd, cyfiawn, ac ofnadwy. Dangoswyd iddynt yn yr Aipht ei fod yn un felly i'w elynion: yn awr dygai hwynt i deimlo ei fod yn un felly iddynt hwythau hefyd. Nid ydym yn darllen eu bod yn ofni Duw cyn hyn. "I'ch profi chwi," medd Moses, "y daeth Duw, ac i fod ei ofn ef ger eich bron, fel na phechoch." Ymaflodd dychryn ynddynt i'r fath raddau fel yr oeddent yn ofni cael eu lladd yn y fan. Yr oedd golygfa Sinai yn un mor ofnadwy, fel na bu ei bath o'i blaen, ac ni bydd ei thebyg ar ei hol, hyd nes y daw Mab y dyn ar gymylau'r nef. Yr oedd pob elfen angenrheidiol i gynyrchu ofn wedi cydgyfarfod yno: y taranau yn rhuo, y mellt yn gwibio, tywyllwch annaturiol ar gopa'r mynydd, tân dieithrol yn fflamio yn y tywyllwch, Sinai yn crynu hyd ei sylfeini, udgorn Duw yn seinio yn hirllaes, a'r Duw anfeidrol ei Hun yn llefaru o ganol y tân, a'r taranau a'r mellt, fel y tybia rhai, yn cymeryd lle ar ddiwedd llefariad pob gorchymyn. Yr oedd yr olygfa wedi cynyrchu y fath ddychryn yn meddwl y bobl, fel yr oeddent yn gweled fod yn rhaid cael rhyw lwybr i ddal cymundeb â Duw, nad oeddent hwy eto yn gwybod dim am dano, neu o'r hyn lleiaf ddim wedi gosod pris teilwng arno.

Wedi dysgu iddynt y ddwy wers yna, yr oedd arnynt eisiau un eto, sef gwers i uno, neu i gysoni, y ddwy gyntaf â'u gilydd. Yr oeddent wedi cael prawf fod Duw yn un tyner a thrugarog. Yr oeddent, ar ol hyny, wedi cael prawf ei fod yn

un ofnadwy; ac yr oedd perygl i'r ail wers ddileu oddiar eu meddyliau holl argraff y gyntaf: am hyny, yn y drydedd wers, y maent yn cael prawf o'i fod yn un tyner a thrugarog, *er* ei fod yn un ofnadwy. A hyny sydd yn cael ei ddangos yn y testyn hwn.

Yr oedd ofnadwyaeth golygfa Sinai wedi peri i'r bobl ddymuno i Moses gyfryngu rhyngddynt â Duw. Ac wedi iddo ef dderbyn y cyfreithiau sydd yn y tair penod flaenorol, a'u hysgrifenu mewn llyfr, a'u mynegi i'r bobl, y maent hwythau yn eu cymeradwyo, ac yn addaw eu cadw, ac i sicrhau y cyfamod a wnaed y pryd hyny rhyngddynt â Duw, gorchymynodd Moses i lanciau meibion Israel aberthu i'r Arglwydd islaw y mynydd; a chymerwyd gwaed yr aberth gan Moses i gadarnhau y cyfamod yn ol arfer y dyddiau hyny. Ar ol gwneuthur hyn, y mae Moses yn cymeryd Aaron, Nadab, ac Abihu, a deg a thriugain o henuriaid Israel, gydag ef i fyny i ran o Sinai at Dduw. Nid ydyw yn bur hawdd penderfynu beth oedd diben hyn. Gall eu bod wedi eu galw i glywed Moses yn cael ei wahodd i fyny i'r mynydd at Dduw i dderbyn deddfau a barnedigaethau, ac felly i fod yn dystion i'r bobl mai geiriau Duw oedd yn cael eu llefaru ganddo: ond tebycach mai y diben mawr oedd i'r pendefigion hyn fod yn dystion i'r bobl, mai Duw da a thyner oedd y Duw ofnadwy Hwn, mewn aberth. Rhoddwyd prawf gweithredol ar y cyfamod oedd wedi ei wneuthur. Yr oedd yr Arglwydd wedi gwahardd iddynt ar berygl bywyd ddyfod dros y terfyn oedd o amgylch y mynydd; ond, yn eu cynrychiolwyr, y maent wedi dyfod drosto; ac er hyny ni roddes ei law arnynt. Yr oedd yr Arglwydd wedi gwahardd iddynt hyll-dremu, onid ê y cwympid hwynt; ond yn awr y maent yn cael gweled Duw, ac yn lle cael eu lladd, y mae yr olwg yn troi yn hyfrydwch iddynt: y maent yn bwyta, ac yn yfed, ger ei fron Ef. Y mae y Duw yr oedd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd yn peri iddynt lewygu gan ei ofn y tu allan i'w gyfamod, yn Dduw yr oeddent yn gallu ymhyfrydu yn ei bresenoldeb, a gwledda ger ei fron yn y cyfamod hwnw.

Nid oedd yr amlygiad newydd hwn o Dduw ddim yn cymylu nac yn cuddio yr amlygiad blaenorol. Yr oedd y cwmwl yn gorchuddio y mynydd, gogoniant yr Arglwydd yn aros arno;

a Sinai, y mae yn debygol, yn parhau i grynu; feallai fod y taranau wedi distewi gyda rhoddiad y ddeddf; ond y mae yn eglur oddiwrth yr hanes fod yr olygfa yn parhau yr un mor ddychrynllyd, oblegid ymhen saith niwrnod ar ol hyn, pan aeth Moses i ganol y cwmwl, yr oedd gogoniant yr Arglwydd yn difa fel tân ar gopa y mynydd. Oddiwrth hyn, ni a welwn nad oedd Duw yn peidio â bod yn un i'w arswydo yn ei holl amgylchoedd, er fod pendefigion meibion Israel yn cael bwyta ac yfed ger ei fron. Nid ydoedd mawredd y ddeddf yn cael ei gymylu trwy iddo ef beidio rhoddi ei law ar y pendefigion; felly eto, nid yw yr Arglwydd wrth gyfarfod â phechadur mewn aberth yn cuddio dim a amlygwyd ganddo mewn un man arall. Nid y tu cefn i'w ddeddf y mae ei drugaredd yn dyfod i'r golwg, ond gerbron ei hwyneb: ar fynydd y ddeddf y mae yn cael ei gweinyddu yn awr; ac ni chyfarfu yr Arglwydd byth â'r genedl ar ol hyn, na byddai y ddeddf yn bresenol yn y cyfarfod. Cauad y ddeddf, yn y sancteiddiolaf, oedd man trugaredd.

Y gwirionedd a ddaw o dan ein sylw oddiwrth y testyn ydyw:—yr hyn ydyw Duw mewn aberth. Y mae yn y testyn dri pheth yn dangos hyny:—

I. "Ni roddes ei law arnynt." II. "Gwelsant Dduw." III. "Bwytasant ac yfasant" ger ei fron. Ni chwympwyd hwynt; ni roddes ei law arnynt. Datguddiodd ei hun iddynt: gwelsant Dduw. Ffurfiwyd, nid yn unig heddwch, ond cyfeillgarwch rhyngddynt, oedd yn hyfrydwch ac yn fwynhad o'r fath uchaf: bwytasant ac yfasant.

I. "Ni roddes ei law arnynt." Y mae rhai yn esbonio y rhoddi y llaw hwn fel hyn:—Ni chuddiodd hwynt, fel Moses, yn nghysgod ei law, i ddangos ei ogoniant iddynt. Ond y mae yr esboniad yna yn gwneuthur y rhan gyntaf o'r adnod yn anghyson â'r hyn sydd yn dilyn. Neu, "Ni roddes ei law," medd eraill:—Ni chynysgaeddodd hwynt â dawn prophwydoliaeth. Ond y mae yn ddiameu mai eu taraw, neu eu lladd, a feddylir wrth y 'rhoddi llaw' yn y testyn. Nid yn unig y mae yr ymadrodd "rhoddi llaw" yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn yn y Bibl, ond y mae yn eglur fod yma gyfeiriad at y bygythiad blaenorol, os deuent dros y terfyn y lleddid hwynt yn farw; ac hefyd at y dyb oedd yn eu plith, sef mai marw a

wnaent yn y presenoldeb dwyfol, "Os nyni a chwanegwn glywed llais yr Arglwydd ein Duw mwyach, marw a wnawn."

Ond yma, "Ni roddes ei law arnynt." Yr oedd hyn yn beth rhyfedd iawn, pan ystyriwn ni yr amgylchiadau: oblegid dyfod i'r golwg yn Ddeddfroddwr yr ydoedd; ac yr oedd anrhydedd ac urddas y ddeddf yn ei roddi dan angenrheidrwydd i wgu ar ac i gosbi ei throseddwyr. Y mae yr angenrheidrwydd hwn yn ei natur Ef ei Hun; ïe, er ei fod yn Ben-Arglwydd, ac fel y cyfryw fod pob peth yn bosibl iddo, eto y mae perffeithrwydd ei natur yn rhoddi terfyn i'r posibilrwydd; fel y mae yn anmhosibl i Dduw fod yn gelwyddog, felly y mae yn anmhosibl iddo beidio rhoddi ei law mewn cosb ar bechod. Os ydyw deddf Duw yn condemnio pechod, y mae natur Duw ei Hun yn gwneyd hyny. Y mae Duw a phechod yn elynion anghymodlawn i'w gilydd. Y mae pechod yn myned yn erbyn y Bod o Dduw. Y mae Duw o angenrheidrwydd natur yn myned yn ei erbyn yntau. Am hyny, pan y mae yn dyfod i'r golwg, fe ddisgwylir gan bawb iddo ddyfod fel cosbwr pechod; ac felly y byddai ei arfer. Pan ddisgynodd i edrych ar y ddaear cyn y diluw, gwae a fu i'w phechaduriaid hi. Pan ddisgynodd i Sodom, nid hir y bu ei mŵg hi heb esgyn i'r nefoedd fel mŵg ffwrn. Pan ddisgynodd yn y Môr Coch, fe deimlodd Pharaoh fod yn rhyhwyr iddo ffoi. Ac yn awr y mae wedi disgyn ar Sinai, ac y mae pawb a phobpeth yn teimlo ofnadwyaeth y lle a'r amgylchiadau. Nid ymddangosiad, nid rhith, nid *show*, oedd yn cymeryd lle ar Sinai i ddychrynu plantos, i godi ofn lle nad oedd ofn: na, *reality*,—peth gwirioneddol arswydlawn. Byddai mor gywir dywedyd mai *show*,—mai rhith ydyw yr hyn sydd yn uffern, ag a fyddai dywedyd hyny am Sinai. Fe ŵyr y goludog mai nid *show* sydd yno; nid fflamau wedi eu paentio ar y llian ydynt: nid golygfeydd y chwareudy mo honynt. Nid hyny oedd ar Sinai chwaith. Ystâd ddifrifol ar bethau ydyw hon hefyd, nad all y Duw a biau y ddaear ddim dyfod iddi na bydd hyny yn wae, yn ddinystr, yn angau iddi. Ond yma y mae yn cyfarfod â phendefigion meibion Israel heb roddi ei law arnynt. Y mae hyn yn beth newydd yn hanes dyn: priodol ydyw i ni droi, fel Moses gyda'r berth, i edrych ar y weledigaeth; a'r

peth cyntaf a welwn ni ydyw aberth. Hwn sydd yn esbonio yr olygfa: rhaid bod ynddo yr hyn yr oedd cyfiawnder yn ei ofyn fel cosb pechod; nid rhan o honi, ond y gosbedigaeth: oblegid, gan fod angenrheidrwydd natur yn galw ar Dduw gosbi o gwbl, yr oedd yr un peth yn galw arno gosbi hyd eithaf haeddiant y trosedd. Ac os nad ydyw yn rhoddi ei law ar y troseddwr, rhaid fod cosbedigaeth wedi bod oedd yn gosbedigaeth heddwch iddo; felly y mae yr un rhaid mewn aberth dros beidio rhoddi llaw, ag ydoedd y tu allan iddo, dros ei rhoddi hi. "Onid oedd raid i Grist ddioddef y pethau hyn." "Os myfi yr ydych yn ei geisio, gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith." Y mae cadw wedi ei godi yn awr i dir uwch na'r ewyllys da noeth. Y mae'r aberth wedi newid yr holl berthynasau rhwng y nefoedd a'r ddaear,—wedi gwneuthur Sinai ofnadwy yn Sïon ogoneddus. Fe ddywedir fod llethrau mynydd Vesuvius yn yr Ital yn brydferth iawn; y tir yn ffrwythlawn, yr hinsawdd yn hyfryd, a'r golygfeydd yn ogoneddus; ond y mae un peth arswydlawn yn perthyn iddo,—y mae er's yn agos i ddwy fil o flynyddau yn fynydd tanllyd. Y mae yn awr ac eilwaith yn bwrw allan afon o dân, peth a fydd yn ddinystr i bob peth y ffordd y rhed hi. Y mae wedi gwneyd hyn tua thri ugain o weithiau yn ystod dwy fil o flynyddoedd, ac wedi bod yn ddinystr i filoedd o ddynion. Pe byddai yn bosibl diffodd y tân yn nghrombil y mynydd, byddai yn lle heb ei ail i fyw arno wed'yn. Yr oedd tiriogaeth sanctaidd y ddeddf yn lle dymunol dros ben i drigo ynddo. Yno yr oedd holl bendefigion yr ymherodraeth yn byw. Yr oedd y *climate* mor hyfryd, y golygfeydd mor ogoneddus. Ond y mae mynydd y ddeddf er's talm yn fynydd tanllyd, yn Sinai ofnadwy i fod yn ei gymydogaeth. Ond y mae aberth wedi diffodd y tân, ac wedi ei droi yn Sïon, màn dymunoldeb a phrydferthwch, er parhau yn Sinai mewn cadernid a diogelwch; yn fangre trugaredd, er ei fod yn gartref cyfiawnder. "Wedi eich cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef,"—dyna drugaredd; "trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu,"—dyna gyfiawnder.

Peth lled ryfedd oedd gweled Haman yn anrhydeddu Mordechai; y gŵr mwyaf urddasol yn yr ymherodraeth yn anrhydeddu yr un oedd yn ddolur llygad parhaus iddo: ond nid mor

ryfedd hynyna ag ydyw gweled cyfiawnder yn gweinyddu trugaredd :—"Megis y maddeuodd Duw,"—dyna drugaredd; "*er mwyn* Crist i chwithau,"—dyna gyfiawnder. Y mae ein dinas ni, nid yn unig yn ddinas gyfoethog, am mai hi yw cartref trugaredd; ond y mae hi hefyd yn ddinas gadarn, oblegid y mae cyfiawnder yn gaerau ac yn rhagfur iddi. Yr oedd caerau o gwmpas y dinasoedd noddfa gynt. Pe buasent yn faes-drefi, sef heb gaerau a phyrth, buasai yn lled anhawdd cadw dialydd y gwaed allan o honynt, a'u gwneyd mewn gwirionedd yn noddfa i'r llofrudd; ond yr oedd y caerau a'r pyrth yn diogelu y neb a ffŏai yno. Fe ffŏdd Joab gynt at gyrn yr allor, i ddinas trugaredd, i chwilio am ei fywyd; ond nid oedd caerau o gwmpas y ddinas y pryd hwnw, ac am hyny fe'i daliwyd ef yn ninas trugaredd ei hun : ond erbyn heddyw, y mae hi wedi ei murio; y mae cyfiawnder fel mynyddoedd cedyrn o'i hamgylch, a thrugaredd yn byw yn ei chanol hi: am hyny "maddeuir anwiredd y bobl a drigant ynddi." Ni rydd neb ei law ar un o'r trigolion byth. "Pwy a rydd ddim yn erbyn" preswylwyr y ddinas? "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau." "Os yw Duw drosom, pwy a all fod i'n herbyn?" Hyn ydyw Duw mewn aberth. A ydych wedi ei gyfarfod felly? Os nad ydych, y mae myned dros y terfyn yn ol i chwi, ac os ewch drosto heb aberth, cewch deimlo mai peth ofnadwy ydyw syrthio yn llaw y Duw hwn.

II. Yr ail beth a gawsant ydoedd gweled Duw. Yr oedd y pethau dieithr oeddent wedi cymeryd lle ar Sinai cyn hyn yn peri i'r bobl deimlo fod Duw yno; ond nid oeddent yn ei weled: ac yn llyfr Deuteronomium, fe ddywedir na welsant ddim llun; ond yma fe ddywedir iddynt weled Duw, ac yn yr adnod o flaen y testyn, ni a gawn ddarluniad o'r olygfa. Ond y mae yn eglur am y darluniad, fel llawer un arall yn y Bibl, mai cais ydyw i ddarlunio peth nas gellir rhoddi desgrifiad o hono. Fe ddywedir fod yr hyn a welsant fel Saphir, fel corff y nefoedd o ddisgleirdeb. Y mae rhai yn meddwl mai yr ail Berson a ymddangosodd yno, ac mai cyfeirio at hyn y mae Ioan pan y dywed, "Ac ni a welsom ei ogoniant ef." Ond y mae yn rhaid nad hyn a fu, onidê, nid priodol a fuasai dywedyd, "Na welsant lun dim." Y mae eraill yn darllen y geiriau fel hyn :—

"A gwelsant ogoniant Duw Israel." Y gwir yw, ni ŵyr neb beth a welsant; ond gwelsant ryw olygfa yr oeddent hwy yn ei hystyried yn *weled Duw.* Ac y mae hyn i'w gael mewn aberth; oblegid ynddo y mae Duw yn ei ddatguddio ei Hun fel y mae, a thrwyddo y mae meddwl dyn yn dyfod i ystâd gymwys i weled Duw. Y mae awydd gwreiddiol yn ysbryd dyn am weled Duw, er ei fod wedi myned yn elyn iddo: eto y mae ei feddwl fel nodwydd y cwmpas;—gall hòno gael ei hysgwyd a'i symud ychydig gan lawer peth, ond nid oes dim â digon o ddylanwad arni i'w sefydlu yn ddiysgog ond y pegwn; felly nid oes ond Duw yn ddigon mawr i wneyd hyny â'ch ysbryd chwi. Am hyny nis gall ein gwynfyd ni ddim dyfod o un man ond o weled Duw. Oni ellwch chwi gynwys y byd hwn oll? ac ni fedrwch chwi ddim nofio yn hyny o ddwfr ag a fedrwch chwi ei ddal; y mae yn rhaid cael digon i'ch dal chwi cyn y medrwch chwi chwareu ynddo. Y mae y ddaear yn myned leilai o hyd fel y mae dyn yn cynyddu. Pan oedd gwybodaeth yn ei mabandod, yr oedd llyn Tiberias yn cael ei alw yn fôr, a Mor y Canoldir yn fôr mawr: yr ynysoedd hyn yn cael eu hystyried yn eithafoedd y ddaear: ond pan ddarganfyddwyd y Môr Tawelog, fe aeth Tiberias yn llyn, a'r môr mawr yn un bychan. Pan ddarganfyddwyd Awstralia a New Zealand, daeth yr ynysoedd hyn i ganol y ddaear yn lle bod yn eithafoedd iddi hi. Fe fydd y byd hwn yn myned leilai o hyd, yn yr un graddau ag y bydd dyn yn cynyddu; a chyn hir chwi gewch eich hun yn ddigon mwy na'r byd, ïe, yn fwy na bydoedd yr ymherodraeth ddwyfol oll. Y mae yn rhaid i ysbryd dyn gael gweled Duw; ac mewn aberth yn unig y mae hyny yn bosibl. Cuddio ei Hun y mae ymhob man arall: yma yn unig y mae yn datguddio. Y mae rhywbeth yn myned o'r golwg wrth i beth arall ddyfod i'r golwg, ymhob man ond mewn aberth. Am hyny yr oedd yr amlygiadau o Dduw yn cynyrchu naill ai anobaith neu ryfyg. Pan y byddai cyfiawnder a sancteiddrwydd yn y golwg, iaith dyn a fyddai, "Pwy o honom a drig gydâ'r tân ysol?" Pan y byddai golud o ddaioni yn y golwg, diystyru hwnw mewn rhyfyg y byddai calon dyn. Nid oedd yr amlygiadau yn cydweithio i gynyrchu yr un effaith, am nad oedd ond rhai o'r priodoliaethau yn y golwg ar

unwaith. Pan y byddai un yn y golwg, byddai y llall, i bob diben ymarferol, fel pe na buasai yn bod. Nid oedd gallu yn cynyrchu ymddiried, am nad oedd trugaredd yn y golwg; na thrugaredd yn cynyrchu ufudd-dod, am nad oedd cyfiawnder yn y golwg. Ond mewn aberth,—yn aberth ei Fab,—y mae Duw i'w weled, sef ei holl garacter i'w ganfod, neu ei holl briodoliaethau yn cyd-ddisgleirio. Nid adlewyrchiad o'i ogoniant sydd yma, ond ei wir ddelw, a hono mewn cyfrwng y gallwn ni edrych arni. Gellir edrych ar oleuni yr haul yn y lleuad; ond y mae yna lawer iawn o rywbeth yn cael ei golli; a phe byddai rhywun heb weled yr haul ond yn y lleuad, byddai yn briodol dywedyd ei fod heb weled yr haul o gwbl. Ond gellwch edrych ar yr haul yn y dwfr clir, a chanfod ei wir ddelw: yno nid yw yr haul yn colli dim, ac nid yw eich llygaid chwithau yn cael dim niwed wrth syllu. Yn gyffelyb i hyn y mae Duw i'w weled mewn aberth.

Mi ddymunwn wasgu at eich meddwl eto fod yn rhaid i chwi gael gweled Duw. Ni chaiff y llygad ddim digon o edrych nes ei weled. Os nad ydych yn teimlo hyny yn awr, heb adwaen eich natur yr ydych. Y mae pethau bychain, isel, feallai, yn cael eich holl sylw yn awr,—pethau y mae'r anifail yn gydstâd â chwi ynddynt: beth a fwytâwn?—beth a yfwn? Ond y mae byd yn bod, ac yn hwnw y byddwn ni yn fuan, nad oes dim o bethau yr anifail ynddo. "Nid ydynt yn gwreica nac yn gwra," yn y byd hwnw, "eithr y maent fel angylion Duw." Os felly, rhaid tynu dedwyddwch o'r un pethau a'r angel, neu fod hebddo byth. O weled Duw y mae dedwyddwch yr angel yn tarddu, sef o sylwi ar yr amlygiadau o Dduw sydd wedi dyfod i'r golwg yn ei waith, yn enwedig yn y drefn i gadw, "fel y byddai yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw;" "ar yr hyn bethau y mae yr angylion yn chwenychu edrych." Rhaid i ninau ddysgu edrych ar y pethau, neu fe fydd syched ein henaid heb ei dori byth. Os nad ydym wedi ei gyfarfod mewn aberth, yr ydym yn amddifad o'r purdeb calon sydd yn gymhwysder i'w weled; ac hefyd yr ydym heb ddyfod i'r fan y mae i'w weled.

III. "Bwytasant ac yfasant" ger ei fron: dyma gyfeillgarwch,

Y mae hyn yn fwy na'r heddwch, ac yn fwy hyd yn nôd na'r gweled. Yr oedd rhai o ebyrth cyfraith Moses yn cael eu difa oll gan y tân, neu yr oeddent oll yn eiddo Duw, megis y pech-aberth. Yr oll a ellid ei gasglu oddiwrth y rhai yna, oedd fod gobaith na chosbid am y bai,—na roddai Efe ei law arnynt; ond yr oedd eraill yn myned yn bellach na hynyna, (yn enwedig yr aberth hedd;) yr oedd yr aberthwr yn cael gwledda ger bron yr Arglwydd ar yr aberth. Nid symud y gosb yn unig oedd yma, ond derbyn yn ol i'r teulu, ac ail gychwyn cymdeithas a chyfeillgarwch. Cysgod oedd y pethau hyn: yn aberth y groes y mae sylwedd yr holl ebyrth.

1. Gan ein bod yn bwyta ac yn yfed ger ei fron, y mae yma gyfeillgarwch agos. Gwneyd gwledd i eraill a wnaeth y brenin yn y ddameg: fe ddaeth i mewn i edrych y gwahoddedigion, ond nid i gydfwyta â hwynt. Ond yr oedd yr aberthwr yn bwyta yr aberth hedd, a'r offeiriad, cynrychiolydd Duw yn cydfwyta. "Duw a dyn yn gwaeddi, digon! yn yr Iesu, yr aberth hedd." "Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef," nid i edrych arno yn swpera, O, na,—"ac a swperaf gydâg ef, ac yntau gydâ minau." Cyfeillgarwch agos!

2. Cyfeillgarwch na newidir mo hono ydyw, oblegid, cyfeillgarwch cyfamod ydyw. Yr oedd yn rhaid cael aberth gynt, cyn y byddai grym mewn cyfamod; ond wedi lladd yr aberth, ac i'r pleidiau gydfwyta, yr oedd cyfeillgarwch i fod yn barhaus. Yr oedd deddfau lletygarwch yn y Dwyrain yn gwahardd i ddyn ddïal ar ei elyn penaf, os deuai dan ei gronglwyd ef ei hun: yr oedd gwledd yn cael ei gwneyd iddo, ac yr oedd anrhydedd gŵr y tŷ yn galw arno beryglu ei fywyd ei hun, os byddai raid, i amddiffyn bywyd ei elyn tra y byddai dan ei gronglwyd ef: ond gydâ bod y gelyn wedi myned allan, yr oedd y rhwymau hyn oll yn darfod, a mynych y byddai yr hwn a wnaeth y wledd yn dilyn yn brysur ar ei ol, ac wedi 'r cyfan yn trochi ei ddwylaw yn ei waed. Ond os gwledd cyfamod fyddai hi, nid oedd perygl hynyna. Gwledd cyfamod oedd hon wrth Sinai, am hyny yr oedd y cyfeillgarwch i barhau. Os cyfarfyddi di â Duw yn aberth ei Fab, bydd yno wledd cyfamod y dydd y cyfarfyddwch chwi; ac o'r dydd hwnw allan bydd yn Gyfaill i

ti trwy gyfamod na newidir. Nid yn unig ni wna Ef ei Hun ddim dial arnat, ni chaiff neb arall wneyd hyny ychwaith. Y maent o'r dydd hwnw allan yn saint, yn rhai neillduedig, wedi gwneyd cyfamod âg Ef trwy aberth.

Yr ydym oll i gyfarfod â Duw; ond ni a allwn ei gyfarfod yn Dduw y dial, ac nid yn Dduw yr heddwch; yn Dduw yn cuddio ei Hun â thew gymylau y tywyllwch, ac nid yn Dduw i'w weled;—yn Dduw yn ein herbyn byth, ac nid yn Dduw drosom mewn cyfamod.

Os mynech chwi iddo fod fel arall, gosodwch bris ar yr aberth, ac ar y cyfle i gael ei ddefnyddio. I wybod beth ydyw cyfarfod â Duw hebddo, edrychwch ar ddychryn Israel wrth Sinai, neu ar Pharaoh yn ffoi yn y môr. Os oedd hi mor ofnadwy arno cyn dyfod at y terfyn, beth oedd hi wedi myned drosto. "Y rhai a ddioddefant yn gosbedigaeth ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef." Ond mewn aberth, ti elli wledda ger ei fron Ef yn yr olwg ar "ogoniant ei gadernid ef."

[Adysgrifenwyd Hyd. 24, 1866. 1853.]

## PREGETH XIII.

### IACHAWDWRIAETH A FYDD BYTH.

ESAIAH li. 6.—"Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod: canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant meirw; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfamod ni dderfydd."

NID rhaid i ni gael tystiolaeth o un man i wirio y gosodiad sydd yn nghanol y testyn, sef bod "preswylwyr y ddaear yn meirw," oblegid y mae yr ieuangaf sydd yn alluog o sylw wedi gweled â'i lygaid ei hunan wirionedd yr ymadrodd yma lawer gwaith. Wrth gymharu y ddaear â'r rhai sydd yn ei phreswylio, y mae yn briodol dywedyd gydâ'r Pregethwr, ei bod hi yn sefyll byth; ac nid oes gwell cymhariaethau genym i ddangos parhad ac anghyfnewidioldeb na'r nefoedd a'r ddaear. Dangosir parhad y deyrnwialen yn nhŷ Dafydd trwy ddywedyd y byddai i'w orseddfainc fod fel yr haul, ac y byddai iddi gael ei sicrhau "yn dragywydd fel y lleuad." Nid oedd iaith gadarnach i ddangos parhad enw y Messiah na dywedyd y byddai iddo barhau "tra fyddai haul." Ac os ydyw parhad yn perthyn i ryw bethau gweledig, y nefoedd a'r ddaear ydyw y rhai hyny; a hwy ydyw yr unig bethau sydd yn ein cysylltu ni â phreswylwyr cyntaf y ddaear. Ni ellir dywedyd am ddim,—Fe fu llygaid ein tad Adda yn edrych ar y rhai hyn, ond yr haul, y lleuad, a'r ser. Y mae yr arch y bu Noah yn nofio ynddi wedi darfod;—y dderwen y bu Abraham yn eistedd dani wedi dychwelyd i'w llwch;—y cawell y bu Moses yn nofio ynddo,

a'r berth a welodd efe yn llosgi ac heb ei difa,—y mae y naill wedi ei golli yn dragywydd, a'r llall wedi ei difa gan amser er's miloedd o flynyddoedd bellach. Ond wrth edrych ar y nefoedd, yr ydym yn syllu ar yr un haul ag a wnaeth yr enfys i Noah, a rhag pelydrau yr hwn yr ymgysgodai Abraham o dan dderwen Mamre;—yr un haul ag a safodd wrth orchymyn Josua, ac a guddiodd ei wyneb pan oedd Arglwydd y bywyd yn marw.

Y mae dyn, lawer gwaith, wedi ceisio gwneuthur rhywbeth i barhau, i'w gysylltu ef, pe byddai modd, â phob oes ddyfodol; ond nid oes dim yn gwneuthur hyny ond y nefoedd a'r ddaear. Y mae ei gestyll cadarnaf, ar ol cadw ei enw mewn cof am ychydig ganoedd o flynyddoedd, yn blino ar y gwaith, ac yn ei ollwng i ymgymysgu â llwch anghof. Nid cartref anfarwoldeb mewn un ystyr ydyw y byd hwn: os mynwn i'n henwau barhau, mae yn rhaid eu gosod i fyny gydâg iachawdwriaeth, oblegid deddf pob peth y ddaear ydyw "ymddangos dros ychydig, ac wedi hyny yn diflanu." Er cymaint a wnaeth Solomon i geisio cerfio ei enw ar rywbeth yn y byd hwn, ni ellir edrych ar ddim y bu efe yn syllu arno ond y nefoedd a'r ddaear. Y mae y tai mawrion a theg, â'u sylfeini wedi eu dynoethi;—y deml wych, lle y molianai miloedd Israel eu Duw, a'i meini yn y tyrau llwch;—y llynau dwfr a'r llwyni coed, y mae y naill wedi sychu, a'r lleill wedi meirw. Y Babilon fawr ar ba un y bu llygaid Nebuchodonosor yn syllu, yr hon a dybiodd fuasai yn cadw ei enw mewn coffadwriaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth, nid ydyw ei lle yn adwaen dim o honi hithau mwy. Gwywdra a darfodedigaeth ydyw nodwedd y byd hwn. Y mae pob peth y ddaear, yn gyffelyb i ddyn, yn tyfu, yn addfedu, yn gwywo, ac yn marw. Y mae ei chrefyddau hi felly: pa le y mae y delwau y bu yr hen Abraham yn eu haddoli yn Ur y Caldeaid?—pa le y mae hen grefydd yr Aipht,—ei hoffeiriaid, a'i themlau?—pa le y mae Baal, Dagon, ac Astaroth?—pwy sydd heddyw yn addoli duwiau Ninifeh a Philistia? Hyn hefyd ydyw cymeriad holl gymdeithasau y byd hwn. Y teuluoedd enwocaf, hyd yn nod teulu Dafydd ei hun, y maent wedi suddo fel tòn yn y môr, ac wedi eu colli yn dragywydd. Y teyrnasoedd a'r ymherodraethau mwyaf, y mae y rhai hyn

hefyd ar ol tyfu ac addfedu, yn dechreu gwywo, ac yn ebrwydd yn marw. Y mae ychydig ganoedd o flynyddoedd yn ddigon i ddadsylfaenu yr orsedd gadarnaf,—i symud y brenhinllys, ac i newid y deddfau. Trwy ryw ddirgel drefn, y mae y deyrnwialen yn dyfod o'r palas i'r carchardŷ;—y goron yn cael ei rhoddi oddiar ben y tywysog ar ben y caethwas;—y gweision ar feirch, a'r tywysogion yn cerdded. Cyfnewidioldeb ydyw deddf anwrthwynebol y byd hwn: y mae pob peth yn gorfod plygu iddi. Ni all dim barhau ond sancteiddrwydd. Y mae hyd yn nod pechod yn colli ei flas, fel ag y mae yn rhaid cyfnewid y campau annuwiol i'r naill oes ar ol y llall. Fe fuasai digrifwch Ninifeh yn ddiflas i Rufain, a digrifwch Rhufain yn ddiflas i Lundain; oblegid y mae deddf cyfnewidioldeb yn plygu pob peth iddi ei hun.

Y mae cyfnewidioldeb a diflaniad pethau y ddaear yn cyferbynu yn hynod â meddwl dyn. Y mae ymwybodolrwydd yn y meddwl nad oes dim diflanu yn perthyn iddo ef; am hyny y mae yn ceisio gosod ei ddelw ei hun ar rywbeth arall,—cael rhywbeth arall i gydbarhau âg ef. Os pryn efe etifeddiaeth, ni foddlonir ef âg un am gant neu ddau o flynyddoedd,—y mae yn rhaid iddo ei chael hi am byth. Os adeilada efe dŷ, y mae rhyw anian-reddf yn ei gynhyrfu i geisio gosod ei ddelw ei hun ar hwnw. Nid ydyw dyn yn gwneuthur dim ar raddfa deng mlynedd a thriugain neu bedwar ugain mlynedd: na, y mae yn gweithredu y cyfan ar raddfa dragywyddol;—yn ysgrifenu ei enw, nid fel y gall yr oes a ddel ei ddarllen, ond holl oesoedd y byd;—yn meddianu etifeddiaeth, nid am ysbaid ei oes, ond er ei chael hi i fod ynglŷn wrth ei enw yn dragywydd. Ond ni phlŷg pethau y ddaear ddim i ddeddf y meddwl. Cyfnewidioldeb ydyw eu deddf hwy; parhâd yw deddf y meddwl: heneiddio fel dilledyn y maent hwy; myned rhagddo mewn ieuenctid bythol y mae y meddwl.

Ond os ydyw y tadau yn huno,—crefyddau yn cael eu geni, ac yn marw,—teyrnasoedd yn codi, ac yn malurio,—y mae pob peth y nefoedd a'r ddaear yn parhau fel yr oeddent o ddechreuad y greadigaeth: o'u cymharu â phob peth arall, y maent yn sefyll byth; ond o'u cymharu â gwirionedd y testyn, y mae y nefoedd yn darfod fel mwg, a'r ddaear yn heneiddio fel dilledyn.

Ond y mae rhywbeth yn sefyll,—"Fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

Y mae yr Arglwydd yn nechreu y benod yn galw ar ei bobl i barhau yn eu hymddiried ynddo, oddiwrth yr hyn yr oedd Efe wedi wneuthur iddynt eisoes; ac er ei bod hi yn isel iawn ar Sïon y pryd hwnw, eto yr oedd Efe yn addaw gwneuthur ei hanialwch hi fel Eden, a'i diffaethwch fel gardd yr Arglwydd. A rhag y byddai ei ffydd yn rhy wan i gredu hyny, y mae Efe yn peri iddynt edrych yn ol ar y graig y naddwyd hwynt o honi, ac ar geudod y ffos o ba un y cloddiwyd hwynt; a chan ei fod wedi gwneuthur cymaint erddynt eisoes, oni allai Efe wneuthur hyn hefyd? Ac nid hyn yw yr oll; ond yn y bedwaredd adnod, y mae yn galw arnynt eilwaith i wrandaw:—"Gwrandewch arnaf, fy mhobl; clustymwrandewch â mi, fy nghenedl: canys cyfraith a ä allan oddiwrthyf, a gosodaf fy marn yn oleuni pobloedd." Nid yn unig yr ydwyf yn myned i wneuthur peth mawr i chwi, ond y mae y gyfraith yn myned allan oddiwrthyf at y cenhedloedd: hefyd, yr wyf yn myned i osod "fy marn yn oleuni pobloedd." Neu, yn ol cyfieithiad yr Esgob Lowth, galw ar y cenhedloedd, ac nid ar ei bobl gyfamodol, y mae Efe yn y bedwaredd adnod:—"Gwrandewch, bobloedd; clustymwrandewch, genhedloedd,"—yr ydwyf yn myned i wneuthur peth mawr i chwithau hefyd, oblegid y mae y gyfraith yn myned allan oddiwrthyf atoch chwi,—y mae fy nghyfiawnder yn agos,—y mae fy iachawdwriaeth wedi cychwyn —wedi myned allan; ac er nad allaf eich cyfeirio *chwi* yn ol, fel yr oeddwn yn gwneuthur â'm pobl, at yr hyn yr ydwyf wedi ei wneuthur i chwi eisoes, fel prawf o'm ffyddlondeb a'm gallu i gyflawni hyn hefyd; eto y mae genyf brawf i chwithau mai nid cellwair â chwi yr wyf, ond y byddaf yn ffyddlawn i'm gair, ac na newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau:—"Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod..........fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

Nid awn i gymeryd dim o'ch amser i geisio cael allan ysbryd neillduol y gair "iachawdwriaeth" yn y testyn, oblegid pa ystyr bynag a ellir ei roddi iddo, i hwn y daw pob un, ond ei olrhain: —trefn Duw i achub. Os wrth y genedl Iuddewig y llefarwyd

ef, ni allasai yr un iachawdwriaeth iddynt hwy ond hon fod byth; ac os wrth y cenhedloedd, rhaid mai hon a olygir, am nad oedd yr un dymhorol mewn addewid iddynt hwy. "Fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd;" neu, fel y golygir wrth y gair "cyfiawnder" yn fynych yn y llyfr hwn, "fy ffyddlondeb i'm haddewidion ni phalla." Y mae y Bibl yn tynu ein sylw at "iachawdwriaeth" ymhob ystyr: weithiau at ei hynafiaeth hi,—"hen drugareddau:"—bryd arall at ei maint hi,—"iachawdwriaeth gymaint;"—ond yma at ei pharhad, hi "*a fydd byth.*" Y mae ei pharhad hi yn cael ei ddangos,—

I. Trwy gymhariaeth: "y nefoedd yn darfod fel mwg, y ddaear yn heneiddio fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd yn meirw."

II. Trwy ymadrodd penodol: "a fydd byth,"—"ni dderfydd."

I. Y gymhariaeth. Fe allai fod y gymhariaeth wedi ei bwriadu yn—

(1.) I'r Iuddewon. Yr oeddent hwy drwy y blynyddoedd yn edrych arnynt eu hunain yn anwyliaid y nef. Pan y cyhoeddid rhyw addewidion gan y prophwydi, iddynt hwy, had Abraham, yr oedd yr oll, yn eu tyb hwy; ond y mae yr Arglwydd yn eu hargyhoeddi o'u camsyniad, drwy'r prophwyd, yn adnod y testyn. Fe allai na fyddai yn llawer o gam âg ef, ei gymeryd mewn ystyr ffigyrol:—"Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd,"—eich eglwys a'i seremoniau; "edrychwch ar y ddaear isod,"—eich llywodraeth a'ch trefn wladol; y mae diwrnod heb fod ymhell pan fydd eich eglwys chwi yn diflanu fel mwg; eich llywodraeth wladol yn heneiddio fel dilledyn, ac yn myned yn chwilfriw; a chwithau, y preswylwyr, yn eich cymeriad o genedl neillduedig i Dduw, wedi marw: ond nid yw fy iachawdwriaeth i ddim yn glymedig wrthych chwi;—pan fydd eich eglwys chwi wedi diflanu fel mwg, eich llywodraeth wladol wedi heneiddio fel dilledyn, a chwithau y preswylwyr, wedi marw, "fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

(2.) Y mae y gymhariaeth yn dangos anghyfnewidioldeb trefn iachawdwriaeth. Y mae yr un gymhariaeth yn cael ei

dwyn ymlaen yn Salm cii. 25, i dangos anghyfnewidioldeb Duw: felly gellir ei defnyddio hi yma i ddangos anghyfnewidioldeb trefn iachawdwriaeth. Ni bu ond un drefn i gadw enaid; a'r holl wahaniaeth rhwng yr oruchwyliaeth hon a'r hen ydyw, bod y drefn yn cael ei datguddio trwy arwyddion, mewn dameg iddynt hwy, ond yn cael ei llefaru yn eglur wrthym ni. Ni fydd yr un ffordd arall i gyfiawnhau yr annuwiol, ond trwy Gyfryngwr. Y mae hon wedi pasio yn ddeddf yn y llys; ac fe ä y nef a'r ddaear heibio cyn yr ä un iod nac un tipyn o honi heibio. Yn yr un un y mae yr holl Israel ysbrydol i ymogoneddu. Y mae llawer ffordd i uffern, ond nid oes ond un i'r nefoedd; ac ofer ydyw disgwyl am ddatguddiad o ryw ffordd arall; oblegid deddf ddidroi-yn-ol yr orsedd ydyw, na fydd yr un o feibion Adda byth yn gymeradwy ond yn yr Anwylyd;—na fydd dim cymundeb rhwng nefoedd a daear yn dragywydd ond mewn Cyfryngwr. Ac er mor groes i falchder pechadur ydyw ymostwng i Gyfryngwr, eto nid oes iachawdwriaeth yn neb arall. Y mae y cyhoeddiad sobr wedi dyfod o'r orsedd dair gwaith,—"Hwn yw fy anwyl Fab; gwrandewch ef." Os oes a fynoch chwi ddim â mi, dyma y man cyfarfod. Y mae y Mab wedi cael pob awdurdod i gyhoeddi telerau y cymod, ac os nad ymostyngwch chwi i'r rhai yma, gellwch ddisgwyl hyd oni byddo heb nefoedd,—nes y byddo y nefoedd wedi diflanu fel mwg, a'r ddaear wedi heneiddio fel dilledyn,—am glywed rhyw delerau eraill, ond yn gwbl ofer, oblegid y mae yr iachawdwriaeth hon i fod byth.

Y mae y nefoedd wedi cyfnewid mewn llawer dull, a'r ddaear wedi heneiddio mewn llawer ystyr, ond y mae iachawdwriaeth yn parhau yr un drwy yr oesoedd heb gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth. Pe deuai ein tad Adda i ymweled â'r ddaear yn awr, mi feddyliwn mai prin y medrai efe ei hadwaen. Fe allai mai gormod gorchwyl iddo yntau, fel ag y mae i'w blant, fyddai dangos sefyllfa Eden,—pwyntio allan y fan lle yr oedd pren y bywyd yn tyfu,—oblegid y mae pechod wedi crychu wyneb y ddaear, fel y mae yn anhawdd i'r neb a'i gwelodd hi yn ieuanc, ei hadwaen hi yn awr. Ond os metha efe adwaen yr hen drigfan, fe adnabyddai iachawdwriaeth mewn moment. Pe sonid wrtho am waed y groes, byddai yn barod i ateb:—"Ffydd

yn hwnyna dawelodd fy nghydwybod euog inau;"—am gyfiawnder y Meichiai,—"Dyma 'r llian main, gwyn a glân, a guddiodd warth noethni fy hen godwm i;"—am orsedd gras,—"Dyna 'r ysmotyn y cyhoeddwyd gollyngdod i'm henaid inau." Nid yr un fath yr ydys yn trin y ddaear yn awr ag yr oedd Isaac yn trin y meusydd goreu; ond yr un fath yn gwbl y mae yn rhaid trin calon pechadur iddo ddwyn ffrwyth i Dduw ag y trinwyd calon Isaac. Y maent wedi cael allan ffordd ferach i'r India o lawer nag oedd gan y tadau, ond nid oes neb wedi darganfod mynedfa newydd i'r nefoedd: y mae yn rhaid dilyn yr un *chart* ag oedd gan Dafydd,—llywio wrth yr un cwmpas ag Esaiah. Y mae gwelliant mawr mewn morwriaeth yn awr; y mae ein llongau ni yn llawer mwy cywrain na llongau Solomon a Hiram,—yn fwy priodol i'w galw yn llongau buain na llongau dyddiau Job, ond nid oes yr un gwelliant wedi ei gael allan eto ar long iachawdwriaeth. Y mae hi yr un fath i ni ag oedd hi i Solomon; yr un faint yw traul y fordaith heddyw ag yn nyddiau Hezeciah; ac os nad ydyw hi yn fuan iawn, y mae hi yn ddiogel ryfeddol, ni chlybuwyd i neb gael ei golli oddiar ei bwrdd hi erioed. "Ni chollais i yr un." Y mae dynion wedi cael allan ffordd newydd i ysgrifenu ac argraffu eu meddyliau i'w gilydd; ond nid oes yr un ffordd newydd i ysgrifenu y gyfraith ar galon pechadur. Y mae yn rhaid tori y llythyrenau yr un fath ar dy galon di ag y gwnaed ar galon Enoch a Noah. Y mae pellder yn cael ei ddiddymu gan amser: yn ein dyddiau ni y mae China yn nes i ni o lawer nag oedd hi i'r henafiaid; ond nid oes dim yn tynu y nefoedd yn nes o daith un diwrnod i ni nag oedd hi iddynt hwythau. Y mae y ffordd o'r Aipht i Ganaan eto yn myned rhwng Pihahiroth a Baalsephon, trwy ganol y Môr Coch, ar hyd y diffaethwch gwâg erchyll, heibio i odreu Sinai gymylog;—y mae hi yn amgylchu mynydd Seir, trigfa yr Edomiaid,—yn myned trwy anialwch Moab, ar hyd godreu mynydd yr Amoriaid, ac yn arwain hyd at yr Iorddonen, yn y fan y mae hi letaf a dyfnaf; ond o'i hir deithio, y mae hi yn sicr o ddwyn pawb i Ganaan: a phwy bynag a geisio fyned i mewn ryw ffordd arall, fe gyferfydd â'r un siomedigaeth a'r dynion hyny yn Israel, y rhai y daeth yr Amoriaid allan i'w hymlid a'u difetha, oblegid nid oes

amddiffyn Duw ar un ffordd ond hon. Ar hon y mae cwmwl a niwl y dydd, a llewyrch tân fflamllyd y nos: "iachawdwriaeth a fydd byth."

Gallwn gymeryd y gymhariaeth yn y fan hon eto yn ffigyrol. Pa le y mae yr eglwysi a fuant mor flodeuog yn moreu Cristionogaeth,—eglwysi Asia Leiaf, Italia, a Groeg?—yr holl ugeiniau oeddent o Jerusalem i Ilyricum, y manau y bu Paul a Pedr yn cyhoeddi eu cenadwri?—y lleoedd y bu Ioan Aur-Enau, Awstin, a'r holl dadau Cristionogol, yn efengylu? Y maent oll wedi diflanu fel mwg. Nid yw creigiau Arabia ddim yn adsain enw yr Iesu byth yn awr. Y mae holl ddinasoedd yr Aipht wedi anghofio iaith Canaan. Ethiopia a fu yn estyn ei dwylaw yn brysur at Dduw,—y mae Crist yr Arglwydd yn enw dieithr i'w hiaith hithau, er's canoedd o flynyddoedd. Ynfydrwydd fyddai anfon llythyr yn awr at y saint yn Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia. Yn ofer y cychwynai Paul a Barnabas yn awr i ymweled â'r eglwysi ymhob dinas y buant yn pregethu y gair iddynt. Y maent oll wedi diflanu fel mwg. Ond pa le y mae yr hen iachawdwriaeth? a ddiflanodd hi gyda hwynt? Na ddo; "hi a fydd byth."

Y teyrnasoedd y bu hi gynt yn ffynu ynddynt, y maent hwythau wedi heneiddio fel dilledyn. Ymherodraeth Rhufain, oedd yn ei rhwysg a'i mawredd, â'i therfynau ymron yn gydwastad â therfynau y byd adnabyddus,—y mae hi wedi heneiddio; a llawer o deyrnasoedd ac ymherodraethau a gododd i fyny ar ei hol hi, fel hithau y maent wedi darfod. Ac y mae aml un yn awr ymron a chyraedd yr adeg y bydd hi yn cael ei newid fel gwisg wedi myned yn rhy hen i gael ei defnyddio yn hwy. Ond pa le y mae yr iachawdwriaeth a fu yn lefeinio y teyrnasoedd a'r ymherodraethau yna—a heneiddiodd hi gyda hwynt? Na ddo; y mae hi yn parhau mewn ieuenctid tragywyddol,—hi "a fydd byth."

Y preswylwyr, y cenhedloedd fuant yn ei chynal hi mewn proffes gynes—y maent hwythau yr un wedd wedi meirw: y Parthiaid, y Mediaid, a'r Elamitiaid, trigolion Mesopotamia, Judea, Cappadocia, Pontus, Asia, Phrygia, a Phamphylia, yr Aipht, y Cretiaid a'r Arabiaid, y rhai a fuant oll yn llefaru yn eu hiaith eu hunain fawrion weithredoedd Duw,—y maent wedi marw.

Holl fugeiliaid Parthia oedd yn barod i ddywedyd wrth bawb am Fugail enaid—y maent wedi marw. Holl drigolion glanau Euphrates yn Mesopotamia, oedd yn cynal gair y bywyd,—y maent wedi marw. Gwinllanwyr Pamphylia, oedd wrth drin eu gwinwydd yn barod i ddywedyd wrth yr holl fforddolion am y wir winwydden,—y maent wedi marw. Fe fu y Scythiad yn rhoddi holl dân ei galon gynes i garu y Gwaredwr: fe fu yr Arabiaid yn deffro i adsain eu diffaethwch â moliant yr Hwn a fu farw ar y pren: fe fu hen ddaear sech yr Aipht yn cael ei mwydo â dagrau y rhai oedd yn edrych ar yr Hwn a wànwyd ar Galfaria: y mae y preswylwyr hyn oll wedi marw; ond pa le y mae yr iachawdwriaeth,—a fu hi farw gyda hwynt? Na ddo: hi "a fydd byth."

2. Gallwn gymeryd y gymhariaeth yn ei hystyr mwyaf llythyrenol, i fesur iachawdwriaeth. Pa un a ydyw y nefoedd a'r ddaear sydd yr awrhon, wedi eu rhoddi i gadw, trwy air yr Arglwydd, i dân, i gael eu diddymu ai peidio, nis gwyddom; ond os nad ydynt i gael eu diddymu, y mae cyfnewidiad mor fawr i gymeryd lle arnynt, fel ag y bydd yn briodol galw y rhai nesaf yn "nefoedd newydd a daear newydd;" ac y mae yn briodol dywedyd am y rhai cyntaf hyn, fod y naill yn diflanu fel mwg, a'r llall yn heneiddio fel dilledyn.

Y mae bys Duw wedi ysgrifenu dau enw—fe ysgrifenodd "Ydwyf" ar lyfr creadigaeth, a "Duw cariad yw" ar lyfr iachawdwriaeth; ond y mae llythyrenau y llyfr cyntaf yn diflanu yn raddol fel mwg, a'r defnyddiau yn heneiddio yn feunyddiol fel dilledyn. Ond am yr ail, y mae defnyddiau a llythyrenau hwn yn dragywyddol; ac nid yw o gymaint pwys fod y cyntaf yn heneiddio ac yn diflanu, oblegid nid oedd yn cael fawr iawn o sylw mewn cymhariaeth, am fod yr ail wedi sugno sylw pawb, hyd yn nod angylion, oedd mewn gwell mantais i ddarllen y llyfr cyntaf na ni o lawer, fel mai yr ail yw eu hoff lyfr hwythau,—ar hwn y maent yn chwenychu edrych; ac ni chofir y cyntaf, ac ni feddylir am dano, yn fuan, oblegid fe fydd pawb wedi eu llenwi â gorfoledd yn dragywydd uwchben rhyfeddodau cynwys yr ail.

Ysgaffald ydyw creadigaeth wedi ei chodi i gael adeiladu tŵr iachawdwriaeth: ymhen ychydig fe fydd y Duw mawr yn

cynhyrfu y ddaear, a'r nef hefyd,—yn ysgwyd y cyfan,—nes y bydd yr ysgaffaldiau oll yn syrthio. I ba beth? "Fel yr aroso y pethau nid ysgydwir:" fel y caffo pawb fantais i ganfod tŵr iachawdwriaeth yn ei holl ogoniant a'i harddwch; a syllu ar hwn fydd gwaith tragywyddoldeb wedi'n.

Y mae gweithrediadau dyn, o'u cymharu â'i oes, yn ymddangos yn dragywyddol. Mor ryfedd y mae parhad pyramidiau yr Aipht yn cyferbynu âg oes y rhai a'u hadeiladasant! Y mae oes y rhai a adeiladasant Athen yn ymddangos yn ddim yn ymyl ei hoes hi;—oes y rhai a adeiladasant Lundain yn ymddangos megis mynyd awr yn ymyl ei pharhad hi. Ond er parhad y gweithrediadau, y mae y ddaear o'i chymharu â'r gweithredoedd hyn yn dragywyddol. Y mae pyramidiau yr Aipht yn ieuainc o'u cymharu â'r hen Nilus sydd yn ei dyfrhau hi. Nid yw Athen ond megis er doe o'i chymharu â'r hen Olympus sydd yn y naill du iddi;—Llundain ond yn ei mabandod yn ymyl yr hen afon sydd yn rhedeg drwyddi. Ond gosodwn y nefoedd a'r ddaear yn ymyl iachawdwriaeth, y maent hwythau yn myned yn ddim. I'n golwg ni, beth a all barhau yn hwy na'r haul,—a all sefyll mor hir a'r ddaear? Y mae'r haul wedi gweled gosod i lawr gadarn sylfaen Ninifeh: fe'i gwelodd hi yn cynyddu, nes yr oedd ynddi ddeuddeng myrdd o blant: fe'i gwelodd hi yn gwywo,—yn heneiddio,—nes o'r diwedd i'r bwthyn olaf syrthio. Y mae'r haul wedi gweled sylfeini Babilon yn cael eu tòri: fe'i gwelodd hi yn cynyddu fel planhigyn wrth afon, nes myned yn gadarn iawn fel derwen; fe'i gwelodd hi yn gwywo—yn heneiddio—ac yn darfod, nes myned yn anghyfanedd drigfan i'r cathod a'r dylluanod. Ond er iddo weled diwedd myrdd o bethau, y mae un peth na wêl yntau ddim o'i ddiwedd—"iachawdwriaeth."

Beth a all sefyll mor hir a'r ddaear? Y mae llawer peth wedi ceisio, ond colli y dydd a wnaethant oll. "Byth y byddaf arglwyddes," meddai dinas Nebuchodonosor; ond ymaith yr aeth hi. Fe safodd teml Diana yn hir; ond ymaith yr aeth hithau. Y mae tŷrau yr Aipht wedi goroesi pob peth arall; ond fe saif y ddaear pan ânt hwythau i ffordd. Un ymherodraeth a ä ymaith, ac ymherodraeth arall a ddaw; ond y ddaear a saif. Un gyfundrefn o grefydd a ä ymaith, a chyfundrefn

arall a ddaw; ond y ddaear a saif. Fe ä gwybodaeth a dysgeidiaeth ymaith o'r dwyrain, a deuant i fyny yn y byd gorllewinol; ond y ddaear a saif. Fe ä Paganiaeth ymaith, a daw Mahometaniaeth yn ei lle; ond y ddaear a saif. Fe ä eilunaddoliaeth ymaith o ymherodraeth Rhufain, a daw Pabyddiaeth yn ei le; ond y ddaear a saif. Ond y mae diwrnod heb fod ymhell pan ddeffry y Cristion, ac erbyn iddo edrych i fyny ni bydd nefoedd,—hi fydd wedi diflanu fel mwg. Edrych o'i amgylch ar y ddaear,—ni fydd ei lle yn adwaen dim o honi hithau mwy,—hi fydd wedi ei symud fel hen ddilledyn o'r golwg. Ond os bydd yr haul naturiol wedi diflanu, fe fydd Haul Cyfiawnder yn ei lawn rym. Os bydd y saith seren ac Orïon wedi eu colli, fe fydd seren Bethlehem mor ddisglaer ag erioed. Os bydd creigiau Eryri wedi eu diddymu, fe fydd hen dalgraig iachawdwriaeth yn ei llawn faint. Os bydd y nefoedd yn myned ymaith gydâ thwrf, fe fydd iachawdwriaeth yn sefyll. Os bydd y ddaear a'r gwaith fydd ynddi yn llosgi, fe fydd iachawdwriaeth, fel y tri llanc yn y ffwrn, heb ei difa gan y fflamau, ac nid ä sawr y tân arni. Pan y bydd coed, gwair, a sofl creadigaeth yn llosgi,—fe fydd aur, arian, a meini gwerthfawr iachawdwriaeth yn parhau. "Fy iachawdwriaeth a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

Pabell wedi ei chodi gan y Duw mawr i breswylio am ychydig ynddi ydyw y greadigaeth: 'y mae Efe wedi taenu y nefoedd fel llèn, ac wedi ei lledu hi fel pabell i drigo ynddi.' Y mae y Salmydd yn edrych arno yn tỳnu y babell i lawr, yn plygu i fyny y lleni,—"fel gwisg y newidi di hwynt." Ond "Castell y creigiau,"—tŵr dinas,—yw iachawdwriaeth. Y mae Efe yn meddwl preswylio yn dragywydd yn hon: dyma ei drigfan, oblegid 'chwenychodd hi.' Cicaion yw creadigaeth: y mae rhyw bryf wedi taraw ei gwraidd hi er's amser maith bellach: y mae hithau yn gwywo yn raddol; ac o'i chymharu âg iachawdwriaeth, y mae yn briodol dywedyd am dani, mai mewn noswaith y bu, ac mewn noswaith y darfu: ond nid mewn noswaith y bu pren iachawdwriaeth;—na, y mae yn estyn ei wreiddiau i'r tragywyddoldeb diddechreu; nid mewn noswaith y derfydd ychwaith,—na, y mae ei frigau yn ymledu yn y tragywyddoldeb diddiwedd; am hyny fe fydd ffrwyth arno, a

chysgod dano, i bechadur yn dragywydd—fe "fydd byth."

Y mae y gymhariaeth yn dangos hefyd anymddibynoldeb yr iachawdwriaeth ar bawb sydd yn dwyn cysylltiad â hi. Y mae y rhai hyn yn meirw yr un wedd, neu fel y pryfyn distadlaf,—y rhai a dybid yn golofnau oddidani, ac i olwg ddynol yn anhebgorol angenrheidiol i'w pharhad hi. Ar ol i ambell un o'r rhai hyn syrthio, yr oedd llawer yn disgwyl gweled iachawdwriaeth yn syrthio hefyd, fel yr oedd y barbariaid yn disgwyl gweled Paul wedi iddo gael ei frathu gan y wiber; ond ar ol hir ddisgwyl nid oes dim niwed yn digwydd iddi hi. Y mae ei bywyd hi wedi ei guddio yn Nuw; a thra y bydd Efe yn anfarwol, fe fydd hithau felly. Ar ol i Paul syrthio, gallesid meddwl y buasai y philosophyddion yn meddianu y maes; ond fe gododd aml ymresymwr medrus i fyny ar ei ol ef. Pan aeth Barnabas i lawr, gallesid meddwl y buasai holl feibion a merched galar yn tori eu calon; ond fe gododd aml "fab diddanwch" i fyny ar ei ol ef. Pan fu farw yr hen Ioan serchog, gallesid meddwl y buasai yr eglwys yn myned yn chwilfriw; ond fe ddaeth aml ddisgybl anwyl ar ei ol ef, i godi dwylaw sanctaidd, gan erfyn ar y saint i garu eu gilydd. Ac i ddyfod yn nes adref, pa le y mae ein hen dadau ninau? Onid oeddem yn eu tybied yn golofnau anhebgorol angenrheidiol i gynhaliaeth achos Duw yn ein plith. Ni byddai ein cymanfa ni ddim yn gymanfa hebddynt hwy;—ein cyfarfod misol ddim yn deilwng o'r enw os na fyddent hwy yno; ond y maent yr un wedd wedi marw. Ni chafodd Sir Feirionydd yr un cyngor gan Charles ddoeth, er's dros ddeng mlynedd ar ugain.* Y mae tafod medrus Rowlands wedi distewi er's dros haner can' mlynedd. Elias danllyd, hyawdl, fu yn desgrifio Sinai o'n blaen, nes yr oeddem yn gweled y tân; a fu yn tynu y farn i'n hymyl, nes yr oeddem bron yn teimlo ein hunain yno;—fu yn gweiddi, "Wele Oen Duw," nes oedd Calfaria a'r groes yn ymagor yn eu holl ogoniant o flaen ein meddwl. Y mae yntau wedi marw; ond yr hen iachawdwriaeth a ddiferodd yn felus oddiar eu tafodau, nid aeth hi ddim ymaith gydâ hwynt. Pan oeddent hwy yn myned ymaith yn y cerbyd, syrthiodd hi yn ol fel mantell Elias: fel gwialen Moses, arosodd hi yma ar eu hol hwy. Er

* Pregethwyd hon yn 1846.

y dywedwn ni mewn galar, gydag Eliseus, "Fy nhad, fy nhad," wrth eu gweled yn myned, ni ddywedwn ddim fod "cerbyd Israel a'i farchogion" wedi eu colli;—iachawdwriaeth i'n hamddiffyn wedi colli; na, hi "a fydd byth." Ac, yn lle ei bod hi yn marw gydâ hwynt, y maent hwy yn cael byw gydâ hi. Ac yn wir, er mor ddiflanedig yw pethau ar y ddaear yma,—er ei bod wedi ei llunio o ddefnyddiau darfodedig iawn,—eto fe rydd iachawdwriaeth ryw fath o anfarwoldeb iddi hithau hefyd. Fe fydd ei henw hi byth yn gadwedig gydag iachawdwriaeth. Yr oedd yr hen ymfudwyr i America yn fynych yn galw eu tir a'u trefydd, eu mynyddoedd a'u dyffrynoedd, wrth enwau lleoedd felly yn y wlad hon, o ba un yr oeddent hwy wedi dyfod. Yr oedd hen wlad eu genedigaeth yn cael rhyw fath o fod newydd yn myd pell y Gorllewin. Felly y mae iachawdwriaeth wedi anfarwoli y ddaear: fe fydd hen wlad ein genedigaeth yn cael ei thragywyddoli yn myd newydd iachawdwriaeth. Ni fuasai fawr o sôn am Bethlehem ymhen miloedd o oesoedd ar ol dydd y farn, oni bai fod Gwaredwr pechadur wedi ei eni yno. Fe fuasai rhosyn Saron wedi ei anghofio yn y nefoedd, oni buasai iddo fod yn enw ar Anwylyd Sïon ar y ddaear. Fe fuasai enw Calfaria wedi symud i anghof fel ei lwch, oni bai fod Arglwydd y bywyd wedi marw yno. Beth bynag a gyffyrddo âg iachawdwriaeth, y mae rhyw rinwedd yn myned allan o honi sydd yn ei anfarwoli yn y fan. Hi "a fydd byth."

II. Y mae parhad iachawdwriaeth yn cael ei ddangos trwy ymadroddion penodol. Hi "a fydd byth," ac "ni dderfydd;" ac y mae pob peth yn cadarnhau fod y geiriau i'w cymeryd yn eu hystyr ëangaf; oblegid—

1. Ni buasai hi ddim yn iachawdwriaeth i ddyn heb fod byth. Ni wyddom ni ddim beth ydyw anfarwoldeb: ni fedrwn ni ddim ffurfio un syniad am dragywyddoldeb; ond y mae bod ein meddwl yn gallu ymbalfalu ymlaen i'r byd a ddaw, er mai byd afluniaidd a gwâg i ni ydyw, a'n bod yn methu cael lle i roddi ein troed i lawr ynddo, eto, y mae ein bod yn teimlo fod rhywbeth a elwir "tragywyddoldeb" yn bod, er na fedrwn ei ddesgrifio,—fod ein meddwl yn gallu rhodio cilfachau rhyw ddyfnder sydd tu hwnt i byrth marwolaeth,—y mae hyny, i ni,

y peth agosaf at brawf sicr fod y fath le yn ein haros. Ac er bod yr enaid yn neidio yn ol mewn dychryn rhag diddymdra, eto, pan y gellir ei ddwyn i sefyll uwch ben yr ochr arall, braidd na chiliai yn ol gyda'r un dychryn rhag byw byth, oblegid onid ydyw yn feddwl arswydus ac ofnadwy fod perthynas rhyngwyf fi ag anfeidroldeb,—fy mod i yn gydstad â Duw mewn parhad? Nodwch allan ryw bwynt,—rhoddwch ef cyn belled ag y mynoch, dywedwch, filiwn o oesoedd am bob tywodyn ar lân y môr,—yr wyf ymhen ychydig yn cael fy nghymodi â'r parhad maith yna,—yn dysgu edrych ar y nôd pell draw heb ddychrynu, oblegid y mae gan fy meddwl rywbeth i ymaflyd ynddo yn y fan yna. Ond, dywedwch fy mod i fyw byth; yr wyf yn boddi,—yn arswydo,—uwchben y meddwl yna. Ni fedraf ffurfio un dychymyg am hyny;—y mae yn feddwl rhy fawr i'm henaid bach i ei gynwys am foment. Ond er nad allaf ei amgyffred yr wyf yn teimlo ei wirionedd, oblegid y mae cysgodau y byd a ddaw yn syrthio ar fy ysbryd i. Yr wyf yn teimlo sugn cryf tragywyddoldeb yn fy nhynu yn gyflym iddo ei hun: ac yn nghanol mynydau hapusaf y byd hwn, y mae rhyw awel o'r byd a ddaw yn chwythu niwl y byd hwnw yn brudd-der dros fy meddwl, nes y mae holl ogoniant hwn yn diflanu yn y fan. Y mae y ddolen yma sydd yn fy nghysylltu âg anfeidroldeb yn fy ngwneuthur yn ddychryn i mi fy hun. Beth a wnaethai creadur fel hyn âg un iachawdwriaeth heb law un dragywyddol? Ac nid yn unig buasai ei pharhad yn rhy fyr i ateb i ddyn, ond hefyd ni fuasai yn alluog i ddigoni yr enaid am ddiwrnod heb fod yn dragywyddol. Un o'r pethau anhebgorol angenrheidiol i wneuthur y llawenydd sydd ar ddeheulaw Duw yn ddigonolrwydd llawenydd ydyw ei fod yn un tragywydd, oblegid ni all yr enaid ddim ymollwng i fwynhau, os gall weled diwedd ar y mwynhad hwnw: a'r brif atalfa iddo roddi ei holl nerth ar bethau y byd hwn ydyw ei fod yn gallu gweled y diwedd. Y rheswm dros fod y rhai sydd â gwragedd iddynt megis pe byddent hebddynt—y rhai sydd yn wylo megis heb wylo—y rhai sydd yn llawenhau megis heb lawenhau—y rhai sydd yn prynu megis heb feddu—ydyw am fod yr amser yn fyr. Y mae y diwedd fel angel â chleddyf noeth yn ei law, yn cadw yr enaid

rhag myned i mewn i baradwys amser; a phe buasai amser iachawdwriaeth yn fŷr, er ei holl ragoroldeb, buasai yn annichonadwy iddi wneuthur un enaid dyn yn ddiddan am ddiwrnod:—fe fuasai yn llawenhau yn yr Arglwydd, megis heb lawenhau—fe fuasai y Gwaredwr ganddo, megis pe buasai hebddo—ac er prynu yr etifeddiaeth fawr, buasai megis heb feddu; fe fuasai gweled y diwedd yn ei gadw mor wirioneddol rhag mwynhau paradwys iachawdwriaeth a phe buasai cerub â chleddyf tanllyd ysgwydedig rhyngddo a hi. Ac y mae pawb sydd wedi sylwi ar yr awydd sydd yn ei fynwes am gael llawer o bethau y byd hwn, yn gweled mai oddiar y teimlad yma y mae yn ceisio cael rhyw foddion i argyhoeddi y meddwl na wêl ef ddim o'u diwedd, oblegid nis gall dyn ddywedyd wrth ei enaid, gorphwys, bwyta, ŷf, bydd lawen, os na fydd ganddo *dda lawer* wedi eu rhoddi i gadw am *lawer o flynyddoedd.*

Fel y dywedodd un, nid oes yr un cybydd ar y ddaear ond dyn. Y mae y morgrugyn a'r wenynen yn llanw eu celloedd drwy ryw reddf *(instinct)* sydd ynddynt; ond y mae tragywyddoldeb dyn yn ei wneyd yn gybydd: y mae casglu trysor mor naturiol iddo ag ydyw anadlu; ond gwreiddyn ei drueni ydyw ei fod wedi methu y gwrthddrychau: yn ceisio cuddio pethau y ddaear, fel y cuddiodd Jeremiah y gwregys mewn hollt yn y graig, yn y man diogelaf; eto y mae gwyfyn darfodedigaeth yn eu hysu, a phryfyn diddymdra yn eu bwyta; a phan y bydd mwyaf o'u heisiau, ni fyddant dda i ddim;—yn pentyru aur y byd hwn, yn lle yr aur sydd wedi ei buro trwy dân;—yn ceisio cael gan y llinynau syrthio iddo ar un o leoedd hyfryd y byd hwn, yn lle ar un o etifeddiaethau teg gwlad yr addewid;—yn galw un o dai darfodedig y byd hwn ar ei enw ei hun, yn lle un o drigfanau tragywyddol y Jerusalem fry.

Drachefn, oni buasai ei bod hi byth, fe fuasai iachawdwriaeth yn llawn chwerwder i'w meddianydd. Yn ol graddau y cysur yr ydym yn ei gael o unrhyw wrthddrych, yn ol hyny y bydd chwerwder y boen o feddwl am ei golli. Y mae galar rhieni ar ol plentyn hoff yr un faint ag oedd eu serch ato. Felly yn ol graddau rhagoroldeb iachawdwriaeth y buasai y chwerwder o'i cholli. Gwell i ni fuasai peidio cael profi bara y bywyd

erioed, os rhaid i ni gael ein troi yn ol at yr hen gibau eto;—peidio yfed unwaith erioed o afon Duw, oni chawn ni barhau i yfed byth o honi;—peidio teimlo am foment yr hyfrydwch sydd mewn iechyd enaid, os rhaid i ni fyned yn ol i afael yr hen bla drachefn. Ofn peth fel hyn ydyw yr atalfa fawr i ni fwynhau iachawdwriaeth yn y byd hwn. Y mae hi yn rhoddi dogn dydd yn ei ddydd i'r Cristion gwan; ond y mae ef mor amheus ar y ddaear,—y mae wedi cael ei siomi gymaint o weithiau, nes y mae yn fynych yn ofni y siomir ef ganddi hi hefyd,—am hyny y mae yn methu mwynhau yr hyn sydd ganddo heddyw, rhag ofn y bydd ef heb ddim yfory. Y mae ofni dydd trallod yn chwerwi dydd hyfrydwch a llawenydd;—ofn angau yn atalfa ar ffordd perffaith fwynhad bywyd. Ac, fel y dywedodd un, feallai y bydd raid i'r enaid fod am beth amser yn y nefoedd, cyn y llwyr argyhoeddir ef ei fod wedi cyraedd y pethau nid ysgydwir: yn debyg fel y byddwn ni, pobl y tir, ar ol bod mewn llong am ychydig oriau, wrth ddyfod o honi, yn dyfod â'i hysgogiadau gydâ ni, nes y byddwn yn gweled ac yn teimlo y ddaear a'r tai yn ysgwyd fel hithau; a rhaid i ni fod am beth amser ar y tir cyn y deuwn i deimlo yn iawn fod pethau nid ysgydwir o'n hamgylch. Felly, feallai y bydd hen long amser wedi cynhyrfu cymaint ar enaid y Cristion, nes y bydd ef yn gweled ac yn teimlo pob peth hyd nod yn y nefoedd, yn ysgwyd am ychydig. Pe dywedai rhyw angel wrtho fod y dedwyddwch sydd yn ei amgylchu i fod yn feddiant iddo dros byth, feallai y byddai y newydd yn rhy dda i'w gredu mewn moment,—mai llesmeirio a wnai, fel y gwnaeth yr hen Jacob pan y clywodd fod ei fab Joseph yn fyw. Feallai mai gwaith amser fydd ei lwyr argyhoeddi ei fod wedi gadael byd y siomedigaethau, ac wedi cyraedd o'r diwedd y pethau nid ysgydwir; ond y foment y cyll efe deimlad cynhyrfus y ddaear, fe ymollynga i fwynhau;—caiff holl ffrwd ei serchiadau redeg allan ar Dduw yn natur dyn. Ni ddywed ef ddim, "Hyd yma yr äi di" wrth ei serch;—na, ni fydd anghymedroldeb yn bosibl yn y nef, na gofal dros dranoeth yn angenrheidiol yno, oblegid fe fydd "byth" iachawdwriaeth wedi llwyr ddileu hwnw.

Tragywyddoldeb iachawdwriaeth sydd yn tynu arswyd y byd a ddaw o feddwl y Cristion. Gwlad ddieithr i mi fyddai

America, oblegid nid oes genyf yr un berthynas yno; ond y mae yno lawer o'm cenedl, a rhai a adwaen i. Gwlad ddieithrach o lawer fyddai Affrica; nid oes yno neb a adwaen i; ond y mae yno Saeson, y rhai yr wyf yn medru eu hiaith. Ond dieithrach na hyny o lawer fyddai Arabia, oblegid, er bod yno ddynion, ni fedrwn i yr un gair o'u hiaith. Dieithrach na'r oll fyddai gororau y pegwn gogleddol, oblegid nid oes yno ddim dynion—unigrwydd ofnadwy sydd yno—fe orlenwid yr enaid â braw wrth feddwl am y fath le. Dyna y fath le yw tragywyddoldeb i ddyn heb iachawdwriaeth; ond y mae hi yn poblogi yr unigrwydd ofnadwy yna; y mae hi yn ymsymud ar wyneb y tryblith, y *chaos*, nes y mae y tragywyddoldeb afluniaidd a gwag yn dyfod yn fyd gogoneddus o flaen y meddwl. Y mae hi yn cymodi meddwl y Cristion â'r wlad trwy ddywedyd wrtho,—"Dy genedl di sydd yn preswylio yn yr holl drigfanau;"—trwy sibrwd yn ei glustiau,—"Dy Frawd sydd yn llywodraethu y cyfan: na fydd amheus; y mae holl drysorau y wlad dan law Joseph. Ac er bod yr anfeidroldeb yna yn dy ddychrynu, eto, nac ofna, ni'th adawaf yn dragywydd,—ni'th roddaf i fyny byth. A cher bron pa lŷs bynag y'th elwir i ateb, pan na saif neb gydâ thi, mi a safaf ac a'th nerthaf yn oes oesoedd."

2. Ni buasai iachawdwriaeth yn deilwng o Dduw, heb fod byth. Gallasai fod yn ogoneddus dragywyddol heb wneuthur iachawdwriaeth; ond yr oedd yn anmhosibl iddo fod yn ogoneddus wrth wneuthur, heb wneuthur un dragywyddol. Yr oedd Moses yn dwyn caracter Duw yn ddadl dros ddwyn y genedl wrthnysig i wlad yr addewid; a Josua yn dwyn yr Enw mawr yn rheswm dros iddo eu hamddiffyn yno: felly y mae y caracter a'r Enw o blaid dygiad Israel i Ganaan, ac o blaid eu hamddiffyniad yno. Pe byddai i'r saint farw yn yr anialwch, cwmwl ar garacter eu Duw fyddai hyny. Pe byddai i ryw anffawd ddigwydd iddynt yn ngwlad yr addewid, beth a ddeuai o'i Enw mawr Ef?—Nid aeth Efe ddim i adeiladu tŵr iachawdwriaeth heb fwrw y draul yn gyntaf. Ni chaiff neb ddywedyd iddo ddechreu adeiladu, ac na allodd orphen. Ac yn wir, yr oedd y modd y gweithid iachawdwriaeth yn myned yn bur bell i brofi ei bod hi i barhau yn hir. Y mae pob peth

sydd a pharhad ynddo yn cael ei ddwyn o amgylch yn raddol iawn. Gair a ddygodd y greadigaeth i fod. A dywedyd yn ol dull dyn, nid aeth y Duw mawr ddim i drafferth gyda hon, oblegid nid oedd i barhau yn hir: yr oedd hi i ddiflanu fel mwg, ac i heneiddio fel dilledyn ; ond fe ddynoethodd ei fraich i wneuthur y wisg ni heneiddia, sef cyfiawnder tragywyddol, i bechadur. Ac fe fuasai yn gywilydd gan y Duw mawr ei alw yn Dduw i bechadur, oni bai ei fod wedi parotoi dinas iddo. Pan y mae brenhinoedd y ddaear yn rhoddi rhoddion, nid angen y derbynydd ydyw eu rheol hwynt, ond eu caracter eu hunain; —nid beth a ddigona y derbynydd, ond beth fydd yn deilwng o'r rhoddwr. Felly, pan aeth y Duw mawr i roddi rhodd i feibion Adda, fe benderfynodd roddi rhywbeth a fyddai yn deilwng o hono ei hun. Ac y mae y ddinas sydd wedi ei pharotoi y fath fel na fydd raid iddo gywilyddio meddwl mai Efe a'i rhoddodd hi. "Nid cywilydd ganddo ei alw yn Dduw iddynt hwy, oblegid efe a barotodd ddinas iddynt;"—dinas ag iddi sylfeini hefyd: digon o barhad ynddi. Ac y mae hyny wedi ei ysgrifenu ar ei holl adeiladau,—"Saer ac adeiladydd yr hon yw Duw;" ac y mae hi yn anfeidrol deilwng o hono.

Y mae yr iachawdwriaeth hon yn dragywyddol,—

1. Yn ei natur ei hun. Nid oes dim elfenau dinystr ynddi, oblegid y mae Alpha ac Omega hon yn gwbl yn Nuw. Pe buasai y ran leiaf o honi wedi ei roddi i ymddibynu mewn rhyw ystyr ar greadur, o ran dim a wyddom ni, gallasai chwyldroadau y byd tragywyddol beri i rywbeth fyned o dan y sylfeini, a thynu yr adeiladau i lawr, oblegid cyfnewidioldeb ydyw caracter creadur, hyd yn nod y perffeithiaf yn y nef. Ond ar graig y Duwdod y mae yr oll o honi yn sefyll: "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir; am hyny ni ddifethwyd chwi, meibion Jacob." Pe buasai ei pharhad hi yn ymddibynu ar nerth braich y Cristion cryfaf yn y nef, ni fuasai sicrwydd na welsid meibion Adda yn syrthio yn un llwyth mawr, hyd yn nod oddiar fynydd Duw, i'r pydew diwaelod; ond gan mai breichiau tragywyddol sydd yn eu dal, y mae holl elfenau dinystr yn ddigon pell oddiwrthynt.

Y mae rhai yn profi anfarwoldeb yr enaid oddiwrth fod y meddwl yn sylwedd syml *(simple)*, nad oes ynddo ddim elfenau

i wrthdaraw eu gilydd, am hyny nad oes ynddo ddim ar ei ffordd i fyw byth. Felly yn gwbl y mae iachawdwriaeth: rhyw-beth syml, digymysg, ydyw, a chariad yw hwnw. Cariad yw y dechreu, y canol, a'r diwedd; a chariad byth ni chwymp ymaith: oblegid gan mai er ei fwyn ei hun y mae yr Arglwydd yn trugarhau, fe barha i wneuthur hyny hyd nes y caiff ryw achos ynddo ei Hun i beidio: a pha bryd y bydd hyny? "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Fel y mae iachawdwriaeth wedi tarddu o gariad Duw, y mae haelfrydedd y Jehofah yn brawf y pery hi, oblegid fe fydd yr un rheswm am iddo garu *i* dragywyddoldeb ag oedd iddo garu *o* dragywyddoldeb. Fel y mae hi yn werth gwaed, y mae cyfiawnder Duw yn brawf y pery hi; gan fod y Bugail wedi ei daraw, y mae cyfiawnder yn dywedyd uwchben y praidd, "Gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith." Ac fel y mae yn waith Ysbryd Duw, y mae doeth-ineb Duw yn brawf y pery hi, oblegid pa bryd y methodd Efe a gwneuthur dim i ateb y diben?—Er myned o amgylch ogylch y Sïon hon, ac ystyried ei rhagfuriau, ac edrych ar ei phalasau, nid oes yr un agen i'w chanfod mewn un man,—dim elfenau dinystr o'i mewn,—dim hadau marwoldeb yn ei natur: hi "a fydd byth."

2. Hi a fydd byth yn ei hargraffiadau ar feddyliau pawb. Ni wn i a fydd y Bibl sydd yn ei chynwys hi byth ai peidio: y mae yn lled debyg na bydd; ac ni bydd raid ei ysgrifenu âg inc ar bapyr, oblegid fe fydd Ysbryd y Duw byw wedi ei ysgrifenu ar galonau yr eglwys, fel ag y deallir ac y darllenir ef gan yr holl greadigaeth. Fe fydd wedi ei ystrydebu *(stereotyped)* yn enaid y Cristion: y geiriau sydd yn awr yn inc a phapyr, byddant yn ysbryd ac yn fywyd ynddo ef byth. Fe fu y gyfraith ymron cael ei cholli unwaith, pan y tòrodd Moses y llechau; ond nid oes berygl i ddim felly ddigwydd i iachawdwriaeth, oblegid y mae wedi ei cherfio ar lechau nad oes modd eu tori. Copi o galon Barnydd cyfiawn yw y gyfraith: copi o galon Tad trugarog yw yr efengyl, wedi ei lliwio yn ei garacter Ef, fel y mae lliwiau yr enfys yn rhedeg i'w gilydd, nes y mae y naill yn dangos prydferthwch y llall. Ni fydd eisiau phylacterau yn y nef i gadw iachawdwriaeth yn nghôf y trigolion, oblegid corff iachawdwriaeth a fydd yr eglwys.

Fe fydd ei hargraffiadau hi yn dragywyddol ar bawb. Pan ofynodd rhywun i baentiwr enwog unwaith, Paham yr oedd yn cymeryd cymaint o drafferth gyda'i waith? "Yr wyf yn paentio," meddai, "i'r oes a ddel:" felly yr ydwyf finau a'm brodyr bob Sabbath yn paentio i'r oes dragywyddol. Meddwl sobr a phwysig ydyw hwn. Ysgrifenwch ar y traeth,—tòrwch y llythyrenau yn fawrion ac yn ddyfnion;—ewch yno ymhen chwe' awr, fe fydd pob llythyren wedi ei dileu;—ond yr wyf fi yn ysgrifenu yma yn awr; er nad oes genyf bin o haiarn, nac ewin o adamant, eto, fe fydd pob llythyren ar dy enaid di byth,—y mae pob llinell yn un dragywyddol. Hyny yr ydym yn ei wneuthur bob odfa,—gwneuthur y bwysi myrr yn fwy i'r gwrandawyr: chwi ewch oll o'r byd hwn â bwysi myrr yr efengyl yn llaw yr enaid, ac fe fydd yn arogl bywyd i fywyd, neu yn arogl marwolaeth i farwolaeth iddo byth.

*Mold* ydyw y Bibl i ba un y mae pob Cristion, yn ol geiriau yr apostol, yn cael ei draddodi;—y ffurf o athrawiaeth i ba un y'ch traddodwyd. Y mae efe yno i ufuddhau o'r galon iddi, yn cymeryd ei lunio yn ystwyth ganddi,—ac fe fydd pob argraff sydd ar y *fold* ar ei enaid yntau byth. Argraff y cariad sydd arni hi, wedi ymweithio yn gariad trwy ei enaid ef; y sancteiddrwydd sydd arni hi, wedi ei wneuthur yntau yn sanctaidd hefyd. Argraff mawredd Duw sydd arni hi, wedi ei wasgu i le creadur, sef llai na dim. Fe fydd hollddigonedd wedi rhoddi cwbl ymddibyniad,—pen-arglwyddiaeth wedi rhoddi argraff o berffaith ufudd-dod; fe fydd ei hol hi oll ar enaid y Cristion; ac fe fydd ei hargraff ar yr annuwiol hefyd. Nid ydyw ef ddim yn ufuddhau o'r galon iddi, nac yn cymeryd ei lunio yn ystwyth ganddi; ond fe âd hi ei hargraff arno byth. Fe fydd hollddigonedd Duw yn ei lethu yn dragywydd;—sancteiddrwydd yn peri i lygredigaeth ysu ei enaid fel tân; cariad yn cyneu gelyniaeth yn fflam yn ei fynwes;—mawredd Duw yn peri iddo rincian danedd mewn anobaith; pen-arglwyddiaeth yn cyneu ei uffern byth, oblegid bydd e'n lladd pob meddwl am ddianc. Enaid nefoedd, neu enaid uffern, pob un o honom fydd i ni fod yn hen *fold* iachawdwriaeth. Ufuddha iddi yn awr,—cymer dy lunio yn ystwythaidd ganddi,—fe fydd ei thragywyddoldeb yn dragywyddoldeb o ddigrifwch wedi'n.

3. Y mae yn dragywyddol yn ei holl fendithion. Yr ydym yn cael ambell beth lled werthfawr ar y ddaear; ond yr ydym yn methu cael neb i argraffu anfarwoldeb ar un o honynt. Ond y mae iachawdwriaeth wedi argraffu tragywyddoldeb ar bob bendith: gan hyny fe bery dy wisg di, Gristion, yr un faint a thithau. Fe barhaodd gwisgoedd yr Israeliaid tra y parhaodd yr anialwch; felly fe bery dy wisg dithau tra y pery tragywyddoldeb,—"cyfiawnder tragywyddol." Fe redodd yr afon gyda'r Israeliaid tra yr oedd ei heisiau; felly fe rêd hen afon iachawdwriaeth yn finfin â ffordd faith y bywyd diddarfod. Caiff y Cristion yfed o honi yn y màn y mỳn ef, a dyrchu ei ben mewn llawenydd, wedi ei adnewyddu bob tro gan ei dyfroedd bywiol; a chan eu bod yn dragywyddol, fe fydd ei bendithion hi yn eu blas byth. Dros amser y mae pethau y byd hwn; felly yr ydym yn blino ar haf parhaus: y mae yn hyfryd iawn am ychydig ar ol gauaf oer. ond yr ydym yn cynefino âg ef yn union. Gwledd bob dydd a beidiai a bod yn wledd;—Sabbath drwy yr wythnos a beidiai a bod yn Sabbath; ond ni chynefini di byth â bendithion iachawdwriaeth;—fe fydd blas ar faddeuant yn dragywydd. Nid aiff heddwch â Duw byth yn beth chwerw: gwledd wastadol, ddiddiwedd, fydd calon lawen, cydwybod dda. Gellir ysgrifenu ar bob bendith,—ar bob mwynhad,—"Ni dderfydd." Y mae yn briodol dywedyd am bethau y ddaear, "Na chyffwrdd, na archwaetha, na theimla;"—paham?—y maent oll yn llygredigaeth wrth eu harfer,—yn darfod rhwng ein dwylaw; ond bywyd ac anllygredigaeth ydyw ei holl fendithion hi;—"ni dderfydd," hi "a fydd byth."

Swm y cwbl a glybuwyd yw hyn:—ni welir byth mo Sïon yn weddw, na'i phlant yn amddifaid, oblegid y mae wedi ei dyweddïo yn dragywydd â'i phriod. Fe all Sïon lawenhau yn gyfreithlawn;—iddi hi gweddus yw mawl;—oblegid ni chaiff neb ofyn am dani byth, "Ai hon yw Sïon?" fel y gofynwyd am hono gynt, "Ai hon yw Naomi?" Na, ni ofynir byth, "Ai hon yw Sïon?" oblegid nid eistedd yn weddw, ac ni chaiff wybod beth yw diepiledd. "Bloeddia a chrochlefa, breswylferch Sïon," ymffrostia yn dy ran, oblegid hi "a fydd byth."

Chwithau, blant y byd hwn, os oes genych dai a thiroedd,

gwaith ynfyd iawn yw ymffrostio ynddynt, oblegid rhyw hen bethau ydynt ar y goreu ;. ac y mae diwrnod yn ymyl y byddant wedi myned yn rhy hen i gael eu goddef mewn bod. Os oes genych lawer o aur y ddaear, ni wnewch ond dangos diffyg synwyr mawr wrth ymffrostio ynddo: dan draed y mae e' yn y nefoedd. Nid yw yn werth dim ond i wneyd yr heolydd. Ac yn wir, ni chewch chwithau ddim cysur o hono ar y ddaear, os na chaiff e' fod bron yn yr un lle ag y mae yn y nefoedd. Os ca' fe ddyfod i fyny tua'r galon, fe ysa hono fel cancr,—fe fwyty eich cysur yn y byd hwn, ac a ddamnia eich eneidiau yn y byd a ddaw. Ond nid oes genych hawl i ymffrostio mewn dim: ymffrostied y morgrugyn yn ei dwmpath,—ymffrostied y pryf copyn yn ei wê,—ymffrostied y wenynen yn ei chell,—y mae ganddynt hwy hawl i hyny, oblegid fe barhant cyhyd â hwythau; ond nac ymffrostied creadur tragywyddol mewn dim ond pethau tragywyddol. Ac os na bydd genym rywbeth tragywyddol, ymhen ychydig bachigyn eto ni bydd genym ddim. Pe collet ti dy wraig y bore fory,—pe byddai i gorwynt yr Arglwydd ladd dy blant,—pe byddai i dân Duw losgi dy anifeiliaid,—i weision Satan dòri dy garacter,—i'r cornwydydd blin ddifa dy iechyd,—i angau ymborthi ar dy gorff,—beth fyddai genyt i ti dy hun wedi'n? A chyn i'r hen ddaear yma roddi llawer tro eto, fe fydd iaith gweision Job yn briodol i enaid pob un sydd yma, pan fydd ef yn cael ei hunan wedi dyfod allan o ryferthwy angau, ar finion tragywyddoldeb:—"Myfi fy hunan yn unig a ddiengais: mi gollais fy nhai a'm tiroedd,—fy aur am harian,—fy nghyfeillion a'm perthynasau,—mi gollais fy nghorff yn yr ystorm,—mi gollais y cyfan ond fy hunan; ac yn awr beth sydd yn eiddof fi? "Dyna," medd un, "yw angau,—cael dy ddiosg o bob peth ond cydwybod." Yr wyt yn awr yn myned i'r dafarn i'w boddi,—i'r cwmni llawen i'w syfrdanu hi,—yn ei serio â haiarn poeth dy chwantau,—yn ymsuddo i ofalon y byd hwn,—i glai tomlyd y ddaear,—i gael llonydd ganddi. Ond dyna fydd angau, colli pobpeth ond cydwybod. Nid awn ni â dim i'r byd a ddaw ond rhywbeth a ä yn hono; naill ai pryf euogrwydd, neu heddwch iachawdwriaeth Duw.

Wrth edrych yn ddifrifol ar fy nghymydogion, braidd na

feddyliwn i fod y testyn wedi ei gam-eirio, ac mai fel hyn y dylasai fod: "iachawdwriaeth a ddiflana fel mwg,—y Bibl a heneiddia fel dilledyn, ond y nefoedd a fydd byth, a'r ddaear ni dderfydd." Onid ydym yn cymeryd gormod o lafur gydâ pheth heb ddim titl iddo? Ynfyd y cyfrifech chwi ddyn a roddai lawer am etifeddiaeth heb yr un titl iddi, gan nas gŵyr pa foment y bydd hi yn myned o'i feddiant. Pentyra gyfoeth y ddaear, etifeddiaeth heb yr un titl fydd. Gall myrdd o ddamweiniau ei chymeryd oddiarnat: trysora wybodaeth yn dy feddwl,—etifeddiaeth heb yr un titl fydd;—awr o glefyd a all ei chymeryd oddiarnat oll. Ond pryn hen faes iachawdwriaeth,—y mae titl i hwn: chwi ellwch roddi holl alluoedd eich enaid i lafurio ynddo, oblegid y mae y meddiant yn un tragywyddol. Duw Ysbryd Glân a dòro y swyn sydd yn ngwagedd y byd hwn, nes dwyn creaduriaid a fydd byth i ddewis iachawdwriaeth a fydd byth, a'r rhai fydd yn rhifo blynyddoedd y byd a ddaw heb ddarfod, i ddewis "cyfiawnder ni dderfydd."

[Dydd Iau, Rhagfyr 10. 1846.]

# PREGETH XIV.

## DIDDYMU ANGAU.

2 TIMOTHEUS I. 10:—"Yr hwn a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl."

DAU beth anmhosibl eu desgrifio ydyw bywyd ac angau. Y mae y cyntaf yn meddiant pawb o honom —peth yn ein meddiant na wyddom ni ddim beth ydyw. Y mae yr olaf o flaen ein llygaid yn aml, ond y mae mor anamgyffredadwy i ni a'r cyntaf. Ni a wyddom ein bod yn fyw, ond nis gwyddom beth ydyw bywyd. Ni a wyddom fod angau yn ein haros; ond beth ydyw hyny nis gwyddom. Yn eu cychwyn cyntaf, y mae y ddwy ystâd yn ymddangos fel yn ymyl eu gilydd. Y mae ymylau tiriogaeth bywyd, ac ymylau tiriogaeth angau yn dra chyffelyb. Pa fodd yr ydym yn gweled â'r llygad?—yn clywed â'r glust?—yn llefaru â'r tafod?—yn gallu symud ein haelodau wrth ein hewyllys? Yr ateb ydyw, am ein bod yn fyw. Paham nad ydyw llygad y corff yna yn gweled—y clustiau yn clywed—y tafod yn llefaru —a'r aelodau yn symud? Yr ateb ydyw, Am ei fod yn farw. Y ddau air yma, byw a marw,—bywyd ac angau,—ydyw yr holl eglurhad a fedrwn ni ei roddi ar y dirgelwch; ond wedi yr oll nid ydynt yn eglurhad. Os ydym yn eu derbyn fel y cyfryw, yr ydym yn boddloni ein hunain â geiriau yn lle pethau: oblegid dirgelwch yw bywyd, a dirgelwch yw angau; ac y mae pob peth sydd yn gysylltiedig â hwynt yn ddirgelwch hefyd.

Yr ydym ni yma yn fyw; gan hyny y mae pob peth yn fyw

i ni,—yr awyr—y goleuni,—y tir—a'r dwfr. Y mae gallu genym i gymdeithasu â'r greadigaeth. Yn y fynwent yna, y maent yn feirw; gan hyny y mae pob peth yn farw iddynt hwy. A ydyw angau ynte yn ddifodiad ar y greadigaeth i bob un o hiliogaeth Adda? Ai ynte trosglwyddiad ydyw i ystâd uwch, i'n galluogi ni i gymdeithasu yn berffeithiach â'r greadigaeth? Y mae cwestiynau o'r fath yma wedi cael eu gofyn gan rai meddylgar ymhob oes; oblegid y mae y byd hwn wedi bod, er ei ddechreuad, yn ddirgelwch i ryw ychydig o ddewisolion sydd ynddo. Yr oedd rhai wedi meddwl fod angau yn derfyn ar eu bodolaeth;—pan y byddent farw eu bod yn peidio a bod. Yr oedd eraill yn ceisio dianc oddiwrth ddifodiad trwy gymorth athrawiaeth "trawsfudiad eneidiau." Yn angau credent fod rhan ysbrydol dyn yn cael ei huno â chorff newydd; ond nid oedd eu holl ddyfeisiau yn egluro y dirgelwch: y cwbl oeddent yn ei wneuthur oedd, ei symud o'r naill fan i fan arall. Ac nid ydyw y Bibl, er ei fod yn llyfr goleuni,—yr unig haul sydd yn ein byd ni,—yn egluro y dirgelwch yn gwbl. Y mae yn ei ddesgrifio mewn geiriau cymhariaethol: megis,—"Cyflog pechod yw marwolaeth;" ond beth ydyw y peth ei hun? Nid ydyw hyn ond dangos dilynydd beth ydyw, sef pechod. Nis gellir ateb y cwestiwn yn gyflawn. Nid ydyw Duw wedi ei ddatguddio; ac yn ofer y chwilia rheswm dyn i mewn iddo, oblegid y mae tywyllwch a ellir ei deimlo yn ei amgylchu. Y mae yn rhaid i ni ymfoddloni heb ei ddeall, ac na fydded i neb o honom gael esboniad trwy brofiad o'r hyn ydyw hanfod angau,—ei rym—ei chwerwder—a'i golyn.

Y mae yr hyn a ellir ei wybod am angau yn gynwysedig mewn cip-olygfëydd a geir yn y Bibl, ac mewn desgrifiadau cymharol. Y mae angau bob amser yn arwyddo trueni y corff neu yr ysbryd, ac yn fynych y ddau. Yr oedd Moses yn gosod gerbron yr Israeliaid "einioes ac angau," yr hyn oedd yn gyfystyr â "bendith a melldith," neu ddedwyddwch a thrueni. Y mae Solomon yn dywedyd fod dilyn drygioni yn tywys i angau, neu drueni. Y mae "llyncu angau mewn buddugoliaeth" yn cynwys difodi pob trueni; yn enwedig yr achos o hono; oblegid fe ddywedir yn ymyl hyny, y bydd i'r "Arglwydd sychu ymaith ddagrau oddiar bob wyneb:" hyny yw, trwy lyncu

angau, fe gymer ymaith achos y dagrau. Ac fel y mae angau yn arwyddo trueni, felly y mae bywyd yn arwyddo dedwyddwch. "Dangosi i mi lwybr y bywyd,"—beth ydyw hyny? Y "digonolrwydd llawenydd sydd ger ei fron yn dragywydd."

Y mae angau, weithiau, yn golygu trueni yn y byd hwn; ond yn fwy cyffredin, y mae yn golygu trueni tragywyddol. Y mae yr Arglwydd Iesu yn addaw i'r rhai a gredant ynddo, na welant farwolaeth yn dragywydd: nid ânt i afael trueni y byd arall. Y mae y rhai sydd yn ufuddhau i bechod yn ufuddhau i beth sydd a'i ddiwedd yn farwolaeth—yn drueni yn y byd a ddaw. Nid ydyw trueni amser ond cysgod sydd yn cael ei daflu o'r byd arall: yno y mae y sylweddau. Nid ydyw angau y byd hwn, ymhob ystyr, ond cysgod o angau y byd a ddaw.

Y mae y Bibl wrth lefaru am angau wedi ymostwng at y duedd sydd mewn dynion i bersonoli pob peth, ac yn galw ein sylw at effeithiau angau fel at weithredoedd person rhyw ormes deyrn wedi cymeryd trawsfeddiant ar y byd. Yn llyfr Job, gelwir ef yn "frenin dychryniadau." Y mae sôn am "deyrnasiad braw" (*reign of terror*) yn Ffrainc; ond y mae teyrnasiad angau, er y dechreu, wedi bod yn deyrnasiad dychryniadau. Y mae yr apostol Paul yn dilyn y ffigyr, ac yn dangos pa fodd y cafodd efe yr orsedd; ac wedi iddo ei chael hi, ei fod wedi teyrnasu ar bawb o Adda hyd Moses, ac o hyny hyd yn awr. Ei gymeriad gan y deiliaid ydyw *gelyn*. Y mae yn myned allan i'w plith ar farch du, yn cymeryd rhai o honynt bob tro i'w ystafelloedd; ac unwaith yr eir yno, "nis gweryd iawn mawr." Y mae wedi myned allan yn gorchfygu, ac i orchfygu;—nid oes bwrw arfau nac amodau heddwch i'w cael yn y rhyfel hwnw.

Ni a welwn yn ngoleuni y Bibl mai angau ydyw trueni amserol y corff a'r enaid: maluriad a math o ddifodiad ar y corff wedi iddo gael ei ysgar oddiwrth yr enaid; a thrueni tragywyddol y ddau wedi eu hail uno yn y byd a ddaw,—bwrw y corff a'r enaid i uffern, yr hyn ydyw yr ail farwolaeth. Dyma oedd rhan anocheladwy pob un o hiliogaeth Adda, oni buasai am wirionedd y testyn:—"Yr Hwn a ddiddymodd angau," &c Gallem sylwi yn y fan hon, cyn dyfod yn uniongyrchol at y testyn, fod angau, nid yn unig yn boenus i'r natur ddynol, ond

hefyd yn ymddangos yn cymylu caracter Duw. Yr oedd ei ddiddymu yn fendith anmhrisiadwy i'r greadigaeth, ac yn cyfiawnhau cymeriad y Creawdwr. Yr oedd yr angau hwn yn gwneuthur yn ofer, i olwg y greadigaeth, holl amcanion a dibenion Duw yn y cyfan, ac yn ymddangos fel yn dyrysu amcanion y Tragywyddol.

Y mae y greadigaeth i'w hystyried yn amlygiad o Dduw,—o'i allu,—o'i ddoethineb,—a'i ddaioni ; ac yr oedd hi yn canol-bwyntio mewn dyn. Efe oedd ei hoffeiriad i offrwm ei mawl ;—yr oedd pob peth yn dyfod â'i aberth iddo ef, a thrwyddo ef yr oedd i gael ei gyflwyno. Efe oedd i roddi i Dduw gadernid ei Enw, ac i dalu y deyrnged oedd yn ddyledus i'w ddoethineb a'i ddaioni; ond yr oedd yr angau cyffredinol yma yn dirymu y profion o'i briodoliaethau,—yn cymylu y gallu, y doethineb, a'r daioni. Cymerwch y greadigaeth fel amlygiad o allu Duw. Yr oedd hi yn yr ystyr yma yn canol-bwyntio mewn dyn. Ar ryw olwg, y mae cynhaliaeth creadur mor amrywiog a dyn yn dangos gallu mor amlwg ag ydyw cynal y ffurfafen. Os metha unrhyw beth a chyraedd y nôd y gallesid disgwyl iddo ei gyraedd, y mae y methiant yn cael ei briodoli i ddiffyg gallu yn y peth ei hun, neu yn rhywun arall oedd yn dwyn cysylltiad âg ef. Yr oedd Moses yn dwyn y ddadl hon ymlaen yn rheswm dros i'r Arglwydd beidio gadael yr Israeliaid yn yr anialwch: os gwnai, fe briodolai y Cenhedloedd hyny i ddiffyg gallu i'w dwyn i'r man apwyntiedig. Y fath gwmwl, yn yr ystyr hwn, ar allu Duw ydyw angau! Y mae yn cymylu y prawf yn fawr, os nad yn ei ddirymu yn gwbl, oblegid y mae holl blant dynion yn methu cyraedd y nôd. Y maent yn cychwyn y daith yn gyflym, ond yn ddieithriad yn methu dal eu ffordd. Nid ydyw bywyd ond cyfres o erthyliadau,—cynygiadau a methiadau. Y mae un yn cychwyn ac yn sefyll mewn diwrnod: y mae un arall yn parhau am ychydig fisoedd, ac yn sefyll: y trydydd yn cael ei gario trwy ychydig o flynyddoedd; ond ymhen y deng mlynedd a thriugain, neu bedwar ugain mlynedd, y mae ei nerth yn boen a blinder, ac yn ebrwydd yn darfod. Hyn fu, a hyn ydyw hanes y byd : ceisio byw, a gorfod marw;—y nerth yn cael ei ostwng ar y ffordd cyn cyraedd y nôd, a'r dyddiau, o ganlyniad, yn cael eu byrhau. Y mae y natur ddynol yn gyffelyb i gareg yn gadael y dafl : wrth edrych

arni yn cychwyn, gellid meddwl yr äi hi byth; ond y mae sugn cryf y ddaear yn ei thỳnu yn nes iddi ei hun bob modfedd o'r daith, nes o'r diwedd ei thỳnu yn llonydd i'w mynwes. Y mae dyn yn cychwyn fel y gareg, yn edrych fel pe y parhäi i fyned byth; ond y mae sugn cryf angau yn gostwng ei nerth bob dydd, nes o'r diwedd ei ddwyn yn llonydd i fynwes ei hen fam, y ddaear. Ni a edrychwn ar yr haul yn rhedeg ei yrfa fel cawr bob dydd;—ar y sêr yn cadw eu cylchoedd yn ddiball,—ac a ddywedwn, "Eiddo Duw yw cadernid;" ond pan dröwn i edrych ar goron y greadigaeth yn gwywo ac yn marw, cawn ein temtio i ddywedyd, "Nis gall Duw ei gynal ef." Pan edrychwn ni ar y mynyddoedd oesol a'r bryniau tragywyddol, ni a ddarllenwn dragywyddol allu arnynt; ond pan edrychwn ni ar adfeilion angau, ac ar alanastra y bedd, braidd na ofynwn ni, "A fyrhäodd braich yr Arglwydd, fel na allo achub? A ydyw cadernid yn eiddo iddo?" Y mae angau fel hyn yn cymylu gallu Duw.

Edrychwch eilwaith ar y greadigaeth fel amlygiad o ddoethineb Duw. Y mae hi yn yr ystyr yma hefyd yn canol-bwyntio mewn dyn. Os nad ydyw lle bychan mor fanteisiol i amlygiad gallu, y mae yn fwy felly i amlygiad doethineb. Y mae gallu yn dangos ei hun yn yr hyn sydd fawr; doethineb yn yr hyn sydd fychan. Os ydyw eangder y ffurfafen yn peri i ni deimlo mai galluog yw Duw, y mae dyn yn peri i ni deimlo mai un doeth ydyw. Y mae ei gorff wedi ei gywreinio yn "ofnadwy a rhyfedd;" ac y mae yr enaid yr amlygiad perffeithiaf ar y ddaear o ddoethineb Duw: y ddau wedi eu cyfaddasu mor berffaith i'r greadigaeth allanol. Y greadigaeth wedi ei gwneuthur i ddyn, a dyn iddi hithau. Buasai hi yn fud, oni bai am ddyn. Nis gallasai yntau ddim bod, oni bai am dani hi. Yr oedd y greadigaeth yn offeryn cerdd i ddatgan mawl yr Hwn a'i gwnaeth; ond dyn oedd y cerddor: nis gallasai efe ganu yn llafar hebddi. Buasai ei thànau hithau yn ddistaw hebddo yntau. Ond y mae yr angau hwn, trwy gymeryd ymaith y cerddor, mewn effaith, yn gwneuthur yr offeryn yn ofer, ac yn cymylu doethineb y Lluniwr. Pan syllwn ni ar ogoniant y greadigaeth—edrych ar ei mynyddau tragywyddol, a'i bryniau oesol,—gwrandaw ar sisial ei hafonydd, ac ar sibrwd

ei choed hi,—codi ein penau i fyny i dremio ar y ffurfafen, yr hon sydd yn nenfwd *(canopy)* brith wedi ei daenu i adlewyrchu gogoniant ar bob peth y ddaear; nis gallwn lai na dywedyd, "Mor ogoneddus ydyw y tŷ hwn!" Ond y mae y meddwl yn saethu i'r enaid, nad ydyw preswylydd y tŷ ddim i'w fwynhau ond am ddyrnfedd—lled llaw—o amser. Ai doeth, medd rheswm dynol, oedd codi y fath balas i adeg mor fèr.

Y mae doethineb yn ymddangos yn nghyfaddasrwydd y moddion i ddiben. Ai prawf o ddoethineb ydyw ffurfio peiriant mor gywrain a dyn, a'i chwalu cyn iddo ateb bron un diben? Ai doeth fyddai adeiladu llong ardderchog i groesi afon? Ai synwyr fyddai adeiladu tŷ hardd ar sylfaen sigledig? Ai arwydd o wybodaeth fyddai cymeryd blynyddoedd i gywreinio offeryn oedd i gael ei ddryllio cyn gynted ag y gorphenid ef? Cymerwch olwg ar alluoedd enaid dyn;—yr awydd anniwalladwy sydd ynddo am wybodaeth;—edrychwch arno yn chwilio pob man am ddoethineb,—yn holi pawb am drigle deall,—yn mŷnu gwybod y paham, a'r pa fodd, am bob peth;—ac wedi y cyfan, yr enaid hwnw, fel merched y gele, yn gwaeddi, "Moes, moes." Y mae e wedi ei daflu i ganol creadigaeth, lle y mae pob peth yn newydd iddo: mŷnai ddeall y cyfan; ond y mae bron yn methu deall dim. Y mae pob peth yn rhyfedd iddo; eto y mae yn teimlo rhyw allu o'i fewn i ymwneyd â'r rhyfeddodau hyn; ond gydâ'i fod yn dechreu agor ei lygaid i'w gweled, y mae yn huno yn yr angau. Ai doethineb oedd llunio y fath alluoedd gogoneddus i'w siomi? Pan edrychwn ni ar y greadigaeth allanol, ni a welwn brofion aneirif o ddoethineb. Os ydyw y nefoedd wedi ei llenwi gan allu Duw â bydoedd, a'r rhai hyny wedi eu gosod dan ddeddfau doeth, nid ydym yn gweled dim yn anghyson yna. Os ydyw y Duw mawr wedi bod ar ryw olwg yn wastraffus o'i allu—wedi creu bydoedd o anferth faintioli—wedi eu cyfleu gyda chymaint o ddoethineb, nid oes yna ddim anghyson, oblegid y maent yn parhau. Nid oedd y drafferth ddim yn ofer, oblegid y mae y gwaith yn sefyll. Ond gyda dyn, y mae y teimlad o'r anghysondeb mwyaf yn llenwi ein meddwl, nes y gofynwn ni gwestiwn Judas, "Paham y bu y golled hon?" Y mae angau yn ymddangos yn gwmwl ar ddoethineb Duw.

Drachefn, os edrychwn ni ar y greadigaeth fel amlygiad o ddaioni yr Arglwydd, nid oes dim yn cymylu cymaint ar hwn ag angau. With edrych ar y greadigaeth, gellid meddwl fod y profion o ddaioni yn berffaith,—nad oes dim yn niffyg tuag at sicrhau mai un da ydyw Duw,—oblegid y mae y greadigaeth yn "llwythog o ddaioni;" ac y mae ein calonau ninau "wedi eu llenwi â lluniaeth, ac â llawenydd." Yn nghanol y mwyniant yr ydym yn barod i ddywedyd mai paradwys ydyw y byd hwn; ond y foment y cofiwn am angau, yr ydym yn cael ein dyrysu. Pan ystyriom ni fod y natur ddynol mor gyfaddas i fwynhau—fod y ddaear mor gyfaddas i weini mwynhad iddi,—ond bod angau yn dyrysu y cyfan, prin nad ä ein calonau anghrediniol i ofyn, Tybed mai y Duw da a wnaeth y byd? Y mae yr oll yn ymddangos fel yn ein gwawdio—yn gwatwar ein dedwyddwch. Yr ydym yn gyffelyb i'r tywysog hwnw yn mhorth Samaria: gweled yr ydym â'n llygaid, ond y mae angau yn dyfod rhyngom ni a'r mwynhad. Paham y cawsom ni weled ynte? Trwy ein holl fywyd yr ydym yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer. Nid ydyw ein galluoedd yn ateb fawr ddiben yma ond i'n gwneyd yn fwy truenus. Os ydynt yn ein galluogi i weled prydferthwch y greadigaeth, y maent hefyd yn ein cymhwyso i sugno trueni oddiwrthynt. Yr ydym yn teimlo tuedd o'n mewn i ymestyn yn ddiddiwedd; ond y mae angau yn ymyl i siomi y duedd. Yr ydym yn teimlo math o dragywyddoldeb yn ein calonau; ond y mae angau gerllaw i'n difodi ni o'n teimlad. Os gwelwn ni lanerch oleu mewn un man, ni wna ei goleu hi ond mwyhau tywyllwch angau. Yn ein prudd-der, gofynwn, Paham y mae pethau fel hyn? Ai i'n poeni y cawsom ni y cynheddfau sydd yn yr enaid? Ai i'w alluogi i weled dedwyddwch o draw, na ddaw byth i'w feddiant y rhoddwyd llygaid cryf y deall i ddyn? Ai i'w wneuthur yn fwy cymwys i ddioddef y cynysgaeddwyd ef â'r serch sydd yn y fynwes? Ai arteithglwyd i boeni yn unig ydyw y gydwybod? Ai cymhwysder i ni fyw eilwaith ar y trueni sydd wedi myned heibio ydyw y côf? Na, da yw Duw; oblegid edrychwch ar y nefoedd sydd wedi ei haddurno gan ei Ysbryd,—ar y ddaear sydd yn llwythog gan lawnder:—ïe, ond edrychwch hefyd ar y baban yna sydd yn cael ei arteithio gan

boen—ei ddirdynu gan y clefyd—pa fodd y cysonwch chwi y ddwy olygfa? Da ydyw Duw; oblegid gwelwch fel "y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn;" —yn peri i'r afonydd redeg rhwng y bryniau, i ddïodi "holl fwystfilod y maes:" y mae hyd yn nôd "yr asynod gwylltion" yn dyfod dan ei sylw, ac adar y nefoedd yn cael eu cadw mor hapus, nes y maent yn canu gan loniant: ïe—ond gwelwch hefyd fod y greadigaeth fel wedi ei gollwng i'w dinystrio ei hun. Nid ydyw yr holl fwystfilod a'r anifeiliaid ddim ond cael eu cadw hyd ddydd lladdedigaeth. Mewn ufudd-dod i ryw ddeddf gref, y maent yn dychwelyd eilwaith i'w llwch. Cysonwch y ddau beth.

Un da ydyw Duw; oblegid, edrychwch pa fodd y mae wedi darparu ar gyfer dyn: y mae y greadigaeth fel wedi ymgyfamodi na chaiff eisiau dim daioni fod arno. Y mae yr haul wedi ymrwymo i'w oleuo, a'r ddaear i'w borthi. Y môr i'w ddiwallu â dwfr,—y cymylau i'w gario iddo,—yr awyr hithau i fod yn gyfrwng trosglwyddiad y cwbl i'w feddiant. Digon gwir: ond edrychwch ar y bedd yna sydd yn llyncu y cyfan,—yn difodi y cwbl. Y mae un genhedlaeth yn gyru ymaith y llall; a hithau yn ei thro yn cael ei gyru ymaith gan un sydd yn dyfod o'i hol. Fel hyn y mae holl deuluoedd y ddaear wedi disgyn i'r clawdd,—wedi gorfod dywedyd wrth y pryf, "Fy mam a fy chwaer ydwyt." O ganol goleuni bywyd, disgynasant i ffos angau. Y cwbl a wyddom ni am danynt ydyw iddynt fod unwaith yma; ond nid ydynt yma yn awr. Pa freuddwydion bynag fu ganddynt am fawredd a dedwyddwch, y maent wedi diflanu: beth bynag fu yn feddiant iddynt, y maent wedi ei golli. Collasant fyd cyfan: er i'r ddaear addaw yn deg, fe'u siomwyd am bob dim. Ai i'w siomi—ei wawdio—a'i dwyllo, y creodd Duw ddyn? Y mae yr angau cyffredinol hwn yn cymylu daioni Duw. Ac oni buasai am efengyl Iesu Grist, buasai cymeriad y Duw anfeidrol yn aros dan gwmwl i bob creadur, oblegid buasai angau yn ddirgelwch anamgyffredadwy yn llywodraeth Duw. Ond y mae yr Hwn a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni wedi egluro graddau ar y dirgelwch, a chwalu ychydig ar y niwl. "Yr hwn a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl."

Yr ydym wedi gweled yn barod raddau o'r angenrheidrwydd oedd am hyn: ac yn awr ni a sylwn yn fwy uniongyrchol ar gynwys y testyn:—

I. Yr hyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu, ynghyd â'r modd y gwnaeth Efe hyny:—"Diddymu angau."

II. Y prawf sydd genym o'i fod wedi diddymu angau:—"A ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy'r efengyl."

Neu, Beth yw diddymu angau? Pa fodd y diddymwyd angau? Pa brawf sydd genym o ddiddymiad angau?

I. Yr hyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu, sef "diddymu angau:" beth ydyw hyn?

1. Gwneyd âg angau fel y gwnaeth angau â'r greadigaeth. "Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna." Fe wnaeth i ferch Babilon fel y gwnaethai hithau i'w bobl Ef. Felly y gwnaeth Mab Duw i angau, fel y gwnaeth angau i'r greadigaeth. Y mae y gair a ddefnyddir yn y testyn, sef "diddymu," yn rhoddi mantais i ni weled yr hyn a wnaeth angau i'r greadigaeth, a'r hyn a wnaeth Mab Duw i angau. Y mae yr un gair mewn rhanau eraill o'r Bibl yn cael ei gyfieithu *diffrwytho*, yn *wneuthur yn ofer*, yn *ddirymu*, *dileu*, *dinystrio*, *diflanu*, ac yn *dori* y cysylltiad rhwng pethau. Fe wnaeth angau hyn oll â'r greadigaeth.

(1.) Fe'i diffrwythodd hi. Yr oedd y ddaear yn winllan fawr, wedi ei phlanu gan Dduw i ddwyn ffrwyth iddo ei Hun; ond y mae ángau fel yr *upas* yn nghanol y winllan, a'i ddyferion marwol yn diffrwytho pob peth sydd ynddi: "yn diffrwytho y tir." Neu, ac edrych ar angau yn ysbrydol, yr oedd e wedi niweidio gwreiddiau y coed fel na allasent ddwyn ffrwyth. Dylasent fod yn "brenau yr Arglwydd, yn llawn sugn;" ond yr oedd angau wedi sychu i fyny y nòdd, fel yr oedd yn anmhosibl iddynt ddwyn ffrwyth i Dduw. Yr oedd y byd hwn yr olygfa fwyaf pruddaidd i'r meddwl: byd llawn o drugareddau Duw, heb neb yn dwyn ffrwyth i Dduw. Nid ydyw diffeithfaoedd mawrion y byd dwyreiniol ddim yn fwy trymaidd i'n golwg ni nag ydyw y byd hwn i olwg creaduriaid sanctaidd. Gyda phrudd-der yr edrychwn ni ar y llanerchau mawrion hyny sydd yn fynwentydd natur,—yn gartref marwolaeth. Y maent yn elynion anghymodlawn i fywyd o bob math: ond nid

ydynt ond drychau cymwys i ddangos agwedd foesol y byd hwn o dan effeithiau angau ysbrydol: gwnaed ef gan hwn yn ddiffaethwch,—yn fynwent rhinwedd,—yn drigle marwolaeth. Y mae y trigolion yn gwywo fel llysieuyn,—yn diflanu fel tarth; ond y mae rhinwedd a daioni yn fwy diflanedig na hyny. Y mae angau wedi diffrwytho y greadigaeth, yn ystyr mwyaf llythyrenol y gair. Y mae yr holl ddaear fel yn ngafael clefyd. Nid yn unig y mae y gwahanglwyf arnom ni, ond y mae ar y tŷ yr ydym yn byw ynddo; nid yn unig yr ydym wedi colli ein grym bywydol, ond y mae y greadigaeth hefyd wedi ei golli. Derbyniodd nerth ar y cyntaf i ddwyn ffrwyth o honi ei hun; ond collodd ef er's talm. Y mae darnau mawrion o honi yn gwbl farw, a chydâ phoen y mae pob bywyd yn gallu ymgynal ynddi. Gellir cynwys hanes dyn yn y ddau air:—"ymboeni" a "marw."

(2.) Y mae angau wedi gwneuthur y greadigaeth yn *ofer* hefyd. Y mae pob peth yn ofer nad ydyw yn ateb ei ddiben. Yr ydym wedi gweled i raddau eisoes fod angau yn atal i'r greadigaeth ateb ei diben. Yr oedd yr olwg hon ar angau yn peri i'r Salmydd ofyn i Dduw, paham y creodd Efe holl blant dynion yn ofer? Gellir yn yr olwg hon ar angau gymhwyso geiriau y prophwyd at y Creawdwr anfeidrol, a dywedyd, mai 'yn ofer y llafuriodd,—yn ofer ac am ddim y treuliodd ei nerth.' Y mae pob ymgais hyd yma yn methu. Y mae bywyd yn cael ei lyncu i fyny yn angau,—holl degwch natur yn cael ei guddio yn y bedd. Cyn belled ag y gall llygad rheswm ganfod, y mae angau yn brawf diymwad fod dyn wedi ei greu yn ofer. Y mae ei ddyddiau yn fyr, ac y mae y rhai hyny yn llawn blinder. Y mae yr Arglwydd wedi ei roddi i 'ymguro mewn llafur blin;' ond 'y mae yn ymdrafferthu yn ofer.' Y mae yn tyru golud, ond tarth ydyw ei einioes, "nis gŵyr pwy a'i casgl." Y mae angau yn peri i'r gair a lefarodd y Duw mawr ddychwelyd ato yn wâg, heb lwyddo yn yr hyn yr anfonwyd ef o'i blegid. Y mae Efe yn gollwng ei Ysbryd, ac yn creu; ond y mae y gwaith yn myned yn ofer, am fod angau yn gollwng ei anadl, ac yn difetha. Y mae yr ymdrechfa rhwng bywyd ac angau yn terfynu yn ddieithriad eto yn ffafr yr olaf. Er fod byddinoedd bywyd yn cael eu hanfon gan Dduw i'r maes bob blwyddyn;

eto hyd yn hyn, marwolaeth sydd yn teyrnasu. Y mae *na fydded* angau yn gorchfygu *bydded* Duw.

Y mae angau hefyd yn gwneuthur yn *ofer* waith dyn. Darfu i'r cynddiluwiaid adeiladu dinasoedd mawrion,—ffurfio offerynau cerdd, telyn ac organ,—ynghyd â phob math o gywreinwaith pres a haiarn; ond gwnaeth y diluw gwyllt y cyfan yn ofer;—dymchwelodd eu dinasoedd, golchodd ymaith bob prawf o'u medr, a dinystriodd eu hofferynau cerdd. Felly y mae angau yn gwneuthur i bob un o honom. Y mae i bob un yn golli byd. Ymboenwch i gasglu golud,—i bentyru aur ac ariand fel ceryg y maes,—gwna angau y boen i gyd yn ofer. Chwiliwch am anrhydedd,—ymwerthwch i brynu parch eich cyd-ddynion,—dengys angau y drafferth yn bur ofer. Cloddiwch yn ddwfn i ddeall, gwyliwch yn ddyfal wrth byst pyrth doethineb, treuliwch eich oes i astudio creadigaeth Duw,—gwna angau y drafferth yn ofer iawn. 'Mewn cysgod yr ydym yn rhodio, ac yn ymdrafferthu yn ofer' gyda'r cyfan. Os rhoddwyd y greadigaeth yn llyfr i ni astudio Duw ynddo, y mae yn myned yn ofer, oblegid yr ydym yn cael newid ein hwynebau a'n hanfon i ffordd cyn i ni bron ddysgu y wyddor. Os rhoddwyd galluoedd yr enaid i ddyn i'w gymhwyso i adnabod Duw, y maent yn ofer. Gydâ'u bod yn dechreu ymagor yn iawn, a dyfod i'w nerth, y mae diffoddydd angau yn cael ei roddi ar y ganwyll.

(3.) Y mae yn dirmygu ac yn anmharchu y greadigaeth. Difodiad ydyw yr anmharch mwyaf i'r gweithiwr a'r gwaith. Y mae pob man ond y byd hwn yn cyhoeddi y Duw mawr yn Arglwydd bywyd; ond mwy priodol yma ydyw ei alw yn Arglwydd y meirw na'r byw. Nid ydyw hyny o ddeiliaid byw sydd ganddo ond ychydig iawn o'u cymharu â'r meirw: yn mro distaw angau y mae y dyrfa fawr; oblegid y mae angau

(4.) Yn dileu ei holl weithredoedd;—y mae wedi argraffu cyfnewidioldeb ar y cyfan. Y maent oll ar eu taith o fòd i ddifodiad. Y peth olaf a ddywedir am danynt yw, 'Eu lle nid edwyn ddim o honynt mwy.' Fel tarth y maent yn diflanu,—fel blodau y maent yn gwywo;—"dyn a drenga, a pha le y mae?"

(5.) Y mae angau wedi tòri pob cysylltiadau da oedd yn

perthyn i'n byd ni. Rhyw dalaeth oedd y byd hwn yn perthyn i ymherodraeth y Jehofah. Y mae hono wedi ei llenwi â bywyd; a thra thebyg ydyw y buasai cymundeb rhwng y taleithiau â'u gilydd—na fuasai y rhai oedd yn perthyn i'r un goron ddim yn ddieithr iawn y naill i'r llall—oni buasai i angau dòri pob cysylltiad o'r fath. Yr ydym ni yn dalaeth unigol ymhob ystyr. Y mae yr angau hwn sydd yn ein talaeth wedi ein dieithro i holl etifeddion bywyd: nis derbynir ni i'w mysg, heb fyned yn gyntaf dan brawf y bedd. Yn gyffelyb i'r fel pan y byddo llongau yn dyfod o wlad heintus, nis derbynir hwynt i borthladd gwlad iach heb iddynt yn gyntaf fyned o dan y *quarantine*, y deugain nydd prawf, i gael sicrwydd eu bod yn rhydd oddiwrth yr haint; felly mae yn rhaid i ninau fyned dan *quarantine* y bedd, i golli holl effeithiau yr haint, cyn y derbynir ni i gyflawn wlad y bywyd. Y mae angau fel hyn yn tòri y cysylltiad rhyngom ni a'r ymherodraeth yr ydym yn ddeiliaid o honi. Gellir dywedyd am dano fel y dywedodd Nahum am un arall, "Daeth y chwalwr i fyny," oblegid y mae wedi datod pob cysylltiadau;—wedi ysgaru rhwng y ddaear a'r nefoedd;—wedi ysgaru rhwng dyn a dedwyddwch;—wedi ysgar rhwng y corff a'r enaid. "Chwalwr" ydyw, ac fel y cyfryw y mae yn awdwr annhrefn: "cysgod angau, ac heb drefn." Nid ydyw y ddaear ddim ond pentwr o'i adfeilion,—y mynwentydd ddim ond cofadeiladau o'i fuddugoliaethau. Dywedir fod adfeilion tŵr Babel yn gryn fryn eto; ond beth fyddai hwnw at y carneddi sydd ar ol "y chwalwr" hwn? Y mae anfantais fawr i ni ffurfio syniad cywir am effeithiau angau, am nad allwn weled yr effeithiau hyny â'n llygaid. Nid oes genym ddim i'w wneuthur ond tỳnu ar ein côf a'n deall; oblegid y mae adfeilion y bywyd anifeilaidd yn cael eu gorchuddio gan y bywyd llysieuol. Y mae prydferthwch hwn yn cadw hacrwch angau o'n golwg. Yr ydym yn cael ein twyllo gan ymddangosiadau. Y mae angau yn taflu llèn dêg bywyd dros ei waith, ac felly yn ein twyllo ni. Ond meddyliwch yn awr fod holl drigolion y ddaear wedi perarogli eu holl feirw, fel yr oedd yr Aiphtiaid yn gwneyd i ryw ychydig yn y dyddiau gynt;—fod pob pabell bridd fu ar y ddaear er y diluw ar gael heddyw yn berffaith ymhob peth, ond yn unig fod y trigianydd wedi ymadael,—oni

buasai angau yn hyll-dremu yn ein hwynebau ymhob man? Buasem yn ymsymud yn nghanol y meirw, a chysgod angau yn ein hamdöi. Nid ydyw fel hyn i'n golwg; ond nid ydyw yr effeithiau yn llai gwirioneddol, er nad ydynt yn weledig. Datodwr cylymau ydyw angau. Y mae yn datod holl gysylltiadau tyner perthynasau,—yn tòri y cysylltiad rhwng y plentyn a'i fam. Y mae yn rhaid iddo alw y ddaear yn fam iddo, yn lle yr hon a'i hymddug,—y pryf yn chwaer iddo, yn lle yr hon a fu yn cael ei magu ar yr un bronau. Onid ydym oll wedi profi angau yn yr ystyr hwn? Oni wyddom beth ydyw y chwerwder hwn sydd mewn marwolaeth? Y mae rhywrai yr oeddem yn eu caru fel ein henaid ein hunain wedi marw. Mor agos oedd yr undeb, nes y mae amryw yn teimlo fod rhan o honynt hwy eu hunain yn y bedd. Y maent wedi colli mwy nag y mae yn ddichonadwy iddynt ei golli eto yn y byd hwn.

Angau yn y gwahanol ystyriaethau a enwyd ydyw pla y ddaear,—dinystr y byd hwn,—gwreiddyn holl chwerwedd meibion Adda. Efe a ysgrifenodd alar, gruddfan, a gwae, ar y ddaear. Efe a roddodd fod i Golgotha. Ni fuasai yr un "Lle y Benglog," oni bai am dano ef; ond y mae efe wedi gwneyd pob bryn yn Golgotha, a phob dyffryn yn fynwent. Nid oes dim yn ffŷnu ymhob oes ond angau,—dim y mae ymofyn parhaus am dano ond y bedd. Nid oes dim yn sicr yma ond angau. Nid oes dim y cyfarfyddwn ni âg ef ymhob man ond angau. Y mae hynafiaethau yn yr Aipht,—doethineb yn Groeg,—masnach yn Lloegr; ond ymhob man y mae angau yn diffrwytho y byd,—yn gwneuthur yn ofer holl waith pawb,—yn dirmygu gweithred y Goruchaf,—yn dileu pob prydferthwch oddiar y ddaear,—ac yn tori holl gysylltiadau meibion dynion. Y mae ei orsedd adamantaidd wedi ei sefydlu ymhob gwlad, ac â'i deyrnwialen haiarn maluria holl lestri pridd y ddaear. Byd pruddaidd—salw—marwol—ydyw hwn. Y mae dau air yn cynwys holl hanes ei drigolion,—*geni* a *marw*. Yr ydym wedi ein geni i farw; ac yr ydym yn marw wrth fyw. Y mae angau yn ein hysbeilio o ran o'n bod bob dydd. Y mae ein meddiant mewn bywyd yn llai heddyw nag y bu erioed. Yr ydym yn rhanu bywyd âg angau; ac y mae efe yn enill arnom yn feunyddiol, ac ymhen gronyn cymer ein meddiant

oll oddiarnom. Dyma ychydig o lawer o'r pethau a wnaeth angau â'r greadigaeth. Beth ydyw diddymu angau? Gwneyd i angau, fel y gwnaeth angau i ninau. Felly y gwnaeth Mab Duw,—fe'i diffrwythodd,—fe'i gwnaeth yn ofer,—fe'i dirymodd —fe dorodd ei gysylltiadau—ac a agorodd y ffordd i'w ddileu: "Yr hwn a ddiddymodd angau."

1. Fe'i diffrwythodd. Dywedir fod y ffigysbren hwnw yn diffrwytho y tir, am ei fod yn myned a lle pren fuasai yn ffrwytho. Amcanodd angau ddiffrwytho creadigaeth yn yr un dull: gwnaeth hi yn winwydden wâg i bob daioni. Yn lle dwyn ffrwyth i Dduw, yr oedd hi yn dwyn ffrwyth iddi ei hun. Ond y mae yr Arglwydd Iesu wedi diffrwytho angau yn yr ystyr yna, ac wedi gwneuthur *upas* angau yn bren y bywyd. Fe'i diffrwythodd iddo ei hun, ac a wnaeth iddo ddwyn ffrwyth i Dduw. Neu, os personolir angau, ac edrych arno fel cawr— fel gormes-deyrn, y mae wedi cael y fath ergyd gan Fab Duw nes y collodd ei nerth.

2. Fe'i gwnaeth yn ofer hefyd, oblegid y mae yn methu yn ei amcan bob cam. (1.) Amcanodd angau ddinystrio y greadigaeth; ond dangosodd Mab Duw na wna fe ddim o hyn. Y mae creadigaeth newydd i godi o adfeilion yr hen. Y mae yr Hwn a ddywedodd "Bydded," uwchben diddymdra y dydd cyntaf, yn myned i ddywedyd "Bydded," uwchben pentwr angau y dydd diweddaf; ac fe amlyga y dydd hwnw fod angau wedi llafurio yn ofer am filoedd o flynyddoedd. Ni adewir iddo gymaint ag un yn wobr i'w waith: chwilir ei holl gelloedd, a gorchymynir i'r rhai sydd yn y tywyllwch mwyaf dudew ymddangos; a diameu ydyw y bydd y greadigaeth, yn lle bod yn waeth oherwydd i angau fod ynddi, yn annrhaethol fwy gogoneddus mewn canlyniad i hyny. Bydd dinystr y gyfundrefn bresenol yn achlysur i ddwyn i mewn un fwy rhagorol. Pa faint bynag fuasai gogoniant y nefoedd a'r ddaear gyntaf pe buasai angau heb ddyfod i mewn iddynt, ni fuasai yn ddim o'i gymharu â gogoniant yr ail, "y rhai yr ydym, yn ol ei addewid ef, yn eu disgwyl." Bydd y lle sydd yn awr yn gartref angau, ymhen gronyn yn gartref bywyd. Nid ydym yn meddwl wrth hyn y bydd i bob ffurf o fywyd anifeilaidd ail ymddangos, oblegid prin y mae dim yn deilwng o'r enw bywyd, ond yr hyn

y mae rheswm ac ysbryd yn gysylltiedig âg ef: heb hwn byddai y greadigaeth yn bod yn ofer; a phe adferid hi oll heb adferyd hwn, ni fyddai hyny ond adferu cysgod yn lle sylwedd. Ac os adferir hwn, er na adferir dim arall, gellir yn briodol ddywedyd fod y greadigaeth wedi ei hadferu. Gan hyny, yn lle bod angau yn ddinystrydd y greadigaeth, y mae yr Arglwydd Iesu wedi ei wneuthur yn drosglwyddydd o sefyllfa îs i un uwch: y drws ydyw, trwy ba un y mae y greadigaeth yn dianc o gaethiwed i ryddid,—o gyfnewidioldeb i barhad; a phan y bydd hi oll wedi myned trwy y porth tywyll, bydd wedi ei hadferu oll i ryddid bywyd.

(2.) Gwnaeth ef yn ofer hefyd fel dyrysydd bwriadau Duw. Gwelsom fod y greadigaeth wedi ei bwriadu gan Dduw i ddwyn gallu, doethineb, a daioni ei Chreawdwr i'r golwg, ond i angau ddyrysu y bwriad. Gwnaeth yr Arglwydd Iesu ef yn gwbl ofer yn yr ystyr hwn; a thrwy offerynoldeb angau y mae wedi dwyn y priodoliaethau yma yn fwy amlwg nag y buasent hebddo. (1.) Bydd codi o lwch angau yn y dydd diweddaf yn amlygiad mwy gogoneddus o allu Duw nag ydoedd creu y dydd cyntaf. Sonir am yr adgyfodiad bob amser fel amlygiad neillduol o allu Duw. Golygiadau anghywir ar allu Duw oedd yn peri i'r Saduceaid ei wadu,—"ni wyddent yr ysgrythyrau, na gallu Duw." Mynych y cofféir adgyfodiad yr Arglwydd Iesu fel amlygiad o allu,—"a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu, yn ol Ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Bydd yr adgyfodiad cyffredinol, yn y dydd diweddaf, yn brawf egluraf feallai a gafodd y greadigaeth eto, "mai eiddo Duw yw cadernid." Darfu i'r Philistiaid alw am Samson i'r chwareudy i'w wawdio am ei fod wedi colli ei nerth; ond bu hyny yn achlysur iddo gael prawf eglurach nag erioed o'r nerth hwnw: felly fe fydd gwaith angau yn ceisio taflu cwmwl ar allu Duw yn achlysur i'r gallu hwnw gael ei egluro yn amlycach nag erioed. Daeth "bydded" Duw â chreadigaeth o ddim, ond daw udgorn Duw â chreadigaeth o lai na dim, oblegid y mae pellach ffordd rhwng bywyd ac angau nag y sydd rhwng bywyd a diddymdra. Y mae "cyfiawnder Duw" rhwng bywyd ac angau: nid oes ond "rhyngu bodd Duw" rhwng bywyd a diddymdra. "Os *mŷn* Duw"

sydd am alw bywyd o ddiddymdra; ond "os *gall* Duw" sydd am alw bywyd yn ol o angau. Darfu i fynu Duw ddwyn bywyd o ddiddymdra yn y dydd cyntaf, a gwna gallu Duw ddwyn bywyd o angau yn y dydd diweddaf. Y mae gallu i'w fesur wrth nerth y gwrthwynebiadau y mae yn eu gorchfygu: a phe gallasem ni amgyffred un o'r ddau beth, fe allai y buasai yn haws i ni amgyffred pa fodd y gallasai Duw greu y byd, na pha fodd y gall Efe godi y meirw. Nid ydym yn dyrysu cymaint wrth feddwl am y Duw mawr yn dwyn y cwbl o ddiddymdra; ond y mae ein rheswm ni yn dyrysu wrth feddwl pa fodd y gall Efe gael y defnyddiau sydd mewn bod eisoes at eu gilydd i ail lunio'r corff. O'r fath amlygiad o allu a fydd amlygiad y dydd diweddaf! pan y bydd gallu Duw yn elfen fywiol yn treiddio trwy y greadigaeth, neu yn llewyrchu fel mellten o'r naill begwn i'r llall, nes y bydd y greadigaeth yn dadebru i fywyd ar darawiad amrant: hi a fydd oll mewn gwewyr i esgor ar fywyd; ac nid rhyfedd os bydd angylion wrth weled yr olygfa, yn canu yr anthem yn fwy soniarus nag yn more amser, "Gan ddywedyd, Amen: y fendith, a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth, a fyddo i'n Duw ni yn oes oesoedd. Amen." (Dad. vii. 12.) Nid oedd dim digon o swyn yn y deml wych yn Jerusalem, i gadw y bobl oedd wedi dyfod i fyny i'r ŵyl rhag ymarllwys allan wrth y canoedd i Bethania, i weled y rhyfeddod fawr oedd yno,—Lazarus wedi ei godi yn fyw; a digon tebyg ydyw y bydd bodau resymol creadigaeth y Jehofah yn ymgasglu at eu gilydd yn finteioedd y dydd diweddaf, i edrych ar ryfeddodau Duw,—y meirw wedi cyfodi. Gallu Duw wedi disgyn, fel gwlith ar lysiau, ar feddau y byd, nes y bydd y ddaear yn bwrw ei meirw allan.

Eilwaith: y mae angau wedi bod yn achlysur i amlygu doethineb Duw. I'n golwg ni, fel y sylwyd, yr oedd angau yn gwmwl du ar ddoethineb: nid oedd dim cyfartaledd i'w ganfod rhwng y drafferth oedd yn cael ei gymeryd gyda'r peiriant, a'r defnydd oedd yn cael ei wneyd o hono. Ond y mae y gwirionedd a ddaeth i'r amlwg drwy Iesu Grist wedi cyfiawnhau doethineb yn hyn hefyd. Nid canwyll i oleuo am noson ydyw canwyll yr Arglwydd sydd yn y fynwes ddynol. Nid llestr i

groesi afon gul amser ydyw llestr y ddynoliaeth. Nid tŷ i drigo ynddo am ychydig fynydau ydyw y tŷ hardd y mae doethineb wedi ei godi i ysbryd dyn; na, y mae y ganwyll i oleuo yn oes oesoedd;—y mae y llestr i hwylio ar hyd môr tragywyddoldeb;—y mae y tŷ i fod yn anedd byth i ysbryd.

Y mae doethineb Duw wedi ei amlygu yn neillduol mewn peri arganfod yr offeryn i ddwyn ei ddibenion goruchel i ben. "Ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw,".........na "llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth;" am hyny y mae doethineb Duw yn gadael i angau droi y corff yn llwch, er mwyn i allu Duw godi corff ysbrydol o lwch y corff anianol; ac y mae y pethau a ddaethant i mewn i'r greadigaeth fel canlyniadau i bechod, ac fel rhag-redegwyr i angau ar y corff, wedi eu gor-uwchlywodraethu gan ddoethineb Duw i symud ymaith effeithiau angau oddiar yr enaid. Y mae gorthrymderau yn sancteiddio;—y mae ffrwyth pechod yn marweiddio pechod. Fel y mae y dyn oddiallan yn gwywo, y mae y dyn oddimewn yn cael ei adnewyddu;—y mae gwendid y corff yn nerth i'r enaid;—rhwymau y corff yn rhyddid i'r enaid; ac angau y corff yn fywyd i'r enaid.

Drachefn, y mae y tywyllwch a ddygodd angau ar ddaioni Duw wedi ei symud a'i chwalu â'r goleuni a ddaeth trwy Iesu Grist. Prin y buasai anfarwoldeb yn y byd hwn yn werth ei feddu. Beth fuasai anfarwoldeb yn nghanol cymaint o gyfnewidiadau? Y mae y meddwl am anfarwoldeb heb sefydlogrwydd yn boenus i'r enaid. Pe buasai y byd hwn yn gartref i ddyn dros byth, buasai yn anmhosibl i ni gyfiawnhau daioni Duw, oblegid y mae cymaint o drueni ynddo, fel y mae miloedd yn dyheu am angau; ac eto pe buasai angau yn ddiwedd i ni, buasai mor anmhosibl cyfiawnhau daioni Duw, am fod dymuniadau mor gryfion yn y fynwes am anfarwoldeb. Os oedd angau i fod yn ddiwedd i ni, paham na buasai ein dymuniadau yr un hyd a'n hoes ni,—yn cael eu mesur wrth ddeng mlynedd a thriugain, neu bedwar ugain mlynedd, yr un fath a'n dyddiau ni? Ond y mae y tywyllwch yma wedi ei oleuo gan Iesu Grist, a daioni Duw wedi ei gyfiawnhau. Gan i bechod ddyfod i mewn i'r byd, trugaredd ydyw angau. Yr amser y mae y clefyd waethaf ydyw yr adeg pan y mae yn cael ei orchfygu gan

natur. Y foment dywyllaf ar y nos ydyw hono cyn toriad y wawr. Felly nid yw tywyllwch angau ond rhag-redegydd gwawr: nid yw poethder clefyd pechod yn angau ond yr ymdrech olaf i'w daflu ymaith o'r natur am byth. Pan orchymynodd yr Arglwydd Iesu i'r ysbryd mud a byddar fyned allan o'r bachgen hwnw, arteithiwyd a rhwygwyd corff y bachgen gan yr ysbryd nes yr oedd fel un marw; ond dim ond i'r Iesu ei gymeryd erbyn ei law, fe safodd i fyny yn iach. Ac er bod yr ymdrechfa olaf yn un boenus, eto yr oedd hi yn arwain i iechyd perffaith: felly y mae ymdrech olaf pechod yn un boenus iawn. Y mae hi yn gadael y corff yn gwbl farw; ond pan ymeifl yr Iesu yn llaw ei bobl y dydd diweddaf, fe 'u cyfyd i fyny, a'r ysbryd aflan wedi ei fwrw yn llwyr o honynt: yna bydd daioni yr ymdrechfa olaf yn amlwg, oblegid hi a arweiniodd i fywyd perffaith. "Diddymu angau." Amlygir gallu Duw mewn datod holl gylymau angau yn y dydd diweddaf. Amlygir doethineb Duw mewn defnyddio angau i ddwyn o amgylch ei ddibenion ei hun. Amlygir daioni Duw mewn peri i fwy o hapusrwydd ddeilliaw i'r greadigaeth mewn canlyniad i deyrnasiad marwolaeth ynddi. Nid ydyw y ddaear yn colli dim mewn gwirionedd yn y gauaf: yn hytrach y mae ei phrydferthwch hi yn fwy yn y gwanwyn a'r haf oblegid y gauaf. Ni fuasai mor llawn o fywyd yn y gwanwyn,—mor gyfoethog ei gwedd yn yr haf, oni bai am rew ac eira y gauaf: felly ni fuasai haf y byd tragywyddol ddim mor hyfryd, mor dirf ac iraidd yr olwg arno, oni bai am auaf duoer angau. Yr oedd caracter Duw Abraham, Isaac, a Jacob, yn ddigon isel fel Duw doeth, cadarn, a da, pan oedd Israel yn nghaethiwed y priddfeini; ond wedi i'r genedl gyraedd Canaan, yr oedd ei gymeriad Ef yn uwch fel y cyfryw, am eu bod wedi trigo yn nhir y gelyn; felly, pa faint bynag o gymylau a all angau eu taflu ar garacter Duw yn awr, wedi i'r natur ddynol gael ei gwaredu o'u caethiwed, bydd y caracter hwnw yn annhraethol fwy gogoneddus oblegid angau. "Yr Hwn a ddiddymodd angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni."

II. Y prawf sydd genym o'i fod wedi diddymu angau:—"Ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Gellir ystyried y rhan olaf o'r testyn fel prawf o wirionedd y

rhan gyntaf; neu fel canlyniad i'r hyn a ddywedir yn y rhan gyntaf. "Yr Hwn a ddiddymodd angau,"—pa brawf sydd o hyny? Wel, onid ydyw bywyd ac anllygredigaeth yn y goleu. "Yr Hwn a ddiddymodd angau;" ond gallasai wneuthur hyny, a gadael y greadigaeth yn yr un ystâd ag yr oedd Adda cyn i'r Arglwydd wneyd cyfamod âg ef: symud y drwg fuasai hynyna. Nid hyny yn unig a wnaeth, ond daeth â bendithion daioni i'r golwg yn ei le,—"a ddug fywyd ag anllygredigaeth i oleuni,"—i eglurdeb. Ond—

1. Ni a gawn edrych ar ran olaf y testyn fel prawf o wirionedd y rhan gyntaf. Y mae angau wedi ei ddiddymu, oblegid y mae bywyd ac anllygredigaeth yn y goleu. Ac hefyd gellir edrych ar y rhan olaf fel y moddion trwy ba rai y mae y rhan gyntaf yn cael ei chyraedd. Pa fodd y mae ofn marwolaeth yn cael ei ddiddymu o feddwl y Cristion trwy olwg ar fywyd ac anllygredigaeth yr efengyl? Yr oedd Hezeciah yn methu credu Duw heb arwydd; felly, ni fuasem ninau yn credu fod angau wedi ei ddiddymu, oni buasai i ni gael llawer o arwyddion sicr. Dacw fywyd yn y fan draw. Y mae ysbrydoedd y cyfiawnion wedi dianc o afaelion y gormes-deyrn eisoes; ac â llygad ffydd ni a welwn y cyrff yn dianc yn y man: gan hyny y mae yn rhaid ei fod wedi ei orchfygu. Fe greodd pechod ddieithrwch rhwng amser a thragywyddoldeb, fel na wyddai trigolion y cyntaf braidd ddim am yr ail. Yr oedd ymron bawb wedi myned i ameu bodolaeth y byd arall, a llawer iawn yn credu nad oedd e ddim yn bod. Yn debyg fel yr oedd America i ranau eraill y ddaear: fe fu cymundeb rhyngddynt unwaith, ac fe wyddai rhyw rai o drigolion y naill am y llall; ond yn ystod treigliad oesoedd a chenhedlaethau, fe ddieithrodd y naill i'r llall yn gwbl. Yr oeddent mor ddieithr i'w gilydd a phe buasent mewn dau fyd. Yr oedd tywyllwch miloedd o flynyddoedd yn gorchuddio y cyfandir hwnw. Felly yr oedd tragywyddoldeb â thywyllwch miloedd o flynyddoedd yn ei orchuddio. Yr oedd America yn bod cyn i Columbus ei chael hi allan; ond efe a'i dygodd hi i oleuni: felly yr oedd tragywyddoldeb yn bod; ond yr Arglwydd Iesu a ddaeth â'r byd ysbrydol i'r goleu, ac fe'n llwythodd â phrofion o fodolaeth y wlad. Y mae y rhai sydd yn darganfod rhanau

newydd o'r byd, wrth ddychwelyd yn ol i'w gwlad, er mwyn argyhoeddi eu cydwladwyr am eu llwyddiant,—y maent yn dyfod a rhai o gynyrchion y wlad newydd, ac o'i thrigolion gyda hwynt i fod yn dystion o'u geirwiredd. Pa brawf a roddodd yr Arglwydd Iesu o'i fod wedi darganfod y byd ysbrydol,—gwlad y bywyd? Wel, oni ddaeth Efe a chynyrchion y byd hwnw i'r ddaear gydâg Ef? Beth oedd yn iachau pob clefyd a phob afiechyd ar hyd gwlad Canaan? Ychydig o gynyrch gwlad y bywyd. Beth oedd y peth rhyfedd hwnw a arddangoswyd yn nhŷ Jairus,—wrth borth Nain drachefn,—ac yn nhref fechan Bethania, ond rhyw sypyn o ffrwythau y byd ysbrydol?

Yr oedd pob gwyrth a gyflawnodd yn sicrhau yr un peth, sef ei fod yn Arglwydd y bywyd, ac o ganlyniad wedi diddymu angau. Y mae ymron ei holl wyrthiau yn dwyn rhyw berthynas â bywyd. Porthi pum' mil âg ychydig dorthau,—cynal bywyd oedd yna. Gostegu y dymestl ar y môr,—cadw bywyd oedd yna. Iachau yr holl glefydau,—rhoddi yr oruchafiaeth i fywyd oedd yna. Codi y meirw,—adferu bywyd oedd yna. Y mae fel hyn yn dangos fod holl adnoddau bywyd yn ei feddiant; ac nis gallasai y mwyaf anghrediniol lai na theimlo weithiau mai ynddo Ef yr oedd bywyd. Yr oedd Efe mor llawn o hono nes yr oedd yn peri iddo dreiddio i bob peth o'i amgylch: os priodol yr ymadrodd, yr oedd Efe yn heintus o fywyd. Ni allasai dim gyffwrdd âg Ef heb dderbyn rhinwedd o hono. I ba le bynag yr äi, yr oedd angau yn teimlo ei bresenoldeb, ac yn barod i ofyn gydâ'r ysbrydion aflan, Paham y daethost yma i'm poeni i cyn yr amser? Yr oedd nerth bywyd annherfynol ynddo; am hyny yr oedd yn anmhosibl iddo fod yn guddiedig. Yr oedd ei weithredoedd yn ei gyhuddo: buasai mor hawdd cuddio yr haul yn y ffurfafen, ag a fuasai ei guddio Ef. Fel y mae goleuni yr haul yn treiddio trwy yr awyrgylch oll; felly yr oedd bywyd yn deilliaw o hono yntau. Yr oedd awyrgylch o fywyd o'i amgylch; a phwy bynag a ddeuai iddi, yr oedd yn teimlo ei dylanwad yn union. Ac y mae ei fod yn dwyn bywyd i'r amlwg ymhob man fel yna, yn ddigon o brawf ei fod wedi buddugoliaethu ar angau. Ac nid dyna y cwbl sydd i'w ddywedyd, ond y mae anllygredigaeth wedi ei ddwyn

i oleuni,—bywyd yn y byd a ddaw. Yr oedd syniadau tywyll am fyd arall gan eglwys y seremonïau; ond yr oedd y byd tragywyddol i'r ddaear yn debyg iawn fel y mae Affrica i ni yn y deyrnas hon. Wrth edrych ar *fap* o'r cyfandir hwnw, ni a welwn enwau ychydig leoedd ar yr ymylau, ond am gorff mawr y wlad, hyn sydd yn ysgrifenedig:—Anadnabyddus, *(unexplored)*, heb ei chwilio allan. Fel hyn yr oedd y byd tragywyddol: gwyddent am ychydig bethau ar yr ymylau; ond am gorff mawr y wlad, yr oedd yn rhaid ysgrifenu *unexplored:* nis gwyddent yn y byd beth oedd yno. Ond yn Judea, fe ymddangosodd rhyw Berson rhyfedd, oedd wedi teithio hyd a lled y cyfandir dieithr;—fe ysgrifenodd hanes ei deithiau i ninau, ac a dynodd *fap* o'r wlad. Yn awr y mae hi wedi ei dwyn i oleuni: ni a wyddom yn awr pwy ydyw ei Brenin hi,—beth ydyw ei harferion hi,—pa fath hinsawdd sydd iddi. Y mae tragywyddoldeb wedi ei ddesgrifio ganddo a'i ddwyn i oleuni.

2. Gellir edrych ar ran olaf y testyn fel canlyniad y rhan gyntaf, neu fel moddion dygiad y rhan gyntaf o amgylch. (1.) "Diddymodd angau, ac a ddug fywyd,"—diddymodd angau trwy ddwyn bywyd. Yr oedd angau wedi ein dieithro ni i ymherodraeth Duw. Yr oedd ein talaeth ni wedi gwrthryfela yn erbyn y Brenin tragywyddol; am hyny nid oedd dim cymundeb rhyngom ni ag eisteddfa y llywodraeth: ni wyddem ni' bron ddim am dani; ond yr oedd yr heddwch a wnaeth Mab Duw rhwng y ddaear â'r byd ysbrydol yn ein hadferyd ni yn ol i gymundeb â'r brif-ddinas, ac felly i wybodaeth yn ei chylch. Yr ydym ni yn nghyrau pell Cymru yn lled gydnabyddus â Llundain, ac yn fwy felly nag ag aml dref sydd yn nes atom. Pa fodd hyny? Yn Llundain y mae eisteddfa y llywodraeth yr ydym dani. Felly y mae yr Arglwydd Iesu wedi amlygu mai y byd arall ydyw eisteddfa llywodraeth y byd hwn; a dyna paham y gwyddom gymaint am y nefoedd. Hi ydyw palas y Brenin yr ydym ni dano. Y mae hyn wedi ei dwyn hi i oleuni i ni, oblegid y mae deiliaid yr un llywodraeth yn lled gydnabyddus â'u gilydd. Pan oedd India y dwyrain o dan lywodraeth rhai o'i meibion ei hun, ni wyddent bron ddim am ein gwlad ni: ni wyddem ninau ond ychydig

iawn am eu gwlad hwythau: ond wedi ein huno dan yr un goron, yr ydym yn frith gydnabyddus â'n gilydd; ac yn enwedigol y mae trigolion India felly â'n gwlad ni, oblegid yma y mae cartref y llywodraeth. Y mae yr undeb hwn wedi rhoddi goleuni iddynt ar ein harferion,—wedi eu cynhyrfu i ddysgu ein hiaith, ac i chwilio i ryfeddodau ein gwlad. Felly yr oedd trigolion y ddaear yn ddieithr iawn i fyd arall, cyn iddynt gael eu huno dan yr un goron: ond pan wnaeth yr Arglwydd Iesu hyny, daeth y byd arall i oleuni mawr. Yr ydym yn frith gydnabyddus âg ef yn awr,—yr ydym yn treulio ambell awr yn y pellder yma i astudio arferion y brif ddinas, ac y mae ambell un wedi cael ei gynhyrfu o drugaredd i ddysgu iaith y wlad. Neu, i ddywedyd yr un peth mewn geiriau eraill, nis gallwn wybod llawer am wlad, os na fydd heddwch a masnach rhyngom ni â'r wlad. Yr oedd China hyd yn ddiweddar yn gauedig oddiwrth bawb: ni wyddem ni bron ddim am y wlad, y trigolion, na'u harferion; ond pan wnaed y *treaty*, y cyfamod, rhyngom a'r wlad, fe daflwyd amryw o'i threfydd hi yn agored,—y mae y dirgelion wedi eu dwyn i raddau mawr i oleuni, ac y mae cymundeb prysur yn cael ei gario ymlaen rhwng y ddwy wlad. Pa fodd y gwyddom ni yn y pellder hwn gymaint am y nefoedd? Wel, ein Brawd hynaf sydd wedi gwneuthur cyfamod heddwch â'r wlad; am hyny y mae cymundeb prysur yn cymeryd lle rhyngddynt, ac y mae yr Hwn a wnaeth yr heddwch â'r awdurdodau goruchaf wedi anfon cyfrol o hanes y wlad. Daeth bywyd ac anllygredigaeth i oleuni yn ganlyniad i ddiddymiad angau.

(2.) Trwy ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, fe ddiddymodd angau i deimlad ei bobl. Y mae angau yn y Testament Newydd yn wahanol iawn i angau yn yr Hen. Brenin dychryniadau,—diwedd pob cnawd,—tori ymaith,—newid y wyneb ac anfon i ffordd, ydyw ef yno. Yr oedd yr olwg hon arno yn cadw y saint dros eu holl fywyd dan gaethiwed. Huno,—huno yn yr Iesu,—marw yn yr Arglwydd,—dodi heibio y tabernacl,—datod pabell, ydyw angau yn awr. Beth a'i cyfnewidiodd gymaint i deimlad y saint? Golwg ar yr hyn sydd y tu draw. Y mae y gogoniant sydd o'i ol yn diddymu ei ddychryniadau. Fe ysbeiliodd Crist angau o'i rym deddfol,

fel yr oedd yn weinyddwr dedfryd gyfiawn Duw; ac y mae ei athrawiaeth wedi ei ysbeilio o'i rym ar y Cristion. Y mae angau Crist wedi cymeryd ymaith ei allu i niweidio; ac y mae ei athrawiaeth wedi cymeryd ymaith ei allu i ddychrynu.

Priodol y gelwir cynwys y testyn hwn yn efengyl. Y fath le pruddaidd, annedwydd, digysur, fuasai y ddaear, oni bai fod y gwirionedd hwn ynddi. Yr ydym wedi gweled marwolaeth ein cymydogion,—yr ydym wedi teimlo marwolaeth ein perthynasau,—gwyddom nad ydyw ein marwolaeth ein hunain nebpell oddiwrthym: "beddau sydd barod i ni." Yr ydym yn diflanu fel tarth,—yn gwywo fel blodeuyn,—yn syrthio fel deilen: y mae rhyw dynged anwrthwynebol yn ein hyrddio ni i'r bedd. Y mae yr olwg hon yn ddigon pruddaidd; ond annhraethol fwy trymaidd ydyw yr olwg ar gynulleidfa yn ddiystyr o hyn,—yn cyfaddef eu bod i farw, ac eto ddim yn meddwl yn ddifrifol am hyny am bum' mynyd mewn blwyddyn;—yn addef mai dyrnfedd ydyw eu dyddiau, ac eto yn eu treulio mor wastraffus a phe buasent i'w mesur wrth fesurau tragywyddoldeb;—yn addef mai diflanedig ydyw amser, ac eto yn ymddwyn tuag ato fel pe buasai yn dragywyddoldeb annifianedig. Y mae gwallgofrwydd wedi ymaflyd ynom. Er teimlo i raddau mai tragywyddoldeb ydyw ein cartref; er gweled â'n llygaid nad oes dinas barhaus i neb ar y ddaear, eto yr ydym yn gallu bod yn dawel heb feddwl am y byd a ddaw. Ac os melltena y meddwl i'r fynwes weithiau, yr ydym yn barod i ddywedyd, "Dos ymaith ar hyn o bryd; a phan y caffwyf amser cyfaddas, mi a alwaf am danat." Yn nghanol angau, yr ydym yn anghofio angau. Nis gwyddom ddydd ein marwolaeth; ond yn lle cymeryd mantais ar hyny i fod beunydd yn barod, yn hytrach yr ydym yn troi ansicrwydd bywyd yn faeth i anystyriaeth o angau. Gallesid disgwyl y buasai gwirionedd fel hwn yn peri i enaid pob un yn y lle ddychlamu gan lawenydd, ac y buasai yma ymwthio i gyffwrdd âg ymyl gwisg yr Hwn a ddaeth a bywyd ac anllygredigaeth i oleuni; ond nid felly y mae. Y mae yma rai yn gwrandaw, beth bynag a ddaw i'w cyfarfod, ni ddaw angau yn ystyr eangaf y gair byth. Y mae "chwerwder marwolaeth" wedi myned heibio. Y maent wedi myned "trwodd o farwolaeth

i fywyd." Ond y mae yma eraill, yn *ol* y mae y cyfan iddynt hwy. Y maent wedi gwneyd "cyfamod âg angau" hyd yma; ond ni saif: oblegid "torwr amod" ydyw angau erioed. Ond y mae yn dda genyf gael cyhoeddi y telerau ar ba rai y gellwch wneuthur cyfamod â'r "Hwn a ddiddymodd angau:" —"Yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw: a phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd." Ioan xi. 25, 26. Cytunwch âg Ef yn awr: nid oes genych ddiwrnod i'w golli, oblegid fe all colli diwrnod fod yn golli tragywyddoldeb i chwi.

[Bore Iau, Hydref 26, 1847.]

# PREGETH XV.

## CADARN I IACHAU.

ESAIAH lxiii. 1:—"Wyf gadarn i iachau."

MAE y Prophwyd hwn wedi llefaru mor eglur am bethau dyfodol fel y mae yn hawdd camgymeryd ei brophwydoliaeth am hanesyddiaeth. Pan arweiniwyd Balaam i fyny i fryn gweledigaeth, yr oedd cysgodau a niwl yn crogi dros y lle, fel nad allai ganfod yn eglur. "Gwelaf ef," meddai, "ond nid o agos." Ond pan arweiniwyd Esaiah i fyny, yr oedd hi yn foreugwaith heb gymylau;—yr oedd ef yn gallu taflu ei olwg ymlaen dros agendor o saith can' mlynedd, a desgrifio holl amgylchiadau bywyd a marwolaeth y Messiah mor fanwl a phe buasai yn llygad-dyst o'r oll.

Pruddaidd a galarus ydyw cynwys cyffredinol ei brophwydoliaethau am y Messiah; oblegid, beth ond pethau pruddaidd oedd i'w cofnodi am yr Hwn a ddechreuodd ei oes yn llety yr anifail,—a'i treuliodd mewn môr o ofidiau,—ac a'i diweddodd hi yn alltud o greadigaeth Duw, wedi ei lethu i lwch angau gan ddigofaint ei Dad?—Y mae prophwydoliaeth y testyn fel seren ar noswaith dywyll yn sirioli ychydig ar y ffurfafen. Nid "gwr gofidus a chynefin â dolur" sydd yma, ond Buddugoliaethwr "hardd yn ei wisg;"—nid un "wedi ei daraw," "ei faeddu," "a'i gystuddio," sydd yma, ond un "yn ymdaith yn amlder ei rym;"—'ei fraich ei Hun wedi ei achub, a'i lidiawgrwydd wedi ei gynal.' Yr oedd y prophwyd newydd ganfod y

Messiah yn iselder ei ddarostyngiad, heb "na phryd na thegwch,"—ei farn 'wedi ei chymeryd ymaith,'—neb yn dyfod ymlaen 'i draethu ei oes,'—'yn cael ei dori o dir y rhai byw gan bla' "am gamwedd ei bobl;" ond yn awr y mae efe wedi cyfnewid cymaint, hyd nes y mae y prophwyd yn methu ei adwaen. Y mae e yn gofyn mewn syndod,—"Pwy yw Hwn?" Y mae yn amlwg mai Buddugoliaethwr ydyw, oblegid y mae Efe yn goch ei ddillad, fel un a fyddai yn dyfod i fyny o faes y gwaed. Ond y mae rhywbeth o'i amgylch sydd yn peri i'r prophwyd ryfeddu, naill ai yn y fuddugoliaeth ei hun, neu yn null enilliad y fuddugoliaeth. Feallai fod y fuddugoliaeth ei hun yn synu y prophwyd, oblegid o Edom, gwlad y gelynion, —o Bozrah, y brif ddinas, y lle cadarnaf yn y wlad, y mae y Buddugoliaethwr yn dyfod. Buasai gorchfygu rhai o faes-drefi Edom yn rhyfedd, oblegid nid pobl lonydd a diofal fel y Sidoniaid oeddent hwy; ond yr oedd gorchfygu Bozrah, calon y wlad, gwreiddyn ei holl gadernid, yn orchfygu y wlad oll.

Fe ddichon mai dull enilliad y fuddugoliaeth oedd yn peri i'r prophwyd ryfeddu, a gofyn, "Pwy yw Hwn?" Y mae ei wisg yn dangos ei fod yn Fuddugoliaethwr, oblegid y mae hi yn goch gan waed; ond y mae Efe "yn ymdaith yn amlder ei rym," fel pe na buasai dim wedi cymeryd lle: eto rhaid mai Efe ei Hun sydd wedi enill y fuddugoliaeth, oblegid 'o'r holl bobl nid oedd neb gydâg Ef.' Y mae llychwiniad y wisg yn tystio fod ymdrechfa ofnadwy wedi bod: y mae agwedd y Buddugoliaethwr yn gwrthddywedyd hyny, oblegid y mae Efe "yn ymdaith yn amlder ei rym." Ond yn awr y mae y Buddugoliaethwr ei Hun wedi dyfod hyd at y prophwyd, ac wrth ei weled yn rhyfeddu, y mae Efe yn egluro y dirgelwch trwy ddywedyd pwy ydyw:—"Myfi yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder, ac wyf gadarn i iachau." Yr wyt ti wedi fy ngweled i lawer gwaith, Esaiah, ond nid yn y wedd hon; am hyny yr wyt yn methu fy adwaen: ond pe buasit ti yn dal yn dy gôf y pethau a leferais i yn erbyn Edom a Bozrah,—fy mod wedi dywedyd 'y byddai i fy nghleddyf gael ei drochi yn y nefoedd i ddisgyn ar Edom, a bod i mi aberth yn Bozrah, a lladdfa fawr yn Edom,'—pe buasit ti yn dal y pethau yna yn dy feddwl, ni buasit yn methu fy adwaen, oblegid "mewn

cyfiawnder" y lleferais hwynt oll, gan lawn fwriadu eu cyflawni. Ac fel yr oeddwn wedi bygwth dial ar fy ngelynion, yr oeddwn hefyd wedi addaw amddiffyn fy eglwys. Yn awr yr wyf yn dychwelyd wedi cyflawni y ddau. Lleferais "mewn cyfiawnder" yn erbyn fy ngelynion: "wyf gadarn i iachau," neu, i achub fy eglwys.

Nis gellir penderfynu yr amser at ba un y mae y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio. Meddylia rhai mai at oruchafiaeth y Gwaredwr ar elynion ei eglwys yn amser ei ddarostyngiad y mae y prophwyd yn cyfeirio; ond wrth gymharu y benod hon â'r liii. y mae hyny yn lled annhebyg, am fod yr holl amgylchiadau a ddesgrifir mor wahanol. Y mae y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy benod yma wedi dyrysu cymaint ar yr Iuddewon, fel y maent er mwyn eu cysoni wedi dychymygu fod dau Fessiah i ddyfod,—un i ddioddef,—yr hwn sydd yn cael ei ddesgrifio yn y liii.—a'r llall i fod yn Fessiah buddugoliaethus, yn ol desgrifiad y benod hon. Ond y mae yn sicr fod y ddwy brophwydoliaeth yn cyfeirio at yr un Person, er feallai mai nid at yr un amgylchiadau. Y mae y liii. yn cynwys yr oll a wnaeth Crist fel offeiriad dros ei eglwys, ac y mae y brophwydoliaeth yma, feallai, yn cynwys yr oll y mae Efe yn ei wneuthur fel Brenin iddi; am hyny ni byddai yn gam â hi i ni edrych arni, nid fel yn dal perthynas âg unrhyw amser penodol, ond â hanes yr eglwys ymhob oes o'r byd. Y mae y Messiah mawr wedi dangos ei Hun yn gadarn i iachau ymhob ymosodiad a fu ar ei bobl erioed. Tystiolaeth o allu y Messiah fel gwaredydd ac amddiffynydd ei eglwys ydyw y testyn. Ni gawn alw eich sylw ato mewn dau olygiad:—I. Yn ei berthynas â hanesyddiaeth; II. Yn ei berthynas â phrophwydoliaeth;—cadernid y Gwaredwr yn ei gysylltiad â'r amser a aeth heibio, ac yn ei gysylltiad â'r amser i ddyfod. Wrth edrych yn ol, y mae hanesyddiaeth yn gwirio y testyn, ac wrth edrych ymlaen, y mae y testyn yn taflu goleuni ar brophwydoliaeth.

Pe byddai y ddaear i fod byth fel y mae hi yn awr, yn llawn trueni o gwr bwygilydd, ei thrigolion yn casâu, yn gorthymu, ac yn lladd eu gilydd,—miloedd o honynt yn byw ar drueni eu gilydd,—yn ddieithr i ddedwyddwch yn y byd hwn, ac yn berffaith anobeithiol am dano yn y byd a ddaw,—pe fel hyn y

byddai hi i fod byth, priodol y gellid dywedyd, fod holl blant dynion wedi eu creu yn ofer. Ond y mae prophwydoliaeth yn datguddio i ni bethau amgenach na'r rhai hyn;—yn dangos y bydd i gyfnewidiad mor fawr gymeryd lle ar y ddaear, fel y gellir yn briodol alw y nefoedd yn nefoedd newydd, a'r ddaear yn ddaear newydd, yn y rhai y bydd cyfiawnder yn cartrefu. Ond y mae sicrwydd cyflawniad hyn yn ymddibynu ar sicrwydd gwirionedd y testyn, bod y Gwaredwr "yn gadarn i iachau:" gan hyny, er mwyn gallu sugno cysur o hono yn ei berthynas â'r amser i ddyfod, ni a alwn eich sylw ato,—

I. Yn ei berthynas â'r amser a aeth heibio, i'w weled yn cael ei wirio gan hanesyddiaeth.

Y mae cadernid y Gwaredwr yn cynwys yr holl gymhwysderau sydd ynddo i fod yn Iachawdwr i'w eglwys: nid gallu yn unig, ond doethineb perffaith hefyd i wybod pa sut i ddefnyddio y gallu hwnw i'r dibenion goreu; ynghyd a chariad anfeidrol i beri iddo osod ei wyneb fel callestr yn erbyn pob gwrthwynebiad.

1. Y mae gallu y Gwaredwr wedi ei amlygu yn ngosodiad i lawr sylfeini eglwys, neu yn symudiad yr atalfeydd oedd ar ffordd ei sefydliad hi ar y ddaear. Yr oedd nerth y Gwaredwr i'w amlygu yn gyntaf, nid yn uniongyrchol ar ei bobl, ond arno Ef ei Hun, mewn enill hawl i fod yn Waredwr. Nid oedd modd iddo wneuthur hyn heb drosglwyddo awdurdod y gyfraith i gosbi, i fod yn awdurdod iddo Ef i waredu. Ni fedd Duw ond un ddeddf i'w greaduriaid. Yr oedd melldith hono yn crogi uwch ben y natur ddynol; a chyn y buasai ei chadwedigaeth hi yn gyfreithlawn, yr oedd yn rhaid cael yr un ddeddf ag oedd yn awdurdodi ei thragywyddol golledigaeth, i awdurdodi ei thragywyddol arbediad. Yr oedd y ddeddf hono yn anghyfnewidiol; a chyn y gallesid cadw, yr oedd yn rhaid i ryw un neu ryw beth gyfnewid; ond os nad all y ddeddf gyfnewid, fe ellir cyfnewid y nefoedd am y ddaear,—fe ellir cyfnewid gorsedd am breseb;—fe ellir cyfnewid anrhydedd y cysegr fry am ddirmyg y byd hwn,—fe ellir cyfnewid y mwynhad perffeithiaf am y trueni dyfnaf;—fe ellir cyfnewid o fod uwchlaw deddf i fod dan y ddeddf;—fe ellir rhoddi dyn yn lle Duw, trwy gael Duw yn lle dyn. Yr oedd holl briodoliaethau Duw

fel pe buasent mewn cyngrair â llid a malais y diafol, i atal sefydliad eglwys ar y ddaear. Yr oedd gwirionedd Duw yn dywedyd wrth y pechadur, "Gan farw y byddi farw." Yr oedd nerth marwolaeth gan Satan i gyflawni y bygythiad. Yr oedd sancteiddrwydd Duw yn alltudio y pechadur o'i wydd. Yr oedd malais Satan yn temtio y pechadur i fyned bellach bellach o'r presenoldeb dwyfol. Yr oedd yr eithafion wedi cydgyfarfod yma;—y sancteiddrwydd puraf, a'r pechod dyfnaf, yn pleidio yr un peth,—Duw y gwirionedd, a thad y celwydd,—y Bod goreu, a'r bod gwaethaf,—yn cyduno i fwrw dyn allan, yn alltud, o greadigaeth Duw. I gyfateb i'r ddau yma, yr oedd yn rhaid i ddau nerth gyfarfod yn y Gwaredwr,—nerth i ddioddef, a nerth i orchfygu,—dioddef y cwbl a ddeuai o'r nef, a gorchfygu y cwbl a ddeuai o uffern. Oen,—aberth difai,—oedd Efe i Dduw: Llew,—un cryfach na'r cryf arfog—oedd i Satan.

2. Y mae gallu y Gwaredwr wedi ei amlygu yn sefydliad yr eglwys ar y ddaear. Wrth gymharu dyn yn ei gyflwr natur â'r desgrifiad sydd genym yn y Bibl o Gristion, ni a welwn mai nid gwaith hawdd oedd sefydlu eglwys. Y mae dyn wedi colli Duw, fel llong wedi colli ei llyw;—fel cwmpas wedi colli yr ehedfaen;—fel corff wedi colli yr ysbryd. Y mae llygaid ganddo, ond nid yw yn gweled Duw;—clustiau, ond nid ydyw yn clywed ei lais Ef;—tafod, ond nid ydyw yn seinio ei fawl Ef;—traed, ond nid ydynt yn rhodio llwybrau y gorchymynion; —dwylaw, ond nid ydynt yn gweithio gweithredoedd Duw.

Y mae y byd hwn mewn ystyr foesol wedi ei wahanu mor llwyr oddiwrth y byd arall a phe buasai *canopy* o bres rhyngddynt, neu agendor mawr wedi ei sicrhau, fel nad allai dim cymundeb gymeryd lle. Er bod rhyw ysgol Jacob ar bob llanerch o'r ddaear i'r enaid gael esgyn ar hyd-ddi i'r byd arall; eto y byd hwn ydyw pob peth dyn. Nid yw y nefoedd ddim yn bod iddo ef: nid yw uffern ddim yn bod iddo:—nid yw tragywyddoldeb chwaith ddim yn bod iddo. Pan fyddo ei enaid yn gweithredu yn fwyaf bywiog, y mae efe bob amser o fewn i gylch hwn. Os bydd yn gadael i ffrwd ei serchiadau redeg allan ar rywbeth, yma y byddant yn rhedeg. Os bydd ei ddeall yn myned ar daith o ymchwiliad, chwilio am rywbeth

ar wyneb y ddaear y bydd. Os cymer ei ddychymyg ei aden, ni eheda yntau un fodfedd o awyr y ddaear. Y mae caracter dyn yn gynwysedig mewn tri gair:—"daearol," "anianol," "cythreulig." Gellir argraffu y cyntaf ar ei holl rinweddau daearol;—gellir argraffu yr ail ar ei holl egwyddorion,—y cwbl sydd yn ei ysgogi i weithredu yn anianol;—gellir argraffu y trydydd ar ei holl bechodau cythreulig. Dyma y fath ddefnyddiau sydd gan y Gwaredwr i weithio arnynt;—o'r meini hyn y mae Efe i gyfodi plant i Abraham,—i wneuthur i fyny eglwys. Beth gan hyny ydyw Cristion? Un fel yma ydyw, medd y Bibl:—dyn sydd i fyw mor wirioneddol o dan nerthoedd y byd a ddaw a phe na buasai yn y byd hwn. Y mae efe i fod mor farw i bethau y byd hwn ag ydyw y dyn anianol i bethau y byd arall. Y mae holl gymdeithas ei enaid i fod gyda phethau anweledig. Y mae ffrwd ei serchiadau i redeg i'r byd a ddaw. Y mae ei ddeall i gartrefu yn y byd a ddaw. Y mae ei ewyllys i gael ei llywio yn gwbl gan bethau y byd a ddaw. A'r hyn sydd yn gwneuthur hyn yn anhawdd ydyw, nad oes modd iddo fyw i'r byd arall, heb farw i'r byd hwn. Ac nid gwaith esmwyth ydyw hyny, am fod y byd hwn yn cyfateb mor berffaith i dueddiadau dyn, fel ag y mae yn ei gyfarfod ymhob pwynt. Os myn ef rywbeth i'w garu, dyma'r byd a'i degwch wrth law; os myn ef drysor i'w ddigoni, dyma'r byd a'i aur a'i berlau wrth law; os myn ef flodau i'w ddychymyg, dyma erddi tlysion y ddaear o'i amgylch; os myn ef fwyd cryf i'w ddeall, dyma'r byd yn agor ei ddirgeledigaethau o'i flaen: ond dyn marw i'r pethau yna ydyw y Cristion. Ac yn mhellach, y mae pethau sydd yn gwrthdaraw eu gilydd i gyfarfod yn ei garacter ef. Y mae efe i ymdrechu ei oreu i gasglu cyfoeth y ddaear: y mae hefyd i edrych arnynt yn cymeryd eu haden, 'ac yn hedeg ymaith megis eryr tua'r wybr,' heb i'r un uchenaid godi o'i fynwes ar eu hol. Y mae efe i garu ei berthynasau â'i holl galon; ac y mae i'w gadael hwynt am byth dan ganu. Y mae efe i fyned i'r holl rwymau perthynasol sydd yn perthyn i ddyn,—i gyflawni pob dyledswydd briodol i'r perthynasau hyny,——ac wedi'n i fod megis pe na byddai ynddynt. Y mae y Cristion i fod yn alltud yn ngwlad ei enedigaeth,—yn ddieithr yn nghanol ei berthynasau,—yn bererin ar ei aelwyd ei hun.

Y mae i fod yn ddyn anianol ysbrydol,—yn ddyn daearol nefol, —yn ddyn amserol tragywyddol. Rhaid cael un cadarn i iachau cyn y cymer cyfnewidiad fel yna le.

Nid ydyw hynyna ond golwg gyffredinol ar y natur ddynol sydd yn cymeryd yn ganiataol ei bod hi oll yr un fath. Nid gwaith hawdd fuasai sefydlu eglwys pe buasai hi felly: ond y mae yn perthyn iddi fyrdd a mwy o neillduolion,—rhyw bethau priodol i bob cenedl,—ar ffordd gosodiad i fyny eglwys. Nid ydyw dynion wedi cytuno am ddim, ond i adael Duw,—i adael ffordd y bywyd,—"troisant bawb i'w ffordd ei hun." Nid oes dim a ddengys amrywiaeth a chroesineb y ffyrdd hyn yn well na duwiau y cenhedloedd: yr oedd y rhai hyn mor aml a hwythau, a phob un o honynt yn fynegai (*index*) i gymeriad yr addolwyr. Prin y caech chwi byth ddwy genedl yn addoli yr un duw. Ynfydrwydd, medd cnawd, ydyw cynyg yr un grefydd i'r rhai yna sydd yn methu cytuno am ddim. Drachefn, nid yn unig yr oedd y gwahaniaeth cenedlaethol oedd rhwng dynion ar ffordd gosodiad i fyny eglwys, ond yr oedd y gwahaniaeth oedd rhwng yr amrywiol ddosbarthiadau mewn cymdeithas yn rhwystr anorfod, gellid meddwl. Nid peth cenedlaethol oedd yr efengyl: nid peth dosbarthiadol oedd hi ychwaith; ond yr oedd rhywbeth ymhob cenedl, ac ymhob dosbarth, ar ffordd ei llwyddiant, mor anhawdd ymadael âg ef ag â braich dde, neu lygad de. Edrychwn ar y tlodion: byddwn yn arfer meddwl fod cyfaddasrwydd neillduol ynddi i wynebu ar dlodion y byd; ond ar ryw olwg hwy oedd y rhai annhebycaf o'i derbyn, am eu bod yn hollol anwybodus, ac o ganlyniad, yn llawn o goel-grefydd. Yr oedd eu tadau a'u teidiau wedi marw yn y ffydd ymha un y magwyd hwythau; a phwy bynag a fuasai yn cynyg newid eu crefydd, yr oedd cwestiwn cyffelyb i eiddo y wraig o Samaria yn eu genau, 'Ai mwy wyt ti na'n tad, yr hwn a roddes i ni y duwiau hyn? ac efe ei hun a'i deulu a'u haddolasant.' Yr oedd yn anmhosibl iddynt newid eu crefydd heb daflu anfri ar eu tadau: nid oes dim yn anhaws gan ddynion ei wneuthur na hyn. Ar ol marw un hoff genym, yr ydym yn perarogli pob peth sydd yn perthyn i hwnw, i'w cadw hwynt byth mewn coffadwriaeth. Ond cyn y gallesid sefydlu eglwys ymysg tlodion y byd,

yr oedd yn rhaid symud y rhwystr mawr yna i ffordd.

Eilwaith yr oedd cymaint o rwystrau, os nad mwy, i'w sefydlu hi ymhlith y dysgedigion a'r mawrion. Yr oedd y philosophyddion wedi bwyta o bren gwybodaeth, ac wedi breuddwydio eu bod hwy yn dduwiau; nid tebyg gan hyny y buasent hwy yn derbyn peth mor syml ag efengyl. Ceisio doethineb yr oedd y Groegiaid,—rhywbeth a fyddai yn faeth i falchder y rheswm dynol. Cyn y buasai yn ddichonadwy iddynt gofleidio yr efengyl, yr oedd yn rhaid eu troi a'u gwneuthur fel plant bychain,—eu dwyn i deimlo fod eu doethineb yn ynfydrwydd,—eu philosophi yn wâg-dwyll,—eu rheswm yn ddim ond rhyw fagïen fechan, goleu pa un nad oedd yn gwasanaethu i ddim ond i wneuthur y tywyllwch yn weledig.

Eilwaith, yr oedd yr offerynau a ddefnyddiwyd i osod i fyny eglwys yn gyfryw ag oedd yn gogoneddu nerth y Ceidwad;—pysgodwyr Môr Galilea: nid am eu bod yn annysgedig, ond am eu bod yn dlodion,—tlodion yn pregethu yr efengyl. Prin yr oedd yr un Iuddew yn hollol annysgedig: yr oeddent hwy hefyd wedi bod am dair blynedd o dan ddysgeidiaeth yr Athraw mawr ei hun. Y mae yn wir nad oeddent hwy ddim yn gweled defnydd yr egwyddorion yr oedd efe yn eu planu yn eu meddyliau ar y pryd: yr oeddent yn debyg i ddynion yn derbyn trysorau gwerthfawr yn y nos; ond pan ddaeth dydd y Pentecost, dyma hwy ar unwaith, gydâg iddynt gael y goleu, yn ddynion perffaith yn Nghrist Iesu. Ni fu neb mor gymwys erioed i bregethu yr efengyl. Y maent yn wynebu ar y byd heb ddim ond gwirionedd noeth, yn cael ei bregethu gan dlodi, heb yr un gyfraith i'w gefnogi,—heb elw yn dilyn ei dderbyn. Yr oedd yn rhaid iddo gael ei dderbyn er ei fwyn ei hun yn unig, neu nid oedd modd iddo ddyfod i mewn i'r galon.

Wel, gan mai peth fel yna ydyw eglwys, a chan mai dyna y fath ddefnyddiau sydd i'w ffurfio o honynt, a chan mai dyna'r offerynau sydd i'w sefydlu, gwaith ofer, medd cnawd, ydyw disgwyl gweled hyny wedi cymeryd lle. Edrychwn ar y byd yn amser yr Arglwydd Iesu;—yr oedd ei holl drigolion yn eu perthynas â chrefydd yn perthyn i un o'r enwau yma;—Atheistiaeth, Anffyddiaeth, Eilunaddoliaeth, Coel-grefydd, neu Ragrith. Judea, cartref y deml, mangre yr oraclau dwyfol,—yr oedd yn

briodol ysgrifenu *rhagrith* ar ei holl seremonïau, oblegid yr oedd enaid ei chrefydd hi wedi ymadael; am hyny yr oedd corff marw y traddodiadau a'r seremonïau yn ffiaidd yn ngolwg yr Arglwydd. Judea hefyd oedd llygad y byd; ac os oedd goleuni y byd yn dywyllwch, pa faint raid fod y tywyllwch? Ond edrychwch ar y byd ymhen ychydig flynyddoedd ar ol dydd y Pentecost, mor wahanol ydyw yr olwg arno!—y mae fel pe byddai wedi ei greu o'r newydd. Y mae atheistiaeth, anffyddiaeth, ac eilunaddoliaeth yn diflanu fel tarth o flaen yr haul. Beth sydd wedi cynhyrfu y gwledydd? Paham y mae teml Diana yn Ephesus mor wâg? Paham y mae temlau trythyll Corinth wedi eu gadael? Paham y mae lle cymaint o deulu brenhinol Cesar yn wâg yn nhemlau Rhufain? Yr Un "cadarn i iachau" sydd wedi marchog yn ngherbyd iachawdwriaeth drwy y ddaear. Mi a glywaf greigiau Arabia Garegog yn adsain enw yr Iesu a'r groes. Dacw Ismaeliad gwyllt yr anialwch wedi ei ddofi fel un o blant Jacob. Beth a achosodd y cyfnewidiad yna? Saul o Tarsus sydd wedi bod am dair blynedd yn Arabia yn pregethu yr Un cadarn i iachau. Dacw y deml ar fynydd Gerizim yn cael ei gadael gan drefydd cyfain:—paham? Phylip yr efengylwr sydd wedi bod yn Samaria yn pregethu Crist. Dacw Dionysius, un o seneddwyr Athen, a Damaris, un o wragedd parchusaf y ddinas, a bagad o bobl, yn gadael holl allorau y ddinas aml ei heilunod;—Paul sydd newydd bregethu yno y gŵr a ordeiniodd Duw. Y mae oraclau y byd wedi distewi,—allorau y duwiau yn adfeiliedig,—ffyrdd y temlau yn galaru, am nad oes neb yn dyfod i'r gwyliau arbenig. Y mae yr Un cadarn i iachau wedi peri fod mwy o ddylanwad mewn goruwch-ystafell yn Tröas nag sydd yn y deml wychaf ar wyneb y ddaear;—wedi peri fod mwy o dynfa mewn adeilad blaen ar lan afon yn ymyl Philippi nag sydd yn yr allorau gwychaf a fedd y byd. Nid yw Olympus ddim yn tynu sylw yn awr: y mae Calfaria wedi myned a'i le ef. Dacw'r philosophyddion yn gadael ysgrifeniadau y beirdd, i gael treiddio i mewn i farddoniaeth Esaiah a Salmau melysion Dafydd. Dacw ysgrifeniadau tad hanesyddiaeth yn cael eu taflu o'r neilldu, a dyddiau a nosweithiau yn cael eu treulio uwchben gwaith pysgodwyr Mor Galilea. Dacw fuddugoliaethau Alexander

oedd wedi bod yn destyn syndod am ganoedd o flynyddoedd, yn cael eu llyncu i fyny gan fuddugoliaethau Adda yr ail. O Jerusalem yn Asia, hyd Ilyricum yn Ewrop, y mae pob ysmotyn yn llawn o efengyl Crist. Y mae gwlad Canaan wedi myned yn gywreinfa *(museum)* y ddaear,—yn gartref ei holl ryfeddodau. O'r blaen edrychid i'r Aipht am hynafiaethau,—i Groeg am ddirgelion,—i Tyrus a Sidon am fasnach,—i Rufain am gymdeithas goethedig; ond yn awr y mae'r Aipht a'i hynafiaethau yn cael eu gadael,—y mae peth *hŷn* o lawer wedi ei gael yn mhreseb Bethlehem,—yr Hen Ddihenydd yn blentyn amser. Y mae dirgelion Groeg yn cael eu bwrw o'r neilldu, oblegid y mae mwy dirgelwch o lawer i'w weled tua glanau Mor Galilea, dirgelwch duwioldeb, Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Y mae masnach Tyrus a Sidon wedi ei lyncu i fyny yn rhyfeddodau masnach y ddaear â'r drydedd nef: cymdeithas goethedig Rhufain yn cael ei gadael er mwyn cael cymdeithas â'r Tad, ac â'i Fab Ef, Iesu Grist.

3. Y mae nerth y Gwaredwr yn cael ei amlygu yn mharhad yr eglwys ar y ddaear. Y mae cymaint o allu Duw yn cael ei amlygu mewn rhagluniaeth ag sydd mewn creadigaeth, oblegid parhad creadigaeth ydyw rhagluniaeth. Yr un gallu ag a ddygodd yr oll i fod, sydd yn cael ei gadw mewn gweithrediad i gynal yr oll mewn bod. Felly hefyd y mae am yr eglwys: y mae yn rhaid cael yr un gallu ag a fu yn rhoddi bywyd i'r Cristion i gynal y bywyd hwnw. Nid ydyw gallu y Gwaredwr yn dyfod i'r amlwg mor eglur ymhob Cristion unigol ag ydyw yn yr eglwys yn gyffredinol; ond nid ydyw yn llai gwirioneddol ymhob Cristion, er nad ydyw mor eglur; oblegid pe na byddai i'r eglwys gael ei chynal yn enaid dyn, byddai yn anmhosibl ei chynal hi yn y byd. Nid yn y golwg y mae nerth y pren i ddal yr ystorm, ond o'r golwg yn y gwraidd: felly y mae pren eglwys Dduw yn dal lliaws o ystormydd, ond yn ei gwraidd hi yn enaid pob Cristion yn bersonol y mae ei nerth hi i hyny.

(1.) Y mae y byd er y dechreuad yn ymryson â'r eglwys, pan y byddai hi yn deilwng o'r enw. Fe all garu eglwys lygredig; ond y mae yn rhwym o gasâu eglwys sanctaidd. Y mae cynllwyn wedi bod o amgylch Sïon, a bradychwyr wedi bod o'i

mewn hi, ond y mae hi yn parhau er yr oll hyd y dydd hwn. Oddiallan y mae erledigaeth, fel yr afon hono, wedi ymosod lawer gwaith ar y wraig; ond gydag y byddai y dyfroedd yn ymyl, a phyrth uffern yn meddwl y byddai hi yn rhwym o gael ei boddi, byddai rhyw un anweledig yn rhoddi dwy aden i'r wraig, iddi ehedeg ymaith i'r diffaethwch i'w lle ei hun: wedi cael adenydd, gall wenu ar yr afon. Lladded erledigaeth y saint wrth y miloedd,—dyma filoedd yn barod yn y fan i gymeryd eu bedyddio dros y meirw. Fe ddyrysodd Satan yn hynod pan aeth i ymyraeth â gwaed. Fe fynodd dywallt gwaed y Gwaredwr,—fe brynodd hwnw eglwys. Y mae efe eto yn tywallt gwaed y saint; y mae hwnw yn eangu terfynau yr eglwys; a thrwy waed Crist, fel achos a sylfaen, a gwaed y saint fel moddion, y mae ei deyrnas ef yn dyfod i'r llawr. Os oes cymaint o werth mewn gwaed dynol, fel ag y gofyn yr Arglwydd ef hyd yn nod o law pob bwystfil direswm, am fod y ddelw wedi bod unwaith ar ddyn, pa faint mwy yn ngwaed y saint sydd â'r ddelw wedi ei pherffeithio arnynt drachefn. Y mae y Gwaredwr yn ei ofyn o law Satan bob tro, ac yn ei orfodi i'w dalu yn ol, weithiau ar ei ddegfed ar hugain, bryd arall ar ei driugeinfed, bryd arall ar ei ganfed, ac weithiau ar ei filfed, a mwy. Pob buddugoliaeth a gaiff Satan ar yr eglwys, y mae hi fel buddugoliaeth Israel ar Absalom, yn alar iddo. Y mae y saint, gan farw (fel y dywedodd y wraig o Tecoah) yn marw wrth y miloedd mewn erledigaeth; ond nid ydynt fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear, y rhai ni chesglir; na, y mae saint byw yn cael eu casglu wrth y miloedd i fyny megis o waed y rhai meirw.

(2.) Ni bu erledigaeth erioed yn golled i'r eglwys. Mewn llwyddiant y mae ei pherygl hi: mewn esmwythyd y mae hi yn cysgu, fel Samson ar liniau Dalilah, ac yn colli ei nerth, nes y mae y Philistiaid, ei gelynion, yn gallu ei chadw hi mewn caethiwed; ond ymhen gronyn y mae ei gwallt hi yn tyfu eilwaith,—y mae hi yn cael nerth i ymdrechu drachefn gydâ'i Duw; ac yn fynych fynych, ar ol dychweliad ei nerth, y mae hi yn dinystrio mwy ar deyrnas Satan nag a wnaeth hi cyn ei golli. Y mae yn y fan hon amlygiad rhyfeddol o allu y Gwaredwr i amddiffyn a chadw ei eglwys mewn bod; oblegid

y mae ei hymwared hi yn codi o'i dinystr,—ei bywyd hi yn tarddu o'i hangau: wrth fyned i farw, y mae hi yn myned i ail ddechreu byw. Yn amser yr erledigaeth greulonaf, y mae yr eglwys yn ffynu fwyaf; felly o'i marweidd-dra mwyaf y mae y diwygiadau mwyaf yn d'od. A phe na byddai genyf yr un sail arall am fywyd ac adfywiad yr eglwys yn y dyddiau hyn, y mae ei marweidd-dra hi yn ddigon o sail genyf. Os ydych chwithau yn methu gweled dim arwyddion dydd yn y lle hwn, er edrych i bob cwr i'r ffurfafen, nad oes yr un seren ddydd i'w chanfod, ond tywyllwch dudew, Aiphtaidd, yn gorchuddio yr oll;—os felly mae hi, tynwch gysur o'r tywyllwch yna,—arwydd dydd ydyw hwnyna i eglwys Dduw. Dull ei Gwaredwr o'i chadw hi yn y byd, ydyw ei bywhau hi o farwolaeth. Nid ydwyf yn deall pa fodd, na phaham, y mae hyn; ond oddiwrth hanes yr eglwys, y mae yn eithaf eglur mai fel hyn y mae. Ni fywheir, oni bydd hi marw, naill ai mewn erledigaeth, neu mewn llwyddiant; ond y mae y naill farwolaeth a'r llall yn dwyn tystiolaeth i gadernid y Gwaredwr, am fod adgyfodiad gogoneddus yn eu dilyn hwynt bob amser.

3. Y mae gallu y Gwaredwr lawn mor amlwg mewn cadw yr eglwys rhag ei dinystrio ei hun. Y mae elfenau dinystr i'w canfod ymhob peth a greodd Duw erioed. Y mae y greadigaeth weledig a materol yn heneiddio fel dilledyn,—yn suddo i ddiddymdra wrth ei phwysau ei hun. Gellir casglu hefyd fod rhyw elfenau dinystr yn myd y meddwl: daeth hwnw o law y Creawdwr yn deg odiaeth yn y bore, ond yn ngwrthryfel Satan a'i luoedd, cafwyd prawf yn union fod rhyw elfenau dinystr ynddo. Ond pa un a ydyw hyn yn hanfodol i'r meddwl, hyd yn nod mewn ystad o berffeithrwydd, sydd yn anhawdd i ni benderfynu. Fe allai ei fod. Y mae cwymp angylion yn ein tueddu i feddwl felly; ac fe ddywedir wrthym hefyd mai yn Nghrist y mae diogelwch yr angylion sanctaidd rhag i elfenau dinystr dori allan eto yn eu plith. Ond sut bynag y mae hynyna, y mae yn bur amlwg fod yr eglwys yn llawn o elfenau dinystr. Y maent yn tori allan ynddi mewn rhai o'u ffurfiau yn barhaus;—mewn anghydfod,—mewn cynen,—ac yn enwedigol mewn heresiau. Y mae yr eglwys yn debycach i'r sêr gwibiog o lawer nag ydyw hi i'r planedau. Y mae'r planedau

yn ymsymud bron yn yr un pellder ymhob rhan o'u cylch oddiwrth yr haul; ond y mae y sêr gwibiog yn ymsymud mewn cylch hir-grwn,—rhai o honynt yn myned ymaith ar eu hunion am ugeiniau o flynyddoedd oddiwrth yr haul; felly seren wibiog ydyw yr eglwys yma,—y mae hithau weithiau yn myned ymaith ar ei hunion oddiwrth yr haul am amser maith. Gellid meddwl wrth edrych ar gyflymdra ei hysgogiad, y byddai hi wedi myned ymaith yn fuan tu allan i'w ddylanwad, i blith 'trysorau y rhew a'r eira' tragywyddol. Ond pan y mae hi wedi ei cholli o ffurfafen y ddaear, nid ydyw wedi myned y tu allan i awdurdod Haul y Cyfiawnder. Cyn y Diwygiad Protestanaidd yr oedd *comet* yr eglwys wedi ei cholli am byth gallesid meddwl: nid oedd dim tebyg iddi mewn un cwr o'r ffurfafen; ond un diwrnod fe welwyd tremwedd goleuni mewn un cwr o'r nefoedd. Yr oedd e 'n myned ddisgleiriach ddisgleiriach o wythnos bwygilydd, a'r byd yn sỳnu wrth yr olygfa ddieithr. Pa beth ydyw, atolwg? Hen gomet yr eglwys sydd yn dyfod yn ol o'i chrwydriadau, tua chymydogaeth yr haul. Drachefn, hi a gychwynodd ar dipyn o daith lawer gwaith wed'yn; ond nid aeth hi byth cyn belled, ac yr wyf yn lled hyderus nad ä hi byth ychwaith, ond y tynir hi yn nes-nes at yr Haul, nes o'r diwedd y bydd hi wedi dyfod i'w ymyl, yn uniongyrchol dan ei belydrau byth.

Ymosoded Satan yn y dull a fyno ar yr eglwys, y mae yr Un cadarn i iachau yn barod i'w gyfarfod ymhob dull. Deued Satan âg afon i'w boddi, daw y Gwaredwr â dwy aden i'r wraig i ddianc;—deued Satan â gwres erledigaeth i'w dyddfu, y mae gan y Gwaredwr gysgod Craig fawr iddi lechu ynddo;—deued Satan ymlaen fel llew rhuadwy i'w llarpio, fe deifl y Gwaredwr ei hun yn "fur o dân" o'i hamgylch, i gadw y bwystfil draw. Os bydd Satan yn peri i fwg ei bydew ddyrchafu i dywyllu ffurfafen yr eglwys, y mae y Gwaredwr y pryd hwnw yn lledu ei gwmwl goleu uwch ei phen, rhag iddi ddyrysu yn y tywyllwch. Ac yn wir, pa le na bu eglwys Dduw mewn perygl, a pha le y gorchfygwyd hi gan y perygl? Dyma ddau beth anmhosibl,—dangos lle na bu perygl ar yr eglwys,—dyna y cyntaf, a dangos y man y gorfuwyd hi gan y perygl,—dyna yr

ail. Y mae ei dagrau hi wedi ymgymysgu â holl afonydd y ddaear. Y mae dyfroedd Euphrates, Tigris, Cedron, a'r Iorddonen, wedi eu cysegru â dagrau y saint. Y mae paganiaeth wedi meddwi ar ei gwaed hi,—pabyddiaeth wedi crechwenu o gylch y tân fyddai yn ei llosgi hi. Fel Ismael, y mae llaw pawb yn ei herbyn: Negro anwar Affrica, a philosophydd medrus Ewrop, wedi tywallt eu holl lid arni; ond fe fyddai eu nerth hwy i ddial yn darfod cyn y byddai nerth yr eglwys i ddioddef yn darfod; am hyny byw yw hi eto. Y mae ei hesgyrn hi wedi eu taenu ymhob gwlad: haul llosgedig y dwyrain wedi tywynu arnynt;—rhew ac eira oesol y Gogledd wedi eu cànu. Y mae Satan wedi dwyn y greadigaeth i gynghrair i'w difodi. Y mae y môr wedi ei gyfoethogi â chyrff y saint,—bwystfilod yr anialwch wedi eu gwledda â chnawd duwiolion,—ogofäu y mynyddoedd wedi eu sancteiddio â gwaed meibion Duw; ond er hyn oll 'mae y bobl yn preswylio eu hunain heddyw, heb eu cyfrif gyda'r cenhedloedd.' Ac ar ol yr holl gyflafan, "pwy a rif lwch Jacob heddyw, a rhifedi pedwaredd ran Israel Duw?" Y mae ein Gwaredwr yn gadarn i iachau.

II. Y mae cadernid y Gwaredwr yn destyn cysur i ni gyda golwg ar y dyfodol.

1. Wrth edrych ar y byd paganaidd. Yr ydym yn byw mewn byd llawn o drueni, yr hwn sydd yn cael ei amgylchu âg awyrgylch o anwiredd. Y mae ei awyr yn heintus o annedwyddwch. Cyn gynted ag y dechreua y maban anadlu ynddi, y mae'r haint yn ymweithio drwy ei holl gyfansoddiad: ond yn y byd paganaidd y gwelwn ni ddrych teg o holl effeithiau hinsawdd pechod ar y natur ddynol. Wrth edrych arno, yr ydym yn cael ein temtio i ddywedyd, mai yn ofer y crewyd holl blant dynion. Y mae dyn yno yn îs na'r anifail a ddifethir. Y mae hyd yn nod bwysfilod yr anialwch yn ddedwydd mewn cymhariaeth i ddyn. Nid ydyw eu syched hwy am waed ddim yn agos cymaint ag ydyw ei syched ef am waed ei gyd-greadur. Y mae dreigiau yr anialwch yn dyner mewn cymhariaeth iddo. Y mae mwy o foneddigeiddrwydd yn y llew sydd yn trigo yn mhoethfanau y diffaethwch nag sydd yn y dyn sydd yn trigo yn yr un wlad ag ef. Y mae y dyn, druan,

yn chwilio am einioes mewn angau, fel pe buasai ei ddedwyddwch ef i darddu o drueni pawb arall. Y mae efe yn agor cynifer o ffynhonau gofid ag a all, gan ddisgwyl i hapusrwydd redeg o honynt i'w enaid ef. Wrth edrych ar yr olygfa hon, y mae ein calon ni yn marw mewn anobaith o'n mewn. Y mae yn wir y dywedir wrthym, fod ugeiniau o genhadau wedi myned allan, ond yr ydym yn barod i ofyn yn y fan, 'Beth ydyw hyny rhwng cynifer?' Braidd na ddywedem ni yn ein hanghrediniaeth, 'Pe gwnelai yr Arglwydd ffenestri yn y nefoedd,' a ddigonir cynifer? Fe'n cyfeirir ni wed'yn at wawr prophwydoliaeth, ond y mae anghrediniaeth yn ein hatal ni i gymeryd cysur yn y fan yna ychwaith. Yr ydym yn barod i ddywedyd fel Thomas, 'Os na chaf weled â'm llygaid, ni chredaf fod gan Dduw ddim a gyfnewidio y byd paganaidd.' Deuwn i'r testyn, ni a gawn hyny. Oni welsom ni heddyw fod hanesyddiaeth yn ei wirio bob cam? Credwn brophwydoliaeth yn ei oleuni ef. Pe byddai y byd paganaidd yn saith gwaeth nag ydyw, mi a ymgysurwn er hyny wrth wrandaw geiriau y testyn,—"Wyf gadarn i iachau." Os bydd rhai o honoch chwithau, ambell dro, wrth edrych ar gyflafan pechod yn y byd paganaidd, yn rhy wan eich ffydd i ddadleu prophwydoliaeth gerbron Duw, ewch yn union a darllenwch lyfr yr Actau drwyddo, fe wna hyny eich ffydd chwi cyn gryfed ag angau: hi ymeifl ymhob prophwydoliaeth,—ymhob addewid sydd yn y Bibl wed'yn; nis gollwng ychwaith nes cael y cyflawniad. Os ydyw y byd yn drythyll, nid yw e ddim yn fwy felly nag oedd Corinth; os ydyw y byd yn eilunaddolgar, nid yw e ddim yn fwy felly nag oedd Athen; os ydyw y byd yn farw mewn camweddau a phechodau, nid ydyw yn fwy felly nag oedd Ephesus; os ydyw y byd yn wrthwynebol i grefydd sanctaidd, nid ydyw yn fwy felly nag oedd Philippi. Fe doddodd y rhwystrau yna unwaith o flaen y Cadarn hwn fel y todda cŵyr o flaen tân. Nac edrychwn ryw lawer ar y byd, oblegid suddo a wnawn ni felly yn y fan, fel Pedr wrth edrych ar y môr: yn hytrach edrychwn ar y Cadarn i iachau,—gwnawn yr oll y mae Efe yn ei orchymyn, ac edrychwn at ei gadernid Ef am sail ein llwyddiant, ac nid ar y rhwystrau sydd o'n blaen ni.

2. Y mae cadernid y Gwaredwr yn sail cysur i ni wrth edrych ar yr eglwys. Gauaf ydyw hi arni hithau yn awr: nid yw hi ddim fel y bu hi yn y blynyddoedd o'r blaen. Y mae bywiogrwydd a serchogrwydd dyddiau ei hieuenctid wedi eu colli i raddau mawr, ac yn eu lle y mae marweidd-dra a phenwyni henaint wedi ymaflyd ynddi. Y mae llawer o'i haelodau yn rhy debyg i'r gwragedd y mae y prophwyd Esaiah yn sôn am danynt,—y maent yn foddlawn ar yr enw yn unig. "Ein bara ein hun a fwytâwn, a'n dillad ein hun a wisgwn: yn unig galwer dy enw di arnom ni." Ië, y mae yr aur coeth da wedi tywyllu. Wrth ganfod hyn, y mae rhai yn prophwydo fod rhyw nos dywyll gerllaw: braidd na fynent i ni gredu fod crefydd yn marw,—duwioldeb yn gadael y ddaear,—yr eglwys yn darfod am dani dros byth. Y mae eraill yn galw am yr hen dadau yn ol,—eisiau cael Rowlands, a Harris, ac Elias, i ail deithio Cymru, gan feddwl, pe ceid hwy, yr adfywiai yr eglwys. Ond tybed nad ydyw ein cymorth ni yn nes atom o lawer? Nid rhaid i ni, fel Saul, brenin Israel, fyned i godi y meirw i'n gwaredu, oblegid y mae genym Waredwr byw. Dynion oeddent hwythau: fe roddwyd anrhydedd mawr arnynt yn eu dydd, a bydd eu coffadwriaeth yn fendigedig ddyddiau y ddaear; ond nid oes dim a gyfrifent yn gymaint o ddirmyg ag i ni gynyg lle y Cadarn hwn iddynt, na rhoddi yr un gronyn o'i fawl Ef iddynt hwy. Am hyny, eglwysi, os mynech chwi gael adnewyddiad, gwnewch fel yr hen Eliseus,—nid galw am y gwas, ond am y Meistr;—nid pa le y mae Elias, ond "pa le y mae Arglwydd Dduw Elias?" Dim ond ei gael Ef, fe holltai dyfroedd yr Iorddonen eto fel cynt.

Y mae yr eglwys mor wirioneddol ymddibynol ar Grist am bob peth ysbrydol yn awr ag ydoedd hi yn yr anialwch am bob peth tymhorol. O'r uchelder yr oedd pob peth yn dyfod iddi yno; am hyny nid oedd raid iddi ddigaloni wrth ganfod tywod crasboeth yr anialwch, na gofidio am ei bod hi yn sengi daear nad oedd dim bara yn dyfod o honi; oblegid yr oedd hi yn cael ei bara o'r nefoedd bob dydd. Pe buasai trysorau yr uchelder yn darfod, fe fuasai ganddi destyn ofni. Felly y mae hi yn awr mewn ystyr ysbrydol: y mae yr anialwch yn grasboeth iawn o'n hamgylch; y mae ein hysbrydoedd ninau yn

aml yn dyddfu gan y gwres: a phe buasem ni yn arfer cael ein bywoliaeth o'r anialwch, buaswn inau yn meddwl fod crefydd yn darfod, a'r eglwys yn rhwym o farw; ond gan mai ar fendithion yr uchelder yr ydym ni yn arfer byw,—gan mai ar drysorau ei Cheidwad y mae yr eglwys yn arfer cael ei chynal,—nid rhaid iddi ddigaloni: nid oes perygl iddi farw, oblegid y mae Efe "yn gadarn i iachau." Y foment y byrhäo llaw y Gwaredwr fel nad allo achub, moment i Sïon ofni fydd hono. Ond y mae yr ofnau yma wedi dal yr eglwys ymhob oes: ni a'i cawn hi yn llyfr y prophwyd Esaiah yn cwyno eisiau rhywbeth heblaw ei Gwaredwr i fod yn amddiffyn iddi. Fel hyn y mae Lowth yn cyfieithu yr adnodau hyny yn pen. xxvii:—"Yn y dydd hwnw cenwch iddi, gwinllan y gwin coch." Yna y mae yr Arglwydd, y Gwaredwr yn dywedyd, "Myfi, Jehofah, a'i ceidw; ar bob moment y dyfrhaf hi: cadwaf hi nos a dydd rhag i neb ei drygu." Yna y mae 'r eglwys mewn anghrediniaeth yn ateb, fel pe buasai yn anmhosibl iddi gael ei chadw,—"Nid oes genyf fur i'm hamddiffyn: O na byddai genyf gae o ddrain a mieri o'm hamgylch"—rhywbeth i ymddiried ynddynt am ddiogelwch heblaw ei Gwaredwr. Yna y mae yr Arglwydd, ei Gwaredydd, yn ei hateb hi yn ol mewn eiddigedd sanctaidd, wrth ei gweled hi yn troi at bawb yn hytrach nag ato Ef:—"Yn eu herbyn hwynt, pe byddai i mi fyned mewn rhyfel, mi a'u llosgwn hwynt i fyny ynghyd. A! yn hytrach, ymafled yn fy nerth i." Dyma y lle y mae diogelwch Sïon, yn yr Un cadarn i iachau. Os ydym ni yn Babilon, a dorau pres rhyngom a gwlad yr addewid, beth ydyw dorau pres i Waredwr cryf? Os ydym ni yn yr Aipht, a môr rhyngom ni a gwlad Canaan, beth ydyw môr i un a fedr droi ei dònau yn balmant, neu hollti ei ddyfroedd i gael llwybr trwy ei ddyfnderau? Os ydym ni mewn rhyw Assyria, ac anialwch tywodlyd rhyngom ni a thir Israel, beth ydyw anialwch i un a all mor hawdd ddwyn bara o'r cwmwl ag y gall ei ddwyn o'r ddaear,—mor hawdd beri i afon redeg o'r graig gallestr ag o'r ffynon ar ochr y mynydd? Y mae Efe "yn gadarn i iachau."

3. Ni a ymgysurwn yn nghadernid y Gwaredwr wrth edrych ar y byd annuwiol o'n hamgylch. Ni fuasai dim gwaith ar y ddaear mor anobeithiol o lwyddo a phregethu, oni bai fod y

testyn yn wirionedd. Beth ydyw pregethu? Ceisio cael anialwch i flodeuo fel rhosyn,—ceisio cael gan lysiau paradwys dyfu ymysg tywod cras-boeth y diffaethwch,—desgrifio lliwiau wrth ddeillion,—canu pibell i fyddariaid,—galw ar fudion i folianu, —hau had da y gwirionedd ar greigiau,—ceisio ysgrifenu y gorchymynion ar adamant,—prophwydo uwch ben esgyrn sychion,—siarad â dynion meirwon. Ffolineb, medd cnawd; ond ffolineb sydd yn cadw ydyw, am mai ffolineb y "Cadarn i iachau" ydyw. Ni a agorwn ddarlun y byd a ddaw eto o flaen deillion Eden,—ni a ddesgrifiwn y map ein goreu, er mai deillion sydd yn gwrandaw, oblegid y mae agorwr llygaid wedi addaw bod gyda ni. Tra y mae'r gweision yn egluro y darlun y mae Efe yn fynych yn dywedyd wrth y pechadur, "Cymer dy olwg," nes y mae e'n gweled "Sïon, dinas ein cyfarfod, Jerusalem, y breswylfa lonydd, y babell ni thynir i lawr," am y waith gyntaf erioed. Ni a alwn eto ar fudion pechod i folianu, oblegid y mae yr Hwn a fedr ddatod rhwym y tafod yn gwneuthur hyny drwy y galw, nes y byddo y rhai a fu yn fudion yn clodfori Duw am iachawdwriaeth rad. Ni a seiniwn bibell yr efengyl i'r byddariaid eto, oblegid y mae yr Hwn a fedr ddywedyd, "Ephphatha" wrth y glust, hyny yw, "ymagor," yn gwneuthur hyny yn fynych ar ganol y dôn, nes y bydd byddariaid yn dawnsio gan lawenydd wrth bereidd-dra llais durtur efengyl. Ewch â chaledwch a didduwiaeth y wlad, drwy y cyfan, at y Cadarn ei Hun. Yr ydym wedi dwyn llawer un caled at y disgyblion, ond y mae yr ysbryd aflan heb ei fwrw allan o hono eto;—llawer tad wedi dwyn ei blentyn at y gweision enwocaf a fedd Cymru; ond y mae yr ysbryd aflan yn y bachgen eto. Nid oedd rhesymeg Paul fedrus, na hyawdledd Barnabas wlithog, na serchogrwydd Ioan gariadus, na zel Pedr danllyd, yn cael dim effaith arno; ond y mae un porth eto i'w dreio ar ol i'r disgyblion fethu,—cymerwch ef at yr Iesu ei Hun. Ni fethodd Efe erioed. Y mae "yn gadarn i iachau."

Y mae ugeiniau yn ein cynulleidfaoedd ni fel mab y Sunamëes wedi marw: y mae gweision y prophwyd wedi bod yn gosod ffon y prophwyd ar eu gwynebau lawer gwaith; "ond ni ddeffrôdd y bachgen." Beth a wnawn ni? Ai eu gadael yn mreichiau oerion yr angau ysbrydol? Na, nid felly; ond

fel y Sunamëes, ewch at y prophwyd, a dywedwch wrtho, "Fel mai byw yr Arglwydd, ac mai byw dy enaid di, nid ymadawaf fi â thi;" a dim ond cael y Prophwyd ei Hun at y marw, fe lònid calon llawer mam yn Israel eto â'r ymadrodd, "Cymer dy fab;"—llawer gŵr â'r geiriau, "Cymer dy wraig;"—"dad, cymer dy blentyn;"—"fam, cymer dy ferch." Y mae y Prophwyd "yn gadarn i iachau."

Y mae graddau yn yr angau ysbrydol. Y mae yn wir fod y naill mor farw a'r llall; ond i'n golwg ni y mae rhai yn fwy anobeithiol na'u gilydd o lawer;—llygredigaeth wedi treiddio yn ddyfnach i'r naill na'r llall. Yr oedd y meirw naturiol a gyfododd yr Arglwydd Iesu yn ddrych teg, mi feddyliwn, o'r farwolaeth ysbrydol:—Merch Jairus—nid oedd hi ond newydd farw,—newydd gau ei llygaid ar y byd hwn—llygredigaeth heb ddechreu ei waith—yr oedd hi mor debyg i'r byw, fel nad oedd ond un gwahaniaeth rhyngddi, sef nad oedd anadl o'i mewn; Mab y weddw o Nain—yr oedd ê wedi marw er's dyddiau—llygredigaeth wedi ymaflyd ynddo—yr oedd ê ar yr elor, ac yn ymyl y bedd; Lazarus—yr oedd ê yn y bedd—ei gnawd wedi gweled llygredigaeth, ac hyd yn nod ei chwaer oedd mor hoff o hono wedi colli pob gobaith am ei weled ef yn fyw: "y mae efe weithian yn drewi," meddai Martha. Onid oes rhyw raddau tebyg i'r rhai hyn yn ysbrydol? Y mae rhai, fel merch Jairus, yn debyg iawn i rai â bywyd o'u mewn. Nid oes dim llygredigaeth yn tori allan mewn unman. Dyma ddynion moesol ein cynulleidfaoedd, sydd yn rhodio yn ymyl crefydd,—mor debyg i grefyddwyr fel nad ellir gwybod wrth ddim allanol nad ydynt i'w cyfrif ymysg y rhai byw yn Sïon. Y mae eraill, fel mab y wraig weddw o Nain, yn ddigon amlwg i bawb eu bod yn farw: y maent wedi cefnu ar gymdeithas y rhai byw, ac y maent yn ymyl cael eu claddu gan bawb. Dyma annuwiolion cyhoeddus ein hardaloedd. Feallai nad ydynt wedi cwbl ymadael âg ordinhadau tŷ yr Arglwydd; ond y maent yn myned oddiyno yn addfetach i'r bedd bob Sabbath. Ond O! gymaint sydd yn ein hardaloedd ni fel Lazarus, nid yn unig yn farw, ond yn y bedd, ac yn drewi o lygredigaeth. Dyma annuwiolion rhyfygus ein gwlad, sydd wedi eu rhoddi i fyny gan bawb,—pob gobaith eu gweled hwy yn gadwedig

wedi ei golli—y mae hyd yn nod eu perthynasau anwylaf yn methu gobeithio am ddim o'r fath beth. Y maent fel Mair a Martha yn wylo; ond dagrau anobaith ydyw eu dagrau. Y maent yn barod i ddywedyd, "O! fy mrawd," neu "O! fy nhad,"—y mae ef yn llygru yr ardal yma oll,—y mae ei lwon yn gwenwyno yr awyr o'i amgylch,—y mae yn felldith i'r holl gymydogaeth, oblegid y mae efe weithian yn drewi mewn llygredigaeth. Beth a wneir yn wyneb y pethau hyn? Ai gadael Lazarus yn y bedd; a gosod maen anobaith ar enau yr ogof; a myned oddiyno i gladdu mab y weddw o Nain, a gosod maen cyffelyb ar ei fedd yntau; a myned oddiyno drachefn at dŷ Jairus—fe fydd y ferch farw hono yn barod i'r bedd bron yn union? Na, na, nid felly ychwaith, ond ni a anfonwn genad ar ol cenad i atolygu ar yr Iesu i ddyfod ati. Os ydych chwi wedi dwyn mab y weddw yn y lle hwn i ymyl y bedd, peidiwch myned gam yn mhellach nes y bydd yr Iesu wedi ymadael â'r gororau. Os oes yma rai wedi claddu eu perthynasau a'u cymydogion mewn anobaith,—yn lle wylo uwchben y bedd, a dywedyd mewn anghrediniaeth eu bod hwy weithian yn drewi, treiglwch ymaith y maen—symudwch bob rhwystr oddiar y ffordd—ac na adewch lonydd i'r Cadarn i iachau, nes ei gael Ef i waeddi, "Tyred allan," uwch eu pen: hwy a ddeuant allan yn y fan wed'yn. Dyma ddrws llydan i'r penaf o bechaduriaid am ei fywyd. Beth bynag yw eich pla chwi, y mae y testyn heddyw yn yr amser presenol,—"Wyf gadarn i iachau." Pe buasit ti wedi trochi dy ddwylaw gyda Manasseh yn ngwaed y saint, y mae ei waed Ef yn ddigon rhinweddol i'w cànu hwynt fel eira yn Salmon. Pe buasit ti wedi hoelio ei draed a'i ddwylaw wrth y groes, y mae digon o rym yn y weddi hono,—"O Dad, maddeu iddo!" i beri iti gael dianc byth gan dy Farnwr. Pe buasit ti wedi ynfydu yn erbyn ei saint, fel Saul o Tarsus, y mae ei gyfiawnder Ef yn ddigon mawr i guddio dy ynfydrwydd di am dragywyddoldeb.

Ni fu y Gwaredwr erioed yn rhy wan i iachau. Fe fu yn rhy wan i gerdded a rhodio: yr oedd yn rhaid cael angel i'w nerthu;—fe fu yn rhy wan i fyw, ond yr oedd Ef y foment hono "yn gadarn i iachau." Pan oedd angau yn datod cylymau ei gorph a'i enaid, yr oedd Efe yr un foment yn datod

cylymau yr angau ysbrydol oddiam enaid y lleidr. Pan oedd Efe yn marw fel Mab y dyn, yr oedd Efe yn bywhau fel Mab Duw. Os oedd Efe "yn gadarn i iachau" ar y groes, pa faint mwy ar yr orsedd? "Efe a ddichon yn gwbl iachau;" gan hyny ymddiriedwch ynddo byth. Gwyliwch gellwair âg Ef. Y mae ei bobpeth ar y ddaear wedi eu troi yn nerth i achub. Cadernid i iachau ydyw yr oll yma; ond cadernid i gosbi fydd yr oll yr ochr draw, oblegid y mae efe wedi llefaru y cwbl mewn cyfiawnder. Y mae Efe yn gadarn i sefyll at ei air. "Wyf gadarn" fydd ei iaith Ef byth. Cwmwl goleu am dragywyddoldeb fydd hyny i'r saint; ond haner nos dragywyddol fydd yr un peth i'r annuwiol. Tyred ato—fe fydd Hollalluogrwydd rhyngot ti ag uffern. Saf draw am ychydig eto, fe fydd yr un Hollalluogrwydd rhyngot ti a'r nefoedd wed'yn. Gwroldeb llew wedi ei uno â thynerwch Oen sydd gan y Gwaredwr yma; ond llid Oen yn cael ei weinyddu gan nerth llew fydd yr ochr draw.

[Ebrill, 1846.]

## PREGETH XVI.

### YR HYN A AMLYGWYD YN FANTAIS I WYBOD YR HYN NID AMLYGWYD.

I IOAN iii. 2:—"Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae."

"NID amlygwyd eto." Nid oes odid un o wirioneddau mawrion ein crefydd nad ydyw yn briodol i ryw raddau cymhwyso y geiriau hyn ato. Nis gelwir arnom i gredu dim, nad allwn ddywedyd, yr awr hon ni a wyddom rywbeth am dano; ond, er hyny, nid oes yr un o'r gwirioneddau hyn nad ellir dywedyd am ryw ran o hono, "Nid amlygwyd eto." "O ran y gwyddom;" ac y mae rhan heb ei wybod. Y mae yn rhaid i ffydd gael sicrwydd fod y peth yn bod cyn y gall ei gredu; ac yn hyn y mae y Bibl mor eglur fel y gellir dywedyd, "Ni a wyddom;" ond os awn i holi i fanylrwydd ynghylch y peth, yr ateb fydd, "Nid amlygwyd eto." Ni a wyddom yr awr hon fod Duw yn bod; ond pa fath ymhob ystyr ydyw y Duw hwnw, "nid amlygwyd eto." Ni a wyddom yr awr hon fod nefoedd ac uffern yn bod; ond pa fath ydyw y ddau le, "nid amlygwyd eto." Ni a wyddom yr awr hon y byddwn oll yn hanfodi mewn sefyllfa ar ol hon, ond beth a fyddwn y pryd hwnw, "nid amlygwyd eto."

Gellir cymhwyso iaith y prophwyd at y Bibl yn yr ystyr hwn. "Nid dydd, ac nid nos," ydyw; y mae yma oleuni, ond "goleuni yn yr hwyr ydyw." Y mae cymaint o oleuni fel y gellir dywedyd am ei bob peth ef, Ni a wyddom eu bod yn bod; ond y mae cymaint o dywyllwch ynghylch y modd y

maent yn bod, fel y mae yn rhaid dywedyd am danynt, "Nid amlygwyd eto." Yr oedd yr Atheniaid wedi codi allor "i'r Duw nid adwaenir:" gwyddent ei fod yn bod, onid è ni buasent yn gwneuthur allor; ond yr oedd yr ysgrifen oedd arni yn profi na wyddent pa fath un ydoedd: ac y mae yr un ysgrifen yn briodol i'w cherfio ar bob peth ein crefydd ni;—"nid adwaenir." Yr ydym yn eich gwahodd chwi i nefoedd nid adwaenir: yn eich rhybuddio i ochel uffern nid adwaenir: iaith y llyfr am y naill yw, "Ni welodd llygad, ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn i feddwl" ei rhagoriaeth: ac am y llall, "Pwy a edwyn nerth dy soriant?" Y gwrthddrych mawr sydd yn ganolbwynt ein crefydd,—un nas gwelsom ydyw hwnw. "Pethau nis gwelsid eto" ydyw ei phob peth hi. Y mae y niwl a'r tywyllwch hwn sydd yn gorchuddio i raddau bob peth ein crefydd, yn peri i ni weithiau ddefnyddio iaith y rhai hyny wrth yr Athraw, "Pa hyd yr wyt ti yn peri i ni ameu? dywed i ni yn eglur;" ond, erbyn ystyried am foment, yr ydym yn teimlo ein bod wedi llefaru fel y llefarai un o'r ynfydion; oblegid ni allai y Duw mawr ddim llefaru wrthym yn eglur, heb yn gyntaf ein gwneyd yn blant yr adgyfodiad. Parai hyny yn y fan i ni beidio â bod yn ddeiliaid cymwys y byd hwn. Yr oedd y tywyllwch oedd o amgylch Duw ar Sinai yn peri i Moses ddymuno am ei weled yn ddilén; ond nis gwyddai beth yr oedd yn ei ofyn, oblegid buasai yr olwg yn angau iddo; felly pan yr ydym ninau am wybod i fanylrwydd beth a fydd ar ol hyn, nis gwyddom beth yr ydym yn ei ddymuno, oblegid byddai yr olwg yn fwy nag y gallem ni ei dal yn y corff. Fel meibion Zebedeus, yr ydym yn awyddus i gael gwybod beth a fyddwn, ond fel hwythau y mae yn rhaid ein bedyddio â bedydd angau cyn y gellir amlygu hyny i ni. "Nid amlygwyd eto beth a fyddwn."

Ond er y tywyllwch sydd o'i amgylch, y mae y cwestiwn, Beth a fyddwn? yn sibrwd ymhob mynwes; ac feallai fod y tywyllwch sydd yn ei amgylchu yn gymorth i'w gadw yn fyw yn y meddwl, oblegid y mae dirgelwch yn effeithio felly bob amser ar ddyn. Cuddier unrhyw beth, y mae y meddwl yn ceisio hylldremu ar y peth hwnw, fel pe byddai mwy o swyn iddo yn y tywyllwch nag yn y goleuni: oblegid hyn, y mae

aneglurder y byd arall mewn gwirionedd yn fantais i gadw y byd hwnw ger bron y meddwl. Nid yn unig nid ydyw yn fai gofyn yn aml beth a fyddwn; ond y mae sefyll yn fynych ac yn ddifrifol uwch ben y cwestiwn yn ddyledswydd arnom. Tra y gofalwn i beidio ceisio bod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd, y mae yn ddyledswydd arnom sylwi yn fanwl ar y cwbl a ysgrifenwyd, a defnyddio pob awgrymiad sydd yn y Bibl am y byd nid adwaenir.

Iaith Cristion ydyw y testyn: er ei fod yn wirionedd am y drygionus, fel am y sant, nad amlygwyd eto beth a fydd; ond nid yw efe yn gofalu am ddim o'r pethau hyn. Gwir fod holl drigolion y byd yn gofyn, Beth a fyddwn? Ond nid yw "beth a fyddwn" neb ond un y Cristion yn myned dros derfynau y byd hwn. Os daw y cwestiwn, Beth a fyddaf draw? i feddwl yr annuwiol, nid ydyw ond megis tywyniad mellten: y cwestiwn sydd yn aros—sydd yn cartrefu yn y meddwl—ydyw, Beth a fyddaf yma? Y mae y ddau garacter yn bryderus ynghylch y dyfodol; ond y mae dyfodol y naill yn y byd hwn, tra y mae dyfodol y llall yn byd a ddaw. Ond y mae y saint sydd yn meddwl fwyaf am y cwestiwn, Beth a fyddwn? yn meddwl rhy ychydig o lawer; ac feallai nad ydyw yn cael ei gyflwyno i sylw o'r pulpud mor aml ag y byddai da, a hyny oblegid y teimlad sy wedi ei gynyrchu rywsut mewn aml fynwes, mai nid iawn ydyw sôn llawer am ddisgwyliadau y saint yn nghlyw annuwiolion; ac mai dychrynfëydd Duw ydyw unig foddion tröedigaeth pechadur. Ond pan yn teimlo fel yna, yr ydym yn gollwng dros gôf fod gair Duw yn gleddyf dau finiog, a'i fod fel y cwmwl hwnw, yn oleu ac yn dywyll, fel na ellir cyhoeddi "Da fydd i'r cyfiawn," heb i'r gydwybod dynu yn gasgliad oddiwrth hyny, "Gwae yr anwir, drwg fydd iddo:" ac feallai nad oes dim yn cynyrchu cymaint o ofn uffern yn mynwes yr annuwiol a thipyn o oleu ar ddarluniadau y Bibl o'r nefoedd. Ac y mae ein bod mor ddistaw ynghylch yr hyn a fyddwn yn profi, naill ai ein bod heb gredu yr hyn a ddywed y Bibl am hyny, neu ynte fod arnom gywilydd son am ein disgwyliadau, oblegid eu bod mor groes i'n hymddygiadau. Yr oedd y Cristionogion cyntaf yn sôn cymaint am y deyrnas yr oeddent i'w derbyn, nes y meddyliodd yr ymherawdwyr Rhufeinig fod eu llygaid ar eu hym-

erodraeth hwynt, ac felly ymroddasant i'w herlid, pan mewn gwirionedd nad oeddent yn meddwl am deyrnas yma, ond teyrnas draw, y dragywyddol deyrnas. Nid oeddent yn aros ond ychydig gyda'r hyn oeddent, am fod cartref eu meddwl gyda'r hyn a fyddent; a phe cartrefem ninau fwy gyda'r hyn a fyddwn, ni a feddyliem lai am yr hyn ydym. Ac wrth i ni sôn am yr hyn y mae y saint yn ei ddisgwyl, bydded i Ysbryd Duw godi hiraeth ymhob calon am gael sail dda i ddisgwyl yr un peth.

Cawn alw eich sylw at ddau beth oddiwrth y testyn :—

I. Yr hyn nid amlygwyd.

II. Yr hyn a amlygwyd. Ac ni a gawn geisio defnyddio yr hyn a wyddom yn fantais i gael cip-olwg ar yr hyn ni wyddom.

I. Yr hyn nid amlygwyd. Y mae dau beth yn neillduol yn perthyn i'r sefyllfa ddyfodol y gall y saint ddywedyd am danynt, "Nid amlygwyd eto."

1. Nid amlygwyd eto beth a fyddant o ran y cymhwysder fydd yn eu cyrff a'u heneidiau, i fwynhau Duw a'i iachawdwriaeth.

2. Nid amlygwyd eto beth a fyddant o ran eu sefyllfa yn nghreadigaeth Duw, neu o ran manteision lle, i'w fwynhau. Daioni wedi ei roddi i gadw,—gogoniant i'w ddatguddio ydyw pob un o'r pethau hyn.

1. Nid amlygwyd beth a fyddant o ran cyfaddasrwydd eu cyrff a'u heneidiau i fwynhau Duw a'i bethau. Y mae yr anghyfartaledd sydd yn awr rhyngom ni â gweithredoedd Duw mor fawr, fel nas gallwn wybod ond ychydig iawn am danynt. Y mae yr enaid mewn carchar, ac y mae y corff o dan orthrymder. Y mae y naill yn gorthrymu y llall, yr enaid yn boen i'r corff, a'r corff felly yn aml i'r enaid. Nis gall yr enaid weled gwaith Duw ond drwy lygaid y corff, ac y mae y rhai hyny yn blino yn edrych. Nis gall dderbyn hysbysrwydd o'i eiriau ond trwy glust y corff, ac y mae hono yn blino yn gwrandaw. Nis gall feddwl am danynt heb gymorth rhyw ran o'r corff, ac y mae hwnw yn cael ei gloi yn fynych gan gwsg a marweidd-dra. Y mae yr ysbryd yn ddiau yn barod, ond y mae y cnawd yn wan; ac oblegid fod y naill yn gwbl ymddibynol ar y llall, y

mae gwendid y naill yn wendid i'r llall. Yn hyn y mae yr enaid yn dra thebyg i'r rhai oedd yn adgyweirio mur Jerusalem: "nerth y cludwyr a wanhäodd," meddynt, "a phridd lawer sydd, fel na allwn ni adeiladu y mur:" oblegid hyny, er cryfed oedd eu hawydd, araf iawn oedd y gwaith yn myned ymlaen. Felly yma yr enaid ydyw y gweithiwr, ond y corff sydd yn cludo y defnyddiau;—efe sydd yn edrych ar weithredoedd Duw, ac ar ryfeddodau ei eiriau;—efe ydyw y cerbyd sydd i gario yr enaid i gynulleidfa y saint. Os na bydd ê yn alluog i wneuthur hyn, bydd yr enaid yn yr un ystâd a'r claf hwnw ar lan llyn Bethesda: gall y pethau rhyfeddaf gymeryd lle gerllaw, ond ni all ef ddim cyfranogi o honynt, am fod nerth y cludwr wedi gwanhau, fel na all ei gymeryd yno. Iaith Paul ydyw ei iaith yntau yn fynych: absenol yn y corff, ond presenol yn yr ysbryd; ond nid yw presenoldeb yr ysbryd ond hanerog iawn yn absenoldeb y corff. Nid yn unig y mae nerth y cludwyr yn gwanhau, fel na ellir casglu ond ychydig ddefnyddiau; ond wedi eu casglu nis gellir eu defnyddio, oblegid pridd lawer sydd yn rhwystr i adeiladu y mur. Y mae yn anhawdd gwybod bron ddim am Dduw a'i bethau yma, oblegid gwendid y cludwyr,—y galluoedd sy genym; ond y mae yn anhawdd i'r wybodaeth hono gael effaith sancteiddiol ar y galon, oblegid y pridd lawer sydd yma—y drwg sydd bob amser yn bresenol.

Y mae yn wir fod yr enaid fel y corff wedi ei ddarostwng i oferedd: a phe buasai pob cymhwysder yn y corff, y mae anghymhwysder yn yr enaid i fwynhau llawer yma. A pheidio son am y pechod sydd ynddo, y mae mewn canlyniad i bechod wedi cyfranogi i raddau pell o natur y pridd; ond er hyny mae yn rhagori cymaint ar y corff, fel i'n golwg ni y mae y ddau wedi eu huno yn anghymharus;—yr enaid yn fywyd,—y corff yn farw;—yr enaid yn ysbrydol,—y corff yn anianol;—yr enaid heb heneiddio na diffygio, a'r corff yn heneiddio ac yn blino: un yn ymsymud gyda chyflymdra drwy greadigaeth Duw; y llall fel pryfyn yn ymgropian yn y pridd, fel mai "pethau nis gwelsid" iddo ef, o angenrheidrwydd, fydd lliaws o'r llanerchau hyny o'r ddaear sydd wedi eu cysegru gan iachawdwriaeth Duw. Gwir fod yr enaid yn frith gydnabyddus â'r mynydd-

oedd sanctaidd, sef Sïon, yr Olewydd, a Chalfaria;—y mae ê wedi sefyll ar fynyddoedd Duw, sef Horeb a Sinai;—ond y mae golwg y llygaid yn annhraethol well nag ymdaith yr enaid. Eto y mae anmhosibilrwydd i'r llygad, mewn myrdd o amgylchiadau, eu gweled hwynt: y mae un fel Barzilai yn rhy hen i deithio mor bell a Jerusalem;—y mae un arall yn gloff fel Jacob—ni all ddringo;—y mae y trydydd fel Eli—ni fyddai yn ddim gwell er myned yno—y mae yn ddall;—y mae un arall fel Paul—ni fwynhaodd ef ddim llawer o'r olygfa—y mae y swmbwl yn ei boeni;—y mae y llall fel Timotheus, yn rhy wan i ddal y daith. Y mae gan bob un ei faich o gnawd. Ond beth fydd corff ysbrydol ac enaid perffaith;—y cludwyr yn rymus, ac heb ddim pridd i rwystro adeiladu y mur;—enaid yn gwbl ar ddelw Duw, a chorff ar ddelw yr enaid, yn cyfranogi o'i briodoliaethau mewn ystyr naturiol, fel y gelwir ef yn gorff ysbrydol? Beth fydd edrych heb flino,—gwrandaw heb ddiffygio,—meddwl heb ballu? "nid amlygwyd eto." Yr ydym ni mor bell oddiwrth berffeithrwydd o bob math, fel nad allwn ni ddim dirnad beth ydyw yn awr. Beth fydd cael enaid heb wybod dim mewn rhan, a chorff heb fod yn atalfa i'r enaid hwnw i wybod pob peth yn berffaith? "nid amlygwyd eto." A fydd y Cristion yn gallu dal cymundeb â chreadigaeth Duw ymhob man heb deimlo dim oddiwrth y pellder? A fydd ef yn alluog i weled mewn moment i waelodion y pethau sydd yn ddirgel yn awr? A all efe ddarllen tragywyddol allu a Duwdod ar y gweithredoedd, heb wneuthur hyny fel ffrwyth hir sylw arnynt? A ga efe ymsymud gyda chyflymdra yr angel drwy'r greadigaeth, neu a fydd efe yn glymedig wrth ryw un lle fel yn awr? Cwestiynau anorphen ydyw y rhai hyn oll, oblegid nid amlygwyd eto beth a fyddwn.

2. Nid amlygwyd beth a fyddwn o ran ein sefyllfa yn y greadigaeth. Y mae y lle y byddwn, fel y modd y byddwn, yn y tywyllwch. Yr ydym wedi sylwi eisoes nad ydyw y modd yr ydym yn bod yn awr yn fanteisiol i fwynhau, ac y mae yn eglur hefyd nad ydyw y lle yr ydym yn awr yn fanteisiol: yr ydym yn rhy bell oddiwrth y brifddinas i fod yn hapus. Yn hono y mae cartref pob peth sydd yn anwyl genym. Hi ydyw ein Jerusalem ni,—dinas ein Brenin,—cartref ein teml, y man

lle y mae molianu yn wastad. Yr ydym yn awr yn gyffelyb o ran ein sefyllfa i'r Iuddewon sydd yn wasgaredig trwy'r gwledydd. Yn ol eu tyb hwy, y Jerusalem ddaearol ydyw y man y dylid addoli ynddo. Nid cyfreithlawn codi allor mewn un man arall,—iddi hi y mae yr offeiriad a'r brenin yn perthyn,—y meitr a'r goron. Gwir eu bod yn adeiladu synagogau ymhob gwlad; ond nid yw y rhai hyny yn werth eu cymharu â'r deml: at sefyllfa hono y mae eu llygaid a'u calon yn troi; cael ei hadeiladu hi ar ei hen sylfaeni fyddai yn nefoedd ar y ddaear iddynt. A thra y byddant yn absenol o Jerusalem, nid oes yr un sefyllfa, pa mor anrhydeddus bynag y gall hi fod, a'u boddlona fel cenedl. Cyffelyb i hyn ydyw y saint; y maent yn wasgaredig o'u gwlad; nid lle addoli yn awr ydyw y ddaear; nid yma y mae y meitr a'r goron; nid yw yr Offeiriad a'r Brenin ddim yn perthyn i'r wlad. Gwir fod ganddynt hwythau eu synagogau: ond y maent yn dyheu am weled y deml—cartref y naill, a'r brifddinas lle y mae gorsedd y llall; ond nid amlygwyd i ni eto pa le y mae y wlad. Pa un ai y saint a gânt eu symud i rywle draw, ai ynte y llys a gaiff ei symud yma? Pan orchfygodd Cyrus y Persiad Babilon, fe symudodd y llys o Persia yno. Felly y mae rhai yn meddwl pan fydd Mab Duw wedi gorphen gorchfygu y ddaear y symuda yntau ei lys yma. Yr ydym yn darllen yn llyfr y Datguddiad fod y Jerusalem newydd yn dyfod i waered o'r nef. Mewn lleoedd eraill yr ydym yn darllen fod y nefoedd i gael ei hail blanu, a'r ddaear ei hail greu, ac feallai mai i'w chymhwyso hi i fod yn gartref i'r llys fydd diben hyny. A phaham nad all yr anrhydedd hwn fod yn aros y ddaear, fel ad-daliad am y dirmyg a gafodd wrth gael ei gwneuthur yn gartref gwrthryfel am filoedd o flynyddoedd. Y mae yn wir fod gwrthryfel, a gwrthryfel yn unig, yn uffern; ond man ydyw hwnw wedi ei barotoi i ddiafol ac i'w angylion—yn gartref gwrthryfelwyr y parotowyd ef. Ond nid felly y ddaear; i addoli y parotowyd hi, ond ei bod hi wedi ei darostwng i oferedd; ac feallai, fel y codwyd y natur a bechodd i undeb â Mab Duw, fod y lle y bu pechod ynddo i gael ei godi hefyd i fod yn brifddinas yr ymherodraeth. Amddiffynfa y Jebusiaid, y man a ddaliodd allan hwyaf mewn gwrthryfel yn erbyn Dafydd, a wnaed yn Jeru-

salem, yn brifddinas, ganddo. Feallai mai yr un modd yr ymddyga Mab Dafydd; ond "nid amlygwyd eto." A fydd y lle nesaf yr un fath a hwn, yn bell o bob man? ai ynte a fydd y greadigaeth oll wedi ei thynu i ymyl ei gilydd, yn gyffelyb fel ag y mae y dull cyflym o deithio yn y wlad hon yn tynu y rhanau pellaf o honi i gymydogaeth eu gilydd.

Feallai fod y testyn yn cyfeirio at ystâd y meirw cyn yr adgyfodiad,—at ddull hynod hanfodiad yr enaid tra y bydd heb y corff. Y mae yn fwy priodol dywedyd "nid amlygwyd eto" am yr ystâd hono nag am yr ystâd ar ol yr adgyfodiad. Sut y byddwn ni byw heb y corff? Ymha le y byddwn ni yn byw? Pa fodd y byddwn ni yn teimlo? A fyddwn ni yn gwybod rhywbeth am amgylchiadau y ddaear? A fydd rhyw gymundeb rhyngom ni a'r rhai a aethant o'n blaen ni i'r ystâd hono? "Nid amlygwyd eto." Y mae y llen heb ei rhwygo. Y mae rhywbeth rhyfedd yn y tywyllwch draw, ond beth ydyw nis gwyddom. Y mae genym fap o'r wlad yn y Bibl, ond nid oes dim ond yr *outlines* wedi eu rhoi i lawr; a hyny sydd yn gerfiedig ar y map, "*unknown*," anadnabyddus. Y mae rhai rhanau o'r ddaear felly. Y mae daearyddwyr yn gwneuthur map o Affrica, ac yn rhoi enwau ychydig leoedd ar hyd y glanau; ond hyny sydd yn ysgrifenedig ar y canoldir, *unknown*. Y mae yno drigolion, ond pwy ydynt? Beth ydyw eu harferion? Beth ydyw eu hiaith? Beth ydyw ansawdd a chynyrchion y wlad? Anadnabyddus ydyw yr ateb. Felly yma, "nid amlygwyd eto beth a fyddwn."

II. Yr hyn a amlygwyd. Nid tywyllwch ydyw yr oll: y mae yma beth goleuni; ac y mae y goleuni hwnw yn rhoddi ychydig fantais i ni wybod beth sydd tuhwnt i len y tywyllwch yna. Y mae dau beth wedi eu hamlygu i'r saint yn fantais iddynt wybod beth a fyddant:—

1. Y maent yr awr hon yn feibion i Dduw.

2. Y mae ganddynt ychydig o hanes y Mab hynaf, ac y mae ganddynt sicrwydd y byddant hwy yn gyffelyb iddo. "Yr awr hon meibion i Dduw ydym . . . . . . ni a wyddom pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae."

1. Yr hyn ydyw y saint yn awr, sef "meibion i Dduw." Y

mae hon yn berthynas nas gwyddom ond ychydig am ei natur, ond ni a wyddom ei bod yn berthynas fwyaf goruchel a all fod, ac yn berthynas mae yn debyg sydd yn dwyn y saint yn nês at y Creawdwr na'r un berthynas arall. Y mae i Dduw lawer o feibion eraill. Meibion Duw y gelwir yr angylion. "Adda fab Duw" oedd ein tad cyntaf. Tebygol fod hwn yn enw a roddir ar yr holl greaduriaid rhesymol sydd wedi cyfranogi o ddelw Duw, ac yn ol mesur eu tebygolrwydd i'r Jehofah. Y mae graddau yn mhriodoldeb yr enw arnynt. Gelwir yr Ail Berson yn "uniganedig Fab," "yn briod Fab," i ddangos fod yna Fab nad oes neb fel Efe. A chan fod y saint yn frodyr iddo, y maent hwythau yn feibion i Dduw mewn ystyr wahanol i bawb eraill. Fe ddywedir eu bod wedi eu mabwysiadu; i ddangos fod cyfnewidiad yn eu sefyllfa yn ngolwg cyfraith. I ddangos fod cyfnewidiad natur wedi cymeryd lle, dywedir eu bod wedi eu hailgenhedlu — eu haileni, ac felly wedi eu gwneuthur yn gyfranogion o'r dduwiol, neu y ddwyfol, anian. Y ddwy ffordd hyn yn unig y gellir bod yn feibion ymysg dynion, sef meibion mewn ystyr naturiol, a meibion yn ngolwg cyfraith; ac y mae y saint yn feibion Duw ymhob un o honynt. Y maent yn feibion yn ngolwg cyfraith, am eu bod wedi eu mabwysiadu. Y maent yn feibion o ran teimlad, am eu bod wedi eu hadgenhedlu, ac felly wedi derbyn "ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn y maent yn llefain, Abba Dad;" fel y mae yn amheus a all neb deimlo mor agos at Dduw ag y gall y saint, —a all neb ddywedyd "Fy Nhad" yn yr un ystyr a'r Cristion. Y mae Duw yn Dad i Iesu Grist mewn ystyr nad ydyw yn Dad i neb arall. Ac oddiwrth eiriau yr Arglwydd Iesu, gallwn gasglu fod rhyw debygolrwydd yn y berthynas sydd rhyngddo a'r saint i'r berthynas sydd rhyngddo âg Ef. "Fy Nhad i a'ch Tad chwithau.

Yr oedd mabwysiad i deulu anrhydeddus yn cael ei ystyried yn fraint oruchel; ond nid yw yn ymddangos fod hyny bob amser yn sicrhau rhagorfreintiau plentyn. Y mae yn debyg fod Eleazer wedi ei fabwysiadu gan Abraham, ac Ismael wedi ei fabwysiadu gan Sarah; ond pan aned Isaac, y mab naturiol, fe ddifuddiwyd y naill a'r llall o ragorfreintiau plant. Yr hwn oedd yn fab Sarah cyn hyny, mab y gaethes y gelwid ef wedi

hyny. Yr oedd Abraham yn teimlo wrth ei droi allan, oblegid yr oedd yn fab naturiol iddo ef; ond un mabwysiedig oedd ef i Sarah, am hyny nid oedd hi yn teimlo dim. Ond nid oes yr un plentyn i Dduw trwy fabwysiad nad ydyw yn blentyn iddo hefyd trwy adgenhedliad; felly y mae yn sicr o "aros yn y tŷ byth." Ac nid ydyw mabwysiad wedi rhoddi hawl mewn dim iddo, nad ydyw adgenhedliad wedi cynyrchu teimlad priodol ar gyfer y peth hwnw. Ni fuasai y mabwysiad yn cynyrchu dim ond teimlad gwas diolchgar at feistr caredig am ei gymwynasau, fel y buasai Eleazer yn teimlo at Abraham pe buasai yn ei wneuthur yn etifedd; ond y mae yr adgenhedliad yn cynyrchu teimlad plentyn at ei Dad, fel teimlad Isaac at Abraham. Gall y mabwysiad beri i ni garu y mabwysiadwr oblegid ei roddion; ond y mae yr adgenhedliad yn ein dwyn i werthfawrogi y rhoddion, oblegid y berthynas sy rhyngom a'r Rhoddwr. Gwnaeth mabwysiad merch Pharaoh dywysog o Moses; ond hi fethodd wneyd Aiphtiwr o hono. Yr oedd mab y gaethes dlotaf yn annhraethol well Aiphtiwr nag ef. Ond y mae Duw yn gwneuthur ei holl blant yn dywysogion ac yn feibion. "Yr awr hon meibion i Dduw ydym." Ond pa help ydyw hyny i ni wybod beth a fyddwn? Llawer ymhob rhyw fodd:—

1. Fel rheol gyffredin, y mae yr hyn a fydd y mab i'w fesur wrth gyfoeth ac anrhydedd y tad. Os bydd y tad yn frenin, y maé y mab yn dywysog: os bydd y tad yn gyfoethog, y mae y mab yn teimlo fod rhan o'r da yn digwydd iddo ef: a'r hyn sydd i benderfynu maint y rhan ydyw maint cyfoeth y tad. Ni ŵyr y saint ddim eto beth ydyw holl gynwys bod yn feibion i Dduw, ond gwyddant ryw ychydig am eu Tad; ac y mae yr ychydig hyny yn fantais iddynt wybod beth a fyddant. Pa fath un ydyw? Y mae urddas a mawredd yn perthyn iddo, oblegid y mae yn preswylio tragywyddoldeb. "Y nef yw fy ngorseddfainc, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed." Y mae yn marchog nef y nefoedd,—yn gwneuthur y cwmwl goleu yn gerbyd iddo,—yn marchog ar adenydd y gwynt,—yn gwisgo goleuni fel dilledyn,—yn *gwisgo* ardderchogrwydd, ac yn *ymwregysu* â nerth. Pa fath un ydyw eu Tad? "Efe yw Creawdydd y nefoedd a'i hestynydd,—lledydd y ddaear a'i chnwd,—yr hwn a

wnaeth y saith seren ac Orïon,—yr hwn sydd yn taenu y gogledd ar y gwagle,—ac yn crogi y ddaear ar ddiddym." "Yr hwn a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn,—yr hwn a fesurodd y nefoedd â'i rychwant,—a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur,—yr hwn a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau." Pa fath un ydyw eu Tad? Efe biau y ddaear;—"Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd," ydynt eiddo iddo, "y ddaear hefyd a'r hyn oll sydd ynddi;—y môr sydd eiddo, Efe a'i gwnaeth;—y mae gorddyfnderau y ddaear yn ei law, ac uchelderau y mynyddoedd yn eiddo." Pwy ydyw eu Tad? "Arglwydd y lluoedd yw ei enw, a'i weision yw pob peth." "Y mae ei lwybr yn y corwynt, ac yn y rhyferthwy,—llwch ei draed yw y cymylau: efe a gerydda y môr ac a'i sych, a'r holl afonydd a ddihysbydda efe. Y mynyddoedd a grynant rhagddo, a'r bryniau a doddant, a'r ddaear a lysg gan ei olwg. Gall wisgo y nefoedd â thywyllwch, a gosod sachlen yn dô iddynt." Beth ydyw bod yn feibion i Dduw? "Nid amlygwyd eto;"—ond dyma ranau o ffyrdd eu Tad; ac y mae y ddarpariaeth sydd ar gyfer y meibion yn gyfryw na fydd raid i'r Tad gywilyddio o'i phlegid. "Nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dad iddynt hwy," ac yn Dad iddynt oll hefyd. Y mae ambell dad na raid iddo gywilyddio arddel rhyw un o'i blant, oblegid y mae y ddarpariaeth ar ei gyfer yn anrhydeddus; ond am y lleill nid yw yn enw iddo eu bod yn perthyn iddo. Un etifeddiaeth oedd gan Abraham: yr oedd ganddo lawer o feibion; ond yr oedd yn rhaid i Ismael, a meibion Ceturah, foddloni ar roddion, i Isaac gael yr etifeddiaeth. Un fendith oedd gan Isaac: yr oedd ganddo ddau fab. Yr oedd gan Dafydd lawer o blant, ond nid oedd modd gwneuthur ond un o honynt yn frenin; ac wrth wneyd hyny yr oedd yn tynu gŵg y lleill. Ond nid felly y mae hi yma: ni fydd yma yr un Esau yn cwyno fod Jacob wedi myned â'i ran ef, oblegid y mae llawer bendith gan ein Tad;—na'r un Ismael yn myned yn ddyn gwyllt, am gael ei droi o'r tŷ, i gael lle i Isaac. Na,—y maent oll yn blant y wraig rydd,—yn aros yn y tŷ byth: na'r un Absalom, nac Ammon, yn cenfigenu wrth yr orsedd i Solomon. "Oblegid os plant, etifeddion hefyd, a chydetifeddion."

2. Mantais arall i ni wybod beth a fyddwn, neu beth a wna

y Tad nefol hwn i'w feibion, ydyw edrych ar yr hyn a wnaeth eisoes. Y mae yr hyn a ddywedwyd eisoes yn wirionedd cyffredinol, sef bod yr hyn a fydd y mab i'w fesur wrth yr hyn ydyw y Tad; ond nid ydyw heb eithriad ar y ddaear, oblegid y mae ambell dad na bydd ei blant fawr well er dim a fedd nac a all tra y bydd efe byw. Ond y mae un arall y mae yr hyn a wnaeth er eu mwyn eisoes, yn ernes y gwna efe lawer ryw ddydd; ac y mae ambell un, er nad ellwch chwi wybod fawr am ei garacter fel tad, eto y mae yr hyn a wyddoch am dano mewn amgylchiadau eraill, yn rhoddi sicrwydd ei fod yn un tyner at ei blant, oblegid y mae yn un trugarog wrth fywyd ei anifeiliaid; y mae yn fraint cael bod yn ei wasanaeth; gellir dywedyd am ei weision fel am rai Solomon, "Gwyn fyd dy weision hyn." Beth ydyw bod yn feibion i Dduw? "Nid amlygwyd eto;" ond ni a wyddom hyn yn awr: y mae yn anrhydedd cael bod yn greadur iddo;—peth gwynfydedig ydyw bod yn was iddo. Ac os mynwn ni wybod beth a all y plant ei ddisgwyl, edrychwn ar yr hyn y mae y distadlaf o'i greaduriaid yn ei gael. Nid rhaid i ni droi i'r Bibl i ddarllen, "Duw cariad yw;" oblegid "y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd." Y mae rhai o'i greaduriaid wedi eu "darostwng i oferedd" gan ddyn; ond y mae yn amlwg arnynt oll fod Duw wedi eu bwriadu i ddaioni,—wedi eu creu i fwynhau: "ei holl weithredoedd a'i clodforant." Ac y mae eu llygaid hwynt oll yn disgwyl wrtho: arno Ef y mae cywion y gigfran yn llefain;—at ei borth Ef y mae y llew yn dyfod i ymofyn cardod bob dydd; ac ar ei fwrdd Ef y mae holl adar y tô yn byw. Ac nid oes yr un yn disgwyl yn ofer wrtho: y mae yn rhoddi iddynt oll eu bwyd yn ei bryd. Os ydyw mor dyner a gofalus o *stock* y *farm*, beth ydyw bod yn feibion iddo?

Ond ni raid i ni fyned at anifeiliaid y maes i gael ein dysgu, oherwydd y mae genym hanes dau ddosbarth o'i feibion. "Adda fab Duw" oedd un; ac yr oedd y ddarpariaeth ar ei gyfer yn gyfatebol i urddas y berthynas. Yr oedd y palas yr oedd yn byw ynddo yn deilwng o fab Duw. Y mae yn lled anhawdd genym ni feddwl y gallasai neb fod yn hapus ynddo; ond nid oes yma ddim ond ei adfeilion: daear a melldith arni sy genym ni, yn rhoddi ei ffrwyth yn anewyllysgar, fel pe

byddai wedi digio wrth ei thrigolion; ond nid felly yr oedd hi i "Adda fab Duw." Nid oedd rhyfel yn ei helfenau, na dig yn ei gwedd: ei holl anifeiliaid yn talu gwarogaeth iddo, gan ddywedyd yn eu hymddygiad, "Byw fyddo y brenin." Ni allasai neb fyned heibio y palas heb ddywedyd, mab Duw sydd yn byw yma! Yr oedd yr agwedd oedd ar ei feddwl hefyd yn cyfateb i urddas y berthynas, fel nas gallesid edrych ar ei wybodaeth, mwy nag ar ei gartref, heb ddywedyd, Yn wir mab Duw ydyw hwn. Yr oedd gweithredoedd ei Dad yn agor eu dirgelwch o'i flaen. Yr un peth iddo ef oedd gweled a deall. Nid oedd yn edrych ar ddim nad oedd yn gwybod ei enw; ac yr oedd yn gwybod ei enw am ei fod yn deall ei natur. Yr oedd ymddygiad tywysog arno. Yr oedd ei Dad yn cymdeithasu yn fynych âg ef. Nid oedd fel Absalom yn fab brenin, heb weled ei wyneb. Na,—"gydag awel y dydd" byddai yn arfer clywed ei Dad yn dyfod i ymweled âg ef. Nid peth bychan oedd bod yn fab i Dduw fel Adda. Ond y mae genym hanes dosbarth uwch o feibion i Dduw, sef angylion: y rhai hyn ydyw y meibion hynaf. Yr oedd Adda ychydig yn îs na hwynt; am hyny yr oedd y rhan a ddigwyddodd iddynt hwy o'r dâ, yn fwy nag a ddigwyddodd iddo ef. Nid oedd Adda, er ei fod yn fab, ddim yn byw gartref: byddai ei Dad ac eraill o'r teulu yn dyfod i ymweled âg ef; ond yr oeddent hwy yn byw gyda'u Tad,—yn sefyll ger ei fron yn wastadol; am hyny yr oeddent hwy yn gweled lliaws o bethau na welodd ef mo honynt. Hwy a welsant lunio ei balas ef; ac wrth yr enwau sydd arnynt, gellid meddwl eu bod yn detrarchiaid ac yn rhaglawiaid dan eu Tad. Ac wrth edrych ar hanes y ddau ddosbarth, y mae yn amlwg i ni fod y Tad nefol yn darparu ar gyfer ei feibion yn gyfatebol i agosrwydd y berthynas. Y mae y saint yn feibion i Dduw: nid amlygwyd eto beth a fyddant; ond oddiwrth yr hyn a wnaeth Duw i'w feibion eraill, y mae yn sicr y bydd y ddarpariaeth ar eu cyfer hwynt yn cyfateb i agosrwydd y berthynas. Yr oedd Adda yn îs na'r angel; am hyny yr oedd y ddarpariaeth yn îs. Y mae yr angel yn îs na'r sant; am hyny fe fydd yr hyn a fydd y saint yn rhywbeth annhraethol ragorach na'r hyn ydyw yr angel. Y mae iddo feibion eraill; ond y mae y

rhai hyny fel Ismael a meibion Ceturah. Y sant ydyw *Isaac;* y Cristion ydyw *Joseph* ei Dad. Ac er bod yr holl feibion eraill i gael bendithion: y mae ei fendithion ef i ragori hyd derfyn bryniau tragywyddoldeb ar eiddo y lleill. Yr oedd Duw yn perthyn yn agos i Adda: y mae yn perthyn yn nes i'r angel; y mae yn perthyn yn nes eto i'r Cristion. Y maent hwy yn y Mab, a'r Mab yn y Tad. Llais yr "Arglwydd Dduw" a glybu Adda yn yr ardd: "Arglwydd y lluoedd" sydd yn ngenau yr angel wrth agosâu at yr orsedd; ond "ein Tad yr Hwn wyt yn y nefoedd" sydd yn ngenau y sant. Yr oedd Adda yn fab Duw, a'r angel yn fab Duw; ond fe bechodd y ddau. Y mae y Cristion yn fab Duw, ac nid all ef ddim pechu, oblegid y mae wedi cyfranogi o'r ddwyfol anian, fel y byddai iddo ef bechu yn rhywbeth yn debyg i waith Duw yn ei wadu ei hun. Wel, gan ei fod mewn nês perthynas, bydd uwch darpariaeth ar ei gyfer. Rhoddodd Joseph roddion i'w holl frodyr, ond rhoddodd bum' cymaint i Benjamin ag a roddodd i'r lleill, am ei fod yn perthyn yn nês iddo. Nid amlygwyd eto beth ydyw bod yn feibion i Dduw; ond y mae yn rhywbeth uwch nag oedd Adda, pan y crewyd ef gyntaf; uwch na bod yn angel goleuni; ïe, y mae yn rhywbeth na ddaeth i feddwl angel ddychymygu dim am dano. Dywedodd un o'r Paganiaid oedd wedi ei ddychwelyd yn Gristion, nad oedd yn sŷnu wrth drefn iachawdwriaeth wedi clywed gwaith pwy oedd hi, "oblegid," meddai, "y mae hi yn debyg i'w waith Ef." Ond pan amlygir beth yw bod yn feibion i Dduw, bydd hyny yn rhywbeth na ddaeth i galon Uriel na Gabriel ddychymygu am dano erioed.

3. Mantais arall i ni wybod beth ydyw bod yn feibion i Dduw ydyw fod yr hyn a wnaeth Efe eisoes, yn y mabwysiad cyntaf, yn ernes y bydd bod yn feibion iddo yn beth mawr. Byddai dau ris yn y mabwysiad gan y Rhufeiniaid: y cyntaf oedd cymeryd un i'r teulu, ac ymddwyn tuag ato fel plentyn. Yr ail oedd gwneuthur hyny yn hysbys mewn ystyr gyfreithiol ar gyhoedd y wlad; ond byddai amser maith weithiau rhwng y cyntaf a'r ail. Ac er y gallai y mabwysiedig gael rhagorfreintiau plentyn yn y tŷ, ni fyddai yn adnabyddus, nac yn cael ei gydnabod fel y cyfryw mewn un man arall. Felly y mae hi

gyda meibion Duw; nid oes ond y mabwysiad cyntaf arnynt wedi cymeryd lle eto. Y mae yr ail eto i ddod, sef y cyhoeddus, —prynedigaeth eu corff. Ond y mae yr hyn a ddilynodd y cyntaf yn ernes y bydd yr hyn a gânt mewn canlyniad i'r ail yn fawr. Y mae y cyntaf wedi rhoddi iddynt ryddid i agosâu at Dduw, Barnwr pawb; nid fel Esther at y brenin, ond yn hyderus; wedi eu dwyn i gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig; wedi rhoddi iddynt anrhydedd brenhinoedd, heb y drafferth o lywodraethu: y mae un arall yn llywio y cyfan, fel ag i gynyrchu y daioni mwyaf yn y diwedd, fel nas gwaeth iddynt hwy pa un ai ar fwyd y brenin, ai ynte ar ffa a dwfr, y cânt eu porthi; pa un ai gorchfygu yr Assyriaid a'r Babiloniaid, ai eu gorchfygu ganddynt, a gânt,—yr un fydd yr effaith, sef daioni. Y mae bod yn feibion iddo yn y mabwysiad cyntaf yn cynwys cael manna yn yr anialwch,—cael dwfr o'r graig,—cael ymborth o'r bwytawr,—cael colofn i arwain y dydd, a chwmwl y nos,—cael cyfarfod âg angau heb y colyn sydd ynddo,—cael tlodi heb angau yn y crochan. Beth fydd ef yn yr ail, nid amlygwyd: ond os gwnaeth Efe gymaint iddynt cyn eu harddel yn gyhoeddus, beth na wna Efe wedi hyny? Os rhoddodd Efe fanna yn yr anialwch, ai dieithr ydyw os rhydd Efe rawn-sypiau yn Nghanaan? Os rhoddodd Efe ddwfr o'r graig yn y diffaethwch, ai hynod yw os rhydd Efe laeth a mel yn ngwlad yr addewid? Nid yw yr oll a wnaeth Duw i'w blant eto ond ernes o'r hyn a wna. Cyffelyb i'r breichledau a roddodd gwas Abraham am ddwylaw Rebecca, yn arwydd o'r anrhydedd a'r cyfoeth a'i hamgylchai pan yn wraig i Isaac. Nid amlygwyd beth a fyddwn; ond ni a fyddwn yn feibion i Dduw, beth bynag ydyw hyny. "Dydd datguddiad meibion Duw."

2. Yr ail reol sy genym i wybod beth a fyddwn ydyw, y byddwn ni yn gyffelyb i'r Mab hynaf: "ni a wyddom pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo." A hyny mewn dwy ystyr yn neillduol:—

(1.) O ran ansawdd ac agwedd ein cyrff a'n heneidiau, nid amlygwyd beth a fyddwn; ond ni a wyddom y cyfnewidia Efe "ein corff gwael ni fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef;" "ac megis y dygasom ddelw y daearol, y dygwn ni hefyd ddelw y nefol." Ni a ddygasom ddelw y daearol ar

yr enaid fel ar y corff; felly hefyd y dygwn ni ddelw y nefol. Nid yn unig fe fydd yr enaid yn sanctaidd, ond bydd rhyw gyfatebolrwydd i Iesu Grist yn ffurf ac agweddiad y meddwl, fel y bydd yr holl deulu yn eu datguddio eu hunain, lle bynag yr ânt. Nid awn ni ddim i geisio dychymygu beth ydyw corff ysbrydol ac enaid perffaith; ond y mae yn rhywbeth nad yw angylion uchaf y nef ddim yn ei theimlo yn ddarostyngiad arnynt gydnabod yn Ben un sydd yn eu meddu. Buasai cael corff ac enaid fel rhai yr Adda cyntaf pan yn berffaith yn ddyrchafiad mawr. Buasai cael corff a meddwl fel rhai yr ail Adda pan yn ei ystâd o ddarostyngiad yn wir fraint gan bob Cristion. Y mae pob sant yn ei theimlo yn fraint cael bod yn gyffelyb iddo mewn rhyw beth yn ei ddarostyngiad. Y mae urddas mewn dioddef; oblegid Crist hefyd a ddioddefodd. Fe ddywedir fod Pedr yn ei hystyried yn ormod o anrhydedd cael ei groeshoelio â'i ben i fyny, am mai felly y croeshoeliwyd ei Arglwydd. Beth gan hyny fydd bod yn debyg iddo yn ei ogoniant? Pe buasai rhyw un yn medru dywedyd beth fyddai hyny, Ioan oedd y person, oblegid yr oedd efe wedi ei weled yn ei wedd-newidiad,—wedi ei weled yn esgyn i'r nefoedd,—ac wedi ei weled yn Patmos; ond yr oedd y gogoniant hwnw yn gyfryw nad allesid ei ddesgrifio. Fe syrthiodd Ioan i lawr fel marw, pan ei gwelodd ef y tro olaf: ac nid oedd gan Ioan, oedd wedi cael cymaint o fanteision, ddim gwell desgrifiad o sefyllfa ddyfodol y saint na dywedyd y byddant yn gyffelyb iddo.

(2.) Byddant yn gyffelyb iddo hefyd o ran parch ac urddas. Beth bynag ydyw Ef yn awr, a pha beth bynag a fydd, byddant hwythau felly. Y mae y dydd sydd i fod yn ddydd datguddiad Iesu Grist, i fod hefyd yn ddydd datguddiad meibion Duw. Addawodd wrth Pedr pan yn ymadael âg ef, y cai efe ei ganlyn. Y mae wedi dywedyd wrth ei Dad ei fod yn rhoddi iddynt hwy y gogoniant a roddodd y Tad iddo yntau, a'i fod yn ewyllysio lle yr oedd Efe fod o honynt hwythau hefyd; ac y mae wedi dywedyd yr un peth wrthynt hwythau hefyd:—"Fel lle yr wyf fi y byddoch chwithau hefyd." "Cyd-etifeddion â Christ;" os oes coron ganddo Ef, y mae coron anllygredig a diddiflanedig ganddynt hwythau;—fel y mae y Tad wedi ei wahodd Ef i eistedd ar ei orsedd, felly y mae yntau yn rhoddi

yr un fraint iddynt hwythau. "Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo eistedd gydâ mi ar fy ngorseddfainc." Y mae y Tad wedi ordeinio teyrnas iddo Ef; y mae yntau wedi ordeinio teyrnas iddynt hwythau. Y mae yn wir y bydd Ef yn gyntafanedig; ond cyntafanedig ymhlith *brodyr* lawer: bydd y lleill mor debyg iddo fel y bydd yn eglur eu bod yn frodyr.

Perffeithrwydd y sant yma ydyw bod yn debyg iddo, a mesur ei ragoriaeth ydyw mesur ei debygolrwydd i Iesu Grist; ond tebyg i Iesu Grist pan ar y ddaear ydyw tebyg y sant yma;—cael y meddwl hwn ynddo yr hwn hefyd oedd yn Iesu Grist. Edrych ar Iesu tra y bu byw,—cael ei gydffurfio â'i farwolaeth,—gwneyd fel y gwnaeth yntau, ydyw bod yn berffaith. Ond delw y daearol ydyw perffeithrwydd y byd hwn: perffeithrwydd y nesaf ydyw delw y nefol, sef bod yn gyffelyb iddo yn ei ogoniant: cyffelyb iddo yn ei brofedigaethau ydyw hi yma; ond cyffelyb yn yr adenedigaeth fydd hi yno.

Y prawf o hyn a nodir yma yw:—"ni a gawn ei weled ef megis ag y mae." Y mae hyn yn golygu naill ai fe fydd y ffaith o'u bod yn ei weled fel y mae yn brawf o'u bod yn debyg iddo; neu ynte fe fydd iddynt gael ei weled fel y mae yn eu cyfnewid i'w ddelw, ac yn eu gwneuthur mewn moment yn debyg iddo.

(1.) Fe allai y bydd eu bod yn ei weled fel y mae yn brawf o'u bod yn debyg iddo. Ni all neb ganfod holl ragoriaeth un arall heb fod rhyw beth yn yr edrychwr yn cyfateb i'r neb y mae yn edrych arno. Felly y dywed yr Athraw:—"Gwyn fyd y rhai pur o galon: canys hwy a welant Dduw;" hyny yw, y mae y purdeb calon hwn yn gyfaddasrwydd i weled Duw. Ni wêl neb holl harddwch a rhagoriaeth gwaith celfyddydwr gystal a chelfyddydwr arall cyffelyb iddo; ac os câ y saint weled Iesu Grist fel y mae, y mae hyny yn brawf y byddant yn debyg iddo. Nid oedd neb ond y rhai oedd i ryw raddau yn debyg iddo yn ei weled yma;—rhai â graddau o feddwl Crist Iesu ynddynt oedd yn dywedyd, "Ni a welsom ei ogoniant ef." Yr oedd eraill yn gweled y gwyrthiau, ond nid y "gogoniant." Ond nid oedd y disgyblion yn debyg iddo ond i fesur bychan; am hyny nis gallent weled ond ychydig o'i ogoniant; ond fel yr oeddent yn cynyddu yn y tebygolrwydd, yr oeddent yn cynyddu mewn gweled ei ogoniant: eto yr oedd

llawer rhagoriaeth ynddo, na welsant hwy ddim o hono; ond gan y byddant yn ei weled Ef fel ag y mae, y mae yn sicr y byddant yn debyg iddo: bydd gras yn eu mynwes hwy am bob gras sydd ynddo yntau; am hyny, gallant "ei weled fel ag y mae."

(2.) Ond er bod hynyna yn wir, tebygol ydyw mai prawf mewn ystyr arall ydyw y testyn. Byddant gyffelyb iddo, oblegid hwy a gânt "ei weled fel ag y mae," hyny yw, bydd yr olwg arno yn eu "cyfnewid i'r unrhyw ddelw." I'r graddau y maent yn gweled ei ogoniant yn awr, i'r graddau hyny y maent yn debyg iddo. Ond edrych arno yn y drych y maent yn awr. Nid yspïenddrych i weled drwyddo a olygir, ond drych i adlewyrchu y gogoniant. Y mae Iesu Grist ei hun draw: "yr Hwn nis gwelsoch" ydyw yn awr; ond y mae yr ordinhadau yn ddrych i adlewyrchu y gogoniant, fel y mae y lleuad yn adlewyrchu goleu yr haul, pan y bydd ef ei hun o'r golwg. Ac y mae yr amlygiadau o'i ogoniant sydd yn y drych yn awr yn cael eu gwneuthur i gyfateb â'r cymhwysder fydd ynddynt hwy i ddal yr olwg. Ni allasai Moses ddim dal wyneb Duw ar Sinai; gwelodd y tu cefn iddo, ond rhoddodd hyny ryw fesur o ddelw Duw arno,—fe wnaeth i'w wyneb yntau ddisgleirio. Pe buasai yn gymwys i weled wyneb Duw, a'i weled fel yr oedd, buasai hyny yn ei anghymhwyso i fod yn arweinydd i'r bobl,—nis gallasent oddef ei bresenoldeb. Y tu cefn megis y mae y saint yn ei weled yn awr; ond pan welant y wyneb, fe'u cyfnewidir "o ogoniant i ogoniant," nes eu gwneyd yn gwbl debyg iddo. "Ei weled fel y mae:" tybed nad yw hyn yn rhy dda i'w gredu? Ni fuasai dim yn ormod ei wneuthur gan un Cristion i gael ei weled fel y bu;—buasai cael cerdded gydag Ef ddim ond unwaith o Galilea i Jerusalem,—cael ei glywed yn pregethu ddim ond unwaith,—cael cip-olwg arno oddiar frig y pren fel Zacheus,—yn beth na fuasai yr un aberth yn ormod i'w wneuthur i'w gael. Buasai ei weled am bum' mynyd yn eistedd ar ffynon Jacob, neu ei weled yn arwain y goron ddrain, neu yn plygu ei ben ac yn marw, yn olygfa y buasai pob Cristion yn aberthu pob golygfa arall ar y ddaear i'w chael hi. Ni fuasai gweled golygfeydd prydferth natur, gogoniant brenhinoedd a phendefigion, ond megis gwegi o'u cymharu â

hi. Ac yn wir ni allaf feio rhyw lawer ar y rhai hyny sydd yn gwneuthur pererindodau meithion i weled y lleoedd y bu ei draed sanctaidd yn eu sangu. Ni byddai o bwys genyf pwy a gai weled Rhufain pe cawn i olwg ar Bethlehem;—pwy a gai syllu ar Olympus, pe cawn i weled Calfaria. Eled y neb a fyno i chwilio am olion Ninifeh; gwell genyf fi fyddai cael rhoddi tro tua Gethsemane, a dringo ael yr Olewydd. Y mae rhai o wŷr dysgedig yr America yna newydd fod yn chwilio y Môr Marw: buasai yn well genyf fi groesi unwaith ac eilwaith Fôr Galilea,—cael sefyll enyd ar y traeth yn nhir Gennesareth, a rhodio ar hyd heolydd Capernaum. Ond beth fuasai cael gwneuthur hyn gyda'r "Gŵr o Iuddew," pan oedd yn ddi-ystyraf o'r gwŷr? Ond y mae peth mwy yn dy aros di, fab y Goruchaf, sef cael "ei weled ef fel ag y mae." Beth ydyw hyn? Nis gwyddom, ond ei fod yn rhywbeth sydd yn eich aros chwi; ac fe fydd ol yr olwg arnoch am dragywyddoldeb, oblegid o'r dydd hwnw allan byddwch "gyffelyb iddo."

Oddiwrth y testyn,—

1. Gwelwn pa fath gariad a roes y Tad arnom. Buasai i ni gael bod yn weision, fel y Gibeoniaid, yn gymynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr, yn anrhydedd annhraethol, a mwy nag yr oeddem yn ei haeddu. Nid oeddem yn fwy teilwng na'r afradlawn o'n galw yn feibion; er hyny y mae yn ein gosod ymhlith y plant. Mabwysiadodd Abraham Eleazer, am nad oedd ganddo yr un etifedd arall;—mabwysiadodd merch Pharaoh Moses, am ei fod yn dlws; ond yr oedd gan Dduw Etifedd, sef ei uniganedig Fab,—"Etifedd pob peth." Ac er nad oedd na thlysni na glendid ynom, fel yn Esther a Moses, eto fe'n gelwir ni yn Feibion i Dduw.

> "O gariad, O gariad, anfeidrol ei faint,
> Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint."

2. Gwelwn hefyd mai byd perffaith fydd y byd arall. Plant sydd yn byw yma: y mae yma ryw ddau deulu; ond nid oes na'r naill na'r llall wedi dyfod yn debyg iawn i'w tad. Er bod nodau wrth ba rai y mae yn amlwg blant Duw a phlant diafol; eto rhaid bod yn graffus yn fynych i'w canfod; ond yn y byd a ddaw, bydd yn amlwg blant Duw a phlant diafol. Fe

ddywed y Barnwr wrth y naill, "Deuwch, blant," ac wrth yr estroniaid, "Ewch—nid adwaen chwi." A dim ond iddo Ef ddywedyd, "Nid adwaen chwi," fe gyduna y greadigaeth i adsain y geiriau.

Yr ydym ni wrth natur yn perthyn i deulu drwg. Yr oedd hi yn ddigon digalon i un o'r Hebrëesau yn yr Aipht fod yn fam i fab, oblegid yr oedd cyfraith yn myned â'i fywyd ef; ond wedi i Moses gael ei fabwysiadu gan ferch Pharaoh, daeth ymwared i'r teulu; er na chawsant eu gwaredu rhag bod yn gaethweision, eto cawsant eu bywyd yn ysglyfaeth. Ond myrdd mwy gofidus oedd gweled plentyn yn cael ei eni i deulu i Adda, oblegid yr oedd eu bywyd oll wedi ei fforffetio; ond y mae rhyw Moses o'r teulu wedi ei gymeryd i'r llys, ac mewn canlyniad i hyny, fe fabwysiedir tyrfa na all neb ei rhifo. Nid yn unig fe arbedir eu bywyd, ond fe'u codir o fod yn gaethweision i fod yn blant. Hyn fyddo llef ein henaid ninau: "gosod finau ymysg y plant." Byddai yn arferiad mewn rhai o ddinasoedd Groeg, rhoddi hawl i'r mab a fyddai yn etifedd, i fabwysiadu y neb a fynai o gaethweision ei dad, ac felly eu gwneuthur yn gyd-etifeddion âg ef ei hun. Y mae yr un hawl gan Fab Duw: Efe yw etifedd pob peth; ond y mae y Tad wedi rhoddi awdurdod iddo i roddi gallu i'r neb a fyno o'r caethweision i fod yn feibion i Dduw, yn gyd-etifeddion âg Ef ei Hun. Ac os y Mab a'n rhyddha ni, rhyddion a fyddwn yn wir. Os mynit ti fod yn etifedd, y mae yn dda genyf allu dywedyd, Y mae y Mab yn ei oedran; dos ato i ymofyn y fraint. "Os plant, etifeddion hefyd; sef etifeddion i Dduw, a chyd-etifeddion â Christ; os ydym yn cyd-ddioddef gydag ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd."

[Bore Sadwrn, Rhagfyr 15, 1849.]

## PREGETH XVII.

### MANTEISION A CHYFRIFOLDEB.

MATTHEW xii. 41:—"Gwŷr Ninife a gyfodant yn y farn gyda'r genedlaeth hon, ac a'i condemniant hi; am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonas: ac wele fwy na Jonas yma."

UN o bethau rhyfedd oes yr Arglwydd Iesu oedd ei fod yn ymostwng i gyflawni gwyrthiau, er mwyn profi i'r byd mai Mab Duw ydoedd. Nid gormod fuasai disgwyl i ddynion ei gredu yn llawen ar ei air. Ond os oedd ei ymostyngiad Ef yn rhyfedd, yr oedd cyndynrwydd dynion yn rhyfeddach, yn gwrthod ei gredu er gweled ei wyrthiau. Y mae y benod hon yn cynwys hanes dwy wyrth a gyflawnodd Efe, sef, iachau y llaw wywedig, a bwrw allan yr ysbryd aflan o'r dall a mud. Ond ar ol cael y prawf yna, at y lliaws oedd ganddynt o'r blaen, o'i ddwyfoldeb Ef, y mae cyndynrwydd eu calonau yn dyfod i'r amlwg o'r newydd: y maent yn dywedyd wrtho,—"Athraw, ni a chwenychem weled arwydd genyt." Yr oedd hyn yn dangos, naill ai eu bod yn gwadu ei holl wyrthiau blaenorol, neu, os oeddent yn eu haddef yn weithredoedd nerthol, eu bod yn chwenych gweled rhywbeth mwy,—rhyw arwydd neu ymddangosiad yn y nefoedd, feallai; eithr gan mai nid oddiar wir awydd am wybod yr oeddent yn gofyn, ond oddiar gywreinrwydd pechadurus i demtio yr Athraw mawr, y mae Efe yn eu hateb yn ol, gan ddywedyd, "Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd; ac arwydd nis rhoddir iddi, ond arwydd y prophwyd Jonas," (adn. 39). Fel yr oedd gwaredigaeth Jonas yn arwydd, naill ai iddo ef ei hun,

neu i'r Ninifeaid, o'i ddwyfol anfoniad, felly yr oedd adgyfodiad yr Arglwydd Iesu i fod yn arwydd i'r Iuddewon mai oddiwrth Dduw y daethai Efe. Ac y mae y crybwylliad am arwydd y prophwyd Jonas yn achlysur o lefaru adnod y testyn, ymha un y mae yn cyferbynu gwrandawyr Jonas â'i wrandawyr ei hun. Fe edifarhaodd y Ninifeaid wrth bregeth Jonas: yr oedd yr Iuddewon yn gwrthod edifarhau, er bod mwy na Jonas yno; am hyny fe fyddai gwŷr Ninifeh yn y farn yn condemnio yr Iuddewon.

Er i'r testyn hwn gael ei lefaru ar y cyntaf mewn cysylltiad â gwrandawyr yr Arglwydd Iesu, y mae yn parhau yn wirionedd, ac yn wirionedd perthynol i bawb, oblegid y mae yn cynwys un o egwyddorion y farn ddiweddaf, ac i'w deiliaid hi y mae pob peth hono yn bwysig iawn. Y Bibl yn unig sydd wedi rhoddi gwybodaeth sicr i ni ynghylch y farn. Er bod annhrefn y byd hwn yn myned ymhell tuag at brofi y bydd rhyw adeg i ail-drefnu y cyfan, y Bibl sydd wedi sicrhau hyny, ac wedi dwyn holl amgylchiadau y farn ger bron ein llygaid; —yr amser,—y lle,—y Barnwr,—a'r rheol. Unwaith y sicrheir i'r meddwl myfyrgar y bydd barn, y mae llawer o gwestiynau yn ymgynyg iddo, sef pa bryd y bydd barn? ymha le y bydd barn? pwy fydd y Barnwr? a pha beth fydd rheol y farn? Y mae y Bibl yn cynwys atebion i'r rhai hyn oll; ac ateb i un o honynt, sef, pa beth fydd rheol y farn, ydyw y testyn.

Wedi i ni glywed am y dydd mawr, ac y bydd holl feibion dynion ynddo, o Adda hyd yr ieuangaf o'i blant; ac nid yn unig Adda a'i deulu, ond y bydd angylion hefyd yn sefyll wrth yr un fainc i'w barnu, y mae y cwestiwn yn ymgynyg i'n meddwl yn y fan,—Tybed mai wrth yr un reol y bernir angylion a ni? hwy sydd â'r fath alluoedd mawrion a chryfion, ac yn meddu ar y fath fanteision rhagor ni? Gwelsant hwy eu Creawdwr yn dilenu ei fawredd yn more amser;—gwyddant hwy trwy weled â'u llygaid fod ei fraich yn hollalluog;—ei fod yn un da a daionus, yn coroni ei holl weithredoedd â thrugaredd. Nid oeddent hwy wedi eu hamgylchu â themtasiynau fel ni: nid oes ganddynt hwy yr un baich o gnawd fel ni. Y maent hwy yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth, tra yr ydym ni ddynion, yn fychain iawn ein galluoedd, ac yn trigo mewn tai

o glai, pa rai sydd yn fwy priodol i'w galw yn garcharau nag yn dai. Y mae ein synwyrau ni yn brif-ffyrdd i demtasiynau ddyfod i mewn. Cawsom ein geni â thuedd gref ynom at ddrwg. Dechreuasom anadlu mewn byd llawn o ddrwg. Yr ydym yn cael ein llygru gan eraill, ac eraill yn cael eu llygru genym ninau. Y mae bychandra ein galluoedd ni fel creaduriaid yn ein hatal ni i wybod bron ddim am Dduw. Y mae drwg ein calonau fel pechaduriaid yn ein hatal ni i wybod yr hyn a allasem. Y mae yr adeg a roddir i ni i gael gwybodaeth am dano yn un fèr iawn. Ac yn awr, a gawn ni sydd â'n galluoedd mor weiniaid, a'n hanfanteision mor fawrion, a'n temtasiynau mor aml, ein barnu wrth yr un reol a'r angylion, y rhai sydd yn uwch o ran eu natur,—yn uwch yn eu manteision,—ac yn annhraethol ragorach eu sefyllfa? Goleuni ar gwestiwn dyrys fel hwn ydyw y testyn. Y mae yn dangos dau beth i ni mewn perthynas i reol y farn ddiweddaf.

I. Y bydd pawb yn cael eu barnu yn ol eu manteision.

II. Y bydd rhai o fanteision llai yn condemnio rhai o fanteision mwy.

"Gwŷr Ninife a gyfodant i fyny yn y farn gyda'r genedlaeth hon, ac a'i condemniant hi." Dyna yr ail beth yn dyfod i'r amlwg; ac y mae yr ail yn cynwys y cyntaf, sef y byddai y genedlaeth hono a gwŷr Ninifeh yn cael eu barnu yn ol eu manteision eu hun.

I. Un o reolau pwysig dygiad ymlaen y farn ddiweddaf ydyw, y bydd pawb yn cael eu barnu yn ol eu manteision. Y mae hawl Duw i ofyn dyn yn tarddu o berthynas dyn â Duw. Y mae y berthynas hono yn ei wneuthur o angenrheidrwydd yn gyfrifol i Dduw; am mai Duw ydyw ei Greawdwr,ac am ei fod wedi ei greu yr hyn ydyw. Duw ydyw Creawdwr yr anifail: ond nid ydyw yr anifail yn gyfrifol, am nad oes ganddo alluoedd i wybod dim am Dduw; a phe buasai creadur rhesymol wedi cael ei alluoedd o rywle heblaw oddiwrth Dduw, am a wn i, na buasai yntau ddim yn gyfrifol mwy na'r anifail; ond gan mai Duw a'i gwnaeth, ac iddo ei wneuthur yr hyn ydyw, y mae efe o angenrheidrwydd yn gyfrifol iddo. Y mae y teimlad o gyfrifoldeb yn anwahanol gysylltiedig âg ef fel creadur. Pa mor lleied bynag fyddo ei wybodaeth am Dduw, y mae yn

teimlo mai ei ddyled ydyw cyd-ffurfio âg ewyllys Duw hyd y mae yn ei gwybod. Y teimlad hwn ydyw "gweithred y ddeddf" y mae yr apostol yn sôn am dani, sydd yn ysgrifenedig ar galonau y paganiaid; ac y mae eu cydwybodau wrth gymharu eu hymddygiadau â'r "weithred,"—sef y teimlad o'r hyn sydd yn ei le, yr hyn sydd yr un peth o ran ei sylwedd â chyfraith ysgrifenedig Duw,—y mae eu cydwybodau, meddaf, yn eu cyhuddo neu yn eu hesgusodi. Yn yr ystyr hwn, y mae natur dyn yn ddeddf iddi ei hun; ac y mae y syniad am wobr a chosb yn anwahanol gysylltiedig â hi. Heb hyny mae yn anhawdd i ni ddirnad pa sut y buasai y farn yn gyfiawn, yn enwedig yn ei pherthynas â phaganiaid y byd.

Gan fod dyn wrth natur yn teimlo mai ei ddyledswydd ydyw ufuddhau i ewyllys Duw, y mae yr un teimlad yn ei rwymo i ddefnyddio pob moddion i ddyfod i wybod yr ewyllys. Nid maint gwybodaeth dyn am Dduw sydd yn penderfynu maint ei rinwedd neu ei fai, ond y manteision sy ganddo i wybod: "oblegid a hwy yn adnabod Duw," medd yr Apostol, "nis gogoneddasant ef megis Duw," hyny yw, a hwy yn meddu manteision i'w adnabod. Y mae yn wir na ddarfu iddynt eu defnyddio, oblegid ofer fuont yn eu rhesymau am dano, a'u calon anneallus a dywyllwyd mewn canlyniad i hyny; ond yr oedd gwaith eu calon yn sibrwd eu bod yn gyfrifol i Dduw, yn eu rhwymo i ddefnyddio pob moddion i adnabod y Duw hwnw. Yr oedd llyfr mawr creadigaeth yn agored o flaen eu llygaid, ymha un yr oedd yr "anweledig bethau," sef "tragywyddol allu a Duwdod" wedi eu hamlygu. Yr oedd llyfr cydwybod yn dangos beth oedd y dyledswyddau yr oedd y Duw mawr yn eu gofyn ganddynt. Pe buasent hwy yn cymharu y naill lyfr â'r llall, yr oedd "yr hyn a ellid ei wybod am Dduw yn eglur ynddynt hwy:" yr oedd cydwybod yn sibrwd mai un cyfiawn oedd; eithr nid oedd cyfiawnder ynddo ei hun ddim yn ddigon i beri i greadur ei ofni; ond erbyn edrych ar y greadigaeth, yr oedd hono yn dangos bod tragywyddol allu ganddo: am hyny nid un i gellwair âg Ef oedd un cyfiawn hollalluog. Yr oedd cydwybod yn rhoddi awgrymiad mai un sanctaidd oedd, eithr ni fuasai hyny o hono ei hun ddim yn ddigon i un halogedig ddychrynu; ond yr oedd y greadigaeth yn dangos ei fod yn un

doeth o galon; gan hyny nid un i chwareu âg Ef oedd y Duw sanctaidd, doeth, hollalluog. Pe buasai y byd yn defnyddio y manteision oedd ganddynt yn y ddau lyfr, sef cydwybod a chreadigaeth, y canlyniad fuasai 'gogoneddu y Creawdwr fel Duw, a bod yn ddiolchgar iddo.' Ac er na wnaeth y byd hyny, eto y maent yn gyfrifol am fod ganddynt y manteision i'w wneuthur; gan hyny y mae pob genau yn cael ei gau, ac y mae yr holl fyd dan farn Duw.

Oddiwrth hyn y mae yn dilyn, fod pob amlygiad o ewyllys Duw yn meddu awdurdod deddf i ddyn. Os ydyw datguddiad creadigaeth yn gosod y rhai sydd heb ddim ond hwnw o dan rwymau ufudd-dod i Dduw, y mae yn rhaid fod pob datguddiad newydd yn rhoddi rhwymau newydd ar y neb sydd yn ei gael; ac y bydd nifer ffonodiau y gweision sydd wedi anufuddhau i ewyllys eu Harglwydd yn cael ei benderfynu gan eu manteision i wybod yr ewyllys hwnw. Datguddiad o ewyllys Duw ydyw y ddeddf, a datguddiad o ewyllys Duw ydyw yr efengyl; ac y mae yr un awdurdod yn perthyn i'r olaf ag i'r gyntaf. Nid yw fod y ddeddf yn gorchymyn, a'r efengyl yn perswadio—yn anog—yn erfyn,—yn peri fod dim gwahaniaeth yn ei hawdurdod; ond yn hytrach, y mae tiriondeb yr efengyl yn peri fod anufudd-dod iddi yn fwy pechadurus nag anufudd-dod i'r ddeddf. Os yn ol eu manteision i adnabod Duw y bydd pawb yn cael eu barnu, y mae yn rhaid y bydd y rhai a gafodd yr efengyl yn cael eu barnu wrth yr efengyl. Y mae Duw wedi llefaru lawer gwaith wrth y byd; ni adawodd mo hono ei Hun yn ddidyst mewn un oes; yr oedd creadigaeth yn dangos ei fod yn un mawr, a rhagluniaeth yn dangos ei fod yn un da: y nefoedd yn datgan ei ogoniant,—y gwlaw a'r tymhorau ffrwythlawn yn dangos ei ddaioni: y mae y rhai hyn yn dystion i bawb; ond yn ychwanegol at hyn, fe fydd ei waith yn llefaru wrthym ni yn ei Fab yn dyfod ymlaen i'n barnu ni. Fe fydd dirgeloedd dynion y wlad hon yn cael eu barnu wrth yr efengyl.

Nid ein dyledswydd ni ydyw ymofyn ynghylch gwahanol raddau creaduriaid y Duw mawr, nac ychwaith ynghylch tynged y rhai o'r un radd sy mewn gwahanol sefyllfaoedd. Os oes gan angel ddeall cryfach, meddwl mwy eang, a manteision

mwy ffafriol na dyn, fe fydd ei gyfrif o gymaint a hyny yn fwy. I bwy bynag y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir ganddo. Os ydyw y pagan heb glywed erioed am Dduw fel Duw y cariad, yr amynedd, a'r gras, ni fydd yn gyfrifol yn y farn o eisiau ei adnabod fel y cyfryw. Nid ydyw yr Arglwydd yn medi lle nis hauodd, nac yn casglu lle nis gwasgarodd; ond yn y dydd diweddaf y mae yn disgwyl medi yn ol fel yr hauodd, a chasglu yn ol fel y gwasgarodd. Os un dalent a gawsom, ni ddisgwylir llôg pump genym, oblegid cyfiawn yw y Barnwr; ond fe fydd yr un cyfiawnder ag sydd yn ei atal i'n gofyn am fwy nag a gawsom, yn ei orfodi i'n gofyn am yr hyn a gawsom.

Y mae y manteision yn ol pa rai y byddwn yn cael ein barnu, nid yn unig yn cynwys amlygiadau y mae yr Arglwydd wedi ei roddi o hono ei Hun, ond hefyd y galluoedd a'r amgylchiadau y sydd yn meddiant pob dyn yn bersonol. Yr ydym oll yn yr un greadigaeth; ond nid yr un faint o honi y mae pawb yn ganfod. Y mae y dyn sydd wedi cael meddwl mawr ac eang, abl i gymdeithasu â gweithredoedd Duw ymhell ac yn agos,—y mae hwn â'i lygad yn ddigon craff i ganfod gogoniant natur, a'i glust yn ddigon teneu i glywed ei miwsig hi: gallai ei feddwl ddeall dirgelwch y daran, ac adwaen Tad y gwlaw; neu pe tröai efe ei alluoedd oddiwrth waith Duw at lyfr Duw, gallai ddatguddio gogoniant cuddiedig hwn, a galw ar y lliaws sydd eu hunain yn anabl i ddarganfod, i edrych ar ei brydferthwch, dangos iddynt dlysni ei farddoniaeth a symlrwydd ei hanesiaeth,—mor fawreddog ei brophwydoliaethau, ac mor gywir ei holl ddarluniadau; ond nid ydyw yn gwneuthur y naill na'r llall;—y mae yn gwastraffu y galluoedd gwerthfawr yna ar bethau amser,—yn eu pylu â phechod a llygredigaeth, ac yn eu difodi yn raddol trwy gyfeddach a meddwdod. Bydd hwn yn sefyll i'w farnu, nid yn unig am yr hyn a wnaeth, ond am yr hyn a adawodd heb ei wneuthur. Y mae un arall mewn amgylchiadau ffafriol:—cyfoeth yn dylifo iddo, fel na raid iddo ymboeni ynghylch ei fara beunyddiol;—y mae ganddo ddigon o hamdden i bob peth;—gallai rodio ymysg ei gymydogion fel angel trugaredd, gan wasgaru bendithion ar hyd y ffordd y cerddai, cynghori yr hwn sydd mewn dyryswch, estyn ymwared i'r hwn sy mewn cyfyngder, cyfodi yr hwn

sydd wedi syrthio, amddiffyn y weddw a'r amddifad, a thrwy ei ymarweddiad sanctaidd ei hun ganmol sancteiddrwydd a chrefydd wrth bawb; ond yn lle hyny, y mae yn bla moesol yn yr ardal, yn heintio ei gymydogion â llygredigaeth, yn rhoddi yr ieuenctyd ar ben y ffordd i ddistryw, a thrwy wneuthur pechodau rhyfygus yn barhaus, y mae yn peri iddynt wreiddio a myned yn ddwfn yn yr ardal. Ond fe fydd hwnyna yn sefyll i'w farnu, nid yn unig am yr hyn a wnaeth, ond yr hyn a adawodd efe heb ei wneuthur. Dyna ddyn ieuanc wedi ei fendithio â rhieni duwiol, wedi ei fagu yn awyr crefydd; fe glywodd ei dad yn gweddio drosto ganwaith; fe welodd ei fam yn wylo uwchben ei annuwioldeb; y mae yn gwybod yr ysgrythyr lân er yn fachgen; yr oedd adnodau y Bibl yn cael eu dysgu iddo cyn i'w dafod allu llefaru yn groyw; yr oedd yn gydnabyddus er yn blentyn â'i orchymynion, ei fygythion, a'i addewidion;—gallesid disgwyl y buasai yn oleuni disglaer yn yr ardal, y buasai ei ysgwydd o dan yr arch, ac y buasai yn golofn o dan yr achos; yn esiampl i Gristionogion ieuainc, ac yn llawenydd i'r hen:—ond yn lle hyny, y mae yn eistedd yn eisteddfa y gwatwarwyr; yn troi pob peth crefydd yn gellwair; yn gwawdio tŷ Dduw,—ordinhadau Duw,—a phobl Dduw, ac yn llygru ei holl gyfoedion â'i ymarweddiad halogedig; ond fe fydd yntau yn cael ei farnu yn ol ei fanteision. "Gyda'r neb y gadawsant lawer, ychwaneg a ofynant ganddo." Os ydyw cuddio un dalent yn ddrwg, pa faint mwy ydyw gwastraffu pump? Nid oes neb wedi derbyn rhy fychan i fod yn gyfrifol am dano, na neb wedi derbyn mwy nag y bydd raid iddo roddi cyfrif o hono.

II. Y mae y testyn yn dangos, nid yn unig y bydd hi yn farn yn ol manteision, ond y bydd hi yn farn gymharol, trwy y bydd rhai o fanteision llai yn condemnio rhai o fanteision mwy. "Gŵyr Ninife a gyfodant yn y farn gyda'r genedlaeth hon, ac a'i condemniant hi, am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonas: ac wele un mwy na Jonas yma." Mae y testyn yn cytuno â'r adnodau canlynol:—Luc xiii. 30; Jer. iii. 11; Ezec. xvi. 51, 52; a Rhuf ii. 27. Gwyr Ninife yn condemnio gwrandawyr yr Arglwydd Iesu, a fyddant yn gwneuthur hyny am iddynt gredu i Dduw dan anfanteision mawrion:—

1. Yr oedd sicrwydd gwirionedd cenadwri Jonas, a natur y genadwri, o'u cymharu â sicrwydd ac â natur cenadwri yr Arglwydd Iesu, yn peri fod gwaith y Ninifeaid yn credu Jonas, yn condemnio yr Iuddewon am wrthod credu yn yr Arglwydd Iesu. "Wele fwy na Jonas yma"—mwy teilwng o dderbyniad:—(1) O ran sicrwydd gwirionedd y genadwri. (2) O ran natur y gwirionedd yr oedd yn ei draethu.

(1.) Edrychwn ar sicrwydd gwirionedd cenadwri Jonas. Y mae rhai yn meddwl fod y Ninifeaid yn gydnabyddus â gwaredigaeth Jonas o fol y morfil, ac mai hyny a olygir wrth arwydd y prophwyd Jonas; ond nid oes sail ddigonol i hynyna: mwy tebygol yw na wyddent ddim am dano. Fe ddaeth i'w plith heb adwaen neb o honynt, na chael ei adwaen gan neb. Y mae yn ddieithr ac unig, yn sefyll ar un o heolydd Ninifeh, ac yn llefain:—"Deugain niwrnod fydd eto, a Ninifeh a gwympir." Y mae yn myned rhagddo am daith diwrnod drwy y ddinas, gan lefain yr un geiriau. Mor anhawdd oedd i'r Ninifeaid gredu! Pwy oedd yn eu llefaru? Iuddew dieithr, wedi ei wisgo â chrys o rawn,—ei ymddangosiad yn bigog a digofus,—heb gyfeillachu â neb ei hun, ac yn cadw draw bawb a fynai dynu cyfeillach âg ef. Ni ddangosodd unwaith ei awdurdod, ni chyflawnodd yr un wyrth—i brofi ei ddwyfol anfoniad; ïe, ni roddir lle i ni gasglu iddo ymostwng cymaint ag i ddyweddyd,—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Yr holl bregeth oedd,—"Deugain niwrnod fydd eto, a Ninifeh a gwympir." Yr oedd y bregeth yn un fèr,—y pregethwr yn un sarug, anghyfeillgar,—a phob tebyg mai rhywun â'r pruddglwyf wedi effeithio ar ei synwyrau oedd, ac mai effaith dyryswch ar y rhai hyny oedd ei ymddangosiad yn Ninifeh. Ac nid yn unig yr oedd ei ymddangosiad ef ei hun yn bur anffafriol, ond hefyd yr oedd pob peth yn cydgyfarfod i sicrhau ei fod yn dwyllwr. Gallasai un o'r Ninifeaid ddweyd,—"Ein dinas odidog ni gael ei chwympo ymhen deugain niwrnod—y mae y peth yn anmhosibl! Pa fodd y gall hyny fod? Onid oes heddwch rhyngom ni â phawb? Y mae ein harswyd ni ar y teyrnasoedd o'n hamgylch, ac onid ydynt yn gyffredinol o dan deyrnged i ni? A phe byddai i ryw elyn ryfygu dyfod i'n herbyn yfory nesaf, a gymerid ni mewn deugain niwrnod? Onid yw ein dinas ni

mor fawr nes ag y mae yn daith tri diwrnod,—yn driugain milltir o'i hamgylch, a'i muriau yn gan' troedfedd o uchder? Nid oes berygl i neb ddyfod drostynt, ac y maent mor llydan fel y gall tri cherbyd fyned ochr yn ochr ar hyd-ddynt; am hyny ni all neb dori trwyddynt. Ac onid ydynt yn cael eu hamddiffyn gan bymtheg cant o dŷrau? Ni ellir ein newynu ychwaith, oblegid y mae ein bara yn tyfu o fewn ein dinas, a'n hafon yn rhedeg drwy ei chanol; a pha anffawd arall a all ddigwydd i ni? Nid oes yr un pla yn y ddinas, na thebyg am un. A phe buasai gallu gan Dduw yr Iuddew yna i wneuthur rhywbeth i ni, fe fuasai wedi gwneuthur hyny pan ddarfu i ni ddifrodi ei wlad ac anrheithio ei bobl ef. Yr ydym ni er's dyddiau fel llyn dwfr,—rhedeg i mewn y mae pob mawredd, ac yma y mae yn aros; a pha reswm yw meddwl y cwympir ein dinas ni mewn deugain niwrnod?" Ond yn wyneb yr holl anfanteision hyn —er bod y pregethwr yn ddieithr, heb brofion o'i anfoniad—ei bregeth yn groes i bob ymddangosiad—eto, dacw y Ninifeaid yn edifarhau wrth bregeth Jonas.

(2.) Yr oedd natur y bregeth yn ei hanghymhwyso, debygid, i droi neb. Cyhoeddiad noeth o'r hyn oedd i gymeryd lle, heb yr un *os* ynddi, nac un drws o obaith o'i mewn. "Onid edifarhewch," meddai yr Arglwydd Iesu wrth yr Iuddewon, "chwi a ddifethir oll;" ond nid oedd yr un *onid* yn mhregeth Jonas, —dim sôn am edifeirwch, na lle iddo. Rhyw gwmwl du o ddigofaint oedd, heb fwa trugaredd yn ymddangos mewn un cŵr o hono. A phe buasent yn credu Jonas, oddiwrth y bregeth, nid edifeirwch a allesid ddisgwyl, ond ymwerthiant mwy llwyr i bechod. Nid oes dim yn natur cosb i gynyrchu edifeirwch: tiriondeb a thrugaredd sydd yn ei gyd-gyneu ef. Gan nad oes ond deugain niwrnod i ni fwynhau pechod a drygioni, ni a sugnwn gymaint ag a fedrwn o'i felusder: "bwytawn ac yfwn; canys yfory marw yr ydym." Ni orchymynodd yr Arglwydd i Jonas gyhoeddi edifeirwch, ac y mae yn ddiau na wnaeth Jonas hyny o hono ei hun. Os ymofynwyd âg ef ynghylch ei Dduw, ni ddywedodd efe ddim i beri i'r Ninifeaid feddwl ei fod yn un graslawn a thrugarog; oblegid ofn iddynt edifarhau, ac i'r Arglwydd eu harbed, oedd yr achos iddo ffoi i Tarsis ar y cyntaf. Yr oedd yr Assyriaid yn elynion

i'r Iuddewon, ac fe dybir fod y brenin oedd yn teyrnasu y pryd hwn wedi bod unwaith yn difrodi eu gwlad hwy; a chan fod Jonas yn ddyn sarug ac anfoddog, yr oedd yn felus ganddo feddwl am eu dinystr hwynt fel gelynion ei genedl; a phe buasai ei fraich ef yn hollalluog, ni fuasai yn aros ddeugain niwrnod cyn cwympo y ddinas. Fe wyddai Jonas yn bur dda am garacter ei Dduw, mai un "graslawn a thrugarog oedd, hwyrfrydig i ddigofaint, aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg." Yr oedd yn ofni yn ei galon iddo eu harbed. Fe wyddai y gwnai fe hyny yn union os ymostyngent; ac y mae yn ddiau iddo wneuthur cymaint ag a allai i'w hatal i ymostwng. "Y mae yn wir nad oes dim ond barn yn dy gomisiwn di, ond dywed wrthynt yr hyn a wyddost ti am dy Dduw; ped ymostyngent, ni fyddai hyny yn bechod,—gwnaent y tro i'w dinystrio wedi hyny; adrodd iddynt yr hyn a wnaeth yn y dyddiau gynt, yn mlynyddoedd yr hen oesoedd,—mai Duw ydyw sydd yn arfer arbed, hyd yn nôd pan yn dial am ddychymygion; dywed wrthynt ystori Pharaoh, y modd yr arbedwyd ef, ac a symudwyd y pla, bob tro yr ymostyngodd;—adrodd iddynt am Abraham, Isaac, a Jacob, a'r holl batriarchiaid;—dywed wrthynt am Moses, Aaron, a Miriam,—am Josua, Samson, Dafydd, a Solomon,—y modd yr arbedwyd hwynt lawer gwaith, er haeddu eu taro; adrodd iddynt ystori Sodom,—y modd yr ydoedd wedi addaw arbed hono, pe na buasai ond deg o rai cyfiawn ynddi; ïe, dywed wrthynt dy hanes dy hun,—yr hyn a wnaeth ei hen drugaredd Ef i ti, pan yr oedd pob tebyg y buasit gadwedig wedi ei golli—drws gobaith wedi ei gau;—y modd yr oeddit wedi disgyn i odre y mynyddoedd—y ddaear a'i throsolion o'th amgylch yn dragywydd—yr hesg wedi ymglymu am dy ben; eto, pan lefaist o fol uffern, fe ddaeth ei hen drugaredd Ef i lawr at odre y mynyddoedd, ac fe ddyrchafwyd dy einioes o'r ffos. Mynega iddynt am flynyddoedd yr hen oesoedd—y weithred a wnaethpwyd yn yr Aipht—y gallu a amlygwyd ar làn y Môr Coch—cofia fanna yr anialwch, a dwfr craig Horeb—dywed wrthynt am agoriad yr Iorddonen, ac am drugareddau aneirif Canaan;—os ymostyngant, ni wna hyny ddim niwed i ti." "Na, ni lefaraf na mwy na llai na'r hyn a orchymynwyd,—'Deugain niwrnod, a Ninifeh a gwymp-

ir.' Ni ddywedaf yr un gair am drugaredd fy Nuw. Ni chânt glywed yr un sill mai ei hen arfer ydyw achub. Ni fynegaf er neb fod ei galon yn gariad. Y maent yn haeddu marw, a marw a gânt o'm rhan i." Eto, er mai dyma y fath oedd y genadwri, y mae gwŷr Ninifeh yn edifarhau wrth bregeth Jonas; ac am iddynt wneuthur hyny, hwy a gyfodant yn y farn gyda'r genhedlaeth hono, ac a'i condemniant hi, oblegid yr oedd yr Arglwydd Iesu yn fwy teilwng o dderbyniad na Jonas:—

1. Am fod ganddo fwy o brofion o'i ddwyfol anfoniad. Yr ydym wedi gweled mai credu o dan anfanteision mawrion a wnaeth y Ninifeaid; ond gwrthod credu, er cael pob mantais, a wnaeth yr Iuddewon. Yr oedd myrdd o bethau wedi cydgyfarfod i bwyntio allan Oen Duw. Yr oedd prophwydoliaeth wedi cerdded o'i flaen; ac arwyddion a rhyfeddodau yn ei ddilyn. Yr oedd ysbryd prophwydoliaeth wedi bod yn ei ddesgrifio am bedair mil o flynyddoedd. Er pan gyhoeddwyd ei fod i ddyfod yn addewid Eden, yr oedd y patriarchiaid a'r prophwydi yn esgyn i fryn gweledigaeth, y naill ar ol y llall, i edrych ymlaen i'r dyfodol; ac yn ngoleuni yr Ysbryd, gwelent Ef yn dyfod. Gweled, ac nid o agos, yr oeddent ar y cyntaf; ond fel yr oedd yr amser yn agosâu, yr oedd y weledigaeth yn myned yn fwy eglur. Y peth cyntaf a welwyd oedd, bod Gwaredwr i ddyfod, heb wybod yn y byd pa bryd, pa le, nac o ba genedl; ond ymhen yn agos i ddwy fil o flynyddoedd, fe nodwyd allan y genedl. "Holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti." Yn fuan wedi hyny fe benderfynwyd y llwyth:— "Nid ymedy y deyrnwialen o Judah, na deddfwr oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddêl y Siloh." Ymhen ychydig ganoedd o flynyddoedd, fe benderfynwyd y teulu, sef teulu Dafydd. Ond pa oes y gellir edrych am dano? Fe etyb Daniel y cwestiwn yna:—"Bydd o fynediad y gorchymyn allan am adeiladu Jerusalem hyd y Blaenor Messiah, saith wythnos a dwy wythnos a thriugain." Ond gyda chael allan yr oes, fe ddesgrifia Michah y lle y caiff ei eni; o Bethlehem, tir Judah, y mae y Tywysog i ddod. Ond rhag y byddai yn anhawdd ei adnabod pan yn faban rhagor rhyw faban arall, fe enwir y lle y rhoddai y prawf cyhoeddus cyntaf mai Efe oedd yr un oedd ar ddyfod: —yn "Nhir Zabulon, a thir Naphthali, wrth ffordd y môr, tu

hwnt i'r Iorddonen, Galilea y Cenhedloedd." Ond i roddi pob mantais i'w adwaen, yr oedd desgrifiad mwy manwl a chyffredinol o hono drachefn ; yr oedd i fod yn Frenin fel Dafydd, yn Brophwyd fel Moses, yn Offeiriad fel Melchisedec; ac er bod pob mawredd ynddo, eto "ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol," oblegid "addfwyn ydyw a gostyngedig o galon."—"Corsen ysig nis tŷr, ac ni ddiffydd lín yn mygu:" Efe a rodia trwy y wlad, gan gymeryd gwendidau a doluriau y trigolion,—iachau pob clefyd a phob afiechyd. Fel hyn yr oedd prophwydoliaeth wedi desgrifio ei deulu, ei oes, ei drigfan, ei berson, ei ymddangosiad, a'i waith ; a'r peth olaf a wnaeth ysbryd prophwydoliaeth cyn ymadael o dan yr hen oruchwyliaeth oedd pwyntio â'i fys, gan ddywedyd:—"Wele Oen Duw." O ! y cwmwl o dystion oedd o amgylch yr Iuddewon yn profi y dylasent wrandaw ar Iesu o Nazareth! Pe buasent yn cyfrif wythnosau Daniel, cawsent weled eu bod yn byw yn yr oes yr oedd i ymddangos. Pe buasent yn edrych llyfr yr achau, cawsent fod Joseph a Mair ill dau o deulu Dafydd. Pe buasent yn holi am le ei enedigaeth, oni fuasai ei holl deulu yn sicrhau mai yn Bethlehem y ganwyd Ef. A phe buasent yn holi ymha le yr amlygodd Efe gyntaf ei weithredoedd nerthol, onid oedd canoedd yn barod i dystio mai yn nhueddau Zabulon a Nephthali ? A pha faint o brofion amgylchiadol oedd ganddynt? Onid oeddynt yn cofio bod Herod wedi lladd plant Bethlehem, er's tua deng mlynedd ar hugain yn ol ? ac onid oedd pawb yn gwybod iddo wneuthur hyny mewn canlyniad i ymweliad doethion o'r dwyrain âg Ef, pa rai a arweiniwyd i Ganaan gan Seren i chwilio am y Messiah ? ac onid oedd y traddodiad am weledigaeth y bugeiliaid yn adnabyddus i bawb yn amgylchoedd Bethlehem? Yr oedd, ond odid, rai o'r bugeiliaid hyny yn fyw, ac yn cofio yn dda am dôn felus yr angylion, am beroriaeth y llais a ddywedodd,—"Ganwyd i chwi heddyw Geidwad," a phe y galwesid hwynt ymlaen, buasent yn dywedyd fod Joseph a Mair yn debyg iawn i'r ddau a welsent yn llety yr anifail yn Bethlehem—na welsent yr un wyneb erioed tebycach i wyneb y baban hwnw yn y preseb na'r eiddo Iesu o Nazareth.

A pha raid oedd iddynt fyned at brophwydoliaeth i gael

sicrwydd mai Efe oedd y Messiah? Pwy fuasai yn gallu gwneuthur y gweithredoedd hyny, oni buasai fod Duw gydâg Ef? Onid oedd yn rhodio yn eu plith yn Dduw yn y cnawd? —ymddangosiad dyn, a gweithredoedd Duw. Yr oedd yn llefaru nes yr oedd holl natur yn clywed ei lais—yn creu â gair ei enau—yn siarad iechyd i gleifion—yn anadlu bywyd i feirw —yn dwyn golwg allan o glai a phoeryn—yn ceryddu y môr, nes oedd yn llonyddu wrth ei eiriau—yn gorchymyn i'r gwynt nes oedd yn tawelu—yn peri i'r dyfroedd ei gynal fel palmant —yn gwneuthur i ymborth ychydig ddynion borthi miloedd. Gallesid disgwyl y buasai pob Iuddew yn gofyn mewn syndod, Pwy ydyw Hwn sydd yn gallu chwareu â'r dymestl—yn gallu troi yn eu hol ddeddfau cryfion natur?—dim ond iddo edrych ar y dwfr, y mae yn gwrido;—y mae yn gallu gosod deddf i'r môr, ac nid yw y gwynt yn tori ei orchymyn. Y mae ysbrydion cedyrn y pwll yn llefain pan welant Ef. Y mae yn ymddangos mor fwyn, ond y mae ei eiriau yn Hollalluog. Y mae natur yn plygu o'i flaen fel o flaen ei Chreawdwr. Rhaid mai Hwn ydyw yr un oedd ar ddyfod.

Gynifer o bethau oeddent yn cydgyfarfod i'w wneuthur yn fwy na Jonas! prophwydoliaeth yn arllwys ffrwd o oleuni o'i amgylch;—natur drwy ei holl gilfachau yn seinio ei enw;— y sèr yn ei ddangos i rai, ac angylion i eraill; a'i weithredoedd yn ei ddangos i bawb. Yr oedd neillduolrwydd yn y rhai hyny oedd yn eu gwahaniaethu oddiwrth weithredoedd pawb o'i flaen. Yr oeddent wedi eu gwneuthur heb ddim ymdrech—wedi eu gwneuthur yn ddigyfrwng. Yr oedd Moses fel gŵr arall heb y wialen. Yr oeddent wedi eu gwneuthur yn ei enw ei hun. Nid rhyfedd y bydd gwŷr Ninifeh, a gredasant i Jonas o dan gymaint o anfanteision, yn condemnio yn y farn y genhedlaeth oedd yn gwrthod credu yr Arglwydd Iesu, er gweled yr holl weithredoedd nerthol hyn.

2. Yr oedd natur ei weinidogaeth yn peri ei bod yn fwy teilwng o dderbyniad na'r eiddo Jonas. Os nad oedd dim tuedd yn ngweinidogaeth Jonas i gynyrchu edifeirwch, holl duedd gweinidogaeth Iesu Grist oedd gwneuthur hyny. Yr oedd gras wedi ei dywallt ar ei wefusau, a thrugaredd oedd yn diferu trostynt. Dinystr oedd swm gweinidogaeth Jonas: gwared-

igaeth oedd sylwedd gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu. Yr oedd ynddi bob peth i dynu sylw, ac i gynyrchu teimlad. Yr oedd hi yn fawreddig ryfeddol, ac yn berffaith syml. Fe ddatguddiodd y gwirioneddau mwyaf goruchel: megis â'i law, fe dynodd y llèn oddiar y byd anweledig. Siaradai am bethau y nefoedd fel un oedd wedi arfer byw gydâ hwynt erioed. Iddo Ef nid oedd dim yn fawr nac yn fychan. Nid oedd Efe byth yn cael ei orchfygu gan ei feddyliau. Pawb o'i amgylch oeddent yn synu, ond yr oedd Efe ei Hun yn dawel a digyffro. Darluniai y farn yn fanwl, nes y byddai ei wrandawyr yn teimlo eu hunain yno, ac yn orlawn o ddychryn; ond yr oedd Efe ei Hun yn berffaith ddigyffro: nid oedd yno ddim newydd iddo Ef. Desgrifiai yr adgyfodiad, a'r byd tu draw i'r bedd, heb ddim cynwrf arno. Pan welodd Ezeciel y gweledigaethau wrth afon Chebar, fe lewygodd gan yr olwg. Pan ddatguddiwyd deongliad breuddwyd Nebuchodonosor i Daniel, fe synodd dros awr. Pan welodd Ioan weledigaethau ynys Patmos, fe syrthiodd i lawr fel marw. Ond yr oedd yr Arglwydd Iesu yn dilenu tragywyddoldeb—yn dadblygu llyfr y farn—yn tynu tô oddiar ddistryw—yn agor pyrth y nef,—yn berffaith dawel a digyffro. Yr oedd yn gynefin â'r holl olygfeydd hyny er tragywyddoldeb. Yr oedd y fath fawredd yn ei weinidogaeth, fel na allasai yr un Rabbi na doctor Iuddewig gwyno ei bod yn rhy isel iddo ef wrandaw arni. Yr oedd Efe wedi dyrysu y doctoriaid yn ddeuddeng mlwydd oed; ond er ei bod yn fawreddig, yr oedd hi yn berffaith syml, ac yn ddifyrus dros ben. Yr oedd y bobl gyffredin yn ei wrandaw yn llawen. Pan y clywid ei fod Ef yn myned i bregethu, byddai yr arddwr yn gadael yr ychain yn y maes,—y gwinllanydd yn gadael y winllan,—yn dra sicr yn eu meddwl na ddeuai yr un lleidr yno tra y byddai Iesu Grist yn pregethu. Pa mor addfed bynag fyddai y cynhauaf, ni fwrid y cryman iddo nes y byddai y bregeth wedi ei gorphen. Byddai pob gwaith yn sefyll yn yr holl gwmpasoedd y byddai Efe yn efengylu; ac nid rhyfedd, oblegid "ni lefarodd neb erioed fel y dyn hwn." Yr oedd yn paentio y gwir â holl liwiau y greadigaeth,—yn ei wisgo yn holl gyffelybiaethau natur. Nid oedd yn dyrysu ei wrandawyr â rhaniadau a gwahaniaethau

sychlyd doctoriaid y gyfraith; ond trosglwyddai wirionedd i'w meddwl trwy bob peth oedd o flaen eu llygaid. Pan yn eistedd ar y mynydd, ar ol un o'r ystormydd hyny sydd yn digwydd yn Mhalestina, ac yn edrych ar ei heffaith ar y wlad, fe welai dŷ wedi ei chwalu gan un o'r nentydd sydd yn arllwys ei hun i fôr Galilea; ac heb fod yn nepell oddiwrtho, yr oedd tŷ hardd yn sefyll heb ei niweidio gan yr ystorm;—beth sydd yna? cyffelyb yw fy ngwrandawyr i i'r ddau dŷ yna. Wrth edrych ar fôr Galilea yn y pellder, fe welai bysgodwyr yn bwrw rhwyd iddo;—beth sydd yna? Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwrid i'r môr. Wrth odre y mynydd, fe welai faes ymron yn llawn o efrau;—beth sydd yna? Cyffelyb yw teyrnas nefoedd. Digon tebyg fod yno rai a fynent gael eu hystyried yn ddoethion, yn dywedyd nad oedd yn bregethwr *sylweddol*, oblegid ei fod yn gwisgo ei feddyliau yn nghyffelybiaethau natur; ond yr oedd y bobl yn gwybod gwell pethau na hyny. Yr oeddent yn cofio y damhegion, yn meddwl am y gyffelybiaeth, a phob tro y gwelent y gwrthddrych, byddent yn cofio y meddwl oedd yn gysylltiedig âg ef. Yr oedd mawredd a symlrwydd y weinidogaeth yn denu pawb i'w gwrandaw; ond un o'i phrif ragorion ar weinidogaeth Jonas oedd ei thiriondeb. Pan aned Ef i'r byd, fe gyhoeddodd angylion ewyllys da i ddynion, a dilenu hwnw yr oedd efe bob cam. Gwyrth o drugaredd a gyflawnodd Efe gyntaf, a gwyrth o drugaredd oedd yr olaf. Y gair cyntaf a ddiferodd dros ei wefusau fel dysgawdwr cyhoeddus oedd, "Gwyn fyd." Yr oedd ewyllys da yn ei wedd,—ewyllys da yn ei eiriau,—ewyllys da yn ei weithredoedd; ac fel yr oedd ei gymeriad a'i gymwynasau yn tueddu i dynu sylw at ei eiriau, felly holl duedd y rhai hyny oedd tywys i edifeirwch. Fe lefarodd wrth eu deall,—wrth eu cydwybod,—ac wrth eu calon. Fe ymresymodd â hwynt,—fe'u perswadiodd hwynt,—fe wylodd drostynt: fe grynhödd bob peth i'w cydgau i edifeirwch. Gallesid meddwl y buasai teimlad o ddiolchgarwch am ei gymwynasau yn eu tywys i edifeirwch: dylasai tiriondeb digyffelyb ei weinidogaeth beri iddynt gredu ac edifarhau. Dylasai y barnau arswydus a ddangosodd Efe a fyddai yn sicr o'u goddiweddyd yn eu drwg, eu dychrynu hwynt oddiwrth eu beiau, a'u dwyn i edifarhau o'u herwydd. Pa dant oedd yn y

fynwes ddynol na chyffyrddodd âg ef? Apeliodd at eu hofn a'u gobaith hwynt. Fe gyffyrddodd â'u serch,—argyhoeddodd eu deall,—gyrodd ei eiriau i'w cydwybod,—fe gyd-gynullodd y cyfan i un man—i un canolbwynt—fe barodd i oleuni tragywyddoldeb,—i ddychryniadau y farn,—i'w dinystr tymhorol hwy eu hunain,—i diriondeb ei wyrthiau, a graslonrwydd ei athrawiaeth, gyd-daraw ar eu calon galed hwynt; ond fe fethodd y cyfan a chyneu edifeirwch o'i mewn hi. Fe gymerodd eu plant yn ei freichiau, ac a'u bendithiodd; fe borthodd eu tlodion â bara; fe iachaodd eu cleifion â'i air; fe gododd y meirw yn fyw; fe lefodd, "Edifarhewch;"—ond yr oedd yn ymddiddan âg adamant. Fe ddangosodd iddynt ddarlun o'r deml wych wedi ei gwneuthur yn bentwr o adfeilion,— o Jerusalem, eu hymffrost a'u gogoniant, wedi ei hanrheithio,—o honynt hwy eu hunain yn cael eu medi wrth y miloedd, gan gleddyf a newyn, i fyd arall. Fe wylodd ei Hun wrth edrych ar yr olygfa,—fe geisiodd ganddynt hwythau edifarhau; ond yr oeddent yn parhau fel darn o faen isaf melin. Ni chredasant ei eiriau; ni effeithiodd ei ddagrau—ddim arnynt. Gwrthodasant edifarhau, er i Dduw mewn cnawd geisio ganddynt; ac yn lle edifarhau, dacw hwy o'r diwedd yn trochi eu dwylaw yn ei waed Ef. Nid rhyfedd y bydd gwŷr Ninifeh yn cyfodi yn y farn i gondemnio y genhedlaeth hono.

Onid yw pob un o honoch yn barod i ddywedyd, Yr oeddent yn annuwiol—yr oeddent yn hynod mewn caledwch—yr oeddent yn cyfiawn haeddu eu dinystrio. Wel, os bydd y Ninifeaid yn codi yn y farn i'w condemnio hwy, byddant hwythau yn codi i'n condemnio ni. Os gwrthodwn ni edifarhau, esmwythach fydd hi yn y farn i drigolion Jerusalem, a drochasant eu dwylaw yn ngwaed Immanuel, nag i ni; oblegid, er cymaint oedd eu manteision hwy, y mae ein manteision ni yn llawer mwy.

1. Y mae y sicrwydd sydd genym ni am wirionedd y genadwri yn fwy. Yr ydym wedi dangos eisoes fod ganddynt hwy sicrwydd mawr; ond y mae genym ni fwy. Yr oedd gwyrthiau yr Arglwydd Iesu ganddynt hwy; ond yr oedd yno eraill yn cyflawni gwyrthiau hefyd. Y mae yn wir fod digon o wahaniaeth yn y gwyrthiau, pe buasent yn chwilio ac yn edrych

i mewn iddynt; ond y mae y naill beth wedi ei osod ar gyfer y llall yn rhagluniaeth y nef, fel ag y maent yn foddion i brofi plant dynion. Y mae digon o brofion o amgylch gwirionedd, fel na byddai raid i neb gonest, didwyll, gael ei dwyllo; ac y mae cymaint o dywyllwch, fel ag y bydd yn ddigon hawdd i'r neb a fyno gymeryd ei dwyllo. Yr oedd Jannes a Jambres yn cyflawni gwyrthiau yn yr Aipht, cyffelyb i'r eiddo Moses; a llawer yn cyflawni gwyrthiau yn yr oes hono cyffelyb i rai yr Arglwydd Iesu. Ac onid oedd hen groniclau y genedl yn cynwys hanes llawer o weithredodd nerthol heblaw ei rai Ef? Os porthodd Efe bum' mil âg ychydig dorthau, oni phorthodd Moses chwe' chan' mil a mwy â mana o'r nefoedd, am ddeugain mlynedd? Os cerddodd Efe ar y môr, oni holltodd Moses y môr yn ddau ddarn? Os gwelodd tri Ef wedi ei weddnewid ar y mynydd, oni welodd miloedd a myrddiwn Israel Moses wedi ei wedd-newid o'i flaen Ef? Os cyfododd Efe y meirw, oni wnaeth Eliseus hyny hefyd? Y mae yn wir ei fod yn dywedyd mai Efe yw y Crist, ond onid oedd llawer yn hòni yr un peth yn y dyddiau hyny? Ac er ei fod wedi dyfod yn ol y prophwydoliaethau a gerddasant o'r blaen, eto yr oedd rhyw ddirgelwch yn amgylchu y rhai hyny. Ni allesid canfod hyn ar yr olwg gyntaf: nid oedd ei deulu ddim yn arfer byw yn Bethlehem; a phan aeth rhai o'i wrandawyr ar ddydd mawr yr ŵyl yn Jerusalem i ddywedyd, "Hwn yw y Crist," yr oedd eraill yn barod i ateb yn ol, "Ai o Galilea y daw Crist?" "O Bethlehem, y dref lle bu Dafydd, y mae Crist yn dyfod." Ac er bod geiriau rhyfeddol yn dyferu dros ei wefusau, eto yr oedd yno rai wedi eu meddianu gan gythreuliaid yn llefaru pethau rhyfedd, fel yr oedd llawer yn meddwl mai cythraul oedd ganddo yntau.

Ond beth ydyw ein sicrwydd ni erbyn heddyw? Y mae genym y cwbl oedd ganddynt hwy, heb ddim o'u hanfanteision; ac y mae genym ni ddeunaw cant o brawf ychwanegol at hyny. Gwyddom ni fod y prophwydoliaethau a lefarodd wedi dyfod i ben: dyna brawf nad oedd ganddynt hwy. Yr ydym ni wedi cael arwydd y prophwyd Jonas: yr oeddent hwy heb gael hwnw y pryd hyny. Gwelsom ni ei eiriau bob un yn cael eu cyflawni,—ei weithredoedd nerthol yn llyncu gweithredoedd

nerthol pawb eraill, fel y llyncai gwialen Moses wiail y dewiniaid; fel nad oes erbyn heddyw ddim son am wyrthiau neb ond ei wyrthiau Ef. Mae pob goruchion a ymddangosent yn y wybren yr un pryd a seren Bethlehem wedi cwbl ddiffodd; ond y mae hi yn disgleirio eto yn ei llawn rym. Oni welsom ni grefydd Crist, fel arch Noah ar wyneb y diluw, yn byw trwy ganrifoedd yr oesoedd tywyll; ac oni welsom ni hi yn llanw y byd newydd a ddilynodd hyny? Ni a welsom ganoedd o offerynau yn cael eu llunio i'w herbyn mewn deunaw can' mlynedd; ond ni lwyddodd un; ac y mae hi wedi gwneyd yn euog bob tafod a gyfododd i'w herbyn mewn barn. Cymaint cwmwl o dystion sydd o'i amgylch i sicrhau tystiolaeth Iesu Grist. Y mae y niwl wedi codi oddiar y prophwydoliaethau,—yr amheuaeth wedi ei symud oddiar y gwyrthiau. Ni a wyddom fod y cysgodau wedi cyfarfod â'u gwrth-gysgod ynddo Ef;—bod y prophwydoliaethau wedi eu cyflawni i'r llythyren ynddo Ef;—ei fod Ef yn ïe ac yn amen yr addewidion;—yn Alpha ac yn Omega yr Hen Destament. Pa sicrwydd mwy oedd yn ddichonadwy ei roddi i ni? Os nad ydyw yr hen Lyfr yma yn wir, beth sydd wir? Os nad yw efengyl Iesu Grist yn haeddu pob derbyniad, efengyl pwy sydd yn haeddu hyny? Pa efengyl ond hon a wnaeth weithredoedd nerthol? Pa sawl un a gynygiwyd i'r byd ar ei hol hi; ond yr oeddent yn marw er pob ymdrech i'w cadw yn fyw: ond y mae hon yn fyw er pob ymdrech fu am ei lladd. Os i'r farn yr awn ni eto heb dderbyn yr efengyl, nid gwŷr Ninifeh yn unig a gyfyd yn y farn i'n condemnio, ond fe'n condemnir ni gan y genhedlaeth hono a drochodd ei dwylaw yn ngwaed yr Arglwydd Iesu. Pe buasent hwy wedi gweled y gweithredoedd nerthol a welsom ni, y tebyg ydyw y buasent hwy yn edifarhau. Ni welsant hwy ddim ysbrydion aflan yn cael eu bwrw o genhedloedd cyfain ymron ar unwaith. Ni welsant hwy ddim barbariaid anwar yn cael eu henill wrth y miloedd gan enw yr Iesu. Ni welsant hwy ddim o'i athrawiaeth Ef yn gorchfygu y byd oll o'i gŵr; ond gwelsom ni hyn oll. Esmwythach fydd i Jerusalem yn y farn nag i ni.

2. Y mae manteision yr oes hon yn llawer iawn mwy. (1.) Y mae yn haws dilyn Crist o lawer yn awr. Nid croes ysgafn i'r Iuddew oedd dilyn Iesu Grist, oblegid yr oedd yr Arglwydd

Iesu yn myned yn erbyn y cyfan yr oeddent hwy yn ymffrostio ynddo fel cenedl. A pha ryfedd eu bod yn ymffrostio? Onid oeddent wedi cael eu dewis gan Dduw o blith yr holl genhedloedd i fod yn bobl iddo? Yr oedd eu gwlad yn baradwys yn nghanol diffaethwch moesol gwâg erchyll; ac nid oedd y cwbl oedd wedi ei wneuthur iddynt ddim ond arweiniad i mewn i ryw fawredd dyfodol, yn ol eu tyb hwy. Yr oeddent yn disgwyl y byddai i frenhiniaeth y byd gael ei rhoddi iddynt, ac y byddai i holl deuluoedd y ddaear eu gwasanaethu. Yr agoriad i'r holl fawredd hwn oedd y Messiah. Mor anhawdd gan hyny oedd iddynt ddilyn Iesu o Nazareth, a gweled eu holl ddychymygion a'u breuddwydion am oesoedd yn diflanu fel niwl am byth. Iaith yr ychydig oedd wedi ei dderbyn oedd, "Nyni a adawsom bob peth, ac a'th ganlynasom di;" ac yr oedd Iuddew yn gorfod gwneuthur hyny. Ac nid yn unig yr oedd yn gorfod gadael ei ddychymygion, yr oedd yn gorfod gadael y peth anwylaf i galon Iuddew, sef ei deml a'i seremonïau. Ac nid heb achos yr oedd yn balchio yn ei deml: pa le yr oedd ei bath hi? Yr oedd dros fil o flynyddoedd er pan sylfaenesid hi y waith gyntaf; ac i'r Iuddew yr oedd hi yn dwyn ar gof fyrdd o feddyliau hapus: yr oedd hi yn adgofio iddo flynyddoedd llwyddiant ei genedl. Yr oedd hi yn adgofio iddo rês ardderchog o frenhinoedd a phrophwydi. Yr oedd hi yn adgofio y Shecinah dwyfol a fu unwaith yn harddu y cysegr sancteiddiolaf;—y meini rhyfedd ar ba rai y bu bys Duw yn ysgrifenu. Yr oedd bron bob mawredd arall wedi cilio: yr orsedd wedi ei symud;—y deyrnwialen wedi ymadael;—ond yr oedd y deml ganddo o hyd. Ac wrth ei chymharu â'r temlau amgylchol, oni allasai ef ymffrostio ynddi. Mor fawreddog oedd ei gwasanaeth hi! Mor bur oedd ei defodau! Nid oedd dim llwyni sanctaidd yn ei hamgylchu i guddio pechod,—dim ystafelloedd dirgel i gyflawni anwiredd. Nid oedd dim o guddiedig bethau cywilydd yn perthyn iddi. Gweddus oedd iddo lawenychu wrth esgyn i dŷ ei Dduw. Nid oedd gwaed dynol a chreulonderau yn ei anurddo. Moliant oedd o fewn ei byrth: bendithion oedd yn arfer dyfod allan oddiyno. Digonolrwydd llawenydd a digrifwch oedd yno yn wastad. Mor anhawdd oedd i'r Iuddew roddi i fyny yr holl bethau

anwyl hyn, i ddilyn Iesu Grist! Beth ydyw ein croes ni yn ymyl honyna? Nid oes genym ni ddim rhagfarnau cenedlaethol yn erbyn yr efengyl;—yr un deml a'i gwasanaeth i fyned rhyngom ni â Christ;—dim dychymygion am fawredd daearol, y byddai ei ddilyn yn peri iddynt ddiflanu. Ac nid rhaid i'w dlodi a'i iselder ein cadw ni yn ol. Yr oedd y Phariseaid yn gallu gofyn yn ymffrostgar, "A gredodd neb o'r penaethiaid neu o'r Phariseaid ynddo?" ond ni all neb ofyn cwestiwn felly yn awr. Nid y bobl heb wybod y gyfraith yn unig sydd wedi eu hudo ganddo; na, y mae Efe wedi hudo miloedd o benaethiaid a mawrion y ddaear, ac y maent wedi ei chyfrif yn fraint cael yr iau arnynt. Pa sut yr ymddangoswn ni yn y farn wedi ei gwrthod hi? "Nyni a chwenychem weled arwydd genyt," meddai y Phariseaid, (adn. 38.) Pa faint sydd eto yn temtio Duw fel hyn? Y mae arnynt eisiau gweled rhywbeth mawr: braidd na fynent i'r nefoedd agor uwch eu pen, fel yn amgylchiad Saul o Tarsus; neu fod i dafodau gwahanedig o dân ddisgyn arnynt, fel ar ddydd y Pentecost. Ond fe allai fod Duw yn dywedyd uwch eu pen:—"Cenhedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd:" os diystyrwch chwi ddydd y pethau bychain,—os ymgyndynwch chwi yn erbyn cymhelliadau fy Ysbryd,—peidiwch a disgwyl rhai mwy.

(2.) Y mae yr athrawiaeth yn fwy grasol yn awr. Yr oedd yr Ysbryd Glân heb ei dywallt y pryd hyny. Yr oedd pregeth Pedr, ar ol tywalltiad yr Ysbryd, yn cael annhraethol fwy o effaith na phregeth Iesu Grist ei Hun cyn hyny. Y mae yr Ysbryd Glan wedi ei dywallt yn awr: gweinidogaeth yr Ysbryd y gelwir yr efengyl. Y mae Efe drwyddi yn ymryson â'r gwrandawyr. Y mae gweision Duw yn mynegi y gwirionedd, ac Ysbryd Duw yn anfon y goleuni. Cyn y gallwn ni fyned i'r farn heb edifarhau, y mae yn rhaid i ni ddirmygu cariad Duw, gwrthod Mab Duw, a gwrthwynebu Ysbryd Duw. Ac yn wir nid oedd yr hen ordd fawr, sydd yn dryllio yr adamant sydd yn y fynwes, pan fydd pob peth arall wedi methu, ddim ganddynt hwy. Yr oedd ganddynt Sinai a'r ddeddf, ond nid oedd ganddynt Galfaria a'r groes. Yr oedd ganddynt lawer clwyf i'w feddyginiaethu, ond nid oedd ganddynt yr un ystlys wedi ei gwânu. Yr oedd ganddynt lawer llaw wywedig wedi ei nerthu,

—llawer troed cloff wedi ei adnewyddu,—ond nid oedd ganddynt ddwylaw a thraed wedi eu hoelio. Yr oedd ganddynt feirw wedi eu codi yn fyw, ond nid oedd ganddynt yr un byw wedi marw yn eu lle. Ond y mae hyn oll genym ni. Yr ydym wedi ein cyfeirio lawer canwaith i "Le y Benglog." Fe "bortreadwyd o flaen ein llygaid Iesu Grist wedi ei groeshoelio." Ni a welsom y ddaear yn ei wrthod,—y nefoedd yn gwgu arno,—afon danllyd digofaint ei Dad yn rhedeg i'w fynwes,—pwys euogrwydd meibion Adda yn ei suddo,—ei enaid o'i fewn wedi sȳnu, yn chwilio am gydymdeimlad yn rhywle, ond yn methu ei gael, pob mynwes wedi cau yn ei erbyn,—rhyw deimlad o unigrwydd ofnadwy wedi ymaflyd ynddo,—pan ymadawodd yr olaf âg Ef, Efe a waeddodd allan: —"Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" A phan oeddech yn edrych ar y drych ofnadwy yna fe ddywedwyd wrthych: "Efe a archollwyd am ein camweddau ni; efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef, a thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni." Chwareu teg i drigolion Jerusalem, darfu iddynt hwy fethu dàl yr olwg ar y drych yma.

"Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
Rhai fu 'n bloeddio âg un llef,
Am Dywysog mawr y bywyd,
'Ymaith! O croeshoelier Ef!'
Gwnaeth i'r rheiny
Wylo edifeirwch pur."

Ond y mae yma ddegau wedi dàl yr olygfa yna am flynyddoedd lawer, ac eto yn parhau fel adamant. Gall y Duw mawr ofyn, —"Beth yn ychwaneg a allesid ei wneuthur i genedl y Cymry?" Ac a fyddai yn rhyfedd pe dechreuai Efe edliw i ni am nad edifarhasom, er yr holl weithredoedd nerthol? Un bregeth a gafodd y Ninifeaid. Tair blynedd a haner fu amser ymweliad yr Iuddewon. Ond pa sawl tair blynedd a haner a gawsom ni? Nid cant—nid mil o wahoddiadau a gawsom ni i ddychwelyd at ein Tad. Os troi y glust fyddar a wnawn ni, "Gwŷr Ninifeh a gyfodant yn y farn gyda'r genhedlaeth hon, ac a'i condemniant hi; am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonas: ac wele fwy na Jonas yma."

[Mai 17, 1847.]

## PREGETH XVIII.

### O NERTH I NERTH.

"Ant o nerth i nerth; ymddengys pob un ger bron Duw yn Sïon.'
SALM lxxxiv. 7.

BARNA rhai fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi gan Dafydd pan y ffôdd o Jerusalem rhag Absalom, i ddangos hiraeth ei enaid am gynteddau ei Dduw. Yr oedd colli ei orsedd a'i goron yn beth mawr; ond mwy na'r oll oedd cael ei amddifadu o gynteddau yr Arglwydd. Bernir gan eraill ei bod wedi ei chyfansoddi i gael ei chanu ar sylfaeniad yr ail deml. Yn hanes hyny yn llyfr Ezra, ni a gawn fod y bobl yn dyrchafu llef mewn bloedd a gorfoledd wrth osod i lawr y sylfaen, ac feallai fod y Salm hon yn cael ei chanu ar y pryd. Ond os na chyfansoddwyd hi at y cyfryw amgylchiad y mae hi yn ddesgrifiad o deimlad y rhai oedd yn Israeliaid yn wir, wrth feddwl am dŷ eu Duw, ac wrth ddynesu at y tŷ hwnw. Y mae y salm yn dechreu trwy draethu barn y duwiol am y cynteddau:—"Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!" Yna y mae y Salmydd yn traethu mor gryf oedd ei serch at y tŷ:—"Fy enaid a hiraetha, ïe, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd." Nid hiraeth cyffredin oedd, ond efe a flysia neu a lewyga am y cynteddau; ac yr oedd ei hiraeth gymaint nes yr oedd yn effeithio ar ei gorff:—"Fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw." Ac y mae yr un teimlad yn cael ei ddangos yn mhellach trwy gymhariaeth:—"Aderyn y tô a gafodd dŷ," neu, fel y mae gan aderyn y tô dŷ, "a'r wenol nyth iddi, lle gesyd ei chywion;" felly byddai "dy allorau i mi, O Arglwydd y lluoedd, fy Mrenin, a'm Duw." Hwynt-hwy yw fy nyth a'm cartref; yr

wyf yn dychwelyd iddynt gyda'r un awydd ag y dychwel yr aderyn i'w nyth at ei rai bach. Ac yna y mae yn dadgan dedwyddwch y rhai sydd bob amser yn cael trigo yn y tŷ: —"Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ: yn wastad y'th folianant." Feallai mai yr offeiriaid a olygir yma yn benaf. Ac nid yn unig y mae y preswylwyr yn wynfydedig, y mae y rhai sydd yn teithio tua'r tŷ yn wynfydedig hefyd:—"Gwyn fyd y dyn y mae ei gadernid ynot; a'th ffyrdd yn eu calon." Gwyn fyd yr hwn y mae ei galon wedi ymroddi i deithio y ffyrdd tua Sïon. Yn ganlynol y mae yn desgrifio'r daith o ran ei hanawsderau a'i dull:—"Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca a'i gwnant yn ffynon: a'r gwlaw a leinw y llynau;"—neu, yn myned trwy ddyffryn cras-boeth, caregog, nas gellir myned trwyddo heb lafur a dagrau, lle y bydd y dagrau yn rhedeg fel gwlaw i lanw y llynau. Neu, er bod y dyffryn trwy ba un y mae y fintai i fyned yn boeth a garw; eto y mae yno aml ffynon a llyn ynddo; am hyny "Ant o nerth i nerth: ymddengys pob un gerbron Duw yn Sïon."

Yr oedd yr eglwys Iuddewig yn ei seremonïau a'i harferion yn gysgod o'r eglwys fel teyrnas ysbrydol ymhob oes o'r byd. Yr oedd pethau ysbrydol yn cael eu dangos iddynt hwy trwy bethau gweledig, ac i ninau drwyddynt hwy. Yr oedd caethiwed yr Aipht yn gysgod o'r caethiwed ysbrydol y mae dyn ynddo; y waredigaeth oddiyno yn gysgod o'r waredigaeth o gaethiwed pechod; taith yr anialwch, mewn amryw bethau, yn gysgod o'r daith ysbrydol o'r byd hwn i'r nefoedd. Nid oeddent yn ymddibynu ar y ddaear am gynhaliaeth, nac yn ymddiried mewn braich o gnawd am amddiffyn. Yr oedd y cyfyngderau oedd yn eu cyfarfod yn eu dwyn i deimlo eu cwbl ymddibyniad ar Dduw; ac yr oedd terfyn y daith, fel ei dechreu, yn amlygu gallu a gras Jehofah, ac fel y daith ysbrydol yr oedd hi yn diweddu yn ngwlad Canaan, y wlad well. Wedi i'r eglwys Iuddewig gyraedd Canaan, yr oedd hi yn gysgod eilwaith o'r deyrnas ysbrydol. Y deml oedd canolbwynt y wlad, ac yr oedd hono yn gysgod o'r nefoedd, "y gwir gysegr." Yr oedd cynulliad y bobl i'r deml o bob rhan o'r wlad yn gysgod o gynulliad yr eglwys adref i'r nefoedd o bob rhan o'r ddaear.

Yr oedd y gyfraith yn gorchymyn i'r bobl o bob rhan o Ganaan ymddangos dair gwaith yn y flwyddyn gerbron Duw yn Sïon. Yr oedd y minteioedd hyn yn cychwyn fel cynifer o nentydd bychain oddiar ochr y mynydd: yn y dyffrynoedd yr oeddent yn ymgyfarfod, a'u dyfroedd yn ymgymysgu, ac yn ymarllwys yn un afon fawreddog i'r môr: felly yr oeddent hwythau yn ymdywallt i mewn i Jerusalem yn ffrwd fawr. Yr oedd rhai o honynt yn dyfod o'r gogledd, eraill o'r deheu, o'r dwyrain, ac o'r gorllewin; ond un canolbwynt oedd iddynt;—Jerusalem oedd eu mam hwynt oll. Yr oedd eu hwynebau tua Sïon, oblegid hono oedd "dinas eu cyfarfod;" ac y mae yn ddiameu y byddai y cyfarfod ynddi yn hyfryd dros ben yn fynych:

"A phawb o'r brodyr yno 'n un,
Heb neb yn tynu 'n groes."

Llwyth Aser o eithaf y gogledd, a llwyth Simeon o eithaf y de, yn cyfarfod eu gilydd; Naphtali a Manasseh oddiar làn Môr Galilea yn y gogledd, yn cael gweled Reuben a Judah oddiar làn Môr Sodom yn y deheu; a llwyth Gad oddiar fynydd Gilead, yn cael cyfarfod â llwyth Ephraim oddiar ddyffryn bras Saron. Yr oedd pob anghydfod yn cael ei anghofio yno, oblegid "aneddle lonydd" oedd Jerusalem. Yr oeddent oll yn cyfarfod fel brodyr yn gyd-wastad. Os oedd rhai o honynt wedi cael brasach rhanau o'r wlad na'u gilydd, yr oedd ganddynt oll yr un hawl yn Jerusalem;—hi oedd eu mam hwynt oll. A phan y byddai y llwythau yn myned i'r gwyliau, yr oedd awyrgylch Canaan yn soniarus gan fawl, oblegid yr oedd "sain cân a moliant" i'w glywed ymhob cwr o'r wlad. At yr arferiad hon o ganu ar y daith y cyfeiriai y Salmydd, pan y dywed:—"Dy ddeddfau oedd fy nghân yn nhŷ fy mhererindod." Pan y byddwn yn myned i fyny o Bethlehem gyda fy nhad i Siloh, dy ddeddfau oedd fy nghân ar fy mhererindod. Ac fel y Salmydd, yr oedd holl waredigion yr Arglwydd yn dychwelyd i Sïon, "â chaniadau a llawenydd tragywyddol ar eu pen;" a phan y cyrhaeddent y ddinas, goddiweddent lawenydd a hyfrydwch, ac yr oedd "cystudd a galar" yn ffoi ymaith o bob mynwes. Ac y mae yn dra

thebyg fod y Salm hon yn cael ei chanu ar achlysuron o'r fath, pan y caent yr olwg gyntaf ar Jerusalem, gyda y byddai y fintai wedi dyfod dros ael mynydd yr Olewydd, neu rywun arall o'r mynyddoedd sydd yn amgylch Jerusalem, a'r dref yn ei holl ogoniant yn ymdori ar unwaith i olwg y dorf, a'r deml yn nghanol y dref yn disgleirio fel yr haul, a'i phinaclau euraidd yn adlewyrchu y pelydrau mor danbaid nes yr oedd llygaid yr edrychwyr yn dallu. Pan y deuai gwrthddrych eu parch a'u serch fel hyn ar unwaith i'w golwg, yr oedd enaid y fintai yn cael ei gynhyrfu gan yr olygfa; ac amlygent eu teimladau mewn banllef orfoleddus:—"Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!" Yna desgrifient eu teimladau ar hyd y daith,—eu hiraeth am yr olygfa ogoneddus oedd o'u blaen y pryd hwnw,—y cyfyngderau mawrion y daethent trwyddynt; ond er yr oll yr oeddent wedi dyfod o nerth i nerth; ac yr oedd pob mintai ar ymddangos gerbron Duw yn Sïon. Desgrifiad ydyw y testyn o ddull mynediad plant Israel i fyny i'r gwyliau yn Jerusalem, yr hyn oedd yn gysgod o fynediad yr eglwys ymlaen ar ei thaith ysbrydol drwy y byd. Cymerwn yr eglwys unedig yn cynwys ei holl aelodau; neu yn unigol, pob aelod ar ei ben ei hun, ac y mae adnod y testyn yn ddesgrifiad cywir o honi:—"Ant o nerth i nerth." Fel hyn y mae mynediad yr eglwys ymlaen yn y byd, ac fel hyn y mae mynediad y Cristion ymlaen tua'r nefoedd,—"O nerth i nerth." Y ddau beth sydd yn gynwysedig yn y testyn ydyw:—

I. Dull mynediad y gwersyll ymlaen, yr hyn oedd hefyd yn gysgod o ddull mynediad yr eglwys ymlaen:—"o nerth i nerth."

II. Y sicrwydd y byddai iddynt gyraedd pen y daith:—"ymddengys pob un gerbron Duw yn Sïon."

I. Dull mynediad y gwersyll ymlaen:—"o nerth i nerth." Y mae yr ymadrodd hwn yn arwyddo mynediad graddol yr eglwys yn ei blaen; neu, fel y mae ar ymyl y ddalen, "o fintai i fintai;" neu, o ddyffryn i ddyffryn, o lyn i lyn,—cyfeiriad at y llynoedd yn yr adnod o'r blaen,—neu, o orphwysfa i orphwysfa. Y mae yr holl ymadroddion hyn yn dangos mynediad yr eglwys yn ei blaen.

1. Y mae hwn yn ddesgrifiad cyffredinol o honi fel cymdeithas. (1.) O ran y rhai sydd yn ei chyfansoddi. Y mae y rhai hyn yn wahanol finteioedd. Y fintai gyntaf a aeth i'r nefoedd oedd teulu Seth,—meibion Duw cyn y diluw. Iddynt hwy yr oedd y wlad ymhell, a'r daith yn arw. Nid oedd gweledigaeth eglur ar y pryd; ac y mae yn dra thebyg mai i galonogi y fintai hono y symudwyd Enoch fel na welai farwolaeth,—i gymeryd ymaith bob amheuaeth o'u meddyliau ynghylch bodolaeth y wlad yr oeddent wedi cychwyn allan i fyned iddi. Wedi y diluw y mae mintai o batriarchiaid i'w gweled yn myned tua'r un wlad. Hwy oeddent y *Pilgrim Fathers*,—y tadau aethant ar bererindod gyntaf o'r byd sydd yr awr hon i'r nefoedd. Anturiasant trwy lawer o beryglon i fyned i'r wlad well; ac yn eu holl ymddygiadau, cyfaddefent wrth bawb "mai dieithriaid a phererinion oeddent ar y ddaear," ac mai "gwlad well yr oeddent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol." Yr ydym yn arfer edrych gyda hoffder a pharch neillduol ar y rhai sydd yn anturio eu bywydau i ddarganfod unrhyw wlad newydd, yn enwedig os byddant yn llwyddianus yn eu hymgais. Bydd enw Columbus mewn coffadwriaeth barchus ddyddiau y ddaear yn ei gysylltiad âg America. Bydd enwau y tadau hyny a fföisant o'r deyrnas hon tua dau can' mlynedd yn ol, i Loegr Newydd yn yr Unol Daleithiau, er mwyn cael rhyddid cydwybod, yn barchus yn hir gan yr eglwys. Y mae y cenhadwr cyntaf i ran o'r byd paganaidd yn anfarwoli ei enw. Pa bryd bynag y sonir am efengyleiddio India, fe gofir am enw Schwartz; neu am China eang, fe gofir yn y fan am Morrison. Nis gellir enwi Ynysoedd Môr y De heb i enw Williams ddyfod i'r meddwl gyda hwynt. Ni chofir am Indiaid America, heb gofio hefyd am Brainerd ymroddedig. Os ydym yn meddwl am y rhai hyn gyda hoffder, pa faint mwy y dylai yr un teimlad lenwi ein mynwes wrth edrych ar fintai y patriarchiaid yn myned i'r nefoedd. Yr oedd gan Abraham, Isaac, a Jacob, bellach taith o lawer na Cholumbus,—caletach iaith i'w dysgu na Morrison,—mwy o beryglon i fyned trwyddynt na Williams; ond ar ol hir deithio, o orphwysfa i orphwysfa, o ddyffryn i ddyffryn, cyrhaeddodd y fintai yna y cysegr. Ar eu hol hwynt y mae mintai o brophwydi: y rhai hyn oedd y gwŷr yr agor-

wyd eu llygaid, y rhai a welsant weledigaethau yr Hollalluog, ac fel y cyfryw yr oeddent yn llygaid i bob mintai a ddaeth ar eu hol. Hwy fuant yn chwilio yr anialwch, ac yn gosod i lawr arwyddion ffordd,—yn mapio y daith. Yr oedd y fintai hon yn gyffelyb i'r gwefr-hysbysydd newydd—yr *electric telegraph* —y mae gwefr hwnw yn gallu trosglwyddo gwybodaeth i bellder dirfawr mewn ychydig eiliadau: felly yr oedd enaid y prophwyd fel trosglwyddydd, ar hyd pa un yr oedd Ysbryd Duw yn anfon gwybodaeth o'r byd ysbrydol i'r anialwch. I'r fintai hon yr ydym yn ddyledus am bob desgrifiad sy genym o'r wlad, oblegid ni ddaeth neb yn ol o honi erioed. Unwaith y cyrhaedda mintai y wlad, nid ydyw yn meddwl am ddychwelyd. Yno y mae hi yn gwladychu mwy. Y mae yma fintai o apostolion hefyd: hon ydyw y fintai a anrhydeddwyd fwyaf o'r un a aeth i Sïon, oblegid gyda hon y bu y Rhagflaenor ei Hun yn teithio: am hyny yn ol traed hon y mae pob mintai arall i deithio, oblegid eu ffordd hwy ydyw y ffordd unionaf, a fu neu a fydd, i Sïon. Y mae y tair mintai hyn wedi eu gosod yn esiamplau i holl finteioedd Israel Duw hyd ddiwedd amser. Y maent i edrych ar ffydd a dyfal-barhad y patriarchiaid,—y maent i wrandaw ar ddarluniadau y prophwydi, ac i gerdded yn ol traed yr apostolion. Yr oedd y fintai gyntaf yn myned i'r nefoedd wrth oleu y sêr,—yr ail, wrth oleu y lloer,—a'r drydedd wrth oleu yr haul. Y patriarchiaid a ddarfu anturio gyntaf i'r môr i chwilio am y wlad;—y prophwydi fu yn gwneyd *chart* o'r fordaith;—a'r apostolion fu yn diwygio hono, er dangos y ffordd unionaf i'r wlad. Fel yn y gelfyddyd o forwriaeth, nid oedd y morwyr cyntaf yn meiddio myned o olwg y tir: wrth ryw nodau ar hwnw yr oeddent yn llunio eu ffordd. Ar ol hyny daethant ychydig yn fwy gwrol,—anturient allan o olwg y tir, gan lunio eu llwybr wrth y sêr,—ond os byddai hi yn dywydd cymylog, yr oedd eu holl ddoethineb yn pallu, oblegid nid oedd ganddynt ddim y gallent lunio eu llwybr wrtho: ac nis gallai y dosbarth hwn gymeryd y ffordd fwyaf uniongyrchol i'r hafan a ddymunent, rhag ofn iddi fyned yn dywydd tywyll arnynt. Ond o'r diwedd fe gafwyd allan y cwmpas, gyda'r hwn y gellir anturio allan yn lled hyderus o ganol yr eigion mawr. Os na

fydd yr un rhan o'r tir, nac un seren yn y nefoedd, yn y golwg, fe ddengys y cwmpas y cyfeiriad o hyd: felly yma: wrth nodau ar y tir yr oedd y patriarchiaid yn llywio,—wrth y sêr yr oedd y prophwydi yn llywio, ond yr oedd y cwmpas gan yr apostolion. Yr oeddent yn anturio yn hyderus ar draws yr eigion, y ffordd unionaf i'r hafan ddymunol. Yr oedd y patriarchiaid yn dangos eu bod yn bererinion i wlad well, trwy fod yn bererinion llythyrenol ar y ddaear, yn trigo mewn lluestai, heb ddinas barhaus. Yn oes y prophwydi yr oedd hi ychydig yn fwy ysbrydol: yr oeddent hwy yn gallu llywio wrth y sêr; eto yr oedd eu taith hwy yn cyfranogi raddau mawr o natur taith ddaearol, ond yn amser yr apostolion, fe'i rhyddhawyd hi oddiwrth ei character daearol: yr oeddent i fod yn bererinion yn ystyr ysbrydol y gair, heb fod felly yn ei ystyr lythyrenol. Yr oeddent i fod yn bobl briodol i Dduw, ac eto i drigo ymysg y cenhedloedd. Pan y gelwid hwynt gan Dduw, nid oeddent fel Abraham i adael eu hen wlad, nac fel Israel i adael eu hen wasanaeth. Yr oedd y neb a alwyd yn was i aros felly. Mintai ysbrydol oedd hon. "Ant o nerth i nerth, o fintai i fintai."

Y mae y testyn yn ddesgrifiad o fynediad yr eglwys ymlaen ymysg pob cenedl a dosbarth o ddynion. Yr oedd mintai yn myned o bob llwyth i Sïon, er bod cymeriad y llwythau yn wahanol iawn. Reuben yn ansefydlog fel dwfr, yn llwyth na ragorodd erioed yn Israel; Simeon yn un o'r llwythau tlotaf yn y wlad; Judah yn llwyth enwog a chyfoethog; yr oedd llwyth Zabulon yn fasnachwyr mawr; Issachar yn bobl wledig iawn,—" asyn asgyrnog;" Dan yn ddichellgar a chyfrwys; Benjamin yn llwyth rhyfelgar a dialgar: ond beth bynag oedd eu cymeriad, yr oedd mintai yn myned o bob llwyth i Sïon; —o Judah gyfoethog, ac o Simeon dlawd;—o Issachar ddiog oedd yn caru llonyddwch, ac yn esmwyth dan deyrnged, ac o Benjamin ryfelgar, oedd yn bwyta yr ysglyfaeth y bore, a'r hwyr yn rhanu yr ysbail: pob un a ymddengys ger bron Duw. "Yno yr oedd Benjamin fychan a'u llywydd, tywysogion Judah a'u cynulleidfa; tywysogion Zabulon, a thywysogion Naphtali." Felly yr Israel ysbrydol: y mae mintai yn myned o bob cenedl a dosbarth o ddynion tua Sïon. Fe ddatguddia y dydd

diweddaf nad oedd yr un genedl mor anwar, nad aeth mintai o honi i Sïon; nad oedd yr un dosbarth o ddynion mor isel, na chyrhaeddodd rhyw gwmni o honynt fynydd Duw. Bu y philosophyddion yn hir yn methu penderfynu pa un ai dynion ai anifeiliaid oedd meibion Ham; ond y mae mintai o honynt hwy wedi cyraedd adref er's talm. Y genedl liosog yna sydd ar y Cyfandir, fel Reuben yn ansefydlog megis dwfr, y mae mintai o honynt hwythau wedi cyraedd Sïon; ac y mae aml fintai o'r Saeson a'r Cymry wedi cyraedd yr un wlad.

Y mae rhywbeth hynod iawn i'w ganfod yn achos yr Arglwydd hyd yma. Rhyw un fintai neu ddwy sydd yn myned ymron o bob man i Sïon, ac yna y mae y cyfan yn sefyll. Yn oes yr apostolion, a'r oesau ar ei hol, aeth ychydig finteioedd o bob cenedl bron i ymddangos ger bron Duw, ac yna fe safodd y cyfan am ganoedd o flynyddoedd; ac felly y mae hi yn awr i raddau mawr. Wedi i fintai gael ei chychwyn tua Sïon, a chyraedd yno, y mae y wlad yn llonyddu;—oes arall yn codi 'y rhai nid adwaenent yr Arglwydd, na'i fawrion weithredoedd.' Yn amser y diwygiad Protestanaidd, cychwynodd ychydig finteioedd tua Chanaan; ond llonyddodd y byd eilwaith. Cychwynodd Whitefield a Wesley yn Lloegr, Harris a Rowlands yn Nghymru, aml fintai tua'r wlad drachefn. Cafwyd ychydig ddiwygiadau nerthol ar ol hyny: cychwynodd y rhai hyn finteioedd tua'r Ganaan nefol; ond y mae y wlad wedi llonyddu i raddau mawr eto, er, y mae yn wir, bod yma aml fintai fechan ar ei thaith, ond nid oes arwyddion fod minteioedd newyddion yn cychwyn.

Y mae yr efengyl hyd yn hyn yn debyg iawn fel pe byddai hi yn gwneuthur prawf ar bob math o ddynion. Y mae hi yn myned o amgylch y byd i edrych a etyb hi y diben; ac wedi cael ychydig o brofion boddhaol o'i heffeithiau ar bob cenedl, y mae hi yn symud ymlaen at genedl arall. Y mae hi yn anfon rhyw fintai fechan wedi eu golchi a'u cánu yn ngwaed yr Oen i ymddangos ger bron Duw, fel engraifft neu esiampl o bob llwyth, a phobl, a chenedl. Ac wedi iddi orphen y profion hyn,—wedi iddi ddangos ei hun yn allu Duw er iachawdwriaeth i bob un sydd yn credu ymysg holl dylwythau y ddaear, hi a ddechreua ar ei gwaith o ddifrif. Y mae hi yn awr fel meibion

Dan wedi myned i edrych ansawdd y wlad: prin y mae hi yn amcanu am goncwest eto; ond wedi iddi gael gwybod am ei holl ansawdd, hi a ddaw â'i byddin o filwyr i fyny i'w herbyn o ddifrif, ac ni orphwysa nes llwyr orchfygu. Darparodd Dafydd lawer at y deml; bu gweision Hiram yn gweithio yn hir yn y mynydd, cyn rhoddi maen ar faen o'r adeilad; ond y darparu oedd y gwaith mwyaf: nid hir y buwyd yn ei hadeiladu hi wedi cael pob peth yn barod. Y cwbl sydd yn cael ei wneuthur er's dwy fil o flynyddoedd ydyw darparu at y deml ysbrydol. Y mae gweision llawer Hiram ddienwaededig yn brysur wrth y gorchwyl. Y cyflog yn unig sydd yn eu golwg hwy. Ond fe ddaw rhyw Solomon cyn hir i adeiladu y tŷ,—i roddi y meini darparedig ar eu gilydd. Bychan y mae aml un yn feddwl, mai darparu y ffordd i'r minteioedd fyned tua Sïon y mae. Enill Babilon oedd yn ngolwg Cyrus: agor y ffordd i Israel fyned adref oedd yn ngolwg yr Arglwydd. Ac wedi cael pob ffordd yn rhydd, "ehedant fel cwmwl, ac fel colomenod i'w ffenestri," gan amled fyddent. Y mae y minteioedd yn dyfod o bob man:—"Wele y rhai hyn a ddeuant o bell, a'r rhai acw o'r gogledd;" y rhai yna "o'r gorllewin, a'r rhai yma o dir Sinim," "änt o nerth i nerth, o fintai i fintai."

2. Y mae y testyn yn ddesgrifiad o fynediad yr eglwys ymlaen mewn gwybodaeth a sancteiddrwydd. Graddol ydyw ei chynydd hi yn hyn hefyd. Y foment y bwytäodd Adda o ffrwyth y pren gwaharddedig, gorchuddiwyd y ddau â thywyllwch dudew mewn ystyr foesol, ac aeth ei feddwl ef ei hun, yr hwn o'r blaen oedd yn ysbrydol, yn gnawdol; ond fe gododd seren yn yr addewid foreu,—brithwyd y ffurfafen â ser yn y seremonïau,—torodd gwawr y dydd ar y prophwydi,—a chyfododd yr Haul ar yr apostolion; ac yn llewyrch yr Haul y mae yr eglwys yn rhodio yn awr. Ond y mae yn rhaid iddi ymddangos yn Sïon, cyn y cyrhaedda hi ddisgleirdeb canol dydd.

Y mae cynydd yr eglwys mewn gwybodaeth ysbrydol yn debyg iawn i gynydd y byd mewn gwybodaeth naturiol. Yr oedd meddyliau dynion ar y cyntaf yn ychydig iawn, a'u geiriau yn anaml. Yr oedd llawer o'u meddwl yn cael eu trosglwyddo drwy ystumiau ac arwyddion. Pan y byddent yn awyddus i gadw unrhyw beth mewn cof, cerfient luniau ang-

helfydd ar goed a cheryg. Yn raddol y perffeithiwyd y gelfyddyd o ddarlunio, ac y cafwyd allan iaith ysgrifenedig, yr hyn sydd yn ddull mwy syml a pherffaith o drosglwyddo meddwl. Fel hyn y bu hi gyda gwybodaeth ysbrydol. Yn y dechreu yr oedd syniadau yr eglwys am grefydd yn ychydig a thywyll iawn. Yr oedd ei hysbrydolrwydd hi yn guddiedig i raddau mawr o'u golwg. Ceisio ymguddio o olwg yr Arglwydd, a myned allan oddi ger ei fron, ni ddeallai bethau ysbrydol heb ddarlun, a mynych y cymerai hi y darlun yn lle yr hyn a ddarlunid. Plentyn oedd hi dan wyddorion y byd, heb fedru llythyren ar lyfr, yn cael ei dysgu trwy ddrychau. Yr oedd yr Arglwydd yn ymddwyn tuag ati fel y gwnai tad tuag at ei blentyn, yn goddef llawer o bethau ynddi am mai plentyn oedd. "O achos eich calon-galedwch yr ysgrifenodd Efe i chwi y gorchymyn hwnw." "Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llefarwn, fel bachgen y deallwn, ac fel bachgen y meddyliwn." Yn raddol iawn yr amlygwyd trefn ogoneddus y prynedigaeth. Feallai nad oedd gan y rhai cyntaf ond syniadau tywyll iawn am ffordd y cadw; ymddiried yn nhrugaredd Duw, heb wybod ond ychydig neu ddim am ddull gweinyddiad y drugaredd hono. Yr oedd ychydig ymhob oes yn gweled o bell ac yn eglur,—yn cael cip-olwg ar yr Hwn y gwnaed addewid bywyd tragywyddol iddo, ac ar gyfrif iawn yr Hwn yr oedd trugaredd yn maddeu. "Abraham a welodd fy nydd i, ac a lawenychodd:" ond os oedd yr Haul yn goleuo copa ambell fynydd uchel fel hyn, yr oedd y dyffrynoedd yn cael eu gorchuddio gan y fagddu: y lliaws o'r bobl yn gwbl dywyll am sylwedd y cysgodau. Ond wrth sylwi ar yr eglwys Iuddewig y mae yn hawdd canfod ei bod hi yn cynyddu yn raddol mewn gwybodaeth am y drefn, fel yr oedd cyflawnder yr amser yn nesâu. Yr oedd y prophwydoliaethau yn myned yn fwy ysbrydol, y cysgod yn diflanu yn raddol, a'r Sylwedd yn dyfod yn fwy i'r golwg, nes o'r diwedd i Haul yr oruchwyliaeth hon godi; a phan y llewyrchodd y gwir Oleuni, diflanodd holl gysgodau yr hwyr. Ac nis gwyddom pa faint a gynydda yr eglwys eto "yn ngwybodaeth ein Hârglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist," oblegid y mae y Bibl fel y greadigaeth naturiol—y mae darganfyddiadau newyddion yn cael eu gwneuthur o

hyd yn hon. Y mae yn wir nad ydyw deall pob peth sydd yn perthyn i'r ddaear ddim yn angenrheidiol tuag at fyw arni. Yr oedd dynion yn byw arni yr un fath cyn gwybod am ei llun hi, nac am liaws o ryfeddodau eraill sydd yn perthyn iddi: ond y mae deall y pethau hyn yn dwyn mwy o ogoniant y neb a'u gwnaeth i'r golwg: felly y mae trefn yr iachawdwriaeth yn achub heb wybod ond ychydig iawn am dani. Pe buasai deall ei phob peth hi yn angenrheidiol tuag at gadw, ni buasai gadwedig un cnawd; ond po mwyaf a ddeallir o honi, mwyaf oll o ogoniant Trindod a ddaw i'r amlwg. Ni wyddom ni ddim pa ddarganfyddiadau a wna meddyliau mawrion y mil blynyddoedd. Fe wêl llygad cryf yr eglwys, yn ngoleuni nerthol yr adeg hono, liaws o ryfeddodau sydd yn anweledig yn awr. Wrth ddywedyd hyn, nid ydym yn meddwl y gwêl hi yr un ffordd newydd i fod yn gadwedig; ond y gwêl hi ogoniant newydd yn yr hen ffordd. Y mae seryddwyr yn y dyddiau hyn yn darganfod ambell fyd newydd; *comet* mewn un man, a phlaned mewn man arall; ond nid oes neb yn cael allan haul newydd, neu ganolbwynt newydd i'r gyfundrefn. Fel y perffeithir yr yspïenddrych, feallai y cänt allan aml fyd newydd eto; ond nid oes eisiau yr un yspïenddrych i ganfod yr haul,—gall y llygad mwyaf cyffredin ei weled ef. Felly, pa ddarganfyddiadau bynag a wneir yn y Bibl, nid oes berygl y caiff neb allan ganolbwynt newydd i'r gyfundrefn,—yr un haul ond "Haul Cyfiawnder." Buasai yn dda genym gael yspïenddrychau nerthol y mil blynyddoedd i edrych drwyddynt ar ffurfafen y gwirionedd; diau y buasem yn canfod llawer o ryfeddodau sydd yn guddiedig yn awr; ond o drugaredd nid oes eisiau yr un yspïenddrych i ganfod yr Haul,—y mae ein llygaid cyffredin ni yn gallu gweled hwnw yn awr. Rhodded yr Arglwydd gymorth i ni rodio yn ei oleuni.

Nid ydyw y testyn yn ein cario ni yn mhellach na Sïon, neu gallasem sylwi y bydd yr eglwys yn myned ymlaen byth, ac y bydd ei chynydd hi yn y byd a ddaw yn annhraethol gyflymach nag yma. Dyfod i fyny o'r anialwch y mae hi yn awr, ac nis gall ddyfod yn gyflym i fyny y rhiwiau; ond gwastadedd perffaith sydd iddi wedi myned adref: ac ni saif hi yno ar yr holl wastadedd; bydd yr Oen yn ei harwain at ffynhonau bywiol o

ddyfroedd,—yn cyfranu rhyw wybodaeth newydd iddi am byth; oblegid pe buasai modd i Sïon amgyffred pob peth, buasai ei dedwyddwch hi yn dechreu gwywo y dydd y buasai hi yn gwneuthur hyny. Y mae anwybodaeth mor angenrheidiol tuag at wneuthur creadur yn ddedwydd ag ydyw gwybodaeth. Y mae ei ddedwyddwch yn gynwysedig mewn gwybod llawer am Dduw, ac mewn teimlo na ddaw byth i wybod y cyfan;—mewn myned ymlaen yn ddiddiwedd, ac mewn methu cyraedd y nôd,—'ymestyn heb gael gafael.'

Y mae ein dedwyddwch ni yn y byd hwn yn gynwysedig lawn cymaint mewn gobaith ag ydyw mewn mwynhad. Yr ydym yn byw lawn cymaint ar yr hyn nad ydyw genym ag yr ydym ar yr hyn sydd. Feallai fod hyn yn elfen angenrheidiol i ddedwyddwch creadur byth, ac y bydd gan obaith lawn cymaint i'w wneuthur â'n dedwyddwch yn y nefoedd ag a fydd gan fwynhad,—y bydd cymaint o'n hapusrwydd yn dyfod oddiwrth feddwl am yr hyn sydd i ddyfod ag a fydd o'r teimlad o'r hyn sydd yn ein meddiant eisoes. Fe ä Sïon "o nerth i nerth," yn yr ystyr hwn, yn dragywydd.

Ond i ddychwelyd, graddol yw ei mynediad hi ymlaen mewn sancteiddrwydd hefyd. Y mae hi ymhell ymlaen yn awr ragor oedd hi yn yr oesoedd boreuol. Y pryd hyny yr oedd pob syniad am burdeb moesol yn cael ei drosglwyddo iddi trwy burdeb allanol. Ond y mae y syniad am sancteiddrwydd a phurdeb wedi eu trosglwyddo i'n meddwl yn awr yn annibynol ar bethau allanol; eto y mae genym achos i gredu fod gwahaniaeth dirfawr rhyngddi yn awr a'r hyn a fydd hi. Y mae dydd o'r fath burdeb i wawrio ar yr eglwys fel 'y bydd sancteiddrwydd i'r Arglwydd yn ysgrifenedig ar ffrwynau y meirch,'—bydd crefydd wedi ei chymysgu â gwasanaeth mwyaf cyffredin y byd. Bydd y byd hwn a'i bob peth yn cael eu trin gyda chyfeiriad uniongyrchol at Dduw; "y crochanau yn nhŷ yr Arglwydd fel y meiliau gerbron yr allor;" y gweinidog distadlaf fydd yn perthyn i wasanaeth y tŷ mor hynod mewn sancteiddrwydd ag y bu y rhai mwyaf enwog gynt. Ac nid yn unig fe fydd y gweinidogion yn hynod mewn sancteiddrwydd, ond fe fydd pob crochan yn Jerusalem yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd. Byddant bawb yn gydstâd yn hyn: ni fydd eu

gwybodaeth yr un faint, oblegid pan êl y lleuad fel yr haul, ă yr haul fel saith o ddyddiau: ond mewn purdeb—mewn sancteiddrwydd—bydd cydraddoldeb i raddau mawr;—achosion y byd hwn yn cael eu cario ymlaen ar yr un egwyddorion a phethau mawrion byd arall.

Y mae yn ymddangos yn rhyfedd iawn i ni pa fodd yr oedd duwiolion yr Hen Destament yn gwneuthur llawer o bethau, oblegid y maent yn ymddangos i ni mor groes i ysbryd ac egwyddorion crefydd; ond y mae yn ddiau yr ymddengys ymddygiadau yr eglwys yn awr mor anhawdd eu cysoni âg ysbryd crefydd Crist i eglwys bur y mil blynyddoedd ag y mae ymddygiadau yr eglwys Iuddewig yn ymddangos i ni. Feallai y bydd cadw caethion,—yfed diodydd meddwol,—bod yn grintachlyd at achos yr Arglwydd,—mor anhawdd eu cysoni iddynt hwy, âg ysbryd crefydd Crist ag ydyw aml-wreicaeth, a thywallt gwaed, yr eglwys Iuddewig i ni. Y mae tir lawer mewn sancteiddrwydd heb ei feddianu. Na fesurwn ein hunain wrth eglwys yr Hen Destament, nac wrth eglwys oesoedd tywyll Cristionogaeth: yr hyn a oddefid ynddynt hwy, fyddai yn bechod ynom ni; oblegid "o nerth i nerth" y mae Sïon i fyned.

2. Y mae hyn hefyd yn ddesgrifiad o'r eglwys yn ei gwahanol aelodau. Nid ydyw y Cristion ddim fel Adda wedi ei greu yn ei gyflawn faintioli. Y ddau Adda, y cyntaf a'r ail, yn unig oedd felly. Y mae eu holl had yn cychwyn yn fabanod, yn cynyddu yn raddol, nes o'r diwedd ddyfod yn wŷr perffaith: myned "o nerth i nerth" y maent. Y mae y greadigaeth newydd fel y gyntaf; yn raddol iawn y prydferthwyd ac y perffeithiwyd hono. Crewyd goleuni y dydd cyntaf, a gwnaed gwahaniaeth tragywyddol rhwng y dydd a'r nos; ond ar y pedwerydd dydd y llewyrchodd yr haul. Felly, fe lewyrchodd goleuni ar ddydd cyntaf y greadigaeth newydd; ond feallai mai niwliog a chymylog iawn ydyw hi eto. Ond ni raid i blentyn Duw anobeithio, er y cymylau a'r niwl: cyn sicred a bod yno oleuni, fe wawria y pedwerydd dydd cyn hir,—daw yr Haul i'r golwg. "O nerth i nerth:"—

(1.) Y mae hyn yn ddesgrifiad o fynediad y Cristion ymlaen o ran ei brofiad. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd." Y mae ar gychwyn

ei daith yn cael ei droi o'r tywyllwch i'r goleuni; ac y mae y goleuni hwnw yn cryfhau o hyd. Fel y mae dynion o bob maintioli ac oedran ar y ddaear yma, ymhob oes; felly y mae saint. Y mae amrywiol finteioedd mewn profiad: rhai yn fabanod yn ymborthi ar y llaeth; eraill yn wŷr perffaith, yn defnyddio y bwyd cryf. Os na elli ddywedyd, "Mi a wn i bwy y credais," paid ag anobeithio;—y mae mintai mor sicr o gyraedd Canaan a'r rhai yna, yn llefain, "O na wyddwn pa le y cawn i Ef?" Y mae mintai wedi cyraedd y nod, yn sicr o'r gamp, sef "uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu;" ac os wyt yn gorfod teimlo nad ydwyt yn perthyn i'r rhai yna, paid a digaloni; oblegid y mae mintai arall nad ydynt wedi cyraedd,—ymestyn y maent at y nôd. Y mae mintai o saint yn gallu ymaflyd yn Nuw fel eu Duw cyfamodol, a dadleu âg Ef am y fendith fel plant â'u Tad; ond os na allwn ni wneuthur hynyna, ni raid i ni lwyr anobeithio, oblegid y mae mintai arall, fel y wraig o Ganaan,—nid oes ganddynt hyder plant i ofyn yn galonog am y bara, ond y maent yn debycach i'r cŵn, yn disgwyl yn ddistaw am y briwsion; ac nid ydyw y rhai yna ddim yn disgwyl yn ofer. Dylai y Cristion ymdrechu i newid ei fintai o hyd,—gadael y pethau o'r tu ol, ac ymestyn at yr hyn sydd o'r tu blaen; ond mwy tueddol iddo ydyw edrych yn ol ar yr hyn a brofwyd nag ymestyn ymlaen at brofiad uwch. Ond gall aml un gael ei faeddu gan feddwl nad ydyw yn myned ymlaen yn yr yrfa ysbrydol, am ei fod yn teimlo ei hun yn myned waethwaeth; ond y mae y gwahaniaeth hwn rhwng iechyd ysbrydol ac iechyd naturiol: yr ydym yn gwellâu yn naturiol i'r graddau y byddom yn colli pob teimlad o anhwyldeb; ond yn ysbrydol, yr ydym yn gwellâu i'r graddau y byddwn yn teimlo ein hafiechyd;—yr ydym yn cynyddu mewn sancteiddrwydd i'r graddau y byddwn yn gweled mwy o halogrwydd pechod. Nid ydyw ein bod yn gweled mwy o ddrwg ein calon yn brawf ei bod hi yn myned yn waeth, ond bod ein llygaid ni yn cryfhau. Yr oedd y drwg yno o'r blaen, ond bod ein llygaid ni yn rhy wân i'w ganfod. Yr oedd anwiredd lawn mor chwerw o'r blaen, ond nid oedd taflod ein genau ni "yn deall cam flas." Myned rhagddom y byddom nes dyfod yn wŷr perffaith.

(2.) Y mae hyn yn ddesgrifiad o'r Cristion yn nghyflawniad ei ddyledswyddau: myned "o nerth i nerth" y mae efe yma hefyd. "Yn ol dy ddydd y bydd dy nerth." Yr un un sydd wedi trefnu y nerth ag sydd wedi trefnu y prawf. Os gwna Efe i'r haul daraw ar ben ei blentyn, gall wneuthur i'r cicaion dyfu yn gysgod iddo. Nid rhaid oedd i'r Israeliaid ofalu dros dranoeth. Eu hunig ofal hwy oedd teithio cymaint o'r ffordd ag a allent heddyw, yn nerth y manna a gawsant y bore, a gadael darparu ar gyfer tranoeth i'r Duw oedd wedi darparu ar gyfer heddyw. Os oes genym ddigon o nerth i gyflawni ein dyledswyddau heddyw, na fyddwn amhëus ynghylch amseroedd draw; oblegid os ydyw ein taith ni o gyfyngder i gyfyngder, y mae ein gallu ni i fyned "o nerth i nerth." Ni wyddom ni ddim o'n nerth nes y rhoddwn ni brawf arno; ac fe fydd defnyddio hyny sy genym i gyflawni ein dyledswyddau yn awr, yn barotoad i gyflawni rhai anhawddach o lawer. Y mae yn angenrheidiol mewn pob gwybodaeth, ac mewn un yn enwedigol felly, sef hono sydd yn dwyn perthynas â rhif a mesur, deall pob rhan o honi yn lled berffaith wrth fyned ymlaen, oblegid, os eir yn esgeulus dros y rhanau cyntaf, cyfarfyddir â rhwystrau anorfod yn fuan. Ond os deallir y rhanau cyntaf yn lled berffaith, y mae hyny yn gymorth mawr at fyned drwy y rhanau anhawddaf. Felly yn gwbl y mae gydâ dyledswydd: os cyflawni dyledswyddau iechyd yn lled esgeulus yr ydým, nid rhyfedd os byddwn yn rhy wan i gyflawni dyledswyddau gwely cystudd. Y ddarpariaeth oreu tuag at gyflawni dyledswyddau yr ystorm ydyw cyflawni holl ddyledswyddau y tywydd teg yn iawn. Bod yn ffyddlon mewn bywyd a'n gwna ni yn gryf yn angau. Nid ar unwaith y daeth Abraham yn ddigon cryf i aberthu ei fab: yr oedd o gylch deng mlynedd a deugain o brawf wedi ei roddi ar ei ffydd ef cyn hyny. Galwyd ef i adael ei wlad a'i deulu, os byddai raid; arweiniwyd ef i blith dieithriaid a gelynion, i'w ddysgu i ymddiried am ddiogelwch i'w Dduw: a phan roddwyd prawf ar ei ffydd ef yn yr Aipht, methodd a dal. Cymerwyd ef yn ol i'r hen ysgol drachefn i'w ddysgu yn fanylach. Arweiniwyd ef o'r Aipht i Bethel, ac i Hai, ac i wastadedd Mamre, ac felly yn ol ac ymlaen am flynyddoedd, nes yn raddol

y daeth yn ddigon cryf i gredu addewid Duw yn erbyn gobaith; ac wedi bod dan addysg am ddeng mlynedd a deugain, pan roddwyd y prawf mawr arno, yr oedd yn ddigon cryf i'w ddal. "Aeth o nerth i nerth," fel nad oedd dim ar y ddaear nad allai efe ei gyflawni. "Gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad ateliaist dy fab, dy unig fab, oddi wrthyf fi."

Ac nid yn unig yr ydym yn myned "o nerth i nerth" trwy ymarfer, ond y mae gorphwys-fanau ar y ffordd i ni adnewyddu ein nerth. Pe buasai raid i Israel fyned i Ganaan heb orphwys mewn un man, ni chyrhaeddasai un cnawd o honynt wlad yr addewid. Pe dywedasid wrthynt yn Gosen, y mae yn rhaid i chwi fyned rhwng Pihahiroth a Baal-Sephon,—drwy ganol y Môr Coch,—drwy'r diffaethwch gwâg erchyll,—heibio i daranau a mellt Sinai,—amgylchu mynydd yr Amoriaid,—myned trwy ganol anialwch Moab,—ac at ymchwydd yr Iorddonen, a thrwyddi hefyd, heb orphwys unwaith; ond pan gyrhaeddwch Ganaan, cewch orphwys yno. Ni fuasai yr un enaid o honynt yn gadael yr Aipht; ond drwy gael mynych orphwys, o'r diwedd cyrhaeddasant Ganaan. Felly, y mae gan Israel Duw eto leoedd gwersyllu,—manau gorphwys. Os bydd haul poeth profedigaeth yn gwywo ein nerth, y mae cysgod craig fawr i'w gael yn y tir sychedig i'w adnewyddu drachefn. Os bydd hi yn flin arnom oherwydd y ffordd a'r dwfr, y mae deuddeg ffynon a deg palmwydden a thriugain yn Elim,—y palmwydd i gysgodi, a'r dwfr i ddisychedu: "ant o nerth i nerth." Felly y mae rhai yn darllen y testyn:—"ant o lyn i lyn." Yr oedd hi yn ddigon anhawdd cyraedd Sïon am fod y ffordd yn arwain trwy ddyffryn Baca; ond, fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd yno lynau wedi eu cloddio, a byddai y gwlaw yn disgyn, ac yn llanw y rhai hyny; ac er cymaint y gwres, yr oedd y fintai, trwy yfed o'r llynau ar y ffordd, yn cael eu dadebru, ac yn myned "o nerth i nerth," nes iddynt ddyfod i fyny o'r dyffryn oll i Sïon. Dyna ydyw moddion gras, ordinhadau tŷ yr Arglwydd, llynau i gynorthwyo y fintai i fyned trwy ddyffryn Baca; ac o'r naill lyn i'r llall, o'r naill Sabbath i'r llall, y mae hi o'r diwedd yn cyraedd Sïon. Pan y mae llongau yn myned i fordaith bell iawn, i India'r Dwyrain neu i Awstralia, y maent yn gyffredin yn troi i mewn i'r Cape,—i St. Helena,—

neu i ryw ynys arall, i ymofyn cyflenwadau newyddion; ac os byddant wedi colli angor, neu hwyl, neu y llong wedi cael rhyw niwed, y mae y cwbl yn cael ei adgyweirio cyn wynebu allan i'r môr drachefn. Dyna ydyw moddion gras,—ynysoedd bychain yn nghanol y môr, i'r Cristion gael troi ei lestr i mewn, i chwilio am gyflenwadau. Ac os bydd yntau wedi colli angor ei obaith, neu wedi cael niwed i'w lestr, y mae yn adgyweirio y cyfan yn y porthladd cyn troi allan eilwaith; ac o'r naill ynys i'r llall, y mae yn glanio yn ngwlad yr addewid o'r diwedd,—"o nerth i nerth."

Pa beth a fuasai y byd hwn heb foddion gras? Pwy o feibion Adda a fuasai byth yn gallu cyrhaeddyd Canaan? Y mae y byd hwn yn gyffelyb i'r diffaethfaoedd sydd yn Affrica, a rhanau o Asia. Y maent ganoedd o filldiroedd o hyd—mynwentydd—claddfeydd natur ydynt. Nis gall y bywyd llysieuol na'r anifeilaidd ddim trigo yno;—y mae y nefoedd yn bres, a'r ddaear yn haiarn;—yr haul fel tân oddiarnodd, a'r ddaear fel tân odditanodd. Eto y mae rhai yn gallu croesi lleoedd o'r fath; oblegid, yma a thraw, y mae yno *oases*, hyny yw, rhyw lanerchau gwyrddleision, lle y mae ffynhonau dyfroedd, ac ychydig goed: gall y teithiwr yno orphwys a diluddedu ei hunan; ac yna treiddio drwy y diffaethwch nes y cyrhaedda fe *oasis* drachefn; ac o'r naill lanerch werddlas i'r llall, y mae yn dyfod o'r diwedd i wlad gyfaneddol. Diffaethwch crasboeth ydyw ein byd ni: y mae ei wrês ef yn farwol i rinwedd a gras. Buasai yn anmhosibl myned drwyddo i'r wlad sydd yn llifeirio o laeth a mêl, oni buasai am *oases*—am lanerchau gwyrddleision moddion gras. Yma y mae y teithiwr yn cael bwrw ei ludded, a llenwi ei gostrel â dwfr, i wynebu y diffaethwch eilwaith; ac o'r naill lanerch i'r llall, o'r diwedd cyrhaedda y wlad gyfaneddol. "Ymddengys pob un gerbron Duw yn Sïon."

II. Y sicrwydd sydd y byddai iddynt gyraedd pen y daith. "Ymddengys pob un gerbron Duw yn Sïon." Nid ydyw y rheswm am hyn yn cael ei roddi yma: y mae y peth yn cael ei sicrhau heb ddywedyd paham. Ond pa reswm uwch sydd i'w gael na gair Duw? Pa baham cryfach na thystiolaeth y Digelwyddog? "Ymddengys pob un," hyny yw, daliant eu ffordd nes cyraedd y nôd.

1. Y mae hyn yn wirionedd am yr eglwys. Y mae hi i fod yn gynyddol ymhob ystyr, nes cyraedd perffeithrwydd—mewn nifer — mewn gwybodaeth — mewn sancteiddrwydd. Wrth edrych ar yr eglwys, y mae dau ryfeddod yn ein dal: un ydyw ei bod hi ar gael o gwbl; a'r llall ydyw—na buasai hi wedi llenwi y byd. Wrth ystyried mor groes i'r byd yn ei hegwyddorion,—yn ei hysbryd,—ac yn ei harferion ydyw yr eglwys, y mae yn rhyfedd iawn na buasai hi wedi ei difodi oddiar wyneb y ddaear. Y mae pob peth y byd yn ei herbyn; ac nid ydyw y tywyllwch ddim yn fwy gwrthwyneb i'r goleuni nag ydyw pob peth yr eglwys i bob peth y byd. Y mae ei hegwyddorion hi yn condemnio ei egwyddorion ef. Nid rhyfedd fod y byd yn barod i ymddwyn tuag ati yn aml fel y Sodomiaid tuag at Lot:—"Efe a ddaeth i ymdaith yn unig, ac yn awr gan farnu y barna efe?" Dieithriaid a phererinion ydyw y bobl yma, medd y byd, ac a gânt hwy fy marnu i. Y mae parhad yr eglwys yn y byd, yn dra thebyg i barhad cenedl Israel ymysg cenhedloedd y ddaear: er pob gwrthwynebiad; y maent yn parhau hyd heddyw yn 'bobl sydd yn preswylio eu hunain, ac heb eu rhifo gyda'r cenhedloedd.' Y mae desgrifiad yr hen Jacob o Gad yn briodol i'w gymhwyso atynt o'u cychwyn cyntaf:—"Gad, llu a'i gorfydd; ac yntau a orfydd o'r diwedd." Felly y bu hi ymhob ymdrechfa gydâ hwynt. Felly y bydd gydâ Pharoah,—"llu a'i gorfydd," ond trwy law Moses, "yntau a orfydd o'r diwedd." Yn amser y Barnwyr a'r brenhinoedd, "llu a'i gorfydd" yn fynych, ond "yntau a orfydd o'r diwedd." Yn amser Nebuchodonosor ac Antiochus Epiphanes, "llu a'i gorfydd;" ond yn amser Cyrus a'r Maccabëaid, "yntau a orfydd o'r diwedd." Ac felly y maent yn awr er's dwy fil o flynyddoedd: y mae y "llu" wedi eu gorchfygu; ond fe gyflawnir diwedd yr adnod eto ar y genedl anffodus,—'hwythau a orfyddant o'r diwedd;'—"holl Israel a fydd cadwedig." Fel hyn yn gwbl y mae yr eglwys, "llu a'i gorfydd" ymhob gwlad, ac ymhob oes; ond hithau "a orfydd o'r diwedd." Hi a orfydd erledigaethau Rhufain baganaidd, a thwyll a hudoliaethau Rhufain babaidd. Os gorfyddir hi gan nos yr oesoedd tywyll, hithau a orfydd yn y Diwygiad Protestanaidd. Drachefn, os gorfuwyd hi gan gwsg trwy Loegr a Chymru yn

nechreu y ganrif ddiweddaf, hithau a orfu, wedi ei deffro gan Whitefield a Wesley, Harris a Rowlands: hithau "a orfydd o'r diwedd." Rhwymed Pharaoh hi â'r tasgau yn nghaethiwed y priddfeini—ceisied Balac Balaam i'w melldithio—rhwystred Sehon hi drwy ei wlad—bydded y Canaanëaid fel drain yn ei hystlys—cluded Salmaneser hi i gaethiwed—cadwed Nebuchodonosor hi am ddeng mlynedd a thriugain, â'i thelyn ynghrog ar helyg Euphrates—meddwed y Rhufeiniaid eu cleddyfau yn ei gwaed hi—taener hi fel esgyrn sychion tua phedwar gwynt y nefoedd,—eto, er yr oll i gyd, hi "a orfydd o'r diwedd;"—hi fyn 'breswylio ei hunan;'—ni rifir mo honi gyda'r cenhedloedd byth; ac ni ddigwydd anffawd Amalec iddi yn dragywydd, sef colli ei henw odditan y nefoedd.

Ond ar olwg arall, onid dirgelwch anamgyffredadwy i ni ydyw, paham na buasai hi wedi llwyddo mwy cyn hyn? Onid oes rhywbeth trymaidd yn y meddwl, fod yn agos i ddwy fil o flynyddoedd wedi myned heibio er pan ddarparwyd gwledd yr efengyl, a holl feibion Adda eto ymron yn myned ar eu cythlwng i'r byd arall. A barnu pethau wrth oleu ein canwyll fechan ein hun, buasem ni yn tybio y buasai y byd oll cyn hyn wedi dyfod i fynydd Sïon,—na buasai yr un o holl deuluoedd y ddaear heb esgyn i Jerusalem, "i gadw gŵyl y pebyll," "i addoli y Brenin, Arglwydd y lluoedd." Ond nid felly y mae hi: "y mae ffyrdd Sïon yn galaru;"—yn ofer i'n golwg ni y mae y wledd wedi ei pharotoi yn mynydd Duw; "yr holl bobloedd a rodiant bob un yn enw ei dduw ei hun;"—nid oes dim o'u chwarter wedi clywed fod ŷd yn yr Aipht; ac y mae miloedd o'r rhai sydd wedi clywed yn newynu, yn hytrach nag ymostwng i fyned at y Gwr sydd yn Llywydd ar yr ystordai.

Wel, ai yn ofer yr ä darpariaeth gras? A ddyrysir bwriadau y cyngor boreu? Ai yn ofer yr ä marwolaeth y groes? Ai yn ddifudd yr ä holl waith Ysbryd y gras? Nagê; fe ddeil yr eglwys ei ffordd nes llenwi y byd. Ni fu hi erioed ar goll: hi fu yn wàn, ond nid yn farw;—hi fu yn anhawdd ei gweled, ond yr oedd hi mewn bod y pryd hyny. Yn gyffelyb i afon yr Iorddonen: y mae hono mewn un man yn rhedeg dan y ddaear am filldiroedd, ond y mae hi ar ei thaith i'r môr y pryd hyny,

er ei bod hi o'r golwg. Y mae hi weithiau yn chwyddo mewn mawredd dros ei cheulanau; bryd arall mor fâs fel y gellir ei rhydio; ond myned y mae hi ymhob agwedd tua'r môr: felly yr eglwys: pa un bynag a fydd y ffrwd o'r golwg ai yn y golwg;—pa un bynag a fydd hi yn chwyddo dros ei cheulanau, ai ynte yn ddigon bâs i'w rhydio;—myned y mae hi. Nid aeth y cysgod erioed yn ol ddeg o raddau ar ddeial yr eglwys;—ymlaen at haner dydd y mae yn cyrchu: "ymddangos yn Sïon."

Bu y diluw amryw wythnosau cyn gorchuddio y mynyddoedd uchaf;—ymgryfhäodd y dyfroedd am ddeng niwrnod a deugain a chant, ac o'r diwedd gorchuddiwyd hen gopa uchel Himalaya; ac nid ei orchuddio yn brin, ond yr oedd pymtheg cufydd o ddwfr oddiarno. Fel hyn y mae yr eglwys: y mae ffynhonau y dyfnder wedi ymrwygo, a ffenestri y nefoedd wedi eu hagor, er's deunaw can' mlynedd; ond graddol iawn y mae y diluw yn ymgryfhau; ond byddwn ymarhöus nes y daw deng niwrnod a deugain a chant Duw i ben; ni bydd fawr o'r un mynydd yn y golwg erbyn hyny; 'bydd y ddaear wedi ei llenwi â gwybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y töa y dyfroedd y môr;'—"O nerth i nerth," nes ymddangos "gerbron Duw yn Sïon."

Y mae y byd yn gruddfan yn awr, gan ddisgwyl am ddiwrnod ei waredigaeth; ond ni wawria hwnw ddim nes y bydd yr eglwys wedi ei lenwi. Y mae y Ganges yn gruddfan, am fod cymaint o drueiniaid yn ceisio golchi eu beiau yn ei dyfroedd hi. Y mae ffyrdd Mecca yn galaru, am fod y myrddiynau sydd yn eu rhodio yn cael eu twyllo yn dragywydd. Y mae yr haul, y lleuad, a'r sêr, fel yn cael eu töi â chywilydd wrth weled cynifer o genhedloedd yn aberthu iddynt hwy. Ond ymae diwrnod y waredigaeth gerllaw: pan ddychwelir caethiwed yr eglwys, fe ddychwelir caethiwed y byd. Wedi i'r byd glywed am afon iachawdawriaeth, caiff yr hen Ganges rolio yn ei blaen heb ddim i'w lluddias. Wedi i dylwythau y ddaear ddysgu y ffordd i Sïon, caiff ffyrdd Mecca orphwys mewn tangnefedd. Perffeithiad yr eglwys fydd perffeithiad pob peth.

2. Y mae hyn yn wirionedd hefyd am y Cristion yn unigol. Fe ä yntau "o nerth i nerth," nes ymddangos yn Sïon. Cychwyn-

odd miloedd o'r Aipht na ddaethant byth i Ganaan. Bu farw Miriam ac Aaron yn nghanol yr Anialwch; a'r cyfan a gafodd Moses oedd gweled y wlad â'i lygaid. Ond nid oes yr un wedi cychwyn o'r Aipht ysbrydol na chyrhaedda fynydd Duw: "ymddengys pob un yn Sïon." Nid gwaeth, o ran sicrwydd cyraedd pen y daith, pa un ai anifeiliaid buain, ai cerbydau, ai elorau meirch, fydd yn cario. Y mae rhai yn myned adref fel ar anifeiliaid buain, yn ngwres eu cariad cyntaf; y mae eraill wedi myned yn fethedig, a'u hesgyrn wedi eu dryllio,—ar elorau y maent yn myned; ond y maent hwy mor sicr o gyraedd Sïon a'r rhai cyntaf:—" Ymddengys pob un."

Y mae hyn yn ddefnydd cysur nid bychan i'r Cristion. Yr oedd Paul yn nghanol yr ystorm yn Môr Adria yn dywedyd wrth ei gyd-deithwyr, "Byddwch gysurus: ni bydd colled am einioes yr un o honoch," oblegid "y mae *yn rhaid* i mi sefyll gerbron Cesar:" felly, blentyn Duw, os ymgryfha yr ystorm arnat tithau, nes y gorfyddir bwrw allan daclau y llong, bydd gysurus er hyny; ni bydd colled am dy einioes, oblegid y mae hen *raid* cyfamod dros i ti ymddangos "gerbron Duw yn Sïon."

Ac yn y fan hon, prin y gallwn ni wrthwynebu y demtasiwn sydd yn ymosod arnom i edrych ar y minteioedd wedi cyraedd Sïon, er ein bod yn achub eu blaen wrth wneuthur hyny;—edrych ar yr eglwys wedi dàl ei ffordd nes llenwi y byd, pryd y bydd hi mewn gwirionedd yn Eglwys Gatholig,—yn eglwys gyffredinol. Yn awr, y mae hi yn galw ei hun yn Eglwys Loegr, Eglwys Scotland, Eglwys Ffrainc; ond yn y dydd hwnw, adnabyddir hi wrth yr enw "Eglwys y Ddaear." Yr ydym wedi dywedyd eisoes, fod awyrgylch Canaan yn soniarus gan fawl y minteioedd yn cyrchu i Sïon. Yr oedd mynyddoedd Gilead yn adsain gan fawl, a dyffryn Saron yn llawn sain cân a moliant. Yr oedd adsain y dôn yn cael ei gario dros ddyfroedd glâs Mor Galilea,—yn treiglo i lawr gydâ'r Iorddonen hyd at fôr Sodom;—o Dan i Beerseba yr oedd adsain moliant yn amgylchu y wlad. Beth ydyw hyn ond cysgod gwanaidd o'r byd wedi i'r eglwys ei lenwi,—pan y bydd yr awyr wedi ei gwneuthur yn un delyn fawr, ar yr hon y bydd holl dylwythau y ddaear yn chwareu yr un dôn, sef, "Teilwng yw'r Oen." Pan y bydd

enw Crist yn cael ei adsain o'r Himalaya yn Asia, i'r Andes yn America; ac o'r Andes i fynydd Atlas yn Affrica; ac oddi yno drachefn i'r Alpau yn Ewrop;—"Yr anialwch a'r anghyfaneddle" yn llawenychu; bwystfil y maes, y dreigiau, a chywion yr estrys yn gogoneddu; am fod dyfroedd iachawdwriaeth wedi rhedeg i'w hanialwch hwy. Gwawrio wnelo yr hyfryd fore!

Y mae dau beth y dymunwn i chwi eu cofio mewn cysylltiad â'r testyn: 1. Yr ydym oll yn teithio naill ai i Sinai neu i Sïon,—i wynebu yr Arglwydd fel amddiffynydd ei ddeddf, neu fel Duw cymodlawn drwy waed y taenelliad. Cyfiawnder sydd yn trigo ar Sinai: yn Sïon y mae anedd trugaredd. "Yr enaid a becho fydd marw," medd Sinai; "pwy bynag a gredo fydd cadwedig," medd Sïon. Y mae tân Sinai yn llosgi y cwbl a ddaw i'w gymydogaeth: y mae gwlith Sïon yn ireiddio holl amgylchoedd mangre y fendith. At ba un yr ydym ni yn agosâu? Ai at Sinai yn Arabia, ynte at Sïon yn Jerusalem? Os at Sinai, byddi yn gaeth am dragywyddoldeb; ond os at Jerusalem, y mae hòno yn rhydd; felly y mae ei phlant hi hefyd. Neu i adael y gymhariaeth, yr ydym oll i ymddangos gerbron Duw; a gwae ni ei gyfarfod, ond yn ei Fab, yn Sïon.

2. Cofiwch hefyd mai yn finteioedd y maent yn myned i Sïon. Y mae ambell un yn meddwl ymddangos gerbron Duw, a chadw ymaith oddiwrth y fintai: myned wrthynt eu hunain i'r nefoedd. Ni ddywedwn fod y peth yn anmhosibl, ond y mae yn annhebyg iawn. Y mae dyffryn Baca yn ddigon anhawdd ei deithio i fintai, pa faint mwy i berson unigol? Os ydych am fyned i'r nefoedd, bydd mor naturiol i chwi ymuno âg un o'r minteioedd ag ydyw i'r dwfr redeg i'r môr. Y mae mintai fechan yn y lle yma yn myned tua Sïon;—dywedwch wrthynt, "Ninau a awn hefyd, canys clywsom fod Duw gydâ chwi." Pa sawl un sydd yn dyfod fel Hobab i ymyl y gwersyll bob Sabbath? Ac y mae rhyw Moses fel genau cyhoeddus y bobl yn eu cyfarch, gan ddywedyd, "Myned yr ydym i'r lle am yr hwn y dywedodd yr Arglwydd, Rhoddaf hwnw i chwi: tyred gydâ ni, a gwnawn ddaioni i ti; canys llefarodd yr Arglwydd ddaioni am Israel," Num. x. 29-32. Yr ydych chwithau, drwy eich ymddygiadau, yn ein hateb ni yn ngeiriau Hobab, bob Sabbath:—"Nid

âf ddim; ond i'm gwlad fy hun, ac at fy nghenedl fy hun, yr af." Ond er eich bod wedi ein gomedd lawer gwaith, ni a ddywedwn unwaith eto yn ngeiriau Moses:—"Na adewch ni, atolwg:" nid ydym am fwynhau y wlad ein hunain; bwriwch eich coelbren yn ein mysg: ac O! deuwch i Sïon.

"O ddinas distryw, brysiwch, ffowch,
Ar y gwastadedd nac ymdrowch;
I sanctaidd fynydd Sïon,
O ddynion, pa'm na ddowch?"

[Bore Iau, Medi 16, 1847.]

## PREGETH XIX.

### DIWEDD AMSER.

DATGUDDIAD X. 6.—"Ac a dyngodd i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yr hwn a greodd y nef a'r pethau sydd ynddi, a'r ddaear a'r pethau sydd ynddi, a'r môr a'r pethau sydd ynddo, na byddai amser mwyach."

YMAE y testyn yn un o ymadroddion rhyfeddaf llyfr sydd yn cael ei hynodi ymysg llyfrau y Bibl gan ddieithrwch y desgrifiadau a'r golygfeydd a geir ynddo. Y mae holl gynwys y llyfr yn rhyfedd, yn fwy felly na'r un o lyfrau yr Hen Destament; nid yn benaf am fod ynddo lawer o ddatguddiedigaethau newyddion. Yr oedd y rhan fwyaf o bethau y llyfr hwn wedi eu hawgrymu yn ysgrifeniadau rhai o brophwydi yr Hen Destament; ond yma y mae y gair—yr awgrym—yn cael ei baentio yn olygfa fywiog o flaen y llygad. Nid canfod y diben wedi ei gyraedd yn unig, —fe geir hyny yn mhrophwydi yr Hen Destament,—ond gweled hefyd yr holl symudiad (*process*) trwy ba un y dygwyd y peth o amgylch,—cael edrych ar holl olwynion y peirianwaith dwyfol yn gwneuthur, bob un o honynt, ei gorchwyl penodol, yn gystal ag ar y gwaith gorphenedig.

Paham y defnyddiwyd dull darluniadol, ac eto tywyll a dieithr, i osod allan y pethau hyn, o dan oruchwyliaeth sydd yn hynod am ei symledd a'i heglurder? Y mae y dull yn ymddangos yn anghydweddol â natur yr oruchwyliaeth. Yr oedd desgrifiadau bywiog Ezeciel, a darluniadau dieithr Daniel, yn cydweddu â'r oruchwyliaeth y perthynent iddi. Goruchwyliaeth ddarluniadol, yn gwisgo ei gwirioneddau mewn pethau gweledig i daraw y synhwyrau ydoedd; ond am hon ysbrydol ydyw,

ac y mae hyd yn nod y corff sydd yn perthyn i'w phethau yn gyfryw y gellir ei alw, o'i gymharu âg eiddo yr Hen Destament, "yn gorff ysbrydol." Ac eto y mae llyfr y Datguddiad yn cynwys mwy o'r darluniadau a'r desgrifiadau sydd i daraw y synhwyrau nag a geir hyd yn nod yn Ezeciel a Daniel. Gall mai un rheswm am hyn ydyw fod iaith a dullwedd y llyfr yn adlewyrchiad o ddelw ysbryd yr ysgrifenydd pan yn derbyn y weledigaeth. Fe ddywedir ei fod "yn yr ysbryd" ar y pryd, hyny yw, mewn ystad o deimladau uchel *(ecstasy)* o dan ddylanwad Ysbryd Duw. Yr oedd yr holl brophwydi, pan yn derbyn eu cenadwri, i raddau mwy neu lai, yn yr un ystad. Fe ddywed Ezeciel fod 'yr ysbryd wedi ei gyfodi a'i gymeryd ymaith,......a bod llaw yr Arglwydd yn gref arno.' (Ezec, iii. 14.) Bu Paul i raddau mor bell yn yr un ystad, fel nad allai draethu y pethau a welodd ac a glywodd. (2 Cor. xii. 4.) Yr oedd bod yn yr ystad hon yn angenrheidiol tuag at eu cymhwyso i dderbyn y gweledigaethau; ac yr oedd yr iaith a'r ffugyrau a ddefnyddid i osod allan yr hyn oedd wedi cael ei ddatguddio yn ddieithr a thywyll, yn gyffelyb i'r hwn oedd yn llefaru â thafodau, y sonia Paul am dano: yr oedd hwnw, yn yr ysbryd, yn llefaru dirgeledigaethau; ond yr oedd yn rhaid wrth gyfieithydd cyn y gallai eraill fod yn well erddynt..

Yr oedd y llyfr hwn wedi ei fwriadu i fod o wasanaeth i'r eglwys ar y pryd. Amser, fel y mae yn hysbys, o erledigaeth dost oedd yr amser hwnw: ond yn y gweledigaethau hyn, dangosid i'r eglwys ddinystr llwyr ei holl elynion hi. A phe buasai hyny yn cael ei ddywedyd mewn iaith syml a diaddurn gallasai y gelynion hyn gael y llyfr, ac i hyny fod yn achlysur i arwain yr eglwys i brofedigaeth; ond yr oedd iaith ffugyrol a barddonol y prophwyd yn gwneuthur y llyfr yn seliedig i'r gelynion, pe cawsent afael ynddo; ond i'r eglwys, oedd i raddau yn deall ystyr y ffugyrau hyn, gweinyddai y llyfr gysur cryf. Mewn amser rhyfel, defnyddir arwyddion, anadnabyddus i neb ond sydd yn y dirgelwch, i anfon cenadwri oddiwrth y llywodraeth at swyddogion y fyddin; fel, pe digwyddai i'r genad fydd yn cario y llythyr syrthio i ddwylaw y gelynion, y byddo y llythyr iddynt hwy yn seliedig, er y buasai yn llawn ystyr i'r cad-lywydd; felly yr oedd y mater yn bod am lyfr y Datgudd-

iad; yr oedd yn cynwys dyfnion bethau Duw, mewn iaith anadnabyddus i'r gelynion, ond nid yn gwbl felly i'r eglwys.

Y mae gweledigaethau penod y testyn wedi eu bwriadu i gysuro yr eglwys, ond arwydd-luniau diystyr fuasent i'w gelynion hi. Nid fy mwriad wrth ddarllen y testyn oedd ceisio esbonio y weledigaeth, ond yn hytrach ei ddefnyddio i ddibenion ymarferol, a hyny yn yr ystyr sydd ar wyneb y testyn, sef fel yn cyfeirio at derfyn amser.

Myn rhai esbonwyr mai yr ystyr ydyw fod yr angel yn tyngu fod terfyn i gyfnod penodol wedi dyfod, a bod cyfeiriad llythyrenol y weledigaeth at ddinystr Jerusalem a'r deml, ac felly yr eglwys Iuddewig, yr hon oedd yn un o elynion yr eglwys Gristionogol. Yr oedd y cyfnod yna oedd yn terfynu i gael ei ddilyn gan lwyddiant mawr ar yr eglwys. Yna darlunir ymdrechfa fawr yr eglwys â gallu y byd hwn, a gynrychiolid ar y pryd gan Rufain. Yma hefyd y mae hi yn cyraedd concwest, nes y mae yr angel yn cael cyhoeddi, "Darfu." Dilynir hyn hefyd gan lwyddiant mawr, ond y mae y gelynion yn ymarfogi unwaith eto i'r ymdrechfa olaf: Gog a Magog yn ymosod arni yma hefyd. Y mae hi eto yn gorchfygu, ac y mae yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc drachefn yn dywedyd, "Darfu." Ac fe ddilynir y goncwest yna gan y sefyllfa dragywyddol. Y mae tebygolrwydd yn niwedd pob un o'r cyfnodau yna, ac yn yr hyn sydd yn eu dilyn. 'Ni bydd amser mwyach,' meddai yr angel ar ddiwedd y cyntaf. "Darfu," meddai yr angel ar ddiwedd yr ail; a "Darfu," meddai Angel y Cyfamod ei hun ar ddiwedd y trydydd. Yr oedd y pethau hyn yn gysgodau o'u gilydd: y goncwest gyntaf, a'r hyn a'i dilynodd hi, yn gysgod ac yn rhag-ddarluniad o'r ail, ac o'r hyn a ddilynodd hono: y gyntaf a'r ail drachefn yn gysgod ac yn rhag-ddarluniad o'r olaf. Felly, os at gwymp Jerusalem a'r eglwys Iuddewig yr oedd cyfeiriad cyntaf y testyn, gellir, heb wneyd un cam âg ef, ei gymhwyso at ddiwedd y byd. "Ni bydd amser mwyach."

I. Y peth cyntaf sydd yn ymgynyg i'n sylw ydyw pwysigrwydd y cyhoeddiad.

1. Y mae y mawredd sydd o amgylch yr holl olygfa yn dangos hyn yn arbenig: "Angel cryf yn disgyn o'r nef, wedi ei wisgo â chwmwl: ac enfys oedd ar ei ben, a'i wyneb

ydoedd fel yr haul, a'i draed fel colofn o dân." Dyma y neb oedd yn cyhoeddi, a diau ydyw nad ydoedd yn neb llai nag "Angel y Cyfamod," yn sefyll ar y môr a'r tir, gan godi ei law i'r nef, "ac yn llefain â llef uchel fel y rhua llew: ac wedi iddo lefain, y saith daran a lefarasant eu llefau hwythau;" ac yna y llw yn cael ei dyngu "i'r Hwn sydd yn byw yn oes oesoedd." Y mae yn gyffredin fawredd gweledig yn dyfod i'r golwg mewn cysylltiad â holl bethau mawrion llywodraeth Duw, i roddi argraff o'u mawredd hwynt ar y meddwl. Yr oedd y taranau, y tywyllwch, y tân, a'r ddaeargryn, ar Sinai, megis mynegbyst yn cyfeirio at bwysigrwydd y ddeddf oedd yn cael ei chyhoeddi ar y pryd. Y mae y gweledig yn cydymdeimlo â'r ysbrydol, fel nad all lai na dangos hyny pan y mae peth mawr yn cymeryd lle. Pan y bydd Ceidwad dyn yn cael ei eni, bydd sêr y ffurfafen, fel angylion y nef, yn dangos hyny. Pan y bydd farw yn aberth dros bechodau y byd, a phan gyfyd oddiwrth y meirw, bydd y nefoedd uchod, a'r ddaear isod, trwy arwyddion a rhyfeddodau, yn dwyn tystiolaeth i fawredd yr amgylchiad. A pha bryd bynag y bydd rhagluniaeth Duw yn rhoddi mawredd gweledig o gwmpas unrhyw beth, y mae yn sicr fod pwysigrwydd yn y peth hwnw. Y mae pethau dieithr ac ofnadwy y weledigaeth, fel â bys Duw, yn cyfeirio at gynwys y testyn megis peth pwysig;—'Ni bydd amser mwyach.' Ni lefarwyd ond un gair o gymaint pwys a hwn, sef "Bydded," dechreu amser. Fe ymagorodd y gair hwnw yn fyd ar ol byd: fe frithwyd y ffurfafen â heuliau, ac â bydoedd, wrth iddo arllwys ei gynwys allan; ac yn eu plith, fe ddywedodd y ddaear fach, "Wele finau, a'm holl gyfoeth o brydferthwch a daioni, yn un o gynyrchion y gair 'Bydded.'" Yr oedd "Bydded" yn air mawr: ymadrodd gwrthgyferbyniol i hwnyna ydyw, 'ni bydd amser mwyach;'—"Bydded" yn cael ei alw yn ol. Gall fod rhywun yn barod i ofyn, A fydd holl fydoedd y ffurfafen yn cael eu difodi? Nid oes a fynom ni ddim â chwestiwn o'r fath yna yn yr *abstract*, am nad ydyw y Bibl yn llefaru am danynt ond yn eu perthynas â ni. Yn y berthynas hono fe ddywedir fod goleuadau y ffurfafen yn arwyddion, yn dymhorau, yn ddyddiau, yn flynyddoedd, i ni. Awrlais amser ydynt, i ni wybod pa faint ar gloch ydyw hi;

ond gan fod amser i ddarfod, ni fydd arnom ni ddim eisiau yr awrlais wedi hyny.

I ni y mae 'Ni bydd amser mwyach' yn ddifodiad ar bob peth, oblegid y mae sail pob peth yn cael ei chymeryd i ffordd; ac os cymerir y sylfaen, y mae y pethau eu hunain yn rhwym o ddilyn. Y mae y dinystr yn llwyr. Peth arswydus yw ystorm o gorwynt a fydd yn diwreiddio coedwigoedd, yn dymchwelyd adeiladau cryfion; ond y mae noddfa rhag honyna: pe gellid ymguddio yn holltau y clogwyni, y mae cestyll y creigiau yn ddiogelwch rhagddi. Mwy arswydus na honyna ydyw ystorm ar y môr. Yno y mae y nefoedd a'r ddaear yn cyduno i ddwyn o amgylch y dinystr; eto fe deimlir yn y fwyaf enbyd, pe gellid ond cael y làn y cyrhaeddid diogelwch. Ond mwy ofnadwy na'r ddwy ydyw y ddaeargryn: rhag hono nid oes noddfa, oblegid y mae hi yn cymeryd ymaith sylfaeni pob noddfa. "Ni bydd amser mwyach!"—dyna ddaeargryn,—dyna sail pob peth yn cael ei chymeryd ymaith. Fe ddinystriwyd Jerusalem a'r deml, ond yr oedd eu lle hwynt yn aros,—eu sylfeini hwynt yno wed'yn. Gallesid eu hail-godi hwy; ond fe ddinystriwyd lle Sodom: am hyny yr oedd yn anmhosibl ei chodi hi eilwaith. 'Ni bydd amser mwyach,'—dyna ddinystrio lle pob peth,—difodi yr awyrgylch, heb ba un nid allant fodoli. Yr oedd cenadwri rhai o'r prophwydi yn dra difrifol, megis, "Baich Ninifeh,"—"Baich Babilon," "Baich Dumah,"—"Baich Tyrus," &c. Dinystr a difodiad y lleoedd yna oedd cynwys y "baich." Ond y mae difrifwch a phwysigrwydd cenadwri pob prophwyd yn myned i'r cysgod yn ymyl "baich" y testyn,—"Ni bydd amser mwyach." Y mae y "baich" hwn yn cynwys dinystr creadigaeth gyfan, fel na bydd cymaint ag ewin wedi ei adael. Fe ddinystriodd y diluw yn dra llwyr;—fe ysgubodd ymaith y ddinas Enoch a adeiladasid gan Cain, a holl bebyll Jabal, a chywreinwaith Jubal a Tubal-Cain; ond yr oedd traddodiad fod colofn Seth, fel y gelwid hi, wedi goroesi y dinystr. Yr oedd dinystr dinasoedd y gwastadedd yn llwyr iawn; ond yr oedd un Soar yn sefyll ar ol hwnw: ond y mae y testyn yn cyfeirio at adeg pan y bydd y dinystr yn gyflawn, gan fod amser i gael ei ddifodi;—dyna y llong ei hun, yn yr hon y mae y cwbl, yn cael ei llyncu

gan y dyfnder. Fe lyncodd y dyfnder lawer llwyth iddi, ond yr oedd y llong ei hun yn dianc, ac yn cael llwyth newydd. Yn wahanol fel y bu hi gyda Paul ar Fôr Adria,—y llong aeth yn golled yno,—fe achubwyd y llwyth: ond llwyth llong amser hyd yma sydd yn myned yn golled; y mae y llong ei hun yn parhau i nofio. Ond y mae y testyn yn cyfeirio at adeg y bydd y llong ei hun yn myned i lawr; "Ni bydd amser mwyach." Y mae yn anhawdd i'r meddwl gynwys y syniad am olygfa fwy ofnadwy o fawreddog a phwysig.

2. Y mae yr angel yn cymeryd ei lw yn y modd mwyaf difrifol ar y mater. Y mae hyny yn dangos fod annhebygolrwydd y cymerai y peth le, a'r annhebygolrwydd yn creu amheuaeth. Ond i roddi perffaith sicrwydd, ac i symnd ymaith bob rhith o amheuaeth, dyma lw yn cael ei gymeryd. Ac oni ellir gofyn, Beth sydd mor annhebyg ag i amser gael ei ddifodi? Y mae yn anhawdd i'r meddwl dynol gredu mewn cyfnewidiadau mawrion: "bydd yfory megis heddyw" ydyw ei gred ef. Os oedd mawredd a llwyddiant ar unrhyw beth heddyw, gwaith anhawdd ydyw cael gan ddyn gredu y bydd hi byth yn amgen i hyny. Yr oedd dawon Lot yn credu mai cellwair yr oedd efe pan yn sôn am ddinystrio Sodom. Neu, os bydd unrhyw le yn anrheithiedig, gwaith anhawdd ydyw argyhoeddi y meddwl nad felly y pery. Yr oedd y bobl yn methu credu y prophwyd yr adferid Jerusalem o'i dinystr. Os ydyw y meddwl yn teimlo anhawsder credu mewn cyfnewidiadau bychain, nid rhyfedd ydyw ei fod fel yn gwrthod credu y gall peth mor fawr a'r hyn y sonia y testyn gymeryd lle. Gall ameu parhad llawer peth arall, oblegid fe wêl eu bod yn adfeilio—yn darfod; ac onid amser sydd yn eu treulio? "Hwy a ddarfyddant," ond y mae efe yn parhau yr un—yr anghyfnewidiol, yr annhreuliadwy. Y mae dyn yn gweithredu ar y gred hon gyda phob peth, sef fod amser i barhau, beth bynag a dderfydd. Pan yn adeiladu tŷ, nid ydyw yn foddlawn, os gall hebgor hyny, ar adeiladu ar brydles, beth bynag fyddo ei hyd hi, am fod terfyn iddi. Y mae am gael lle yn bryniant, i'r meddiant barhau byth: ond ar ol y drafferth, prydles a fydd hi eto, medd y testyn, ond bod ychwaneg o flynyddoedd ynddi, oblegid y mae amser ei hun i ddarfod. Er mai annhebyg ydyw y peth, y mae y llw er sicrwydd yn cadarnhau ei wirionedd.

II. Gadewch i ni edrych ar yr hyn sydd yn gynwysedig yn yr ymadrodd, 'Ni bydd amser mwyach.'

1. Y mae yn cynwys fod yr adeg i gario allan amcanion ac i gyraedd dibenion penodol i derfynu. Un gwahaniaeth mawr rhwng amser a thragywyddoldeb ydyw, fod amser yn ysbaid i wneyd peth ynddo ar gyfer rhyw ddyfodol; ond tragywyddoldeb yn sefyllfa y bydd pob amcan wedi ei gyraedd, neu o'r hyn lleiaf, ni fydd a fyno y presenol ddim â dyfodol;—ni bydd heddyw yn dylanwadu ar un yfory. Yn yr ystyr hwn, y mae amser yn myned, tragywyddoldeb yn sefyll;—amser fel yr afon yn llifo ymlaen, tragywyddoldeb fel y môr yn aros yn ei unman;—amser yn lle i weithio, a thragywyddoldeb yn lle i orphwys neu i ddioddef. Yn yr ystyr hwn, dydd ydyw amser, sef adeg gwaith; nos ydyw tragywyddoldeb pryd nas dichon neb weithio.

Y mae Duw yn brysur yn cyflawni ei fwriadau, ac yn cyraedd ei amcanion, oblegid adeg derfynol sydd i wneyd hyny. Fe weithiodd am chwe' diwrnod yn y greadigaeth, ac erbyn cyflawni yr wythnos, fe orphenodd y cynllun. Y mae yn gweithio ar raddfa fwy yn awr: wythnos lawn o waith ydyw amser. Y mae hon i derfynu; ond fe fydd y Gweithiwr mawr wedi cyflawni pob amcan erbyn diwedd yr wythnos. Gwneyd lle i weithio a wnaeth yn wythnos y greadigaeth; ond gwneyd gwaith a fydd nid yn unig yn rheswm paham y gwnaed y lle, ond a fydd i'w arddangos yn nhragywyddoldeb, a wna Efe yn wythnos amser. Rhyw ystof ydyw amser y mae yr Anfeidrol yn gwau ei fwriadau arno. Y mae yma gywreinwaith yn cael ei wneyd, mwy nag a wnaeth Bezaleel ar wahanlen y cysegr gynt. Yr oedd y cerubiaid a'r gwahanol bethau oedd wedi eu gwau yn hono, yn ei gwneyd yn ddernyn o gywreinwaith teilwng o'r cysegr; felly pan orphenir y wê hon y dywedir, "Beth a wnaeth Duw!" am y bydd y llen yn ogoniant i'r cysegr fry am dragywyddoldeb. Yn yr adnod ar ol y testyn y mae Ioan yn galw yr adeg y sonia am dani, yn adeg y "gorphenir dirgelwch Duw," sef y bwriadau dwyfol, y rhai oeddent yn ddirgelwch hyd nes yr amlygwyd hwynt, ac a fyddant felly hyd nes y daw yr oll o honynt i'r golwg. Yna yn lle bod yn ddirgeledigaethau Duw, byddant yn rhyfeddodau Duw wed'yn.

Yr un peth ydyw amser i ninau hefyd,—adeg i gario allan

amcanion,—adeg gwaith. Y mae hi felly yn derfynol. Bydd Duw wedi gorphen ei waith cyn i'r amser ddarfod; a fyddwn ni felly? Y mae yn ddiau y gadâwn ni lawer peth ar ei ganol ag yr oeddem ni yn tybio oedd yn waith i ni; ond nid oes perthynas rhyngom ni a'r cyfryw ond perthynas gweithwyr wrth y dydd, o dan y Meistr mawr. Gydag i ni gilio, bydd rhywun arall yn cymeryd ein lle ni, i gario y gwaith hwnw ymlaen. Ond y mae gwaith priodol i ni ein hunain a fydd heb ei gyflawni byth, os na wnawn ni ef, a'i wneyd hefyd cyn i'r angel gymeryd ei lw "na bydd amser mwyach." Un o orchwylion amser ydyw edifarhau am bechod;—un o bethau amser ydyw credu yn Mab Duw;—mewn amser y mae yn rhaid rhedeg yr yrfa;—mewn amser y mae yn rhaid enill y gamp. Gellir dywedyd am y byd arall fel am y bedd, 'nad oes na gwaith na dychymyg yno.' Nid oes yno ddim lle i edifeirwch,—nid oes mo'i ddefnyddiau yno. Nid oes yno yr un ceidwad i gredu ynddo;—nid oes yno yr un ffynon wedi ei hagor i bechod ac aflendid;—nid oes dim o ddefnydd y "gwaith edeu a nodwydd" yno.

Nis gellir dywedyd wrth yr Anfeidrol ei fod yn ŵr caled wrth gyfyngu y gwaith i amser penodol, oblegid y mae wedi rhoddi ei Hun o dan yr un ddeddf a ni: y mae wedi penderfynu y 'gorphenir dirgelwch Duw' erbyn i'r Angel gymeryd ei lw 'na bydd amser mwyach.' Ac y mae y darluniadau rhyfedd sydd yn y llyfr hwn yn dangos fod y gwaith yn fawr; ond bydd wedi ei orphen erbyn yr adeg. Y mae y gwaith, a'r amser i'w wneyd, wedi eu mesur, fel y mae y naill yn ateb yn berffaith i'r llall; ac fe fydd y ddau yn cyd-derfynu gyda Duw. Pan yn amser y seithfed angel y daw llef uchel o'r deml sydd yn y nef oddiwrth yr orseddfainc yn dywedyd, 'Darfu,' am y gwaith, yn yr un amser, sef amser y seithfed angel, y mae Angel y Cyfamod yn codi ei law i'r nef i dyngu 'na bydd amser mwyach.' Y maent wedi eu mesur i ninau hefyd; ond mae arnaf ofn rhag na bydd y ddau yn cyd-derfynu i ni,—nad ellir dim dywedyd, "Darfu" am y gwaith, pan y bydd yr angel yn tyngu 'na bydd amser mwyach.'

Ond pa un bynag a wnawn ni y gwaith y rhoddwyd amser i ni ar ei gyfer ai peidio, yr ydym yn gwneyd rhyw waith. Ni

bydd ar Dduw ddim cywilydd o waith amser,—y wê y buom ni yn sôn am dani,—bydd y patrymau wedi eu cywreinio i mewn iddi gan ddoethineb ddwyfol, a'r cyfoeth o ras fydd yn cael ei ddatguddio yn ei defnydd hi, er mawl i'r Gweithiwr byth. Ond pa wedd fydd ar dy waith di, fy nghyfaill?—a ddeil dy wê di i'w dangos yn nhragywyddoldeb, heb i'r gweithiwr gael ei orchuddio gan gywilydd? O, beth ydyw bod yn ddyn! Mi fyddaf yn teimlo na charaswn i ddim bod yn un o'r teulu brenhinol, am fod y fath gyhoeddusrwydd yn cael ei roddi i bob symudiad o'u heiddo,—cyhoeddi hanes eu mynediad allan, a'u dyfodiad i mewn, yn holl newyddiaduron y deyrnas, ac oddiyno yn cael ei ledaenu trwy y byd adnabyddus. Ond beth ydyw hynyna wrth fod yn ddyn?—pob ysgogiad o fy eiddo yn gwneyd rhan o'r wê,—pob gair a ddaw dros fy ngwefusau yn edafedd yn y wê,—pob meddwl yn fy mynwes yn rhoddi ei liw ar y wê,—pob gweithred o fy eiddo yn cael ei chywreinio i mewn i'r wê. O! beth ydyw bod yn ddyn? Y mae y pethau hyn yn fy ngwneyd yn ddychryn i mi fy hun. Yr ydym yn gwneyd gwaith; ond ai y gwaith a roddwyd i ni i'w wneuthur ydyw hwnw?

2. Y mae hyn yn cynwys fod y 'stad sydd i ddilyn hon yn sefydlog. I amser yn unig y mae cyfnewidiadau yn perthyn. Tra y mae yr adeilad yn cael ei wneyd, y mae llawer gwedd arno; ond nid oes newid ar ol iddo gael ei orphen. Yr ydys wedi cyraedd perffeithrwydd, sef y nôd y cyrchid ato. Y mae pob peth yn aros—yn parhau—yr un fath wed'yn. Y mae yn rhy anhawdd i ni yn awr ffurfio syniad am sefyllfa felly, am na welsom ni ddim arosol erioed. Ac yn wir, un o ragoriaethau y byd hwn yw, nad ydyw yn arosol yn ei wahanol ystadau;—fod nos yn dilyn y dydd, a gauaf yn canlyn haf. I ni y mae rhyw beth tra difrifol yn y meddwl o gael ein hunain mewn ystad na bydd dim cyfnewidiadau yn perthyn iddi. Pwy na arswydai wrth gael ei hun mewn sefyllfa, ac ymwybyddiaeth yn ei feddwl mai yn hono y byddai byth? Ond unwaith y derfydd amser, dyna gyfnewidiadau yn darfod gydag ef, a phob peth yn *sefyll* am byth." "Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn eto; a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt eto; a'r hwn sydd gyfiawn, bydded gyfiawn eto; a'r hwn sydd

sanctaidd, bydded sanctaidd eto." Yn y gair bychan *eto*, y mae gwahaniaeth mawr yn dod i'r golwg: "eto" yn cael ei adsain gan filiynau o oesau ymlaen;—y dyfodol o bob pellder yn adsain y presenol. "Brwnt" ydyw yn y fan hon, medd y presenol; "brwnt" ydyw "eto," medd pob dyfodol: "cyfiawn" yn awr, "cyfiawn eto;"—"sanctaidd" yn awr, "sanctaidd eto," —"eto," byth! Y mae hinsawdd rhai gwledydd ar y ddaear yn well am gadw pethau yr un fath nag eraill o lawer. Y mae yr Aipht yn neillduol felly. Dyna yr achos fod ei hen adeiladau hi heb heneiddio. *Climate* y byd a ddaw a geidw bob peth yr un fath am byth.

Os yw amser i ddarfod—

1. Gwelwch dlodi dynion y byd. Pethau amser ydyw eu pob peth hwynt; am hyny y mae pob peth a feddant i ddarfod: Cyfoeth, anrhydedd, cyfeillion, &c., oll i ddarfod. Yr oedd Lot yn ymddangos yn ŵr mawr, ond yn Sodom yr oedd ei holl gyfoeth, mewn lle yr oedd dedfryd dinystr wedi ei chyhoeddi uwch ei ben; ac fe ddinystriwyd pob peth a feddai.

2. Gan fod amser yn y cyfanswm i ddarfod, y mae terfyniad pob rhan o hono yn bwysig. Yr ydym yn ymddwyn fel pe byddai y cyfanswm yn werthfawr, a'r rhanau yn ddibwys. Triugain mlynedd yn bwysig, ond un yn ddibwys iawn. Yn hytrach y mae pwysigrwydd amser yn y cyfanswm yn perthyn i bob rhan o hono:—terfyniad blwyddyn yn beth difrifol. Yr unig wahaniaeth rhwng terfyn y rhan a therfyn y cyfanswm ydyw, yn nherfyn yr olaf gellir defnyddio iaith Pilat, "yr hyn a ysgrifenwyd a ysgrifenwyd;" ond yn nherfyn y cyntaf, er bod ysgrifen wedi ei hysgrifenu, eto y mae modd ei dilëu hi. Y mae yma waed a *flotia* feiau; a phwy sydd yma nad rhaid iddo wrtho ar ddiwedd blwyddyn?

3. Y mae dau ddosbarth yn bod y mae y testyn o ystyr tra gwahanol i'r naill rhagor i'r llall. I'r naill y mae 'ni bydd amser mwyach' yn cynwys na bydd profedigaethau,—ni bydd gofid, dagrau, pechod, angau, &c., mwyach. I'r llall, y mae yn cynwys ni bydd mwynhad, gorphwysdra, trugaredd, bywyd, mwyach. I ba un o'r ddau ddosbarth yr ydych chwi yn perthyn? Os i'r olaf, nac oedwch i newid y dosbarth.

[Rhagfyr 2Cain, 1868.]

## PREGETH XX.

### GOGONIANT DUW YN CAEL EI WELED YN SION.

SALM cii. 16.—"Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant."

"YR Arglwydd," medd y Bibl, a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun, nid er mwyn ei ddedwyddwch, oblegid y mae Efe goruwch pob bendith a moliant, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd; ond fe wnaeth bob peth er mwyn ei ogoniant ei Hun. Wrth ogoniant Duw, yn y Bibl, yr ydym i ddeall, yn gyffredin, rhagoriaethau y Natur Ddwyfol ynddynt eu hunain, neu y rhagoriaethau hyny yn cael eu hamlygu yn ngweithredoedd y Natur hono. Yr oedd gogoniant yn Nuw erioed, ond y gweithredoedd a'i datguddiodd; a diben eithaf cyflawniad y rhai hyn, oedd amlygu gogoniant Duw. Y mae gwneyd ei hun yn ddiben i'w weithredoedd yn ddarostyngiad i greadur, ac yn bechod ynddo. Ond y mae hyny yn deilwng o Dduw, ac yn ogoniant iddo. Ac y mae bod holl rai rhagorol y ddaear ymhob oes yn amcanu at hyn fel eu diben penaf, ac yn arddangos mai teimlad dyfnaf eu calon ydyw, "O Dad, gogonedda dy enw," yn ddigon i brofi teilyngdod y diben yma. Os ydyw creadur yn teimlo fod unrhyw ddiben îs na hwn yn annheilwng o hono Ef, nis gall y Creawdwr anfeidrol berffaith gyrchu at ddim ond ei ogoniant ei Hun. Ac y mae pob diben arall, gwerthfawr i'r creadur, y diben yma, hyny yw, yn ngogoniant Duw y mae dedwyddwch eithaf ei greadur. Y mae gogoniant Duw yn dal yr un berthynas â dedwyddwch y greadigaeth ysbrydol ag y mae yr haul yn ei ddal â threfn, ac â phrydferthwch y naturiol. Pe rhoddid rhywbeth arall yn lle yr haul,

nid yn unig fe gollid trefn o'r greadigaeth, ond fe gollid prydferthwch a dedwyddwch o honi hefyd. A pha beth bynag ydyw gwerth trefn a phrydferthwch i'r bydoedd, y mae cadw yr haul yn ganolbwynt yr un mor werthfawr a hyny: felly pa faint bynag ydyw gwerth dedwyddwch y greadigaeth resymol, y mae cymaint a hyny o werth mewn cadw gogoniant Duw yn ganolbwynt. "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun." At ogoniant Duw, fel y mae yn cael ei amlygu yn Sïon, y mae y testyn yn galw ein sylw; neu at y berthynas sydd rhwng Sïon a'i ogoniant. "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon," hyny yw, pan berffeithir iachawdwriaeth yr eglwys, "y gwelir ef yn ei ogoniant."

Wedi i dabernacl Moses a theml Solomon gael eu gorphen, llanwyd y ddau â gogoniant yr Arglwydd. Yr oedd y ddau le hyny yn gysgod o'r eglwys; a'r hyn a gymerodd le yn weledig y pryd hyny, yn gysgod o beth ysbrydol a gymer le pan fydd yr eglwys wedi ei pherffeithio. O dan yr Hen Destament yr oedd ystâd allanol gwasanaeth yr Arglwydd yn arddangosiad o ystâd ysbrydol yr eglwys, ac hefyd o ystâd allanol y genedl, yr hon oedd oll yn eglwys mewn enw. Yr oedd ystâd y genedl drachefn yn effeithio ar gymeriad ei Duw hi ymysg y cenhedloedd o amgylch: os byddai ei sefyllfa hi yn isel, byddai hyny yn gwmwl ar yr enw mawr. A mynych y byddai hyn yn ddadl gan dduwiolion yr Hen Destament dros i'r Arglwydd beidio eu dinystrio fel cenedl yn ol eu haeddiant,—"rhag i'r gelyn gablu." A phan y byddai Sïon yn llwyddianus,—yn cael ei hadeiladu,—byddai y cenhedloedd yn ofni ei enw: "Felly y cenhedloedd a ofnant enw yr Arglwydd, a holl frenhinoedd y ddaear dy ogoniant;" adn. 15. Yr oedd gogoniant Duw yn gysylltiedig â llwyddiant Sïon: "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir Ef yn ei ogoniant."

Yn awr, ni a enwn rai pethau i ddangos mai pan adeiledir Sïon y gwelir gogoniant Duw:—

I. Am fod gogoniant yr Arglwydd yn Sïon yr amlygiad uchaf o'i ogoniant. "*Ei ogoniant*,"—yr hyn sydd yn wir deilwng o'r enw.

Y mae holl weithredoedd yr Arglwydd yn ogoneddus. Y mae gweithio, ac amlygu gogoniant yn eiriau cyfystyr yn eu perthynas â Duw. Nis gall yr haul ddangos ei hun heb ddangos gogoniant; felly, lle bynag y daw Duw i'r golwg, fe

ddaw gogoniant i'r golwg: os yn y nefoedd, bydd hono yn datgan ei ogoniant; os ar y ddaear, bydd ei enw yn ardderchog ar yr holl ddaear hefyd. Ond er bod pob amlygiad o Dduw yn ogoneddus, 'y mae rhagor,' medd yr apostol, 'rhwng seren a seren mewn gogoniant;' felly y mae rhagor rhwng gwahanol amlygiadau o ogoniant Duw. Y diweddaf y mae yn ei roddi ydyw y rhagoraf bob amser. Felly y bu hi yn chwe' diwrnod rhyfedd y greadigaeth, pa un bynag ai cyfnodau meithion oedd y rhai hyny, fel y tybia rhai, ai ynte dyddiau fel yr eiddom ni. Yr oedd hyn yn wirionedd am danynt, fod yr ail dydd yn rhagori mewn gogoniant ar y cyntaf; y trydydd ar yr ail, y pedwerydd ar y trydydd, y pumed ar y pedwerydd, a'r chweched arnynt oll. Gallu a ddaeth i'r golwg gyntaf. Yr oedd hwnw yn allu gogoneddus. Doethineb a ddaeth i'r golwg wedi hyny; ac yr oedd hwnw yn ddoethineb gogoneddus. Yna daeth cyfoeth o ddaioni i'r golwg; ac yr oedd hwnw yn ddaioni gogoneddus. A phrydnawn y chweched dydd, pan orphwysodd y Gweithiwr dwyfol, yr oedd wedi cyraedd yr *ideal* oedd yn ei feddwl; ac yr oedd y weithred olaf a wnaeth yn llun a delw Duw. A phe buasai rhyw un yn myned i chwilio i garacter y gweithiwr, buasai yn gadael y ffurfafen a'i bydoedd o'r naill du, ac yn myned heibio i ryfeddodau lliosog y ddaear, gan sefydlu ei olwg ar ryw ddernyn o waith yn nghanol yr ardd: yn hwnw y canfyddai ogoniant y gweithiwr. A chwbl briodol a fuasai dywedyd, bob dydd o'r wythnos, "Pan greo yr Arglwydd ddyn, y gwelir ef yn ei ogoniant." Colofn oedd y greadigaeth y bu Duw yn ei chodi am chwe' diwrnod. Yr oedd y gwaith yn hardd, y golofn yn brydferth i edrych arni, ac yn enw i'r Adeiladydd. Ond pan roddwyd y gerf-ddelw i sefyll ar ei phen hi, y daeth gogoniant y Gweithiwr i'r golwg. Yr hyn oedd dyn i'r ddaear, hyny ydyw Sïon yn llywodraeth Duw. Codi colofn sydd yma hefyd. Ar y chweched dydd, fe roddir Sïon i sefyll arni; a phan dynir y gorchudd oddiar y ddelw, fe welir y Gweithiwr yn ei ogoniant. Nid yn ogoneddus, ond yn ei ogoniant. Y mae hyn yn cynwys:—

1. Fod ei holl briodoliaethau wedi dyfod i'r golwg yn Sïon.
2. Fod yr oll o honynt hefyd wedi dyfod i'r golwg.

Yr oedd llawer o honynt wedi dyfod i'r golwg yn ei waith

fel Creawdwr: ond nid oeddent oll yma, ac nid oedd yr oll o honynt yma chwaith. Yr oedd y nifer yn anmherffaith, a'r graddau yn anmherffaith hefyd. Fe ddywedir fod yn ngoleuni yr haul, y saith liw a welwn ni yn yr enfys; a'r lliwiau yna sydd yn paentio gwahanol liwiau prydferth y ddaear: ac y maent yn gwneyd hyny trwy fod rhyw gyfaddasder yn y gwahanol wrthddrychau y mae yr haul yn llewyrchu arnynt i adlewyrchu y gwahanol liwiau. Y mae gwellt y maes yn adlewyrchu y gwyrdd; y rhosyn yn adlewyrchu y coch, &c. Ac os na cheir gwrthddrych o ansawdd briodol i adlewyrchu, er bod y lliw prydferth yn y goleu, ni ddaw i'r golwg. "Goleuni ydyw Duw," ac y mae ei wahanol briodoliaethau, fel gwahanol liwiau yr enfys, yn cael eu hadlewyrchu yn ei weithredoedd; ei allu yn y weithred hon, a'i ddoethineb yn y llall: ond yr oedd un o'r saith liw, sef, smaragdus neu wyrdd trugaredd, y lliw prydferthaf o'r oll i lygaid gweiniaid pechadur, nad oedd dim i'w adlewyrchu mewn creadigaeth; am hyny ni buasai neb yn gwybod ei fod yn bod, oni bai i Sïon ei ddwyn i'r golwg; ac y mae trugaredd yn briodoledd mor ogoneddus fel y lleferir am dani yn y Bibl fel pe iddi hi yn unig y perthynai gogoniant. Gofynodd Moses i'r Arglwydd am ddangos iddo ei ogoniant: y mae yntau yn addaw gwneyd hyny, ac yn ei roddi i sefyll mewn agen yn y graig, ac yn myned heibio gan gyhoeddi, "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd." Exod. xxxiii. 19, a xxxiv. 6, 7. Ac yn eglurhad pellach ar hyn yn y llythyr at yr Ephesiaid, y mae yr hyn a elwir yn "gyfoeth gras" mewn un man, yn cael ei alw yn "gyfoeth gogoniant" yn y fan arall. Y mae y ddau air yn cael eu defnyddio yn gyfystyr, fel pe gras yn unig ydyw gogoniant Duw. A diau i amlygiad trugaredd dynu sylw a pheri syndod anfeidrol ymysg creaduriaid sanctaidd yr ymherodraeth fawr; ac nid rhyfedd oedd os oeddent yn dywedyd wrth eu gilydd, fel y bugeiliaid gynt, "Awn hyd Sïon, i gael gweled y peth hyn a wnaethpwyd." Yr oeddent wedi gweled llawer o bethau rhyfedd o'r blaen, a gallwn dybio eu bod wedi cynefino â rhyfeddodau Duw; ond pan ddaeth trugaredd i'r golwg, yr oedd hyn yn beth newydd, a hyn oedd yn peri ei bod yn rhyfedd. Yn ol

pob peth oedd yn y golwg o'r blaen, nid oedd dim lle i drugaredd yn yr hanfod ddwyfol: yr oedd perffeithrwydd Duw i olwg creadur yn ei chau allan. Y mae priodoliaethau Duw fel llinellau cyfochrog, oll yn anfeidrol; a hyny heb fod y naill yn gormesu dim ar y llall. Ond am drugaredd, nis gallasai yr un creadur weled pa fodd y gallasai hi gael lle yn Nuw, heb ormesu ar le cyfiawnder. Cyfiawnder ydyw ymddwyn at bawb yn ol ei haeddiant: trugaredd ydyw peidio gwneyd hyny. Am hyny y mae cyfiawnder a thrugaredd mewn creadur yn rhwym o wrthwynebu eu gilydd. Ond yn Sïon, wele drugaredd wedi dyfod i'r golwg, heb i ddim arall fyned o'r golwg wrth hyny. Ac nid hynyna ydyw yr oll, ond wele bob priodoledd arall yn Nuw wèdi dyfod i'r golwg i'w heithafion drwy hyny. Darfu Jacob, wrth gyfoethogi ei hun, gyfoethogi Laban hefyd; felly y mae trugaredd wrth ei hamlygu ei hun, wedi amlygu pob priodoledd arall hefyd. Solomon a adeiladodd y deml, er mai gweision Hiram, a'i ddeiliaid ef ei hun, a fuant yn naddu y meini, yn cymynu ac yn cerfio y coed, yn gweithio y gwaith aur, arian, a phres; eto, teml Solomon oedd hi, am mai efe oedd prif ysgogydd y gwaith. Felly y mae llawer wedi gwneyd eu rhan ar Sïon, ac yn wir pob priodoledd wedi gwneyd ei goreu hefyd; eto gall trugaredd ddywedyd, Onid hon yw Sïon, yr hon a adeiledais i? Myfi a gynhyrfodd ddoethineb i ddyfeisio ei chywreinwaith hi;—myfi a gymhellodd allu i gyflawni y gorchestion o nerth sydd ynddi. Y mae y ddinas "er mawl gogoniant ei ras ef."

Y mae yn rhaid i ddyn aberthu yr arddunol i gael y tlws; neu aberthu y prydferth i gael nerth. Rhaid i'r lleuad a'r sêr fyned o'r golwg, i'r haul ddyfod i'r golwg; nis gellir cael gogoniant y nos, a gogoniant y dydd, ar unwaith; ond os trowch chwi i mewn i Sïon, chwi a welwch bob gogoniant wedi cyd-gyfarfod. Cyn hyn, nid oedd Duw ddim wedi arfer dangos yr eithafion gydâ'u gilydd. Fe wnaeth ddyn, medd yr hanes sanctaidd, yn wryw ac yn fenyw, fel pe nas gallasai ddangos ei ddelw heb gael y ddau: awdurdod a nerth, yn y naill; prydferthwch a thynerwch yn y llall; ond fe gydgyfarfyddodd eithafion rhinweddau y natur ddynol yn y dyn Crist Iesu: urddas a mawredd Adda, a thynerwch Efa. Felly yn Sïon, y mae yr holl bethau

yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi cydgyfarfod. Ac nid hyny ydyw yr oll, ond ei gogoniant mwyaf hi ydyw mai hi sydd yn cysylltu y nefoedd a'r ddaear. Y cwestiwn dyrys oedd, pa fodd i gadw ymddibyniad y creadur ar Dduw yn deimlad yn ei fynwes, ac eto i'r pellder oedd rhyngddo âg ef beidio ei luddias i'w garu ac i ufuddhau iddo. Y mae rhywbeth mewn creadur sydd yn peri fod pellder o bob math yn ei oeri; o'r hyn lleiaf, felly y mae gyda dyn. O hyn y cyfyd y teimlad sydd yn gyffredin ymhob cenedl yn erbyn i un o genedl arall fod yn frenin arni. O'r un teimlad y cyfyd y gwrthwynebiad i'r brenin, er ei fod o'r un genedl, fyw mewn gwlad bell oddiwrth y rhai y mae yn eu llywodraethu. Y mae pellder perthynas a phellder lle yn gwneuthur yn anhawdd caru ac ufuddhau ar y ddaear; ac mae'n debygol fod yr un peth yn wir drwy yr ymherodraeth ddwyfol oll; ond gogoniant Sïon ydyw fod y dyryswch wedi ei egluro ynddi hi. "Y gŵr," medd yr apostol, 1 Cor. xi. 3, "yw pen y wraig;" 'Crist yw pen y gŵr, a Duw yw pen Crist.' Y mae hyn yn ddrych i ni weled pa fodd y mae y greadigaeth yn esgyn nes y mae'r meidrol a'r Anfeidrol yn cael eu cysylltu â'u gilydd. Fe ddywed y daearegwyr ei bod hi wedi bod yn codi am oesoedd aneirif cyn i ddyn ddod i'r golwg; y naill gyfnod yn uwch na'r un o'i flaen, nes o'r diwedd y mae uchder llwch y byd yn ymddangos; ond y mae pellder anfesurol rhyngddi eto a Duw. Ond y mae hi eto yn codi: wele Grist yn ben i'r eglwys, a Duw yn ben Crist: gan hyny, yn Sïon, wele y cysylltiad wedi cymeryd lle, y Creawdwr a'r creadur wedi eu huno, y meidrol a'r Anfeidrol wedi eu cysylltu, y gwagle anfesurol wedi ei lenwi. Peth go brydferth ydyw gweled ambell fynydd yn saethu ei ben i fyny mor uchel nes uno y nefoedd a'r ddaear: creaduriaid y ddaear yn byw ar ei odrau, a chymylau y nefoedd yn goron ar ei ben: y nefoedd, yn lle bod mewn pellder oeraidd oddiwrth y ddaear, yn cydnabod perthynas â hi, ac yn addurn ac yn goron iddi. Yn Sïon y gwelir hynyna. Ac y mae hyn y fath ogoniant, fel y mae holl lwythau yr ymherodraeth ddwyfol wedi pabellu o amgylch y mynydd, fel yr oedd llwythau Israel gynt o amgylch y Tabernacl. "Chwi a ddaethoch i fynydd Sïon." Pwy sydd yno gydâ ni? Y mae pawb yno: myrddiwn o angylion,

cymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig, ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, &c. "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant."

II. Pan adeiledir Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant, oblegid ni bydd dim arall wedi cyraedd ei ddiben, hyd nes yr adeiledir Sïon, ac felly nis gellir canfod ei ogoniant hyd hyny.

Y mae rhyw ddiben eithaf i waith pob gweithiwr doeth, a threfnir pob peth ganddo yn y modd goreu i gyraedd y diben hwnw; a phan y cyrhaeddir hwnw y gwelir i berffeithrwydd y doethineb oedd yn nghyfaddasder y moddion i'r diben. Ni chaiff y gweithiwr yr enw,—y clod oddiwrth y moddion, hyd nes y bydd y gwaith wedi ei orphen. Y mae Duw yn cario allan *idea* fawr oedd yn ei fynwes er tragywyddoldeb, a dyna ydyw hono, adeiladu Sïon. I hon y mae pob peth yn sefyll yn y berthynas o foddion i ddiben; a phan y bydd y meddwl mawr yna wedi ei sylweddoli, wedi ei gario allan, fe welir gogoniant y Gweithiwr yn y moddion, oblegid y pryd hwnw y ceir esboniad arnynt. Y mae naturiaethwyr yn dywedyd fod pob peth a fu yn hanes ein byd ni, cyn creadigaeth dyn, yn brophwydoliaeth am dano,—yn ddarpariaeth tuag at iddo ymddangos: fel yr oedd sefydliadau cyfraith Moses yn brophwydoliaethau mewn ffeithiau am Fessiah, felly prophwydoliaethau mewn ffeithiau am ddyn oedd pob peth a gymerodd le ar y ddaear cyn ymddangosiad dyn; eu hiaith oll ydoedd, "y mae un mwy na myfi yn dyfod ar fy ol i:" a phan y daeth, fe deimlwyd mai efe ydoedd y gwrth-gysgod, oblegid ynddo ef yr esboniwyd ymlusgiaid y ddaear, pysg y môr, anifeiliaid y maes, ac ehediaid yr awyr. Da y gallasent gydnabod dyn yn ben, oblegid hebddo ef nid oedd ystyr ynddynt,—corff heb enaid oeddent. A phe meddyliech chwi am yr oesoedd meithion y buwyd yn trysori trysorau cuddiedig y ddaear,—yn rhoddi y meteloedd yn wythïenau yn ei chreigiau, a'r gwelyau glo yn ei chrombil;—pe gofynasid ar y pryd, Pa ddiben a etyb y pethau hyn? yr ateb a fuasai, Y mae creadur mawr i gael ei greu ryw dro a rydd esboniad ar y pethau hyn; ac yn eu perthynas âg ef fe ymddengys dwyfol ddoethineb ynddynt oll. Y mae Sïon yn dàl yr un berthynas â llywodraeth Duw ag yr oedd dyn yn ei dàl â'r greadigaeth isod hon. Fel y bu raid aros am ddyn i

esbonio cyfnodau meithion y greadigaeth; felly y mae yn rhaid aros i Sïon gael ei hadeiladu, i weled gogoniant darpariadau a threfniadau llywodraeth Duw. "Mawl a'th erys di yn Sïon: i ti y telir yr adduned." Yno y trŷ yr oll yn ogoniant, ac felly yn fawl iddo.

Y mae y Salmydd, yn Salm cxxxvi., yn edrych ar greadigaeth a rhagluniaeth yn y goleuni hwn. Wedi galw ar bawb dair gwaith i glodfori yr Arglwydd, oherwydd bod ei drugaredd yn dragywydd, y mae yn manylu i ddywedyd pa faint o bethau a wnaeth oherwydd hyny: gwneyd y nefoedd mewn doethineb,—estyn y ddaear oddiar y dyfroedd,—gwneyd goleuadau mawrion yn y ffurfafen,—pethau y greadigaeth; ond y mae ar unwaith yn eu cysylltu â'i weithredoedd rhyfedd dros ei eglwys: taraw yr Aipht yn ei chyntaf-anedig,—gwaredu Israel o'u mysg hwynt,—rhanu y Môr Coch yn ddwy ran,—ysgytio Pharaoh a'i lu yn ei ddyfroedd ef,—tywys ei bobl trwy yr anialwch,—taraw brenhinoedd ardderchog,—rhoddi eu tir hwynt yn etifeddiaeth i Israel ei was: dyna yr amcan wedi ei gyraedd; ac yn hwnyna fe geir esboniad ar y byrdwn oedd ar ol pob gweithred; "oherwydd ei drugaredd ef sydd yn dragywydd." Pan gafwyd Israel i Ganaan, daeth gogoniant gweithredoedd canoedd o flynyddoedd i'r golwg. "Pan adeilado'r Arglwydd Sïon." Yn hyn y mae y *clue*,—y trywydd,—yr agoriad,—i ddeall hanes ein byd ni. Ac onid yn gydunol â geiriau y prophwyd y gwelwn ni y bu hi yn hanes eglwys yr Hen Destament?" "Canys y genedl a'r deyrnas ni'th wasanaetho di a ddifethir, a'r cenhedloedd hyny a lwyr ddinystrir." Fe fu yr Aipht, Ethiopia, Assyria, Babilon, Persia, Groeg, a Rhufain, bob un o honynt am ryw gymaint o amser, yn gynrychiolwyr gallu y byd hwn. Cyhyd ag y byddent yn wasanaethgar i'r eglwys, goddefid hwynt; yna tröid hwynt o'r naill du, megis peth diwerth. Ac yn eu gwasanaethgarwch i adeiladu darn o Sïon, y gwelwn ni ddoethineb Duw yn eu codi, ac yn eu goddef: gadael i'r Aiphtiaid gynyddu mewn nerth, fel ag i allu gorthrymu plant Israel yn dost, i godi awydd yn eu mynwes am Ganaan;—goddef i Babilon ymwerthu i eilunaddoliaeth, er mwyn gwellâu iechyd Sïon; rhoddi yr holl fyd dan lywodraeth Rhufain, i gael ffordd rydd i gario meini i Sïon o bob gwlad.

Yr oedd Solomon yn rhoddi cynhaliaeth i dŷ Hiram, tra y byddai ei weision ef yn adeiladu y deml: wedi i'r gwaith gael ei orphen, y mae Hiram a'i weision yn cilio o'r golwg: felly y mae cenhedloedd y byd yn cael cynhaliaeth tra y byddant yn adeiladu Sïon; yna yr ydym yn eu colli hwynt. Y mae plygion lawer yn y drefn, fel y dengys yr apostol yn yr unfed benod ar ddeg o'r epistol at y Rhufeiniaid: gwrthod y Cenhedloedd i drugarhau wrth Israel; eu gwrthod hwythau drachefn i gael trugarhau wrth y Cenhedloedd; eu derbyn i mewn eilwaith i gael trugarhau wrth bawb. Eu gwrthod i gymodi y byd, a'u derbyn i ddwyn cyflawnder y Cenhedloedd i mewn. "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant." Oh ddyfnder golud doethineb Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau Ef! a'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt!" Y mae yma fwriad mewn bwriad. "Chwi a fwriadasoch ddrwg; ond Duw a'i bwriadodd i ddaioni." "Yn fy erbyn i y mae hyn oll;" ïe, os esbonir ef heddyw; —ond pan ddaw y bwriad sydd y tu cefn i'r golwg, fe newidir yr iaith: "Digon ydyw; y mae Joseph fy mab eto'n fyw." "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon, y gwelir ef yn ei ogoniant."—

1. Gan mai trwy ac yn Sïon, y mae yr Arglwydd yn meddwl cael ei ogoniant, y mae genym y seiliau cadarnaf i ddisgwyl iddi gael ei hadeiladu. Cysylltir gogoniant Duw â'r gwaith, fel pe na byddai yn gysylltiedig â dim arall: "gwelir ef *yn ei ogoniant*." Am hyny, pe byddai yn bosibl i ryw beth rwystro yr adeilad, collai yr Adeiladydd ei ogoniant drwy hyny: ond y mae hyn yn beth nas gall fod; "fy ngogoniant ni roddaf i arall." Felly rhaid ydyw adeiladu Sïon. Hi all fod yn isel yn ngolwg y cenhedloedd, ond nis gall fod yn anenwog byth. Gall Pharaoh a'i nerth fod yn ei herbyn. Gall Haman, yn ei gyfrwysdra, benderfynu ei dinystrio hi. Gall Nebuchodonosor, Pilat, a Herod, dyngu yn eu llid y dilëir ei henw oddiar wyneb y ddaear; ond pan fydd hi wedi cael cau arni o bob cyfeiriad, fe gyfyd ymwared o le arall. Fe orphenir y deml, oblegid y mae caracter yr adeiladydd yn wystl o hyny. Gwir ydyw fod yn rhaid cael meini ati o lawer craig digon anhawdd ei dryllio; rhaid eu cludo dros lawer lle digon anhawdd gwneyd ffordd drwyddo; ac y mae llawer maen yn eithaf afrywiog, ac anhawdd ei naddu: ond fe orphenir y tŷ er y pethau hyn.

Y mae argyhoeddiad dwfn o hyn o werth annhraethol i'r meddwl. Y mae yn rhoddi nerth ynddo i weithio, ac yn cadw mesur o dangnefedd heddychol i'w lywodraethu. Yr argyhoeddiad oedd yn meddwl Mordechai y cyfodai ymwared ac esmwythdra i Israel o rywle, oedd yn ei gynal i ymdrechu mor egniol i geisio yr ymwared hwnw. Yr argyhoeddiad hwn oedd y llawenydd oedd yn cynal meddwl Mab Duw wrth fyned i lawr i'r dyfnder: yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, sef yr hyfrydwch o weled Sïon wedi ei gorphen, y dioddefodd Efe y groes.

Edrychwch ar y byd yn y goleu hwn, fel na ddiffygio eich ffydd chwi, ac na'ch tralloder. Os bydd yr oruchwyliaeth yn ddieithr, gellwch fod yn sicr mai rhywbeth at adeiladu Sïon ydyw: ac y mae yn rhaid i lawer goruchwyliaeth digon llem gymeryd lle i hyny, oblegid fel y gwelid yn mur y ddinas nefol bob rhyw faen gwerthfawr, felly y mae pob math o feini i fod yn Sïon. Os bydd cyfnewidiadau mawrion yn cymeryd lle, gellwch fod yn lled sicr, mai agor chwarel newydd yr ydys, i gael math newydd o feini i Sïon. Os bydd rhyfeloedd yn cynhyrfu y gwledydd, wedi iddynt fyned heibio, ond odid na welir mai *blastio* y graig yr oeddent, i gael meini Sïon yn rhyddion. Edrychwch ar lyfr y Datguddiad: agor y seliau—seinio yr udgyrn—tywallt y phïolau—mŵg y pydew diwaelod yn tywyllu yr awyr—locustiaid yn dyfod o hwnw i boeni dynion nes y dewisent farw—taranau, a mellt, a daeargryn, y rhai ni bu eu bath er pan yw dynion ar y ddaear—nerthoedd y nefoedd yn cael eu hysgwyd—y sêr yn syrthio—yr haul a'r lleuad heb roddi eu goleu—y tystion yn cael eu lladd gan y bwystfil—y ddraig fawr goch yn ymlid ar ol y wraig—anghenfil yn codi o'r môr â saith ben ganddo—yr angylion yn myned allan, â'r saith bla diweddaf ganddynt—brwydr fawr Armagedon yn cymeryd lle—Babilon yn syrthio fel maen melin i waelod y môr—Gog a Magog yn ymgasglu i'r rhyfel diweddaf,—Beth ydyw yr holl bethau ofnadwy hyn? Y mae yn rhy anhawdd deall yn nghanol y tryblith; ond symudwch i ddiwedd y llyfr, y mae hi yn clirio yno; ac er ein syndod, yr ydym yn canfod mai cynyrch yr oll ydyw y Jerusalem newydd. Os byddwch chwi yn dyrysu weithiau wrth weled annuwioldeb yn frigog, gau-grefydd

yn ffynu, y byd wedi ymwerthu i ddrygioni, ymwthiwch drwy y *chaos* yna i weled y ddinas sydd a *gogoniant Duw ganddi* yn dyfod o hono. Fe 'i hadeiledir hi; y mae y gwystl yn ddigon o brawf.

2. Gan mai oddiwrth adeiladu Sïon y mae Duw yn meddwl cael ei ogoniant, cael gwneuthur rhywbeth i ddwyn hyny o amgylch ydyw ein hanrhydedd a'n braint oruchaf ni. Pe buasai rhyw un o honoch yn cael ei gymeryd i wneuthur rhyw wasanaeth bychan mewn cysylltiad â chreu un o fydoedd y ffurfafen, oni fuasai hyny yn anrhydedd mawr—gallu cyfeirio at un o'r bydoedd dan ddywedyd, Mi gefais i wneuthur ychydig yn nghreadigaeth y byd yna? Ond dim, a llai na dim, a fuasai hyny wrth yr anrhydedd o gael gwneyd y peth lleiaf tuag at adeiladu Sïon; oblegid fe ddaw y dydd y bydd y bydoedd yna yn cael eu colli mewn diddymdra,—y bydd enw Duw sydd wedi ei ysgrifenu mor ardderchog arnynt yn cael ei ddileu, oherwydd fod y defnyddiau yn myned yn rhy hen i ddal y llythyrenau yn hwy. Anffawd gweithwyr cywrain y ddaear ydyw fod y defnyddiau yr oeddent wedi trafferthu cymaint i ysgrifenu eu henw trwy eu cywreinrwydd arnynt, yn heneiddio, a'u henwau hwythau yn colli bob yn ychydig; felly y mae hyd yn nod gydâg enw Duw yn y greadigaeth; y mae yntau wedi ysgrifenu ei enw ar ddefnyddiau rhy wael i'w ddal yn hir: ond yn Sïon, fe gafodd ddefnydd a ddeil,—y mae gogoniant Duw ganddi,—gellir ymddiried yr enw iddi: "enw y ddinas o'r dydd hwnw allan fydd, Yr Arglwydd sydd yno." Mawrhewch eich braint o gael gwneyd rhyw beth tuag at adeiladu Sïon. Codi addoldŷ—beth yw hwnw? Tipyn o *shed* i gael naddu meini Sïon ynddo. Cyfranu arian at y Cymdeithasau Cenhadol a Biblaidd—beth yw hyny? Anfon gweithwyr i dyllu y graig, a *phowdr* i'w roddi ynddi, i gael meini i Sïon. "Y rhai a dröant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y sêr byth yn dragywydd." "Er gorfoledd i mi yn nydd Crist."

3. Gan fod pethau mor ogoneddus i'w dywedyd am Sïon, gwelwch y fraint o gael perthyn iddi. Y mae cael gwneyd rhywbeth tuag at yr adeilad yn anrhydedd; ond cael bod yn faen ynddo ydyw y fraint: ac yn wir, os na byddwn ni yn yr adeilad, ni byddwn ni ddim ond *rubbish* i'n lluchio i'r pydew

diwaelod o'r golwg, yn lle bod yn anharddu cymydogaeth y deml. Yr ydym wedi gweled eisoes fod cenhedloedd cyfain yn cael eu colli, os heb fod yn Sïon: yr un peth a ddigwydd i bob person unigol hefyd, cyn hir. Nid oes dim croniclau yn cael eu cadw yn y byd arall ond o'r "rhai byw yn Sïon," "y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen." Y mae y lleill fel pe na buasent wedi bod erioed. Y maent wedi eu colli yn nghaddug y tywyllwch eithaf. Ymhen ychydig oesoedd eto, dyn fydd yr unig un ar gael o'r greadigaeth yma: bydd yr holl greaduriaid eraill wedi eu colli. Felly Sïon yn unig fydd ar gael o'r hen ddaear yma: bydd pawb na fydd ynddi wedi eu colli yn dragywydd. Mynwch le ynddi! Nid rhyfedd i'r Salmydd ddywedyd:—"Dewiswn gadw drws," [neu "orwedd wrth y rhiniog,"] "yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb." Salm lxxxiv. 10.

[Gorphen. Rhag. 8, 1861.]

# PREGETH XXI.

## NERTH DUW YN HEDDWCH.

ESAIAH xxvii. 5.—"Neu ymfled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi, ac efe a wna heddwch â mi."

YMAE y testyn hwn yn rhan o gân "Gwinllan y gwin coch." Yn niwedd y benod o'r blaen, a dechreu hon, y mae barn yn cael ei bygwth ar yr eglwys, neu ar ei gorthrymwyr; neu, feallai, ar bob un o honynt. Yr oedd y farn ar Israel am ymadael â Duw, ac wedi hyny yr oedd hi yn farn ar y neb a fu yn offerynau yn llaw yr Arglwydd i'w cosbi am ymadael. Y mae cosb Israel Duw yn ddieithriad yn diweddu mewn cosbi eu gelynion. Y mae Ninifeh a Babilon, lle y bu yr eglwys mewn aml a blin gystuddiau, yn anghyfaneddau tragywyddol, tra y mae Jerusalem, y ddinas yr ymfawrygasant hwy yn ei herbyn, yn ddinas boblogaidd yn awr. Y mae yr Arglwydd yn galw ar ei bobl i lechu yn eu hystafelloedd hyd onid elai y llid heibio, hyny yw, y farn; sef, yn gyntaf, y llid tuag atynt hwy,—caethiwed y deng mlynedd a thriugain. Y mae llid yr Arglwydd tuag atynt yn sicr yn fawr, ond y mae yn llid sydd yn myned heibio: "dros brydnawn yr erys wylofain." Yn ail, y llid tuag at y gelynion, pan 'yr ymwelai â hwynt â'i gleddyf caled, mawr, a chadarn,' sef pan ddinystriai Babilon trwy law Cyrus. Eu dyledswydd hwynt oedd bod yn llonydd,—llechu yn eu hystafelloedd, a pheidio ymyraeth â'r Babiloniaid, nac â'r Persiaid ychwaith. Ymhob gwaredigaeth fawr, iaith yr Arglwydd at ei bobl ydyw, —"Sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd." Ond y mae amgylchiadau eraill, yn y rhai y mae yn briodol dywedyd wrth bob un sydd ar du yr Arglwydd, am 'wregysu

ei gleddyf ar ei glun, a chysegru ei law i'r Arglwydd; ' a dylai fod yn eu plith bob amser rywrai fel meibion Issachar, " yn deall yr amseroedd fel ag i wybod beth a ddylai Israel ei wneuthur;"—pa un ai disgwyl am ymwared trwy ymdrechu, ai ynte, sefyll, ac edrych ar Dduw yn ei dwyn o amgylch yn ddigyfrwng. Golwg ar weinyddiad y farn yna a achosodd y gân hon; ac y mae ystyr y testyn i'w benderfynu gan yr ystyr a roddir i'r farn flaenorol. Os at Israel y cymhwysir geiriau y farn, y mae y gân hon wedi ei bwriadu naill ai i'w cael i ochel yr hyn oedd yn achosi y farn, neu i'w dysgu i feddwl yn dyner am yr Arglwydd yn nghanol eu blinderau: "Yn y dydd hwnw y cenwch iddi, gwinllan y gwin coch," er ei holl flinderau; a'r rheswm am hyny yw y drydedd adnod:—"Myfi 'r Arglwydd a'i ceidw; ar bob moment ӯ dyfrhaf hi: cadwaf hi nos a dydd, rhag i neb ei drygu." Paham ynte, meddir, yr ymddygir fel hyn tuag ati? Onid yw yr ymddygiad, a'r broffes hon, yn groes i'w gilydd? Nac ydynt: adn. 4, "Nid oes llidiogrwydd ynof," &c. Y winllan sydd wedi ei gordöi â mieri a drain; ac y mae yn rhaid i mi eu llosgi hwynt allan. Ac os dymunai Sïon osgoi barnau cyffelyb eto,—"ymafled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi."

Y mae rhai yn meddwl mai at y gelynion yn unig y mae cyfeiriad y farn, a bod y gân hon yn fath o feiddiad neu hèr iddynt. Y mae y gair *cenwch* yn cael ei gyfieithu ganddynt yn *gystuddiwch*,—" Cystuddiwch hi, gwinllan y gwin coch." Gwnewch a alloch iddi, ni chaiff neb ei drygu: nid wyf mwyach yn llidiog wrthi; a pha bryd bynag y daw gelynion i'w herbyn, yr wyf yn dyheu am eu cael fel mieri a drain o'm blaen i'w llosgi i fyny ynghyd. Ond y mae yr eithriad hwn i'w roddi i mewn,—Os ymaflant yn fy nerth, er eu drygau oll, gwnant heddwch â mi. Yr unig ffordd i'r eglwys sicrhau heddwch iddi ei hun, oedd ymaflyd yn nerth Duw; a'r unig lwybr i'r gelyn wneuthur hyn, oedd ymaflyd yn nerth Duw. Y mae ymaflyd yn nerth Duw yn sicrhau heddwch i'w elyn fel i'w blentyn.

Cyfarwyddyd ydyw y testyn, pa fodd i gael heddwch Duw. Llawer gwaith y gofynwyd,—" A pha beth y deuaf gerbron yr Arglwydd? pa beth a foddlona yr uchel Dduw?" Ond ofer a

fuasai gwaith pawb yn chwilio am ateb, oni bai iddo Ef ei hun ddangos pa fodd y gellir cael ei heddwch. Y mae cael heddwch un mawr, neu un y mae ar ei law wneuthur llawer i ni, yn beth pwysig iawn. Yr oedd Ahab yn boddloni bron i unrhyw beth i gael heddwch Benhadad. Yr oedd Hezeciah yn dywedyd wrth frenin Assyria,—"Dygaf yr hyn a roddech arnaf," hyny yw, talaf unrhyw deyrnged er mwyn cael dy heddwch. Yr oedd trigolion Tyrus a Sidon yn fawr eu trafferth i gael tangnefedd neu heddwch Herod. Y mae i'r gwan gael heddwch y cryf, i'r bychan gael heddwch y mawr, yn bwysig. Y mawr a'r cryf fyddant bob amser yn cyhoeddi amodau heddwch i'r bychan a'r gwan; ac nid anaml y bydd y rhai hyny yn gelyd iawn. Yr oedd amodau Nahas yr Ammoniad i wŷr Jabes felly, sef cael tynu llygad deheu pob un o honynt. Yr oedd amodau Benhadad i Ahab felly; ac amodau Salmaneser i Hezeciah felly. Nid oddiar ystyriaeth o beth yr oedd cyfiawnder yn ei ofyn yr oeddent yn eu llunio, ond beth a allasai nerth ei fynu. Nid oeddent yn meddwl beth oedd gyfiawn iddynt ei gael, ond beth a allent ei gael. Ond nid oedd heddwch Benhadad i Ahab, heddwch Salmaneser i Hezeciah, neu heddwch Herod i drigolion Tyrus a Sidon, ond llai na dim mewn pwysigrwydd wrth yr hyn ydyw cael heddwch Duw i ni. Y mae yntau wedi cyhoeddi yr amodau. Gallasai, o ran nerth, roddi rhai caletach na rhai Nahas i wŷr Jabes; gallasai, o ran cyfiawnder hefyd, roddi rhai caletach na rhai Salmaneser i Hezeciah; ond nid yr hyn a allasai Efe ei ofyn mewn cyfiawnder,—nid yr hyn a allasai Efe ei fynu trwy nerth,—a roddodd yn amod heddwch, ond yr hyn a allasai ei drugaredd fforddio ei roddi; a'r testyn ydyw hyny,—"Ymafled yn fy nerth, fel y gwnelo heddwch â mi." Nid anaml yr ydym yn cael addewid werthfawr, fel un y testyn, ar ol y cyhoeddiad o farn. Diben yr Arglwydd yn cyhoeddi ei farnau, pryd nad oes addewid yn cael ei chysylltu â hwynt, ydyw, nid i'n poeni ni cyn yr amser, ond i'n cymhell i ymostwng, fel na byddo raid iddo eu gweinyddu. Nid oedd yr un addewid yn gysylltiedig â'r farn a gyhoeddwyd yn erbyn y Ninifeaid: ond ar eu hymostyngiad, fe ataliwyd y farn. Ond pan y mae addewid fel yma yn gysylltiedig â'r farn, y mae yr Arglwydd yn disgwyl

i'r gwrthryfelwyr ymaflyd yn hono, ac felly ochel y farn. Y mae cyhoeddiad y farn wedi ei fwriadu i fod yn gymhelliad i ni ymaflyd yn yr addewid. Nid ydyw yr Arglwydd yn rhoddi hèr i'r pryfyn gwrthryfelgar: er bod dyn yn ymnerthu yn ei erbyn Ef, ac yn ceisio rhedeg i'r gwddf iddo, eto y mae Duw mor anfeidrol uchel, fel y gall chwerthin ar ei ymgais:—"Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd;" na, yn amlach o lawer, tosturio y mae wrth ei ffolineb, ac anfon ei weision ato i ddywedyd, mai "Gwae fydd i'r hwn a ymrysono â'i luniwr."

Y mae pawb sydd yn addef fod Duw, yn addef ei fod yn un mawr iawn; ond y mae casgliadau tra gwahanol yn cael eu tynu oddiwrth y gwirionedd yna. Y mae rhai yn meddwl ei fod mor fawr fel nad ydyw yn sylwi arnynt hwy. Yr un iddo Ef yw eu da a'u drwg: yn ol eu tyb hwynt, gadawodd y ddaear, ac felly nid oes y fath beth a phechod. Y mae eraill yn tynu casgliad gwahanol oddiwrth ei fawredd: y maent yn credu ei fod yn sylwi ar eu holl ffyrdd, ac yn eu barnu yn euog. Ac am ei fod yn un mor fawr, teimlant nad oes obaith:—eu hiaith yw,—"Os yn erbyn yr Arglwydd y pecha gŵr, pwy a eiriol drosto?" Ond y mae y testyn yn ein dysgu i wneyd defnydd gwahanol i'r ddau ddosbarth o fawredd Duw. Nid oedd casgliad y cyntaf oddiwrth ei fawredd ddim yn gywir. Y mae yn fawr, ond y mae yn sylwi. Y mae ei lygaid ymhob man, yn gweled y da a'r drwg. Yr oedd Job yn ymliw âg Ef am hyn, ac yn gofyn, paham na chaffai lonydd ganddo? paham yr oedd un mor fawr yn dal ar holl ffyrdd un mor ddistadl? Y mae yr ail gasgliad oddiwrth fawredd Duw yn bur ddigysur i ni, sef gan ein bod wedi pechu, nad oes obaith. Y mae hwnyna yn troi yr holl fawredd yn ein herbyn; ond y mae y testyn yn llawn o ddiddanwch i ni, am ei fod yn ein dysgu i droi y mawredd o'n plaid. "Ymafled yn fy nerth i;" nid,—anobeithied oherwydd fy nerth, am ei fod wedi pechu, ond lleched yn ei gysgod;—rheded mor agos ataf fel nas gallwyf ei daraw. "Ymafled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi," neu, fel y darllena rhai yr adnod,—gosoded ei hun o dan fy amddiffyniad i: fe dry hyny yr holl nerth oedd yn ei erbyn o'i blaid. Y ddau beth a ddaw o dan ein sylw oddiwrth y testyn ydynt:—

I. Y cyfarwyddyd sydd yma pa fodd i gael heddwch Duw: —"ymafled yn fy nerth i."

II. Y pwys sydd yn cael ei ddangos yma yn hyn: "gwnaed heddwch â mi, gwnaed heddwch â mi." Felly y mae rhai yn dymuno darllen yr adnod. Y mae bod yr Arglwydd yn gorchymyn hyn ddwywaith yn dangos ei bwys.

I. Y cyfarwyddyd sydd yma pa fodd i gael heddwch Duw. Nid angenrheidiol i mi ydyw ceisio profi nad oes wrth natur ddim heddwch rhwng y pleidiau. Y mae y dieithrwch sy rhyngddynt yn profi nad ydyw pobpeth ddim yn dda; ac y mae yma rywbeth mwy na dieithrwch, yn dangos fod gelyniaeth yn bod o un tu, a digofaint o'r tu arall. Os ydyw Duw megis wedi esgyn i'r nefoedd, y mae dyn wedi disgyn i'r ddaear: gelyniaeth yn atal dyn i gymdeithasu â Duw, a sancteiddrwydd yn gwneuthur yn anmhosibl i Dduw gymdeithasu â dyn;—dyn yn anghofio Duw, a Duw yn ymguddio oddiwrth ddyn. Ac os daw i'r golwg, y mae dyn yn dywedyd wrth yr Hollalluog, "Cilia oddiwrthyf;" ac y mae yntau yn dywedyd, "Af, a dychwelaf i'm lle," fel nad oes dim mewn ffordd o gymdeithas rhyngddynt. Y mae yr Arglwydd yn anfon ei roddion heb eu gofyn: y mae dyn yn eu derbyn heb eu cydnabod; ond er nad ydyw dyn yn diolch, nid yw yr Arglwydd yn danod. Eto y mae yn fynych yn dangos mai nid cymeradwy yn ei olwg ydyw ffyrdd dyn, trwy ddisgyn nes y mae y mynyddoedd yn toddi, ac agosâu ato i farn. Yr oedd ei waith yn agosâu at Adda ar ol y cwymp yn dra gwahanol i'w waith yn agosâu cyn hyny. Yn lle dyfod i gymdeithasu fel cynt, dyfod i farnu a wnaeth. A phan y gorfodir dyn gan waith Duw yn agosâu ato i farn i feddwl am dano, y mae o angenrheidrwydd yn ei ofni yn ddirfawr; a gallesid disgwyl y buasai yn ceisio amodau heddwch; ond ni oddefai ei elyniaeth iddo wneuthur hyny. Iaith Jonah ydyw iaith ei galon, "Da yw i mi ymddigio hyd angau." Ond os na ddaw dyn i geisio yr amodau, dyma yr Arglwydd yn dyfod i'w cynyg iddo. Os na eilw y ddaear ar y nefoedd, fe eilw y nefoedd ar y ddaear: a dyna ydyw y testyn, —y nefoedd yn dysgu i'r ddaear pa fodd y gallant fod yn un; —Duw yn dangos i ddyn pa fodd i gael ei heddwch: "Ymafled yn fy nerth i, fel y gwnelo heddwch â mi;" neu, mewn geiriau

eraill; ymafled yn y pethau hyny ynof sydd yn amddiffyn i bechadur; bydd felly yn rhwym o wneyd heddwch â mi, oblegid fe 'm gwna i yn ddirym i gosbi. Ni a enwn rai o'r pethau hyny i'ch cymell i ymaflyd ynddynt. Ymaflyd yn nerth Duw ydyw ymaflyd yn nhrugaredd Duw,—ymaflyd yn nghyfamod Duw,—ymaflyd yn Mab Duw.

1. Ymaflyd yn nhrugaredd Duw ydyw un llwybr i wneuthur heddwch âg Ef. Ar ryw olwg, nis gallwn "wrth chwilio gael gafael ar Ddaw," oblegid y mae mor fawr, fel nad adwaenom Ef, ïe, "y mae ei fawredd yn anchwiliadwy." Y mae ei holl briodoliaethau yn ei roddi yn bell oddiwrthym. Am ei nerth, nid oes genym ond dywedyd,—"Pwy a ddeall daranau ei gadernid Ef?" Am ei ddoethineb,—"Pwy a fedr chwilio allan ei synwyr Ef?" Ac am ei holl-bresenoldeb,—"I ba le yr äf oddiwrth dy Ysbryd?" Nis gallwn gael gafael arno, er myned yn ol ac ymlaen, esgyn a disgyn, oblegid y mae yn ymguddio yn ei fawredd. Ond—yn ei drugaredd—y mae "yr Hwn sydd yn uwch na'r nefoedd," yn "ddyfnach nag uffern," "yn hwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr," wedi dyfod mor agos ag y gellir cael gafael arno: ac y mae myrddiynau wedi gwneuthur heddwch âg Ef, nad oedd ganddynt ddim i gydio gafael ynddo ond hyn. Ei drugaredd oedd y peth cyntaf a wnaeth ei enw yn dŵr cadarn i bechadur redeg ato. Nid oedd gan y patriarchiaid a chenedl Israel nemawr ond hyn. Pan welent yr ystorm yn dyfod, rhedent bob amser i'r tŵr hwn. Yr oedd yr Arglwydd wrth amlygu ei Hun iddynt, yn gofalu rhoddi arbenigrwydd i'w drugaredd, i'w cymell i lechu yn ei chysgod. Yr enw cyntaf a roddodd arno ei Hunan i Moses, wrth ei anfon at blant Israel, oedd YDWYF. Ac er bod pob peth yn gynwysedig yn yr enw yna, eto rhag iddynt hwy fethu canfod y cysgod oedd iddynt ynddo, nid hir y bu heb gyhoeddi ei enw fel Duw trugarog. Yr oedd galw ei Hun yn YDWYF, sef un â phob digonolrwydd ynddo,—yn JEHOFAH, cyflawnwr ei holl eiriau,—yn gwneuthur y tro iddynt i ddechreu; ond wedi i'r bobl wrthryfela, trwy wneuthur y llo aur, yr oedd yn rhaid ei gael yn nes na hyny, cyn y gallent ei weled yn lloches iddynt. Nid oedd ei fod yn YDWYF holl-ddigonol, yn JEHOFAH, cyflawnwr ei eiriau, ddim yn ddigon o sail i dŷ gwrthryfelgar allu gobeithio

ynddo; am hyny y mae yn dyfod yn nes atynt, trwy gyhoeddi ei Hun yn "JEHOFAH, JEHOFAH, *y Duw trugarog a graslawn,*" —un sydd yn ddigon ffyddlawn i'w air i'w gyflawni, ac yn un sydd yn ddigon trugarog i faddeu y gwrthryfel, fel na byddai hwnw yn atalfa iddo gwblhau yr hyn a addawodd. Ac wedi iddo amlygu y *secret* iddynt, sef pa fodd i atal ei nerth i ddinystrio, cymerodd Moses fantais ar hyny, fel y gwnaeth Dalilah ar Samson: wedi iddi hi gael allan lle yr oedd cuddiad ei nerth ef, ataliodd ef i ddinystrio ei phobl hi mwy; felly, wedi cael gafael yn y drugaredd, daliodd Moses hon fel tarian rhwng y bobl a'r farn. Yr ydoedd wedi cyhoeddi ei drugaredd yn nghanol deddf Sinai; ond yr oedd hi yn bellach o lawer yno nag yn yr ail gyhoeddiad, sef ar ol gwneuthur y llo aur. Felly yr oedd hi yn y ddeddf,—"gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm *carant*, ac a *gadwant fy ngorchymynion.*" Dyna gysgod digonol i'r rhai sydd yn cadw y deddfau; ond wele y bobl wedi tori y ddeddf, ac yn dawnsio o flaen y llo, am hyny y mae yn rhaid cael cysgod amgen na hwnyna; a dyma fe,—"Yr Hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan *faddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod.*" Yr oedd trugaredd y ddeddf yn gwneyd y tro i'r rhai oedd yn ei chadw hi, ond y mae hon i'r rhai sydd wedi ei thori hi: am hyny at hon y byddai Moses yn apelio, pan yn methu apelio at ddim arall. Yr oedd ganddo bethau eraill i'w dadleu, sef cyfamod Duw. Byddai weithiau yn dywedyd, "Beth a ddaw o dy enw di? Pa le y bydd Jehofah, cyflawnwr yr addewidion, os dyfethi di y bobl hyn? Ond yr oedd gan yr Arglwydd ateb parod i gwestiwn fel yna: "Mi a'th wnaf di yn genhedlaeth fawr." Dyna Jehofah, cyflawnwr y cyfamod, o dan anrhydedd. Ond dyma ddadl arall, Num. xiv. 17, 18:—"Yr awr hon, gan hyny, mawrhäer, atolwg, nerth yr Arglwydd, fel y lleferaist, gan ddywedyd, yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd, yn maddeu anwiredd a chamwedd." Os na faddeui di, beth a wnei di i'r enw yna? Wel, ebe Duw, gan i ti ymaflyd yn fy nhrugaredd, "maddeuais yn ol dy air." Felly, os na fedrwn ninau ymaflyd yn yr enw Jehofah i wneyd heddwch âg Ef, y mae yr enw, "Yr Arglwydd sydd hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd," o fewn cin cyraedd ninau. Os na fedrwn lechu yn nghysgod yr

addewid, y mae lloches y lleidr ar y groes genym wed'yn. Nid oedd ganddo yntau yr un addewid,—dim ond trugaredd noeth, —"Arglwydd, cofia fi." Ac y mae y lloches yna fel cestyll y creigiau iddo y foment hon. Y mae trugaredd Duw, fel dinasoedd noddfa Israel, wedi ei chyfleu yn y modd mwyaf manteisiol i fod yn noddfa. Yr oedd y dinasoedd hyny yn fanteisiol i bob rhan o'r wlad. Yr oedd amryw o honynt ar fynyddoedd, i fod yn fanteisiol i drigolion y mynydd-dir, ac i fod yn hawdd eu gweled. Eraill ar y gwastadedd, er mwyn y rhai oedd yn byw yno. Un o honynt yn Basan, yn y gogledd; un arall yn terfynu ar yr anialwch yn y deheu; fel nad oedd raid i drigolion y cyrau pellaf syrthio trwy law y dialydd o eisiau lle i ddianc. Yr oedd tair o honynt o bob tu i'r Iorddonen, fel nad oedd raid i neb golli ei fywyd oherwydd methu cael rhyd yn hono. Nid oedd rhyddid i addoli ond mewn un ddinas; ond yr oedd cyfle i lofrudd gael ei fywyd mewn chwech. Yr oedd y ffyrdd iddynt, medd hanesion yr Iuddewon, yn cael eu cadw yn berffaith dda: nid oedd nac afon na nant ar y ffyrdd hyny yn cael ei gadael heb bont drosti, rhag y gallasai llifogydd rwystro y llofrudd i groesi heb hyny; ac ar bob croesffordd yr oedd mynegbost yn cyfeirio at y ddinas, ac yn ysgrifenedig arno, *Noddfa, noddfa*, fel nad oedd raid iddo aros am foment i ystyried pa lwybr i gymeryd. Y mae trugaredd yr Arglwydd yn gyffelyb. Y mae hon fel dinas wedi ei gosod ar fryn. Y mae hi goruwch y nefoedd, wedi ei hadeiladu yn dragywydd, medd y Salmydd; gellir ei gweled hi o bob man: nid rhaid i neb fyned ymhell i chwilio am dani; y mae hi yn gyfleus i bawb. Y mae hi yn cael ei chadw i filoedd: y mae yr Arglwydd o "fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arno:" "y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu;" "a bydd, cyn galw o honynt, i mi ateb; ac a hwy eto yn llefaru, mi a wrandawaf." Fel yr oedd y ddinas noddfa yn Israel i'r ymdeithydd fel i'r prïodor, felly y mae noddfa trugaredd i bawb a fföant iddi. Yr oedd hi yn gystal cysgod i'r Ninifeaid ag i'r Israeliaid. Nid oedd Ahab ddrygionus ddim yn cael ffoi iddi yn ofer mwy na Dafydd; ac y mae y ffordd i'r noddfa hon yn cael ei chadw yn dda bob amser, trwy ddangos fod y drugaredd hon yn un hawdd i'w cheisio,—"tiriondeb trugaredd." "Fel y tosturia tad wrth ei

blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef." "Trugaredd yr Arglwydd sydd yn parhau yn dragywydd." Ac os deui di at ryw groesffordd a bâr i ti ameu pa le y mae y noddfa, y mae mynegbost ar bob un o honynt, a geiriau comfforddus yn ysgrifenedig arno: dyma un o honynt:—"Y mae trugaredd gyda'r Arglwydd, ac aml ymwared gydâg ef." Mentra ymlaen! Dyma un arall:—"Efe a gymer drugaredd arno." Dyma un arall:—"Mawr ei drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg." Ffyrdd a mynegbyst i ddinas noddfa trugaredd ydyw yr holl bethau hyn.

Y mae ymaflyd yn nhrugaredd yr Arglwydd yn ffordd i wneuthur heddwch âg Ef. Yr anrhydedd mwyaf a allwn ni ei ddangos iddo ydyw hyn: "Yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a ddisgwyliant wrth ei drugaredd Ef." Y mae dynion yn hoffi gweled rhai yn apelio at eu trugaredd; ac anaml y mae hyd yn nôd y rhai gwaethaf yn siomi neb a wna hyny. Y mae y Caldeaid yn cael eu desgrifio fel rhai creulawn, heb dosturio, nac arbed, na chymeryd trugaredd; eto, er nad oedd ganddynt drugaredd, nid oedd neb yn apelio hyd yn nod at beth nad oedd ganddynt yn cael ei siomi; yr oedd ei einioes yn ysglyfaeth i bob un a elai allan atynt. Yr oedd Benhadad wedi gwneuthur gwerth ei ladd; ond pan apeliodd at drugaredd Ahab, "Fy mrawd yw efe," meddai y brenin, "ac nid fy ngelyn." A pho mwyaf ydyw dy drueni a'th ddrwg haeddiant, mwyaf oll o ogoniant fydd i drugaredd sylwi arnat. "Maddeu fy anwiredd," medd un, "canys mawr yw." Rhoddodd Alexander ryddid i un o'i gyfeillion i fyned at ei drysorydd i ofyn rhodd yn ei enw, gan adael iddo ef benderfynu ei maint; yntau a aeth, a gofynodd lawer iawn: ofnodd y trysorydd, wrth ei glywed yn gofyn cymaint, roddi iddo ei gais, ac aeth at y brenin, gan ofyn a roddasai efe genad iddo, ac adroddodd beth a ofynodd. "Do," meddai yntau, "a rhoddwch chwithau iddo ei holl ddymuniad: y mae gan hwnyna feddwl mawr am fy nghyfoeth i, onidê ni buasai yn meiddio gofyn cymaint." Felly, "yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a ddisgwyliant wrth ei drugaredd Ef;" ac y mae yn rhaid i bechaduriaid mawr ddisgwyl llawer wrthi. Ni fydd hyny ond dangos fod genym feddwl mawr am ei chyfoeth. "A mi a faddeuaf iddynt eu holl bechodau," medd

Efe trwy y prophwyd Jeremi, "a hyn fydd i mi yn enw llawenydd, yn glod, ac yn ogoniant," hyny yw, maddeu cymaint fydd yn ogoniant mawr i mi. Y mae yn cwyno trwy y prophwyd Ezeciel (pen. xxii. 30) nad oedd neb i apelio at ei drugaredd dros y wlad: "Ceisiais hefyd wr o honynt i gau y cae, ac i sefyll ar yr adwy o'm blaen dros y wlad, rhag ei dinystrio; ac nis cefais:"—beth oedd hyny? rhyw un i ddal tarian ei drugaredd rhwng y wlad a phicellau ei ddigofaint. Bu raid iddo ollwng y saethau, a thywallt y llid, am nad oedd neb i wneuthur hyny. Byddai Moses, fel y crybwyllwyd, yn arfer (yn ngeiriau y Salmydd) "sefyll ar yr adwy o'i flaen Ef, i droi ymaith ei lidiogrwydd." Yr oedd wedi cael allan y llwybr i hyn mor berffaith, fel y mae yr Arglwydd yn dywedyd wrtho, "Gad i mi lonydd, fel yr enyno fy llid yn eu herbyn," sef, paid a dal tarian fy nhrugaredd ar ffordd fy nigofaint. Ond dal y darian y byddai Moses yn wastad, a'r canlyniad a fyddai gwneyd heddwch dros y bobl: "Maddeuais yn ol dy air." Os ydych chwithau am wneyd heddwch, sefwch ar yr adwy, a deliwch darian ei drugaredd yn eich llaw. Nid yw y Duwdod byth yn ymranu yn ei erbyn ei Hun. Ni ollwng ei gyfiawnder yr un saeth yn dragywydd at darian ei drugaredd. Y mae deddfau lletygarwch mor uchel yn y Dwyrain, fel yr abertha y lletywr bob peth i gysuro neu i ddiogelu y neb a ddaw o dan ei gronglwyd. Nid ydyw o bwys pwy a fydd: pe byddai yn elyn iddo, os rhydd ei hun o dan ei amddiffyniad ef, bydd cymeriad y lletywr yn myned i warth, os bydd eisiau neu berygl arno tra yn ei dŷ ef. Tebyg i hynyna ydyw trugaredd Duw: pwy bynag a ymgysgoda dan ei chronglwyd hi, bydd cymeriad ei Pherchen yn myned o dan gwmwl, os caiff nac eisiau na pherygl fod arno. "Ymafled yn fy nerth i," sef yn fy nhrugaredd.

2. Ymaflyd yn nerth Duw, fel ag i wneyd heddwch âg Ef, ydyw ymaflyd yn ei gyfamod. Iaith y neb sydd yn ymaflyd yn ei drugaredd ydyw, "Pwy a wyr?" ond iaith y neb sydd yn ymaflyd ynei gyfamod ydyw, "Cofia y gair wrth dy was." Dyna ydyw cyfamod Duw:—trugaredd wedi dwyn cyfiawnder a gwirionedd yn feichiau drosti, i wneuthur pechadur yn fwy parod i'w choelio. "Duw yn ewyllysio dangos yn helaethach

ddianwadalwch ei gyngor, a gyfryngodd trwy lw," i'r diben o weinyddu cysur cryf i'r rhai oedd wedi ffoi i'r noddfa. Ni buasai trugaredd ddim yn ddigon i ni deimlo yn berffaith ddiogel yn ei chysgod heb gyfamod. Ni a allasem gredu ei bod yn fawr; ond buasai ein hanwybodaeth ni am natur y JEHOFAH yn ddigon i beri i ni ameu, er hyny, ein diogelwch yn ei chysgod; oblegid y gallasai fod rhywbeth na wyddem ni ddim am dano yn natur Duw, a hwnw heb fod yn groes i'w drugaredd, yn galw am ddinystrio gwrthryfelwyr. Ond y mae cyfamod Duw yn rhoddi sicrwydd i ni ynghylch maint a lle ei drugaredd, trwy ddangos yn iaith y bardd fod

> "Yr holl briodoliaethau mewn hedd
> O ochr trugaredd i gyd,"—

nad oes dim yn Nuw, nad all Efe yn gyson âg Ef ei Hun, daenu aden fawr ei drugaredd tros bechadur. Y mae cyfamodau dynion yn rhoddi hawl iddynt ar eu gilydd. Nid ydyw cyfamod yr Arglwydd wedi ei fwriadu i hyny, am nad all fod gan bechadur byth hawl arno; ond ei ddiben ydyw dangos dianwadalwch ei air, yr un fath ag y dywedir fod yr Arglwydd Iesu wedi ei wneuthur yn offeiriad trwy lŵ. Ni wnaed hyn i neb arall, am nad oedd parhad yn eu swyddau; ond gan ei fod Ef yn offeiriad yn dragywydd, fe 'i gwnaed trwy lw; felly, i roddi sicrwydd i bechadur fod ei drugaredd i fod heb gysgod tröedigaeth iddi, fe 'i cadarnhawyd â llw cyfamod. Y mae cyfamod Duw fel y tŷrau sydd ar furiau y ddinas gaerog. Y mae y muriau eu hunain yn gedyrn, ond y mae y tŷrau yn eu gwneuthur yn gadarnach, trwy eu bod yn llawn o filwyr i amddiffyn y mur. Yr oedd muriau trugaredd yn bur gedyrn, ond i roddi sicrwydd ychwanegol i ni, wele dŷrau cyfamod arnynt; ac y mae cyfiawnder, gwirionedd, a hollalluogrwydd, fel milwyr yn y tŵr yn amddiffyn i'r mur. Yr oedd y mur ei hun mor gadarn, fel y cafodd y Ninifeaid ddiogelwch o'i fewn, er nad oedd yr un tŵr arno; ond y mae y tŷrau yn peri i ni deimlo yn fwy diogel er hyny. Yr oedd plant Israel yn teimlo eu hunain yn llawer mwy diogel o fewn eu mur hwynt na'r Ninifeaid, am ei fod wedi ei fritho â thŷrau cyfamod. Y mae yr Arglwydd yn bur hoff o rwymo ei hun â chyfamod, er mwyn i ni deimlo sefydlogrwydd ei bethau. Trugaredd Duw

ydyw rhoddi dydd a nos; ond i ddangos sefydlogrwydd hyny, fe ddywedir ei fod wedi gwneuthur cyfamod â hwynt. Trugaredd ydoedd addaw pryd hau a medi; ond i ddangos sefydlogrwydd hyny, fe ddywedir ei fod wedi ei gadarnhau mewn cyfamod. Nid trugaredd natur sydd rhyngom ni a'r diluw, ond trugaredd wedi ei diogelu mewn cyfamod. Felly, nid trugaredd yn unig sydd genym yn noddfa am ein bywyd, ond trugaredd mewn cyfamod. Ac y mae y Bibl yn sôn am ymaflyd yn y cyfamod hwn; a dyna ydyw hyny, cydsynio â'i reolau, a chredu ei addewidion; neu mewn geiriau eraill, cydffurfio â'r amodau ar ba rai y mae yr Arglwydd wedi addaw bod yn noddfa. Y mae yn beio ar Israel am nad oeddent wedi trigo yn ei gyfamod: trwy beidio cydffurfio â'r amodau, aethant tu allan i derfynau y diogelwch: "Am hyny," medd y gwirionedd, "y trôdd Efe yn elyn iddynt." Ymaflyd yn y cyfamod, ydyw cadw at lythyren y cytundeb a wnaeth Duw; ac felly y mae pechadur yn cael enw neu garacter Duw o blaid ei ddiogelwch. Yr oedd Abraham yn eiriol yn dda dros y Sodomiaid; ond yr oedd arno ofn myned yn rhy bell: ac felly eu dinystrio a gawsant. Yr oedd Josua yn eiriol dros Israel, wedi eu gorchfygu wrth Ai; ond nid oedd ofn arno ef fyned yn rhy bell, am fod ganddo gyfamod i'w ddadlu: "beth a wnei i'th enw mawr?" Ac fe ddywedir mai er mwyn ei enw y byddai yr Arglwydd yn cyd-ddwyn â hwynt, ac yn maddeu iddynt. Gosod dithau dy hun yn nghysgod ei gyfamod, ti fyddi yn dra diogel. Fe wna er mwyn ei enw beth na byddi di dy hun ddim yn ei deilyngu. Y mae wedi rhoddi y cyhoeddiad allan, na thery efe neb yn y llwch, ac y mae y gair yna wedi ei sicrhau yn gyfamod. Syrthia, yna bydd yr enw o dy blaid;—er mwyn hwnw fe dy gyfyd o'r llwch, i'th osod gyda'r pendefigion. "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, oherwydd efe a arbed yn helaeth." Dyna air wedi ei sicrhau mewn cyfamod; pwy bynag a ymaflo ynddo, bydd yr enw rhyngddo â'r ddrychin.

Ond gall fod yma ambell feddwl yn sibrwd—"Yr oedd yr Arglwydd wedi gwneuthur cyfamod âg Israel ei Hun, ac felly yr oedd ganddynt hwy rywbeth i gydio gafael ynddo: pe buasai

hyny genyf finau, mi fuaswn yn ymaflyd ynddo am fy mywyd. Ond yr ydym wedi crybwyll eisoes y byddai Israel yn diddymu cyfamod eu Duw, trwy beidio trigo ynddo; a byddai Moses y pryd hwnw, a'r rhai ar ei ol ef, yn cofio y cyfamod gynt, sef yr un â'r tadau, ac yn troi hwnw yn gysgod i'r genedl. Gallwn ninau wneuthur yr un peth; os nad oes cyfamod personol rhyngom â Duw, cofiwn yr un gynt, sef yr un a wnaed gan y Tad a'r Mab, a llechwn yn nghysgod hwnw, hyd onid êl y llid heibio. Dywed wrth yr orsedd,—Yr wyt Ti wedi addaw rhoddi y cenhedloedd yn etifeddiaeth i'th Fab; un o'r rhai hyny wyf finau: a therfynau y ddaear i'w feddiant; ar hono yr wyf finau yn byw. Yr wyt wedi addaw rhoddi llawer yn rhan iddo: mi allaf finau ddyfod o dan yr enw yna. Cofia y cyfamod gynt, ac arbed fi. Iè, meddi, â thadau y rhai oedd wedi diddymu eu cyfamod personol eu hun, y gwnaed yr un gynt: nid oes genyf fi mor ddadl yna,—ni wn i ddim a oes perthynas rhyngof a'r neb yr oedd y cyfamod gynt wedi ei wneuthur. Nid yw hynyna ddim yn ddigon i dy rwystro di a minau i chwilio am noddfa ynddo, oblegid yr oedd cyfamod Duw â thadau Israel yn noddfa i'r "meibion dieithr" a ymaflent ynddo. Yn wyneb eu bod yn dywedyd, "Yr Arglwydd gan ddidoli a'm didolodd i oddiwrth ei bobl;"—"Naddo," medd yr Arglwydd, "ymafla di yn fy nghyfamod i, mi a'th ddygaf dithau hefyd i fynydd fy sancteiddrwydd." Os ymafli di yn y cyfamod gynt, mi a wnaf gyfamod personol â thi, ac fe fydd hwnw mor ddiogel a'r un gynt. "Mi a wnaf gyfamod tragywyddol â chwi, sef sicr drugareddau Dafydd;" hyny yw, bydd mor sefydlog a'r un a wnes i â Dafydd ei hun. Ymaflwch yn nghyfamod Duw, chwi ymaflwch yn ei nerth ef. Y mae gan ddynion hyder mawr yn y cyfamodau y maent yn eu gwneuthur â'u gilydd: ar gyfamodau y mae heddwch Ewrop, a'r byd bron oll, yn ymddibynu. Pe torid y cyfamodau, byddai y gwledydd fel crochan berwedig yn fuan: felly, cyfamod sydd yn diogelu heddwch ymherodraeth Duw. Fe lwyddodd y Gibeoniaid, trwy dwyll, i gael eu bywyd wedi ei ddiogelu gan Israel mewn cyfamod; ond ymhen tridiau, cafwyd allan mai cymydogion, ac nid dieithriaid, oeddent. Nid oedd grym, meddwn, yn y cytundeb mwy; tarawyd hwynt yn y fan: naddo, yr oedd

cyfamod rhyngddynt â min y cleddyf;—cawsant noddfa glyd yn ei gysgod, er mai trwy dwyll y gwnaed ef: a phan dorodd Saul y cyfamod â hwynt, ymhen canoedd o flynyddoedd, anfonodd yr Arglwydd newyn i'r wlad yn gosb am hyny. Os oes cymaint o nerth a hynyna mewn cyfamod oedd wedi ei wneuthur mewn twyll, pa faint raid fod nerth cyfamod Duw? Os ymafli di ynddo, bydd digon rhyngot a'r ergyd. Yr oedd y Gibeoniaid yn dawel arnynt, pan oedd y Canaaneaid yn cael eu rhifo i'r cleddyf gan Josua, er mai rhai o honynt oeddent hwythau: a dyna oedd yn gwneyd y gwahaniaeth, yr oedd y cyfamod yn noddfa iddynt, tra yr oedd y lleill heb yr un cysgod. Mynwch gyfamod rhyngoch a'r cleddyf, bydd eich trigfan wed'yn yn nghestyll y creigiau. Chwi ellwch, fel preswylwyr y graig, ganu, pan y bydd y cleddyf yn medi trigolion y gwastatir, sydd heb yr un noddfa. Ymaflyd yn nghyfamod Duw ydyw ymaflyd yn ei nerth.

3. Ymaflyd yn nerth Duw i wneyd heddwch âg Ef, ydyw ymaflyd yn ei Fab. Yr ydym trwy hyny yn ymaflyd yn y cwbl ar unwaith. Wrth ymaflyd yn ei drugaredd, ymaflyd mewn peth heb ddim rhwymau arni yr ydym: wrth ymaflyd yn ei gyfamod, ymaflyd yn ei drugaredd wedi rhoddi rhwymau arni ei hun yr ydym; ac heb yr un rheswm i'w roddi drosti, ond felly y rhyngodd bodd iddo Ef; ond wrth ymaflyd yn y Mab, yr ydym yn ymaflyd yn nghyfiawnder Duw. Wrth apelio at ei drugaredd, apelio at ewyllys da Brenin yr ydym; wrth ymaflyd yn ei gyfamod, cydio gafael yn ei air noeth yr ydym; ond wrth ymaflyd yn ei Fab, yr ydym yn cydio gafael yn ei gyfiawnder. Y mae yn werthfawr cael apelio at ei galon drugarog: y mae yn fwy fod genym ei air mewn cyfamod i ymaflyd ynddo; ond gwell na'r oll yw cael ymgysgodi o dan aden ei gyfiawnder; oblegid os na bydd heddwch i'r hwn a ymaflo yn y Mab, ni bydd Barnydd yr holl ddaear ddim yn gwneuthur barn. Fe dybir fod yn yr ymadrodd "ymafled yn fy nerth," gyfeiriad at waith yr euog yn rhedeg at yr allor i ymofyn amddiffyniad. Yr oedd y temlau gynt ymhob gwlad yn noddfa, ac yn enwedig yr allor; a mynych y byddai yr euog yn rhedeg i ymaflyd yn nghyrn hono, fel y darllenwn am Joab. Ymaflyd yn nerth Duw ydyw ymaflyd yn nghyrn allor

y groes, ac nid oes berygl i neb gael ei dynu oddiyno i'w ladd, oblegid y mae y gwaed sydd arni yn llefaru am heddwch iddo. Y mae y prophwyd Micah, v. 5, ar ol cyhoeddi yr addewid am ymddangosiad y Mesiah yn Bethlehem Ephratah, yn dywedyd gair hynod am dano :—"Hwn fydd yr heddwch." Y mae wedi dweyd cyn hyny, "y rhydd Efe hwynt i fyny, hyd yr amser y darffo i'r hon a esgoro esgor ; ond pan y cymer hyny le, "Hwn fydd yr heddwch." Fe wna hwn yn dda rhyngom a'n gilydd. Ac â hyn y cytuna geiriau yr apostol :—"Efe yw ein tangnefedd ni." Yr ydych yn cofio peth tebyg i hyn yn hanes Cymru ; yr oedd yma rywrai yn gwrthryfela o hyd yn erbyn Llywodraeth y Saeson, hyd nes y ganwyd mab i'r frenhines yn Nghymru, a thrwy hyny ddod yn Dywysog Cymru. Hollol briodol a fuasai dywedyd am hwnw, "Hwn a fydd yr heddwch." Y mae llawer cais wedi bod am wneyd heddwch parhaus rhwng y ddwy wlad o'r blaen, ond yn ofer : y mae y cleddyf wedi methu,—cyngor y doethion wedi methu ; ond 'hwn a fydd yr heddwch :' bydd Cymru a Lloegr yn cydgyfarfod yn hwn, fel ag i'w gwneyd yn un. Felly am y Mab,—y mae y nefoedd a'r ddaear wedi cydgyfarfod ynddo. Y mae yn Gyfaill i'r Tad, ac eto yn un o honom ni. Y mae enw Duw ynddo, eto ni raid i'w arswyd ein dychrynu ni. Y mae hefyd wedi ei dori o'r clai. Fel y daeth brenin Lloegr yn dywysog Cymru, felly y daeth Brenin y nefoedd yn Dywysog y ddaear. "Hwn," gan hyny, "fydd yr heddwch." Meddyliwch am y Mab ymhob cymeriad, yr ydych yn ymaflyd yn nerth Duw wrth ymaflyd ynddo. Edrychwch arno fel un i ddadleu ein hachos ni gerbron y Tad: "Os yn erbyn yr Arglwydd y pecha gŵr," meddai Eli, "pwy a eiriol drosto ?" Yr oedd Job yn teimlo yn gyffelyb : "Nid gŵr fel myfi yw efe, fel yr atebwn iddo, ac y delom ynghyd i farn. Nid oes rhyngom ni ddyddiwr a all osod ei law arnom ein dau" (Job ix. 32, 33). "Os soniaf ...... am farn, pwy a ddadleu drosof fi ?" (adn. 19.) Pwy hefyd ? Yr oedd llawer iawn gynt yn ymddibynu ar y dadleuwr. Y mae yn ddigon tebyg na buasai fawr o obaith i'r Sunamees hono am ei thŷ a'i thir, oni buasai fod gwas y prophwyd yno ar y pryd i ddywedyd gair drosti. Buasai amcan Haman yn sicr o gael ei gyraedd, pe buasai yno rywun heblaw Esther yn eiriol. Y mae yn

debyg na buasai brenin Persia yn rhoddi gorchymyn i adeiladu Jerusalem oni buasai mai Nehemiah ei drulliad oedd yn gofyn hyny iddo. Y mae yn dra thebygol y buasai y Tyriaid a'r Sidoniaid yn ceisio heddwch Herod yn ofer, oni buasai fod Blastus, yr ystafellydd, yn ddadleuwr drostynt. Felly, nid dibwys ydyw pwy fydd yn gofyn drosom ninau am heddwch yn y llys; ac os oes yma rywun am heddwch, "Hwn ydyw yr heddwch." Y mae yn gwybod y ffordd at galon ei dad. Gallesid meddwl fod Dafydd yn lled sicr o heddwch Saul wedi cael Jonathan i ddadleu drosto; ond fe fethodd y dadleuwr, er ei fod yn fab. Ond iaith Hwn ydyw, "Mi a wn dy fod bob amser yn fy ngwrandaw i." "Hwn," medd y Tad, "yw fy anwyl Fab; gwrandewch ef." Beth y mae yn ei ddywedyd? Wel, y mae yn dy gyfarch di yma yn awr, am fod ar ei galon ef wneuthur cymwynas i ti, fel y cyfarchodd y prophwyd y Sunamees hono:—"A oes a fynech di ei ddywedyd wrth y Brenin?" Y mae genyf *interest* yn y llys, ac yr wyf yn dymuno ei ddefnyddio o dy blaid di. Gwylia ateb fel hono, "Yn nghanol fy mhobl yr wyf yn trigo," hyny yw, nid oes arnaf eisiau dim; ond dywed fel y Tyriaid:—"Yr wyf yn deisyf cael tangnefedd." Ti a fyddi mor sicr o'i gael ag y bydd iddo Ef ei ofyn. Fe lwyr ddadleu dy ddadl di nes dwyn allan farn at wirionedd.

Edrychwch arno eto fel aberth;—"Hwn fydd yr heddwch," yn yr ystyr yma hefyd. Y mae rhai yn meddwl fod Sinai yn llosgi hyd entrych awyr, hyd nes y cymerodd Moses aberth, a'i ladd, ac i'r aberth ddiffodd y tân, chwalu y tywyllwch, ac atal i'r mynydd grynu; a chafodd pendefigion meibion Israel wledda yn ymyl yr allor, heb i'r Arglwydd osod ei law arnynt: felly y mae yr Arglwydd Iesu, fel aberth, wedi gwneuthur heddwch trwy waed ei groes Ef. Ac fel prawf o hyny, y mae Duw ei Hun wedi anfon y gair i "bregethu tangnefedd trwy Iesu Grist," ac yn aberth ei Fab yn "Dduw yr heddwch;" ac os oes yma rywun am heddwch, ymafled yn aberth y Mab. Ti a wnei felly heddwch â Duw. Y mae pob golwg a gymerwn ar y testyn yn dangos diogelwch pechadur yn fwy. Trwy ymaflyd yn yr aberth, y mae yn ymaflyd yn nghyfiawnder Duw, ac yn ei ddwyn o blaid ei fywyd. Yr oedd Haman wedi gwneuthur yn gall, trwy addaw deng mil o dalentau i'r brenin, i gael difetha

yr Iuddewon, fel na byddai lladd cymaint o'i ddeiliaid yn colledu dim ar y brenin am deyrnged. Yr oedd hyn yn rhoddi hawl i Haman ynddynt: fe ddywedir eu bod wedi eu gwerthu iddo i'w dinystrio, i'w difetha, ac i'w lladd. Ni ddylai pechadur byth deimlo fod ganddo *hawl* i heddwch â Duw; ond y mae yn gysur iddo feddwl er hyny, na fydd trysorau y brenin ddim ar eu colled wrth iddo ei gael. Os oedd gwaith Haman yn addaw talu deng mil o dalentau am yr Iuddewon yn rhoddi math o hawl gyfiawn, fel y tybid y pryd hyny, iddo i'w difetha hwynt, onid ydyw gwaith y Mab yn talu mwy o lawer i'r trysorau dros bechadur, yn rhoddi hawl gyfiawn iddo yntau ei gadw yn fyw? Ac iawn y gofynodd yr apostol, "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw." Yr oedd ar Haman ofn y buasai y golled yn y deyrnged, oddiwrth ddifetha cymaint o'r deiliaid, yn peri i'r brenin omedd ei ddeisyfiad, er ei fod yn gyfaill iddo: am hyny fe ofalodd barotoi ar gyfer hyn-yna trwy addaw digon i wneuthur y golled i fyny. Y mae y Dadleuwr yr ydym ni yn son am dano yn Gyfaill i'r Tad; ond ni buasai genym sicrwydd am heddwch er hyny, am y buasai y golled yn y deyrnged o ogoniant mor fawr, oni buasai iddo Ef ddarparu ar gyfer hyny trwy dalu i mewn i'r trysordy ddigon beth bynag i wneyd i fyny y golled fel na bydd y cyllid *(revenue)* ddim yn llai wrth i ni gael heddwch. "Efe yw yr Iawn." Fel hyn y mae yr heddwch yn dyfod yn sicr. Wrth ofyn heddwch mewn aberth, cofiwn mai gofyn trugaredd yr ydym; ond mewn aberth "sicr drugareddau Dafydd" ydynt, neu, fel y mae rhai yn darllen, "pethau cyfiawn Dafydd." Y mae ganddo Ef hawl ynddynt, fel yr oedd gan Haman yn yr Iuddewon. Heddwch seiliedig ar gyfiawnder ydyw yn y Mab. Fe ddywedir am un oedd yn gysgod o hono, sef Melchisedec, ei fod yn 'Frenin cyfiawnder, ac wedi hyny, Brenin heddwch.' Y mae yn gwneuthur heddwch, am ei fod wedi gwneuthur cyfiawnder yn gyntaf: "Brenin *cyfiawnder*, ac wedi hyny, Brenin *heddwch*." Pe buasem ni wedi gwneuthur yn dda, fel y dywedodd yr Arglwydd wrth Cain, oni chawsem oruchafiaeth? Ni fuasai yna yr un rhwyg rhyngom ni â Duw: ac er na wnaethom yn dda,—er bod yma anghydfod,—y mae pech-aberth wrth y drws: y mae modd trwy ymaflyd yn hwnw i

ni gael yr heddwch yn ol. Y mae y Bibl wedi ei fritho â hanes rhai yn cael heddwch mewn aberth. Arogl esmwyth aberth Noah a barodd i Dduw ddywedyd, "Ni chwanegaf felldithio y ddaear." Yr oedd digofaint yr Arglwydd yn dechreu yn Israel yn achos Corah, hyd nes i Aaron redeg, gyda'r thuser a'r arogldarth, 'a sefyll rhwng y meirw a'r byw.' Yr oedd yr angel dinystriol yn medi Israel i'r byd arall, oherwydd rhifo y bobl, nes cael aberth yn llawr dyrnu Arafnah. Y mae aberth eto yn ffordd i ninau gael heddwch. Ymaflyd yn y Mab, yr hwn sydd yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd, a bâr i Dduw ddywedyd, Ni ddigiaf wrthyt mwy; "nid oes lidiawgrwydd ynof."

Nid dieithr ydyw clywed dyn yn gofyn, "A pha beth y deuaf gerbron yr ARGLWYDD, ac yr ymgrymaf gerbron yr *uchel* DDUW?" Yr oedd prifddinas Edom gynt mor gadarn fel yr oedd bron yn anmhosibl ei chymeryd mewn rhyfel: dinas yn y graig oedd hi; wedi ei naddu o'r graig, a chreigiau o amgylch ogylch iddi. Yr oedd Dafydd yn gofyn gyda golwg arni, "Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?" A oes neb a ŵyr am fynedfa i mewn iddi? Ond er cadarned oedd, yr oedd yno un ffordd gyfyng i fyned i mewn. Felly y mae Duw mor uchel,—mor fawr,—nad oes genym ddim mesurau arno. Y mae y nefoedd yn uchel, ond y mae Duw yn uwch. Y mae uffern yn ddofn, yn bydew diwaelod, ond y mae Duw yn ddyfnach. Y mae y môr yn llydan, ond y mae Duw yn lletach. Y mae tragywyddoldeb yn fawr, ond y mae Duw yn fwy, oblegid y mae yn ei gynwys. Yr ydym ni, ddynion, yn rhywbeth yn ymyl pawb ond Duw. Yr ydym yn fawr iawn o'n cymharu â'r anifail; ac yn gyfryw na raid i'r angel gywilyddio wrth ein clywed yn ei alw yn frawd; ond yn ymyl Duw, yr ydym yn ddim,—yn llai na dim,—yn wagedd,—yn ysgafnach na gwagedd. Nid anmhriodol i ddyn, gan hyny, ydyw y cwestiwn, "A pha beth yr ymgrymaf gerbron yr uchel Dduw?" Pa fodd y gall y llai na dim gael sylw yr YDWYF? Pa fodd y gall yr ysgafnach na gwegi gael ffafr Pwyswr y mynyddoedd? Ond nid cwestiynau anorphen ydyw y rhai hyn heddyw. Y mae y ffordd i'r ddinas gadarn wedi ei datguddio;—y mae y modd i gael heddwch â Duw wedi ei amlygu. Y mae Duw ei hun

wedi dangos i ni pa le y mae ei nerth, fel y dangosodd Samson i'r Dalilah hono, ac y brysiodd hithau, wedi cael allan hyny, i gymeryd mantais arno, i'w wneuthur yn gyfryw na byddai raid iddi hi na'i phobl ei ofni mwy. Diolch i'r Arglwydd, ei fod wedi dangos i ninau, gyda pharch y dywedwyf, pa fodd i gymeryd y fantais arno, fel na bydd raid ei ofni fel gelyn mwy! Os wyt ti yn ofni hollalluogrwydd ei fraich, ymafla ynddi â'i drugaredd: os oes arnat arswyd ergyd, rheda i'w fynwes, ti a fyddi yn rhy agos ato i gael dy daraw: os wyt yn ofni ei lid Ef, ymafla yn y Mab, fel na all dy weled heb weled gwaed aberth ei Anwylyd. Yn wir, ti a wnei heddwch âg Ef.

[Ebrill, 1852].

## PREGETH XXII.

### BYW DAN NERTHOEDD Y BYD A DDAW.

HEB VI. 6.—"Ac a brofasant.........nerthoedd y byd a ddaw."

FEL y mae dyn yn gyfansoddedig o ddwy ran, sef y corff a'r enaid, y rhan weledig a'r rhan ysbrydol, felly y mae a fyno â dau fyd, sef y byd hwn a'r byd a ddaw, y byd gweledig a'r byd ysbrydol; ac y mae ynddo gyfaddasrwydd i ymwneyd â'r ddau. Y mae y rhan weledig o'i natur, sef ei gorff, yn ei uno â'r byd hwn; a'r rhan ysbrydol, sef ei enaid, yn ei gymhwyso i ddal cymundeb â'r byd ysbrydol. Y mae ei gorff ymhob pwynt yn dyfod i gyffyrddiad â'r ddaear; ac oni buasai fod ei natur wedi dyrysu, buasai ei enaid ymhob pwynt yn dyfod i gyffyrddiad â'r byd ysbrydol. Y mae angen y rhan iselaf o'i natur y fath fel ag y mae yn ein gwneuthur o angenrheidrwydd yn ddaearol; ac y mae angen y rhan ysbrydol y fath, fel ag y dylasai hono fod, oherwydd yr un angenrheidrwydd, yn ysbrydol. Y mae bod yn ddaearol, neu fyw dan ddylanwad y ddaear, yn un o delerau bywyd y corff; ac y mae bod yn ysbrydol, neu fyw dan ddylanwad y byd arall, yn un o delerau bywyd yr ysbryd.

Er mor angenrheidiol ydyw byw o dan ddylanwad y berthynas ddyblyg hon, eto y mae yn waith tra anhawdd ei gyflawni: naill ai y mae y byd hwn, oherwydd ei agosrwydd, yn myned a'r holl feddwl, a'r holl ofal; neu y mae y byd a ddaw, oherwydd ei faint a'i bwys, yn llyncu hwn i fyny yn gwbl. Y mae rhai, i fod yn Gristionogion, yn peidio a bod yn ddynion; ac y mae eraill, i fod yn ddynion, yn methu bod yn Gristionogion. Y mae rhai, wrth fyw i'r byd a ddaw, yn

methu byw i'r byd hwn; ac y mae eraill, wrth fyw i hwn, yn methu byw i'r hwn a ddaw. Canlyniad y dyryswch a fu ar ein natur ni yn y cwymp ydyw hyn. Buasai dyn mewn ystâd berffaith yn medru byw i'r ddau. Ni buasai y ddaear yn atal i'w feddwl esgyn i'r nefoedd, na'r nefoedd ychwaith yn ei sugno yn gwbl o'r ddaear. Yn gyffelyb i'r goeden, gwreiddiau yr hon sydd yn sugno nôdd y ddaear, a'i changenau a'i dail yn yfed gwlith y nefoedd. Felly, pe buasai dyn yn ei le, ni buasai fod ei gorff yn cael ei gynal ar y ddaear ddim yn atal i'w enaid gymdeithasu â'r nefoedd. Y mae meddwl fod gwrthdarawiad angenrheidiol rhwng y byd hwn a'r hwn a ddaw yn annheilwng i ddoethineb a daioni y Creawdwr. Y mae cysondeb perffaith yn y pethau y mae y ddau fyd yn eu gofyn. Nid yw amser yn gofyn dim croes i ofynion tragywyddoldeb; na thragywyddoldeb ychwaith yn gofyn dim y mae amser, fel y cyfryw, yn ei geisio. Y mae ufudd-dod perffaith i holl ofynion y ddaear yn cydsefyll âg ufudd-dod perffaith i holl ofynion y nefoedd. Ond, er bod gofynion y ddau fyd yn hollol gyson, y mae gan y byd hwn annhraethol fwy o ddylanwad arnom na'r byd arall: a'r achos o hyny ydyw, fod yr hyn oedd yn ein natur ni yn ein cymhwyso i gymdeithasu â byd arall, yn iaith y Bibl, yn farw; tra y mae pobpeth sydd yn ein cymhwyso i ddal cymundeb â'r byd hwn, yn fyw. Yr ydym wedi marw i dragywyddoldeb, ond yn fyw i'r ddaear. Yr ydym trwy gyfrwng y synwyrau corfforol mewn cysylltiad agos iawn â'r byd presenol; ond y mae y synwyr mawr hwnw, oedd yn ein cysylltu â'r byd dyfodol, wedi ei golli trwy bechod; am hyny y mae byw dan ddylanwad y byd hwnw yn galedwaith i ni yn awr. Y mae gan oleuni yr haul effaith fawr arnom ni sydd yn gweled; y mae yn llywodraethu ein symudiadau i raddau mawr; ond nid oes ganddo ddim ar y dall,—nid ydyw yn bod iddo ef: o'i ran ei hun, yr un peth iddo ef ydyw teithio ganol nos a chanol dydd; felly yr ydym ninau yn ddeillion i'r byd a ddaw, ond yn gweled i hwn: am hyny y mae gan bethau hwn ddylanwad mawr arnom, tra nad nad oes gan bethau y llall ond ychydig neu ddim dylanwad. Ond y mae pawb sydd yn addef byd arall, yn meddwl y dylai fod gan y byd hwnw ryw gymaint o ddylanwad neu effaith

arnynt; eto y mae y rhai sydd yn addef ac yn dymuno hyn, oherwydd llygredigaeth eu natur yn gorfod teimlo fod y byd hwn yn rhwystr mawr i hyny. Er na fuasai yn rhwystr i greadur perffaith, y mae yn fagl i rai syrthiedig. Y mae ei berthynasau yn fynych yn cael eu teimlo i fod yn demtasiynau,—ei fwyniant yn tueddu i sugno'r enaid rhag rhoddi ei serch yn y nefoedd, ac hyd yn nod ei ofidiau yn anghymhwyso yr enaid i ddal cymundeb uchel â phethau y byd a ddaw. Y mae pleserau yn peri i ni anghofio fod byd ar ol hwn, ac y mae gofidiau yn ein gwneuthur yn rhy weiniaid i feddwl am dano. Y mae hyn wedi peri i rai o'r saint, er mwyn cael cymundeb â'r byd arall, gefnu i raddau mawr ar hwn. Ymneillduant o ganol y dyrfa, ymgadwant rhag holl rwymau perthynasol y ddaear,—hyd y mae ynddynt anghofiant y byd hwn, er mwyn cofio yr hwn a ddaw. Y maent mewn ystyr yn peidio a byw, er mwyn ymbarotoi i farw. Y mae eraill nad ydynt yn myned i'r eithafion yna, eto y mae y byd yn ei ystyr goreu yn farw iddynt, a hwythau iddo yntau. Nid oes ganddynt lygaid i weled ei degwch, na chlust i glywed ei fiwsig. Y mae y greadigaeth iddynt hwy megis pe na byddai. Y maent yn hau ymhob ystyr mewn dagrau. Y mae tragywyddoldeb wedi diddymu amser iddynt hwy; a chan faint eu pryder ynghylch y byd a ddaw, methant fwynhau dim o hwn. Y mae dosbarth arall wedi eu siomi gan y byd hwn; am hyny y maent yn penderfynu na fyddant byw o dan ei ddylanwad: gadawant ef gyda diflasdod; ond y maent yn gollwng dros gôf mai yn eu calon y mae y byd, ac y gellir byw mor wirioneddol o dan ei ddylanwad yn unigedd y diffaethwch ag yn nghanol cynhwrf y ddinas. Y mae y byd hwn oddimewn i ni, ac oddiallan hefyd; ac y mae y byd oddimewn yn fynych yn cael mwy o nerth, a mwy o ddylanwad arnom, trwy i ni adael y byd oddiallan. Ond nid ydyw yr ychydig ddosbarthiadau hyn ond eithriad i'r rheol fawr. Nid yw lliaws y dyrfa yn meddwl dim am dragywyddoldeb, na'i ddylanwad ychwaith. Nid yn unig nid ydynt yn byw o dan "nerthoedd y byd a ddaw," ond nid ydynt yn gofalu dim ynghylch a oes y fath beth a "byd a ddaw." Y maent o'r ddaear yn ddaearol;—yn byw ar y ddaear, ac yn byw i'r ddaear. "Eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'u

trigfeydd o genhedlaeth i genhedlaeth: am hyny enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain." Ond nid ydyw hyn yn peri iddynt barhau er yr holl ofal,—"tebyg ydynt i anifeiliaid a ddifethir." Gan mai dyma agwedd gyffredin y byd, ac ond odid agwedd y rhan fwyaf o honom ninau, yr oeddwn am alw eich sylw at y pwys mawr sydd mewn i ni fyw o dan ddylanwad y byd tragywyddol: "a brofasant nerthoedd y byd a ddaw." Ni chawn gymeryd amser i brofi mai y byd tragywyddol a olygir wrth "y byd a ddaw" yn y testyn. Y mae rhai yn meddwl hyn, ac eraill yn meddwl mai yr oruchwyliaeth efengylaidd a olygir. Ond yr oedd yr oruchwyliaeth hono wedi dyfod i mewn yn awr, am hyny feallai mai nid cwbl briodol fuasai ei galw hi yn "fyd a ddaw;" ac os yr oruchwyliaeth a olygir, yr oedd hi yn ddyledus am ei nerth mawr ar y meddwl i'w pherthynas â thragywyddoldeb. Modd bynag, ni a gymerwn y testyn, gan feddwl nad ydym yn gwneuthur cam âg ef, yn sylfaen i sylw felly,—*Y dylem ni fyw o dan ddylanwad y byd tragywyddol,—o dan "nerthoedd y byd a ddaw."*

Yn ein hymdriniaeth â'r mater hwn, daw pedwar peth o dan ein sylw:—

I. Ni a sylwn ar rai pethau anhebgorol angenrheidiol tuag at ddarparu y meddwl i fyw felly.

II. Pa fodd yr ydym i fyw o dan "nerthoedd y byd a ddaw."

III. Y manteision sydd genym i fyw felly.

IV. Y daioni a ddeilliai o hyny.

I. Rhai pethau anhebgorol angenrheidiol tuag at ddarparu y meddwl i fyw dan ddylanwad "nerthoedd y byd a ddaw."

1. Llwyr argyhoeddiad o *fod* y byd hwnw. Nis gallwn fyw o dan ddylanwad yr hyn nad ydym wedi ein llwyr argyhoeddi sydd yn bod. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gwybod am *fod* y byd, a gwybod am y *dull* a'r *modd* y mae yn bod. Y wybodaeth gyntaf, ac nid yr ail, sydd yn gyrhaeddadwy i ni yma. Pan edrychom ar y ffurfafen, y mae ein llygaid yn tystio wrthym fod yna fydoedd yn bod, ond dyna yr oll. Y mae trefniant tumewnol y rhai yna yn guddiedig hollol oddiwrthym; ond ni wadem ni ddim nad ydynt yn bod o eisiau deall pa fodd y maent yn bod. Felly dylem fod yn gwbl sicr yn ein meddwl fod byd arall yn bod, er nas gallwn wybod am ddull y

byd hwnw, nac am y modd y mae ei drigolion yn hanfodi,—beth ydyw eu teimladau a'u gorchwylion. Tebygol ydyw ei fod yn fyd tra gwahanol i'r byd hwn,—yn gymaint felly fel nad allasem yn ein 'stâd bresenol ddeall dim am dano pe buasai ei gyfansoddiad wedi ei ddatguddio i ni. Nid ydyw y wybodaeth hon o bwys i ni; ond er nad ydyw y wybodaeth o'r hyn a fyddwn yn bwysig y mae o bwys mawr i ni fyw o dan ddylanwad y gred y *byddwn* ni. Nid oes yr un gwirionedd yn fwy pwysig yn bod na bod dyn yn anfarwol, ac felly yn ddeiliad y byd tragywyddol; ond nid oes yr un gwirionedd yn cario llai o ddylanwad ar ddynion yn gyffredin na hwn. Y mae profion o hyn yn ein cyfarfod ymhob man. Tra y chwilir yn ddyfal ynghylch pethau dibwys iawn;—y treulia ac yr ymdreulia y doethion i brofi fod rhyw hen ddinas wedi sefyll ar ryw ysmotyn penodol;—fod brwydr wedi ei hymladd mewn un lle, ac nid yn y lle arall;—fod afon wedi codi ar ryw fynydd arbenig, a'i bod hi gynt yn arllwys i'r môr mewn lle gwahanol i'r hwn y mae hi ynddo yn awr, a phethau cyffelyb;—gadewir y cwestiwn mawr ynghylch y byd a ddaw hyd at ryw amser mwy cyfaddas; neu gadewir ef mewn rhyw gongl o'r meddwl fel gwirionedd marw,—rhy wir i'w brofi, a rhy eglur i feddwl am dano. Os oes byd o'r fath yn bod, bydded felly; os nad oes, bydded felly hefyd. Fel hwnw gynt, nid ydynt yn gofalu am ddim o'r pethau hyn; pan mewn gwirionedd, hyn ddylai fod ein gofal cyntaf, a'n gofal mawr. Os oes byd felly yn bod, dylai y meddwl am dano ein llywodraethu ymhob man. Os nad oes, dylem waredu ein cyd-ddynion o'r caethiwed a achosir gan ofn byd o'r fath. Y mae y profion o'r gwirionedd hwn yn lliosog, ond y tri hyny a gawn ni ddefnyddio yn awr:—(1.) Natur dyn. (2.) Cyfansoddiad y gymdeithas ddynol. (3.) Yr oraclau dwyfol.

1. Gallwn gasglu fod "byd a ddaw" oddiwrth ein natur ein hunain. Yr ydym wedi ein cyfaddasu yn hynod i'r byd hwn: gallwn ddarllen doethineb y Creawdwr yn y modd y mae ein natur ni yn cyfateb i'r hyn a elwir yn natur allanol, yn y cydgordiad perffaith sydd rhwng ein cyrff a'r byd yr ydym ynddo. Eglur yw fod y naill wedi ei wneuthur ar gyfer y llall. A phe gallasai y fath beth fod ag i ddyn gael ei symud i fyd heb awyr na dwfr na goleuni ynddo, pe byddai byd o'r fath a

thrigolion ynddo, byddai yn amlwg iddynt oll mai deiliad byd arall gwahanol i'w byd hwynt oedd dyn; ac oddiwrth ganfod nad oedd dim yn eu byd hwy yn cyfateb i'r synwyrau sydd ganddo ef, gallasent gasglu fod rhyw fyd gwahanol iawn i'w byd hwy yn bod yn rhywle. Felly y gallwn ninau, oddiwrth nad oes cydgordiad rhwng enaid dyn yn ei alluoedd a'i ddymuniadau a'r byd hwn, gasglu fod byd gwahanol iawn i hwn yn bod, ac mai un o ddeiliaid hwnw ydyw enaid dyn. Gan fod yr Arglwydd wedi gwneuthur y naill beth ar gyfer y llall, ac wedi cyfansoddi ein meddyliau ni y fath fel nad allwn feddwl am effaith heb achos iddo; pa duedd bynag a gawn ni yn ein natur, yr ydym yn casglu fod rhywbeth ar ei gyfer yn y natur fawr o'n hamgylch. Pa argraff bynag a gawn ni ar ein hysbryd, yr ydym yn casglu fod rhywbeth yn rhywle yn cyfateb iddo, fel y mae yr argraff sydd ar y cwyr yn cyfateb i'r toriad sydd ar y sêl. Ond y mae argraffiadau ar ein henaid ni, ag yr edrychwn ni yn ofer am y sêl a'u gwnaeth yn y byd hwn. Y mae synwyrau (os goddefwch yr ymadrodd) yn perthyn i'n hysbryd ni nad oes dim ar y ddaear yn cyfateb iddynt. Fe ddywedir fod y byd yn nghalonau dynion; oblegid oni buasai ei fod o'n mewn, nis gallasem wneuthur dim âg ef oddiallan; ond y mae tragywyddoldeb hefyd yn ein calonau ni. Beth sydd yn cynhyrfu y cybydd i bentyru cyfoeth?—yr oferddyn i ymwerthu i oferedd? a hoffwr pleser i chwilio am dano yn ddiball? Y byd, yn ei gyfoeth, ei oferedd, a'i bleser, sydd yn eu calon. Beth ydyw y dymuniadau mawrion hyny sydd yn yr enaid, yr ydym yn teimlo mai yr un peth fyddai ceisio eu diwallu â dim o bethau y ddaear ag a fyddai ceisio llenwi y môr trwy daflu i mewn iddo un o'r graian sydd ar ei làn? Beth ydynt? tragywyddoldeb sydd yn y galon. Yr ydym yn gweled y nefoedd ar y ddaear weithiau. Oni welsom ni pan ar làn dwfr clir holl amrywiaeth y ffurfafen yn cael ei ddangos ynddo? Nid oedd yno ddim gwirioneddol,—dim ond y ddelw,—y cysgod; ond oni buasai fod gwirionedd yn rhywle, ni fuasai y ddelw yno. Oni buasai fod ffurfafen uwchben, ni fuasai yr un i'w chanfod yn y dwfr; felly pan y mae ein mynwes ninau yn llonydd, heb ei chynhyrfu gan nwydau a chwantau, gallwn yn hawdd weled yn ei dyfnderau adlewyrch-

iad o ffurfafen y byd a ddaw. A oes yna rywbeth gwirioneddol? Nac oes: dim ond yr adlewyrchiad; ond pe na buasai gwirionedd yn bod, ni fuasai yr adlewyrchiad yn bosibl. Y mae bod y byd a ddaw o'n mewn yn brawf ei fod yn bod oddiallan hefyd.

Y mae hi yn ddeddf berthynol i bob natur, dybygid, fod ei dymuniadau a'i gwrthddrychau yn cyfateb i'w gilydd. Byddai meddwl yn groes i hyn yn feddwl caled am Dduw da. Fel nas gall dwfr redeg yn uwch na'i ffynhonell, felly nis gall dymuniadau yr un natur fyned yn uwch na gwrthddrychau y natur hono. Y mae ystumiau y pysgodyn yn y dwfr yn brawf fod ei ddymuniadau a'i wrthddrychau yn gyfartal. Y mae chwareuad y march, yr anifail bras, a'r oen, yn dangos na allant ddymuno mwy; ond y mae dyn, ar ol myned trwy holl gylch pleser, yn gofyn am y cyfan, "Pa beth a wna?" Y mae ei ddymuniadau yn esgyn yn annhraethol uwch na dim o'r gwrthddrychau sydd o'i amgylch. Paham? "Y byd a ddaw" sydd yn ei galon. Y mae ei ddymuniadau fel yr ehedfaen: gall hwnw gael ei ysgogi am ychydig gan rywbeth yn ei ymyl, ond buan y gwelir ei fod yn cyfeirio at rywbeth draw, draw, ymhell,—fod rhyw berthynas ddirgelaidd rhyngddo â'r pegwn, ac er y gall ei fod ymhell oddiwrtho, ac er y gall pethau eraill beri iddo ymsymud ychydig yn ol ac ymlaen, eto nid oes gan ddim allu i'w ddal yn llonydd ond y pegwn; felly enaid dyn: y mae pethau bychain y ddaear yn ei swyno am ychydig, ond buan y dengys fod rhywbeth draw, draw, tuhwnt i ddim o'r pethau gweledig yn ei sugno,—fod perthynas ddirgeledig rhyngddo â "byd a ddaw." Y mae math o anfeidroldeb yn y fynwes, yr hyn sydd yn awgrymiad cryf fod tragywyddoldeb yn ein haros.

(2.) Mae cyfansoddiad y gymdeithas ddynol yn awgrymu yr un peth. Y mae pob golwg a gawn ni arni yn sicrhau mai ystâd ragbarotöawl i ystâd uwch ydyw; oblegid y mae hi yn ddirgelwch anmhosibl ei egluro ar bob golygiad arall. Y mae hi yn fynych yn berffaith groes i'r hyn y mae ein calon ni yn ei ddywedyd a ddylai fod. Y mae y tlawd yn cael ei dreisio, a barn a chyfiawnder yn cael eu trawswyro; cyfiawnder yn syrthio yn yr heol, a barn yn methu dyfod i mewn; ac

oni buasai fod genym sicrwydd fod Un uwch na'r uchaf yn gwylied i unioni y cam yn rhywle, buasai agwedd bresenol pethau yn ddirgelwch tywyll, du, i ni. Y mae y byd, er ei ddechreuad, wedi bod yn ymwthio ymlaen at ryw ystâd lle y byddai cyfiawnder ar yr orsedd, ac anwiredd yn y carchar; ond hyd yn hyn, y mae heb ei chyraedd hi. A phe byddai y fath ystâd yn gyrhaeddadwy ar y ddaear, pa beth a atebir am y cenedlaethau ar ol cenedlaethau sydd wedi disgyn i ddistawrwydd, a'u cam heb ei unioni, os nad oes byd ar ol hwn i wneuthur hyny? Ni a welwn yn y greadigaeth mai awdwr trefn ydyw Duw: y mae pobpeth yn ymddangos yn ei le ei hun; nid yw y planhigyn sydd yn gofyn gwres mawr i beri iddo dyfu ddim i'w gael yn y Gogledd, na'r hwn a all ffynu yn nghanol y rhew a'r eira ddim i'w gael yn y Dwyrain. Y mae yr anifail wedi ei roddi yn yr hinsawdd hwnw sydd yn briodol i'w natur;—y pysgodyn yn yr elfen y gall fyw ynddi. Paham? Awdwr trefn ydyw Duw. Ond fe fu amser ar y greadigaeth pryd nad oedd y drefn ogoneddus hon yn bod: *chaos*, cymysgfa oedd y cyfan. Er yr edrychwn ni yn awr gyda phleser ar y ddaear, ac ar y nefoedd; y naill wedi ei llwytho â llawnder, a'r llall wedi ei harddu â phob prydferthwch. I ni, arall yw gogoniant y dydd, ac arall yw gogoniant y nos; arall yw gogoniant y tir, ac arall yw gogoniant y môr; ond bu adeg ar y byd pan nad oedd yr un ffurfafen i wahanu rhwng y nefoedd a'r ddaear,—dim i wahanu rhwng y goleuni a'r tywyllwch,—pan oedd y tir a'r dwfr fel wedi ymgymysgu,—yr holl elfenau yn un gymysgfa gyffredinol. Ond o'r gymysgfa yna y darfu i Ysbryd Duw lunio byd tra gogoneddus, yn llawn o drefn, a gosod pobpeth yn ei le ei hun. Y mae agwedd y byd moesol yn awr yn gyffelyb i'r hyn a fu agwedd y byd naturiol yn y dechreu. Y mae y goleuni a'r tywyllwch heb eu gwahanu;—y nefoedd a'r ddaear heb yr un ffurfafen rhyngddynt. Prin y mae sychdir rhinwedd yn cael ymddangos. Nid yw diluw anwiredd ddim wedi ei gasglu i'w le ei hun. Ond y mae yr un Duw ag sydd yn Awdwr trefn yn y greadigaeth naturiol, yn sicr, ymhen gronyn, o fod yn Awdwr trefn yn yr un resymol; ac y mae mor sicr o gyhoeddi uwchben hono ag ydyw o fod wedi cyhoeddi uwchben y gyntaf, "Wele, da iawn ydoedd." Ac fel

y cafodd y gyntaf Sabbath i edrych ar bob peth yn ei le ei hun, y mae Sabbath yr ail yn dyfod, ar yr hwn y gellir edrych ar bobpeth ynddi hithau yn ei le ei hun. Fel yr esgorodd annhrefn ystâd gyntefig y ddaear ar drefn hon, felly fe esgor annhrefn amser ar drefn tragywyddol leb. Y mae cymysgfa y byd hwn, yn ei berthynas â *character* yr Hwn a'i gwnaeth, yn ddadl gref dros fòd y byd arall.

(3.) Ond y lle y cawn ni yr holl awgrymiadau yma wedi eu sicrhau, a'r tybiau wedi eu gosod ar sylfaen gadarn, ydyw yr oraclau dwyfol. Yr ydym yn darllen mewn hanes mai un peth a barodd i ddarganfyddwr America feddwl fod gwlad fawr yn y gorllewin, oedd cael ar lan y môr rai cynyrchion dieithr i'r gwledydd adnabyddus, a phethau o waith llaw dyn gwahanol iawn i waith neb yn yr hen fyd; ond nid oedd y pethau hyn ond awgrymiadau;—nid oeddent yn sicrhau ei bod, ond yn unig yn gwneyd hyny yn debyg. Ond pan ddarganfyddodd ef y wlad, a dyfod yn ol i ddywedyd ei hanes, nid tybiaeth ydoedd y peth mwy, ond ffaith,—sicrwydd. Yn gyffelyb yr oedd dyn, wrth sylwi ar lànau môr bywyd, yn canfod aml i beth oedd yn berffaith ddieithr i'r ddaear, ac oedd yn ymddangos i fod yn gynyrch rhyw fyd arall; ond nid allai yr holl bethau hyn ddim ond llanw ei feddwl â chwestiynau heb roddi atebion hefyd iddo. Ond y mae y Bibl wedi gwneyd i ni gyda byd arall, yr un peth ag a wnaeth Columbus i Ewrop gydag America, sef sicrhau fod y fath le yn bod. Y mae bodolaeth y llyfr ynddo ei hun yn brawf mor gryf a'r un dystiolaeth bendant sydd ynddo o fod byd arall, oblegid y mae pob peth o'i amgylch yn tystio mai nid un o lyfrau y ddaear ydyw. Yr ydym yn teimlo wrth ei ddarllen nad allasai gael ei gynyrchu gan ddim o bethau y byd hwn; fel nad allwn roddi cyfrif am ein natur ein hun, nac am drefn y byd yr ydym yn byw ynddo, os nad oes byd a ddaw; felly y mae yn anmhosibl rhoddi cyfrif am y llyfr hwn, os nad oes byd felly; ac hefyd nis gallwn agor y Bibl heb deimlo ein hunain yn cyffwrdd â byd arall. Fel y mae un o gynyrchion y dwyrain yn trosglwyddo ein meddwl ni i'r wlad hono, neu un o olion yr oesau gynt yn peri i ni fyw fel yn yr oes hono; felly y mae y Bibl i'r byd arall,—y mae yn ein cysylltu ni ymhob pwynt â byd arall. Os olrheiniwn ni y per-

-onau y mae yn eu darlunio, ni a'u gwelwn hwynt yn diweddu, naill ai yn nhrueni neu yn llawenydd y byd a ddaw. Os ymofynwn beth oedd yn ysgogi y rhai y mae yn eu desgrifio i weithredu fel y gwnaethant, cawn weled eu bod yn byw o dan "nerthoedd y byd a ddaw." Os darllenwn ei hanesyddiaeth, y mae hwnw yn cysylltu holl ddigwyddiadau amser â'r byd a ddaw; neu ei farddoniaeth, yr ydym yn teimlo fod hono wedi cael ei hysbrydoliaeth o'r byd a ddaw. Yn ei addewidion yr ydym yn gweled pelydr o ogoniant nefoedd y byd a ddaw; yn ei fygythion, adlewyrchiad o dân uffern y byd a ddaw. Y mae ein deall ni yn dywedyd, nas gallasai neb ar y ddaear ddesgrifio pethau fel hyn; ac eto y mae ein calon yn dywedyd fod y desgrifiad yn rhwym o fod yn wir. Ac er bod goleuni y deall yn diweddu mewn tywyllwch, y mae ein calon ni yn dywedyd mai nid yno y mae y diwedd: ac yn y fan y mae rheswm yn diweddu, y mae y Bibl yn dechreu. "Marw," medd y deall: "y mae rhywbeth pellach na hynyna," medd y galon; ac y mae y Bibl yn dyfod ymlaen i'w chadarnhau hi:—"ar ol hyny bod barn." "A oes rhywbeth," medd y deall, "ar ol bywyd o ymwerthu i ddrygioni?" "Yr wyf yn ofni fod," medd y galon: "Oes," medd y Bibl, "y rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragywyddol." "Ai nid oferedd," medd y deall, "ydyw gwasanaethu Duw, gan fod yr un ddamwain yn digwydd i bawb?" "Feallai nad ê," medd y galon. "Nag ê," medd y Bibl,—"y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol." Fel hyn y mae y Bibl, drwy fod yr hyn a ddywed mor bell tu hwnt i'r hyn a allai y deall ei gael allan, ac eto mor gyd-gordiol â'r hyn y mae y galon yn ei deimlo sy mewn bod, yn rhoddi sicrwydd i bawb fod "byd a ddaw." Nid yw y byd a ddaw ddim wedi ei adael yn ddi-dyst: edrychwn pa sut y mae rhyngom ni a'r tystiolaethau: y mae yn rhaid iddynt droi yn argyhoeddiad yn ein meddwl cyn y gallwn ni fyw o dan ei nerthoedd ef.

2. Y mae argyhoeddiad meddwl fod *perthynas* rhyngom ni â'r byd hwnw yn llwyr angenrheidiol tuag at i ni fyw o dan ei nerthoedd. Perthynas ydyw sylfaen dyledswydd: er bod y byd a ddaw yn bod, nid oes dim perthynas rhyngddo â'r anifail; am hyny, pe medrai, nid oes dyled arno fyw dan ei ddylanwad. Y mae America yn bod i bawb; ond y mae hi yn

bod yn wahanol iawn i'r rhai hyny sydd yn meddwl symud yno i fyw ymhen ychydig fisoedd, i'r hyn ydyw i bawb eraill. Y mae pob newydd o'r wlad, a phob desgrifiad o honi, yn suddo yn ddyfnach i'w meddyliau hwynt nag i feddyliau neb arall. Chwiliant bob man i gael gwybodaeth yn ei chylch: holant yn fanwl am ei chynyrchion, a'r pethau angenrheidiol i fyned iddi hi. Y maent yn dal pobpeth yn rhydd iawn yma: fel y patriarchiaid gynt, nid ydynt yn amcanu gwneuthur iddynt eu hunain ddinas barhaus. Mewn gair, y maent yn byw ymhob peth o dan nerthoedd,—o dan ddylanwad—cyfandir y gorllewin. Ond paham hwy yn fwy na rhai eraill? Perthynas sy rhyngddynt âg ef. Felly y mae yn anhebgorol angenrheidiol fod y berthynas sy rhyngom ni â'r byd arall yn fywiog o flaen ein meddwl, cyn y gallwn ni fyw o dan ei nerthoedd. Y mae y berthynas sy rhwng y ddau fyd mor agos, fel nad ellir ei desgrifio yn fanwl. Fel y mae cysgod gwrthddrych yn cyfateb i'w ffurf, megis mewn dwfr y mae wyneb yn ateb i wyneb, felly y mae y pethau sydd ar ein cyfer yn y byd a ddaw i'r pethau a gyflawnwyd genym yn hwn. Y mae ystyr ymha un y mae agoriadau y byd a ddaw genym ninau. Y mae yr hyn yr ydym ni yn ei rwymo yma yn cael ei rwymo yno, a'r hyn yr ydym ni yn ei ryddhau yma yn cael ei ryddhau yno: hyny yw, beth bynag sydd yn cymeryd lle ar y ddaear, y mae rhywbeth yn cyfateb iddo yn cymeryd lle yn y byd a ddaw. Y mae y byd hwn yn gyffelyb i olwynion mewnol yr awrlais, ond y byd arall ydyw y wyneb. Y mae y bysedd yno yn dangos holl ysgogiadau yr olwynion yma. Cyn gynted ag yr ysgogo y meddwl yma, y mae y byd a ddaw yn gosod ei sêl ar yr ysgogiad nes peri iddo barhau. Y mae dagrau amser wedi eu rhoddi mewn costrel yno. Y mae y pechod sydd yn cael ei gyflawni yn bur ddifeddwl yma yn cael ei selio mewn côd yno, a'r anwiredd yn cael ei wnïo i fyny. Yr hyn a feddyliwyd oedd yn wagedd yma, fe geir ei fod yn sylwedd yno. Y seiniau a feddyliwyd oedd wedi darfod yma pan fuont feirw yn awyr y ddaear, fe'u clywir yn bur eglur eto yn awyr y byd a ddaw. Y mae Job yn dywedyd fod yr Arglwydd yn peri iddo feddianu pechodau ei ieuenctid; felly fe bâr y byd a ddaw i ni feddianu eilwaith bobpeth y byd hwn: fe rydd eiddo Cesar i Cesar. Byd marwol

ydyw y byd hwn; ond y mae ei berthynas â byd arall yn gwneuthur ei bobpeth ef yn anfarwol er hyny. Y mae perthynas gyffelyb rhwng y ddau fyd ag sydd rhwng corff ac enaid. Wrth ymddiddan â'r corff, mewn gwirionedd dal cymundeb yr ydym â'r ysbryd sydd yn preswylio ynddo, a bydd pob argraff a wneir ar hwnw yn parhau wedi i'r corff falurio a dychwelyd i'w lwch. Felly dal cymundeb â'r byd a ddaw yr ydym ni trwy y byd hwn; a phan y bydd y corff wedi ei golli, ni a gawn y bydd yr holl argraffiadau a wnaed ar yr ysbryd yn parhau. Pan gollwn ni olwg ar ein gweithredoedd mewn amser, ni a'u cyfarfyddwn hwynt yn nhragywyddoldeb. Y mae yr olion a wnaed gan y creaduriaid oedd yn byw ar y ddaear yn yr oesoedd gynt ar y clai a'r tywod yn parhau hyd heddyw. Pa fodd? Y mae y clâi wedi myned yn fynor, a'r tywod yn graig; am hyny yno y bydd yr ôl mwy. Felly ninau, er mai ysgrifenu ar dywod, a gwneuthur argraff ar glai, yr ydym yma, eto yn oesoedd y byd a ddaw fe dry y clai yn adamant, a'r tywod yn graig; ac er i'r argraff gael ei wneyd yn bur hawdd, anmhosibl fydd ei ddilëu.

Neu, y mae yr un berthynas rhwng y byd hwn a'r byd a ddaw, ag sy rhwng ieuenctid dyn a phob rhan arall o'i oes. Yr oedd Solomon yn ei gweled hi: "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy â hi." Arferion ieuenctid ond odid fydd arferion pob rhan arall o'r oes. Y lliw a gymer y caracter y pryd hwnw a sudda yn ddyfnach ddyfnach iddo tra ar y ddaear. Felly, yn gymharol i fyd arall, yspaid ein hieuenctid ni ydyw y byd hwn. Y ffordd a rodiwn ni yma, nid ymadawn ni ddim â hi pan heneiddiwn ni yn y byd a ddaw. Fe lŷn arferion amser wrthym yn nhragywyddoldeb. Ni wna y byd a ddaw ond peri i'r lliwiau a roddwyd ar ein caracter ni yma suddo yn ddyfnach iddo: ac feallai mai hyn sydd yn cael ei ollwng dros gof genym yn fwy na'r peth cyntaf. Yr ydym wedi arfer addef fod byd ysbrydol, fel yr ydym yn gweled fod byd naturiol; ond yr ydym yn arfer byw fel pe byddai y ddau fyd yn hollol anymddibynol, heb gysylltiad rhyngddynt, pan mewn gwirionedd y mae y cysylltiad mor agos fel ag y mae pob un o honom yn creu ein byd a ddaw yn y byd hwn; neu yn hytrach, wrth ddewis ffordd amser, yr ydym yn pender-

fynu beth fydd ffordd tragywyddoldeb: ac y mae yn rhaid i hyn fod yn gred fywiol yn y meddwl, yn deimlad yn y galon, cyn y gallwn ni fyw o dan "nerthoedd y byd a ddaw."

II. Ni a geisiwn ddangos pa fodd yr ydym i fyw o dan "nerthoedd y byd a ddaw." Y peth cyntaf, a'r peth mawr sydd yn angenrheidiol i hyn, ydyw cael ffydd gref yn y meddwl o'i hanfodiad, y ffydd hono sydd yn rhoddi bywyd ymhob peth yn yr enaid, yr hon sydd yn hollol wahanol i addefiad oer o fôd y byd hwnw. Gall rheswm ddyfod i fath o sicrwydd o'i fôd; ond ffydd yn unig a all ddwyn syniad y pen yn deimlad i'r galon. Y mae hi yn sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled, trwy ein dwyn i'w teimlo. I synwyrau y corff, y mae y byd a ddaw wedi ei amgylchu â thywyllwch; ond nos rheswm ydyw dydd ffydd. Fel nas gallwn weled bydoedd y ffurfafen nes i'r haul fachlud, felly y mae ffydd, pan y mae tywyllwch wedi gorchuddio rheswm, yn gweled y byd a ddaw. Y mae golwg a ffydd yn cael eu cyferbynu; a'r hyn ydyw golwg i'r byd hwn, ydyw ffydd i'r hwn a ddaw. Y mae gwrthddrychau hwn yn effeithio arnom yn benaf drwy y golwg. Fel hyn y maent yn byw yn ein serch, ac yn llywodraethu ar ein hewyllys. Felly y mae gwrthddrychau y byd a ddaw i wneuthur hyny drwy ffydd. Am i ni weled yma yr ydym yn caru; ond am y byd arall, er nas gwelsom, yr ydym i garu. Nid wrth olwg yn gwbl y mae neb yn byw hyd yn nod yma: y mae pob dosbarth o ddynion, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, o dan ddylanwad rhyw fath o ffydd. Y mae y bydolddyn, yr hoffwr pleser, a'r ysgolhaig, yn cael eu hysgogi ganddi hi. Pe cymerid hi ymaith o'r byd, byddai llawer iawn o'i nerthoedd ef farw; ond y mae hi, trwy edrych ar ryw nôd nad ydyw amlwg i'r golwg, yn cadw yr enaid yn llawn awydd i ymestyn ato. Rhai yn llawn ffydd o'r fath yma, sydd wedi gwneuthur pob peth rhyfedd a wnaed yn y byd erioed. Hyn a ysgogodd Columbus i chwilio am fyd y gorllewin; yr oedd yn credu, ar seiliau oeddent yn ymddangos yn ddigonol i'w feddwl ef, fod lle felly yn bod. Yr oedd y grediniaeth hono wedi myned yn egwyddor fyw yn ei feddwl: drwyddi yr oedd yn byw o dan ddylanwad y wlad, cyn ei gweled hi erioed, na chlywed gair o honi. Yr oedd ffydd wedi rhoddi bôd iddi yn ei fynwes; am hyny ni orphwysodd nes i ffydd droi yn olwg. Ac y mae duw-

iolion yr Hen Destament yn esiamplau ardderchog o nerth yr egwyddor hon yn y meddwl. Yr oedd eu gwybodaeth am fyd arall yn llai o lawer na'n gwybodaeth ni; ond yr oedd nerth eu ffydd hwynt yn ei wneuthur yn ddylanwadol iawn ar eu bywyd. Gan fod ffydd i'r enaid fel y mae y llygad i'r corff, y mae hi yn sicrwydd; ac fel y cyfryw, yn symud amheuon, ac yn dirymu pob gwrthddadl. Gellwch geisio argyhoeddi un fod rhyw beth yn anmhosibl,—gellwch ei ddyrysu â'ch gwrthddadleuon,—ond os gwelodd, y mae yn sicr ei fod yn bod, er y cyfan. "Ffydd yn wir yw.........sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Y mae hi yn ffurfio delw y pethau yn y meddwl,—yn eu sylweddoli hwynt yn yr enaid. Yr ydych ond odid wedi darllen desgrifiad o wlad na welsoch erioed, ac er y gallasai y desgrifiad fod yn fanwl ac yn fedrus, eto, am nas gwelsoch, anmherffaith iawn fyddai delw y wlad yn eich meddwl. Ac feallai eich bod hefyd wedi darllen desgrifiad o wlad a welsoch; ond yr oeddech yn darllen y ddau ddesgrifiad yn dra gwahanol: er holl fedr y cyntaf, yr oedd rhyw niwl,—rhyw aneglurdeb,—yn crogi dros y cyfan oedd yn atal i'r meddwl ffurfio syniadau cywir am y wlad. Ond yr oedd y fath eglurdeb yn yr ail, er feallai nad oedd y desgrifiad mor fedrus, eto yr oedd y llygad yn edrych drwy y geiriau ar y pethau eu hunain: yr oeddent oll ger bron yn eu lliw a'u llun gwirioneddol. Hyn y mae ffydd yn ei wneyd gyda byd arall: y mae yn ei weled yn y desgrifiad, fel y gwelodd Noah y diluw yn mygythiad Duw ugeiniau o flynyddoedd cyn iddi ddechreu gwlawio. Y mae perthynas ddirgelaidd rhwng ein daear ni a'r bydoedd wybrenol: y mae yr haul yn ei llywodraethu hi y dydd, a'r lleuad y nos; ac mewn ufudd-dod i'r dylanwad nerthol sydd ganddynt arni, y mae hi yn troi yn ewyllysgar yn yr eangder. Fel y mae deddf sugn-dyniad yn cysylltu y ddaear â'r haul, felly y mae ffydd yn cysylltu y byd hwn â'r hwn a ddaw. Hi ydyw y ddeddf ddirgelaidd sydd yn cadw hwn a'i bethau i droi mewn ufudd-dod i hwnw; a lle nad ydyw y ddeddf hon, nid oes dim dylanwad gan y llall ar hwn; ac y mae nerth dylanwad y byd arall arnom yn gyfartal i nerth ein ffydd ni. I newid ein cyffelybiaeth; y mae rhai yspïenddrychau yn dangos y sêr yn fwy, ac yn eu tynu yn nes nag y gwna eraill; er mai yr

un ydyw y sêr o ran pellder a maint, eto y mae nerth y drych yn peri iddynt ymddangos yn dra gwahanol. Pe byddai pob drych yr un nerth, fe welid y seren yr un faint bob amser; felly y mae y byd a ddaw yn ymddangos yn wahanol iawn i'r naill Gristion ragor ydyw i'r llall. Y mae un yn gweled o bell ac yn eglur; y mae y llall yn gweled, ond nid yn eglur; yn nerth eu ffydd hwynt y mae y gwahaniaeth. Pe byddai hono o'r un nerth, byddent fyw i'r un graddau o dan ddylanwad y byd a ddaw. "A hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni." Y mae hi yn ein rhyddhau ni oddiwrth y byd hwn drwy ein caethiwo ni i'r byd a ddaw: drwy ein gwneuthur yn ysbrydol, y mae hi yn ein gwaredu rhag bod yn ddaearol.

(2.) Tuag at fyw o dan nerthoedd y byd a ddaw, y mae yn angenrheidiol meddwl llawer am dano. Nis gallwn yn briodol ddywedyd ein bod yn byw o dan ddylanwad unrhyw beth, ond tra y bydd y peth hwnw yn y cof; ac i'w gadw yno, y mae yn rhaid meddwl am dano. Y mae hyn yn angenrheidiol i gadw ffydd yn fyw yn y galon. Nid ydyw y llygad yn gweled, os na bydd gwrthddrychau gweledigad o'i flaen; felly nid yw llygad ffydd ddim yn gweled ychwaith, os na fydd ei gwrthddrychau hi yn cael eu cadw gerbron: ac y mae arferiad maith o feddwl am y byd arall yn angenrheidiol cyn y gall yr enaid gymeryd i mewn y syniad am ei fawredd. Y mae rhai pethau o'u hadwaen yn myned yn ddim yn ein meddwl: y mae pethau eraill y mae hir gynefindra â hwynt yn angenrheidiol cyn y deffry y meddwl i ganfod eu mawredd; ac i'r dosbarth hwn y mae y byd a ddaw yn perthynu. Y mae yn sylw cyffredinol gan deithwyr fod yr olwg gyntaf ar yr *Alps* yn eu siomi: nid ydynt yn ateb i'w disgwyliad; ond o syllu arnynt am ddiwrnodau ac wythnosau, y mae eu syniad am danynt yn cyfnewid;—y mae y meddwl yn deffroi i ganfod eu goruchelder a'u mawredd, a'r hyn oedd yn eu taraw yn y dechreu, oherwydd eu mawredd, fel pethau cyffredin, y maent yn raddol yn llenwi y fynwes â'u mawredd; felly po mwyaf y meddylir am y byd a ddaw, eangaf oll fydd syniadau y galon am ei fawredd. Gwyddom mai yn raddol iawn y mae meddwl cywir am y byd hwn yn cael ei ffurfio gan bob un o'i drigolion. Y

mae y baban yn hir yn dysgu gweled, yn dysgu clywed a theimlo, ac yn hir drachefn yn dysgu gwahaniaethu rhwng seiniau, a lleisiau, a theimladau; ond o hir ymarfer y mae y byd oddiallan yn cael ei ffurfio o fewn dyn ; felly y mae gyda'r byd arall,—y mae ein meddwl yn ei fabandod gyda golwg ar hwnw, fel yr oedd ein corff gyda golwg ar hwn. Y mae yn rhaid i ni feddwl, a meddwl, a meddwl drachefn a thrachefn, cyn y gallwn ni gymeryd gafael arno. Gwaith amser maith fydd i'n holl synwyrau ysbrydol i'n deffroi i gymeryd i mewn ei ddylanwadau. Y cyfan y mae y plentyn yn ei wneyd yn ei fabandod ydyw ymgydnabod â'r byd y mae yn myned i ddechreu byw ynddo yn fuan : ystâd o fabandod yr ydym ninau ynddi yn awr, i ni gael ymarfer ein hunain i ymgydnabod â'r byd a ddaw, er mwyn i ni gael bod yn barod i ddechreu byw erbyn myned iddo. Os mynem ni i'r byd a ddaw gael dylanwad arnom, bydded iddo aros llawer yn y meddwl.

(3.) Y mae yn angenrheidiol tuag at fyw o dan ddylanwad y byd arall ei gymharu yn aml â hwn o ran sylwedd a pharhad. Y mae cymharu yn anhebgorol i wrthod a dewis. Felly y darfu i Moses gymharu adfyd pobl Dduw a mwyniant pechod, dirmyg Crist a thrysorau yr Aipht; a thrwy edrych ar daledigaeth y gobrwy,—trwy weled yr anweledig,—fe ddewisodd y naill ac a wrthododd y llall ;—mewn geiriau eraill, fe fu byw o dan "nerthoedd y byd a ddaw," yn hytrach nag o dan nerthoedd hwn, gan iddo gymharu y ddau fyd. Ac yn y ddau beth hyn, sef sylwedd a pharhad, y mae y gwahaniaeth mawr rhwng y ddau. Wrth chwilio yn fanwl i bethau y ddaear, yr ydym yn teimlo gwirionedd penderfyniad y pregethwr:—"Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl." Y mae y teimlad hwn yn peri i ni fyw trwy ffydd yma, a bod yn llawen mewn gobaith. Nid ydym wedi cael gafael, ond meddyliwn ein bod o bell yn gweled y gwrthddrych, ac yr ydym yn gorfoleddu dan obaith; ond pan y meddienir y gwrthddrych, y mae yn rhaid i ni yn y fan ddechreu byw eilwaith ar y pethau i ddyfod, am ein bod yn teimlo mai gwagedd yw y presenol. Nid ydym yn byw, ond yn bwriadu byw, pan gyrhaeddwn ryw nôd draw, a theimlad diwedd y daith fydd, "gwagedd" oedd y cyfan. Y mae y "dros amser" hefyd, sydd ysgrifenedig ar bethau y

ddaear, yn eu gwneuthur yn ysgafnach na gwegi; a phe buasent yn wir werthfawr, ni ddylasent gael ond ychydig effaith arnom, am fod yr amser yn fyr. Y mae hyn yn ddail surion gyda'r wledd,—yn chwerwi cwpan y llawenydd;—yn tynu oddiwrth werth y goron, ac yn myned ymhell tuag at wneuthur y palas yn gydwastad â'r bwthyn.

Ond byd o sylwedd, a byd o barhad, ydyw y byd a ddaw. Y mae yn fyd gwirionedd, ac heb anwiredd,—heb dwyll. Y mae ei lawenydd yn llawenydd yn wir, a'i drallod yn drallod yn wir. Y mae rhyw wirionedd,—rhyw sylwedd arswydus,—yn ei bobpeth. Y mae y trigolion yn ngafael *pethau*, ac nid *cysgod* pethau. Dywed Solomon am anrhydedd rhywrai, erbyn ei chwilio nid anrhydedd yw; felly pobpeth y ddaear, erbyn eu chwilio, nid y pethau a dybiwyd eu bod oeddent, ond eu cysgod. Cysgod llawenydd, a chysgod galar, sydd yma; ond y mae y pethau eu hunain yn y byd a ddaw. Yr ydym yn wylo yma, ond y mae ein dagrau, fel cawod yn mis Ebrill, yn sychu yn fuan. Yr ydym yn llawenhau, ond y mae ein llawenydd fel tywyniad haul ar fyrddydd gauaf, drosodd yn fuan. A phe buasai sylwedd yn y pethau, y mae cyflymder y symudiad o'r naill ystâd i'r llall yma yn atal galar i fod yn alar, ac yn atal llawenydd i fod yn llawenydd; ond draw, y mae sylwedd a pharhad yn y cyfan, y naill yn benthyca pwys gan y llall. Y mae sylwedd, gwirionedd y byd, yn cael ei wneuthur yn fwy pwysig gan barhad, a'r parhad yn fwy arswydus gan y sylwedd sydd ymhob peth. Y mae hi yn gwlawio ar un darn mawr o'r byd hwnw yn llawer trymach nag y darfu hi erioed yma, ac y mae y cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw yno, heb obaith am hindda yn oesoesoedd. Y mae yr haul yn tywynu ar y rhan arall o'r byd a ddaw, ac yn annhraethol hyfrytach nag y gwnaeth erioed yma, ac nid ydyw yn machlud mwy. Taith ydyw amser, cartref ydyw tragywyddoldeb. Afon yn rhedeg yn gyflym ydyw y byd hwn; môr llonydd ydyw yr hwn a ddaw. Pererinion ydyw pawb yma; dinasyddion ydynt yno. Rhodio mewn cysgod y mae trigolion hwn, byw gyda'r sylwedd y mae trigolion hwnw. Cymharwch, cydbwyswch y ddau fyd bob dydd: gosodwch fwyniant pechod mewn amser ar gyfer ei gosb yn nhragywydd-

oldeb; dioddefiadau y byd presenol yn ymyl gogoniant y byd dyfodol. Ond yr ydym yn ymddwyn at y byd hwn yn fynych fel y dynion hyny y sonia yr apostol am danynt, y rhai oedd yn mesur eu hunain wrthynt eu hunain, yn cyffelybu eu hunain iddynt eu hunain, ac o ganlyniad heb ddeall, heb wybod, eu gwir fesurau; felly y gwneir â'r byd hwn: y mae yn cael ei fesur wrtho ei hun, a'i gyffelybu iddo ei hun, yn lle ei fesur wrth fyd arall, a'i gyffelybu i fyd arall. Felly nid ydym yn iawn ddeall ei fesurau.

IV. Y manteision sydd genym i fyw o dan nerthoedd y byd a ddaw. (1.) Y mae mwy na mwy o bethau yn arwain ein meddyliau ni i'r byd hwnw, fel nad ydyw Duw wedi ei adael yn ddi-dyst mewn un oes; er nas gwelsom Ef, eto y mae genym fyrdd o bethau yn tystio ei fod, ac yn arwain y meddwl ato. Felly, er bod y byd a ddaw yn anweledig, y mae ganddo dystion lliosog yn y byd hwn, a'r rhai hyn oll yn arwain ein meddwl ni iddo. Ond i beidio sôn am ddim ond un yn awr, sef yr angau gwgus a chyffredinol yma;—hwn ydyw cofiadur mawr y byd arall, pregethwr cyffredinol y byd a ddaw. Gellir ysgrifenu ar bob claddfa, "Yn gysegredig i goffadwriaeth y byd a ddaw;" gellir argraffu ar bob bedd, "Dyma farwoldeb er côf am anfarwoldeb." Gallwn ddywedyd wrth weled pob claddedigaeth, "Dyma ddeiliaid y byd hwn yn myned i edrych ar borth y byd a ddaw." Nid rhaid i lawer ardal yn Nghymru wrth ddim i gofio America, am fod ugeiniau wedi myned oddiyno i'r byd gorllewinol; ac y mae pob meddwl am danynt yn dwyn eu gwlad bell hefyd i'r meddwl, ac yn fwy neillduol felly, os oeddent yn berthynasau neu gyfeillion mynwesol. Felly ni ddylasai fod yn rhaid i'r byd a ddaw wrth ddim arall i'w ddwyn ar gof na hyn; oblegid y mae miloedd a myrddiynau hwn wedi symud yno i fyw; nid o un ardal, ond o bob ardal; fel nad oes yr un dyn ar y ddaear yn awr, nad oes iddo berthynasau agos yn y byd arall;—nid oes yr un nad yw wedi ei gysylltu gan angau â'r byd a ddaw. Y mae lle rhyw un yn wâg ynddo, er dwyn ar gof fod eu lle hwythau yn wâg yn y byd arall. Fel y mae hen aneddau ymfudwyr yn eu dwyn hwy a'u gwlad yn fywiog i'r meddwl, felly y dylai adfeilion pebyll preswylwyr y ddaear ddwyn i'n meddwl ninau y byd yn yr hwn y maent yn preswylio yn awr. Y

mae adfeilion pabell Abraham a'r patriarchiaid yn ogof Machpelalah;—Moses yn rhosydd Moab;—Aaron yn mynydd Hor;—ac ugeiniau o filoedd o'n hamgylch ninau; ond y mae y preswylwyr wedi myned i wlad arall i fyw; ac os ydym yn darllen ar yr adfeilion, "Gosodwyd i ddynion farw unwaith," yr ydym yn darllen hefyd, "ac ar ôl hyny byd arall." Pe byddai genym glust i wrandaw, a llygad i weled, y mae angau yn gwneyd â ni fel y gwnaeth yr angylion â'r disgyblion fore adgyfodiad eu Harglwydd,—dangos y fan y bu ein cyfaill, gydâ chyfeiriad at y fan y mae yn awr. "Nid yw efe yma," ond yn y byd a ddaw. Y mae, yn yr ystyr hwn, i'r byd a ddaw filoedd a'i pregethant ymhob gwlad: ond O! mor lleied sydd yn gwrandaw.

Y mae amryw bethau eraill yn fanteisiol i arwain ein meddwl i'r byd arall na chawn ond eu henwi. Y Bibl,—llyfr y byd a ddaw ydyw hwn. Y Sabbath,—dydd y byd a ddaw ydyw hwnw. Gwir gynulleidfaoedd mynydd Sïon, tystion byw y byd a ddaw ydynt hwythau: ac yn olaf, ac yn fwyaf hefyd, un o breswylwyr y byd hwn ydyw Brenin y byd a ddaw. Er mwyn uno y ddau fyd, fe ddaeth Duw yn ddyn; a'r Duw-ddyn sydd yn eistedd ar yr orsedd. Nid anhawdd oedd arwain meddwl Jacob i'r Aipht wedi iddo glywed mai Joseph oedd y llywydd: am yr un rheswm gallesid disgwyl y buasai ein meddwl ninau yn rhedeg yn rhwydd i'r byd a ddaw, gan mai ein Brawd sydd yn Oruchaf yn y wlad.

Ond gall fod yma rywun yn barod i ofyn, 'a fynech chwi i ni ollwng dros gôf ein hoes yma?' Na fynem ni: ond ni a fynem i chwi beidio gollwng dros gôf eich oes hir draw. 'A fynech chwi i ni ddibrisio y byd hwn?' Na fynem ni: ond ni a fynem i chwi beidio dibrisio y byd ar ol hwn. Onid ydyw y Bibl yn dywedyd, "Nid yn ddiog mewn diwydrwydd?" Ydyw; ac y mae yn gorchymyn hefyd, "yn wresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd." Mesurwch amser, ond nac anghofiwch fesurau tragywyddoldeb: pwyswch y byd hwn, ond nac anghofiwch bwysau yr hwn a ddaw. 'A ddymunech chwi i ni beidio darparu ar gyfer gauaf henaint?' Na, ond ni a ddymunem i chwi beidio gadael gauaf hir y byd a ddaw heb ddarparu ar ei gyfer. Cesglwch gymaint o aur ac o arian ag a

ellwch, ond gofalwch fod yr un perl gwerthfawr genych. Ymdrwsiwch yn holl wychder y byd hwn, ond gwyliwch na byddo yr enaid ddim heb wisg y byd a ddaw. Meddianwch gymaint o'r ddaear ag a ellwch, ond er dim na fyddwch heb hawl i'r etifeddiaeth anllygredig. Ymddygwch yn deilwng i'r holl oes, ac nid i'r rhan fechan sydd yn perthyn i'r byd hwn. Penderfynwch, fel y cawn Jonathan Edwards yn penderfynu, mynu cael cymaint ag a fyddai bosibl iddo o ddedwyddwch yn y byd arall; a hyny gyda'r holl nerth a'r egni a'r ymröad a'r ymdrech, a allasai gymeryd, ac ymhob modd y gallasai feddwl am dano.

Wrth derfynu yr wyf yn teimlo fy mod yn colli y frwydr: bydd raid i mi adael y maes yn orchfygedig, ac nid yn orchfygwr. Y mae yr anfanteision yr ydwyf danynt yn barod i lethu fy meddwl. Ni welais i erioed mo'r byd yr wyf yn ceisio ei ddesgrifio: ni welsoch chwithau mo hono ychwaith. Am hyny y mae y desgrifiad yn dywyll, a'r gwrandawiad yn farwaidd. Y mae y pregethwr a'r gwrandawyr yn gnawdol. Y mae y byd y mae a fynom ni âg ef yn ysbrydol. Am hyny nid yw y geiriau a ddefnyddir yn fynych ddim yn cynyrchu meddyliau yn ein mynwes. Yr ydym yn hwyrdrwm i ddeall am bethau ysbrydol. Nis gwyddom beth ydynt, na thebyg i ba beth. Yr ydym wedi darllen desgrifiadau o wledydd na welsom ni erioed o honynt; ond oddiwrth yr hyn yr oeddem wedi ei weled a'i deimlo yma, yr oeddem yn gallu ffurfio meddwl lled gywir am danynt; er y gallent fod yn wahanol iawn i'r wlad hon, eto yr oedd ynddynt rywbeth yn debyg, ac yr oedd y tebyg yn help i wybod am y gwahaniaeth. Ond gyda'r byd a ddaw, nid oes genym ddim cynorthwy fel hyn. Rhyfyg fyddai i ni geisio ei ddarlunio; ynfydrwydd fyddai i chwithau ddisgwyl hyny. Nid ei ddesgrifio oedd ein diben, ond ceisio argraffu ar eich meddwl fod y byd yn bod, a galw eich sylw at yr ystyriaethau tebycaf o gadw y gwirionedd yna yn fyw yn yr enaid. Ond os na ddaw Meistr y gynulleidfa i sicrhau yr hoelion, bydd ein gwrandawyr y fory, fel yr oeddent ddoe: y byd a ddaw wedi diflanu yn y pellder, a'r byd hwn yn llanw yr holl olygfa.

Ond os na fynwn ni fyw o dan "nerthoedd y byd a ddaw" yn awr, bydd raid i ni fyw felly ymhen ychydig, oblegid ni a

fyddwn ynddo. Bydd yn fyd annhraethol fwy presenol i ni nag y bu hwn erioed. Y mae yn ddrwg rhyngom ni ag awdurdodau y byd hwnw. Beth a wnawn, gan y byddwn ni ynddo yn fuan? Hyny fyddai yn ddoeth i ni,—ymddwyn yn gyffelyb i wŷr Tyrus a Sidon, y rhai oeddent wedi týnu llid Herod, o wlad yr hwn yr oeddent yn cael eu cynhaliaeth; ac yr oedd y brenin yn llidiog iawn yn eu herbyn; ond enillasant ystafellydd y brenin i fod yn ddadleuydd trostynt;—fe wnaed heddwch yn bur gyflym wed'yn. Gwnawn ninau yr un fath. Y mae Gŵr yn llys y byd mawr yn Gyfaill i'r Brenin, a dim ond iddo Ef ddywedyd gair trosom ni, ä yn heddwch tragywyddol yn y fan. Rhoddwn ein hachos iddo: cymerwn y Gŵr sydd yn Gyfaill i'r Tad yn Gyfäill i ninau;—nid rhaid i ni, wedi hyny, ofni y byd a ddaw.

[Mawrth 14, 1848.]

## PREGETH XXIII.

### MODDION CYMWYS YN ANEFFEITHIOL.

JEREMIAH VIII. 22:—"Onid oes driagl yn Gilead? onid oes yno physygwr? paham na wellâ iechyd merch fy mhobl?"

GALWYD y prophwyd hwn i'w swydd mewn amseroedd enbyd. Yr oedd y wlad yn dra llygredig, ac yn addfedu yn gyflym i farn. Ac er i Josiah, yn nheyrnasiad yr hwn y dechreuodd brophwydo, ddiwygio ychydig ar y genedl, yr oedd y diwygiad yn dra arwynebol, a buan y syrthiasant yn ol i'w hen ffyrdd, nes cyflawni mesur eu hanwiredd. Yr oedd o gylch deng mlynedd a thriugain er pan oedd Esaiah wedi distewi; a thrwy yr ysbaid yna yr oedd yr ystorm yn ymgasglu uwchben y wlad,—y bobl yn gwrthod ymadael â'u ffyrdd drygionus. Ac yn nyddiau y prophwyd hwn, ymdorodd y cwmwl arnynt. Gwelodd ef y caethgludiad cyntaf a fu ar ei frodyr i lan yr afon Chebar; a bu fyw i weled yr ail gaethgludiad a fu arnynt, ymhen deunaw mlynedd ar ol y cyntaf. Yn y cyntaf, cymerwyd ymaith enwogion y wlad, ynghyd a llestri y deml, fel gwystlon y byddai i'r gweddill ymddwyn yn ufudd. Yn eu mysg yr oedd y prophwyd Ezeciel. Ymhen deunaw mlynedd wedi hyny, amcanodd y rhai a adewsid gan frenin Babilon yn Judah, ysgwyd ymaith ei iau ef. Er bod Jeremiah, yn ol gair yr Arglwydd, yn eu hanog i beidio, gwrthodasant wrandaw; am hyny daeth y Caldeaid i fyny i'w herbyn eilwaith;—dinystriwyd y deml,—llosgwyd Jerusalem, —rhoddwyd y prif wrthryfelwyr i farwolaeth, a chymerwyd y gweddill i gaethiwed, fel ag y gadawyd y wlad bron yn gwbl anghyfanedd.

Yr oedd y prophwyd hwn, am ei fod yn byw yn y fath amserau cynhyrfus, yn ŵr gofidus a chynefin â dolur. Y mae yr hynotaf o'r prophwydi am brudd-der ei feddwl, a theimlad ei galon. Neillduwyd ef i'w swydd o'r groth: diau iddo gael meddwl a chorff cyfaddas i'r gwaith. Dechreuodd arno pan yn ieuanc a thyner, o gylch pedair ar ddeg oed: geilw ei hun yn fachgen, heb fedru ymadrodd. Ac yn nechreu ei lyfr, gyda holl frwdfrydedd ieuenctid, y mae yn apelio yn y modd mwyaf toddedig at ei gyd-genedl galed, i geisio ganddynt ddychwelyd at yr Arglwydd, ac felly ysgoi y farn. Mae pob Cristion i raddau yn dwyn pechodau ei gydnabod a'i wlad: wrth weled y troseddwyr, y mae yn gresynu. Y mae anwiredd y ddinas yn peri i'w enaid alaru mewn dirgel-leoedd; ac os bydd crefydd wedi ei himpio ar natur oedd yn hynod am ei theimlad o'r blaen, bydd y Cristion hwnw bob amser yn hau mewn dagrau. Un felly oedd y prophwyd hwn. Fel dyn, yr oedd ganddo galon dyner; fel Iuddew, yr oedd yn caru ei genedl a'i wlad yn fawr; ac fel dyn duwiol, yr oedd yn gresynu wrth feddwl am eu cyflwr ysbrydol. Ac yn y benod hon, y mae yn desgrifio yn dra bywiog y dinystr oedd yn eu haros. Agorid y beddau gan y gelynion; teflid esgyrn y brenhinoedd, yr offeiriaid, a'r prophwydi, yn domen ar wyneb y maes; ac mor fawr fyddai y dychryn, fel y dewisai y rhai byw angau o flaen bywyd. Yna y mae achos y dinystr yn cael ei ddangos, sef eu gwaith hwynt yn encilio oddiwrth yr Arglwydd, ac yn enwedigol, gwaith yr offeiriaid a'r prophwydi yn gwneuthur ffalsder, ac yn ymroi i gybydd-dod. Pan y mae dysgawdwyr gwlad heb neb o honynt yn dywedyd yn iawn, nid oes ond cam rhwng y wlad hono a dinystr. Y mae yma ddesgrifiad drachefn o agwedd y bobl o dan y barnau hyn;—y maent yn ymollwng,—eu gobaith wedi ei golli,—yr Arglwydd yn eu gwrthod, oherwydd iddynt hwy ei wrthod Ef. Ac er bod yr Aipht mewn cyngrair â hwynt, yn ofer y disgwylient wrth hono, oblegid yr oedd yr haf wedi myned heibio, a'r cynhauaf wedi darfod, heb i'r waredigaeth ddyfod; am hyny nid oeddent yn gadwedig,—nid oedd gobaith ymwared iddynt. Gwelodd y prophwyd gyflawni hyn oll. Ac y mae yma, yn y *rhag*-olwg ar hyny, gyda galar yn dywedyd, "Am friw merch fy mhobl y'm briwyd i; galerais," neu yn ol

y Saesneg, "yr wyf yn ddu," ac ymyl y ddalen yn y Gymraeg, yn ol yr Hebraeg, "*duais*;"—yr wyf yn edrych yn angeuol, fel y rhai parod i farw;—daliodd syndod fi. Paham y mae pethau fel hyn? "Onid oes driagl yn Gilead? onid oes yno physygwr? paham na wellâ iechyd merch fy mhobl?" Y mae y prophwyd yma yn gosod allan gyflwr y genedl o dan y gymhariaeth o afiechyd; a'r holl oruchwyliaethau a ddefnyddiwyd i'w diwygio o dan y gymhariaeth o feddyginiaeth;—triagl a physygwr. Ac wrth weled nad oedd dim yn tycio, y mae yn gofyn, "Paham" na wellâi yr iechyd? A oes yr un feddyginiaeth yn bod? neu ynte, a oes yr un meddyg medrus i'w chymhwyso? Paham y mae fy nghyd-genedl yn anghofio Duw, ac yn rhoddi ei fawl i ddelwau cerfiedig,—yn ei demtio â gwaith eu dwylaw? A gawsant hwy ddim manteision i'w adwaen? Do; llefarodd wrthynt ar Sinai. Ni chlybu pobl erioed lais Duw fel y clywsant hwy. Gosododd ei babell yn eu plith;—gwnaeth wyrthiau nerthol erddynt;—â'i asgell, cysgododd drostynt; bu yn darian ac yn astalch iddynt 'rhag llawer saeth. A phan anghofiasant Ef, ac y buont anffyddlawn iddo, cosbodd hwynt, eto mewn barn: dychwelodd i'w le,—gwerthodd hwynt i ddwylaw eu gelynion, hyd oni cheisient ei wyneb. Ond er iddo eu taraw yn fynych, chwanegu cyndynrwydd yr oeddent bob tro, hyd nes y gofynai mewn anobaith uwch eu pen, "I ba beth y'ch tarewir mwy?" Ar ol defnyddio yr holl oruchwyliaethau glanhäol, yr oedd yn gorfod tystio, "Nid ydwyt lân, er glanhau o honof di." Yr oedd pob meddyginiaeth yn eu gadael yn ngafael y pla: er bod triagl yn Gilead, a physygwr yno, eto yr oedd iechyd merch ei bobl heb ei wellâu.

Y gwirionedd, neu yr addysg, y mae y testyn hwn yn ei ddwyn ger ein bron ydyw:—*Fod cymhwysder yn y moddion a drefnwyd gan Dduw i achub y byd i ateb y diben hwnw; ond er hyny, fod rhywbeth yn eu hatal i ateb y diben i lawer.* Y mae gofyniad y cwestiwn yn cynwys fod y triagl yn gyfaddas, a'r physygwr yn fedrus; ac y mae yn cynwys hefyd fod y pla er hyny yn parhau. Y ddau beth a ddeuant o dan ein sylw ydynt:—

I. Cymhwysder y moddion sydd wedi eu trefnu i wellâu

yr afiechyd i ateb y diben hwnw: "Onid oes driagl yn Gilead? onid oes yno physygwr?"

II. Ceisiwn ateb y cwestiwn, paham y mae yr afiechyd, er hyny, yn parhau: "paham na wellâ iechyd merch fy mhobl?"

Wrth sôn am gymhwysder y moddion, nid awn at y cwestiwn dyrus ynghylch y berthynas sy rhwng y moddion hyn â'r dylanwadau dwyfol. Y mae y ddau beth yn wirionedd, ac yn wirioneddau cyson â'u gilydd, pa un bynag a all dynion eu cysoni ai peidio: ac feallai y byddai yn well i grefydd, pe byddai llai o geisio gwneuthur hyny. Gwyddom fod iachawdwriaeth oll o Dduw; ond y mae y Duw hwnw yn gweithio trwy foddion: ac y mae y cysylltiad rhwng dylanwadau ei Ysbryd a'r moddion mor agos, fel y mae yn anmhosibl i ni eu gwahaniaethu. Y mae perygl i ni, wrth geisio gwneuthur hyny, gyfeiliorni ar bob llaw. Wrth sefyll dros anrhydedd yr Ysbryd, y mae rhai wedi diraddio y gair, gan anghofio fod yn anmhosibl anrhydeddu yr Ysbryd, ac edrych ar y gair yn gyffredin, a lefarwyd o dan ei gynhyrfiadau Ef. Neu, wrth sefyll dros anrhydedd y gair, y mae rhai yn ysbeilio yr Ysbryd o'i ogoniant. Nid yw yr Ysbryd yn gweithio yn ddigyfrwng, ac ni wna y cyfrwng y tro yn lle y Gweithredydd. Trwy foddion y mae yr Ysbryd yn gweithredu; ond y mae y fath addasrwydd yn y moddion hyny, fel nad ydyw y dyn sydd o dan ddylanwadau Ysbryd Duw yn ymwybodol fod dim yn cymeryd lle yn ei feddwl, ond gwirioneddau yn cael eu heffaith naturiol eu hunain. Y mae yn ofni yr hyn sydd ofnadwy, ac yn caru yr hyn sy hawddgar. Ysbryd Duw sydd yn gweithio yn nhröedigaeth pechadur; ond nid yw yr hwn sydd o dan y gweithrediadau ddim yn ymwybodol o hyny: teimlo ei hun yn ngafael y gair y mae ef. Hwnw, fel cleddyf llym dau-finiog, yn tori trwy y dyn oddimewn,—yn barnu meddyliau a bwriadau y galon. Nid rhoddi datguddiad newydd y mae, ond peri i'r gair, oedd yn llythyren farw yn yr hen ddatguddiad, gael ei deimlo yn ysbryd a bywyd yn enaid y dyn. Tra yr ydym ni o fewn cylch y moddion, yr ydym o fewn cylch dylanwadau yr Ysbryd; ac os bydd y moddion hyn heb ateb eu diben i ni, y mae y Bibl yn eglur ddangos na bydd neb yn y bai ond ni ein hunain. Nid paham nad ydyw Ysbryd Duw wedi gwellâu y clefyd ydyw y

gofyniad; ond paham, er bod triagl yn Gilead, a physygwr yno, y mae iechyd merch ei bobl heb ei wellhau.

I. Cyfaddasrwydd darpariaeth Duw tuag at wellâu iechyd y byd: Triagl a physygwr, hyny yw, meddyginiaeth, ac un i'w chymwyso. Wrth lefaru am bechod o dan y gymhariaeth o afiechyd, yr hyn a olygir yw, fod ei effeithiau ar yr enaid rywbeth yn debyg i effeithiau afiechyd ar y corff. Fel y mae y meddyg medrus, oddiwrth ddeall natur yr afiechyd, yn gallu cyfaddasu y feddyginiaeth ato; felly gallwn ninau, oddiwrth edrych ar natur anhwyl pechod, gael mantais i weled cyfaddasrwydd meddyginiaeth yr efengyl i'r pla. Y mae tri pheth mawr yn anwahanol gysylltiedig âg afiechyd naturiol. 1. Y mae yn anghymwyso y claf i ddal cymundeb â'r byd oddiallan. 2. Y mae yn ei anghymwyso i gyflawni ei ddyledswyddau tuag at y byd. 3. Y mae yn ei wneuthur, nid yn unig yn ddiwerth i eraill, ond yn faich iddo ei hun. Gwisger natur oddiallan â phob prydferthwch,—bydded ei golygfeydd hi yn rhagori mewn gogoniant,—y maent i'r claf megis pe na byddent. Pe byddai doethion Teman, a dysgedigion yr Aipht, o'i amgylch, am ei fod yn glaf nis gall gymdeithasu â hwynt. Beth bynag ydyw y dyledswyddau sydd yn tarddu oddiar ei berthynas â'r byd,—a ydyw yn dad,—a ydyw yn benteulu,—ä yr haf heibio, derfydd y cynhauaf, heb i ddarpariaeth gael ei gwneuthur ar gyfer angen y teulu, o ran dim a all ef. Y mae hefyd yn boen iddo ei hun;—yn hiraethu y dydd am y nos, a'r nos am y dydd, fel nas gwyr beth yw llonyddwch; a chyn y bydd meddyginiaeth yn gyfaddas at yr afiechyd, y mae yn rhaid iddi ddwyn dyn i ystâd y gall ef gael cymundeb â'r byd oddiallan, cyflawni ei ddyledswyddau tuag ato, a pheidio a bod yn boen iddo ei hun. Y mae y tri pheth hyn yn perthyn i'r anhwyl ysbrydol; ac y mae cymhwysder neu addasrwydd yn meddyginiaeth yr efengyl i symud ymaith y tri.

1. Y mae afiechyd pechod wedi ein hanghymwyso i ddal cymundeb â'r byd ysbrydol. Nid oes genym lygad i ganfod prydferthwch sancteiddrwydd. Y mae ffrwythau cyfiawnder yn ddiflas i ni. Ni fedrwn ddal cymundeb â Duw, nac ymhyfrydu mewn dim sydd yn dwyn ei ddelw. Methu cymdeithasu â'r byd ysbrydol ydyw trueni yr enaid. Yn ymwerthiad y

byd i ddrygioni, ni a welwn mor nerthol ydyw y gwrthdarawiad sydd yn y meddwl yn erbyn hyn; ac yn ymdrechiadau diflino dynion i geisio cymodi eu hunain â'r neb a dybiant yn Dduw, ni a welwn mai cred y byd o dan y cyfan ydyw, mai mewn gallu cymdeithasu â Duw y mae dedwyddwch yn gynwysedig. Y mae holl ddrygioni y byd yn profi fod yn gâs ganddynt sancteiddrwydd; ac y mae holl aberthau a chreulonderau crefyddau y byd yn dystiolaeth o eiddo yr enaid nas gall fod yn hapus heb ymhyfrydu ynddo. Dyna ydynt,—enaid afiach yn ceisio ymiachau,—cydwybod euog yn ceisio ysgwyd ymaith ei baich.

2. Y mae yr afiechyd hwn yn ein hanghymhwyso i gyflawni ein dyledswyddau tuag at y byd hwnw; ac y mae y rhai hyny yn gyfryw nad all neb ond y dyn ei hun eu cyflawni. Gall cyfaill gyflawni llawer o'i ddyledswyddau tuag at y byd hwn yn ei le, ond ni all neb wneuthur hyny at y byd arall; efe ei hun raid rodio yn llwybrau y bywyd, a gweithredu gweithredoedd Duw. Ond oherwydd yr afiechyd, y mae ffordd y gorchymynion yn rhy arw iddo ei theithio;—yr iau yn rhy galed, a'r baich yn rhy drwm iddo eu dwyn. Os ydyw yn dad, dylai gymeryd ei blant i ben Nebo, i ddangos iddynt y wlad dda sy tu hwnt i'r Iorddonen; ond oherwydd ei afiechyd, nis gall ddringo i fyny y mynydd. Ai mam ydyw? dylai arwain ei rhai bach i Bethlehem a Chalfaria; ond oblegid y pla, y mae yn rhy wan i gerdded hyd yno. Pa ddyledswydd bynag sydd arno tuag at y byd arall, pa un bynag ai fel person unigol, neu ynte fel aelod o gymdeithas, y mae yr afiechyd ysbrydol yn ei wneuthur yn rhy wan i'w chyflawni. Ac yn mhellach,

3. Y mae yn faich—yn boen iddo ei hun. Ni bu y corff erioed yn fwy annedwydd yn ngafael clefyd poeth, nag ydyw yr enaid yn ngafael pechod. Nid ydyw yn y man y dymunai fod, ac nis gŵyr pa le y mae hwnw. Y mae ei wahanol alluoedd yn ymryson â'u gilydd, ac oll yn ymryson â'r hyn sydd o'u hamgylch;—ei ewyllys yn gomedd ufuddhau i'w ddeall;—ei serch yn gomedd cymeryd ei lywodraethu gan y gydwybod. Y mae tylwyth y tŷ yn elynion i'w gilydd, ac felly yn cadw y fynwes yn gythrwfl gwastadol; a hyny drachefn yn peri nad all yr enaid ymfoddloni mewn dim sydd o'i amgylch. Fel y

mae y claf naturiol, oherwydd yr anhwyl sydd o'i fewn, yn methu cael ei foddloni gan ddim sydd o'i amgylch; mŷn ei symud o'r naill fan i fan arall, ac o hwnw i'r trydydd, gan chwilio yn ofer am orphwysdra; felly y mae dyn yn ysbrydol: pan yn dlawd, y mae yn meddwl mai mewn cyfoeth y mae llonyddwch; —mewn cyfoeth, mae yn cenfigenu wrth y tlawd, gan feddwl fod ei fynwes ef, oherwydd na ŵyr am ofalon cyfoeth, o angen-rheidrwydd yn llonydd; mynai fod yn rhywbeth heblaw yr hyn ydyw, ac yn rhyw fan heblaw y man y mae. Nid yw holl anesmwythyd y byd ond cynwrf clefyd, *excitement fever* yr afiach, yn ceisio dianc oddiwrtho ei hun,—yn ceisio gollwng ei ofid dros gof.

Y mae addasrwydd yn meddyginiaeth yr efengyl i symud ymaith y pethau hyn,—i'n dwyn i ystâd y gallwn ni ddal cy-mundeb â'r byd ysbrydol,—cyflawni ein dyledswyddau at y byd hwnw,—ac yn yr hon y bydd cynwrf a phoen ein mynwes ein hunain wedi eu difodi. Y mae y triagl sydd yn Gilead yn cymodi y fynwes â Duw,—yn ei galluogi hi i gyflawni ei dyledswyddau pwysig at y byd a ddaw,—ac yn ei heddychu â hi ei hun.

1. Y mae y drefn yn gyfaddas i ddwyn dyn i ddal cymundeb â'r byd ysbrydol. Drwy ein cymodi ni â Duw, y mae yn ein cymodi â phob peth sydd yn dwyn ei ddelw, ac yn ein cy-mhwyso i weled prydferthwch sancteiddrwydd, ac i ymhyfrydu ynddo. Y mae holl genhedloedd y ddaear wedi gofyn y cwestiwn, "A pha beth y deuwn gerbron yr Arglwydd, ac yr ymddangoswn gerbron yr uchel Dduw?" A pha beth y gwneir cymod dros anwiredd yr enaid? Ateba un, mai mil-oedd o feheryn a foddlona yr Arglwydd: tywelltir gwaed y goreu o'r praidd yn y fan. Ateba un arall mai ffrydiau o olew a'i heddycha: fe red y rhai hyny wrth y myrddiynau yn union. Dywed y trydydd, fod yn rhaid cael ffrwyth y groth i wneuthur iawn dros bechod yr enaid; yna rhwymir y cyntafanedig ar uchaf y coed yn aberth. Ond y mae Duw heb ei ddyhuddo: y mae y cymod heb ei wneuthur; ac y mae y modd i'w wneuthur yn guddiedig oddiwrth bawb, er bod myrdd yn gwneuthur prawfiadau (*experiments*) o'r naill beth ar ol y llall. Nid oes dim wedi ateb y diben. Yma y mae ffordd cymundeb medd un; acw y mae, medd y llall. Drwy y Ganges y mae,

medd yr Hindŵ;—drwy Mecca a Medina y mae, medd y Mohamedan;—drwy y tân y mae, meddai doethion Persia;—drwy y sêr y mae, meddai dysgedigion China: Nage, medd yr efengyl: "Efe yw'r iawn," ac am hyny Efe yw y ffordd. Dyma ragoriaeth mawr yr efengyl;—dyma lle y mae cuddiad ei chryfder hi: y mae IAWN ganddi,—y mae y rhodd sydd yn tòri digofaint,—y wobr sydd yn symud ymaith lid, ganddi hi. Y mae teimlad dwfn yn y fynwes y dylai Duw a dyn rodio ynghyd; ond y mae teimlad hefyd fod yn rhaid cael rhywbeth i'w gwneuthur yn gytun, cyn y bydd hyny yn bosibl. Chwilio am y peth hwn y mae pob crefydd arall; ond y mae yr efengyl wedi ei gael. Y mae yr iawn sy ganddi hi wedi cymodi Duw a dyn trwy symud ymaith y digofaint o fynwes Duw, a'r euogrwydd o fynwes dyn; ac y mae y ddau felly yn gallu rhodio ynghyd. Y mae yr iawn yn symud ymaith yr euogrwydd oddiar y gydwybod, fel y gall yr enaid edrych yn wyneb Duw mewn cyfiawnder, ac yn ei wisgo â newid dillad, fel na bydd ei halogrwydd yn atalfa i gymundeb. Y mae yn ei wneuthur yn gyfaill Duw, ac yn ei wneuthur yn debyg i Dduw: caiff fwyta ac yfed, fel pendefigion Israel wrth Sinai, gerbron yr Arglwydd, i ddangos ei fod yn gyfaill iddo; ac fe lewyrcha ei wyneb fel wyneb Moses, i ddangos ei fod yn debyg iddo. Y mae y feddyginiaeth yn gyfaddas i'n dwyn i dir cymundeb â Duw, ac â'r byd ysbrydol.

2. Y mae cyfaddasrwydd yn narpariaeth yr efengyl i ddwyn dyn i gyflawni ei ddyledswyddau at y byd ysbrydol. Oni bai fod gan y claf naturiol rywun arall i gyflawni ei ddyledswyddau at y byd hwn, buan y terfynai ei afiechyd mewn angau; ond am y medr rhai eraill wneuthur hyn, gall fyw blynyddoedd heb gyflawni nemawr o ddyledswyddau y ddaear, ac heb deimlo canlyniadau annedwydd, oblegid hyny. Ond y mae dyledswyddau yr afiach ysbrydol yn gyfryw nad all neb yn nghreadigaeth Duw eu cyflawni ond efe ei hun. Y mae haf a chynhauaf wedi eu rhoddi iddo, ac oni ddarpara efe ei hun ar gyfer y gauaf, nid oes neb arall a wna hyny. Ond pa ddyledswydd bynag sydd arno, y mae cyfaddasrwydd yn nhrefn yr yr efengyl i'w dwyn i'w chyflawni hi. Os ydyw ffordd y bywyd yn arw, y mae hi yn ei alw i'w cherdded, trwy addaw cymorth i hyny. Os ydyw y gwaith yn anhawdd, y mae hi

yn anog i'w gyflawni, trwy ddal o flaen y dyn obaith llwyddo. Os ydyw y porth yn gyfyng, a'r ffordd yn gul, y mae hi yn dangos bywyd yn y pen draw yn anogaeth i ymdrechu myned trwyddynt. Os angenrhaid ydyw dyfod rhwystrau, y mae ganddi hi goron y bywyd yn niwedd y daith yn wobr am ffyddlondeb. Os rhaid codi y groes i ganlyn Mab Duw, y mae ganddi orphwysdra i enaid yn gysylltiedig â hyny. Y mae hi wedi uno y goron â rhedeg;—wedi cysylltu gogoniant â'r dioddefiadau. Y mae y golud gwell a'r un parhaus draw, yn wobr am wrthod yr un diflanedig yma. Y mae y cymhelliadau cryfaf i ufudd-dod yn gysylltiedig â phob gorchymyn. Y mae addewidion yn crogi fel grawnsypiau ar hyd ymylau ffordd y bywyd. "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hun,"—dyna y gorchymyn :—" Duw sydd yn gweithio ynoch",—dyna anogaeth i'w gyflawni. "Dychwelwch wrth fy ngherydd," dyna'r ddyledswydd: "Mi a dywalltaf fy ysbryd i chwi,"—dyna y cymhelliad i'w chyflawni. "Aroswch yn Jerusalem," dyna eich gwaith chwi: "chwi a dderbyniwch addewid y Tad," dyna yr anogaeth gryfaf i'w wneuthur. Beth bynag ydyw ein dyledswyddau fel deiliaid y byd a ddaw, y mae darpariaeth yn nhrefn yr efengyl tuag at ein dwyn i'w cyflawni.

3. Y mae ynddi gyfaddasrwydd i gymodi y dyn âg ef ei hun. Fel y mae y corff yn ngafael clefyd yn methu cael gorphwysdra; felly iaith enaid afiach ymhob man ydyw, "Nid dyma fy ngorphwysfa, canys halogwyd hi." Pe byddai y deall yn gallu gorphwys yn rhywle, nid oes yno ddim i'r serch; a lle mae y serch yn gallu llonyddu, nid oes yno ddim i'r deall; ac y mae'r gydwybod yn condemnio pob un o honynt. I gymodi yr enaid ag ef ei hun, y mae yn rhaid iddi gael gwrthddrych y gall ei holl alluoedd gyd-lonyddu ynddo;—y deall i orphwys yn yr un fan a'r serch, a'r gydwybod yn dawel wrth edrych ar hyny;—pob cyneddf yn ysgrifenu ar yr un llanerch,—" Dyma fy ngorphwysdra." Y mae aflonyddwch y byd yn gwreiddio mewn bod y serch yn ymglymu am bethau y mae ar y deall gywilydd o honynt, a'r gydwybod â'i phin haiarn yn ysgrifenu pethau chwerwon yn eu herbyn. Y mae yr enaid o herwydd hyn fel arteithglwyd, yn cael ei dynu bob ffordd ar unwaith: cariad at bechod yn ei lithio i'w gyflawni; ofni cosb yn ei dynu oddi

wrtho: y serch yn tynu at anwiredd; y gydwybod at gyfiawnder y deall yn dywedyd, "Dyma y ffordd i rodio ynddi; yr ewyllys yn dywedyd, "Na ar hyd hon yr âf fi." Ond y mae yn yr efengyl fodd i ladd y gelyniaeth, ac i wneuthur preswylwyr y tŷ yn gyfeillion. Pan ddêl hi i mewn i'r tŷ, fe ymedy cenfigen y deall wrth y serch: fe dynir ymaith drais y serch ar y deall: ni bydd gan y serch ddim i'w guddio,—y deall ddim i gywilyddio o'i blegid, na'r gydwybod ddim i'w edliw. Fel y tystiodd Duw Dad, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd," felly y tystia yr holl enaid. "Fe'm boddlonwyd inau hefyd ynddo." "Yr wyf fi," medd y deall, "yn cael fy moddloni yn rhyfeddodau ei Berson." "Yr wyf finau" medd y serch, "yn cael fy moddloni yn hawddgarwch ei Berson." "Yr wyf finau," medd y gydwybod, "yn cael fy moddloni yn rhinweddau ei aberth." Y mae yr enaid fel hyn yn cael ei iachau; ac y mae canfod enaid heb fod yn faich—yn boen iddo ei hun,—enaid wedi ei iachau i raddau, yn un o olygfeydd prydferthaf y ddaear. Y mae mesur o foddlonrwydd ynddo ymhob man: nid oes arno eisiau ei symud o ystafell i ystafell yn nghreadigaeth Duw. Gall ymhelaethu heb falchio; gall brinhau heb rwgnach. Gall fod yn uchel heb fod yn uchelfrydig; bod yn dlawd, ac eto yn foneddigaidd. Y mae efe fel y graig yn y môr yr un, pa ffurf bynag fydd ar y dyfroedd o'i hamgylch hi. Y mae y trïagl sydd yn Gilead yn berffaith gyfaddas i holl ffurfiau y clefyd.

Ond nid yn unig y mae cyfaddasrwydd yn natur y feddyginiaeth i natur yr afiechyd, y mae cyfaddasrwydd mwy eto yn nhrefn yr efengyl. Buasai y cyntaf, sef ei bod hi yn gwellâu yr afiechyd, yn gwneuthur cyflwr pawb a'i gwrthodont hi yn ofnadwy iawn; ond yn ychwanegol at hyny, y mae ei dull hi o wellâu yn mwyhau y perygl o'i gwrthod. Pe dywedasai y prophwyd wrthym beth mawr, buasai rhwymau arnom ei wneuthur er mwyn glanhad; ond pa faint mwy ydyw y rhwymau, gan na ddywedodd ond "ymolch, a bydd lân? Pe na buasai yr efengyl yn rhoddi bywyd ond yn brin, buasem o dan rwymau i'w derbyn; ond pa faint mwy gan ei bod yn ei roddi yn helaethach? Buasai afalau aur yr efengyl yn werthfawr pe wedi eu hamgylchu â'r pethau mwyaf gwrthun; ond

pa faint mwy felly, gan eu bod wedi eu gosod mewn gwaith arian cerfiedig? Un o'r rhagoriaethau ychwanegol sydd yn yr efengyl, yr hwn sydd yn gymhelliad i'w derbyn, ydyw:—

1. Yr amrywiaeth sydd yn y dull y mae hi yn cael ei chynyg i'n sylw ni. Y mae hi wedi ei llefaru ar lawer gwaith, ac mewn llawer modd. Disgynodd yr Ysbryd unwaith ar hen athronydd myfyrgar yn anialwch Arabia. Ysgrifenodd hwnw, mewn dull dwfn a doeth, egwyddorion cyntaf ymadroddion Duw. Disgynodd drachefn ar enaid barddonol oedd yn eistedd ar orsedd Israel: fe gynghaneddodd hwnw y gwirionedd sydd yn iachau, yn odlau ysbrydol. Disgynodd waith arall ar y doethaf o ddynion: ysgrifenodd y cyfarwyddyd, y *prescription*, mewn diarhebion a chaniadau. Ac am y byddai ar rai eisiau rhywbeth arddunol (*sublime*) yn ngeiriau, fel sydd yn ngweithredoedd Duw, disgynodd yr Ysbryd ar enaid mawr Esaiah, i gyfarfod âg angen y dosbarth yna. Ac am fod y mwyafrif o drigolion y byd yn gyfryw nad oes modd cyffwrdd â hwynt ond drwy eu teimladau, disgynodd ei Ysbryd ar un oedd â'i ben yn ddyfroedd, geiriau yr hwn oeddent yn dyfod yn gynes o'i galon. Yr oedd ei holl ysgrifeniadau wedi eu bedyddio â dagrau, er mwyn cyffwrdd â chalon y dosbarth yna. Cynhyrfwyd ganddo eneidiau syml y pysgodwyr i ysgrifenu ystori ryfedd y dyn Crist Iesu, mor syml fel y gall y neb a redo ei darllen;—ac enaid mawr Paul i dreiddio i ddyfnion bethau Duw, fel na chai eisiau ymborth fod ar y gwŷr perffaith. Gallesid cyhoeddi y drefn oll mewn un dull, ac mewn un modd; ond fe amrywir cymaint ar y dull er mwyn gwneuthur y drefn yn fwy deniadol,—yn fwy sugn-dŷnol i bechadur. Ni fedraf ddarllen dim ond barddoniaeth, medd un: dyma drefn iachawdwriaeth ar gân i ti ynte. Nid oes genyf fi flas ar ddim ond hanes, medd un arall: dyma ffordd y cadw mewn ffeithiau plaen i tithau. Nid oes gan ddim swyn i mi ond athroniaeth ddofn, medd y trydydd: dyma ddoethineb Duw mewn dirgelwch i tithau. Ac nid yw y modd y cynwysir y drefn yn y Bibl ond cysgod o'r modd y cynygir hi i'n sylw ni eto. Fel yr ysgrifenwyd hi mewn llawer dull a modd, felly y mae yn cael ei llefaru. Os yw doethineb Paul yn rhy ddofn i chwi, daw Apolos wlithog yma i efengylu y pethau a berthynant i deyrnas

Dduw yn eich ymyl. Os yw "meibion y daran" yn eich dychrynu, daw Barnabas yn "fab diddanwch" i lefaru geiriau fel y diliau mêl. Yr Arglwydd a roddes y gair, ac y mae ymysg y fintai sydd yn ei gyhoeddi, rai o bob math. Y mae un yn byw o dan Sinai, ac yn dangos fflamau y mynydd i'r bobl yn wastad. Y mae un arall yn gosod ei babell rhwng Lle y Benglog a'r bedd newydd, ac y mae, naill ai yn cyfeirio at y groes, neu ynte yn dywedyd wrth ei wrandawyr, "Gwelwch y fan y gorweddodd yr Arglwydd." Y mae un yn tynu y tô oddiar ddistryw, a'r llall yn agor pyrth y nef. Oni wrandawsom cyn hyn ar enaid barddonol, yn pêr byncio trefn y cadw? Ni a glywsom hefyd y philosophydd Cristionogol, yn doeth egluro athroniaeth trefn yr achub: bryd arall ni a'i clywsom hi yn cael ei chyhoeddi gyda symlrwydd plentyn, fel na buasai raid i ynfydion gyfeiliorni ynghylch y ffordd i'r nef. Paham na wellâ yr iechyd, gan fod y feddyginiaeth mor gyfaddas? Paham y mae yr holl weision heb lwyddo gyda chwi;—y bibell a'r alarnad,—y ddeddf a'r efengyl,—mab y daran a mab diddanwch, heb lwyddo?

2. Rhagoriaeth arall sydd yn perthyn i'r drefn, yn annibynol ar ei bod hi yn iachawdwriaeth, ydyw y gogoniant sydd ynddi. Y mae y ddaear, nid yn unig yn cynal y trigolion, ond yn dra phrydferth yr olwg arni hefyd. Gallasai gynal ei thrigolion, a bod yn bur hagr ei gwedd, heb ddim swynol i'r llygad ynddi; felly, am a wyddom ni, gallasai trefn iachawdwriaeth gadw, pe na buasai hi mor ogoneddus; ond y mae ei gogoniant hi yn gymhelliad ychwanegol i'w derbyn. Nid yw yr angylion yn derbyn iachâd oddiwrthi, ond y maent hwy yn chwenych edrych ar ei gogoniant; ac ar ol i'r drefn orphen iachau, hi a dýn sylw wedi hyny. Pan gyrhaeddodd Israel Ganaan, fe beidiodd y manna, symudwyd y golofn, sychodd afon Horeb; —nid oeddent ond pethau dros amser; pan ddarfyddodd yr anialwch, fe beidiasant hwythau. Ond nid felly y bydd hi gyda Sïon: y mae ei hiachawdwriaeth hi yn iachawdwriaeth dragywyddol;—fe dýn ei *gogoniant* hi lawn cymaint o sylw yn Nghanaan, ag y mae ei *buddioldeb* hi yn ei dýnu yn yr anialwch. Os na fydd syched yn peri i'r Cristion yfed o afon Duw, fe ŷf o honi byth oherwydd pereidd-dra y dwfr. Buddioldeb, ac nid

gogoniant y drefn, sydd yn tŷnu y sylw mawr yn awr. Pan deimlodd y pechadur yr hen long yn suddo, fe neidiodd i long arall, oedd yn myned heibio ar y pryd. Prin y mae wedi cael hamdden meddwl i edrych dim ar y llestr eto; cael diogelwch ydyw y peth mawr yn awr; ond wedi i'w feddwl lonyddu ychydig, a chael hamdden i edrych o'i amgylch, fe wêl fod harddwch y llong lawn cymaint a'i nerth; ac y mae yn ddigon tebyg yr anghofia ei fod ef yn cael ei achub ynddi wrth edrych ar ei phrydferthwch. Nid oes dim yn anmhriodol yn y meddwl y gall y Cristion yn y nef anghofio ei berthynas ei hun â'r drefn, wrth syllu ar ei rhyfeddodau,—anghofio ei buddioldeb hi yn ei gogoniant. Yr afiechyd a fu yn achlysur i ddwyn y claf a'r meddyg at eu gilydd; ond wedi i hwnw hen wellâu, parhant yn gydnabyddus. Os gall y Cristion wneuthur hebddo fel Meddyg, fe lŷn wrtho yn dragywydd fel Cyfaill. Yr afiechyd a barodd fod yn rhaid iddô wrth y Meddyg, ond bydd yn rhaid iddo hefyd wrth yr un Gŵr yn Gyfaill pan yn iach ag oedd raid iddo wrtho yn Feddyg pan yn glaf. Nid yw y Physygwr ddim ond mantais i ddyfod yn gydnabyddus â'r Cyfaill. Nid yw buddioldeb y drefn ddim ond porth sydd yn arwain i'r deml i ganfod ei gogoniant hi: pan eir i mewn, fe anghofir y porth. Beth ydyw y gogoniant hwn sydd yn perthyn iddi? Swyn ychwanegol sydd ynddi i dŷnu sylw,—y rhagoriaeth arall sydd ar y triagl. Mewn gair, mor gyfaddas ydyw y drefn i ni ymhob golygiad: y mae hi yn agor byd o ryfeddodau, byd o drysorau, a byd o hawddgarwch, ger ein bron. Am ryfeddodau,—am drysorau,—am ddymunoldeb, y mae holl drigolion y ddaear yn chwilio. Nid oes odid gongl o'r greadigaeth, nad oes rhyw philosophydd wedi bod yno yn chwilio am ryfeddodau: nid oes odid wrthddrych mewn un man nad ydys wedi ei holi a ŵyr ef am ddim newydd. Pa le y mae y wlad na chloddiwyd unwaith ac eilwaith yno am drysorau? Pa le y mae y fynwes na chwiliodd bob man am rywbeth i'w garu? Ond y mae cynefindra â'r rhyfeddodau yn peri iddynt beidio a bod felly; y mae meddianu y trysorau yn tŷnu oddiwrth eu gwerth;—y mae ymaflyd yn y blodeuyn yn peri i'w ddymunoldeb wywo. Pa le y mae rhyfeddodau? medd yr enaid galluog: Nid ynom ni, medd y sêr;—nid ynof finau medd y

dyfnder. Pa le y mae trysorau i'w cael? medd yr enaid awyddus i feddianu: nid ynom ni, medd y mwn-gloddiau;—nid yn ein gwlad ninau, medd y perlau. Pa le y mae hawddgarwch? medd yr enaid sydd yn teimlo fod yn rhaid iddo fyned allan o hono ei hun i ymhyfrydu mewn rhyw beth: nid ynof fi, medd holl natur. Pa le y mae eu trigle hwynt? Yr Arglwydd a'i hedwyn; ac wrth ddyn Efe a ddywedodd, yn efengyl Iesu Grist, "Duw a ymddangosodd yn y cnawd;" dyna ryfeddod! "Myfi a fyddaf yn Dduw i ti;"—dyna drysor! "Dy Briod yw yr hwn a'th wnaeth;"—dyna hawddgarwch! Paham y mae trefn mor gyfaddas heb ateb y diben? Paham y mae iechyd y bobl heb ei wellâu, pan y mae y triagl sydd yn Gilead mor rinweddol, a'r Physygwr sydd yno mor fedrus? Y mae Philosophyddion y byd yn cloddio at sylfeini pob peth,—yn chwilio pob dirgelwch,—yn mesur y sêr,—yn goleuo â'u gwybodaeth grombiloedd y ddaear, fel na chaiff dim lechu mewn dirgel-fanau nas mynant wybod pob peth yn ei gylch: eu gwaith ydyw adrodd neu wrandaw newydd: y maent wrth eu proffes yn rhai a fynant wybod y rheswm am bob peth: os clywant am ryfeddod neu ddirgelwch newydd, y maent yn foddlawn i ddioddef y cyfyngderau mwyaf er mwyn ei weled,—bron i ferthyru eu hunain er mwyn ei ddeall; ond dyma faes na welsant erioed ei fath, yn llawn dirgelion a rhyfeddodau: Paham na chai y rhai hyn foment o'u sylw? Taflodd un philosophydd ei hun i'r môr, am na fedrai ddeall yr achos o'r llanw a'r trai; ond dyma lanw annhraethol ryfeddach yn môr cariad a gras: Paham na thynai hwn ei sylw? Chwiliant yn ddyfal am ryw haul mawr a dybir sydd yn ganolbwynt i heuliau y ffurfafen; ond dyma Haul sydd yn ganolbwynt i ymerodraeth Duw i gyd: Paham y mae hwn yn cael ei esgeuluso? Paham y mae y beirdd yn gwylied yn ddyfal beunydd wrth byst pyrth natur,—yn gwrandaw mor astud ar ei myrddiynau lleisiau,—yn cael eu swyno gan ei pheroriaeth; eto heb glust i'r llef ddistaw fain, heb chwaeth at fiwsig yr efengyl? Y mae gan bob mynydd ryw swyn iddynt: paham nad Calfaria hefyd? Y mae pob rhosyn yn ddymunol yn eu golwg: paham nad Rhosyn Saron hefyd? Ond, rhag ein bod yn siarad am rai nad ydynt yn gwrandaw, ni a ddeuwn yn nes adref. Paham y mae

y dyn yma sydd mor awyddus i gyfoeth nad oes yr un aberth yn rhy fawr ganddo ei wneuthur er mwyn ei gyrhaeddyd,—paham y mae, nid yn unig heb ymofyn am, ond yn gwrthod yr un perl gwerthfawr,—yn gomedd derbyn etifeddiaeth anllygredig? Paham y mae y dyn yna sydd bron llewygu wrth redeg ar ol anrhydedd, yn gomedd cymeryd ei goroni â choron anniflanedig? Paham y mae ugeiniau sydd yma o rai wedi eu siomi gan y byd ganoedd o weithiau,—pan ddywedodd ef 'llyma' ddedwyddwch, neu 'llyna' yn y diffeithwch y mae yn cartrefu, ond erbyn myned yno ni bydd i'w gael: 'yn yr ystafelloedd y mae yn aros,' ond yno hefyd nis gellir ei ganfod: mewn anghymedroldeb y mae; nage, medd y meddwyn, mi fum i yno, ond nid oedd ef yno. Mewn cyfoeth y mae: nage, meddai y cybydd, mi fum i yno, ond nid oedd ef yno. Mewn oferedd y mae: nage, meddai y masweddwr, mi fum i yno, ond nid oedd ef yno chwaith. Paham, er cael eich siomi aneirif weithiau gan y byd, yr ydych mor barod i'w gredu heddyw ag erioed? Paham na roddwch chwi un prawf ar efengyl Iesu Grist? A gaiff pawb eu hystyried yn eirwir, ond Duw y gwirionedd? A ymolchir ymhob dyfroedd, ond dyfroedd yr Iorddonen? A wneir prawf o bob meddyginiaeth, ond y triagl sydd yn Gilead? A gaiff pob physygwr gefnogaeth, ond Physygwr eneidiau? "Paham na wellâ iechyd merch fy mhobl?"

II. Beth ydyw y rheswm fod yr efengyl heb ateb ei diben?—y feddyginiaeth heb iachâu? Mewn gair, am nad yw yn cael ei phrofi yn deg; ac y mae tri achos o hyn:—

1. Am fod y cleifion heb deimlo eu pla. Gallasai angylion feddwl na buasai dim yn angenrheidiol ar y ddaear, ond clywed fod pyrth y nef wedi eu hagor, na buasai pawb yn ymwthio i'r deyrnas; ac y buasai yn llawn mor briodol galw y porth yn gyfyng, am fod y dyrfa oedd yn myned trwyddo yn fawr, ag ydyw ei alw felly o herwydd ei burdeb, a'i groesineb i bechod. Ac er iddynt weled yr hen oruchwyliaeth yn methu,—y nefoedd yn cael ei gwerthu gan filoedd am lai nag y gwerthodd Esau ei enedigaeth fraint, — eto gallasent briodoli hyny i dywyllwch yr oruchwyliaeth. Yr oedd ei gogoniant hi o'r golwg. Ond pan ymddangosodd Duw yn y cnawd, yr oedd eu caniadau yn awgrymu eu bod yn meddwl fod amser yr

oruchafiaeth gerllaw, pan y difodid teyrnas y tywyllwch gan deyrnas y goleuni. Yr oedd Duw i gael gogoniant yn y goruchaf; yr oedd tangnefedd i fod ar y ddaear, ac ewyllys da i ddynion. Ac yn nylifiad y cleifion naturiol at Feddyg enaid, gallwn yn hawdd gredu fod angylion yn gweled cysgod o ddylifiad cleifion ysbrydol. Ond beth ydyw hanes y byd o hyny hyd yn awr ond rhy debyg i'w hanes cyn hyny? Nid oes mwy yn parchu y Mab dan yr oruchwyliaeth hon nag oedd yn parchu gweision yr hen. "Ychydig" eto "sydd yn ei chael hi." Paham? Heb deimlo y pla y maent. Y mae yn anmhosibl rhoddi cyfrif am ymddygiad y byd yn gyffredinol at yr efengyl ar un tir arall. Heb deimlo eu pla—heb weled eu cyflwr y maent. Darfu i Columbus ddarganfod byd newydd yn y gorllewin; mewn canlyniad i hyny, y mae miloedd a myrddiynau o'r hen gyfandir yn myned yno i fyw, am ei bod yn wlad well iddynt hwy na hon. Darfu i'r Arglwydd Iesu ddarganfod y byd tragwyddol,—dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni;—ac er bod y wlad ynddi ei hunan yn annhraethol well na hon, nid yw myrddiynau y ddaear ddim yn ymorchestu i fyned yno i fyw. Darfu i Newton eglurhau y dyrysbwnc mawr, a chael allan drefn ryfedd y rhod;—efe a ganfyddodd y ddeddf gref oedd yn egluro y cyfan. Mewn canlyniad i hyny, trodd myrddiynau eu llygaid i ddeall wyneb y nefoedd, er nad oedd perthynas rhwng hyny â'u bywyd, nac â'u dedwyddwch. Darfu i Iesu Grist eglurhau y pwnc rhyfedd, pa fodd y gallai Duw fod yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau yr annuwiol. Fe drodd myrddiynau y ddaear at y rhyfeddod, oblegid y mae perthynas hanfodol rhyngddo â'u bywyd, ac a'u dedwyddwch? Naddo. Paham y mae hyn? Heb deimlo yr euogrwydd y maent. Eled haner gwallgofddyn trwy Ewrop i gyhoeddi rhyw groes ddychymygol, dyna Ewrop yn fyw o gynwrf,—yr hen ŵr briglwyd a'r plentyn ieuanc a'u mynwesau yn llosgi gan zel,—yn anturio, a'u bywyd yn eu llaw, i feddwl enill Jerusalem, bedd Crist, a Lle y Benglog. Anfonwch ddoethineb Teman, dychymyg y Dwyrain, a hyawdledd Groeg, i gyhoeddi y wir groes, y mae y wlad yn eistedd ac yn llonydd, heb neb yn dywedyd, 'Awn hyd Bethlehem,' a Lle y Benglog, i addoli. Paham? Heb weled eu hangen hi y maent. Ffugiwch wyrth

ar gorff dyn, dyna ugeiniau o gleifion yn y fan yn llawenychu,—gobaith yn ail feddianu y galon amddifad. Gwneler gwyrth wirioneddol ar enaid,—cyhoedder hi wrth filoedd o gleifion,—y maent yn clywed fel heb glywed. Paham? Heb deimlo eu pla y maent. Ac nid rhaid i ni fyned yn ol i'r cyn-oesoedd, i holi paham yr oedd Paul a'i frodyr oedd yn mynegi ffordd iachawdwriaeth, heb lwyddo. Paham y mae y gweision heb lwyddo heddyw? Ac er bod teimlad mewn llawer mynwes cyffelyb i deimlad yr Iuddewon oedd yn adeiladu beddau y prophwydi a laddwyd gan eu tadau, gan feddwl pe buasent hwy yn byw yn nyddiau eu tadau, na buasent yn ymddwyn fel hwynt, ond yr oedd eu gwaith yn dirmygu, ac yn anufuddhau i brophwydi y dyddiau hyny, yn eu profi yn blant ymhob ystyr i'r rhai a laddasant brophwydi y dyddiau gynt; felly twyllo ei hun y mae y dyn hwnw sydd yn meddwl y buasai yn garacter gwahanol pe buasai yn byw yn nyddiau y tadau. 'Os na chredwch chwi i Moses a'r prophwydi, ni chredech ychwaith pe codai un oddiwrth y meirw.' Yr un ydyw crefydd yn ei phethau mawr ymhob oes. Yr oedd y porth yr un mor gyfyng yn nyddiau ein tadau ag ydyw yn ein dyddiau ni, a'r ffordd yr un mor gul. Nid oedd yr agendor rhwng pechod a sancteiddrwydd ddim yn haws ei groesi y pryd hyny nag ydyw yn awr. Yr oedd ffordd y bywyd fry gynt, fel y mae hi eto;—mynydd Duw yn fynydd cribog yn eu dyddiau hwynt, fel yn ein dyddiau ni. Ac y mae gwaith gwrthodwyr yr efengyl yn lladd yn raddol y prophwydi sydd yn awr, yn brawf i ni mai hyny a wnaethent â'r prophwydi gynt. Y mae llawer yn awr, fel yn nyddiau Hosea, fel rhai yn ymryson â'r offeiriad, pan mewn gwirionedd y mae y drwg yn nes adref o lawer. Dideimladrwydd o'r pla,—cariad at bechod,—ydyw yr achos na dderbynir y feddyginiaeth. Nid oedd eisiau areithiwr hyawdl i berswadio trigolion Samaria i fyned i wersyll y Syriaid: yr oedd gwahan gleifion yn gwneyd y tro. Nid oedd eisiau ymresymydd medrus i gychwyn Naaman at y prophwyd: yr oedd caethes fechan yn gwneyd hyny. Nid oedd eisiau philosyphydd dwfn i ymresymu â meibion Jacob cyn y cychwynent i'r Aipht i ymofyn ymborth. Yr oedd y Samariaid yn credu y gwahan-gleifion, am fod newyn yn duo eu cnawd. Yr oedd Naaman yn gwrandaw ar y forwynig

fechan, am ei fod yn teimlo y gwahanglwyf. Yr oedd meibion Jacob yn ufuddhau i'w tad er pob rhwystr, am fod angau yn Nghanaan. Paham nad ymddygai y cleifion ysbrydol fel hyn at y feddyginaeth a'r Meddyg? Heb deimlo eu pla y maent. "Paham na wellâ iechyd merch fy mhobl."

2. Y mae y feddyginiaeth yn ei natur yn gyfryw ag y mae gwrthwynebiad yn y cleifion sydd yn teimlo graddau i'w derbyn. Yr ydym wedi ceisio dangos ei chymhwysder hi ymhob ystyr i holl natur dyn; ond y mae un peth yn perthyn iddi sydd yn peri i'r byd, er hyny, ei gwrthod, a mynu marw,—sef ei sancteiddrwydd hi. Ni a gawn ddywedyd am y brif-ffordd sydd yn arwain i'r nefoedd: ni a gawn ei desgrifio yn ffordd hyfrydwch, ac yn llwybrau heddwch. Y mae llawer un wrth wrandaw yn teimlo ar ei galon rodio ynddi; ond pan ddywedwn mai ffordd sanctaidd y gelwir hi, ac nad ä yr halogedig ar hyd-ddi, fe ä yr un rhai ymaith yn athrist yn y fan. Nid oes ganddynt wrthwynebrwydd i wasanaethu yr Arglwydd, os ceir gwasanaethu y delwau hefyd. Caiff yr arch fod mewn lle anrhydeddus, os caiff Dagon fod yn ei hymyl hi. Fe aberthir yn ewyllysgar i'r Arglwydd, os ceir ymgrymu yn nhŷ Nimrod hefyd. Y mae croesau ar ffordd y bywyd; ond nid oes yr un groes na chodai y byd hi dan ganu, ond y rhai hyny sydd yn cael eu hachosi gan sancteiddrwydd y ffordd. Dyweder fod yn rhaid cerdded ar bigau o heiyrn; dyna gan-oedd, a'u gwaed yn lliwio y ffordd mewn ufudd-dod, yn brawf mai nid caled yn eu golwg oedd yr ymadrodd. Dyweder fod yn rhaid croeshoelio nwydau y galon; dyna yr un dynion yn dywedyd, Caled yw yr ymadrodd, pwy a ddichon wrandaw. Gorchymyner pererindodau o ganoedd o filldiroedd; dyna ufudd-dod i'r gorchymyn yn y fan. Gorchymyner peidio caru y byd na'r pethau sydd ynddo; dyna ganoedd, wedi clywed y gair yna, na rodiant mwyach gyda ni. Ceisier ganddynt roddi eu corff i'w losgi; dyna'r ffagodau yn cyneu o'u hamgylch: ceisier ganddynt aberthu eu chwantau, ânt ymaith yn drist yn y fan. Gorchymyner iddynt farweiddio eu corff; gwnant hyny, mewn gwyliadwriaethau nos a hir weddiau, nes y daw eu hesgyrn i'r amlwg, y rhai ni welid o'r blaen. Ond gorch-ymyner iddynt farweiddio gweithredoedd y corff trwy yr

Ysbryd, yn ofer y disgwylir ufudd-dod i'r gorchymyn yna. Beth sydd yn cadw ugeiniau o wrandawyr cyson efengyl oddiwrth grefydd ? ansancteiddrwydd y rhai sydd yn ei phroffesu hi? Nage: ond sancteiddrwydd crefydd ei hun. Na thwyller chwi, nid anmherffeithrwydd ydyw yr atalfa, ond perffeithrwydd crefydd. Nid nad oedd yn dda gan Dafydd gael yr orsedd yn ol oedd yn peri iddo fod mor hwyrfrydig i fyned yn erbyn y gwrthryfelwyr; ond rhag y byddai hyny yn angau i'w Absalom anwyl. Byddai yn dda gan lawer un·eto gael crefydd, oni bai y byddai hyny yn angau i'r llanc Absalom. Sancteiddrwydd y feddyginiaeth yw un achos mawr paham y mae hi heb ei derbyn. Ond yn olaf,—

3. Nid yw yr iechyd yn gwellâu, am fod y rhai sydd yn proffesu cymeradwyo y drefn yn ymarfer â hi yn ol yr ordeiniad. Y mae rhai heb glywed y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu: nid yw y gair yn cael ei iawn gyfranu iddynt. Y mae eu synwyr hwythau heb gryfhau i allu gwahaniaethu y pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt. Pregethir yr ymarferiad corfforol, yr hyn nid yw yn fuddiol ond i ychydig, yn lle y duwioldeb sydd yn fuddiol i bob peth. Gwneir crefydd i fyny o draddodiadau y tadau a ffurfiau defosiynol, yn lle o air Duw a defosiwn enaid. Ond nid yw hyn yn ddim amgen nag arfer swynion at yr afiechyd, yn lle cymeryd y feddyginiaeth i'w wellâu;—yn ddim amgen na rhodio o amgylch llyn Siloam, gan ddisgwyl dyfod i weled felly, heb ymolchi yn ei ddyfroedd. Ond nid dyna y paham y mae neb o honoch chwi yma heb ei iachau. Y mae y gair yn ddiameu wedi ei iawn gyfranu i chwi lawer gwaith, ond y mae yma lawer heb ei iawn ddefnyddio unwaith. Cymerant un ran o hono ar wahan oddiwrth ran arall: ymddyrysant wrth geisio darllen llyfr Duw, yn lle dysgu darllen eu llyfr eu hunain. Ymbalfalant yn nos y dirgeledigaethau, yn lle rhodio yn ngoleuni y pethau amlwg. Yn lle ysgrifenu eu henwau eu hun o dan addewidion y Bibl trwy gredu, y maent yn aros i gael gwybod yn gyntaf a ydyw eu henwau yn llyfr bywyd yr Oen, gan ollwng dros gôf mai trwy y cyntaf y mae profi yr ail. Trwy ysgrifenu â'th law yn y llyfr datguddiedig, mae i ti brofi fod dy enw yn ysgrifenedig yn y llyfr dirgel. Trwy hir gynefindra â'r pethau amlwg, y mae ymgydnabod

â'r dirgeledigaethau: trwy hir ofni yr Arglwydd y mae cael gwybod ei ddirgelwch;—trwy wneuthur yr ewyllys y mae cael deall y ddysgeidiaeth. Wedi i Abraham hir rodio gyda Duw, y mae yr Arglwydd yn gofyn, "A gelaf fi rhag Abraham?" Na cheisiwn ysgar y pethau a gysylltodd Duw, na chwilio am y pethau a guddiodd Efe. Mentrwch ymaflyd yn y gadwyn, er na welwch chwi yr un ddolen o honi ond y galw; oblegid y mae rhaglunio ac arfaethu y tragywyddoldeb diddechreu, cyfiawnhau mewn amser, a gogoneddu y tragywyddoldeb diddiwedd, wedi eu cysylltu â'r ddolen fawr yna:—"y rhai a alwodd Efe." Gallwn ymresymu yn ol ac ymlaen oddiwrth hynyna. Os ydyw yn fy ngalw, y mae yn sicr wedi fy rhaglunio a'm hethol;—os ydyw wedi fy ngalw, y mae yn sicr o fy ngogoneddu. Y mae gan Dduw ddau lyfr: un yn ymyl ei orsedd fry, a'r llall genym ni ar y ddaear; ond y mae cydgordiad perffaith rhwng y ddau. Os nad oes dim yn y llyfr hwn ar ffordd dy achub, gelli fod yn gwbl sicr nad oes dim yn y llyfr fry ychwaith. Gwna di yn siwr o bethau amser, fe ofala Duw am bethau tragywyddol. Cred di yma, fe ofala Efe y caiff y cysylltiad fod yn ddigon diogel rhwng hyny a chadwedigaeth yn y byd a ddaw. Os dywed neb wrtho yma, "Mi a bechais, ac a wyrais uniondeb, ac ni lwyddodd i mi," fe ofala Efe na "ddisgyn yr enaid hwnw ddim i'r clawdd" yn y byd a ddaw. Defnyddiwch y feddyginiaeth yn ol y cyngor: "torwch ymaith eich hanwireddau trwy gyfiawnder;"—"gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gŵr anwir ei feddyliau;"—ymostyngwch i iau Mab Duw, a pha faint bynag o ddadl a all fod ynghylch y pethau dirgel, y mae y pethau amlwg hyn yn ddiddadl. Un gair wrth derfynu:—

Os caiff y pethau a ddywedwyd yr argraff a fwriadwyd iddynt gael ar eich meddwl, hyn a fydd: os yn ol y byddwch chwi yn y diwedd, bydd eich colledigaeth yn gwbl wrth eich drws eich hun. Gall pawb, ond tydi dy hun, olchi eu dwylaw a dywedyd, "Dieuog ydwyf fi oddiwrth waed y dyn hwn." Nid am nad oes driagl yn Gilead, a Physygwr yno, y byddwch chwi yn ol. Nid ychwaith am nad oedd y feddyginiaeth yn gyfaddas;—nid am na chymhellwyd hi yn daer ac yn onest arnoch ganoedd o weithiau: y mae y trawst o'r gwaith coed, a'r gareg o'r mur, yn barod i dystio hyn. Ac onid oes genym

ychwaneg i'w ddywedyd na hynyna ? Er y gall y tafod geisio taflu y bai ar rywun arall, y mae teimlad dwfn yn eich calon mai chwi eich hunain yn unig sydd yn y bai. Pan ddywed y Meddyg, "Ni fynwch ddyfod ataf fi," y mae y gydwybod yn adsain, Amen, felly y mae hi, Arglwydd. Nid am nad ydym yn byw yn oes y diwygiadau,—nid am na syrthiodd ein llinynau yn ymyl trigleoedd y rhai hynod ymysg yr apostolion, y byddwn ni yn ol. Nid am na chawsom ni dalentau i farchnata, y byddwn ni yn methu talu y llôg. Nid am nad oedd y ddaear yn ffrwythlawn, y byddwn ni yn ffigysbrenau diffrwyth. Os gwinwydden wâg a fyddwn ni, nid ar y winllan, nac ar y Gwinllanydd ychwaith, y bydd y bai; "ti a'th ddinystriaist dy hun." Ond y mae yn hyfryd cael dywedyd hyn, er dy fod wedi ymgyndynu yn hir, y mae y triagl yn Gilead, a'r Physygyno, eto; am hyny, nid yw yr afiechyd ddim yn anobeithiol. Y mae ei fod yn anfon ei weision yn brawf ei fod yntau ei hunan gerllaw. Yn nyddiau ei gnawd, fe anfonodd ei ddisgyblion i ragflaenu ei wyneb i bob man yr oedd Efe ei hun yn meddwl myned; a lle bynag yr äi, yr oedd clefyd ac afiechyd yn ffoi o'i flaen. Felly y mae eto: "Efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy." "Wyf gadarn i iachâu," medd Efe; ond nac oeda i fyned ato, oblegid os ä y Meddyg o'r wlad, nid oes neb arall yn nghreadigaeth Duw a all atal i dy bla derfynu mewn angau.

[Mai 10, 1848.]

# PREGETH XXIV.

## BRENIN SION YN DESTYN GORFOLEDD.

SALM cxlix. 2:—"Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

Y MAE llawer o ddesgrifiadau sydd yn yr Hen Destament o bersonau a phethau perthynol i oruchwyliaeth Moses yn cael eu cymhwyso yn y Testament Newydd at bethau a phersonau yr oruchwyliaeth efengylaidd. Pethau a lefarwyd yn yr Hen am Dafydd a Solomon, y mae y Newydd yn eu cymhwyso at Iesu Grist. Nid oedd yr hen oruchwyliaeth a'i phersonau ond cysgod daionus bethau yr oruchwyliaeth hon; ac yr oedd y prophwydoliaethau a gyflawnwyd mewn rhan yn mhersonau yr oruchwyliaeth hono, yn edrych ymlaen am eu perffaith gyflawniad i hon. Y mae y testyn yn esiampl o hyn. Llefarwyd ef o dan oruchwyliaeth yr Hen Destament; ac er ei fod yn trosglwyddo gwirionedd pwysig i feddwl Iuddew y pryd hwnw, eto nid yr un gwirionedd yn hollol ydoedd ag y mae yn ei drosglwyddo i feddwl yr eglwys yn awr. Wrth alw ar feibion Sïon i orfoleddu yn eu Brenin y pryd hwnw, yr hyn a olygir oedd eu galw hwynt i orfoleddu yn Nuw, yr hwn sydd yn eistedd yn Frenin yn dragywydd; ond wrth alw arnynt i orfoleddu yn eu Brenin yn awr, yr hyn a feddylir ydyw gorfoleddu yn yr Immanuel, "Duw yn y cnawd." Ac wrth sôn am Frenin Sïon yn bresenol, er fod ein testyn yn yr Hen Destament, ni a gawn ei ddefnyddio fel yn perthyn i Immanuel y Testament Newydd. Nid oes odid enw yn cael ei roddi yn amlach ar Iesu Grist na Brenin; ac i olwg ddynol nid oedd yr un enw yn fwy anmhriodol iddo na hwn. Hwn oedd un o'r enwau yr hoffai

prophwydi yr Hen Destament ei ddesgrifio wrtho. Gofalai Esaiah yn y desgrifiad o'r "Bachgen a anwyd," ddywedyd y byddai "y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef." Desgrifiai Michah Ef fel "Tywysog," a Zechariah o dan yr enw "Brenin merch Sïon." Fel Brenin hefyd yr oedd yr Iuddewon yn ei ddisgwyl. O dan yr enw hwn yr ymofynai y doethion am dano. Yr enw hwn a barodd i lid Herod greulawn enyn yn ei erbyn. "Ai Brenin wyt ti?" meddai Pilat; a'r ysgrifen a roddwyd mewn dirmyg uwch ben ei groes ydoedd, "Hwn yw Brenin yr Iuddewon." Ond yn ol syniadau cyffredin dynion am urddas brenhinol, yr oedd yr olwg arno ef yn gyfryw o ddechreu ei oes i'w diwedd, fel y buasai yn gymhwysach dywedyd, cywilyddied meibion Sïon, o'u brenin. Pe gofynasid cwestiwn Pilat, "Ai Brenin wyt ti?" buasai ateb nacaol yn dyfod braidd o bob man;—buasai rhywrai yn ateb, Na, nid brenin ydyw, oblegid yn llety yr anifail y ganwyd ef;—Na, nid brenin ydyw, meddai trigolion Nazareth, oblegid trwy chwys ei wyneb y bwytaodd ef fara;—Na, nid brenin ydyw, meddai y Phariseaid a'r Saduceaid, oblegid nid oes ganddo le i roddi ei ben i lawr;—Na, nid brenin ydyw, medd pawb; ac y mae hyd yn nôd ei ddisgyblion yn barod i gyduno yn y dystiolaeth, oblegid efe a fu farw ar bren. Ond er mor annhebyg, eto Brenin ydyw, a Brenin y gelwir ar Sïon yn y testyn i orfoleddu ynddo. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin," er iddo gael ei eni mewn ystabl: ïe, er iddo fod yn y tlodi mwyaf; ïe, er iddo farw rhwng lladron; ïe, "gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

Nid hawdd yw i ni yn y wlad hon deimlo yr un peth ag a deimlai Iuddew wrth glywed yr ymadrodd hwn; oblegid y mae gwaith a sefyllfa brenin yn wahanol iawn yma ragor oeddent yno. Y fath ydyw cyfansoddiad ein gwlad ni fel nad ydyw o gymaint pwys beth fydd cymeriad personol y brenin: fe all fod yn ddyn drwg, ac eto yn frenin da. Mewn gwirionedd, nid oes ganddo ond ychydig i'w wneuthur gyda dedwyddwch neu drueni ei ddeiliaid. Ond yn y gwledydd dwyreiniol, yr oedd hi gynt, fel y mae hi yn awr, yn wahanol iawn. Yr oedd y brenin yno yn ben-arglwydd, a hawl ganddo i wneuthur fel y mynai â phawb ac â phob peth; am hyny yr oedd cymeriad y brenin fel dyn o'r pwys mwyaf i'r deiliaid, oblegid yno ni

allasai dyn drwg fod yn frenin da. Ac felly y darllenwn ni, fod llwyddiant a dedwyddwch Israel yn ymddibynu ar garacter personol y llywodraethwr; ac am hyny y cyhoeddir gwae uwchben y wlad oedd â bachgen yn ei llywodraethu,—un heb y cymhwysderau angenrheidiol i hyny. Ac nid yn unig yr oedd dedwyddwch y deiliaid yn ymddibynu fel hyn ar y brenin, ond yr oedd eu diogelwch rhag gelynion yn ymddibynu arno hefyd, am mai y brenin yn gyffredin fyddai yn arwain y lluoedd allan i ryfela, a byddai llwyddiant y rhyfel yn ymddibynu ar fedr a gwroldeb yr arweinydd; felly yr oedd mor angenrheidiol i ddedwyddwch y deiliaid gael y brenin yn un gwrol a medrus ar faes y gwaed, ag ydoedd ei gael yn un cyfiawn a thyner ar orsedd barn. A hwn ydyw y meddwl sydd yn g[illegible]iedig â'r gair Brenin pan ei cymhwysir at Iesu Grist: nid un fel brenin Lloegr i roddi ei law wrth ddeddf a wnaed gan eraill, ond i wneyd y deddfau ei hun, heb hawl gan neb i ofyn, Beth yr wyt ti yn ei wneuthur;—nid un i awdurdodi arall i arwain y lluoedd i faes y gwaed, ond un i'w harwain hwynt ei Hun. Fe allai ein teyrnas ni gael deddfau da, ac amddiffyniad cadarn, heb na doethineb na gwroldeb yn y neb fyddo yn eistedd ar yr orsedd; ond y mae cyfiawnder a daioni deddfau Sïon, a'i diogelwch hi hefyd, yn ymddibynu yn gwbl ar garacter ei Brenin; am hyny, gelwir arni yn y testyn i orfoleddu ynddo.

Y mae cael llywodraethwr i sicrhau y ddau ddiben hyn, sef diogelwch y wlad rhag gelynion, a'i llwyddiant tumewnol hi hefyd, yn dra anhawdd; oblegid nid yw brenin sydd yn enwog mewn rhyfel i amddiffyn y deiliaid, yn gyffredin yn enwog, mewn amser o heddwch, i sichau eu dedwyddwch. Nid yw yr hwn sydd yn feddianol ar allu i adeiladu ymerodraeth fawr, yn gyffredin yn meddu doethineb i'w gwneyd hi yn un hapus. Y mae Dafydd wrol yn gallu ëangu terfynau y deyrnas; ond Solomon ddoeth, mewn adeg heddychlawn, a all beri i lwyddiant a llawnder lanw pob cwr o honi. Ond y mae y ddau wedi cyd-gyfarfod yma. Y mae Brenin Sïon mor fawr yn amser heddwch ag ydyw mewn rhyfel: nid ydyw yn enwocach ar faes y gwaed nag ydyw ar orsedd barn. Y mae ei ddoethineb a'i ddaioni mor amlwg gartref ag ydyw ei allu oddicartref: am hyny, gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

I. Ni a gawn enwi rhai pethau sydd yn rhaid fod ymhob brenin, cyn y gall y deiliaid orfoleddu ynddo,—i ddangos eu bod yn Mrenin Sìon.

II. Nodi rhai cymhelliadau ychwanegol sy gan Sïon i orfoleddu yn ei Brenin. Pa achos bynag sy gan neb ar y ddaear i orfoleddu yn eu brenin, y mae hwnw hefyd gan Sïon; ac yn ychwanegol at hyn, y mae gan Sïon gymhelliadau i orfoleddu nad ydynt gan neb arall.

I. Cyn y gall y deiliaid orfoleddu yn eu Brenin, rhaid ei fod 1. Yn un gwrol a medrus i'w hamddiffyn a'u diogelu. 2. Yn un doeth i'w llywodraethu hwynt, fel ag i sicrhau eu dedwyddwch. 3. Y mae yn rhaid ei fod yn un eang ei lywodraeth. 4. Rhaid, cyn y gall deiliaid o deimladau cywir orfoleddu ynddo, ei fod yn un y bydd ei fuddugoliaethau yn destyn llawenydd i'r byd. "Gorfoledd meibion Sïon yn eu Brenin," oblegid y mae yn enwog ymhob un o'r pethau hyn.

1. Gallant orfoleddu yn ei wroldeb, a'i fedr i'w hamddiffyn. Ni bu hyn mor angenrheidiol i'r un brenin erioed ag i Frenin Sïon; oblegid gall ddywedyd yn iaith Jacob am ei deyrnas, mai â'i gleddyf a'i fwa y mae wedi ei henill hi o law rhai cryfach na'r Amoriaid. Yn hyn y mae yn wahanol i frenhinoedd y ddaear: yma y deiliaid sydd yn gwneyd y brenin, ond Brenin Sïon sydd yn enill y deiliaid; caethion rhyfel ydynt oll; rhai wedi eu dwyn o deyrnas elynol; ac y mae holl rym hono yn cael ei ddefnyddio i'w henill hwynt yn ol iddi eilwaith. Er bod ganddo hawl pryniad ynddynt o du Duw, a hawl concwest o du y diafol, eto nid ydyw hyny yn atal i'r deyrnas wrthwynebol ddefnyddio ei holl allu a'i dyfais i'w henill yn ol; oblegid ar drais y mae hi yn sylfaenedig: gallu ac nid cyfiawnder ydyw ei rheol. Y mae Sïon fel teyrnas yn ysbrydol, ac yn weledig. "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae;" ond lle bynag y mae hi o fewn, hi a amlyga ei hun oddiallan, trwy ymwasgu â'r disgyblion. Ymosodir arni hi ymhob dull; weithiau fel y mae hi yn weledig, ond yn amlach fel un ysbrydol. Os na fydd Satan fel llew ofnadwy yn ceisio difa y weledig, bydd fel angel goleuni yn ceisio trwy ddichell lygru y ddirgeledig. Yr oedd sefyllfa yr eglwys Iuddewig yn Nghanaan, yn gysgod o sefyllfa y deyrnas ysbrydol hon yn ei pherthynas

â'i gelynion. Gallasai rheswm dynol feddwl os oedd yr Arglwydd am ddiogelu ei bobl gynt, y buasai naill ai yn eu rhoddi yn un o ynysoedd y môr, fel y buasai tònau hwnw yn amddiffyniad iddynt; neu mewn rhyw wlad gyffelyb i Switzerland, lle y buasai y mynyddoedd yn furiau o'u hamgylch: ond yn lle hyny, fe drefnodd eu preswylfod yn nghanol eu gelynion;—o du y gogledd iddynt, yr oedd y Pheniciaid a'r Syriaid;—o du y deheu, yr oedd yr Amaleciaid a'r Edomiaid;—o du y gorllewin yr oedd y Philistiaid;—ac o du y dwyrain yr oedd y Moabiaid a meibion Ammon. Yr oedd rhai o honynt yn eu poeni yn wastadol, fel ag yr oedd gan frenin Israel waith cyson i gadw y gelynion draw; felly y mae gan Frenin Sïon eto: nid mewn ynys y mae hithau, ac nid oes mynyddau cribog rhyngddi â'i gelynion. Y mae y byd yn gwersyllu gerllaw iddi,—y cnawd heb fod nebpell oddiwrthi,—a Satan bob amser yn bresenol; ond fel yr oedd Israel gynt, yn nghanol y gelynion, yn gallu gorfoleddu tra yr oedd ganddynt y fath frenin a Dafydd, am fod ei ofn ar y gelynion oll, felly y gall Sïon, yn nghanol ei gelynion, orfoleddu am fod ganddi hithau y fath Frenin, oblegid y mae ei ofn yntau ar y gelynion. Ni all erlidwyr ddim sefyll, unwaith y dynoetha Efe ei fraich. Ni all heresiau ddim byw, unwaith yr enfyn Efe oleuni ei Ysbryd ar y dystiolaeth. Y mae golwg ar ei ogoniant mewn moment yn tynu yr holl swyn o demtasiynau y cnawd; ac y mae hen ddyn pechod yn methu cael ei anadl yn awyr ei gariad Ef. Yn mawredd ei nerth fe lywodraetha yn nghanol ei elynion, nes cael yr olaf o honynt o dan draed; ac yn nghanol ei eglwys, nes bwrw allan yr holl dramgwyddiadau o honi. Dychwelodd o Edom a Bozrah yn Orchfygwr: yr oedd hyny yn wystl y dychwelai o bob man arall. Y mae ei ddull yn amddiffyn ei ddeiliaid yn destyn gorfoledd iddynt. Y mae yr enwocaf o frenhinoedd y ddaear, wrth amddiffyn y deyrnas, yn gorfod gwneyd hyny ar draul bywyd rhyw gynifer o'i ddeiliaid, a dedwyddwch y rhai oedd yn dal perthynas â hwynt. Ac er y bydd dychweliad y buddugoliaethwr yn destyn llawenydd i lawer, y mae megis cenad angau i eraill, am y bydd y goncwest wedi costio bywyd y rhai anwylaf ganddynt hwy: ond iaith Brenin Sïon ymhob rhyfel ydyw, "O'r bobl nid oes un gyda

mi." Y mae yn cyfarch pob gelyn gan ddywedyd, "Os myfi yr wyt yn ei geisio, gad i'r rhai hyn fyned ymaith." Ac ni bydd, fel brenhinoedd y ddaear, yn cael enw buddugoliaeth a enillwyd trwy waed y milwyr; na,—y mae ei holl fuddugoliaethau yn rhai wedi eu henill ganddo â'i fraich ei Hun. Am hyn hefyd, iawn y gelwir ei enw Rhyfeddol. Nid Joab medrus ydyw i drefnu y *byddinoedd* i orchfygu, ond Samson galluog i orchfygu y Philistiaid ei Hun. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

2. Gorfoledded meibion Sïon yn noethineb y Brenin i'w llywodraethu hwynt. Nid yw ei allu yn fwy angenrheidiol i gadw y gelynion rhag eu niweidio, nag ydyw ei ddoethineb i'w cadw hwynt rhag niweidio eu hunain. Nid oedd cadw y gelynion draw ddim ond cadw drwg rhagddynt: yn hyn yr oedd Dafydd yn gysgod o hono; ond tuag at fod yn destyn gorfoledd, y mae yn rhaid ei gael fel Solomon, yn un a ddwg amlder o fendithion daioni iddynt. Lladd ei fyrddiwn a wnaeth enw Dafydd yn glodfawr; ond barnu yn ddoeth rhwng y ddwy wraig a wnaeth enw gyntaf i Solomon. Yr oedd teyrnasiad y cyntaf yn un gwaedlyd; ond yn nheyrnasiad yr ail, yr oedd Judah ac Israel yn aml fel y tywod sydd ar lan y môr, ac yn bwyta ac yn yfed, ac yn gwneuthur yn llawen. Y mae geiriau diweddaf Dafydd yn ddesgrifiad o'r hyn a ddylai llywodraethwr ar ddynion fod, ac yn brophwydoliaeth o'r hyn a fyddai Brenin Sïon. Sylfaen ei garacter ydyw cyfiawnder; ac y mae effeithiau ei ddeddfau i fod fel effeithiau goleuni y bore ar y ddaear, pan godo haul i adfywio a sirioli pob peth, heb ddyddfu na gwywo dim.

Y mae rhai teyrnasoedd yn ddieithr i ddedwyddwch, er nad oes yr un gelyn yn eu haflonyddu. Y mae pob dosbarth yn cwyno, ac ni ŵyr neb yn iawn pa le y mae gwreiddyn y drwg; fel peiriant wedi dyrysu, heb neb yn gwybod pa fodd i'w osod yn ei le: a hyny ydyw caracter ein teyrnas ninau. Y mae eisiau rhywun digon doeth i weled beth sydd yn achosi yr annrhefn, a digon medrus i unioni y cam; ond nis gwelir Sïon byth yn y cyflwr hwn, am fod ei Llywodraethwr hi wedi trefnu yr oll, fel ag i sicrhau dedwyddwch iddi.

1. Un peth angenrheidiol i ddedwyddwch y deiliaid ydyw

rhyddid: gan Sïon yn unig y mae hwnw. Er fod y Brenin yn Ben-arglwydd, ni bu deiliaid yr un werin-lywodraeth erioed yn cael cymaint o ryddid a hwynt. Y maent yn rhyddion yn wir. Yr ydym ni yn y wlad hon yn rhyddion mewn cymhariaeth i lawer: ni raid i'r caethwas ond rhoddi ei droed ar ein hynys nad ymollwng ei gadwynau oddiam dano, fel y tawdd cŵyr wrth y tân. Pan oedd rhyddid yn cael ei hymlid o bob man fel colomen Noah, heb le i roddi ei throed i lawr, y mae ein gwlad ni wedi bod unwaith ac eilwaith yn arch i'w diogelu rhag dinystr; ond er hyny y mae yma rai deddfau nad ydynt yn gydweddol â rhyddid. Ond pe byddai rhyddid wedi ei alltudio hyd yn nod o'n gwlad ninau, byddai i'w gael wed'yn yn Sïon, a rhyddid nad yw ein rhyddid ni ond fel tywyllwch yn ymyl goleuni yn ei ymyl. Terfynau y rhyddid ydyw gadael i'r holl ddeiliaid wneuthur fel y mynont. Cânt ddywedyd yr hyn a welont yn dda am y Brenin. Nid oes yma un ddeddf yn eu gorfodi i addoli. Y mae yn anmhosibl i'r un gwrthryfel godi yma yn herwydd rhyddid, fel sydd yn awr yn nheyrnasoedd Ewrop; ac nid oes berygl i'r un *colony* adael y deyrnas, fel y gwnaeth y Puritaniaid â'r deyrnas hon, i chwilio am ychwaneg o hono. Y mae rhai o honoch yn ofni ymuno â'r deyrnas rhag colli eich rhyddid; yn hytrach dylech ddywedyd rhag colli eich rhwymau. Ac er, feallai, y rhoddech yr un rheswm a'r Iuddewon am beidio plygu, na wasanaethasoch chwi neb erioed: yn hytrach ni wnaethoch chwi ddim eto ond gwasanaethu. Os mynech chwi wybod beth ydyw rhyddid yn wir, yn Sïon y mae hwnw.

2. Y mae yn angenrheidiol i ddedwyddwch y deiliaid na byddo trethoedd y llywodraethwr yn drymion. Y mae deiliaid brenhinoedd y ddaear yn fynych o herwydd hyn yn gorfod gwaeddi rhag y brenin. Ac er holl ragoriaethau Solomon, gwnaeth iau y wlad tua diwedd ei oes yn drom iawn, yr hyn a fu yn achos i'r deg llwyth wrthryfela yn erbyn ei fab. Fe laddwyd Adoram wrth geisio casglu y dreth iddo. Ond yn Sïon nid oes yr un dreth: ac er bod y Brenin yn goddef i bob un ewyllysgar ei galon gyfranu, eto unig ddiben y rhoddion ydyw bod yn brawf o ystad teimlad y deiliaid at y Brenin, ac i fod yn achlysur i'r Brenin gael eu gwobrwyo hwynt.

Mantais i'r deiliaid, ac nid i'r Brenin, ydyw ei fod yn derbyn dim ganddynt. Y mae efe yn adwaen calonau; ond nis gallwn ni eu hadwaen ond wrth yr hyn a ddaw o honynt; a ffrwŷthau y pren ydyw y rhoddion i ddangos beth ydyw natur y gwreiddyn. Pe buasent yn cael eu gorchymyn yn bendant ni buasent yn arwyddion o ansawdd teimlad y galon; ond gan eu bod yn ewyllysgar, y maent yn fynegai o raddau ffyddlondeb y deiliaid: ac felly byddant yn rheol i'r Brenin wobrwyo wrthi. Ac y mae Brenin Sïon yn gofyn am bob rhodd nad ydyw yn dyfod oddiar deimlad cywir yn y galon, "Pwy a geisiodd hyn oddiar eich llaw?" A phwy bynag yn nheyrnas y Cyfryngwr sydd yn cwyno yn erbyn hyn, y mae mewn gwirionedd yn cydsynio â'r Israeliaid hyny a ddywedent, "Pa ran sydd i ni yn Dafydd?" "Edrych yn awr ar dy dŷ dy hun, Dafydd."

3. Y mae yn angenrheidiol tuag at ddedwyddwch y deiliaid i'r brenin lywodraethu fel ag i gadw y naill ddosbarth o'r deiliaid rhag gorthrymu y llall, ac hefyd rhag cael lle i ddywedyd fod y brenin yn gwneuthur mwy tuag at sicrhau dedwyddwch y naill a'r llall. Mor aml y clywn ni fod y bendefigaeth yn llywodraethau y ddaear yn gorthrymu y werin, a bod y brenin yn llunio ei fesurau fel ag i sicrhau *interests* y dosbarthiadau uchelaf, heb ofalu ond ychydig am y rhai iselaf. Ond gall meibion Sïon orfoleddu yn eu Brenin hwynt yn hyn hefyd. Y mae ei fesurau yn gyfryw ag sydd yn dwyn yr holl ddeiliaid i'r un dosbarth: nid oes yr un bendefigaeth yn ei deyrnas Ef,—neu yn hytrach pendefigaeth yw hi oll,—rhywogaeth etholedig,—brenhinol offeiriadaeth,—cenedl sanctaidd. Yr ydym wedi clywed am ryddid,—cydraddoldeb,—a brawdgarwch,—mewn teyrnasoedd eraill; ond ni welwyd dim o hono erioed, ac ni welir mo hono byth, ond yn Sïon. Y mae y llywodraeth sydd a mwyaf o ryddid ynddi ar y ddaear, sef gwerin-lywodraeth yn dirywio yn raddol, ac yn diweddu mewn brenin, a hwnw bob amser yn ormes-deyrn. Y mae y wlad yn myned o'r naill eithaf i'r llall; ond ni ddigwydd hyn byth i Sïon: fel y mae hi y llywodraeth ryddaf yn awr, hi a bery felly byth; oblegid y mae holl fesurau y Brenin yn gyfryw ag a sicrhant ryddid, cydraddoldeb, a brawdgarwch. Y mae y

Brenin yn gwneyd yr holl ddeiliaid yn gydradd, ac yn sicrhau y parhant felly. Y mae sefydlwyr cyntaf pob gwlad yn gyffredin yn gydraddol; ond buan y collant hyny. Y mae un yn afradloni, a'r llall yn cynilo; ac felly y mae y cynil yn meddianu etifeddiaeth yr afradlawn. Yr oedd blwyddyn y Jubili yn Nghanaan wedi ei threfnu i geisio atal hyn,—i gadw hyd yr oedd yn bosibl gadraddoldeb rhwng y trigolion, trwy ddwyn yn ol etifeddiaeth yr afradlawn, a gwneyd y caethwas yn gydstad a'i feistr. Yr oedd doethineb mawr yn y trefniad yna; ond y mae mwy yn nghyfansoddiad teyrnas Brenin Sïon: oblegid nid angenrheidiol yr un Jubili i gydraddoli y trigolion, gan nad all neb fyned trwy ei etifeddiaeth, am ei bod hi mor fawr; a phe byddai hyny yn bosibl, ni chai neb i'w phrynu, oblegid y mae gan bob un o'r deiliaid gymaint ag a all ei ddymuno. Pe cynygiai y naill hi i'r llall, fe'i hatebid yn ol yn ngeiriau Jacob wrth Esau, "Y mae genyf fi bob peth." Nid all neb o'r deiliaid fyned yn dlawd, ac y mae yn anmhosibl i'r un o honynt fyned yn fwy cyfoethog nag ydyw. Nid yw cenfigen yn bosibl, oblegid y mae pawb yn gydstad ;— na thrachwant ychwaith, oblegid y mae pawb uwchben eu digon. Y mae eu bod yn gydetifeddion yn cau allan genfigen ;—a'u bod yn gydetifeddion â Christ yn cau allan drachwant. Nid oes yno yr un siaced fraith i enyn y naill, nac un winllan Naboth i gynhyrfu y llall. Yr un gyfraith sydd i bawb. Y mae yr arwyddion sydd yn dangos gwahaniaeth rhwng dynion ar y ddaear i'w crogi ar drothwy y deyrnas hon. Y mae y brenin i dŷnu ei goron wrth y drws, a'r caethwas i dŷnu ei gadwyn yno hefyd. Y mae y cyfoethog i adael ei gyfoeth yn y porth, a'r tlawd ei dlodi hefyd, fel ag i fod yn gydradd ill dau yn y deml. Y mae y bychan fel y mawr yno, a'r gwas wedi ei ryddhau oddiwrth ei feistr. Y mae gan yr holl ddeiliaid hefyd yr un hawl yn y Brenin. Er bod Dafydd yn llywodraethu Israel oll, eto yr oedd gan Judah fwy o hawl ynddo na'r lleill, a thebyg ydyw eu bod yn cael mwy o ffafr ar ei law; ond nid oes yma ddim gwahaniaeth o ran agosrwydd perthynas o du y deiliaid, nac o ran gofal o du y Brenin. Y mae Benjamin fychan yn cael cymaint o'i sylw a Judah gyfoethog. Nid ydyw yn gofalu mwy am Paul enwog, nag ydyw am Timotheus ieuanc

Y mae Onesimus y caethwas mor anwyl ganddo ag ydyw Philemon ei feistr. Fe sòrodd Macedoniaid Alexander wrtho, am eu bod yn tybied ei fod yn dangos mwy o ffafr i rai o filwyr y cenhedloedd a orchfygodd nag iddynt hwy; ond ni chaiff hen gyfeillion Brenin Sïon byth achos i feddwl fod rhai newydd yn cael mwy o sylw na hwynt. Ni ddaw i galon yr un o honynt, fel y gweithwyr yn y winllan, feddwl y derbynia un arall fwy nag a wna ef. Ac ni chlywir yr un mab hynaf o honynt byth yn cenfigenu wrth ddyrchafiad yr ieuengaf, am y bydd pawb yno yn yr un wisg, yr un arwydd cyfamod ar law pawb, ac oll yn gwledda ar yr un danteithion. Gorfoledded meibion Sïon mewn Brenin fel hwn.

3. Gorfoledded meibion Sïon yn ëangder llywodraeth eu Brenin. Y mae perthyn i lywodraeth eang iawn ar y ddaear yn rhyw fath o ogoniant i'r deiliaid, yn enwedig i'r dosbarth hwnw o honynt fydd o'r un genedl a'r brenin. Yr oedd bod yn ddinasyddion Rhufain yn anrhydedd nid bychan, am mai Rhufain oedd prif ddinas y byd; ond gogoniant yn unig, yn aml, ydyw yr unig beth sydd yn deilliaw i'r deiliaid oddiwrth eangder ymherodraethau y ddaear, oblegid mynych y maent, o herwydd eu heangder, yn fwy annedwydd;—y mae gan y brenin gymaint i'w wneuthur fel nad all roddi ond ychydig o'i sylw i bob rhan o'i deyrnas;—wrth geisio gofalu am gymaint, y mae yn methu gofalu yn iawn am ddim: ond gall meibion Sïon orfoleddu, oblegid y mae eangder ymherodraeth eu Brenin hwynt yn adlewyrchu gogoniant arnynt, ac hefyd yn sicrhau eu dedwyddwch. Y mae rhai o frenhinoedd y cyfandir yn cael eu cyfenwi yn frenin un wlad, yn dduc gwlad arall, yn un o arglwyddi y drydedd, ac felly ymlaen; ond y mae y teitl yn dyfod rîs yn îs o hyd. Y mae ymherodraeth Victoria mor eang fel nad ydyw yr haul byth yn machludo arni; ond nid Brenin Sïon, a Rhaglaw rhyw le arall, na Thetrarch y trydydd ydyw yr hwn y gelwir ar feibion Sïon orfoleddu ynddo; nage, Brenin ymhob man. Ac nid yn unig nid yw yr haul byth yn machlud ar ei deyrnas, nid yw yn codi ond ar ei deyrnas Ef. Gallai Victoria mewn ychydig oriau fyned y tu allan i derfynau ei hymerodraeth; ac er feallai y cydnabyddid hi yno fel brenhines, ond brenhines heb fod yn ei theyrnas, felly heb hawl ganddi i

lywodraethu yn y wlad hono. Fe gydnabyddir Brenin Sïon yn Frenin ymhob man; ac nid Brenin y tu allan i'w ymherodraeth, ond yn ei chanol hi. I ba fyd bynag yr ä, gall anfon cenad o flaen ei wyneb, i lefain, "Wele y mae dy Frenin yn dyfod atat;" a chyd ag iddo ymddangos, bydd trigolion pob byd yn ei gydnabod mewn moment trwy ddywedyd, "Byw fyddo y Brenin." Ond ffolineb ydyw i ni geisio desgrifio ëangder yr ymherodraeth, oblegid y mae hi yn anfesuradwy: ond hyn a ddywedwn, "Lle bynag y mae byd yn bod, y mae yn un o bentrefi yr ymherodraeth;—lle bynag y mae creadur yn byw, y mae hwnw yn un o ddeiliaid y deyrnas;—a pha faint bynag o ddarganfyddiadau a wneir eto yn y ffurfafen, ni ddarganfyddir ond rhanau o'r un ymherodraeth. Ac er y dywedir yn awr fod y greadigaeth yma wedi bod am filiynau o oesoedd, ni wyddom ni ddim am hyny; ond hyn a wyddom ni, ni bu yr un brenin arni o flaen Brenin Sïon: ac er bod ei pharhad mor anadnabyddus i ni a'i dechreuad, hyn a wyddom, ni ddaw yr un brenin ar ei ol ychwaith. Yr oedd hi yn dda ar Israel tra y bu Joseph byw; ond daeth brenin ar ei ol, ac nid oedd ffafor iddynt yn ngolwg hwnw; ond os oes genyt ti ran (*interest*) yn y Brenin yn awr, gelli fod yn ddiofal na ddaw yr un ar ei ol ef. Y nefoedd am uchder, uffern am ddyfnder, a theyrnas Iesu Grist am ëangder a pharhad. Nid anrhydedd bychan i feibion Sïon ydyw fod eu Brenin yn meddu llywodraeth mor fawr. Yr ydym wedi darllen am aelod o ryw gyfundeb yn sefyll yn ei ystafell uwchben *globe*, gan anghofio ei hun mewn syndod a hyfrydwch wrth weled gymaint o'i gwledydd hi oedd yn llaw, ac o dan awdurdod penaeth y cyfundeb; yr oedd yn anrhydedd i'r aelod gael perthyn i gymdeithas mor ëang ei therfynau. Ond gall y Cristion heddyw sefyll uwchben y *globes* cywreiniaf a luniwyd gan ddynion i ddangos y nefoedd a'r ddaear: gall ddechreu gyda'r ddaearol,—gan edrych o begwn y gogledd i begwn y de, a dywedyd, Fy Mrenin i ydyw ei brenin hithau oll. Yna gall droi at y nefol,—ac olrhain heuliau, lleuadau, ser, a chometau hono, gan ddywedyd, Y mae pob un o'r rhai hyn o dan lywodraeth fy Mrenin i; ac er bod cywreinrwydd dynion yn awr yn gallu tynu mapiau o grombiloedd y ddaear, ac o uchelderau y nefoedd, eto gall meibion Sïon ysgrifenu dan bob

un o honynt, "Darluniad o ran o deyrnas fy Mrenin i." Eithr ni byddai y gogoniant sydd yn deilliaw o berthyn i deyrnas mor fawr, yn werth son am dano, oni bai fod dedwyddwch Sïon hefyd yn gysylltiedig â hyny; ond felly y mae: oblegid y mae ëangder yr ymherodraeth yn wystl o'i dedwyddwch hi. Weithiau y mae teyrnas fawr, os bydd y brenin yn un da, yn fantais i ddedwyddwch y deiliaid ar y ddaear, oblegid goreu po fwyaf o angenrheidiau y deiliaid fyddo i'w cael o fewn terfynau yr ymherodraeth, fel na byddo raid iddynt ymddibynu megis ar ewyllys da neb arall. Ond yma y mae yn rhaid i'r naill wrth y llall; y mae yn rhaid i drigolion Canaan fyned i'r Aipht i brynu bara, neu farw: bryd arall rhaid i ddwy ddinas neu dair gyrchu i un i geisio dwfr. Fe newynai trigolion Tyrus a Sidon oni bai am wlad y brenin. Ond y mae yr ymherodraeth hon mor fawr, fel y mae holl angenrheidiau y deiliaid o'i mewn hi: gellir dywedyd wrth bob un, "Na ddos i faes arall." Y mae ei hadnoddau *(resources)* hi yn ddigon ar gyfer y deiliaid: y mae ei heangder hi hefyd yn wystl o'u diogelwch hwynt; oblegid, fel y mae y llywodraeth yn cyraedd i bob man, felly hefyd y mae hi ar bob peth. Y mae hi yn eang yn ei manyldra fel yn ei therfynau. Ni all brenin daearol, beth bynag fyddo eangder ei lywodraeth, ddim ond diogelu rhag ychydig beryglon. Y mae myrdd o bethau o fewn ei ymherodraeth nad oes ganddo ddim llywodraeth arnynt: er y gall ef gadw cleddyf y gelyn rhag eu niweidio, eto gall yr haint, er pob dyfais o'i eiddo, eu gorchfygu;—gall y newyn eu lladd;—gall y ddaear eu llyncu; ond gall Brenin Sïon orchymyn i *bob peth* fel i *bawb*, "Na chyffyrddwch â'u heinioes, ac na ddrygwch fy mhrophwydi." Beth sydd yn bosibl iddynt fod mewn eisiau o hono, nad ydyw o fewn i derfynau ei greadigaeth? Beth sydd yn ddichonadwy iddynt ei ofni nad ydyw o dan lywodraeth eu Brenin? A fỳnent hwy gael eu diogelu rhag drygau ysbrydol sydd yn y nefolion leoedd, sef temtasiynau tywysog llywodraeth yr awyr? Oni rydd Efe orchymyn i'w angylion am danynt, i'w cadw yn eu holl ffyrdd? A fỳnent hwy gael hamdden i ddial ar eu gelynion? oni phâr Efe i'w haul a'i leuad eu ffafrio hwynt i hyny? Ai rhy wan ydyw eu braich i dalu y pwyth i'w caseion? Onid oes ganddo genllysg

mawrion i gwblhau y gwaith hebddynt? Neu beth sydd arnynt ei ofn, nad ydyw o dan lywodraeth eu Brenin? Ai gelynion? Diau Efe a wna i gynddaredd y rhai hyny ei folianu, ac a wahardd y gweddill. Paham yr ofna Jacob wynebu Esau, pan y mae ei galon ef fel dwfr yn llaw ei Frenin? Paham y meddylia Dafydd mai syrthio a wna efe yn llaw Saul? A ddarfu aml ymwared ei Frenin? Paham y dychryna Jerusalem rhag byddin Senacherib, gan fod angel marwolaeth o dan lywodraeth ei Brenin hi? Dim ond i hwnw anadlu, dyna'r fyddin fawr yn deffro yn nhragywyddoldeb. Paham yr ofna yr hen Abraham fyned i'r Aipht? ai gollwng dros gof a wnaeth fod yr Aipht fel Canaan o dan lywodraeth ei Frenin ef; a chalon Pharaoh mor gwbl yn ei law a chalon Abimelech? Ni bydd Joseph ddim marw yn y carchar;—paham? y mae un mwy na Pharaoh yn llywodraethu yr Aipht. Neu, paham yr ofna Sïon mewn adfyd? oblegid ei bara fydd sicr, a'i dwfr a roddir iddi. Gall Elias ganu ar lan yr afon, er nad oes celloedd yn trefnu pob rhyw luniaeth gerllaw; oblegid bydd yn sicr o ymborth, naill ai o'r nefoedd, neu oddiar fwrdd Ahab. Y mae y cigfrain a'r angylion am y parotaf i wasanaethu arno. Gall Mair fod yn ddiofal am foddion cynhaliaeth iddi hi a'i Mab bychan; fe ofala y sêr am arwain rhyw ddoethion i Bethlehem i offrymu aur i'w chario i, a'i chynal yn yr Aipht. Ai mewn peryglon yr ofnant? Nage; oblegid gallwn ofyn ar lan y Môr Coch a cherllaw ymchwydd yr Iorddonen, "A sorodd yr Arglwydd wrth yr afonydd?" paham y mae'r Iorddonen yn rhedeg yn ei hol i ben Libanon? "Ai wrth y môr y mae ei ddigofaint?" paham y mae ei ddyfroedd yn ffoi o'i wydd? Nage, "marchog y mae ar feirch, ac yn ngherbydau iachawdwriaeth," am fod Sïon mewn perygl. Gall y tri llanc fyned i'r ffwrn, oblegid nid oes ond un o weision eu Brenin ynddi; a Daniel i'r ffau, oblegid y mae yno angel yn ei ddisgwyl. Nid rhyfedd clywed Sïon yn dywedyd, "Nid ofnwn pe symudai y ddaear;" oblegid y Duw sydd â'r ddaear yn crogi ar ei air sydd yn teyrnasu, ac y mae hwnw yn noddfa iddi hi. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

4. Gorfoledded meibion Sïon yn olaf yn eu Brenin, am fod ei fuddugoliaethau yn destyn llawenydd i'r byd. Er fod llawer

o fanteision yn gysylltiedig â llywodraeth fawr, eto nis gall yr un galon dyner lai na theimlo eu bod wedi costio gormod, oblegid y mae holl ymerhodraethau mawrion y ddaear wedi eu sylfaenu mewn gwaed; ac er y gall gwlad ymffrostio yn y gogoniant a ddaeth iddi drwy ei rhyfeloedd mawrion, y mae pob dyn teimladol yn tystio fod y gogoniant yn rhy ddrud. Fe gostiodd gogoniant Waterloo haner cán mil o fywydau; ond gall Sïon orfoleddu yn ei Brenin, oblegid er cymaint gogoniant yr ymherodraeth, nid yw wedi costio gormod; ac er ei fod wedi sylfaenu ei ymherodraeth mewn gwaed, nid gwaed y deiliaid, ond ei waed ei Hun, oedd hwnw. Ac er ei fod wedi myned allan yn gorchfygu, ac i orchfygu, eto y mae yn wahanol iawn i bob rhyfelwr arall yn null ei fuddugoliaethau, ac yn eu heffeithiau hwynt, canys (fel y dywed Esaiah) "Pob câd y rhyfelwr sydd mewn trwst, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed; ond bydd hwn trwy losgiad a chynud tân." Dyma ddesgrifiad o ddull ac effeithiau ei fuddugoliaethau ef. Fel hyn y maent, feallai, o ran dull, megis "trwy losgiad a chynud tân," neu, yn iaith y Testament Newydd, megis lefain yn y blawd. "Wele fy ngwas.........efe a ddwg allan farn i'r cenhedloedd," ond nid trwy drwst a chreulondeb, oblegid "ni waedda" wrth wneyd hyny, "ac ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol." Y fath fydd tynerwch ei fuddugoliaethau, fel "na ddryllia gorsen ysig, ac ni ddiffydd lîn yn mygu." Pa fodd y dwg Ef allan farn ynte? Wel, trwy wirionedd: "Efe a ddwg allan farn at wirionedd." Ac yn Salm lxxii., lle y darlunir cangder teyrnas y Brenin, fe ddangosir ei bod hi wedi ei henill, nid trwy arfau rhyfel, ond trwy y cyfiawnder a'r cariad y mae yn ei amlygu at ei ddeiliaid: ar farch gwyn, sef march heddwch a buddugoliaeth y mae Efe yn marchogaeth i'r rhyfel, ac o'i enau y mae y cleddyf yn dyfod sydd yn enill y frwydr: buddugoliaethau diwaed ydynt oll. Neu hyn yw effeithiau ei fuddugoliaeth ar y byd; felly y darllenir yr adnod gan un: "Canys holl arfogaeth y rhyfelwr yw y trwst (sef y rhyfel), a'r dillad oedd wedi eu trybaeddu mewn gwaed, a fyddant i'w llosgi, ac yn gynud tân." Felly y byddid yn fynych gynt, ar ol enill buddugoliaeth, yn llosgi arfau y gelynion, a'u dillad, â thân; felly hefyd, pan fydd Tywysog

tangnefedd wedi cwblhau ei waith, ni bydd arfogaeth y rhyfelwyr a'r dillad gwaedlyd yn werth dim ond i fod yn gynud tân. Y mae y prophwyd Zechariah, wrth ddesgrifio eangder y llywodraeth, yn gofalu dangos ei heffeithiau hi: gyda llywodraethu o fôr i fôr, y mae y Brenin hefyd i dòri bŵa y rhyfel, ac i lefaru heddwch i'r cenhedloedd. Yn awr, iaith Joel, ac nid Esaiah, sydd yn briodol am y byd; y maent 'yn gyru eu sychau yn gleddyfau, a'u pladuriau yn waewffyn,' a'r gwŷr o ryfel yn nesâu; ond i'r graddau y mae Brenin Sïon yn gorchfygu, y mae iaith Esaiah yn cael ei gwirio, "Hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau a'u gwaewffyn yn bladuriau: ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach." Nid yn unig ni ryfelant, ond ni ddysgant ryfel mwyach: bydd y gelfyddyd ofnadwy wedi ei cholli o'r byd; "ac amlder o heddwch fydd tra fyddo lleuad." Y fath olwg adfywiol a fydd ar fyd fel hwn;—byd y mae heddwch bron yn methu cael rhoddi ei droed i lawr ynddo;—byd y llewod a'r eirth, yr ysgorpionau a'r creaduriaid gwenwynig;—byd nad ydyw bloedd y frwydr byth yn marw yn ei awyr, na thrwst yr arfau byth yn distewi, na gwaed y trigolion yn peidio cael ei dywallt;—byd y mae ei holl feusydd unwaith ac eilwaith wedi bod yn feusydd gwaed, ei ddyffrynoedd wedi eu gorchuddio â chelaneddau, ei fynyddau wedi eu halogi gan gyflafan;—byd lle mae holl ddoethineb y trigolion wedi ei ddefnyddio i gael allan ffyrdd i ddistrywio eu gilydd, a'u holl nerth hwynt wedi bod ar ei egni yn ceisio cyraedd y diben, a holl fywydau myrddiynau o honynt yn cael eu treulio i chwilio am amser cyfaddas i gladdu y ddagr yn nghalon eu gilydd;—byd lle yr ymffrostir mewn tywallt gwaed, lle yr anrhydeddir gwr yn ol graddau ei fedr i ddwyn dynion farwolaeth, a lle y codir colofnau mawrion i gadw mewn côf y rhai sydd wedi llwyddo fwyaf yn y gelfyddyd uffernol o ladd;—O! y mae golwg ar heddwch mewn byd fel hwn yn annhraethol werthfawr. Ymha le y mae yr ymherodraeth y gallwn ni edrych ar y dull yr enillwyd hi heb i'n calonau lesmeirio? Pa genedl a welir yn talu teyrnged heb ei gorfodi i hyny gan y cleddyf? Ond, ni a drown gyda hyfrydwch, ac a edrychwn ar y peth rhyfedd hwn:—ymherodraeth yn cyraedd o fôr i fôr, wedi

ei henill gan Dywysog tangnefedd;—trigolion yr anialwch yn dwyn rhodd;—Seba a Sheba yn talu teyrnged; Moab a meibion Ammon yn ufuddhau;—ïe, yr holl genhedloedd yn ei wasanaethu. Eto, Tywysog tangnefedd ydyw: y mae eu gwaed hwynt oll yn werthfawr yn ei olwg. Nid trwy ladd nifer o'r brodyr y cafodd lywodraeth arnynt, ac nid rhag ei ofn y maent yn parhau yn ufudd iddo. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin;" a chydag arogl-darthu y mawl o flaen yr orsedd, dylent erfyn y weddi hefyd,

> "Marchog Iesu yn llwyddianus,
> Gwisg dy gleddyf ar dy glun," &c.,

oblegid ni fydd trefn ar y ddaear nes ei chael dan ei lywodraeth Ef.

II. Y mae gan Sïon gymhelliadau ychwanegol a neillduol i orfoleddu yn ei Brenin hi. Gallasai angylion, fel Sïon, lawenychu mewn bod yn ddeiliaid i'r Brenin o ran pob peth a ddywedwyd eto, oblegid Efe sydd yn amddiffyn angylion,—tarian ei allu sydd yn cadw niwed rhagddynt hwy. Y mae cyfiawnder ei ddeddfau yn destyn gorfoledd iddynt, oblegid y maent hwy danynt fel Sïon. Y mae ëangder ei ymherodraeth yn adlewyrchu gogoniant arnynt hwy, ac yn sicrhau eu diogelwch hwynt; ac fel Sïon, gallant lawenychu yn natur ei fuddugoliaethau; a phob tro y mae yn concro pechadur, y mae llawenydd yn eu gŵydd hwynt. Ond y mae gan Sïon hawl i lawenychu yn y Brenin nad ydyw gan neb ond hi; oblegid,—

1. Y mae y Brenin yn un o'i chyfathrach hi. Am hyny y mae ei enwogrwydd Ef mewn ystyr neillduol yn enwogrwydd iddi hi; ac yn ol graddau dyrchafiad y Brenin, y bydd graddau ei dyrchafiad hithau. Yr oedd Dafydd yn llywodraethu mewn cyfiawnder, heb orthrymu yr un o'r llwythau; ond o lwyth Judah, ac o wreiddyn Jesse, yr oedd y gwŷr yn dyfod yr oedd y brenin yn dewis eu hanrhydeddu. Oddiyma yr oedd yn cael ei dywysogion a'i gapteniaid. Fe enillodd Napoleon ogoniant, o'r fath ag ydoedd, i'r Ffrancod oll; ond fe gododd ei deulu ei hun, y rhai cyn hyny oeddent yn ddigon anenwog a thlawd, yn frenhinoedd, ac yn freninesau, ac yn dywysogion, ac yn arglwyddi: felly yr oedd y teulu yn cael testyn dyblyg i orfoleddu yn ei fuddug-

oliaethau. Gallasai y Ffrancod oll orfoleddu ynddo fel un o'u cenedl, ond gallai y teulu fel eu brawd. Felly y gall Gabriel orfoleddu yn y Brenin am fod ei fuddugoliaethau yn dwyn gogoniant iddo Ef, ond gall meibion Sïon ddyfod ymlaen dan ddweyd mai eu Brawd hwynt ydyw, a chyn sicred a'i fod yn Frawd iddynt, fe'u gwelir hwythau ar orseddau oll yn y man. Yr oedd Napoleon yn cael poen nid bychan gyda'i deulu, am ei fod yn methu cael digon o orseddau iddynt oll; ond y mae Brenin Sïon wedi myned adref i barotoi lle i'w frodyr, ac er amled ydyw eu nifer, bydd yn sicr o gael gorsedd i bob un. "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

2. Gorfoleddant yn eu Brenin, oblegid y mae y llywodraeth yn cael ei chario ymlaen gyda golwg uniongyrchol ar eu dedwyddwch hwynt. Y mae y Brenin yn ben uwchlaw pob peth *i'r eglwys*. Fel Brenin Sïon, y mae yn Frenin *ar* bob peth arall. Y mae yr oll i gael ei drefnu yn wasanaeth iddi hi. "Yr Arglwydd a deyrnasa byth," medd y Salmydd, "sef dy Dduw di, Sïon:" fe deyrnasa yn fanteisiol i ti. Ac felly y cawn ni yn y Bibl, pan y mae Duw yn myned i wneuthur ei ddieithr waith ar y ddaear, y mae yn gofalu i anfon cenad o flaen ei wyneb i ddywedyd wrth Sïon, "Dy Dduw di sydd yn teyrnasu." Pan y cyhoedda Efe trwy ei brophwyd fod y ddaear yn myned i ymddryllio ac ymrwygo, i ymsymud fel meddwyn, ac i ymsiglo fel bwth, fe ofala ddywedyd hefyd y bydd yr Arglwydd y pryd hwnw "yn teyrnasu yn Sïon." A phan y dywedir y bydd iddo ruo nes y bydd y nefoedd a'r ddaear yn crynu, fe ddywedir hefyd y bydd Efe "yn trigo yn Sïon." A phan y gelwir ar y ddaear i ymgynhyrfu, fe ddywedir ei fod yn "fawr yn Sïon." Wrth edrych ar ymddygiadau Duw at y byd annuwiol, yr ydym yn barod i fabwysiadu iaith y bedwaredd Salm ar bymtheg a phedwar ugain:—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, cryned y bobloedd;" ond wrth edrych ar ei ymddygiadau tuag at Sïon, yr ydym yn troi yn ol i fabwysiadu iaith yr eilfed Salm ar bymtheg a phedwar ugain:—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear:" ïe, y mae yr un peth ag sydd yn destyn i'r bobloedd grynu, yn destyn i Sïon orfoleddu. Pan y gwelwn ddeng mil a thriugain o filwyr Senacherib yn gelaneddau meirwon, yr ydym yn y fan yn dywedyd, "Yr Arglwydd

sydd yn teyrnasu: cryned y bobloedd;" ond pan y gwelwn ni Hezeciah a'i ddeiliaid yn rhydd oherwydd hyny, yr ydym yna yn newid ein hadnod,—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear." Pan y gwelwn ni Pharaoh a'i luoedd yn boddi yn y môr, yr ydym mewn dychryn yn dywedyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: cryned y bobloedd;" ond pan y clywn ni dympan Miriam yn adsain yn nghreigiau Arabia, yr ydym yn newid ein byrdwn,—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear." Pan y gwelwn ni Belsassar a'i Fabiloniaid moethus yn syrthio trwy gleddyf Cyrus a'i lu, y mae yr olwg yn peri i'r tafod bron yn ddiarwybod ddywedyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: cryned y bobloedd;" ond pan y gwelwn ni feibion y gaethglud yn troi ar wastadedd Babilonia i gymeryd yr olwg olaf ar byrth pres hen garchar y deng mlynedd a thriugain, ac ymron fel Pedr heb wybod, gan lawenydd, pa un ai breuddwydio ai yn effro yr oeddent, a'u calon yn rhy lawn o lawenydd i ganu, y mae yr olwg yn peri i'n tafod eilwaith ddywedyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear." Pan y gwelwn ni nerth gwyllt y diluw yn symud mynyddoedd o'u gwraidd, pan y clywn ni ddolef gwynfanus y trueiniaid sydd yn boddi yn y llif, y mae yn anmhosibl peidio dywedyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; cryned y ddaear;" ond pan y canfyddwn ni yr arch yn nofio yn araf ar wyneb y tónau, a phan y clywn ni adsain yr hymn foreuol oedd yn derchafu o amgylch allor deuluaidd pregethwr cyfiawnder, y mae yn anmhosibl i ni beidio dywedyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear." Pan y gwelwn ni fŵg Sodoma yn derchafu hyd y nefoedd, y mae yr olwg yn peri i ni ddywedyd, Gwir a ddywedodd y Salmydd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: cryned y bobloedd;" ond pan y gwelwn ni Lot yn un o ogofäu y mynydd, yr ydym eilwaith yn dywedyd, Gwir a ddywedodd hefyd, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu: gorfoledded y ddaear." Pan y clywn ni y gorchymyn yn cael ei roddi i'r angylion fyned allan i ladd, yr ydym yn y fan yn galw ar y bobloedd i grynu; ond pan y clywn ni yr angel arall yn cael gorchymyn i nodi gwasanaethwyr Duw yn eu talcenau, yr ydym yn y fan yn galw ar Sïon i orfoleddu. Pan y gwelwn ni y chwe' gŵr yn dyfod o ffordd y porth uchaf, pob un â'i arf

dinystr yn ei law, yr ydym yn teimlo ei bod hi yn llawn bryd galw ar y bobloedd i grynu; ond pan y clywn ni y gorchymyn a roddir i'r gŵr â'r corn du ysgrifenydd wrth ei glun, yr ydym yn cael ein hanadl eilwaith i ddywedyd, "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin." Pwy bynag a ddylai grynu, gorfoleddu ydyw dyledswydd Sïon; oblegid os ysgydwir y ddaear, ei seilio hi fydd y diben: os perir i flaguryn cyfiawnder flaguro i Dafydd, gwaredu Judah, a pheri i Jerusalem breswylio yn ddiogel fydd yr amcan. Os geilw Efe Cyrus wrth ei enw i enwogrwydd, er mwyn Jacob ei was, ac Israel ei etholedig y gwna Efe hyny. Beth sydd i benderfynu preswylfod y cenhedloedd? rhifedi meibion Israel; a dyna sydd i benderfynu eu tynged hwynt, eu hymddygiad at Israel. Yr oedd y Brenin yn cofio ymhen canoedd o flynyddoedd, am yr hyn a wnaeth Amalec i'w bobl wrth ddyfod i fyny o'r Aipht; ac er na chymerwn ni arnom fod yn esbonwyr ffyrdd Duw, eto pe byddai rhyw brophwyd yn ysgrifenu hanes y chwyldroad am y misoedd diweddaf, ond odid na fyddai hyny ar ddiwedd aml i hanes, "Canys cofio yr oedd Duw yr hyn a wnaethent i'w Sïon Ef." Pwy a wyr nad oedd rhyw ddylanwad gan waed Tahiti i ddymchwelyd gorsedd Louis Phillip? Ac yn enwedigol mewn adeg fel hon, pan y mae daeargryn wedi ymaflyd yn nheyrnasoedd y ddaear, y mae dyled neillduol ar Sïon i orfoleddu yn ei Brenin, a'i anrhydeddu gerbron y byd. Pa fodd? meddir: peidio ameu ei ffyddlondeb yn yr ystorm;—gweiddi, "Byw fyddo y Brenin," pan y mae pawb bron am newid eu llywydd; ac wrth weled teyrnasoedd eraill yn siglo, bod yn fwy ffyddlawn yn ei wasanaeth, am fod ei deyrnas yn ddisigl; a phriodoli yr oll sydd yn cymeryd lle iddo Ef: adwaen ei law yn yr oll, fel yr adnabyddodd Dafydd law Joab yn nameg y wraig o Tecoa. Gadewch i anffyddwyr ymffrostio mewn bod o dan lywodraeth damwain ddall; gadewch i Atheistiaid gael yr anrhydedd uchel o ystyried eu hunain yn gydstad â'r anifeiliaid, o dan lywodraeth rhywbeth fel tynged;—gadewch i'r rhai a gamenwir yn Gristionogion ymorfoleddu mewn edrych arnynt eu hunain megis olwynion mewn peiriant nad oes gan neb lywodraeth arno. Ond "gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin," oblegid y mae ei

fys Ef yn troi pob olwyn, ac y mae ei ddoethineb yn gwybod pa sut i wneyd. Y mae yn eistedd ar y llifeiriant: ni chaiff y llanw ddim codi ond at ryw nod penodol.

3. Gorfoleddant am fod cymhwysderau y Brenin yn gyfryw ag a sicrhant ei dedwyddwch hi. Fe ymdrechodd brenin Ffrainc am flynyddcedd i sefydlu yr orsedd yn ei deulu, ac er iddo dybied ei fod trwy ei ddoethineb wedi gwneyd hyny, eto yn nydd y prawf gwelodd fod ei allu yn rhy fychan i gyraedd yr amcan. Y mae calon Brenin Sïon wedi ei gosod ar wneuthur cymwynasau i'w deulu yntau; ac nid yw yn ol o ddoethineb a nerth i gyraedd yr amcan. Os digwydd niwed i Sïon, bydd hyny naill ai am na welodd y Brenin ef;—ond pa fodd y gall hyny fod? onid ydyw yn Hollwybodol?—neu, am mai nid gwerthfawr yn ei olwg oedd eu gwaed hwynt; ond pa fodd y gall hyny fod? oblegid "caru y mae Efe ei bobl;" neu am nad oes ganddo ddigon o nerth i'w atal;—ond pa fodd y gall hyny fod? onid ydyw yn Hollalluog? Ni chant ddyrysu o ddiffyg doethineb,—dyma Hollwybodaeth; na methu o ddiffyg nerth,—dyma Hollalluogrwydd; na cholli o ddiffyg gofal,—"ar bob moment y ceidw Ef hwynt." "Gorfoledded meibion Sïon yn eu Brenin."

Y mae y casgliad oddiwrth y bregeth oll yn gynwysedig mewn un cwestiwn:—"A fynwch chwi y dyn hwn i deyrnasu arnoch? Neu a oes yma ryw un, fel yr Iuddewon gynt, a ddewis Barabbas yn ei le: neu fel trigolion Sichem, a ddewis ddraenen yn lle yr olewydden?—ysgall pechod yn lle Blaguryn yr Arglwydd? Ni fynegwyd dim o'r filfed ran o'i rinweddau: y mae yn fwy prydweddol na Saul, yn fwy gwrol na Dafydd, yn ddoethach na Solomon, yn dynerach na Hezeciah; ïe, ni a rown ryddid i chwi i ddychymygu beth bynag sydd yn addurn ar ddyn, — sydd yn ogoniant i Dduw,—beth bynag sydd yn hawlio parch,—sydd yn enill cariad,—sydd yn creu hyder,—y maent oll ynddo Ef. Ond O! gymaint sydd yma yn dywedyd, "Pa ran sydd i ni yn Mab Jesse? "Ni fynwn ni y dyn hwn i deyrnasu arnom." Gynulleidfa,——byddwch synhwyrol,—wrandawyr cymerwch ddysg. Beth a fyddai yn synwyr? Taflu arfau gwrthryfel i lawr y foment hon, a gwaeddi, "Byw fyddo'r Brenin." Nid yw y Gwr ei hun ddim yma yn awr;—

y gweision sydd. Y mae Efe wedi myned i dderbyn teyrnas. Ond y mae y Brenin ei hun yn meddwl talu ymweliad â'r dalaeth hon eto; a dyna fydd y gorchymyn y tro nesaf: "Dygwch yma fy ngelynion hyny, y rhai ni fynent i mi deyrnasu arnynt, a lleddwch hwynt ger fy mron." Plygwch iddo yn awr ; oblegid "gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo Ef."

[Hydref 26, 1848].

## PREGETH XXV.

### TLODI YR ARGLWYDD IESU.

MATTHEW viii. 20:—"Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan ehediaid y nefoedd nythod; ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr."

OS gellir dywedyd fod dynion wedi cytuno i ddim heblaw i adael Duw, feallai mai gochel yr hyn a ystyriant yn dlodi ydyw y peth hwnw. Yr oedd Agur yn gweddio rhag hyn; ac y mae holl lafur dyn yn cael ei ddefnyddio i'r un diben. Hon ydyw sefyllfa y rhan fwyaf o drigolion y byd ymhob oes; ond y mae yn sefyllfa y gwnai pawb ei hysgoi pe gallent. Y mae yn perthyn iddi gymaint o anghyfleusderau, fel y gwnai pwy bynag a elai iddi o'i wirfodd, ei hun yn hynod yn y byd. Nid ychydig ydyw y gofidiau corfforol sydd yn gysylltiedig â hi; ond nid yw y rhai hyny ond bychain o'u cymharu â gofidiau y meddwl sydd yn gyffredin yn gysylltiedig â hi; oblegid y sefyllfa hon, yn fwy na dim arall, sydd yn achos o dóri rhwymyn brawdgarwch, ac o ddatod cwlwm tangnefedd rhwng dynion. Ni chydnabydda y cyfoethog yn aml fod y tlawd yn perthyn iddo: diystyrir ei ddoethineb oherwydd ei dlodi; ac felly gollyngir dros gôf fod Duw wedi gwneuthur o un gwaed holl drigolion y ddaear, ac mai yr unig wir wahaniaeth rhyngddynt ydyw, y gwahaniaeth tumewnol sydd yn ystâd y galon a nerth y meddwl. Y mae y teimladau drwg sydd wedi bod rhwng cyfoethogion a thlodion pob oes yn cael eu hachosi yn fwy, feallai, gan hyn na dim arall. Nid cenfigen wrth gyfoeth y cyfoethog ydyw yr achos o'r teimlad sydd yn mynwes y tlawd tuag ato, ond yn hytrach teimlad eiddigus ydyw, am na chaiff ei gydnabod yn frawd. Y mae

calon y plant yn cael eu troi oddiwrth y tadau, am fod y tadau yn gyntaf wedi gomedd cydnabod y plant; oblegid yn gyffredin, os bydd dyn yn amddifad o gyfoeth, ni roddir cred iddo am yr un rhagoriaeth. Fel yr oedd hi yn nyddiau y Pregethwr, felly y mae hi yn awr: diystyrir doethineb y tlawd. Y mae y byd yn anabl i brisio yr afal aur, os na fydd wedi ei osod mewn gwaith arian cerfiedig; ac os bydd y gwaith arian o'i amgylch, nid yw o gymaint pwys pa beth fydd yr afal. Cyfoeth ydyw un peth angenrheidiol y ddaear; os na fydd hwnw gan ddyn, gofynir gan yr Iuddewon a'r Ysgrifenyddion, "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth?" "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" A all rhyw ragoriaeth gyd-hanfodi â thlodi? Gan fod cyfoeth mor angenrheidiol i dynu sylw y byd, ac i wneuthur enw ar y ddaear, dylai y neb a fynai ddywedyd, "Wele fi" fod yn feddianol arno; oblegid hebddo bydd fel un yn curo yr awyr: ni wrandewir ar ei eiriau; neu gofynir, Pa beth a fynai y siaradwr hwn ei ddywedyd? Oblegid hyn, amcana dysgawdwyr gwlad gysylltu eu hunain â'i llywodraeth hi er mwyn cael sylw felly. Yr oedd Melchisedec yn frenin ac yn offeiriad. Yr oedd cyfoeth a gwychder y brenin yn tynu sylw at eiriau yr offeiriad. Fel hyn yr ydoedd yn aml ymysg y cenhedloedd paganaidd: y brenin fyddai yr offeiriad, neu, byddai yr offeiriad yn uwch na'r brenin: ac, yn eu plith hwy, y mae yr holl rai a osodasant i fyny grefydd newydd ar y ddaear, yn ddyledus am y sylw a gawsant, a'r llwyddiant a'u dilynodd, i gyfoeth. Er i rai gychwyn, fel Mahomed, pan yn anenwog ac yn dlawd, eto ni lwyddasant nes cael cyfoeth a mawredd bydol i'w hamgylchu. Yr oedd y mawredd allanol hwn yn amlwg yn y grefydd Iuddewig hefyd: a chyn gosodiad i fyny oruchwyliaeth Moses, yr oedd dysgawdwr crefydd yn anrhydeddusaf yn y teulu, ac yn y genedl. Y cyntafanedig yn y teulu a fyddai, a digwyddai iddo, gyda'r offeiriadaeth, ddeuparth o gyfoeth ei dad; ac yn y wlad, fel Melchisedec, efe fyddai y brenin. Ac ar ol gosodiad i fyny oruchwyliaeth Moses, er i Reuben gael ei amddifadu, oherwydd ei bechod, o'r enedigaeth fraint, eto yr oedd y swydd offeiriadol wedi ei hamgylchu â llawer o fawredd allanol: mynych y byddai yr archoffeiriad wrth lyw y llywodraeth wladol. Fel hyn y mae cyfoeth a mawredd daearol wedi

amgylchu dysgawdwyr y byd ymhob oes; ond y mae y testyn hwn yn cynwys peth newydd ar y ddaear, sef desgrifiad o un, a fynai fod yn Athraw i'r bobl, ac yn osodwr i fyny ffurf newydd o grefydd yn y byd, heb le i roddi ei ben i lawr. "Y mae ffauau gan y llwynogod, a chan adar y nefoedd nythod; ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." Y gwirionedd a ddaw o dan ein sylw oddiwrth y testyn hwn ydyw, *tlodi yr Arglwydd Iesu.* Tra y cofiwn ei fod yn Dduw, âg Ef *fel dyn*, yn benaf, y mae a fynom yn awr. Wrth sylwi ar ei dlodi, daw tri pheth o dan ein hystyriaeth:—

I. Ni a edrychwn ar yr amgylchiadau ymha rai yn benaf yr amlygwyd ei dlodi.

II. Ni a gawn ymofyn paham y daeth fel hyn.

III. Ni a gawn sefyll i edrych ar y weledigaeth: fel Moses gynt, wrth y berth oedd yn llosgi gan dân, ac eto heb ei difa, yn troi i edrych ar y weledigaeth fawr hono.

Pe buasai un o drigolion y byd ysbrydol yn darlunio darostyngiad yr Arglwydd Iesu, y mae yn dra thebyg mai y peth mawr a fuasai efe yn ei ddarlunio yn y darostyngiad oedd iddo gymeryd natur creadur o gwbl. Nid cymeryd agwedd gwas oedd y peth hynod, ond cymeryd *agwedd creadur.* Yr oedd ei waith yn disgyn i'r ddaear o gwbl yn annhraethol ryfeddach mewn gwirionedd na'i waith yn disgyn i'w pharthau isaf hi. Gall mai fel yna y buasai angel yn disgrifio ei ddarostyngiad; ond y mae yn rhaid i ni gymeryd dull arall i hyny. Ni wyddom ni ddim ond trwy glywed am yr un natur ragorach na'n natur ni; am hyny yr ydym o dan anfantais i weled y darostyngiad sydd mewn cymeryd natur dyn; ond yr ydym yn dra chydnabyddus â'r amgylchiadau wrth ba rai y byddis yn mesur y gwahaniaeth rhwng y naill ddyn a'r llall; a dyna y dull sydd y raid i ni ei gymeryd i edrych ar dlodi yr Arglwydd Iesu.

I. Ymha amgylchiadau, neu yma bethau y daeth ei dlodi i'r amlwg. Daeth i barthau isaf y ddaear ymhob ystyr o'r gair. Y mae hyny yn dyfod i'r amlwg yn y genedl o ba un yr hanodd. Iuddew ydoedd, ac yr oedd yr Iuddewon gynt ymhlith y cenhedloedd yn rhy debyg i'r hyn ydynt yn awr; yn ddiareb, yn felldith, ac yn rheg; yr oedd eu gwaith yn cadw

eu hunain ar wahan oddiwrth y byd, ac felly yn eu hymddygiadau yn dywedyd, "Sancteiddiach ydwyf na thydi," yn peri i'r cenhedloedd eu casâu a'u dirmygu. Hefyd, nid oedd dim a ystyriai y byd yn fawr yn perthyn iddynt: nid oedd eu gwlad ond bechan iawn;—nid oedd ganddynt yr un ddinas a gystadlai â Ninifeh yr Assyriaid, nac â Babilon y Caldeaid;—nid oedd na chyfoeth, na masnach, na rhyfel, na gwybodaeth, yn eu henwogi. Nid oedd eu bloedd hwynt i fod mewn llongau fel y Pheniciaid;—nis gallent ymffrostio mewn rhyfelwyr fel y Groegiaid; nid oeddent i gadw marchogion fel yr Aiphtiaid: ac er bod mwy o ddoethineb yn eu hysgrifeniadau sanctaidd, nag ydoedd yn y byd oll, eto nid ydoedd o'r fath ag yr oedd y byd yn ei gydnabod. Pe buasai yn ymddangos yn Macedonia, buasai ganddo yr enw o berthyn i'r genedl a orchfygodd y byd. Pe buasai yn ymddangos yn Athen, buasai ganddo yr enw o berthyn i'r genedl ddoethaf ar y ddaear. Pe buasai yn ymddangos yn yr Aipht, buasai ganddo yr enw o berthyn i'r genedl a fu yn gryd i'r gwybodaethau a'r celfyddydau. Ond gan mai Iuddew ydoedd, daeth i barthau isaf y ddaear, oblegid nid oedd dim a gyfrifai y byd yn fawr yn perthyn iddynt hwy.

Drachefn, yr oedd yr oes a ddewisodd i ymddangos ynddi yn un o'r rhai iselaf, os nad yr iselaf, a fu ar y genedl. Er mai bechan oedd eu gwlad, ac na buant erioed yn enwog mewn rhyfel, eto bu rhai adegau pan oeddynt hwythau yn fawrion yn ngolwg y byd, megis yn nyddiau Dafydd a Solomon. Ac er iddynt fod yn dra isel mewn llawer oes, eto nid oeddent wedi eu llwyr fwrw i'r llawr hyd nes y daeth oes "cyflawnder yr amser." Ymhob darostyngiad a fu arnynt cyn hyn, yr oedd rhyw fawredd yn eu dilyn yn ad-daliad am y darostyngiad. Buant yn isel yn yr Aipht: ond gosodwyd mawredd arnynt yn y gwyrthiau a wnaed yn amser eu gwaredigaeth. Pan yn grwydriaid yn yr anialwch, yr oedd amddiffyn y nefoedd yn eu gwneuthur yn ofnadwy fel llu banerog. Pan wedi eu darostwng i gyfyngder yn amser y Barnwyr a'r Brenhinoedd, disgynodd yr Arglwydd mewn gwyrth lawer gwaith i'w gwaredu. Yr oedd dull eu gwaredigaeth o Babilon yn gosod digon o fawredd arnynt i ad-dalu am holl ddirmyg y caethiwed. Hefyd,

yr oedd y cysylltiad oedd rhyngddynt â'r byd arall yn gosod mawredd arnynt yn eu hadegau iselaf. Yr oedd ganddynt brophwydi yn medru mynegi dirgelion y byd hwnw. Yn y cysegr sancteiddiolaf, yr oedd arwyddion gweledig yn eu cysylltu â'r byd ysbrydol; sef y Shecinah dwyfol, arch y dystiolaeth, gwialen Aaron, a'r manna; ond, yn awr, yr oedd y deyrnwialen wedi ymadael; dodrefn y cysegr wedi eu colli; y Shecinah rhyfedd wedi cilio: yr oedd hi yn oes ddirmygus gan ddynion, a gwrthodedig gan Dduw. Yr oedd ei waith yn ymddangos ymysg y fath genedl, yn y fath oes, yn ei ddwyn i barthau isaf y ddaear yn ngolwg y byd.

Eilwaith: daeth i barthau isaf y ddaear yn ngolwg yr Iuddewon eu hunain hefyd. Er bod y teulu o'r hwn yr hànodd yn deulu brenhinol, yr oedd ei holl ogoniant wedi colli, fel ag yr oedd bod yn fab Joseph yn cael ei nodi fel dirmyg arno; a phe gwybuasid ymhob man mai mab Dafydd ydoedd, buasai hyny yn yr oes hono yn fwy o ddirmyg arno nag o anrhydedd, oblegid y mae darostyngiad teulu, fel person, yn cyfateb i uchder eu dyrchafiad cyn hyny. Bu fyw hefyd megis mewn cysgod: nid oes genym ond un crybwylliad am dano nes ydoedd yn ddeg ar hugain mlwydd oed;—pa beth a wnaeth, a pha fodd y treuliodd y blynyddoedd hyny, nis gwyddom; ond y mae hyn yn sicr, iddo eu treulio yn y fath ddull fel na feddyliodd neb ei fod yn amgen na mab Joseph y saer, ac iddo eu treulio hefyd yn yr un alwedigaeth a Joseph, oblegid gelwir Ef gan un o'r efengylwyr yn saer. Ac wedi iddo ddechreu dysgu yn gyhoeddus, yr oedd holl arwyddion tlodi o'i amgylch: dewisodd ei gymdeithion o'r dosbarth iselaf yn y wlad fel y gwnelsai Dafydd,—publicanod a phechaduriaid, ysgubion y byd a sorod pob dim, oeddent. Ar elusen y bu Efe byw;—ei ddisgyblion oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt. Edrychwch arno ymhob ystyr, ac ymhob man, yn mharthau isaf y ddaear y mae. Iuddewon oedd y rhai mwyaf dienw ymysg y cenhedloedd; Iuddew oedd yntau. Galilea oedd y rhan iselaf o wlad Canaan; Galilead oedd yntau. Nazareth oedd y dref iselaf yn Galilea; yn Nazareth yr oedd yntau yn byw. Publicanod oedd y rhai iselaf eu cymeriad yn y wlad; publicanod oedd ei ganlynwyr Ef. Pysgodwyr oedd y rhai brasaf eu hiaith a'u harferion

o neb; pysgodwyr oedd ei ddisgyblion yntau. Yr oedd y wlad y daeth iddi, o'i chymharu â rhanau eraill o Ganaan, yn dir tywyllwch fel y fagddu; a'r bobl oedd yn ei ddilyn, o'u cymharu âg eraill, yn gleifion gerllaw rhai iach. Nis gallasai ymffrostio, fel Haman, fod y mawrion yn sylwi arno: os gwneir cymwynasau iddo, fe'u gwneir gan dlodion y byd;—os golchir ei draed Ef gan rywun, ond odid nad pechadures a fydd hi;—os gwneir gwledd iddo, y mae yn dra thebyg mai publican fydd yn ei darparu hi. Mor wir ydoedd, nad oedd "ganddo le i roddi ei ben i lawr;" oblegid ni bu ganddo feddiant o fan ar ddaear: yr anifeiliaid a roddodd fenthyg preseb yn gryd iddo;—rhyw Iuddew tyner a roddodd fenthyg asyn iddo farchogaeth arno;—Joseph o Arimathea a roddodd fenthyg ei fedd iddo i huno ynddo. Ganwyd Ef ymysg yr anifeiliaid: bu farw ymysg lladron. Yr oedd Bethlehem, a Nazareth, a Chalfaria, yn gyfystyr iddo Ef â thlodi: preseb oedd yn ei gysylltu Ef â'r cyntaf, gweithdŷ saer â'r ail, a chroes â'r trydydd. Amddifadwyd Ef o gysuron cyffredin y ddaear pan yn faban;—cariwyd Ef dros ddiffaethfaoedd tywodlyd i wlad estronol;—treuliodd ddeng mlynedd ar hugain heb hòni ei fod yn Fab Duw: ac wedi iddo osod ei hun i fyny fel dysgawdwr cyhoeddus, nid oedd hyny ond myned ris yn îs mewn tlodi. Yr oedd y testyn yn ddesgrifiad cywirach o hono y pryd hwnw nag ar un adeg o'i oes. Mynych y treuliai ei nosweithiau ar y mynydd, am nad oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr; cysgai mewn cwch pysgota, o ddiffyg lle gwell;—gwnaeth wyrth i dalu treth, am nad oedd ganddo ddim modd arall i wneyd hyny. Y mae y tlodi hwn yn cael ei ddangos yn rymus iawn trwy y gymhariaeth y mae yn ei dŷnu rhyngddo ei Hun a'r creaduriaid direswm; ac y mae yn deilwng o sylw, mai y rhai mwyaf digymorth o'r rhai hyny y mae yn eu nodi. Nid yr ych oedd â meddianydd iddo,—nid yr asyn oedd â pherchenog i ofalu am dano; ond y llwynog oedd yn cael ei erlid gan bawb, a'r adar oedd megis ar drugaredd pob peth: eto yr oedd gan y rhai hyn, un ei ffau, a'r llall ei nyth; ond y mae Mab y dyn yn fwy digymorth o lawer,—nid oes ganddo "le i roddi ei ben i lawr." Fe ddibrisiodd, neu fe waghäodd, ei Hun o fawredd ymhob man, trwy, yn ddieithriad, ddewis y peth iselaf. Yr oedd dwy

natur wedi syrthio, un y mae yn debyg yr uchelaf a greodd Duw, a'r llall yr iselaf o'i greaduriaid rhesymol; ond had Abraham, ac nid naturiaeth angylion, a gymerodd Efe. Yn y natur hon hefyd, yr oedd ganddo lawer o le i ddewis o'r brenin i'r gwas; ond agwedd gwas a gymerodd. Nid yn unig fe ddaeth i ddull dyn, ond fe'i darostyngodd ei Hun yn y dull hwnw; ac fel yr oedd yn dibrisio ei Hun trwy ddewis y peth isaf mewn bywyd, felly y gwnaeth hefyd pan yn marw, trwy farw o angau y groes. Fe gododd ei haul Ef dan gymylau;—yr oedd diwrnod ei fywyd Ef yn ddiwrnod tywyll, du; a'r nos a'i dilynodd yn noswaith o fraw. Wele Ef yn cychwyn o lety yr anifeiliaid; a'i ffordd yn myned drwy yr Aipht,—drwy Galilea,—drwy Nazareth,—drwy Gethesmane,—drwy lys yr archoffeiriad,—dros fryn Calfaria,—ac yn diweddu yn medd Joseph. "Gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr." Dyma ychydig o lawer o'r amgylchiadau yr amlygwyd ei dlodi ynddynt.

II. Paham y daeth i'r fath dlodi. Y mae tri rheswm am hyn; 1. Yr oedd hyn yn angenrheidiol gyda golwg arno Ef ei Hun. 2. Er mwyn y byd. 3. Er mwyn ei bobl.

1. Yr oedd hyn yn angenrheidiol gyda golwg arno Ef ei Hun, fel Cyfryngwr, i brofi ei ufudd-dod i'w Dad.—Anufudd-dod a ddinystriodd y greadigaeth resymol, a thrwy ufudd-dod yr Un Hwn yr oedd llawer i'w gwneuthur yn gyfiawn; am hyny yr oedd yn rhaid ei osod mewn amgylchiadau a fyddent yn fanteisiol i'w brofi, i'r manyldra mwyaf, a ufuddhâi Efe i Dduw ai peidio. Y mae yr Arglwydd yn profi ufudd-dod pawb. Ni wyddom ni ddim am y byd ysbrydol: feallai i'r angylion a gadwasant eu dechreuad gael eu profi; a thebygol ydyw mai wrth fyned trwy y prawf, y collodd Satan ei ddechreuad: ond ni a wyddom am y byd hwn, fod pawb yn cael eu profi yma. Fe brofwyd y dyn cyntaf Adda; ond nid oedd y prawf yn un manwl, am nad oedd ei ufudd-dod ef ond i sicrhau dedwyddwch i greaduriaid oedd heb haeddu dim ond hyny; ond yr oedd ufudd-dod yr ail Adda i sicrhau dedwyddwch i rai oedd wedi haeddu digofaint, am hyny yr oedd yn rhaid i'r prawf ar yr ufudd-dod gyfateb, mewn manylrwydd, i fawredd yr hyn oedd yn ymddibynu ar yr ufudd-dod

hwnw. Am hyny, cyn gynted ag y deallodd y temtiwr drwy y llef a ddaeth o'r nef yn amser ei fedydd pwy ydoedd, y mae yn y fan yn ymosod arno â'i holl egni, fel ag y gwnaethai ar yr Adda cyntaf; ond mewn anialwch yr oedd yr ail, ac er bod cyffelybrwydd yn nhemtasiwn y ddau, eto yr oedd y gwahaniaeth hwn yn eu hamgylchiadau:—nid oedd ar yr Adda cyntaf ddim eisiau ymborth, am ei fod mewn paradwys, yn llawn o ffrwythau, tra yr oedd yr ail mewn anialwch, heb ynddo ddim cynhaliaeth i ddyn; ac wedi ymprydio yno hefyd ddeugain niwrnod, pan ddaeth y temtiwr ato; am hyny yr oedd yn newynog, heb ddim i dori ei newyn. A chydag iddo ddyfod trwy y prawf yna yn fuddugoliaethus, yr oedd yn union mewn un arall, fel nad oedd ei oes i gyd ond un prawf cyson o ufudd-dod i Dduw. Ni waharddwyd ond un pren i'r Adda cyntaf, ond yr oedd pob pren megis wedi ei wahardd i'r ail. Fel brenin y profwyd y cyntaf, ond fel gwas y profwyd yr ail. Ni omeddodd yr Arglwydd mo'r cyntaf o ddim a welai ei lygaid, ond pren gwybodaeth: ni roddodd efe ddim i'r ail a welai ei lygaid ond croesau. Fel yr oedd y cyntaf yn meddu pob dedwyddwch, yr oedd yr ail yn meddu pob gofid. Fe anufuddhaodd y cyntaf, er nad oedd ond un peth wedi ei gadw rhagddo; ond fe ufuddhaodd yr ail, er bod pob peth yn waharddedig. Yr oedd uwchlaw deddf fel Person dwyfol, ond yr oedd dan ddeddf yn y cyfan fel Cyfryngwr, ac felly mae yn priodoli ei holl fywyd a'i angau yn ufudd-dod i ddeddf,—i orchymyn. Nid ceisio ei ewyllys ei Hun yr oedd, ond ewyllys y Tad. Yr oedd yn gwneuthur y cyfan megis y dysgodd y Tad ef; a phan roddodd ei fywyd i lawr, gorchymyn oedd hyny wedi ei dderbyn gan y Tad. Yr oedd pob cam o'i oes yn aberth, fel yr offrymodd Ef ei Hun yn gwbl; felly yr offrymodd ei Hun bob amser. Ni wyddom ni ddim am y dylanwad oedd gan y natur ddwyfol ar yr un ddynol; ond ni a wyddom hyn, nad oedd ei dylanwad yn ei atal i deimlo pob peth fel ninau. Yr oedd enllib mor boenus iddo Ef ag i rywun arall; yr oedd newyn a noethni yn groesau iddo Ef fel i un arall. Yr oedd yntau yn teimlo, fel un arall, wrth weled trigolion Nazareth yn ceisio ei ladd,—yr Iuddewon yn cynllwyn iddo,—a'r Phariseaid yn ymgynghori pa fodd y difethent Ef. Yr oedd iddo ufuddhau mewn amgylchiadau o'r fath yma yn

ei berffeithio yn Dywysog iachawdwriaeth, ac yn gosod gwerth anmhrisiadwy yn ei ufudd-dod. Y mae mawredd ei ddarostyngiad yn yr ystyr hwn yn destyn llawenydd i'w bobl; oblegid y mae mawredd y gogoniant a deilyngodd iddynt hwy yn cyfateb i fawredd ei ddarostyngiad Ef.

2. Yr oedd iddo gymeryd yr agwedd hon yn angenrheidiol er mwyn y byd. (1.) I'w ddwyn i ymsynied yn iawn am yr hyn sydd wir ragorol. Yr oedd wedi myned i addoli cyfoeth a mawredd gweledig, ac yr oedd yn angenrheidiol tuag at ei ddwyn i'w le, dangos iddo mai nid mewn aur y mae gwir fawredd, ac mai nid mewn teitlau y mae gwir ragoroldeb; ac mai peth hollol wrthwyneb ydyw gwir fawredd, sef mawredd yn ngolwg yr Arglwydd. Y gwir ragoriaeth rhwng dynion ydyw yr un tumewnol, naill ai yn ngallu eu meddwl, neu ynte yn ansawdd eu calonau; ond y mae y byd wedi gosod i fyny safon arall i ragoriaeth, sef golud. Ymysg y cenhedloedd anwar, gallu sydd yn fesur rhagoriaeth: ymysg y rhai gwareiddiedig, cyfoeth sydd yn gwneuthur hyny. Gyda hwy arian sydd yn ateb i bob peth,—sydd yn drwydded i bob man,—yn agoriad i agor pob porth. Y cwestiwn cyntaf am ddyn fydd, Pa faint ydyw o werth? hyny yw, pa faint o arian sy ganddo, oblegid nid yw y byd yn meddwl fod un gwerth arall mewn bod. Tra nad oes ond ambell un yn gofyn, "Pa le y ceir doethineb?" y mae pawb yn gofyn, "Pa le y ceir aur?" Un o fil sydd yn cydnabod y doeth, ond y mae pawb yn addoli y fodrwy aur; ïe, aur ydyw un peth angenrheidiol y ddaear. Y mae yr holl fyd yn cytuno i chwilio am dano, ac felly yn esgeuluso y pethau mawrion sydd yn perthyn iddynt fel deiliaid byd ar ol hwn. Yr oedd Adda yn meddwl bod megis Duw trwy ei wybodaeth, ond y mae y plant wedi myned lawer yn îs na'u hen dad: y maent hwy yn meddwl bod felly trwy eu haur: am hyny y mae pawb yn ei gasglu, am y gwyddant fod hyny yn ben ffordd i barchedigaeth a mawredd ar y ddaear. Darfu i un o lywodraethwyr Groeg, pan oedd y wlad wedi ymroddi i gybydd-dod, a phawb yn addoli yr aur, alw yr holl arian bathol o feteloedd gwerthfawr i fyny, a bathu haiarn yn eu lle, a rhoddi i bawb haiarn bathol yn lle yr aur, nes yr aeth yn gâs gan y wlad yr hyn oedd yn cynrychioli cyfoeth; ac felly fe'u

diwygiwyd hwy oddiwrth eu bai. Felly fe ymddangosodd Mab Duw i argyhoeddi y byd ynghylch yr hyn sydd wir werthfawr: fe daflodd ddirmyg ymhob dim ar aur ac arian (fel prif ddibenion bywyd): fe ddangosodd rwysg a mawredd daearol yn bethau rhy ddiwerth i'w ceisio. Fe ddewisodd forwyn dlawd yn fam, ac nid brenhines;—pentref distadl yn lle genedigaeth, ac nid y brifddinas; mewn preseb, ac nid mewn cryd o aur, y cafodd ei lygaid gwsg gyntaf;—Nazareth, ac nid Jerusalem, oedd ei gartref;—pysgodwyr, ac nid philosophyddion, oedd ei gymdeithion: fel y bathodd y llywodraethwr hwnw yn Groeg y fetel ddistadlaf yn y wlad i gynrychioli cyfoeth, felly y bathodd Mab Duw bethau tra gwahanol i gynrychioli gwir gyfoeth, ragor dim arall oedd mewn arferiad cyn hyny ar y ddaear. Fe osododd ddelw ac argraff y nefoedd ar feteloedd pur ddiwerth yn ngolwg y byd; ac os mynech chwi wybod pa arian sydd yn pasio yn y byd a ddaw,—beth ydyw gwir gyfoeth,—beth sydd yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd, darllenwch y bumed benod o Matthew. Yr hwn sydd yn meddu y cyfoeth, y mae nôd ac argraff Jehofah arno, ydyw y tlawd yn yr ysbryd, y newynog am gyfiawnder, yr addfwyn, y tangnefeddwr, yr hwn sydd yn cael ei ysbeilio o holl fawredd y byd hwn yn herwydd cyfiawnder. Pan oedd pawb eraill am hòni perthynas, os gallent, â mawrion y byd; yn trafferthu i olrhain eu hachau yn ol amryw genedlaethau, os gallent ddangos fod rhyw un cyfoethog yn perthyn i'w teulu y pryd hwnw; wele Iesu Grist yn edrych o'i amgylch ar ychydig o bysgodwyr tlodion môr Galilea, a gwragedd digyfrif gan ddynion, megis Mair Magdalen, a'r Wraig o Samaria, ac yn cyhoeddi yn eofn yn wyneb byd balch, Wele fy mam, fy chwiorydd, a'm brodyr. Fe ddarostyngodd ucheldrem dyn: y mae yn dywedyd ymhob man, a thrwy bob peth, wrth blant dynion, Bydded ynoch y meddwl hwn, yr hwn hefyd oedd yn Iesu Grist, sef ymwadu â phob mawredd bydol.

(2.) Yr oedd yn angenrheidiol iddo ddyfod yn yr agwedd isel hon hefyd i brofi dynion, i weled a ganlynent hwy Ef er ei fwyn ei Hun. Y mae hyn i'w ganfod yn bur amlwg yn amgylchiadau y testyn. Yr oedd yr ysgrifenydd, wrth yr hwn y llefarwyd ef, wedi ei daraw mor neillduol gan ogoniant gwyrthiau yr Arglwydd Iesu, nes y penderfynodd ei ddilyn Ef: ond

pan lefarwyd y testyn, fe oerodd hyny ei zel. Tebyg ydyw na rodiodd mwyach gyda'r Iesu, oblegid nid oes genym ychwaneg o son am dano. Yr oedd ei ymddangosiad distadl yn dramgwydd i'r cyfoethogion y pryd hwnw, fel nad oedd yr un o honynt yn ddisgybl cyhoeddus iddo. Aeth y gŵr ieuanc cyfoethog yn ol yn y fan y deallodd fod tlodi yn dilyn ei broffesu. Gadawyd ef gan ddisgyblion y torthau, pan ddeallasant nad oedd manteision bydol yn gysylltiedig â'i ddilyn. Dyma ei dlodi yn atalfa i gyfoethogion a thlodion ei ddilyn: y naill yn peidio am fod yn rhaid iddynt ymadael â'u cyfoeth i hyny; a'r lleill yn peidio am nad oedd gobaith iddynt gael cyfoeth drwy hyny. A'i eiriau Ef ei hun ydynt, mai yn anhawdd yr ä goludog i mewn i deyrnas nefoedd. Y mae hyn yn awgrymu fod mwy o rwystrau ar eu ffordd hwy na ffordd neb arall, oblegid ni ddywedodd Mab Duw ddim ei bod yn anhawdd i neb ond hwy; ac y mae hanes yr eglwys ymhob oes yn gwirio hyn. "Nid llawer o'r boneddigion a alwyd:" y bobl druain dlodion sydd yn ei ganlyn;—ysgubion y byd, a sorod pob dim, yw ei ddisgyblion. Felly y profid pa un a oedd dyn yn Gristion ai peidio, yn amser yr erledigaethau yn ymherodraeth Rhufain, sef trwy ei gymeryd at allor y duwiau, a cheisio ganddo aberthu iddynt; ac os gwrthodai, cymerid hyny yn brawf ei fod yn perthyn i'r grefydd newydd: felly y mae Mab Duw yn profi ei ddisgyblion trwy alw arnynt i offrymu yr hen dduw ar ei allor Ef, trwy ymwadu â phob mawredd bydol, ac uno eu hunain â'r rhai nid ydynt bobl yn nghyfrif y byd. Nid ydyw yn ysbeilio ei bobl o bethau y byd hwn: wedi iddynt eu haberthu, y mae yn eu rhoddi yn ol iddynt,—fel y rhoddodd Ef Isaac i Abraham,—gyda'r ystyriaeth o'u bod i deimlo o hyny allan mai ei eiddo Ef ydynt, a bod ganddo hawl arnynt bryd bynag y bydd ar ei achos angen am danynt. Ei dlodi ydyw y peth mawr i brofi ein cywirdeb ni: nid oedd ei broffesu ar fynydd y gweddnewidiad brawf yn y byd o gywirdeb. Nid oedd gofyn, "Pwy ydyw hwn?" newydd ei weled yn distewi y gwynt a'r môr â'i air, brawf yn y byd o galon yn ei barchu. Nid oedd bloeddio Hosanna i Fab Dafydd, pan oedd holl amgylchoedd Jerusalem yn synu gan ei wyrthiau, brawf yn y byd fod teimlad cywir tuag ato yn y fynwes. Nid oedd dywedyd,

"Yn wir Mab Duw oedd y dyn hwn," wedi teimlo y ddaear yn crynu, a'r beddau yn agor, gamp yn y byd. Beth a brawf gywirdeb? Penderfyniad y disgyblion, "Awn ninau hefyd, fel y byddom feirw gydag ef;"—sefyll wrth y groes pan oedd yn ei ddirmyg mwyaf, fel y gwnaeth Ioan a'r gwragedd;—ei gyfaddef yn Arglwydd pan yn gorwedd mewn bedd megis drwgweithredwr, fel y gwnaeth Mair. Yr oedd y Phariseaid weithiau yn dangos ychydig barch i Grist byw; ond pa ddiolch iddynt ei wahawdd i'w tai i fwyta bara, newydd ei weled yn cyflawni gwyrthiau mor ryfedd? Ond wele y gwir ddisgyblion yn myned i draul fawr i brynu peraroglau i ddangos parch i Grist marw. Ni buasai yr un Pharisead yn gwneuthur hyny. Tlawd ydyw Iesu Grist yn ei achos eto: y mae yn newynog, yn noeth, yn ddieithr, ac yn ngharchar; ac, O! gymaint sydd heb ei weled oblegid hyn. Y maent yn methu adwaen Brenin gogoniant am mai agwedd gwas sydd arno: yn methu adwaen Etifedd pob peth, am mai ar elusen y mae yn byw;—yn methu adwaen y Planhigyn enwog, am mai mewn tir sych y mae yn tyfu; ac yn y frawdle ni a'u cawn yn gofyn iddo, "Pa bryd y'th welsom felly?" Y mae Iesu Grist fel mewn bedd yn ei achos yn awr: y mae degau o'r gwrandawyr yn disgwyl am yr amser yr adgyfyd o'r bedd mewn gogoniant, nes y bydd yr holl wlad yn furmur yn ei gylch, fel yr oedd Jerusalem gynt; ac y maent hwythau yn meddwl ei gyfaddef y pryd hwnw, pan ddêl ei ogoniant i'r amlwg; ond pa ddiolch? bydd tramgwydd y groes wedi ei dynu ymaith yr amser hyny. Os oes ynoch barch calon iddo, chwi a'i proffeswch Ef, fel Mair, pan yn gorwedd mewn bedd.

Y mae yr olwg hon sydd ar Iesu Grist yn ei achos yn ei gwneyd yn dra thebygol mai ei wrthod a wna y byd: oblegid hyn y dywedir ei fod wedi ei roddi "yn gwymp ac yn gyfodiad i lawer;"—yn gwymp i'r cyffredinolrwydd o fawrion y byd ymhob oes, ac yn gyfodiad i'w dlodion: hyn a fu yn gwymp i gorff cenedl Israel, a'r un peth sydd yn gwymp i enwogion y byd, a'r rhai a fynent fod yn fawr ar y ddaear ymhob oes. Buasai rheswm dynol yn meddwl mai y dull goreu i ledaenu achos Iesu Grist ar y ddaear fuasai rhoddi pob mawredd gweledig arno, a chyflwyno pob awdurdod i bregethwyr y

deyrnas, fel y gallasent, megis Moses yn yr Aipht, droi yr holl greadigaeth yn dystion i wirionedd eu geiriau; ond nid felly y gwnaeth Iesu Grist. Dynion diawdurdod ydyw ei weision, heb ganddynt yr un sel o'u hanfoniad ond buchedd sanctaidd; heb allu i brofi trwy ddim gweledig mai gwirionedd ydyw y dystiolaeth. Y maent yn dywedyd fod y gyfraith a gyhoeddwyd ar Sinai yn un ofnadwy; ond nis medrant wneuthur i'r mynydd losgi hyd entrych awyr i brofi hyny. Y maent yn dywedyd fod Iesu Grist yn rhagori ar ddeng mil; ond nis gallant ei amgylchu â gogoniant gweledig, megis ar fynydd Tabor, i brofi hyny. Y maent yn dywedyd mai Duw ydyw, ond ni fedrant ei ddangos Ef ond megis dyn. Y maent yn dywedyd mai Etifedd pob peth ydyw; ond ni fedrant ei ddangos Ef ond fel un heb ddim. Y maent yn dywedyd mai Brenin ydyw, ond ni fedrant ei ddangos Ef ond megis gwas. Ac y mae y dyrfa sydd yn gwrandaw yn ei farnu ymhob oes wrth ei ymddangosiad, ac nid wrth y desgrifiad sydd o hono. Felly y gwnaeth yr Iuddewon. Yr oedd Esaiah yn dywedyd wrth edrych arno, "Wele Dad tragywyddoldeb:" ond ei gydwladwyr yn dywedyd, Wele fab y saer. Y prophwyd yn dywedyd, Wele y "Cynghorwr:" yr Iuddewon, Pa fodd y medr hwn ddoethineb. Ezeciel yn dywedyd wrth syllu arno, Wele y Planhigyn enwog: y Phariseaid, Wele wreiddyn o dir sych. Daniel yn dywedyd am dano, Wele yr Hen Ddihenydd: yr Iuddewon, "Nid wyt ti ddeng mlwydd a deugain" oed. Zechariah yn dywedyd am dano, Wele Frenin yr holl ddaear: trigolion Galilea, Wele un heb le i roddi ei ben i lawr. "Gogoniant Israel," meddai yr hen Simeon, wrth edrych arno: eu gwarth hwynt, meddai yr offeiriaid wrth ei draddodi i'w groeshoelio. Ond dyma y paham yr oedd cymaint o amrywiaeth barnau am dano: edrych yr oedd y prophwydi ar y Duw, tra yr oedd yr Iuddewon yn edrych ar y dyn. Yr oedd y naill yn dywedyd beth oedd mewn gwirionedd, a'r llall yn ei farnu wrth ei ymddangosiad. Ac felly y mae hi eto; pan y mae y gweision yn dywedyd, Wele y Duw, y mae y dyrfa yn dywedyd, Wele y dyn: y pregethwr yn dywedyd, Wele gonglfaen gwerthfawr, a'r gwrandawyr yn dywedyd, Wele graig rhwystr. Y mae yr olwg isel sydd ar y dyn Crist Iesu yn cadw ugeiniau rhag proffesu y Duw cadarn.

Y mae fel Duw yn gonglfaen gwerthfawr i'w bobl, ond y mae fel dyn yn faen tramgwydd i'r byd; ac O! gymaint sydd yn tramgwyddo wrth y maen yn lle pwyso arno,—yn cwympo drwy dlodi y dyn Crist Iesu dan ddigofaint y Duw, yn lle cael eu codi drwy dlodi y dyn i uchder gogoniant y Duw. Bydd y tlodi, naill ai yn ris i dy ollwng i lawr i'r pydew, neu ynte yn ris i dy godi i fyny i'r llys.

3. Ymddangosodd yn y dull tlawd hwn er mwyn ei bobl. (1.) I fod yn esiampl. Pe buasai yn frenin daearol, gallasai roddi esiampl i frenhinoedd: pe buasai yn dywysog gallasai roddi esiampl i dywysogion y byd; ond gan mai dyn ydoedd heb ddim o'r pethau digwyddiadol hyn yn ei amgylchu, fe roddodd esiampl i ddynion. Dyna ydyw esiampl: y rheol y dylid cydffurfio â hi yn cael ei dangos mewn gweithred. Rheol creadur rhesymol ydyw deddf Duw. Fe'i rhoddwyd hi yn rheol i gydffurfio â hi dair gwaith. Fe'i rhoddwyd hi yn gyntaf yn egwyddor yn natur dyn; ond fe fethodd Adda a cherdded yn ei hol. Fe'i rhoddwyd hi eilwaith gyda rhwysg a mawredd ar lechau ar Sinai; ond yr oedd dynion eto yn methu cydffurfio â hi. Ond pan ymddangosodd y Mab, dyma'r ddeddf wedi ymddangos yn y cnawd. Dyma'r ddeddf oedd mewn gair yn yr arch yn ymddangos mewn gweithred yn Iesu Grist; ac y mae y ddeddf sydd mewn gair yn ein cyfeirio ni i edrych arni mewn gweithred. "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon," medd y ddeddf: "Pa fodd y gwybyddaf beth yw hyny?" medd dyn. Wel, edrych ar Iesu Grist. "Ti a geri dy gymydog fel ti dy hun," medd y ddeddf, mewn gair; neu fel y mae Iesu o Nazareth yn gwneuthur, medd y ddeddf mewn gweithred.

Y mae rhaid i'r hwn sydd i fod yn esiampl fod mewn amgylchiadau cyffelyb i'r neb y mae i fod yn esiampl iddynt. Oni buasai fod Elias yn ddyn yn rhaid iddo ddioddef fel ninau, ni fuasai yn gymwys i'w nodi fel esiampl o daerineb mewn gweddi. Y mae ein sefyllfa ni y fath fel nad oes modd i ni fyned i'r nefoedd ond trwy lawer o orthrymderau; gan hyny yr oedd yn rhaid i'r neb oedd i fod yn esiampl fyned ar hyd yr un ffordd, ac felly i'r iselder mwyaf; fel nad oes yr un glyn ar y ddaear, nac un gilfach yn y dyfnder, nad yw ei esiampl Ef

yn llefaru wrth ei bobl yno, fel Abimelech wrth ei wŷr, "Gwnewch fel finau." Pan y mae rhai yn teithio gwledydd lled anadnabyddus, y maent yn ysgrifenu *guide books*, llyfrau i gyfarwyddo y rhai a ddeuant ar eu hol hwynt; ac y mae y rhai hyny yn gofalu am fod llyfr o'r fath yn eu llaw, i gael gwybod pa ffordd i fyned, a pha beth i'w ochel. Felly fe deithiodd Mab Duw daith arw bywyd drwy wlad ddieithr y ddaear, ac y mae ei esiampl yn *guide book* i gyfarwyddo ei bobl yn y ffordd ar ei ol. O! blentyn Duw, nid wyt yn darllen y *guide book* yn ddigon aml, onide ni chollit gymaint ar y ffordd, ac ni chyfarfyddit â chymaint o ddamweiniau ychwaith, oblegid "Efe adawodd i ni esiampl, fel y canlynem ei ôl Ef." Pan demtiwyd Ef i gymeryd moddion anghyfreithlawn i ddiwallu ei angen, Efe a adawodd i ni esiampl mewn ymostwng i drefn Duw. Pan demtiwyd Ef i roddi naid ar unwaith i gyfoeth, Efe a adawodd i ni esiampl mewn ymostwng i ewyllys ei Dad. Pan demtiwyd Ef i roddi prawf o'i allu, er mwyn iddo gael ei weled, Efe a adawodd i ni esiampl mewn peidio temtio yr Arglwydd. Felly fe roddodd esiampl i ni pa fodd i rodio a boddloni Duw ymhob man. Yr oedd dynion cyn hyn yn methu cyflawni ewyllys y Brenin tragywyddol. Yr oedd un o Ymherawdwyr Rwssia wedi meddwl cael llynges i berthyn i'w ymherodraeth, ond nid oedd neb o'i weision a fedrai gyflawni ei ddymuniadau yn iawn, am hyny daeth trosodd ei hunan i Loegr, ac fe weithiodd fel saer llongau gerllaw Llundain, ac mewn lleoedd eraill, nes dysgu y gelfyddyd, ac yna dychwelodd adref i'w ymherodraeth, ac fe ddysgodd ei weision trwy ei esiampl, pa fodd i gyflawni ei ewyllys: ac wedi cael y brenin, nid yn unig i fynegi y ddeddf, ond hefyd i'w gwneyd hi, fe lwyddodd yr ymherodraeth o'r dydd hwnw allan. Felly, yr oedd eisiau cael dynion i gyflawni ewyllys Duw, ond yr oedd pawb yn dra anmherffaith yn y gwaith: ond wele y Mab yn dyfod i ddysgu ufudddod ei Hun, er mwyn eu dysgu hwy i ufuddhau drwy ei esiampl; a chyn sicred ag i Rwssia ffynu wedi iddi gael esiampl y brenin, fe ffyna y ddaear wedi iddi gael Rhoddwr y ddeddf, i ddangos mewn gweithred pa fodd i'w chyflawni: fe'i gwelir hi ymhen gronyn, o begwn i begwn, wedi dysgu gwneuthur ewyllys Duw; a dyna un paham y mae y lleiaf yn

nheyrnas nefoedd yn fwy na'r mwyaf o dan yr hen oruchwyliaeth, oblegid nid oedd gan y mwyaf yno ddim ond cyfarwyddiadau ysgrifenedig pa fodd i gyflawni yr ewyllys, ond y mae gan y lleiaf yn y deyrnas esiampl fyw. Y mae saint yr Hen Destament yn cwyno yn fawr yn eu dioddefiadau, am nad oedd ganddynt ddim ond y llythyren farw pa sut i wneuthur; ond y mae saint y Newydd yn canu yn yr un amgylchiadau;—yn gorfoleddu mewn gorthrymderau,—am fod ganddynt esiampl fyw ger eu bron, oblegid "Crist hefyd a ddioddefodd."

(2.) Yr oedd hyn yn angenrheidiol i'w gymhwyso i gydymdeimlo â'i frodyr, oblegid nis gallasai fod yn drugarog, sef yn cydymdeimlo, heb fod yn gyffelyb iddynt ymhob peth; ond gan ei fod wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud â ninau, Efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir. "Efe a ddysgodd ufudddod trwy y pethau a ddioddefodd;" fel y dywed rhai, "Efe a ddysgodd trwy ddioddef mor anhawdd oedd ufuddhau ar y ddaear; am hyny Efe a ddichon gydymdeimlo â'i frodyr wrth geisio ufuddhau." Pan gynygiodd Moses ei hun y waith gyntaf i fod yn waredwr i Israel, nid ydoedd yn gymwys i'r gwaith, am nad oedd yn gydnabyddus trwy brofiad; ac hefyd, pa fodd y gallasai un oedd wedi ei fagu yn foethus yn y llys ddwyn beichiau plant y caethiwed yn yr anialwch? yr oedd gormod o ddelw y llys arno i'r bobl gredu fod ganddo ddim gwir gydymdeimlad â hwynt. Nid oedd nemawr o ôl gofid ar ei wedd, nac o ôl gwaith ar ei ddwylaw. Y mae y bobl yn gofyn, "Pwy a'th osododd di yn farnwr." I'w gymhwyso i ddwyn eu beichiau hwynt, y mae yn rhaid ei anfon i ysgol adfyd ei hunan am ddeugain mlynedd, ei amgylchu â gwendid yno, fel y gallai dosturio wrth y bobl. Fe ei parotöwyd ef am ddeugain mlynedd yn yr Aipht i fod yn arweinydd, ond trwy ddeugain mlynedd o ddioddefiadau yn Midian y perffeithiwyd ef i fod yn dywysog iddynt. Ac erbyn iddo ddyfod atynt yr ail waith, yr oedd cwysau gofid ar ei wynebpryd yntau,—ôl gwaith ar ei ddwylaw,—a gwisg anialwch am dano,—yr oedd efe megis un o honynt hwy; am hyny nid oedd yno neb yn gofyn, "Pwy a'th osododd di yn farnwr?" Felly pe buasai yn bosibl i'r Gwrthgysgod mawr fod yn flaenor i'n gwaredu, heb dynu dillad y llys oddiam dano, ni fuasai gan neb hyder ynddo,

am na fedrasai gyd-ddioddef â gwendid ei bobl; ond fe dynodd ddillad y llys, ac aeth i'r anialwch am flynyddoedd i gael ei amgylchu â gwendid yno, i'w barotoi i ddwyn eu beichiau hwynt. Er iddo fel Moses gael ei hir barotoi yn y llys, sef er dyddiau tragywyddoldeb, at waredu Israel, eto cyn y gallasai gyd-ddioddef â gwendid ei bobl, yr oedd yn rhaid ei anfon i ysgol adfyd ei hunan i'w berffeithio yn Flaenor trwy ddioddefiadau. Nid dillad esmwyth y llys sydd am dano, ond gwisg fras yr anialwch. Y mae ôl dagrau ysgol adfyd ar ei ruddiau, ac ôl ei gwaith hi ar ei ddwylaw; "am hyny nid oes i ni Archoffeiriad heb fedru cyd-ddioddef â'n gwendid ni." Fe rodiodd y ffordd arwaf ar y ddaear, i gael gwybod pa faint o nerth fyddai yn angenrheidiol ei gyfranu i'w blentyn tuag at ei theithio hi. Fe yfodd y cwpan chwerwaf ar y ddaear, fel y gallai wybod pa faint o'r pren fyddai yn angenrheidiol i bereiddio pob un. Fel yr oedd Solomon am esgyn i bob uchder, i wybod beth oedd y dedwyddwch hwnw oedd gan blant dynion; felly yr oedd yntau am ddisgyn i bob dyfnder i gael gwybod beth oedd y chwerwder hwnw oedd gan drigolion y ddaear. Nid oedd yr un dyfnder ond trueni cydwybod euog na bu ef ynddo; ond yr oedd ei fod yn ddieithr i'r dyfnder hwnw yn ei wneuthur yn fwy cymwys i fyned yn ddyfnach i bob un arall; ac y mae yn anmhosibl i'r un o'i blant fyned cyn ddyfned mewn dim ag yr aeth Efe. Y maent hwy weithiau yn dioddef ar gam; ond fe ŵyr eu cydwybod, er nad ydynt yn haeddu y pethau hyny eu bod yn haeddu pethau eraill mwy o lawer; ond ni bu Ef yn dioddef mewn un man nad oedd tystiolaeth y lleidr yn wir am dano, "Hwn ni wnaeth ddim allan o'i le." Yr oedd pob croes o gymaint a hyny yn chwerwach. Pa le y mae dyfnder na bu Ef ynddo? Ymha amgylchiad y mae yn bosibl i'w blant fod nad all Ef gydymdeimlo â hwynt? Ai mewn tlodi? Nage, oblegid nid oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr. Chwiliai y ffigysbren yn ofer am ffrwyth i ddiwallu ei eisiau. Ai mewn gofid oblegid enllib a chelwydd? Nage, oblegid oni ddywedwyd mai dyn glwth ac yfwr gwin oedd yntau? A ydyw dy ymdrechiadau mwyaf didwyll di i wneuthur daioni yn cael eu priodoli i gau ddibenion? Oni ddywedwyd fod ganddo yntau gythraul, ac mai trwy Beelzebub yr oedd yn cyflawni yr oll?

Ai galaru yr wyt ar ol rhai o'th gyfeillion ? Fe ŵyr yntau beth ydyw y chwerwder yna, oblegid wele Ef yn wylo ar ol Lazarus. Ai brodyr gau sydd wedi archolli dy fynwes ? Clyw yntau yn llefaru yn yr un dyfnder, "Ai â chusan yr wyt yn fy mradychu i ?" Ai mynwesau dy gyfeillion sydd yn amddifad o'r cydymdeimlad dyladwy â thi ? Clyw yntau yn gofyn, "Felly: oni allech chwi wylied un awr gyda mi?" Neu, ai gofal dros ei deulu sydd yn chwerwi oriau ambell Gristion ? Fe ŵyr yntau am yr un teimlad, oblegid wele Ef yn gorchymyn ei fam i Ioan. Neu, ai y cymylau duon sydd uwchben y wlad sydd yn archolli mynwes un arall ? Fe yfodd yntau o'r cwpan yna; wele Ef yn wylo uwchben Jerusalem. Y mae rhai sydd wedi gorfod yfed o'r cwpan chwerw, yn gwybod mai cysurwyr galarus ydyw y rhai hyny a fynent eu cysuro ond heb fod erioed eu hunain mewn amgylchiadau cyffelyb; ethir ni all y Cristion fyned i'r un amgylchiad nad all ei Waredwr ddywedyd oddiar brofiad, "Mi a wn oddiwrth dy ddoluriau." Os bydd un, fel Mair wedi ei llethu gan dristwch, fe ddiddana Mair drwy wylo gyda hi. Neu, os bydd un arall fel Martha, yn gallu meddianu ei hun i ymddiddan am yr oruchwyliaeth; fe ddiddana Martha drwy ddwyn gwirionedd ger ei bron. "Efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir;" am hyny dos â dy feichiau ato. Ni chwilia Efe am neb fel Moses yn yr anialwch i'w dwyn yn ei le ei Hun. O ! y fath Waredwr sydd genym : nid oes dim yn perthyn iddo nad ydym yn cael mantais arno. Ni a gawn esiampl yn ei rodiad Ef,—ni a gawn gyfoeth yn ei dlodi,—ni a gawn fywyd yn ei angau,—ac adgyfodiad yn ei fedd Ef. Os ydyw ei wedd yn llygredig, fe bar hyny i'n wynebau ni ddisgleirio am dragywyddoldeb. Y mae ei breseb Ef yn ris i'n gorsedd ni,—ei groes yn bren bywyd i ni. Ni a gawn angau i'n meddyliau bach am Dduw wrth edrych arno yn Bethlehem. Ni a gawn feddyginiaeth i'n balchder wrth edrych arno yn Nazareth. Ni a gawn fywyd i'n hangau wrth edrych arno ar Galfaria. Ni a gawn fêl yn y preseb, ac almonau ar y groes, a gobaith da yn ei fedd.

III. Ni a safwn am foment yn awr i edrych ar y weledigaeth. Yr ydym wedi gweled dyfnder mawr, er nad oeddem ond mesur oddiwrthym ein hunain i lawr : ond nid o'r fan hyny

y dylasem ni fesur, oblegid yr ydym ni yn ddwfn iawn ein hunain, ond o'r uchder o ba un y daeth. Nis gellir gweled holl ddarostyngiad y dyn Crist Iesu, heb edrych ar ddyrchafiad y Duw, oblegid uchder gorsedd Jehofah ydyw yr unig fan y gellir plymio yn gywir ddyfnder preseb Bethlehem. Bryniau anfarwoldeb ydyw yr unig le o'r hwn y gellir mesur yn fanwl bellder bedd Joseph. Hyd yma yr ydym wedi ceisio dwyn y dyn Crist Iesu ger eich bron: yn awr yr ydym am alw eich sylw at y Duw cadarn, er mwyn i chwi weled mawredd darostyngiad y dyn. Pa fodd y cawn ni ei ddangos? a gawn ni wrth-gyferbynu y dyn â'r Duw? Pwy ydyw hwnyna sydd yn mhreseb Bethlehem? Maban rhyw wraig dlawd o Galilea. Ië, fel dyn, ond ni fydd yr holl wir yn cael ei ddywedyd, heb i ni fynegi hefyd mai y Maban yna ydyw y Duw Cadarn, sydd yn ffurfio ac yn cynal pob creadur ymhob man;—fod y greadigaeth yn cael ei chynwys yn ei law, fel y mae y preseb yn ei gynwys yntau. Er ei fod yn rhy wan i ymgynal ei hun, eto gair ei nerth sydd yn cynal pob peth arall; ac er nad oedd iddo le fel dyn yn y llety, ei ewyllys da fel Duw sydd yn lletya y greadigaeth eang i gyd. Os gofynwn ni i'r efengylwyr, Pwy ydyw hwnyna sydd yn cael ei siomi gan y ffigysbren am ffrwyth,—sydd yn cael ei omedd o lymaid o ddwfr gan y carictor iselaf yn Samaria? fe ddywedir wrthym mai Iesu mab Joseph ydyw; ond os mynem ni wybod yr holl wir, y mae yn rhaid i ni holi y prophwydi a'r Salmau hefyd. Y maent hwy yn dywedyd, mai y Duw ydyw sydd yn agoryd ei law, ac yn diwallu pob peth byw â'i ewyllys da. Efe sydd yn gofalu am gywion y gigfran, ac am wylltfilod yr anialwch. Y mae y ffynonau yn tarddu ar y mynyddoedd ar ei air Ef;—yr afonydd yn rhedeg trwy y dyffrynoedd yn ei allu Ef. Ar gledr ei law y mae'r môr yn gorwedd; Efe a osododd derfynau i ymchwydd ei donau. Os gofynwn ni i'r Iuddewon, Pwy ydyw hwnyna sydd yn crogi rhwng dau leidr? fe ddywedir wrthym mai un o dwyllwyr y bobl ydyw, yr hwn oedd wedi dianc yn hir o ddwylaw cyfraith; ond o'r diwedd fod ei ddoethineb wedi pallu, ac yntau wedi ei groeshoelio o wendid, yn gorfod marw am na fedrai fyw. Ond pe galwem ni rai sydd yn ei adnabod yn well i draethu ei oes, dyna ddywedent hwy

pwy ydyw, y Duw byw, y byddai y greadigaeth farw ar darawiad amrant, oni bai ei bod hi yn cael ei bywyd o hono. Mewn gwirionedd, nid oes dim ond Efe yn bod yn iawn; Efe yn unig a all ddywedyd, "Ydwyf yr Hwn ydwyf." Neu a gawn ni ofyn i greadigaeth Duw pwy ydyw: A wyddoch chwi, nefoedd, pwy ydyw hwnyna sydd yn "llygredig ei wedd yn anad neb, a'i bryd yn anad meibion dynion?" Efe, medd yr haul, a luniodd fy mhabell i, ac a'm lluniodd inau hefyd. Efe, medd y sêr, sydd yn ein dwyn ni allan mewn rhifedi,—yn ein galw ni wrth ein henwau. Efe, medd yr wybren, a'm haddurnodd i â'i Ysbryd,—ei fysedd Ef fu yn crogi fy holl lampau,—ei lais Ef yw fy nharan i, a'i weision ydyw fy mellt i. Ddaear, beth meddi di? Efe a gymhwysodd fy mhridd i mewn mesur,—a'm pwysodd i mewn clorianau: y mae fy môr i ar gledr ei law Ef, a'm gwynt yn ei ddyrnau; ei Ysbryd Ef sydd yn cael ei ollwng yn feunyddiol i adnewyddu fy wyneb i. Dyma ryfeddod y rhyfeddodau. Crwydra doethion y ddaear ymhell ac yn agos i chwilio am ryfeddodau: dylai y Cristion, fel Moses, droi oddiwrth bob gweledigaeth i edrych ar hon:—Yr ydwyf yn nid ydwyf; tragywyddoldeb heb le mewn amser; anfeidroldeb yn cael ei gynwys yn y preseb; y Bywyd tragywyddol yn marw;—yr Adgyfodiad yn y bedd! Yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb! Edrychwch i Jerusalem,—dyna yr Iuddewon beilchion yn cuddio eu hwynebau rhagddo gan mor llygredig yw ei wedd. Edrychwch i fyny,—dyna gerubiaid yn methu dal yr olwg ar ei wynebpryd gan ddisgleiried ydyw. Edrychwch arno yn llys y ddaear: wele y gwawdwyr yn poeri yn ei wyneb; ond edrychwch arno yn y llys fry, wele y seraphiaid yn cuddio eu hwynebau â'u hadenydd wrth sefyll ger ei fron. Wrth edrych arnynt yn ei goroni â drain yma, cofiwch fod brenhinoedd mawrion y nefoedd yn bwrw eu coronau wrth ei draed. Os na thodda peth fel hyn eich calon, ni fedd Duw ddim a wna hyny. Os na iacheir dy falchder di gan ostyngeiddrwydd yr Arglwydd Iesu;—os na ddygir di i weled afresymoldeb gwrthryfel yn ei ufudd-dod Ef;—os na ddaw ei angau Ef a thithau i farw i bechod, y mae dy bla yn anfeddyginaethol: "o'th aflendid ni'th lanheir."

Chwychwi sydd yn cael eich cadw gan dlodi ac iselder ei achos

rhag ymuno âg ef, clywch ei eiriau ef ei Hun:—"Pwy bynag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau, yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddel yn ngogoniant ei Dad, gydâ'r angylion sanctaidd." Marc viii. 38. Os oedd iachawdwriaeth pechadur o gymaint pwys yn ngolwg Jehofah, nes yr anfonodd Efe ei Fab i'r fath ddyfnderau er mwyn ei gweithio hi, pa fodd y dianga ei hesgeuluswyr hi? "Beth fydd diwedd y rhai nid ydynt yn credu?"

Chwychwi, ei blant, gellwch fesur eich cyfoeth wrth ei dlodi;—bydd eich dyrchafiad chwi yn cyfateb i'w ddarostyngiad Ef. Cofiwch fod eich nefoedd chwi wedi costio uffern iddo Ef:—eich gorsedd chwi wedi costio carchar iddo Ef;—eich coron chwi wedi costio gwaed ei galon iddo Ef;—eich bywyd chwi wedi costio ei angau Ef. Pa faint ydyw eich dyled i'ch Harglwydd ynte? Bydded ynoch yr un meddwl ymhob man ag oedd ynddo Ef; ac ystyriwch hi yn anrhydedd cael ei ddilyn, os bydd raid, heb le i roddi eich penau i lawr.

[Bore Sadwrn, Ion. 7fed, 1849.

## PREGETH XXVI.

### ADDOLIAD TEULUAIDD YN FENDITH I'R TY.

2 SAMUEL VI. 20:—"Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ."

Y MAE doethineb a daioni yr Arglwydd i'w weled yn ei waith yn cyfaddasu crefydd at holl amgylchiadau y natur ddynol. Y mae hi yn cyfarfod dyn ymhob man. Y mae gan ddyn fod ar wahan oddiwrth bawb fel person: y mae crefydd yn ei gyfarfod ef yno. Y mae hi i fod rhyngddo ef ei hun a Duw, fel pe na byddai neb mewn bod ond efe. Y mae dyn hefyd wedi ei fwriadu i gymdeithas; ac y mae crefydd felly. Fel person, y mae hi yn gofyn lle yn ei galon, rhyngddo ef ei hun a Duw; fel creadur cymdeithasgar, y mae hi yn gofyn lle yn ei deulu; fel gwladwr, y mae hi yn gofyn lle yn y gynulleidfa. Y mae hi i lywodraethu y galon, y teulu, a'r gynulleidfa. Nid yw y naill o'r pethau hyn ddim yn dinystrio y llall. Nid yw crefydd bersonol ddim yn gwneyd y tro yn lle y deuluol, na'r deuluol yn lle y gynulleidfaol, nac yr un o'r rhai hyn yn lle y bersonol; ond y mae gan y rhai hyn ddylanwad mawr ar eu gilydd. Y mae yn anhawdd credu fod crefydd bersonol yn bod, os nad ydyw hi hefyd yn y teulu a'r gynulleidfa; ac y mae ymarfer â chrefydd deuluol a chynulleidfaol yn tueddu i ddyfnhau y grefydd bersonol. Yr oedd Dafydd o ran ei berson wrth fodd calon Duw, ac yr ydoedd yn awr wedi bod yn addoli yn gyhoeddus gyda miloedd a myrddiwn Israel; ac wedi i'r gwasanaeth cyhoeddus ddarfod, y mae yn dychwelyd i wasanaethu Duw yn ei deulu. "Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ." Nid oedd brenin Israel ddim yn ystyried fod gofal teyrnas yn ei ryddhau oddiwrth ofalu dros ei deulu.

Y mae y byd heb ddysgu eto y pwys sydd mewn teulu. Onid teuluoedd gwlad sydd yn penderfynu ei character hi? Nodweddiad y nifer fwyaf o'r rhai hyn fydd ei nodweddiad hithau. Ysgolion y byd ydyw ei deuluoedd; a'r rheol ydyw, fod ei drigolion yn ymddwyn fel yr addysgwyd hwynt yno. Cauer unrhyw beth allan o deuluoedd gwlad, bydd yn lled sicr drwy hyny o gael ei gau allan o'r wlad yn hollol. Er bod gan ddyn allu i feddwl drosto ei hun, eto y mae y meddwl hwnw mor agored i gael dylanwadu arno gan bethau allanol, fel ag y bydd ôl y teulu y cafodd y dyn ei ddwyn i fyny ynddo arno, tra y bydd ef ar y ddaear: fe gofia hyd ei fedd am ryw brophwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo. Y mae y Bibl yn dangos yn dra eglur y pwys sydd mewn teulu. Yr ydym yn cael, yn llyfr Malachi, mai diben mawr Duw yn sefydlu teuluoedd ydoedd, i ledaenu crefydd yn y byd,—"i geisio had duwiol:" a phan y dirywiodd crefydd i'r fath raddau nes i'r Arglwydd orfod boddi y byd, dirywio mewn teuluoedd a wnaeth plant y teuluoedd hyny, ymha rai yr ydoedd meibion Duw wedi priodi merched dynion; ac o'r rhai hyny yr oedd y cawri mewn annuwioldeb cyn y diluw. Ac fe feddylia rhai mai dirywiad crefydd yn nheuluoedd Israel oedd yr achos o roddi ar y genedl iau drom y gyfraith seremoniol. Ac fel y mae dirywiad crefydd yn gysylltiedig â theuluoedd, felly y mae ei hadfywiad hi. Y mae Zechariah yn desgrifio y galar oherwydd pechod, oedd yn ddechreuad ar adfywiad, yn alar teuluol:—"A'r wlad a alara, pob teulu wrtho ei hun." Ac yn y Testament Newydd, ni a welwn tod y saint yn gyffredin yn deuluoedd. Teulu duwiol oedd teulu rhagflaenor y Messiah. Mewn teulu o saint y magwyd Gwaredwr y byd. Y mae genym le i gasglu fod amryw o'i ddisgyblion yn perthyn i deuluoedd duwiol. Teulu o dduwiolion oedd y Mair, a'r Martha, a'r Lazarus, oedd yn hoff gan yr Iesu. Yr oedd Cornelius a'i dŷ yn ofni Duw. O deulu o saint yr hanodd Timotheus. Ac y mae yr apostol Paul wrth anfon anerchiadau, unwaith ac eilwaith, yn cofio at yr eglwys fyddai yn y tŷ. Yn deuluol, ni a welwn, y mae crefydd wedi myned ymlaen yn y byd o dan bob goruchwyliaeth. Nid ydyw ei hordinhadau cyhoeddus hi ond manteision iddi yn y clychoedd hyn; a phan êl y gair i'r galon yn y cyhoedd, y mae

yr un gair yn dywedyd yn effeithiol wrth y dyn, os penteulu a fydd, "Dos i'th dŷ at yr eiddot, a mynega iddynt pa faint a wnaeth yr Arglwydd erddot;"—Neu, os aelod a fydd, Dos a dywed am y prophwyd sydd yn Israel. Wedi i Andreas a Philip adwaen yr Iesu, y mae y naill yn chwilio am ei frawd Simon, a'r llall am ei gyfaill Nathanäel. Y mae bendith yr addoliad cyhoeddus yn dechreu ymweithio drwy y tŷ. Gan hyny, os ydyw y byd i gael ei lefeinio gan grefydd, y mae yn rhaid i hyny gymeryd lle trwy offerynoldeb ei deuluoedd. Y mae y Testament Newydd, trwy roddi cymaint o gynghorion i deuluoedd, yn cadarnhau gwirionedd hyn. Nid oes ond ychydig yn cael ei ddywedyd am addoliad cyhoeddus ynddo; ond lliosog iawn ydyw y cynghorion i rieni ac i blant, i weision ac i feistriaid, pa fodd i ymddwyn yn eu teuluoedd, oblegid os gofelir fod crefydd yn fywiog yn y teulu, fe sicrha hyny ei bywyd hi ymhob man arall. Ac y mae gwaith yr Hen Destament yn enwi mamau y rhai a fuant hynod mewn crefydd neu annuwioldeb yn rhoddi mantais deg i ni gasglu fod perthynas rhwng y teulu a'r hyn oeddynt hwy. Fe ddywedir am Ahaziah, ar ol enwi ei fam annuwiol, iddo rodio yn ffordd tŷ Ahab, oblegid daw tŷ Ahab ydoedd: yr oedd ganddo fam annuwiol, ac yr oedd wedi ei ddwyn i gysylltiad â theulu annuwiol iawn drwy ei wraig; am hyny nid dieithr ydoedd ei fod yn hynod mewn annuwioldeb ei hun.

Y mae y Bibl yn dangos fod y saint ymhob oes yn gwneuthur eu teuluoedd yn eglwysi. Y mae genym hanes dechreuad crefydd gynulleidfaol pan y dywedir wrthym fod dynion wedi dechreu galw ar enw yr Arglwydd; ond nid oes genym hanes pendant am ddechreuad crefydd deuluaidd, am y cymerir yn ganiataol ei bod hi o'r dechreuad. Yr oedd y drefn batriarchaidd wedi darparu ar gyfer crefydd deuluaidd yn yr enedigaeth fraint: rhan o hono oedd, bod y cyntafanedig i fod yn offeiriad y teulu. Tebyg ydyw i addoliad cyhoeddus Duw gael ei lethu gan annuwioldeb y cyn-ddiluwiaid; ond y mae y saint ar ol y diluw yn dechreu addoli fel y dechreuodd addoliad Duw yn y byd ar y cyntaf, sef yn deuluol. Yr oedd Job, yr hynaf feallai o'r patriarchiaid, yn ymarfer â dyledswyddau crefyddol yn ei deulu: "felly y gwnai Job yr holl ddyddiau

hyny." Canmolir Abraham gan Dduw am ei fod yn gorchymyn i'w blant gadw o honynt ffordd yr Arglwydd. Penderfyniad Josua ydoedd, "Myfi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd." Fe awgrymir yn y Salmau fod preswylfeydd Jacob yn hoff gan Dduw; ac nis gallasent fod felly oblegid dim, ond oblegid eu crefydd. Addoli yn deuluaidd yn ddiameu yr oedd Daniel, pan ddaliwyd ef yn rhwyd ei elynion; ac y mae brenin Israel yma yn dychwelyd o'r gynulleidfa i fendigo ei dŷ, sef i addoli Duw yn ei deulu. Y mae yr Hen Destament a'r Newydd yn dwyn tystiolaeth i hyn: y patriarchiaid, y prophwydi, a'r apostolion, yn esiamplau o hono. Ni ddywedwn ddim yn ychwaneg am y lle a roddir i addoliad teuluaidd yn y Bibl: yr ydym yn gobeithio nad oes yma ond un meddwl am hyn. Am hyny ni a gawn alw eich sylw at grefydd deuluaidd, yn y cysylltiad y mae hi ynddo yn y testyn, sef, fel bendith i'r tŷ. "Yna y dychwelodd Dafydd i fendigo ei dŷ."

Gellir ystyried teulu fel yn dal dau gysylltiad pwysig, sef un â'r byd hwn, a'r llall â'r byd a ddaw. Y mae dyledswyddau yn perthyn iddynt gyda golwg ar y byd hwn, ac y mae'r berthynas deuluaidd yn dra thebyg o estyn ei chanlyniadau i'r byd a ddaw: ond y mae crefydd deuluaidd yn fendigo y teulu gyda golwg ar y ddau fyd.

I. Y mae crefydd deuluaidd yn fendigo y tŷ, gyda golwg ar y byd hwn. Y mae dedwyddwch y byd yn gynwysedig yn benaf ac yn flaenaf yn ei deuluoedd; ac y mae cysylltiad tra agos rhwng rhinwedd a moesoldeb y byd a'i ddedwyddwch. Y mae diffyg y naill yn sicr o fod yn achos mawr o ddiffyg y llall. Y mae aelodau y teulu sydd yn amddifad o gysur yn eu gilydd yn agored i holl demtasiynau y diafol; a phe olrheinid hanes y rhai hyny sydd wedi ymwerthu i wneuthur drwg i gael gweled yr achos o hyny, ceid gweled eu bod, lawer o honynt, yn y dechreu, wedi myned i chwilio am bleserau anghyfreithlawn, am eu bod yn amddifaid o gysur teuluaidd gartref. Onid hyn a wnaeth ugeiniau o wŷr yn feddwon, a chanoedd o blant yn ddolur llygaid i'w rhieni tra y buont ar y ddaear? Am hyny, y mae pa beth bynag a chwanega gysur teuluaidd yn deilwng o bob cefnogaeth, oblegid y mae yr un peth hefyd yn chwanegu swm cysur a rhinwedd y byd; ac nid oes dim

mor effeithiol i hyn ag yw addoli Duw yn y teulu.

1. Y mae addoli Duw yn y teulu yn fendigo y tŷ gyda golwg ar y byd hwn, am ei fod yn foddion effeithiol i gadw y byd arall ger bron meddwl y teulu. Ac y mae yn rhaid gwneuthur hyn tuag at gyflawni yn iawn holl ddyledswyddau y byd hwn. Nid oes dim yn ddigon o symbyliad i beri i'r meddwl dynol gyflawni ei ddyledswydd yn wyneb pob amgylchiad ond ofn Duw, a rhyw fesur o ddychryn y byd a ddaw. Y mae y teulu yn hyn yn gyffelyb i wlad: os na bydd ofn Duw mewn gwlad, nid oes na bywydau, na meddianau ychwaith, yn ddiogel yn y wlad hono. Yr oedd Abraham yn ofni cael ei ladd yn Gerar, am iddo dybied nad oedd ofn Duw yn y lle. Buasai y byd paganaidd wedi myned yn gyffelyb i uffern er ystalm, oni bai fod yno ryw gymaint o ddylanwad byd arall ar y meddwl. Pan nad all dim arall lywodraethu eu nwydau gorwyllt, y mae ofn y duwiau yn gwneuthur. A phaham y mae bywyd dynol wedi myned mor ddiwerth yn Ffrainc yn yr haner can' mlynedd diweddaf? Onid am fod ofn Duw,—arswyd byd ar ol hwn,—wedi ei ddileu gan anffyddiaeth o'r meddwl? Os ydyw hyn mor angenrheidiol i gysur gwlad, nid ydyw yn llai felly i gysur teulu. Ac y mae y Bibl yn ein dysgu ni i gyflawni yr holl ddyledswyddau teuluaidd o dan ddylanwadau neu "nerthoedd y byd a ddaw." Y mae y meistr i lywodraethu gan gofio fod iddo yntau hefyd feistr yn y nef. Y mae y gwas i ufuddhau, nid â llygad-wasanaeth, ond fel un yn gwasanaethu yr Arglwydd Crist. Y mae y rhieni i faethu eu plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a'r plant i ufuddhau i'w rhieni yn yr Arglwydd; h.y., y mae pob aelod o'r teulu i gyflawni ei ddyledswydd at y llall o dan ddylanwad byd tragywyddol. A pha beth sydd mor effeithiol a gweddi deuluaidd i'w dwyn i deimlo y dylanwad hwnw? Oni bydd cymeryd ychydig fynydau bob bore i edrych i'r byd tragywyddol, cyn dechreu syllu ar hwn, y moddion tebycaf a all fod i gadw y byd hwnw i ryw fesur ger bron y meddwl ar hyd y dydd? Oni bydd esgyn i fyny i fynydd Duw, i ddal cymundeb âg Ef mewn distawrwydd, cyn rhuthro i ganol dwndwr cynhyrfus y ddaear, y peth mwyaf effeithiol tuag at gadw yr Arglwydd ar y ddeheulaw trwy y dydd, fel na chaiff dim ein hysgogi oddiar lwybr

ein dyledswydd ? Y mae addoli teuluaidd yn fendigo y tŷ, pe na byddai dim ond pethau nacäol yn perthyn iddo, sef y duedd sydd ynddo i gadw y teulu yn ofn Duw ar hyd y dydd ; ond y mae hyny hefyd yn effeithio ar eu llwyddiant a'u cysur. Ni fydd y penteulu, sydd wedi bod "yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd" yn nechre y dydd, ddim "yn ddiog mewn diwydrwydd" ar ei hyd, yn darparu angenrheidiau natur i'w deulu. Ni fydd y plentyn, sydd wedi clywed ei dad yn gweddio yn daer drosto ddim yn debyg o wrthryfela yn ei erbyn. Bydd y gweision sydd yn gweled eu meistr bob dydd yn gorwedd yn isel yn y llwch o flaen Meistr uwch, yn bur debyg o ufuddhau mewn ffyddlondeb, fel y bydd y meistr, oblegid yr un peth yn bur debyg o lywodraethu mewn cyfiawnder. Pa faint o aneddau sydd fel Esec a Sitnah (Genesis xxvi. 20, 21), yn breswylfa cynhen a dygasedd, am nad oes yno allor i Dduw ? Pa sawl meistr sydd yn gorfod gofidio am nad oes ganddo yr un Eleazer ffyddlawn yn ei deulu fel oedd gan Abraham, am nad yw wedi arfer gorchymyn i'w deulu gadw o honynt ffordd yr Arglwydd ? Pa faint o rieni sydd â'u plant yn ddolur llygaid iddynt trwy eu hoes, am na sancteiddiwyd hwynt bob dydd trwy air Duw a gweddi ?

2. Y mae addoliad teuluaidd yn fendigo y tŷ yn ei gysylltiad â'r byd hwn, am ei fod yn llwybr i gael amddiffyn a bendith Rhagluniaeth ar y llafur. Bendith yr Arglwydd yn unig sydd yn cyfoethogi, heb ddwyn blinder gydâ 'r cyfoeth. Y *mae* llwyddiant bydol ag sydd yn felldith i'r teulu: gellir dywedyd am dano mai i'w dinystrio byth bythoedd y mae. Y maent yn cael dymuniad eu calon o'r byd hwn, fel y cafodd yr Israeliaid y soflieir gynt; ond y mae melldith yr Arglwydd ar yr oll. Y mae cyfoeth heb fendith Duw, yn caledu calon y perchenog, ac yn tueddu i beri iddo ddywedyd, "Pwy ydyw yr Arglwydd?" ac mor anhawdd yr ä rhai felly i mewn i deyrnas Dduw. Ac y mae tlodi truenus mor anfanteisiol i wasanaeth Duw ag ydyw cyfoeth mawr: am hyny yr oedd Agur yn gweddio yn erbyn y ddau; ond y mae teulu yn gwneuthur cymaint ag a allant i ochel y naill ac i gyraedd y llall; ac nid bychan yw gallu gweddi deuluaidd i hyn. Os ydyw gweddi yn foddion i gael bendithion personol a chynulleidfaol, ai llai ydyw ei gwerth

i gael rhai teuluol? Oni orchymynir i ni ofyn am ein bara beunyddiol? ac y mae pob gorchymyn o eiddo Duw yn addewid. Y mae Efe wedi meddwl rhoddi i ni, drwy ei ofyn, beth bynag y mae genym orchymyn i'w ofyn. Ac nid rhyfedd ydyw, os nad yw y ddinas yn cael ei chadw er gwylio, ac nad yw 'r tŷ yn cael ei adeiladu er llafurio, mewn llawer teulu, oblegid oddiwrth yr Arglwydd y mae y naill a'r llall, ac nid oes yno neb yn gofyn am i Dduw wneyd hyny. Gwir mai bendithion ysbrydol a addewir yn benaf yn y Bibl, ond nid oes genym hanes fod neb wedi gofyn rhai tymhorol a chael eu gwrthod. Gofynodd Jacob am ymborth a dillad ac amddiffyniad, a chafodd hyny. Bendithiwyd tŷ Obed-Edom a'r cwbl oedd ganddo, oherwydd arch Duw. Gweddïodd Jabez am fendithion tymhorol, a pharodd Duw ddyfod iddo yr hyn a ofynasai. Dau beth mawr gweddi Jabez oedd ychwanegu ei gyfoeth a'i amddiffyn; ac y mae cadw arch Duw yn y tŷ yn bur debyg o wneyd y ddau. Byddai y deml, tŷ Dduw, gynt yn fan o ddiogelwch. Yr oedd y drwg-weithredwr yn ddiogel ond ffoi at gyrn allor y deml; yr oedd drwy hyny yn rhoddi ei hun i amddiffyniad y duwiau, ac nid oedd neb yn meiddio ei niweidio yno: felly y mae y tŷ y mae allor Duw ynddo, yn gysegr, yn dŷ i Dduw; ac ond odid na bydd amddiffyniad ar bob peth lle mae yr arch. Wrth ddywedyd hyn, nid ydym yn meddwl fod cyfoeth a llawnder yn anwahanol gysylltiedig âg addoli Duw yn y teulu; ond y daw y cyfoeth a'r tlodi o law Duw: felly fe ddaw y cyfoeth heb yr uchelfrydedd, a'r tlodi heb y grwgnach. Os daw cyfoeth, yr iaith fydd, "Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd," ac nid "Pwy yw yr Arglwydd?" Os gwga rhagluniaeth, yr iaith fydd, "Yr Arglwydd a ddygodd ymaith," ac nid "Paham y gobeithiwn yn yr Arglwydd mwy?" Y mae áddoli Duw yn deuluol, yn fendigo y tŷ yn ei gysylltiad â'r byd hwn.

II. Y mae teulu yn dal perthynas mwy pwysig na hwnyna, sef perthynas â'r byd tragywyddol; ac y mae addoliad teuluaidd yn fendigo y tŷ mewn ystyr neillduol gyda golwg ar hwnw. Yr ydym wedi sôn eisoes fod cofio y byd tragywyddol yn dra manteisiol tuag at lwyddiant yn y byd hwn; ond y mae ei gofio yn anhebgorol tuag at ddarparu ar gyfer y byd hwnw.

1. Y mae yr addoliad teuluaidd yn fendigo y tŷ, am ei fod yn foddion i gadw y byd hwnw yn y meddwl. Anghofio y byd tragywyddol ydyw dinystr dynion; oblegid pan y mae o'r meddwl nid oes neb yn darparu ar ei gyfer. Yn yr anghof hwn, y mae y dyn yn myned yn ddinesydd y ddaear, yn lle bod yn bererin ynddi;—yn myned i ddweyd yn ei agwedd, "Byth y byddaf yn arglwydd," yn lle dywedyd, "Ymdeithydd ac alltud wyf, fel fy holl dadau." Dylai y byd tragywyddol fod o flaen y meddwl, nes peri i ni ymwroli i gyflawni pob dyledswydd, am ein bod yn gweled yr anweledig hwn. Dylai y byd tragywyddol fod yn atalfa ar ein ffordd i gydsynio â themtasiynau, fel yr oedd yr angel hwnw yn atalfa ar ffordd Balaam i gydsynio â themtasiynau Balac. Byddai yr hen dduwinyddion yn sôn yn aml am ras ataliol; hyny ydyw y byd tragywyddol yn y meddwl. A pha beth sydd mor fanteisiol i'w gadw ag addoliad teuluaidd? Bydd i'r teulu fod gydâ'u gilydd am ddeng mynyd ar ddaear sanctaidd, bob bore, y peth mwyaf effeithiol a all fod tuag at eu cadw yn eu lle pan ar ddaear gyffredin. Bydd esgyn i ben Nebo y ddyledswydd, i edrych ar dir pell y byd tragywyddol, y peth tebycaf a all fod i beri iddynt ddarparu, ar hyd y dydd, ar gyfer y byd hwnw. Beth a all ddifrifoli meddwl y teulu yn fwy na'u harwain, bob bore, fel yr arweiniodd Moses yr Israeliaid at Sinai,—at y lle yr oedd Duw wedi disgyn? a pha beth a all fod mor effeithiol i roddi syniad am fyd tragywyddol, a Duw anweledig, i blant, a chlywed eu tad, gydâ'r difrifwch mwyaf, yn ymddiddan bob dydd â rhyw un anweledig; ei eiriau yn myned dros derfyn y byd hwn at ryw un mewn byd arall. Onid ydynt fel hyn yn cael eu dwyn i deimlo fod pethau ni welir yn bod? A phwy bynag sydd wedi cael golwg ar bethau pell mewn unrhyw ystyr, y mae pethau presenol yn colli eu dylanwad ar hwnw. Nid ydyw y seryddwr sydd wedi ymroddi i ddarllen y sêr ddim yn gofalu rhyw gymaint am y ddaear. Y mae diffyg ar yr haul yn tynu mwy o'i sylw ef o lawer na chwyldröad teyrnas. Nid oedd y prophwydi oedd yn gweled yr oesau draw ddim yn gosod llawer o'u meddwl ar ddim yn eu hoes eu hun. Y mae golwg ar y cyfoeth sydd draw ymhell, yn cadw y bydolddyn rhag anobeithio a llwfrhau, yn wyneb y pethau sydd yn ei gyfarfod yn y fan hon. A hyn yw

y defnydd a fynem i chwithau ei wneuthur o'r addoliad teuluaidd;—cymeryd yr allor yn arsyllfa (*observatory*) i edrych o honi yn feunyddiol ar y byd draw; yna ni chai chwyldröadau hwn ddim cymaint o le ar y meddwl wed'yn. Ei chymeryd hi yn fantais i edrych ar yr oes hir sydd draw, fel y byddo i holl bethau bychain yr oes bresenol, gael eu defnyddio yn wasanaethgar i'r oes faith hono; oblegid y mae yn rhaid i ni fyw draw, os mynem ni fyw yma yn iawn.

2. Y mae addoliad teuluaidd yn fendigo y tŷ, trwy ei fod yn dwyn y teulu i ystyried mai o law Duw y mae eu pob peth yn dyfod;—mai Efe sydd yn creu goleuni, ac yn llunio tywyllwch;—yn gwneuthur llwyddiant, ac yn creu drygfyd; mai yr un Arglwydd sydd yn rhoddi, ac yn cymeryd ymaith;—fod y llwyddiant yn drugaredd oddiwrth Dduw, ac aflwyddiant yn ddrwg oddiwrth yr Arglwydd; oblegid, os anghofiwn ni Dduw yn ein llwyddiant, yr ydym yn camddefnyddio ei roddion; neu, yn ein blinderau, yr ydym yn grwgnach yn erbyn ail achosion, fel Israel yn erbyn Moses. Ac y mae cadw ein hymddibyniad ar Dduw yn anhebgorol, oblegid y foment yr anghofiwn ni ein hymddibyniad, yr ydym yn anghofio ein cyfrifoldeb; ac os ä hwnw o'r meddwl y mae y ddinas heb yr un ceidwad,—gall pob gelyn ei chymeryd. Ond y mae addoli Duw yn feunyddiol yn ein dwyn i deimlo ein hymddibyniad a'n cyfrifoldeb;—yn ein dwyn i deimlo ein trugareddau yn dyfod, fel y mana i Israel gynt, bob dydd o law Duw;—fod ein holl gynhaliaeth yn dyfod o wlad y Brenin; am hyny bod cael ei heddwch yn beth o bwys. Y mae teimlo fod yr holl bethau daionus sydd genym, wedi dyfod trwy ragwelediad Duw, yn peri i ni ofyn, "Beth a dalwn i'r Arglwydd" am ei ddoniau? Ac ni a welwn yn hanes cenedl Israel fod cadw teimlad o ymddibyniad ar Dduw yn beth o'r pwys mwyaf. I ddyfnhau y teimlad hwn yn eu meddwl, y cadwyd hwy am ddeugain mlynedd i fyw ar wyrthiau Duw yn yr anialwch; ac yr oedd lliaws o offrymau Canaan wedi eu sefydlu o bwrpas i'r un peth; a phan beidiai y genedl a dwyn yr offrymau hyny, yr oeddent bob amser yn myned ar ol duwiau dieithr. Y mae gwlad heb addoliad cyhoeddus Duw ynddi, yn fuan yn anghofio ei chyfrifoldeb i Dduw, ac felly yn myned yn wlad o anffyddwyr. Ai

dieithr ynte fod cymaint o deuluoedd anffyddol yn ein plith, gan fod cymaint o deuluoedd diweddi? Ni byddai cymaint yn myned ar ol duwiau dieithr yn ein plith ninau, pe byddai mwy yn dwyn yr aberth moliant i'r allor deuluaidd; a phwy bynag nad ydyw yn offrymu arni, nid yw y teimlad o ymddibyniad ar Dduw ddim yn ei feddwl; oblegid hyny nid yw ei gyfrifoldeb i Dduw ddim yno ychwaith.

Y mae hudoliaeth mewn llwyddiant, a cholyn gan adfyd; on! y mae addoli yn deuluaidd yn cymeryd y swyn oddiwrth y naill, a'r colyn o'r llall. Trwy osod Duw gerbron, y mae yn peri nad all disgleirdeb haul llwyddiant ddim dallu y teulu, na nos adfyd ddim eu dyrysu. Os daw corwynt profedigaeth, y maent yn clywed Duw yn yr ystorm: os daw distawrwydd llwyddiant, y maent yn clywed llef ddistaw fain Duw yn hwnw hefyd. Ac y mae gan benteulu fanteision, nad ydynt gan neb arall, i wneuthur defnydd o wahanol oruchwyliaethau Duw: y mae rhyw amserau ar deulu, fel ar berson, pan y mae y galon yn fwy parod i dderbyn argraffiadau da; ac y mae o'r pwys mwyaf fod yr adeg hono yn cael ei defnyddio. Yr oedd yn bur hawdd gwneuthur argraffiadau da ar feddwl Israel ar lan y Mor Coch; ac y mae meddwl pob teulu, ar ryw amserau penodol, yn cael ei ddwyn i ystad gyffelyb; ac O! o gymaint pwys ydyw fod yno ryw Moses i ddysgu iddynt ganu i'r Arglwydd. Yr oedd y galon ar yr amserau yna (yn wyneb angau, &c.) wedi ei rhoddi yn llaw y penteulu, fel y rhoddwyd y Syriaid yn llaw y brenin hwnw; ond ni tharawodd efe ddim ond tair gwaith yn lle seithwaith: am hyny fe gollodd yr adeg i'w gorchfygu. Ac O! gymaint o benau teuluoedd sydd yn gwneuthur yr un peth; ïe, dim yn taro unwaith, ac felly yn colli yr adeg am byth gyda'i deulu. Fe agorodd yr Arglwydd y môr, megis i'w cychwyn o'r Aipht, trwy ryw ragluniaethau dieithr, ond nid oedd yno yr un Moses i'w harwain o'r caethiwed.

3. Y mae addoli yn deuluol yn fendigo y tŷ, am ei fod yn foddion i arwain y meddwl at drefn yr iachawdwriaeth. Y nôd cyntaf ar Gristion ydyw, "Wele y mae Efe yn gweddio." Ac feallai nad oes dim mor effeithiol i wasgu at y meddwl y pethau mawrion sydd yn gwneuthur dyn yn Gristion na gweddi, oblegid y mae Alpha ac Omega y pethau hyn yn

cyfarfod ynddi hi; ymddibyniad dyn ar Dduw fel ei Greawdwr, perthynas dyn â Duw fel ei Frenin, trefn y Brenin i ollwng yr euog yn rhydd drwy iawn,—y maent oll i'w gweled mewn gweddi. Wrth ddiolch am y daioni i Dduw fel Creawdwr, y mae y gydwybod yn sibrwd fod y Duw hwnw yn Farnwr; felly mae daioni y Creawdwr yn ein tywys i edifarhau gerbron y Barnwr; ac y mae gweled mawredd y Barnwr yn gwneuthur yr un Cyfryngwr yn werthfawr.

4. Y mae ffeithiau yn profi fod addoli Duw yn deuluaidd yn fendigo y tŷ. Gwyddom ein bod ar dir peryglus yn bresenol, ac y gallwn heb fwriadu lefaru geiriau a fyddant fel brath cleddyf i fynwes aml Gristion; ond pell oddiwrthym fyddo amcanu poeni un o anwyliaid y nef; eto y mae yn rhaid cyhoeddi yr holl wir, a hyn ydyw, mai y rheol yn llywodraeth Duw ydyw fod ymarfer â chrefydd yn y teulu yn lefain sydd yn lefeinio y clamp toes oll. Y mae yn rhaid addef fod eithradau iddi. Yr oedd Cain felly yn nheulu Adda, a Ham yn nheulu Noah, ac Esau yn nheulu Isaac, a'r rhan fwyaf o blant Jacob yn annuwiol. Nid oedd meibion Aaron ddim yn ofni Duw. Yr oedd plant Eli yn blant Belial. Yr oedd Absalom ac Amnon yn ddrygionus yn nheulu Dafydd; a Manasseh waedlyd yn fab i Hezeciah dduwiol. Ond y mae yr un Bibl ag sydd yn crybwyll y pethau hyn, mewn *llawer* o amgylchiadau yn dangos eu hachosion hefyd; ac feallai fod yr achos mor eglur, *ymhob* amgylchiad, pe buasai Ysbryd Duw yn gweled yn dda ei fynegi. Os trodd Esau allan yn fachgen drwg, onid oedd yn cael ei ddwyn i fyny yn foethus gan ei dad, â'i esgeuluso gan ei fam? Os oedd plant Jacob yn ddrygionus, nid perffaith o lawer oedd caracter y tad. Os oedd Nadab ac Abihu yn annuwiol, nid oedd Aaron eu tad yn meddu ar yr uniondeb anhyblyg hwnw a ddylasai fod ynddo fel dyn duwiol, ac yn enwedig fel offeiriad yr Arglwydd. Pan ddywedir fod meibion Eli yn feibion Belial, fe ddywedir hefyd am eu tad nas gwaharddodd efe iddynt. Os oedd teulu Dafydd yn annuwiol, yr oedd yntau (er y dywedir, ar olwg arall, ei fod wrth fodd calon Duw) yn garacter digon anmherffaith. Ai dieithr oedd fod Rehoboam yn troi oddiar ol yr Arglwydd, ac yntau yn gwybod fod ei dad wedi adeiladu temlau i eilunod. Er i Hezeciah rodio yn mherffeithrwydd ei

galon gerbron Duw, eto yn ei waith yn dangos ei gyfoeth a'i drysorau i genhadon brenin Babilon, ni a welwn y carai wychder ac ymddangosiadau, a gallwn yn hawdd gredu i hyny fod yn achos o annuwioldeb ei fab Manasseh. Fel hyn, nid anhawdd ydyw canfod achos annuwioldeb y rhan fwyaf o'r esamplau sydd genym; ac onid felly y darllenwn ni am freninoedd Israel a Judah, bod y brenin a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, yn cael ei ddilyn gan fab oedd yn gwneuthur yr un peth? Ac y mae tystiolaeth yr Arglwydd am Abraham, yn cynwys mai fel hyn yr ydym i ddisgwyl am i grefydd fyned ymlaen yn y byd,—"Mi a'i hadwaen ef" (medd yr Arglwydd) "y gorchymyn efe i'w blant ac i'w dylwyth ar ei ol gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn; fel y dygo yr Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano." Yr oedd yr addysg deuluaidd hon oedd yn cael ei rhoddi ganddo nid yn achos rhoddiad addewidion Duw iddo—daioni ei natur ydyw hwnw, ond yn delerau eu cyflawniad. Gwir y gellir rhoddi ystyr dymhorol i'r addewid yna: eu rhan hwynt yn nghyfamod Duw oedd ei wasanaethu yn allanol: os plygent i eilunod, ni allai Duw ddim dwyn arnynt y daioni a lefarodd wrth Abraham; oblegid hyny yr oedd yn rhaid dysgu iddynt ffyrdd yr Arglwydd. Ond nid ydyw hyn yn llai gwir mewn ystyr ysbrydol: yr oedd cyfamod Duw âg Abraham yn gyfamod gras, ac yr oedd bendithion hwnw yn gysylltiedig wrth y telerau hyn, fel bendithion tymhorol, ac felly y mae y telerau mewn grym eto. Ac os nad ydyw Duw wedi dwyn ar hâd rhyw sant y pethau a addawodd, y mae lle i ofni nad ydyw yntau ddim wedi gorchymyn i'w blant ac i'w dylwyth gadw o honynt ffordd yr Arglwydd. Ac y mae esamplau y Testament Newydd yn brofion fod yr addewid mewn grym eto, oblegid ni a welwn fod Duw yn dwyn ar deuluoedd y pethau a addawodd mewn canlyniad i waith rhyw un yn dysgu iddynt ffyrdd yr Arglwydd. Y mae fod genym hanes cymaint o saint yn berthynasau i'w gilydd yn ol y cnawd, yn rhoddi lle teg i ni feddwl felly. Yr oedd rhai o'r disgyblion yn frodyr i'w gilydd. Yr oedd Andreas yn chwilio am ei frawd ei hun yn gyntaf. Yr oedd Philip a Nathanael, os nad yn berthynasau yn ol y cnawd, yn

gyfeillion mynwesol. Yr oedd gwraig a chwegr Pedr, fel yntau, yn hoffi yr Iesu. Yr oedd yr etholedig arglwyddes a'i phlant yn ofni Duw. Yr oedd Acwila a Phriscila ill dau yn Nghrist. Yr oedd Andronicus a Junia, a Herodion, yn geraint i Paul; ac yr oeddynt oll yn Nghrist. Yr oedd Ruffus etholedig, a'i fam, yn yr Arglwydd. Yr oedd Nereus a'i chwaer yn yr un arch. Yr oedd Marc yn fab i Mair, yr hon hefyd oedd yn un o'r disgyblion, ac yn nai i Barnabas yr Efengylwr. Yr oedd y ffydd oedd yn Timotheus wedi trigo yn gyntaf yn ei nain, ac yna yn ei fam. Beth ydyw hyny? onid cyflawniad o'r addewid a wnaethpwyd i Abraham, sef bod dysgu i'r tylwyth ffyrdd yr Arglwydd yn foddion i'r Duw mawr ddwyn arnynt yr hyn a addawodd. Nid o weithredoedd y mae iachawdwriaeth, ond o ras; nid o waed ond o Dduw: ond cofiwch mai fel hyn y mae hi o Dduw. Y mae yr Arglwydd yn dwyn ar y teulu fendithion ysbrydol mewn canlyniad i waith y tad yn gorchymyn iddynt gadw ffyrdd yr Arglwydd. A phwy ydyw ser disgleiriaf yr eglwys? onid rhai wedi eu dwyn pan yn blant, megis yn mreichiau eu mamau, at yr Iesu i'w bendithio? Os bydd rhyw un yn fawr yn ngolwg yr Arglwydd, ac yn offeryn i droi llawer o blant Israel at eu Duw, ond odid nad plentyn rhyw Zacharias ac Elizabeth, oeddent ill dau yn gyfiawn, a fydd efe. Y mae ambell un yn cael ei alw o ganol annuwioldeb cyhoeddus i fod yn ddefnyddiol iawn yn y winllan, ond bydd eisiau rhyw Acwila a Phriscila i ddysgu ffordd Duw yn fanylach iddo yn fynych; ond y mae y gweithwyr difefl wedi eu magu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, ac felly yn ddynion perffaith yn Nghrist Iesu.

Pa un ai bendigo ai melldithio eich tai yr ydych? Dylai yr hyn a ddywedwyd eisoes fod yn gymhelliad o'r fath gryfaf i chwi godi yr allor deuluaidd; ond yn ychwanegol at yr hyn a ddywedwyd, cofiwch,—

1. Mai i hyn, sef i ddysgu crefydd, y sefydlwyd teulu yn y byd: i hyn y mae Efe wedi gosod yr unig mewn teulu. Drwy y berthynas deuluaidd yr ydym yn dyfod i ddeall y berthynas fawr sydd rhyngom â Duw; a'i diben hi ydyw bod yn fantais i'n dwyn i deimlo y berthynas hono. Pa faint o'r Bibl, ac o drefn iachawdwriaeth a fyddai yn annealladwy, oni bai am y

serchiadau teuluaidd? onid felly yr ydym wedi cael syniad am ras Duw at y byd—Tad yn anfon ei Fab, ei uniganedig Fab. Felly, trwy y berthynas ddaearol, yr ydym yn cael syniad gwanaidd am ras y Tad nefol. A diben blaenaf y berthynas deuluol ydyw, bod fel grisiau i esgyn ar hyd-ddynt at berthynas uwch. Y mae y tad yn cael ei osod allan am beth amser yn lle Duw i'w blentyn. Y cariad cyntaf y mae y plentyn yn ei deimlo ydyw cariad at ei rieni: ni ŵyr ef ddim fod neb mwy na'i dad mewn bod; ac y mae natur y berthynas sydd rhyngddo a'i dad wedi ei bwriadu, i ddangos natur ei berthynas â Duw. Y mae y tad yn ben-arglwydd, yn ffynhonell awdurdod: nid oes gan y plentyn hawl i ofyn iddo beth yr wyt yn ei wneuthur: y mae ei holl gymwynasau yn cael eu gwneyd heb ddim yn teilyngu hyny. Nid rhaid iddo wrtho,—yr oedd yn gallu byw cyn ei weled, ac feallai wedi ei golli,—am hyny nid oes ond cariad ei fynwes yn ei ysgogi at y cyfan. Y mae y cariad y mae y tad yn ei amlygu at ei blentyn, yn raddol yn dwyn y plentyn i garu yn ol; ac wedi i'r serch bychan ymnyddu, fel yr eiddaw o amgylch y pren, i'r fan yna,—y mae y tad wedi ei fwriadu gan Dduw i arwain ei feddwl, drwy y pethau yna, at bethau uwch:—i ddywedyd wrtho fod ganddo Dad yn y nefoedd;—i gilio o'i orsedd ei hun, i roddi lle i Dduw ddyfod yno;—a'i fod i garu Duw yn fwy na'i garu ef. Y mae efe i gymeryd yr ufudd-dod y mae efe yn ei ofyn, yn fantais i ddysgu i'w blant ufuddhau i orchymynion Duw. Drwy ei ofni ef ei hun y mae efe i ddysgu iddynt ofni yr Arglwydd. Y mae holl bethau y teulu yn gysgodau o bethau uwch: rhyw ysgrifen ydynt ar bared y ddynoliaeth: dylai y tad ei dehongli i'w blentyn, a dangos fod perthynas o'r un natur rhyngddo â Duw ag sydd rhyngddo ac ef; fod ofn ac anrhydedd yn ddyledus i Dduw fel iddo ef. Ond O! gymaint sydd yma heb ddarllen yr ysgrifen i'w teulu erioed;—heb ddangos beth oedd y tu mewn i blisgyn y berthynas deuluaidd. Y maent yn oruchwylwyr anffyddlawn, a gwae hwynt pan ddel dydd y cyfrif! ac oni wna rhieni fendigo eu tŷ, trwy ddefnyddio y fantais sydd ganddynt i'w harwain at Dduw, ni allant lai na bod yn felldith iddynt. Tra y credwn ni yn ngwaith yr Ysbryd, yr ydym ar yr un pryd yn credu mai trwy foddion y mae Efe yn gweithio,

a'i fod yn defnyddio y moddion tebycaf o ateb y diben: os felly, nid oes gan neb ar y ddaear y fath fantais i fod yn fendith i'r plant a'u rhieni. Gwyddant eich bod chwi yn eu caru; nis gallant briodoli eich pryder chwi am eu heneidiau i ddim ond cariad atynt. Y maent yn meddwl am y pregethwr ei fod ef wrth ei swydd yn siarad am bethau crefydd; ac y mae eich gweled chwi yn ddifraw, yn peri iddynt feddwl nad all fod llawer o bwys yn y peth; oblegid onid chwi ydyw eu horaclau hwy am bob peth? Os ydyw ei dad a'i fam yn ddiystyr o unrhyw beth, nid gwaith hawdd ydyw perswadio y plentyn fod pwys yn y peth hwnw. Fel hyn y mae rhieni, trwy beidio bendigo eu tŷ, yn cymeryd ymaith agoriadau teyrnas nefoedd;—nid ydynt yn cymeryd y plant i mewn eu hunain, ac y maent yn atalfa o'r fath gryfaf ar ffordd eraill i'w harwain yno hefyd.

2. Y mae peidio addoli Duw yn deuluol yn greulondeb o'r fath fwyaf â'r teulu. Ni feddyliodd neb ond trigolion gwlad a elwir yn Gristionogol am beidio addoli Duw yn y teulu. Y mae hyd yn nôd eilunaddolwyr yn gwneuthur hyn; a phob gau grefydd yn gwneuthur yr un peth. Onid ydym yn darllen yn yr Hen Destament am dduwiau teuluaidd? Yr oedd Laban yn cadw rhai felly: duwiau teuluaidd oedd y teraphim y darllenwn ni am danynt. Ond yr ydym ni fel gwlad yn addef y gwir Dduw, ond heb ei addoli: beth yw hyny ond Atheistiaeth ymarferol,—bod heb Dduw yn y byd. Yr oedd yr Atheniaid yn codi allor i'r Duw nid adwaenir; ond y mae yma ugeiniau o deuluoedd heb wneuthur hyn i'r Duw a adwaenir. Ni fuasai plentyn ambell dad ddim yn gwybod, o'i ran ef, fod Duw yn bod, oni buasai iddo ei glywed yn cymeryd ei enw yn ofer: ni buasai yn gwybod fod byd arall yn bod, oni buasai iddo glywed ei fam yn bygwth rhyw ysbrydion arno o'r byd hwnw i'w ddistrywio. Y mae yr estrys yn greulawn wrth ei chywion; ond y mae ei chreulondeb hi yn dynerwch o'i gymharu â chreulondeb miloedd o rieni at y plant y maent yn eu dwyn i fyny fel llwdn asen wyllt, heb feddwl am eu diwedd, nes y daw mis angau i'w dal hwynt; ac yna gyrir hwynt ymaith yn eu drygioni. Y mae pechodau y tadau yn myned fel hyn o genhedlaeth i genhedlaeth. Y mae yr oes a ddêl, a'r plant a enir iddynt, yn dwyn eu plant hwythau i fyny yr un fath, fel nad

oes neb o honynt yn gosod eu gobaith ar Dduw. Yr ydych yn fawr eich awydd, ac nid yw hyny yn feius, am ddwyn eich plant i fyny i fod yn aelodau hardd a pharchus o gymdeithas yn y byd hwn: i'r diben hyny yr ydych yn eu rhoddi am flynyddoedd yn yr ysgolion goreu ag a ellwch,—yn gorchymyn i'r athraw eu dysgu ymhob peth angenrheidiol i'r cylch y maent yn debyg o fod ynddo: rhaid iddynt ddysgu ysgrifenu a rhifo;—yr ydych am iddynt ddysgu iaith, a chymaint o'r celfyddydau ag a ellir;—rhaid iddynt wybod rhyw ychydig am ddaearyddiaeth llawer gwlad nad ydynt yn debyg o'i gweled byth: Ni ddymunech iddynt fod yn gwbl ddiwybod ynghylch y ser, a threfn y rhod; ac onid ydych yn meddwl medi ychydig o ffrwyth hyn eich hun? Yr ydych yn disgwyl na fydd yr ysgrifenu yna ddim yn ofer, ond y cewch chwi aml i lythyr oddiwrth eich plentyn wedi iddo eich gadael chwi;—na fydd y darllen yna ddim yn ddiwerth drwyddo,—yr ydych yn bwriadu trosglwyddo i'w feddwl ryw ddydd a ddaw deimlad eich calon eich hun. Yr ydych yn disgwyl y bydd dysgu iaith y llywodraeth yn fanteisiol iddo i enill bywioliaeth; ac y bydd gwybod am ddaearyddiaeth a threfn y rhod yn addurn iddo, os na fyddant hefyd yn cael eu troi i ddibenion ymarferol. Y mae hyn oll yn dda; ond paham yr aroswch chwi ar hynyna? Y mae gan y plentyn yna Dad yn y nefoedd, paham na ddysgwch chwi iddo ysgrifenu ambell lythyr at hwnw? Y mae y plentyn yna yn ddeiliad o lywodraeth gwlad y mae dedwyddwch ei dragywyddoldeb ef yn ymddibynu ar fedru ei hiaith hi, sef iaith Canaan. Y mae y plentyn yna yn myned i deithio gwlad yn fuan, y mae bywyd ei enaid yn ymddibynu ar ei fod yn gwybod ychydig am ei daearyddiaeth hi. Y mae hen draethawd ar hyny yn eich tŷ chwi: dylasai gael ei ddarllen yn ei glyw bob hwyr a bore;—dylasai ddysgu ysgrifenu llythyrau i'r nefoedd drwy eich gweled chwi yn gwneuthur hyny ddwy waith bob dydd;—dylasai ddysgu iaith Canaan drwy ei chlywed hi gan ei rieni, fel y dysgodd ef yr iaith Gymraeg. Y mae teuluoedd yn ysgolion tragywyddoldeb. Y mae ambell hen ysgol yn Nghymru wedi ei gwaddoli gan ein tadau i ddwyn rhai i fyny i'r *Universities*: yn y cychwyn yr oeddynt yn troi allan ysgolheigion disglaer; ond y maent wedi dirywio, fel nad

ydynt yn ateb diben eu sefydliad. Dyna oedd teuluoedd y ddaear: hen ysgolion wedi eu gwaddoli gan Dduw i ddwyn i fyny i'r *University*, y Brifysgol. Ond O! pa faint o honynt sydd wedi dirywio. Nid oes neb yn cael eu derbyn o honynt un amser i Brifysgol y nef. Y mae y teulu wedi ei roddi i'ch gofal fel y rhoddwyd yr had breninol a thywysogion Israel at Aspenaz, pen-ystafellydd Nebuchodonozor, i'w dysgu ar lyfr, ac yn iaith y Caldeaid, fel y safent ar ol hyny gerbron y brenin; felly, i'w darparu i sefyll gerbron y Brenin y maent wedi eu hymddiried i chwithau: ond O! y mae yn ofnus pan eir i adolygu y gwaith, y bydd pen aml un yn ddyledus i'r Brenin. "Beth sydd a fyno hynyna â mi?" medd rhywun. Ni ddymunwn friwio yr un meddwl yma; ond beth a wnawn i yn gwenieithio i chwi? Bydd y pregethwr a'r gwrandawyr yn y farn yn y man. "Nid wyf fi yn grefyddol:" gwaethaf oll;—yr wyt ti yn damnio llawer o eneidiau ar unwaith. Os nad ydyw eich colledigaeth chwi eich hunain yn beth pwysig ar eich meddwl, ai difater genych golli eneidiau y plant yna? Beth a wnaeth y defaid yna i haeddu y fath greulondeb oddiar eich llaw? Na roddwch hûn i'ch llygaid, na chwsg i'ch amrantau, nes cael allor yn eich teulu i rymus Dduw Jacob.

A chwithau sydd wedi codi allor yn eich teuluoedd er ystalm, ond heb weled dim ffrwyth. Yr ydych yn barod i amheu ai Duw o'i air ydyw Duw;—yn barod i ddywedyd, Yn ofer y mae y cyfan, oblegid y mae y plant yn annuwiol, a'r teulu yn debyg o fod yn ol. Eto na ddigalonwch: ni ddywedodd Duw ddim pa bryd na pha fodd yr atebai. "Y bore haua dy had, a phrydnawn nac atal dy law; canys ni wyddost pa un a ffyna, ai hyn yma ai hyn acw, ai ynte da fyddant ill dau yn yr un ffunud." Yr oedd gweddiau Cornelius wedi esgyn am amser maith cyn i'r fendith ddisgyn; ond erbyn i ddigon o'r gronynau fyned i fyny, fe ddatodwyd godre y cwmwl, ac wele y fendith yn disgyn fel gwlaw cynyrchiol ar yr holl dŷ. Diau i'r bachgen Manasseh gael llawer o le yn ngweddiau Hezeciah; ond aeth ef adref, a Manasseh yn ddigon annuwiol: ond wedi i Hezeciah fod flynyddoedd yn y nefoedd, wele y gweddiau yn dechreu dyfod mewn cof ger bron Duw; ac wele hwynt yn disgyn yn ireidd-dra ar enaid y bachgen caled, nes y mae yn wylo y dagrau

yn ngharchar Babilon. Beth a geisiodd ef pan aeth hi yn gyfyng arno? Hen Dduw ei dadau, yr hwn y gwelodd efe ei dad yn ei addoli yn feunyddiol. Am hyn, dadau a mamau, na ddigalonwch os ydyw y plant yn annuwiol: pwy a ŵyr na ddont i gofio Duw eu tad, pan fyddwch chwi wedi myned i ffordd yr holl ddaear;—na bydd y brophwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo yn dyfod i feddwl y bachgen caled wedi iddi hi fyned i ogoniant. Un o ffyrdd Duw i brofi ei bobl ydyw hon: wedi hir oedi fe gyflawna ei addewid; a phwy a ŵyr na chewch chwi fyw i glywed Duw yn dywedyd am y bachgen Ismael yna, sydd a'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau, "Am Ismael hefyd y'th wrandewais." Cymerwch hwynt i fyny i fynydd Duw bob dydd, er bod eich calon yn gwaedu wrth weled nad ydyw rhyfeddodau y mynydd yn tynu dim o'u sylw. Ond na ddigalonwch; feallai pan fyddwch chwi yn meddwl leiaf am hyny, y cymer ef le. Y mae meddyg wedi codi ysbyty (*hospital*) ar ochrau yr Alps, i ymroddi at y gwaith canmoladwy o geisio rhoddi ymwared i liaws sydd yn cael eu geni yn y wlad hono, â rhyw gymaint o wallgofrwydd arnynt, fel nad ydynt yn sylwi ar ddim; ond y mae efe wedi bod yn llwyddianus i adferu lliaws o honynt, drwy eu cymeryd allan i'r haul, a dangos iddynt olygfeydd prydferth natur, i geisio deffro yr enaid rywsut; ac os gall ef unwaith dynu eu sylw, y mae yn lled sicr o'u gwellâu. Ond yr oedd yno un nad oedd wedi sylwi ar ddim erioed, er myned bob dydd gyda'r lliaws i weled yr haul yn machlud: yr oedd ei enaid fel yn cysgu; nid oedd yn edrych drwy ei lygaid: ond un diwrnod, wrth edrych ar yr olygfa, er syndod i bawb, fe waeddodd allan, "Yr haul! yr haul!" Fe ddeffrowyd ei enaid ef o'r diwedd, wrth ei fynych gymeryd i ganol y golygfeydd. O! y mae eich plant chwithau wedi eu geni â gwaeth gwallgofrwydd na hwnyna o lawer arnynt; ond cymerwch hwynt i ganol golygfeydd mynydd Duw bob dydd: ni wyddoch chwi yn y byd pa ddiwrnod y bydd yr enaid yn deffroi, ac yn nghanol disgleirdeb Haul Cyfiawnder, yn codi ei ben i fyny, ac yn gwaeddi, "Yr Haul! yr Haul!" am y waith gyntaf erioed. Dychwelyd y byddom oll o'r addoliad cyhoeddus, gan lwyr fwriadu bendigo ein tŷ.

[Mercher, Mawrth 21, 1849.]

# PREGETH XXVII.

## PWYSFAWRAWGRWYDD CREFYDD I'R IEUANC.

1 CHRONICL xxviii. 9:—"A thithau Solomon fy Mab, adnebydd Dduw dy dad, a gwasanaetha Ef â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar: canys yr Arglwydd sydd yn chwilio yr holl galonau, ac yn deall pob dychymyg meddyliau. O cheisi Ef, ti a'i cai; ond os gwrthodi Ef, Efe a'th fwrw di ymaith yn dragywydd."

YR oedd dyddiau Dafydd yn awr yn nesâu i farw. Yr ydoedd wedi gwasanaethu ei genhedlaeth yn ol ewyllys Duw, ac wedi enill iddo ei hun y caracter uchel o fod yn ŵr wrth fodd calon Duw. Nid meddwl hyn ydyw ei fod yn ddifai; oblegid y mae genym hanes un bai ysgeler ynddo. Yr ydoedd yn gymeradwy o ran ei berson ger bron Duw; ond cyfeirio y mae yr ymadrodd yna at ei gymeriad swyddol fel brenin. Fel swyddog, fe gadwodd at lythyren y cyfamod oedd rhwng Duw a'r genedl, yr hyn ni wnaethai Saul. Bu Dafydd, fel Moses, yn ffyddlawn yn ei holl dŷ: cyflawnodd ewyllys ei Feistr, heb ychwanegu ati, na thynu oddiwrthi. Ac yr oedd yr egwyddor a fu yn ei lywodraethu trwy ei oes yn amlygu ei hun yn bur rymus ynddo yn awr, pan yn ymyl marw, sef gofal calon am wasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd y gofal hwn i'w weled yn y ddarpariaeth a wnaeth tuag at dŷ ei Dduw, ac yn neillduol yn y cyngor difrifol a roddodd, megis oddiar gyffiniau byd arall, i'r bobl, ac i'r brenin etholedig. Ac wedi rhoddi y cyngor, ni a gawn ei fod yn ymbil â Duw am roddi o hono i Solomon, yr hyn yr oedd efe wedi cynghori Solomon i'w geisio. Yn hyn y mae yn esiampl i bawb ei ddilyn. Wedi ymdrechu ei oreu ei hun, y mae yn disgwyl y cwbl wed'yn oddiwrth Dduw. Bydd gwaith yr hwn

sydd yn cynghori ei fab heb weddio drosto, a gwaith yr hwn sydd yn gweddio dros ei fab heb ei gynghori, y naill mor ofer a'r llall. Cymerodd Jacob y ffordd debycaf i enill ffafr Esau pe na buasai yn disgwyl dim oddiwrth Dduw: fe ymdrechodd mor ddi-ildio â'r angel a phe buasai yn disgwyl i'r angel wneuthur yr oll. Felly yr oedd Dafydd yma yn cynghori yn ddifrifol, ac yn gweddio yn daer hefyd. Y mae yn ddiau ei fod wedi cynghori Solomon lawer gwaith cyn hyn; ond er mwyn gwneuthur y cyngor yn fwy difrifol a phwysig, y mae yn ei roddi ar gyhoedd cynulleidfa yr Arglwydd, a cher bron Duw. Yr oedd llwyddiant y wlad, a llwyddiant Solomon, yn bethau agos at feddwl y brenin; am hyny cynghorai hwynt i ddilyn yr unig lwybr a sicrhai y llwyddiant hyny iddynt, sef bod yn ffyddlawn i Dduw. Trwy gadw gorchymynion yr Arglwydd yr oedd y bobl i feddianu y wlad, a thrwy ymroddi i adnabod Duw ei dad yr oedd Solomon i feddianu yr orsedd. Yr oedd llwyddiant y naill a'r llall yn ymddibynu ar eu crefydd hwynt. Fel yr oedd hi gynt, felly y mae hi eto: cyfiawnder yn unig a ddyrchafa genedl, a dinystr pobloedd, fel eu cywilydd, yw eu pechod; a gellir dywedyd wrth bob person unigol,—"Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di." Yr oedd yr Arglwydd wedi trefnu gynt fod anghrefyddolder y bobl yn dwyn arnynt ddinystr tymhorol buan; ac nid yw dinystr cenhedloedd di-dduw ddim yn llai sicr yn awr, er nad ydyw yn dilyn cyflawniad eu beiau mor uniongyrchol. Y mae y cyngor a roddodd Dafydd i'w ddeiliaid ef (adn. 8), mor briodol i'w roddi yn awr i ddeiliaid pob gwlad; ac y mae y geiriau a lefarodd Azariah fab Oded (2 Cron. xv. 2.) mor wir, ac mor berthynol i bob cenedl ag oeddynt i Judah a Benjamin, yn nyddiau Asa y brenin. Beth ond cyflawniad o honynt, oedd ysgytiad teyrnasoedd di-dduw cyfandir Ewrop yn y blynyddoedd diweddaf?

Yr oedd Dafydd wedi cael siomedigaethau mawrion yn ei blant: Amnon wedi gwneuthur ynfydrwydd yn Israel, yr hyn a'i dygodd yn anamserol i'w fedd;—yr oedd Absalom wedi ei ladd â'r cleddyf am deyrn-fradwriaeth;—yr oedd Adoniah wedi profi trwy ymestyn at y frenhiniaeth, nad oedd ofn Duw gerbron ei lygaid. Y mae yn rhaid bod y siomedigaethau hyn yn gwneuthur Dafydd yn bryderus ynghylch Solomon, rhag iddo

yntau hefyd wneuthur llong-drylliad am dano ei hun. Y mae yn ei ystyried yn awr fel ar gychwyn i'w daith; ac wrth iddo gychwyn, y mae yn rhoddi cyngor y testyn iddo: "Tithau, Solomon fy mab, adnebydd Dduw dy dad." Yr wyt yn cychwyn i daith y mae ei pheryglon yn aneirif. Y mae Absalom, Amnon, ac Adoniah, dy frodyr wedi dyrysu ynddi. Y mae y gwaith sydd o'th flaen yn fawr a phwysig, sef adeiladu llys, nid i ddyn, ond i Dduw: yr wyt tithau yn ieuanc a thyner; ond er mawredd y gwaith,—er peryglon y daith,—mi af i'm bedd yn dawel, heb bryderu dim yn dy gylch, ond i ti wneuthur hyn,—"Adnebydd Dduw dy dad." Neu, mewn geiriau eraill, os myni fyned drwy y byd yn ddiogel, y mae yn rhaid i ti gael crefydd dda i gychwyn. Yr oedd yr Arglwydd wedi addaw i Dafydd mewn cyfamod tragywyddol, a hwnw wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr, y byddai i'w hiliogaeth ef eistedd ar deyrngadair Israel; ond nid oedd hyny, ni a welwn, yn lleihau dim ar ofal Dafydd dros gael ei fab i rodio gyda Duw. Mor annhebyg y mae yn ymddwyn i lawer tad yn Nghymru, yr hwn, gan fod gan Dduw gyfamod i gadw, sydd yn esgeuluso yn gwbl arwain ei blant ei hun i ffyrdd y bywyd.

Ni bydd a fynom ni mwy â'r testyn, fel cyngor i Solomon; ond ni a'i defnyddiwn yn sylfaen i ychydig sylwadau ar y pwys o gael crefydd yn ieuanc.

Nid oes neb yn ameu mewn perthynas i bob peth y byd hwn, nad ydyw ieuenctid dyn yn amser pwysig iddo, a bod y modd y treulia efe yr amser hwnw yn effeithio yn anocheladwy ar ei oes i gyd. Os ydyw yn meddwl cael gwybodaeth eang, y mae yn gwybod mai ofer ydyw disgwyl hyny heb ymroddi i ddysgu yn ieuanc. Os ydyw yn meddwl cael celfyddyd neu alwedigaeth, nid ydyw yn disgwyl cyraedd nemawr fedrusrwydd ynddi heb ddechreu arni yn ieuanc. Os ydyw wedi rhoddi ei fryd ar ymgyfoethogi, os ä bore ei oes heibio heb iddo gasglu trysor, y mae yn anobeithio am dano wed'yn. Ond am grefydd, nad pwysig dim mewn cymhariaeth iddi hi, fe ymddygir at hon fel pe byddai pob adeg ar oes dyn yn fwy cymwys i'w cheiso nag ieuenctid. Pe ymddygai dyn at unrhyw beth fel yr ymddyga at grefydd, ystyrid y peth yn wallgofrwydd ynddo. Pwy na roddai ei hun yn agored i wawd pe yr oedai ddysgu

celfyddyd nes bod yn ymyl ei fedd. Neu pe addawai iddo ei hun astudio rhyw gangen o wybodaeth, wedi i'r blynyddoedd heb ddim diddanwch ynddynt ei oddiweddyd;—neu pe boddlonai mewn tlodi nes i'r pren almon flodeuo, ac yna bwriadu dechreu casglu trysor; ond felly yr ymddygir at y gelfyddyd y mae y fywioliaeth am dragywyddoldeb yn ymddibynu ar ei medru;—at y wybodaeth y mae bywyd yr enaid ynglŷn â hi;—at y cyfoeth yr ydych yn meddwl byw arno mewn byd ar ol hwn.

Y mae edrych ar grefydd fel yn fwy perthynasol i ryw amser ar oes dyn nag i'w ieuenctid, yn codi i raddau mawr oddiar gamsyniad ynghylch beth ydyw crefydd. Ond hyd yn nod pe cymerid yr olwg sydd gan y rhai sydd yn ymddwyn fel hyn tuag ati arni hi, cyfrifid yr ymddygiad yn ffolineb tuag at bob peth ond crefydd. Hyny ydyw crefydd yn ngolwg llawer:—cymod â Duw, nid am eu bod yn prisio ei heddwch Ef er ei fwyn ei hun, ond am fod ei heddwch yn ei atal i'w cosbi hwynt fel gelynion. Trwydded i gael myned i'r nefoedd ydyw crefydd, nid am fod y nefoedd yn lle dymunol ynddi ei hun, ond am fod cael hawl iddi yn diogelu rhag uffern. Ond, a gadael mai hynyna yw crefydd, y mae ymddygiadau canoedd tuag ati yn gyfryw ag a gyfrifid yn ffolineb wedi ei berffeithio tuag at bob peth arall. Pe byddai brenin daearol yn elyn i ddyn, ac yntau yn gwybod ei fod yn rhwym o ymddangos ger ei fron ymhen ugain mlynedd, oni ystyriech chwi ei ymddygiad yn eithaf ffol, pe na cheisiai efe am heddwch y brenin nes bod yn ymyl y llys? Na, ni orphwysai y dyn ddim nes defnyddio pob moddion o fewn ei gyraedd i gael yr heddwch cyn gynted ag y gwybyddai fod y brenin yn elyn iddo. Pe byddech yn gwybod fod yn rhaid i chwi symud ymhen ychydig flynyddoedd i ryw wlad bellenig i fyw, ac y byddai eich hapusrwydd yno yn ymddibynu ar i chwi fedru ymhyfrydu yn yr un pethau a thrigolion y wlad hono, oni ystyriech chwi eich hun yn ymddwyn fel ynfydion, pe yr oedech chwi chwilio beth ydyw pethau y wlad, a pha beth sydd yn angenrheidiol tuag at eu mwynhau hwynt, nes bod ar gychwyn yno? Na, o'r foment y clywech chwi mai hyny oedd eich tynged, oni ymdrechech chwi eich goreu i wneuthur eich hun yn gymwys i'r lle? Pe cymod â Duw, a

hawl i'r nefoedd, fyddai crefydd, nid yw ymddwyn fel yna tuag ati ddim yn ddoeth. Ond nid cymod â Duw, nid hawl i'r nefoedd, ydyw hi: y mae yma gymod ynddi, ond nid yw dydd gwyl y cymod ddim ond ei dechreu hi. Cael Duw yn Gyfaill i bechadur a fu y dydd hwnw: ond y mae crefydd wedi ei bwriadu i ddwyn y pechadur yn Gyfaill i Dduw, i gael y galon i ymhyfrydu yn Nuw; ac ni wna hi mo hyny nes y bydd y caledwch wedi ei dynu o honi, a gwaith oes fydd hyny. Y mae hi yn rhoddi hawl i'r nefoedd, ond rhan o honi ydyw hyny: y mae gwneyd yn gymwys iddi yn rhan mor berthynol o honi ag ydyw rhoddi hawl. Y mae yr hawl i'w holl fendithion hi yn dyfod i ni megis y tu allan i ni ein hunain; ond y mae y cymhwysder i'w mwynhau oll, yn beth sydd raid ei gael ynom ni. Ac y mae llawer yn tybied am nad ydyw yr hawl yn costio dim i ni, nad ydyw y cymhwysder i gostio dim ychwaith. Trwy farwolaeth un arall y cawn ni yr hawl i'r nefoedd; ond marw ein hunain, am oes, ydyw y moddion a drefnodd Duw i'n cael ni yn gymwys iddi; ac nid peth bychan ydyw marw o un math. Nid yw cael hawl i'r nefoedd ddim ond cyffelyb i'r hawl a gafodd Israel tra yn yr Aipht i Ganaan. Yr oedd diffaethwch mawr ac ofnadwy rhyngddynt â'r wlad er hyny. Yr oedd yn rhaid eu profi yn hwnw, am ddeugain mlynedd, cyn y byddent gymwys i'w meddianu. Nid creu rhai yn eu cyflawn faintioli y mae yr Arglwydd pan yn creu o'r newydd yn Nghrist Iesu; na, rhai bach yn Nghrist ydyw pawb i ddechreu. Gwŷr perffaith wedi cyraedd at fesur oedran cyflawnder Crist ydynt yn y nef; ac y mae yn rhaid iddynt gael rhyw amser i dyfu o ystâd o fabandod i sefyllfa gwŷr. Y mae y pethau yr ydym yn eu disgwyl drwy ein crefydd yn rhoddion, ac yn wobrwyon hefyd; ond y mae pawb sydd yn ei hoedi hi yn anghofio eu bod yn wobrwyon, ac yn edrych arnynt fel pe na byddent ond rhoddion yn unig. Yr oedd y Ganaan ddaearol gynt yn rhad rodd i hiliogaeth Abraham: ond fel gwobr concwerwyr y cawsant hwy feddiant o honi er hyny. Rhad rodd ydyw y nef, oblegid etifeddiaeth ydyw hi sydd yn d'od yn rhinwedd perthynas. Y mae hi yn wobr hefyd, oblegid gorphwysfa ydyw i rai wedi gweithio yn galed. Rhad rodd er mwyn Iesu Grist ydyw coron y bywyd i bechadur; ond y mae hi yn wobr iddo hefyd

F 2

am redeg yr yrfa. Y mae y ddwy olwg yna arni yn cael eu dal allan, y naill mor amlwg a'r llall, yn y Bibl. Y mae cadwedigaeth yn dyfod trwy gredu, a thrwy weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain. Cyfiawnhawyd Abraham drwy ffydd, a thrwy weithredoedd hefyd. Yr ydym yn cael yr Arglwydd Iesu yn dywedyd mewn un man, na ddaw y neb sydd yn credu ynddo Ef ddim i farn, hyny yw, y diangant hwy rhag condemniad, am eu bod yn credu; ond yr ydym yn ei gael yn dangos mewn lle arall, eu bod yn dianc rhag condemniad y dydd diweddaf, oherwydd eu gwaith yn ei ddilladu, yn ei borthi, ac yn ymweled âg Ef, neu oherwydd eu ffyddlondeb i'w achos Ef tra ar y ddaear. Y mae yr angel yn dywedyd wrth Ioan am y dyrfa fawr yr oedd yn eu gweled yn y nef, mai difai oeddent gerbron gorseddfainc Duw, nid am eu bod yn credu yn yr Oen, ond am eu bod yn dilyn yr Oen i ba le bynag yr elo. Ac yr ydym yn darllen yn yr un llyfr am y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, fod eu gweithredoedd yn eu canlyn hwynt. Rhaid ynte mai nid yn ymyl marw y dechreuasant fyw i Dduw, onid ê ni buasai nemawr weithredoedd i'w canlyn. Pell oddiwrthym fyddo ceisio gan neb edrych ar y pethau mawrion yr ydym yn eu disgwyl trwy ein crefydd yn ddim amgen na rhad roddion Duw. Yn ystyr fanylaf y gair, "trwy ras yr ydych yn gadwedig trwy ffydd;" ond y mae y ffydd hòno yn rhodd Duw. Y mae gobaith da crefydd wedi dyfod trwy ras. Y mae ei chariad hi wedi ei dywallt i'r galon o le arall. Rhad roddion ydynt oll. Ond y mae y ffydd i weithio; y gobaith i ymaros; a'r cariad i lafurio. Fe fydd pawb fydd yn derbyn y nef yn rhodd i ffydd, yn ei derbyn hi hefyd yn wobr am waith ffydd. Fe fydd pawb fydd yn ei derbyn hi yn rhodd cariad, yn ei derbyn hi hefyd yn wobr am lafur cariad. Os lle i'w enill ydyw y nef, nid yw yr adeg foreuaf ddim yn rhy fuan i ddechreu ar y gwaith. Os yr hwn sydd yn gorchfygu sydd yn deilwng i gael rhodio mewn dillad gwynion, nid oes adeg rhy fuan i ddechreu gwrthsefyll. Os i'r rhedegwyr y mae y gamp, ai doeth ydyw oedi cychwyn, nes y bydd pob anghymhwysder ynoch i redeg? Pe yr iawn syniech chwi am grefydd, nid oedech chwi mo honi ddiwrnod yn hwy.

I. Edrychwch ar yr hyn a ddywed y Bibl am ei phwysigrwydd hi i ieuenctyd. Nid ydym yn rhoddi ei le ei hun i ddim,

os na roddwn ni yr un lle iddo ag y mae y Bibl yn ei roddi; a dim ond i ni wneuthur hyny â chrefydd yn ieuanc, nid peth ysgafn a fydd hi yn ein golwg. Y mae yma dri pheth yn dangos ei phwys:—(1.) Y cymhelliadau sydd yma i ieuenctyd i'w cheisio. (2.) Y gofal sydd yn cael ei amlygu yma dros ieuenctyd. (3.) Y gymeradwyaeth uchel sydd yn cael ei roddi yma i bawb sydd wedi cael crefydd yn ieuanc.

(1.) Y mae ei phwys i'w weled yn y cymhelliadau lliosog sydd yma i ieuenctyd i'w cheisio. Tra y mae y Bibl yn ymddiddan â phawb, y mae yn cymeryd dyddordeb (*interest*) anghyffredin mewn ieuenctyd. Y mae yn ymddwyn tuag atynt fel Jacob at Joseph, neu fel yr Arglwydd Iesu at Ioan. Hwy ydyw ei ddosbarth anwyl ef. Hwy ydyw y disgyblion y mae yn eu caru. Y mae yma un llyfr, sef y Diarhebion wedi ei gyfeirio bron oll at yr ieuenctyd. Y mae y naw penod cyntaf yn gwbl felly. Y mae crefydd yn cael ei chymell ar ddyn ieuanc ynddo oddiar bob ystyriaeth. Y tad megis yn sefyll yn lle Duw i'w chymell hi. Weithiau y mae yr Arglwydd yn dadleu ei berthynas âg ef fel rheswm dros gael ei serch:—"Fy mab, moes i mi dy galon." Bryd arall y mae yn dadleu y llawenydd a roddai ei grefydd ef i'r tad yn rheswm iddo ei cheisio hi:—"Fy mab, os dy galon di fydd ddoeth, fy nghalon inau a lawenycha." Bryd arall y mae yn ei chymell hi oddiar y dyrchafiad a rydd hi i'r dyn ieuanc:—"Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di: hi a'th ddwg di i anrhydedd, os cofleidi hi." Mewn lle arall, y mae yn dangos y canlyniad echrys o'i gwrthod hi fel rheswm dros ochel hyny:—"Pa fodd y caseäis i addysg! pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd!" Ac y mae yma air cynes at yr ieuenctyd bron ymhob llyfr. Weithiau bydd y Salmydd yn galw arnynt ger bron, iddo gael dysgu iddynt ofn yr Arglwydd. Yna bydd y Pregethwr yn eu cynghori yn serchog, i gofio eu Creawdwr yn nyddiau ieuenctíd. Beth bynag oedd yn wagedd, sylwedd oedd hyn. Bryd arall, bydd yr apostolion yn troi i ddywedyd gair wrthynt: Paul yn eu cynghori i fod yn sobr; ac Ioan i orchfygu yr un drwg. Cymerwch hynyna fel esiampl: fe ballai yr amser i mi olrhain yr holl wahanol ddulliau y mae yn cael ei chymell ar ieuenctyd.

(2.) Y mae ei phwys i'w ganfod yn y gofal sydd yn cael ei

amlygu yma dros ieuenctyd. "Plant," medd y Salmydd, "ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd;" ac y mae yma ofal diball yn cael ei amlygu am yr etifeddiaeth. Yr oedd Abraham yn cael ei ganmol gan yr Arglwydd am ei ofal dros yr ieuenctyd. Ac nid ychydig yw y lle y mae y gorchymynion yn eu cylch hwynt yn ei gael yn nghyfraith Moses. Yr oedd y tad Iuddewig i ddysgu crefydd i'w blant, gyda bod eu meddyliau yn dechreu ymagor;—i ymddiddan â'r plentyn yn ei orweddfa y nos;—i'w hegluro ar yr aelwyd;—i gymeryd mantais ar bob peth wrth gyd-gerdded y ffordd i'w chrybwyll hi. Yr oedd y tad i wneuthur fel y mynai â chywreinrwydd ei blentyn ynghylch pobpeth arall, i ateb ei gwestiynau neu beidio; ond pan y gofynai y plentyn wrth ganfod y tystiolaethau wedi eu hysgrifenu ar byst y tŷ,—Beth yw y tystiolaethau hyn? neu wrth edrych ar ei dad yn bwyta y pasc,—"Pa wasanaeth yw hwn genych? neu wrth weled y ceryg mawrion gerllaw yr Iorddonen, — "Beth yw y ceryg hyn?"—fe ofalodd yr Arglwydd orchymyn yn bendant i'r tad, am iddo ateb cwestiynau fel yna. Yr oedd i feithrin pob cywreingarwch crefyddol a allai fod yn ei feddwl. A phan y byddai yr Arglwydd yn digio wrthynt, mynych y byddai eu hymddygiad at y plant yn achos o'i ŵg. "Lladd o honoch fy mhlant," medd efe, "a'u rhoddi i'w tynu trwy y tân iddynt," sef i'r eilunod. A phan y byddai yn eu cosbi, yr oedd maint ei lid yn cael ei ddangos yn ei waith yn taraw y plant a'r ieuenctyd. Yr oedd wedi digio cymaint nes yr oedd hyd yn nod ei rai anwyl yn gorfod dioddef. Ac nid yw y Testament Newydd ddim yn ol i'r Hen yn y gofal sydd yn cael ei amlygu drostynt. Fe orchymynir yn bendant i'r tad eu "maethu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd," ac am iddo ofalu rhag iddo drwy sarugrwydd beri i'w blentyn gasâu crefydd; ac yn ei gynghorion i bregethwyr ieuainc, y mae yn eu dysgu i gynghori yr ieuenctyd, ac yn eu rhybuddio hefyd am ofalu i fod yn esiampl iddynt.

(3.) Y mae ei phwys i'w ganfod, yn y gymeradwyaeth sydd yn cael ei rhoddi yma i bawb sydd yn ei meddu yn ieuanc. Nid oes neb, o Joseph yn yr Hen Destament, hyd Timotheus yn y Newydd, â "pheth daioni" ynddo, yn cael myned heibio iddo yn ddisylw. Fe'i hystyrir yn anrhydedd mawr cael cof-

golofn yn eglwys St. Paul, neu yn Westminster Abbey, yn Llundain: nid oes neb ond y rhai a fuont yn enwog iawn yn cael yr anrhydedd. Anrhydedd llawer mwy ydyw cael cof-golofn yn y deml hon;—cael enw da yn llyfr y bywyd. A sylwch chwi i bwy y mae yr urddas,—onid i'r rhai fydd wedi cael crefydd yn ieuainc? Yr oedd yr ychydig ddaioni oedd yn Abïah, yn nhŷ annuwiol Jeroboam, wedi peri iddo gael *niche* yn y deml hon. A phan y bydd rhyw ddyrchafiad yn cael ei roddi i ryw un, fe fydd Ysbryd Duw yn bur gyffredin wedi gofalu dangos ei fod yn ofni Duw yn ieuanc, fel pe buasai am ddangos mai hwnw oedd y dosbarth yr oedd Efe yn dewis ei anrhydeddu. Y mae wedi dangos bod Joseph yn ofni Duw, cyn ei ddangos yn llywydd yr Aipht. Yr ydym yn cael gweled bod addysg ei fam wedi arwain Moses i ddewis Duw Israel, cyn iddo gael yr anrhydedd o fod yn arweinydd iddynt. Felly yr oedd Josua o'i febyd yn ffyddlawn i Dduw. Wedi dangos Obediah yn benteulu Ahab, fe ddywedir yna air i ddangos ei fod yn ofni yr Arglwydd ar aelwyd ei dad a'i fam. Yr oedd Dafydd frenin wedi canu llawer Salm beraidd pan yn fugail defaid. Yr oedd y pedwar tywysog ieuainc hyny yn Babilon yn ofni yr Arglwydd, cyn cael y dyrchafiad. Yn hanes yr Arglwydd Iesu, ni a gawn mai llanc ieuanc o ddwy ar bymtheg i ddeunaw oed oedd y disgybl yr oedd yntau yn ei garu. Fe ddywedir hefyd iddo hoffi y dyn ieuanc a ddaeth ato i ymofyn am ffordd y bywyd. Bu y disgyblion yn ceisio atal llawer un at yr Iesu; ond ni cheryddwyd mo honynt am atal neb ond plant bychain. Gellir dywedyd fod y Bibl yn ei gynghorion,—yn ei esiamplau,—yn y gofal y mae yn ei amlygu am ieuenctyd,—yn y gymeradwyaeth y mae yn ei roddi i grefydd yn ieuanc,—ac yn y dull y mae yn cyfleu addysg gref-yddol, yn eglur ddangos mai nid difater ganddo eich colli chwi ieuenctyd. Paham y mae y wybodaeth sydd yn cadw wedi ei chyfleu mewn dull mor ddifyr, os nad i dynu ieuenctyd i ddarllen y llyfr. Y mae yma ddigon o ddifyrwch yn dâl am ei astudio pe na buasai iachawdwriaeth ynddo. Pa le y caiff y fam hanesion cyffelyb i rai Joseph a Moses, Samson a Dafydd, ac yn enwedig yr Arglwydd Iesu, i ddifyru ei rhai bychain ar yr aelwyd? Wedi iddynt ddysgu darllen eu hun, nid rhaid

iddynt newid eu llyfr; pan y byddant yn troi heibio bob llyfrau plentynaidd, y mae y Bibl fel yn cynyddu gyda hwynt. Y mae ynddo rydau a dyfroedd nofiadwy; ond nid dau le ar yr afon ydyw y rhai yna: y mae y fan sydd yn rhyd i'r plentyn, fel y mae y plentyn yn myned yn ddyn, yn cynyddu at y fferau, ac at y lwynau, ac yna yn ddyfroedd nofiadwy. Y mae ynddo bethau newydd a hen: newydd er eu bod yn hen. Ni buasai crefydd yn ieuanc ddim yn cael cymaint o le yn y Bibl, oni bai ei bod hi yn bwysig.

2. Y mae ei phwys hi hefyd yn cael ei brofi gan ffeithiau: fel y clywsom yn y Bibl, felly y gwelsom â'n llygaid. Pe sylwem ni ar ffeithiau, ni a welem fod yn fwy diberygl ceisio croesi yr Atlantic heb yr un cwmpas, neu groesi diffaethwch Sahara heb yr un arweinydd, nag yw myned drwy'r byd heb yr un grefydd. O'r canoedd ieuenctyd sydd yn cychwyn allan, o bymtheg i ugain oed, i ddechreu byw bob blwyddyn, pa le y mae y mwyafrif o honynt ymhen yr ugain mlynedd? Onid oes lliaws o honynt wedi eu claddu yn meddau y blys? Y mae eraill yn arwain bywyd sydd yn drueni iddynt hwy eu hunain, ac yn ofid calon i'w cyfeillion. Y mae eraill o honynt wedi ymwerthu i'r byd hwn, ac wedi myned i berthyn i'r dosbarth y dywed yr Arglwydd Iesu am danynt, mai yn anhawdd yr ânt i mewn i deyrnas nefoedd. Ond y mae yma ryw ychydig heb wneuthur llongddrylliad am danynt eu hunain. Rhyw Galeb a Josua yn fyw yn nghanol y miloedd meirwon; ac os mynech wybod beth sydd wedi eu diogelu,—wedi eu cadw rhag yr hyn a fu yn ddinystr i'r lleill: crefydd yr ieuanc ydyw. Os chwilio am esiamplau neillduol yr ydych, edrychwch ar Hazael a Joseph, y ddau yn cael eu codi o sefyllfa gyffredin,—un i'r orsedd, a'r llall i'r fan agosaf ati; ond y mae y dyrchafiad yn gwneuthur un yn greulawn fel ci, tra y mae y llall yn parhau mor addfwyn yn llywydd, ag ydoedd yn gaethwas. Beth a wnaeth y gwahaniaeth? Crefydd yn ieuanc oedd gan Joseph. Cymerwch Jeroboam a Moses, y naill yn cael ei godi o fod yn was i Solomon i eistedd ar ei orseddfainc, a'r llall o fod yn fab i gaethion i fod yn fab i ferch Pharaoh; ond ni a welwn un yn gwerthu ei Dduw i geisio cadw ei orsedd, tra y mae y llall yn gwerthu yr orsedd i gael y Duw. Os gofynwch y rheswm am y gwahan-

iaeth, ofn Duw oedd yn nghalon Moses yn ieuanc. Edrychwch eto ar Nebuchodonosor a Daniel, ill dau ar ben y pinacl; ond wele y cyntaf yn syrthio oddiarno yn is na'r anifail, tra y mae yr ail mor ddiberygl ar ben y pinacl ag ydoedd wrth ei draed ef. Ond yr hyn sydd yn egluro y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw, nad oedd y cyntaf ddim yn cydnabod Duw y nefoedd, tra yr oedd yr ail yn ei ofni yn fawr er yn ieuanc. Mewn gair, llais pob ffaith, fel pob Ysgrythyr, ydyw,—"Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuenctyd." Os ydych am gael môr tymhestlog bywyd yn ddiberygl, nid yn ddiystorm, mynwch grefydd yn ieuanc. Y mae ffeithiau y byd yn dangos, os ymddiriedwch chwi yr oll a feddwch i grefydd yn moreu eich oes, y ceidw hi y cwbl heb ei niweidio, er y peryglon oll; ond os ymddiriedwch chwi eich hun i unrhyw beth arall, y byddwch yn sicr o orfod teimlo yn rhyw le ei fod wedi bradychu yr ymddiried. Rhoddwch eich calon i'r byd, pa faint bynag o deimlad fydd ynddi yn y cychwyn, fe'i gwna hi "fel darn o faen isaf y felin" cyn diwedd y daith. Rhoddwch eich hun i fyny i ddilyn meluswedd buchedd, fe'ch yspeilia chwi o dynerwch cydwybod,—fe'i gwna hi mor ddideimlad a phe byddai wedi ei serio â haiarn poeth, fel na bydd gwirionedd yn mènu arni hi.Ië, y mae pob peth ond crefydd, fel y goruchwyliwr anghyfiawn hwnw yn y ddameg, yn byw ar arian ei arglwydd yn lle marchnata gyda hwynt; ond am grefydd, nid yw hi yn treulio dim o gorff yr hawl, ond yn hytrach yn marchnata gydag ef, i'w wneuthur yn fwy. Y mae hi yn goleuo y deall, yn lle ei dywyllu;—yn tangnefeddu y gydwybod, yn lle ei serio;—fel y mae hi yn llawer gwell yn ddeugain oed nag oedd pan yn ugain. Y mae hi yn peri i'r galon lonyddu mewn cariad, yn lle gwaedu oherwydd siomedigaethau. Gyda phriodoldeb y gellir dywedyd am dani,—"Os cofleidi hi, hi a'th ddyrchafa," hi a'th wna yn werth mwy o lawer.

II. Ni a enwn rai pethau i ddangos paham y mae crefydd mor bwysig i ieuenctyd.

1. Y mae ei phwys yn dyfod i'r golwg yn y ddau air, *ieuenctid* a *chrefydd.* Ieuenctid: yr adeg y mae dyn fel llwdn asen wyllt, yn annhraethol fwy tueddol i gamsynied am bob peth nag i synied yn gywir. Y mae pob peth yn ymddangos iddo

mewn goleu twyllodrus. Y mae y byd yn ymddangos iddo, fel y mae y daearyddwyr yn gwneyd y *globes* i'w ddangos, yn fyd llyfn heb na phant na bryn arno;—amser yn ymddangos iddo yn rhywbeth diddiwedd;—y bedd, draw, draw yn y niwl na ellir ei weled; a'r byd tragywyddol yn mhellach na hyny. Ac y mae diffyg gweled pob peth yn ei le ac yn ei liw ei hun yn ddinystr i filoedd o ieuenctyd; ac nid oes dim a rydd oleu cywir ar bob peth ond crefydd. Dengys hi y byd fel y mae, heb guddio yr un o'r pydewau peryglus, nac arwain neb i feddwl fod ei ddiffaethfaoedd yn ddoldir, neu ei fynyddoedd yn wastad-dir. Hi a ddywed beth ydyw gwerth ei barch ef;—pa beth a wna, a pha beth ni wna ei gyfoeth ef. Y mae ei lamp hi yn dangos yr ysmotyn y mae y bedd ynddo, a hi a chwâl y niwl, i ni gael gweled mor agos ydyw ein hynys ni i'r cyfandir mawr. Pwy a ŵyr pa faint a dâl cael gwirionedd am y cwbl. Yr oedd Napoleon wedi iddo gwympo yn dywedyd,—Pe buasai genyf ryw un i ddywedyd y gwir wrthyf cyn hyn, mi fuaswn eto ar orsedd Ffrainc. Yr oedd efe wedi camsynied am y cwbl, ac yr oedd pawb yn gwenieithio iddo; ond wedi iddo syrthio, dechreuodd ei gynghorwyr ddywedyd y gwir wrtho. Ond yr oedd yn rhy ddiweddar iddo elwa dim oddiwrtho. Y mae canoedd o ieuenctyd yr un fath ag ef, yn dyfod i ddeall y gwirionedd am bob peth wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar iddynt elwa dim oddiwrtho;—yn dyfod i ddeall bod clogwyni peryglus ar y ddaear wrth gael eu hanafu drwy syrthio drostynt; yn dyfod i ddeall nad ydyw y bedd ddim nepell oddiwrthynt drwy ddisgyn iddo yn nghanol eu dyddiau;—i ddeall fod tragywyddoldeb heb fod nepell oddiwrth ein hynys ni, trwy gael eu hunain yno, heb iddynt feddwl am y lle; ond buasai crefydd yn dywedyd y gwir wrthynt yn ddigon buan iddynt wneuthur elw o hono.

Edrych eto ar grefydd, nid fel peth i hyfforddi, ond fel gwaith i'w gyflawni; ni a welwn yn y fan paham y dylid dechreu arni yn ieuanc. Y mae perygl i ni son gormod am bleserau crefydd, a rhy fychan am ei chaledwaith hi; a'ch arwain i feddwl mai pleser i'w fwynhau ydyw, ac nid gwaith caled i'w gyflawni. Y mae yn wir fod ei ffyrdd hi yn ffyrdd hyfrydwch; ond y mae yn iawn i chwi ddeall un o ba natur

ydyw ei phleser. Llawenydd rhedegwr wedi enill y gamp ydyw ei llawenydd hi. Pleserau concwerwr ydynt ;—ymffrost milwr wedi diosg ei arfau, ar ol enill y frwydr. Yr oedd rhan yr hwn a arosodd gyda'r dodrefn yn Siclag gynt, yr un faint a rhan yr hwn a aeth i'r rhyfel; ond nid felly y mae gyda chrefydd; nid oes neb yn cael rhanu yr ysbail, ond y rhai a roddasant eu heinioes i farw ar uchel-fanau y maes. Y mae yma bleser; ond y mae yn bleser drud, er ei fod yn rhatach wed'yn nag un pleser arall, oblegid ei fod yn un parhaus. Chwi a welwch na all crefydd ddim bod yn amgen na gwaith caled, os sylwch chwi ar yr Ysgrythyrau sydd yn ei darlunio. Y mae pob cymhariaeth sydd yn ei dangos yn galedwaith. Rhyfel ydyw; ac y mae hi yn galw ar ei deiliaid i oddef cystudd fel milwyr da;—i wisgo am danynt holl arfogaeth Duw;—i fod yn sobr a gwylied, am fod eu gwrthwynebwr diafol gerllaw; ac i ymdrechu neu i ryfela hardd-deg ryfel y ffydd. Eithr nid rhyfel â gelynion oddiallan yn unig ydyw, ond y mae yn rhyfel cartrefol hefyd, sef y fath waethaf o ryfel. Y mae deddf yn yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl,—y mae y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr ysbryd; y mae yma hen ddyn a dyn newydd, a gelyniaeth farwol rhyngddynt â'u gilydd. Llwybr ydyw hi, a'r porth sydd yn arwain iddo yn gyfyng; ac y mae y ffordd mor gul, fel y mae yn rhaid i bob un sydd arni edrych na syrthio. Y mae yn rhaid iddo redeg ar y ffordd, er mai caled ydyw, fel pe byddai yn rhedeg gyrfa. Fe gyferfydd â chroes bob dydd; ond y mae y ffordd mor gul, nid all ef ddim myned heibio iddi heb ei chodi. Gwaith ydyw; ac ni ryfeddwch chwi ddim fod yn rhaid ei gyflawni mewn ofn a dychryn, pan y dywedwn mai rhan o hono ydyw tynu y llygad de, a thori y fraich dde. Y mae yn gofyn cwbl ddiwydrwydd i ychwanegu y naill ras at y llall; a phe byddai modd eu cael oll, nid oes gorphwys wed'yn; oblegid y mae eisiau cynyddu ynddynt; ac wedi yr holl ymdrech, braidd y bydd y cyfiawn yn gadwedig. Y mae y nef yn bellach nag yr ydych chwi yn ei feddwl; onide nid oedech chwi ddim cychwyn yno. Y mae y rhyfel yn fwy peryglus a marwol nag yr ydych chwi yn ei dybied; onide nid aech iddo heb arfogaeth. Nid yw gwobrau y byd arall ddim mor hawdd eu henill ag yr ydych chwi yn meddwl; onide nid

oedech ddechreu ar yr ymdrech. Yr ydych chwi yn tybied fod yn haws o lawer cael braint yn Mhren y bywyd nag ydyw ;—fod gorseddau â choronau y nefoedd yn rhatach nag ydynt. Pe barnech chwi yn gywir am danynt, eich iaith a fyddai,—"Pwy a all fod yn gadwedig ?" Ni ddymunwn i ddim creu digalondid yn mynwes neb ; ond nid digalondid sydd yn ddinystr i ieuenctyd, ond rhyfyg. Nid meddwl fod crefydd yn beth rhy anhawdd, sydd yn peri iddynt ei hoedi ; ond ei thybied hi mor hawdd, fel y gallant ei chyflawni wedi methu gwneuthur pob peth arall.

2. Ond pe cymerem ni yn ganiataol y cewch chwi fyw i fyned yn hen, ac y cewch chwi grefydd, fel yr ydych yn meddwl, y pryd hyny ; gallwn gael cystal dadl oddiwrth hyny a dim, dros i chwi ei cheisio yn ieuanc ; oblegid,—

(1.) Bydd yn anhaws o lawer i chwi ei chael hi wedi i chwi fyned yn hen. (2.) Bydd yn llai o elw wedi ei chael.

(1.) Bydd yn anhaws ei chael hi. Nid amser yn unig yr ydych yn ei golli wrth ei hoedi hi. Duw sydd yn achub meddwch chwi, a'r un peth i Dduw fydd fy achub i yn ddeg a thriugain ag yn ugain oed. Os ydyw felly, nid yr un peth i chwi a fydd hyny. Os yr un peth i'r athraw ydyw dysgu rhyw wybodaeth i ysgolhaig triugain oed a gwneuthur hyn iddo pan yn ugain oed, nid yr un peth i'r ysgolhaig a fydd. Y mae y wers a fuasai yn hawdd mewn cymhariaeth pan yn ugain, yn anhawdd iawn pan yn driugain. Os ydyw iau crefydd yn rhy drom genych yn ugain, ai tebyg ydyw y bydd hi yn ysgafnach wedi i'ch ysgwyddau gael eu gwanhau gan bechod. Os ydyw dyfroedd edifeirwch yn rhy chwerwon genych yn awr, ai tebyg ydyw y byddant yn llai chwerw erbyn rhoddi deugain mlynedd yn ychwaneg o bechu yn y cwpan ? Os ydyw mynydd Duw yn rhy anhawdd ei ddringo yn awr, ai tebyg yw y bydd yn haws, wedi i chwi ddisgyn i waered yn ddyfnach i'r dyffryn ? Ai rhy serth ydyw ffordd y bywyd yn awr ? ni bydd teithio ar y goriwaered am ugain mlynedd tuag uffern, ddim yn ei gwneuthur yn llai felly. Er mai gwaith Ysbryd Duw ydyw cadw, cofiwch mai gwaith ynoch chwi ydyw, ac nid rhywbeth a wneir trosoch heb yn wybod i chwi eich hun. Ac wedi i

chwi heneiddio, bydd llawer iawn o bethau ynoch, yn rhwystrau mawrion ar ffordd y gwaith, nad ydynt yna yn awr. Bydd y dyn oddi allan wedi gwanhau, a hen ddyn pechod oddifewn wedi cryfhau. Bydd yr anfantais, y sonia y ddeuddegfed benod o'r Pregethwr am dani, yn gwneuthur eich gwaith yn galed; a'r anfantais a ddengys Jeremiah oedd gan Israel i ddychwelyd, yn ei wneuthur bron yn anmhosibl:—"A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpart ei frychni?" Dyna yr effeithiau ar y galon a gâ cynefindra â gwneuthur drwg. Y mae yna lygredigaethau cryfion yn awr; ond planhigion gweiniaid ydynt heddyw, wrth yr hyn a fyddant ymhen deugain mlynedd. Os cedwir chwi, y mae yn rhaid eu diwreiddio oll; ond bydd yn rhaid rhwygo llawer iawn ychwaneg ar y tir, i gael y gedrwydden o hono, ragor y planhigion. Edrychwch ar Ysbryd Duw yn codi y planhigion drwg o'r tir, yn Timotheus; ac yn diwreiddio y cedrwydd nerthol yn Paul. Pwy na ddymunai fod yn lle y bachgen, oedd yn gwybod yr Ysgrythyr yn gadwedigol yn blentyn, yn hytrach nag yn lle yr erlidiwr y bu bron iddo gael ei ladd wrth gael ei gadw. Edrychwch ar Manasseh, wedi gwrthod crefydd yn ei ieuenctyd,—pa faint a gostiodd hi iddo wedi hyny? Y mae yr arferion drwg yr ydych yn eu ffurfio, yn myned fel yr eiddew o amgylch y dderwen. Y mae hwnw wrth hir dyfu yn ymnyddu o amgylch ei changhenau hi oll, ac yn fynych yn pantio lle iddo ei hun yn nghorff y pren, nes y mae yn myned fel rhan o hono. Mor anhawdd ydyw ei ddadrys; a phan y gwneir hyny, bydd pantiau a gwrymiau ei ôl ef yn aros yn anharddwch ar y pren; felly y mae yr arferion drwg;—y maent yn ymnyddu o amgylch yr holl ddyn, megis yn pantio lle ynddo, nes y maent yn ymddangos fel rhan hanfodol o hono. Nid gwaith hawdd fydd tynu yr hen eiddew a gafodd dyfu am dri ugain mlynedd; ac os gwneir hyny, bydd y pantiau a'r gwrymiau a wnaeth yn eich anffurfio tra y byddwch ar y ddaear. Yr ydych wedi cael gardd fechan i'w chadw, ac i ddwyn llysiau cymwys ynddi. Pe buasech yn cael eu planu ynddi y pethau cyntaf, buasai yn ddigon anhawdd eu magu yn yr hinsawdd hon; ond yr ydych chwi yn meddwl gadael i ddrain a mieri y felldith dyfu yn yr ardd am dri ugain mlynedd, gan fwriadu ar ol hyny fagu rhai o'r llysiau ynddi;

ond bydd yn edifar iawn genych eich gwaith, oblegid bydd y drain a'r mieri, wedi cael meddiant mor hir, yn codi yn feunyddiol i dagu y llysiau.

(2.) Nid yn unig bydd yn anhaws ei chael, ond wedi ei chael bydd yn llai ei helw o lawer. Y mae crefydd, fel pechod, yn manteisio ar arfer. "Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd," meddai y prophwyd. "Ymarfer dy hun i dduwioldeb," meddai yr apostol wrth ei ddisgybl ieuanc. Y mae y gair a gyfieithir "ymarfer" yn cyfeirio at arferiad y rhai a fyddent yn ymdrechu am y campau ar Olympus: byddai rhai o'r ymdrechwyr yn arfer eu hunain am flynyddoedd yn y peth cyn diwrnod y ceisio am y gamp am dano; ac os enillent yr anrhydedd ddiwrnod yr ymdrechfa, byddai hyny i'w briodoli i'w gwaith yn ymarfer cyn y diwrnod hwnw. Pwy sydd yn enill gradd dda gyda chrefydd, onid y rhai sydd wedi ymarfer eu hun o'u hieuenctid i dduwioldeb? Pwy oedd y tri hyny a enillodd y gamp ddiwrnod yr ymdrechfa yn Babilon, onid rhai wedi ymarfer i dduwioldeb? Pe meddyliech am ryw un yn dysgu celfyddyd gywrain yn ddeunaw oed, hi a gostiodd lafur mawr iddo gael ei law ati i ddechreu; ond erbyn ei fod yn haner cant y mae wedi ymarfer cymaint nes y mae yn gwneuthur ei chywreinwaith manylaf hi bron yn ddiarwybod iddo ei hun. Y mae un arall yn dechreu dysgu yr un gelfyddyn yn driugain oed; nid yn unig ni chyrhaedda efe ddim perffeithrwydd ynddi, ond bydd yn fwy o boen nag o bleser iddo tra y bydd byw; ni ddaw ei law ddim ati fel ag y gall wneuthur nemawr elw o honi. Os gall enill ei fara trwyddi, dyna fydd yr oll. Felly y bydd hi gyda chrefydd: os gadewch chwi hi yn hwyr heb ymaflyd ynddi, y cwbl a gewch chwi oddiwrthi fydd yn brin ychydig gynhaliaeth: ni fforddia hi i chwi "fyn i fod yn llawen" un amser. Dyna ryw un yn gelfydd iawn,—y mae hi yn ymddangos mor hawdd iddo ag anadlu; oblegid gwrandewch ar ei lais:—"Myfyriaf am danat yn ngwyliadwriaethau y nos;" "pan ddeffrowyf, gydâ thi yr ydwyf yn wastad." "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gydâ thydi." Mi fyddwn yn ddigon hapus, pe na byddai yma ddyn o begwn y Gogledd i begwn y De, ond i mi dy gael di. Gan fod y gwr mor fedrus, yn elwa

cymaint arni, y mae yn siwr nad yn ei henaint y dysgodd efe y gelfyddyd. Nage, oblegid ei dystiolaeth am dano ei hun ydyw:—"O groth fy mam fy Nuw ydwyt;" "gwnaethost i mi obeithio pan oeddwn ar fronau fy mam."

Os cewch chwi grefydd yn hen, fe fydd y rhan sydd wedi myned heibio o'ch oes yn dreth drom ar yr elw a gewch chwi oddiwrthi. Chwi a welwch weithiau ddyn yn myned yn feth-dalwr,—yn tòri yn y fasnach oedd ganddo, ac wedi hyny yn dechreu dilyn un newydd. Y mae y newydd yn talu yn dda iddo; ond fe gollodd gymaint ar yr hen, ac y mae hyny yn myned â holl elw y newydd, fel nad ydyw yn cael ond ymborth a dillad oddiwrthi. Yr oedd yr apostol Paul wedi myned yn feth-dalwr: fe ddechreuodd fasnach newydd, ac er ei bod hi yn un bur enillgar, yr oedd efe wedi colli cymaint ar yr hen, fel yr oedd y golled yn bwyta bron holl enill y newydd. Yr ydwyf yn apostol; ac mi fuaswn yn gallu gwneuthur elw mawr o hyny, oni bai i mi fod yn erlidiwr: y mae colled yr erlidiwr yn myned â holl elw yr apostol; "nid wyf deilwng i'm galw yn apostol." Y mae tri ugain mlynedd o anghofio Duw yn tynu llawer oddiwrth felusder myfyrdod am Dduw wedi ei gael. Y mae deng mlynedd ar ugain o wrthod Ceidwad, yn dreth drom ar fwyniant yr enaid wedi ei gael. Ac i ddywedyd yr holl wir, yr ydych yn colli elw y ddau fyd wrth oedi crefydd. Meddwl enill elw hwn yr ydych, ac wedi cael hwnw yr ydych am gael elw crefydd: yn lle hyny, yr ydych yn colli elw y ddau: oblegid y mae ganddi hi "addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd." Hyny o wir enill a ellir ei wneuthur o'r byd hwn, chwi a'i cewch ef gyda chrefydd. Cymerwch ei chardod hi yn gyfan, a dyna "hyfrydwch y ddaear a'i chyflawnder, ac ewyllys da preswylydd y berth." Deut. xxxiii. 16.

3. Ond yr ydym wedi tybied peth nad oes ond ychydig iawn o sail iddo, sef y cewch chwi grefydd yn hen; oblegid rheol Duw ydyw gadael i'r oes ddiweddu fel y dechreuodd hi. Y mae y gair a lefarodd Solomon yn wir eto, — "Hyfforddia blentyn ymhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi." Y mae y rhan fwyaf o dduwiolion y byd yn cael eu hachub cyn bod yn bump ar ugain oed. Ac onid plant crefyddwyr ydyw

mwyafrif duwiolion y byd heddyw? Yr holl ddiwygiadau crefyddol y mae genym hanes am danynt, yr ieuenctyd yn benaf, ac weithiau yn gwbl, fyddai eu gwrthddrychau. Ac onid iddynt hwy yn benaf y mae yr addewid am dywalltiad yr Ysbryd. Y mae y meibion a'r merched, y gwŷr ieuainc a'r gwyryfon, y gweision a'r morwynion, yn cael eu henwi yn bendant ynddi. Y mae yma addewidion i henaint yn y Bibl; ond i hen weision y maent, ac nid i hen elynion:—"Hyd henaint hefyd myfi yw; mi a'ch dygaf hyd oni benwynoch." "Ffrwythant eto yn eu henaint; tirfion ac iraidd fyddant;"—nid wedi tri ugain mlynedd o ddiffrwythdra y ffrwythant eto; ond wedi tri ugain mlynedd o ffrwytho, dygant *grop* eto yn eu henaint. Yr oedd Dafydd yn gweled ei hun mor ddiwerth wedi myned yn hen, fel yr oedd yn ofni cael ei droi o'r gwasanaeth, ac y mae yn gofyn i'w feistr am beidio gwneuthur hyny; Salm lxxi. 18:—"Na wrthod fi chwaith, O Dduw, mewn henaint a phenllwydni; hyd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob un a ddelo." Nid am y byd hwn yn unig yr ydych yn ffurfio eich caracter cyn bod yn ddeg ar ugain oed; ond y rheol ydyw, y bydd eich nodweddiad am dragywyddoldeb wedi ei ffurfio cyn hyny. "Hyd y gwelais i," meddai Eliphaz, "y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a'u medant;" felly y gwelsom ninau: pa sawl un o fewn cylch eich cydnabyddiaeth chwi o'r rhai sydd yn hau i'r cnawd yn nechre eu bywyd sydd tua diwedd y daith yn debyg o gael medi bywyd tragywyddol? A welsoch chwi iachawdwriaeth yn myned yn aml i mewn i dai dynion bydol, fel Zachëus? Pa sawl un a fagwyd yn grefyddol, ond a ymwerthodd i annuwioldeb fel Manasseh, a welsoch chwi yn ceisio Duw ei dad, fel yntau, wedi heneiddio? Na, 'hyd y gwelsom ni, y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a'u medant.' Oni ellid casglu bod amser ar oes dyn, a hono bron yn ddieithrad yn ei ieuenctid, y mae yn dewis neu yn gwrthod crefydd am byth? Ni ddymunwn i ddim dywedyd peth fel hyn yn bendant iawn, rhag tarfu y gwan. Ond onid oedd y dewis a'r gwrthod wedi cymeryd lle rhwng Israel a Duw bron yn nechreu taith yr anialwch? Yr oedd tynged Saul wedi ei selio flynyddoedd cyn iddo farw. Hyd yr adeg yna y mae argraffiadau crefyddol yn dwysau ar feddwl y

dyn; ond o'r adeg yna allan, y maent yn gwanhau yn raddol, hyny yw, mewn geiriau eraill, Duw yn dechreu gwrthod. Ieuenctyd! os ceisiwch ef, chwi a'i cewch: i chwi y mae yr addewid:—"Y sawl a'm ceisiant yn fore a'm cânt." Y mae crefydd yn fath o enedigaeth-fraint i chwi; ond os gwerthwch chwi eich braint, ofnwch rhag iddi fod yn werthiant, fel un Esau, na bydd dim modd cael y fargen yn ol. Os gwrthodwch Ef, ofnwch rhag iddo yntau eich gwrthod chwithau yn dragywydd. Rhoddwch gyfeiriad iawn i'r oes yn y cychwyn: mynwch ei dechreu hi gyda Duw. Ofnwch grefydd Balaam: y mae yma lawer iawn yn ei phroffesu hi. Dymuno bod yn eithrad yr oedd efe yn rhagluniaeth Duw, sef cael marw yn wahanol i'r modd y bu byw; ond yn ol yr hen reol y daeth hi i'w ran ef. Nid oes genym ddim sail i ddisgwyl y bydd hi yn amgen i ninau.

4. Ond yr ydym wedi tybied peth arall,—nad oes ond llai o sail iddo na hyn, sef y cewch chwi fyw i fyned yn hen. Ar ba sail yr ydych yn tybied y bydd nifer eich blynyddoedd chwi yn fawr? Y mae rhai yn byw yn hen; ond yr eithrad ydyw hyny; y mae llawer mwy yn marw yn ieuanc. Ond mor anhawdd ydyw sylweddoli i'r meddwl y gall mai rhai felly fyddwn ninau, fel ag yr ydym yn teimlo llai oddiwrth ystyriaeth fel hyn nag oddiwrth ddim. Pe buasai ieuenctyd wedi gwneyd cyngrair âg angau, ni buasai raid iddynt fod yn fwy diogel eu teimlad nag ydynt. A fu eich marw chwi eich hunain yn rhyw le yn eich meddwl heblaw yn eich deall? A gyffyrddodd e ryw bryd â theimlad eich calon? A ddarfu i chwi erioed sylweddoli i'ch meddwl fod yn bosibl y byddwch chwithau yn rhoddi eich pen ar y gobenydd i farw, cyn i'r pren almon ddechreu blodeuo?—fod yn bosibl y bydd i liaws eich esgyrn chwi gael eu gofidio gan arteithiau marwolaeth, cyn y bydd i ireidd-dra ieuenctid gilio o honynt? A fuoch chwi erioed yn meddwl y gallai profiad felly fod yn brofiad i chwithau yn eich ieuenctid? "Dyma fi wedi fy nal;—ni chaf weled dyn mwyach ar y ddaear. Ymhen ychydig oriau, mi fyddaf yn gwybod beth fydd byw yn y byd tragywyddol,—beth fydd y rhan sydd wedi ei gosod yno i mi gan yr Hollalluog." Fe all amgylchiad fel yna ddal amryw o honom. Y mae yn sicr o

ddal rhyw rai sydd yma. O ieuenctyd! yr ydych yn peryglu iachawdwriaeth eich enaid ar seiliau na roech chwi ddim benthyg pum' punt i neb ar *security* mor sâl. O! nac eled heddyw heibio heb i chwi ddewis yr Arglwydd, a phenderfynu ei wasanaethu ef. Os gwrthodwch Ef heno eto, ofnwch rhag iddo yntau ddywedyd fel am Ephraim:—"Gad iddo."

Ni a derfynwn drwy ddywedyd gair wrth ddosbarth arall sydd yma:—1. Pa sawl un sydd yma a all yn hyf ddywedyd wrth ei blentyn yn ymyl byd arall,—"Adnebydd Dduw dy dad?" Y mae yn ofnus fod yma lawer iawn heb ei adwaen eu hunain. Y mae hyny yn anfantais annhraethol fawr i'r plant. Y mae genych dduw y mae yn wir; ond y mae eich cydwybod yn tystio na fynech chwi ddim i'r plentyn ei adnabod. Mamon, neu Bacchus, ydyw, onide? Ond cofiwch hyny, y mae y mab yn bur debyg o adnabod duw y tad, beth bynag fyddo. Ac os i'r trueni tragywyddol yr ewch chwi eich hunain, un o'r pethau chwerwaf a'ch cyferfydd yno a fydd eich meibion a'ch merched, wedi dilyn ol eich traed i'r lle poenus hwnw. Yr oedd y goludog yn ofni gweled ei frodyr yn dyfod yno. O dadau! mynwch Dduw y gellwch chwi, gydâ chydwybod dawel, ddywedyd wrth y plant, oddiar gyffiniau byd arall,—"Adnebydd Dduw dy dad."

2. Chwithau sydd wedi myned i oedran mawr heb yr un grefydd. Yr ydym ni wedi ein cau allan genych, meddwch chwi. Nag ydych; ond yr ydym wedi ceisio dangos fod y porth yn gyfyngach o lawer nag y bu. Y mae pob wythnos yr ydych yn oedi ceisio crefydd yn rhoddi rhyw gymaint yn fwy o'r "tebyg i fod yn ol" arnoch. Tyngwch gerbron yr Arglwydd, yn nghymorth gras, y caiff y tebyg fod yn llai o heddyw allan.

3. A chwithau sydd wedi ymgymeryd â'i wasanaeth,—'cofiwch ei wasanaethu â chalon berffaith, ac â meddwl ewyllysgar.' Mynwch grefydd o'r fath oreu. Os na bydd hi yn un fawr, mynwch hi yn un dda. Wrth ei hymarfer, hi a gynydda mewn maintioli. Am a wn i nad yw crefydd sâl yn well na bod heb yr un; ond er hyny, o bob peth salw, crefydd salw yw y peth mwyaf siomedig; oblegid fe ddisgwylir mwy wrthi nag wrth bob peth arall, a hyny mewn amgylchiadau nad ydych yn meddwl disgwyl wrth ddim ond hi. Mynwch hi yn iawn,

ni sioma hi mo honoch fel y bwa twyllodrus yn nydd y frwydr. A dyma y fath ydyw crefydd iawn: un a lle i bob peth ynddi;—Duw; pechadur; Cyfryngwr; Iawn; deddf; cyfiawnhad; sancteiddhad; gras; dyledswydd: mynwch bob cainc yn y rhaff, os ydych yn meddwl iddi eich *windio* chwi i'r nefoedd.

[Nos Wener, Rhagfyr 4, 1851.]

## PREGETH XXVIII.

### CYDWYBOD.

1 SAMUEL xxiv., 5.—"Ac wedi hyn calon Dafydd a'i tarawodd ef, oherwydd iddo dori cwrr mantell Saul."

Y MAE yr hen Destament a'r Newydd,—y naill yn perffeithio y llall. Y mae y Newydd yn fynych yn esbonio'r Hen; ac y mae yr hen, mor fynych, yn esbonio y Newydd. Y mae sylwedd y Newydd yn esbonio cysgod yr Hen; ac y mae esiamplau yr Hen yn cynwys, yn fynych, yr eglurhad goreu sydd bosibl ei gael ar athrawiaethau y Testament Newydd. Ac y mae y testyn hwn, a'r adnodau amgylchynol, yn un o'r rhai hyny. Pe gofynid i ni am eglurhad ar y geiriau hyny yn y Testament Newydd, sydd yn dywedyd fod natur dyn yn ddeddf iddi ei hun, a bod ei feddyliau yn ei gyhuddo neu yn ei esgusodi,—byddai yn anmhosibl i nì roddi esboniad gwell arnynt nag a rydd yr hanes hwn, rhan o ba un a ddarllenwyd yn destyn. Y mae llawer mwy o'r Hen Destament yn hanesiol nag sydd o'r Newydd; ond nid oes yr un hanes ynddo nad ellir ei gymeryd yn esboniad ar ryw wirionedd, a draethir mewn geiriau eglur yn y Testament Newydd. Fel hyn y mae y Newydd yn swm yr Hen, a'r Hen yn fynych yn ddeongliad ar y Newydd. Y mae y gyfraith sydd yn gynwysedig mewn deg o eiriau yn yr Hen, yn cael ei chynwys mewn dau yn y Newydd, sef,—"Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl nerth, ac a'th holl feddwl; a'th gymydog fel ti dy hun." Ond yr esboniad goreu ar ddau air y Newydd ydyw darllen dengair yr Hen. Felly y mae hanes Dafydd a Saul, yn yr Hen Destament yn cynwys

esboniad neu eglurhad ar lawer rhan o'r Testament Newydd. Y mae yn anmhosibl cael eglurhad gwell ar gyngor yr Apostol 'i ddal yn lew ar y gair ffyddlawn,' ac ar eiriau yr Iachawdwr:—"Y neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer," na hanes Saul. Dechreu gwyro mewn pethau bychain a wnaeth yntau;—myned dros air yr Arglwydd i wasanaethu yr Arglwydd. Ei bechod cyntaf ef oedd aberthu y poeth-offrwm ei hun; yn lle aros am Samuel. Ni wyr neb ond yr Arglwydd, pa le y diwedda myned dros ei air Ef yn y peth lleiaf. A phe ceisiem eglurhad goleu iawn ar y seithfed benod o'r Rhufeiniaid, sef ar ras a phechod yn gwrthwynebu eu gilydd;—deddf yr aelodau a deddf y meddwl yn gwrthryfela, y naill yn erbyn y llall;—y mae hwnw i'w gael yn hanes Dafydd.

Gellir cymeryd Saul a Dafydd yn gysgodau o lawer o ddynion y byd ymhob oes. Yr oedd y naill yn ddyn drwg, a pheth daioni ynddo; a'r llall yn ddyn da, a llawer o ddrwg ynddo. Tebygol ydyw nad oedd ond ychydig wahaniaeth rhyngddynt cyn iddynt gael eu dwyn i gysylltiad â'r orsedd. Yr oedd Saul cyn hyny mor ostyngedig a Dafydd, a'i fuchedd, feallai, mor ddichlynaidd a'r eiddo yntau; ond darfu i sefyllfa ddyrchafedig eu dangos yn ddynion tra gwahanol i'w gilydd, a rhoddodd olwg newydd i ni ar y ddau. Dangosodd lawer o ffaeleddau yn Dafydd ac yn Saul; ond yr ydym yn teimlo mai ffaeleddau dyn rhinweddol oedd ffaeleddau Dafydd, ac yn teimlo am hyny o rinwedd oedd yn Saul, mai rhinwedd dyn drwg ydoedd.

Yr oedd Saul y pryd hyn, oherwydd myned dros air yr Arglwydd, wedi ei dori o'r frenhiniaeth; a diau ei fod wedi tybied mai Dafydd oedd "eneiniog yr Arglwydd" yn ei le; oblegid hyny ceisiodd drachefn a thrachefn ei ladd. Ond y mae pob cais o'i eiddo yn dangos peth mor ynfyd yw gwaith dyn yn ymladd yn erbyn Duw. Yr oedd pob amlygiad o gynddaredd Saul yn molianu Duw, trwy balmantu ffordd Dafydd i'r orsedd. Yr ydoedd wedi amcanu amryw weithiau ei ladd â'i law ei hun. Yr oedd hyny yn codi cydymdeimlad y wlad o blaid Dafydd. Anfonodd ef yn flaenor y fyddin i ymladd â'r Philistiaid, gan ddisgwyl iddo syrthio yn y frwydr; ond yr oedd hyny yn rhoddi mantais i Dafydd amlygu ei ddoethineb a'i

wroldeb o'r newydd, ac felly enill calon y bobl ar ei ol. Yr oedd Saul wedi bod ddwywaith yn gyfleus i Dafydd ei ladd; ond nid estynodd ei law yn ei erbyn, ac ataliodd ei bobl hefyd i wneuthur hyny. Diau fod y gwahaniaeth hwn oedd rhyngddynt yn gwneuthur argraff ddofn ar feddyliau y bobl. Ac y mae y benod hon yn cynwys hanes un o'r troion hyn. Wedi i Saul, ar un o'i deithiau erlidgar ar ol Dafydd, ddyfod i ogof yn yr hon yr oedd Dafydd a'i wŷr yn ymguddio, torodd Dafydd gŵr ei fantell; i ba ddiben nis gwyddom, os nad i gael mantais i ddangos nad oedd dim gelyniaeth yn ei galon ato, onide y buasai wedi achub y cyfle i'w ladd. Ond nid yw yn eglur paham y tarawai calon Dafydd ef am beth fel yna. Ni a gawn cyn hyn fod gwŷr Dafydd yn ei anog i ladd Saul, ac feallai fod Dafydd yn teimlo ychydig dueddiad i dalu y pwyth iddo, ac yn tori cŵr ei fantell. Yr oedd hyny yn ddirmyg ar frenin. Hyny oedd un o'r pethau a wnaeth brenin yr Amoniaid i ddirmygu cenhadau Dafydd. Ond gydag i Dafydd wneuthur hyny, y mae ei galon yn ei daraw, ac y mae yn dywedyd yn y fan wrth ei wŷr,—"Na ato yr Arglwydd i mi wneuthur y peth hyn i'm meistr, eneiniog yr Arglwydd, i estyn fy llaw yn ei erbyn ef;" yr wyf wedi myned yn rhy bell eisoes. Cydwybod dyner ydyw y ceidwad goreu rhag pechod. Yr oedd cydwybod Saul mor ddideimlad, fel nad oedd yn ofni ceisio am fywyd Dafydd; ond yr oedd cydwybod Dafydd mor dyner, fel yr oedd hi yn ei daraw am dori cŵr mantell Saul. Yr oedd cydwybod y naill yn iaith y Testament Newydd, wedi ei serio â haiarn poeth, a chydwybod y llall wedi ei phuro drwy ffydd.

Y mae yn ddiau mai y gydwybod sydd i'w deall wrth y gair "calon" yn y testyn. Y mae y gair calon yn yr Hen Destament yn myned weithiau am holl alluoedd yr enaid; ond yn fynychaf, y serch sydd i'w ddeall wrtho. A gall fod y gair hwn yn cael ei gymhwyso at y galluoedd eraill am eu bod oll yn gweithio trwy y serch; neu, fel y bydd y serch, felly y byddant hwythau. Y serch yw llygad yr enaid: os bydd y llygad hwn yn syml, bydd yr holl enaid yn oleu. Y mae y deall yn gweithio trwy y serch. Yr ydym yn darllen am galon ddeallus. Yr ewyllys yr un modd: fe sonir am galon ewyllysgar. Fe leferir am y cof fel cuddio yr ymadroddion yn y

galon; ac felly am bob cyneddf arall o eiddo'r enaid. Os bydd y galon,—y serch,—yn ei lle, ni all fod dim arall yn bell o'i le. Bydd ystwythder yn yr ewyllys, os bydd tynerwch yn y galon: bydd goleuni yn y deall am Dduw a'i bethau, os bydd cariad yn y galon tuag ato. Y rhai "pur o galon" sydd yn ei weled. Bydd nerth yn y cof i gadw yr ymadroddion, os bydd cariad yn y galon. Bydd tynerwch yn y gydwybod, os bydd ychydig wres yn y galon; ond os bydd y llygad hwn yn dywyll, bydd y tywyllwch yn ymdaenu dros yr enaid oll. Wrth "galon" yn y testyn yr ydym i ddeall "cydwybod;" ac ni a gawn gymeryd mantais oddiwrtho i sylwi ar dri pheth:—I. Y gallu hwn sydd yn perthyn i ddyn. II. Fod modd i'r gallu hwn fod weithiau heb weithredu. Cafodd Dafydd gyflawni y weithred heb i'r gydwybod sylwi. III. Nad felly y bydd hi byth: hi a ddeffry, ac a dery. Mewn geiriau eraill, y gydwybod; y gydwybod yn cysgu; y gydwybod wedi deffro.

I. Y gydwybod. Hyny a ddeallir yn gyffredin wrth gydwybod, y gallu sy gan yr enaid i roddi barn ar ei weithredoedd; neu y gallu sy ganddo i wahaniaethau rhwng drwg a da. Ac felly y mae y gydwybod, nid yn unig fel barnwr yn penderfynu caracter yr hyn a wnaed, ond hefyd fel llywydd neu frenin, yn gorchymyn yr hyn a ddylai gael ei wneuthur. Y mae cydwybod yn edrych yn ol, ac ymlaen;—yn dywedyd pa sut y rhodiwyd, a pha fodd y dylid rhodio. Y mae galluoedd eraill yr enaid yn ei wneuthur yn rhyfedd, ond dylai y gallu hwn ei wneuthur yn ofnadwy iddo ei hun; oblegid heb hwn ni buasai yn wrthddrych gwobr na chosb. Nis gallesid ein gwneuthur yn annedwydd iawn, oni bai fod genym gydwybod; ac nis gallesid ein gwneuthur yn ddedwydd iawn heb hon. Yr un peth bron i ni a fuasai gŵg a gwên y Brenin tragywyddol, oni bai am y gydwybod sydd yn ein mynwes: ar hon yn unig y rhoddodd yr Arglwydd argraff ei brïodoliaethau moesol, sef ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd. Hon sydd yn ein gwneyd yn ddeiliaid deddf foesol; ïe, yn gwneuthur yr enaid yn ddeddf iddo ei hun. Mewn un lle, yn ngwlad Canaan gynt, yr oedd cyfiawnder a sancteiddrwydd y Jehofah yn cartrefu, sef yn y deml; yno, o bob man, yr oedd yn ofnadwy, ac i'w arswydo yn ei holl amgylchoedd. Y cysegr ydyw y gydwybod, yn yr hwn y mae

argraffiadau o gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw. Y mae hyny yn ei gwneuthur yn ofnadwy iawn. Y gydwybod, gan hyny, sydd yn ein cysylltu ni â'r byd ysbrydol, fel y mae synwyrau y corff yn ein cysylltu ni â'r byd hwn. Heb y synwyrau, ni buasai dyn yn ddeiliad cymwys i hwn. Beth a fuasai y goleuni i ni heb y llygad, a'r sain heb y glust? Felly ni buasai y byd ysbrydol yn ddim i ni heb y gydwybod. Nid addysg nac amgylchiadau sydd wedi creu y gydwybod, mwy nag y mae y goleuni wedi creu y llygad; neu y sain wedi creu y glust? Gall y goleuni a'r sain berffeithio y synwyrau yna, ond nid eu creu hwynt; felly gall cydwybod gael ei pherffeithio drwy ei hymarfer, a chan amlygiadau newyddion o ewyllys Duw, ond nid ei chreu gan yr un o'r pethau yna. Yr oedd yn rhaid iddi gael ei rhoddi yn yr enaid ar y cyntaf, fel rhan hanfodol o hono. Byddai ei dinystrio hi yn ddinystrio enaid. Ni byddai dyn hebddi yn ddeiliad o fyd moesol neu ysbrydol. Byddai yr un mor anmhosibl, hebddi hi, ei argyhoeddi o gyfiawnder neu anghyfiawnder gweithred, ag ydyw argyhoeddi y dall o beth ydyw lliw, neu y byddar o beth ydyw sain. Cydwybod ydyw y ddolen sydd yn ein cysylltu ni â Duw, fel y mae y llygad yn ein cysylltu ni â'r haul; a hi ydyw y ffordd ar hyd yr hon y gall Duw ddyfod atom. Gwnaeth Duw lawer o ffyrdd i'w weithredoedd a'i roddion ddyfod atom; ond gwnaeth un llwybr iddo ei *Hun*. Nid yw synwyrau y corff ddim ond cynifer o lwybrau i weithredoedd a rhoddion Jehofah ddyfod atom: priffyrdd i drugareddau Jehofah ddyfod i ni ydynt oll; ond nid yw Efe ei Hun ddim yn dyfod ar hyd y llwybrau yna. Gellir dywedyd am danynt, fel y dywedir am yr hyn a welodd Elias wrth enau yr ogof yn Horeb: aeth y gwynt mawr heibio, ond nid oedd yr Arglwydd ynddo;—bu daeargryn, ond nid oedd yr Arglwydd ynddi;—ac ar ol y ddaeargryn, tân; ond nid oedd yr Arglwydd yn y tân;—ac ar ol y tân, llef ddistaw fain;—ac yn hono yr oedd Duw yn dyfod at ei was. Felly y mae y goleuni yn dyfod trwy y llygad; ond nid yw yr Arglwydd ynddo: y mae y sain yn dyfod drwy y glust; ond nid yw yr Arglwydd yn hwnw. Y mae amryw o alluoedd yr enaid yn dramwyfa i weithredoedd Duw: gall llawer o honynt ddyfod i mewn trwy y deall; ond pa faint sydd yn dal cymdeithas â'i weithredoedd

yn y ffordd yna, heb fod Duw yn eu holl feddyliau hwynt? Gall y cof a'r serch gael eu llenwi âg eiddo Duw, ac eto heb ei fod Ef ei Hun yno. Ond y mae yma un llwybr i'r Brenin ei Hun ddyfod i mewn ar hyd-ddo, sef cydwybod. Ac os nad ydyw yn dyfod yn aml i ambell fynwes sydd yma, byddai dda i chwi gofio nad ydyw y ffordd ddim wedi ei chau. Y mae dyn yn debyg i lefiathan llyfr Job, wedi ei wneuthur heb ofn,—haiarn fel gwellt iddo, a phres fel pren pwdr. Y mae wedi ei amgylchu â gemau, a'r rhai hyny mor agos nas daw gwynt rhyngddynt; ond y mae yn perthyn i hwnw un lle tyner,—un man y gall y cleddyf ei gyraedd. Felly dyn; pa nífer sydd wedi cael deall mawr,—gwybodaeth eang,—meddwl galluog; ond y maent yn cyfrif pob picell a saeth a anelir atynt fel sofl. Y maent yn chwerthin ar ysgydwad pob gwaewffon: y mae y gemau mor gryfion.—mor agos at eu gilydd, fel na ddaw gwynt rhyngddynt rhagor saeth; ond y mae yna un lle y gall y neb a'i gwnaeth beri i'w gleddyf agosâu atynt er hyny, sef cydwybod. Níd yw y gemau ddim yn amgylchu hòno. Beth oedd trueni Voltaire, ac eraill o'r dosbarth yna, wrth farw? onid y cleddyf wedi cyraedd drwy y man tyner? Yr oedd llawer iawn o ergydio wedi bod atynt o'r blaen gan weision yr Arglwydd, ond yn ofer. Yr oedd yr holl lyfrau a ysgrifenwyd yn eu herbyn fel gwellt a phren pwdr; ond wrth farw yr oeddent yn ymddolenu gan arteithiau cleddyf anweledig: ond dyna oedd yno,—yr Hwn a'u gwnaeth oedd yn peri i'w gleddyf agosâu atynt. Ni waeth i ni beth fo nerth y gemau fyddont yn ein hamgylchu; os nad amgylchant y gydwybod, y mae y cleddyf yn sicr o'n cyraedd: daw Duw atom trwy hòno.

Y mae y gydwybod wedi ei rhoddi yn llywydd yr enaid; ac fel y cyfryw, y mae yn anmhosibl iddi gael gormod o le. Gall pob cyneddf arall yn yr enaid gael mwy na'i hawl; ond nis gall cydwybod gael hyny. Y mae hi yn aml heb ddigon o rym ganddi i lywodraethu; ond nid ydyw un amser heb yr hawl, ac y mae hi yn honi hòno, pa faint bynag fydd ei nerth hi. Y mae ambell frenin, wedi myned yn rhy wan i lywodraethu, yn rhoddi i fyny (*abdicate*) yr orsedd, neu yn rhoi i fyny yr hawl i law rhyw un arall; ond nis gwna cydwybod hyny; a phan ddaw hi i awdurdod, hi a ddial y cam a gafodd yn ei gwendid.

A byddai yn dda i ni gymeryd cyngor Mair i wasanaethwyr prïodas Cana gynt ar hyn:—'Beth bynag a ddywed *hi* wrthych, gwnewch;' 'oblegid gweinidog Duw ydyw hi, ac fel y cyfryw, nid yw yn dwyn y cleddyf, neu ei hawdurdod, yn ofer.' Y mae yn wir fod y gydwybod wedi syrthio, fel y cawn ni son eto; am hyny y mae hi yn gorchymyn ar gam yn fynych, ac y mae yn aml yn cael ei llithio i gytuno â'r gwrthryfelwyr; ond pan y gelwir hi a hwythau gerbron i roddi cyfrif, hi dry yn *King's evidence* yn erbyn y dyn ei hun. Hi a dry allan y pryd hwnw i fod yn un gwreiddyn chwerwedd, a chwerwa yr holl gwpaneidiau am dragywyddoldeb. Yr oedd mwy na deugain o Iuddewon wedi gwneuthur cyngrair â'u gilydd i ladd Paul; ond daeth y cyngrair ryw sut i glustiau mab ei chwaer ef,—yr oedd hwnw yn perthyn yn rhy agos iddo i beidio mynegi y cyngrair iddo Pa faint o ymgyngreirio yn erbyn Duw y nefoedd sydd yn y fynwes ddynol? ond dyna yr anffawd,—y mae yma rywun yn eu clywed, yn perthyn yn rhy agos iddo i beidio eu mynegi oll: neu, os ydyw y gydwybod yn cyd-ddywedyd weithiau, neu yn ddistaw, heb ddywedyd dim yn erbyn, ymysg y gwrthryfelwyr, y mae hi yn hyn fel Husi yr Acriad hwnw ymysg cynghorwyr Absalom: cyfaill rhagrithiol ydoedd,—yr ydoedd ei gyngor wedi ei fwriadu yn fradwriaeth i Absalom ei hun. Felly yn fynych y mae cynghorion cydwybod halogedig, bradwriaeth i'r dyn ei hun ydynt. Chwi ellwch ei gwobrwyo, fel y gwobrwyodd yr Iuddewon Judas i werthu ei Arglwydd; ond ni waeth i chwi beidio, bydd yn sicr o daflu y wobr yn ol i'ch wyneb, a thystio i'ch erbyn er hyny. Nid ydym i dybied mai daioni tuag at Dduw sydd yn peri iddi hi fod yn ffyddlawn iddo: na, fel Balaam, gorfod sydd arni, fel yr oedd yn rhaid i hwnw fendithio; felly y mae yn rhaid iddi hithau roddi mawredd i'n Duw ni trwy dystio, 'na ddieuoga Efe mo'r anwir,' ac mai "cyfiawn ydyw yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd."

Nid cof yn unig ydyw cydwybod; ond y mae hi yn cofio i ba ddosbarth yr oedd holl weithredoedd y dyn yn perthyn,—y mae hi yn eu cofio hwynt fel da, neu fel drwg. Y mae hi yn cofio fel tyst, ac yn dywedyd caracter fel barnwr. Y mae yr oes gan y gydwybod, nid yn beth a fu, ond yn beth presenol. Fel

y dywedir am y patriarchiaid eu bod yn fyw i Dduw, er eu bod wedi marw i ddynion; felly y mae ein holl oes ni yn fyw y foment hon i'r gydwybod: gall ein bod ni wedi ei hanghofio; ond gall y peth lleiaf ei dwyn hi yn fyw ger ein bron:—"Gwnaethost i mi feddianu camweddau fy ieuenctid," medd Job. Onid oeddit wedi eu hanghofio? Oeddwn; ond heddyw yr ydwyf yn eu meddianu mor wirioneddol a'r foment y cyflawnwyd hwynt. Cydwybod oedd yn gwneuthur hyny. Nid oes odid neb yn teithio i wledydd dieithr na bydd efe yn dysgu arlunio cyn cychwyn, neu ynte yn myned â lluniedydd gydag ef; ac felly y mae yn trosglwyddo y golygfeydd y mae yn eu canfod i bapur, ac yn dyfod â hwy adref gydag ef. Nid cofio am y pethau yn unig y mae y dyn; na, trwy droi at y *pictiwr*, y maent yn hwnw fel yn dyfod ger ei fron eilwaith. Peth fel yna y mae cydwybod yn ei wneuthur. Teithio yr ydym ninau drwy wlad ddieithr: y mae y lluniedydd gyda ni, yn tynu *pictiwr* y cwbl;—nid *pictiwr* y pethau yn unig, ond ein *pictiwr* ni ein hunain yn y gwahanol amgylchiadau yr ydym yn myned drwyddynt. Y mae miloedd o honynt wedi eu tynu ganddi hi eisoes: y gydwybod a ddygodd un *pictiwr* o'r fath gerbron Job, pan feddianodd efe gamweddau ei ieuenctid; a dyna fydd dydd y farn,—y dydd y bydd y Duw mawr yn gorchymyn i'r lluniedydd, sef y gydwybod, osod yr oll mewn trefn o flaen dy wyneb, fel y byddi yn eu meddianu oll eilwaith.

II. Ni a welwn yn y testyn fod modd i'r gydwybod fod weithiau heb weithredu, fel pe byddai yn cysgu. Ac y mae yr enaid y pryd hwnw, fel y dywedir am wlad Israel pan nad oedd brenin ynddi, fod pawb yn gwneuthur yr hyn oedd yn uniawn yn ei olwg ei hun: felly pan y mae y gydwybod heb fod â'r llywodraeth ganddi, y mae pob cyneddf yn yr enaid yn gwneuthur yr hyn sydd uniawn yn ei golwg ei hun. Y mae y Testament Newydd yn eglur ddangos y gall y gydwybod fod mewn ystâd wahanol mewn gwahanol bersonau; oblegid fe sonir am lawer math o gydwybod: cydwybod dda, cydwybod ddrwg,—oleu,—wan,—galed, &c. Nid ydym i feddwl wrth hyn fod llawer math o gydwybod; na, un yw hi, ond gall yr un hono fod mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd; a dylid chwilio beth yw ei hystâd hi, cyn derbyn ei barn hi am

unrhyw beth. Ni a gawn yr apostol Paul yn dywedyd, mai ei orfoledd ef oedd tystiolaeth ei gydwybod; ond y mae yr un apostol mewn lle arall yn methu maddeu iddo ei hun, am erlid eglwys Dduw, er fod tystiolaeth ei gydwybod o'i blaid y pryd hyny. Ond yr oedd ystâd y gydwybod yn dra gwahanol y ddau dro: cydwybod dywyll oedd hi unwaith, a chydwybod oleu y tro arall. Goleuer hi yn mhawb i'r un graddau, a bydd ei barn hi yr un fath ar weithredoedd pawb. Ac y mae yr holl farnau gwahanol y mae cydwybod yn eu rhoddi yn codi oddiar yr un egwyddorion. Os ydyw cydwybod yr Hindŵ yn peri iddo ymdaflu o dan olwynion Juggernaut, y mae hi yn gwneyd hyny, am ei bod hi yn teimlo y dylai un aberthu pob peth i'w dduw, yr un fath yn gwbl ag y mae cydwybod Cristion yn peri iddo yntau farw marwolaeth merthyr dros ei grefydd. Argyhoedder yr Hindŵ nad yw Juggernaut ddim yn dduw, a bydd yr un gydwybod ag sydd yn gorchymyn y weithred, yn ei gwahardd hi mewn moment. Ni all cydwybod, mwy na rhyw farnwr arall, ddim rhoddi barn gywir, os na bydd hi wedi cael goleu clir ar y peth; a diau y bydd miloedd yn cael eu condemnio yn y farn am bethau yr oedd tystiolaeth eu cydwybod o'u plaid; ond yr oedd hi yn gydwybod dywyll. Yr oeddent hwythau yn esgeuluso y moddion oedd yn eu cyraedd i'w goleuo hi. Y mae y capten hwnw a ä â'i lestr yn wirfoddol i'r graig, ac yntau yn gwybod am dani, yn sicr o gael ei gosbi; ac y mae hwnw a'i rhed hi i'r graig yn ei anwybodaeth mor haeddol o'i gosbi a'r cyntaf, os ydyw yr anwybodaeth hwnw yn wirfoddol. Os esgeuluso sylwi ar y *chart* a fu yn achos iddo golli ei long, pwy a dosturia wrtho? Onid yw yn cyfiawn haeddu ei gosbi? Y mae Paganiaid y byd yn eithaf cydwybodol. Y mae eu llestri oll yn colli ar y graig yn eu hanwybodaeth. Ydynt; ond y mae yr anwybodaeth yna yn un gwirfoddol. Yr oedd yr hyn a ellid ei wybod am Dduw yn eglur iddynt. Yr oedd y *chart* yn dangos y graig yn amlwg, pe buasent hwy yn ei hastudio; ac fe'u cosbir am byth o eisiau gwneyd hyny. Yr ydych chwi a minau yn gyfrifol, gan hyny, am ystâd ein cydwybodau. Os ydyw hi yn gydwybod dywyll mewn rhyw fynwes sydd yma, mynwes yn caru y tywyllwch yw hono. A ydyw hi yn gydwybod ddrwg? tydi dy hun sydd

wedi ei llygru hi â gwobrwyon. Os ydyw hi yn gydwybod gysglyd; tydi sydd wedi ei süo hi felly. Hi ddywedodd yn onest y waith gyntaf, pa fath un oedd y weithred, fel y gwnaeth y milwyr am adgyfodiad Iesu Grist; ond wedi iddynt dderbyn y wobr, newidiasant eu hiaith. Felly, dywedodd hithau yn gywir i ddechreu; ond feallai fod y gwobrwyon wedi peri iddi newid ei hiaith. Os ydyw y gydwybod wedi dywedyd ddwy ffordd wrthych am unrhyw beth, y mae bron yn sicr mai y tro cyntaf y dywedodd hi yn iawn. Y mae cydwybod pawb yn nechreu ei oes, fel Micheah yn llys Ahab. Ni chymer wobr. Er bod holl alluoedd yr enaid yn unair o blaid i'r dyn gyflawni gweithred ddrwg;—yr ewyllys yn dywedyd, Gwna yr hyn oll sydd yn dy galon;—y serch yn adseinio yr un geiriau iddo;—a'r deall yn tystio nad ydyw yn gweled fawr niwed yn y peth; eto, y mae yno un prophwyd i'r Arglwydd yn y fynwes, sef y gydwybod,—ac ni ddaw ond geiriau gwirionedd oddiwrthi hi. Ond fel yr Ahab hwnw, y mae yn ofnus nad ydym yn arfer ymofyn â hwnw, nes cael barn y lleill oll yn gyntaf; ac os na bydd y gydwybod yn unair â'r lleill mewn perthynas i'r peth, fe ddefnyddir pob dull i geisio ei llygru fel ag i'w chael felly. Ac y mae Balaam yn siampl neillduol o ddyn wedi llwyddo, trwy ymdrech, i lygru ei gydwybod. Yr oedd gwobr dewiniaeth yn peri ei fod yn awyddus y waith gyntaf i fyned gyda chenhadau Balac; ond dywedodd yr Arglwydd wrtho yn bendant,—"Na ddos gyda hwynt." Y mae yntau yn dor-calonus yn dywedyd wrthynt,—"Yr Arglwydd a nacaodd adael i mi fyned gyda chwi." Pan ddaeth tywysogion anrhydeddusach i addaw gwobr fwy iddo yr ail dro, y mae yn dywedyd wrthynt yn bur ddefosiynol,—"Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw, i wneuthur na bychan na mawr." "Ond," meddai ar yr un anadl, "atolwg yn awr, aroswch chwithau yma y nos hon." Yr oedd yr ymddygiad yn dywedyd,—Mi geisiaf, hyd y gallwyf, gydsynio â'ch cais; a gwyddoch ddarfod iddo drwy ymdrechu lwyddo. "Dos," medd yr Arglwydd wrtho; ond cyn iddo fyned nebpell, y mae Angel yr Arglwydd yn dyfod allan i'w ladd, gan dystio wrtho mai cyfeiliornus oedd y ffordd hono. Yr un un ag a roddodd genad iddo yn dyfod allan i'w ladd. Cyffelyb i hynyma yr

ydych chwithau yn gwneuthur â'ch cydwybod: y waith gyntaf y gofynasoch ei chenad hi i fyned at y peth, hi ddywedodd yn bendant,—"*Na ddos.*" Yr oedd y demtasiwn wedi cymeryd meddiant ar y serch; ond yr oedd y dyn yn gorfod dywedyd wrthi, fel Balaam,—Mi fuaswn yn dyfod, ond ni chaf gan y gydwybod. Daeth y demtasiwn heibio drachefn; buoch chwithau yn bur daer ar y gydwybod, am genad i gydsynio. Wel, meddai hithau, gan fod dy fryd di ar fyned, Dos. Wel, mi allaf fod yn llawen yn awr,—y mae fy nghydwybod wedi tawelu, ac wedi rhoddi cenad i mi fyned. Na, nid oes fawr sail llawenhau genyt eto; oblegid fe ddigwydd yr un peth i ti ag a ddigwyddodd i Balaam. Daw yr un un ag a roddodd haner cenad i ti fyned allan, ymhen ychydig i dy ladd di. Nid oes dim yn haws na chael gan y gydwybod gyd-ddywedyd â'r tueddiadau llygredig, neu ynte gael ganddi dewi; ni raid dim tuag at hyny ond gofyn ei barn hi am beth, a pheidio gwneyd yn ol ei gair hi; a gwneuthur hyny ychydig weithiau, bydd tawelwch mawr yn y gydwybod mewn canlyniad. Ond y mae pob ystâd ar y gydwybod yn well na'r un ddistaw gysglyd; oblegid cwsg twyllodrus,—cwsg sydd yn dinystrio y dyn ydyw. Pe buasai hi yn effro, buasai yn atal y dyn i gyflawni llawer o'r pethau yna. Ni buasai y gelyn ddim yn hau yr efrau, pe buasai y dynion yn effro. Ac er ei bod yn cysgu, nid yw yn cysgu yn rhy drwm i wybod y cwbl sydd yn cymeryd lle. Pan oedd yr Iuddewon yn cyhuddo y wraig hono yn y deml, nid oedd yr Arglwydd Iesu yn cymeryd arno eu clywed; ysgrifenai â'i fys ar y ddaear; ac fel y tybia rhai, ysgrifenu hanes bywyd y cyhuddwyr yr oedd. Ond fel yr oeddynt hwy yn parhau i ofyn a chyhuddo, Efe a ymunionodd, ac a ddywedodd un gair wrthynt, ac a blygodd i lawr i ysgrifenu eilwaith; ond darfu i'r gair a'r ysgrifen lewyrchu i'w meddwl fod hanes eu bywyd oll yn wybyddus iddo ef; ffoisant oll o'i ŵydd. Y mae y gydwybod fel pe byddai yn ddisylw yn aml; ond y mae hi yn ysgrifenu o hyd; a hi a ddywed air yn fuan a bâr i ni oll deimlo fod y pethau mwyaf cuddiedig yn noeth ac yn agored iddi. Os ydyw hi yn fud, nid ydyw yn fyddar. Fe ddywedir nad yw y naill o'r pethau yna yn naturiol ddim yn digwydd heb y llall: os bydd y dyn yn fudan, y mae ef yn fyddar hefyd. Ond nid

felly y mae hi yn ysbrydol: y mae yn ofnus fod yma lawer o gydwybodau mud; ond nid oes yma yr un fyddar. Y mae y cwbl yn dyfod i'w chlustiau, ac y mae hi yn ysgrifenu yr oll. Os ydyw, meddwch chwithau, ni wn i ddim oddiwrthi er's talm. Gall hyny fod; ond nid yw yn ddigon i brofi nad ydyw hi yn gwneuthur. Yr oedd ymddygiadau Saul yn achos yr Amaleciaid wedi peri nad ymwelodd Samuel ddim âg ef mwyach o hyny hyd ddydd ei farwolaeth; ond yr oedd llygad Samuel arno wedi hyny, er nad ydoedd yn dyfod fel cynt i'w argyhoeddi o feiau; ac y mae yn dra thebyg ei fod yn ysgrifenu ei hanes tra y bu byw, oblegid y gweledydd a fyddai yn arfer gwneyd hyny. Os ydyw dy gydwybod di wedi myned yn ddistaw, y mae ei llygaid hi arnat, ac y mae hi yn ysgrifenu er hyny. Os ydyw hi yn gwbl dawel, y mae eich sefyllfa chwi yn un i'w hofni. Y mae trigolion cymydogaeth mynydd tanllyd, yn ofni yn y fan, pan welant gopa y mynydd heb fod yn mygu. Y mae hyny yn arwydd sicr ganddynt fod daeargryn ar gymeryd lle, neu ynte fod afon o'r hylif tanllyd ar gael ei bwrw allan o enau y mynydd; ond tra y bydd yno fwg, nid ydynt yn tybied eu hunain mewn perygl mawr. Y mae eich sefyllfa chwi, sydd â'r gydwybod yn ddistaw, yn un i'w hofni. Y mae hyny yn argoel sicr fod ystorm heb fod ymhell. Pe buasai cwsg yn effeithio i lareiddio ychydig arni, buasai rhyw esgus genych dros ei süo;—ond ni wna hyny; cwsg cyffelyb i gwsg creaduriaid gwenwynig a bwystfilod rheibus sydd yn cysgu yn y gauaf, ydyw cwsg cydwybod. Y mae cwsg y rhai hyny yn peri eu bod yn fwy gwancus, ac yn fwy ofnadwy i'w cyfarfod, wedi deffro na chyn hyny. Felly, pan ddeffroir cydwybod, bydd yn fwy ofnadwy ei chyfarfod am ei bod wedi cysgu.

III. Y gydwybod wedi deffro; a phan ddeffry hi, y mae hi yn sicr o daro. Ni wna ei bod hi yn gydwybod ddrwg ddim ei hatal i hyn: yn hytrach, po mwyaf llygredig fydd hi, mwyaf ofnadwy fydd ei gwaith yn taro. Gall ei bod hi yn ddigon diofn Duw, a dibarch i ddyn, fel y barnwr anghyfiawn yn y ddameg; ond daw rhyw amgylchiadau yn fuan i alw arni hi mor uchel am ddial, nes ei gorfodi i wneuthur hyny. Y mae un o bedwar peth yn sicr o'i deffro hi yn mhawb:—rhagluniaeth; y Gair; angau; neu y byd tragyw-

yddol. Yr ydym ni wrth natur yn debyg i'r bobl hyny fydd yn rhodio yn eu cwsg: yr ydym ninau yn cysgu, ond er hyny yn cerdded, a'n hwyneb ar ddibyn serth. Y mae rhagluniaeth, weithiau, yn taflu rhywbeth ar ein llwybr; yr ydym ninau yn taraw wrtho, ac yn haner deffro. Bryd arall, y mae yr efengyl yn llefain ar ein hol,—"Deffro di yr hwn wyt yn cysgu," ac y mae Ysbryd Duw yn peri i'r llef dreiddio i'n clustiau nes ein deffro. Y mae eraill yn myned ymlaen i ymyl y dibyn heb ddeffro, ac wrth syrthio yn deffro. Deffro yn angau y mae y rhai yna; ac y mae rhai yn cysgu nes disgyn i'r gwaelod, ac yn deffro yn y byd tragywyddol.

1. Y mae rhagluniaeth yn fynych yn deffro cydwybod. Yr oedd cydwybod brodyr Joseph wedi cysgu am ugain mlynedd; ond dim ond rhwymo un o honynt yn y carchar, wele hi yn effro yn y fan. Yr oedd Herod wedi tori pen Ioan Fedyddiwr; ond gydag iddo glywed ar ddamwain am Iesu o Nazareth, deffrowyd ei gydwybod mewn moment gan y newydd. Nid yw heddwch llawer o honoch ond peth arwynebol iawn: ychydig gyfnewidiad yn rhagluniaeth Duw a roddai ben arno, nes peri i chwi ddywedyd,—Hyn sydd yn herwydd fy mrawd. Yr oedd y wraig o Sarepta wedi cael arwyddion neillduol iawn o ddaioni Duw,—hi a'i mab wedi eu cadw yn fyw yn wyrthiol: ond wele ei mab yn marw, a'i chydwybod hithau yn deffroi mewn moment, ac y mae hi yn gofyn i wr Duw,—"A ddaethost ti yma i goffâu fy anwiredd, ac i ladd fy mab?" Yr oedd Judas yn ddiau yn ymffrostio yn ei lwyddiant, wedi cael deg ar ugain o arian mor hawdd; ond gydag i'r Iesu gael ei gondemnio, dyna y gydwybod yn eu gwneuthur yn chwerwach na bustl iddo. Yn wir nid yw eich heddwch chwi ddim yn werth ei feddu, os na ddeil ef bob tywydd. Os ar yr hin y mae ein heddwch yn ymddibynu, yr Hwn a'n gwnaeth a dosturio wrthym!

2. Y mae y gair yn ei deffro hi. Cydwybod wedi ei deffro gan y gair oedd yn dwys-bigo ddydd y Pentecost; ac y mae y gair yn deffro yn fynych, wedi i bob peth rhagluniaeth fethu. Am hyny y mae y diafol yn ofni i ddynion ddyfod o fewn cyraedd y gair, oblegid y mae yn beryglus i'r llef ddistaw fain eu deffro hwynt. Yn hyn y mae rhagorol fawredd nerth y gair,

ei fod yn gallu ymaflyd yn y gydwybod,—yn medru "canmol ei hun wrth bob cydwybod dynion." Y mae y gydwybod yn myned yn fynych yn rhy debyg i Nebuchodonosor: yr oedd hwnw wedi breuddwydio, ond aeth y peth oddiwrtho; ond fe'i cafodd drachefn gan Daniel. Yr oedd geiriau Daniel yn adfywio y peth eilwaith; felly y mae y gair yn deffro y gydwybod. Y mae gan Dduw lawer ffordd i ddeffro pechaduriaid; ond pan y mae yn gwneyd hyny drwy y gair, bwriad o drugaredd sydd yn ei fynwes tuag atom. Pan y mae rhagluniaeth yn deffroi, y mae dyn yn fynych heb wybod beth i'w wneuthur, ac yn ei gyffro fel Judas yn rhoddi dwylaw anwir arno ei hun; ond pan y mae y gair yn deffroi, y mae yno ryw Genad o Ladmerydd i ateb y cwestiwn,—"Beth a wnaf, fel y byddwyf gadwedig." Y mae deffro rhagluniaeth fel y deffro fu ar Pharaoh yn y môr; ond y mae deffro y gair fel y deffro fu ar Israel wrth Sinai. Yr oedd y ddau yn arswydus; ond yr oedd eu diben a'u canlyniadau yn dra gwahanol: y naill yn ddeffro i gymhwyso y dioddef, a'r llall yn ddeffro i beri chwilio am gyfryngwr, ac aberth, a gwaed.

3. Y mae angau yn ei deffro hi. Yr oedd Saul wedi ymadael â Samuel er's talm; ond y noson cyn iddo farw, aeth i ymofyn âg ef drachefn. Yr oedd yr hen brophwyd wedi myned i huno er's cryn amser; ond fe'i codwyd y pryd hwnw, ac y mae yn gofyn i Saul,—"Paham yr aflonyddaist arnaf?" Yr oeddit ti yn gallu myned ymlaen hebof fi er's blynyddoedd. Oeddwn; ond y mae hi yn gyfyng iawn arnaf heddyw. Ond ni wnaeth geiriau Samuel ond ei gwneyd yn fwy cyfyng arno: fe ofnodd yn ddirfawr wedi eu clywed hwynt. Drych cywir o ddyn a'i gydwybod yn deffro yn angau. Y mae hithau yn gofyn,—Paham yr aflonyddaist arnaf? Ni buost yn ymofyn dim â mi er's blynyddoedd. Naddo; ond y mae hi mor gyfyng arnaf,—bu raid i mi dy ddeffroi di. Wel, nid oes genyf ddim gwell i'w ddywedyd wrthyt, medd cydwybod,—na, Dechreuad gofidiau yw hyn oll.

4. Y mae hi yn deffro yn nhragywyddoldeb. Os cwsg hi hyd yno, ni bydd yn cysgu mwy. "Coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd."

Y mae hi i ddeffro yn sicr; a thrwy ba un o'r pedwar dull

hyn y carech chwi i hyny fod? A oes yma rywun a ddewisai bethau ofnadwy rhagluniaeth? neu, a oes yma rywun yn ddigon anystyriol i ddymuno cael llonydd i gysgu hyd angau? neu, a oes yma rywun yn ddigon rhyfygus i ddymuno myned yn ei gwsg i dragywyddoldeb? Nag oes, mi dybiwn. Wel, gwyliwch ynte 'blethu dwylaw i gysgu' drachefn, wedi i lef ddistaw fain y gair eich aflonyddu. Gyda Dafydd, mi a ddymunwn syrthio yn llaw yr Arglwydd; fel Dafydd, i gael ei hergyd hi drwy y gair; oblegid, cofiwch, pan ddeffry hi, hi a dery yn sicr, ac y mae ergyd pawb yn haws ei oddef nag ergyd cydwybod. Wele hi wedi ei deffro gan ragluniaeth yn Judas, a hi a'i tarawodd mor arswydus, nes y mae yn disgyn i'r byd arall gan yr ergyd. Wele hi wedi ei deffro gan y gair ddydd y Pentecost, a buasai y bobl wedi gwallgofi, oni bai iddynt gael balm at y clwyf. Wele hi yn deffro yn Saul yn ymyl angau: hi a'i tarawodd ef nes oedd ei enaid yn ddigon marw, cyn bod na gwaewffon na phicell wedi cyffwrdd â'i gorff. Y mae hi yn taro yn y byd tragywyddol, ac nid oes genym ddim i'w ddywedyd am hwnw, ond na ddaeth i galon dyn feddwl am ei ofnadwyaeth. Y mae yn daro na bydd eisiau dy ail daro, ac y mae yn daro na orphwysi di byth wedi cael yr ergyd. Bu hyny yn gosb gynt mewn rhyw wlad, dedfrydu y carcharor i beidio cysgu: cyflwynid ef i ofal swyddogion, y rhai oeddent i ofalu am ei gadw yn effro. Ac ymhen ychydig ddyddiau, byddai yn marw o hyny. Dyna yw cosb y byd a ddaw: y mae yr Arglwydd wedi cyflwyno dyn i law cydwybod; fe ofala hono na chaiff gysgu yn oes oesoedd. Y mae hi yn ei fynwes yn bryf na bydd marw, ac am hyny y mae y tân sydd o'i amgylch yn anniffoddadwy. Bydd yno fel sarff yn y fynwes byth, ac yn sarff fawr, dorchog, hefyd. Nid yw y creaduriaid gwenwynig ddim yn myned yn fawr iawn ond mewn hinsoddau poethion. Cydwybod wedi myned o wlad gynes efengyl fydd yn anhawdd byw gyda hi yn uffern. Y chwi sydd â'r gydwybod ddrwg, yr ydych yn byw yn ymyl dinystr. Y mae trigolion y trefydd sydd heb fod nebpell oddiwrth y mynyddoedd tanllyd, pan glywant sŵn yn y ddaear, yn gadael eu tai bob un, ac yn rhedeg allan i ganol yr heol; ond os derfydd y sŵn yn fuan, y maent yn dychwelyd i'w tai eilwaith; ac yn fynych, wedi yr oll, yn syrthio yn ys-

glyfaeth i'r dinystr. Un o ddau beth a fuasai yn eu diogelu,—naill ai gadael y fan, neu ynte cael rhyw ddyfais i atal i'r ddaear grynu felly. Felly y mae y dyn a'r gydwybod ddrwg: y mae ychydig sŵn dieithr yn ei ddychrynu;—y mae am foment am ffoi i ryw le arall; ond gyda bod y sŵn yn peidio, y mae ynte yn llonyddu. Ac nid oes genych chwi ddim dau beth i ddewis rhyngddynt; ffoi nis gelli, oni bai i ti fedru ffoi oddiwrthyt dy hun. Ein hunig lwybr ni am ddiogelwch ydyw cael allan ryw ffordd i atal y daeargryn,—rhywbeth i atal y sŵn yn y gydwybod am dragywyddoldeb; a diolch i Dduw fod hyny i'w gael. "Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw?" Pan y cofiaf fod y gydwybod yn llwybr i Dduw ddyfod ataf ar hyd-ddo, byddai yn ddigon i beri i mi wallgofi, oni bai fy mod yn gwybod ei bod yn ffordd y gall gwaed y taenelliad ddyfod hefyd. Byddai yn ddychryn angeuol i mi weled y gydwybod yn agor ei llyfr o fy mlaen, oni bai fod genyf hanes rhyw beth yn y *Llyfr hwn* a ddilea yr ysgrifen sydd yn ei llyfr hi. Ac un o brif ryfeddodau trefn Duw ydyw, y gall hi wneuthur dy gydwybod yn gyfryw ag y gelli di edrych ar ei llyfrau hi heb ddychrynu. Ysbryd cystuddiedig, pwy a'i cyfyd? Ië, yn wir, pwy hefyd? Cydwybod wedi ei haflonyddu, pwy a'i tawela? Y mae miliynau ar y ddaear heddyw yn ceisio gwneuthur. Edrychwch ar y dyn yna yn cerdded ar bigau o heiyrn. Paham? cydwybod gystuddiedig sy ganddo. Dyna un arall yn rhoddi ei gorff i'w losgi: i ba beth? I geisio cael balm i'w gydwybod. Dyna eich cymydog yn ymwerthu i annuwioldeb, i geisio anghofio gofid ei gydwybod;—ond fe ballai yr amser i mi olrhain un o gant o'r ffyrdd sy gan ddynion gyda'u cydwybodau. Ond er y cwbl, ysbryd cystuddiedig heb ei godi ydyw cydwybod ddrwg. Er hyny, wedi i bob dyfais fethu, cymerwch hi at yr Iesu: y mae ganddo Ef beth a bura y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon, ac a wna yr ysbryd cystuddiedig yn galon lawen.

[Dydd Gwener, Mai 23, 1851.]

# PREGETH XXIX.

## MAB DYN YN FARNWR.

IOAN v. 27.—"Ac a roddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, oherwydd ei fod yn Fab dyn."

YR oedd geiriau Iesu Grist a'i weithredoedd, wrth eu cyferbynu â'i ymddangosiad allanol, debygid, yn hollol groes i'w gilydd. Yr oedd ei ymddangosiad yn gyfryw ag i beri i ddynion ofyn am dano,—"Onid hwn yw y saer? O ba le y daeth y doethineb hwn, a'r gweithredoedd nerthol i'r dyn hwn?" Ond yr oedd ei weithredoedd yn fynych yn gyfryw ag i beri iddynt ofyn,—"Pwy ydyw hwn?" Yr oedd un dosbarth o'r tystiolaethau am dano ei Hun, fel yn cadarnhau tyb ei elynion am dano:—"Y mae gan y llwynogod ffauau, a chan adar y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr;" ond yr oedd dosbarth arall o honynt yn cyfateb i'r mawredd oedd yn dyfod i'r golwg yn ei weithredoedd; ac y mae amryw o'r tystiolaethau hyny yn y benod hon. Y mae yma yn hòni hawl mewn amryw bethau sydd yn perthyn i Dduw yn unig, mewn modd anghyfranogol gan un creadur: Y Tad yn gweithio ar y Sabboth fel Creawdwr a Chynaliwr, felly yr oedd yntau;—y Tad yn meddu bywyd ynddo ei Hun, felly yntau;—y Tad yn cyfranu bywyd i'r neb a'i mynai, felly yntau;—y Tad yn Farnwr pawb, felly yr oedd ganddo yntau awdurdod i wneuthur barn. Yr oedd yr archoffeiriad yn rhwygo ei ddillad, gan dystio ei fod wedi cablu, pan yn ei glywed yn hóni pethau cyffelyb i hyn. A phe buasid yn barnu gwirionedd y geiriau wrth ei ymddangosiad, ni buasai neb yn eu tybied yn amgen na chabledd. Ac y mae y testyn yn un o'r ymadroddion rhyfeddaf a draethodd Efe erioed, sef, fod ganddo

awdurdod i wneuthur barn. Yr oedd y gweithredoedd yr oedd Efe wedi eu cyflawni eisoes yn hynod; ond nid oedd dim cymhariaeth rhyngddynt â'r pethau y mae yn eu proffesu yn y benod hon a gyflawnai, sef, codi y meirw, a gwneuthur barn. Yr oedd codi y meirw yn waith mor fawr, fel yr oedd *sect* liosog ymhlith yr Iuddewon yn tybied y peth yn anmhosibl hyd yn nod i Dduw: beth raid fod eu syndod, gan hyny, wrth glywed dyn tlawd, anenwog, yn proffesu y gwnai Efe hyny;—y mwyaf diolwg o ddynion yn proffesu gwneyd gwaith, a dybiai y Saduceaid oedd yn rhy fawr i Dduw ei gyflawni; ac nid yn unig hyny, ond, wedi eu codi, yn honi yr eisteddai ar yr orsedd i benderfynu eu lle hwynt am dragywyddoldeb.

Y mae Ioan yn hynod ymysg yr efengylwyr, yn ei fod yn dal allan y ddwy wedd yma ar garacter Iesu Grist yn eglurach na'i frodyr. Nid oes cymaint o ogoniant ei Dduwdod i'w weled yn tanbeidio yn yr un efengylwr arall ag sydd ynddo ef; ac nid oes mwy, os cymaint, o'i ddynoliaeth yn dyfod i'r amlwg; o'r hyn lleiaf, nid yw "y dyn Crist Iesu" ddim yn cael ei ddarlunio gyda chymaint o hawddgarwch, gan yr un o'r lleill a chan Ioan. Fel Duw, y mae yn ei gyflwyno i'n sylw fel yr hwn oedd er tragywyddoldeb,—yn y dechreuad; yn Greawdydd pob peth; yn ffynonell bywyd; yn Dad yr ysbrydoedd; yn goleuo pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd. Fel dyn, y mae yn hoffi ei ddarlunio yn un cymdeithasgar; llawn o'r serchiadau teuluaidd; yn rhoddi ei bresenoldeb yn y briodas; yn tosturio wrth y chwiorydd profedigaethus oeddent wedi claddu eu brawd; yn ymddiddan â'r disgyblion, nid fel Athraw, ond fel Cyfaill. Ac efe yn unig sydd yn crybwyll am y weithred ryfedd hono o eiddo Iesu, yr hon a ddengys yn fwy eglur pa fath un ydoedd na phe buasid yn ysgrifenu llyfrau lawer i hyny, sef, ei waith yn gofalu am ei fam, pan ar y groes. Ac y mae y dystiolaeth a gawn yn y testyn, a goffeir gan Ioan o eiddo yr Iesu am dano ei Hun, yn cynwys graddau o'r ddau beth sydd yn cael eu dangos ar wahan mewn rhanau eraill o'r efengyl. Y mae yn cael ei ddangos yma yn ddyn, oblegid geilw ei Hun yn Fab dyn; ond y mae yn amlwg ei fod yn fwy na dyn, oblegid y mae ganddo awdurdod i wneuthur barn.

Neges fawr y Testament Newydd ydyw ei gyflwyno gerbron y

byd fel Gwaredwr ; ond mynych y mae y Gwaredwr yn troi gerbron ein llygaid yn Farnwr ;—hawddgarwch Gwaredwr yn cyfnewid i ofnadwyaeth Barnwr. O dan yr Hen Destament, Sinai, sef "y mynydd teimladwy," oedd yr olygfa ofnadwy, oedd yn gosod urddas a mawredd ar drugaredd Duw. Yr oedd yn rhy anhawdd i neb ystyriol fyned yn hyf arni, am mai trugaredd y "Duw a ddaeth o Teman ydoedd, a'r sanctaidd a ddaeth o fynydd Paran," nes y drylliwyd y mynyddoedd tragywyddol, ac y crymwyd y bryniau oesol, wrth ei fynediad. Daeth y Testament Newydd â chyhoeddiad mwy cyfoethog o lawer o drugaredd na'r hen ;—agorodd ei neges trwy ddywedyd,—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da ;" "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Ond rhag i neb ymhyfhau eto, fe dynwyd y llen yr un amser oddiar y farn, i ddangos fod yr Hwn sy fel Gwaredwr yn ddigon trugarog i anghofio myrdd o feiau, fel Barnwr yn ddigon cyfiawn i dalu i bawb yn ol eu gweithredoedd. Ac wrth edrych ar y dull y mae yr Arglwydd yn ymddwyn at ddyn o dan bob goruchwyliaeth, gellid tybied mai trwy ofn i raddau mawr y mae ei gadw yn llwybrau ufudd-dod. Yr oedd hyn i'w ganfod yn y cytundeb cyntaf a fu rhwng yr Arglwydd a dyn. Yr oedd y tad i'w weled yno yn addaw gwobr fawr i'w blentyn; ond yr oedd y Barnwr hefyd i'w ganfod yno: "Yn y dydd y bwytêi di o hono, gan farw y byddi farw." O dan oruchwyliaeth y cysgodau, yn yr un man ag yr oedd trugaredd y Tad yn cael ei gweinyddu oddiar ar y drugareddfa, yno yr oedd y *shecinah* dwyfol, yn dangos fod y Barnwr gerllaw. Ac nid yw yr efengyl yn hyn yn wahanol i'r amlygiadau blaenorol: os ydyw y drugaredd sydd ynddi yn fwy, y mae y farn y mae hi yn ei dadguddio yn fwy arswydus hefyd. Wrth gyhoeddi cyfoeth ei bendithion, y mae hi yn cyfeirio at gleddyf y Barnwr draw. Y mae yr un un ag sydd i ymddangos er iachawdwriaeth i bawb sydd wedi ufuddhau iddo, i ymddangos â thân fflamllyd i roddi dial ar y rhai hyny nad ydynt yn ufuddhau. Fel Gwaredwr yr amlygwyd Ef gyntaf i'r byd, yn yr addewid foreu ; ond y mae Enoch, y seithfed o Adda, yn ei gyflwyno gerbron fel Barnwr; ac y

mae y brophwydoliaeth olaf am dano, yn hyn, yn cytuno â'r gyntaf. Y mae Ioan wrth gloi i fyny yr oraclau dwyfol yn tystiolaethu ei fod yn dyfod ar frys i farnu y byd. Ac yr oedd yr apostolion, yn eu pregethau a'u llythyrau, yn gofalu cysylltu y Gwaredwr a'r Barnwr â'u gilydd. Y mae Pedr, wrth ddiweddu ei bregeth, yn tystiolaethu i'r bobl mai yr Hwn yr oedd efe wedi ei bregethu a ordeiniwyd yn Farnwr byw a meirw; a Phaul, wrth gyhoeddi 'bod Duw yn gorchymyn i bob dyn ymhob man edifarhau,' yn rhoddi pwys yn y cyhoeddiad trwy dystio 'Ei fod wedi gosod diwrnod i farnu y byd mewn cyfiawnder trwy y Gwr a ordeiniodd Efe.' Felly, yn eu llythyrau, y maent yn rhoddi arbenigrwydd i ddydd Crist. Nid oes ganddynt gryfach cymhelliad i ddiwydrwydd, na bod 'yn bur a didramgwydd yn nydd Crist.' Cymerent boen fawr er mwyn cael 'gorfoledd yn nydd Crist;' a galwent ar eu brodyr i wneyd eu goreu, er mwyn cael 'hyder ddydd y farn.' Ac fe ddylai y farn dragywyddol gael ei chadw yn ein golwg ninau o hyd; oblegid os ä hi o'r golwg, y mae yr efengyl yn colli ei grym,—yn colli ei hawdurdod. Yr ydym yn anghofio mai telerau heddwch i wrthryfelwyr ydyw; ac ni byddwn yn mynegi yr holl gynghor, heb ddywedyd gyda Paul, fod 'diwrnod wedi ei osod yn yr hwn y barna Efe y byd, trwy y Gwr a ordeiniodd Efe.' Y mae ofnadwyaeth y farn wedi ei fwriadu er atal i ni gellwair âg amodau heddwch yr efengyl.

Y mae y Gwaredwr wedi ei amlygu yn Farnwr, nid yn unig i roi grym yn yr efengyl, ond hefyd i fod yn sylfaen hyder yn mynwes y rhai hyny sydd yn ufuddhau iddi. Y mae eu holl achos, hyd nes y bydd sêl y byd tragywyddol wedi ei osod arno, i gael ei drafod gan yr un un. A chyda meddwl fel yna yr oedd Iesu Grist yn cysuro Ioan yn Patmos; Dad. i. 17, 18. Yr un un ydwyf fi ag a welaist ti yn marw ar y groes:—yr un un ag y buost ti yn pwyso ar ei fynwes; ac yn mhellach, nid rhaid iti ofni yma, ac nid rhaid iti ofni dyfod i'r byd anweledig, oblegid Myfi sydd yn llywodraethu hwnw hefyd: "Y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth."

Dydd i'w ofni ydyw dydd y farn; oblegid dydd ydyw y bydd y ddeddf yn ymogoneddu,—y bydd cyfiawnder yn codi o bob heol yr oedd wedi syrthio ynddi, ac yn mỳnu ei hawl;—dydd

y bydd ei oleuni yn peri na bydd dim dirgelaidd yn bod ar ei ol. Ni châ neb gam yno, ac ni châ neb drugaredd chwaith: bydd barn yn cael ei rhoddi wrth linyn, a chyfiawnder wrth bwys i bawb. Ond gan mai yr un un a fydd yn eistedd ar yr orsedd i wneyd hyn, ag sydd wedi gwneyd barn a mater y Cristion yn dda yma, gall obeithio yn berffaith am ddianc yno hefyd. Yr oedd Agrippa yn tystio y gallesid gollwng Paul yn rhydd yn Cesarea; ond nid oedd hyny ddim yn brawf y diangai efe yn Rhufain. Ond pe buasai Agrippa yn farnwr yn Rhufain, buasai iddo ddianc ger ei fron yn Cesarea yn sicrwydd y diangai efe yn Rhufain hefyd. Felly, pe buasai Barnwr y byd a ddaw yn un gwahanol i Waredwr y byd hwn, ni buasai i ni ddianc yma yn un sicrwydd y diangem ni yno; ond gan mai yr un un ydyw, gallwn gael hyder ddydd y farn. A mynych y mae y saint, yn y Testament Newydd, wrth sôn am y dydd yn ei berthynas â hwy eu hunain, yn ei gysylltu â Iesu Grist, fel pe buasai y meddwl am dano yn annioddefol mewn un berthynas arall. "Dydd Crist,"—"Dydd yr Arglwydd Iesu,"—"Dydd Iesu Grist,"—"Dydd yr Arglwydd,"—y gelwir ef ganddynt yn ei berthynas â hwynt; ond yn ei gysylltiad âg annuwiolion, "Dydd y farn,"—"Dydd mawr ei ddigter Ef,"—"Dydd dadguddiad cyfiawn farn Duw,"—ydyw yr enwau sydd arno.

Ond y Barnwr sydd yn cael ei gyflwyno ger ein bron yn y testyn, a hyny mewn un wedd ar ei garacter, sef ei wedd ddynol: "rhoddes awdurdod iddo i wneuthur barn hefyd, oherwydd ei fod yn Fab dyn." Mae rhai yn meddwl mai *Mab y dyn* a welodd Daniel yn myned "at yr Hen Ddihenydd," ac yn derbyn awdurdod a llywodraeth ganddo a feddylir yma. Y mae eraill yn meddwl mai *Mab dyn* a olygir,—y naill enw yn cyfeirio ato fel Cyfryngwr, a'r llall fel un o drigolion y ddaear. Y mae yn wirionedd ei fod wedi derbyn "awdurdod i wneuthur barn" fel Mab y dyn, sef fel Cyfryngwr; ond y mae cymhwysder neillduol mewn dywedyd ei fod fel Mab dyn, neu fel dyn, i wneuthur barn. Feallai fod yn rhy anhawdd gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, ac nid yw hyny yn angenrheidiol. Ni a geisiwn sylwi ar rai o'r dibenion a fyddant yn cael eu hateb drwy fod y Barnwr yn "Fab dyn."

I. Yr oedd hyn yn angenrheidiol i berffeithiad ei waith fel

Cyfryngwr. Fe dderbyniodd yr "awdurdod i wneuthur barn" yr un pryd ag y derbyniodd Ef yr "awdurdod i faddeu," sef, pan yr ymrwymodd Efe yn Gyfryngwr. Yr oedd dau ddiben mawr i'w waith cyfryngol, sef amlygu y Tad; a threfnu y dalaeth wrthryfelgar hon; ac yr oedd "awdurdod i wneuthur barn" yn angenrheidiol tuag at gyraedd y ddau.

1. Ni bydd y Tad wedi ei hysbysu hyd nes y bydd y farn wedi ei gwneuthur. "Duw yn ymguddio" ydoedd fel "Duw yr Achubwr," nes i'r Mab ei hysbysu. Er ei fod yn achub, yr oedd yn achub, fel y llefarodd Efe y ddeddf ar Sinai, o ganol y tywyllwch; ond yn awr y mae wedi ei hysbysu fel Achubwr. Y mae y llen oedd ar y cysegr o'r hwn y byddai yn gweinyddu trugaredd wedi ei rhwygo; ac yn lle gweinyddu trugaredd yn y tywyllwch fel cynt, y mae yn awr yn ei gweinyddu hi yn y goleu. Y mae yn maddeu yn awr, nid yn unig am fod yn hoff ganddo drugaredd, fel o dan yr Hen Destament, ond am ei fod yn Dduw ffyddlawn a chyfiawn, oblegid y mae wedi derbyn iawn fel y maddeuai. Y mae cyfiawnder y Tad mewn maddeu wedi ei hysbysu gan y Mab. Ond y mae ei ffyrdd eto yn ei ymddygiadau yn gyfryw, yn ngeiriau y Pregethwr, "na ddichon dyn eu deall." Y mae cwestiwn Bildad,—"Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyd â Duw?" wedi ei ateb; ond y mae cwestiwn Jeremiah heb gael atebiad eto,—"Paham y llwydda ffordd yr anwir, ac y ffyna yr anffyddloniaid oll?" Nid ydym yn gofyn, Paham y creodd? y mae hyny wedi ei hysbysu: nid ydym yn gofyn paham yr achubodd? y mae hyny wedi ei hysbysu; ond yr ydym yn ymresymu âg Ef eto am ei farnedigaethau. Ac ni hysbysir y Tad yn hyn, nes y daw dydd mawr ac eglur yr Arglwydd; ond bydd hwnw yn "ddydd dadguddiad cyfiawn farn Duw;" a phan y ceir ei weled yn bur yn barnu, bydd "yn trigo yn y goleuni" ymhob ystyr. Y mae un nodyn yn anthem y saint yn niffyg eto. "Cân yr Oen" y maent yn ei chanu yn awr; ond yr ydym yn cael yn llyfr y Dadguddiad, wedi i'r barnau gael eu hegluro, eu bod yn canu "cân Moses a chân yr Oen," sef anthem rhagluniaeth ac iachawdwriaeth. Bydd y drugaredd a waredodd o'r Aipht, a chyfiawnder ffyrdd yr anialwch, y naill mor eglur a'r llall y pryd hyny. Y mae geneuau yr annuwiolion eto heb eu cau: y maent

yn gwneuthur cam beunyddiol â character Duw. Er fod gweithred y ddeddf wedi ei cherfio ar eu calon, y mae llwch wedi llenwi y cerfiadau; am hyny y maent yn gofyn yn awr,—"Pa le y mae Duw y farn?" Ond y mae y Mab wedi derbyn awdurdod i "hysbysu y Tad" yn yr ystyr hwn: fe dŷn ei fys ar hyd y llythyrenau sydd ar y llechau; ac unwaith y tŷn Efe y llwch i ffordd, bydd y Tad wedi ei hysbysu yn yr ystyr yma hefyd, a geneuau annuwiolion wedi eu cau am byth. Efe a lwyr argyhoedda yr holl rai annuwiol. Gall fod yma aml un yn ddigon pell oddiwrth adnabod yr Arglwydd; mewn gwirionedd, am yr annuwiol, "nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef;" ond y mae y Mab wedi derbyn awdurdod i "hysbysu y Tad" i bawb. Ac ni bydd ei waith wedi ei orphen tra y bydd un o feibion Adda heb ei adwaen; ac y mae "adnabod Duw, "naill ai yn fywyd tragywyddol, neu yn angau tragywyddol, i bawb.

2. Diben arall i'w waith cyfryngol ydyw adfer trefn i'r dalaeth wrthryfelgar hon; ac ni bydd hynyma wedi ei ateb, nes "iddo wneuthur barn." Y ffyrdd sy ganddo i wneuthur hyn ydyw "tynu â thrugaredd," neu "osod ofn" trwy farnedigaethau, a disgwyl y mae yn awr y bydd i un o'r ddau lwybr ddwyn ei holl elynion at ei draed. Y mae rhai wedi ymostwng, a'r lleill wedi caledu; ond y mae y naill a'r llall heb eu rhoddi yn eu lle eto. Nid yw y rhai sydd wedi ymostwng ddim wedi eu cyflwyno i'r Brenin: y maent fel Absalom wedi dyfod o fewn i gylch yr hen deyrnas,—wedi dyfod o wlad y Philstiaid i Jerusalem; ond y mae rhyw fesur o'r anfoddlonrwydd arnynt eto; oblegid nid ydynt wedi eu cyflwyno i'r Brenin, ac ni bydd y gwaith ddim wedi ei gwblhau hyd nes y cymer hyn le. "O olwg yr Arglwydd" y mae eu gorphwysfa hwynt i ddyfod; ac y mae y rhai sydd heb ymostwng heb eu dwyn i deimlo y canlyniadau hyny eto. Yn eu cysylltiad â hwynt, y mae coron a gorsedd y Brenin yn cael eu dirmygu. Tuag at adferu pob peth, y mae mor angenrheidiol lladd gelynion, ag ydyw arddel y plant. Y mae y byd *yn cyfnewid;*—ei wahanol elfenau yn ymryson am gael eu lle eu hun. Y mae Iesu Grist trwy farw wedi cyflawni y gair a ddywedodd,—"na ddaeth i roddi heddwch ar y ddaear, ond cleddyf." Nid oedd ystâd y greadigaeth naturiol, pan oedd hi yn dryblith,—ei holl wahanol

elfenau wedi eu cymysgu, ddim yn fwy cymhwysol nag ydyw hi yn ysbrydol yn awr; ac yn yr ystyr yma, bydd dydd y farn yn ail greadigaeth. Y gair olaf a ddywedodd Mab y dyn ar y groes oedd "Gorphenwyd," hyny yw, y mae y gwaith sydd i ddwyn y byd i drefn wedi ei orphen. Ac yn niwedd llyfr y Datguddiad, wedi i'r holl weledigaeth gael ei chyflawni, yr ydym yn ei gael yn dywedyd gair hynod iawn, sef "Darfu." Dangosiad yw y gair yma fod "Gorphenwyd" Calfaria wedi ateb ei ddiben:—"Gorphenwyd" y groes yn cael ei adsain yn ol yn y farn. Y mae y Salmydd yn datgan mai felly y bu yn y greadigaeth gyntaf: "Efe a ddywedodd, ac felly y bu;" felly hefyd y cawn ei hanes hi gan Moses yr oedd y "Bydded" a'r "Darfu" yn ymyl eu gilydd; ond nid felly y maent yn ysbrydol. Graddol iawn y mae y "Bydded" yn troi yn "Darfu" yn y greadigaeth newydd. Y mae wedi dywedyd uwchben llawer mynwes dywyll yma—"Bydded goleuni;" ond y mae yna dywyllwch lawer eto. Y mae wedi dywedyd—"Bydded uniondeb yn y galon yma;" y mae yna ddychymygion lawer er hyny. Y mae wedi dywedyd,—"Bydded dy heddwch fel afon, a'th gyfiawnder fel tònau y môr;" ond y mae yna, yn lle heddwch, yn fynych "chwerwder chwerw." Ond pan y dywed Efe—"Darfu," bydd y "Bydded" i eithafion ei ystyr wedi cymeryd lle. Y mae y nef wedi ei dderbyn yn awr; ac yno y bydd, hyd amser adferiad pob peth,—sef hyd nes y bydd y cwbl wedi dyfod yn addfed i'w le. Y mae gan Fab y dyn "awdurdod i wneuthur barn," sef awdurdod i dy roddi yn dy le dy hun. Y mae yn ddigon dychrynllyd i feddwl am dano, fod Iesu Grist wedi myned dan rwymau cyfamod i'w Dad y rhydd Efe ni yn y man y byddwn ni yn gymwys iddo, a dyna ydyw hwnw, lle y caiff Duw ogoniant oddiwrthym. Os gelyn Duw ydwyt, bydd Iesu Grist heb gyflawni ei gyfamod nes y byddi di yn y tywyllwch eithaf. Os mathrwr y deddfau ydwyt, ni bydd Iesu Grist ddim wedi bod yn ffyddlawn i'w ymrwymiadau, nes dy gloi di yn y carchar nesaf i mewn. Y mae ganddo awdurdod i dy roddi di yn dy le dy hun; ond y mae yn dda i ni fod ganddo awdurdod arall, sef, i dy gymhwyso di i le y byddi di yn ddedwydd ynddo. Yr oedd Pilat yn proffesu bod ganddo ef awdurdod i groeshoelio yr Arglwydd Iesu, neu i'w ollwng yn

rhydd; ond nid oedd ganddo awdurdod gyfiawn i wneuthur dim ond un o'r ddau. Ond y mae gan Fab y dyn awdurdod i ddangos cyfiawnder Duw, naill ai trwy faddeu neu trwy gosbi. Os dirmygwch chwi y cyntaf, chwi a deimlwch rym yr ail. Y mae ganddo awdurdod i dy arwain at "afon y bywyd sydd yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen." Y mae ganddo awdurdod hefyd i dy gymeryd di i'r "afon danllyd sydd yn dyfod allan o'r orseddfa sydd yn fflam dân, a'i holwynion yn dân poeth." Ti elli omedd plygu i'r cyntaf; ond ni bydd ymostwng i'r ail ddim ar dy ddewisiad di. Y mae ganddo awdurdod i ddywedyd,—"Ha fab, maddeuwyd i ti dy bechodau;" ac y mae ganddo "awdurdod i dy daflu i'r carchar nesaf i mewn" am y ddyled; ac ni bydd ond un o honynt yn ddiystyr genyt. Y mae ganddo "awdurdod i wneuthur barn."

II. Y mae ganddo fel Mab dyn "awdurdod i wneuthur barn," er mwyn iddo gael ei anrhydeddu yn yr un natur, ac mewn cysylltiad â'r un pethau, ag y dirmygwyd Ef. Arfer yr Arglwydd ydyw dyrchafu gerbron y neb y darostyngwyd, a darostwng gerbron y neb y dyrchafwyd;—gwneyd un yn enwog yn holl dir ei warth, a gwneyd y llall yn warthus yn y lle y bu yn rhodio mewn rhwysgfawredd. Fe gododd Mordechai i enwogrwydd, yn y man y bu yn ddirmygus; fe ddarostyngodd frenin Babilon, yn ngolwg y rhai hyny y bu efe yn ymfalchïo ger eu bron. Yr oedd "uffern oddi tanodd yn ymgynhyrfu" wrth ei gwymp, a'r holl rai oedd wedi eu lladd ganddo yn cyfodi i'w dderbyn, gan ddywedyd,—"A wanhawyd tithau fel ninau? a aethost ti yn gyffelyb i ni?" "Ai dyma y gwr a wnaeth i'r ddaear grynu, ac a gynhyrfodd deyrnasoedd?" Felly, y mae wedi penderfynu y caiff ei Fab ei anrhydeddu, yn y caracter y dirmygwyd Ef;—yn ngwydd, a chan y rhai a fuont yn ei ddirmygu. Bu y Tad, drwy guddio ei wyneb oddiwrtho, megis pe buasai yn ei ddirmygu fel Mab dyn; ac nid oes yr un creadur a ŵyr beth oedd chwerwder hynyna. Yr oedd Saul yn teimlo i'r byw fod Samuel yn tynu ei wyneb oddiwrtho, ac yn erfyn arno am ei anrhydeddu gerbron y bobl; fe dynodd y Tad ei wyneb oddiwrth y Mab, yn ngwydd yr holl bobl; pan oedd nefoedd, daear, ac uffern, yn edrych; ond bydd yr arddeliad arno fel ei Fab lawn mor gyhoeddus ag a fu y gwadiad. Hyn, y mae yn debyg, ydyw ystyr

y geiriau sydd yn dywedyd, "y daw Efe yn ngogoniant ei Dad." Ac fe ddywedodd ei Hun fwy nag unwaith wrth y rhai oeddent yn ei ddirmygu,—" Ar ol hyn y gwelwch Fab y dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef." Ac y mae Ioan yn llyfr y Datguddiad, ar ol dywedyd,—"Pob llygad a'i gwêl Ef," yn enwi yn benodol y rhai "a'i gwânasant Ef;" i ddangos y bydd ei ogoniant uwchaf gerbron y rhai fyddant wedi ei weled, ac ymddwyn yn annheilwng tuag ato, yn ei ddirmyg mwyaf. Yr un gyfraith ag a fu yn ei felldithio, fydd yn ei anrhydeddu: yr un rhai ag oeddent yn gwaeddi, am eu bod yn methu ei oddef yn eu gwydd,—" Ymaith ag Ef," fyddant yn methu sefyll eu hunain yn ei wydd Ef. Bydd dynion yn gorfod ei anrhydeddu ymhob dull yr amlygwyd dirmyg tuag ato. Buont yn cuddio eu hwynebau oddiwrtho "gan mor llygredig oedd ei wedd:" cuddiant eu hwynebau eto, ac nid hyny yn unig, ond bydd y nefoedd a'r ddaear yn ffoi oddi gerbon ei wyneb. Ni wnaed cyfrif o hono yma: ni wneir cyfrif o ddim ond o hono Ef y pryd hwnw. "Yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn," neu, yr ymddengys Mab y dyn,—yr arwydd,—y rhyfeddod. Yr oedd llawer o bethau hynod wedi eu henwi cyn hyn: yr haul fel sachlen flew;—y lleuad yn waed;—y sêr yn syrthio;—nerthoedd y nefoedd yn ysgwyd; ond wedi yr holl bethau yna y daw y rhyfeddod, sef Mab y dyn. Fe'i gwneir yn enwog yn holl dir ei warth. Fe ei hysbeiliwyd Ef o lawer iawn o bethau am ei fod yn ddyn; ond bydd yn cael ei hawl gan bawb fel Mab dyn y pryd hwnw. Ni ofyn neb pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, pan welir Ef yn darllen dirgelion y galon ddynol. Nid amheua neb nerth ei fraich, pan y gwelir Ef wedi cadw yr hyn a roddwyd ato. Ni feiddia neb ddywedyd,—" Eraill a waredodd Efe, ei Hun nis gall ei wared," pan y dywed, "Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi." Y mae Duw Dad wedi myned i'w lw y caiff ei Fab ei anrhydeddu ynom ni yn bersonol. Felly y mae "gogoniant y Tad" yn gysylltiedig, ag "i bawb gyffesu y Mab yn Arglwydd." Y mae ein dewis genym ni am y lle, ond nid am y peth ei hun. Nid pa un a gyffeswch chwi Iesu Grist yn Arglwydd ai peidio sydd ar eich dewisiad chwi, ond pa un ai yn y fan hon a'i ynte yn y fan draw, y gwnewch chwi hyny. Dewiswch y lle; ond cofiwch y bydd raid i'r gliniau yna blygu i

Fab Duw. Os na lwydda trugaredd Duw i'n cael ni i lawr yma at draed Mab y dyn fel Gwaredwr, bydd ei lw yn sicr o'n cael ni i lawr at ei draed fel Barnwr.

III. Y mae ganddo "awdurdod i wneuthur barn" am "ei fod yn Fab dyn," er mwyn i [illegible] amlygu cyfiawnder y farn. Y mae Duw "wedi gosod diwrnod i farnu y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr," neu yn ol y Saesneg, "trwy y dyn, a ordeiniodd Efe." Y mae ei fod yn [illegible] trwy ddyn wedi ei fwriadu i *amlygu* cyfiawnder y farn: nid ei chyfiawnhau hi tuag at Dduw, ond tuag atom ni. Y mae fod y Barnwr yn Fab Duw, yn sicrwydd y gofala Efe am anrhydedd y Jehofah; ond y mae Duw wedi penderfynu, nid yn unig wneuthur cyfiawnder â phlant dynion, ond hefyd *dangos* y cyfiawnder hwnw; am hyny y mae y Barnwr yn Fab dyn. Pan y mae estron yn cael ei gyhuddo o droseddu cyfreithiau y deyrnas hon, y mae ganddo hawl i gael [illegible] rheithwyr fyddant yn ei brofi o'r un genedl ag ef ei hun. Y mae y [illegible] wedi ei gwneuthur er mwyn sicrhau cyfiawnder iddo. Y mae yr Arglwydd wedi gwneuthur [illegible] i sicrhau cyfiawnder y [illegible] hi. Mab dyn sydd wedi ei awdurdodi [illegible]. Nid oes [illegible] ysgod o sail i ameu [illegible] beth na wnaeth Efe [illegible] i ymddangos yn [illegible]—yr oedd yn llawenychu yn [illegible] meibion hi, yn [illegible]. Pan y byddai eglwys yr Hen Destament [illegible] megis brawd i mi," [illegible]—"[illegible]" ac wedi iddo ddyfod, [illegible]—gwnaeth bob math o [illegible] moi enau yn erbyn dirmyg y [illegible] marwol Calfaria. I gael bod yn ddyn, [illegible] ganddo "roddi ei gefn i'r curwyr, a'i [illegible] i'r rhai a dynent y blew," a pheidio "cuddio ei wyneb oddiwrth waradwydd a phoeredd." Y mae rhai yn fawr eu hawydd am flynyddoedd i fyned yn filwyr, neu yn forwyr; ond, wedi iddynt gael eu dymuniad, y mae yn edifar ganddynt am y peth. Yr oedd yntau yn fawr ei awydd am fod yn ddyn; a phan ddaeth cyflawnder yr amser iddo

gael ei ddymuniad, ni chostiodd hi ddim cymaint i neb erioed fod yn ddyn ag iddo Ef. Yr oedd ei gerydd yn dyfod bob boreu;—yr oedd croes ar gyfer pob dydd. Yr oedd mor gynefin â dolur, ag anadlu: yr oedd gofid fel rhan hanfodol o hono. Eto, yn niwedd ei daith, ei iaith ydyw,—"Cuddiwyd edifeirwch o'm golwg." Wel, Hwn "a ordeiniodd Duw yn Farnwr byw a meirw." Ni ddyry Hwn beth bynag ddim "ar ddyn ychwaneg nag a haeddai, fel y gallai fyned i gyfraith âg Ef.' Pe byddai perygl, o'r ochr arall y mae; sef, iddo fod yn rhy ffafriol i ddyn. Yr oedd ar Dafydd ofn ymddiried achos Absalom i Joab: fe wyddai trwy brofiad mai rhai celyd oedd meibion Serfiah: ac y mae yn debygol fod Joab yn hoffi cael cyfle i ddial ar y llanc glandeg, a gwnaeth hyny i'r eithafion. Ond nid rhaid dywedyd wrth y Barnwr,—Bydd dyner wrth y ddynoliaeth; oblegid dyn ydyw Ef ei Hun. Pan fydd y ddynoliaeth yn sefyll ger ei fron, nis gall ddywedyd fel Ahab wrth Elias,—"A gefaist ti fi, O fy ngelyn." Na, ei hen Gyfaill fydd yn ei barnu hi. Y mae yn anhawdd, ïe, bron yn anmhosibl mewn llawer amgylchiad, cael cyfiawnder ar y ddaear. Y mae cael Barnwr o genedl dyn ei hun yn fantais: ond gall hyny fod yn anfantais weithiau. Yr oedd Paul yn gorfod apelio oddiwrth ei gyd-genedl at Cesar. Yr oedd ganddynt hwy ormod o ragfarn tuag ato i wneuthur cyfiawnder âg ef, nac i oddef i neb ei wneyd yn eu plith. Ond y mae y Barnwr yma yn ddyn, ac yn "Fab dyn." Myn rhai mai perffeithrwydd ei ddynoliaeth sydd i'w ddeall wrth y gair yma. Fe'i gelwir yn "Fab Duw" i ddangos perffeithrwydd dwyfol ei natur, ac yn "Fab dyn" i ddangos fod ganddo ddynoliaeth berffaith hefyd. Gyda golwg ar yr un peth y gelwir Ef yr "Ail Ddyn." Ni bu ond un heblaw Efe, sef Adda: dynion o ran ydyw pawb eraill;—rhai yn rhy drugarog i fod yn gyfiawn, eraill yn cario eu cyfiawnder mor bell nes y mae yn myned yn greulondeb. Ond y mae pob peth y ddynoliaeth mewn cyfartalwch perffaith yn "Mab y dyn." Ni bydd ganddo ddim rhagfarn o blaid nac yn erbyn: nid yw cyfiawnder ei natur ddim yn llyncu i fyny ei drugaredd, na'i drugaredd ddim yn cuddio ei gyfiawnder. Pan y bydd cyfiawnder yn cyhoeddi dedfryd angeuol tyrfa yr aswy law, bydd trugaredd yn dywedyd,—"Amen." A phan y bydd

trugaredd yn cyhoeddi gollyngdod i dyrfa y ddeheulaw, bydd cyfiawnder yn ateb,—"Amen." Y mae y Barnwr yn ddyn, am hyny y mae yn debyg na chawn gam ganddo. Y mae yn "Fab dyn;" am hyny y mae yn sicr na chawn gam ganddo. Ni feddylia neb o dyrfa yr aswy law am apelio oddiwrtho at rywun arall. Pe buasai cysgod o le i ameu cyfiawnder y ddedfryd, buasai hyny yn lliniaru ychydig ar y boen; ond gan mai yr Iesu fydd yn ei chyhoeddi, fe fydd ei bod hi yn farn gyfiawn yn rhy amlwg i neb byth ei ameu.

IV. Fe fydd bod y Barnwr yn "Fab dyn," yn cau genau pawb fyddant yn methu sefyll yn y farn; am y bydd y Barnwr ei Hun wedi cyflawni y cwbl y condemnir yr annuwiol o eisiau ei gyflawni, ac wedi gwneuthur hyny mewn amgylchiadau anhaws nag y bu neb erioed ond Efe ei Hun ynddynt. Y mae yn rhy anhawdd yn aml i'r cyfoethog roddi barn gyfiawn yn achos y tlawd, am fod y gwahaniaeth sy rhwng sefyllfa y barnwr a'r cyhuddedig yn ei atal i weled yr achos yn gwbl fel y mae; ond ni bydd neb yn sefyll gerbron Mab y dyn i'w farnu o ddiffyg cyflawni unrhyw beth, na bydd Efe ei Hun wedi gwneuthur y peth hwnw, mewn amgylchiadau llawer mwy anhawdd nag amgylchiadau yr euog ger ei fron. Ni elwir arnom ni i garu Duw, ond "am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni;" ond os äi di i'r byd arall heb wneyd hyny, bydd Mab y dyn yn dy gondemnio, oblegid fe'i carodd Efe Ef, pan oedd yn cuddio ei wyneb oddiwrtho,—pan oedd Efe yn ymddwyn tuag ato fel gelyn. Fe'n gelwir ni i hoffi y ddeddf, am ei bod hi yn ein bywhau ni; ond os na wnawn ni hyny bydd presenoldeb Mab y dyn yn cau ein genau yn y farn, oblegid gwnaeth Efe hyny pan oedd hi yn ei ladd Ef. Os byddi di wedi dy ddinystrio gan demtasiynau y diafol, ni bydd genyt ddim i'w ddywedyd; bydd y Barnwr wedi gorchfygu rhai mwy o lawer. Os gwên y byd fydd wedi dy swyno i'r ail farwolaeth;—os ei dristwch fydd wedi gweithio angau dy enaid, bydd dy enau di yn cael ei gau, oblegid bydd Mab y dyn wedi dyfod drwy fwy o wên a gŵg. Fe lwyr roddodd ei galon i wasanaethu Duw yn yr adeg fwyaf anfanteisiol i hyny a welodd y ddaear erioed; enillodd y nefoedd mewn amgylchiadau myrdd anhawddach na'r rhai y gofynir i ti ei derbyn hi. Yr oedd gwas yr un dalent

yn y ddameg, yn dywedyd mai un caled oedd ei Arglwydd: ac nid oedd yr un o'i gyd-weision wedi bod yn ffyddlawn yn yr un amgylchiadau yn gwbl ag efe; ond ni bydd gan was yr un dalent yr un cysgod o ddadl yn y farn: os bydd rhai o'i gyd-weision wedi cael amgylchiadau mwy ffafriol nag ef, bydd y Barnwr yn gyd-stad ag yntau. Bydd pob genau yn cael ei gau, a'r holl fyd dan farn Duw. Ond y mae ochr oleu i hyn: gan fod y Barnwr yn Fab dyn, gall y Cristion ddywedyd, fel Paul o flaen Agrippa, Act. xxvi. 22,—"Yr wyf yn fy nhybied fy hun yn ddedwydd, O frenin Agrippa, gan fy mod yn cael fy amddiffyn fy hun ger dy fron di heddyw,......gan wybod dy fod di yn gydnabyddus â'r holl ddefodau a'r holion sydd ymhlith yr Iuddewon;" felly y gall y Cristion ddywedyd,—Er holl fraw y farn sydd yn fy mynwes yn fynych, yr wyf yn tybied fy hun yn ddedwydd fod y Barnwr yn gydnabyddus â'r holl ddefodau a'r arholion sydd yn perthyn i'm natur. Fe ŵyr am ei gwendidau hi; yn aml pryd y dymunai hi wylio, fod deddf yn ei haelodau yn gwrthwynebu deddf ei meddwl hi. Ar ol bod yn yr ordinhadau yn gweled gogoniant Duw, fe ŵyr Ef fod yn rhaid myned oddiyno i anialwch y demtasiwn; a phan y bydd y temtiwr yn ymadael, nad ydyw yn gwneuthur hyny ond dros amser. Fe wyr Mab y dyn mor anhawdd ydyw adeiladu y mur ag un llaw, a dal y cleddyf yn y llall. Fe wyr Ef mor anhawdd ydyw cadw y byd hwn rhag cuddio y byd arall, a chadw y llall rhag llyncu hwn; bod heb fod yn ddiog mewn diwydrwydd, a bod yn wresog yn yr ysbryd hefyd yn gwasanaethu Duw ar yr un pryd. Fe wyr ef mor anhawdd yw gwasanaethu Duw mewn tlodi;—y fath le anfanteisiol ydyw y ddaear i ddal cymundeb â Duw. Fe wyr beth oedd methu myned ei Hun at yr orseddfa er gweddio yn ddyfalach, ddyfalach. Ni fynwn i ddim apelio at un Cesar oddiwrtho. Mi garwn gael i'm barnu un fydd "wedi ei demtio ymhob peth yr un ffunud a minau." Yr wyf yn teimlo fy hun yn ddedwydd ei fod yn gwybod drwy brofiad am holl ddefodau ac arholion fy natur. Mab y dyn sydd i wneuthur barn.

V. Fe fydd ei fod yn Fab dyn yn gwneuthur trueni pawb fyddant yn cael eu condemnio ganddo yn annhraethol fawr. Yr hyn oedd yn peri i'r gwarth a'r dirmyg hwnw suddo yn

ddwfn i feddwl y Salmydd oedd, mai nid ei gas-ddyn,—nid ei elyn,—oedd yn ei ddirmygu ; ond ei gydnabod,—ei fforddwr, ei gyfaill. Nid yr hyn oedd yn cael ei wneyd oedd yn ei archolli, ond y neb oedd yn gwneuthur. Bydd dedfryd angeuol y farn yn annhraethol chwerw ; ond peth chwerwach nag angau fydd ynddo a fydd, ei bod hi yn cael ei chyhoeddi gan Fab y dyn. Pe dy elyn fuasai yn gwneuthur hyn, buasai yn haws dioddef o lawer. Gallesit wneyd dy dalcen fel pres yn erbyn cynddaredd llew ; ond pa fodd y dioddefi lid yr Oen ? Os condemnir fi gan yr Iesu, i ba le, neu at bwy y tröaf am ymwared? Darfu i'r Amoniaid a'r Moabiaid geisio un i felldithio Israel ; ond fel hyn y bu hi, medd Nehemiah,—"Darfu i'n Duw ni droi y felldith yn fendith." Y mae pawb ond yr Iesu yn melldithio yn awr. Y ddeddf yn dywedyd fe ddylai hwn farw ;—cyfiawnder yn dywedyd,—Yr ydwyf fi wedi ei ddal yn cyflawni gweithredoedd nad oes ond marwolaeth yn gosp ddigonol am danynt; —os ydyw Iesu i gael bod mewn parch, meddai sancteiddeiddrwydd, ni ddylai hwn ddim cael byw ; ond fe ddywedodd yr Iesu,—"Byddwch yn dyner wrtho, er fy mwyn i." Nid wyf fi yn ei gondemnio. Ac am hyny yr ydym ni yn rhyddion heddyw. Ond os dywed yr Iesu, "Ewch," o ba le y daw "Deuwch?" "Ewch" oedd yn ngenau pawb ond ei enau Ef o'r blaen ; ond yr oedd "Deuwch" yr Iesu yn cadw "Ewch" pawb yn ddirym. Ond unwaith y dywed Efe "Ewch," fe rydd hyny rym yn "Ewch" pawb arall, nes y byddi di yn ffoadur, heb le i ffoi, o'r dydd hwnw allan byth.

Yr Iesu yn melldithio ! y mae y meddwl yn ddigon arswydus i beri i'n cnawd a'n hesgyrn grynu; oblegid nid ydym yn meddwl am ddim ond bendith oddiwrth yr Iesu. Y mae pob enw a roddodd efe arno ei Hun yn gyfoethog o fendithion :—Iawn, Eiriolwr, Mechnïydd, Noddfa, Lloches, Bwysi Myrr, Rhosyn Saron, Bara y bywyd, Ffynon y dyfroedd byw, Gwaredydd, Tywysog Iachawdwriaeth, Ceidwad dyn; ac fel ei enw, felly yntau. Pan oedd yma yn nyddiau ei gnawd, yr oedd yn Iachawdwr yn nghanol cleifion,—yn drugaredd yn nghanol trueni, —yn fywyd ymysg marwolion. Wedi methu ymhob man, fe dalai apelio at yr Iesu wedyn. Yr oedd Efe yn lloches wedi i bob un arall gael ei hysgubo i ffordd. Yr oedd Efe yn fywyd

hyd yn nod wedi i gyntaf-anedig angau fwyta y cryfder. Yr oedd Efe yn Samaritan da, wedi i'r offeiriad a'r Lefiad fyned heibio yn ddisylw. Ni ddaeth i ddistrywio eneidiau dynion mewn un modd, ond i'w cadw. Pan oedd pawb yn disgwyl melldith o'i enau ar y groes, bendith a ddaeth; ac wrth ymadael â'n byd ni, fe gododd ei ddwylaw, ac a fendithiodd. Golwg arno yn bendithio oedd yr olaf a gafodd y ddaear; ac y mae ei fendith y foment hon yn ireidd-dra ar y ddynoliaeth,—yn rhwystro i bob melldith ei niweidio hi. Ond, beth fydd cael Ceidwad dyn i'w ddinystrio? Beth fydd cael y bywyd tragywyddol yn weinyddwr angau? Beth fydd cael y Lloches ei Hun yn gartref dinystr? Beth fydd cael addfwynder yr Oen wedi ei droi yn llid? Gellir gofyn wedyn,—"Pwy ydyw yr Hwn sydd yn cyfiawnhau," gan mai yr Iesu yw yr Hwn a ddamniodd? Bydd llawer o seiniau dieithr, a golygfeydd hynod, yn y farn; ond ti a anghofi bob sŵn ond adsain *melldith yr Iesu.* Ni bydd argraff yr un wyneb yn aros byth ar dy feddwl di, ond wyneb yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc.

Cofiwch dri gair wrth i ni ddarfod: Y mae barn i fod; Yr ydym ninau i fod ynddi; Mab y dyn fydd y Barnwr. Ond,—

1. Y mae barn i fod. Y mae ei thrwst hi i'w glywed drwy y Bibl oll. Y mae ymhob llyfr rywun yn ei phregethu hi, o Enoch, y seithfed o Adda, hyd Ioan, yr olaf o'r apostolion. Y mae rhai o'i harwyddion hi i'w canfod ymhob ardal; ïe, y mae un sydd yn tystio am dani yn cartrefu ymhob mynwes. Y mae hi i fod.

2. Yr ydym ninau i fod ynddi. Nid fel edrychwyr. Gwelsom lawer diwrnod mawr;—buom yn syllu ar lawer golygfa hynod. Edrychwyr yn unig oeddym: ond nid edrychwyr a fyddwn ni yn y farn. Nid *actors* ychwaith,—rhai yn ymddangos mewn caracter benthyciol. Gallwn fod felly yma; gallaf fi *actio* y pregethwr, a chwithau *actio* pobl yr Arglwydd; ond yno bydd twyll ffug-ymddangosiad wedi darfod am byth, i roddi lle i wirionedd. Nid peth bychan ydyw bod yn ddyn, pe na buasai dim ond y farn yn dangos hyny; oblegid y mae beiau dyn, pe na bai dim arall, yn sicr o'i *windio* o bob dyfnder y gall fyned iddo nes ei gael gerbron yr orsedd wen fawr.

3. Gan Fab y dyn y mae awdurdod i'w gwneuthur hi. Y mae, pa fodd bynag, yn werth ein bywyd i ni wybod, ei fod yn Farnwr heddyw mewn llys bychan o'i gymharu a llys y dydd olaf; ond y mae yr un awdurdod yn perthyn iddo yn y bychan, ag sydd ganddo yn y mawr. Yn y mawr ni wna ond cyhoeddi mater pawb fel y bydd e; ond yn y bychan, y mae ganddo awdurdod i wneuthur y mater drwg yn un da: ac yn wir, yr wyf fi am apelio oddiwrth y llys mawr at yr un bychan;—oddiwrth y Barnwr at y Gwaredwr; oddiwrth y dyn ar orseddfainc y farn, at Fab dyn ar orseddfainc y gras.

[Ysgrifenwyd, Mai 29ain. 185[illegible].]

## PREGETH XXX.

### DUW, CARIAD YW.

1 Ioan iv. 16.—"Duw, cariad yw."

DAU gwestiwn y bu dynion yn chwilio yn hir am ateb iddynt, sef—Pwy oedd Dduw? A pha fath un yw Duw? Ond buasai y ddau yn anatebadwy oni bai am y Bibl. Yr oeddent yn methu wrth chwilio a chael allan i ddim sicrwydd, pwy oedd Dduw; ac yr oeddent yn bellach fyth oddiwrth y gwirionedd, pan geisient ddywedyd,—pa fath un oedd Duw. Ac efallai mai am eu bod yn methu penderfynu pa fath un oedd, yr oeddent mor bell oddiwrth gael allan pwy oedd. Yr oeddent yn methu dirnad pa sut y gallasai yr un un wneuthur pethau mor wahanol i'w gilydd; am hyny meddylient fod yn rhaid bod duwiau lawer. Ond y mae y Bibl yn egluro y dirgelwch hwn trwy ddywedyd,—"Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." Ond wedi cael goleuni ar hyny, y [illegible] yr un Arglwydd hwn yn hollol anadnabyddus, [illegible] Bibl. Y mae y testyn yn atebiad i'r ail gwestiwn, sef pa fath un yw Duw? Wrth y rhai hyny sydd yn addoli llawer o dduwiau, dywed y Bibl,—"Un Duw sydd;" ac wrth y rhai hyny sydd yn methu gwybod pa fath un ydyw Duw, y mae yn dywedyd,—"Duw, cariad yw."

Nid peth hawdd oedd argyhoeddi y byd mai un Duw sydd; ond mwy anhawdd o lawer yw argyhoeddi fod hwnw yn Dduw cariad. Yr oedd plant Israel yn gollwng y peth cyntaf dros gof yn fynych; ond yn Babilon, [illegible] llwyr argyhoeddwyd hwynt mai un oedd eu Harglwydd. Ond y maent hwy, fel

bron bawb, heb eu hargyhoeddi eto, mai "Duw, cariad yw." Y mae llawer i'w ddywedyd am Dduw, heblaw mai "Duw, cariad yw;" ond nid yw credu dim arall am dano yn cadw, ond hyn. Ac erbyn chwilio y galon ddynol yn fanwl, nid yw hi mewn gwirionedd yn ameu dim am Dduw ond ei fod yn Dduw cariad. Gall ei bod hi yn ddiystyr o'i holl-wybodaeth; gall ollwng dros gof fod iddo fraich a chadernid;—gall ei hymddygiadau ddangos ei bod yn meddwl fod yr Arglwydd wedi gadael y ddaear; ond gwasger hi i gyfyngder, ceir gweled yn y fan ei bod hi yn credu bod ei lygaid ef yn gweled ei ffyrdd hi:—bod nerth ei fraich ef yn peri iddi grynu rhag ei ddyrnod; a'i bod hi yn gofyn yn wyneb ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd,—"Pwy a ddichon sefyll" ger ei fron? Ond nid yw y pethau sydd yn peri iddi hi gredu pob peth arall am Dduw, ond yn peri iddi ameu yn fwy ai "Duw, cariad yw." Ameu ei gariad a fu yn achos o'n dinystr ni; a'r foment y creder ynddo â'r holl galon fel Duw'r cariad, byddwn yn gadwedig gan yr Arglwydd.

Hysbysu ei nodweddiad i'r byd y bu yr Arglwydd am bedair mil o flynyddau; ond yn ystod yr oesoedd hyny, gwneuthur ei Hun yn adnabyddus yn benaf fel un i'w ofni yr ydoedd. Nid oedd ei drugaredd a'i ras ond fel seren, yn ymddangos yn nghanol tywyllwch, yn lle bod fel haul, yn difa y tywyllwch i gyd. Ond yn y Testament Newydd, y mae y llen wedi ei rhwygo oddiar ei garacter mawr; ac yn awr y mae daioni ei natur, nid fel seren yn nghanol tywyllwch, ond fel haul, yn ei ymlid oll i ffordd: "Duw, cariad yw."

Y mae yr amlygiadau y mae Jehofah yn ei roddi o hono ei Hun, yn dal rhyw gyfartaledd y naill i'r llall. Y mae yr amlygiadau o'i drugaredd, yn dal rhyw gyfartaledd, i'r amlygiadau o'i gyfiawnder a'i sancteiddrwydd. Nid oedd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd wedi eu hamlygu, ond mewn rhan, o dan yr hen oruchwyliaeth; oblegid hyny, nid oedd ei drugaredd ychwaith wedi ei hamlygu ond mewn rhan; ond o dan y Testament Newydd, fe amlygwyd ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd i'r eithafion; am hyny fe amlygwyd ei ddaioni felly hefyd. Fe ddywedir yn awr, nid ei fod yn drugarog, ond "Duw, cariad yw." Nid yw yr Arglwydd yn arfer ceisio gan

ddyn gredu dim heb ddigon o sail i hyny; ac nid oedd digon o brawf ei fod, yn ystyr eangaf y gair, yn Dduw y cariad, cyn ymddangosiad y Mab yn y cnawd; am hyny ni chyhoeddodd ei Hun i'r byd wrth yr enw, cyn rhoddi y prawf o hyny. Y mae yn dywedyd wrth Moses, mai o dan yr enw Duw hollalluog yr ymddangosodd Efe i Abraham, Isaac, a Jacob; ond erbyn yr enw Jehofah,—Cyflawnydd ei addewidion,—Gorphenydd yr hyn a ddechreuodd,—"ni bum adnabyddus iddynt;" ond yn awr, medd Efe wrth Moses, "Myfi yw Jehofah,"—yr wyf yn cyflawni yr addewid, ac yn gorphen yr hyn a ddechreuais;—yr wyf yn gwneuthur yr hyn sydd yn yr enw, am hyny mi a'i defnyddiaf o hyn allan: "Myfi yw Jehofah." Yr un modd ni bu yn adnabyddus wrth yr enw "Duw, cariad yw," o dan yr Hen Destament; ond wedi gwneuthur yr hyn oedd yn yr enw, y mae yn ei gymeryd: "Duw, cariad yw."

Datguddiodd yr Arglwydd Iesu, o dan y Testament Newydd, ddau beth mewn perthynas i Dduw oeddent yn aneglur o'r blaen, sef mai "Ysbryd yw Duw," ac mai "Duw, cariad yw." Yr oedd tywyllwch dynion ynghylch ysbrydolrwydd ei natur, yn peri iddynt edrych ar ei wasanaeth fel peth ffurfiol, cynwysedig yn unig mewn corph allanol o ddefosiynau; ac yr oedd eu tywyllwch ynghylch daioni ei natur, yn gwneuthur ei wasanaeth yn iau galed iddynt. Ond "Ysbryd yw Duw," medd Iesu Grist; am hyny, nid yw *lle* i addoli ddim o'r pwys mwyaf; y peth mawr yw cael y dyn oddi mewn i ysbryd y gwaith. "Duw, cariad yw;" am hyny, nid ofn yw ei wasanaeth, ond gwir fraint. Y mae ei wasanaeth i fod yn wasanaeth calon, a hono yn galon o dan lywodraeth cariad: "Duw, cariad yw."

Yn awr, ni a alwn eich sylw at nodweddiad Duw, fel Duw'r cariad, gan obeithio y bydd i hyny beri i ni oll gredu a theimlo mai un felly ydyw.

I. Ni a sylwn ychydig ar ystyr y geiriau, neu pa beth sydd i'w ddeall wrthynt. Nid yw y mynegiad hwn am Dduw yn galw yn ol, nac yn gwadu dim, a ddatguddiwyd am dano yn flaenorol. Y mae y cwbl a ddywedodd yr Hen Destament am dano yn wir, er fod y Newydd yn dywedyd,—"Duw, cariad yw." Am hyny, nid yr hyn a olygir gan lawer wrth ddywedyd fod Duw yn drugarog, sydd i'w ddeall wrth yr ymadrodd,—

"Duw, cariad yw;" oblegid i'w gael yn drugarog, yn ol eu tyb hwy am hyny, byddai raid ei ysbeilio o'i holl-wybodaeth neu ynte o'i gyfiawnder a'i sancteiddrwydd;—byddai raid ei gael yn un heb weled eu hymddygiadau, neu, er eu gweled, fel y Galio hwnw, heb ofalu dim yn eu cylch. Ond nid Duw cariad yw, am nad ydyw yn gweled, ond y mae yn Dduw cariad er ei fod yn gweled. Nid Duw cariad ydyw am nad ydyw yn gyfiawn, ond er hyny. Felly nid ydyw y testyn yn galw yn ol yr un iod o ddesgrifiadau mawreddog y prophwydi o hono; na, y Duw a ddaeth mor ofnadwy o Teman, a'r Sanctaidd a ddaeth o fynydd Paran, ydyw Duw y cariad. Ac nid yw y testyn ychwaith yn galw yn ol, yr un o ofnau y galon ddynol: nid yw yr un sydd wedi ofni fwyaf ar Dduw, wedi ei ofni i'r filfed ran i'r graddau y mae yn ofnadwy; eto, er fod y pethau yna oll yn wir,—"Duw, cariad yw."

Yr agoriad i holl garacter Duw ydyw y testyn. Y mae ambell ddyn, er eich bod yn gydnabyddus â llawer iawn o'i weithredoedd, yr ydych yn methu yn lân a deall ei garacter; nes y clywch chwi ryw un peth am dano; ond, wedi clywed hwnw, yr ydych yn canfod y rheswm am ei weithredoedd oll. Hynyna y mae ymadrodd y testyn yn ei wneuthur â nodweddiad yr Arglwydd. Yr ydym yn esbonio ei gyfiawnder gan gofio mai "Duw, cariad yw;" yr ydym i ddeall ei sancteiddrwydd yn ngoleuni hyn,—"Duw, cariad yw." Nid ydym i feddwl nad ydyw pob priodoledd yn anfeidrol yn Nuw, ac felly yn ogyhyd ac yn ogyfuwch. Y mae ei sancteiddrwydd yr un faint a'i gyfiawnder, a'i gyfiawnder yr un faint a'i ddaioni; ond y mae pob priodoledd yn gweithredu fel ag i gynyrchu yr argraff hono ar feddyliau creaduriaid rhesymol, mai "Duw, cariad yw." Fe wnaeth yr Arglwydd bob peth er ei fwyn ei Hun, sef er mwyn amlygu ei garacter. Ac wedi cymeryd golwg ar y cwbl, a gofyn beth yw caracter Duw, beth yw y casgliad yr ydych yn ei dynu oddiwrth yr oll? Y testyn yw yr ateb:—"Duw, cariad yw" Yn lle gwadu ei gyfiawnder a'i sancteiddrwydd, y mae hyn yn hytrach yn tystio fod pob amlygiad a roddodd o honynt yn tueddu at brofi mai "Duw, cariad yw." Os cymylwn ni yr un briodoledd o'i eiddo i ddangos ei gariad, yr ydym i'r un graddau yn lleihau ei gariad. Os ysbeiliwn ni Ef o'i

gyfiawnder, o'i sancteiddrwydd, o'i hollwybodaeth, i'w wneuthur yn Dduw cariad, yr ydym yn ysbeilio ei gariad o bob dymunoldeb; ond y mae caru pechadur er gweled ei holl ffyrdd;—ei garu, er ffieiddio ei holl ymddygiadau;—ei garu er penderfynu cosbi ei feiau; y mae yn rhaid fod y cariad a all gydfod yn y fynwes a'r pethau yna yn anfeidrol fawr. Y mae ei fod yn Dduw cariad yn cynwys,—(1.) Fod pob priodoledd yn ei natur yn cael ei defnyddio yn wasanaethgar i ddangos ei gariad. (2.) Y mae yn cynwys, y gellir darllen ar ei holl weithredoedd ei fod yn ymhyfrydu mewn cynyrchu dedwyddwch.

II. Yn awr, ni a enwn rai pethau i ddangos fod yr Arglwydd wedi profi ei Hun yn un felly, ymhob amlygiad a roddodd o hono ei Hun. Tri amlygiad mawr sy genym o Dduw, sef Creadigaeth, Rhagluniaeth, ac Iachawdwriaeth; ond y mae yn rhaid i ni gymeryd y tri yn eu cysylltiad a'u gilydd, i gael allan nodweddiad Duw. Ni buasem yn gallu dywedyd,—"Duw, cariad yw," i sicrwydd oddiwrth y greadigaeth, pe buasem heb y gair, er fod rhai o'r rhai sydd yn gwadu y gair yn ceisio gwneuthur hyny. Ond paentio Duw o'u dychymyg eu hunain y maent. Y mae pethau yn y greadigaeth anmhosibl eu cysoni â chariad Duw, heb i ni gael esboniad y Bibl arnynt; ond y mae y greadigaeth, yn ngoleuni y gair, yn dystiolaeth i wirionedd y testyn. Pan orphenodd yr Arglwydd waith y chwe diwrnod, yr ydym yn cael iddo ddywedyd,—"Wele da iawn ydoedd;" a diau ydyw y buasai yn hawdd i bawb ganfod mai Duw da oedd wedi bod yn gweithio. Ond nid ydyw hyny mor eglur heddyw; eto ni ddylem farnu y Gweithiwr wrth yr hyn ydyw y gwaith yn awr; ond yn hytrach wrth yr hyn ydoedd pan y daeth odditan ei law Ef. Y mae llawer iawn o'r greadigaeth yn dioddef; ond nid oes neb eto, er chwilio yn fanwl, wedi cael allan gymaint ag un creadur ag y mae yn eglur oddiwrth ei gyfansoddiad, ei fod wedi ei fwriadu i ddioddef. Y mae y dioddef sydd yma yn rhywbeth a ddaeth i mewn ar ol y trefniant cyntaf. Rhyw ddarostyngiad sydd wedi bod ar y creadur, o'i ystâd gyntefig, i'r "oferedd" yma.

Ac y mae yr apostol, yn ei araith odidog yn Athen, wedi dywedyd geiriau hynod ar ddaioni Duw fel Creawdwr, pan

ddywed ei fod wedi penu yr "amseroedd rhagosodedig," a "therfynau preswylfod" holl drigolion y ddaear, "fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano a'i gael." Y mae y geiriau yn cynwys, nad ydyw yr Arglwydd wedi trefnu lle preswylfod neb, mewn un wlad, heb fod yno ddigon o brofion ynddi mai Duw cariad oedd, i beri i'r trigolion ymbalfalu am dano, a'i geisio. Os trefnodd yr Arglwydd le preswylfod yr Arabiad yn y diffaethwch poeth, fe ofalodd fod yno ffynonau dyfroedd a chreaduriaid i'w wasanaethu, cymwys i fyw mewn hinsawdd felly; a mwy na'r oll, fe roddodd natur wyllt iddo yntau i ymhyfrydu yn ngwylltineb ei gartref. Os trefnodd Efe y coedwigoedd a'r dyffrynoedd eang yn gartref i'r Indiad, fe drefnodd yr helwriaeth yno hefyd i'w gynal; planodd ynddo yntau gariad at grwydro mewn unigrwydd, fel mai digon o le, ac nid digon o bobl, sydd yn angenrheidiol i'w ddedwyddwch. Os trefnodd Efe rai i fyw mewn hinsawdd mor boeth, nad all natur dyn ddim ymgynal i weithio nemawr ynddi, fe drefnodd hefyd fod y ddaear yno i ddwyn ffrwyth bron o honi ei hun, fel nad ydyw yn gofyn mwy o lafur nag y gall y corff ymgynal dano. Os trefnodd Efe rai i fyw yn y Gogledd oer, lle nad ydyw y ddaear yn cynyrchu nemawr heb lafur mawr, fe drefnodd hefyd fod llafur mor angenrheidiol i hapusrwydd ac iechyd dyn yno, ag ydyw peidio llafurio i'w hapusrwydd yn y dwyrain. Os trefnodd Efe rai i fyw ymysg y mynyddoedd, fe ofalodd fod yno drysorau cuddiedig iddynt i'w cloddio allan, i gael moddion cynhaliaeth. Mewn gair, fe ofalodd fod cartref pawb mor hapus fel y gallesid yn naturiol ddisgwyl iddynt ymofyn pwy oedd wedi trefnu cymaint o ddedwyddwch iddynt. Fe drefnodd le eu preswylfod, "fel y ceisient yr Arglwydd." Mae y modd yr ymddygodd at Adda yn gysgod o'r modd y mae yn ymddwyn at ei holl blant. Pe buasai yn creu Adda y dydd cyntaf, neu yr ail, buasai yn anhawdd darllen,—"Duw, cariad yw," yn hyny; oblegid nid oedd yno ddim modfedd o dir sych iddo sefyll arno. Pe buasai yn ei greu y trydydd, yr oedd yn fyd oer, gwâg, heb haul na lleuad yn perthyn iddo. Ond ar y chweched, yr oedd pob peth wedi ei drefnu yn ei le, fel yr oedd yn naturiol iddo yn y foment geisio yr Arglwydd. Felly i ryw raddau, er mai graddau llawer îs nag Adda, y mae hi gydâ

phob un o'i blant ef; Duw cariad yw y Duw fu yn creu. Ac ni wneir cyfiawnder â character Duw, wrth ei gasglu oddiwrth y greadigaeth, heb gofio pwy sydd yn byw ynddi yn awr. A dim ond cofio hyny, bydd pob peth a all fod yn cymylu ei gariad, yn hytrach yn ei ganmol. Pe ymwelech chwi ag adeilad mawr sydd mewn rhan o Lundain, fe'ch arweinid iddo trwy ddrysau cedyrn, y rhai a farid ac a glöid gyda'ch bod drwodd: oddimewn chwi a welech liaws mawr o bobl, pob un o honynt mewn ystafell unig, ac ychydig ddarpariadau ynddi tuag at ei wneuthur yn ganolig o gysurus; ond ni feiddia yr un o honynt fyned y tu allan i'r muriau, na gwneuthur dim ond yn ol rhyw reolau pendant, oblegid y mae yno rai yn gwylied eu holl ysgogiadau. Wrth edrych ar y caethiwed sydd arnynt, a'r sylw manwl sydd ar eu holl ymddygiadau, fe'ch temtid chwi i ddywedyd,—Gwr caled, llywodraethwr creulawn sydd wedi trefnu hyn i'r bobl yma; ond pan glywoch chwi mai drwgweithredwyr ydyw pob un o honynt —rhai wedi gwneuthur gwerth eu halltudio am eu hoes,—yr ydych yn newid eich meddwl am y neb sydd wedi trefnu hyn iddynt. Yn lle gweled arwyddion ~~o'i fod~~ yn wr tost, yn y caethiwed sydd arnynt, yr ydych yn hytrach yn gweled profion o'i gariad a'i dosturi yn y cysuron sydd yn eu hamgylchu. Os mynem ninau dynu caracter Duw yn gywir oddiwrth y greadigaeth, y mae yn rhaid i ni gofio pwy ydym ni, sydd yn byw ynddi; ac yna ni ryfeddwn ni ddim fod ambell fynydd llosgedig ar ei hwyneb,—y rhyfeddod fydd na buasai hi yn eirias i gyd. Ni ryfeddwn ni ddim fod ambell i daran yn seinio: y rhyfeddod fydd na buasai pob swn yn daran,—pob goleu yn fellten,—pob symudiad yn boen,—a bywyd ei hun yn angau parhaus. Pe buasem ni yn dywysogion, gallasem feio ychydig ar ein lle, a dadleu na buasai y neb a'i gwnaeth ddim yn un da iawn, onide y buasai yn ei wneuthur yn fwy hapus; ond pan gofiwn mai carcharorion condemniedig ydym oll, y mae yn rhaid fod y neb a ddarparodd le mor hapus i'n bath ni yn Dduw y cariad.

2. Ni a edrychwn ar y goleuni y mae Rhagluniaeth yn ei roddi ar y testyn. Y mae rhyw bethau ynddi i'n golwg ni yn dywedyd yn erbyn gwirionedd y testyn; ond y mae mwy ynddi yn dywedyd yn uniongyrchol o'i blaid, ïe, y mae hi oll, ond i ni edrych arni o'r lle iawn, yn dywedyd,—"Duw, cariad

yw." Y mae y Pregethwr yn edrych arni yn ei pherthynas â phob dyn yn bersonol, ac yn dywedyd, 'na ellir gwybod na chariad na chas' wrthi; ond y mae yr apostol yn edrych arni fel cyfanwaith mawr, ac yn dywedyd ei bod hi oll yn dystiolaeth o blaid daioni Duw:—"Ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymorau ffrwythlawn, a llenwi ein calonau ni â lluniaeth ac â llawenydd." Y mae yr Arglwydd, yn ei ragluniaeth, yn ysgrifenu pethau chwerwon yn erbyn holl blant dynion, weithiau; y mae hyny yn peri fod mwy o ameu ynghylch ei garacter mewn rhagluniaeth nag mewn dim; ond pan edrychwn ni ar ragluniaeth yn ngoleuni y Bibl, ni a welwn mai llywodraeth Duw cariad ydyw hi oll. Ac un achos ein bod yn teimlo yn wahanol i hyny ydyw, am nad ydym yn arfer meddwl am Dduw yn ei gysyltiad â llywodraeth y byd, ond pan y bydd yn dyfod allan o'i fangre i wneuthur pethau ofnadwy. Nid ydym yn meddwl am dano yn y mil dyddiau goleu a gawn; ond pan ddel un diwrnod tywyll, du, yr ydym yn ei gofio, ac yn cael ein cythryblu. Nid ydym yn meddwl am dano pan y bydd yn estyn anadl ac einioes i filoedd o'n hamgylch; ond os dwg Efe, trwy ryw bla, anadl ychydig o'n cymydogion ymaith, yr ydym yn cofio Duw y pryd hyny. Y gwirionedd am ddyn ydyw, "nad ydyw Duw yn ei holl feddyliau," ond pan y gwesgir ef, gan bethau ofnadwy, i feddwl am dano: ac am hyny y mae yn meddwl yn galed am dano. Y mae dyn gyda Duw, fel y mae ambell blentyn gyda'r meddyg: ni bydd y bychan yn arfer gweled y meddyg, na dyfod i ddim cysylltiad âg ef, ond pan y bydd yn gorfod cymeryd rhyw bethau chwerwon ganddo; am hyny y mae yn myned i'w ofni, os nad i'w gasâu; ond pe buasai y plentyn yn byw gydag ef bob dydd, buasai yr ofn yn troi yn barch, a'r casineb yn gariad. Felly ninau gyda Duw:—dieithrwch ein meddwl ni iddo sydd yn peri i ni ameu ei gariad;—ein diffyg ni o sylwi ar ei *bob peth* Ef. Pe na buasai brenhines Seba yn clywed dim am Solomon, ond am ei waith yn lladd Adoniah ei frawd,—yn gorchymyn rhuthro ar Joab, tywysog y llu, yn troi Abiathar o fod yn offeiriad, y casgliad naturiol yn ei meddwl oddiwrth y pethau yna fuasai, mai un creulawn oedd y brenin, ac mai gwae y neb

a fyddai yn was iddo; ond pan gafodd hi olwg gyffredinol ar ei lys, pan welodd hi drefn ei weision, yr argraff a wnaed ar ei meddwl oedd, mai un daionus oedd y brenin, ac mai rhai gwynfydedig oedd ei weision. Felly pe buasem ninau heb wybod dim am Dduw y nefoedd, ond iddo ddamnio yr hen fyd,—iddo ddymchwelyd dinasoedd y gwastadedd,—gallasem ddywedyd mai un caled oedd; ond pan y cymerwn ni olwg gyffredinol ar ei lywodraeth,—gweled llygaid pob peth byw yn disgwyl wrtho, yntau yn agoryd ei law, fel nad oes yr un yn disgwyl yn ofer;—ei weled yn darparu cynhaliaeth i'r morgrugyn, a chynhauaf iddo i'w gasglu; yn creu blodau i'r wenynen, ac yn rhoddi synwyr iddi hithau i drysori y mêl;—yn dysgu y ciconia yn yr awyr i adwaen ei dymhorau, fel nad ydyw yn dyfod i un man cyn bod ei gynhauaf yn addfed iddo;—ei weled yn hulio bord bob dydd i adar y tô, cywion y cigfrain, a dreigiau yr anialwch;—ïe, pob peth byw yn disgwyl wrtho,—nis gallwn lai na chasglu mai Duw'r cariad yw. A phe symudem ni gam ymlaen, at y greadigaeth resymol, yr argraff gyntaf y mae yr olwg ar hon yn ei wneuthur arnom ydyw, mai "Duw, cariad yw;" oblegid y mae yn eglur mai mwynhau ydyw rheol y byd hwn, ac mai eithriad ydyw y dioddef. Y mae arwyddion mwynhau yn ein cyfarfod ymhob man; ond nid yw arwyddion dioddef i'w cyfarfod ond yn awr ac eilwaith. Y mae angau yn dyfod i'n cymydogaethau weithiau; ond y mae bywyd gerllaw o hyd. Y mae synwyrau y corff yn boen i ni weithiau, ond y rheol ydyw eu bod yn fwynhad. Y mae y cysylltiadau perthynasol sydd rhyngom â'n gilydd, yn achosi gofid mawr weithiau, ond yn gyffredin ffynonau diddanwch ydynt. Yr argraff gyntaf y mae rhagluniaeth yn ei wneuthur arnom ydyw, mai "Duw, cariad yw."

Ond beth a wnewch, meddir, i'r holl ddioddefiadau sydd ar y ddaear? Pa fodd y cydsaif y rhai hyny â daioni Duw? Eithr edrychwch arnynt yn eu hachosion ac yn eu heffeithiau,—y maent oll yn tystio mai "Duw, cariad yw."

1. Y mae llawer o'r dioddef yn cael ei achosi yn ddigyfrwng gan ddyn ei hun: gellir dywedyd wrtho, yn ystyr fwyaf llythyrenol y gair,—"Ti a beraist hyn i ti dy hun." Ac y mae y dioddefiadau sydd yn dilyn ein cam-ymddygiadau, mor eglur

brofion a dim, mai "Duw, cariad yw." Pe na buasai yr Arglwydd wedi trefnu i bob niwed a gaiff y corff, gael ei ddilyn gan boen, ni buasai y babell bridd yn ddiogel am un awr, rhag cael ei dinystrio genym ni ein hunain. Y mae y plentyn yn rhoddi ei fys yn y tân; ond wedi iddo unwaith deimlo y boen sydd yn dilyn, fe ofna wneuthur hyny drachefn. Canllawiau i gadw y corff rhag cael ei ddinystrio, ydyw y boen sydd yn dilyn pob niwed a gaiff. Y mae dedwyddwch yr enaid, fel eiddo y corff, yn ymddibynu ar i ni ofalu rhag i un rhan o hono gael niwed; ac nid yw cyfanswm dioddefiadau y byd heddyw yn ddim ond poenau y briwiau y mae dynion wedi eu rhoddi i'w heneidiau eu hun. Rhyw ganllawiau yw y dioddefiadau hyn, y mae daioni yr Arglwydd wedi eu rhoddi o'n hamgylch i'n hatal i lwyr ddinystrio yr enaid gwerthfawr sy genym: oni bai am danynt, ni a fuasem yn dinystrio ein henaid heb yn wybod i ni ein hunain. Edrychwch ar Dafydd yn ffoi yn droed-noeth ar hyd ochr y mynydd, neu yn dringo i'r tŵr, dan weiddi,—"O Absalom, fy mab, fy mab!" beth sydd yna? Beth hefyd? ond y briw a roddodd efe i'w enaid, yn achos Urias yr Hethiad, wedi myned yn llidiog, ac yn boen iddo. Edrychwch ar frodyr Joseph yn eu cyfyngder yn yr Aipht. Beth yw hyny? Beth hefyd? yn ol eu cyffes hwy eu hunain, ond canlyniad eu hymddygiadau drwg eu hunain. "Diau bechu o honom yn erbyn ein brawd." Fe all y bydd y briw yn hir heb fyned yn llidiog; ond fe ä yn gymaint o boen yn rhywle, nes peri i ni deimlo fod pechod yn gam â'r enaid.

(2.) Ond, meddwch, y mae drygau a dioddefiadau yn ein cyfarfod nad oedd genym ni law mewn un modd yn eu hachosi. Gall fod hyny yn wirionedd; ond y mae effeithiau y rhai hyny, drachefn, yn gyfryw ag i brofi, mai "Duw cariad" sydd yn eu hanfon; oblegid eu hamcan oll ydyw tynu dyn oddiwrth ei waith; y maent oll yn rhoddi heddychol ffrwyth cyfiawnder. Y mae bod yn dda yn hanfodol i fod yn ddedwydd; ac y mae pob peth sydd yn tueddu at wneuthur y byd yn well, i'r un graddau yn tueddu i'w wneuthur yn hapusach. Amcan, ac i ryw fesur effaith, yr holl bethau chwerwaf a fuont ynddo erioed, ydyw ei wneuthur yn well. Y mae y barnau mwyaf ofnadwy yn llai na haeddiant y neb sydd odditanynt; ac y maent yn

drugaredd i'r gweddill a adewir. Nid oedd dinystr dinasoedd y gwastadedd gynt yn ddim cam â hwynt; ac yr oedd yn drugaredd fawr i'r byd gael gwaredigaeth oddiwrth gymaint o lygredigaeth. Nid oedd boddi yr hen fyd yn ddim cam ag ef; ond yr oedd yr hyn oedd yn farn ar yr hen fyd, yn drugaredd i'r byd newydd. Yr oedd dinystr Pharaoh yn y môr yn drugaredd â'r Aipht, ac â'r teyrnasoedd cylchynol; i beri iddynt ofni Duw Israel. Yr oedd marwolaeth y tadau, yn yr anialwch, yn drugaredd â'r plant; i beri iddynt arswydo rhag anghredu Duw. Y mae geiriau Caiaphas yn cael eu gwirio yn holl ymddygiadau Duw at y byd:—"Buddiol yw i ni farw o un dyn dros y bobl, ac na ddifether yr holl genedl;" hyny yw, buddiol yw marw yr ychydig, yn lle dyfetha y llawer; boddi cymaint o blant Adda ag oedd ar y ddaear, ond wyth, i gael peidio dyfetha miliynau; fel y mae y meddyg, weithiau, yn tori dau neu dri o aelodau y corff i ffordd ar unwaith, i geisio cadw bywyd ynddo rywsut. Pethau fel yna ydyw barnau Duw tuag at y byd. Priodol y dywedodd y Salmydd,—"Canaf am drugaredd a barn," oblegid y mae y farn, pa mor ofnadwy bynag a fydd hi ar bersonau unigol, yn drugaredd gyffredinol; ac yr oedd yr un gwr yn gweled pethau yn iawn pan y dywedodd fod ei "drugaredd ar ei holl weithredoedd." Ac y mae un Salm hynod, a thrugaredd yn cael ei rhoddi ynddi yn rheswm am y cwbl;—taraw yr Aipht,—ysgytio Pharaoh,—lladd brenhinoedd ardderchog,—"oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." A phan y gwelir pethau fel y maent, ni bydd yn anhawdd ychwanegu at y Salm, a dywedyd,—"Clodforwch yr Arglwydd," yr hwn a ddinystriodd filiynau â phläau, "oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd;" yr Hwn a barodd i'r ddaear lyncu myrddiynau, "oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd;" yr Hwn a anfonodd angel marwolaeth, mewn myrdd o lwybrau gwahanol i dramwy y ddaear, "oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." "Clodforwch yr Arglwydd," yr Hwn a laddodd fy mhlentyn,—yr Hwn a gymerodd ddymuniant fy llygaid ymaith â dyrnod,—yr Hwn a wnaeth i mi weled aml a blin gystuddiau,—yr Hwn a wasgodd i mi ddwfr phiol lawn, "oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd." Oblegid, pan y gwelir ffrwyth y pethau hyn, bydd yn amlwg mai bwriadu

daioni y mae y Goruchaf yn y cwbl: lladd dy blentyn, i dy gael di i gyfaddef dy anwiredd, fel y wraig o Sarepta; dinystrio dy gnawd, fel y byddo yr ysbryd cadwedig yn nydd Crist. Os na wyddom ni yn awr paham y mae yn ymryson â ni, ni a gawn wybod ar ol hyn; a phan amlygir hyny i ni, hwn fydd yr enw ar yr hwn y gelwir Ef,—"Duw, cariad yw."

Y mae holl bethau croes rhagluniaeth sydd yn ein cyfarfod wedi eu bwriadu i'n cael ni *yn ol at Dduw;* ac y mae hyny yn anhebgorol i'n dedwyddweh. Y mae yn dywedyd wrth yr Israeliaid, trwy y prophwyd Amos, ei fod wedi anfon newyn, a haint, a chleddyf, i'w mysg, gan ddisgwyl i hyny beri iddynt ddychwelyd ato Ef. "Eto," medd Efe, "ni ddychwelasoch ataf fi." Os ydyw wedi tori pydewau rhai o honom, ei amcan drwy hyny oedd ein cael ni i dynu dwfr o'r ffynhonau bywiol. Os oes yma rywun fel Manasseh, mewn Babilon yn dioddef, y diben o hyny ydyw ei gael i geisio Duw ei dadau. Os oes yma rywun wedi cymeryd rhai o'i roddion yn ei le Ef ei Hun, fe ddinystria y rhai hyny, fel y gwnaeth â'r sarph brês yn Israel gynt, rhag iddynt fod yn ddinystr i chwi. Y mae yn ein gwylio ar bob moment, rhag i ni wneuthu cam â'r enaid â'i roddion, Beth bynag sydd yn ein cymeryd ni ymaith oddiwrth Dduw, y drugaredd fwyaf a all ein cyfarfod ni a fydd i ni gael ein hysbeilio o hono: os iechyd a fydd, trugaredd fydd ei golli;—os plant, trugaredd fydd cael eu claddu;—os cyfoeth, trugaredd fydd ei weled yn cymeryd ei aden. Os bydd tân Duw yn ysu rhyw beth sydd yn perthyn i ni, ni a allwn fod yn sicr mai Duw cariad sydd eisiau cael ymddiddan â ni y pryd hyny. Cofiwch pwy ydym ni. Yr oedd Saul yn gofyn,—"os caiff gwr ei elyn, a ollynga efe ef mewn ffordd dda!" Na, nid arfer dynion ydyw hyny; ond wele Dduw y nefoedd yn cael ei elynion bob dydd, mewn lle digon manteisiol i fesur eu hen weithredoedd i'w mynwes, ac eto yn eu gollwng mewn ffordd dda. Neu, os bydd Efe yn ceryddu ychydig arnynt, eu cael i gofio eu beiau, fel Joseph gyda'i frodyr, ydyw yr amcan, i'w dysgu i beidio gwneuthur anwiredd mwy. Wel, rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw yn hyn, yr hyn ydyw ei gydnabod Ef yn Dduw y cariad.

3. Ond mewn iachawdwriaeth yr adeiladwyd trugaredd yn dragywydd. Yr oedd y greadigaeth yn profi mai un da ydoedd;

—rhagluniaeth yn profi mai un trugarog ydoedd ; ond iachawdwriaeth a brofodd mai cariad ei hun ydoedd. Fe allasai amheuaeth ynghylch ei nodweddiad lechu yn y fynwes er creadigaeth a rhagluniaeth ; ond y mae iachawdwriaeth yn symud pob cysgod o sail i hyny. "Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw," hyny yw, y gwnaed ef tuhwnt i bosibilrwydd ei ameu. Gallesid ei ameu er pob peth a wnaed cyn hyn. Yr oedd Saul wedi dychwelyd o ddyfetha yr Amaleciaid yn ymddangos fel pe buasai wedi cyflawni gair yr Arglwydd ; ond yr oedd yno rywbeth i greu drwg-dyb (*suspicion*) yn meddwl yr hen brophwyd, Samuel :—"Beth yw y brefiadau hyn ?" Felly, yr argraff gyntaf y mae creadigaeth a rhagluniaeth yn ei wneuthur ydyw arnom, mai "Duw, cariad yw ;" ond y mae yma ryw bethau i greu *suspicion* er hyny. Beth yw y llosg-fynyddoedd yna ? Paham y mae y ddaear yn siglo ar ei sylfeini ? Paham y mae yr elfenau, yn aml, fel pe byddent wedi ymgynghreirio i ddinystrio dyn ? Os "Duw, cariad yw," fel y dywed rhagluniaeth, beth ydyw y newyn sydd yn lladd ei filoedd yn y fan draw ?—beth ydyw y pläau sydd yn gwneuthur i ddynion ddarfod o'r tir yn y fan acw ?—beth ydyw yr afonydd dagrau hyn ?—beth ydyw yr ocheneidiau sy fel taranau yn adseinio yn yr awyr ?—paham y mae cymaint o drueni ar y ddaear ? Y mae llawer calon deimladwy wedi gwaedu,—llawer meddwl ystyriol wedi ymddyrysu, wrth edrych arno ;—wrth weled yr amddifaid heb neb i'w noddi ;—y gweddwon yn cael eu gorthrymu, heb neb i'w hamddiffyn ;—plant wrth y miloedd yn gofyn ymborth, heb neb i'w dori iddynt ;—myrddiynau dan y fath arteithiau corfforol, fel y maent yn dyheu am angau fel y gwas am gysgod ;—miloedd hefyd yn y fath arteithiau meddyliol, fel y maent yn rhoddi dwylaw anwir arnynt eu hunain. Nid dieithr, meddir, fod rhai yn ameu daioni Duw ; oblegid, pa fodd y gellir cysoni y pethau yna â'i ddaioni ? Y mae yn rhy anhawdd gwneuthur hyny i eglurdeb nes y cawn ni droi i'r Bibl ; ond y mae un adnod o hwn yn ddigon i symud pob *suspicion* i ffordd am byth :—"Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol." Pe byddai hanes fod ei drigolion yn marw bob oes o newyn, y

mae ei fod wedi darparu cyflawnder o fara y bywyd, yn ddigon i brofi, er hyny, mai "Duw, cariâd yw." Pe byddai iddo anfon yr elfenau i ladd y corff, y mae ei fod wedi anfon ei Fab i gadw enaid, yn ddigon o brawf, er hyny, mai "Duw, cariad yw." Nid all yr un pla fydd ar y corff gymylu dim ar ei ddaioni, tra y cofiwn ni, mai Efe a drefnodd y Balm o Gilead i'r enaid. Ni amheuwn ni am foment dynerwch ei fynwes, er gweled dagrau yr amddífaid, a chlywed ocheneidiau y weddw, pan ddeallwn ni fod digonolrwydd llawenydd a digrifwch yn dragywydd wedi eu darparu ar ei ddeheulaw i blant Adda. Os ydyw y breswylfa hon yn siglo, y mae 'Efe wedi darparu dinas ag iddi sylfeini.' Os dyffryn galar a chartref angau ydyw hwn, y mae gwlad lle ni ddywed y preswylydd, "Claf ydwyf;" a lle nid oes na llefain, na dagrau, ac angau ni ddring yno. Am hyny, pe boddai Efe y byd eto, mi a gredwn, er hyny, mai "Duw, cariad yw;" oblegid y mae wedi anfon ei Fab yn arch i gadw rhag diluw y byd arall. Pe gwlawiai Efe frwmstan a thân eto, ar fyrdd o ddinasoedd y ddaear, mi a gredwn, er hyny, mai "Duw, cariad yw;" oblegid y mae wedi anfon ei Fab i gadw rhag tân a brwmstan yr ail farwolaeth. Ie, gan iddo anfon eí Fab, fe ddylai profiad Job fod yn brofiad i ni oll:—"Pe lladdai Efe fi, eto mi a ymddiriedwn ynddo." Ni chaiff dim beri i mi feddwl yn galed am dano mwy: "Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tuag atom ni, oblegid danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo Ef." "Y mae trugaredd yr Arglwydd ar ei holl weithredoedd." Y mae cwymp angylion, a chwymp Adda, yn profi nad oedd yno ddim digon i atal i amheuaeth ynghylch hyny ddyfod i mewn i feddwl creadur; ond y mae y fath egluro ar gariad Duw wedi bod, yn y Mab, fel y mae yr angylion sanctaidd wedi eu diogelu yn Nghrist. Y mae yn anmhosibl iddynt feddwl yn galed am Dduw. Y mae iachawdwriaeth yn amlygiad arbeníg o gariad Duw, oblegid,

(1.) Nis gellir priodoli trefn iachawdwriaeth i ddim ond i gariad. Y mae yn rhaid i ni chwilio am y rheswm am holl weithredoedd Duw ynddo Ef ei Hun, oblegid gwnaeth yr oll er ei fwyn ei Hun; y mae yn creu er ei fwyn ei Hun;—yn cynal er ei fwyn ei Hun;—yn cadw er ei fwyn ei Hun. Y mae ei holl weithredoedd wedi eu bwriadu i amlygu rhywbeth yn ei

nodweddiad mawr; ond chwi ellwch brïodoli y creu, a'r cynal, i lawer peth; ond y mae yn anmhosibl prïodoli y cadw ond i un peth, sef *cariad*. Edrychwch ar y drefn naill ai fel amlygiad o garacter Duw, neu ynte fel cymwynas i ni: i gariad yn unig y mae yn rhaid ei phriodoli, ymhob golwg. Y mae holl briodoliaethau Duw yn disgleirio ynddi; ond nid er eu mwyn eu hunain y maent yn cael eu hamlygu, ond er mwyn cariad. Nid dangos nerth ei fraich oedd ei amcan wrth gadw, er ei fod yn gwneuthur hyny; nid dangos ei ddoethineb oedd ei amcan wrth gadw, er ei fod yn gwneuthur hyny; ond dangos mai "Duw, cariad yw." Fe ellir priodoli ysgytiad Pharaoh, yn y môr, i amryw bethau, heblaw i'r hyn a wna y Salm; ond y mae yn anmhosibl priodoli drylliad y Mab i ddim ond i gariad. Nid oedd yn ei gasâu;—ei Fab oedd: nid oedd wedi ei anfoddloni; na, yr oedd bob amser yn cyflawni ei ewyllys. Wel, paham y drylliodd Efe Ef? Am ei fod yn gyfiawn, meddir:—gwir ei fod yn gyfiawn wrth wneuthur; ond gallasai fod felly heb ddryllio y Mab. Nid oes yr un rheswm i'w roddi am hyn, ond "Felly y carodd Duw y byd." Pe buasai wedi llunio trefn ddoeth a chref i achub angel, buasai hyny yn amlygiad o gariad; ond buasai mawredd yr angel yn cymylu graddau ar fawredd y cariad. Buasai gwneuthur cymwynas i frenin mewn cyfyngder yn dangos tynerwch; ond buasai gwneuthur hyny i un o wehilion cymdeithas yn well prawf o gywirdeb y tynerwch hwnw. Brenin oedd angel mewn cymhariaeth i ni; ond i ni,—gwehilion y greadigaeth,—y gwnaed y gymwynas. Pwy ynte a all ameu mwy, nad "Duw, cariad yw."

2. Y mae yr holl drefn yn gyfryw ag i ddangos cariad yn ei eithafion. Cariad yw hi oll, a'r cariad hwnw yn oreu; cariad yn ddigymysg, a hwnw yn un mawr; i'w wneyd yn fwy, byddai raid gwneuthur calon Duw yn fwy. I ddeall ei faint, y mae yn rhaid gwybod gwerth ei Fab Ef. Ni wnaeth Duw ddim cymaint a'r a allai, nes yr aeth i ddangos ei gariad. Fe daenodd y nefoedd fel llen; ond yr oedd digon o nerth yn ei fraich i daenu myrdd wed'yn, pe buasai yn ewyllysio. Fe gynlluniodd y greadigaeth mewn doethineb; ond yr oedd digon o ddoethineb yn ei fynwes i ddyfeisio myrdd o gyfundraethau cywreiniach wed'yn, pe buasai yn ewyllysio. Ond

wrth ddangos ei gariad, fe wnaeth gymaint a'r a allai. Ni allasai Efe roddi dim mwy: ni oddefai ei gariad iddo roddi dim llai. Ni buasai dim llai na drylliad y Mab, yn esboniad digonol ar nerth cariad y Tad at bechadur. Y mae uchder a dyfnder, hyd a lled, yn perthyn iddo ; ond y mae y mesurau oll uwchlaw gwybodaeth. Pe gallai rhywun ddywedyd, pa faint sydd o orsedd Duw i uffern pechadur, hyny yw uchder a dyfnder y cariad: os gall rhywun ddywedyd pa faint ydyw hyd tragywyddoldeb, dyna ei hyd ef. Beth ydyw yr arfaeth? Cariad Duw yn dyfeisio. Beth ydyw yr aberth? Cariad Duw yn rhoddi. Beth ydyw y nefoedd? Cariad Duw yn dangos ei drysorau. Nid yw addewidion y llyfr hwn ddim ond ystordai cariad, wedi eu darparu erbyn dydd yr angen. Nid yw ei fygythion yn ddim ond canllawiau cariad o amgylch y geulan. Os ydyw pyrth marwolaeth yn cael eu hagor yma, a'r tô yn cael ei godi oddiar ddistryw, cariad sydd yn gwneuthur i oleuni y tân anniffoddadwy beri i ni frysio i "ffordd y bywyd sy fry, i ochel uffern obry." Ni buasai dim ond cariad yn dywedyd gair wrthym am uffern ; oblegid buasai yn greulondeb yngan dim am dani, nes i ni ddisgyn yno, oni bai fod modd i'w hosgoi hi.

Wel, gan mai "Duw, cariad yw," (1.) "Paham y dirmyga yr annuwiol Dduw?" Nid yw Duw fel Hwn ddim yn haeddu hyn oddiar ein llaw. Nid anialwch a fu Efe i chwi un amser. Paham ynte y cymerwch chwi ei enw Ef yn ofer? Paham y meddyliwch chwi yn galed am dano? Paham y mae eich calon yn dywedyd, yn wyneb pob croes ragluniaeth,—'A gefaist ti fi, fy ngelyn?'

(2.) Gan mai "Duw, cariad yw," y mae pechu i'w erbyn yn annrhaethol ddrwg. Buasai tori gorchymynion Duw creulawn yn fai, pa faint mwy rhai Duw y cariad? Y mae ambell un yn amcanu at fywyd brenin creulawn, caled, ac er bod ei ymddygiad yn feius, eto y mae caracter y brenin yn peri i'r wlad haner maddeu i'r euog, a chydymdeimlo âg ef ; ond y mae y rhai hyny a amcanasant at fywyd Victoria hynaws yn cael eu ffieiddio a'u hwtio gan bawb. Pe buasai Duw y nefoedd yn un creulawn, gallasai y drwg-weithredwr ddisgwyl rhyw gymaint o gydymdeimlad ; ond gan mai "Duw, cariad yw," bydd yn

cael ei hwtio a'i ffieiddio gan holl synwyr ac urddas yr ymerodraeth ddwyfol am dragywyddoldeb.

(3.) Am ei fod yn Dduw y cariad, y mae yma aml fynwes yn dywedyd,—'Yr ydwyf fi yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf fy ngharu i.'

(4.) Gan ei fod yn Dduw y cariad, gobeithio yr wyf fod yma rywun yn barod i roddi arfau gwrthryfel i lawr, a rhedeg at y Mab i gael cymod â'r Tad. Dangosodd Hezeciah ei drysorau i genhadau brenin Babilon, ac fe greodd yr olwg arnynt awydd ynddynt am eu meddianu. Yr ydym ninau wedi bod yn ceisio dangos cariad Duw; a oes yma neb yn dymuno meddianu ei gyfoeth?

[Hydref 28, 1851.]

# PREGETH XXXI.

## YR HYN YW DUW I'W BOBL.

SALM lxxxiv. 11.—"Canys haul a tharian yw yr ARGLWYDD DDUW: yr ARGLWYDD a rydd ras a gogoniant: ni atal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith."

MYNYCH y cysylltir addewidion Duw i'w bobl gyda desgrifiad o gymeriad y bobl hyny. Pan y mae yn addaw na bydd eisiau arnynt, desgrifir hwynt yn rhai yn ei ofni Ef. Pan yr addewir na bydd arnynt eisiau dim daioni, desgrifir hwynt yn rhai yn ceisio yr Arglwydd. Pan yr addewir pob peth rhagluniaeth iddynt, gwneir hyny fel i rai yn ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw. Pan y mae yn addaw gwir ddoethineb iddynt, fe'u desgrifir wrth y nôd o rai uniawn. Pan y mae yn addaw y caiff ei eiriau wneuthur lles iddynt, y nôd wrth ba un y desgrifir hwynt ydyw, rhai yn rhodio yn uniawn. Ac yn y testyn hwn, y mae yr holl addewidion gwerthfawr yn cael eu cysylltu â'r caracter o rodio yn berffaith. Mor bell ydyw addewidion Duw oddiwrth fod yn gefnogaeth i benrhyddid, fel ag y maent yn anwahanol gysylltiedig âg uniondeb bywyd ac â rhodiad perffaith. Nid oes gan neb hawl yn yr addewidion cyffredinol sydd yn y Beibl, hyd nes y gwneler ef yn ddiddichell ac yn onest; ac nid ydyw yr addewidion lliosog sydd i'r saint ynddo yn cael eu cyflawni iddynt, ond pan y maent yn ateb i'r caracter a roddir iddynt yn y gwirionedd. Y mae yr Arglwydd wedi addaw eu cadw hwynt heb eisiau; ond yn y cymeriad o rai yn ei ofni Ef. Y mae Efe wedi addaw rhoddi pob peth rhagluniaeth iddynt; ond yn y cymeriad o rai yn 'ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw'; ac y mae yn y testyn hwn yn addaw bod yn "Haul" ac yn

"Darian" iddynt; ond y mae hyny yn y cymeriad o rai 'yn rhodio yn berffaith.' Pan y maent hwy yn y "ffyrdd" y mae yn rhoddi "gorchymyn i'w angylion" eu ca lw hwynt. Y mae addewid fawr bywyd tragwyddol, yr hon a addawodd y digelwyddog Dduw cyn seiliad y byd i'w Fab, ar ryw olwg yn ddiamheuol o du y pechadur; ond wedi iddo gael ei ddychwelyd o ben-arglwyddiaethol ras, y mae yr addewidion o'r hyn ydyw Duw iddo, yn cael eu cysylltu â'r hyn a ellir ei ystyried megis amod o'i du Ef. Fel nad all gras arwain i benrhyddid, oblegid fod yn ei natur gynyrchu cywirdeb egwyddor a chywirdeb ymddygiad, felly y mae yr ystâd hon ar y dyn oddimewn ac oddiallan yn un o delerau ei weinyddiad. Y mae duwiolion y Beibl yn fynych yn dadleu y cywirdeb hwn ger bron Duw, nid fel sail eu gwrandawiad, ond fel prawf o'u bod yn yr ystâd y mae Duw yn gweinyddu ei fendithion iddynt. Yr oedd Hezeciah, pan mewn cyfyngder yn dadleu perffeithrwydd ei galon a'i uniondeb; yr oedd Nehemiah hefyd yn gwneuthur yr un peth;—a mynych iawn y mae yr un ddadl yn ngenau y Salmydd:—"Clyw, Arglwydd, gyfiawnder; ystyria fy llefain, gwrandaw fy ngweddi o wefusau didwyll." Nid ydyw yn golygu wrth hyn gyfiawnder perffaith. ond cywirdeb egwyddor;—enaid diffuant tuag at Dduw, er y gallai fod yr enaid hwnw yn cael ei lithio i bechod yn fynych. Amlwg ydyw nad ydoedd yn golygu cyfiawnder perffaith, oblegid dywed mewn lle arall:—"Na ddos i farn â'th was, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di." Y mae y cyfiawnder hwn yn golygu caracter cyffredinol yr oes;—yr un peth ag a ddywedir, mewn dull arall, yn y Testament Newydd:—"Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom." Ond fe ddywed yr un ysgrifenydd:—"Pob un a'r sydd yn aros ynddo Ef, nid yw yn pechu: pob un a'r sydd yn pechu, nis gwelodd Ef, ac nis adnabu Ef." Pa fodd y cysonir y ddwy dystiolaeth? Wele, y mae y goreu o ddynion yn pechu; ond nid hyny yw cymeriad eu hoes hwynt ar y cyfan. Felly y mae cyfiawnder ac uniondeb y Salmydd i'w ddeall, yn yr un ystyr, am gymeriad cyffredinol ei oes. Ac y mae 'rhodio yn berffaith,' yn y testyn, yn golygu yr un peth: perffeithrwydd rhanau o ran rhif, ac nid o ran

maint;—gwr perffaith o ran, ond nid â'r rhanau wedi eu perffeithio. Y mae pob Cristion yn greadur newydd,—pob peth hanfodol creadur newydd ynddo; ac, fel y cyfryw, y mae 'yn edrych heb ei waradwyddo ar yr holl orchymynion.' Y mae amcan cywir yn ei galon am gyfeirio ei draed i holl lwybrau y deddfau: ond mewn llawer o bethau y mae yn llithro: er hyny, am fod ei egwyddor yr un mor eang yn ei [illegible] ag ydyw y gyfraith yn ei gofynion, dywedir ei fod yn [illegible] berffaith. Y mae y nôd hwn yn nôd i'r byd, ac i'r [illegible] nid i Dduw. Y mae ganddo yntau ei nôd [illegible]—"Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo Ef;" ond [illegible] yn tarddu o'r nôd yna, fel y mae y ffrwd o'r ffynon. Y [illegible] sydd yn enwi enw Crist yn ymadael âg anghyfiawnder. [illegible] ystâd yr enaid ynddi hi ei hun, ac nid yr [illegible] o'r ystâd hono mewn geiriau a gweithredoedd, [illegible] yn ngolwg Duw; ond y mae teimladau y galon yn [illegible] i ni allu eu dal ger bron llygaid [illegible] cyflwr wrthynt: am hyny mwy sicr [illegible] barnu ystâd y galon wrth yr arwyddion gweledig, sef y geiriau a'r gweithredoedd. Y mae 'rhodio yn berffaith' yn brawf o 'galon berffaith.' Y mae "gwneuthur cyfiawnder" yn brawf fod egwyddor o gyfiawnder yn y galon. Y mae y gweithredoedd sydd yn ffrwyth ffydd gyfiawnhäol yn brawf fod hono yn y galon. Y mae y "ffynon" o ras "yn tarddu allan" mewn ffrydiau o ufudd-dod. I'r Cristion, yn y cymeriad o un yn 'rhodio yn berffaith,' y rhoddir addewid y testyn; un yn amcanu yn gywir am i'w ufudd-dod fod mor eang ag ydyw gofynion y ddeddf. Wedi rhoddi hynyna o eglurhad ar garacter y personau y mae addewid y testyn wedi ei gwneuthur iddynt, ni a sylwn yn awr ar ei chynwys. Y mae y testyn yn gyfoethog o wirionedd: mewn un gair, dyna ydyw: yr hyn ydyw Duw i'w bobl;—neu hyn ydyw;—Desgrifiad byr, ond tra chynwysfawr, o etifeddiaeth gweision yr Arglwydd. Weithiau fe'i desgrifir hi mewn un gair; ond yma, gwneir hyny bob yn rhan: "Haul:" goleuni ar y llwybr;—"Tarian:" amddiffyn rhag peryglon;—"Gras:" cynhaliaeth ar y ffordd;—"Gogoniant:" y wobr yn y pen draw; a swm y cwbl:—"Ni atal Efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith."

Desgrifid etifeddiaeth yr Israeliaid, weithiau, wrth un gair:—"Gwlad yr addewid," neu "Wlad Canaan;" bryd arall, fe'i desgrifid hi ychydig yn fwy manwl, fel y gwna Moses yn y geiriau hyny. Deut. xi. 12.—"Tir yw, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu; llygaid yr Arglwydd dy Dduw sydd bob amser arno, o ddechreuad y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd." Dyna gip olwg ar y wlad. Felly y dywedir yn fynych yn y gwirionedd, fod yr Arglwydd yn Dduw i'w bobl; ond yma rhoddir cip-olwg ar gynwys hyny.

Y mae cyffelybiaethau y testyn, debygid, yn cynwys y tri meddwl hyn:—

I. Fod yr Arglwydd yn gyfarwyddwr iddynt:—"Haul."

II. Yn amddiffynwr:—"Tarian."

III. Yn gynhaliwr:—"Rhoddi gras a gogoniant." Neu, gallesid ddywedyd yr oll mewn un gair:—"Ni atal Efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith."

I. "Haul." Feallai mai y meddwl cyntaf a mwyaf uniongyrchol yma ydyw, cyfarwyddyd neu hyfforddiant. Yr oedd y Salmydd, yn yr adnodau blaenorol, wedi traethu ei farn am dŷ yr Arglwydd, ac wedi bod yn ei gymharu â phebyll annuwioldeb; a'r effaith a gafodd hyny ar ei feddwl, oedd peri iddo benderfynu y byddai yn 'well ganddo gadw drws yn nhŷ ei Dduw na thrigo yn mhebyll annuwioldeb.' A'r rheswm am hyny ydyw y testyn:—"Canys Haul a Tharian yw yr Arglwydd Dduw," &c. Yr oedd tŷ yr Arglwydd yn ateb y ddau ddiben hyn mewn modd tra neillduol: byddai cyrchu aml yno am gyfarwyddyd, ac weithiau am amddiffyn. Nid ydoedd hyn yn briodol i'r Iuddewon yn fwy nag i'r cenedloedd paganaidd. Mynych y cyrchent hwythau i dŷ eu duwiau am gyfarwyddyd: hyny oedd diben yr oraclau, y rhai oeddent yn dra aml yn y byd paganaidd. Pa un a oedd y rhai hyny yn oraclau gwirioneddol ai peidio, nis gwyddom; ond y maent yn dangos fod teimlad cyffredinol mewn dynion, ymhob oes a gwlad, fod yn rhaid i'r duw a addolid fod yn gyfarwyddwr. Yr oedd gan yr Israeliaid amryw ffyrdd i ofyn cyfarwyddyd. Y gyntaf y mae genym hanes am dani ydoedd yr Urim a'r Thummim, yr hwn ydoedd fath o goelbren sanctaidd. Bu hwn mewn arferiad hyd nes yr adeiladwyd y deml. Arferid swynion hefyd i'r diben hyny;

ond y mae yr Arglwydd yn gwahardd hyny. Ymofynid â Duw yn fynych drwy y prophwyd. Ar y cyntaf, gelwid Ef yn "Weledydd," sef un yn gweled pethau oeddynt yn ddirgel i ereill. Hysbysai yr Arglwydd ei ewyllys hefyd drwy freuddwydion, a thrwy weledigaethau nos, a thrwy lais o'r nefoedd. Ond y mae yr holl bethau hyn wedi myned heibio: nid oes gweledydd gweledigaeth, na breuddwydydd breuddwyd, yn awr; eto y mae Duw yn Haul,—yn Gyfarwyddwr i'w bobl fel cynt. Moses a'r prophwydi sy genym yn awr, yn lle y pethau hyn. Y datguddiad dwyfol ydyw ein "Ephod," ein "Urim a Thummim" ni; a'n heglurhâd ni ar bob dirgelwch yw, nid pa fodd y *meddyli*, ond pa fodd y *darlleni*.

Nid angenrheidiol crybwyll ein bod ni oll yn sefyll mewn angen am gyfarwyddwr. Y mae ein taith ni, fel mordwyaeth Paul gynt, yn fynych yn enbyd; a phriodol y gallwn ofni, fel yntau, syrthio ar leoedd geirwon. Y rheol ydyw fod y rhai sydd yn myned drwy y byd yn cael eu dinystrio am dragywyddoldeb drwy hyny. Nid ydyw yr ychydig sydd yn myned drwyddo heb hyn, ond eithriadau. Y mae y byd yn fwy peryglus, mewn ystyr ysbrydol i ni, nag ydoedd dyffryn Sitim i frenhinoedd Sodom a Gomorrah. Y mae ganddo demtasiynau ar bob llaw, ac y mae ei bobpeth ef yn demtasiwn. Y mae ei holl berthynasau yn agored i fyned yn faglau i'n dal; ac y maent yn dal miloedd. Nid oes yr un wedd arno nad all hi fod yn ddinystr i ni. Nid oedd peryglon taith yr Israeliaid drwy yr anialwch ond bychain wrth eu cymharu â pheryglon ein taith ni drwy'r ddaear. Y mae pleser y byd yn fôr sydd yn boddi miloedd: y mae ei gyfoeth yn graig sydd yn dryllio llestri miloedd. Y mae ei barch a'i anrhydedd yn wynt tymhestlog ag sydd yn cario canoedd o'i flaen i ddinystr. Nid ydyw y peryglon hyn ddim yn ganfyddadwy i bawb; ond y mae y ffaith fod y mwyafrif o ddigon o'r rhai sydd ar eu taith drwy'r byd yn colli'r ffordd, ac yn ei diweddu hi mewn dinystr, yn brawf digonol mai nid ychydig ydyw y peryglon. Ac nid oes olwg fwy difrifol ar y ddaear, na gweled enaid anfarwol yn cychwyn taith fèr bywyd, a'i dragwyddoldeb yn ymddibynu ar y modd yr â efe drwyddi; ac eto pob tebyg mai methiant fydd y daith, oblegid nad oes ganddo brofiad i'w gyfarwyddo. Y mae

yn llawn o hunan-hyder: am hyny nid ydyw yr esiamplau o ddinystr eraill yn cael ond ychydig neu ddim effaith arno. Y mae yn rhuthro ymlaen yn wallgof o'r naill *stage* i'r llall. Y mae ei nodweddiad yn dyfod yn fwy penderfynol bob dydd. Y mae yn cymeryd mwy o liw parhâd yn feunyddiol. Yn ei ieuenctyd y mae pleserau y cnawd yn ei wallgofi. Yn nghanol oed y mae hudoliaeth golud yn gwneuthur yr un peth. Yn ei henaint y mae ail-fabandod wedi ymaflyd ynddo. Gellir symio ei oes i fyny yn y gair hwnw:—"Yn ei ddiwedd ynfyd fydd." Dyma swm y cwbl. Pe edrychem ni ar gylch ein cyd-nabyddiaeth, leied ydyw y nifer sydd wedi myned drwy'r byd yn iawn. Fel yr Israeliaid, o'r chwe' chan mil a gychwynasant o'r Aipht, ni ddaeth ond Caleb a Josua i Ganaan. Yr oedd y miloedd wedi eu dwyn ymaith megis â llifeiriant, fel nad oedd ond dau o gynifer wedi cyraedd yn ddiogel. Ac nid ydyw y cyfartaledd yn fawr mwy eto: y mae taith bywyd yn fethiant am dragywyddoldeb. Ond y mae yr Arglwydd trwy fod yn Haul i'w bobl, yn eu cyfarwyddo yn y ffordd uniawn, sydd yn ysgoi y peryglon hyn. "Y mae dirgelwch yr Arglwydd gydâ'r rhai a'i hofnant Ef, a'i gyfamod i'w cyfarwyddo hwynt." Y moddion trwy y rhai y mae yn cyfarwyddo ydyw ei air a'i Ysbryd; y naill trwy y llall. Nid ydyw y dirgelwch sydd yn y gair ddim yn amlwg heb yr Ysbryd: ei oleuni Ef ar y cyfamod a all beri iddo gyfarwyddo.

1. Y mae yr Arglwydd yn cyfarwyddo trwy'r gair,—trwy ddangos y gwirionedd am bethau, hyny yw, eu dangos fel y maent. Yr achos paham y mae pethau y byd hwn yn ddinystr i gymaint o ddynion ydyw, am nad ydynt yn eu gweled fel y maent mewn gwirionedd. Y mae disgleirdeb golud yn eu hatal i weled y twyll sydd ynddo. Y mae meluswedd buchedd yn eu rhwystro i feddwl am y colyn sy dan y mêl;—y gogoniant sydd o amgylch anrhydedd yn eu hatal i weled mai corff oer a thywyll ydyw. Ac nid yn unig y mae yr olwg deg sydd ar bechod yn tueddu i'n harwain ni ar gyfeiliorn, ond y mae yr olwg anhawddgar sydd weithiau ar rinwedd yn tueddu i wneuthur yr un peth. Y mae wyneb teg y naill a hacrwch wyneb y llall, yn tueddu i'n cadw ni rhag edrych ar yr hyn sydd o dan yr ymddangosiad. Mor ddyryslyd ydyw golwg allanol

pethau, fel y mae hyd yn nod y saint, y rhai sydd wedi deall *graddau* o drefn pethau, yn myned i ameu eilwaith a all y pethau fod felly! Ni a gawn Dafydd yn methu deall paham yr oedd pethau fel yr oeddynt; a Jeremiah yn dadleu â Duw am ei farnedigaethau;—am lwyddiant ffordd yr anwir, a ffyniant yr anffyddloniaid. Goleuni Duw ar wirionedd pethau a symudodd yr amheuon o feddyliau y saint hyn. Y mae gwrthddadleuon yn codi yn aml eto yn meddyliau y duwiolion; ac nid oes ond canfod y gwirionedd am bethau yn nghysegr y gair a'u chwâl. Nid arwain ei bobl fel deillion y mae yr Arglwydd: ond y mae yn peri iddynt wrthod y naill beth, trwy ddangos iddynt beth arall. Y mae Moses yn gwrthod anrhydedd yr Aipht, oherwydd gweled taledigaeth y gwobrwy. Y mae awyrgylch foesol y ddaear mor dwyllodrus, fel y mae yn anmhosibl barnu pethau yn gywir ynddi. Y mae hi yn dra chyffelyb i'r niwl. Y mae hwnw yn cuddio pethau pell, ac yn mwyhau y pethau agos. Y mae yn ein hatal i weled y mynyddoedd mawrion sydd yn y pellder, ac y mae yn mwyhau y pethau bychain sydd yn ymyl. Fe bâr i ryw dwmpath bychan sydd yn ein hymyl ymddangos yn fryn mawr, tra y cuddia ef y mynydd sydd â'i ben yn cyraedd hyd y cymylau, yn gwbl o'r golwg. Onid oes rhyw niwl fel hwn yn awyrgylch foesol y byd? Y mae yn anmhosibl barnu pethau yn gywir ynddi. Y mae yn cuddio y mynyddoedd tragywyddol o'r golwg; ac yn mwyhau pethau bychain amser nes peri iddynt ymddangos yn annhraethol fwy na'u gwir faint. Wrth edrych drwy niwl y ddaear ar gyfoeth a phleserau, ac ar anrhydedd y byd, y maent yn ymddangos yn fawr odiaeth; yn ddigon mawr i fod yn ddibenion bywyd creadur anfarwol; ond y mae cyfrwng y gweledigaeth yn dwyllodrus. Yn y Llyfr hwn y cawn ni y gwirionedd am bobpeth. Y mae Duw yn cyfarwyddo ei bobl trwy ddangos y gwirionedd am bethau, yn y gyfraith:—"At y gyfraith, ac at y dystiolaeth: oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt."

2. Y mae yr Arglwydd yn cyfarwyddo trwy blanu egwyddorion yn y meddwl, y rhai sydd yn anghymwyso y Cristion i gael ei lithio yn fawr gan bethau y ddaear. Y mae y ffordd dda yn cael ei dangos yn y gair; ac hefyd y mae tuedd i'w

rhodio yn cael ei phlanu yn yr enaid. Y mae y Cristion yn gwybod y ffordd, ac hefyd yn ei charu hi:—"Mor gu genyf dy gyfraith di! hi ydyw fy myfyrdod beunydd." "Bu mor llawen genyf ffordd dy dystiolaethau, â'r holl olud." Y mae yr egwyddorion sanctaidd hyn yn diogelu yr enaid, fel "nad oes swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel." Nid all y temtasiynau ddim cael gafael arnynt hwy fel eraill. Mewn ystyr gyfyngedig, gellir dywedyd am danynt fel am eu Crist, pan y mae tywysog y byd hwn yn dyfod atynt yn ei demtasiynau, nad oes iddo ddim ynddynt hwy. Y mae yr egwyddorion hyn yn cyfarwyddo yr enaid yn y ffordd y dylai ei rhodio, yn debyg fel y mae *instinct* neu anian-reddf yn gwneuthur â chreaduriaid direswm. Y mae eu natur hwy yn eu dysgu pa fodd i wneyd, heb ymresymu; felly y mae anian y creadur newydd yn fynych yn gwneuthur yr un peth: nid ydyw yn ymgynghori â chig a gwaed.

Y mae taith y Cristion yn un mor bwysig, fel ag y mae yr apostol yn desgrifio y greadigaeth,—yn syllu arni hi,—ac yn gwylied gydâ phryder bob cam o honi. Y mae mor hawdd iddo lychwino ei ddillad,—mor hawdd iddo syrthio ar leoedd geirwon,—mor hawdd iddo gael ei ddal gan y maglau, fel ag y bydd hi yn ogoniant tragywyddol i ddoethineb yr Arweinydd, os cedwir ef rhag hyny. Rhoddwyd Adda mewn byd nad oedd ond un fagl ynddo; ond fe'i daliwyd ef yn hono. Y mae y Cristion mewn byd lle y mae pob gwrthddrych yn demtasiwn, a phobpeth yn fagl; eto nid yw yn cael ei orchfygu gan y naill na'i ddal gan y llall. Nid oedd ond un bwlch y gallasai Adda syrthio dros y ffordd, ond aeth efe i lawr drwy hwnw; ond y mae y Cristion yn agored i syrthio bob moment, eto fe ddeil ei ffordd,—ni lwyr fwrir ef i lawr,—am fod ei Dduw yn ei gyfarwyddo. "Haul a Tharian yw yr Arglwydd Dduw."

II. Y mae yr Arglwydd yn amddiffynwr i'w bobl:—"Tarian yw yr Arglwydd Dduw." Y mae y peth cyntaf yn peri fod yr ail yn angenrheidiol; ac mewn ystyr y mae yn cynwys yr ail. Buasai yn beryglus dilyn goleuni yr haul i lawer man, oni buasai fod genym sicrwydd hefyd am y darian yno i'n hamddiffyn. Ac y mae y goleuni, mewn rhai amgylchiadau, yn amddiffyn; fel y mae goleuni y dydd yn amddiffyn

i'r teithiwr rhag bwystfilod gwylltion yr anialwch: "pan godo haul yr ymgasglant, a gorweddant yn eu llochesau." Felly y mae Duw, trwy fod yn oleuni, yn cadw ei bobl rhag y peryglon. Gweled "taledigaeth y gwobrwy,"—"gweled yr anweledig,"—fu yn darian i Moses, i'w gadw rhag cael niwed gan demtasiynau yr Aipht. Y mae yr Arglwydd yn darian trwy fod yn haul; ac nid ydyw yn darian i neb, os nad ydyw Efe yn haul iddo. Pan yr ydym yn rhodio yn ei oleuni Ef, dyna'r unig amser yr ydym dan amddiffyn ei fraich. Wrth ei gyfarwyddyd Ef yr aeth yr Israeliaid at y môr; am hyny yr oedd yn darian iddynt i'w cadw rhag niwed nes myned drwyddo. Yr oedd Duw yn haul i Abraham yn Ur y Caldeaid; ac felly yr oedd Efe yn darian iddo yng ngwlad Canaan. Gadawodd wlad ei enedigaeth wrth gyfarwyddyd Duw; am hyny fe i hamddiffynwyd gan y Duw hwnw ymhob man: "nac ofna; ..... myfi yw dy darian."

Ond er bod yr Arglwydd yn darian trwy fod yn haul; y mae yn darian mewn ystyr wahanol i hyn. Y mae gweled y drwg yn fath o amddiffyniad rhagddo; ond nid digon i ni fuasai hyn. Y mae y golofn yn ein harwain i lawer man tra pheryglus; ond nid ydyw yn arwain i un man nad ydyw y darian ynddo. Hi a arweiniodd Abraham a Joseph ar hyd ffordd nid adnabuant; ond yr oedd yn darian i'r naill, a chydâ'r llall:—"A'r Arglwydd oedd gydâ Joseph." Ac os na bydd y darian yn y golwg, fel gyda'r tri llanc yn Babilon; os byddwn ni yn sicr mai y golofn fydd wedi ein harwain i'r amgylchiad, fe ddaw y darian i'n cynorthwyo yn foreu iawn. Cadw rhag i'r saethau niweidio ydyw diben y darian; nid rhwystro eu gollwng hwy t. Y mae hyn yn cynwys bod y Cristion yn y rhyfel,—nid wedi ffoi;—bod y darian mewn un llaw yn amddiffyn, a'r arf yn y llaw arall yn rhyfela. Un arall oedd yn dwyn tarian Goliath ac nid efe ei hun; ond er y darian, fe gyrhaeddodd y gareg ei dalcen ef. Felly y mae tarian y Cristion bob amser yn llaw un arall: mewn gwirionedd, Duw ei hunan ydyw hi; a chyda'r fath darian, pa niwed all ddigwydd iddo?

Y mae yr Arglwydd yn amddiffyn ei bobl, yn weledig, ac yn anweledig: yn anweledig mewn dwy ffordd:—

(1.) Trwy gryfhau eu grasusau i wynebu y temtasiynau. Fel

hyn y bu yn darian i Paul: yr oedd gras yn ei atal rhag cael niwed yn y swmbwl. Taflwyd llawer o bicellau tanllyd at yr Arglwydd Iesu; ond yr oedd cymaint o ras yn ei fynwes Ef, nes yr oedd yn diffodd pob un. Felly yn y Cristion: y mae y dyn newydd yn gorchfygu yr hen. Yn yr ystyr hwn y dywedir fod gwirionedd Duw yn darian; a ffydd yn darian; hyny yw, crediniaeth ddiysgog yn y gwirionedd datguddiedig sydd yn peri i'r Cristion ddal ei ffordd yn y rhyfel. Un pwynt sefydlog sydd yn cadw y morwr rhag dyrysu; felly un peth disigl sydd yn gwneuthur hyny gydâ'r Cristion. Gwirionedd Duw oedd y darian a amddiffynodd Job:—"Pe lladdai Efe fi, eto mi a obeithiaf ynddo Ef,"—mi a ymddiriedaf ynddo.

(2.) Y mae yr Arglwydd yn amddiffyn hefyd trwy gyfaddasu y demtasiwn i'r nerth:—"Y mae yn atal ei wynt garw ar ddydd dwyrein-wynt." Y mae yn darian trwy gyfaddasu y nerth i'r demtasiwn; ac hefyd drwy gyfaddasu y demtasiwn i'r nerth. 1 Cor. x. 13, "Nid ymaflodd ynoch demtasiwn, ond un ddynol: eithr ffyddlawn yw Duw, yr hwn ni âd eich temtio uwchlaw yr hyn a alloch; eithr a wna ynghyd â'r demtasiwn ddiangfa hefyd, fel y galloch ei dwyn." Os goddefa y demtasiwn, fe wna ddiangfa hefyd.

2. Y mae yn darian hefyd mewn modd amlwg yn fynych. Fel hyn y mae wedi bod yn breswylfa i'w bobl ymhob cenedlaeth. Y maent yn cael aros yn nghysgod yr Hollalluog. Y mae ei garedigrwydd fel tarian yn eu hamgylchu, Salm cv. 14, "Ni adawodd i neb eu gorthrymu: ïe, ceryddodd frenhinoedd o'u plegid." "Tarianau y ddaear ydynt eiddo Duw:' ac y mae pob un o honynt yn cael ei defnyddio i amddiffyn ei brophwydi. Y mae yr Arglwydd yn darian yn amlach yn y ddwy ystyr flaenorol nag ydyw yn hon. Oni bai ei fod felly bob dydd, nis gallai y saint gadw y maes am ddiwrnod, oblegid, er fod pobpeth yn ymddangos yn llonydd i'r golwg allanol; eto y mae rhyfel prysur yn cael ei gario ymlaen yn y byd ysbrydol, y mae nerthoedd y byd hwn yn ymryson â nerthoedd y byd a ddaw. Nid oedd y rhyfel y bu yr Arglwydd Iesu ynddo yn y diffaethwch ddim yn un mwy gwirioneddol na'r hwn y mae pob Cristion ynddo bob dydd. Yr oedd y rhyfel hwnw yn anweledig, i'r byd; felly y mae rhyfel y Cristion Pan y mae rhyfel yn anwel-

edig, y mae y darian felly. Y mae y picellau a deflir i'r meddwl yn cael eu hatal i niweidio, gan darian ysbrydol gras yn y galon. Ond pan y mae y demtasiwn yn dyfod yn weledig, y mae y darian yn dyfod yn weledig; ac y mae pob peth yn darian yn llaw Duw; oblegid mewn gwirionedd Efe ei Hunan ydyw y darian, beth bynag fyddo yr offeryn. A'r rheswm paham y defnyddir offerynau mor wael ydyw, "fel y byddo godidogrwydd y gallu o Dduw." Byddai yr hen ryfelwyr yn gwneyd y darian o wahanol ddefnyddiau; ond ofer fuasai pob un o honynt yn y dyddiau hyn, hyd yn nod rhai aur Solomon. Buasai y pylor, â pha un y rhyfelir yn awr, yn eu gwneuthur hwynt oll yn ddiwerth. Felly y mae tarianau Sïon yn cael eu gwneuthur o wahanol ddefnyddiau. Weithiau y mae yn gwneyd tarian o wê y pryf copyn; bryd arall o niwl y mynyddoedd. Weithiau fe wna darian o'r goleuni; bryd arall o'r tywyllwch. "Y mae ganddo lawer o'r fath bethau,"—llawer o ddefnyddiau; ac er bod darganfyddiadau yr oesoedd hyn wedi gwneuthur yn ofer darianau dynion, nid oes yr un darganfyddiad a wna yn ofer darianau Duw. Gall Efe wneuthur gwê y pryf copyn yn darian mor nerthol eto, fel nad all holl rym uffern ddim gyru saeth drwyddi. "Pyrth uffern nis gorchfygant hi."

III. Y mae yr Arglwydd yn gynhaliwr ei bobl:—"Efe a rydd ras a gogoniant." Y mae hi yn y testyn hwn fel yr oedd y deml gynt; yr oedd y cyntedd yn hardd;—y cysegr yn harddach;—a'r cysegr sancteiddiolaf yn harddaf o'r oll. Yn y cyntedd a'r cysegr yr ydym ninau wedi bod hyd yma; ond yn awr dyma y cysegr sancteiddiolaf,—"gras a gogoniant." Yr oedd cael goleuni ac amddiffyn ar y daith yn beth mawr; ond dyma beth mwy,—cynhaliaeth, a gwobr yn ei phen draw hi. Ar ryw olwg nid ydyw hyn ond dau enw ar yr un peth. "Gras"—dyna enw y ddaear arno. "Gogoniant,"—dyna enw y nefoedd arno. Gras, ydyw gogoniant yn yr eginyn: gogoniant, ydyw gras yn y dywysen. Gras, ydyw yr un bach yn Nghrist: gogoniant, ydyw y gwr perffaith. Gras, ydyw amlinellau (*outlines*) y darlun: gogoniant, ydyw y *pictiwr* wedi ei orphen. Gras, ydyw teyrnas Dduw yn yr enaid yma: gogoniant, ydyw yr enaid yn nheyrnas Dduw, wedi ymadael â'r

fuchedd hon. Gras, ydyw Israel yn yr anialwch: gogoniant, ydyw Israel yn Ngwlad yr Addewid. Gras, ydyw gwreiddyn y pren yn y byd hwn: gogoniant, ydyw ei ffrwythau yn y byd a ddaw. Y mae gras yn myned dan yr enw gogoniant, hyd yn nôd ar y ddaear. "A newidir o ogoniant i ogoniant, megis gan Ysbryd yr Arglwydd," hyny yw, o'r naill radd o ras i'r llall. Y mae gogoniant yn hanfod gras, fel ag y mae gwres yr haul yn gysylltiedig â'r goleuni. Y mae mwy o amser yn ofynol i wresogi yr awyr-gylch, nag sydd i'w goleuo hi; ond y mae y gwres yn sicr o ddilyn y goleuni; felly y mae gogoniant yn sicr o ddilyn gras. "Haul,"—dyma y golofn sydd yn arwain Israel drwy yr anialwch. "Tarian,"—dyma yr amddiffyn sydd yn cadw pob gelyn draw. "Gras,"—dyna y mana sydd yn cynal ar y daith. "Haul,"—dyna Dduw yn cyfarwyddo ei was i fyned i Horeb. "Tarian,"—dyna amddiffyn iddo rhag llid Jezebel. "Gras,"—dyna y deisen a'r dwfr sydd i'w gynal i gerdded am ddeugain niwrnod a deugain nos. "Haul,"—dyna ddoethineb Duw yn cyfarwyddo. "Tarian,"—dyna allu Duw yn amddiffyn. "Gras,"—dyna gariad Duw yn cynal. Duw yn haul,—dyna Brophwyd yn dangos y ffordd; Duw yn darian,—dyna Frenin yn amddiffyn; Duw yn Rhoddydd gras,—dyna Dad yn cynal ei blant. Y mae Duw fel haul yn wrthddrych gogoneddus; ond y mae yn bell oddiwrth ei bobl. Y mae Duw fel tarian yn wrthddrych ymddiried; ond y mae yr un gallu ag sydd yn cymell ymddiried yn cynyrchu ofn hefyd. Y mae Duw fel Rhoddydd gras yn ymyl ei bobl. Teimlo ein diddymdra ein hunain yr ydym yn wyneb y peth cyntaf; ei ofni yr ydym yn yr ail; a'i garu yn y trydydd,—"gras a gogoniant."

Yn ol yr olwg yr ydym ni wedi ei chymeryd ar y testyn, y mae y gras hwn yn golygu pob peth angenrheidiol i'r daith ysbrydol. Er bod gras yn y Beibl yn myned bron am bob peth iachawdwriaeth: y mae yn enw ar y ffynon o ba un y tarddodd hi; ac hefyd yn enw ar y ffrydiau. Ac, feallai, nad oes yr un gair arall mewn iaith, a ddesgrifia yr oll o'r iachawdwriaeth mor gyflawn â'r gair gras. Os mynem ni ddangos o ba le y tarddodd hi, ni a ddesgrifiem hyny yn gyflawn yn yr un gair hwn, "gras:"—"yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras." Os mynem ni

ddangos pa fod 'l y mae pechadur euog yn dianc, y gair hwn a ddengys hyny;—"Gras yn rhagor amlhau." Os mynem ni ddesgrifio y sefyllfa hapus y mae yr hwn sy mewn cymod â Duw ynddi, gras a wna hyny:—"Cawsom ddyfodfa i'r gras hwn." Os mynem ddesgrifio athrawiaeth yr efengyl, y gair hwn a wna hyny:—"gwir ras Duw." Os mynem ni ddesgrifio y genadwri fawr, gras a wna hyny:—"I mi y llai na'r lleiaf o'r holl saint y rhoddwyd y gras hwn, i efengylu ymysg y cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist. Mewn gair, "gras" ydyw Alpha ac Omega iachawdwriaeth. Rhoddion gras ydyw ei phob peth hi. Rhoddwyd cymaint o ras yn Nghrist, hyd nes y trôdd gras yn wirionedd. Yr oedd gras cyn hyny wedi ei daenu drwy yr hen oruchwyliaeth, fel yr oedd y goleuni yn moreu y greadigaeth; ond ar y groes fe gartrefwyd y cyfan mewn un Haul. Nid ydoedd gras, wedi hyn, ddim i fod fel ychydig oruchion yn y ffurfafen: na, fe wnaed haul o ras; pelydrau yr hwn sydd i lenwi yr eglwys â goleuni ac â gwrês am byth:—"O'i gyflawnder Ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras."

1. Y mae hyn yn cynwys mai gras ydyw holl roddion Duw i'w bobl, hyny yw, y maent oll yn tarddu o'i ewyllys da, a phob un yn gysylltiedig â gogoniant. Nid ydyw yr olwg arnynt bob amser yn cyfateb i'n syniadau ni am ras; ac yr ydym yn fynych yn methu canfod pa gysylltiad a all fod rhyngddynt â gogoniant. Buasai yn ymddangos yn anghyson i neb ddywedyd mai rhoddi gras yr oedd Duw i Joseph, pan oedd y pethau chwerwon hyny yn dyfod i'w gyfarfod; ond pan ddiweddodd y cyfan yn ogoniant, yr oedd yn ddigon hawdd canfod mai gras oeddent:—"Byr ysgafn gystudd yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant." Nid yn yr un dull y dyfrheir y ddaear ymhob gwlad. Mewn rhai gwledydd y gwlith yn benaf sydd yn gwneuthur hyny: mewn eraill, y mae y gwlaw yn disgyn ar amserau penodol. Y mae eraill, fel Eden, âg afon yn llifo dros ei cheulanau i'w dyfrhau; ond pa ddull bynag y dyfrheir, yr un ydyw y diben,—yr un ydyw yr effaith, cynyrchu ffrwythlondeb. Felly, nid yn yr un dull y cyfrenir gras i bawb. Y mae rhai yn ei dderbyn fel gwlith y boreu. Y maent bob amser yn dirf ac iraidd. Y mae yn rhaid gorchuddio eraill megis â llifeiriant; ond gydag

i'r dyfroedd ddechreu treio, gwelir mai yr un oedd y diben yno,—peri i'r ddaear darddu a thyfu;—rhoddi gras drwy bob peth. Ac er bod mwy o oruchwyliaethau chwerwon yn cyfarfod âg ambell Gristion nag sydd yn cyfarfod â'r llall, eto nid oes ond yr hyn sydd anhebgorol angenrheidiol tuag at barotoi i ogoniant. Y mae yn rhaid i rai parthau o'r ddaear gael mwy o wlaw nag eraill i'w cadw yn ffrwythlawn. Y mae yn rhaid i'r mynyddoedd gael mwy na'r dyffrynoedd, oblegid y mae y rhediad sydd yn y tir yn peri fod pob lleithder yn cael ei gario ymaith yn fuan. Felly yn ysbrydol,—y mae yn rhaid i rai gael mwy o'r gwlaw, am eu bod fel y mynyddoedd, a phob lleithder yn cael ei gario ymaith yn fuan; ond ni chä neb ond yr hyn sydd yn angenrheidiol i barotoi y tir i ddwyn cnwd o ogoniant. "Gras a gogoniant."

2. Y mae yr ymadrodd yn cynwys y meddylddrych o barhad. Lle bynag y dechreua Duw roddi, fe rydd am byth wed'yn. Gallwn fenthyca geiriau gwraig Haman a'u cymhwyso at hyn: Est. vi. 13, "Os o hâd yr Iuddewon y mae Mordecai, yr hwn y dechreuaist syrthio o'i flaen, ni orchfygi mo hono, ond gan syrthio y syrthi o'i flaen ef." Nid gwiw i ti ddisgwyl cyfnewidiad ar yr oruchwyliaeth: felly os ydwyt wedi dechreu derbyn o law Duw, fel Duw iachawdwriaeth, gan dderbyn ti a dderbyni yn dragywydd. "Gras,"—y mae y gair yna yn cyraedd hyd at yr Iorddonen, a thrwyddi. "Gogoniant,"—Y mae y gair yna yn ymestyn trwy dragywyddoldeb. Ac y mae y rhoddion, fel gwin priodas Cana gynt, y ddiweddaf fydd yr oreu o hyd. Felly yr oedd hi gydag Abraham. Fe roddodd gyfoeth mawr iddo yn Haran;—rhoddodd wlad gyfan iddo yn Nghanaan: rhoddodd fab oedd yn etifedd y byd iddo wed'yn. Ac o hyny hyd heddyw, y mae yn parhau i roddi iddo yn ddiball. Nid oes ond un *os* yn nhrefn Duw: "os plant,"—dim ond bod yn sicr am hynyna, nid oes achos ameu am ddim arall,—"etifeddion hefyd," yn *ddi-os*. "Gras yn gymorth cyfamserol" yma, a "choron gogoniant" yn y byd a ddaw.

Os dymunech chwi gael y cyfan wedi ei symio mewn un gair, dyma fe,—"Ni atal Efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith." Y mae addewidion y Bibl fel arian bathol gwlad, y rhai sydd wedi eu bwriadu i gylch penodol; ond y

mae yr aur yn werthfawr ymhob gwlad: felly y mae rhai addewidion nad ydynt o ddefnydd ond mewn amgylchiadau penodol; ond y mae yr addewid hon fel yr aur,—gellir ei chyfnewid hi ymhob amgylchiad. Yr addewidion ydyw arian tâl y Cristion, pa rai sydd i'w gynal ar y daith, pan yn rhodio o'r naill deyrnas at bobl eraill; ond gall fyned i ambell le nad all gyfnewid yr un o honynt ond hon,—"Ni atal Efe ddim daioni." Ni wyddom ni ddim beth fydd y daioni yn aml; ond gallwn fentro gofyn,—fe ŵyr Duw;—fe gyfaddasa y daioni hwn ei hun at yr amgylchiad, fel y gwna y dwfr at lûn y llestr. Mewn tlodi, modd i beidio grwgnach fydd daioni. Mewn trallod blin, amynedd i ddioddef fydd daioni. Mewn cyfoeth ac esmwythyd, cymorth i beidio anghofio Duw, a modd i rodio gydag ef fydd daioni.

Dylai hyn gymodi ein meddwl â phobpeth a'n cyfarfyddo, sef bod holl oruchwyliaethau Duw wedi eu trefnu, fel ag y maent yn cydweithio i ddwyn o amgylch ddaioni i ni. Y mae hyn i'w ganfod yn amlwg yn hanes yr eglwys; ond nid ydyw yn llai gwirioneddol yn hanes pob un o'r aelodau, er nad ydyw mor weledig. Ni ataliodd Duw ddim daioni oddiwrth ei eglwys erioed. Ni ddywedodd Efe ddim ymha le y cai hi y daioni,—pa un ai yn yr Aipht, ai yn Nghanaan, ai yn Babilon; ond fe sicrhaodd y byddai iddi hi ei gael. Ac fel y gall yr eglwys ar y ddaear, felly y gall pob Cristion yn y nefoedd, ganu am drugaredd a barn. Am y cyntaf yn unig y gall efe ganu yma: y mae yn rhy dywyll eto iddo weled delw ac argraff daioni ar yr ail; ond yn ngoleu y byd a ddaw, fe wêl mai yr un *stamp* oedd ar bob goruchwyliaeth.

"O fryniau Caersalem cair gweled
  Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
  Yn felus i lanw ein bryd:
Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,
  Ac angau dychrynllyd, a'r bedd;
A ninau 'n ddiangol o'u cyraedd,
  Yn nofio mewn cariad a hedd."

Os i'r rhai a rodiant yn berffaith yn unig y mae addewidion y testyn, nid rhaid ond deall y geiriau mewn ystyr nacäol i

weled trueni pawb eraill. Pa fath un ydyw yr hwn sydd heb Dduw? un heb haul;—heb darian;—heb ras;—heb ogoniant; —heb ddaioni. Nid ydyw felly yn awr, am ei fod yn yr un byd â'r rhai a rodiant yn berffaith; am ei fod yn trigo yn amgylchoedd mynydd Sïon, y mae y gwlith sydd yn disgyn ar hwnw, yn fendith i'r holl fyd. Ond yn nghysgod Sïon, y mae yr holl amgylchoedd yn cael gwlith,—gwlith Sïon ydyw. Diau i'r Sodomiaid gael llawer bendith yn nghysgod Lot; ond pan ymadawodd ef, fe ymadawodd y bendithion yr un foment.

[Cyfansoddwyd y bregeth hon yn niwedd y flwyddyn 1847. Pregethwyd hi drachefn, yn Nolgellau, Ionawr, 1853; ac yn y Dyffryn, Mawrth, 1853.]

# PREGETH XXXII.

## DI I I DDYN OND CREDU.

MARC. v. 36.—"Nac ofna; cred yn unig."

LLEFARWYD y geiriau hyn gan yr Arglwydd Iesu wrth Jairus, pan fynegwyd iddo fod ei ferch wedi marw. Yr oedd Iesu Grist wedi cychwyn ar gais Jairus i'w hiachau hi; ond tra y bu Efe yn ymdroi ar y ffordd gydâ gwraig y dyferlif gwaed, bu farw y ferch. A phan welodd y teulu hyny, yn lle poeni yr Athraw yn ofer, fel y tybient hwy, anfonasant genad yn ddioed i ddywedyd wrth Jairus fod y cwbl drosodd. Gellir casglu oddiwrth yr hanes blaenorol, nad oedd ffydd Jairus yn y dechreu ddim yn gref iawn. Y mae yn mawr ymbil â'r Athraw am ddyfod a dodi ei ddwylaw arni fel yr iacheid hi. Mor wahanol ydoedd i'r Canwriad: yr oedd hwnw yn credu y gallasai yr Arglwydd Iesu iachau ei was ef o'r fan lle yr oedd; ond nid oedd gan Jairus obaith am iachad heb iddo ddyfod a dodi ei ddwylaw ar y ferch: am hyny, pan glywodd ei bod hi wedi marw, bu y newydd yn ergyd marwol i'w ffydd wan ef. Canfyddodd yr Arglwydd Iesu hyny yn ngwedd ei wyneb, a llefarodd y testyn ar yr achlysur:—"Nac ofna; cred yn unig." Yr oeddit wedi dy gau i fyny o'r blaen, fel nad oedd genyt yr un ffordd i ddianc ond trwy gredu ynof fi, a dim ond disgwyliad gwanaidd y diengit ti felly; ond yn awr y mae yr anialwch wedi cwbl gau o'th amgylch, a'th ofn wedi troi yn anobaith; eto, "nac ofna; cred yn unig." Saf, ac edrych o'r fan lle yr wyt ar iachawdwriaeth Duw. Y mae y newydd trist yna, a glywaist ti yn awr, wedi ei fwriadu i dy gau di i fyny yn llwyrach i ffydd ynof fi: am hyny "Nac ofna;

cred yn unig." Yr oedd Jairus wedi ei gau i fyny o amgylch ogylch, fel nad oedd ond yr un adwy hon iddo ddianc trwyddi, sef, credu, neu ymddiried. Pe buasai yn diystyru hono, buasai diangfa yn anmhosibl iddo; a'm hamcan inau wrth ddarllen y testyn oedd dangos ein bod ninau wedi ein cau i fyny yn gyffelyb iddo, neu, yn ngeiriau yr Apostol," wedi ein cyd-gau i ffydd."

Wrth ddarllen y Bibl, yr ydym yn canfod fod ffydd yn cael lle mawr iawn ynddo; hebddi hi nid yw crefydd ddim yn bod, oblegid hi sydd yn sylweddoli, neu yn rhoddi bod i wrthddrychau crefydd yn y meddwl; a hi hefyd sydd yn ffurfio cysylltiad rhwng y gwrthddrychau â'r enaid. Nid ydyw Duw ddim yn bod mewn gwirionedd i neb ond i berchen ffydd. Ffydd sydd yn trosglwyddo trysorau yr Ydwyf Hollddigonol i'r creadur. Hi felly ydyw sylfaen crefydd yn yr enaid, ac iddi hi fel ysgogydd neu offeryn y mae holl weithredoedd enwog crefydd i'w priodoli. Ni fuasai holl rinwedd Mab Duw yn ddim i'r wraig afiach y sonir am dani yn y benod hon, pe heb glywed am dano, a chredu y dystiolaeth; ac ni fuasai yn ddim wed'yn heb gael rhywbeth i ffurfio cysylltiad rhyngddi hi âg ef. Ffydd sydd yn sylweddoli y pethau i ni, ac hefyd yn eu trosglwyddo i'n meddiant. Crynodeb o waith ffydd mewn crefydd ydyw yr unfed benod ar ddeg o'r Hebreaid; ac nid anmhriodol a fyddai edrych ar y gweithredoedd a grybwyllir yno fel cynllun o waith ffydd ymhob mynwes. Y mae hi yn dwyn ei pherchen i ymostwng i drefn Duw i gael cymeradwyaeth ger ei fron fel Abel, yn lle gosod i fyny fympwy o'i eiddo ei hun fel Cain. Y mae ei pherchen hi ymhob oes yn rhodio gydâ Duw, fel Enoch; a chydâ pharchedig ofn, y mae yn cadw at lythyren y cyfarwyddid dwyfol gydâ'r arch i achub ei dŷ, fel Noah. Fel Abraham, y mae yn myned allan yn ysbryd ei feddwl o'i hen wlad, ac yn aberthu y pethau anwylaf, os bydd Duw yn eu gofyn. Nid yw holl wahanol rasusau y saint ddim ond gwahanol weithrediadau ffydd. Y mae hi yn newid ei gwedd a'i henw yn ol fel y bydd natur y dystiolaeth y bydd a fyno hi â hi, fel y bydd goleu yr haul yn troi yn amryw liwiau yn ol fel y bydd natur y gwrthddrychau y bydd yn tywynu arnynt. Pan yn gweithredu ar y tystiolaethau am ddaioni Duw, y mae hi yn gariad yn y fynwes: pan yn edrych ar fygythion

Duw, y mae hi yn ofn yn y galon. Pan yn syllu ar ei addewidion, y mae hi yn troi yn obaith: pan yn disgwyl o dan lawer o groesau am ddaioni dyfodol, y mae hi yn amynedd. Yn Noah, yr oedd y bygythiad yn ei gwneuthur yn barchedig ofn. Yn Abraham, yr oedd yr addewid yn ei gwneuthur hi yn obaith. Yn Moses, yr oedd y croesau oedd yn ei gyfarfod yn ei gwneuthur hi yn amynedd i ddisgwyl am daledigaeth y gobrwy. Mewn gair, byddai mor anhawdd ymwneyd â chrefydd heb ffydd, ag a fyddai i ddyn heb fywyd ymwneyd â'r byd hwn: byddai y naill yn anmhosibl; byddai y llall felly hefyd. Heb ffydd anmhosibl ydyw rhyngu bodd Duw, a hyny ydyw crefydd. Ni ddaw y gwddf ddim yn rhydd hebddi hi: "yr hwn sydd yn credu ynddo Ef, ni ddemnir." Ni ddaw y galon ychwaith ddim yn bur ond trwyddi hi.

Y mae amryw ystyriaethau i'r gair ffydd. Yn yr Hen Destament, ymddiried yn Nuw y gelwir yr hyn a elwir yn ffydd yn y Testament Newydd. Yn y Newydd eilwaith, y mae credu yn cael ei ddefnyddio yn aml am yr hyn a fuasai yn cael ei alw yn ymddiried yn yr Hen. Ond y mae y ddau ystyr yn rhedeg i'w gilydd. Y mae natur y dystiolaeth a gredir yn creu ymddiried. Y mae y meddwl drachefn sydd yn ymddiried yn Nuw yn naturiol yn credu pob tystiolaeth o'i eiddo; fel y mae yr un mor briodol dywedyd mai yr ymddiried sydd yn peri y credu ag ydyw dywedyd mai y credu sydd yn peri yr ymddiried. Yn ngeiriau y Salmydd, dyna ydyw ffydd, enaid yn glynu wrth Dduw, neu y creadur yn pwyso ar Greawdwr,—calon yn ddiysgog yn ymddiried yn Nuw. Y mae ffydd yn y wedd hon arni yn rhedeg drwy yr holl greadigaeth sanctaidd. Y mae hi yn y nefoedd fel ar y ddaear. Fe ddywedir, weithiau, y bydd ffydd yno yn troi yn olwg; ond ni fydd yno yr un olwg byth i wneuthur dyn yn llai ymddibynol ar Dduw. Yn hytrach, po mwyaf a wêl, mwyaf oll o ymddiried a deimla. Cynyrchu y teimlad o ymddibyniad ar Dduw mewn rhai oeddynt wedi ei golli, a gosod i lawr sail i ymddiried ynddo, oedd diben mawr cyfryngdod yr Arglwydd Iesu; a phan y bydd y diben hwn wedi ei ateb, 'fe gyflwynir y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad, fel y bydd Duw oll yn oll;'—y deiliaid wedi eu dwyn i deimlo eu hymddibyniad digyfrwng ar y Brenin tragywyddol, a chan bwyso

arno, ac ymddiried ynddo, yn cychwyn ar y daith ddiddiwedd.

Dau beth sydd yn hollol angenrheidiol tuag at ymddiried mewn un arall ydynt, yn

1. Na byddo gan ddyn ddim sail i ymddiried ynddo ei hun; ac yn

2. Bod ganddo sail ddigonol i roddi ei bwys ar un arall: cael barn angau ynddo ei hun, nes ofni; a chanfod cilfach â glan iddi mewn lle arall, nes credu. Nefoedd dyn ydyw ymddiried yn Nuw. Priodol ydyw gofyn ymhob ystyr arall am dano,—"Ymha beth y gwneir cyfrif o hono?" O'i gymharu â Duw, y mae dyn yn llai na dim; ar wahân oddiwrth Dduw, y mae yn wagedd rhy ysgafn i sefyll; ond yn pwyso ar Dduw, y mae yn gadarn fel y graig. Nid ysgogir ef. Y mae y gragen sydd yn glynu wrth y graig mor ddiysgog a'r graig ei hun tra y bydd hi yn glynu. Y mae'r plentyn mor ddiogel a'i dad tra y bydd yn ei law ef. Felly y mae y neb sydd yn ymddiried yn yr Arglwydd mor ddiogel a phe buasai yn meddu ar gadernid tragywyddol ei hun, tra y bydd yn ymddiried. Os bydd sail gyfreithlawn i ymddiried mewn gwrthddrych, y mae yr hyn a all gwrthddrych yr ymddired yn feddianol gan y neb sydd yn ymddiried. Fe all yr hwn sydd yn ymddiried fod yn ddall, ond os bydd llygaid gan wrthddrych ei ymddiried, y maent i weled drosto ef. Fe all ef fod yn wan; ond os bydd braich gan wrthddrych ei ymddiried, y mae ei nerth hi yn eiddo ef. Fe all ef fod yn ffol ac anwybodus, ond os bydd gwybodaeth a doethineb gan wrthddrych ei ymddiried, bydd cymaint o honynt yn eiddo ef ag y bydd ei amgylchiadau yn eu gofyn. Nid yr un peth ydyw ymddibynu ar Dduw ag ymddiried yn Nuw. Bydd yr holl greadigaeth byth yn ymddibynu ar Dduw; ond ni bydd ond cymaint o honi ag a fydd yn ymddiried yn Nuw yn ddedwydd. Bydd y rhai sydd yn ymddiried fel y plant yn cael eu porthi yn y palas, tra y bydd y lleill fel y carcharorion yn cael eu cynhaliaeth yn y daear-dy. Y naill wedi cael dianc rhag ofni trwy gredu, a'r lleill oherwydd credu yn gorfod ofni. Y naill yn credu ac yn crynu, a'r lleill oherwydd credu wedi cyraedd tir na frysiant byth.

Gan mai ein nefoedd ni ydyw ymddiried, y mae yr Arglwydd wedi ordeinio pob peth yn fanteisiol i'n cael ni i fyny i ymddiried.

Y mae y natur a gawsom ni fel creaduriaid yn eglur wedi ei bwriadu i ymddiried. Y mae yr amgylchiadau sydd wedi eu trefnu i ni gan Dduw wedi eu hordeinio i'r un diben. Y mae y datguddiad a roddodd Efe yn ei air, yn ein cau i fyny i'r ffydd. Fel pa un bynag a wnawn ai edrych i'n mynwes, ai edrych o'n hamgylch, ai edrych i'r Bibl, y mae yr oll fel anialwch yn cau arnom mor llwyr nes peri i ni ofni, ac nad oes ond un ffordd i gael ymwared rhag yr ofn hwnw, sef trwy gredu. Y mae yr ofn wedi ei fwriadu i'n cau ni i fyny i ymddiried.

I. Y mae cyfansoddiad ein natur wedi ei fwriadu i'n harwain ni i ofni er mwyn i hyny ein cau i fyny i ymddiried. Nid yw galluoedd dyn ar ryw olwg ddim yn gyfartal: naill ai yr ydym yn gwybod gormod, neu yn gallu rhy ychydig. Pe buasem fel yr anifeiliaid, ni buasem yn gwybod digon i beri ofn; mwynhau y presenol ydyw pob peth yr anifail, heb allu i ymsynied am y dyfodol. Gellir dywedyd am ei ystâd ef, ei bod hi yn *happy ignorance*, anwybodaeth hapus; ond nid felly ni; eithr y mae y dyfodol yn dyfod i aflonyddu ar ein presenol ni yn fynych fynych, ac eto yr ydym fel yr anifeiliaid, o ran dim a allwn ni ein hunain ar gyfer y dyfodol hwnw. Y mae rhyw ysgrifen ar fur ein tŷ ni. Yr ydym yn teimlo fel Belsasar ei fod yn perthyn i ni, ond ni fedrwn ni na neb o'n hamgylch ei ddarllen ef; y mae hyny wedi peri i aml un, fel yntau, grynu gan ofn. Y mae pob peth sydd yn perthyn i ddyn fel creadur yn eglur ddangos, naill ai ei fod wedi ei greu i fod yn druenus, neu ynte ei fod wedi ei fwriadu i ymddiried yn Nuw. Oni bai am hyn ni buasai yn cael llygad mor graff i ganfod y drwg o bell;—ni buasai yn cael calon mor deimladwy o ofn;—ni buasai yn cael braich mor amddifad o nerth. Y mae rhai creaduriaid fel yr estrys, heb ddoethineb i weled yn ddigon pell i ofni; y mae eraill fel y Lefiathan, wedi eu gwneuthur heb ofn; ac eraill â'u hesgyrn yn bibellau pres ac yn ffŷn haiarn o nerth, fel y Behemoth; ond am ddyn, er bod ganddo lygad fel angel i weled ymhell, y mae ei galon fel cwyr, hi a dawdd gan ofn; a'i fraich fel corsen heb nerth. Nid hir y byddwn ni yn penderfynu wrth edrych ar bob peth y ddaear, pa un ai wedi eu bwriadu i ymddïbynu arnynt eu hunain, ai ynte i bwyso ar ryw un arall y maent. Ymysg yr anifeiliaid, nid yw y rhai sydd a

nerth mawr ganddynt yn fuan o draed, pan y mae y rhai sydd heb hyny wedi cael naill ai cyflymdra i ddianc o gyraedd y perygl, neu gyfrwysdra i dwyllo y gelyn. Ymysg y planhigion, y mae y dderwen yn dyrchafu ei phen fel cawres yn nghanol y maes heb gysgod o un man ; ond am y winwydden, nid all hi ddim tyfu a ffrwytho heb gael cysgod, a rhyw beth i bwyso arno. Nid oes gan yr eiddew ddim nerth ; ond y mae ganddo rywbeth i ymaflyd mewn peth sydd yn ei feddu. Felly, nid oes gan ddyn ddim nerth ond nerth i lynu. Pa fodd y mae cymaint o ysbryd dringo ynddo, ac yntau mor wan, os nad am ei fod wedi ei fwriadu i bwyso ar rywun cadarn ac uchel,—un abl i'w gynal, ac un digon uchel, fel y byddo digon o le iddo ddringo i fyny byth.

Cymerwch ond un o briodoliaethau natur dyn yn esiampl i weled pa fodd y maent oll yn ein cau i fyny i ymddiried, sef anfarwoldeb. Y mae hyn fel wedi ei *stampio* ar ein natur ni, fel na raid i ni fyned allan i chwilio am brofion o hono. Y mae yn argraff ar yr enaid. Ni a allwn feddwl fod diwedd yn bosibl i bob peth gweledig, ond i ni ein hunain. Ni a allwn dybied, heb fod y dyb yn gwneuthur trais â dim, y gall yr haul yna ddiffoddi—y gall rhyw awel chwythu allan holl lampau disglaer y ffurfafen. Ni a allwn ddychymygu am adeg pryd na bydd amser ei hun mwyach,—adeg y bydd y ddaear gadarn yma wedi ei cholli, a'r nefoedd heb le iddi ; ond nis gallwn feddwl, heb deimlo ein bod yn treisio pob peth yn ein natur, am ddiwedd neu ddifodiant i ni ein hunain. Byddai bron mor hawdd i ni feddwl y gallai Duw beidio â bod, a meddwl y gallem ni ein hunain beidio â bod. Nid yw marwoldeb wedi ei argraffu yn amlycach ar y babell bridd yma, nag ydyw anfarwoldeb ar ei thrigianydd hi. Darfu i anadl Duw wneuthur y preswylydd yn enaid mor fyw, fel nad all ef feddwl am ddim yn amgen na byw cyhyd â'r Duw a anadlodd fywyd iddo ; ac y mae hyny o brawf a gawsom ni ar fyw yma yn ddigon i'n dychrynu ni wrth feddwl am fyw byth. Pe cawsem ni fyw byth ar y ddaear, mewn byd mor ansefydlog, gallasai cyfnewidiadau mor fawrion gymeryd lle yn nhreigliad oesoedd diddiwedd, fel ag i'n hysbeilio ni o bob gronyn o ddedwyddwch ; ond beth fydd estyn ein dyddiau mewn byd na wyddom ddim am ei natur

na'i amgylchiadau,—byd yr ydym yn ddieithr iddo ymhob ystyr? Y mae yn wir mai dieithriaid a phererinion ydym ni yma: ni theithiasom y ffordd hon o'r blaen, ac nis gwyddom beth a fydd yfory; ond o'n cymharu â'r hyn a fyddwn ni yno, yr ydym ni yma yn trigo yn nghanol ein pobl: ni a wyddom pa le i droi mewn ystorm; ond yno ni a fyddwn yn unig heb ail i'n cyfodi, fel y mae teithiwr yn nghanol yr anialwch yn gorsen wan heb gysgod rhag y gwynt o un pwynt. Y mae morio Môr y Werydd sy mor adnabyddus, yn enbyd yn aml; ond pa faint mwy enbyd ydyw morio moroedd anadnabyddus y Gogledd, rhai nad oes neb wedi eu chwilio a gwneuthur *chart* o honynt? Mwy dieithr na'r rhai yna fydd y môr y bydd ein llestri bychain ni yn fuan yn cael eu gwthio iddo. Y mae y meddwl hwn am fyw byth yn ddigon a pheri i'r cadarnaf ei galon ofni; a'r achos paham nad ydym oll yn teimlo yr ofn ydyw, am fod y pethau gweledig sydd yn ein hamgylchu yn cadw y rhai anweledig o'r meddwl; ond pan y dêl afiechyd neu drallod i'n troi ni o'r neilldu, ac i bylu ein llygaid i bethau amser, y maent yn dyfod i'r golwg y pryd hyny, fel y mae y sêr naturiol yn ymddangos yn y nos; a dim ond eu gweled y maent yn sicr o gynyrchu ofn mawr, a hwnw yn ofn y bydd ymwared oddiwrtho yn anmhosibl ond trwy gredu yn Nuw. Pa faint bynag o ofn yr Aipht oedd ar Sarah gynt, yr oedd Abraham yn amddiffyn iddi; ond pan y cychwynodd hi i'r daith bell, fe dorwyd y cwlwm oedd yn ei chysyllu âg Abraham wrth gychwyn;—yr oedd yn rhaid credu yn rhywun amgen na'r hen batriarch i gael gwaredigaeth oddiwrth yr ofn hwnw. Yr oedd ymddiried yn Jacob, ei dad, a rhedeg i'w babell, yn ddiogelwch i'r llanc Joseph rhag peryglon pan yn Nghanaan; ond buasai yn dlawd iawn arno pan yn myned i waered i'r Aipht, oni buasai fod ganddo gysgod amgen na Jacob: "yr Arglwydd oedd gyda Joseph." Yn wir, y mae yr anfarwoldeb sydd yn perthyn i mi yn ddigon i'm gwallgofi gan ofn, oni bai y caf ymaflyd ar Greawdwr ffyddlawn,—y caf rifo blynyddoedd tragywyddoldeb dan bwyso ar yr Hwn sydd yn ei breswylio. Pan y byddwyf yn llesmeirio gan ofn, y mae Efe yn sibrwd, "Nac ofna; crêd yn unig."

II. Y mae yr amgylchiadau sydd wedi eu trefnu i ni gan

Dduw wedi eu bwriadu i'n cau i fyny i ymddiried. Y mae y cwbl yn y rhai hyn eto yn ein taflu yn ol yn barhaus ar Dduw, fel nad allwn gael gwir heddwch yma ond trwy ymddiried.

Amcan dyn llygredig yn yr oll o'i weithredoedd ydyw gwneuthur ei hun yn annibynol ar Dduw; ond y mae yr Arglwydd wedi trefnu pob peth y byd hwn yn y fath fodd, fel y mae pob dyn yn gorfod teimlo ei ymddibyniad ar Dduw bron bob cam. Fe adeiladwyd Babel gan annuwiolion rhyfygus, i wneuthur eu hunain, debygent hwy, yn annibynol ar Dduw; ond buan y bu hyny yn foddion iddynt orfod teimlo eu hymddibyniad yn llwyrach nag erioed: felly, pa dŵr bynag a wnawn ninau i geisio trwyddo fod yn annibynol ar Dduw, ni a gawn weled y bydd raid i ni, oherwydd ein tŵr, deimlo ein hymddibyniad yn llwyrach.

Y mae gan ddyn allu i ymwneyd â phethau y ddaear. Y mae efe "o'r ddaear yn ddaearol," wedi ei gyfaddasu i fyw arni, ac i fyw ynddi. Y mae ganddo serchiadau i ymhoffi yn ei thrigolion ac yn ei phethau hi; ond y mae y cymhwysder hwn yn sicr o naill ai ei wneuthur yn druenus gan ofn, neu ei gau i fyny i ymddiried yn Nuw. Edrychwch ar ddyn a'i serch wedi ymglymu o amgylch rhai o drigolion y byd hwn;—dyna ddau gyfaill fel Jonathan a Dafydd, neu fam a'i phlant, fel Rahel a'i meibion, neu wr a gwraig fel Abraham a Sarah;—fe dry y ffynhonau yna yn chwerw, fel rhai Mara i ddyn, os heb ymddiried yn Nuw. Fe fydd y saeth sydd yn ehedeg y dydd, a'r haint sydd yn rhodio yn y tywyllwch, yn cadw Jonathan mewn pryder ynghylch Dafydd,—Rahel ynghylch ei meibion,—ac Abraham ynghylch Sarah,—os na wna y naill a'r llall yr Arglwydd yn noddfa, sef y Goruchaf yn breswylfa iddo; ac yn ol graddau y serch atynt y bydd graddau yr ofn rhag eu colli, ac nid oes dim ymwared o hono ond ymddiried yn Nuw.

Meddyliwch eto am bethau y ddaear: y mae y rhai hyn hefyd yn llanw y fynwes o ofn. Dyna un yn llwyddo yn y byd,—ei gyfoeth yn amlhau; ond bydd y llwyddiant yna yn drueni nid bychan iddo os nad arweinir ef i ymddiried yn Nuw. "Llawnder y cyfoethog ni ad iddo gysgu." Beth ydyw y pryder sydd i'w ddarllen yn wyneb y bydolddyn, a'r cybydd? Onid prawf o galon yn methu mwynhau dim o bethau y ddaear

rhag ofn eu colli? Ond, meddir, oni all dyn golli y pryder yna trwy anystyriaeth mor hawdd a thrwy gredu? Y mae yn wir y gall; ond pan y cyll efe y pryder felly, y mae hyny yn arwydd sicr fod yr Arglwydd ar ddwyn rhyw foddion eraill i'w ddwyn i deimlo ei ymddibyniad ar Dduw, os nad i'w gau i fyny i ymddiried. O flaen cwymp, y mae uchder ysbryd yn myned. Yr oedd Nebuchodonosor yn esiampl o'r dosbarth yna. Yr oedd efe wedi meddianu,—ac wedi meddianu, debygasai efe, mor llwyr, fel nad oedd raid pryderu rhag colli; ond dyna y pryd y dygwyd ef, trwy foddion chwerw, i wybod mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion.

Pan yr eir i briodoli parhad ac anghyfnewidioldeb i ddim o bethau y ddaear (nid ydym yn gwneuthur hyny tra yn ofni eu colli), yr ydym yn gorfod teimlo mai gwae y dyn a wnelo fraich o gnawd yn hyder iddo. Os byddwn ni lawen iawn am unrhyw gicaion, heb gymysgu y llawenydd hwnw â dychryn,—y mae y pryf wedi ei barotoi i'w daraw ef. Yr oedd yr Israeliaid yn priodoli i'r Aiphtiaid yr hyn oedd yn unig yn eiddo Duw, ac felly yn pwyso arnynt; ond buan y caent weled, meddai yr Arglwydd, "mai dynion oeddynt ac nid Duw, a'u meirch yn gnawd ac nid yn ysbryd."

Y mae y tlawd a'r cyfoethog yn hyn yn cyd-gyfarfod. Y mae amgylchiadau y ddau yn eu cau i fyny i ofni, neu i gredu. "Llawnder y cyfoethog ni ad iddo gysgu." A oes dim modd iddo gael hyny? O oes; dim ond iddo roddi ei hun a'i lawnder i ofal Duw, fe gysga yn ddigon hapus. Nid oes gan y tlawd ddim ond digon am heddyw. Ni all yntau ddim cysgu gan bryder ynghylch yfory; O gall, ond ymddiried yfory i'r Duw a ddarparodd ar gyfer heddyw. Yr oedd cyfoeth a mawredd Abraham yn ei gau i fyny i ymddiried. Yr oedd ei gyfoeth yn ddigon i demtio y mân frenhinoedd o'i amgylch i ymosod arno; ond "Nac ofna," meddai yr Arglwydd, "myfi yw dy darian." Yr oedd tlodi ac unigrwydd Jacob yn ei gau i fyny i ymddiried: os caf "fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo, yna y bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi." Y mae cyfoeth a thlodi yn arwain i'r un fan, sef i daflu y baich ar yr Arglwydd. Ni allwn ni ddim meddianu pethau y byd ond yn Nuw. Y mae mwynhau a gofalu yn anmhosibl i ni; ond ni a allwn

fwynhau os cawn ni ryw un arall i ofalu. "Gan fwrw eich holl ofal arno ef." "Na ofelwch am ddim;—gwneler eich holl ddeisyfiadau chwi yn hysbys gerbron Duw." "Treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd, a'th feddyliau a safant." "Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo, ac Efe a'i dwg i ben." Ymddiried yn Nuw a bâr i ni eu meddianu, heb gael poenedigaeth oddiwrth ofn; ac ymddiried yn Nuw yn unig a all ein cadw ni rhag tristwch y byd sydd yn gweithio angau, wrth eu colli. Gofynwyd i un pan yn llwyddianus yn y byd, ai nid oedd ei lwyddiant yn ei arwain oddiwrth Dduw? Nac ydyw, meddai, oblegid yr wyf yn mwynhau Duw yn y cwbl. Fe drodd y rhôd arno mewn amser, ac fe gollodd lawer o'i gyfoeth. Gofynwyd iddo eilwaith, ai nid oedd yn grwgnach? Nac ydwyf, meddai, oblegid yr wyf yn mwynhau y cwbl yn awr yn Nuw. Yn ei lwyddiant yr oedd yn mwynhau Duw yn ei roddion; yn ei adfyd, yr oedd yn mwynhau y rhoddion yn Nuw. Y gwahaniaeth oedd ei fod yn mwynhau Duw trwy gyfryngau pan yn llwyddianus, ac yn ddigyfrwng pan yn adfydus. Yr oedd yn y ddau amgylchiad yn brawf o wirionedd y dystiolaeth, "Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol, yr hwn sydd a'i feddylfryd arnat ti, am ei fod yn ymddiried ynot."

Gallasem nodi llawer o bethau eraill yn nhywyllwch ein hamgylchiadau sydd yn ein cau i fyny i ymddiried, megis breuolder ac ansicrwydd einioes. Ni wyddom ni ddim na all pob dydd fod yn olaf i ni. Yr ydym yn rhodio mewn cysgod,—yn ymdrafferthu yn ofer. Yr oedd hyn yn peri i'r Salmydd ddywedyd, "Beth a ddisgwyliaf? Fy ngobaith sydd ynot ti." Yr oedd ofn yn ei gau i fyny i ymddiried. Ond ni a adawn y tywyllwch i sylwi—

2. Fod y goleuni yn ein harwain ni i'r un fan. Y mae ein gwybodaeth ni fel ein hanwybodaeth yn ein cau i fyny i ymddiried. Nid wyf yn tybied y cyfeiliornwn wrth ddywedyd mai y rheswm paham y mae yr angel yn ymddiried yn llwyrach yn Nuw na ni ydyw, am ei fod yn gwybod mwy. Y mae ê yn ymguddio o dan gysgod adenydd yr Hollalluog, am ei fod yn ddoeth, ac yn canfod y drwg o bell, tra yr ydym ni yn ffyliaid, yn myned rhagom nes cael ein cosbi. Y mae y neb a chwanega wybodaeth yn sicr o fod yn chwanegu gofid, os na

bydd ei wybodaeth yn ei gau i fyny i ymddiried. Os ydyw bod dyn yn medru cael allan bethau mor rhyfedd yn dangos ei fawredd, y mae yr un pethau yn dwyn ei ymddibyniad ar Dduw yn eglurach iddo. Os ydym wedi cael allan rai pethau i'n diogelu rhag rhai o'r peryglon yr oedd ein tadau yn agored iddynt, y mae yr un pethau wedi dwyn i'r golwg beryglon eraill na wyddai ein tadau ddim am danynt. Ac os ydys wedi deall cyfansoddiad dyn yn well yn awr, fel ag i'w ddiogelu rhag llawer o'r clefydau oeddent yn medi i fyd arall yn nyddiau y tadau, wrth chwilio i gael y wybodaeth yna, fe gafwyd allan fod natur dyn mor ryfedd ac ofnadwy, fel y gall y peiriant ddyrysu er a allo dyfais pawb, oherwydd y mae cynifer o olwynion cuddiedig, a *springs* dirgelaidd, yn perthyn iddo. Os ydyw wedi darllen wyneb y ffurfafen, nes gwybod cymaint am y ser yn awr, fel y gellir rhag-ddywedyd diffygiadau yr haul a'r lleuad am ganoedd o flynyddoedd, a deall deddfau llanw a thrai y moroedd; eto wrth gael y wybodaeth yna, fe gafwyd golwg eglur pa fath greadur diamddiffyn ydyw dyn. Fe welwyd fod rhyw fydoedd mawrion yn y ffurfafen (sef y ser gwibiog) mor ddiddeddf o ran dim a wyddom ni am eu deddfau, fel na wyr neb pa bryd y gall un o honynt yn ei hynt gyflym roddi ergyd i'n byd bach ni, nes ei chwilfriwio yn y fan. Os ydyw dyn wedi treiddio i lawr i grombiloedd y ddaear, a deall ei chreigiau hi, fel ag i wybod ymha le i chwilio am ei thrysorau cuddiedig hi; wrth gael y wybodaeth yna, fe gafodd ei bod hi wedi ei throi megis tân odditanodd, nad oedd y wyneb ddim ond plisgyn am fôr o dân. Yn unol â geiriau yr apostol, fe ganfyddwyd ei bod hi wedi ei rhoddi i gadw i dân. Felly, nid yw gwybodaeth dyn ddim ond yn dangos iddo ei fod yn nghanol perglon; a'u bod o dan ei draed,— uwch ei ben, — oddifewn iddo, — y tuallan iddo: os yw yn canfod noddfa rhag un perygl, y mae y noddfa yn dwyn perygl newydd i'r golwg. Y mae ei wybodaeth mor bell oddiwrth fod yn amddiffyn iddo, fel mai ei hiaith hi oll ydyw, "Brysia, dianc yno." Os gall ef ddeall dirgelwch y daran, ni wna hyny ond danges iddo mor ddiamddiffyn ydyw rhag ei saeth hi. Os medr ef ddadgysylltu a difynio yr elfenau, ni wna hyny ond ei ddwyn i deimlo ar y fath bethau bychain y mae ei fywyd yn

ymddibynu; y mae fel yn chwareu yn y glorian; y gronyn lleiaf yn ychwaneg o'r peth yna, neu yn llai o'r llall, a fyddai yn angau iddo. Pe medrai ddeall achos y ddaeargryn, ni wnai hyny ddim ond dangos iddo mor ddiamddiffyn ydyw rhag cael ei ysgwyd oddiar ei hwyneb hi. Mor wir fod y neb a ychwanego wybodaeth yn ychwanegu gofid, os na bydd ei wybodaeth yn ei gau i fyny i ymddiried. Pe yr edrychai drwy y *telescope*, y syllwydr, yr offeryn ner hol yna, ar y nefoedd i weled yno ffurfafen o heuliau,—y bydoedd yn ddirifedi, heb son am y trigolion, y mae efe yn colli ei hun yn y lliaws;—y mae yn myned mor ddiddim nes dechreu ofni, ac nid oes ymwared iddo, ond ymddiried. Ped edrychai drwy'r offeryn arall, y *microscope*, y chwydd-wydr, ar y byd islaw iddo, i weled byd ar ddeilen, neu mewn diferyn o ddwfr, y mae'r wybodaeth yna eto yn arwain i ymddiried, er y gall hi, ar ryw olwg, fagu syniadau mawr am dano ei hun yn y fynwes; ond buan y mae yn gorfod cofio ei fod mor wan fel y gall y trychfilod bychain yna fyned yn drech nag ef. Nid oes ganddo noddfa rhag y rhai yna, ond mewn credu. Fel y dywedodd un, nid yw gwybodaeth a gallu dyn ddim yn cyd-gerdded: lle y gŵyr ê lawer, nid all ê ddim; a lle y gall ê rywbeth, ni ŵyr ê ddim. Fe wyr lawer am y sêr; ond ni all ê ddim,—y mae ei fraich yn rhy fèr i gyraedd yno. Fe all ychydig ar y ddaear, ond ni wyr ê ddim beth a fydd yfory. Mewn gair, gall y meddwl gymeryd ei aden i bob man, fel colomen Noah; ond ni bydd y cwbl ond yn dangos gwerth yr hen arch iddo. Gall ddywedyd wrth ei enaid, fel y Salmydd, wedi ei deithiau oll:—"Dychwel, fy enaid, i'th orphwysfa;" ac unwaith y bydd yn ei noddfa, fe all ddywedyd,—"Nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr."

Yr ydym wedi edrych i'n mynwes, ac edrych o'n hamgylch, a chael ein cau i fyny i ymddiried: yn awr—

III. Ni a edrychwn i'r Bibl; a'r un ydyw iaith hwn hefyd. Ond yn hyn nid yw yr efengyl yn ddim newydd ar y ddaear. Er na ddaeth i galon dyn i feddwl am y drefn, eto pan ddatguddiwyd hi, gwelwyd mai cau i fyny i ymddiried y mae hon hefyd.

1. Y mae y goleuni a rydd y Bibl ar Dduw, ac ar ddyn, yn

cynyrchu ofn, i beri ymddiried. (1.) Edrychwch ar garacter Duw yn y Bibl; y mae yn anmhosibl rhoddi ystyriaeth ddifrifol iddo heb ofni. Beth nad all yr Hwn y mae pob peth yn bosibl iddo? Beth na wyr y perffaith-gwbl o wybodaeth? Pa le nad yw yr Holl-bresenol ynddo? Nid rhyfedd clywed dyn yn gofyn, "I ba le yr af oddiwrth dy ysbryd?" Neu yn dywedyd, "Mi a wn y gelli di bob peth, ac nad atelir yr un meddwl oddiwrthyt." Y mae yn eglur fod holl briodoliaethau Duw wedi eu datguddio yn fanteisiol i gredu ynddo. Os ystyriwch chwi y rhai sydd wedi eu datguddio, ynghyd â'r drefn, neu yr amser, ymha un y datguddiwyd hwynt, chwi a welwch hyn. Pe buasai y rhai naturiol, megis gallu a gwybodaeth, wedi eu datguddio heb y rhai moesol, sef cyfiawnder a sancteiddrwydd, gallasent greu braw yn y fynwes. Y mae nerth mawr a gwybodaeth fawr yn cynyrchu ofn; ond pan wybyddom ni rywbeth am garacter moesol daionus eu perchen, ni bydd yr ofn ond peth amserol. Pe buasai y priodoliaethau moesol, sef cyfiawnder a sancteiddrwydd yn y golwg, heb y rhai naturiol, ni fuasent yn effeithio nemawr arnom. Beth yw cyfiawnder heb fraich i'w weinyddu? Y mae hyd yn nod y plentyn yn dysgu, nid yn unig peidio ei ofni, ond ei ddiystyru. Gweled y ddau gydâ'u gilydd,—gallu diderfyn, gwybodaeth ddiderfyn, ynglŷn â chyfiawnder perffaith, ac â sancteiddrwydd pur, a fuasai yn ein cau i fyny mewn anobaith. Buasai cael golwg ar gleddyf cyfiawnder yn llaw Hollalluogrwydd yn peri i ni gael barn angau ynom ein hunain yn y fan. Ond wedi gweled hyn, dyma olygfa arall gerbron:—"Trugaredd hefyd sydd eiddot ti." Pan y bydd y lleill wedi cynyrchu ofn, y mae trugaredd hefyd yn dyfod ymlaen i ddywedyd, "Nac ofna; cred."

Yr oedd amser datguddiad y priodolaethau hyn yn dangos eu bod wedi eu bwriadu i arwain i ymddiried. Bu cyfiawnder y Barnwr a gallu y Brenin yn y golwg yn hir, cyn i nemawr o galon y Tad gael ei amlygu. Yr oedd cyfiawnder y Barnwr yn llawer amlycach yn ninystr yr hen fyd, a dinasoedd y gwastadedd, na chalon y Tad. Yr oedd cyfiawnder a sancteiddrwydd wedi bod yn yr olwg yn ddigon hir wrth Sinai i beri ofn, cyn i drugaredd ddyfod yno i ddywedyd, "Cred." Yr oedd sancteiddrwydd wedi lladd Nadab ac Abihu yn y cysegr, cyn i

drugaredd gael gweini nemawr gymwynas o hono. Yr oedd tywyllwch y cysegr yn peri teimlad ar foment mai un sanctaidd, ofnadwy, oedd yn preswylio yno; ond yr oedd yn rhaid myned i mewn, a chwilio ychydig, cyn y deuai y gair, "Cred," oedd ar y drugareddfa, i'r golwg. Yr oedd Duw wedi preswylio ar Sinai cyn iddo drigo yn Sïon: yr oedd y naill wedi dywedyd yn effeithiol, "Ofna," cyn i'r llall gael dywedyd, "Cred." Ac yn y dadleniad olaf a wnaeth o hono ei Hun yn y drefn hon, y bu hwnw. Yr oedd deddf Sinai wedi dywedyd ar Galfaria, "Os gwneir hyn yn y pren ir, ofna," cyn i'r efengyl ddywedyd, "Am y gwneir hyn, fe ellir ireiddio y crin, a'i arbed, am hyny cred." Yr oedd cyfiawnder wedi dywedyd, "Ofna, oblegid wele fy nghleddyf i heb arbed y Cyfaill," cyn i drugaredd gael dywedyd, "Cred, oblegid am nad arbedwyd y Cyfaill, fe ellir arbed y gelyn." Wrth edrych ar urddas y person a mawredd y dioddefiadau, y mae yn anmhosibl peidio ag ofni y Duw mawr sydd mor gyfiawn fel y mae yn dryllio ei Fab ei Hun; ond wrth edrych drachefn i'w weled yn ei draddodi Ef trosom ni oll, y mae yn anhawdd peidio ymddiried yn y Duw sy mor drugarog, "fel y rhoddodd Efe ei Fab ei Hun yn aberth yn ein lle."

Y mae a fynom ni â Duw sydd yn ofnadwy ymhob ystyr ond i ymddiried ynddo. Ni all y buan o draed ddim dianc rhagddo, y mae yn Hollbresenol. Nid all y doethion lunio yr un cynllun i'w dwyllo, y mae yn Hollwybodol. Ni all meibion y cedyrn ddim ei orchfygu, y mae yn Hollalluog. Ond cysylltwch y pethau hyn â thrugaredd ac â gras, yn lle ein harwain i ofni, y maent yn troi yn rhesymau cryfaf dros ymddiried. Y mae yr Hollalluogrwydd sydd ynddo ei Hun i'w ofni, yn ei gysylltiad â Chariad, yn ddadl dros ymddiried; Esa. xxvi. 3. Y mae Hollbresenoldeb i'w arswydo mewn Barnwr, ond mewn Tad y mae yn troi yn noddfa. Er hoffed oedd Jacob o Joseph, pan oedd y mab yn dioddef yn yr Aipht, yn Nghanaan yr oedd y tad; ond gall Tad Hollbresenol ddywedyd, "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd, fel na lifant trosot." Ni bydd y plentyn byth yn yr Aipht yn dioddef, a'r Tad yn Nghanaan. Y mae Hollwybodaeth mewn gelyn yn ffynhonell trueni; ond beth sydd yn fwy cysur mewn Cyfaill, na'r meddwl fod ei lygad yn parhau i wylio drosof? Ac y mae

yr Arglwydd yn dwyn yr un peth ymlaen yn rheswm dros i'w blentyn ymddiried ag y mae yn ei ddwyn dros i'w elyn ofni. Y mae yn cysuro Abraham trwy ddywedyd, "Myfi yw Duw Hollalluog;" ond y mae yn galw ar ei elynion i wrido, am fod dydd yr Arglwydd Hollalluog gerllaw. Y mae pob pelydr o oleuni sydd ar garacter Duw yn y Bibl yn ysgrifenu mewn geiriau eglur o flaen ein llygaid:—"Cred ynddo!" Y mae yn rhy fawr i ti wneuthur dim âg Ef ond ymddiried ynddo. Uffern "ydyw syrthio yn nwylaw y Duw byw;" ond nefoedd ydyw "pwyso ar ei fynwes." Tân ydyw ei sancteiddrwydd i ysu pawb sydd allan o'i heddwch, ond mur i amddiffyn y rhai sydd ynddo.

(2.) Y mae y goleuni a rydd y Bibl ar ddyn eto yn ei gau i fyny i ymddiried. Ystyrier ei wendid fel creadur. Y mae yn y golygiad hwn mor ddiddim, fel y mae llyfr Duw yn pentyru cymhariaethau i geisio ei ddangos. O'r clai y torwyd ef, ac y mae ei holl briodoliaethau fel creadur yn dwyn delw ei ddefnydd. Soflyn sych ydyw mewn nerth; anifail ydyw mewn gwybodaeth. Blodeuyn ydyw mewn tegwch; swm ei holl bethau goreu ydyw gwagedd. Nid yw ei oes ond lled llaw i ddechreu: y mae hono yn cilio yn ddistaw fel y cysgod, ac yn gyflym fel eryr yn ehedeg at ymborth; ac unwaith yr â hi, y mae hi fel dwfr wedi ei dywallt ar y ddaear; ffarwel am ei gasglu drachefn. Beth a dâl creadur fel hwn i ddim ond i ymddiried? Nid oes dim i wagedd am dani ond pwyso ar ryw "ydwyf;" nid oes dim a rydd sefydlogrwydd i'r abwydyn, ond ei gysylltu â rhyw un sydd a thipyn mwy o bwysau ynddo nag sydd ynddo ef ei hun. Y mae yr hwn y mae ei degwch fel blodeuyn y glaswelltyn yn sicr o fod heb ddim cyn machlud haul brydnawn, os na fydd gogoniant yr Arglwydd i'w weled arno. Y mae y *cypher*, y goddim, yn ddigyfrif hollol mewn rhifyddiaeth heb ei gysylltu â rhyw ffigwr; ond y mae hyny yn tynu sylw ato, ac yn rhoddi gwerth ynddo. *Cypher* yn nghreadgaeth Duw ydyw dyn: y mae yn rhaid iddo gael undeb â rhywun mwy sylweddol nag ef ei hun, i dynu sylw ato, ac i roddi gwerth ynddo. Ond i adael hyn,—

Yn ngoleu y Bibl ni a welwn fod dyn yn bechadur: hyn sydd yn ei gau mewn anialwch mawr ac ofnadwy, nad oes yr un

fynedfa o hono ond trwy gredu. Y mae dyn dan ddeddf, a hono yn gyfiawn, ac o ganlyniad yn anghyfnewidiol;—deddf sydd yn gofyn yr oll o hono, a deddf na chafodd hi ddim ond dirmyg yn unig a phob amser oddiar ei law;—deddf sydd â'i golwg mor dreiddiol, fel y gwêl hi y brycheuyn lleiaf, ac mor gyffredinol, fel y cymer hi i mewn y pethau mwyaf;—deddf na fethodd hi erioed a chael gafael ar ei throseddwr; ac wedi ei gael, ni ollyngodd hi erioed yr un yn rhydd nes cael y ffyrling eithaf ganddo, neu gan rywun arall yn ei le. Y mae hi yn gylchau o amgylch dyn i'w gadw mewn bod; y mae hi yn furiau o'i gwmpas i'w gadw rhag dianc. Ni chaiff ê ddim ymlithro i ddiddymdra, er ei fod fel creadur ar ei ymylon. Y mae ei chyfiawnder hi yn sicrhau y bydd raid iddo barhau byth, i farw y fai wolaeth. Nid all ê ddianc rhagddi: y mae hi yn gyfled a chreadigaeth Duw. Ni all ê ddim ei chau hi allan o'i fynwes: os na chaiff hi ddyfod yno i lywodraethu â'r deyrnwialen aur, hi fyn ddyfod yno i falurio â'r wialen haiarn. Y mae llawer, fel yr apostol unwaith, yn fyw hebddi, am na ddaethant eto yn erbyn ei muriau adamant hi. Y maent yn cael eu cymeryd ymaith gan eu pechodau, fel y ddeilen gan yr awel; ond deuant yn erbyn y mur yn fuan, a phan ddêl y gorchymyn, byddant farw;—torant eu calonau pan welant y muriau os na ddaw yno rywun i ddywedyd, "Nac ofna; cred." Dyna sydd yn gwneuthur uffern yn lle mor dost: y trigolion sydd wedi dyfod at furiau adamant deddf. Y mae yr olwg arnynt wedi llanw eu holl enaid â braw, ac nid yw y gair "cred" ddim yn seinio yn y wlad. Ond pe dangosai Ysbryd Duw furiau deddf yma heddyw, y mae yr efengyl yn barod i gyfeirio at borth bychan i ddianc yn gyfreithlawn o'r carchar. "Nac ofna; cred," yn yr Hwn sydd wedi myned yn ddiwedd iddi. Y mae y ddeddf yn cydgau pawb naill ai i ddamnedigaeth neu i ffydd. Os na bydd hi yn athraw, sef yn arweinydd, at Grist, y mae hi yn sicr o fod yn arweinydd i garchar.

Y mae gwendid creadur, a thrueni pechadur, yn cau dyn i fyny i gredu. Po gwanaf y byddo un, goreu oll ydyw i bwyso; a pho mwyaf truenus, goreu oll ydyw i gredu. Y maban ydyw y diogelaf yn y tŷ; ei wendid ydyw ei nerth ef. Am nad all ei fraich ef ddim, y mae braich pawb yn barod i'w

amddiffyn: am nad all ef ddim traethu ei anghenion, y mae pawb yn chwilio yn fanwl i geisio cael allan beth ydynt. Felly gwendid dyn ydyw ei nerth; er nad oes yr un creadur yn rhy uchel i ymddiried, y mae y dyn y mwyaf analluog o bawb i ymdaraw drosto ei hun. Efe ydyw y maban yn y teulu: ni all ê ddim,—ni wyr ê ddim,—ni fedd ê ddim; ond y mae y cwbl a all,—a wyr,—ac a fedd Duw yn eiddo iddo, dim ond pwyso arno. Gall ymffrostio gan hyny yn ei wendid, os bydd nerth Duw yn cael ei berffeithio ynddo; oblegid pan y mae yn wan, y mae yn gadarn. Y mae ei drueni eto yn ei gau i fyny i gredu. Os ydyw yn anghyfiawn, dim ond credu yn yr Hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, fe fanteisia ar ei drueni, oblegid fe'i gwneir yn gyfiawnder Duw ynddo Ef. Nid mor gyfiawn a Gabriel,—nid mor gyfiawn ag Adda; ond mor gyfiawn â Duw mewn cnawd. Os ydyw yn dlawd, heb feddu dim, y mae modd iddo gael annhraethol fwy nag a gollodd yn ol: dim ond "credu." Ni chyfrifir y wobr i'r hwn sydd yn gweithio, ond i'r hwn sydd yn credu. Cymer dy anghyfiawnder yn rheswm dros ymguddio yn nghyfiawnder Adda yr ail. Cymer dy anallu i gyflawni yr un ddyledswydd yn rheswm dros ymnerthu yn ei ras Ef. Cymer yr angau sydd yn dringo i dy ffenestri yn dy ddinas dy hun, yn rheswm dros fyned, fel y gwahangleifion hyny, allan i wersyll rhyw un i chwilio am ymwared. "Nac ofna; cred."

(3.) Y mae trefn iachawdwriaeth yn cael ei datguddio yn y fath fodd ag i'n cau ni i fyny i gredu. Y mae hi wedi ei chau o amgylch, fel nad oes ond un agoriad i mewn iddi, sef credu. Y mae hi fel Petra, y ddinas yn y graig; nid oedd ond un llwybr i mewn i hono. Yr oedd creigiau oesol o'i hamgylch hi; ïe, yn y graig yr oedd hi ei hun, wedi ei naddu yn y graig; ond unwaith y byddid i mewn trwy yr un llwybr hwnw, priodol oedd dywedyd, "Canwd preswylwyr y graig," y mae digon rhyngoch â'r peryglon. Felly, dinas yn y graig ydyw hon: y mae llawer yn ceisio dringo i mewn dros y creigiau, ond ofer fydd eu gwaith; ond y mae ambell un wedi canfod hafn cul,—"Pwy bynag a ddel," ac wedi ymwthio drwy hwnw; ac yna y mae creigiau arfaeth ac iawn yn troi yn ddiogelwch iddo yn y fan. Nid llwybr i mewn i'r ddinas ydyw

y pethau yna, ond amddiffyn i'r rhai a breswyliant ynddi. Peidiwch ag ymddyrysu gyda dim o bethau y drefn, "ond cred." Gallasai Jairus gael lliaws o bethau i gynyrchu ofn yn ei fynwes. Oni allasai ddywedyd, Ni chlywais i ddim ei fod erioed wedi cyfodi neb o farw; ac os gall efe, oni fyddai hyn yn greulondeb â fy mhlentyn, dyfod â hi yn ol i le y byddai raid iddi brofi marwolaeth eto; ac feallai y byddai i ni geisio hyn yn bechod yn erbyn Duw? Nac aros gydâ'r un o'r pethau yna, "cred." Beth a wn i ydyw maint yr iawn? Beth ydyw ei faint, cred yn yr Hwn a'i gwnaeth ef. Nid mesur,—nid pwyso,—"ond cred yn unig:" fe'th geidw di. Beth a wn i pa enwau sydd yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd? "Cred yn unig," yn y neb a'u hysgrifenodd, a thi a fyddi cadwedig, pa enwau bynag sydd yno.

Paid ag aros gydâ dim o'th ofnau dy hun ychwaith; "ond cred yn unig." Beth bynag yw nifer dy feiau, "nac ofna ond cred,"—fe'u cuddir. Beth bynag yw dy annheilyngdod, "nac ofna; cred,"—fe'th dderbynir. Beth bynag yw dyfnder dy drueni, "cred,"—fe'th waredir o hono. "Cred yn unig!"

Ac onid oes genym le manteisiol iawn i gredu? Yr oedd Duw wedi dyfod yn bur fanteisiol i Israel gynt i ymofyn âg ef, ac ymddiried ynddo. Yr oedd ei babell yn eu plith: yr oedd yn byw gydâ hwynt, fel un o honynt. Gallesid meddwl fod Moses, pan ddangosodd efe ei hun i'w frodyr, yn gyfryw y buasent oll yn ymddiried ynddo. Yr oedd yn un o honynt, ac er hyny yn perthyn i'r llys. Buasai yn rhy anhawdd iddynt ymddiried mewn un o wŷr y llys, pe buasai yn Aiphtiwr, rhag iddo eu bradychu. Ni buasai gwiw ymddiried mewn un o honynt hwy eu hunain,—caethion oeddent, felly heb nerth nac awdurdod. Y mae yn rhyfedd nad ymddiriedem yn Mab Duw. Dyma hollalluogrwydd mewn braich o gnawd;—holl fawredd y llys mewn un sydd yn Frawd i ni. Ymddiriedwch ynddo byth, ac yna ni'ch cywilyddir.

[Dyffryn, Ion. 27, 1853.]

# PREGETH XXXIII.

## DISGWYLIADAU DUW AC YMDDYGIADAU DYN.

MATTHEW xxi. 37, 38 :— "Yn ddiweddaf oll, efe a anfonodd atynt ei fab ei hun, gan ddywedyd, Hwy a barchant fy mab i. A phan welodd y llafurwyr y mab, hwy a ddywedasant yn eu plith eu hun, Hwn yw'r etifedd : deuwch, lladdwn ef, a daliwn ei etifeddiaeth ef."

YMAE y testyn yn rhan o un o ddamhegion yr Arglwydd Iesu. Byddai yn llefaru damhegion i amryw ddibenion. Weithiau defnyddid dameg ganddo i ddwyn pethau ysbrydol yn fwy agos i ddeall ei wrandawyr; bryd arall er mwyn tynu eu sylw a sicrhau y gwirionedd yn eu cof; ac yn dra mynych hefyd defnyddid damhegion ganddo i gael traethu wrthynt wirionedd na buasent yn ei oddef pe buasai yn ei draethu yn noeth heb y wisg ddamhegol. Ac y mae y ddameg o'r hon y darllenwyd y testyn yn un o'r dosbarth hwn. Yr oedd y bobl wedi myned mor lygredig fel na oddefent iddo lefaru wrthynt y gwirionedd yn eglur; am hyny yr oedd yr Arglwydd Iesu, yn ei fawr ddaioni, er mwyn cael ei draethu wrthynt, yn ei gyfleu mewn damhegion. Y gwirionedd oedd yn cael ei gyfleu i'w sylw yn y ddameg hon oedd,—ymddygiad yr Arglwydd tuag atynt hwy fel cenedl, a'u hymddygiad hwythau tuag at yr Arglwydd, ynghyd â chanlyniadau hyny. Y winllan yma oedd teyrnas Dduw, oedd wedi ei hymddiried iddynt hwy fel cenedl, sef y cwbl oedd yn peri fod yr Iuddewon yn rhagori ar holl genhedloedd y ddaear; sef y tadau, y cyfamodau, yma roddion Duw, &c. Y ffrwyth yr oedd yr Arglwydd yn ei ddisgwyl oedd, ffyddlondeb i ddal i fyny ei enw ef yn y byd, i ragori ar yr holl genhedloedd yn eu bywyd, fel yr oeddent yn rhagori yn eu manteision. Wrth y gwahanol

weision oedd yn cael eu hanfon i geisio ffrwyth yr ydym i ddeall, y gwahanol ffyrdd a gymerodd yr Arglwydd i geisio cael ganddynt ymddwyn yn gyfatebol i'w manteision. Gellir deall wrth hyn holl oruchwyliaethau Duw tuag atynt. Gall fod yma gyfeiriad lled benodol at ei weision y prophwydi, oblegid mynych y bydLai yr Arglwydd yn cymeryd y dull hwn i geisio ffrwyth oddiwrthynt. Ac, yn ddiweddaf oll, anfonodd atynt, ar yr un neges, ei Fab ei Hun. Y mae eu hymddygiad hwythau at y Mab, ynghyd â chanlyniadau y rhai hyny, yn cael eu dangos yma. Yr oedd y rhan gyntaf o'r ddameg yn hanesyddol, a'r ail yn brophwydoliaethol; ond erbyn heddyw y mae y brophwydoliaeth wedi troi yn hanesiaeth, yn ei chysylltiad â'r Iuddewon. Y maent wedi gwrthod y Mab, a hyny wedi dwyn arnynt ddinystr hyd yr eithaf. Yr oedd yr Iuddewon yn esiampl i ni: y mae ein manteision ni yn fawr, fel yr eiddynt hwy. Y mae yr Arglwydd yn disgwyl teyrnged o ffrwyth oddiwrthym ni, fel oddiwrthynt hwy; ac y mae y barnau a ddilynasant eu hanffyddlondeb hwy, wedi eu cofnodi i fod yn rhybudd i ni, i ochelyd eu llwybrau. Ceisio ffrwyth ydyw amcan holl oruchwyliaethau Duw tuag at y byd. Yr oedd wedi ei geisio mewn llawer ffordd gan yr Iuddewon, neu yn ngeiriau yr apostol, "wedi llefaru wrthynt mewn llawer modd." Ond y dull olaf y daeth i'w geisio oedd, trwy anfon ei Fab; ac er i bob goruchwyliaeth arall fethu, yr oedd yn disgwyl i'r olaf hon lwyddo. "Hwy a barchant fy Mab i." Ond yr oedd y rhai oeddent wedi lladd y prophwydi, wedi dyfod yn ddigon caled o'r diwedd i ladd y Mab hefyd: "Hwn yw'r etifedd, deuwch; lladdwn ef."

Y ddau beth sydd yn ymgynyg i'n sylw oddiwrth y testyn ydynt,—Disgwyliadau yr Arglwydd wrth anfon ei Fab, a phenderfyniad dyn yn ngwyneb yr amlygiad hwn o Dduw.

I. Ni a alwn eich sylw at yr hyn y mae yr Arglwydd, yn ngwyneb yr amlygiad hwn o hono ei hun, yn ei ddisgwyl oddiwrthym:—"Hwy a barchant fy Mab i." Y mae y testyn yn tybied, fel y dengys y rhan flaenorol o'r ddameg, fod pob peth arall wedi methu enill eu parch hwynt i Dduw; ond er fod pob peth arall wedi methu, gallesid disgwyl y buasai anfon y Mab yn ddigon i beri i bawb ymostwng. Edrychwch ar anfoniad y

Mab fel amlygiad o Dduw i'r byd; neu ynte edrychwch ar yr hyn ydyw y Mab ynddo ei hun. Yr oedd yn rhesymol disgwyl i bawb ei barchu.

1. Edrychwch ar anfoniad y Mab fel amlygiad o Dduw i'r byd: "Fy Mab i." Os nad oes dim arall wedi peri iddynt feddwl yn dyner am danaf, fe wna hyn hyny: "hwy a barchant fy Mab i," a minau ynddo Ef. Yr oedd yn rhesymol i'r Arglwydd ddisgwyl hyn oddiar law dynion. Ni bydd a fynom ni, wrth sylwi ar y testyn, ddim â'r Iuddewon yn mhellach nag y bydd eu hymddygiadau hwynt yn fantais i ni weled ein hunain yn eglurach. Gallesid disgwyl i anfoniad y Mab enyn parch, am ei fod,—

(1.) Yn amlygiad o ddaioni digymysg. Ni adawodd yr Arglwydd mo hono ei hun yn ddi-dyst mewn un oes, nac mewn un wlad. Er ei fod mewn amryw ystyriaethau wedi gadael y ddaear, a gadael i bawb rodio yn ei fl ordd ei hun, eto fe adawodd yma dystion i ddywedyd pa fath un yw Efe; sef y gwlaw o'r nefoedd, y tymhorau ffrwythlawn, y lluniaeth, a'r llawenydd. Ond y mae creadigaeth a rhagluniaeth i ryw raddau yn amlygu *holl* briodoliaethau Duw; nid yn unig tynerwch a daioni Tad, ond cyfiawnder Barnwr, a digofaint Deddfroddwr, at y rhai sydd wedi troseddu y ddeddf: felly pan y deuai y priodoliaethau ofnadwy i'r golwg, yr oeddent bob amser yn rhwym o ddyfod i'r golwg yn erbyn dyn. Pan amlygid ei gyfiawnder, yr oedd o angenrheidrwydd yn myned yn erbyn dyn; a phan amlygid ei ddigofaint, dyn a fyddai ei wrthddrych: felly, er bod daioni mawr yn cael ei amlygu gan Dduw tuag at y byd, nid oedd i'n golwg ni yn ddaioni digymysg. Yr oedd trugaredd yn pleidio dyn, a chyfiawnder yn ei erbyn. Yr oedd y tymhorau ffrwythlawn yn arwyddion o gariad ato; ond yr oedd newyn a haint yn ddatguddiad o ddigofaint o'r nef yn erbyn annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion. Nid oedd Duw un amser yn amlygu ei Hun fel Barnwr yr holl ddaear,—fel Brenin tragywyddol,—na chlywid dynion yn dechreu dywedyd, "Ffown: pwy a saif gerbron yr Arglwydd Dduw sanctaidd Hwn?" "Clywais dy lais, ac ofnais," meddai Adda yn y boreu; ac nid heb achos yr ofnodd, oblegid yr oedd wedi dyfod yno i weinyddu barn arno; ac y mae yn dyfod yn aml i'r ddaear eto ar yr un neges. Nid

heb achos y mae dynion yn ofni, ac nid afresymol ydyw eu gwaith yn chwilio am noddfa, pe buasai noddfa i'w chael. Yr oedd cyfiawnder a dyn fel Dagon a'r arch; os deuai yr arch i'r golwg, byddai Dagon i lawr; felly dyn a chyfiawnder Duw: dyna fyd cyfan yn gelaneddau meirwon, dim ond i Dduw cyfiawn edrych arno; dyna ddinasoedd poblogaidd, a'u mwg yn dyrchafu fel mwg ffwrn, gydag i Farnydd yr holl ddaear ddisgyn i edrych arnynt. Un olwg o eiddo Brenin Cyfiawnder a derfysgodd fyddin Pharaoh, nes eu boddi yn y Mor Coch. Nid oedd cyfiawnder ddim yn d'od i'r golwg heb fod dyn yn dioddef. Yn holl orchymynion cyfiawnder yn ein herbyn ni, dioddefgarwch Duw oedd diogelwch dyn; h.y., tra y byddai Duw yn cadw ei gyfiawnder o'r golwg y byddai dyn yn ddiogel. Yr oedd, ac y mae, rhagluniaeth yn ddigon tebyg i'r wedd a fydd ar y ffurfafen ar ddiwrnod poeth yn yr haf: y mae ambell gwr o honi yn glir, ac y mae yr haul yn tywynu yn hyfryd o hono; ond mewn cwr arall o'r un ffurfafen y mae cwmwl du y daran, ac y mae y mellt yn disgyn o hono i ddinystrio ac i ladd; ac nid yw y rhai sydd yn y llanerch oleu, o dan dywyniadau yr haul, ddim heb ofni i'r cwmwl ymweled â hwythau. Cyffelyb i hynyna ydyw rhagluniaeth: haul daioni yn llewyrch ar y llanerch hon;—cymylau digofaint i'w canfod uwchben y fan draw; ac nid yw y rhai sydd yn y llanerch oleu ddim heb ofni y daw y mellt, bob yn ychydig, i'w dinystrio hwythau hefyd. Felly o'r un ffurfafen y mae pelydrau hyfryd yr haul, a'r mellt ofnadwy yn dyfod. Nid yw y daioni ddim yn ddigymysg; ac nid oes yr un o briodoliaethau Duw yn cael eu hamlygu, nad ydyw ei gweled hi yn angenrheidiol tuag at enill parch iddo. Y mae gweled ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd, mor angenrheidiol tuag at greu parch iddo, ag y clyw canfod ei gariad a'i ras. Y mae parchu un anghyfiawn, ansanctaidd, yn anmhosibl i ni; ond yr oedd pob amlygiad o'r priodoliaethau yn rhwym, fel y sylwyd, o achosi dioddef i ddyn, ac felly yr oeddynt yn cyffroi gelyniaeth ei galon yntau at Dduw: felly yr oedd yr hyn oedd yn hanfodol i greu parch, o angenrheidrwydd yn achlysuro casineb. Ni allasem ni ddim parchu Duw heb weled ei gyfiawnder: ond yr oedd ei weled yn peri i ni ei gasâu. Ni allasem

ni ddim ei barchu heb weled ei sancteiddrwydd: ond yr oedd ei weled yn angau i ni, ac felly yn enyn casineb. Ond, "hwy a barchant fy Mab i:" oblegid ynddo ef mi amlygaf fy holl briodoliaethau heb fod yr un o honynt yn eu herbyn hwynt. Caiff fy nghyfiawnder ddyfod i'r golwg, ond ni bydd raid iddynt hwy waeddi, "Ffown!" oblegid arno Ef y caiff y cleddyf syrthio. Caiff fy sancteiddrwydd ei amlygu, heb i'w wrês eu hysu hwynt: Efe fydd yr aberth fydd yn cael ei losgi gan y tân. Caiff fy nigofaint ei ddatguddio yn erbyn pob annuwioldeb, heb i'r annuwiolion fod o dan y gawod: ar fy Mab i y tywelltir hi. Mi edrychaf ar y ddaear, a chaiff golwg fy llygad, yn lle lladd yr anwir, ddryllio y diniwed. Mi a ofynaf am waed; ond nid oddiar ddwylaw y neb a'i tywalltodd, ond o law fy Mab.

(2.) Yr oedd yn rhesymol disgwyl parch i'r Tad yn y Mab, am fod anfoniad y Mab, nid yn unig yn ddaioni *digymysg*, ond hefyd yn ddaioni *mawr* iawn. Nid awn ni ddim i edrych yn awr ar yr hyn ydyw y Mab ynddo ei Hun, ond fel rhodd o eiddo y Tad, neu fel amlygiad o ddaioni y Tad. Yr oedd anfon y gweision, y naill ar ol y llall, yn amlygiad o ddaioni,—yn ddaioni oedd yn cynyddu, neu yn myned rhagddo. Yr oedd y daioni yn dyfod i'r golwg, nid mewn anfon llawer o honynt yn unig, ond mewn anfon rhai mwy anrhydeddus bob tro na'r rhai a aethent o'u blaen hwynt; ond wedi i hyn oll fethu, y mae perchen y winllan, fel heb wybod pa beth i'w wneuthur: "Pa beth a wnaf?" ydyw ei iaith; ond fel pe buasai y meddwl yn ei daraw—"Hyn a wnaf,—mi a anfonaf atynt fy Mab: y mae yn rhaid y parchant Ef.' Y mae ymadroddion yr efengylwyr yn dangos mawredd y daioni oedd yn hyn:—"â chanddo un Mab;" a'r un Mab hwnw yn "anwylyd" iddo, medd Marc; ei "anwyl Fab," medd Luc; "ei Fab ei hun," medd Matthew. Y mae yma hefyd gyferbyniad yn cael ei dynu rhwng y Mab a'r gweision: gall fod yr enw "gweision," yn y lle cyntaf, yn ei gysylltiad â'r Iuddewon, yn mlaenaf yn cynwys y prophwydi. Yr oedd daioni mawr i'w ganfod yn anfoniad y gweision,—anfon cymaint o honynt,—anfon rhai mor rhagorol. Feallai y gwrandawant ar hyawdledd ymadrodd, a godidogrwydd meddyliau, am hyny mi a anfonaf atynt Esay, fab Amos; ond baeddu hwnw a wnaethant. Gall y gwrandawant ar un llawn

o deimlad, fydd â'i ben yn ddyfroedd, a'i lygaid yn ffynhonau dagrau, am hyny mi a anfonaf iddynt Jeremi, o Anathoth; ond anmharchu hwnw a wnaethant. Gall y rhoddant wrandawiad i un a fydd yn cyd-ddioddef â hwynt,—yn enwedig os bydd ganddo hyfrydlais a fydd yn beroriaeth yn eu clustiau, a digon o dân yn ei ysbryd i ddwyn pob peth yn weledig iddynt; am hyny mi a anfonaf iddynt Ezeciel yr offeiriad; ond diystyru hwnw a wnaethant. Ni feddaf weision rhagorach, medd Perchen y winllan;—"Beth a wnaf? Mi a anfonaf fy Mab, fy Anwylyd, fy unig Fab, fy Mab fy Hun: y mae yn rhaid y parchant Ef."

Cymerwch y gwirionedd heb y wisg ddamhegol am dano. Oni allesid disgwyl i'r amlygiad hwn o ddaioni blygu pechadur? Arfer brenhinoedd ydyw anfon y gweision i gasglu y dreth; ac os cyfyd gwrthryfel mewn rhyw barth o'r deyrnas, feallai yr anfonir y Tywysog, y Mab, i ddarostwng a lladd y terfysgwyr; ond gwnaeth Duw yn groes i'r arfer yna: nid anfon ei Fab i'r byd i ddarostwng y byd, fel y gwnai dynion, "ond fel yr achubid y byd trwyddo Ef." Yr oedd hyn yn ddaioni y gallesid disgwyl i bob calon ei deimlo. Nid oedd pob daioni arall ond dioddefgarwch Barnwr; ond y mae rhoddi y Mab yn amlygiad fod yna rywbeth mwy na dioddefgarwch, sef bod yna deimlad Tad tuag at ei blant. Nid ei amynedd sydd yn dyfod i'r golwg, ond ei gariad. Nid rhoddi o'r hyn sydd yn ngweddill ganddo y mae, ond megis o'i brinder, oblegid yr un Mab hwn oedd ei hyfrydwch beunyddiol. Fe ddywedir, mai nid yr hyn y mae un yn ei roddi ydyw y mesur goreu ar faint ei rodd, ond yr hyn sydd yn ngweddill ganddo, wedi rhoddi. Prisiwch y rhodd hon wrth y rheol yma. Yr oedd gan Abraham Ismael, ac addewid Duw, wedi rhoddi Isaac; yr oedd gan Jacob Benjamin a'i naw brawd, wedi colli Joseph; yr oedd gan Dafydd Solomon a'i frodyr, wedi colli Absalom; ond un Mab oedd hwn: nid oedd yno neb i lanw gwagle y fynwes wedi ei roddi; eto fe'i traddododd trosom ni oll. Y mae Duw yn hyn yn canmol ei gariad,—yn ei gymell; ïe, yn ei wthio i'n sylw,—yn ei ddwyn mor eglur fel nad allwn ni lai nag edrych arno. Y mae fel yn gorchymyn i ni sylwi arno; ac fe ddeil y rhodd hon sylw. Fe roddodd Solomon ugain dinas i Hiram; ond pan ddaeth Hiram

i edrych arnynt, nid oeddynt wrth ei fodd ef,—ni ddaliai y rhodd ddim craffu arni; ond dyma rodd a ddeil sylw am dragywyddoldeb. Ni ofyn neb, "Pa rodd yw hon a roddaist?" Yr oedd gweled yr Iesu yn wylo ar ol Lazurus yn peri i'r Iuddewon ddywedyd, "Wele, fel yr oedd yn ei garu." Ond nid wylo ar ol byd colledig a wnaeth Duw, er y buasai hyny yn brawf o gariad, ond traddodi ei Fab drosto: yn hyny y mae cariad. Fe ddywed Solomon fod rhodd a gwobr yn tori digofaint a llid cryf, a bod pawb yn gyfaill i'r hael; onid rhesymol a fuasai disgwyl y buasai rhodd Duw y nef yn troi y gelynion oll yn gyfeillion,—y buasai pawb yn gyfaill i un mor hael? "Hwy a barchant fy Mab i."

2. Y mae yr hyn ydyw y Mab ynddo ei hun yn naturiol yn enyn parch. Fe all rhodd ddangos daioni ac ewyllys da y rhoddwr heb ei bod hi nemawr iawn o werth i'r derbyniwr. Yr oedd dwy hatling y weddw yn dangos fod y teimlad cynhesaf yn ei mynwes hi at achos Duw, eto ni fydd yr achos fawr iawn bellach ymlaen er hyny; ond nid felly hon;—yr oedd anfon y Mab yn dangos y daioni mwyaf yn y Tad. Yr oedd y Mab yn gyfryw ag yr oedd yn rhesymol disgwyl y buasai pawb, ond ei weled, yn ei barchu. Teyrnged ydyw gwir barch i unrhyw wrthddrych, y mae holl enaid dyn yn ei dalu iddo. Nid ellwch chwi ddim parchu un, os na bydd eich deall, eich rheswm, yn ei gymeradwyo. Nid ellwch chwi ddim chwaith os na bydd eich calon—eich serch—i ryw fesur yn ymlynu wrtho. Y mae cymeradwyaeth y deall o wrthddrych, os na bydd ynddo ddim i sugno y galon, yn peri i chwi ei ofni; ac y mae yn rhy anhawdd i'r galon ymlynu yn hir wrth unrhyw wrthddrych, os na bydd ynddo rywbeth i'r deall ei gymeradwyo; ond y mae y ddau, sef cymeradwyaeth y deall, ac ymlyniad y galon, yn cynyrchu gwir barch—neu barchedig ofn. Ofn wedi ei gymysgu â chariad, a chariad wedi ei dymheru âg ofn, ydyw gwir barch, neu barchedig ofn. O dan yr Hen Destament, ofn oedd crefydd. Yr oedd digon o Dduw yn y golwg i beri i'r deall ofni yn ddirfawr ger ei fron, ond nid digon i beri i'r galon ymlynu yn llwyr wrtho; ond "hwy a barchant fy Mab i." Y mae digon o fawredd ynddo i greu ofn, a digon o raslonrwydd i droi yr ofn hwnw yn barch. Y mae i'r gair parch yma hefyd

ystyr ychydig helaethach na hyn. Y mae yn cynwys y teimlad sydd yn mynwes un sydd yn ddiffygiol iawn mewn rhyw rinwedd ei hun pan gerbron un arall sydd yn enwog ynddo. Y mae yr ystyr hwn i'r gair yn gyfystyr â'r gair *cywilydd.* Hwy a gywilyddiant gerbron "fy Mab i ;"—" hwy a barchant fy Mab i :" bydd ei farwedd a'i raslonrwydd yn dangos beth ydwyf fi. Bydd ei ostyngeiddrwydd a'i ufudd-dod yn dangos beth a ddylent hwythau fod. Bydd ei fawredd a'i ras yn sugno eu deall a'u serch ; bydd ei ostyngeiddrwydd a'i addfwynder yn peri iddynt ffieiddo eu hunain ger ei fron. Caiff ddangos beth ydwyf fi, a dangos hefyd beth a ddylent hwythau fod. " Hwy a barchant fy Mab i."

(1.) Y mae mawredd ac urddas y Mab yn gofyn parch. Y mae bod un yn amddifad o fawredd, neu fod eraill heb adwaen y mawredd sydd ynddo, yn peri na bydd iddo lawer o barch. Yr oedd y Chineaid yn ddiweddar, am eu bod yn tybied nad oedd mawredd yn perthyn i neb ond iddynt hwy, yn rhyfela yn erbyn y deyrnas hon, ac yn bwriadu bron ei difodi hi ; ond pan yr argyhoeddwyd hwynt o'u camsyniad, ceisio amodau heddwch a wnaethant. Gwelsant mai eu doethineb oedd parchu Prydain, wedi iddynt ddeall pa fath un oedd hi. Yr ydych chwithau yn gwrthryfela yn erbyn Duw, am eich bod chwi heb ddeall y mawredd a'r urddas sydd yn perthyn iddo ; ondped edrychech chwi ar y Mab, chwi welech mai eich synwyr, fel eich braint, ydyw ei barchu. Yr oedd mawredd Duw yn bell oddiwrthym ni ymhob man arall. Y mae hefyd yn fawredd mor ddiderfyn,—mor anfeidrol,—fel nad allwn ni ddim cael gafael arno ; am hyny y mae i ni, i fesur mawr, fel pe na byddai ; ond yn y Mab, y mae y mawredd wedi dyfod i'n hymyl ni, ac y mae yn fawredd wedi ei symleiddio (*simplified*), i'w ddwyn o fewn ein cyraedd ni. Pe na buasai dim mwy o fawredd Duw yn y golwg yn Iesu Grist nag sydd yn y greadigaeth, y mae yn fawredd wedi ei ddwyn i'n hymyl, ac felly yr ydym ni yn teimlo mwy oddiwrtho. Y mae Efe yn ddelw weledig y Duw anweledig. Gallwn ninau synio rhywbeth am Hollalluogrwydd ond ei weled mewn braich o gwnawd. Y mae Hollwybodaeth yn dyfod yn ddigon isel i ni syllu arno, ond i ni ei weled mewn cysylltiad âg enaid dynol. Y mae

mawredd Duw fel Creawdwr a Chynhaliwr yn cael ei ddangos yn y Mab ar raddfa gyfatebol i'n galluogi ni i syllu arno. Ni wyddom ni ddim beth ydyw creu na chynal; am hyny y mae y mawredd sydd yn gynwysedig mewn gwneyd y naill a'r llall o'n golwg ni; ond yn y Mab y mae yn ein hymyl. Edrychwch arno yn bywhau Lazarus, bydd hyny yn help i chwi ddeall y mawredd sydd mewn bod yn fywyd i greadigaeth, neu mewn creu. Edrychwch arno yn rhoddi llygaid i'r hwn a anwyd yn ddall, bydd yn ris i chwi tuag at ddeall y mawredd sydd yn gynwysedig mewn bod yn oleuni y byd. Edrychwch arno yn porthi y pum' mil, cewch fantais i ddeall y mawredd sydd yn gynwysedig mewn diwallu pob peth byw â'i ewyllys da. Edrychwch ar y rhinwedd yn dyfod o hono i iachau gwraig y dyferlif, cewch fantais i wybod beth sydd yn gynwysedig mewn bod ganddo fywyd ynddo ei Hun. Ië, yr oedd y fath fawredd ynddo fel yr oedd ar y ddaear fel meistr yn ei dŷ ei hun; ac fel y mae llygaid gweision yn y Dwyrain ar law eu meistriaid, ac yn barod i ysgogi yn ol eu holl amneidiau hwynt; felly yr oedd llygaid pob peth arno Ef: os gwnai Efe yr amnaid lleiaf â'i law, yr oedd ufudd-dod parod ac ewyllysgar oddiwrth y gweision yn y fan. Yr oedd amnaid i'r gwynt yn peri iddo ddistewi; ysgogiad ei law ar y môr yn peri iddo lonyddu. Yr oedd gwneyd yr amnaid ar angau yn ddigon iddo ddywedyd, Gwnaethum fel y gorchymynaist. Nid oedd neb ond dynion yn gofyn, "Trwy ba awdurdod yr wyt yn gwneuthur hyn?" Y mae y Mab hefyd nid yn unig yn ddelw y Tad, sef yn arddangos ei fawredd i ni mewn gweithredoedd, ond y mae hefyd wedi dangos yr un peth mewn dioddef. Ni chafodd y fraich Hollalluog ddim lle i ddangos ei holl nerth nes iddi gael taraw y Mab. Ni welwyd beth a allai cleddyf cyfiawnder ei wneuthur nes iddo glwyfo y Mab. Dim ond i'r fraich gyffwrdd â'r mynyddoedd, yr oeddynt yn mygu. Dim ond i'r llygaid dwyfol edrych ar yr anwir, yr oedd yn cael ei ladd. Ië, wrth fesur y mae y Duw mawr yn ymddadleu hyd yn nod â theulu annwn: pe tywalltai Efe arnynt yn ddiarbed, fe'i difodai hwynt. Os mynech chwi weled holl fawredd Duw, edrychwch ar y Mab. Yr oedd rhyw gymaint o arbed ymhob man arall,—rhyw gymaint o atal y gwynt garw,—ond am dano

Ef, fe'i traddodwyd heb arbed. Y mae Duw yn Nghrist mor ofnadwy yn ei fawredd, fel nad all neb syllu arno heb grynu ger ei fron.

Edrychwch faint ydyw Hwn. Os heb barchu y Mab yr ydych, yr ydych yn hynod yn y greadigaeth,—yn eithriad iddi hi oll. Y mae yn y nef thronau ac arglwyddiaethau, tywysogaethau a meddianau; y mae yno archangylion, cerubiaid, a seraphiaid; ond nid oes yno neb heb barchu y Mab. Y mae yn uffern raddau hefyd: thronau ac arglwyddiaethau, tywysog llywodraeth yr awyr a'i weinidogion, y diafol a'i angylion; ond er mai gwrthryfelwyr ydynt, nid oes yr un o honynt heb barchu y Mab. Pan gyfarfyddent âg Ef yma, "Sanct Duw," oedd yr enw arno. Erfynient ei nawdd a'i ewyllys da: os dywedai air penderfynol wrth un o honynt, megis "Ymaith, Satan," nid oedd y mwyaf gwrol o honynt ddim yn meiddio ateb yn ol nac anufuddhau. Cymerwch ddysg, gan hyny, wrth edrych ar ymddygiadau pawb eraill, a "chusenwch y Mab."

(2.) Edrychwch ar ei ras;—y mae hwn eto yn enyn parch. Nid mawredd ofnadwy ydyw ei fawredd Ef, ond mawredd a ellir ei guddio, am mai mawredd grasol ydyw. Ni lefarodd dyn erioed fel Efe, ond nid llefaru fel ar Sinai nes peri i'r bobl gryru yr oedd, ond tywalltwyd gras ar ei wefusau, am hyny yr oeddynt yn ei wrandaw yn ewyllysgar. Yr oedd cymaint o fawredd ar ei weithredoedd, nes peri i'r bobl ofyn, "Pwy ydyw Hwn?" ond yr oedd cymaint o ras ynddynt fel yr â'i yr holl wlad ar ei ol. Y mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo ynddo; ond yr oedd yn cadw y priodoliaethau ofnadwy i raddau o'r golwg, i gael amlygu yn eglurach y rhai grasol,—y rhai hawddgar. Un o'r pethau priodol i Dduw ydyw talu i bawb yn ol eu haeddiant, neu yn ol eu gweithredoedd; "anrhydeddu ei anrhydeddwyr;" ond Efe a guddiodd hynyna megis o'r golwg. Edrychwch arno yn cael ei omedd o ychydig ddwfr gan wraig o Samaria,—yn cael ei wrthod gan ddinas o Samariaid, —yn cael ei wadu gan un disgybl, a'i fradychu gan un arall; ond yn lle talu iddynt yn ol eu gweithredoedd, y mae yn mawrhau ei nerth arno ei Hun. Ac os edrychwn ar y dull y mae yn amlygu priodoliaethau Duw, y mae yn eu hamlygu oll fel ag i ddangos ei ras. Nid dangos ei fawredd mewn un peth, a'i ras

mewn peth arall y mae. Felly i raddau y mae Duw yn gwneuthur mewn rhagluniaeth ; ond amlygu gras yr oedd Efe wrth amlygu ei fawredd. Yr un peth ag oedd yn ei ddangos yn Dduw Hollalluog, oedd yn ei ddangos hefyd yn llawn gras. Yr un weithred ag oedd yn amlygu fod ganddo fywyd ynddo ei Hun, oedd yn amlygu hefyd ei fod yn fywyd y byd. Yr oedd mawredd yn dyfod i'r golwg yn ngwyrthiau Moses, ond mawredd ar wahan oddiwrth ras ydoedd. Edrychwch ar y dwfr yn troi yn waed, chwi a welwch fawredd, ond nid oes yma ddim gras; ond ar y dwfr yn troi yn win, dyna ras yn y mawredd. Edrychwch ar yr ystorm ofnadwy yn dinystrio ŷd bara, yn lladd pawb oedd heb gysgod rhagddi, dyna fawredd heb ras ; ond edrychwch ar ostegu yr ystorm ar Fôr Galilea, ac ar borthi miloedd âg ychydig dorthau ar ei lan, dyna ras yn y mawredd. Edrychwch ar doi y wlad â thywyllwch a ellid ei deimlo, nes gwneyd pawb fel deillion, dyna fawredd ; ond edrychwch ar roddi llygaid i un a anwyd yn ddall, dyna fawredd gallu Duw yn amlygu ei hun yn mawredd gras. Edrychwch ar yr holl Aipht yn flin arni gan gornwyd llynorog, dyna fawredd; ond edrychwch ar y claf o'r parlys, yr hwn a ddygid gan bedwar, yn myned adref heb gymorth neb, gan gario ei wely gydag ef, dyna fawredd yn ras Edrychwch ar un marw ymhob tŷ yn yr Aipht, dyna fawredd; ond i weled mawredd gallu yn fawredd gras, edrychwch ar angau yn rhoddi yn ol ei ysglyfaeth yn nhŷ Jairus, neu yn Bethania. Gallasai yntau ddangos ei fod yn Arglwydd ar y gwynt trwy beri i gawod o hono ddisgyn ar Fôr Galilea, nes suddo pob llong oedd yno; gallasai ddangos mai Efe oedd goleuni y byd, trwy daraw miloedd o'r trigolion â thywyllwch dallineb ; gallasai ddangos mai Efe oedd Arglwydd y bywyd, trwy ei alw yn ol oddiar filoedd oeddent yn ei gamddefnyddio; fe ddangosodd pan yma ei fod yn teyrnasu, a dangosodd mor eglur a hyny, mai gras oedd yn teyrnasu ynddo Ef. "Tywalltwyd gras ar ei wefusau."

Ond nid oedd y gras mawr oedd ynddo dim wedi dyfod i'r golwg pryd y cyfeiria y ddameg ato. Nid oedd yr holl bethau a enwyd eisoes ddim ond ysgub y blaenffrwyth,—ychydig o'r addfed ffrwyth cyntaf,—ychydig o'r hyn oedd yn ngweddill ganddo. Ac os gallesid digwyl y buasai dynion yn ei barchu

wrth weled hyny, pa faint mwy rhesymol* ydyw hyn wedi iddynt weled, nid ysgub y blaenffrwyth, ond y cnwd toreithiog, —wedi ei weled yn rhoddi nid o'r hyn oedd yn ngweddill ganddo, ond ei holl fywyd? Os oedd bywhau Lazarus â gair yn dangos gras mawr, pa faint mwy ydyw marw ei Hun i fywhau meirw? Os oedd rhoddi llygaid i ddall trwy offerynoldeb clai a phoeryn yn ras, pa faint mwy ydyw myned i dywyllwch glyn cysgod angau ei Hun i gael rhoddi bywyd i ddeillion ysbrydol? Os oedd dwyn y clefydau a'r gwendidau ymaith â'i air yn ras, pa faint mwy ydyw eu dwyn hwynt yn ei gorff ei Hun ar y pren,—"gwella'r archoll drwy gymeryd clwyf ei Hun,"—gostegu yr ystorm, nid â'i air, ond trwy gymeryd ei daflu i'r môr ei hun i'w gwneuthur yn dawel? Ni bu neb erioed mor hawdd ei barchu a'r Mab, oblegid y mae oll yn hawddgar. Yr oedd Abraham yn dywysog Duw, ond nid oedd heb ei wallau; yr oedd Moses yn was heb ei ail, ond nid oedd heb ei feiau; yr oedd Dafydd yn un o rai rhagorol y ddaear, ond nid oedd ei ddillad yntau ddim bob amser yn wynion; ond am Hwn y mae oll yn hawddgar,—y mae yn un a ddeil sylw ymhob man, ac ymhob cymeriad. Yr oedd Dafydd yn ddifai fel brenin, ond nid fel dyn. Yr oedd Eli yn offeiriad heb frycheuyn ar ei wisg, ond fel tad yr oedd llawer rhwng ei ddillad a bod yn wynion. Yr oedd Solomon yn athronydd na bu ei ail, ond fel dyn sefydlog, pell oedd oddiwrth ragori. Ond y mae Hwn oll yn hawddgar. Y mae mor ddifai fel Dyn ag ydyw fel Brenin: nid oes brycheuyn ar ei wisg offeiriadol; ac y mae ei ddillad mor wynion a hyny yn nghanol ei deulu. Y mae ei holl urddas Ef yn ras. Yr oedd mawredd Solomon yn destyn ymffrost i Israel. Nid oedd gan yr Aiphtiaid, yr Ethiopiaid, a'r Tyriaid, na'r un genedl arall frenin tebyg iddo; ond yr oedd ei wychder yn costio yn ddrud iddynt,—yr oeddent yn gruddfan odditan yr iau. Ond y mae holl urddas y Mab yn ras. Nid ein cyfoeth ni sydd wedi ei wneuthur yn fawr; ond y mae ei fawredd yn troi yn gyfoeth i ni. "Pan ddyrchafodd i'r uchelder, Efe a roddes roddion i ddynion." Y mae yn rhyfedd ein bod heb ei barchu!

3. "Hwy a barchant fy Mab i" hefyd, oblegid y mae y Mab, nid yn unig yn amlygiad o'r hyn ydwyf fi, ond hefyd yn am-

lygiad o'r hyn a ddylent hwythau fod. Y mae Efe mor enwog yn yr holl rinweddau y maent hwy yn ddiffygiol ynddynt, fel nad oes modd, debygid, iddynt beidio cywilyddio ger ei fron. Un achos o wrthryfel dyn ydyw rhyw ddychymyg fod Duw yn gofyn gormod ganddo,—yn rhoddi arno fwy nag a haeddai,—fod yr iau yn rhy drom i'w dwyn, a'r gorchymynion yn rhy gelyd i'w cadw; ond y mae y Mab wedi dangos mewn gweithred mai nid felly y maent. "Er ei fod yn Fab, fe ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefodd;" neu, Efe a fynodd wybod beth oedd ufuddhau ei Hun mewn dioddef: ac yn awr y mae yn dyst i'r greadigaeth nad ydyw Duw yn rhoddi ar ddyn fwy nag a haeddai. I brofi nad ydyw y ddeddf ddim yn un an-mhosibl ei chadw, darfu i'r Hwn oedd uwchlaw y ddeddf gymeryd arno agwedd gwas i'w hanrhydeddu. I brofi nad ydyw Duw ddim yn un anhawdd ei wasanaethu, gwisgodd y Mab ddillad gweithio i gyflawni yr ewyllys; ac nid ufuddhau mewn amgylchiadau cyffredin yr oedd, ond bu yn ufudd hyd angau, hyny yw, er i'w ufudd-dod gostio iddo farw. Yr oedd y Tad yn disgwyl i ni gywilyddio gerbron y Mab. Nid oes dim mor debyg o beri i'r euog deimlo ei euogrwydd a phresen-oldeb un dieuog. Y mae mintai o ladron yn ddigon talgryfion yn mhresenoldeb eu gilydd, ond gerbron dynion gonest, y maent yn cywilyddio. Y mae y meddwyn yn ddigon dideimlad gyda rhai fel yntau: ond odid na ostynga efe ei ben gerbron rhai heb eu llychwino gan y bai. Yr oedd trigolion y ddaear yn ddigon talgryfion am mai i'r un dosbarth yr oeddent oll yn perthyn; y naill lwchyn yn ymgodi yn erbyn y llall mewn balchder;—y naill briddell yn ymryson â'r llall mewn beiddio Duw;—y naill abwydyn yn ymorchestu am flaenoriaeth ar y llall mewn mathru y ddeddf: ond medd Duw, Mi wnaf iddynt gywilyddio;—mi anfonaf fy Mab yno, a phan welant un mor fawr yn ufuddhau bydd arnynt hwythau gywilydd peidio;—pan welant un mor gyfoethog mor ostyngedig, bydd arnynt hwythau gywilydd o'u hucheldrem. "Y llwchyn balch," medd Duw, "wele Etifedd pob peth yn cymeryd arno agwedd gwas; a ydyw yr olwg arno ddim yn peri i ti gywilyddio? Y briddell sydd yn fy hèrio, wele yr Hwn sydd yn gydradd â mi yn ymgrymu i mi; a oes arnat ti ddim cywilydd o dy ymddygiad? Yr abwydyn sydd

yn mathru fy neddf i, wele fy Mab, oedd uwchlaw deddf, yn ei chadw o'i fodd; a ydyw yr olwg ddim yn peri i ti ffieiddio dy hun?" "Hwy a barchant fy Mab i."

Fe ddywedir mai un o'r pethau mwyaf dinystriol i wlad ydyw fod y mawrion yn byw ymhell oddiwrth eu hetifeddiaethau: ni fedrant felly gydymdeimlo â'r is-radd, na bod yn esiampl iddynt mewn dim daioni; am hyny y mae y dosbarth hwnw yn myned i feddwl yn galed am danynt, ac yn cymeryd pob mantais i ysgwyd ymaith eu hiau hwynt; ond os byddant yn byw yn eu plith, ac yn eu golwg yn parchu pob deddf, ond odid na chywilyddia yr is-radd ger eu bron. Yr oedd perchen y ddaear ar ryw olwg yn byw yn rhy bell oddiwrthi. Rhwymo beichiau arnom, medd dynion, y mae, na ddwg Efe mo honynt âg un o'i fysedd. Na, medd Duw, mi ddeuaf fi i fyw i'ch mysg chwi, mi ddygaf eich beichiau chwi fy Hun; nid oes bosibl na chywilyddiwch pan welwch chwi hyn. A ydyw yn cael parch genym,—a ydyw ei ostyngeiddrwydd wedi alltudio balchder o dy galon di? A ydyw ei weithgarwch wedi peri i ti ffieiddio dy ddiogi? A ydyw ei ddaioni wedi peri i ti ffieiddio culni dy fynwes? A ydyw gweled Cyntafanedig pob creadur yn plygu i'r ddeddf, i gyflawni pob cyfiawnder, ddim yn peri i ti gywilyddio am nad wyt yn cyfeirio dy draed i lwybrau y gorchymynion? Hyn yr oedd Duw yn ei ddisgwyl; ond beth ydyw ymddygiad dynion tuag ato?

II. "Hwn yw'r etifedd, deuwch, lladdwn Ef." O nerth gelyniaeth calon dyn! yr amlygiad o'r daioni mwyaf yn cynyrchu y casineb mwyaf ffyrnig! Pan ddangosodd Duw y cwbl oedd yn ei galon Ef, fe ddangosodd dyn y cwbl oedd yn ei galon yntau. Yn anfoniad y Mab, wele fawredd cariad Duw: yn lladdiad y Mab, wele nerth gelyniaeth dyn. Lladd y Mab! Yr oedd rhywbeth tebyg i reswm i'w roddi dros bob lladd ond hwn. Yr oedd i Cain ladd Abel,—i Absalom ladd Amnon,—i frodyr Joseph feddwl am ei ladd ef, yn weithredoedd rhinweddol o'u cymharu â lladd y Mab. Pe buasai y Sodomiaid yn lladd y ddau wr a ddaethent i'w dinas, nid dieithr a fuasai hyny, oblegid yr oeddent wedi dyfod yno i ddinystrio y lle. Pe buasai Jeroboam yn lladd y prophwyd a ddaethai o Judah, nid hynod a fuasai hyny, oblegid yr oedd wedi dyfod i felldithio ei

allor ef. Pe buasai y tywysogion yn lladd Jeremiah, nid dieithr a fuasai hyny, oblegid yr oedd yn prophwydo yn eu herbyn hwynt. Ond lladd y Mab! dyna weithred—pa fodd y rhoddir cyfrif am dani? Yr ydym yn cyfrif am ei anfoniad trwy ddywedyd, "Felly y carodd Duw y byd, fel yr anfonodd ei uniganedig Fab;" ac nid oes genym fodd i roddi cyfrif am ymddygiad y byd tuag ato, ond trwy ddywedyd, Felly y casâodd y byd Dduw, fel y lladdasant ei uniganedig Fab Ef. Yr Iuddewon, meddwch, a wnaeth hyn, ac nid allem ni ddim, pe mynem, wneuthur yr un peth. Gellwch, ac y mae yn ofnus fod llawer o honoch yn mynu. Y mae yr Apostol yn sôn am ryw rai yn ail-groeshoelio y Mab, ac yn ei osod yn watwar. Ac y mae yr Arglwydd Iesu yn dangos y gofynid i'r genhedlaeth hono, holl waed y prophwydi a dywalltwyd er dechreuad y byd, hyny yw, yr ystyrid hwy yn euog o'u lladd hwynt. Gallwn ninau, yn yr un ystyr, fod yn euog o ladd y Mab.

1. Y mae pawb sydd yn rhodio yn yr un llwybrau a'r rhai a'i lladdasant Ef, yn euog o'i ladd eto yn nghyfrif Duw. Rhodio yn yr un llwybrau a'r rhai a laddasant y prophwydi yr oedd yr Iuddewon yn nyddiau yr Arglwydd Iesu; felly yr oedd eu gwaed yn cael ei ofyn oddiar eu llaw hwynt. Pwy bynag o honom ninau sydd yn rhodio yn yr un llwybrau a'r rhai a laddasant y Mab, fe ofynir ei waed mor wirioneddol oddiar ein dwylaw ni a'r eiddynt hwy. Y mae Duw yn gweled y diwedd o'r dechreu: fe wyr beth fydd diwedd y pethau hyn. Felly yn nghyfrif Duw y mae edrychiad anllad yn odineb;—y mae chwenychiad yn lladrad;—y mae casineb yn lladd, am mai yn y pethau yna y terfynent, pe byddai yr amgylchiadau yn fanteisiol iddynt ddyfod i'w llawn rym. Yr oedd yr Iuddewon ymhell oddiwrth feddwl am ladd Arglwydd y bywyd ar y cyntaf; ond nid oedd y lladd ond ffrwyth y casineb oedd yn eu calon hwynt ato er y dechreu: amgylchiadau a ddaethant yn fanteisiol i'r hâd addfedu,—i'r casineb derfynu mewn lladd. Nis gallwn ninau ddim lladd y Mab yn weithredol, oblegid y mae goruwch yr holl nefoedd, a'i fywyd allan o gyraedd pob perygl byth; ond os oes yma gasineb at yr hyn y mae yn ei geisio genym, yr ydym ninau yn lleiddiaid y Mab yn nghyfrif Duw. Yr oedd yr Iuddewon yn lleiddiaid y prophwydi, am fod yr un

casineb yn eu mynwes hwynt at eiriau Duw ag oedd yn mynwes eu tadau ; yr amgylchiadau yn unig a wnelent y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a'u tadau. Pe buasent yn yr un amgylchiadau, buasent yn cyflawni yr un gweithredoedd. Felly, pe buasai yr Arglwydd yn trefnu ein hamgylchiadau ninau yn wahanol, nid yn Jerusalem y buasai ei Fab Ef yn cael ei ladd, ond yn Nghymru. Yr ydym yn ddigon parod i feio yr Iuddewon: yr oeddent yn feius ; ond ni buasem ni ddim yn fwy difai na hwythau yn yr un amgylchiadau. Ië, pe buasai y Mab yn ymddangos ymysg pob cenedl ar y ddaear, buasai pob cenedl yn ei ladd,—yn cydsynio i ddywedyd, "Ni ddylai hwn gael byw." Y mae pawb sydd heb ei dderbyn yn Geidwad, o dan lywodraeth y pethau hyny a ddygasant oddiamgylch ei farwolaeth ymysg yr Iuddewon. Pa faint sydd yn y gynulleidfa barchus hon y gellir dywedyd am danynt, fel y dywedodd Pedr wrth y gynulleidfa ddydd y Pentecost, "Yr Iesu hwn, yr hwn a groeshoeliasoch chwi ?"

2. Medd rhyw wrthddadleuwr, Ni buaswn i byth yn gwneuthur hyny. Yr oedd yr Iuddewon yn tystio felly am y prophwydi,—pe buasent hwy yn byw yn nyddiau eu tadau na buasent yn eu lladd hwynt. Ond yr oedd yno beth i'w profi hwynt. Yr oedd i'r hen brophwydi gynrychiolwyr ar y ddaear y pryd hyny, ac yr oedd yr hyn a wnelsent i'r hen, yn cael ei gasglu oddiwrth yr hyn yr oeddent yn ei wneuthur i'r prophwydi byw. Os dirmygu, gwawdio, a lladd y rhai hyny yr oeddent, yr oedd hyny yn brawf diymwad mai yr un peth a wnaethent, pe cawsent gyfle, i'r prophwydi gynt. Y mae i'r Arglwydd Iesu yntau gynrychiolwyr ar y ddaear, sef ei weision ; ac y mae eich ymddygiadau tuag atynt hwy a'u cenadwri, yn ddrych o'r modd yr ymddygech ato Ef ei Hun. Os gwrthod eu cenadwri, os cymeryd pob mantais i gael rhyw frycheuyn ar eu cymeriad, os rhoddi camesboniad ar eu dibenion, yr ydych, fel yna yr oedd y Phariseaid yn ymddwyn at y Mab :—ceisio ei rwydo yn ei ymadrodd ;—camddarlunio ei ddibenion ;—priodoli ei wyrthiau i ddiafol :—y pethau yna wedi addfedu a laddasant y Mab gynt;—yr un ydyw eu natur eto.

3. Yr oedd yr Iuddewon yn cael eu profi yn euog o ladd y prophwydi trwy eu bod yn adeiladu eu beddau hwynt. Yr

oeddent felly, meddai yr Arglwydd Iesu, Luc xi. 47, 48, yn profi eu hunain yn gyd-foddlawn i'w gweithredoedd hwynt, sef un wedi lladd, a'r llall yn cloddio y bedd. Y maent, yn llygad y gyfraith, y naill yn euog fel y llall. Yr Iuddewon a laddasant y Mab; ïe, ond os wyt tithau yn cloddio bedd iddo, yr ydwyt yn euog fel yr Iuddew,—yn gyd-foddlawn i'w weithred ef. Dileu ei enw oddiar y ddaear oedd diben yr Iuddew yn ei ladd Ef; os wyt tithau heb wneuthur arddeliad o hono, yr wyt yn amcanu at yr un diben, felly yn cloddio bedd iddo. Fe'i cyfododd Duw Ef o'r bedd, ac a'i rhoddes i'w wneuthur yn amlwg. Pa fodd yr oedd i fyned felly? Nid trwy i angylion gyhoeddi ei fod yn Frenin,—nid trwy i lef o'r nef ddywedyd, "Ti wyt offeiriad;" ond yr oedd i fyned yn amlwg fel Brenin, trwy i ddynion gadw ei orchymynion; yn amlwg fel Prophwyd, drwy iddynt gymeryd eu dysgu ganddo; yn amlwg fel offeiriad, trwy iddynt bwyso ar ei iawn; ac y mae pawb sydd heb wneuthur hyn âg Ef, mewn gwirionedd yn ei wthio yn ol i'r bedd;—yr wyt yn tystio am dano fel yr Iuddewon mai twyllwr ydyw,—nad Ceidwad mo hono. Y mae hyn yn lladd y Mab. Y mae wedi ei ladd lawer gwaith genych; ond y mae Duw yn ei godi o hyd, ac yn ei roddi i'w wneuthur yn amlwg; ac os gwnai di hyny heno, ni sonia fe ddim am yr hyn a aeth heibio. Ni fua ai son am ymddygiad y gwinllanwyr at y gweision, pe buasent yn parchu y Mab: felly ar hyn y mae ein tynged ninau yn troi;—hon fydd y ddamnedigaeth. Yr oedd Nebuchodonozor yn foddlawn i anghofio ymddygiad y tri llanc os byddent hwy yn barod i blygu wrth glywed yr offer cerdd y pryd hyny. Felly y mae Duw yn dywedyd, os byddwch chwi yn barod heno i barchu fy Mab, da; mi a gladdaf yr hyn a aeth heibio mewn maddeuant. Ac y mae yn rhaid fod dy galon di yn galed,—dy elyniaeth di yn gref,—os gelli di saethu at ei fywyd heno eto, wedi clywed am ei ragoriaethau. Pan ddiangodd Napoleon o Elba yn ol i Ffrainc, yr oedd y fyddin a'r wlad yn ei erbyn; gydag iddo lanio, fe anfonodd un o'i swyddogion mwyaf parchus at y fyddin i geisio ganddynt ymostwng iddo, ond ni wrandawent ar y swyddog, am hyny fe benderfynodd fyned ei hunan. Pan yn agoshau at y fyddin, fe ddisgynodd oddiar ei farch, ac a gerddodd yn araf tuag atynt, â'i freichiau

ymhleth ar ei fynwes, heb yr un arf ganddo, wedi ei wisgo yn y dillad milwrol yn y rhai yr oedd wedi gwneuthur ei holl orchestion. Pan ddaeth i olwg y fyddin, fe barotodd y milwyr eu harfau dinystr yn ebrwydd; ond fe gerddodd ef ymlaen tuag atynt, er fod arf dinystr pob un yn gyfeiriedig at ei galon; ac wedi iddo ddyfod i'w hymyl, fe'u cyfarchodd dan ddywedyd, "Os oes yna rywun yn ewyllysio lladd ei ymerawdwr, fe all wneyd hyny,—dyma fi," gan daflu ei fynwes yn agored wrth ddywedyd y gair; ond gyda hyn, dyna y floedd fawr yn cael ei rhoddi, "Byw fyddo'r ymerawdwr!" Er diystyru y gweision, darfu iddynt fethu dal yr olwg ar y brenin heb blygu. Peth tebyg i hynyna sydd yn cymeryd lle yma heddyw. Mab Duw sydd wedi dyfod i wyneb ei elynion. Y mae arf dinystr yn llaw pob un o honynt; ond nid oes yr un arf yn ei law Ef. Y mae wedi ei wisgo yn y wisg y gwnaeth Efe y gorchestion ynddi. Y mae yn goch ei ddillad fel un a sathrai y gwinwryf. Y mae yn eich cyfarch chwi dan ddywedyd, "Wrthryfelwyr, os oes yma neb o honoch a fynai ladd ei Waredwr,—dyma Fi!" Ai tybed fod yma rywun yn ddigon caled eto heddyw i ollwng yr ergyd at ei galon. Na: mi a obeithiaf mai syrthio i lawr ac addoli, a dywedyd, "Byw fyddo'r Brenin!" a wnewch chwi oll. Os ei ladd Ef a wnai di, fe fydd llef ei waed Ef yn dy wneuthur yn grwydryn am byth. Fe ddywedir fod Cain yn crynu,—yn methu gorphwys,—wedi iddo ladd ei frawd: lle bynag yr âi, yr oedd llef y gwaed yn ei glustiau, a chryndod yn ei galon. "Pa faint mwy cosbedigaeth, y bernwch chwi, haeddu o'r hwn a laddodd y Mab?" "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio."

[Boreu Mercher, Medi 15, 1852.]

## PREGETH XXXIV.

### DIYSTYRU DYDD Y PETHAU BYCHAIN.

ZECHARIAH iv. 10:—"Canys pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain."

DUW ydyw y mwyaf mewn bod: iddo Ef yn unig y perthyn gwir fawredd. A dyn, y mae yn debyg, ydyw y lleiaf o'i greaduriaid rhesymol. Y mae genym hanes am lawer sydd yn uwch na dyn; ond nid oes hanes am neb yn îs. Ond y mae y Creawdwr mawr yn ymhyfrydu mewn pethau bychain, tra y mae dyn, y lleiaf o'i greaduriaid Ef, yn eu diystyru hwynt. Y mae pob peth o'u cymharu âg Ef ei Hun yn fychain i Dduw. Iddo Ef y mae yr ynysoedd fel brycheuyn, a'r holl genhedloedd fel defnyn o gelwrn;—mil o flynyddoedd fel un dydd;—yr oll, wedi eu gwneuthur yn un swm, yn ddim, a llai na dim. Ond o'u cymharu â'u gilydd, y mae rhai o'i weithredoedd yn fawrion, ac eraill yn fychain. Ac wrth sylwi ar ei greadigaeth, fel ar ei ragluniaeth, gwelir ei fod Ef yn ymhyfrydu mewn gwneuthur pethau bychain. Y mae yn debyg fod nifer ac amrywiaeth y creaduriaid sydd yn rhy fychain i'r llygaid eu canfod lawn cymaint a'r rhai sydd yn ddigon mawr i hyny; ac y mae llawn cymaint, os nad mwy, o brydferthwch gweithredoedd Duw allan o olwg y llygad, oherwydd ei fychandra, ag sydd yn y golwg.

Drachefn: y mae mor ryfedd gweled dyn yn diystyru dydd y pethau bychain ag ydyw gweled Duw yn ymhyfrydu ynddynt. Nid oes cymhwysder mewn dyn i ymwneyd ond â phethau bychain. Y mae Duw yn gwneuthur, fel y dywed Elihu, bethau mwy nag a wyddom ni. Y mae taranau ei gadernid ef y tuallan i gylch ein deall ni. Y mae y pethau mawrion oll i ni yn anchwiliadwy: â phethau bychain yr ydym ni wedi ein

cysylltu. Ar y rhai hyny y mae ein bywyd a'n dedwyddwch ni yn ymddibynu. Ni raid cynhyrfu y greadigaeth i'n lladd ni: gall un o'i phethau bychain hi wneuthur hyny;—awel o wynt;—cawod o wlaw;—neu y ddamwain leiaf. Ni raid ysgwyd colofnau y greadigaeth i aflonyddu ar ein heddwch ni: gall un diwrnod ein hysbeilio o'n meddianau;—un ystorm fechan ladd ein perthynasau;—neu fynyd o amser ein gwneuthur fel Job heb iechyd yn ein cnawd. Ië, y mae ein byd ni yn un bychan: y mae ei holl bethau yn fychain. Yr ydym ninau mor fychain, fel nad oes ond ychydig yn ddigon mawr i wybod eu bod yn fychain. Am hyny y mae lliaws trigolion y byd, ymhob oes, yn diystyru dydd y pethau bychain.

Gwneir hyn gyda phob peth y byd;—ei wybodaeth, ei gelfyddyd, ei fasnach, ond yn benaf gyda'i grefydd. Ac at ddiystyru dydd y pethau bychain gyda chrefydd y cyfeiria y testyn. Yr oedd yr Iuddewon wedi dychwelyd o'r caethiwed yn awr er's blynyddoedd. Dechreuasant yn fuan ar ol eu dychweliad adgyweirio anghyfanedd-dra Jerusalem a'r deml; ond llwyddodd eu gelynion i ddyrysu y gwaith, cyn iddynt gael ei gychwyn yn iawn. Ond wedi i'r amgylchiadau newid, llwyddodd y prophwydi Haggai a Zechariah i gael ganddynt ei ail gychwyn; ac yn y benod hon y mae y prophwyd yn eu calonogi i fyned ymlaen gyda'r gwaith trwy ddangos iddynt sicrwydd eu llwyddiant. Yr oedd dwylaw Zorobabel a sylfaenasent y tŷ, i'w orphen hefyd. Ac yn y testyn, y mae yn gofyn mewn ymffrost, wedi edrych yn brophwydoliaethol ar y gwaith wedi ei gwblhau, "Pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain?" Pa le y mae y diystyrwyr heddyw? Neu gall ei fod yn gofyn hyn wrth edrych ar gychwyn y gwaith; a hyny oherwydd yr ystyriaeth fod digon o blaid ei lwyddiant, oherwydd yr oedd saith lygad yr Arglwydd yn llawenychu wrth weled y gareg alcam yn llaw Zorobabel: am hyny, yr oedd gosodiad y gonglfaen mor sicr a gosodiad y sylfaen. Oddiwrth y testyn sylwn:—

I. Ar y gwahanol gymeriadau sydd yn diystyru dydd y pethau bychain gyda chrefydd. Gellir rhestru y rhai hyn mewn tri dosbarth. 1. Gelynion crefydd. 2. Ei chyfeillion hi. 3. Y rhai anmhenderfynol yn ei chylch, neu y rhai sydd yn cloffi mewn perthynas iddi.

1. Y mae gelynion crefydd ymhob oes yn diystyru dydd ei phethau bychain hi. Yr oedd rhai felly yn diystyru yr Iuddewon; yr oedd Sanbalat yr Horoniad, a Thobiah yr Ammoniad, yn gwatwar, ac yn dirmygu eu gwaith yn adeiladu gan ddywedyd, "Ped elai lwynog i fyny, efe a fwriai i lawr eu mur ceryg hwynt." Yr hyn oedd yn peri i'r rhai hyn dybied felly oedd, fod yr adeiladwyr yn ychydig ac yn dlodion, a'r gwaith yr oeddent yn ymosod arno yn fawr ac anhawdd. Y mae yr un peth yn peri i elynion crefydd ymhob oes ei diystyru, sef gwaeledd y moddion neu yr offerynau o'u cymharu â mawredd yr amcan mewn golwg. Y mae pregethu yn ffolineb i gadw; —y mae pryf Jacob yn ddiystyr yn eu golwg i ddyrnu mynyddoedd;—y mae careg fechan yn ynfydrwydd i ddryllio delw fawr. Pa faint o wawdio a fu yn nechreu y ganrif hon ar ymdrechiadau cenhadol yr eglwys? Pa sawl un a fu yn gofyn mewn diystyrwch a oedd dyrnaid o boblach dlodion yn myned i gyfnewid gwedd foesol India;—i ddadsylfaenu crefyddau oeddent yn filoedd o flynyddoedd o oedran? A oedd un neu ddau o wehilion cymdeithas, fel yr oeddid yn eu hystyried, yn myned i ail greu Affrica,—i wneyd y Negro yn ddyn, a'r dyn yn Gristion? Edrychid ar hyn yn freuddwyd gwâg rhyw ychydig oeddent wedi goddef i'w dychymyg gymylu eu rheswm a'u barn.

Ac y mae llawer eto yn gofyn, wrth edrych ar ymdrechiadau yr eglwys:—"Beth a wna yr Iuddewon gweiniaid hyn?" Diystyrir llyfr crefydd,—ceblir ei phroffeswyr hi; y mae doethineb Duw yn cael ei ddirmygu gan ymholydd y byd hwn, am ei fod yn ddoethineb mewn dirgelwch. Y mae yr arfau sydd yn nerthol i fwrw cestyll i'r llawr yn cael eu gwawdio, am nad ydynt gnawdol. Y mae gelynion crefydd yn diystyru dydd ei phethau bychain.

2. Y mae yn beryglus rhag i gyfeillion crefydd ddiystyru dydd ei phethau bychain hi. Yn llyfr Ezra, yr ydym yn cael fod yr hen bobl ymysg yr Iuddewon, yn gwneuthur yr un peth mewn rhan â'r Samariaid, sef diystyru dydd y pethau bychain; yr oeddent yn wylo wrth weled sylfaenu yr ail deml; tra yr oedd yr ieuainc yn llawenychu. Y mae yn debygol mai un achos o'u dagrau ydoedd, cymharu eu sefyllfa bresenol fel

cenedl, â sefyllfa Israel yn amser Solomon, pan yr adeiladwyd y deml gyntaf; ac oddiwrth eu bod yn dlodion ac yn anenwog yn awr, yr oeddent yn casglu y byddai y tŷ yn llwydaidd a chyffredin o'i gymharu â hwnw. Achos arall ydoedd, eu bod yn cymharu yr ail dŷ yn ei sylfaeniad, â'r cyntaf yn ei berffeithiad;—yr hen deml fel y gwelsent hwy hi, cyn i Nebuchodonosor ddyfod i fyny yn eu herbyn, a'r un bresenol, fel yr oeddent yn ei gweled yn awr. Oherwydd y pethau hyn yr oeddent yn rhy ddiystyr o'r gwaith. Ac y mae dynion da eto yn rhy dueddol i ddistyru pethau eu hoes eu hunain, am eu bod yn eu cymharu, yn eu cychwyn, â phethau oes flaenorol yn eu perffeithiad; fel pe gwelech chwi un yn cymharu diwrnod pan y mae yr haul newydd amlygu ei hun yn y wawr, â diwrnod arall pan ydoedd yn ei lawn rym. Y mae dyn gyda chrefydd, fel gyda'r byd hwn, yn priodoli gormod i'r amser a aeth heibio;—yn disgwyl gormod wrth yr amser dyfodol, ac yn rhy ddiystyr o bethau yr amser presenol. Ac nid bai un oedran yn unig ydyw hyn; ond y mae yr hen a'r ieuanc yn hyn yn cytuno. Y mae pethau mawr wedi bod, medd yr hen. Y maent i ddyfod, medd yr ieuainc. Y mae y pethau pell ar bob llaw yn fawr; ond y mae y rhai presenol yn fychain. Yr oedd Naaman yn eithriad i'r rheol gyffredin. Yr oedd efe yn tybied Abana a Pharpar, y dyfroedd oeddent yn ymyl ei gartref, yn well na'r Iorddonen oedd yn bell oddiwrtho. "Pan adeilado yr Arglwydd Sïon," medd y Salmydd, "y gwelir Ef yn ei ogoniant." Ond nid ar unwaith y mae yn ei hadeiladu: y mae fel yn ei gorphen hi bob yn rhan; a phan y bydd un o'r tyrau yn cael ei gwblhau, y mae pawb y pryd hyny yn gweled Duw "yn hynod yn Judah." Ond pan y bydd yn gosod sylfaen un arall, nid oes nemawr o'i ogoniant yn fynych yn y golwg; ac y mae perygl i ni, wrth ryfeddu gogoniant y tŵr sydd wedi ei orphen, fod yn rhy ddiystyr o'r un sy newydd ei ddechreu. Feallai y bydd mwy gogoniant y twr yna yr ydym ni wedi ei ddiystyru, na'r un yr ydym yn ei ryfeddu yn awr. Y mae ar ddyn eisiau gweled pob peth yn cychwyn ac yn cael ei gwblhau yr un fath; ond nid *mechanic*, nid *crefftwr*, ydyw Duw: Creawdwr ydyw. Y mae yn rhaid i grefftwr wneuthur pethau yn debyg yr un fath; ond gall

Creawdwr roddi amrywiaeth diddiwedd yn ei weithredoedd. Yn y dechre, fe wnaeth rai pethau o ddim,—eraill o'r dwfr,—eraill o'r pridd. Nid oedd yn ei ddynwared ei hun; ond yn dywedyd "Bydded" wrth ddim; a "dyged y ddaear," neu "heigied y dyfroedd," wrth ryw bethau oeddent mewn bod. Fel hyn y mae eto yn gweithio yn foesol. Fe wnaeth y tabernacl gynt, fel â'r gair "bydded," o ddim. Fe wnaeth y deml fel trwy ddywedyd, "Dyged y ddaear," sef mewn modd mwy naturiol. Ond Creawdwr ydoedd yn y naill amgylchiad fel y llall. Fe'i gwelwyd yn dywedyd, "Bydded," yn Nghymru, nes yr oedd yno Gristion yn y fan nad oedd dyn cyn hyny;—yn gwneuthur y rhai nid oeddent bobl yn bobl; ond y mae yn dywedyd yn awr, "Dyged y ddaear," sef gwneuthur Cristion, nid o ddim, ond o'r dyn. Na ddiystyrwn hyn; oherwydd fe wneir gwaith yn y dull hwn, y bydd gwiw gan Dduw ddywedyd am dano, mai "da iawn ydoedd."

3. Drachefn, y mae y rhai sydd yn cloffi gyda chrefydd yn diystyru dydd y pethau bychain. Tebyg ydyw fod rhai felly yn nyddiau y prophwyd. Yr oedd y genedl yn rhy wanaidd a dirmygus ganddynt i ddyfod gyda hwynt i'w gwlad; am hyny arosasant yn ngwlad eu caethiwed, gan fwriadu ei dilyn os elai dydd ei phethau bychain hi heibio. Nid oeddent wedi cwbl gefnu ar Jehofa, Duw eu tadau, ond yr oedd ei achos a'i bobl yn rhy fychain yn awr iddynt hwy wneuthur arddeliad o honynt. Yr oedd miloedd felly yn Israel yn nyddiau Elias. Nid oeddent yn addoli Baal; ond am ei bod hi yn ddydd y pethau bychain ar achos Jehofa, yr oeddent yn ddiystyr o hwnw. Y mae llawer o frodyr i'r rhai hyn yn y byd eto: nid oes dim yn eisiau, dybygech, ond i ddydd pethau bychain crefydd fyned heibio na byddant hwythau yn bleidwyr ffyddlawn iddo. Ei gweled hi wedi cyraedd sefydlogrwydd a chysondeb sydd yn eisiau i beri iddynt ei pharchu. Ond y mae dyn yn myned o'r naill eithaf i'r llall: y mae sefydlogrwydd a chysondeb peth drachefn yn peri iddo edrych arno yn gyffredin. Y mae yr hyn sydd yn digwydd yn barhaus yn ddiystyr yn ei olwg: pethau anghyffredin yn unig a gyfrifir yn fawrion ganddo. Y mae codiad a machludiad cyson yr haul yn beth bychan yn ei olwg: pe safai am ddiwrnod, edrychid ar

hyny yn beth mawr. Yr oedd gweithredoedd cyson Mab Duw, er eu bod yn fawrion, yn myned yn ddiystyr yn ngolwg y bobl: yr oedd arnynt eisiau gweled arwydd o'r nef,—rhywbeth anghyffredin. Felly y mae ordinhadau tŷ Dduw, oherwydd cysondeb eu gweinyddiad, yn myned yn bethau bychain yn ngolwg llawer: y mae arnynt eisiau gweled pethau anghyffredin. Yr oedd pregethu yn uchel yn eu golwg, pan nad oedd i'w gael ond unwaith yn y mis; ond y mae ei gysondeb wedi ei wneuthur yn ddiystyr yng ngolwg llawer.

Y mae dosbarth lliosog yn diystyru dydd y pethau bychain ar eu meddyliau eu hunain oherwydd yr un peth. Gan fod y dylanwad yn gyson ar eu meddwl, diystyrant hwynt, gan dybied nad oes ond pethau anghyffredin yn fawr. Y mae gan yr Arglwydd lawer ffordd i ddyfrhau y ddaear. Yn Eden nid oedd dim gwlaw: gwlith cyson oedd yn gwnethur hyn. Mewn lleoedd eraill, y mae y gwlaw yn cael ei roddi yn ddiball am wythnosau; mewn gwledydd eraill, y mae hi yn wlaw ac yn hindda bob yn ail; ond yr un diben sydd yn cael ei ateb trwy yr holl amrywiaeth hyn. Y mae y gwlith cyson fydd mewn un wlad yn ateb yr un diben a'r gwlaw mawr fydd yn disgyn ar amserau mewn gwlad arall. Felly y mae hi yn ysbrydol; ac y mae yn beryglus i bobl y gwlith ddiystyru hwnw am ei fod yn gyson.

Y mae Ysbryd Duw yn gwneuthur ambell deml ysbrydol fel y gwnaed un Solomon, sef ei gwneuthur hi mewn amser byr, a'i gwneuthur hefyd gyda chymaint o fawredd, fel nad gwiw i neb godi yn erbyn y gwaith; ond y mae pawb yn cynorthwyo; fel yr oedd y Sidoniaid a'r Tyriaid yn cynorthwyo Solomon. Y mae yn gwneuthur un arall, yn gyffelyb i deml Zorobabel, yn araf, a thrwy lawer o rwystrau: y mae y diafol, fel Sanbalat, yn gwawdio wrth weled cychwyn mor fychan; ac fel y llwyddodd Sanbalat i ddigaloni y bobl fel ag i rwystro'r gwaith fyned ymlaen am flynyddoedd, felly y mae y diafol yn llwyddo yn fynych i beri i lawer ddiystyru dydd y pethau bychain. Ond gwyliwch wrandaw arno: oherwydd y mae Ysbryd Duw am godi y deml, er mor fychan ydyw y cychwyn. Y mae am eich cael yn deml i Dduw. Y mae am godi yr holl feini o'r tŷrau llwch;—am gael y cysegr sancteiddiolaf eto yn gymwys i'r

Shecinah dwyfol breswylio ynddo,—i'r ddeddf gartrefu yno. Y mae am gael hen allor yr arogldarth eto i'w lle, fel y bydd aberth moliant yn esgyn yn berarogl oddiarni yn oes oesoedd. Er bod y colofnau, a fuant yn brydferth, wedi eu darnio, y mae am eu codi bob darn. Ac er y gellir, fel y dywedodd un, gerfio heddyw ar adfeilion yr hen deml, "Fe fu Duw unwaith yn preswylio yma," y mae yr Ysbryd tragywyddol am ei chael eto, y gellir ysgrifenu uwchben y drws, "Nid oes yma onid tŷ i Dduw;" "Dyma fy nhrigfan, canys chwenychais hi." Ond hynod mor araf y mae yn dechreu! Feallai mai ysgwyd tipyn ar ambell faen, sydd yn y tŷrau llwch, a wna i ddechreu; neu ryddhau ychydig ar ambell ddarn o golofn, sydd ymysg yr adfeilion; ond na ddiystyrwch ddydd y pethau bychain, oherwydd y mae teml Zorobabel mor sicr o gael ei gorphen ag un Solomon.

II. *Pwy a ddiystyrodd* ddydd y pethau bychain? Y mae y cwestiwn yn rhoddi mantais i ni edrych ar afresymoldeb yr ymddygiad; ac y mae pob peth yn ei ddangos felly. With ddiystyru dydd y pethau bychain,

1. Yr ydym yn gollwng dros gôf drefn y byd yr ydym ynddo, oherwydd y mae ei bob peth yn hyn o dan yr un ddeddf: bychain ydynt oll yn y cychwyn.

(1.) Edrychwch ar ei bethau mewn ystyr naturiol. Y wawr wanaidd, wedi cynyddu, ydyw y dydd. Y plentyn, wedi tyfu, ydyw y dyn. Yr eginyn, wedi ei berffeithio, ydyw y dwysen. Olrheiniwch yr afon yn ol, chwi a ddeuwch at y ffynon. Os chwiliwch chwi achau y perl gwerthfawr, yna chwi a ddeuwch at beth mor fychan a diwerth a'r glo sydd yn cael ei losgi:— neu y mynor tlws, chwi a ddeuwch at y clai cyffredin. Y mae dechreuad pob peth ein byd ni, mewn ystyr naturiol, yn fychan.

(2.) Y mae ei holl amgylchiadau eto yn dwyn yr un ddelw. O ba beth y daeth y diluw? Onid o beth mor fychan ag i bobl grefyddol briodi rhai digrefydd? Yr oedd syrthiad Israel o flaen Ai, yn cychwyn yn ngwaith Achan yn cuddio y fantell a'r llafn aur. Yr oedd rhwygiad y frenhiniaeth oddiwrth dŷ Saul, yn cychwyn yn ei waith yn cadw ychydig anifeiliaid yn fyw yn lle eu lladd. Yr oedd caethgludiad y deg llwyth i Assyria, i'w olrhain i beth mor fychan a dau lô Jeroboam; a

gwaith y Caldeaid yn dyfod yn erbyn Judah, ac yn y diwedd yn ei chaethgludo, i'w olrhain i beth mor fychan, ag i Hezeciah ddangos ei drysorau i genhadau brenin Babilon. Y mae sefyllfa ddirywiedig, orthrymedig, Negro Affrica, trwy y miloedd blynyddoedd, i'w olrhain i beth mor fychan a gwaith plentyn drwg yn gwawdio ei dad pan yn feddw; a sefyllfa isel a chrwydraidd yr Iuddewon am ddwy fil o flynyddoedd i'w holrhain i waith rhyw gynifer o honynt yn dywedyd, "Ymaith âg ef;" "Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant." Y mae yn syn fod dyn yn diystyru dydd y pethau bychain, pan y mae ei holl drueni wedi dyfod o beth mor fychan a bwyta ffrwyth pren, a'i holl ddedwyddwch am dragywyddoldeb o beth mor fychan ag angau un person. Y mae afon marwolaeth, ac afon y bywyd, yn tarddu o ffynhonau lled fychain.

(3.) Y mae y byd yn ei grefydd eto yn dwyn yr un ddelw. Gellir, yn ei pherffeithiad, ei chymharu hi i bren uchel a chysgodfawr, ond o hedyn bychan, cyffelyb i hedyn mwstard, y tyfodd. Wedi ei pherffeithio, bydd yn fynydd mawr, yn lleawi yr holl ddaear; ond careg fechan oedd dechreu hwnyna. Wedi iddi gael ei pherffeithio, bydd ei Brenin yn "un Arglwydd, a'i enw yn un,"—yn llywodraethu pob man: ond Iuddew tlawd, digyfrif, "heb na phryd na thegwch iddo," oedd yntau yn ei gychwyn. Fel y mae hi yn y byd y mae hi yn yr enaid. Peth daioni ydyw hi yn yr enaid. Ofn uffern ydyw hi i gychwyn. Arswydo gerbron Duw fel Barnwr ydyw hi i ddechreu; ond y mae ofn uffern ymhen amser yn cael ei golli mewn cariad at y nef: y mae arswyd Barnwr yr holl ddaear, yn cael ei lyncu i fyny gan barch i'r Tad sydd yn y nef.

Nid ar unwaith, nac mewn ychydig amser ychwaith, y mae crefydd yn cymeryd meddiant llawn ar enaid dyn. Yn y dyn cyntaf, cymerodd feddiant ar yr enaid, fel y cymerodd yntau feddiant ar y byd. Nid oedd dim yn gwrthwynebu ei hawdurdod hi; ond pob peth yn talu gwarogaeth iddi mewn moment; ond yn awr y mae hi yn meddianu yr enaid yn gyffelyb fel y meddianodd yr Israeliaid Ganaan, sef trwy ymladd am bob modfedd o honi. Ac fel y bu llawer cwr o'r wlad hono, am nad oedd wedi ei meddianu yn llwyr, yn agored i ruthriadau y Canaaneaid, ac i ddifrod bwystfilod niweidiol, am

flynyddoedd ; felly y mae llawer o'r enaid fel heb ei lwyr feddianu am amser hir, er nad ydyw y ffieidd-dra ddim yn dyfod i'r lle sanctaidd. Nid yw y gelynion ddim yn meddianu Jerusalem; dinas y Brenin mawr ydyw hi o hyd ; eto y mae cyrau y wlad yn dra agored i ruthriadau y gelynion. Er bod y galon yn union gydâ Duw, y mae deddf pechod yn yr aelodau : bob yn ychydig y ca hon ei gorchfygu. Ac nid yw y pethau sydd yn ymddangos yn eithriad i hyn, ddim felly ond mewn ymddangosiad. Nid oedd y dull cyhoeddus y cafodd Saul ei argyhoeddi ond cyffelyb i waith Jericho yn syrthio yn wyrthiol o flaen Israel: nid oedd hyny ond cychwyn meddianu y wlad. Yn araf iawn y dygwyd y gwaith ymlaen, er iddo gychwyn mewn dull mor gyhoeddus ; ïe, ymhen oesoedd y gorphenwyd ef. Felly yr ydym yn deall wrth iaith yr Apostol, fod cyrau o'r wlad heb eu meddianu ymhen blynyddoedd :—"Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon!" Dyna brawf fod y Canaaneaid eto yn y tir. O bethau bychain y mae pob peth ein byd ni yn tarddu.

2. Wrth ddiystyru dydd y pethau bychain, yr ydym yn gollwng dros gôf ein natur ni ein hunain. Gall gynyddu mewn perffeithrwydd yn ddiddiwedd. Nid amlygwyd i ni ei bod hi i sefyll yn oes oesoedd. Ni bydd pob uchder a gyraedd hi ddim ond mantais iddi gyraedd i un uwch. Bydd yno ryw un i fyny uwchlaw iddi yn dywedyd, "Dring!" a rhywbeth ynddi hithau yn dywedyd, "Yr wyf yn ymestyn at y nôd." Ond er nad oes terfynau gwybyddus i'w gallu hi i gynwys, ni all hi yn y dechreu gynwys ond ychydig iawn o bob peth. Y mae pob peth, yn ei berffeithrwydd, o'i gafael hi: y mae yn rhaid iddi gael sillebu cyn darllen, a dysgu'r wyddor cyn hyny. Y mae yr holl ddarganfyddiadau celfyddydol, os byddant yn lled berffaith yn y dechreu, yn cael eu gwrthod gan y bobl y maent wedi eu bwriadu i fod o fwyaf o les iddynt. Fe all cyfreithiau gwlad fod yn rhy berffaith i'r deiliaid : felly mewn crefydd, ni allwn ni wneuthur dim â pherffeithrwydd ; y mae yn rhaid iddi hi ddatguddio ei hun yn raddol. Y mae yn rhaid cael tabernacl cyn cael teml;—cael Duw yn y cysegr sancteiddiolaf, cyn ei gael yn Dduw mewn cnawd. Y mae yn rhaid dysgu addoli yn Jerusalem, cyn y byddis yn gymwys i addoli ymhob man.

Y mae yn rhaid dysgu cadw un diwrnod o saith yn Sabbath, cyn y byddi di yn gymwys i gael dim ond Sabbath.

Y mae daioni Duw yn disgleirio mewn trefnu dydd y pethau bychain, sef mewn ymddwyn tuag atom, fel y dywed y prophwyd, trwy anton "gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw," oblegid pe na buasai dydd y pethau bychain yn perthyn iddynt, ni buasent yn gymwys i ni. Fe welodd rhai o'r prophwydi y pethau megis yn eu perffeithrwydd. Gwelodd Moses ac Israel fawredd Duw ar Sinai; ond yr oedd y bobl yn dymuno na chwanegid hyny iddynt, ac yr oedd Moses ei hun yn crynu gan ofn. Pan welodd Esaiah Arglwydd y lluoedd, "Gwae fi, darfu am danaf," oedd ei iaith. Gwnaeth yr olwg i Ezeciel syrthio ar ei wyneb ar y ddaear; ac fe drodd yr olwg ar ogoniant yr Arglwydd degwch gwedd Daniel yn llygredigaeth. Nid all ein llygaid ni ddim dal i edrych ar danbeidrwydd yr haul: y mae yn rhaid i ni ei gael wedi ei adlewyrchu, ychydig yma ac ychydig acw, gan y ddaear. Yr ydym yn beio llawer ar ein hawyr-gylch; ond y mae yn dda i ni ei bod hi, i gymedroli y goleuni i'n llygaid gweiniaid ni. Yn cael eu hadlewyrchu, ychydig yma, ac ychydig acw, y mae pethau mawrion y Bibl. Y mae cyfiawnder a sancteiddrwydd, gras a thrugaredd, yn d'od i'r golwg, ychydig yma, ac ychydig acw;—weithiau y mae pelydr o'r naill a'r llall i'w weled mewn aberth;—bryd arall mewn barn;—weithiau mewn dinystr gwlad;—bryd arall, mewn arbediad person. Yr ydych yn ceisio pethau mawrion. Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn. Y mae goleuni y pethau mor danbaid, fel na allem ni ddim dyfod atynt, oni bai fod y tew gymylau o'u hamgylch yn lleddfu ychydig arnynt. Nid all cig a gwaed ddim etifeddu teyrnas Dduw. Y mae yn rhaid dy gylchu di âg anfarwoldeb, cyn y gelli di ddal pethau mawrion *(Isaac Taylor's Theory of Man's Disembodied Soul)*. Yn lle diystyru y pethau bychain, diolch am danynt ydyw ein lle ni: diolch am Dduw mewn cnawd; diolch am bethau ysbrydol mewn drych a dameg; diolch mai trwy ffenestr gorn (fel y mae rhai yn darllen geiriau yr apostol) y mae goleuni y byd arall yn dyfod yma, pe buasai yn dyfod trwy gyfrwng mwy clir, buasai yn ein dallu ni; diolch am beidio cloddio trwy holl barwydydd

y fynwes ar unwaith, onide buasai y ffieidd-dra sydd ynddi wedi ein dyrysu: ond bob yn ychydig y mae yn cael ei ddangos; diolch mai nid gogoniant mynydd y gweddnewidiad, na gogoniant Patmos, ydyw yr Unig-anedig oddiwrth y Tad i ni, ond gogoniant y dyn Crist Iesu.

3. Y mae afresymoldeb diystyru dydd y pethau bychain i'w weled wrth ystyried diben yr efengyl. Y mae hwnw y fath na chyrhaeddir mo hono ond yn y ffordd hon. Onid ydyw hi wedi ei bwriadu i fod yn *antidote* i effaith ffrwyth gwaharddedig Eden. Onid yw hi wedi ei bwriadu i droi y Nebuchodonosor fawr i le y daw i ddeall pwy ydyw? Onid ei hamcan ydyw peri i ddynion yfed llwch y llo y maent mor dueddol i'w addoli? I gyraedd yr amcan yna, y mae y Gwaredwr wedi dyfod nid yn unig i'r ddaear, ond i'w pharthau isaf hi;—nid wedi marw, ond wedi marw o farwolaeth felldigedig y groes. Y mae wedi ethol ffol-bethau y byd,—wedi ordeinio cadw trwy ffolineb pregethu; ac nis gall neb fyned ar ei ol mewn un oes heb ymwadu âg ef ei hun. Er bod amgylchiadau ei achos yn newid, nid ydynt byth yn newid fel ag i wneuthur hunanymwadiad yn ddiangenrhaid. Pan y mae yr Arglwydd yn rhoddi pethau cryfion gyda'r efengyl, y mae ei hiselder hi yn y wlad yn peri mai dydd y pethau bychain a fydd ei dydd hi y pryd hyny; a phan y mae hi yn barchus mewn gwlad, y mae y dylanwadau sydd yn cydfyned â hi yn weiniaid, fel ag y mae ei dydd hi yn ddydd y pethau bychain y pryd hwnw hefyd. Y mae naill ai yr amgylchiadau neu raddau y dylanwadau yn ei wneuthur felly. Ni allasai neb fyned ar ol Mab Duw gynt heb ymwadu âg ef ei hun. Yr oedd trigolion Nazareth yn cael eu rhwystro yn ei deulu, a thrigolion Capernaum yn ei athrawiaeth. Fe wnaeth bethau mor rhyfedd yn Capernaum, lle nad oedd neb yn ei adnabod, nes tynu sylw pawb. Ond er y pethau hyn, "Caled yw yr ymadrodd," meddai y bobl, "pwy a ddichon wrandaw arno?" Yr oedd ar drigolion Nazareth eisiau iddo wneuthur yno y pethau yr oedd wedi eu gwneuthur yn Capernaum; ond yr oeddent hwy yn gydnabyddus â'i holl oes; ac fe ddywedir iddo ryfeddu wrth eu hanghrediniaeth hwy yn anad neb. Ond "mab y saer" oedd yno ar y ffordd. Felly, pan y bu yn gwneuthur pethau rhyfedd, fel yn Capernaum, yn

Nghymru, yr oedd llawer yn dywedyd, "Caled yw yr ymadrodd." Yn awr y mae llawer yn dywedyd, "Gwna yma, yr hyn y clywsom i ti ei wneuthur yn nyddiau ein tadau." Nid dieithr ydyw, os ydyw yr Iesu yn rhyfeddu wrth ein hanghrediniaeth. Dylasem ni erbyn hyn fod fel trigolion Nazareth, yn lled gydnabyddus âg Ef, fel na buasai raid iddo wneuthur rhyw bethau mawrion, fel yn Capernaum, i beri i ni gredu ynddo. Y gwirionedd ydyw, eisiau cael myned ar ei hol heb ymwadu â hwynt eu hunain, y mae llawer;—eisiau eu hachub heb eu troi; eisiau iechyd heb ymadael â'r clefyd. Trwy bethau bychain y mae yn rhaid dy achub di.

4. Y mae afresymoldeb yr ymddygiad yn dyfod i'r golwg yn sicrwydd llwyddiant yr amcan, ond iddynt ddal ato, er lleied ydoedd yn ei gychwyn. "Pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain?" 'Canys y mae llygaid yr Arglwydd, sydd yn cyniwair trwy yr holl ddaear, yn llawenychu wrth weled y gareg alcam yn llaw Zorobabel;' am hyny byddwch galonog gyda'r gwaith. Er mai yn llaw Zorobabel y mae y blymen (*plummet*), y mae un mwy nag ef yn gofalu am dano. Am hyny na adewch i Sanbalat eich digaloni, nac i'ch tlodi eich hunain beri i chwi lwfrhau, oherwydd y mae y "llygaid sydd yn cyniwair trwy yr holl ddaear" ar yr amcan. Gan fod llygad yr Arglwydd ar y peth, y mae i chwi fod yn ddiystyr oherwydd dim sydd ar y ffordd, neu ynte oherwydd eich diddymdra eich hun, yn gwbl afresymol; ac y mae pawb sydd yn ddiystyr, oherwydd y naill neu y llall o'r pethau yna, yn gollwng dros gof pwy sydd o'u plaid. Yr oedd Moses yn anobeithio gwaredu Israel gan ei fod yn safndrwm; ond y mae yr Arglwydd yn gofyn iddo, "Pwy a wnaeth enau i ddyn?" Os medraf fi lefaru, fe ddaw Israel oddiyno, er dy fod di yn safndrwm. "Bachgen ydwyf fi," meddai Jeremiah; nid yw o bwys pwy wyt ti,—pwy sydd yn dy anfon sydd yn bwysig. "Bugail oeddwn i," meddai un arall; ond nid oedd dim pwys yn hyny,—geiriau pwy oedd yn ei enau oedd yn bwysig. Na ddyweded neb nad yw yr hyn sydd ar ei feddwl ond bychan; nid yw ei faint ddim o gymaint pwys. "Na ddifwyna ef; y mae bendith ynddo," er lleied ydyw. Y mae yr edeu yna, sydd wedi ei gollwng i waelod dy bydew, yn ymddangos yn wan

iawn; ond paid a'i barnu hi wrth yr olwg, oblegid y mae yr Hwn sydd wedi ei hanfon hi, wedi gwneuthur byd â pheth mor fychan a gair,—wedi enyn uffern â pheth mor fychan a'i anadl,—wedi gwneuthur nefoedd âg un o'i wenau. Gan mai un fel yna sydd wedi ei hanfon hi, gwylia ei diystyru hi. Yr wyf yn ofni cydsynio â'r pethau bychain yma; byddwn yn sicr o droi yn ol. Ni raid i hyny fod; oherwydd y mae saith lygad yr Arglwydd arnat. Ni raid i'r cwmwl, er nad yw ond fel cledr llaw gwr, ddiflanu, gan fod y môr wrth ei gefn. Ni raid i'r wawr, er gwaned yw, gael ei gorchfygu, gan fod cysylltiad rhyngddi â'r haul. Gwnewch yn fawr o honynt, er nad ydynt ond mân-lwch, canys mân-lwch aur ydynt; er nad ydynt ond dolenau bychain, y maent yn ddolenau cadwyn a all dy godi di byth.

"Y mae dydd y pethau bychain, yn ddydd pethau gwerthfawr, ac yn arwain at ddydd pethau mawrion;" ac y mae ei ddiystyru yn cau rhag y rhai hyny. Y mae pawb sydd yn gwneuthur hyn, mewn gwirionedd "yn barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragywyddol."

[Dyffryn, boreu Mawrth, Chwefror 11, 1854.]

## PREGETH XXXV.

### YR EFENGYL UWCHLAW CYWILYDD.

RHUFEINIAID i. 16 :—"Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist: oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu, i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr."

YR oedd yr Apostol Paul, yn y cyflawniad o'i swydd bwysig fel cenad dros Grist, wedi teithio dros ranau helaeth o'r byd cyn ysgrifenu yr epistol hwn. Fel y rhoddwyd calon neu ysbryd brenin i Saul, mab Cis, y dydd yr eneiniwyd ef, felly rhoddwyd calon apostol i Saul o Tarsis, y dydd y cyfnewidiwyd ef o fod yn erlidiwr yr Iesu, i fod yn ddisgybl iddo. Ac ni bu ei holl oes, o hyny i'w fedd, ond un ymdrech diball i ledaenu y wybodaeth am Grist. Ni cheisiodd fyned i mewn i lafur ei frodyr, trwy ymroddi i adeiladu yr eglwysi oeddent wedi eu ffurfio eisoes, gan yr apostolion eraill; ond y rheol wrth ba un yr ydoedd yn ymddwyn oedd,—"Pregethu yr efengyl y tuhwnt i chwi;" ac nid "i fostio yn rheol un arall am bethau parod eisoes;" hyny yw, ei amcan ydoedd, "ymorchestu," fel y dywed, "i bregethu yr efengyl, nid lle yr enwid Crist, fel nad adeiladai ar sail un arall." Ac fel ffrwyth yr ymegnïad hwn, yr oedd y gwledydd, o Jerusalem i Ilyricum, wedi eu llenwi ganddo âg efengyl Crist; fel y gallai ddywedyd am danynt, "nad ydoedd mwyach le ynddynt," hyny yw, yr un lle o bwys, nad ydoedd wedi planu Cristionogaeth ynddo. Y fath ydoedd brwdfrydedd ei zel, ac eangder ei galon fawr, fel yr ydoedd wedi penderfynu offrymu y cenhedloedd yn un aberth ar allor Duw, i'w cael yn ufudd ar air ac ar weithred i efengyl Crist; gan ei ystyried ei hun fel yr offeiriad oedd i ddarparu yr aberth mawr yma.

Yn y cyflawniad o'r gorchwyl mawr hwn, cyfarfyddai â llawer o wrthwynebiadau, ond nid ydoedd yn gwneuthur cyfrif o ddim; ac nid ydoedd dim yn gallu ei droi, am foment, oddiwrth ddilyn y diben mawr ar yr hwn yr oedd ei galon wedi ei gosod. Cyn iddo gychwyn allan i'w waith fel apostol, dangosodd yr Arglwydd iddo pa bethau eu maint yr oedd yn rhaid iddo eu dioddef er mwyn ei enw Ef. Nis gwyddai pa lwyddiant a ddilynai ei weinidogaeth mewn dinas; ond yr oedd yn sicr o un peth a'i cyfarfyddai yno,—yr oedd yr Ysbryd wedi tystio fod rhwymau a blinderau yn ei aros ymhob dinas. Yn hyn yr oedd ymadrodd yr Arglwydd Iesu yn cael ei wirio,—"A pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau;"—fel yr ymddygasai efe at y disgyblion pan yn Saul yr erlidiwr, felly yr ymddygwyd tuag ato yntau, pan y cyfnewidiwyd ei enw i fod yn Paul y disgybl. Ond nid oedd yn gwneuthur cyfrif o ddim: tra y byddai ei draed yn rhyddion, lledaenai derfynau yr eglwys; a phan y carcherid ef am ei broffes, adeiladai yr eglwys drwy ei epistolau; ac hyd yn nod pan y byddai afiechyd, neu gadwyn, feallai, yn ei rwystro i ysgrifenu ei hun, defnyddiai law un arall i hyny, fel y gwnaeth gyda'r epistol hwn. Fel ei Feistr, nis gwyddai beth ydoedd llonyddwch: ei fwyd a'i ddiod oedd treulio, ac ymdreulio, wrth "dystiolaethu efengyl gras Duw." Fel yr oedd gair yr Arglwydd wedi ei gau yn nghalon Jeremiah, felly yr oedd yr efengyl wedi ei chau fel tân yn ei esgyrn yntau; am hyny nis gallai ymatal. Yr ydoedd yn cael ei yru a'i a'i gymell i hyn. Cariad ar un llaw yn ei gymell, ac ofn ar y llaw arall yn ei yru. Pe buasai cymhelliadau cariad yn rhy weiniaid, yr oedd angenrhaid wedi ei osod arno; a gwae oedd iddo, oni phregethai yr efengyl.

Ond er bod yr hyn a wnaeth yn llawer, yr ydoedd yr hyn yr oedd yn ei ddymuno ei wneuthur yn llawer mwy. Yr ydoedd yn apostol er's ugain mlynedd; ond hyd yn hyn yr ydoedd heb ymweled â Rhufain, prif ddinas y byd. Er iddo yn fynych arfaethu myned yno, byddai rhywbeth bob tro yn ei luddias; ac yn y bymthegfed benod ni a gawn beth ydoedd hyny, sef yr awydd oedd arno i bregethu yr efengyl y lle nid enwid Crist. Yr oedd eglwys wedi ei phlanu yn Rhufain yn fore iawn; a phob tro y byddai yr apostol ar gychwyn i ymweled â hi, fe

glywai am ryw wlad neu ddinas boblogaidd heb erioed glywed gair o efengyl Crist, ac nis gallai ei galon dosturiol feddwl am eu gadael yn eu tywyllwch. Ac er y byddai yn gysur nid bychan i'w feddwl gael cymdeithas â'r saint yn Rhufain, iddo ef ac iddynt hwythau gael cyd-ymgysuro trwy ffydd y naill y llall, eto ymwadai âg ef ei hun, ac aberthai ei gysur ei hun ar allor llesâd rhai eraill: ond gan nad ydoedd mwyach le yn y gwledydd hyny, yr ydoedd wedi penderfynu, ar ol cyflawni y weinidogaeth oedd ganddo i'r saint tlodion yn Jerusalem, ymweled âg eglwys Rhufain; ac yn y cyfamser, ysgrifenodd y llythyr hwn atynt.

Y mae yn ei ddechreu yn amcanu symud ymaith y rhagfarn a allasai fod yn eu meddwl hwy tuag ato, am nad ydoedd wedi ymweled â hwynt. Yn gyntaf y mae yn tystio nad ydoedd ei absenoldeb i'w briodoli i ddifaterwch am danynt: na, yr ydoedd yn llawenychu yn eu llwyddiant:—yr oedd enwogrwydd eu ffydd yn peri iddo ddiolch i Dduw drostynt:—yr oeddent yn cael y fath le yn ei feddwl, fel yr ydoedd yn galw Duw yn dyst ei fod yn ddibaid yn gwneuthur coffa am danynt yn ei weddiau. A rhag y gallent briodoli ei absenoldeb i serch mwy yn ei fynwes at leoedd eraill.—Na, meddai, nid hyny ydyw yr achos; "Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Felly, hyd y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain." Yr ydwyf yn ystyried fy hun yn ddyledwr i'r byd; ac yr wyf yn ymorchestu i dalu y ddyled bob dydd. Dyn i'r byd ydwyf. Nid oes dim yn angenrheidiol i roddi hawl iddynt arnaf, ond i mi glywed eu bod yn druenus; a phwy bynag sy fwyaf felly, yn nyled hwnw yr ydwyf bellaf, ac i hwnw yr ydwyf yn amcanu talu yn gyntaf. Pa mor goethedig bynag fyddant, yr ydwyf fi yn eu dyled: pa mor anwar bynag fyddant, dyledwr iddynt ydwyf fi. Ai doethion Athen ydynt, neu annoethion Melita, yr ydwyf yn ddyledwr i'r naill fel y llall. Ac y mae genych chwithau yn Rhufain hawl i'm gofyn; ac, hyd y mae ynof, parod ydwyf i dalu fy nyled i chwithau hefyd. Nid ydwyf yn meddwl byw ond i dalu fy nyled; ac os bydd fy marwolaeth yn foddion mwy effeithiol i hyny, nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf drwy ei rhoddi i lawr fod yn

foddion i dystiolaethu yn well efengyl gras Duw. Ac, feallai, y byddai i rai briodoli ei absenoldeb i gywilydd o'r efengyl, nid yn ystyr eangaf y gair, ond yn hytrach i wendid ffydd ynddi, fel pe buasai arno ofn i roddi y prawf arni hi yn Rhufain, am fod Rhufain yn ganolbwynt pob peth y byd y pryd hyny. Yno yr oedd doethineb y byd yn cartrefu; ac yr ydoedd llygredigaeth y byd hefyd yn cartrefu yno. Yr oedd yno lawer o Iuddewon, y rhai oeddent wedi eu caethgludo yno cyn amser Crist; ac yr oeddent erbyn hyn wedi dyfod yn rhan liosog o boblogaeth y ddinas fawr; yn gymaint felly, fel yr ydoedd llawer o'r gwragedd mwyaf parchus yn Rhufain yn arfer ymgynull yn synagogau yr Iuddewon, os nad oeddent yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig. Yr oedd y philosophyddion yn aml iawn yno hefyd, yn cyfansoddi ac yn esbonio yn feunyddiol ryw gynllun newydd i ddiwygio'r byd. A gallasai rhai feddwl, oherwydd y pethau hyn, fod ar Paul raddau o ofn dyfod i Rufain i bregethu. A phe buasai ofn ar ryw un o'r apostolion, Paul oedd y tebycaf o lawer i ofni, am ei fod yn fwy galluog ei feddwl, ac yn fwy dysgedig na'r un o'r apostolion eraill. Nid ydyw anwybodaeth yn ofni, nac yn anhyderus un amser. Yr oedd dysgeidiaeth yr apostol yn ei alluogi i ganfod mawredd y rhwystrau oedd yn Rhufain, yn amlycach na'r holl apostolion eraill; a phe buasai ar rywun gywilydd o'r efengyl, a diffyg ffydd ynddi, Paul a fuasai hwnw. Ond yn y testyn, y mae yn ateb yr wrthddadl yna. Na, nid hyny a'm rhwystrodd i Rufain: "Canys nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist,"—nid oes genyf ddiffyg ffydd ynddi i wynebu hyd yn nod ar Rufain ei hun: "Oblegid gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un ar sydd yn credu."

Y mae y testyn yn rhagdybied y gallasai fod arno gywilydd o'r efengyl, ac hefyd yn sicrhau nad oedd arno gywilydd o honi; a hyn fydd sylfaen yr ychydig sylwadau a gawn ni eu gwneuthur yn awr.

I. Paham y gallasai fod arno gywilydd o'r efengyl.

II. Paham nad oedd arno gywilydd o honi.

Y mae yn rhaid i ni gasglu yr ateb i'r peth cyntaf oddiwrth y cyd-destyn; ond y mae y testyn ei hunan yn cynwys ateb i i'r ail, sef paham nad oedd arno gywilydd o honi: "Oblegid gallu Duw yw hi."

I. Y mae y testyn yn rhag-dybied y gallasai fod ar Paul gywilydd o'r efengyl. Gallasai fod arno gywilydd o honi ar ddau olygiad: 1. Fel Iuddew. 2. Fel dyn dysgedig. Gallesid disgwyl y buasai ei ragfarnau cenedlaethol yn ei atal i'w chynyg hi i'r Iuddewon; ac y buasai y wybodaeth eang oedd ganddo yn ei anghymhwyso i'w chynyg hi i'r Groegiaid.

1. Fel Iuddew, gallasai fod ar Paul yn fwy arbenig na'r holl apostolion gywilydd o'r efengyl, am ei fod yn perthyn i'r sect fanylaf o'r grefydd Iuddewig, ac wedi ei ddwyn i fyny o'i febyd yn holl ddefodau ac arholion y gyfraith. Ond wrth dderbyn yr efengyl ei hun, ac wrth ei chynyg hi i'w frodyr, yr ydoedd—

(1). Yn ymwrthod, ac yn ceisio ganddynt hwythau ymwrthod, â'r holl ddisgwyliadau oedd ganddynt am fawredd tymhorol. Yr oedd y disgwyliad hwn wedi myned yn ail natur i'r Iuddew. Y gobaith am hyn ydoedd wedi cynal y genedl mewn chwech a saith o gyfyngderau; ac er eu bod wedi syrthio yn aml, yr ydoedd hwn wedi atal iddynt gael eu llwyr fwrw i lawr. Ac oddiwrth yr hyn ydoedd wedi ei wneuthur iddynt eisoes, yr oedd ganddynt le cyfreithlawn i ddisgwyl pethau mawrion eto, a'r pethau hyny yn fawr yn ystyr y ddaear o'r gair. Wrth daflu eu golwg yn ol dros ddwy fil o flynyddoedd, gwelent eu hunain wedi eu neillduo i Dduw,—yn cael ymddwyn tuag atynt fel plant, tra yr ydoedd yr holl fyd yn cael eu trin fel estroniaid. Yr un daioni ag a neillduodd Abraham o ganol ei frodyr, a'r un gallu ag a fu yn amddiffyn iddo yn ei holl grwydriadau, a'r un drugaredd ag a'i llwythodd â llawnder, a fu yn eu neillduo, yn eu hamddiffyn, ac yn eu porthi hwy am ddwy fil o flynyddoedd. Ac yn eu tyb hwy, nid ydoedd yr holl fawredd hwn, ond gwystl o beth mwy,—ysgub blaenffrwyth yn arwydd fod cynhauaf toreithiog i ddilyn; oblegid onid oeddent yn darllen yn ysgrifeniadau eu prophwydi, fod dydd o lwyddiant na bu ei fath ar y byd eto i wawrio;—fod y deyrnas i gael ei rhoddi iddynt hwy, "saint y Goruchaf," a bod mab Dafydd i ddyfod i eistedd ar ei orseddfainc yn dragywydd,—ei lywodraeth i ymestyn o fôr i fôr, a phob awdurdod a brenhiniaeth arall i blygu i'r frenhiniaeth gyffredinol hon? Yr oedd yr Iuddewon yn deall yr holl bethau hyn yn llythyrenol; oblegid iachawdwriaeth dymhorol ydoedd pob un a dderbyniasent gan

Dduw erioed. Ac nid rhyfedd fuasai, pe buasai cywilydd ar Paul geisio ysbeilio ei frodyr o'r gobaith hwn oedd ganddynt, yr hwn ydoedd fel seren wedi sirioli eu ffurfafen yn y noson dywyllaf,—fel pren wedi pereiddio pob dwfr chwerw a yfwyd atynt erioed. A gallwn yn hawdd ddeall paham yr oeddent yn edrych gyda dirmyg ar bob un o'u cenedl oedd yn cofleidio efengyl Crist; oblegid, drwy hyny, yr oedd yn rhoddi ynfydrwydd yn erbyn ei holl frodyr; a phriodol y gallent ofyn iddo, —Pa fodd y cydsaif hyn âg ysgrythyrau y prophwydi? oni ddywedodd y prophwydi fod brenin i ymddangos yn ein plith? A ydym ni i ganfod cyflawniad o'r brophwydoliaeth hono yn Mab y Saer yna? Onid oedd y brenin hwnw i gael ei amgylchu âg urddas, ac â mawredd? A ydym ni i ganfod cyflawniad o hyny yn nhlodi ac anenwogrwydd Iesu o Nazareth? Onid oedd llywodraeth y brenin hwnw i fod yn gyffredinol, a'i oruchafiaeth i fod ar bawb? A ydym ni i ganfod cyflawniad o hyny yn marwolaeth boenus a dirmygus yr hwn a gyhoedawch chwi yn Grist?

(2). Yr oedd yr apostol wrth dderbyn yr efengyl, ac wrth ei chynyg i eraill, yn ymwadu, ac yn ceisio ganddynt hwythau ymwadu, â'r pethau hyny ymha rai yr oedd yr Iuddew yn ymffrostio fwyaf. Yr oedd ei holl seremonïau a'i grefydd wedi eu bwriadu i fod yn gysgodau o bethau mwy; ond nid ydyw yn ymddangos fod corff y genedl, os ydoedd hyd yn nôd y duwiolion oll, yn deall hyny. Edrychent ar eu haberthau a'u gwasanaeth fel wedi eu bwriadu i barhau, ac nid fel cysgodau o ddaionus bethau i ddyfod. Yr oedd y teimlad a barodd i'r disgyblion ddangos adeiladau y deml i'r Arglwydd Iesu, yn deimlad cyffredin y genedl oll. Yn y deml yr oedd eu holl serchiadau yn cydgyfarfod. Ac er y gallai y deml hono fod wedi ei dinystrio, yr oeddent yn hoffi hyd yn nôd ei meini hi. Yr oedd llwch y ddaear lle y safai yn cyffroi tosturi yn eu calon. Wylent ddagrau yn hidl wrth ei chofio ar lan afonydd Babel. Y dirmyg pellaf a ellid roddi arnynt ydoedd taflu cwmwl ar eu teml a'u crefydd. Iddynt hwy, yr unig le cysegredig ar wyneb y ddaear oedd y deml. Yr oedd Duw wedi ymddangos ar Sinai; ond yr oedd wedi trigo yn Sïon. Ac er ei fod wedi cilio yn awr, eto disgwylient, yn ol prophwydoliaeth Malachi,

y deuai yr Arglwydd, mewn dull mwy gogoneddus nag erioed, i breswylio yn ei deml. Ac nid dieithr eu bod yn edrych ar hwnw fel yn annheilwng o'r enw Iuddew, a geisiai ddadsylfaenu y dyb hon, drwy ddywedyd fod y deml wedi gorphen ei gwaith; —yr allorau yn gwbl ofer;—ac nad oedd yr un aberth byth mwy yn angenrheidiol;—fod y byd oll yn un deml; ac mai mynydd Sïon o hyn allan fyddai pob man, boed fryn, boed fro, lle byddai dau neu dri wedi ymgynull i addoli, a bod y shecinah yno gydâ hwynt. Yr oedd yr efengyl, wrth symud ymaith y dyb yna, yn dadsylfaenu un arall hefyd, sef, fod yr Iuddewon yn bobl briodol i Dduw. Os nad oedd yr un llanerch o'r ddaear yn fwy cysegredig na'u gilydd, yna rhaid nad oedd yr un genedl felly. Yn hanes Pedr yn nhŷ Cornelius ni a welwn mor ddwfn yr oedd y syniad am sancteiddrwydd ei genedl wedi gwreiddio yn mynwes pob Iuddew. Bu yr eglwys, am rai blynyddoedd ar ol esgyniad ein Harglwydd, yn meddwl mai i'r Iuddewon yn unig yr oedd yr oruchwyliaeth hon hefyd wedi ei bwriadu; ond pan gafodd efe weledigaeth y llen llian, fe ganfu yr apostol fod canolfur y gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr, ac nad oedd yr Arglwydd mwyach yn derbyn wyneb yr Iuddew mwy na'r cenedl-ddyn. Ond rhaid bod hyn yn taraw yn bur chwithig ar glustiau Iuddew, yn enwedig pan y deuai o enau Iuddew arall. A gallasai, oherwydd hyn, fod ar Iuddew gywilydd proffesu crefydd oedd yn ysbeilio ei hen grefydd ef o'i holl ogoniant,—yn gwneuthur ei bobpeth cysegredig ef yn gyffredin, ac yn dïosg ei genedl o'r mawredd hwnw oedd wedi ei hamgylchynu am ddwy fil o flynyddoedd.

(3). Yr oedd yr apostol, drwy broffesu yr efengyl, yn rhoddi pechod erchyll yn erbyn ei genedl. Nid peth bychan oedd ceisio eu hysbeilio o'u gobaith am ddaioni i ddyfod; peth mwy oedd estyn llaw i gipio oddiarnynt yr hyn ydoedd yn eu meddiant; ond mwy na'r ddau ydoedd ceisio eu gwneuthur yn euog o'r pechod mwyaf a gyflawnwyd ar y ddaear erïoed, sef, rhoddi Mab Duw i farwolaeth. Yr oedd eu bod wedi trochi eu dwylaw yn ngwaed "y Sanct a'r Cyfiawn" yn eu gosod yn îs na'r cenhedloedd, y rhai a ystyrient yn gŵn. Yr oedd yr apostol wedi ei ddysgu yn fanwl yn y pethau hyn. Nid ydoedd yn ol i neb mewn cariad at ei genedl;—yr oedd y zêl oedd ganddo dros

ei hen grefydd wedi peri iddo unwaith erlid y ffydd yr oedd yn ei phregethu yn awr;—a phricdol y gallasai Iuddewiaeth ofyn iddo, yn gyffelyb ag y gofynodd yr Arglwydd Iesu i Judas,—"Ai tydi sydd yn fy mradychu?" Yr oeddwn i wedi gobeithio mai tydi oedd yr hwn fuasai yn fy ngwaredu oddiwrth y ddysg newydd hon. Ti a redaist yn dda unwaith,—a hudwyd dithau hefyd? Yn dy zel di, yr oeddwn yn gweled seren ddydd fy ngoruchafiaeth. Wrth weled dy ymroddiad, dywedais,—Beth fydd y bachgen hwn? Disgwyliais y buasai dy frwdfrydedd yn rhoddi ail fywyd ynof trwy y wlad;—y buasai dy alluoedd mawrion yn dangos mwy o'm gogoniant i'r doethion;—y buasai purdeb dy fuchedd yn sugno y tlodion i od yn fwy llwyr yn y gwasanaeth. Ni buaswn yn disgwyl hyn ar dy law di. Ni buaswn yn disgwyl mai tydi a fuasai yn troi yn gyhuddwr dy genedl, yn waithruddwr dy grefydd, ac yn ddadleuydd cyhoeddus dros "y Galilead." Onid oes arnat gywilydd o'th ymddygiad? Na, "nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist."

2. Fel y gallasai fod arno gywilydd, oherwydd ei ragfarnau crefyddol, i'w chynyg i'r Iuddew, felly gallasai fod arno gywilydd, oherwydd ei ddysgeidiaeth ddynol, i'w chynyg i'r Groegwr. Gallesid edrych ar yr Iuddew a'r Groegwr fel yn cynrychioli y byd ymhob peth ag ydoedd wir ac ardderchog ynddo. Yr ydoedd pob peth ag ydoedd yn ardderchog mewn crefydd yn y byd i'w gael ymysg yr Iuddewon; a pob peth ag ydoedd yn fawr ac yn enwog fel ffrwyth y rheswm dynol i'w gael ymysg y Groegiaid. Ac am fod Paul yn ddysgedig yn y pethau hyn, gallasai fod arno gywilydd cynyg yr efengyl iddynt,—

(1.) Am ei bod hi mor groes i bob peth a ystyrient hwy yn wir reswm. Yr oedd yr ymadrodd am y groes yn ffolineb yn eu golwg. Doethineb Duw ydyw yr efengyl; ond yr oedd y porth, oedd yn arwain i mewn i'w theml hi, yn rhy gyfyng i ddysgedigion y byd fyned drwyddo. Yr oeddent oll yn tramgwyddo wrth y groes, oedd ar drothwy y deml. Bywyd mewn angau, meddai y Groegwr, pa reswm sydd yn hyny? Yr oedd y Stoiciaid a'r Epicuriaid yn Athen, yn gofyn yn ddirmygus am Paul, pan yn cyhoeddi hyn:—"Beth a fynai y siaradwr hwn ei ddywedyd?" Neu, Beth a fynai y clebryn hwn ei ddywedyd?

ac nid oedd hyn mor hynod, oblegid yr oedd y grefydd oedd yn cael ei mynegi ganddo yn grefydd y ffydd. Yr oedd ei hathrawiaethau hi, a'i rheolau moesol, yn gyfryw ag yr oedd rheswm dynol yn eu cyfrif yn dwyll, neu yn ffolineb. Duw wedi ymddangos yn y cnawd :—Ynfydrwydd, meddai y Groegwr. Y person hwnw wedi marw :—Dyna ynfydrwydd hwy ; y mae y duwiau oll yn anfarwol. Y marw hwnw wedi adgyfodi :—Dyna ynfydrwydd yn cael ei bentyru ar ynfydrwydd. Y mae y byd i gael ei achub drwy gredu y geiriau hyn :—Ffolineb, ffolineb ! Yr oedd y doethion, oeddent wedi cydsynio mai un Duw sydd yn rhodli hwnw mor bell yn yr eangderau,—yn ei wneuthur mor fawr,—fel nad ydoedd yn talu moment o sylw i'r byd bychan hwn. Ac onid ymddangosai yn berffeithrwydd ffolineb iddynt ddywedyd fod y Duw hwnw, nid yn unig yn sylwi ar y byd hwn, ond ei fod wedi ymddangos yn y cnawd. Ac yn mhellach eto, pan y clywent hanes yr hwn yr oeddis yn ei broffesu yn Dduw,—ei fod wedi myned drwy y byd yn ddyn tlawd, anenwog, ymddangosai yn fwy fyth felly. Pe buasai y fath beth ag i Dduw ymddangos ar y ddaear, meddai y Groegwr, onid fel Duw y buasai hyny ? Oni buasai yn preswylio mewn teml o berlau,—yn cael ei ddilyn a gosgordd-lu gogoneddus,—ac yn llanw y ddaear â'i fawredd ? Ac, ai tebyg yw y buasai Duw yn marw? Onid ydyw y meddwl yn annheilwng i fawredd ac urddas Duw? Ac, yn enwedigol, ei fod yn cael ei roddi i farwolaeth gan ddyn ? A ydyw y duwiau yn wanach na dynion ? Ac yn goron ar yr holl ffolineb, dywedir fod credu y pethau hyn yn adferu dyn i ddedwyddwch. Dyweder fod aberthu yn angenrheidiol ;—fod dwyn penyd a gwneuthur pererindodau yn angenrheidíol ; y mae rheswm yn hyny : ond y mae cyhoeddi crediniaeth yn angau ac adgyfodiad un arall, fel y ffordd i hapusrwydd, yn berffeithrwydd ffolineb. Dyna syniad y Groegwr.

Ac nid ydoedd athrawiaethau yr efengyl ddim yn fwy croes i'r hyn a ystyrient hwy yn rhesymol, nag oedd ei rheolau moesol hi i'r hyn a ystyrient hwy yn bosibl, ac yn iawn. Yr oedd y werin o dan lywodraeth chwantau anifeilaidd; ac os ydoedd y doethion yn rhydd oddiwrth y rhai yna, yr oeddent hwythau o dan lywodraeth nwydau y diafol ; pryd na byddent o dan lywodraeth glythineb a meddwdod, yr oedd balchder,

malais, a chenfigen yn llenwi eu mynwesau. Yr oeddent yn arfer edrych ar ddial yn rhinwedd, ac ufuddhau i'w tueddiadau yn beth hollol gyfreithlawn,—ac ar burdeb allanol fel yr unig beth angenrheidiol. Onid ffolineb iddynt fyddai dywedyd y dylent garu eu gelynion,—croeshoelio eu tueddiadau,—ac ymestyn at burdeb calon? Gwyddai yr apostol hyn oll. Gwyddai y byddai ei waith yn cyhoeddi hyn yn ei osod yn nôd i'w gwawd a'u dirmyg. Yr oedd y gwirioneddau yr oedd yn eu cyhoeddi gymaint uwchlaw rheswm, fel yr oedd yn rhaid iddo naill ai gwawdio ai addoli. Ac er mai gwawdio yr oedd rheswm y Groegwr, eto nid oedd ar yr apostol gywilydd o efengyl Crist.

(2.) Nid yn unig yr oedd yr efengyl uwchlaw rheswm y Groegiaid, yr oedd hi hefyd yn taflu dirmyg ar y rheswm a'r wybodaeth yr ymffrostiai y doethion ynddynt. Gwelsom eisoes ei bod hi yn ysbeilio yr Iuddewon o'u holl fawredd: yr oedd hi yn gwneuthur hyny hefyd â'r Groegiaid. Fel yr oedd yr Iuddewon wedi meddwl mai gydá hwy fel cenedl y byddai marw syniadau cywir am grefydd; felly yr oedd y Groegiaid wedi meddwl mai gydâ hwy y byddai marw doethineb. Edrychent gyda dirmyg balch ar bawb eraill. Barbariaid iddynt hwy oedd y byd oll ond eu cenedl eu hun. Hwynthwy oedd i gael allan wirionedd, ac i'w gadw hefyd. Yr oedd y dyb hon yn eu llenwi â balchder; ond yr oedd yr efengyl a dynodd ganolfur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenhedloedd, yn tynu hefyd ganolfur y gwahaniaeth rhwng doethion ac annoethion. Yr oedd doethion y byd, fel y gweithwyr cyntaf yn y winllan, yn disgwyl y buasai rhyw ragoriaeth yn cael ei roddi arnynt hwy; a phan glywsant fod y barbariaid,—ysgubion y byd, a sorod pob dim,—yn cael eu gwneuthur cystal a hwythau, nid rhyfedd eu bod yn ystyried y grefydd oedd yn gwneuthur hyny yn ffolineb. A ydyw ein doethineb ni i gael ei gyfrif yn ynfydrwydd,—ein holl ymchwiliad i natur pethau i gael edrych arno yn beth diwerth? A ydyw ein holl ddarganfyddiadau mewn moesau a gwybodaeth i gael eu hystyried yn ddim? A ddisgwylir i ni roddi i fyny ein holl *systems*, a derbyn rhyw athrawiaeth farbaraidd o'r fath yna, sydd yn ein darostwng ni yn gydstad â gwehilion y byd? Yr oedd yr apostol o ran galluoedd meddwl, ac o ran dysg hefyd, yn abl i gydymdeimlo

â, neu i ddeall teimladau y Groegiaid hyn. Yr oedd yn cofio gydâ pha ddirmyg yr oedd ei ga'on falch ei hun unwaith, yn edrych ar y dynion oeddent yn cyhoeddi yr athrawiaethau yna. Gwyddai ei fod yntau yn wrthddrych yr un dirmyg yn awr. A ydyw hyn ddim yn peri i ti gywilyddio, Paul? Na, "nid oes arnaf gywilydd" cyhoeddi efengyl Crist i'r Groegiaid ffroen-uchel, mwy nag i'r Iuddew rhagfarnllyd. Ond paham? Y mae hyn yn ein harwain at ein hail sylw:—

II. Y rheswm paham nad oedd ar Paul gywilydd o'r efengyl:—"Oblegid gallu Duw yw hi, er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu." Y mae yr apostol fel yn caniatau mai ffolineb ydyw yr efengyl, ac yn cyfarfod yr Iuddew a'r Groegwr ar eu tir eu hunain; ac eto yn ymffrostio ynddi, hyd yn nod yn y fan hono. Fel gweision Naaman, nid ydyw yn ceisio profi fod yr Iorddonen yn fwy enwog nag Abana a Pharpar; ond a gadael bod afonydd Damascus yn fwy enwog na dyfroedd Israel; eto mae yn ymffrostio yn yr Iorddonen er hyn oll, oblegid y mae rhinwedd yn ei dyfroedd hi na ŵyr Abana a Pharpar ddim am dano. Os ydyw yr Iuddewon yn eu rhagfarn yn tramgwyddo, a'r Groegiaid yn eu doethineb yn gwawdio, eto "nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist, oblegid *Gallu Duw* yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu."

1. Y mae hyn yn cynwys ei bod hi yn gyfaddas i wynebu ar bawb:—"iachawdwriaeth i bob un." Gallasai yr apostol eu cyfarfod ar eu tir eu hunain, a dadleu teilyngdod ei genadwri ar bob golygiad. Beth bynag oedd mewn Iuddewiaeth yn ei gwneuthur hi yn deilwng o dderbyniad, yr oedd mwy mewn efengyl. A oedd ei llefariad hi gan angylion yn gosod mawredd arni hi? Mwy ydyw yr efengyl. Traethwyd hi gan Arglwydd yr angylion. A oedd harddwch ei chysegr, gwychder ei hoffeiriaid, ei harch, ei deddf, a'i thrugareddfa, yn ei henwogi? Enwocach ydyw yr efengyl, cysegr yr hon ydyw y nef,—offeiriad yr hon sydd o urdd dragywyddol,—a gorseddfainc ei gras yn annhraethol ragorach na'r arch a'r drugareddfa. Y mae ei gogoniant hi yn llyncu i fyny ogoniant Iuddewiaeth, fel y mae goleuni y sêr yn cael ei ddilëu gan oleuni yr haul. Ni ogoneddwyd Iuddewiaeth, er iddi gael ei gogoneddu, oherwydd y gogoniant tra rhagorol sydd ar yr efengyl.—Pa

beth oedd yn noethineb y Groegiaid yn teilyngu derbyniad? Onid oes mwy yn yr efengyl? Yr oedd rhai o'r gwirioneddau oedd ganddynt hwy yn peri i'r meddwl ymagor ac ymëangu, ac ymgodi graddau oddiar bethau distadlaf y ddaear. Nid ydynt yn deilwng o'u cymharu â gwirioneddau yr efengyl: y mae y rhai hyn yn ddigon mawr i lanw y meddwl, nes peri iddo ddywedyd,—"Digon yw,"—yr hyn ni wnaeth doethineb y byd erioed. Ac yn mhellach, gallesid wrth gyferbynu yr efengyl â chrefydd yr Iuddewon, ac â doethineb y Groegiaid, ymffrostio yn ei chyfaddasrwydd hi i'r byd oll. Hi ydyw yr unig grefydd gyfaddas i'r byd oll a gynygiwyd iddo erioed. Nid oedd Iuddewiaeth ddim yn gyfaddas i fod yn refydd i'r byd, er ei bod hi o darddiad dwyfol. Ni buasai y byd ddim yn gallu esgyn i fyny i'w theml hi; a phe buasai y temlau yn cael eu hamlhau, yr oedd y gwasanaeth yr oedd hi yn ei ofyn yn gyfryw na allesid ei gyflawni yn holl wledydd y ddaear. Ni buasai ei mynych olchiadau ddim yn gyfaddas i Greenland a'r gwledydd gogleddol. Nid oedd yr anifeiliaid a'r adar yr oedd hi yn eu gofyn yn aberthau ddim i'w cael ymhob gwlad. Ac yr oedd doethineb y Groegiaid yn gyfryw nad allasai y werin ddim ei deall; a phe buasent yn ei ddeall, ond odid na buasai hyny yn eu gwneuthur yn anffyddwyr, oblegid yr oedd y doethion yn gyffredin felly. Yr oedd y werin yn addoli am eu bod yn anwybodus, a'r doethion yn addoli er mwyn rhoddi esiampl i'r werin, tra yn eu calon yr oeddent yn anghredinwyr. Yr oedd yr ychydig oeddent yn gydnabyddus â dirgelion eu crefydd, yn eu hanghredu, ac yn eu diystyru; ond yr oedd yn rhaid cuddio y dirgelion hyn o olwg y lliaws;—"cuddiedig bethau cywilydd" oeddent. Ond y mae yr efengyl yn gyfaddas i fod yn grefydd i'r byd oll. Gall holl genhedloedd y ddaear, esgyn i fyny i'w chysegr hi, oblegid y mae yr un faint o ffordd o bob man iddo. Y mae ei haberth hi, trwy yr hwn yr agosheir at Dduw, i'w gael ymhob gwlad. Pe na byddai yno deirw nac ychain,—pe na byddai yno aner dair blwydd, adar y tô, neu golomenod, y mae y gwaed sy ganddi hi i wneuthur cymod dros yr enaid yno. Gellir ymarfer â'i holl osodiadau hi yr un fath yn y pegwn gogleddol ag o dan y cyhydedd. Lle bynag y bydd ysbryd gweddi yn y galon, y mae y fan hono yn

dŷ gweddi iddi hi. Lle bynag y teimla yr enaid duedd i ymostwng, y mae hi yn dywedyd mai yn y fan hono y dylid addoli, pa un bynag ai Jerusalem ai Gerazim a fydd ef. Nid oedd Iuddewiaeth ddim gartref mewn un man ond yn Ngwlad Canaan. Ymhob gwlad arall, yr oedd rhan o bethau hanfodol ei bywyd hi yn niffyg. Yr oedd ei Shibboleth hi yn ei bradychu,—ei lleferydd yn ei chyhuddo ymhob gwlad, mai dieithr oedd hi yno. Ond y mae yr efengyl gartref ymhob man,—ei gwlad hi ydyw y byd. Libanus, Carmel, a Sïon, oedd mynyddoedd cysegredig Iuddewiaeth; Cedron a'r Iorddonen oedd ei dyfroedd sanctaidd hi; ond nid ydyw yr efengyl yn yr ystyriaethau hyn yn adwaen neb na dim yn ol y cnawd. Y mae holl fynyddoedd y byd yn gydstad yn ei golwg hi. Y mae pob afon yr un mor gysegredig iddi hi. Y cwbl sydd angenrheidiol i beri i'w serch hi lynu wrth unrhyw le, ydyw ei fod yn gyfaneddle dynion. Y mae hi yn caru yn gyffelyb ororau oerion Greenland, a bröydd poethion y dwyrain. Gall fyw yn nyffrynoedd yr *Alps*, fel ar gopäau mynyddoedd India.

Eilwaith: yr oedd doethineb y philosophyddion yn anghydweddol â'u crefydd, am hyny teimlent na ddylesid ei draethu wrth y werin, am y buasai yn dileu crefydd, a buasai hyny yn ddinystr i foesoldeb. Ond y mae yr efengyl i'r doethion ac i'r annoethion hefyd. Gallai lanw pen y Groegwr â doethineb, a llanw ei galon â defosiwn yr un foment, yr hyn beth nis gallasai doethineb y byd hwn ei wneuthur; oblegid yr oedd defosiwn yn myned o'r galon yn yr un graddau ag y byddai doethineb yn myned i'r pen. Ond y mae dirgelwch yr efengyl yn ddirgelwch duwioldeb;—yn ddirgelwch sydd yn arwain i addoli; —yn arwain y neb sydd yn ei gredu i ymdebygoli i Dduw. Y mae hi yn gwneuthur y galon yn well, wrth oleuo y pen;—yn tanio y serch, wrth lenwi y deall. Y mae hi yn gwneuthur yr hyn na wnaeth dim erioed o'r blaen,—sef, peri i'r Groegiaid a'r barbariaid, y doethion a'r annoethion, gyd-gyfarfod, cyd-ryfeddu, a chyd-addoli. Yn gyffredin, nid ydyw yr hyn sydd yn rhyfedd i'r annoeth, ddim felly i'r doeth; na'r hyn sydd yn rhyfedd i'r doeth, ddim felly i'r annoeth. Ond dyma beth newydd ar y ddaear,—y doeth a'r an-

noeth yn cyd-ryfeddu uwchben yr efengyl. Y mae hi yn ddyfroedd nofiadwy i'r ddau: y mae hi yn gofyn ffydd yn y naill fel y llall. Er gwendid rheswm yr annoeth, gall ffydd ymaflyd ynddi; ac er nerth rheswm y doeth, nid oes ond ffydd ynddo yntau a all wneyd hyny. Priodol y galwodd Judas hi yn iachawdwriaeth gyffredinol. Gellid ei phregethu hi yn Areopagus, yr un fath ag yn Melita;—ei thystiolaethu hi wrth philosophyddion Athen, yr un fath ag wrth Ismaeliaid Arabia. Y mae hi yn gyfaddas i bob un: i'r Iuddew yn ei deml; i'r athronydd yn ei ysgol; i'r barbariad yn ei goedwig.

2. Nid ydoedd yn cywilyddio o honi, am ei bod hi yn llwyddo ymhob man. "Gallu Duw yw hi, er iachawdwriaeth." Yr oedd wedi gweled diffaethwch moesol y byd yn blodeuo fel rhosyn o dan ei dylanwad hi. Gallasai yr efengyl y pryd hyny rifo ymysg ei disgyblion rai o'r calonau balchaf a fu ar y ddaear erioed;—o'r eneidiau mwyaf a fu mewn cyrff;—a rhai o'r babariaid iselaf ar wyneb y ddaear. A gadael mai ffolineb ydyw,—y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; a gwendid Duw yn gryfach na dynion; oblegid, gwelwch effeithiau y ffolineb yma. Pa beth a wnaeth yn y byd? Onid palmantu y ffordd i gyflawniad y gair hwnw,—"Ar y ddaear, tangnefedd?" "Pa le y mae y doeth? Pa le y mae yr ysgrifenydd? Pa le y mae ymholydd y byd hwn?" Dangosant, os medrant, beth y maent hwy wedi ei wneuthur i'r byd. Pwy a wellâwyd gan eu holl gyfundraethau hwynt? Onid oedd y byd yn gorwedd mewn drygioni, er eu holl ymdrechion? Y mae y rhyfelwr heb ei wneyd yn fab tangnefedd,—y llew heb ei droi yn oen,—y mae calon y barbariad heb ei phuro,—y mae balchder eu mynwesau eu hunain heb ei ladd. Oni wnaeth Duw, trwy yr efengyl, ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd? Trwy gadw y rhai sydd yn credu trwy ffolineb pregethu,—fe daflodd gwmwl oesol arno. Ië, cywilyddio o'r efengyl,—paham? Ai am iddi wneuthur erlidiwr yn weddïwr? Ai am iddi wneuthur philosophydd balch yn Gristion gostyngedig;—gwneuthur y barbariad anifeilaidd yn ddyn pur;—y caethwas i eraill, yn rhydd yn yr Arglwydd;—a'r hwn oedd yn rhydd yn y cnawd, yn gaethwas i Grist? Hi rodiodd drwy y byd oedd yn ddyffryn o esgyrn sychion;—llefarodd nes y bu cynwrf yn

eu plith;—llefarodd eilwaith nes y gwisgwyd hwynt â gïau ac â chnawd; hi lefarodd drachefn nes y buant fyw,—byw i Dduw,—byw i'w gilydd,—byw i dragwyddoldeb. Da y gallasai yr apostol ymffrostio ynddi. Yr oedd hi yn syml iawn; ond yr oedd urddas a mawredd yn ei symlrwydd hi. Yr oedd ei buddugoliaethau hi yn ddistaw, ond yn llwyr. Yr oedd cariad at Dduw, yn amlygu ei hun mewn defosiwn, a chariad at ddyn, mewn cymwynasau, yn gôf-adeiladau o honynt ymhob man. Ni ellir camgymeryd y lle y bu hi; oblegid yr oedd gogoniant i Dduw,—tangnefedd ar y ddaear,—ewyllys da i ddynion,—yn gôf am hyny ymhob man.

3. Nid oedd arno gywilydd o honi, am fod rhyw beth gor-uwchnaturiol yn sicrhau ei llwyddiant hi,—"Gallu Duw." Dyma y dirgelwch,—cuddiad ei chryfder hi. Er ei bod hi yn addas fel corff o wirionedd, er ei bod hi yn cynwys gwirioneddau digon mawrion i dynu sylw y byd, pe na buasai a fynent â'i iachawdwriaeth ef, eto nid yn hyn yr oedd ffydd yr apostol, ac nid ynddo ei hun na'i frodyr ychwaith, er nad y gwaelaf mewn areithyddiaeth ydoedd. Gallasai siarad nes synu Ffestus, a dychrynu Ffelix; gallasai dynu sylw philosophyddion Athen; ac ymresymu mor fedrus yn ysgol Tyrannus, nes caethiwo meddyliau disgyblion yr athronwyr;—eto nid ar hyny yr oedd sylfaen ei wroldeb. Na, "gallu Duw yw hi," hyny yw, y mae gallu Duw yn cyd-fyned â hi, i beri iddi ateb ei diben. Dywedir llawer am gyfaddasrwydd yr efengyl: gwir yw ei bod yn gyfaddas,—fod mawr amryw ddoethineb Duw wedi ei amlygu ynddi; ond,

(1.) Y mae y cyfaddasrwydd sydd ynddi i eisiau y byd yn profi nas gall hi lwyddo heb allu Duw gydâ hi. Nis gallasai fod yn iachawdwriaeth i'r byd, heb ei godi oddiwrth y daearol at y nefol,—heb ei dynu oddiwrtho ei hun at Dduw. Yr oedd yn hanfodol i iachawdwriaeth yr Iuddew, ei ddiddyfnu oddiwrth ei aberthau a'r deml. Yr oedd cyfaddasrwydd yn yr efengyl i wneyd hyn; ond yr oedd hyny yn ddigon o reswm paham na fynai yr Iuddew dalu moment o sylw iddi. Yr oedd yn hanfonol i iachawdwriaeth y Groegwr, ddarostwng uchel-drem ei feddwl. Yr oedd yr efengyl yn gyfaddas i hyny; ond fel gydâ'r Iuddew, yr oedd y cyfaddasrwydd hwn oedd ynddi

yn ei lenwi â rhagfarn yn ei herbyn. Felly am bob dosbarth o ddynion, ac am bob cenedl ar wyneb y ddaear. Cyfaddasrwydd yr efengyl i sefyllfa'r byd oedd y rheswm mawr paham yr oedd yn rhaid cael gallu Duw gyda hi. Yr oedd hi yn ysbeilio'r byd o bob gogoniant,—yn ei osod oll dan farn Duw,—yn tystio nad allai wneyd dim byth at ei gadwedigaeth,—fod yn rhaid iddo ymostwng i gael ei gadw trwy ras. A oedd hyny ddim yn wir? Oedd; ond am ei fod yn wirionedd, yr oedd y byd yn codi mewn arfau yn ei erbyn. Nid oedd ond gallu Duw a allasai beri iddo dderbyn y fath wirionedd.

2. Yr oedd yr hyn a wnaethai hi yn y byd yn brawf fod gallu Duw gyda hi. Pe medrem yn awr ddilyn ei llwybr drwy'r byd, ni a gaem olwg ar hyn. Y mae hi yn dechreu yn Jerusalem, amddiffynfa rhagfarn a balchder. Dyna Pedr yn ei chyhoeddi yn ddiaddurn iawn yn y deml. Dyna olygfa na welwyd dim o'i bath dan haul o'r blaen! Cuddied areithwyr Groeg a Rhufain eu penau mewn cywilydd: ni ddarfu i'w holl ffraethineb hwynt erioed gynyrchu y fath effaith! Beth sydd yn ei achosi? Ai hyawdledd Pedr? Nagê, gwr anllythyrenog ydyw. "Gallu Duw yw hi." Ewch i waered gydâ Phylip i Samaria;—neu, dilynwch Pedr i dŷ Cornelius;—neu amgylchwch o Jerusalem i Ilyricum gydâ Phaul;—dyna ragfarn y Samariaid yn diflanu o flaen geiriau Phylip,—paham? "Gallu Duw yw hi." Dyna y cenhedloedd yn nhŷ Cornelius yn dechreu llefaru â thafodau a mawrygu Duw,—paham? "Gallu Duw yw hi." Dyna liaws mawr o'r Iuddewon ac o'r Groegiaid yn credu yn Iconium,—yn Philippi,—yn Thessalonica, yn Athen, yn Corinth,—paham? "Gallu Duw yw hi." Yr oedd swyn y deml, a *phomp* y seremoniau, yn myned ymhell o blaid Iuddewiaeth; yr oedd hi hefyd wedi ei chysylltu â bendithion tymhorol. Yr oedd llygredigaeth a chnawdolrwydd paganiaeth yn denu yr addolwyr. Ond dyma grefydd yn llwyddo heb deml, heb *bomp*, heb seremoniau, heb hyawdledd,—paham? "Gallu Duw yw hi." Y mae ei hathrawiaethau hi yn ymadroddion celyd i gnawd; y mae ei gwobrau hi tuhwnt i allu llygad dyn eu canfod. Y mae hi yn gorchymyn aberthu y presenol i'r dyfodol; ei harwyddair hi ydyw:—"Gwerth yr hyn oll sy genyt, a thi a gei drysor yn y nef." Pa fodd y

gellir cyfrif amlwyddiant crefydd fel yma?" Gallu Duw yw hi."

Oddiwrth y gwirioneddau hyn ni a dynwn ddau sylw ymarferol:—

1. Gan mai gallu Duw ydyw yr efengyl, nid oes arnom ninau ddim cywilydd o honi. Y mae y cymeriadau yr oedd yr Iuddew a'r Groegwr yn eu cynrychioli i'w cael yn ein plith ninau. Y mae gan un galon dda, y mae gan y llall ben goleu. Nid oes ar y naill angen am ei ail-eni,—y cyfnewidiad calon y sonia ein hefengyl am dano; y mae y llall yn cyfrif ein dirgelion ni yn ynfydrwydd. Y mae yn edrych arnom fel yr edrychai y Groegiaid ar yr apostol, yn ffyliaid am eu cyhoeddi. Nid ydyw yn gweled ond dyn yn Iesu o Nazareth;—llais dyn y mae yn ei glywed ar làn bedd Lazarus;—marwolaeth dyn y mae yn ei ganfod ar y groes. Geiriau dyn ydyw ei eiriau; gweithredoedd dyn ydyw ei weithredoedd; awdurdod wedi ei rhoddi i ddynion ydyw pob awdurdod sy ganddo. Y mae sancteiddrwydd ffugiol yr Iuddew, a gwawd balch y Groegwr, yn tueddu i'n hatal i draethu yr holl Gyngor;—i ddywedyd wrth y naill,—"Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;" ac wrth y llall,—"Oddieithr eich troi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd:"—Dywedyd wrth y naill, fod yn rhaid iddo ddiosg y wisg yna y mae yn *ymlapio* ynddi, ac ymostwng i dderbyn am ddim wisg y briodas, o law y brenin sydd wedi darparu y wledd, onide nid ä i mewn:—dywedyd wrth y llall, fod yn rhaid iddo ddisgyn o gymylau balchder, ac eistedd fel plentyn wrth draed yr Iesu, gan dderbyn ei eiriau o'i enau, heb ameu dim;—fod yn rhaid iddo aberthu ei anwylyd, sef ei reswm, ar allor yr efengyl, fel yr aberthodd Abraham ei fab;—fod yn rhaid i reswm, oedd yn frenin arno, ac yn frenin o'i genedl ef, roddi i fyny yr orsedd i ffydd, yr hon sydd yn enedigol o wlad arall. Ond er ei bod hi yn ddieithr, wrth ei gair hi y mae pob peth i gael ei wneuthur;—hi sydd i benderfynu beth a gaiff ddyfod i mewn, a pha beth a gaiff ei gadw allan. Os dywed hi y gall Un fod yn Dri, a Thri yn Un;—y gall Person Dwyfol ymuno â natur ddynol;—y gall Mab Duw farw, ac adgyfodi; ni feiddia neb ei gwrthddywedyd hi. Pan egyr hi y drws i ryw wirioneddau, nid oes gan reswm

na neb hawl i'w gau. Gwnant eu cartref yn yr enaid,—ymnyddant o amgylch y serchiadau,—plygant yr ewyllys i'w ffurf ei hun. Ac yn mhellach, hi orfoda yr hen frenin, sef y rheswm, i ymgrymu hyd y llawr iddynt. Ffolineb, medd yr Iuddew; ynfydrwydd, medd y Groegwr. Bydded felly; eto nid oes arnom gywilydd o'r efengyl, oblegid "gallu Duw yw hi." Pe ar hyawdledd, dysg, a gwybodaeth, y buasai ein llwyddiant ni yn ymddibynu, ni a anobeithiem am hyny. Ni fedrwn ni ddim gobeitho pregethu fel rhai o'n tadau:—ni feddwn dân eu heneidiau;—tafod y dysgedig oedd ganddynt, ni feddwn ni ddim o hono. Ni fedrwn sefyll ar Ebal, a tharanu y bygythion, ac ar Sinai, a pheri i'r mynydd fygu, fel hwynt. Nid ydym mor hyddysg ar ganiadau Sïon ychwaith; er bod y delyn genym, y mae ein deheulaw ni yn bur anfedrus, ar y tanau. Nis gallwn eich arwain ychwaith i Gethsemane a'r llys, ac oddiyno at y groes, a'ch gorfodi chwi i aros nes gweled y diwedd, fel y medrai aml un o honynt hwy. A phe byddai ein llwyddiant ni yn ymddibynu ar ein medr i wneuthur y pethau hyn, ni a ddisgynem i lawr o'r pulpud y foment hon, i beidio esgyn iddo yn dragywydd mwy. Ond nid ar hyny y mae yn ymddibynu; ac nid ar eu medr yr oedd eu llwyddiant hwynt yn ymddibynu;—na, yn Nuw yr oedd eu nerth, nid ynddynt eu hunain. Babanod ydyw llawer o honom ni yn awr. Y mae ymholydd y byd hwn, y doeth, a'r ysgrifenydd, yn barod i'n gwawdio ni; ond y mae ein Duw ni yn perffeithio nerth o enau plant bychain, a rhai yn sugno. Os ydyw presenoldeb y corff yn wan, a'r ymadrodd yn ddirmygus, nid ydyw yn ofer bob amser;—"nerthol trwy Dduw." Pell oddiwrthym fyddai cyfiawnhau diogi yn yr offerynau: yr ydym yn annheilwng o'n swydd, os nad ydym yn ein perffeithio ein hunain hyd y mae ynom fel offerynau; ond er hyn, buasem yn anobeithio am lwyddiant, oni bai fod genym ryw un i ymddiried ynddo heblaw yr offeryn. Byddai ein gwaith ni yn berffeithrwydd ffolineb ar bob golygiad, ond golygiad y testyn. Yr ydym yn ymryson â nerthoedd y byd hwn, ac ni bu erioed ymrysonfa yn fwy anghyfartal. Y mae y pethau sy genym i'w cymell yn ysbrydol ac yn anweledig. Y mae y gwobrau yr ydym yn eu cyhoeddi y tuhwnt i'r llen; y distryw yr ydym yn ei fygwth, y

mae tô arno; nis gallwn ei ddangos. Yr ydym yn cymell i'r winllan; ond wedi gorphen y gwaith y mae'r tâl, tra y mae y pethau yr ydym yn ymryson â hwynt â'u gwobrau wrth law. Y maent yn talu am y gwaith bob dydd. Nid oes genym ond un dydd o saith at yr ymrysonfa; y mae y gelynion yn cael chwe' diwrnod i barotoi, a phob seithfed yr ydym yn ymosod arnynt. Y mae Satan yn gallu dangos teyrnasoedd y byd a'u gogoniant i galonogi ei filwyr yn y gwasanaeth, tra yr ydym ni yn gorfod cyfeirio yn bell, bell, at fryniau tragywyddoldeb, y rhai sy mor bell nad all ond llygad ffydd eu gweled. A phe na buasai genym rywbeth y tuhwnt i gylch natur i syrthio yn ol arno, buasai yr anghyfartalwch sy rhyngom, yr anfanteision yr ydym yn llafurio danynt, wedi peri i ni oll adael y maes er's talm. Ond er bod gan Satan chwe' diwrnod am un i ni,—er bod ganddo arian parod i dalu i'w filwyr,—eto yr ydym yn meiddio i'r maes, oblegid "gallu Duw yw hi." Y mae diffyg gweithredu yn ol hyn yn gwneuthur y mawr ddrwg i ni. Yr ydym fel Martha yn edrych ar y marw, yn lle ar yr adgyfodiad;—yn credu trueni y byd, yn lle credu gallu Duw. Hon ydyw ein harch ni: ni a goncrwn y Philistiaid tra y bydd hon ar y maes. Y mae Duw trwy yr efengyl yn dywedyd wrthym, fel y dywedodd yr Arglwydd Iesu wrth y dyn hwnw,—"Os gelli di gredu, pob peth a all fod i'r neb a gredo." A phe ymddiriedem ni fwy yn Nuw, ni a gaem ei folianu Ef eto am iachdwriaeth ei wynebpryd. A diau ydyw mai diffyg ymddibyniad mwy llwyr ar Dduw ydyw yr atalfa fawr sydd ar ffordd llwyddiant yr efengyl. Y mae y *frame-work* genym: feallai ein bod ni yn boddloni ar hyny. Y mae y pibellau genym: rhy ychydig o ofal sydd, a ydyw yr olew euraidd yn dyfod drwyddynt. Pryd nad oedd dim *frame-work* gan yr efengyl yn nyddiau yr apostolion, ac yn nyddiau diwygwyr Cymru, yr oedd hi yn rhedeg, ac yn cael gogonedd. Ei chapel hi oedd y maes neu lethr y mynydd; ei phulpud hi oedd telpyn o graig, neu foncyff o bren; ond O! y fath addurniadau prydferth fyddai ar y gynulleidfa, sef calon ddrylliog, a llygaid yn ffynonau o ddagrau. Y mae hi wedi cyfnewid yn awr:—yn lle pulpud o graig, y mae genym ni rai o'r cedrwydd, a choed gwerthfawr; ac y mae y graig, yn lle bod dan draed y pregethwr, yn awr yn

nghalonau y gwrandawyr; ond yn wir, ni a newidiem gydâ chalon lawen,—ni a gymerem eu pulpudau oerion hwynt dan ganu, pe caem ni eu cynulleidfaoedd poethion hwynt hefyd. Yr oedd hyny o ddisgyblion oedd ganddi, fel Stephan, yn llawn o ffydd; am hyny yr oedd hi yn eangu ei therfynau bob dydd. Yr ydym ninau wedi cael gosod ein traed i lawr yn y tir;—cael eistedd dan ein gwinwydden a'n ffigysbren;—y mae y *frame-work* wedi ei osod i fyny, ond y mae yn farw i raddau mawr. Beth sydd yn eisiau, ai ei dynu i lawr, amyned i'r meusydd eto? Nage; ond peidio ymddiried ynddo;—peidio ymddiried mwy i'r offeryn yn yr adeilad hardd, nag yr oedd ein tadau yn ei wneyd yn y meusydd;—teimlo na fedrwn ni wneuthur dim ein hunain yma, mwy nag y medrent hwy yno. Yr hyn sydd arnom ei eisiau ydyw gallu dwyfol i wneuthur y *frame-work* yn fyw,—i roddi enaid yn ein mawl,—ysbryd yn ein gweddi,—tân yn ein pregethau, i beri fod ein geiriau fel hoelion wedi ei sicrhau gan Feistr ein cynulleidfa.

2. Gan mai gallu Duw ydyw yr efengyl, nac anobeithiwch. Gwyliwch ryfygu: y mae eich cyflwr yn anobeithiol i bob peth ond efengyl. Fel yr ysbryd gwendid hwnw, pe treuliech chwi gymaint ar a feddech ar feddygon, ni fedrech mewn modd yn y byd ymuniawnu. Fel gwahanglwyf Naaman y Syriad, pe deuai holl ddoethion y byd i roddi eu llaw ar y fan, yno y byddai y gwahanglwyf wedyn. Er ymolchi yn nyfroedd yr Iorddonen, ac yn ffrydiau cysegredig y Ganges; y mae yr ystaen yn aros. Er gwneuthur pererindod i Mecca, a phrofi holl gynghorion anffyddwyr, y mae y pla yn parhau. Ond dyma beth a gyfyd yr ystaen,—a wellâ y pla,—"Gallu Duw ydyw hi er iachawdwriaeth." Os oes yma ryw un mewn pryder ynghylch ei gyflwr,—wedi ei weled yn ngoleuni deddf,—ond heb gael tangnefedd drwy gredu, wrth y cyfryw, ni a ddywedwn,—Mentrwch y drefn: "gallu Duw yw hi." Gall fod yma eraill â'u calonau yn drymion oherwydd annuwioldeb eu perthynasau; y maent yn barod i roddi i fyny bob ymdrech, ac i laesu eu dwylaw mewn anobaith;—wrth y cyfryw y dywedwn,—"Bydded genych ffydd yn Nuw," "oblegid gallu Duw yw hi." Y mae hi wedi achub pob math a'r ddyn. Pe byddai y rhai yr ydych yn wylo drostynt, yn ymdrabaeddu yn y

pechodau mwyaf anifeilaidd, fel barbariaid y byd ;—yn atheistiaid fel yr Ephesiaid ;—neu yn addolwyr pechod fel y Corinthiaid ;—eto y mae gobaith, am mai "gallu Duw yw hi." Hi a burodd fynwes y barbariaid; hi a lanwodd galon yr Ephesiaid â defosiwn, ac a olchodd y Corinthiaid aflan ; a'r hyn a wnaeth unwaith, gall ei wneyd eto ; oblegid ni flina ac ni ddiffygia Duw tragywyddoldeb.

Gwyliwch ryfygu. Y mae canoedd yn sugno gwenwyn marwol iddynt eu hunain o'r gwirionedd hwn : mynant gyfarwyddo Ysbryd yr Arglwydd ; os na weithia yn ol y cynllun sydd yn eu meddwl hwy, gwrthodant ei waith. Y maent, fel Naaman y Syriad, wedi penderfynu yn flaenorol ar y dull ymha un y mae y prophwyd i wellâu y gwahanglwyf. Y mae yn rhaid cael rhwysg a mawredd o amgylch y peth. Y maent yn disgwyl am dafodau gwahanedig o dân i ymddangos,—llais o'r nefoedd yn seinio,—neu wynt nerthol yn rhuthro ; ond yn lle y pethau mawrion hyn, anfon rhyw genad distadl y mae y prophwyd,—llais gwanaidd yn y galon yn dywedyd,—Dos, ac ymolch yn yr Iorddonen, a thi a lanheir,—Dos, proffesa Fab Duw,—cred ynddo,—a chadwedig a fyddi. Ond y mae canoedd yn ein cynulleidfaoedd yn ymddigio wrth hyn, fel y Naaman hwnw : nis mynant eu meddyginiaethu, os na chânt hyny yn eu ffordd eu hunain. Gwylia ryfygu,—Duw ydyw. Y mae yn rhaid iddo gael ei ffordd ei hun. Ac os dywed Ef eto yn y llais mwyaf gwanaidd, gwylia anufuddhau, rhag na lefara Efe mwy. Yr hyn oll a ddywed Efe wrthyt,—Gwna : oblegid fel y mae yn rhydd i weithredu fel y gwêl yn dda, y mae yn rhydd i dewi hefyd pryd y gwêl yn dda.

[Boreu Sadwrn, Ionawr 15, 1848.]

DIWEDD CYFROL I.

LIBR
14
JU
1976
SITY
OF TORONTO

Dolgellau
Argraffwyd gan D. H. Jones.

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY